Celt 131.50

HARVARD COLLEGE LIBRARY
FROM
Paul D. Evans

Y

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## Gyfrwng Gwybodaeth i Hil Gomer

## YN AMERICA:

YN CYNNWYS

## TRAETHODAU. BYWGRAFFIADAU,

AMRYWIAETH, BARDDONIAETH,

YNGHYD A

## CHRYNHODEB O HANESIAETH GYFFREDINOL.

A GYHOEDDIR YN FISOL YN POTTSVILLE, PA., GAN R. EDWARDS.

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRANDY."

## CYFROL VIII—1851.

POTTSVILLE:

ARGRAFFWYD GAN Y CYHOEDDWR, YN SWYDDFA Y "MINING REGISTER,"

1851.

Celt 131.50

HARVARD COLLEGE
OCT 19 1915
LIBRARY
Gift of
Paul D. Evans

19 1916

# CYNNWYSIAD.


Tu dal.

Adnabyddiaeth bersonol mewn sefyllfa ddyfodol, . . . . 12
Am bechod gwreiddiol, . . . 14
Anerchiad i'r Seren Orllewinol . 18
Achos Caethwas Ffoedig yn Philadelphia, 21
Ar farwolaeth y Parch Christmas Evans, 30
Amrywion, 35, 36. 81, 82, 116, 117, 135, 152, 153, 154, 155, 245, 246, 247, 270, 249
Alarwm i ddeffro y dynion sydd yn cysgu yn y cwrdd, . . . 32
Arian ffugiol, . . . . . . 50
Addysgiadau wedi eu tynu o Rhuf. viii. 53
Anrheg i Evan Harris, Carbondale, 63
Anerchiad i Geiliog yn canu, . 70
" i Olygydd y Seren a'i briod, 70
" i Ann Hughes, New York, 129
" at Gymry yr Unol Dalaethau, o barth Cofgolofn Washington, 93
Argraffu â dwfr, . . . . . 92
Agoriad addoldy yn Bloomsburg, . 71
Ar enedigaeth Daniel, mab Griffith a Mary Richards, . . . . . . 70
Anwybodaeth, . . . . . 113
Addoldy y Bedyddwyr Cymreig yn New York, . . . . . 117
Adfywiadau crefyddol, . . . 118, 290
Anerchiad i'r Parch. Thos. Roberts ar ei gychwyniad i America, . . . 170
Aberdare—Y Seintiau a'r Bedyddwyr, 197
Achos y Bedyddwyr yn Summit Hill a Tamaqua, . . . . . 200
Awgrym i dyddynwyr talaeth Caerefrog Newydd, . . . . . 250
Ar farwolaeth J. H. Jones, . 266
Amddiffyniad Dic Shon Dafydd yn y Cyfaill, . . . . . 263
Bedyddwyr yr Unol Dalaethau, . 151
Beirniadaeth Ysgrythyrol ar Math. xi. 11. 149
Eto, . . . . . . 211
Bedd-argraff Dafydd Ionawr, . . 282
Bedydd y Seintiau yn Aberdare, . 197
Blwyddyn newydd, . . . . . 19
Byr-gofiant Margaret Lloyd, . 10
Bedydd a chorffoliad eglwys yn Dodgeville, Wis., . . . . . 22
Cydnabyddiaeth y Casglwr, . 271
Cyfieithad newydd o'r Hen Feibl, . 271
Cenhadwri y Llywydd Fillmore, 15
Cynghor Argl. Chatham i'w fab, . 268
Cwyn y Weddw, . . . 266
Cylchrediad y Gwaed, . . . 250
Cân ar ol croesi'r Atlantic, . 283
Carchar newydd swydd Schuylkill, 198
Cyfansoddiadau y Cadeirdraw J. Bryan, 197
Caru y byd, . . . . . 183
Cwyn yr aur yn nghod y Cybydd, 184
Cyfarfod trimisol, . 58, 116, 175
Corffoliad eglwys yn Dunmore, . 176
" " yn Pittston Ferry, 150
Cymeradwyaeth i'r Meddyg D. S. Speare, 177
Cymeradwyaeth Ddirwestol, . 176
Cymry Bradford a Chofgolofn Washington, 176
Cyfrifon Americanaidd, . . . 15

Tu dal.

Cofiant Jacob Rosser, . . . . 149
" John Rowe, . . . 115
" Benjamin Evans, . . . 45
" Thos. Elias, . . . . 46
" Enoch Morgan, . . . . 48
Cymdeithas Haelionus Dewi Sant, 117
Cyfarfodydd yn achos Cofgolofn Washington, . . . 114, 115
Cwyn y Cyfaill, . . . . 106
Cyfarchiad J. F. Berg, D. D., 37, 66, 82
Carbondale yn ddinas, . . . 93
Cymdeithas Ddirwestol Dunmore, 62
Cyfiawnder ymarferol, . . . 36
Claddu ar y Sabboth. . . . 26
Cyfarchiad Cymdeithas Cyfaill yr Ymfudwyr, . . . . . 14
Cynghor eglwysig, . . . 44
Cynhadledd Ddirwestolswydd Schuylkill, 225
Cynghorion buddiol, . . . 179
California, . . . . . 179
Cymdeithas Wrthgaethiwol Newark, O., 224
Cân y Cymro wrth ymadael â'i wlad, 290
Casgliadau at eglwys y Wesleyaid Cymreig yn Utica, . . . . 227
Dameg y Wadd a'r Hedydd, . . 259
Dirwest yn Nghaerefrog Newydd, 270
" yn Swydd Luzerne, Pa.. . 70
Damweiniau, . . 151, 178, 249
Dirwestwyr mewn Ysgol Sul, . 198
Darganfyddiad yn yr Aifft, . . 269
Dic Shon Dafydd yr Ail, . . 172
Dyledswyddau esgobion, . . . 167
Diolchgarwch i T. Tomkins, Pittsburg, 159
Dai y Cardotwr, . . . . 31
Dychymyg, . . . . . 43, 155
Edifeirwch pan yn rhy ddiweddar . 258
Eistedd wrth weddio, . . . 259
Enaid a chorff y duwiol yn ymddyddan â'u gilydd yn yr adgyfodiad, . 33
Englynion i'r mwnwyr, . . . 148
" i E. D. Thomas, Ebensburg, 152
Ffolineb Ifan Gyffylog, . . 171
Gofyniadau, 26, 72, 96, 155, 200, 247
Gwrthryfel Cuba, . . . . 219
Gweddi Agoriadol Arddangosiad mawr Llundain, . . . 159
Glo tramor, . . . . . 50
Gemau crefyddol, . . . . 81
Gweithred erchyll, . . . . 151
Galargan, . . . . . . 58
Genedigaethau, 23, 48, 71, 96, 119, 154, 179, 201, 226, 273
Gwahoddiad i T. Tomkins, . . 78
Hunan-amddiffyniad Eleazer Jones, . 9
Helyntion ymfudawl, . . 68, 98
Hanes y Berthlwyd, . . . 101
Holiadau ac Atebion ar Fedydd, . 111
Hanesyn digrif, . . . . 152
Hanes yr Eglwys Gristionogol, 130, 164, 187, 212, 236, 269, 283
Holwyddoreg ar enedigaeth Crist, 231, 255
Hanesyn am Patrick Henry, . . 268
Jenny Lind, . . . 23 177

| | Tu dal. |
|---|---|
| I'r Aradr, | 211 |
| John B. Trevor, | 46 |
| Jenny Lind yn Hartford, | 196 |
| Llafur Ysgol Sabbothol Ebenezer, Coalport, O., | 63, 198 |
| Llofruddiaeth yn swydd Bradford, Pa. | 151 |
| Lledrad yn Nghaerefrog-Newydd, | 117 |
| Llythyr o Wisconsin, | 90 |
| Llythyr o California, | 16, 35, 60 |
| Llenyddiaeth y Bedyddwyr, | 69 |
| Llywodraethfa Pennsylvania, | 43 |
| Myfyrdod ar yr adgyfodiad, | 29 |
| Meddyginiaeth rhag y Plâ, | 7 |
| Meddyginiaeth—Homœopathy, | 269 |
| Meddyginiaeth rhag Gwenwyn, | 270 |
| Merch ieuangc wedi dysgu argraffu, | 246 |
| Meddwdod ac anghymmedroldeb yn Swydd Schuylkill, | 244 |
| Minersville, Pa., | 201 |
| Marwolaeth trwy enwaedu, | 212 |
| Malldod y Cloron, | 119 |
| Meddwdod, | 81 |
| Marwolaethau, | 49, 71. 95, 119, 179, 201, 226, 248, 273 |
| Noddfa y Cristion, | 282 |
| Nis gellir diangc rhag gofid, | 225 |
| Preswylfod gair Crist, | 35 |
| Pregeth anfuddiol, | 232 |
| Pittston, Pa., | 224 |
| Pregeth gan D. Jones, Caerffili, | 207 |
| Pryddestawd ar Longddrylliad Dynoliaeth. | 87, 112, 140, 174, 195, 222 |
| Pennillion detholedig o Farwnad y Parch. T. Jones, Rhydwilym, | 163 |
| Politics a Chrefydd, | 5, 77, 125 |
| Poblogaeth yr Unol Dalaethau, | 118 |
| Pwy yw fy mrawd? | 80 |
| Pabyddiaeth, | 38 |
| Proffwyd tlawd, | 32 |
| Pregethwr teithiol a Diacon, | 82 |
| Priodasau, | 23, 71, 95, 119, 154, 178, 201, 226, 248, 273 |
| Parodi, | 23 |
| Peroriaeth—"Gwel yr Adeilad," | 24 |
| Pennillion Cymraeg a Saesnaeg ar yr un, | 24 |
| Peroriaeth—Hiraeth y Bardd am ei wlad, | 124 |
| Pennillion ar yr un, | 124 |
| Rhesymau y Parch. Robt. Hall ar Gymundeb eglwysig yn cael eu hystyried, | 102, 127, 159, 207 |
| Rheilffordd Philadelphia a Pottsville, | 43 |
| Rhybudd cyhoeddus—cyfraith a threfn, | 220 |
| Rhybudd i ferched, | 221 |
| Rheswm a Greddf, | 185 |
| Rheilffordd Panama, | 116 |
| Seren Gobaith, | 65 |
| Sefyllfa Foesol Dynolryw, | 57 |
| Swyddfeydd Dyogelu bywydau, | 19 |
| Sefyllfa y byd yn amser ymddangosiad y Gwaredwr, | 281 |
| Sylw ar atebiad Llewelyn, | 120 |
| Symudiad gweinidogion, | 177 |
| 'Sit y'ch ch'i? | 244 |
| Tân arswydus yn Buffalo, | 270 |
| Terfysg a Llofruddiaeth yn Christiana, | 249 |
| Talwch gludiad eich llythyrau, | 235 |
| Twyllo ymfudwyr, | 323 |
| Trioedd newyddion, | 56 |
| Tân yn Utica, | 50 |
| Tân yn San Francisco, &c. | 179 |
| Ugain o Ddiarebion, | 220 |
| Widowed Inebriate's Lament, | 60 |
| Welsh Creek, Ill., | 91 |
| Y Cymry a'r Gofgolofn genedlaethol, | 61 |
| Y Parch. Ebenezer Edwards, | 69 |
| Y Wlad y'm ganwyd, | 11 |
| Y Weddw helbulus, | 18 |
| Yr Archesgob Hughes ar Gwymp Protestaniaeth, | 20 |
| Y Gyngborfa Americanaidd, | 20 |
| Y Cadeirdraw Bryan, Philadelphia, | 21 |
| Yr Oferddyn, | 36 |
| Yr Eglwys yn yr Iwerddon, | 37 |
| Ymfudiaeth i Oregon, | 42 |
| Yr amser gynt, | 42 |
| Y Fasnach Lo, | 43, 154, 267 |
| Ysgrif Bostswyddfaol newydd, | 48 |
| Ychydig bennillion o glod i Mr. Llewelyn Llewelyn, Telynwr, | 68 |
| Yr Affrican a'r Llew, | 54 |
| Y tybaco, | 81 |
| Yr enw Jones yn uchaf, | 82 |
| Y Gyngborfa ddiweddaf, | 92 |
| Yr etholiadau yn nhalaeth Caerefrog-Newydd, | 92 |
| Ysgol Sabbothol a Chyfarfodydd Cymreig Rattling Run a Yellow Spring, Pa., | 93 |
| Y Spiritual Knockings, | 93 |
| Yr archollion a'r feddyginiaeth, | 105 |
| Y Deuddeg Apostol, | 109 |
| Y Feibl Gymdeithas, | 116 |
| Yr Iechawdwriaeth, | 129 |
| Yr Areithfa—Llinellau i'w cyfieithu, | 139 |
| Ymweliad â Rattling Run a Yellow Spring, Pa., | 141 |
| Y Welsh Yankee, | 59, 91 |
| Y Tafarndai a'r Sabboth, | 152 |
| Y Cylchwyliau crefyddol, | 153 |
| Y Llywydd Fillmore, | 154 |
| Y Mormoniaid yn Beaver Island, | 171 |
| Y Bedyddwyr yn Winebago, Wis., | 173 |
| Y diweddar Barch. J. Price, | 195 |
| Ymladdfa waedlyd, | 196 |
| Y Bedwerydd o Orphenhaf, 1851, | 196 |
| Y ddadl rhwng Llewelyn a J. Thomas, | 196 |
| Y Gofgolofn yn Summit Hill, | 197 |
| Yr Archesgob Hughes, | 202 |
| Y Cholera, | 221 |
| Y Giniaw i'r Archesgob Hughes, | 219 |
| Yr erledigaeth yn Sweden, | 219 |
| Y Wraig Gecrus, | 208 |
| Y Trydan, | 208 |
| Y Meddwyn, | 234 |
| Y rheswm paham y mae dyn yn teimlo cyn lleied o barch i Dduw, | 232 |
| Y Bardd i'w ardd ei hun ganol Mai, | 243 |
| Y Tân-ddiffoddydd—Dyfais newydd, | 244 |
| Ymfudiad, | 250 |
| Yr Efengyl y Trysor goreu, | 257 |
| Y Presbiteriaid yn Pennsylvania, | 263 |
| Y Tad Mathew, | 269 |
| Y Meddyg Teulnaidd—Adolygiad y Wasg, | 273 |
| Y Byd, | 282 |


HANESIAETH DARMOR.

Crynhodeb o hanes gwahanol wledydd yn niwedd pob rhifyn.

Celt 131.50

"NI WNA ADDYSG NI DDYSG NI WNA'N DY."

Harvard College Library
Oct 1 191
Pottsville, Y.

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] IONAWR, 1851. [RHIF. 79.

CYNNWYSIAD.

YR ARDEB.

Y Parch. A. D. Gillette, Philadelphia, - - 4
Sylw ar yr un, - - tud. 2 ar yr amlen.

Politics a chrefydd, - - - - - 5
Meddyginiaeth rhag y plâ, - - - - 7
Hunan-Amddiffyniad Mr. Eleazer Jones, - 9
Byr-gofiant Margaret Lloyd, - - - 10
"Y Wlad y'm ganwyd"—a Song. - - 11
Adnabyddiaeth Bersonol mewn sefyllfa ddyfodol, 12
Am Bechod Gwreiddiol, - - - - 13
Cyfarchiad Cymdeithas Cyfaill yr Ymfudwyr yn Liverpool, - - - - - 14
Cyfrifon Americanaidd—Talaethau Chwyldroadol, Brwydrau y Chwyldroad, Arian Cyfandirol, 15
Cenhadwri y Llywydd Fillmore, - - - 15
Llythyr o California, - - - - 16
Anerchiad i'r Seren Orllewinol, - - 18
Y Weddw Helbulus, - - - - - 18
Cafodydd rhyfeddol o genllysg, - - - 19
Blwyddyn newydd eto, - - - - 19
Swyddfeydd Dyogelu Bywydau, - - 19
Cyfarfod Cyhoeddus yn Freedom, Cattaraugus, 20
Yr Archesgob Hughes ar Gwymp Protestaniaeth, 20
Y Gynghorfa Americanaidd, - - - 20
Achos Caethwas Ffoedig yn Philadelphia, 21
Y Cadeirdraw Bryan, Philadelphia, - - 21
Agoriad Addoldy yn Dodgeville, Wis., - - 22
Bedydd a Chorffoliad Eglwys yn Dodgeville, 22
Jenny Lind, - - - - - - - 23
Parodi, - - - - - - 23
*Genedigaethau,* - - - - - - - 23
*Priodasau,* - - - - - - - 23
PEROriaeth—Y Dôn Gymreig "Gwel yr Adeilad," 24
Pennillion Cymraeg a Saesnaeg ar yr un, 24
Claddu ar y Sabboth, - - - - - 26
*Gofyniadau,* - - - - - - - - - 26

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. - - - 26
Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain—Esgob Llundain a'r Pab, - - - - - 26
Prwsia ac Awstria, - - - - - 26
Denmarc a'r Duciaethau, - - - - 27
Hesse Cassel, - - - - - - - 27
Ffraingc, - - - - - - - - 27
*Tywysogaeth Cymru.*—Pabyddiaeth, - - 27
" " Cydgerdd Gysegredig, 27
" " Blaenafon, - - - 28
" " Felinfoel, - - - 28
" " Aberdare, - - - 28
" " Horeb, Cwmdwr, - - 28
" " Paran, - - 28
" " Llangadog, - - - 28
" " Aberteifi, - - - 28
" " Symudiadau, - - 28
" " Neillduad Gweinidogion, 28
" " *Priodasau a Marwolaethau,* 28

POTTSVILLE:

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# SYLW O BARTH YR ARDEB.

### Y PARCH. A. D. GILLETTE, *Gweinidog 11eg Eglwys y Bedyddwyr yn Philadelphia.*

Gan fod enw y gwr dysgedig a duwiol uchod mor adnabyddus i gyfeillion sefydliadau haelionus y wlad hon, ac yn enwedig i holl ddarllenwyr hanes cymdeithasau crefyddol y Bedyddwyr, barnwn y bydd yr Ardeb hardd a rhagorol hwn o hono yn dra derbyniol gan y rhan luosocaf beth bynag o'n derbynwyr. Y mae ei gymwysderau gweinidogaethol, ei allnoedd fel pregethwr, yngbyd a'i duedd hael a charedig, a'i barodrwydd i gynnorthwyo pob achos da, wedi ei godi i rhes dynion enwocaf yr oes hon yn nghyfrif y cyhoedd. "Parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus."

Ganwyd Mr. Gillette yn Cambridge, swydd Washington, C. N., Medi 8fed, 1809; ei dad oedd feddyg o gryn enwogrwydd, ac a ddeilliai o deulu cyfrifol o'r un enw, y rhai a ffoisant i'r wlad hon o Ffraingc o herwydd erledigaeth Babaidd. Bedyddiwyd ef pan yn 18 oed; dechreuodd bregethu o gylch ugain oed; treuliodd y tymhor arferol yn ngholeg Hamilton; urddwyd ef i'r swydd weinidogaethol yn ddwy-ar-hugain oed yn Schenectady, a bu yn dra llwyddiannus yn ei weinidogaeth yno; derbyniodd fanteision dysgeidiaeth yn helaethach yn Union College, dan lywyddiaeth Dr. Nott, lle y graddiwyd ef yn A. M. Yn 1835 derbyniodd alwad i gymeryd gofal eglwys y Bedyddwyr yn Sansom-street, Philadelphia; ac wedi ei bugeilio yn ffyddlon am dair blynedd, ffurfiwyd ei eglwys bresennol, yr hon sydd yn awr yn cyfrif dros bump cant o aelodau. Mae wedi bod yn dra llwyddiannus yn y gwahanol fanau i ychwanegu yr eglwysi. I Dduw y byddo y gogoniant.

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞Derbyniwyd yn ystod y mis y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Gohebiaethau, gan D. P. Williams, Caerefrog-Newydd; T. D. Jones, P——; Wm. James, Carbondale; John D. Jones, a J. James, Cattaraugus; W. Williams, neu D. J. Phillips, Pomeroy; W. R. Jones, Dunmore, (rhy ddiweddar); Titus Davies, Newark, Ohio; J. L, &c.

☞Derbyniasom y taliadau canlynol—Rees Davies, Safe Harbor, Pa. $3; Edward Farr, Summit Hill, $5; Meredith Evans, Dodgeville, Wis., $10; Thos. H. Jones, Remsen, $3 75; W. Hughes, Lee, $1 25; D. W. Jones, Minersville, $2 50; Abraham Davies, St. Clair, $6 25; a $2 am lyfrau; W. Rees, eto, $2 25; Shadrach Griffiths, Ava, $1 25; David Thomas, Mount Savage, $1 25; Hy. Davies, Pottsville, $3 75; Rt. Thomas, Bellmont, $5; W. Williams, Minersville, $3; D. Roberts, Middleport, $1 25; Parch. Peter Lloyd, Salisbury, $17; Rees T. Howell, Chittenango, $1 25; T. Morgan, Philadelphia, $1 25; Wm. James, Carbondale, $31; John G. Davies, Cincinnati, $6, Parch. Wm. Owen, Pittsburg, $25; C. Richards, New-York, $16; T. Richards, Pittston, $3 65; Lewis D. Lewis, Scrantonia, $5. Bu camsyniad yn Rhif. Gorphenhaf wrth gydnabod yr arian o Cincinnati. Dylesid gosod $6 ar gyfer Mr. Davies, a $2 75 i Mr. Evans.

☞ Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'n dosbarthwyr am eu ffyddlondeb. Gwelir wrth y gofres anrhydeddus uchod nad ydynt yn ein hanghofio. Y mae amryw o honynt eto heb ddanfon i mewn; a gobeithiwn glywed oddi wrthynt y mis presennol.

☞Y mae y Seren i gael ei chyhoeddi y flwyddyn hon fel arferol am $1 25; yn ol yr arwyddion presennol bydd ei derbynwyr yn lluosocach na'r llynedd: ac hyderwn, trwy bob gofal, llafur, a thraul o'n tu ni, yn gystal a pharhad o garedigrwydd ein gohebwyr galluog, na bydd neb o'n derbynwyr yn golledwyr yn niwedd y flwyddyn, os caniata yr Arglwydd estyn ein bywydau ni a hwythau hyd hyny. Yr ydym yn barod wedi derbyn amryw o enwau newyddion, ac am eu caredigrwydd y derbyniant hwy a'r cyfeillion sydd wedi eu casglu ein cydnabyddiaeth diffuant.— Y mae genym lawer o'r rhifynau presennol wedi eu hargraffu dros ben y nifer, a phwy bynag sydd eto am dderbyn y Seren am 1851, byddai yn dda iddynt ddanfon atom yn fuan, os y[illegible] am gael y gyfrol yn llawn.

☞Ein hamcan parhaus ydyw cynyddu gyda yr oes; pa mor bell yr ydym yn llwyddo i hyn a adewir i'r darllenydd i farnu. Gan ein bod yn bwriadu gosod tonau yn awr ac eilwaith yn y Seren, hyderwn allu boddio y cyfryw o'u darllenwyr a hoffant beroriaeth. Yr ydym wedi llwyddo o'r diwedd i gael defnydd amryw gerfiadau ardderchog ar ddur o wahanol enwogion, megys Dr. Judson, Fanny Forrester, &c., ac ymddengys eu Hardebau yn y Seren mor aml ag y byddo amgylchiadau y Cyhoeddiad yn caniatau, Bydd y papyr, argraffwaith, &c., trwy y flwyddyn yr un fath a'r rhifyn hwn.

☞Nid ydym yn gweled dim yn ysgrifau Gwilym Mynwy na H. M. y byddai darllenwyr y Seren yn well o'u gwybod, Mae arnom eisiau lle i amryw ohebiaethau a ystyriwn yn deilyngach.

☞Llythyrau D. Williams, Caerefrog-Newydd; W. Williams, Pomeroy; T. D. Jones, a dau neu dri eraill, yn afreolaidd o herwydd fod y cludiad heb ei dalu.

☞Gan fod ein dosbarthwr ffyddlon Mr. Wm. James wedi ymadael o Carbondale, hyderwn y gwna rhyw un arall gymeryd y swydd o ddosbarthu y Seren yno,

☞Y mae Mr. J. P. Sherwin, Express Office, Pottsville, wedi gwneud trefniadau trwy ba rai y gellir danfon arian i Gymru trwy yr ariandai gyda y cyflymder a'r dyogelwch mwyaf. Gallwn yn rhwydd ei gymeradwyo fel dyn gonest a charedig.

SYMUDIADAU.—Y mae y Parch. H. Hughes, gynt o swydd Oneida wedi derbyn galwad yr eglwysi yn Danville a Bloomsburg: y Parch. D. E. Bowen wedi symud yn ol i Carbondale; a'r Parch. D. J. Phillips wedi ymadael o Cincinnati, ac wedi cymeryd gofal eglwys y Bedyddwyr Seisnig yn Pomeroy, Ohio.

BYWYD JOSEPH.—Mae yr hanes ddifyrus hon, fel y mae wedi ymddangos o fis i fis yn y Seren, wedi ei gwneud i fynu genym yn llyfr bychan, 192 o dudalenau, wedi ei rwymo yn dda, am 31 cents yr un, neu bedwar am ddolar i'r Ysgolion Sabbothol. Gellir eu cael gan argraffydd y Seren, neu y Parch. E. B. Evans, Pittston Ferry, Pa. Gellir cael rhai o honynt wedi eu rhwymo yn hardd mewn morocco, am bris ychydig uwch. Mae yn ateb yn ragorol i'w roi yn anrheg i blant.



A. D. Gillette, A. M.

Pastor of the 11th Baptist Church, Philadelphia.

# Y SEREN ORLLEWINOL

CYF. VIII] IONAWR, 1851. [RHIF. 79.

## POLITICS A CHREFYDD.

*Anerchiad at enwad y Bedyddwyr Cymreig.*

ANWYL FRODYR,—Mae yn hysbys eich bod, drwy eich egwyddorion, ysgrifeniadau, a'ch bywyd, wedi enill i chwi eich hunain, fel enwad o Fedyddwyr Neillduol, y cymeriad anrhydeddus o fod yn bobl gydwybodol.—Mae eich ymlyniad diwyro wrth ordinhadau Mab Duw, hyd y nod yn ngwyneb erledigaethau, wedi argyhoeddi pawb o hyn ag ydynt yn adnabyddus â'ch hanes. Ac y mae eich parch i'r Arglwydd Iesu mor fawr, fel na fynwch gydnabod neb yn Arweinydd nac yn Ddysgawdwr i chwi ond Efe. Yr oedd ein tadau yn parchu cydwybod yn fwy na'u bywyd. Gwell oedd ganddynt golli eu bywyd na throseddu cyfreithiau Duw, a phleidio annuwioldeb. Dyma fel y gwnai ein tadau, a hyderaf y gwna eu plant rhodio yn eu ffyrdd.—Ymlyniad wrth egwyddorion y Testament Newydd yw eich coron. Gochelwn rhag ei cholli. Mae llawer am ei dwyn; ond daliwn ein gafael ynddi; canys yn hon y mae cuddiad ein nerth, ac elfenau ein buddugoliaeth ar bob gelyn a ddichon wneud eu hymosodiad arnom. Mae Duw—Duw eich tadau—yn sicr yn eich amddiffyn, ac yn eich bendithio, tra y byddoch yn pleidio ei achos; ac y mae ei achos ef yn deilwng o gael ei bleidio yn ei holl ranau.

Y mae holl orchymynion Duw yn bwysig—yn annraethol bwysig. Nid wyf yn meddwl eich bod yn gosod gormod o bwys ar yr un o honynt, ond gellwch chwi yn gystal ag eraill dalu rhy fach o sylw i lawer o bethau ag y mae Pen mawr yr eglwys yn eu ceisio genych. Nid oes angenrheidrwydd i mi eich hysbysu mai yr Hwn a orchymynodd fedyddio yr holl genedloedd a broffesant ffydd yn Nghrist, sydd wedi gorchymyn hefyd i bregethu yr efengyl i "bob creadur"—caeth a rhydd—du a gwyn—yr hyn sydd wedi ei esgeuluso i raddau pell a phechadurus yn y wlad hon. Yr hwn sydd wedi gorchymyn galw ar ei enw mewn gweddi, a chofio am ei gariad, ei angeu, ei chwys, ei ddagrau, a'i waed drosoch chwi, sydd hefyd wedi gorchymyn i chwi i garu eich cymmydog fe chwi eich hunain, ac i gydymdeimlo â'r rhai sydd yn gaeth, fel pe buasech yn gaeth gyda hwynt. Ac i rhagflaenu pob math o gamsyniad, y mae wedi bod mor fanol a dangos pwy yw eich cymmydog. Iago 2. 15, 16.—Mae rhai yn cymeryd arnynt fod yn foddlon danfon yr efengyl i'r caethion, ac eto yn rhoddi eu pleidlais dros y gormeswr. Ond beth ydyw hyny? Dywedyd wrth ddyn newynog am ymddigoni, ac heb roddi dim iddo i'w fwyta. Darllenir yr adnodau uchod a gwelir yr un peth yn cael ei ddal allan ynddynt. Os bydd dyn yn newynog mae Crist yn gorchymyn i ni ei borthi; os bydd yn anwybodus, ei ddysgu; os yn alarus, ei ddyddanu; ac os yn gaeth, ymdrechu ei ryddhau.—Gweithredu tuagat y caeth fel y dymunem fod eraill yn gweithredu tuag atom ni pe yn eu sefyllfa Mae y gorchymynion uchod wedi dyfod oddiwrth yr un Brenin, ac yn cael eu hamddiffyn gan yr un awdurdod. Yr hyn sydd yn gosod pwys ar y naill sydd yn gosod pwys ar y llall—yr hyn sydd yn gwneud anufudd-dod yn beryglus mewn cyssylltiad ag un, sydd yn gwneud anufudd dod yn beryglus mewn cyssylltiad â'r lleill. Mae yn angenrheidiol i ni gymeryd y gorchymynion hyn a chydmaru ein bywyd â hwynt. Y rhai hyn fydd yn ein barnu ni yn y dydd olaf.—Bydd ein tynged bythol yn ymddibynu ar ein cydymffurfiad neu ein hanghydffurfiad â hwynt. Am eu gwneud bydd rhai yn cael eu derbyn i fywyd tragywyddol, ac am beidio eu gwneud y bydd eraill yn cael eu gyru i waeau anobeithiol byth. Dyma yw sylwedd yr hyn a ddywed Crist wrth rhoi darluniad o ddydd yr ymweliad. Math. 25. 32—46.

Wrth chwillo i hanes y Bedyddwyr a'u hegwyddorion proffesedig, mae fy meddwl wedi ei drwyadl argyhoeddi mai nid diffyg egwyddor yw yr achos na buasech chwi yn flaenaf o blaid rhyddhad y caeth o afael y gormeswr, ac estyn iddo ef, yn gystal â phaganiaid yr India, y breintiau crefyddol hyny ag ydynt wedi eich dwyn chwi i ryddid gogoneddus plant a phobl Dduw, a gobaith am ddedwyddwch diddarfod yr ochor draw i'r bedd. Na, yr wyf yn meddwl pethau gwell am danoch chwi, frodyr, a phethau yn gysson

â gair Duw, ac yn nghlyn ag iachawdwriaeth. Yr wyf yn eich caru yn rhy fawr i goleddu y fath dybiadau culion ac angharìadus am danoch. Ond paham yr ydych chwi mor bell yn ol gyda y gwaith gogoneddus o dori rhwymau anwiredd, a gollwng y rhai gorthrymedig yn rhydd? Nid am nad ydych yn casbau gormes ac yn caru cyfiawnder, ac yn amcanu at les y teulu dynol; ond y mae rhyw achos yn bod. Pa beth ydyw, ac yn mha le y mae? Dichon nad ydych wedi ystyried y pwngc yma yn ddigon manol. Mae pawb—y goreu yn gystal ag eraill—yn agored i gamsynied. Ond yr ydwyf yn erfyn arnoch, yn enw eich Duw—yn enw eich crefydd—ac er mwyn tair miliwn o gaethion ag ydynt yn ymdrabaeddu yn eu gwaed—yn gruddfan dan archollion y ffiangellau—yn cael eu hymddifadu o efengyl y tangnefedd, a'u rhwystro i ddarllen gair Duw, yr wyf yn deisyfu arnoch i adolygu y rhesymau, eu cydmaru â gair Duw, y rhai ydynt hyd yn hyn wedi eich rhwystro i godi eich llais yn erbyn caethiwed, a llafurio er ei ddileu o'r wlad. Os oes cydymdeimlad ynoch, dangoswch ef yn awr—deuwch allan fel un gwr yn y *crises* ofnadwy presennol, ag sydd yn galw allan am deimladau pob dyngarwr, ac yn ysgwyd gwladwriaeth America. Deuwch allan yn gynorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cadarn. Hyderaf, pa fodd bynag, y gwnewch gymmaint ag ymostwng mewn modd diduedd, gyda chariad at y gwirionedd, i ddarllen y sylwadau canlynol ar eich dyledswyddau yn y cylch gwladwriaethol, a chwilio â ydynt yn gysson â meddwl ac ewyllys ddatguddiedig yr Arglwydd yn ei air.—Ond i'r dyben o ragflaenu pob math ó gamsyniadau, mae yn angenrheidiol gwneud rhai sylwadau eglurhaol ar y cyssylltiad sydd rhwng crefydd â *pholitics*.

Nid ydym yn dadleu dros *uno* yr eglwys â'r wladwriaeth. Credaf yn gymmaint â neb y byddai hyny yn arwain i ganlyniadau annraethadwy o niweidiol, yn enwedig yn sefyllfa bresennol y wladwriaeth. Ond fy amcan yw ceisio eich darbwyllo i gredu y dylai y wladwriaeth gael ei llywodraethu gan yr un egwyddorion â'r eglwys. Dylai crefyddwyr weithredu yr un mor gydwybodol wrth gyflawni eu dyledswyddau gwladwriaethol ag y gweithredant, neu y gorchymynir iddynt wneud, yn y cylch eglwysig. Yr un Duw a'r un awdurdod sydd yn gofyn y naill yn gystal a'r llall. Credwyf y dylai y wladwriaeth barchu Duw yn gystal a'r eglwys—ac y mae yn druenus, ydyw y mae yn fradwriaeth, fod unrhyw gorff crefyddol yn ymdrechu eu rhyddhau oddiwrth y rhwymedigaeth hon. Pwy a geisiodd hyn oddiar eu llaw? Pwy a'u gwisgodd â'r awdurdod hon? Beth pe b'ai yr Arglwydd yn gofyn hyn iddynt, pa beth a atebent? Na fydded i'r Bedyddwyr, pa fodd bynag, fod yn euog o'r cyhuddiadau hyn. Dyma oedd cynnwysiad y penderfyniadau gwrthodedig a gafodd eu hargraffu yn y Seren ychydig amser yn ol. Hyderaf y gwneir eu hail-ystyried yn y modd mwyaf difrifol, ac y byddus yn barod i'w cymeradwyo yn y modd mwyaf unfrydol y cyfleusdra nesaf a ddaw i'ch meddiant, fel ag y byddo y Bedyddwyr yn rhydd oddiwrth waed y caeth ag sydd yn cael ei ymddifadu o'r Bibl a'r efengyl, ac sydd wedi eu hymddyried i chwi i'w rhoi yn meddiant pawb. A ddanfonwch chwi hwynt i'r gogledd, ac i'r gorllewin, ac i'r dwyrain? Yr ydych yn gwneud yn dda. Mae y nefoedd yn gwenu arnoch am hyny. Ond a beidiwch chwi eu danfon i'r De? a ewch chwi heibio i dair miliwn o gaethion, am fod cyfreithiau eich gwlad yn gwahardd i chwi roddi Biblau yn eu dwylaw, a'u dysgu yn nghyfreithiau yr Arglwydd, &c. Paham y rhowch chwi eich cymeradwyaeth i'r cyfreithiau yma? Paham y rhowch eich pleidleisiau dros ddynion sydd yn gwneud ac yn amddiffyn y fath gyfreithiau anghristionogol? Pa le y mae eich Brenin? Oni ddaeth efe i'r byd yma fel y dattodai weithredoedd y diafol? Ac a gydweithreda ei ganlynwyr a'i elynion i'w codi drachefn? Gochelwn rhag bod yn euog o frwydro yn erbyn y nef, a bod yn euog o gynnal i fynu freichiau yr annuwiol ag sydd yn ffurfio cyfreithiau gormesol i atal llwyddiant yr efengyl yn ein gwlad.

Drachefn, wrth ddweyd fod cyssylltiad rhwng crefydd a *pholitics*, nid ydym yn golygu eich annog i gydymffurfio â llygredigaethau politicaidd. Er ein galar yr ydym yn gorfod cyfaddef fod *politics* wedi myned yn llygredig. Mae fel ffynon fawr, o ba un y mae cysuron y teulu dynol yn ymddibynu i raddau helaeth, ond wedi ei gwneud yn afiach drwy gymysgiad gwahanol lygredigaethau. Nid ydym am eich hanog i yfed ei dyfroedd drewedig, ond erfyniwn arnoch yn enw dyloliaeth orthrymedig i ymdrechu ei glanhau, fel na byddo raid i eraill ei hyfed. Mae llawer o bethau annymunol—pethau croes i ysbryd ac egwyddorion crefydd yr Oen—yn cael eu defnyddio yn y byd politicaidd. Nid ydym yn gofyn genych i bleidio y pethau hyn, ac y mae ein henaid yn eu cashau, ond erfyniwn eich cynorthwy i'w symud ymaith. Dyma i gyd yw ein cais. a barnwch chwi os nad yw yn rhesymol. Yr ydych chwi yn dywedyd fod *politics* wedi myned yn llygredig. Yr ydym ninau yn gofyn eich cynorthwy

i'w puro. Yr ydych yn cyfaddef fod Ysbryd Crist wedi myned o'r wladwriaeth. Yr ydym ninau yn dweyd, gadewch i ni ei adferyd yn ol. Yr ydych chwi yn dywedyd fod yr Arglwydd Iesu yn Frenin, a bod ei deyrnas i ymledaenu dros yr holl fyd; yr ydym ninau yn dywedyd, gadewch i ni godi gorsedd iddo yn ein gwlad, a bydded iddo gael teyrnasu yn ein cyfreithiau. Er fod y wladwriaeth wedi myned yn llygredig, nid yw hyn yn ryddhau neb rhag gwneud ei ddyledswydd tuag at ei wlad. Pe felly, gallai crefyddwyr yn hawdd ymryddhau oddiwrth bob dyledswydd, hyd y nod eu dyledswyddau crefyddol. Mae hyd y nod crefydd wedi ei llygru, ond nid ydys yn ystyried hyn yn un rheswm dros beidio cyflawni ein dyledswyddau crefyddol. Pa beth ydyw Pabyddiaeth ond llygriad o grefydd? Mae ordinhadau, athrawiaethau, ac egwyddorion gwir grefydd wedi eu llygru ganddynt. Nid yw y llygriad yma yn un rhan o grefydd. Gwaith dynion ydyw hyn, ac nid yw crefydd yn gyfrifol am dano. Felly hefyd gyda golwg ar *bolitics*. Nid ydym i ymwrthod â hwynt am fod dynion wedi cyssylltu llygredigaethau â hwynt; ond dylem ymdrechu drwy bob math o foddion addas a chyfreithlon idd eu rhyddhau oddiwrth bob math o lygredigaethau, a'u dwyn dan lywodraeth egwyddorion y grefydd Gristionogol. Ond os dadleuir y dylai crefyddwyr ymwrthod â'r wladwriaeth am fod eu hegwyddorion wedi eu llygru, dylid, yn ol yr un ymresymiad, ymwrthod â phob peth ag sydd wedi ei lygru gan ddynion, hyd y nod crefydd ei hun.

Nodwn un peth arall cyn rhoi heibio, mewn ffordd o eglurhad ar y mater dan sylw. Nid ydych i gasglu ein bod am eich caethiwo gydag un blaid boliticaidd yn fwy na'r llall. Gofid ein calon ydyw fod cymmaint o bleidiau yn y wladwriaeth gystal ag yn yr eglwys. Yr ydym am eich annog i fod yn bleidgar i egwyddorion crefydd, a llwyddiant y wladwriaeth. Dim yn ychwaneg. Byddai yn dda genym weled pleidiau politicaidd yn darfod o'r wlad, a phawb yn ymestyn am y dynion goreu—mwyaf egwyddorol—i ymaflyd yn awenau y llywodraeth, &c. Rhoddwch eich pleidlais dros ymgeisyddion am swyddau yn y wladwriaeth, nid am eu bod yn perthyn, neu wedi eu dewis gan y blaid hon neu y blaid arall; ond am eu bod yn ddynion da a chyfiawn, yn elynion i bob gormes, yn amddiffyn rhyddid, ac yn danfon ymgeledd i'r tlawd. Mae y Bibl wedi rhanu y byd i ddwy blaid—y rhai sydd dros Grist, a'r rhai sydd yn ei erbyn. Bod gyda Christ yw bod yn bleidiol i'w egwyddorion, a bod yn ei erbyn ydyw eu gwrthwynebu, a gwrthod cymeryd ein llywodraethu ganddynt mewn gwlad neu eglwys. Mae genym gymmaint o ymddyried yn yr Arglwydd Iesu a'i egwyddorion fel yr ydym am eich hannog i ddewis y dynion mwyaf tebyg iddo i lywodraethu ein gwlad, a ffurfio ei chyfreithiau. Nid ydym yn gofyn i ba enwad crefyddol neu boliticaidd y mae yr ymgeisydd hwn a'r llall yn perthyn; ond a ydyw yn ddyn da?—a ydyw yn dilyn esiamplau Crist—yn caru ei egwyddorion, ac yn arfer gweithredu fel y gwnai yr Arglwydd Iesu, pe byddai yn byw yn ein hoes ac yn ein gwlad? A ydyw hi ddim yn ddyledswydd ar grefyddwyr i geisio lles eu gwlad? Ond pa fodd y mae iddynt wneud hyn? Ai drwy fyned gyda y lluaws i roi dynion annuwiol mewn swyddau yn y wladwriaeth—y rhai sydd yn tori Sabbothau Duw—yn dianrhydeddu ei air—yn cablu ei enw—yn cymdeithasu gyda meddwon—yn achosi rhyfeloedd a thywallt gwaed, ac yn llethu y tlawd a'r gwan dan feichiau gorthrwm; neu ynte drwy roddi dynion egwyddorol i lywodraethu ein gwlad, y rhai sydd yn ofni Duw, yn caru ei air, ac yn rhodio yn ol ei gyfarwyddiadau—yn caru eu cydgreaduriaid fel hwy eu hunain, ac yn caru lles pawb? Pa un o'r cymeriadau yma sydd yn fwyaf tebyg o fod yn fendithiol i'w gwlad? Mae ein Iachawdwr wedi dywedyd nad all pren drwg ddwyn ffrwythau da. Nid yn gyffredin y mae dynion gormesol a drwg yn gwneud cyfreithiau i ddileu gormes. Dros bwy, yntau, y mae crefyddwyr i roi eu pleidlais?

[I'w barhau.]

*Marcy.* ALFRED HARRIS.

## MEDDYGINIAETH RHAG Y PLA.

HYBARCH OLYGYDD,—Yn gymmaint ag nad yw y pla wedi ei symud hyd yma, sef y cyfeiliornad erchyll a haerir gan amryw yn ein gwlad, nad oes raid wrth ddylanwad yr Ysbryd yn ngweinidogaeth yr efengyl er effeithio cyfnewidiad gwirioneddol yn nghalon pechadur a chynnal gwir grefydd yn y dyn oddimewn, teimlwyf awydd i ddanfon rai cyfarwyddiadau i'r cyhoedd ag a allent fod o ddefnydd i rwystro olwynion y cerbyd hwn i fyned rhagddo mor rhwydd. Amcanaf ddefnyddio rhai resymau, a dwyn cyfarwyddiadau o lyfr Duw i'r perwyl.

Yn gyntaf. Trwy ddangos anghyssondeb pleidwyr yr athrawiaeth â hwy eu hunain. Dywedant nad oes raid wrth gynorthwyon Dwyfol, eto gweddiant am lwyddiant yr efengyl! Ac os nad trwy ddylanwadu yn y weinidogaeth, pa fodd (meddwch chwi) y maent yn

dysgwyl i Dduw i lwyddo? Onid yw y cyfryw anghyssondeb, yn gystal ag eraill o'r cyffelyb, yn ein dysgu, os na all y fath ddynion ddeall hyd y nod yr hyn a ellir ei ddeall, y mynant wneuthur yr hyn a ddeallant yn anneallus i bawb.

Yn ail. Trwy ddangos eu hanghyssondeb â'r gwirionedd mewn perthynas i allu dyn. Ymresymant fel hyn: gan fod ganddynt allu i wneuthur da yn gystal a drwg, ffolineb bellach, meddynt, yw dywedyd fod anallu moesol mewn dyn. Wel, atebwn ninau, Nid o'r un ffynhonell y tardda y gallu a'r anallu.—Mae y gallu yn gynnwysedig yn y briodoledd naturiol sydd mewn dyn i gyflawni ei ewyllys trwyddi; ac yn gymmaint ag mai yr ewyllys sydd yn llywodraethu y gallu, ac nid y gallu yr ewyllys, nid ydyw y gallu yn fwy manteisiol i ufudd-dod na gallu angel syrthiedig, oddieithr fod yr ewyllys wedi ei chyfnewid. Wel, paham, meddynt, y mae dyn yn cael ei anog a'i gymhell i weithredu rhinwedd, gan fod ei allu yn ddiddefnydd heb yr ewyllys?—Dyma'r paham, am mai cymelliadau, anogaethau, a chyfarwyddiadau yw y moddion ordeiniedig gan Dduw i gyfnewid yr ewyllys, ac yna fe wna y gallu y peth a ddywedo yr ewyllys, gan mai yr ewyllys sydd wrth y llyw. Wele allu, ebe ein gwrthddadleuwyr, a pha le yr ymddengys yr anallu? Mae yr anmhosibilrwydd o i'r un peth fod yn ddau beth gwahanol ar yr un pryd, yn dwyn yr anallu yma i'r amlwg i'r myfyrgar. Nid yw yn bossibl i gareg fod yn bren—neu i beth anianol fod yn ysbrydol ar yr un pryd. Peth anmhosibl i Dduw ydyw bod yn gelwyddog; nid am nad ydyw yn hollalluog; ond anallu moesol ydyw—am fod yn anmhosibl i berffeithrwydd fod yn llygredig. Felly nid am nad oes gallu naturiol mewn dyn y mae anallu moesol yn perthyn iddo; ond am fod yn anmhostbl i'r ewyllys, yr hon sydd yn chwenychu pechod, i garu santeiddrwydd ar yr un pryd. Onid anmhosibl, ddarllenydd, yw i ti garu yr hyn yr ydwyt yn ei gasau a hyny ar yr un pryd? felly, gan mae gelyniaeth yw syniad y cnawd, anmhosibl yw i'r rhai sydd yn byw yn ol y cnawd i garu Duw. Rhuf. 8. 7. "Oblegyd synied y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw, canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, ac nis gall chwaith."

Yn drydydd. Dangosaf eu hanghyssondeb â'r gwirionedd, pan y maent yn cyfyngu dwyfol ras yn unig i gylch reswm, ac yn ceisio profi mai cyfnewid barn y gallu deallawl o berthynas i wrthddrychau moesol yw yr oll o gyfnewidiad pechadur. Os felly, yr oedd Pilat wedi ei gyfnewid pan y dywedai nad oedd bai yn Nghrist. Dywedant mai reswm yn unig sydd yn agor y galon. Dywed y gwirionedd mai Duw a agorodd galon Lydia i dderbyn y gair, yr hwn a ddefnyddid fel cyfrwng reswm. Peth arall, os rheswm yn unig yw cyfrwng effeithiol y cyfnewidiad, y mae Awdwr yr athrawiaeth ei hun wedi cyfeiliorni, (Ioan 3. 8,) pan yn dywedyd mai rhyw beth tebyg i swn yw yr hyn a effeithia y cyfnewidiad. Wel, ynte, beth yw ein penderfyniad gyda golwg ar y ddadl hon, sydd rhwng y dyn bach a'r Duw mawr? hyderaf mai hyn, "Bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog." Ond eto, nid ydym am brofi nad oes raid wrth y gwir fel cyfrwng gweinyddiad goleuni a reswm yn nghyfnewidiad pechadur; ond yn hytrach, amcanwn brofi fod dylanwad goruwch reswm yn gweithio trwy reswm, nes cyrhaedd tu draw i reswm, i ddirgel ddyn y galon. "A'r hwn, (ebe yr apostol,) a'n gweithiodd ni i hyn yma yw Duw, yr hwn a roddes i ni ernes yr Ysbryd." 2 Cor. 5. 5. "O'i wir ewyllys yr enillodd efe nyni, trwy air y gwirionedd." Iago 1. 18.

Yn bedwerydd. Y maent yn anghysson â'r gwirionedd gyda golwg ar natur y grediniaeth ofynol yn y comisiwn dwyfol. Onid oes gan ddyn allu i gredu? meddynt? Oes, digon gwir; a chan gythreuliaid hefyd; ond nid yw y grediniaeth hono o'r un natur a ffydd etholedigion Duw.

Yn bummed. Canfyddwn eu hanghyssondeb pan y dywedant mai y gair yn unig a effeithia gynydd gras yn y galon. Arwydda ein Iachawdwr mai Duw trwy y gair sydd yn gweithio. "Santeiddia hwynt yn dy wirionedd." "Glanha fi ag isop, a mi a lanheir."

Yn chweched. Y maent yn anghysson â'r addewid yn y comisiwn. "Myfi a fyddaf gyda chwi." O herwydd pe na buasai ei angen, ni buasai yn addo; ond trwy iddo addo, yr ydym yn deall fod angen ei gymhorth yn y weinidogaeth. Pan y dywed gweinidogion yr efengyl nad oes raid iddynt wrth gynorthwyon dwyfol i gyflawni eu swydd, onid oes gradd o hunan-ymddibyniaeth yn ymddangos yn eu hathrawiaeth, yr hon feddyliwn i, sydd yn tueddu at ynfydrwydd? Oni buasai yn ynfydrwydd yn Moses i wynebu ar y gormesdeyrn hwnw yn yr Aifft, heb ofyn am wyneb ei Dduw gydag ef? Diameu y buasai, medd pawb. Os felly, pa faint mwy yw i ni fyned allan yn erbyn byd, cnawd a diafol, heb ofyn am wyneb ein Duw o dan yr ystyriaeth nad oes arnom ei angen, ac yntau wedi dywedyd, "Myfi a fyddaf gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."

*Covington, Ky.* E. D. THOMAS.

☞ Derbyniasom ohebiaeth oddiwrth Mr. Richd. Woolley yn beio Mr. Thomas yn benaf am na buasai yn ymddiddan â'r personau y cyfeiria atynt, yn lle eu cyhoeddi i'r byd, ac yn ei gyfeirio at y cyfammod eglwysig. Ond mae y reol anffaeledig hono o eiddo Crist yn dal cyssylltiad â throseddau personol, ac nid cyfeiliornadau athrawiaethol. Dichon nad yw y personau y cyfeiria E. D. T. atynt yn byw yn yr un ardal ag ef ei hun.—Gol.

## HUNAN-AMDDIFFYNIAD.

Mr. Golygydd,—Daeth eich Seren glodwiw am fis Ionawr, 1849 i law, (a mawr ddiolch i chwi am dani gyda thâl,) yn yr hon y mae ysgrif, arwyddair pa un yw, "Mynegfys i'r Cymry." I deithiwr anghyfarwydd ar fynyddoedd Cymru, neu ddiffoithwch anialdir America, nid oes dim yn fwy boddhaol na gweled "mynegfys" ar ei lwybr, yn rhoddi ar ddeall iddo ei fod ar yr iawn ffordd. Fe allesid dysgwyl i John Roberts, pan yn myned i estyn ei fys, ie, "mynegfys," a mynegfys i genedl, y buasai yn mynegu iddynt y gwirionedd, fel yr arweinid hwynt yn nghanol llwybr barn; ond y mae anghyssonderau ei ysgrif fynegawl mor amlwg, fel mai o'r braidd yr wyf yn gweled yn werth i sylwi arnynt; canys nis gall yr un dyn ystyriol ddarllen ei ysgrif heb weled ar unwaith afresymoldeb ei haeriadau. Dywed J. R. "fod mynegfysau lluosog yn y gwahanol Gyhoeddiadau yn cyfeirio ataf fi, a'm bod inau yn *proffesu* fy mod yn caru lles fy nghenedl." Yn mha gyhoeddiad y mae y broffes uchod i'w gweled? Yr wyf mewn gwirionedd yn caru lles fy nghenedl, fel y gall cannoedd yn yr Unol Dalaethau dystio; ond ni phroffesais, ac ni fynegais hyny â "bys" trwy gyfrwng yr un cyhoeddiad erioed o'r blaen; os do, J. R., yn mha un, a pha rifyn?

Yn nesaf, ysgrifena ynghylch ei ferch—y dull a gymerodd i'w chael ato, ei dyfodiad i Liverpool gyda'i hewyrth, ac iddi, ar ei chyrhaeddiad yma, roddi tocyn ei chludiad i mi, ac i minau ei gymeryd i ymofyn am y llong; i mi fyned allan o'r tŷ am beth amser, a dychwelyd yn ol, gan ddywedyd i *mi fethu a chael y llong!!* a dywedyd nad oedd y tocyn o un gwerth, ac i mi ei gadw i mi fy hun, a *gomedd ei roddi yn ol!* Y fath dryblith o anghyssondeb! Dywedyd fy mod "wedi methu cael y llong" fuasai yr un mor anmhriodol ac i mi ddywedyd ddarfod i J R., (pan mewn llawn feddiant o'i synwyr) fethu cael ei wely ryw nos, er myned i'r ystafell lle yr oedd, i chwilio am dano; neu fod yn bosibl i ddyn gario tân yn ei fynwes heb losgi. Fe wyr pawb fod yn anmhosibl i un a fyddo yn y fasnach ymfudol—yn mysg llongau ymfudiaeth bob dydd, fethu a chael hyd i bob un o honynt a fyddo yn y porthladd ar y pryd, yn enwedig os elai allan i *chwilio* am dani, fel y dywed J. R. i mi fyned allan i chwilio am long ei ferch. Hefyd, a ydyw yn rhesymol i neb farnu am fynud fod ewyrth y lodes mor ddwl ac ynfyd a chredu nad oedd y tocyn o un gwerth, pan ar yr un pryd y gomeddwn ei roddi i fyny. Os nad oedd o werth, paham y gwrthodwn ei roddi iddo? ac os gomeddwn ei roddi iddo, onid oedd hyny yn anghysson â'r dywediad nad oedd o un gwerth? Buasai y fath anghyssondeb yn peri i'w hewyrth a phob dyn arall yn ei synwyr ddirmygu y fath omeddiad, a hawlio meddiant o'r tocyn heb ddim *ceremony*. Yna dywed J. R., iddo "anfon llythyr ataf am y tocyn." Do, fe ddarfu; a chefais ef pan oeddwn ar gychwyn oddicartref; ac o bob llythyr a gefais erioed, ni chefais yr un mor *bigog*, yn dangos ysbryd mor *drahaus* ac *uchelfrydig*, yn cynnwys iaith mor *anweddus*, haeriadau mor *ddisail*, a bygythion mor *erchyll* â'r llythyr hwnw; ac mewn byrbwylldra ysgrifenais atebiad iddo, (fe allai nid yn y ffordd ddoethaf,) gan egluro yr achos, a hysbysu fod y *ticket* wedi myned i ryw le, neu wedi ei ddinystrio; ond nad oeddwn wedi gwneud un defnydd o hono; ac y gallai gael sicrwydd o hyny trwy ymofyn â'r *agent*, gan yr hwn y cafodd ef yn wreiddiol, a dywedais y gallasai roddi ei fygythiou mewn grym os ewyllysiai—yr amddiffynwn fy hun os cawn weled ei ymosodiad. Wedi iddo dderbyn y llythyr hwn, ymddengys iddo ysgrifenu yr hyn a eilw "Mynegfys i'r Cymry," ac anfonodd ef i'r Seren; ond nid yw llewyrch y "Seren" yn llewyrchu ar Liverpool, gan hyny bum yn y tywyllwch o barth yr ymosodiad hyd yn ddiweddar; ac yr oedd ar John Roberts naill ai ofn fy atebiad iddo, neu yr oedd yn ymddifad o foneddigeiddrwydd digonol, onide buasai yn anfon *copy* o'r "Seren" i mi pryd yr ymddangosodd ei lythyr. Nis gallaf weled yr un frawddeg yn ei ysgrif yn teilyngu sylw ond y rhai uchod, gan hyny—

Gosodaf o flaen eich darllenwyr fy ochor inau o'r *case*, a gallant gredu yr un a fynont. Cadarnheir, fel y gwelwch, fy nhystiolaeth, gan y Parch. Hugh Williams, yr hwn oedd arweinydd nifer fawr o ymfudwyr y pryd hyny; yn mhlith pa rai yr oedd brawd iddo ef, ac hefyd merch J. R. a'i hewyrth. Cyn i'r ymfudwyr ddyfod yma, anfonasant ataf y byddent yn Liverpool ar ddydd pennodol; a phrydnawn y dydd hwnw, pan ddaethum i'm tŷ o'm swyddfa, pwy a ganfyddais yno ond Mr. Williams a'i gyfeillion, o gylch deuddeg-ar-hugain. Holasant fi yn ddioedi ynghylch y llongau, pris y cludiad, &c. Dywedais fod llong dda i gychwyn yr ail ddydd, a bod ei phris yn £3 10 (yr hyn oedd ddeg swllt yn llai na'm dysgwyliad), ond nad oedd lle ynddi ond i 35 yn ychwaneg. "Yn wir," meddai un o honynt, gwell i ni *settlo* na cholli y cyfleusdra, a chyn pen deng mynud yr oeddent oll wedi talu 20s. yr un i sicrhau eu lle; ac fel eraill, *talodd John Davies, ewyrth Mary Roberts, drosto ei hun a'i wraig, a thros Mary Roberts* (*merch J. R.*), ac aethum inau heb oedi i roddi eu henwau ar y brif-restr (*main list*), fel na buasai i neb eraill gael eu cymeryd yn eu lle hwynt. Bum yn absennol o'r tŷ fe allai am dri chwarter awr. Pan ddaethum yn ol daeth John Davies ataf, a dywedodd ei fod wedi anghofio fod gan Mary Roberts *docyn* i gael ei chludiad; "Wel," meddwn inau, "rhoddwch ei weled, fel y gallwyf wybod ar ba gwmni y mae wedi ei dynu." Rhoddodd i mi y *tocyn*. Edrychais

arno, a dywedais yn y fan nas gallasai gael ei chludiad yn y "Martha J. Ward," (sef yr un llong a'i chyfeillion) gyda'r tocyn hwnw; canys yr oedd y llong hono yn perthyn i gwmni gwahanol i'r un oedd y tocyn wedi ei dynu arno; ond meddwn, y mae gan y bobl hyn long yn myned allan yn mhen ychydig o ddiwrnodau, ac y gallai fyned ynddi gyda y tocyn hwnw." "O na," meddai ei hewyrth, "ni chaiff hi byth fyned heb i ni fod gyda hi." "Wel," meddwn, "y mae yn fforffedu pob hawl i'r arian a dalodd ei thad wrth fyned i'r cwmni llong arall, pan y mae gan P.W. Byrnes long yn yr hon y gall fyned yr un pryd a'r llong arall." Gwell oedd ganddo ef wneud hyny nac ymddyried lodes tair-ar-ddeg oed i fyned ei hunan mewn llong a'i llond o Wyddelod; yna nid oedd dim i'w wneud ond iddi fyned yn yr un llong a hwy. "Ond," meddwn, "os gallaf mi a geisiaf gael caniatad i eneth arall o Dreffynon gael myned yn ei lle â'i thocyn yn y llong arall, a chaiff hithau ryw gymmaint am dano. Cymerais y *ticket* i edrych a ganiateid hyny, ond methais a llwyddo. Dychwelais yn ol i hysbysu hyny, ac nid i ddweyd fy mod yn methu cael y llong. Y canlyniad oedd, fod y tocyn yn dyfod yn ddiwerth, nid am nad oedd y llong yn y porthladd (fel y dywed J. R. i mi ddywedyd), ond ond am nad aeth ei ferch ef ynddi. Yn awr, fe wel y darllenydd fod fy ngharedigrwydd i yn ymdrechu cael un i fyned ar y tocyn, yn lle M. R., yn cael ei ddeonglu gan ei thad yn "ffordd a agorais i'm fy hun i elwa oddiar, a thwyllo ei ferch;" yr hyn a brofa wiredd yr hen ddiareb Gymreig, "Gwae a wnelo dda i ddiawg." Pe buaswn inau yn gadael i John Davies gymeryd ei *siawns* (fel y dywedir), ni allasai J. R. gael mantais i'm drwg-liwio, trwy briodoli i mi dwyll ac anghyfiawnder. Ond i orphen y stori hirfaith hon, nid oes genyf ond hysbysu ddarfod i mi, ar ol talm o amser, wrth chwilio am ryw lythyr, ddyfod o hyd i docyn cludiad M. R., yr hwn oeddwn yn ei feddwl oedd wedi ei golli neu ei ddinystrio. Anfonais ef i ofal y Parch. D. R. Thomason, Philadelphia, yr hwn a'i hanfonodd i J. R., a phe buasai yn ddyn cywir ei egwyddorion—yn teimlo ei rwymedigaeth i gyflawni ei ddyledswydd o gara ei gymmydog fel efe ei hun, buasai yn gwneud derbyniad y tocyn yn hysbys trwy yr un cyfrwng ag y saethodd ataf ei bicell, yr hon oedd wedi ei throchi mewn bustl anwiredd a chenfigen; canys yr oedd dychweliad y tocyn yn brawf diymwad na fu i mi unrhyw elw oddi wrtho, ac yn gosod arno y rhwymedigaeth gryfaf i hysbysu hyny i'r cyhoedd. Y cyfryw yw fy amddiffyniad. Erfyniaf eich maddeuant am feithder yn yr ysgrif hon, ond nis gallaf ei chwtogi, a gwneud yr achos yn eglur. Isod y gwelwch dystiolaeth Mr. H. Williams ar y mater.

Yr eiddoch yn serchog,

ELEAZER JONES.

*45 Union-Street, Liverpool, Tach.* 9, 1850.

---

Hyn sydd i hysbysu fy mod i wedi darllen yr amddiffyniad uchod, a'i fod yn hollol gywir gyda golwg ar y *transactions* a fu rhwng Mr. E. Jones a Mary Roberts a'i hewyrth. Yr oeddwn yn meddwl y pryd hyny, ac yn wir hyd yn awr, fod ymddygiadau E. J. ar y pryd yn hynod o ganmoladwy. Ydwyf, &c.

HUGH WILLIAMS,

*Gweinidog Wesleyaidd Cymanfaol.*

---

## BYR-GOFIANT MARGARET LLOYD.

GWRTHDDRYCH ein cofiant ydoedd ferch i David a Mary Thomas, Merthyr Tydfil, D. C. Ei thad ydoedd saer meini wrth ei gelfyddyd. Ymunodd Margaret â chrefydd yn dra ieuangc, a bedyddiwyd hi ar broffes o'i ffydd yn Mab Duw gan y diweddar Barch. David Saunders, a da genym allu dywedyd iddi barhau yn ffyddlon hyd y diwedd; a chredwn yn ddiysgog iddi dderbyn coron y bywyd, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i bawb a garant ei ymddangosiad ef. Ymfudodd hi a'i phriod, Owen Lloyd, i'r wlad hon er ys tua deunaw mlynedd yn ol, a buont yn aros mewn gwahanol fanau; ond gorphenodd ein chwaer ei gyrfa ddaearol yn Fairview, ger Harrisburg, swydd Dauphin, Pa., ar yr 8fed o Fedi, yn chwech a deugain oed. Ei chlefyd ydoedd rhyddni yr ymysgaroedd (*dysentary*). Ni bu yn glaf uwchlaw wythnos o amser. Dyoddefodd ei chystudd yn dawel ac amyneddgar, a rhoddodd foddlonrwydd cyn ei symud ddarfod iddi rhyngu bodd Duw. Dydd Mawrth canlynol, daeth tyrfa luosog o drigolion y lle uchod ynghyd i dalu y gymwynas olaf i'w gweddillion marwol, pan y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. ——, o Harrisburg, pregethodd oddiar destyn mabwysiedig ein chwaer—Math. 28. 20: "Ac wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."

Nid oedd y chwaer hon heb ei llygredd a'i ffaeleddau, fel pob Cristion arall tu yma i'r bedd, eto yr oedd ynddi rhinweddau teilwng o efelychiad. Nid oedd ei lle yn wag yn yr addoliad pan y gallasai fod yno; ac yn wir, nid rhwystr bychan oedd yn ddigon i'w lluddias, o herwydd ystyriai fod cadw ei chydgynnulliad yn rheolaidd yn un o nodweddau y Cristion. Yr oedd y chwaer hon yn hynod ddefnyddiol gyda'r canu. Yr oedd wedi ei bendithio yn neillduol â'r dalent hon, a hi a fyddai yn dechreu y dôn y rhan fynychaf yn ystod yr amser y bu yr ysgrifenydd yn aros yn y lle uchod: ac er ei bod mewn gwth o oedran, eto yr oedd ei llais yn beraidd a soniarus, a gallaf dystio ei fod heb ddistewi ar fy nghlustiau hyd yn bresennol. Hefyd, yr oedd yn ymarfer llawer â'r orsedd, ac yno yr oedd yn derbyn grym i wrthsefyll y gelynion a'r profedigaethau; ac er iddi gwrdd â llawer o

dywydd garw ar ei mordaith, eto, trwy ras y nef cafodd ei chadw rhag gwneuthur llongddrylliad o'r ffydd, na rhoddi anair i'r wlad dda. Yr oedd yn hynod garedig yn ei chymmydogaeth. Cerid hi yn fawr gan Gymry a Saeson, ac mae ei hymadawiad wedi achosi galar cyffredinol. Yr oedd yn un o'r gwragedd mwyaf llettygar; yr oedd ei chalon a'i thŷ yn agored i dderbyn a groesawu dyeithriaid, yn enwedig gweinidogion yr efengyl a phlant yr Arglwydd. Diau ei bod yn gwneud y cynghor hyny o eiddo yr apostol yn o gystal â neb pwy bynag, sef peidio anghofio llettygarwch. Heb. 13. 1. Yr oedd yn hynod o barod i gydymdeimlo â'r claf a'r angenus, a gwnelai yr hyn oll oedd yn ei gallu bob amser er eu cynorthwyo a'u cysuro. Ond er mor ddefnyddiol y bu, ac er mor anwyl oedd genym am dani, yr Arglwydd a'i cymerodd oddiwrthym, gan adael priod a phedwar o blant, sef tair merch ac un bachgen bychan, a dau fab-yn-nghyfraith, a lluoedd o gyfeillion, i alaru ar ei hol. Nid oes genym mwyach ond gobeithio cael ei chwrdd yn y nefoedd. "lle na ddywed neb o'r preswylwyr, Claf ydwyf." DAVID EVANS.

*Safe Harbor, Tach.* 18, 1850.

## Y WLAD Y'M GANWYD.—CAN I'W CHYFIEITHU.

### SONG.

BY T. MORGAN, PHILADELPHIA.

*Tune—"Long, long ago."*

I oft' think of thee, thou sweet land dear to me,
Where I was born, where I was born;
Cambria's my home, far o'er the sea,
Where I was born, I was born;
Vale of Glamorgan, the garden of Wales,
Thy charms are most lovely, thou queen of all vales,
Faries* have danced o'er thy fields, I've heard tales,
Where I was born, I was born.

Behold the strong castles, from time of renown,
Where I was born, where I was born;
Alters† of huge rocks stand there alone,
Where I was born, I was born;
Those monuments stand, which abound in that land,
Where our ancestors worship'd (devoted old band).
Their Priests (ancient Druids) their off'rings did hand
Where I was born, I was born.

Dear is the village, the school, and the church,
Where I was born, where I was born;
Fond of the scenes, there my heart dwells so much,
Where I was born, I was born.
Deck'd are thy meadows with gems rich and bright—
With daisies and primroses fair to the sight,
And cowslips whose fragrance the senses delight,
Where I was born, I was born.

Sweet are the maidens, with beauty so rare,
Where I was born, where I was born;
Whose cheeks are so rosy; complexion so fair,
Where I was born, I was born;
The ivy bound cot is the bless'd humble home
Of the artless, the modest, the charming and lone,
Such love to contemplate my heart's ever prone,
Where I was born, I was born.

Entoomb'd in thy bosom's the valiant and brave
Where I was born, where I was born:
They bled for their freedom, and country to save,
Where I was born, I was born;
My friends sleep in death, their fond mem'ry so dear,
My kindred, my blood—bound by nature so near;
Their dust now repose where I'd drop a fond tear,
Where I was born, I was born.

* A singular phenomenon appears frequently on the meadows in the form of a ring or circle, 10 or 12 feet in diameter:—the grass forming the ring being much darker in colour than the rest of the field. It is superstitiously believed by many that these rings are made by the faries, who are supposed to dance there during the night. It is also stated, that some persons who happen to hear the music of those faries are charmed, and involuntarily attracted into the ring, and enchanted away for seven, fourteen, twenty-one, or twenty-eight years, or perpetually; and can only be restored by some friend who has resolution enough to resort to the same ring at any of the above periods, (as they are believed to return periodically,) and cautiously approaching the ring near enough to recognize their friend dancing with the faries, and with great effort to snatch the victim out of the ring. The victim is represented as being perfectly unconscious of the lapse of time; but is enraptured with the few moments' pleasures he thinks he has enjoyed. Such stories are told to children, and are religiously believed by many after they grow up.

† Those alters appear rather frequently through the vale of Glamorgan. A remarkable one is situated in the middle of a field near the house where the writer was born (Maes-y-felin). We will give a description of it, as an example of what they formerly were all, doubtless, though at present few of them are in as good a state of preservation, and as erect as this one. Three immense rocks of equal size are placed in the ground endways, facing the east, west, and south—forming a square enclosure, with the north front open. A fourth mammoth rock of simular dimensions covers the top of the other three, forming a flat roof or platform of about 12 feet square, projecting about 3 feet over the supporting rocks. The heigth of this structure is about eight or nine feet—the thickness of the slabs about three feet—length about eight or ten feet. The perpendicular depth must be considerable more. We have never ascertained how deep they are planted in the ground. Their weight must be several hundred tons each. There are indentations in the side of these rocks, printing the fingers and thumb of giant hands. Tradition represents them to have been erected by giants, and that those prints were made by their hands at the time. A prominent feature in the religion of the Druids was to inspire their followers with a superstitious reverence for these alters, hence they believed them to have been erected by giants.—Doubtless these marks of giants' fingers were chissel'd for the purpose of the above deception. The top of this edifice was used as an alter, on which the Druids offered human sacrifices by burning them alive. The ancient inhabitants must have been very conversant with the mode of lifting or erecting massive structure, by some powerful tackling or mechanical power.

## ADNABYDDIAETH BERSONOL MEWN SEFYLLFA DDYFODOL.

Gof.—A fydd pobl Dduw, pan y caffont eu dwyn i mewn i ardaloedd gwynfyd, i gyduno â'r dorf ddirif, rhan o ba un sydd yn gynnwysedig o ysbrydoedd y cyfiawnion wedi eu perffeithio, yn adnabod y naill y llall? A fydd iddynt adnabod eu ffryndiau a'u hadnabyddiaid oedd ganddynt ar y ddaear, y rhai a ddichon fod yno, gan ba rai y cawsant lawer cynghor melys, gan rodio gyda eu gilydd i dŷ Dduw? a fyddant yn eu hadnabod pan gyfarfyddant yn nhrigfau gogoniant; ac a fydd eu cyfeillgarwch i gael ei adnewyddu yno yn wastadol?

Mae y rhai hyn yn ofyniadau sydd i raddau mwy neu lai yn ymdyru i feddwl pob bod meddylgar a chyfeillgar, pa un sydd wedi profi melysder cymdeithas yn y byd, ac yn credu mewn sefyllfa ddyfodol, ac yn dysgwyl am fodoli yno ei hun. Mae y mater yn dyfod adref yn aml mewn modd neillduol at y rhai hyny sydd wedi eu hymddifadu gan angeu o rai o'u perthynasau anwyl, a'r rhai sydd yn ymwybodus eu bod hwy eu hunain yn nesau at gyffiniau byd tragywyddol. Maent yn teimlo yr undeb a'r cyfeillgarwch a ffufiwyd ar y ddaear yn ymollwng: ac wrth ymadael â'r rhai oedd mor anwyl ganddynt braidd â'u heneidiau eu hunain, maent yn naturiol yn edrych yn mlaen gyda dymuniad am wybod pa un a gant gyfarfod â'u gilydd mewn byd arall ac mewn gwell lle? ac ar ol cwrdd, a fyddant yn adnabod eu gilydd, gan adnewyddu y cyfeillgarwch?

Nid peth gwag, ond cywrain—ac nid yn unig cywrain, ond o'r dyddordeb mwyaf, yw hwn. Mae yn beth ag y mae ein holl deimladau, ein dymuniadau, a'n gobeithion yn cyfarfod â'u gilydd o du ei gadarnhau. Hyderwn ei fod yn wir, ac ymorphwyswn arno gydag hyfrydwch. Nis gallwn ganiatau yn nacaol heb anesmwythder a phoen, neu arteithiau meddwl. Ond eto, y mae llawer a'u hofnau a'u hameuaeth am y peth: ac eraill yn ei wadu yn hollol. Y:mae rhai sydd yn ei gredu yn cyfaddef nas gallant rhoddi un rheswm boddhaol dros y ffydd, a'r gobaith sydd ynddynt mewn perthynas i'r peth hwn. Boddlonrwydd a phrawf anwrthwynebol o'r hyn nad yw eu meddwl yn ei ameu, a fyddai yn dra derbyniol ganddynt. Pa un a wna y rhesymau canlynol ateb y dyben hyny ai peidio a adewir i farn darllenwyr y Seren.

Yr ysgrythyrau, mewn modd eglur, a ddatguddia fod sefyllfa ddyfodol—teyrnas wedi ei pharotoi i bobl Dduw, i ba un y cant eu harwain a'u tywys i fwynhau bywyd tragywyddol; ac er cadarnhau a phrofi y bydd yr holl lu gwaredol o blith pawb dynion, yn feddiannol ar y wybodaeth sydd mewn amheuaeth, mae yn angenrheidiol i ddangos yn unig y bydd pob un yn feddiannol ar wybodaeth perffaith o'u hamrywiaeth a'u hunaniaeth. Bydd pob un yn gwybod beth a fydd ef yno, a pheth ydoedd pan oedd yma ar y ddaear; a'i fod yn cyfeillachu ag eraill yma; o ganlyniad, bydd gwybodaeth ac adnabyddiaeth ddedwydd o'r holl amgylchiadau tra ar y ddaear o angenrheidrwydd i fod yno. Yn awr, y mae hunaniaeth y gwynfydedigion nid yn unig yn cael ei gydnabod a'i egluro fel gwirionedd ysgrythyrol, ond mae yn anhebgorol angenrheidiol er ein bodoliaeth fel yr un creaduriaid mewn sefyllfa ddyfodol. Pe byddai yr holl gofion pa beth oeddem, a pha beth a wnaethom tra yn y byd hwn i gael eu dileu o'r meddwl, byddai terfyniad y bywyd presennol yn hollol ddiddymiad; a byddai y bod a ffurfid neu a neidiai i fodoliaeth yr ochr draw yn greadigaeth newydd ac nid parhad bodoliaeth. Byddai hyn ar unwaith yn groes i egwyddorion llywodraeth foesol y Duw cyfiawn mewn cyssylltiad â'r annuwiol yn gystal a'r duwiol: o herwydd byddai un yn cael ei gospi am beth na byddai yn ei wybod, a'r llall yn mwynhau dedwyddwch, ond nis gwyr pa fodd!

Mae gwadu adnabyddiaeth mewn sefyllfa ddyfodol yn ymddangos mewn rhyfel â holl egwyddorion a dybenion dydd barn, pa un a osodir allan yn yr ysgrythyrau yn ddatguddiad cyfiawn farn Duw, yr hwn a rydd i bob un fel y byddo ei waith ef. Am bob gair segur a lefaro dynion y rhoddant gyfrif yn nydd y farn. Pob un a rydd gyfrif drosto ei hun i Dduw, &c. Cyhuddir yr annuwiolion yno o'r gweithredoedd a gyflawnasant ar y ddaear—cawn y bydd rai o honynt hwythau eu hunain yn cyfeirio at eu hymddygiadau; "Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, oni phroffwydasom yn dy enw di, ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di, ac oni wnaethom wyrthiau lawer," &c. Y geiriau hyn, ac amryw eraill a arwyddant y bydd yr adnabyddiaeth a fodola rhyngom ar y ddaear heb ei difodi yno.

Y crybwylliad a wneir am y meirw cyn yr adgyfodiad a'r farn a gynnwys hyn hefyd mewn modd eglur. Y gwr goludog yn y ddameg (Luc 16.) wedi iddo farw, a aeth i'w le ei hun. Yr oedd yn eithaf gwybodus beth oedd, ble yr oedd yn arfer bod, ac adnabu hefyd yr hwn a arferai ei ganfod gynt yn cardota ar y ddaear.

Mae gwaith y gwaredigion, a'r gwasanaeth a gyflawnir ganddynt, yn brawf arall o'u hunaniaeth a'u hadnabyddiaeth â'u gilydd yno. Canu y maent gân Moses a chân yr Oen, gan ddywedyd, "Ti a laddwyd, ac a'n prynaist i Dduw trwy dy waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl; ac a'n gwnaethost ni i'n Duw yn freninoedd ac yn offeiriaid; ac ni a deyrnaswn ar y ddaear." Dat. 5. 9, 10. Y mae yn rhaid y byddant yn gwybod am amgylchiadau eu gilydd, a diau yn adnabyddus â'u gilydd, er cyfateb i'r darluniad hyn.

Pan mae pobl Dduw yn ymadael â'r fuchedd hon, maent yn cael eu cario gan angylion i fynwes Abraham. Dywedir eu bod yn eistedd gydag Abraham, Isaac a Jacob, yn nheyrnas nefoedd. Cynnwys hyn fod yno gyd-gymdeithas ac adnabyddiaeth hunaniaethol rhyngddynt, pan yn cyduno i ganu mawl am gariad gwaredol.

Nid yw yr ysgrythyr yn arwyddo y bydd unrhyw gynheddf eneidiol greadigol yn cael ei dileu mewn sefyllfa ddyfodol; ac os felly,

rhaid y byddant yn adnabod y rhai a adwaenent ar y ddaear; ond diau na fydd eu hadnabyddiaeth yn gyfyngedig i'w gwybodaeth flaenorol o'r naill y llall, ond y mae genym bob rheswm i gredu y byddant oll yn adnabod y naill y llall ar unwaith, pa le bynag y cyfarfyddont. Nis gallwn amgyffred faint fydd galluoedd ysbrydion y cyfiawnion wedi eu perffeithio. "Marw sydd elw." Mewn dedwyddwch a gwybodaeth bydd yn llawer helaethach; canys "gweled yr ydym yr awr trwy ddrych mewn dameg, ond yna wyneb yn wyneb. Yn awr yr adwaen o rhan; ond yna yr adnabyddwyf megys y'm hadwaenir." Yr oedd yr apostolion yn adnabod Moses ac Elias ar fynydd y gweddnewidiad, hyd y nod pan oeddent yn y corff; ond gymmaint mwy parod a chymhwys y byddant yn y wlad fry i adnabod eu gilydd yno?

Terfynaf gyda dywedyd hyn: mai cysur tlawd yw iddynt ddysgwyl cael bod gyda eu gilydd, yn yr un lle, os na byddant yn adnabod eu gilydd yno. Ond diau na byddwn yn fwy anwybodus yno nac ydym yma. Ond, pa fodd bynag, ymdrechwn am fod yno.

*Youngstown, O.* *Cyf.* TREBORP.

## AM BECHOD GWREIDDIOL.

MR. GOL.—Llawer sydd wedi ei bregethu a'i ysgrifenu ar y pwngc hwn, mewn gwahanol oesoedd, a chan wahanol bersonau a chenedlaethau, er amser Augustine hyd yn awr, fel y mae braidd yn anmbosibl dywedyd dim nad yw wedi ei ddywedyd o'r blaen; ond er hyn mi a gynnygiaf sylw byr arno, o herwydd ei fod yn deilwng i'w roddi gerbron eich darllenwyr.

1. Y mae y cyfammod a wnaeth Duw ag Adda yn cael ei alw gan lawer yn gyfammod gweithredoedd, a bod Adda yn y cyfammod hwnw yn cynrychioli ei holl had, ac o herwydd hyny fod trosedd Adda yn cael ei gyfrif i'w holl eppil.

2. Fod y natur ddynol wedi ei llygru; hyny yw, fod tuedd yn mhob dyn i wneuthur drwg, yr un fath ag y mae ei duedd naturiol at fwyta ac yfed; ac nas gall fyw yn y byd hwn heb bechu mwy nag y gall fyw heb fwyta ac yfed; o herwydd fod tuedd ei natur yn groes i ddeddfau y nef.

Nid yw y ddau olygiad uchod ond fel dau o wyth o'r gwahanol ystyriaethau a roddir i'r ymadrodd "pechod gwreiddiol" mewn gwahanol gredoau. Ond gan nad oes dim yn cael ei ddywedyd yn y drydedd bennod o Genesis, am y dull y byddai i bechod yr Adda cyntaf effeithio ar ei hâd, nac yn wir mewn un modd yn rhoddi lle i ni gasglu ei fod yn ben-cyfammodwr, hyny yw, ei fod yn sefyll neu yn syrthio yn lle ei holl hâd; ymddengys imi nas gall hyn fod yn ol natur llywodraeth foesol; ie, yn unol â natur y sefyllfa yr oedd Adda ynddi: o herwydd ymadrodd pennodol yw, "Yn y dydd y bwytai o hono, gan farw a fyddi farw." Felly yr oedd ufudd-dod i'r gosodiad yn sicrhau bywyd i'w holl ddeiliaid. Ond gan nad oedd ond dau yn bodoli o dan y gosodiad hwn, ac i'r ddau hyny dori eu hammodau, yna fe ddarfyddodd eu hawl i'r fendith addawedig yn y fan; o herwydd y mae yn amlwg i bawb nas gall trefn neu osodiad barhau ar ol tori ei ammodau. Ni a welwn, gan hyny, nad yw dywedyd fod yr hil ddynol wedi fforffetio eu hawl yn yr Adda cyntaf, a'u bod yn haeddu cael eu cospi byth yn uffern am hyny, a llawer o ymadroddion cyffelyb, ond tywyllu cynghor ag ymadrodd heb wybodaeth, ac y mae y fath athrawiaeth yn gabledd yn erbyn Duw. Pa fodd y gall bodolion haeddu cosp am drosoed un arall, pan nad oedd ganddynt hwy eu hunain unrhyw gyfran yn y weithred?

Yr oedd yn rhaid o ganlyniad gael trefn arall (sef yr un Gyfryngol) cyn y gallai yr un yn rhagor o'r hil ddynol fodoli, gan hyny yr oedd yn rhaid fod y drefn hon yn unol â natur y llywodraeth feosol yn gystal ag â sefyllfa y deiliaid; a'r canlyniad fu, i'r cyfryw osodiad fod yn barhad bywyd iddynt, fel gwobr o'u hufudd-dod i'r Gosodwr. Y mae y drefn hon, fel yr un a roddwyd i'r Adda cyntaf, yn gorchymyn i bawb o'i deiliaid yn mhob man, yn ol eu galluoedd a'u gwahanol sefyllfaoedd yn y byd, i "garu Duw â'u holl galon, a'u cymmydog fel hwy eu hunain." A'r neb ni wnel hyn sydd yn gondemniedig, ac yn agored i dragywyddol gosp; ond nid yw yn bosibl, yn ol natur llywodraeth foesol, i neb o'i deiliaid deimlo euogrwydd neu haeddu cosp, hyd nes y byddo iddynt hwy yn bersonol droseddu ei rheolau; ac hefyd nid yw yn bosibl, yn ol natur pethau, i drosglwyddo euogrwydd neu rinwedd o un person i'r llall; o herwydd "Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw." Hefyd, y mae yn rhaid, yn ol natur llywodraeth foesol, fod gallu y deiliaid yn gyfled a'u dyledswydd, ac felly y mae yn rhaid fod pob un o'r hil ddynol (ag sydd yn addas ddeiliaid o'r llywodraeth) yr un mor bersonol gyfrifol i'r llywodraeth dan y drefn gyfryngol ag oedd Adda dan yr un a dorodd. Yn awr, fe allai fod rhyw un yn barod i ofyn, a ydwyf fi yn gwadu y pechod gwreiddiol? Yr wyf yn dywedyd fy mod yn yr ystyr a enwyd uchod, trwy ddywedyd nad oedd y trosedd hwnw yn perthyn i neb ond i Adda ac Efa; a'm rheswm dros hyny yw, fod yn anmhosibl, yn unol â natur llywodraeth â rhydweithredyddion, i neb gynrychioli person neu bersonau, oddieithr iddo gael ei ddewis gynddynt i hyny; ac am hyny y mae yn rhaid fod pob dyn ag sydd mewn synwyr ac oedran, mor bersonol gyfrifol a phe na buasai Adda erioed wedi bodoli. Ond y mae y dybiaeth fod y natur ddynol wedi ei llygru (hyny yw, fod pob dyn o ran cyfansoddiad ei natur yn bechadurus) yn gwneuthur Duw yn Awdwr pechod (pe byddai yn bosibl i hyny fod): ac hefyd yn tybied na fu neb ond Adda o'r hil ddynol yn rhydd-weithredyddion. Hefyd, mae dal fod marwolaeth naturiol y corff, a marwolaeth ysbrydol yr enaid, ynghyd a'r holl wahanol glefydau a'r annhrefn, sydd wedi bod, ac eto yn bod, yn mhlith dynolryw, ynghyd a'r annrefn a'r elyniaeth, a marwolaethau creaduriaid afresymol, wedi dyfod yn gosp ar ddynoliaeth am bechod Adda,—mae hyn, meddaf,

nid yn unig yn taro yn erbyn deddf natur, ond hefyd yn taflu y dianrhydedd mwyaf ar Awdwr natur, gan ei wneud yn Feistr caled, trwy gospi dynion am bethau nas gallant mwy oddiwrthynt nag y gallant oddiwrth eu lliw a'u llun. (Gan hyny dywedwn, "Na ato Duw, eithr bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog.") Yr wyf yn meddwl fod yn anmhosibl i ni gyssoni y rhanau hyny o'r Bibl, megys Rhuf. 5. 12. a'r 1 Cor. 15. 22, ond mewn un ffordd, sef, fod pob dyn yn pechu (ac yn ddaearol, i farw, neu i'w cyfnewid) ac felly yn droseddwyr yn erbyn Duw yr un modd ag yr oedd Adda o dan y drefn gyntaf a roddwyd iddo; ond y mae yn wir fod yma wahaniaeth yn y ddwy drefn,—un heb un drugaredd ynddi i'w gwrthddrychau os troseddent; a'r llall yn gallu arbed am ysbaid o amser i gynnyg maddeuant ar yr ammod o ffydd ac edifeirwch. Ond y mae yn wir fod y rhanau uchod o'r ysgrythyrau yn golygu Adda fel yr achos o farwolaeth y corff, eto nid yw y rhanau hyn i ni i'w deall yn llythyrenol, yn eu hystyr helaethaf,—nid yw bob dyn i farw ac i ddychwelyd i'r pridd, o herwydd y mae y gair Dwyfol yn sicrhau y bydd i rai gael eu cyfnewid yn y dydd olaf. Ac hefyd, y mae holl drefn natur yn profi y buasai i gorff Adda gael ei gyfnewid pe na buasai iddo bechu. Y mae meddwl pe na buasai iddo bechu y buasai iddo ef a'i had drigo ar y ddaear byth, heb un cyfnewidiad ar eu cyrff yn groes i natur yn yr oll o honi yn y byd hwn; ac yn wir, y mae yr holl rhesymau sydd yn y Bibl yn dangos fod dynion yn byrhau eu dyddiau yma ar y ddaear, yn profi hefyd y gall dynion estyn eu dyddiau trwy ufuddhap a iawn-ddefnyddio y galluoedd y mae Duw yn eu rhoddi iddynt. Prawf hyn y darfyddai clefydau ac agos pob math o afiechyd mewn wyth neu naw o genedlaethau, ac y byddai i ddynion fyw yn hir y ddaear, ac yn y diwedd i wywo fel pren, nes i'r anadl fyned allan fel canwyll yn diffodd; a hyn yn ddiau a gymer le i raddau mawr yn ysbaid y mil blynyddoedd. Hefyd y mae holl bethau natur yn ein dysgu y buasai amrywiaeth yn mhlith dynoliaeth mewn cyrff ac ysbrydoedd pe na buasai i Adda bechu; ac felly y buasai pob un yn bersonol gyfrifol i'r llywodraeth foesol, yn ol ei alluoedd. Ni allasai Adda fod yn gyfrifol ond drosto ei hun. A pha gyfnewidiad bynag a ddarfu i drosedd cyntaf Adda ei ddwyn ar ddynoliaeth yn yr oll o honi, y mae y manteision a'r anfanteision yn yr holl amrywiaeth yn y cyfansoddiad dynol, ynghyd a'r amrywiaeth mewn sefyllfaoedd, o'r pagan mwyaf anwybodus mewn gwlad baganaidd, hyd y dyn mwyaf ei wybodaeth a'i fanteision yn ngwlad efengyl, yn gyfrifol i'r llywodraeth, yn ol graddau y goleuni a'r amgylchiadau ag y byddont ynddynt. Iawn ddefnyddio y galluoedd naturiol a'r moddion sydd ganddynt a'u cymeradwya gerbron y llywodraeth; a'u cam-ddefnyddio a'u condemnia byth, a bydd eu cydwybod eu hunain yn dyst o uniondeb y ddedfryd. Y mae yr adnodau a ganlyn yn profi y golygiadau uchod, os gellir profi dim o'r Bibl: Job 34. 23; Rhuf 2. 1—16; 2 Cor. 5. 10; Ezec. 18. 4. Ond fe allai fod rhai yn credu fod Duw, fel Awdwr bodoliaeth, yn rhoddi bod i rhyw ran o'r hil ddynol i'r dyben o'u cospi byth mewn byd arall, o herwydd dywedant eu bod yn bechaduriaid yn Adda, ac felly fod Duw yn gyfiawn yn ei waith yn gweinyddu cosp arnynt. Ac yn wir, mi a glywais rai yn gweddio am faddeuant o'r trosedd hwnw (sef pechod Adda), ac yn dywedyd y byddai Duw yn gyfiawn pe byddai yn eu cospi byth am dano, ynghyd ag ymadroddion cyffelyb. Ond y gwir yw y bydd pawb yn y byd arall yn deall yn berffaith beth oedd eu sefyllfa yn y byd hwn; ac os yn y trueni y byddant, hwy a briodolant yr achos o hyny yn gwbl iddynt eu hunain: a phe na byddai felly, byddent yn wrthddrychau tosturi (yn hytrach nag i'w beio) gan yr holl greaduriaid moesol yn y bydysawd.

*Utica.* RICHARD T. JONES.

---

## CYFARCHIAD

## CYMDEITHAS CYFAILL YR YMFUDWYR YN LIVEERPOOL.

Trwy garedigrwydd Mr. Eleazer Jones, derbyniasom gyfarchiad Cysbwyllawd Parotoadol y Gymdeithas uchod, yn gosod allan mewn modd eglur ddyben y sefydliad, ynghyd a'r cynllun sydd ganddynt, wrth ba un y bwriadant weithredu, er amddiffyn a chynorthwyo ymfudwyr yn y porthladd uchod. Y mae dros 160,000 o ymfudwyr wedi hwylio o Liverpool y flwyddyn ddiweddaf, ac yn ol pob tebygolrwydd bydd llawer mwy yn ystod y flwyddyn bresennol. Rhan fawr o ba rai a dwyllir yn rhyw fodd neu gilydd, o herwydd dichellion y rhai sydd yn y fasnach ymfudawl, a'u hanwybodaeth eu hunain. Gosodir allan yn y cyfarchiad yr anfanteision y llafuria yr ymfudydd danynt; ond barnwn fod ein darllenwyr gan mwyaf yn brofiadol o honynt, fel nad yw yn angenrheidiol i ni lanw ein tudalenau i fynu â darluniadau o'r gwahanol ffyrdd trwy ba rai y mae yr ymfudwyr yn dyoddef. Bernir fod tua hanner miliwn o bunnau yn cael eu codi yn dwyllodrus oddiwrth ymfudwyr yn Liverpool yn unig bob blwyddyn.

I wellhau a gochelyd y gwahanol golledion, niweidiau, a drygau, y mae yr ymfudwyr yn bresennol yn agored iddynt, amcenir sefydlu cymdeithas yn Liverpool, yn meddu trysorfa ddigonol i gael cartref cysurus i ymfudwyr tlodion tra yn aros yn y porthladd hwnw, a darparu swyddogion diduedd i roddi pob hysbysrwydd a allant yn rhad i'r holl ymfudwyr. Bwriadant ohebu â gwahanol gymdeithasau elusengar a phersonau mewn awdurdod a swyddau anrhydeddus yn y wlad hon, er cael allan pa le i gyfarwyddo y rhai a fyddont yn ymofyn gwaith ar ol cyrhaedd

America. Hefyd, bwriadant gynorthwyo y rhai a fyddont yn analluog i ymfudo, ac yn enwedig amddiffyn a noddi y diniwed rhag gwahanol beryglon ac ymosodiadau i ba rai y mae yn agored.

## CYFRIFON AMERICANAIDD.

Rhydd De Bow, yn ei Adolygiad Cyffredinol, rai cyfrifon tra gwerthfawr a dyddorawl o barth rhifedi milwyr y talaethau yn y Chwyldroad; rhoddwn dri o honynt o flaen y darllenydd :

1. Nifer y milwyr o bob talaeth yn ystod y Chwyldroad, a phoblogaeth pob talaeth yn y fl. 1790 a'r fl. 1847.

2. Prif frwydrau y Chwyldroad, eu dyddiad, eu cadlywyddion, a'r golled o bob tu.

3. Y swm o arian cyfandirol (*continental money*) a roddwyd allan i gynnal a dwyn traul y rhyfeloedd.

**Talaethau Chwyldroadol.**

| | Milwyr. | Poblog'th yn 1790. | Poblog'th yn 1847. |
|---|---|---|---|
| New Hampshire- - - | 12,497 | 141,891 | 300,000 |
| Massachusetts a Maine | 67,097 | 475,257 | 1,450,000 |
| Rhode Island- - - - | 5,908 | 69,110 | 130,000 |
| Connecticut - - - - | 31,959 | 238,141 | 330,000 |
| New York - - - - | 17,781 | 340,120 | 2,780,000 |
| New Jersey - - - - | 10,726 | 181,139 | 416,000 |
| Pennsylvania- - - - | 25,678 | 434,373 | 2,125,000 |
| Delaware - - - - | 2,386 | 59,098 | 80,000 |
| Maryland - - - - | 13,912 | 319,728 | 495,000 |
| Virginia - - - - | 26,678 | 748,308 | 1,270,000 |
| North Carolina - - - | 7,263 | 393,751 | 765,000 |
| South Carolina - - - | 6,417 | 249,073 | 605,000 |
| Georgia - - - - - | 2,509 | 82,548 | 800,000 |
| Y cwbl,- - - - | 231,971 | 2,820,959 | 11,546,000 |

**Brwydrau y Chwyldroad.**

| Brwydrau. | Ymladdwyd. | Cadfridogi'n America. | Colled. | Cadfr'on Prydain. | Colled. |
|---|---|---|---|---|---|
| Lexington. | Ebrill '75 | | 84 | | 245 |
| Bunker Hill. | Meh. '75 | Warren | 453 | Howe | 1054 |
| Flatbush. | Awst '76 | Putnam | 2000 | Eto | 400 |
| W. Plains. | Hyd. '76 | Washington | 300 | Eto | 300 |
| Trenton. | Rhag. '76 | Eto | 9 | Rahl | 1000 |
| Princeton. | Ion. '77 | Eto | 100 | Maw'd | 400 |
| Bennington. | Awst, '77 | Stark | 100 | Baum | 600 |
| Brandywine. | Medi, '77 | Washington | 1200 | Howe | 500 |
| Saratoga.* | Hyd. '77 | Gates | 350 | Burg'e | 600 |
| Monmouth. | Meh. '78 | Washington | 230 | Clinton | 400 |
| Rhode Island. | Awst, '78 | Sullivan | 211 | Pigott | 266 |
| Briar Creek. | Maw. '79 | Ashe | 300 | Prevost | 10 |
| Stoney Point. | Gor. '79 | Wayne | 100 | Johnson | 605 |
| Camden. | Awst, '81 | Gates | 720 | Cornwal. | 370 |
| Cowpens. | Ion. '81 | Morgan | 72 | Tarle'n | 803 |
| Guilford. | Maw. '81 | Greene | 400 | Cornwal. | 520 |
| Eutaw Springs | Medi, '81 | Eto | 555 | Stewart | 1000 |

*5,752 o Brydeinwyr a gymerwyd yn garcharion.

☞Terfynodd y rhyfel ar ymostyngiad (*surrender*) Cornwalis yn Yorktown, Hydref, 1781: a chymerwyd 7,072 o garcharorion.

**Arian Cyfandirol.**

| | |
|---|---|
| Y swm a roddwyd allan yn 1775 - - | $2,000,000 |
| " " " yn 1777, - | 20,000,000 |
| Y cwbl a roddwyd allan hyd Gorph., 1799, | 358,000,000 |
| Holl draul y rhyfel, a gyfrifir oddeutu | $135,793,703 |

## CENHADWRI Y LLYWYDD FILLMORE.

Ystyrir fod y genhadwri uchod yn dra amlwg, byr a chynnwysfawr. Rhoddwn dalfyriad o'i chynnwysiad. Byddai ei gosod i mewn yn llawn yn cymeryd gormod o le i fynu.

Cyfeiriodd at ei esgyniad i'r gadair, ac at sefyllfa y wlad mewn cyssylltiad a gwledydd eraill. Ei reol bob amser fydd cyfansoddiad y wlad; mewn achosion amheuol bydd cynghor a chyfarwyddyd y rhai a sefydlwyd i'w esbonio yn dderbyniol. Mae yn cydnabod ei hawl i'r *veto*, a defnyddia ef os bydd angen. Penderfyna osod y cyfreithiau mewn grym ar bob achos. Nid oes neb o'r deiliaid i fod islaw nawdd y gyfraith, na neb i fod uwchlaw ei awdurdod. Mae ffyddlondeb swyddogion gwladol yn angenrheidiol, ac ni oddefir esgeulusdod ynddynt mewn dim. Nid oes unrhyw gyfnewidiad o bwys yn yr amgylchiadau tramor. Cyfeiria at y cydundeb a gwblhawyd â Phrydain i wneud camlas o'r Môr Werydd i'r Môr Tawelog, ac yr hwylusir y gwaith yn mhob modd. Mae dinasyddion o'r Talaethau wedi cymeryd yr anturiaeth o gyssylltu y ddau for â rheilffordd yn Nghwddfdir Tehuantepec, drwy ganiatad llywodraeth Mexico i ddinesydd o'r weriniaeth hono. Y derbyniadau i'r drysorfa am y flwyddyn a derfynai y 30ain o Fehefin diweddaf, oedd $43,002,168. Mae y dyled cyhoeddus wedi ei leihau yn ystod y flwyddyn $495,276. Mae yn rhaid talu $3,075,936 eto o fewn dwy flynedd, neu ddarparu ar ei gyfer. Cymeradwya wellhad yn y *tariff* presennol, trwy fabwysiadu cyfundraeth o gyllidau pennodol yn lle *ad valorem*, er cynyddu y drysorfa wladol, yn gystal ag amddiffyn diwydrwydd cartrefol. Dywed na bydd tariff uchel yn beth parhaus. Achosa anfoddlonrwydd a chyfnewidir ef. Y mae yn atal cystadleuaeth, ac am hyny yn denu dynion i osod allan eu meddiannau mewn gweithfeydd i'r fath raddau, fel y mae ei gyfnewid yn dwyn tlodi a dinystr i amryw o'r anturiaethwyr anffodus. Yr hyn sydd eisiau ar y perchenogion yw unrywiaeth masnachol parhaus, fel y gallont ymddibynu na bydd iddynt gael eu dinystrio gan gyfnewidiadau buan. Anoga sefydliad bathdy yn California—gorfodir y cloddwyr yno i werthu eu "Hwch" am lawer llai na'i werth, er cael arian i'w ddefnyddio. Sonia am erchwylhau

nifer o fwnbrofwyr (*mineralogists*), er cae allan ryw ddrychfeddwl o werth trysorau tanddaearol ein gwlad. Dywed mai dyledswydd y llywodraeth yw trefnu pob mesurau er hwylusu masnach ddirwystr â gwahanol wledydd y byd. Galwa ystyriaeth y Gynghorfa at y ddadl a fodola e barth cyfreithlondeb hawliau tirol yn California; a chymeradwya neillduad negeseuwyr, er chwilio i seiliau gwahanol hawliau sydd yn erbyn y llywodraeth, er eu terfynu yn gyfiawn. Mae yn wrthwynebol i ardrethu tiroedd mwnawl yn California, ond cymeradwya eu gwerthiad am y prisoedd goreu, i wahanol brynwyr, er atal gormes a thraws-lywodraeth masnachol. Trwy helaethiad diweddar ein terfynau, mae y gwahanol lwythau Indiaidd a ddygwyd dan ein llywodraeth yn cyfrif oddeutu 124,000 o drigolion. Cymeradwya godiad catrawd o filwyr meirch, er darostwng terfysgoedd Indiaidd ar ymylau Texas a Mexico Hen a Newydd. Ailanoga y Gynghorfa i godi Nawddle i gynnal milwyr hen a methiedig. Mae llongau ein llynges mewn gwahanol fanau yn parhau i ddyogelu ac amddiffyn ein masnach forawl â gwledydd eraill. Mae llwyddiant y ddwy frig a aeth allan i chwilio am Syr John Franklin a'i gyd-forwyr yn amheus; ond sicr eu bod wedi hwylio yn mhell i'r gogledd. Y mae yn cymeradwyo gwneuthur cyfraith er awdurdodi swyddogion y fyddin a'r llynges i ymadael â'r gwasanaeth, pan fyddont yn analluog i gyflawni eu swyddau. Barna y dylid adolygu cyfreithiau y llynges. Y mae beiau y cyfreithiau hyn yn aml wedi eu nodi allan, ond nid oes fawr diwygiad wedi ei wneud ynddynt er ys hanner cant o flynyddoedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ddiweddaf yr oedd teithiau y cod-gludfeydd (*mails*) yn yr Unol Dalaethau yn 178,672 o filldiroedd; y teithiad blynyddol yn 465,541,423 o filldiroedd, a'r draul flynyddol o'r cwbl yn $2,724,426,—yr hyn sydd tua 3,997,354 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac a chwanega y draul $342,426.—Nifer y post-swyddfeydd yn yr Unol Dalaethau y laf o Gorphenhaf diweddaf oedd 18,417, yr hyn ydoedd yn ychwanegiad o 1670 er y flwyddyn flaenorol. Cymeradwyir gostwng pris cludiad llythyrau ardirol i dair cent am lythyrau sengl pan delir y cludiad yn mlaen llaw, a phump cent pan na thelir y cludiad yn mlaen llaw—a gostyngir pris y llythyrau a delir yn mlaen llaw i ddwy cent cyn gynted ag y byddo y taliadau yn 5 y cant yn fwy na'r derbyniadau; hefyd, gostwng llythyrau i California, a llythyrau eraill a anfonir gyda ein ager-longau morawl, a gosod cludiad newyddiaduron, pamphletau, cyhoeddiadau, a llyfrau argraffedig yn llawer is a mwy unffurfiol. Anoga y Gynghorfa i ymdrechu yn mhob modd galluadwy i hwylusu masnach a therfynu gwahanol achosion ansicr ac amheus. Terfyna trwy gyfeirio sylw y Gynghorfa at y cynhwrf diweddar o barth caethiwed; a gwasga ar eu meddwl yr angenrheidrwydd o gynnal yr Undeb a ffurfiwyd gan eu tadau, a gosod i lawr yn ddioed bob cynnygiad a ellir ei wneud i'w dori neu ei aflonyddu. Cymeradwya eu hymlyniad diysgog wrth y mesurau sydd yn barod wedi eu mabwysiadu hyd nes y bydd amser a phrofiad wedi trefnu rheolau pellach yn yr achos.

---

## LLYTHYR O CALIFORNIA.

*Dyfyniadau o Lythyr Mr. W. P. Edwards, at Mr. T. Morgan, Philadelphia.*

Anwyl Syr,—Yr ydych yn ddiau wedi dysgwyl llythyr oddiwrthyf cyn hyn, a buaswn wedi danfon un atoch pe buasai genyf gyfleusdra; ond dywed hen ddiareb mai "gwell hwyr na hwyrach," ac hyderaf fod hyny yn wir yn yr amgylchiad presennol. Ysgrifenaf y cwestiwnau a anfonasoch ataf, a rhoddaf fy atebiad iddynt mor fyr a chynnwysfawr ag y medrwyf.

1. Pa fath yw hinsawdd, ffrwythlondeb, a phrif gynyrchion y wlad?

Oddiwrth yr hyn oll a allaf gasglu mae hinsawdd y wlad hon yn dra chyfnewidiol. Y gauaf diweddaf ni chafwyd dim eira yn San Francisco, ond penau y mynyddau yn unig a orchuddid ganddo rai gwethiau; y gauaf cyn hyn hyny gwnaeth lawer o eira agos yn mhob man. Yn ystod y tymhor gwlawiog neu auafaidd yr wyf wedi cysgu mewn pabell gan mwyaf, ac yn bwyta fy ymborth yn yr awyr agored. Yr oedd y gwlawogydd yn faith ac aml, a'r gwyntoedd yn gadarn a nerthol, ac weithiau yn arswydlawn. Chwythodd dai i lawr yn San Francisco. Dechreuodd y tymhor gwlawiog yn gynar yn Tachwedd, 1849, a therfynodd tua diwedd Mawrth diweddaf—y rhan arall o'r flwyddyn a wna y tymor sych, yn ystod pa un nid oes nemawr neu ddim gwlaw yn syrthio: pa fodd bynag, y mae y gwlith yn luosog, fel y mae y dyffrynoedd a'r bryniau yn cadw eu gwyrddlesni hyd fis Awst, o gylch pa amser mae y cwbl fel yn gwywo, a phob nant yn sychu i fynu. Clywais un o hen drigolion y wlad yn dywedyd, bod ardal San Francisco y rhan fwyaf anghysurus ac afiach o California i fyw ynddi. Yn ystod tymhor yr haf, y mae y niwl yn dew yn y boreu a'r hwyr, a chanol dydd yn hynod o boeth. Mae yr hinsawdd yn amrywio cym-

maint yn aml mewn un dydd, fel y gorfyddir ni i newid ein dillad. Mae y tir mewn amryw fanau yn dra ffrwythlon, er nad yw y cynhyrch ond ychydig (o leiaf yn y parth hwn,) os nad ystyriwn lygod bychain y tir yn ran o'r cynhyrch, y rhai a fedolant yma wrth y miloedd. Mae y Californiaid yn bobl hynod o ddiog, ni wrteithiant y tir o'r braidd er cynnal eu teuluoedd. Mae rai Americaniaid yn dechreu ffarmio, ond yn bresennol y mae agos yr holl beilliaid, blawd a bwydydd yn cael eu dwyn yma o wledydd eraill, ac nid oes fawr ffrwythau yn tyfu yma.

2. A oes yma farchnad? beth yw y nwyfau a werthir, ac o ba le y dygir hwynt? pa fodd y gwerthir ymenyn, caws, cig, &c?

Y mae amryw farchnadoedd yn San Francisco, fel eu gelwir; ond nid yw y rhai hyn yn ddim rhagor na masnachdai neu ystordai a gedwir gan unigolion. Nid oes marchnad gyhoeddus yn un o'r dinasoedd mawrion. Y nwyfau a'r darpariadau ydynt dra anghysson, ac yn gynnwysedig gan mwyaf o angenrheidiau bywyd. Yr holl fwydydd hydyfawl (*vegetables*) o ba rai y mae pytatw yn gwneud i fynu y rhan benaf, ydynt yn dyfod o Ynysoedd Sandwich, a'r peilliaid o Oregon a Chili. Nid oes nemawr o gynhyrchion cartrefol yn cael eu dwyn i'r farchnad, oddieithr ychydig ffrwythau o darddiad buan gan Americaniaid. Caws ac ymenyn a ddygir o'r talaethau, ac y mae tair ran o bedair o'r trigolion yn byw heb un o'r ddau. Cig eidion a ddygir yma gan yr Americaniaid; nid oes moch na defaid i'w cael yn y parth yma o'r wlad. Gwerthir da gwylltion gan y brodorion i'r Americaniaid, y rhai a'u lladdant ac a'u dygant i'r trefydd i'w gwerthu. Mae pris y cig eidion yn ymddibynu yn gwbl ar y llawndid. Gwelais ef yn hanner dolar y pwys, neu ychwaneg, ac ar brydiau eraill am lai na chwarter; yn fyr, y mae yn aml yn cael ei daflu dros y bwrdd o'r badau, pan na byddo galwad am dano.—Pan ddaethum yma, gwerthid ymenyn am $2 y pwys; y mae yn bresennol yn 75 cents—cofier ei fod oll yn hallt. Wyau, $4 y dwsyn; llaeth, dolar y chwart; afalau, cnau, &c., yn gwerthu am brisoedd afresymol o uchel. Gwyrodydd, gwinoedd, cwrw, porter, &c., a ddygir o'r Talaethau a Lloegr, ac a werthir am brisoedd mawrion, oddieithr gwyrodydd, â pha rai y mae y farchnad yn orlawn. Y mae yma arwerthiadau helaeth o nwyfau o bob math yn ddyddiol, ac weithiau gwerthir llwyth llong yn gyflawn ar unwaith, a'r prisoedd yn amrywio ddeng waith mwy nag y maent yn y talaethau.

3. **A oes yma dyddynwyr brodorol? a pha fodd y maent yn trin eu tir?**

Nid oes yma neb *tyddynwyr* brodorol. Y mae amryw o'r Californiaid yn byw ar eu *ranches* yn mhob parth; ond nid ydynt yn gwrteithio y tir. Ymddengys mai y cwbl a ymgeisiant ato wrth fyw yw ffug-chwareu, a marchogaeth eu ceffylau i farwolaeth. Yr wyf yn gwybod am 50 neu 60 o wartheg, ac amryw o ieir, o fewn llai nag ugain milldir i San Francisco, ond nid yw y llaeth na'r wyau yn cael eu gwerthu gan y perchenogion. Pe byddai dyn o gyfoeth ond prynu tyddyn a chadw gwartheg yn ardal San Francisco, gallai wneud arian yn dra buan.

4. Am ba faint y gellir prynu tir? a chan bwy y gellir ei gael—ai gan y llywodraeth neu unigolion?

Barnwyf y gellir ei gael gan berchenogion y *ranches*. Pa fodd bynag, pe byddwn i yn dewis cael tyddyn ni phrynwn ef gan y Californiaid, gan nad wyf yn meddwl y bydd nac y gall ein llywodraeth gydnabod hawl amryw o honynt. Gofynais i Don Antonio Peralto, yr hwn a berchenoga, neu a gymer arno berchenogi deng milldir petryal o dir ger San Francisco, pa faint y flwyddyn a godai o ardreth am ddernyn o dir tua phedair erw oedd wedi ei amgau ganddo? Dywedodd mai $400, ac nid wyf yn meddwl y gellir ei gael am lai, er nad yw yn ei wrteithio ei hun. Y rhan fwyaf o'r brodorion a ofynant brisoedd afresymol o'r fath; ond yr wyf yn barnu y gellid cael tir y llywodraeth yma am yr un bris ag mewn manau eraill, sef $1 25 yr erw. Rhaid i ddyn fod yn gyfoethog yma i ddechreu bod yn dyddynwr—mae ychain gweithio yn werth o dri i bump cant o ddoleri yr iau; ceffylau, o $150 i $250 yr un; gweithwyr yn ddrud, a'r draul o drosglwyddo y cynhyrch i'r farchnad agos yn anghredadwy.

5. Pa fodd y mae y fasnach gyfanwerth yn cael ei dwyn yn mlaen? a pha beth yw pris y prif nwyfau?

Y mae yma amryw o dai helaeth—y rhan fwyaf o honynt yn ganghenau o dai mawrion New York, Philadelphia, a Boston, ynghyd a rai tai Seisnig. Maent yn delio mewn pob math o nwyfau, ac yn cario eu masnach yn mlaen yn dra chalonog ac anturiaethgar. Os gall unrhyw dŷ gael mantais i ormesu a chodi prisoedd afresymol defnyddir y cyfleusdra; ond dichon mai dyfodiad llong arall i'r porthladd a fydd yn foddion i ddinystrio eu holl gynlluniau. Pa fodd bynag, y mae masnach yn dyfod yn fwy cyson yma yn barhaus, ac ymddengys fod pob dosbarth yn dechreu ymneillduo ar eu penau eu hunain. Rhyfedd mor ansefydlog yw masnach yma, yn enwedig y masnachwyr gwanaf, y rhai nad ydynt yn

gyfoethog. Y mae amryw o'r rhai sydd yn dyfod i'r wlad hon yn dwyn gwerth cannoedd o filoedd o nwyfau gyda hwynt, a barnwyf eu bod agos oll yn colli arian oddi wrthynt. Y mae y treulion yn bwyta y cwbl i fynu. Y mae y prisoedd yn amrywio cymmaint fel y mae yn anmhosibl roddi desgrifiad o honynt.

[I'w barhau.]

## ANERCHIAD I'R SEREN ORLLEWINOL.

Fe wna'r Seren roi goleuni, Ar hyd y nos,
Mewn tywyllwch, er ein lloni, Ar hyd y nos;
  Golwg arni rhwng cymylau,
  Pan yn nghanol cyfyngderau,
Roddodd fodd i'm hwylio'm camrau, Ar hyd y nos.

Er mor ddued ydyw'r wybren, Ar hyd y nos,
Mi gaf olwg ar y Seren, Ar hyd y nos;
  Y mae hyny i mi'n gysur,
  Er mor ddyfned yw fy nolur,
Galwaf hi'n "Gyfeilles gywir," Ar hyd y nos.

Tebyg yw i "Seren Gomer,"—Ar hyd y nos,
A lewyrchedd mewn uchelder, Ar hyd y nos,
  Wrth ei goleu hi'r un dirion
  Y mae llu o bererinion
Yn myn'd adref trwy flinderon, Ar hyd y nos.

Hi yw Seren fwyn y gogledd, Ar hyd y nos,
Ac er budd mae'n para'r unwedd, Ar hyd y nos;
  Hon rydd gysur mawr i'r morwyr
  Er eu nerthu 'fyn'd yn gywir
Wrth gael golwg arni'n eglur, Ar hyd y nos.

Pe gwnai'r Seren fwyn fachludo, Ar hyd y nos,
Ni gaem rodio dan ein dwylo, Ar hyd y nos;
  O gwna aros, paid a chilio,
  Onide 'rwy'n siwr a syrthio
Nes bo'm hesgyrn yn malurio, Ar hyd y nos.

Nid yw'r Seren yn bartiol, Ar hyd y nos,
Hi rydd lewyrch cyffredinol, Ar hyd y nos;
  Mae er budd i lawer Cymro,
  Gan eu cywir gyfarwyddo,
Pa ryw ffordd y dylynt rodio, Ar hyd y nos.

Llwyddiant iddi, medd fy nghalon, Ar hyd y nos,
Ac i'w hoff Olygydd ffyddlon, Ar hyd y nos:
  Meibion Gomer, de'wch yn ffyddlon
  Er cyduno idd ei chanmol,
Y mae hon yn fendith rasol, Ar hyd y nos.

Aed ei llewyrch yn oleuach, Ar hyd y nos,
Hyd nes gwelom yn amgenach, Ar hyd y nos;
  Y mae angen hon yn gyhoedd
  Hyd hoff foreu'r mil blynyddoedd,
Yna ni fydd blin derfysgoedd, Mwy na nos.

THETA ETA.

## Y WEDDW HELBULUS.

Un dydd yr oedd yr hin yn oer, a'r haul ar fachludo, pan y daeth gweddw dlawd, a'i mab bychan at ddor anedd orwych. Ar ol canu y gloch, daeth y forwyn allan, ac a sylwodd ar y weddw a'i mab; yna hi a ddychwelodd at ei meistres, gan ddywedyd, "Mae wrth y drws fenyw dlawd, yn begian am gael yma letty dros nos." Yna y wraig a gychwynodd, ac a gymerodd olwg ar y fam dlawd a'i mab y rhai oeddent yn sefyll allan yn y tywydd, a'r cymylau duon a fygythient dywallt eu cynnwysiad arnynt, a chysgodau y nos oeddent yn dechreu taenu eu lleni duon dros y fro. Y wraig urddasol a ofynodd i'r weddw beth oedd ei sefyllfa, yr hon a'i hatebodd yn alarus, "Er ys blynyddau yn ol ni a symudasom fel teulu i'r gorllewin (Americanaidd.) yno fe gymerwyd fy anwyl briod a'r plant ymaith gan angeu, ond y mab bychan hwn, pa un sydd yn chwech mlwydd oed." Hysbysodd y foneddiges iddi nad oedd gwr y tŷ yn caniatau i neb dyeithriaid i gael eu derbyn i mewn i lettya, a'i fod oddi cartref pryd hyny. Y weddw a ymhiliai am gael lle yn y modd taeraf, gan ddywedyd, nad oeddent yn ceisio dim ymborth nac arian, ond yn unig lle i aros hyd y boreu. Ei dymuniadau taer a'i dagrau gloywon a doddasant galon y wraig, nes iddi ganiatau iddynt dderbyniad i mewn. Gwrthodasant ymborth, ac aethant i orphwys mewn modd lluddiedig, oblegid taith y dydd oedd newydd derfynu. Cysgasant yn fuan. Daeth y pen-teulu adref, yr hwn wedi deall bod dyeithriaid wedi cael dyfod i'r tŷ oedd yn anfoddlon iawn. Dywedai nad oedd ei dad o'i flaen yn caniatau hyny, ac mai dyna oedd ei reol yntau, o ganlyniad na chaent aros yn dŷ ef. Ei wraig dyner ei chalon a ddywedai, "Fy anwylyd, y maent wedi hepian; a'r nos sydd dywyll a'r hin yn oer. O na yrwch hwynt allan! os ydych yn ofni y gwnant ysbeilio y tŷ, mi a wnaf eu gwylied hyd y boreu." Yntau a ruthrodd i'r ystafell atynt, a gorchymynodd iddynt godi a myned allan. Y mab bychan a neidiodd o'r gwely, ac a syrthiodd ar ei liniau, gan ddywedyd, "O syr! na throwch ni allan y nos dywyll hon,—yr ydym wedi blino braidd hyd farwolaeth. O gadewch i ni aros hyd y boreu." Y gwr a deimlai ychydig erbyn hyn, a chan droi at ei wraig, dywedai, "Os ydych chwi yn dewis rhoddi eich cwsg i fynu er mwyn iddynt gael aros, yr wyf yn caniatau iddynt gael aros, ond rhaid i chwi eu gwylied hyd y boreu. Derbyniodd y foneddiges y cynnygiad, ac anfonwyd y gwr i orphwys. Hi a ddechreuodd ar ei gwyliadwriaeth gerllaw iddynt. Er eu bod yn cysgu yn drwm ni allai y weddw fod yn esmwyth—clywid hi yn cwynfan yn aml, ac ar droion, dywedai, "O! y mae fy nghalon ar dori; ond y mae yr Arglwydd yn ddaionus." O herwydd fod y cyfryw adroddiad yn cael ei fynychu, argraffwyd hyny ar feddwl y foneddiges, ac ar lechau ei chalon oeddent yn barod wedi teimlo. Er i'r weddw a'i mab tlawd ymadael ni wnaeth ei dywediad fyned yn anghof—swniai yn aml ar glustiau y wraig garedig, "O! y mae fy nghalon ar dori, ond y mae yr Arglwydd yn ddaionus."

Y foneddiges a gafodd ofidiau aml a chwerwon wedi hyny, a phan y buasai ar suddo danynt, hi a adroddai eiriau y weddw, ac yr ydoedd bod yr Arglwydd yn ddaionus yn adfywiad iddi o bryd i bryd. Bu geiriau y weddw helbulus yn fwy o gysur iddi na dim a allai y byd ei roddi; felly, ei charedigrwydd at eraill a fu yn gymhorth iddi mewn amser dyfodol i ddal ei meddwl heb ymollwng.

dan flinderau a helbulon. Hi a dalwyd yn helaeth yn y fuchedd hon, a dichon i'w hymddygiad fod yn achos i droi ei chalon at yr Arglwydd mewn adfyd. Cofiwn ninau mai y feddyginiaeth oreu i galon ar dori yw, bod yr Arglwydd yn ddaionus. Dyma fodd i felysu dyfroedd Mara i'r Cristion helbulus ar ei daith adref i dŷ ei Dad, a bydd bod yr Arglwydd yn ddaionus yn destyn cân ar fryniau hedd, lle ceir pleserau nefol yn gyflawn heb ofid na galar. THETA ETA.

## CAFODYDD RHYFEDDOL O GENLLYSG.

Ymddengys fod y stormydd diweddar wedi bod yn dra arswydlawn mewn gwahanol fanau. Disgynodd cafod o genllysg ar Pittsburg a'r cylchoedd Medi 27, 1850, pa rai oeddent o faintioli anferth, fel na welwyd yma eu bath o'r blaen. Pwysai rai o'r talpiau un wns ar bumtheg. Hwy a dorasant y gwydr oedd yn wynebu tua y gorllewin, a tharawent ffenestri i'r tai heb ofyn cenad neb. Hwy a gurasant rai dynion a cheffylau, nes oeddent yn syrthio ar y ddaear, a thorent y tô haiarn gan nerth eu hergydion. Gwnaethant golledion lawer. Rhyfedd, onide? T. E.

## BLWYDDYN NEWYDD ETO.

YN awr, ar ddechreu blwyddyn newydd, y mae cyfleusdra ragorol i ffurfio penderfyniadau da. Ddarllenydd! pa fodd yr wyt wedi treulio y flwyddyn ddiweddaf? a wyt wedi gwneud rhyw ddaioni yn dy ardal? a ymdrechaist yn ol dy allu i anfon yr efengyl i baganiaid, ac i wasgaru gair y bywyd dros y byd? a wyt wedi estyn dy law i gynorthwyo ac amddiffyn dy gydgreadur sydd yn gruddfan dan law haiarnaidd y gormeswr, ac i lesoli y truan a'r angenus yn eu cyfyngder? Os yw dy gydwybod yn ateb nad ydwyt wedi gwneud dy ddyledswydd gydag un neu ychwaneg o'r pethau uchod, cofia ddiwygio gyda dechreu y flwyddyn hon. Y mae galwad neillduol am dy ffyddlondeb eleni. Beth yw yr holl gynhwrf o barth pabyddiaeth? Ymdrecha y bwystfil grybachu y byd dan ei lywodraeth yn y dyddiau hyn; ond yn hyn y bydd yn sicr o gael ei siomi, canys rhaid i wybodaeth o'r Arglwydd lenwi y ddaear fel y toa y dyfroedd y mor, eto dylem gofio nad yw hyn i ddyfod i ben heb ein hymdrech a'n cydweithrediad ni. Oddiwrth arwyddion yr amseroedd barnwn fod storom ar godi—pa fodd try allan amser a ddengys. Dichon y gall y gelyn gael y trechaf am dymhor, o herwydd claearineb, diffyg ffydd, ac anffyddlondeb pobl Duw; ond hyderwn er mwyn ac yn enw pob peth sydd yn werthfawr nad felly y bydd; ac er gochelyd y fath aflwydd, bydded i bob Cristion ymysgwyd at ei ddyledswydd gyda dechreu y flwyddyn hon; y mae angen i bawb fod yn unol, canys "cyd-weithwyr Duw ydym ni." Y mae efe yn barod i weithio ond ein cael ni i'n lle. Peidiwn rhyfygu a chellwair ag ef, trwy ofyn ganddo lwyddo yn ein gweddiau, a ninau yn sefyll yn segur, neu fod yn edrychwyr arno ef yn unig. O na, frodyr, nid felly y mae y deyrnas nad yw o'r byd hwn i fyned rhag ei blaen. Rhaid cael Gideon i'r maes gyda chleddyf yr Arglwydd. Gan hyny, deuwch allan, holl garedigion Sion, ar ddechreu y flwyddyn deunaw cant ac un-ar-ddeg a deugain, yn gynorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cadarn; ac mor fuan ag y gwelwn ei ganlynwyr ef fel byddin drefnus ar y maes, gallwn ddechreu seinio buddugoliaeth, o herwydd fod mwy o'n tu nag a all fod yn ein herbyn.

## SWYDDFEYDD DYOGELU BYWYDAU.

Wrth *Ddyogelu Bywydau*, yn ol y defnydd cyffredin a wneir o'r geiriau, y golygir taliad blynyddol a wneir gan unrhyw berson yn ei fywyd er sicrhau swm bennodol o arian i gael ei derbyn gan unrhyw gyfaill neu berthynas a ewyllysio neu a bennodir ganddo ar ei farwolaeth. Y mae cymdeithasau neu swyddfeydd i'r dyben hyn yn dyfod i fodolaeth yn barhaus, y naill ar ol y llall, ac y mae dyogelu bywydau wedi dyfod yn beth mor gyffredin, fel y mae pob gradd neu ddosbarth o ddynion yn ei arferyd. Bu yr arferiad yn cael edrych arno gyda chryn rhagfarn a gwrthwynebiad gan rai, ond y mae y lles a'r daioni a effeithir trwyddo wedi gyru pob rhwystr a fa yn ei erbyn o feddyliau pawb. Yr ydym yn ddiweddar wedi gweled rhestr o wahanol swyddfeydd, ynghyd a'u cynlluniau i ddwyn yn mlaen eu gweithrediadau, ac yn awr barnwn fod dyogelu bywydau ar yr egwyddor unol (*mutual*) yn llawer mwy cyfiawn a boddhaol i'r pleidiau na dyogelu yn ol cynlluniau y swyddfeydd eraill, gan fod y rhai sydd yn cyfranu i mewn yn derbyn y llog a'r elw, ac yn dyfod yn rhan-ddalwyr o'r drysorfa; ac nid rhoddi eu harian i gymdeithas nad oes ganddynt unrhyw hawl yn nygiad ei hachosion yn mlaen, &c. Y mae y *Penn Mutual Life Insurance Company* yn hollol ar yr egwyddor unol; a chan ein bod yn adnabyddus â Mr. John Clayton, y goruchwyliwr yn Pottsville, fel dyn gonest a theilwng o ymddyried, yr ydym yn cymeradwyo

pawb a garant sicrhau unrhyw swm o arian i weddw neu berthynas a ddichon ymddibynu arnynt ar eu marwolaeth i alw arno ef. Y goruchwyliwr yn Tamaqua, yw John Hendricks; yn Pittsburg, John Finney, ieu.; ac yn Cincinnati, Benjamin Urner.

Pe byddai lle yn caniatau, gallem nodi gwahanol ffeithiau ac amgylchiadau, y rhai a eglurant y manteision a'r lles deilliedig o ddyogelu bywydau gyda y cwmni uchod. Y mae eu tylerau hefyd rhywfaint yn Is nag y maent mewn swyddfeydd eraill. Gellir cael gwybodaeth pellach o'r trefniadau, ynghyd a thaflen yn dangos swm y taliadau blynyddol i wahanol oedran, trwy ymholi â'r goruchwylwyr.

## CYFARFOD CYHOEDDUS.

Cynnaliwyd cyfarfod gan y Bedyddwyr yn Freedom, swydd Cattaraugus, C. N., yn addoldy Ebenezer, Iau a Gwener, yr 21ain a'r 22ain o Dachwedd.

Am 7 yn yr hwyr cyntaf, dechreuwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parch. Archibald Maclay; pregethodd y bredyr M. J. Williams, Rhuf. 6. 23; ac A. Maclay, Act. 8. 5.

Am 10 dranoeth, gweddiodd y brawd Rd. Morris; a phregethodd y brodyr W. F. Phillips, Rhuf. 5. 5; a M. J. Williams; Luc 13. 6—9. Am 2, gweddiodd y brawd John D. Jones; pregethodd R. Morris, Heb. 12. 25; a W. F. Phillips, Math. 22. 42. Am 6, gweddiodd W. F. Phillips; a phregethodd J. D. Jones, Ioan 3. 14, 15; a M. J. Williams, 2 Cor. 6. 18.

Cawsom gyfarfod da a hwylus: ein taer ddymuniad yw ar i'r Arglwydd arddel y weinidogaeth i fod yn argyhoeddiadol i bechaduriaid ac er adeiladaeth Sion yn y santeiddiolaf ffydd. DL. REES, *Ysgr.*

## YR ARCHESGOB HUGHES AR GWYMP PROTESTANIAETH.

Y mae ein darllenwyr yn hysbys fod y dyn rhwysgfawr a nodir uchod wedi bod yn traddodi araeth yn ddiweddar ar "Gwymp neu Ddirywiad Protestaniaeth." Da genym hysbysu fod ei araeth wedi bod yn foddion i godi cynhwrf a theimlad yn mhlith Cristionogion trwy y wlad yn yr achos; ac y mae ein brodyr o wahanol enwadau fel yn ymwasgu at eu gilydd i gyduno i ddangos ei ffaeleddau a'i thwyll-ymresymiadau. Nid oes unrhyw ddarganfyddiad newydd ynddi o'r dechreu i'r diwedd—dim ond cruglwyth o osodiadau ac haeriadau disail, pa rai ydynt mor unol â nodweddiad eglwys Rhufain. Dywed nad yw Protestaniaeth ond mympwy anheilwng sydd wedi ei godi yn y flwyddyn 1517, gan Martin Luther—bod yn anmhosibl gwybod pa beth ydyw, o herwydd fod cymmaint o wahanol bleidiau—bod Protestaniaeth yn fuan iawn i ddarfod, &c. Yn mhlith eraill ag ydynt wedi dyfod i'r maes i ddynoethi ei dwyll-ymresymiadau, ar wahoddiad amryw weinidogion ac eraill, traddodwyd araeth gan y Parch. J. F. Berg, D. D., yn y *Musical Fund Hall,* Philadelphia, nos Fawrth, Tach. 26. Yr oedd yr adeilad helaeth yn orlawn, a gwrandawyd ar yr areithiwr dysgedig gan y dorf anrhydeddus gydag arwyddion o'r boddlonrwydd mwyaf am awr a chwarter. Yr oedd yr araeth hon mor alluog a doniol fel yr ymddangosai pawb wedi eu llanw â syndod ac â llawenydd. Y mae y Dr. Berg yn weinidog ar eglwys Ellmynaidd Ddiwygiedig yn Philadelphia. Y mae ei araeth yn llawn o ymresymiadau annymchweladwy, ynghyd a darluniadau cyfaddas, fel y mae ei darlleu yn ddigon i greu y teimladau gwresocaf ac argyhoeddi pob meddwl diduedd. Ein bwriad oedd gosod dyfyniadau o honi yn y rhifyn hwn, ond erbyn edrych drosti yn fanylach yr ydym yn ei chanfod fel un darn cyfan o gelfyddwaith ardderchog, na ellir cymeryd fawr oddiwrtho heb ddinystrio gogoniant yr adeilad; a chan hyny bwriadwn roddi yr araeth agos yn gyflawn o flaen ein darllenwyr yn y rhifynau dyfodol.

## Y GYNGHORFA AMERICANAIDD.

Y mae y corff anrhydeddus hwn wedi cyfarfod unwaith eto i ymgynghori ynghylch materion y wladwriaeth. Yr ydym wedi gosod cynnhwysiad cenhadwri y Llywydd o flaen ein darllenwyr mewn tudalen arall; y mae mynegiadau gwahanol aelodau y cynghor hefyd wedi eu derbyn, y rhai a roddant gyfrif cywir o amgylchiadau y gwahanol ddosbarthiadau, ac a ddangosant fod y wlad ar y cyfan mewn sefyllfa lwyddiannus. Ystyrir yn gyffredinol fod y cynghor presennol yn gynnwysedig o ddynion da a galluog, ac hyderwn y bydd iddynt oll gael eu cyfarwyddo gan yr Arglwydd yn eu gweithrediadau cyhoeddus.

Nid oes nemawr wedi ei wneud ganddynt hyd yma, ond dwyn cynnygiadau yn mlaen, y rhai gan mwyaf nad ynt o nemawr o ddyddordeb cyhoeddus. Bydd i ysgrif y Ffoedigion Noddedig, ynghyd a gwellhad y tariff, ac ysgrifau pwysig eraill, i ddyfod dan sylw yn fuan.

Dydd Llun, Rhag. 16, daeth Mr. Barnum a Jenny Lind i'r Tŷ; arosasant yno tua phum' mynud, pan y gorfu arnynt ymadael o herwydd fod pawb yn llygadu arnynt.

Y mae yr ysgrif i ostwng y llythyrdoll yn dra thebyg o basio; barnir hefyd y bydd i ryw gyfnewidiad o leiaf gael ei wneud yn y tariff. Diau fod ysgrif y Caethion Ffoedig yn galw am eu sylw dioed, ond pa un a wneir rhyw beth yn effeithiol yn yr achos sydd amheus. Y mae y weithred annhrugarog hon, fel y dengys Llywodraethwr Ohio, ac amryw eraill, nid yn unig yn anghyfiawn, ond hefyd yn gwrthdaro yn erbyn Cyfansoddiad yr Undeb, gan ei bod yn gosod y talaethau rhyddion yn gystal a'r lleill i bleidio neu ddal caethiwed i fynu.

## ACHOS CAETHWAS FFOEDIG YN PHILADELPHIA.

Dydd Sadwrn, Rhag. 21, cymerwyd negro o'r enw Adam Gibson, yn Philadelphia, o flaen y *Commissioner D. Ingraham*, o dan y cyhuddiad o fod yn gaethwas ffoedig. Ymddangosai wrth ei olwg o gylch 20 oed, ond dywedodd ei hun ei fod yn bedair ar hugain. Achosodd yr amgylchiad gynhwrf neillduol yn mhlith y bobl dduon ac eraill trwy y ddinas. Os yw y gyfraith hon i gael ei deall a'i barnu fel y gweinyddwyd hi yn yr achos hwn, digon hawdd yw gafaelu mewn unrhyw ddyn du, a'i yru i gaethiwed, ond cael rhyw adyn digymeriad i ddwyn cam-dystiolaeth yn ei erbyn; a gwyddom fod digon o'r fath gymeriadau i'w cael yn ein holl ddinasoedd, y rhai a ddywedant unrhyw beth am ychydig ddoleri. Cyhuddid ef gan James F. Price o fod yn gaethwas i un Mr. Knight yn Maryland, ac iddo gilio ymaith, ac mai ei enw priodol oedd Emery Rice. Dyma yr unig dystiolaeth yn ei erbyn, a phrofwyd hon yn anghysson trwyddi gan gynghorwr y carcharor. Dywedai unwaith yr adwaenai Gibson (Rice fel y galwai efe ef,) yn y flwyddyn 1832, a'i fod pryd hyny yn ddyn; wedi hyn dywedai mai yn 1838 yr adwaenai ef, ond dangoswyd na allasai hyny fod yn wir. O'r tu arall, yr oedd yno ddau eraill yn tystio eu bod yn ei adnabod yn Maryland—mai ei enw oedd Adam Gibson, a'i fod yn gaethwas i offeiriad o'r enw Davies, yr hwn a ryddhaodd ei holl gaethion ar amser ei farwolaeth. Dywedai un o'r tystion hyn yr adwaenai efe Mr. Knight, ynghyd a'i gaethwas Emery, ond nad y carcharor oedd hwnw; ac nad oedd Rice mor ddued a Gibson, a'i fod ychydig yn henach. Dymunwyd gan gynghorwr y carcharor am ohirio y mater hyd y Llun canlynol, fel y gellid cael amser i ymofyn tystion eraill; ond gwrthododd Mr. Ingraham ganiatau hyny, a rhoddwyd dedfryd yn erbyn Gibson yn mhen ychydig oriau wedi ei gymeryd i fynu. Gyrwyd ef yn ol i Maryland yn y nos; yr oedd nifer mawr o bobl dduon wedi ymdyru ar yr heolydd oddiyno i'r afon, ond cymerwyd ef ymaith yn ddirgelaidd gan y swyddogion ar hyd ffordd arall. Deallwn fod Gibsôn wedi ryddhau wedi ei gymeryd i Maryland, o herwydd nad oedd Mr. Knight yn ei adnabod.

---

Y Cadeirdraw Bryan, Philadelphia.—Er nad yw cenedl y Cymry yn gyffredin yn ymgyrhaedd at sefyllfaoedd o barch ac enwogrwydd, eto y mae genym brofion ac esiamplau digonol fod yn eu plith ddynion o dalentau a galluoedd cymhwys i lanw pob swydd o anrhydedd a chyfrifoldeb yn y gwybodaethau a'r celfyddydau. Er mwyn cynhyrfu ein cydwladwyr at uchelgais a dyfeisgarwch, yr ydym yn eu cyfeirio at y boneddwr teilwng a'r meddyg dysgedig uchod. Daeth James Bryan i'r wlad hon yn fachgen tlawd o ardal Merthyr ychydig dros ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Ni chafodd ond ychydig iawn o fanteision dysgeidiaeth yn moreuddydd ei oes, o herwydd fod yn rhaid iddo ymddibynu ar ei lafur am ei gynnaliaeth. Bu yn gweithio yn galed gyda thyddynwr fel y clywsom, yna rhwymwyd ef i ddysgu crefft hetwr, ond yr oedd ei feddwl yn glymedig yn barhaus â galwedigaeth uwch a mwy anrhydeddus, a phenderfynodd wneud pob ymgais a allasai i gyrhaedd ei nod. Yr amser a dreuliai ei gydbrentusiaid i chwareu, rhodiana, a chysgu, a ddefnyddiai ef i ddarllen, myfyrio, a chynyddu mewn gwybodaeth fuddiol. Prynai lyfrau a chanwyllau â'i enill bychan, ac ni flinodd yn ei ymdrechiadau trwy ei holl galedwaith. Aeth at feddygon enwocaf Philadelphia, ac amlygodd iddynt ei awydd i astudio physygiaeth, gan ddymuno arnynt ei gymeryd ef i mewn. Ni chyfarfyddodd â nemawr o gefnogaeth oddiwrthynt: pa fodd bynag, llwyddodd i gael lle gyda hen Grynwr o'r enw Dr. Parish. Ymroddodd at fyfyrio, a llwyddodd; eto oedd dan lawer o anfeistision; a pha fodd i gael *practice* mewn dinas enwog, lle yr oedd cymmaint o eiddigedd yn mhlith y meddygon blaenaf yn erbyn y bachgen tlawd, a ymddangosai yn ddirgelwch. Ond digon i ni, heb ddilyn ei hanes yn fanol yn y wlad hon, na'i deithiau trwy Ewrop, yw dywedyd fod ei ymroddiad wedi sicrhau ei lwyddiant, fel y mae yn bresennol yn dal y swydd anrhydeddus uchod yn ngholegau meddygol penaf Philadelphia. Y mae yn areithiwr goleu, ac yn treiddio bob amser i wraidd ei fater. Mae ganddo amryw fyfyrwyr dan ei ofal, heblaw ymarferiad helaeth, a llafur ei swydd. Y fath lafur ac ymroddiad diflin a'i gwna fel Franklin. Paham na byddai mwy o'r fath ymgais yn mhlith y Cymry? byddai hyn yn anrhydedd nid bychan i'n cymeriad cenedlaethol.

## AGORIAD ADDOLDY.

Ar ddydd yr Arglwydd, Medi 22ain, 1850, agorwyd capel newydd perthynol i'r Bedyddwyr Cymreig yn Dodgeville, talaeth Wisconsin. Am 10 o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad drwy ddarllen a gweddio gan Griffith Samuel (A.); pregethodd Henry Roberts, (W.), a J. P. Harris; Minersville, Pa., oddiar Ioan 3. 15, a Salm 138. 2. Am 2, dechreuwyd yr addoliad gan Isaac Jones, Minersville; pregethodd y Meistriaid Griffith Samuel, (A.); J. P. Harris, (yn Saesnaeg,) ac Edward Williams, (T. C.,) oddiar Heb. 7. 26; 2 Pedr 1. 11; a 1 Ioan 3. 23. Am 6, dechreuwyd yr oedfa gan yr ysgrifenydd; a phregethodd Rt. Owen, Dodgeville, a J. P. Harris; oddiar Judas 20. 21; a Hos. 11. 8.

☛ Dymunwn ddychwelyd ein diolchgarwch gwresocaf i'r Parch. J. P. Harris, yr hwn, oddiar annogaeth daer oddiwrthym fel ychydig Fedyddwyr, a ymwelodd â ni ar yr achlysur crybwylledig, gan ein hadloni yn ddirfawr â chyflawnder bendith efengyl Crist. Ymddengys i ni fod peth o'r tân apostolaidd heb ddiffoddi eto, yr ysbryd cenhadol hwnw na adawa i bellder ffordd na pheryglon y daith orbwyso cariad at lesiant eneidiau dynion. Bu ymweliad ein hanwyl frawd, yngbyd a'r brawd Isaac Jones, un o ddiaconiaid eglwys y Bedyddwyr yn yr un lle, yn foddion i'n hadfywio gyda y gwaith—diodwyd ni â'r afon, ffrydiau yr hon a lawenhant ddinas Duw. Ond yn benaf oll gan bresennoldeb Preswylydd y berth, yr hwn a osododd amddiffyn ar y gogoniant, a thrwy ei Ysbryd a arddelodd weinidogaeth y cymmod yn ein plith, &c. "I Dduw y byddo y diolch am ei ddawn annraethol." Yr oedd y dydd hwn yn ddydd o lawen-chwedl i wasgaredigion Seion yn y wlad bellenig hon, ac yn flaen-brawf o ddydd goleuach, pan gwyd yr haul yn uwch i'r lan—dydd genedigaeth y gwr a'r gwr yn Seion, a dychweliad ambell afradlon i dŷ ei Dad. Meddyliwn fod sain cynghanedd a dawnsio yn ngwersyll y fyddin fechan hon ar ddiwedd y dydd uchod. Hefyd, nid ydym wedi anghofio cydweithrediad ein brodyr o wahanol enwadau crefyddol â ni ar y dydd uchod: cydnabyddwn eu caredigrwydd gyda diolchgarwch. Dyma dŷ cyfleus i'r Bedyddwyr Cymreig i addoli Duw yn nghorllewinbarth Wisconsin, a chladdle eang berthynol iddo iddynt gladdu eu meirw. Na ddigalonwch, frodyr, i wynebu ar y gorllewin pell,—mae yma dŷ i Dduw Jacob, porth merch Seion, ie, tŷ Dduw, ac fel yr hyderwn borth i'r nefoedd.

JOHN LL. ROBERTS, *Ysg*.

## BEDYDD A CHORFFOLIAD EGLWYS.

Yn *Dodgeville, Wisconsin, Medi 29ain*, 1850.

Am wyth o'r gloch yn y boreu, ymgynnullodd y frawdoliaeth yn nghapel Caergybi, ac anerchwyd gorsedd gras gan y bredyr Robert Williams, John Edwards a James Jones. Yna cychwynwyd tua'r fedyddfa yn dyrfa luosog o Gymry a Saeson a chenedlaethau eraill; ac wedi dyfod i lan y dyfroedd, dechreuwyd yr addoliad drwy ddarllen a gweddio gan Robt. Owen; a phregethodd y brawd J. P. Harris yn synwyrlawn a nerthol oddiar Ioan 1. 25; yna traddododd y brawd Meredith Evans (alias, Gog Glan Ohio) araeth ar ysgrythyroldeb yr yrdinhad yn ddestlus a phenigamp. Wedi hyny ufuddhaodd ef a saith eraill i orchymyn yr Arglwydd Iesu Grist. Fel hyn proffesasant Fab Duw yn gyhoeddus, a gweinyddwyd yr ordinhad gan y Parch. J. P. Harris, yn ngwydd tyrfa luosog o edrychwyr gweddus a syml. A diau fod y dullwedd ysgrythyrol hwn o'i gweinyddu wedi gadael argraff annileuadwy ar feddwl llawer edrychydd o'r dull a arferid yn yr oes apostolaidd. Am ddau, cyfarfuwyd yn yr addoldy yn Dodgeville; darllenodd a gweddiodd y brawd Isaac Jones; a phregethodd y brawd J. P. Harris ar natur teyrnas y Gwaredwr, oddiar Heb. 12. 28.—Yna aethpwyd yn mlaen i gorffoli y brodyr a'r chwiorydd yn eglwys reolaidd i Iesu Grist yn ol trefn y Testament Newydd. Adroddwyd eu golygiadau ar byngciau sylfaenol crefydd a threfn eglwys efengylaidd, gan y brawd Robert Owen. Darllenwyd llythyrau gollyngdod dau ar bumtheg o'r frawdoliaeth gan y brawd Harris, yr hwn, mewn araeth wresog a'u cydnabyddodd yn eglwys, ac a roddodd iddynt ddeheulaw cymdeithas drwy eu cynrychiolydd, y brawd Robt. Williams. Ychwanegwyd atynt ddau ar bumtheg eraill o wrthgilwyr a rhai heb lythyrau. Yn ganlynol aeth yr wyth a fedyddiwyd yn y boreu dan y cyfammod eglwysig. Rhoddwyd iddynt ddeheulaw cymdeithas fel aelodau cyflawn yn nhŷ yr Arglwydd,—fel hyn y ffurfiwyd cangen fechan o fynydd Seion ar *brairies* y gorllewin mewn un dydd. Yn awr, amgylchwyd bwrdd yr Arglwydd, a chyfranogwyd o'r swper santaidd, a chafwyd gwledd i'r enaid. Yr oedd y Brenin ar y bwrdd, a'r nardys yn rhoi ei arogl. Dylasem gofnodi fod yr eglwys wedi neillduo y brodyr Robt. Owen a John T. Edwards i wasanaethu y swydd ddiaconaidd. Dangosodd y brawd Harris yn oleubwyll natur a chyfrifoldeb y swyddogaeth, a rheddwyd iddynt ddeheulaw cymdeithas ar eu dyfodiad i'r swydd gan y brawd Isaac Jones.

Am chwech, dechreuwyd drwy ddarllen a gweddio gan yr ysgrifenydd; pregethodd y brodyr Robt. Owen a J. P. Harris, oddiar Act. 16. 34; a Seph. 3. 17.

Fel hyn y dygwyd 42 o gyfeillion Dodgeville i undeb eglwysig â'u gilydd, mewn trefn iddynt gydweithredu yn mhlaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint; a chafwyd arwyddion yn niwedd y dydd hwn fod a fynai yr Arglwydd â'i ddiadell; cafodd amrai eu clwyfo gan saethau argyhoeddiad, ac yn dysgwyl cyfleusdra i ganlyn Crist yn y bedydd. Yr Arglwydd a ychwanego eto at yr eglwys y rhai fyddant cadwedig. Y fechan a elo yn fil, a'r wael yn genedl gref.

JOHN LL. ROBETS,

*Dodgeville.* *Ysgr.*

---

JENNY LIND.—Y mae yr eos Swedaidd hon wedi bod yn ddiweddar yn canu yn Washington gyda y llwydd a'r cymeradwyaeth anghydmarol sydd wedi cydfyned â'i chydgerddau yn y dinasoedd mawrion eraill. Yr oedd y Llywydd Fillmore, ei foneddiges, a'i ferch yn bresennol; hefyd, Mr. Crittenden, Mr. Cass, Clay, Foote, Webster, ac enwogion eraill. Ar ddymuniad amryw, canodd Jenny y dôn genedlaethol "*Hail Columbia;*" daeth Mr. Webster yn mlaen i gydnabod yr anrhydedd ar y chwareufwrdd, yr hyn a dderbyniwyd gyda y cynhwrf cymeradwyol mwyaf, a'r bonllefau uwchaf, gan y dorf. Felly, gwelwn fod gan y gantores rhyfeddol hon allu nid yn unig i synu y cyffredin o ddynion, ond hefyd i swyno cyfoethogion, dysgedigion, a phrif swyddogion y wlad. Ond pa ryfedd? o herwydd beth na fedr menyw ei wneuthur?

[Wedi cyssodi yr uchod, deallwn fod Jenny Lind, Mr. Barnum a'u holl weinyddion, wedi bod agos a cholli eu bywydau pan ar eu mordaith tua Charleston, S. C.; chwythwyd yr agerfad yn mhell i'r môr, ond ni chollwyd neb bywydau. Wrth son am agerfadau—nid ydym yn cofio gweled mwy o hanesion am golledion ar yr afonydd mewn ychydig amser erioed o'r blaen nag a fu y mis diweddaf. Bu amryw amgylchiadau o'r mwyaf dinystriol yn y gorllewin.]

PARODI.—Yn awr, pan y mae Jenny wedi esgyn i fynu i binacl uchaf enwogrwydd a chymeradwyaeth, wele seren arall yn ymddangos yn New York a Philadelphia, pa un sydd yn debyg, meddir, o daflu seren Sweden i'r cysgodau. Cyfeiriwn at y gantores Italaidd Parodi, yr hon sydd yn bresennol yn Philadelphia. Nid yw papyrau y ddinas yn petruso ei chyhoeddi fel yn rhagori yn mhell ar Miss Lind, mewn llais, ymddangosiad, ac ystumiau—dywedant ei bod tu draw i bob cystadleuaeth, ac na bu yn America ei bath o'i blaen. Y mae yn creu cynhwrf anghyffredin, ond ni chodir y fath bris afresymol am fyned i'w gwrando, ag a geir am glywed ei rhagflaenores.

---

## GENEDIGAETHAU.

Yn Youngstown, Ohio, Tachwedd 12, Mrs. Davies, gwraig Mr. Morgan Davies, o'r lle uchod, ar ferch. Gelwir ei henw hi Margaret.

Yn Minersville, Pa., Hydref 31, Mrs. Sarah Jones, priod Mr. D. T. Jones, ar fab. Gelwir ei enw ef James Harris Jones.

Yn Pottsville, dydd Nadolig diweddaf, Mrs. Margaret Edwards, priod R. Edwards, golygydd y Seren, ar ferch. Gelwir hi Ann Maria.

---

## PRIODASAU.

Yn Minersville, Rhag. 13, gan y Parch. J. P. Harris, Mr. Hugh Jones, a Miss Sarah Roberts.

Eto, Rhag. 21, gan yr un, Mr. Danl. Morgan a Miss Rhoda Morris.

Yn Salisbury, swydd Meigs, Ohio, gan y Parch. Peter Lloyd, Mr. Wm. Davies, a Miss Amelia Salisbury.

Awst 19, yn Youngstown, Ohio, gan y Parch. D. Probert, Mr. Richard D. Williams a Miss Margaret Jones.

Dwy law a dwy galon a g'lymwyd,
Dau enaid a unwyd ynghyd:
I lwyddo yr undeb serchogaidd
Cyduned y nefoedd i gyd.

Rhagluniaeth fo'n gwarchod eich annedd
A'i rhoddion diduedd wrth law;
Dylifed tangnefedd a chariad
I'ch teulu beth bynag a ddaw.

Boed daear a nefoedd yn barod
I'ch llwytho â rhoddion diball;
'Nol gorphen cyd-deithio'r byd yma
Eich cyfran fo'n ngwynfyd y llall.

MAB ORTHEUS

Yn Pottsville, Rhag. 26ain, gan Olygydd y Seren, Mr. Thos. Williams, a Mrs. Margaret Thomas, y ddau o St. Clair.

Tachwedd 23, yn Scrantonia, Pa., gan y Parch. Wm. Richmond, Mr. Richd. Thomas, a Miss Gwenllian Williams, yn bresennol y ddau o'r lle uchod.

Rhad gysur mwya a fo i'r ddau
Tra fyddont yma'n byw;
I Richard a'i gydmares hoff
Yr Arglwydd fyddo'n Dduw.
Os plant a gant, boed rhai'n fel sêr,
All i'w hynafiaid llon,
Hyn yw'm dymuniad yn ddigoll
I'r fwyn briodas hon.

UN AG OEDD YN BRESENNOL.

# Peroriaeth.

## Y DON GYMREIG, "GWEL YR ADEILAD."

**O Gasgliad J. Thomas (Ieuan Ddu).**



### EMYN. M. N.

O WAITH EVAN POWEL, O LANFRYNACH.

*Mesur*—"GWEL YR ADEILAD."

Fel ar y môr o wydr
'Rwy'n brysio oddiyma o brysur
Tua thrag'wyddoldeb:
Duw dwg fi o'r dyfnderoedd
I nofio tua'r nefoedd
Mewn prysurdeb:
Mae'm taith, trwy'r tonau mawrion maith,
A'r tân a'r dwfr
Sydd fel yn bentwr,
Dwg fi sydd wanwr,
Yn llwfr ac yn llaith;
A'r ochor draw ca'i ganu
Ac fyth ryfeddu'th waith;
Un ran, wy'n geisio i f'enaid gwan,
Sef arch i'm cadw
Tra'i ar y diluw,

### HYMN. P. M.

TRANSLATED INTO ENGLISH BY T. MORGAN.

*Air*—"BEHOLD THE EDIFICE."

As on a glass deck'd ocean
T' eternity I hasten,
I cannot tarry;
My soul from depths o'erwhelming
T'ward heaven striving, swimming,
My Lord, O! carry.
I toil, through mighty waves I sail,
Through fire and water,
O'er mountain barrier
Bring safe to harbour
My weak and languid soul;
I'll praise thy endless favour
And wond'rous work will hail.
It may, the Lord will grant I pray,
An ark of safety
The floods are mighty,

Cai glod i'th enw
'Nol landio o'r llif i'r lan,
Ac yna Haleluia,
Mi gana' yn y man.

Nid wrth i'm rhwyfo'n rhywfodd
Y dewa'i o'r dyfnderoedd
I ben fy siwrneu:
O dwg fy enaid clwyfus
O'r dyfroedd dyfnion dyrys
I'm tirion adre',
At y llu sydd yna gyda thi,
Mewn gwisgoedd gwynion,
A'u ta[illegible]'n dyniou,
Yn ca[illegible]'n eo'n
[illegible] Oen fu farw fry.
Gwyn fyd f'ai yn eu cwmp'ni,
Mi ganwn innau'n hy'.
Trwy'r loes ga'dd Iesu ar y groes
Mae yna filoedd
'Nawr yn y nefoedd
Ddaeth o'r dyfnderoedd
Yn canu ddydd a nos,
Er gwaetha'u holl dywyllwch
A'u tristwch yn eu hoes.

Duw, boed i'th 'fengyl dirion
I ddwyn i maes newyddion
Da eto i ni;
Cyrhaedded ein perth'nasau
Sy' heb wel'd eu diffygiadau
O'r Arglwydd Iesu,—
Bob un, cyn del yr amser blin,
Y dua'r haulwen
Sy'n y ffurfafen,
Ac syrth pob seren
Oleuwen lân ei llun;
Pan delo dydd datguddiad
Dyfodiad Mab y dyn;
Fe gân yr udgorn o dy fla'n
Nes clywo'r meirw
O'r bedd yn groyw
Lef un yn galw
G[illegible]n yr orsedd lân;
A'r [illegible] wenffiam oleu,
A'r [illegible]r a'i donau'n dân.

'Defnyddiau 'gyd a doddant,
A'r ddae'r a'r nef a grynant
Trwy ddirfawr allu;
Bydd ser y nef yn syrthio,
A'th air yn cael ei wirio
Yn eglur i ni.
Bydd rhai pryd hyn ni allant lai
Mewn synus eiriau
'N dweyd wrth y creigiau,
De'wch ar ein penau,
Och ninau gan y gwae;
Yn awr yr y'm ni'n ofni,
Mae'r Iesu'n agoshau.
'Does le i ni yna yn y ne',
Mae'n lampau'n diffodd,
Nid oeddem barod,
Waith i ni wrthod
Ei hynod alwad e';
Er dim ni ddeu'm i dreio
Ar droed i maes o dre'.

Ond priodas-ferch Iesu,
Mae'r dyled wedi ei dalu
A gwaed ei Hanwylyd;
Cant ganu am yr uwcha'
Fry'n llawen Haleluia
Yn beraidd hyfryd;
Fe sych, er saeled yw eu drych,
Duw ymaith ddagrau
Oddiar eu gruddiau:
Hwy gant delynau
Fo'n gloshaidd fel y clych;
I seinio maes Hosana,
Y gwana' fel y gwych,
I'r O'n, nis gallant dewi a son,
Ond rho'i gogoniant
Mewn melus foliant,
Hwy a gydunant,
A chanant am ei bo'n
A'i werthfawr ddyoddefiadau
Mewn hyfryd nefol don.

Oh Lord have pity,
Drive all my fears away;
I'll sing loud Halleluiah
In thy deliv'ring day.

Unwise to steer at random,
I'll fail to reach thy kingdom,
My destin'd harbour;
From bitter storms surrounded
O bring my soul thus wounded
Safe home, kind Father;
With thee and th' heavenly host I'd be,
White robes adorning,
Their loins are girding,
And boldly singing,
To the Lamb who died for me;
I long to join their comp'ny,
And sing the heavenly glee;
Through th' loss of Jesus on the cross
Are thousands thankful,
Redeem'd (now joyful),
From depths so dreadful,
And purifi'd from dross;
They sing for sweet deliv'rance,
From darkness deep and gross.

Lord, may thy blessed gospel
Convert the vilest rebel,
Glad tidings grant us;
Oh may it reach our kindred,
Who know not sin with hatred,
Oh blessed Jesus;
All thine, before that dreadful time,
The sun in darkness
Will hide its brightness,
The sky left starless,
Like figs drop'd off the vine,
The Son of Man revealed
And come with power divine;
With pow'r! the trump will sound the hour,
The dead shall hear
A voice so clear,
Call loud, Come near
The throne;—all bow before.
Behold! the world is burning,
The boiling sea doth roar!

All matter's fast dissolving,
The earth and heaven trembling,
Through power almighty;
The stars of heaven are falling,
Thy blessed word is proving,
God's truth is mighty!
Hear, hear! th' ungodly cry with fear,
Come mountains, hide us,
Oh rocks, protect us!
We 're all defenceless,
A refuge would be dear;
Those dreadful scenes around us
Proclaim the Judge is near!
In heav'n no place for us is giv'n,
Dark lamps we carry,
We are not ready,
Too late we're sorry,
His message we did spurn;
We now deplore our folly,
And must forever mourn.

The bride of Christ's redeemed,
The blood of her Beloved
Has paid the ransom;
They'll sing loud Halleluiah,
And sound the glad Hosanna,
In th' heavenly kingdom;
He'll dry the tears from every eye,
There's no more weeping,
But now rejoicing,
With harps resounding,
Like bells, in strings so high;
The weak and strong are praising,
Their Saviour magnify;
Through grace they all behold his face,
They give God glory,
United, happy,
And never weary,
T' the Lamb who brought sweet peace,
His boundless love and suff'rings,
Their praise will never cease.

CLADDU AR Y SABBOTH.—Barnwn fod yr arferiad o gladdu y meirw ar ddydd santaidd yr Arglwydd wedi myned yn beth rhy gyffredin o lawer mewn rai manau. Weithiau cedwir y cyrff yn hirach nag arferol er mwyn cael cyfleusdra i'w claddu ar y Sul. Wrth weled hyn a phethau eraill, penderfynodd eglwys Gymreig yr Annibynwyr yn Pottsville i wrthod roddi caniatad i neb gael eu claddu yn eu mynwent ar y Sabboth, heb wir angenrheidrwydd, neu fod amgylchiadau anhebgorol yn galw; ac nid heb ymddiddan ag un o'r swyddogion. WM. J. JONES.

## GOFYNIADAU.

MR. GOL.—A welwch chwi, neu rai o'ch gohebwyr deallus, fod mor dda a roddi ateb, pa beth a olygir wrth Marc 9. 49? "Pob un a helltir â thân, a phob aberth a helltir â halen."

1. Pwy yw gwrthddrychau sydd mewn golwg?—"pob un."

2. Pa beth a olygir wrth y "tân?"

3. Pa gyssylltiad sydd rhwng yr adnod yma a'r adnodau o'i blaen?

Atebiad i'r pethau uchod a rydd foddlonrwydd nid bychan i mi. Yr eiddoch, &c.

*Yougnstown.* R. WOOLLEY.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Derbyniwyd newyddion o Ewrop hyd y 7fed o'r mis diweddaf, y rhai ydynt o natur lled derfysglyd, ac ofnir, oddiwrth yr argoelion presennol, fod y gwaethaf yn ol eto.

Y mae pleidwyr Eglwys Loegr yn bwriadu gwneud pob ymdrech yn ystod eisteddiad nesaf y Senedd i sicrhau llwyddiant yr Eglwys Sefydledig yn mhob modd ag y medrant. Y maent yn awr yn galw cyfarfodydd, ac yn penderfynu cynhyrfu y wlad trwy ddeisebu at y Frenines, i ddymuno dilead pob anrhydedd a braint oddiwrth Babyddion trwy y deyrnas, i atal y rodd i goleg Maynooth; i gyfnewid cynllun addysg yn yr Iwerddon; i ychwanegu at rhifedi esgobion yr Eglwys yn Lloegr; i alltudio y Jesuitiaid a holl ymlyniaid yr Eglwys Babaidd o'r deyrnas; ac hefyd i wrthod i bawb Ymneillduwyr a wahaniaethant oddiwrth Eglwys Loegr bob hawl i bleidleisio yn y Senedd, a phethau ereill.

Fel y gellir dysgwyl, y mae y fath heriadau cyhoeddus wedi creu teimlad dwys yn y bobl, a gelwir cyfarfodydd trwy y wlad gan bob plaid. Bu ymrysonau mewn gwahanol fanau, ond yr oedd wedi tawelu ychydig pan dderbyniwyd y newyddion diweddaf. Meddylir y bydd i'r Senedd gael ei galw cyn yr amser appwyntiedig i gymeryd yr amgylchiadau hyn dan eu hystyriaethau.

### ESGOB LLUNDAIN A'R PAB.

Y mae Esgob Llundain yn ddiweddar wedi traddodi *charge* i offeiriaid ei esgobaeth ar y mater sydd yn cynhyrfu nid ychydig ar feddyliau pob dosbarth yn Mhrydain Fawr, sef pennodiad esgobion Pabaidd gan ei Santeiddrwydd. Ymosoda yn ddiarbed ar y Pab o'r herwydd, a dywed rai pethau ag ydynt mor haerllug a *bull* y Pab ei hunan. Deallwn fod cyffro mawr yn mhlith yr Ymneillduwyr a'r Bedyddwyr ynghylch y mater yma, a'u bod yn penderfynu deisebu yn yr achos. Ond nid yw eraill o honynt yn barnu hyny o unrhyw bwys, o herwydd eu bod yn ffieiddio y naill eglwys fel y llall. Y mae y ddwy yn hawlio olyniaeth apostolaidd y naill fel y llall. "Y fi sy'n iawn olynydd," meddai yr archesgob Wiseman; "Na, na," meddai Esgob Llundain, "nid oes a fynoch chwi yma." Dyma ymgyrch rhwng dau brelad, a phob un o'r ddau mor belled o fod yn esgobion yn ol y Testament Newydd ag ydynt oddiwrth y naill y llall. Chwarddai yr eglwyswyr dro yn ol, am ben rhai enwadau crefyddol yn galw eu gweinidogion yn "esgobion;" y mae eu tro hwythau gwedi dyfod bellach, ac yn awr chwardd y Pabyddion am eu penau yn galw "esgobion" ar y rhai nad ydynt wedi eu gwneuthur felly gan ei Santeiddrwydd o Rufain. Dyma saeth yn nghalon eglwys halogedig Lloegr; a gellir yn awr gydmaru esgob ag esgob, ac offeiriad ag offeiriad, a dywedyd nad yw esgob Pabyddol Casnewydd yn cael ond hyn a hyn y flwyddyn, tra y mae esgob Llandaf yn cael cymmaint a chymmaint. Y mae Dr. Ullathorne wedi ei bennodi yn esgob Pabaidd Birmingham, ac yn mysg y clerigwyr a weinyddai ar y pryd, yr oedd yno un-ar-ddeg a enciliasant o eglwys Loegr. Ymddengys fod yr "hen fam" yn penderfynu gwrthwynebu y ferch hyd yr eithaf yn yr achos.

### PRWSIA AC AWSTRIA.

Mewn llythyr o Berlin, prif-ddinas Prwsia, dyddiedig Tach. 6fed, dywedir fod gweinidogion Prwsia gwedi derbyn ateb oddiwrth y Tywysog Schwarzenburg. Darfu i Prwsia gynnyg galw ei milwyr yn ol o Hesse Casel, gydag eithriad o'r ffyrdd milwrol, a chydnabod hawl y llywodraethau a ymgyfarfyddant

yn Ffrankfort i ymyryd yn Hesse, ac hefyd yn Schleswig-Holstein, a chydsynio â'r ammodau ar ba rai y derbynia Awstria rydd-gynadleddau. Anfonwyd yr ateb a dderbyniwyd i hyn o Vienna gan y Count Berstoff. Mynai y Tywysog Schwarzenburg i'r Prwsiaid ymgilio yn hollol o Hesse, ac oni wnaent bygythiai arfer mesurau milwrol tuag atynt. Ar dderbyniad yr atebiad hyn gwysiwyd y cyfrin-gyngnor yn union, a phenderfynwyd ar gydsyniad y brenin i alw yr holl fyddin Brwsiaidd allan yn ddioed. Galluogasai hyn y Prwsiaid i ymgyfarfod ar y maes mewn deng niwrnod gyda byddin arfog o ddau can' mil o wyr; dywedir pe buasai Prwsia yn ewyllysio y gallasai anfon i'r maes tua phedwar can' mil a dwy fil o fagnelau mewn ychydig iawn o amser.

Nid oes dim wedi roddi cymmaint o hyfrydwch i drigolion Prwsia na'r dull penderfynol yn mha un, y mae y llywodraeth wedi cyfarfod ag atebion ynfyd a beiddgar Awstria. Y mae y trigolion yn gyffredinol yn awyddus am ymuno â'r fyddin i ddial am y sarhad a ddangoswyd atynt fel teyrnas gan Awstria yn nghynadledd Warsaw, yr hyn a achosodd farwolaeth y Count Brandenburg, eu cynrychiolydd yn y gynadledd hono. Ymrestrant wrth y miloedd; ac y mae eraill wedi cynnyg rhoddi benthyg eu harian er eu galluogi i wneud darpariadau effeithiol.

Meddylir, pe dygwyddai i lywodraeth Prwsia, ar ol cymeryd y cam hwn, ddigaloni, ac ymostwng eto i ofyniadau trahaus Awstria, y byddai y canlyniad yn fwy niweidiol gartref na phe yr aethai i ryfel; y mae sel a gwladgarwch y bobl wedi ei gynhyrfu gymmaint fel mai prin y dyoddefant i'w llywodraeth ymostwng.

Pa fodd y try pethau allan ni wyddys eto yn iawn: yn y cyflwr hwn yr oeddent yn parhau pan dderbyniwyd y newyddion diweddaraf. Y mae dysgwyliad yn meddwl pawb o garwyr heddwch nad yw pethau wedi myned yn rhy bell i wneud cydundeb eto; ond os ydyw Awstria am fyned yn mlaen yn ei thrahausder, y mae yn fwy na thebyg nas gellir dysgwyl am ddim ond brwydrau gwaedlyd iawn.

## DENMARC A'R DUCIAETHAU.

Nid oes ychwaneg o frwydro wedi cymeryd lle rhwng y gwledydd hyn er y mis o'r blaen, ond nid yw yr ymrafael yn debyg iawn o gael ei ddwyn i derfyniad buan ychwaith.

Y mae milwyr Awstria wedi eu danfon i'r Duciaethau i'w diarfogi; ond y mae Prwsia a Hanover wedi cyhoeddi na chant fyned drwy eu tiroedd hwy. Y mae y Duciaethau, tra yn hollol awyddus am i'r mater hwn gael ei ddwyn i derfyniad heddychol, yn barod eto i ddechreu ar ymgyrch newydd cyn gynted ag y dechreua rewi; byddai y tymhor hwnw yn llawer mwy manteisiol i'r Duciaethau, meddir, nac i Denmarc. Y mae yn edrych yn ddu.

## HESSE CASSEL.

Y mae yr Awstriaid a'r Bavariaid yn ymdrechu eu goreu i gael meddiant llawn o'r wlad yma, ond y mae y Prwsiaid ar eu ffordd. Yn niwedd Tach., daeth y newydd fod y rhyfel wedi tori allan yn weithredol—fod y naill ochr a'r llall wedi tanio, ac ychydig wedi eu lladd. Ymddengys, pa fodd bynag, nad ydynt hyd yma wedi tori allan i ryfela, er nad yw yn dda mewn un modd rhyngddynt. Ychydig iawn a allai beri ymladdfa wyllt.

## FFRAINGC.

Y mae y wlad hon wedi bod yn cael ei haflonyddu yn ddiweddar gan rhyw gweryl rhwng y Llywydd a Chargarnier, ond ofnid y buasai yn achosi llawer mwy o dwrw nag a wnaeth. Aeth heibio yn ddiniweid. Mae y Gymanfa Wladwriaethol wedi ymgyfarfod. Nid oes llawer o gynhwrf wedi cymeryd lle hyd yma. Prif orchwyl yr eisteddiad ydoedd croesawu y naill y llall. Darllenwyd cais am awdurdod i erlyn M. Chavoix am ladd M. Dupont mewn gornest, a gwnaed tipyn o sylw ar hyny gan rai o'r aelodau. Y pwngc y siaredid fwyaf arno ydoedd pennodiad General Guesviller i lywyddu y 14 a'r 15 ddosran milwrol, yn lle y General Neumayer, yr hwn a wrthododd y swydd. Y mae Guesviller yn Fonapartist selog.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

Pabyddiaeth.—Yn ol cynllun awdurdodedig Dr. Wiseman er sefydlu Pabyddiaeth, y mae Cymru i fod yn ddwy esgobaeth, un yn cynnwys siroedd y Dehau, siroedd Mynwy a Henffordd; Casnewydd fydd trigle ei arglwyddiaeth. Cynnwysa yr esgobaeth ogleddol chwe' sir y Gogledd, gyda siroedd Caerlleon a'r Amwythig. Trwy y cwbl, nid ydym yn deall fod yr holl ymdrechiadau hyn yn tycio ond ychydig gyda yr hen Gymry—y maent hwy yn dal yn ddiysgog dros y Bibl. Gwir fod rai Pabyddion yn y Dywysogaeth; ond Gwyddelod ydynt gan mwyaf.

Cydgerdd Gyssegredig, a gynnaliwyd y 6fed o Dachwedd, yn Hermon, Nantyglo, er lleihau traul adeiladaeth yr addoldy eang a chyfleus yno. Yr oedd y cor yn gynnwysedig o 11 o rianod a 16 o wrywod, heblaw dau fachgenyn. Yr oedd pawb wedi eu boddloni yn i'r graddau pellaf.

BLAENAFON.—Cynnaliwyd cwrdd trimisol swydd Fynwy yn Blaenafon, Hydref 29ain a 30ain. Cynnullasant y gweinidogion a'r cenhadon i'r tŷ cwrdd erbyn dau o'r gloch prydnawn y dydd cyntaf i gynnal cynadledd, pan y dechreuwyd gan y Parch. D. Ll. Isaac, ac y penderfynwyd amryw bethau perthynol i'r achos. Y gwasanaeth cyhoeddus a ddechreuwyd am saith hwyr y dydd cyntaf, ac ar yr oriau arferol y dydd canlynol; gweinyddwyd ar yr achlysur gan D. Morgan, Blaenafon; E. Williams, Cwmbran; T. Evans, Nebo; E. Thomas, Bethel; F. Hiley, Llanwenarth; Griffith Havard, Blaenafon; J. Rowe, Risca; B Price, (Cymro Bach); W. Roberts, Salem; Thomas, Machen; J. Jones, Goetre; D. R. Jones, Rymni, a R. Ellis, Sirhowy.

FELINFOEL.—Cynnaliwyd Cyfarfod Chwarterol swydd Benfro yn y lle hwn, Hyd. 23ain a'r 25ain. Gweinyddwyd gan T. Griffiths, Trefgarn; D. Davies, Tabor (Bodoldeb Duw); T. Williams, Llangloffan, "Duw fel Achubydd;" H. Davies, Llangloffan; J. D. Thomas, Blaenyffos, "Ar ogoniant Cynllunydd trefn iechydwriaeth;" J. Edwards, (Casglydd at y Genhadiaeth) "Maddeuant Pechod;" J. D. Thomas, "Truenusrwydd cyflwr pechadur, a charedigrwydd Crist fel Achubydd;" a D. Davies, ar "Anghrediniaeth."

ABERDARE.—Bu cyfaofod chwarterol Morganwg yn y lle hwn, Tach. 6 a 7. Gweinyddwyd gan J. Morris, Aberaman; D. Williams, Gerazim; J. Lloyd, Merthyr; J. Pugh, Scety; Morgans, Glynnedd; Edwards, Rymni; Williams, Llysfaen; Watkins, Treforris; Jones, Dowlais: T. Jones, Castellnedd; E. Evans, gweinidog Caersalem, Dowlais; John Jenkins, Hengoed; D. Evans, Berthlwyd; O. Williams, Trefforest; R. Ellis, Sirnowy; John Jones, Merthyr; E. Morgan, Glynnedd; W. Lewis, Dinas; W. Roberts, Salem, Blaenau; a D. Jones, Caerdydd.

HOREB, CWMDWR.—Bu cyfarfod misol yr Hen Gymanfa yma Mawrth a Mercher, Hyd. 8fed a'r 9fed. Pregethasant y brodyr Wm. Richards, Penyrheol; L. Evans, Llanau; E. Price, Macsyberllan; J. Evans, Porthydwfr; E. Jones, Pantycelyn; J. Morgan, Talyryn.

PARAN.—Bu cyfarfod misol Bro Morganwg yn y lle hwn Tachwedd 13eg a'r 14eg, pan y bu pregethu yno gan wahanol weinidogion.

LLANGADOG.—Tachwedd 5ed a'r 6fed, bu cyfarfod pregethu yn Nghapel Sion, Careg Sawdde, gan y brodyr Jones, Sardis, Mynwy; T. Lloyd, Cwmifor; J. Williams, Llangadog; D. Thomas, Llanymddyfri; J. Morgan, Talyryn; W. Gravel, Llandilo; a D. Thomas, Llanymddyfri.

ABERTEIFI.—Cynnaliwyd trydydd gylchwyl agoriad addoldy y Bedyddwyr yn y lle hwn, Hyd. 23 a'r 24. Pregethodd W. Roberts, Tredegar; J. Roberts, Merthyr; T. Thomas, Castellnewydd Emlyn; E. Thomas, Bethel, Mynwy; D. George, Jabez; N. Thomas, Caerfyrddin; a T. Williams, Ebenezer.

SYMUDIADAU.—Y mae y Parch. Evan Thomas, Bethel, Bassaleg, wedi cael galwad unfrydol o eglwys Bethania, Aberteifi, ac yn debyg o'i derbyn. Y Parch. Robert Owen, gynt o Gapel Sion, Rhandirmwyn, wedi symud i gymeryd gofal eglwys Twynyrodyn. Dylasem grybwyll o'r blaen fod y Parch. E. Evans, gynt o Benygarn, wedi ymsefydlu yn Nghaersalem, Dowlais.

NEILLDUAD GWEINIDOGION.—Awst 5 a'r 6, bu cyfarfod i neillduo y brawd Howell Davies i gyflawn waith y weinidogaeth yn Spelter, ger y Llwyni. Gweinyddodd y brodyr R. Davies, Penyfai; J. P. Jones, Penybont; J. Jones, Caersalem Newydd; D. Jones, Caerdydd; H. W. Hughes, Llwyni; a R. Davies, Penyfai.

Sabboth, Tach. 10, bu cyfarfod yn addoldy Bond street, Llynlleifiad, er urddo y brawd David W. Morris, o athrofa Hwlffordd, i gyflawn waith y weinidogaeth. Gweinyddid ar yr achlysur gan y brodyr E. Evans, Cefnmawr; D. Price; E. Evans, a R. Roberts.

### PRIODWYD—

Yn Hengoed, Medi 28, John Edwards, Tredomaen, ac Elizabeth Hopkins, o'r Heolddu.

Yn yr un lle, Hydref 12fed, Dafydd Miles, Pencarth, a Rachel Williams, o'r un lle.

Yn Nghaerodor, Hydref 6, yn swyddfa y Cofrestrydd, Mr. Lewis Thomas, siopwr, Treiorwerth, (Alltud Glan Taf,) a'r enwog Mrs. Stamp, o Lundain, yr areithyddes ar Ddirwest.

Yn Llandysilio-gago, Hyd. 21, W. Davies, Penlanuchaf, a Margaret Williams, Pendref.

### MARWOLAETHAU.

Medi 27, Dafydd Rhys, Ochor Machen, yn 63 oed. Gadawodd weddw a saith o blant i alaru ar ei ol. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Moria, Risca.

Boreu dydd Mercher, yr 2il o Hydref, Mrs. Sarah Nicholas, gweddw y diweddar Gadben D. Nicholas, o Drefdraeth. Aeth i'w gwely yn iach nos Fawrth. Boreu dydd Mercher, aeth y forwyn i mewn i'w hystafell, gan ofyn os cawsai ddyfod a boreufwyd iddi, a hi a atebodd yn nacaol, gan hysbysu ei bod yn codi yn fuan. Ac yn mhen tuag hanner awr aeth y forwyn drachefn i edrych am dani, ond er ei mawr syndod, ar ei mynediad i'r ystafell, cafodd ei meistres yn ymyl y gwely gwedi huno yn yr angeu. Cynnaliwyd ymchwiliad ar y corff, pan y dychwelwyd rheithfarn, "Bu farw trwy ymweliad Duw." Achosodd y tro y tristwch dyfnaf, ynghyd a galar cyffredinol trwy yr holl gymmydogaeth. Bu yn aelod gyda y Bedyddwyr yn Blaenyffos am fwy na deugain mlynedd, a theimlir ei choll-ed, o herwydd ei ffyddlondeb, ei charedigrwydd, a'i pharodrwydd i gynorthwyo pob achos da.

Prydnawn dydd Sadwrn, Tachwedd 2, Mrs Mary Harries, anwyl wraig Mr. John Harries, Gwaelodymaes, Llangenach, yn 70 mlwydd oed, wedi treulio 47 o flynyddau yn aelod tra defnyddiol a hynod o hardd gyda y Bedyddwyr. Gellir dywedyd fod ei marw yn golled i lawer, ond yn elw iddi hi.

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harv... Library
Dansville, N. Y.

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

### CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] CHWEEROR, 1851. [RHIF. 80.

CYNNWYSIAD.


Myfyrdod ar yr Adgyfodiad, 29
Ar Farwolaeth y Parch. Christmas Evans, 30
Dai y Cardotwr, 31
Alarwm i Ddeffro y Dynion sydd yn Cysgu yn y Cwrdd, 32
Enaid a Chorff y Duwiol yn Cyfarch eu gilydd yn yr Adgyfodiad, 33
Llythyr o California, 33
Preswylfod Gair Crist, 35
AMRYWION—Ein gweithredoedd, 35
" Ffordd fy Nhadau, 35
" Cof-golofn Bunyan, 35
" Mab da, 35
" Beth nesaf, 35
" Y Dyn, 35
" Y Sêr, 35
" Ufudd-dod, 36
Effaith Cylch y Flwyddyn, 36
Yr Oferddyn, 36
Waking of the Harp, 36
Cyfiawnder Ymarferol, 36
Egwyddorion Heddwch yn cael eu cymhwyso, 36
Eglwys Loegr ac Ymneillduaeth, 36
Yr Eglwys yn yr Iwerddon, 37
Cyfarchiad y Parch J. F. Berg, D. D., mewn atebiad i Ddarlith yr Archesgob Hughes ar Adfeiliad Protestaniaeth, 37
Ymfudiaeth i Oregon, 42
Yr Amser Gynt, 42
Dychymmyg, 43
Rheilffordd Philadelphia, Reading a Pottsville, 43
Y Fasnach Lo, 43
Llywodraethfa Pennsylvania, 43
Diweddar o Wlad yr aur, 44
Cynghor Eglwysig, 44
Cofiant Benjamin Evans, Bellmont, 45
" Thomas Elias, Minersville, 46
" Enoch Morgan, eto, 47
Ysgrif Bostswyddfaol newydd, 48
*Genedigaethau,* 48
*Priodasau,* 48
*Marwolaethau,* 49
Caerefrog-Newydd, 49
Darnau Tair Cent, 49
*Gofyniadau,* 49
Cyfieithad o Waith Dr. Young, 49
Eglwys y Bedyddwyr Cymreig yn Cincinnati, 50
Aria i flugiol, 50
Darganfyddiad penaf yr oes, 50
Glo Tramor, 50
Caethwas Ffoedig yn New-York, 50
Tân yn Utica, 50


HANESIAETH DRAMOR.


Prydain Fawr, Iwerddon, &c. 56
Arddangosiad Llundain—Yr agerfad Atlantic, 50
*Tywysogaeth Cymru.*—Enciliadau, 51
" " Merthyr, 51
" " Cwmafon, 51
" " Trafferthion Jacob, 51
" " Aberystwyth, 51
" " Nefyn, 51
" " Cyffredinol, 51
Hysbysiadau—"Y Drych,—I Ymfudwyr, 52


POTTSVILLE:

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞ Derbyniwyd yn ystod y mis y gohebiaethau canlynol heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Llythyr o Ddinas Neveda, California, oddiwrth Mr. Morris Hughes, gynt o Pottsville; Yr Udgorn Arian, gan W.; Cymdeithas Ddirwestol Dunmore, gan Un o'r Ysgrifenyddion (rhy ddiweddar i'r Rhifyn hwn); Parhad o'r Alarwm i gysgwyr yn y Cwrdd, a Thrioedd Newyddion, gan Lewis N. Lewis, Columbus, O.; Peroriaeth—Hiraeth y Bardd am ei Wlad, neu Bwthyn fy Nhad, gan C. James, Llanilar, Ceredigion, ynghyd a'r Penillion ar yr un, gan D. Silvan Evans, (Hirlas,) cyfl. gan W. Collins, Cincinnati; Hanesyn gan G., eto; Holiadau ac Atebion ar Fedydd, gan Philotheros, cyfl. J. J., Centreville, C. N.; Llythyr oddiwrth y Welsh Yankee; Diolchgarwch i Mr. T. Tomkins, Pittsburg, gan Iorwerth; Yr Affrican a'r Llew, gan Theta Eta; Priodas, gan Iorworth, Parhad o Anerchiad Dr. Berg, cyf. W. Morgan; Gohebiaethau J. E., y Parch. A, D. Gillette, &c.

☞ Drwg genym bod llythyr dyddorawl ein cyfaill Morris Hughes, o California, yn rhy ddiweddar i'r rhifyn presennol. Cyhoedir ef yn y nesaf.

☞ Derbyniasom y taliadau canlynol—Edward Farr, Summit Hill, $7; Llewelyn Jones, Dayton, O., $1 25; Edward E. Jones, St. Louis. Mo., $4; D. Howells. Pittston, Pa., $1 25; Abraham Davies, St Clair, $1 25; J. James, Centreville, N. Y., $14; L. Jones, eto, am 1849, $1 25; Morgan Jones, Pottsville, $1 25; R. Williams, Talmadge, O., $1; H. Evans, Carbondale, am hysbysiad, $2;

☞ Yr oeddem yn dysgwyl llythyrau a thaliadau y mis diweddaf o fanau eraill—rai o honynt wedi addaw hyny. Hyderwn y danfonant atom y mis presennol.

☞ Od oes eisiau ychwaneg o rhifynau Ionawr mewn unrhyw fan, gallant eu cael ond danfon atom am danynt.

☞ Y mae y Parch. W. Morgan, (wedi llanw ei swydd fel Trysorydd y Seren mewn modd ffyddlon ac anrhydeddus dros amryw flynyddau) yn bresennol yn ewyllysio roddi y swydd i fynu, gan ei fod yn barnu nad yw ei wasanaeth yn angenrheidiol yn mhellach, o herwydd fod y Seren yn feddiant personol; felly dymunir ar bawb yn ddiwahaniaeth i gyfeirio eu llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y Gohebiaethau, i fod yn ddidraul. Ond dymunir ar y rhai sydd mewn dyled oddiar y flwyddyn 1848 gyfeirio at Mr. Morgan fel o'r blaen. Wrth gydsynio â dymuniad ein cymmydog parchus i dynu ei enw allan fel Trysorydd y Seren. teimlwn ei bod yn ddyledswydd arbenig arnom i ddychwelyd ein diolchgarwch gwresocaf iddo am wahanol gymwynasau a dderbyniasom oddiwrtho amrywiol weithiau. Y mae wedi gwrthod cymeryd unrhyw dâl am ei lafur difflin, oddieithr y wobr hyny a fwynheir gan bob dyn gonest a chydwybodol yn yr ymwybodolrwydd o'i fod yn gwneud daioni neu lesoli eraill, ac yn taenu gwybodaeth fuddiol yn mhlith y bobl.

---

BYWYD JOSEPH.—Mae yr hanes ddifyrus hon, fel y mae wedi ymddangos o fis i fis yn y Seren, wedi ei gwneud i fynu genym yn llyfr bychan, 192 o dudalenau, wedi ei rwymo yn dda, am 31 cents yr un, neu bedwar am ddolar i'r Ysgolion Sabbothol. Gellir eu cael gan argraffydd y Seren, neu y Parch. E. B. Evans, Pittston Ferry, Pa. Gellir cael rhai o honynt wedi eu rhwymo yn hardd mewn morocco, am bris ychydig uwch. Mae yn ateb yn ragorol i'w roi yn anrheg i blant.

Gyrwn y llyfrau uchod i'r rhai sydd wedi danfon am danynt o leoedd pellenig mor fuan ag y gallwn gael cyfleusdra. Mae y cludiad yn ormod i'w danfon gyda y *post.*

---

YMOFYNIR am EDWARD JENKINS, (*Coilier,*) yr hwn a adawodd ei deulu yn Pittston Ferry, Pa., yn mis Awst diweddaf. Yr enw wrth ba un yr oedd yn adnabyddus gan y rhai a'i hadwaenai yn yr Hen Wlad oedd Edward Pont Cotun, Rhymney. Dymuna ei wraig yn ostyngedig os gwyr rhyw rai pa le y mae i ddanfon gair at ei briod gofidus gyda brys. Cyfeirir ati Jane Jenkins, Pittston, Luzerne Co., Pa.

---

"Y DRYCH."—Cyfeiriwn sylw ein darllenwyr i'r tudalen olaf o'r rhifyn hwn, at yr hysbysiad o barth y newyddiadur Cymraeg uchod. Yr ydym wedi derbyn y tri rhifyn cyntaf o hono, ac os yw y rhai hyn i gael eu hystyried yn gynllun o'r rhifynau dyfodol, bydd y DRYCH yn gyfrwng tra gwerthfawr ac anmhrisiadwy yn mhlith ein cenedl yn America. Mae ei ymddangosiad yn ddestlus, a'i gynnwysiad hyd yn hyn yn anrhydedd i'r golygydd haeddbarch. Mae gan y Cymry yn y wlad hon yn bresennol dri Chyhoeddiad misol ac un Newyddiadur wythnosol;—hyderwn nad yw hyn yn fwy nag a allwn eu cynnal, ond gwyddom fod eisiau ymdrech cyffredinol i wneud hyny mewn modd cysurus a llwyddiannus. Barnwn fod y DRYCH yn dra thebygol o gael cylchrediad helaeth. Y mae math o Adolygiad yn y ddau rhifyn diweddaf ar Ddarlith yr Archesgob Hughes ar Adfeiliad Protestaniaeth, gan J. R. W., N. Y. Nid yw yr Adolygiad hwn ond dyfyniadau benthycol o Anerchiad Dr. Berg, Philadelphia, (y rhan gyntaf o ba un a ganfyddir yn y rhifyn hwn); a buasai yn fwy anrhydeddus yn J. R. W. i gydnabod hyny, na gwneud ei hun yn fath o *wholesale plunderer* llenyddol.

---

BEIBLAU A THESTAMENTAU CYMREIG.—Y mae Golygydd y Seren o gylch derbyn nifer o Feiblau a Thestamentau Cymraeg o wahanol brisoedd a maintiolaeth. Y mae amryw bersonau a rai ysgolion wedi bod yn ymholi am danynt er ys rai misoedd trwy yr ardal. Hysbyswn y gallant eu cael genym am arian parod ar y telerau mwyaf rhesymol. Gwneler brys i anfon am danynt, cyn y byddant oll wedi eu gwerthu.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.—Bwriadwn argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithir ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] CHWEERor, 1851. [RHIF. 80.

## MYFYRDODAU AR YR ADGYFODIAD.

*O'r "Bedyddiwr."*

Y mae holl athrawiaethau gras i gyd yn athrawiaethau ag sydd yn cynnwys y cysur mwyaf i bechadur yn wyneb Iesu Grist; y mae cyfiawnhad, mabwysiad, santeiddiad yn athrawiaethau ag sydd yn cynnwys y cysur mwyaf i bechadur damniol; ond oni bai fod adgyfodiad i'r corff o lwch y bedd, buasai rhyw adflas chwerw yn aros ar y cwbl oll. Marwolaeth a'i pherthynasau ydyw y llinell ddu sydd wedi ei chroesi dros bob man ar y ddaear hon; y mae marw fel rhyw dant galarus, yn lleddfu holl danau telyn anian, fel nad ydyw y bywyd presennol ond fel rhyw ddafnau o esgogiad yn nghanol mor tonog marwolaeth; ar un olwg, mae marw fel yn llyngcu y cwbl iddo ei hun, fel nas gallwn na gorwedd, na cysgu, na chodi, na bwyta, nac yfed, heb fod marw a'r bedd, fel rhyw ogofau du o'n blaen o hyd, a buasai y wermod hyn yn rhwym o aros yn ein cwpan am byth, oni bai fod Duw o'i ddaioni gwedi gweled yn dda ei felysu ag addewid o adgyfodiad o wely oer y llwch ar ol hirfaith hun y graian; y llwybr y cafwyd hyn oddiamgylch oedd drwy Iesu Grist; yr oedd pelydrau dysglaer haul mawr natur yn dragywyddol rhy wan i daflu y pelydryn lleiaf o oleuni i fro dywyll marwolaeth hyd fyth; ond drwy oleuni yr haul a gododd rhwng lladron ar y groes, tywynodd goleuni mawr ar y tiriogaethau diflas hyn. Y mae aml gyfeiriadau at hyn yma gan broffwydi yr Hen Destament: dywedai Esaiah, "Dy feirw a fyddant byw, fel fy nghorff i yr adgyfodant: deffrowch a chenwch holl breswylwyr y llwch, canys dy wlith a fydd fel gwlith llysiau, a'r ddaear a fwrw ei meirw allan. Dywedai Daniel, "A llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant, rhai i fywyd tragywyddol, a rhai i warth a dirmyg tragywyddol."—Nid yw y gair *llawer* yn y fan yma yn tybied y caiff neb eu hesgeuluso; y mae yr adnod hon yn cael ei darllen mewn hen gopiau Hebraeg fel hyn: "A'r llaweroedd sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant,"—hyny yw, byddant yn dyrfa fawr iawn. Dywedai Hosea, "O law y bedd yr achubaf hwynt, oddiwrth angeu y gwaredaf hwynt." A phan y darllenwn hanes atebiad Iesu Grist i Mair a Martha, mewn perthynas i Lazarus eu brawd, clywn ef yn dywedyd mai efe ei hun oedd yr adgyfodiad a'r bywyd.

Yr oedd adgyfodiad y corff o lwch y bedd yn beth ydoedd rhy ddwfn i feddwl yr athronydd, a rhy bell i lygad craff yr anianydd idd ei ganfod; yr oedd Homer a Horas, Plato a Socrates, yn ddynion mawr o ran meddwl, fel ag yr oeddent drwy rym synwyr anigol wedi awgrymu droion at sefyllfa ddyfodol, a bod dyn yn greadur cyfrifol: ond yr oedd adgyfodiad y corff o lwch y bedd yn beth mor dra rhagorol, fel yr oedd tuhwnt i ddim oeddent hwy yn ei feddwl na'i ddymuno; ac oni bai i Dduw o'i ras roddi y Beibl i ni buasem ninau yr un fath. Yr oedd cymmaint o ddirgeledigaethau dwfn yn perthyn i'r athrawiaeth yma, fel nas gallasai neb ond Duw, Jehofa ei hun, ddywedyd dim am dani. Pan ydym yn cael hanes Moses ar y diwrnod bythgofiadwy hwnw pan ddaeth i Horeb, mynydd Duw,—pan welodd y berth yn llosgi yn wenfflam oleu, ac eto'n wyrdd-las ar yr un pryd, fe synodd wrth ganfod y fath beth, ond wrth ei fod yn troi mewn syndod i edrych, wele yr Arglwydd yn rhoi darlith iddo ar yr adgyfodiad o'r berth, gan ddywedyd, "Myfi yw Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob;" h. y., nid Duw enaid Abraham a ddywedir, ond Duw Abraham gorff ac enaid; yr oedd y dynion santaidd hyn yn nghyfammod Duw, gorff gystal ag enaid, a'r oll sydd yn nghyfammod Duw a feddiennir gan Dduw yn ei amser da ei hun.

Y mae cymmaint o ddirgelwch yn perthyn i athrawiaeth yr adgyfodiad ag unrhyw athrawiaeth a ddatguddir i ni yn y gair, os nid mwy; y mae yn mhell bell tu hwnt ac uwchlaw rheswm, ond nid ydyw mewn un modd yn groes i reswm: dirgelwch duwioldeb yw ei gogoniant; ond dirgelwch y butain fawr yw ei ffieidd-dra; y mae pob cyfeiliornad yn groes i reswm, ond nid uwchlaw i reswm allu profi hyny; y mae i fod dyn marwol yn dywedyd y gall roi bywyd i'r marw yn groes i reswm, ac yn rhyfyg anfeidrol; ond pan ddilynom athrawiaeth yr adgyfodiad,-nid oes dim

ynddi ag sydd yn gwrthdaro yn erbyn reswm mewn un modd. Pan fyddo fy meddwl egwan yn trafaelu cyfan-diroedd disathr marwolaeth, y mae yn llwgu ar y ffordd, pan yn cofio am y dynion santaidd hyny William Tyndal, David Cranmer, John Frith, ac Anne Aschew, &c., &c. yn cael eu rhwymo wrth y pawl, a'u llosgi yn ulw, a'u gelynion yn gogrynu eu llwch i grafangau y corwynt nerthol, a hwnw yn ei gario yn annyben i ddyfnderoedd y ffosydd, ac i lifeiriant cryf yr afonydd mawrion, a physgod yn ymborthi arno, a dynion yn ymborthi ar y pysgod drachefn, a chydsylweddiad yn cymeryd lle yn mhob cyfnewidiad; a meddwl i'r llwch hwnw gael ei gadw a'i ddwyn yn ol at ei gilydd eto, sydd yn mhell pell uwchlaw rheswm y goreu o ddynion; ond pan feddyliom fod yr oll yn nghadw yn llaw yr hwn a alwodd y cwbl i fod o ddim, y mae yn hollol rhesymol i'r Hollwybodol i gael gafael yn mhob peth sydd ar gledr ei law, "Dy holl saint ydynt yn dy law di."

O bob peth a all dyn gael, y peth mwyaf a'r goreu yw cael ei gysgodi gan law Duw Hollalluog; y mae yr holl saint yn cael hyn—nid ydynt oll yn cael tai a thiroedd; nid ydynt namyn ychydig o honynt, yn cael ond dillad geirwon, ac ychydig o'r rhai hyny; ond nid ydynt oll yn cael digon o fwyd, y mae y bol yn wag gan amryw o honynt lawer wythnos, ond y maent yn nghysgod llaw na chant unrhyw niweid sylweddol; y llaw hono a'u harweiniodd drwy y Môr Coch a'u harwain eto drwy yr anialwch bob troedfedd; ac a'u ceidw hwynt rhag ofn marw gan frathiadau y seirff tanllyd; ceidw'r un llaw Amalec a'i fyddinoedd draw, palmanta'r llaw ddyfroedd yr Iorddonen yn ddyfroedd tawel iddynt fyned drwyddynt; cylchyna y llaw eu llwch yn y graian, a chyfyd ef yn anllygredig yn y boreu mawr a ddaw; dyna deulu dedwydd, onide! byddaf weithiau yn cystadlu fy hun; byddaf yn sefyll wrth droed y domen, yno yn gweled yr abwydyn gwael yn cripian,—nid ydwyf bob amser yn rhy falch i arddel perthynas ag ef, a dywedyd, "Fy mrawd i ydwyt ti, &c." Pryd arall byddaf yn edrych ar y cardotyn carpiog wrth ddrws fy nhŷ, ac wrth edrych ar ei wedd newynllyd byddaf yn ymholi—ai yr hwn a grewyd ar ddelw Duw sydd wedi myned fel hyn? ond ar yr un anadl byddaf yn dywedyd, trugaredd Duw yw na buaswn i yn dy le. O'r tu arall drachefn, pan fyddaf yn meddwl am y gofal mawr a gymerodd yr Hollalluog am danaf oddiar y'm ganed, yr wyf yn ystyried fy hun yn uchel yn nghadwyn bodoliaeth; y mae wedirhoddi i mi gorff iach a dianaf, ac wedi fy nghadw hyd yma rhag anurdde hwn ag unrhyw bechod gwaradwyddus, fel y gallaf edrych yn wyneb pawb heb ostwng fy mhen: pan y byddwyf yn ystyried hyn, nid wyf yn cymeryd yn chwith pan y byddo y boneddwr yn ei gerbyd yn cyffwrdd ei het wrth fyned heibio i mi, a bod aelodau y senedd yn fy mharchu wrth ysgrifenu ataf, ond pan y byddo fy meddwl am ymgodi drwy y pethau hyn, byddaf yn treio dwyn y bedd i'm cof—yno bydd gwaeledd! pan y bydd miloedd o feibion llygredlgaeth yn fy sathru dan eu traed; nis gallaf gan wendid godi fy llaw i ddial ar y gwaelaf o honynt; byddaf mor ddall nas gallaf eu gweled, mor fyddar nas gallaf eu clywed, er na bydd trwch y gwelltyn rhyngof â hwynt! Ond gwel yr holl saint foreu pan ddeffroant o'u gwely pridd, &c., "Pan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, a'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb," a'r ymadrodd hyny gwedi eu cyflawni, "Angeu a lyngcwyd mewn buddugoliaeth." Dyma'r diwrnod y caiff ogof maes Macphela orchymyn i roddi allan gyrff Abraham, Isaac a Jacob; dyma'r diwrnod y caiff y glyn sy gyferbyn â Bethpeor orchymyn i roddi corff Moses yn rhydd—os yw yno; dyma'r diwrnod y caiff y cefnfor mawr rybudd i roddi rhan farwol y parchedig Samuel Rook, Dr. Judson, a mileedd eraill i fynu; dyma'r dydd y rydd Newbry gorff yr enwog George Whitfield i'r lan; a thyma'r dydd y rhydd y llanerch hono o dir Cymru gorff yr anfarwol Christmas Evans i fynu; Ie, dyma'r dydd pan y bydd

"Holl ddorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd."

Dydd dial gelynion yr Oen, a dydd cyflawniad iachawdwriaeth y saint; cant fyned i mewn gyda'r Iesu i'r briodas, a chauir y drws.

*Darenfelen.* E. J.

## AR FARWOLAETH Y PARCH. CHRISTMAS EVANS.

Bedyddiwr bywyd addas—a didwyll
Nodedig oedd Christmas;
Sant gwych o harddwch urddas,
Eirian a grym addurn gras.

Digryn fel aur udgorn-floedd—a llafar
Y llefai ar gyhoedd;
Dyn o nwyf dan y nefoedd,
Urddol dan arddeliad oedd.

Drwy angeu o dir ingiant—e neidiodd
Yn odiaeth anwylsant;
I gynnal pwys gogoniant
Uwch y sêr yn glaerwych sant.

Bardd Du Mon.

## DAI Y CARDOTWR.

PAN oedd Dio'r Llan tua deunaw oed, pwy ond efe yn mhob cynnulleidfa. Mae yn wir pan oedd Dafy bach yn blentyn 'doedd dim o'r dalent oreu ganddo at ddysgu'r A B C; ond trwy ychydig frwydrau aeth trwy'r *als* a'r *ibs*, i fynu yn gywir i'r *Multiplication*. Wedi pasio y mynydd cribog hyn, fe ddaeth y ffordd yn fwy rhwydd, ac mi aeth Dio rhag ei flaen. Yr oedd yn hysbys i bob un o'r ysgolheigion, er hyny, i fod y bel droed yn fwy unol ag archwaeth Dio na'r *Rule of Three*. Yn mhen tipyn, fe ddaeth yr amser i adael yr ysgol, a mawr oedd llawenydd Dio ar y perwyl. Yr oedd rhai yn galaru am eu bod yn gorfod gadael eu cyfeillion, eu llyfrau, a'r ysgol-feistr; ond yr oedd y *whip*, y *cart*, a'r *bugle* yn ddigon i Dio. Mis Mai nesaf oedd yr amser iddo fyned i'r Fan am y tro cyntaf, a rhyfedd cy'd yr oedd yr amser yn oedi. O'r diwedd fe ddaeth; ac i'r ealch a Dio, a'r ceffylau mawr, y penaf ar y ffordd.—Yr unig fater o bwys mawr oedd, pa fodd i ddyfod yn fachgen mawr yn ddigon buan—i'r dyben o gyrhaedd hyn yn ddiamheuaeth, rhaid cael blwch ffwgws mawr, a'i lenwi hyd y ddau ymyl, ac wedi hyny troi y genau yn gegin fagsu,—gorchest oedd hyn, ond waeth beth, yr oedd Dio yn benderfynol i gyrhaedd ei amcan. Yn ofer yr oedd yr archwaeth yn dywedyd ei fod yn wrthwyneblyd, yn ofer yr oedd pob synwyr yn dywedyd nad oedd ef yn angenrheidiol: ond i'r gwrthwyneb, ei fod yn niweidiol; nid oedd dim dyben siarad—rhaid oedd i Dio ddilyn ffashwn bechgyn eraill; o'r diwedd, yr oedd yn rhaid rhoi i fynu, ond nid cyn i bob peiriant tumewnol i ruo a nadu, a'r stymog fwy nag unwaith rhoi i fynu ei swydd yn hollol, trwy daflu ei holl foddion allan trwy y simnau. Ond cafodd pob peth ei orchfygu, a thyna Dio wedi dyfod yn fachgen mawr. Yn y ffair a'r neithior pwy ond Dio. Yr oedd yn ddifyrus i weled pa mor fedrus y byddai yn gyru y drol a'i het ar "ochr ei gern," yn chwiban a chanu nes ydoedd yr holl ddyffryn yn dadseinio, a'r merched, o honynt hwythau, yn rhyfeddu ei ddawn a'i ddoethder, ac yn dyfal geisio ei hoffus gwmpeini. Nid oedd Dio yn ddyeithr i gwrdd ar y Sabbothau; o na, yr oedd yno mor fynych a'r diacon, os na fuasai yn ddiwrnod garw. Yn y cwrdd, fel yn yr ysgol, yr oedd yn gwybod llawer mwy am wisgoedd y merched nag am y bregeth, ond eto yr oedd yn abl i gofio y testyn ambell waith, ac yr oedd hyn yn llawer. Y gwir yw, nad oedd Dio yn myned i dŷ o addoliad i glywed y weddi na'r bregeth; ac yr oedd yn llawer iddo i gofio y testyn. Yn yr amser yma fe ddysgodd amryw donau ac emynau, y rhai a fyddent yn ganu mewn cyfarfodydd crefyddol. Ei amcan oedd myned lle byddai y merched, ac os byddent hwy yn canu mewn ysgol gân yr oedd yn rhaid iddo yntau wneud yr un fath. Nid oedd gan Dio un archwaeth neillduol at ddiodydd meddwol mwy nag at fwglys ar y cyntaf; ond yn y ffair a'r neithior, yr oedd yn rhaid yfed, waith yr oedd pob bachgen *smart* yn gwneud hyny, ac felly cafodd archwaeth ei magu. O'r diwedd, priododd Dio y ddynes smartaf yn yr holl gymmydogaeth yn ol ei feddwl ef; ond yr oedd hi yn lled debyg iddo ef—ffashwn ac ymddangosiad ydoedd cyffes ei ffydd hithau.—Gwnawd neithior. Pumtheg punt ar hugain oedd yr arian a dderbyniwyd yn rhodd ac yn elw oddiwrth y ddioden a werthwyd. Yn mhen ychydig bu farw tad Dio, ac fel etifedd sir Aberteifi, dywedwyd "na welwyd fawr wylo." Y rheswm am hyn oedd, yr oedd y rhan fwyaf o'r cyfoeth, yr hwn nid oedd fychan, yn disgyn i Dio. Y peth nesaf, canfyddwn Dio yn ffermwr taclus. Yn y ffeiriau gwelwn Dafydd yn ei botasau cochion yn gwerthu gwartheg a cheffylau, a'i bocedi yn llawn arian. Ond yn yr hwyr, byddai y got *froadcloth* wedi ei throi yn y llaca, a'r ceffyl coch yn afreolaidd, am ei fod yn cael ei ffrwyno yn groes i'r modd y dylesid. Deuddeg o'r gloch y nos oedd amser cyffredin D. i ddyfod adref, ond weithiau byddai yn myned yn un, dau neu dri o'r gloch yn y boreu. Mewn cyfarfod tê pan oedd Anne ei wraig yn absennol o'r ystafell, cymerwyd ei gwisg yn destyn ymddiddan, a Mrs. Jones, gyda golygiad mwy cyflym na chyffredin, a sylwodd, i fod yn burion i ddynion wisgo yn dda, ond gyda throad llygad mwy cyflym nag arferol, a ddywedodd y buasai yn dda iddynt dalu eu dyledion. Hyd yn hyn nid oedd neb yn meddwl fod teulu parchus y —— yn rhedeg i lawr. Ond fel y mynai tynged neu rhywbeth iddi fod, cymerodd y sylw hwn o eiddo Mrs. J. dân, ac ymledaenu a wnaeth fel llosgiad prarie, nes y daeth yn mhen ychydig yn destyn siarad cyffredin yn mhlith y cymmydogion, a thyma y gofynwyr, fel bwystfilod gwangcus, ac fel cenhadon Job, un ar ol y llall, yn rhedeg at Mr. M. i ymofyn eu tâl, a thyma y tro cyntaf fe allai i Dafy feddwl fod terfyn am gymmaint o foddion; ond och! yr oedd yn rhy ddiweddar. Erbyn hyn yr oedd y moddion yn rhy fach i dalu y ddyled. Wedi trio Mrs. Jones, Morgans, Williams, ac eraill o'i gyfeillion (fel yr oedd yn meddwl eu bod) nid oedd o un dyben; yr oedd gair Mrs. J. wedi eu cyrhaedd hwy i gyd. Yr unig un a gymerai drugaredd arno oedd yr *auctioneer*, a hyny ar y cydundeb o gael ffair *auction* yn yr hydref. Diwrnod yr arwerthiad ydoedd wlyb ac oer, ac nid oedd y cwrw o'r fath oreu yn y byd; fel nad aeth y prynwyr allan o'u synwyrau wrth hyny; felly ni chafodd Dafy ddigon o bris am y pethau i'w godi ef i fynu; yr oedd coffrau y tafarnwyr wedi cau ar ormod o'i feddiannau. Y diwedd fu, fe gollodd Anne, (yr hon yn awr a ddaeth yn Nani am y tro cyntaf yn ei bywyd) ei gwahoddiadau; a Dafydd o hono yntau, yr hwn a ddaeth yn Ddio drachefn yn lled glau ar ol hyn, a gollodd ei barch yn mhlith y tafarnwyr a'r siopwyr; ond weithiau yr oedd yn cael gafael mewn ambell i chwech; ac yn lle ei defnyddio at gael blawd a chaws i Nani, yr oedd fel pe buasai wedi ei reibio—yr oedd yn rhedeg a hi yn union i'r rhai oeddent wedi bwyta ei holl gyfoeth o'r blaen. Yr oedd Dio erbyn hyn yn y bwlch gwaethaf yn ei fywyd, fel y goruchwyliwr yn y ddameg, cloddio nis gallai, a chardota oedd gywilyddus ganddo.

Ond yn lled fuan gorfu arno gynyg yr olaf, ac wedi dwrdio a beio eu gilydd am ychydig flynyddau, darfu i Nani, druan, orphwys oddiwrth ei llafur, a rhaid dywedyd, er tristwch, i'w gweithredoedd ei chanlyn. Er fod yn wir nad oedd Anne yn ddynes o'r fath waethaf yn y byd, gyda gwahanol driniaeth gallasai wneud dynes ddefnyddiol; ond fel yr oedd rhoddodd ei serch ar Dio, a Dio ar y ddioden, ac fel yr oedd yn naturiol, darfu iddi hithau i syrthio dipyn mewn cariad â chyfeilles oreu y gwr. Am Dio, druan, wedi bod yn Ddafy bach y Llan, a Dio'r Calchwr a'r Campwr, a Dafy, ac yn fynych iawn Mr. M., pan fyddai dynion yn gofyn cymwynasau ganddo, a'r tafarnwyr hefyd yn gyffredin yn ei feistroli, daeth yn Ddio yr ail waith; ac yn awr er ys llawer dydd, nid oes unrhyw enw dan ba un yr adnabyddir ef trwy yr holl gymmydogaeth ond yr un uchod, "Dai y Cardotwr." Nid oes genyf fi unrhyw sylw idd ei wneud ar y bywgraffiad hwn, gwnaed y darllenydd y sylw a fyno arno. Fe ddichon ryw dro i ddyfod y bydd i mi anfon hanes byr o fywyd "Dafydd y Dyngarwr;" hyd hyny ffarwel. H.

## ALARWM I DDEFFRO Y DYNION SYDD YN CYSGU YN Y CWRDD.

*O Waith y Parch. T. Davies, Argoed.*

Wrth glywed achwyniadau gan eraill yn erbyn yr ymddygiad o gysgu yn y cwrdd, ynghyd a chanfod â'm llygaid fy hun wrth ymdeithio yma a thraw yn addoldai y Cymry wirionedd yr achwyniad uchod, tueddwyd fi i wneuthur nodiadau ymarferol ar y cyfryw ymddygiad. Mae yn ddilus genyf fod cysgu a gorphwys yn fendith ddadebrol i'r natur ddynol, a bod Arglwydd y bywyd unwaith wedi cysgu yn y llong yn nghanol lludded a llafur ei deithiau diorphwys ef; ac er mwynhau y fendith ddadebrol uchod, y mae ein Llywydd a'n Lluniwr doeth wedi roddi nos i orphwys, yn gydfynedol â'r dydd i weithio; ond eto y mae yn ymddangos i mi nad yw y cyfaddefiad fod cysgu yn fendith i'r natur ddynol yn ol gosodiad Dwyfol mewn un graddoldeb yn cymeradwyo nac yn esgusodi llebaneiddiol dremiadau, hepian, pendrymu a chysgu yn y cwrdd, mwy na cham-arferyd trugareddau eraill. Nid cysgu ei hunan yw gwrthddrych ein gwg, ond cysgu yn y cwrdd, canys nid i ddynion i gysgu yr ordeiniwyd y cyfarfodydd, ond er gwasanaeth i Dduw, ac er lles i enaid dyn; gan hyny y mae yn ymddangos i mi nas gall cysgu yn y cwrdd fod yn ddim gwell na phechod, pwy bynag a pha bryd bynag y cyflawner yr hylldrem yma.—Cysgu a wnaeth Samson pan dorodd Daleila wallt ei ben ef—trwy hyny y collodd ei fawr nerth. Barn. 16. 19. O pa nifer o Gristionogion sydd yn ddinerth i wrthryfela â gelynion yr enaid, a hyny o achos cysgu yn y cwrdd? Wrth gysgu hefyd y pwyodd Jael, gwraig Heber y Cenead, hoel trwy arlais Sisera, nes y bu efe farw yn y man. Barn 4. 21. Felly y mae y diafol yn cael yr enaid yn ddiymdrech yn nghanol y peryglon yn mhabell cwsg yn y cwrdd. Pan oedd Saul hefyd yn cysgu y ca'dd Dafydd gyfle i'w ladd ef; er na chollodd Saul ei fywyd efe a gollodd ei waywffon. 1 Sam. 26. 8, 9. Llawer Cristion sydd mewn diffyg o arf i wrthryfela â'i elyn o ganlyniad i gysgu yn y cwrdd.

Solomon hefyd a ddywed mai cysgu a bair fyned mewn gwisg garpiog. Diar. 23. 21. Llawer gwrandawr efengyl sydd a'i fuchedd a'i brofiad yn dra charpiog yn ei ddydd-daith, o ganlyniad i'w wrandawiad diystyr a marwaidd o efengyl Duw. Tra yr oedd dynion yn cysgu hefyd y daeth y gelyn-ddyn i hau efrau yn mhlith y gwenith. Math. 13. 25. Pa faint o ddychymmygion efraidd hefyd a allant gyfodi yn meddwl dyn am ei fater tragywyddol, a hyny o ganlyniad i gysgu yn y cwrdd! Mae pechodau ein gwlad yn lluosog dros ben i'w cyfrif, ac nid y lleiaf ydyw agweddau anaddas yn yr addoliad; weithiau y mae hylldrem wynebawl, a chrech-lais ddychryniaethol yn gorlenwi natur ddynol y Cymry trwy rym doniau ymadroddol, eto nid wyf yn collfarnu yr ysbryd toddedig a'r agwedd effro yn addoliad Duw, yr hyn bethau sydd effeithiau naturiol yr ystyriaeth o golli a chadw yr enaid gwerthfawr, pan ag y byddo hyny yn cael ei effeithioli gan rym dwyfol gair Duw, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân: ond gwybydder fod rhodio yn ofn yr Arglwydd yn gysylltiedig â'r cyfryw lawenydd. Act. 9. 31. Ond wrth ochelyd y gwres, y moli a'r canmol, rhag tebygoli i'r addoliad gau ar fynydd Carmel, mae gormod o ddynesiad i'r llaw arall, sef claearineb Laodiceaidd, megys pe na byddai uffern ddim i'w arswydo na'r nefoedd o unrhyw werth i'w chwenychu, a hyny ydyw cysgu yn y cwrdd, neu rhywbeth tebyg i hyny, sef agor genau a phendrymu. Mae absennoli o'r oedfeuon a llygaid-wybio diystyr o bwys, ac yn ddirfawr ddrwg, ond braidd na ddywedwyf fod cysgu yn y cwrdd yn gydbwys ddrwg, os nid yn drymach yn y clorianau cywiraf, eto, dichon llawer ddwyn esgusodion er amddiffyn yr ymddygiad hwn, megys ymddygiadau pechadurus eraill. Un a ddywed na chysgodd ef nemawr y nos o'r blaen. Arall a ddywed fod y pregethwr yn farwaidd a hirfaith iawn, gan hyny nis gallasai efe beidio cysgu. Arall yn fwy crefyddol na'r ddau uchod, a ddywed nad cysgu ydoedd ef—ond

ei ffordd o wrando ydoedd cauad ei lygaid a phlygu ei ben, &c. Ond nid yw yr holl ategion a ddatgenir yn rhinweddu yr ymddygiad, ond yn hytrach yn ei fwyhau ef, canys rhaid mai peth da neu beth drwg ydyw. Gweddus yw geiriau Crist i'r dysgyblion, "Paham yr ydych yn cysgu? oni wyliwch gyda mi un awr?" Luc 22. 53.

Yn awr, caf ddangos arwyddnodau dyn dan lywodraeth y clefyd niweidiol hwn. Yn gyntaf, pan ddel ef i'r addoldy chwi a'i canfyddwch ef yn edrych o'i gylch am eisteddle, yna gorphwysa gan agor ei safn fel pe llyngcai bawb o'i gwmpas. Hwyrach hefyd y coda ei benglog pan y darllenir y testyn, a throi ei lygaid, a'r rhai hyny yn dechreu marweiddio; yna efe a rydd ei hun mewn esmwythder. Pan ddygwydd i'r cysgadur ddeffro yn awr ac eilwaith yn y cwrdd efe a rydd ochenaid ddwys, ac Amen fawr. Meddylia ef wrth roddi Amenau aml y twylla ei gyd-addolwyr fel hyn, ond yn fynych bydd ei Amenau ar brydiau anamserol. Dichon mai rhywbeth tebyg i hyn fydd yn cael ei draddodi ar y pryd, "Fe allai mai yn uffern y deffroa y dyn yna sydd yn cysgu," &c.—"Amen," meddai y cysgwr.

[I'w barhau.]

*Columbus, O.* *Cyfl.* L. N. Lewis.

---

## ENAID A CHORFF Y DUWIOL YN CYFARCH EU GILYDD YN YR ADGYFODIAD.

GAN R. AB GWILYM DDU.

*Enaid.*—O! henffych gorff anfarwol glân,
Bydd i'm yn drigfan hyfryd;
Un sylwedd oeddem gynt ein dau
Cyn tori edau'r bywyd.

*Corff.*—O! enaid bach, b'le diengaist ti,
Pan hunais i'r pryd hwnw,
A'm cloi yn llwch y beddrod trist,
Nes dyfod Crist i'm galw?

*Enaid.*—Fy anwyl gorff, pan drengaist draw,
A'th doi islaw mewn daear,
Fm nefol dŷ cymhwyswyd fi,
I'th aros imi'n gymar.

*Corff.*—Ow! myned hebot ti fu raid
I'r bedd, fy enaid anwyl;
A gorwedd yn y ddaear laith
Dros oesoedd maith i'th ddysgwyl.

*Enaid.*—Fy anwyl gorff, mae'n ddigon gwir,
Ond er dy hir gaethiwed,
Nid oes dim brychau yn dy wedd,
Nac ol y bedd i'w gweled.

*Corff.*—I anfarwoldeb galwyd fi
Dros byth i ti'n breswylfod,—
Cawn foli Ner yn gyflawn iach,
Fy enaid bach—heb bechod.

*Enaid.*—Gadawsom draw o'n hol i gyd
Hen sorod byd amserol,
Mor wael oedd lleng deganau'r llawr
Wrth bethau mawr trag'wyddol.

*Corff.*—Ein hundeb, gynt, oedd fyr a brau,
Daeth angau i'n gwahanu;
Ond ni raid gwylio min ei gledd
Nac ofni'r bedd ond hyny.

*Enaid.*—Yn gorff ac enaid damniol yw
Pob dyn fu'n byw'n annuwiol,
Ond ni gawn ddechreu'r newydd gân,
A hwythau'r tân trag'wyddol.

Fy newydd gorff, anneddu gawn
Yn mysg y cyfiawn perffaith,
Yn gyfranogion o'r lleshad,
Heb fyth ddidoliad eilwaith.

Er crwydro gynt mewn anial maith,
Heb fedru'r iaith ysbrydol,
Yn fyrdd cywirach yma cawn
Arferu'r ddawn anfarwol.

*Pomeroy, O.* *Cyfl.* I. T.

---

## LLYTHYR O CALIFORNIA.

*Dyfyniadau o Lythyr Mr. W. P. Edwards, at Mr. T. Morgan, Philadelphia.*

[Parhad o dudal. 18.]

6. Pa fodd y mae y tai a'r masnachdai yn cael eu hardrethu yn California?

Pe rhentech chwi annedd-dy neu fasnachdy yn Philadelphia, a lluosogi yr ardreth â 12 neu 15, ni byddai y cwbl yn fwy nag ardreth un tŷ neu fasnachdy o'r un gradd yn San Francisco. Gellwch rhentu tŷ ac ystordy yn Chesnut neu Market Street, Philadelphia, am $2,000 y flwyddyn; ond telir $2,000 y mis am un llofft yn Heolydd Clay, Montgomery, Washington, neu California, yn San Francisco. Gellwch gymeryd tŷ yn cynnwys hanner dwsyn o ystafelloedd yn Southwark neu Spring Garden, am $150 neu $200 y flwyddyn; ond telir $200 y mis am anneddai bychain yn y parth uchaf o San Francisco, yn cynnwys dwy neu dair o ystafelloedd. Ardrethir tai yma agos yn ddieithriad wrth y mis, ac yn gyffredin telir yn mlaen: pa fodd bynag, y maent yn gostwng, o herwydd fod cymmaint o ddynion yn gadael y lle. Y mae yr un reol hefyd yn briodol i brisoedd tai a *lots* yma. Prynais ryw fath o adeilad yma fy hun, yn ol y fath uchelbris. I roddi i chwi ryw fath o ddrychfeddwl o'r modd y codir tai yma, dywedaf nad ydynt yn gosod mwy na tua hanner cymmaint o goed ynddynt ag a osodir mewn tai yn y talaethau.

7. Pa fodd y mae boneddigion a boneddigesau yn gwisgo?

Y mae yr arferion a'r ffashiwnau yma yn

amrywio cymmaint, fel y mae yn annichonadwy eu darlunio. Y ffaith yw, bod dynion yn gwisgo yma fel yr ewyllysiont, neu yn ol eu mwmpwy,—rai yn wastraffus, ac eraill yn wael, ac fe allai mai y mwyaf cyffredin, afiach a gwael yr olwg fydd yn meddu fwyaf o'r llwch gwerthfawr.

8. Pa beth y mae y boneddigesau brodorol yn ei wisgo, ac a ydynt yn lluosog?

Mewn atebiad i'r rhan ddiweddaf o'ch cwestiwn, hysbysaf nad wyf wedi gweled neb boneddigesau brodorol yma. Yr unig esiamplau o'r hyn a ellir ei ystyried yn fenywiaid brodorol, ydynt fath o gymysgaeth afler a bras yr olwg o Fexicaniaid ac Indiaid. Gallaf sicrhau na welais ddarn mor ffiaidd o ddynoliaeth erioed o'r blaen a'r rhai hyn. Nid ydynt mewn un wedd yn lluosog. Y mae eu gwisgoedd hefyd mor aflan a'u personau, ac os nad yw eu golwg yn eu cam-gyhuddo yn ddirfawr, y maent mewn perygl parhaus o'u diosg, a cholli yr ychydig garpiau sydd yn barod am danynt, gan y lluoedd o lau anferth a chwain sydd yn trigfanu ynddynt. Nis gall dyn fyw yn San Francisco heb gael ei aflonyddu yn barhaus gan chwain; a chan nad pa mor ochelgar bynag y byddo, bydd yn dra thebygol o'u cael. Yr wyf wedi cael chwain a llau arnaf amryw weithiau nes fy ngwneud agos o'm pwyll, a'r unig ffordd wyf yn gael i gael gwared o honynt yw tynu fy nillad a'u taflu ymaith, neu eu llosgi.

9. Pa beth yw pris ceffylau a mulod? hefyd, prisoedd cerbydau, troliau, &c.

Tua $150 yw pris ceffyl Californaidd; a gellir cael ceffyl Americanaidd da oddeutu $300. Y mae y mae y mulod yn werth agos os nid llawn cymmaint a'r ceffylau goreu.—Dealler mai y rhai hyn ydynt y prisoedd mwyaf cyffredin yn San Francisco; ond mae prisoedd ceffylau a mulod yn amrywio cymmaint ag unrhyw beth arall. Gall dyn brynu ceffyl neu ful da, a'i golli, neu iddo gael ei ysbeilio gan un o'r Indiaid, yr hwn, fe ddichon, a'i gwertha am ugain neu $30. Clywais fod ceffylau yn rad yn Monterey, lle mae yr ymfudwyr alldirol yn dyfod i mewn, ond barnwyf eu bod gan mwyaf mewn sefyllfa dlawd a gwasgedig, o herwydd y daith a gwblasant. Y mae ceffylau Califfornia yn fychain ac heb eu harferyd i weithio. Yr holl waith tynu tu allan i'r ddinas a gyflawnir gan ychain. Gwerthir troliau a wageni am tua tri neu bedwar cymmaint ag a gyrhaeddant yn y talaethau, ond nid oes cerbydau i'w cael yma. Nid oes ffyrdd trefnus wedi eu gwneud trwy y wlad, ac y mae yn anmhosibl defnyddio troliau neu wageni yma mewn rai manau. Mulod cario yw yr unig gyfrwng i gludo yn y cyfryw fanau. Y prif anghyfleusdra sydd i dyddynwr yma yw diffyg ceffylau i dynu. Y mynud y cynnygiwch osod ceffyl neu ful Califfornaidd mewn harnes dechreua neidio a chicio nes tori y cwbl yn ddrylliau. Gellwch eu marchogaeth i fynu ac i lawr y mynyddau, a'u gwneud i ddringo y creigiau, ond ni ellwch eu cael i dynu llwyth neu weithio mewn harnes.

10. Pa beth yw huriau cyffredin y gwahanol gelfyddydwyr?

Pan ddaethum yma gyntaf yr oedd seiri yn cael o ddeg i ugain dolar y dydd, yn ol eu medrusrwydd; yn awr, pa fodd bynag, rhaid cael gweithiwr da i enill deg dolar y dydd, a'r rhan fwyaf yn methu cael gwaith cyson. Nid oes yma fawr adeiladu yn bresennol, y mae crefftwyr eraill yn enill o chwech i naw dolar y dydd, ac o bump i wyth dolar y dydd yn cael eu rhoddi gan y ddinas am weithio ar yr heolydd, a gofynir dolar yr awr gan y rhai sydd yn sefyll ac yn edrych allan am ryw orchwylion ar hyd yr heolydd, ac o gylch y llongau.

11. A oes yma eglwysi, ac i ba enwadau y perthynant? &c,

Yr wyf yn meddwl fod pump eglwys yn San Francisco (Protestanaidd) ac un eglwys Babaidd. Buais mewn tair o honynt, sef un Esgobaethol, un Drefnyddol, ac un Fedyddiedig. Barnwyf fod yma amryw bregethwyr, gan fy mod yn gyffredin yn gweled dau yn yr un pwlpid. Sefydlir ysgolion Sabbothol a dyddiol; a chefais fy synu y nos o'r blaen er fy llawenydd wrth glywed nifer o blant yn canu—yr oedd eu lleisiau mor hyddysg mewn peroriaeth, fel y teimlwn yn wir fel pe buaswn gartref wrth eu gwrando.

Yr wyf yn awr wedi ateb eich cwestiwnau mor gywir ag y medrwn, heb wyro ar y naill law na'r llall. Nid wyf wedi dywedyd dim ond yr hyn a wn trwy brofiad neu sylw personol, ac y mae fy holl haeriadau yn rhydd a difalais. Y mae y wlad a'r hinsawdd yn cyduno â mi yn dda, ac er nad wyf wedi llwyddo yma hyd yn hyn, yr wyf yn hyderu fy mod yn awr ar y ffordd i wneud peth arian beth bynag. Deallwch fod fy sylwadau yn gyfyngedig i San Francisco a'r ardal, o gylch ugain milldir o gwmpas. Barnwyf nad yw pethau yn wahanol mewn parthau eraill o California. Nid wyf yn anog neb i ddyfod yma, ac nid wyf ychwaith am ddigaloni y rhai sydd yn bwriadu dyfod. Y mae yma lawer yn gwneud yn dda, ac amryw eraill y buasai yn llawer gwell iddynt aros gartref.

* * * * * W. P. EDWARDS.

## PRESWYLFOD GAIR CRIST.

"*Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth.*" Col. 2. 6.

Y cymeriad a roddir yma i'r ysgrythyrau santaidd yw "gair Crist;" o herwydd Crist yw eu hawdwr, Crist yw eu gwrthddrych, a Christ yw eu dyben. Gelwir y gair hwn, "Gair ei ras;" Act. 20. 32. "Gair y ffydd;" Rhuf. 10. 8. "Gair y cymmod;" 2 Cor. 5. 19. "Gair y bywyd;" Phil 2. 16. "Y gair ffyddlon;" Tit. 1. 9. "Gair cyfiawnder;" Heb. 5. 13. Ond yma "Gair Crist." Yn 1. Gair a ddatguddiwyd gan Grist yn mhob oes i'w bobl, yn batriarchiaid, proffwydi, apostolion, &c. 2. Gair a draddodwyd ac a bregethwyd gan Grist yn bersonol yn y byd. Heb. 2. 3; Ioan 1. 18. 3. Y gair am Grist yw sylwedd yr efengyl; 1 Cor. 1. 30. Am dano ef y mae yr holl air yn llefaru—Moses, y Salmau, &c. Luc 24. 4. Y gair a orchymynodd Crist ei bregethu; Math. 16. 15. 5. Y gair trwy ba un y mae Crist yn cynhyrchu iachawdwriaeth, yn aileni, yn santeiddio, &c. 1 Pedr 1 23; a 2. 2. Y mae ei ewyllys ef ynddo. Y mae y gair yn dangos y ffordd, ac yn tywys y pechadur trwyddi.

II. Y cyngher a roddir gyda golwg ar air Crist. "Preswylied." Nid mewn amser dyfodol, ond yn awr, ac hefyd i aros. Nid i aros dros noswaith, ond i gymeryd ei drigfa sefydlog a'i arosiad yno. "Preswylied." 1. I'ch cynghori; Salm 119. 2. 2. I'ch goleuo a'ch cyfarwyddo fel llusern; Salm 119. 105. 3 I'ch llywodraethu yn mhob peth, &c. 4. I'ch cysuro a'ch dyddanu; Heb. 6.—. 5. I bwyso arno a gobeithio ynddo. Salm 119. 49.

Preswylied yn helaeth, neu yn gyfoethog, fel y mae y gair gwreiddiol yn arwyddô.—Cyfoeth—perlau a gemau yw ei air ef i gyd. Gwerthfawrocach yw nag aur coeth lawer. Salm 19. 10. Mae yn well na holl berlau a gemau y byd. Preswylied ynoch i gyd. Pob addewid yn y gair hwn sydd wythien, le, yn fwnglawdd na chloddir byth 'mo hono allan.

III. Yn mha le y dylai breswylio. Nid yn y glust nac yn y pen yn unig; nid yn y cof yn noeth; nid yn y serchiadau, a dim yn mhellach; ond yn y galon a'r enaid; Salm 119. 11. "Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon, fel na phechwn i'th erbyn." Salm 37. 31. Deddf ei Dduw sydd yn ei galon ef, a'i gamrau ni litbrant.

"Preswylied" yn 1. Yn y deall—yn mhob doethineb, mewn adnabyddiaeth gyson a sylweddol o hono. 2. Yn y serchiadau, mewn anwyldeb tuag ato. "Mor gu genyf dy gyfraith di;" Salm 119. 97. 3. Yn y meddwl a'r cof, trwy fyfyrdod parhaus arno. "Myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos;" Sal 1 2.

Y gair yw y cwbl sydd rhwng Duw â ni. Trwy y gair y mae i ni adnabod pob peth, cael pob peth, a derbyn cyfarwyddiadau yn mhob peth. Preswylied ynom nes gwneud ei ddelw a'i argraff arnom.

*Cattaraugus.* J. D. Jones.

## AMRYWION.

*Ein gweithredoedd.*—Y mae y peth lleiaf a wneir genym yn gyru ymdafliad ar hyd cadwyni diddiwedd achos ac effaith i eithafion pellaf amser, drwy yr oll o beiriant mawr hanfodiad dyfodol. Y mae dyn yn marw, ond nid oes un weithred o'i eiddo yn marw. Parheir ac estynir pob un am byth, drwy ei chanlyniadau annherfynol, yn effeithio ar ryw fodau yn mhob oes ddyfodol.

*Ffordd fy Nhadau.*—Y mae y cyffredinolrwydd o ddynion yn ymfoddloni i rodio drwy eu hoes yn y rhydiau a gerddodd eu hynafiaid, a hyny wedi iddynt fyned mor ddyfnion fel na welant ddim ar dde nac aswy. Cedwir hwy drwy hyny mewn anwybodaeth a thywyllwch, ond y maent yn arbed y drafferth o feddwl a gweithredu drostynt eu hunain.

*Cof-golofn Bunyan.*—Dywed yr *Art Journal* fod adeilad prydferth iawn newydd ei orphen yn Bedford. fel cof-golofn John Bunyan, ar y fan yr oedd yr hen gapel yn sefyll, a'i hen ragflaenor, "Ysgubor John Ruffhead," lle y bu y breuddwydiwr enwog yn gweinidogaethu i'w gyd-drefwyr.

*Mab da.*—Tua deng mlynedd yn ol ymfudodd gwr ieuangc o'r enw Spinks, o'r Iwerddon i'r wlad hon, ac oddiyma i gloddfeydd aur California. Yn ddiweddar efe a anfonodd i'w hen rieni tlawd, sydd yn byw yn Kyhill, gan' punt mewn archeb ar ariandy Rothschild. Dyna dalu'r pwyth i'w rieni.

*Beth nesaf*—Ar ol agos i hanner can' mlynedd o ymchwil a llafur i'r achos, y mae Mr. Blachue o Glasgow, wedi gwneud peiriant medi, yr hwn sydd mor syml fel y gall unrhyw wneuthurwr offer amaethyddol cyffredin wneud ei gyffelyb. Y mae yn costio tua deg punt ar ugain, a thraul medi ag ef yw tua swllt yr erw.

*Y Dyn.*—"Peidiwch a'm galw i yn fachgen," meddai rhyw hogyn siolwag, "yr wyf fi yn smocio er ys chwe' mlynedd;" meddyliai yn ddiau fod hyny yn gwneud penbwl yn ddyn.

*Y Sêr.*—Nid yw nifer y sêr sefydlog a welir ar un adeg uwchlaw mil. Ond camdybiaeth yw eu bod yn sefydlog, gan eu bod oll mewn gwirionedd yn symud Y mae ysbiadur mawr Iarll Rosse yn ddigon grymus i ganfod sêr y rhai oeddent mewn bod ddeng myrddiwn ar ugain o flynyddoedd cyn y gallasai eu goleu gyrhaedd y ddaear. Diehon

hefyd eu bod wedi diflanu fel ffigys irion er ys naw myrddiwn ar ugain o flynyddoedd, er fod eu goleu eto yn parhau i ymweled â'r ddaear. Wele, dyma tanau ffyrdd eangder ac anfeidroldeb! mor anolrheinadwy ydynt!

*Ufudd-dod.*—Y mae yn reol sefydlog dan bob amgylchiad fod yn rhaid i'r plentyn i ufuddhau. Ufudd-dod yw y wers neu y ris gyntaf mewn addysgiad. Y mae yn rhaid i'r plentyn fod yn ostyngedig i ewyllys uchelach agwybodaeth mwy addfed. Yn raddol daw yn fuan i gael allan y reswm paham. Cymerwch ofal, beth bynag, na fo i chwi wrthod na gorchymyn unrhyw beth; os na bydd i chwi yn gaeth ac yn ddisigl i orfodi ufudd-dod; onide byddwch yn dwyn i mewn ryw rydd-deb o egwyddor idd eich gweithrediad, nas gall dim ei dynu yn ol. Na foed i chwi byth roddi gorchymyn na gwrthwynebiad ond oddiar ddyben penderfynol neu farn addfedol.

## EFFAITH CYLCH Y FLWYDDYN.

O auaf i haf, o hyd—yr ysir
Oes y dyn hir-fywyd:
O haf i auaf hefyd
Yn i ben oes y byd. R. O.

## YR OFERDDYN.

Ofer pan hanner hunwyf,——a hefyd
Ofer pan ddeffrewyf;
Ofer wrth arfer yr wyf,
Afradus, ofer ydwyf. IOAN.

## TWYLL Y CARDOTYN.

ENGLYNION BUDDUGOL.

Ow! mae adyn i'm hudo——wrth y drws,
Araeth drom sy ganddo;
Colledion trymion bob tro,
Aflwyddiant fu i'w luddio.

Maes o waith er mis yw o——ymofyn
Mae hefyd am dano;
Ond o mewn yn dymuno
Allu byth, nad felly bo.

Yn dallu'r hael—hen dwyllwr yw,—aew'n hel
Cynnaliaeth trwy ystryw;
Fel hyn mae'r bawyn yn byw,
Cardotyn o'r cryd ytyw.

DEWI WYN O ESYLLT.

## WAKING OF THE HARP.

ENGLYN I'R SAESON.

Wake, sweet harp, why warp in woe?—why linger
And languish in sorrow!
Let no rough and bluff wind blow
Thy wailings on the willow.

*Cardiff.* J. EMLYN JONES.

## CYFIAWNDER YMARFEROL.

Prynodd y diweddar Barch. John Evans, o'r Bala, geffyl un tro, a galwodd ar wr cyfrifol o'r gymmydogaeth i'w edrych, ac i farnu y fargen. Y gwr wedi sylwl yn fanol ar yr anifail, a throi ychydig o'i gwmpas, a ddywedodd wrth yr hen wr, "Wel, yn siwr, John Evans, cawsoch newid fawr ar y ceffyl am y swm a ddywedasoch, tâl y ceffyl ychwaneg o ariau." "Pa faint ychwaneg?" gofynai J. E. "Wel," meddai yr edrychydd, "tâl bunt yn ychwaneg." "O'r goreu," meddai J. E., "os tal ef bunt yn ychwaneg, ychwaneg o hyny a gaiff y gwr." Felly, John Evans a anfonodd bunt arall i'r gwerthydd.—*Dyddanion I. G. Aled.*

## EGWYDDORION HEDDWCH YN CAEL EU CYMHWYSO.

Yr oedd Mr. John Pomphret, gweinidog Seisnig lleol, perthynol i'r Wesleyaid, bob amser yn pleidio athrawiaeth heddwch, gan ddywedyd, pe buasai iddo ef gael ymosod arno gan ysbeilydd penffordd, y byddai iddo beidio gwneuthur un amddiffyniad. Yr oedd efe yn farsiandwr caws, ac wrth ddyfod adref o'r farchnad un diwrnod, ar ol derbyn swm mawr o arian gan ei brynwyr, er helaethu ei ystor, ymosodwyd arno gan ysbeilydd, yn gorchymyn iddo roddi ei arian iddo, gan fygwth ei hoedl os gwrthwynebai. Gofynai yr heddychwr parchedig yn araf i'r ysbeilydd, "Wel, gyfaill, pa swm sydd arnat eisiau? oblegyd rhoddaf hyny i ti, ac arbedaf di rhag cyflawni ysbeiliad pen ffordd."—"A ro'wch chwi i mi yn wir yr hyn a ofynaf," ebai y lleidr. "Rhoddaf, yn wir, os na fyddi yn ceisio mwy nag sydd genyf," ebai Mr. P. "Y mae arnaf eisiau pumtheg punt." Cyfrifwyd iddo y swm a ofynai, a hyny mewn aur, yn lle papyrau, y rhai, pe cymerasid eu rhif, gallasai y pregethwr gael mantais i ddal yr ysbeilydd, gan ei hysbysu ar yr un pryd paham yr oedd efe yn rhoddi aur iddo yn lle papyrau, a dywedyd, "Ddyn annedwydd, y mae i ti groesaw i'r swm hwn. Dos adref—tâl dy ddyled, a myn dy fywioliaeth mewn ffordd onest ar ol hyn."

Yn mhen blynyddau derbyniodd y pregethwr yr arian a'r llog, ynghyd a chyfaddefiad edifeiriol yr ysbeilydd am a wnaeth.

## EGLWYS LOEGR AC YMNEILLDUAETH.

Y mae yn ymddangos yn hynod i feddwl mor wyneb-agored y mae pleidwyr Eglwys Loegr yn dyfod i'r maes yn y dyddiau hyn yn erbyn Ymneillduaeth. Dywedai papyr Bangor (*North Wales Chronicle*) "Os â dynion at Ymneillduaeth (yr hyn yn ein barn ni sydd waeth na myned at Babyddiaeth.) canys ni all y cyfryw wrthgilwyr gael y sacramentau drwy weinyddiad awdurdodedig." Yn ddengys mai dyma farn y rhan amlaf o'r eglwys.

Yn ngwyneb y fath haeriadau y mae yr Ymneillduwyr arnynt hwythau yn dechreu ymysgwyd o blaid eu hegwyddorion. Traddodwyd araeth gan y Parch. John Phillips yn Bangor ar gymwysiad y frawddeg uchod yn y *North Wales Chronicle*, sef bod Ymneillduaeth yn waeth na Phabyddiaeth. Yr ydym yn ddyledus i Mr. Eleazer Jones am gopi o'r araeth benigamp hon, a buasai yn dda genym roddi dyfyniadau o honi pe buasai ein terfynau yn caniatau; ond gan fod araeth Dr. Berg yn y rhifyn presennol, hyderwn y bydd yn ddigon i foddloni ein darllenwyr ar y mater. Prif bwngc araeth Mr. Phillips oedd dangos gwrthuni athrawiaeth yr olyniaeth apostolaidd, &c.

Barnwn fod hen eglwys halogedig Loegr yn ymddwyn yn annoeth er ei lles ei hun pan yn ymosod ar yr Ymneillduwyr ar yr un pryd ag y mae yn rhyfela â'r Pabyddion; gallasem feddwl y buasai yn well iddi ymdrechu ennill y naill er ei chynorthwy i orchfygu y llall; ond yn lle hyny y mae hi yn herio y ddwy blaid ar unwaith, ac o ganlyniad ni rhyfeddem ei gweled yn gelain rhyngddynt ar y maes. Goreu pa gyntaf y gwawrio y boreu.

Ar yr un pryd, nid ydym yn gweled paham y dylai Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain gweryla â'u gilydd, gan fod Puseyaeth erbyn hyn agos wedi eu huno â'u gilydd; ac y mae yr enciliadau aml oddiwrth y blaenaf at yr olaf yn profi yn amlwg fod ei seremoniau a'i defodau halogedig yn fathle i Babyddiaeth. Y mae amryw offeiriaid a ddalient fywioliaethau cyfoethog yn eu taflu i'r gwynt, ac yn ymreau o dan luman Saint Pedr. Fel hyn y mae Pabyddiaeth yn cynyddu, ac y mae dydd o brofedigaeth Babaidd fel yn nesau at Gymru: yr oedd agoriad coleg Pabyddol gerllaw Tremeirchion, yn y Gogledd, yn brawf fod "y dyn pechod" am gaethiwo mynyddau Gwalia; ac y mae enciliad Arglwydd ac Arglwyddes Fielding at Babyddiaeth yn y gymmydogaeth hono, megys yn rhyddhau y ffordd i hyny. Y mae enciliad y teulu uchel hyn wedi peri syndod nid bychan i rai, ond nid cymmaint yw y rhyfeddod am hyny, canys y mae y rhan fwyaf o'r boneddigion eglwysig yn hollol ymddifad o wybodaeth ysbrydol am athrawiaeth yr efengyl, a'r cwbl a amcanant ato yw cyrhaedd dylanwad ac anrhydedd personol.

## YR EGLWYS YN YR IWERDDON.

Mewn cyfarfod Dilead yr Undeb a gynnaliwyd yn ddiweddar, cymerodd John O'Connell sylw ar y waed uchel sydd yn awr yn Ynys Prydain—"Dim Pabyddiaeth;" a bygythiai gyfodi gwaedd gyffelyb yn erbyn yr Eglwys Esgobol. Dywedai, "Os oes gwaedd yn cael ei chyfodi yn erbyn yr Eglwys Gatholicaidd, oni ellir codi plaid wrthwynebol yn erbyn yr Eglwys Brotestanaidd. (Clywch, clywch, a chymeradwyaeth.) Yn yr Iwerddon, o'r hyn lleiaf, ni a wnawn hyny. A ydyw Archesgob Cardinalaidd Westminster yn anfon casglwyr trethi, gyda grym y gyfraith, yn erbyn y Protestaniaid, i'w gorfodi at gynnal ei uchelder? Nag ydyw; cynnelir ef gan rydd gyfraniadau y Catholiciaid; ac ni dderbynia arian am yr hyn nad ydyw yn ei gyflawni. Ond nid yw archesgob Protestanaidd Dublin, ac arch-esgobion ac esgobion eraill, yn ymddwyn felly. Y maent hwy yn derbyn arian o dan ffug-esgusodion—y maent yn cyfodi arian am wasanaeth nad ydynt yn ei gyflawni. (Clywch, clywch). Nid yw archesgob Cardinalaidd Westminster, neu yr esgobion Catholicaidd eraill yn Lloegr a'r Iwerddon, yn gorfodi talu treth â blaen y bidog; ac nid yw bywyd mab yr un weddw yn cael ei gymeryd o'u hachos hwy. Y mae daear yr Iwerddon wedi cael ei mwydo â gwaed wrth gasglu drwy orfodiaeth y dreth warthus hon; ac y mae y preswylwyr Catholicaidd yn barhaus yn cael eu gorfodi i'w thalu yn anuniongyrchol, oblegyd nas gallant gael *receipt* am eu rhenti hyd nes y talont y degymau i'w meistri tiroedd—y mae yn rhaid iddo ef yn gyntaf ei dalu i'r offeiriad. Y mae yn rhaid i ni roddi pen ar hyn yma. (cymeradwyaeth). Gobeithiaf y bydd i'r wlad gyduno a chyfarfod â'r waedd yn erbyn Pabyddiaeth gyda gwaedd yn erbyn yr erbyn yr Eglwys Sefydledig Brotestanaidd. (Clywch, clywch).

## CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.,

*Mewn atebiad i Ddarlith yr Archesgob Hughes, ar Adfeiliad Protestaniaeth.*

Nid wyf yn cywilydd lio o'r enw Protestant. Yr wyf yn ystyried fod yr enw hwn yn gysylltiedig â'r hyn oll sydd yn rhoddi cymeriad i'r cenedl'aethau mwyaf gwybodus a haelionus ar wyneb y ddaear. Nid oes arnaf gywilydd chwaith o'r ffydd Brotestanaidd,—oblegyd nid yw y peth gwag a dífeddwl ag y mae ei gelynion am ei gwneud hi allan. Y mae yn beth pendant, yn beth sicr a gwirioneddol. Er profi hyn mi a'ch cyfeiriaf at y cenedlaethau Cristionogol mwyaf galluog o holl genedlaethau y ddaear, sef teyrnas Brydain Fawr, a gwerinlywodraeth yr Undol Dalaethau, pa rai ydynt Brotestaniaid; a diau eu bod yn gyfrifol am eu mawredd, eu gallu, a'u henwogrwydd i Brotestaniaeth. Yr ydym yn honi hefyd i fod yr holl orchestion ysblenydd a addurna ddysgeidiaeth, ynghyd a'r holl ymchwiliadau a dadguddiedigaethau celfyddydawl yn ddyledus i Brotestaniaeth. Ac nid ydym yn ofni mynegu mewn modd cyhoeddus na bydd i ddysgeidiaeth na gwybodaeth gelfyddydawl i lewyrchu mewn unrhyw wlad ag a fyddo yn ymddifad o ofal meithrinawl Protestaniaeth. Yr ydym yn golygu fod Protestaniaeth yn anhepgorol er addoliaeth gwir Gristionogaeth. Nid oes unrhyw ffurf o grefydd neu addoliad ag sydd yn bwrw allan elfenau Protestaniaeth o'u credo, (er y dichon

eu bod yn gwisgo yr enw o Gristionogion) ond dangosiad rhagrithiol o grefydd ein Hargl-wydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Y mae Protestaniaeth yn angenrheidiol er mwynhau rhyddid gwladol a chrefyddol, fel y mae yr awyr yn angenrheidiol i ni i anadlu, er mwynhau bywyd naturiol. Nis gellid cael llywodraeth gyfiawn na chyfreithiau uniawn er dyogelu iawnderau, personau, na medd-iannau, na sicrhau i ddynion gonest a moesol rhyddid i addoli eu Duw yn ol cyfarwyddyd eu cydwybodau, heb Brotestaniaeth.

Os yw yr egwyddorion a berthyna i freinlen fawr iawnderau dynol yn lleihau o ran eu gwerth yn ngholwg y bobl—os ydyw unrhyw genedl dan y nefoedd yn blino mwynhau eu rhyddid, yr hyn sydd yn sicrhau i bob dyn y cysur personol, cyfoeth a dedwyddwch penaf, a hyny yn gydweddol a chyfatebol i iawnderau ei gymmydog i'r unrhyw fwyn-had—os yw preswylwyr unrhyw wlad wareiddiedig yn hiraethu am gadwynau traws-lywodraethol, neu yn estyn eu dwylaw er iddynt gael eu rhwymo, neu ostwng eu gyddfau mewn modd slafaidd dan iau gormes; yna yr addefaf fod Protestaniaeth yn adfeilio.—Gwyddom am deimladau cwynfanus a thrwmlwythog y miliwnau ar nad ynt yn feddiannol ar lythyr cymun cyfoethog y nefoedd, pa rai sydd yn cael eu gwasgu a'u gorthrymu gan ormeswyr. Ond pa le bynag ar wyneb y ddaear y mae dynion, wedi clywed am Iesu Grist, ac wedi gweled y goleuni nefol yn llewyrchu trwy yr ysgrythyrau santaidd, y mae yno gasineb a gwrthwynebiad yn erbyn pob traws-lywodreth a gormes, a chawn yn y cwynfanau a'r gwrthwynebiadau hyn i drawslywodraeth, arwyddion o fywyd a gallu Protestaniaeth; a lle bynag y mae wedi ymaflyd yn meddyliau y bobl y mae iddi fywyd annileuadwy, na ellir byth ei ddinystrio. Y mae mor anfarwol â'i Dwyfol Awdwr.

Yr wyf yma y prydnawn hwn mewn atebiad i gymhelliad cyflwnedig a anfonwyd ataf, wrth ba un yr oedd enwau rhai o'r dynion mwyaf cymeradwy ac anrhydeddus a fedd yr ardal—rhai gweinidogion yr efengyl, ac eraill o aelodau eglwys Crist. Gallaf ddywedyd mewn gwirionedd gyda pharodrwydd meddwl y buaswn yn gosod fy enw wrth yr unrhyw gyflwyniad pe buasai yn cael ei gyfeirio at rhyw un arall. Pa fodd bynag, yr wyf yn ei ystyried yn anrhydedd i fod yn was i chwi ar yr amgylchiad hwn, ac yr wyf yn diolch am y fraint. Y mae dyn o Gath wedi dyfod allan i warwar llwythau ein Israel Brotestanaidd. Gwir nad ydyw wedi dyfod allan fel y dyn gynt a helm o bres ar ei ben, ac nid yw yn sefyll mewn angenrhaid am dano; ond mae wedi ei wisgo â meitr archesgob, ac yn aroglu o olew cyssegredig, os nid ag arogl santeiddrwydd. Y mae sain ei lais ef fel adsain hen wron Philistia yn rhoddi her i fyddinoedd Israel y dydd hwn. Ond mewn ymddibyniaeth ar yr addewid y byddai y gwanaf yn y dydd hwnw i fod fel Dafydd, yr wyf yn gobeithio y byddaf yn alluog i wneud â'r gelyn hwn fel y gwnaeth y glas-langc gynt â'i gyn-ddelw; ac yr wyf yn ystyried yn gydweddol â dull teg ac anrhydeddus o rhyfela iddo golli ei ben trwy fin ei gleddyf ei hun; neu mewn geiriau eraill, a gadael y gyffelybiaeth, ei ddarlith ei hun a gaiff fod yn offeryn i'w geryddu. Ei ddarlith a ddynodir ganddo, "Adfeiliad Protestaniaeth, a'r achos o hyny." Arwyddir ei bod wedi cael ei thraddodi yn eglwys gadeiriol St. Patrick, prydnawn Sabboth, Tach. 13, 1850, gan y gwir barchedig John Hughes, D. D., Archesgob Caerefrog-Newydd.

Y mae yr Archesgob Hughes yn cyhoeddi fod Protestaniaeth yn adfeilio, a bod y Protestaniaid eu hunain yn cyfaddef hyny, ac yn cwyno o'r herwydd, gan ymdrechu atal ei chwymp. Ond yn gyntaf, gadewch i ni ymofyn pa beth a feddylir wrth y gair Protestaniaeth. Y mae yr archesgob yn methu dyfod i un meddwl penderfynol am dano, ac felly yn analluog i roddi eglurhad cyflawn a boddhaol o hono mewn ystyr ymresymiadol a duwinyddol; ond am ei feddwl cyffredin ac anghyfyngedig addefa ei fod yn ddealladwy. Y mae yr anhawsder hwn yn bodoli yn ol ei ymresymiad ef o herwydd fod cymmaint o wahanol enwadau neu sectau yn proffesu Protestaniaeth; a chyda golwg ar hyny y mae y dyn gwybodus mewn iaithyddiaeth mewn dyryswch meddwl pa beth yw y peth hwn a elwir Protestaniaeth. Yr wyf yn ateb y gofyniad hwn trwy ofyn gofyniad arall; h. y., Pa beth yw goleuni? Meddyliwch fod y gofyniad hwn yn cael ei ofyn i'r dyn anffodus ag a fyddai wedi treulio ei amser fel un yn mhlith y beddau, neu ei fod wedi myned i sefyllfa o ddyeithrwch meddwl, neu ei fod trwy ddylanwad rhagfarn boreuol yn dewis cau ei hun mewn rhyw ogof dywyll am flynyddoedd ei fywyd, a'i fod yn cael ei ddwyn yn sydyn i oleuni llewyrchiadol yr haul, a bod ei belydrau dysglaer yn effeithio ar ei olygon, nes byddai y dwfr yn ddefnynau yn treiglo o honynt dros ei ruddiau; gofyna mewn modd anamyneddgar a grwgnachlyd, Beth yw y peth hwn a elwir goleuni? Y mae yn gweled y goleuni yn pelydru rhwng ei amrantau, ac yn llygad-ruthro ychydig, fel y mae llewyrchiadau y goleuni yn syrthio ar y gwydrau lliwiedig sydd yn grogedig o flaen ei olygon gweinion, pan y gwaedda mewn digllonedd

synfawr, Beth yw hyn? O! y fath gymysgfa o wahanol liwiau! y mae y peth ag yr ydych chwi yn ei alw yn oleuni yn bob peth, fel nad yw yn bosibl dywedyd beth ydyw! Y mae yn ymddangos yn lâs, yn lâs oleu—yn goch, yn goch-lâs, a pheth yn felyn, a pheth arall yn wyrdd fel yr Ynys Werdd! Ai dyma y peth ag yr ydych yn ei alw yn oleuni? ymaith a'r fath beth annysgrifiadwy. Gwell genyf fi o lawer fy nghysgod tanddaearol.—Yn awr, beth yw Protestaniaeth? atebaf mai goleuni gwirionedd Duw ydyw—y goleuni dysglaer hwn yw y seren-ddydd, yn codi yn ngwres a goleuni y datguddiad dwyfol. Y mae y ffurf a'r lliw ag y mae yn ei gymeryd mewn ymddangosiad yn ymddibynu ar amgylchiadau, sefyllfa a galluoedd y rhai sydd yn ei derbyn. Y mae ei llewyrch yn disgyn fel pelydrau yr haul ar y gwahanol lysiau, fel yr amrywia ymddangosiad lliwiau. Felly y mae Protestaniaeth. Y mae yn disgyn ar galon a chydwybod un, a bydd yn Drefnieddydd coch, gwresog. Disgyna ar y llall, ac y mae yn Bresbiteriad glas, cryf a threfnus. Ar un arall, y mae yn disgyn fel yn las-oleu, a gwawr y dwfr arno, a bydd yn Fedyddiwr; ac felly trwy y gwahanol liwiau neu enwadau; eto y maent yn un yn eu perthynas â Duw, fel y mae gwahanol belydau yr haul yn un yn yr haul. Bwa Duw ydyw Protestaniaeth, sydd yn ymddangos yn ffurfafen ein gwlad, yn arwydd na bydd i orlif Pabyddiaeth byth ddyfod fel dylif dros y tir, i'w ordoi â galar, ac i'w drochi â gwaed y diniweid. Er fod gwahanol enwadau, eto yr un yw gwir Gristionogaeth, ac y mae ei dylanwad yn ganfyddadwy pa le bynag y mae yr wybodaeth, y cysur, yr heddwch, a'r dedwyddwch ag y mae y bobl mewn ystyr gyffredinol yn ei fwynhau, yr hyn yw gogoniant ein gwlad. Nid yw y gwahanol enwau yn gymmaint o bwys yn ngholwg y gwir Gristionogion ag ydyw sylwedd crefydd, yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn bywyd duwiol, ac yn angenrheidiol yn ngholwg pawb o honynt, er eu bod yn gwahaniaethu mewn rai pethau perthynol i grefydd. Ond am yr Archesgob Hughes, ac eraill o'i fath, er nad ydynt yn cymeryd arnynt ddeall pa beth yw Protestaniaeth, eto y maent yn gwybod pa fodd i wrthwynebu ac erlid, ac atal rhediad y grefydd Brotestaniaeth, a gwahardd gwasgariad yr ysgrythyrau, a llosgi Beiblau. Nid ydynt am ddyfod i'r goleuni. Y maent yn casbau y goleuni. Paham? O herwydd fod eu gweithredoedd yn ddrwg. Esgymuna a melldithia yr esgobion a'r offeiriaid bawb a ddarllenont y Beibl heb eu llygriad a'u caniatad hwy. Os nad ydyw yr Esgob Hughes yn gwybod beth yw Protestaniaeth, gwell a fyddai iddo roddi heibio ddarlithio, oblegyd ni bydd trwy hyny ond tywyllu cynghor heb wybodaeth.

Dywed yr archesgob Hughes i Brotestaniaeth ddechreu yn y flwyddyn 1517. Gan bwyll, barchedig syr, daeth yr enw i ymarferiad yn fwy diweddar na'r flwyddyn 1517; ond y mae y gwrthddrych a arwyddir trwy yr enw mor hened a'r Testament Newydd. Y mae hen bethau weithiau yn cael enwau newyddion; ac felly Protestaniaeth, er ei bod mor hened ag athrawiaeth yr apostol Paul, Ioan, ac eraill, eto cafodd enw newydd i ddyben neillduol. Ni roddaf i fynu y pwngc o hynafiaeth. Ni addefaf mai dyfais er ddoe ydyw y ffydd Brotestanaidd, nac ychwaith ychydig yn hŷn na thri chant o flynyddoedd. Y mae y gwron Pabaidd yn gofyn, Pa le yr oedd eich crefydd cyn amser Luther? yr ateb yw, Yn y Beibl; yn yr un llyfr ag sydd yn datguddio eich crefydd chwithau. Ond yr wyf am ddywedyd fod hyn o wahaniaeth rhyngddynt, i fod y gyfundraeth ag yr ydych chwi yn ei dal i fynu yn cael ei darlunio yno mewn modd rhagddywediadol, fel cyfundraeth ymadawedig oddiwrth y ffydd wirioneddol, yr hon gyfundraeth y mae yr Arglwydd yn gasau, ac sydd yn sicr o gael ei dinystrio ganddo. Ond ni wna hyn eu boddloni; gofynant, pa le yr oedd ei phroffeswyr? a phwy oedd ei hymlynwyr cyn amser y brawd Martin Luther? I hyn y gallaf ateb, oni ddarfu i fyddinoedd gael eu hanfon ar wahanol amserau gan Babau Eglwys Rhufain, neu drwy eu cynhyrfiadau hwy, er ymosod ar y Cristionogion ag oeddent yn preswylio rhwng mynyddoedd Piedmont, a hyny gannoedd o flynyddoedd cyn i Martin Luther gael ei eni? A'r achos o anfoniad y byddinoedd hyn oedd fod y bobl yma yn gwrthwynebu yr athrawiaeth a'r ymarferiadau Pabyddol ag yr ydym ni yn eu gwrthwynebu yn y dyddiau hyn. Yr oeddent yn ystyried y Pab fel yr Anghrist, yn gwrthod addoli delwau a phethau eraill, yn gwrthwynebu athrawiaethau y purdan, pererindod benydiaethol, cyffesiad dirgelaidd, ynghyd a'r holl bethau ag oedd yn cael eu dal ac mewn arferiad gan Eglwys Rhufain. Ac am fod y bobl hyn yn Brotestaniaid, ac yn gwrthwynebu Eglwys Rhufain yn ei thrais a'i gormes, darfu iddo ef, sef y Pab, anfon ei filwyr, a milwyr teyrnasoedd eraill, yn erbyn y bobl ddiniweid hyn, i ddifrodi eu gwlad, gan ladd gwyr, gwragedd, a phlant, heb unrhyw rith o drugaredd yn cael ei ddangos at hen na ieuangc. Lladdwyd ugeiniau lawer o filoedd o honynt, ie, cannoedd o filoedd; eto, nis cawsant eu

lwyr ddifa, fel y mae rhai o'u hiliogaeth yno hyd y dydd hwn; ac yn sefyll mor wrol ac mor wrthwynebol i'r Pab a'i ymarferiadau ag oedd yr hen Waldensiaid gynt. Nid yw y cwbl o'i grefydd a'i ymarferiadau ond dyfais o eiddo Satan, ac yn warth i Gristionogaeth, yw eu barn a'u tystiolaeth. Yn awr a fydd i chwi i ddywedyd mai yn y flwyddyn 1517 y dechreuodd Protestaniaeth? y gwir barchedig syr, yr ydych yn ddyn dysgedig, ac yn gwybod gwell. Clywsoch am John Huss, yr hwn a ddyoddefodd ferthyrdod yn 1415, mwy na chan' mlynedd cyn i Luther sefyll i fynu fel diwygiwr. Bu farw yn y fflamiau, fel blaenor herticaidd, o herwydd ei fod yn bregethwr athrawiaeth y Waldensiaid, &c. Dyoddefodd farwolaeth boenus trwy i Ymprwr Sigismud i ufuddhau er yn llwfr i benderfyniad Cynghor Constance, yn mha un y penderfynwyd cyhoeddi anffaeledigrwydd y Pab, a gwrthod rhyddid i hereticiaid: yr hyn sydd yn tywyllu tu dalenau eich deddf-lyfr hyd y dydd hwn, ac yn ol eich egwyddorion, nis gellir byth ei ddiddymu. Amser a ballai i mi i nodi Jerome o Prague, a Gerson, y brodyr o Bohemia, &c., am Wickliffe, ac am y Lollardiaid o Loegr, am y Caldees yn yr Almaen, a lluoedd o ddiwygwyr cyn amser y Diwygiad. Ond y mae hyn yn ddigon i brofi fod Protestaniaeth mewn bodoliaeth cyn 1517.—Dechreuodd pan ddarfu i'r apostol *brotesto* yn ei erbyn yn 1 Tim. 4. 1. "Ac y mae yr Ysbryd yn eglur ddywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddiwrth y ffydd, gan rhoddi coel i ysbrydion cyfeiriornus, ac i athrawiaethau cythreulig, yn dywedyd celwydd mewn rhagrith, a'u cydwybod eu hunain wedi ei serio ag haiarn poeth; yn gwahardd priodi, ac yn erchi i ymatal oddiwrth fwydydd, y rhai a greodd Duw i'w derbyn trwy roddi diolch gan y ffyddloniaid, y rhai a adwaenant y gwirionedd, &c." Nid yw y nodweddiadau uchod i'w cael mewn un gyfundraeth arall ag sydd yn cael ei galw neu yn galw ei hun yn Gristionogol, ond yn unig yn nghredo Eglwys Rhufain: o ganlyniad mae yn rhaid mai hon oedd mewn golwg gan yr apostol yn y desgrifiad uchod. Dechreuodd Protestaniaeth yn y flwyddyn 66 ar ol Crist, ac nid yn 1517. Yr apostol Paul oedd y Protestant cyntaf. Daeth Martin Luther ar ei ol ef i ysgubo yr ysgarthion o ormesderau Pabyddol, ac i godi y gwirionedd i'r golwg—i osod y ganwyll yn y canwyllbren, yr hon oedd wedi cael ei gosod dan lestr er ys llawer o flynyddoedd gan yr eglwys anghristaidd hono. Oddiar y dydd hwnw hyd yn awr y cwestiwn yw, Beibl, neu Dim Beibl. Y mae holl rym a gallu yr eglwys Babaidd yn cael ei grynhoi ynghyd i atal gwybodaeth efengylaidd, fel y mae yn cael ei ddatguddio yn yr Ysgrythyrau Santaidd; yr hyn sydd yn ein harwain at y pwynt ar ba un y mae yr archesgob Hughes yn gosod y pwys mwyaf yn ei ddarlith, hyny yw, i fod Protestaniaeth mewn ystod hanner cant o flynyddoedd o'r amser y dechreuodd wedi gorchfygu, goresgyn, a chymeryd meddiant o bob modfedd o dir ag sydd mewn meddiant ganddi yn bresennol, fel y gallasai hen wr yn 1567 edrych ar holl fuddugoliaethau Protestaniaeth, a throi yn ol yn ei gof a'i feddwl at ei amser bachgenaidd, pryd yr oedd yn adnabod y brawd Martin Luther, &c. Yn awr, a ydyw hyn yn wir? A oedd Protestaniaeth yn yr amser hwnw mewn meddiant o'r holl dir ag y mae yn feddiannol arno yn bresennol? A oes dim ychydig fodfeddi gan Brotestaniaeth ar gyfandir mawr America wedi ei ychwanegu at ei therfynau oddiar yr amser hyny; Ie, tiriogaeth mwy eang nag a ddarfu i Babyddiaeth ei enill erioed, yn yr hyn oll sydd ganddi o dan ei hawdurdod yn Ewrop.

Ond, a ddarfu i Brotestaniaeth ddim goresgyn ychydig fodfeddi yn rhagor wedi hyny yn ngwahanol barthau y byd, yn Ewrop, Asia, Affrica, ac America, trwy lafur ei chenhadon duwiol, dysgedig, a hunan-ymwadol? Beth! y gwir barchedig syr! ai newydd ddeffroi ydych o eich cwsg? Ie, feddyliwn i, gwsg hwy na chwsg Rip Van Winkle? A ydych wedi myned yn benwan? neu a ydyw y meitr a'r bugeilffon wedi eich gwneud yn ben-ysgafn? neu beth yw y mater? Pe na buasai i'r archesgob ddangos y fath fawredd yn ei haeriadau—pe buasai yn ymfoddloni ar ddywedyd nad oedd Protestaniaeth wedi estyn ei therfynau ar gyfandir Ewrop, buaswn yn addef ei fod yn gywir; ond ar yr un pryd, wrth addef ei gywirdeb, buaswn yn cymeryd gofal i osod i lawr y gwir achos o hyny. Dywed yr esgob "fod Protestaniaeth wedi ymdaenu o Wirtenburg trwy ogledd-dir yr Almaen. Cyrhaeddodd mewn dull gwahanol rhandiroedd Switzerland; treiddiodd i ymerodraeth Ffraingc; cymerodd feddiant o Prwsia: treiddiodd hefyd i Holland, Norway, Sweden, Denmark, Lloegr, a'r Almaen. Goresgynodd hwynt oll; ond darfu i'r Gwyddelod sefyll yn ei herbyn, ac ymdrechasant yn gyson, yn ddiflino, ac yn benderfynol yn eu gwrthwynebiad; ac er fod y genedl ddarostyngedig hyny wedi dyoddef yn ddwys o herwydd eu bod wedi ymlynu wrth egwyddor (dylasai ddywedyd Pabyddiaeth yn lle egwyddor, yna buasai yn fwy agos i'r gwirionedd;) eto ni ddarfu iddynt roddi i fynu i

Brotestaniaeth." Yn awr, am nad yw y ffydd Brotestanaidd wedi enill tiriogaethau newyddion yn nghyfandir Ewrop, y mae yr archesgob Hughes yn meddwl y gall roddi cyfrif gyda sicrwydd am ei llwyr adfeiliad a'i diflaniad o fodoliaeth mewn llai o amser na chan' mlynedd o'r amser presennol. Dywed hefyd fod Protestaniaeth wedi cael manteision neillduol yn Lloegr; cymerwyd ysbail mawr ganddi o gyfoeth yr Eglwys Babaidd, trwy drais, y rhai sydd eto yn ei meddiant, &c. Er bod yn dêg ac yn onest yn y man yma, ni a gyfaddefwn nad yw Protestaniaeth wedi gwneud yr hyn a ddylasai, a'r hyn hefyd a allasai wneud yn ol ei sefyllfa. Ond beth sydd wedi bod yn achos o hyny, gadewch i ni addef. Nid yw Cristionogion wedi bod mor selog, ffyddlon, ymdrechol, a hunan-ymwadol ag oedd uwchafiaeth eu proffes yn galw; ond eto nid hyn yn gwbl yw yr achos. Trown ein golwg yn gyntaf i Loegr. Na fydded i un dyn ddywedyd fod Protestaniaeth wedi methu yn Lloegr! O! nac ydyw; nac ydyw! pobl Brydain Fawr, yn nesaf at werin-lywodraeth yr Unol Dalaethau, yw y bobl mwyaf dedwydd ar holl wyneb y ddaear. Y mae sain bloeddiadau y genedl yn swnio mewn llais digofus a grymus yn y dyddiau terfysglyd hyn, mewn gwrthwynebiad i'r dull dichellgar, ffroen-uchel, ac awdurdodol y mae y Pab am estyn, neu yn amcanu at estyn terfynau ei awdurdod; ac y mae adsain eu bloeddiadau yn croesi môr mawr y Werydd, ac yn achosi deffroad yn mhlith Protestaniaid America, mewn cydweithrediad brwdfrydig yn ei erbyn, &c. Ond paham na byddai Protestaniaeth wedi enill sefyllfa mwy grymus yn Mhrydain nag y mae hyd yma? oni ddarfu iddi enill cynorthwyon mawrion oddiwrth yr ardrethiadau a'r cyfoeth a gymerodd oddiwrth yr Eglwys Babaidd? medd yr archesgob. Yn atebiad i hyn, dywedwn, cymerodd Protestaniaeth y felldith oedd ar y trysorau hefyd. Y mae Duw yn casbau lledrad yn aberth-losg. Pa fodd y darfu i'r eglwys Babaidd gael meddiant o'r fath drysorau? onid trwy dwyll a dichell, gormes a thrais o'r mwyaf? Trwy gymeryd oddiwrth y gweithiwr diwyd a llafurus ei enill bychan mewn cyfnewidiad am gleiniau (*beads*), ac *Agnus Deis* a dwfr santaidd, a'r holl bethau Mynachaidd a choelgrefyddol a berthynant i'w gwasanaeth; gyda y fath hyfder digywilydd y ffugia offeiriaid yr eglwys hono, (pa rai ynt yn cymeryd arnynt ddiwygio a dychwelyd y byd,) egwyddorion crefydd, gan gyflwyno eu hachos at haelionusrwydd ac at ofnau eu canlynwyr twylledig, a dywedyd, Rhoddwch, Rhoddwch; onide ni bydd enaid yr ymadawedig, yr hwn yr oeddech yn ei garu, byth gael ei adferyd oddiar wely taullyd y purdan. Rhoddwch; onide ni bydd i chwi gael eich gweddiau, na mwynhad o'r breintiau mwyaf. Rhoddwch eich arian, onide byddwch yn golledig byth, &c. Y mae yr eglwys hon wedi bod yn alluog bob amser i gael arian cyfatebol i'w hangen fel hyn. Yr oedd ganddi gyflawnder o drysorau yn amser Henry VIII; ond collodd hwynt, mae yn wir, pan ddarfu i'r brenin balch hwnw ymryson â'r Pab. Cymerodd y brenin Henry VIII, yr anrhaith oddiwrth y Pab, ac a'u trosglwyddodd i'w eglwys ei hun. Am egwyddorion crefyddol, nid oedd ef yn feddiannol arnynt. Yr oedd yn dda i Loegr ac i'r byd i fod y brenin wedi rhoddi ei hyder yn Cranmer, yr hwn oedd yn parchu ac yn caru yr ysgrythyrau; ond yr oedd yn fendith mwy i Loegr ac i achos y gwirionedd, ac i'r oes hono hyd y dydd hwn, i fod y Cristion a'r duwiol Edward, sef Edward VI, wedi cael ei ddyrchafu i'r orsedd, er na bu ei deyrnasiad ond byr. Nid wyf yn Esgobaethwr, ac nid wyf ychwaith yn dysgwyl bod byth; ond y mae genyf barch calon, ac yr wyf yn edrych gyda boddhad ac anrhydedd ar yr Eglwys Esgobaethol Brotestanaidd. Y mae yn un o lumanau mwyaf ardderchog y Diwygiad. Y mae Eglwys Loegr yn ei haelodau, ei merthyron, a'i hanes, yn aroglu yn hyfryd, yn nghoffadwriaeth miloedd o enwogion mewn dysgeidiaeth, duwinyddiaeth, a duwioldeb. Yn ei herthyglau Protestanaidd ac ysgrythyrol nid oes achos iddi ofni llid a malais ei gelynion, na thwyll a dichell rhai o'r plant, pa rai sydd fel gwiberod yn rhwygo y fynwes sydd wedi eu magu a'u meithrin. Y mae yn Brotestanaidd o galon, ac y mae ei hanes yn yr amser sydd wedi myned heibio yn brawf y bydd hi, trwy ras Duw, yn Brotestanaidd hyd ddiwedd amser. Gadewch iddi gael ei chynhyrfu, ni bydd y cynhyrfiad ond dwyn yr ewin i'r wyneb, ac os bydd iddo i arlifo, cyntaf i gyd y bydd i'r carthion gael eu taflu i gallawr (*chaldron*) Pabyddiaeth, a bwrlymant yno. Byddai yn well i'r eglwys er ei phurdeb a'i grym i fod hebddynt. Ond dymunaf i Eglwys Loegr, yr un fath ag Eglwys Bresbiteraidd yr Alban, ac eglwys Efengylaidd Prwsia, ac Eglwys Lutheraidd Sweden, a holl ganghenau yr eglwys ddiwygiedig trwy Ewrop, lwyr ysgariad neu ymneillduad cwbl oddiwrth bob math o undeb â'r llywodraeth wladol. Y mae hyn wedi bod yn bryf wrth eu gwraidd yn ddigon hir. Mae amser wedi bod pan na buasai ysgariad yn ddoeth nac yn ddymunol, ond y mae yr am-

ser hwnw wedi myned heibio yn bresennol. Y mae Duw yn nhrefn ei ragluniaeth wedi ei ganiatau fel y byddai i'w eglwys (yr eglwys Brotestanaidd yn ei holl ganghenau) i elwa a deall pethau, oddiwrth yr hyn sydd wedi cael ei brofi, a dysgu mai Duw Jacob yn unig yw eu hymddiffynfa. Y mae y maglau hyn o ran eu pwysau fel arfogaeth Saul i Dafydd: gall yr eglwys rhodio yn well, gweithio yn well, ac ymladd yn well, hebddynt. Y mae ffon-dafl gwirionedd yr efengyl, trwy gyfarwyddyd y Nefoedd, yn llaw y bugail bychan, yn arddangosiad o weinidog yr efengyl, a'r ceryg gloywon sydd yn gorwedd ar lan afon y bywyd yw yr unig arfau sydd yn angenrheidiol i ni fod yn feddiannol arnynt i'w defnyddio er anfon cenad marwolaeth trwy yr helm bres i ymenydd yr Anghrist. Y mae math o undeb yn cael ei ffurfio rhwng crefydd â'r llywodraeth wladol trwy ddylanwad crefydd ar feddyliau y bobl, ac y mae y dylanwad hwn yn ganfyddadwy yn mhob gwlad ag y mae gwir grefydd yn bodoli, trwy holl ganghenau cymdeithas, fel lefain yn y blawd. Dyma yr unig undeb sydd yn eisiau ar Brotestaniaid, ac ni ddylent ymofyn unrhyw undeb arall.

[I'w barhau.]

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

## YMFUDIAETH I OREGON.

Y mae Mr. Thurston, y Cynrychiolydd o Oregon, wedi cyhoeddi anerchiad yn cynnwys yr anogaethau cryfaf i ymfudwyr symud i'r wlad ffrwythlawn hono. Mae y llywodraeth yn cynnyg roi 320 erwau o dir i bob gwr a gwraig a ymfudo ac a ymsefydlo yn y wlad newydd hono, cyn y cyntaf o Ragfyr, 1853; yr ymfudwyr at eu rhyddid i gymeryd eu dewis eu hunain o'r tiroedd breision hyny (na byddo wedi ei feddiannu eisoes), y rhai y dywedir nad oes mo'u bath mewn ffrwythlonrwydd, i gynhyrchu pob math o rawn ac ŷd ar wyneb y ddaear. Hefyd, derbynia dyn sengl 160 o erwau o dir, neu 320 os prioda yn mhen blwyddyn ar ol cyrhaedd yno. Y rhai a ymfudant yno dan eu hoed, ac a gyrhaeddant 21 oed cyn y 1af o Ragfyr, 1853, a dderbyniant 160 o erwau, neu 320 os priodant yn mhen blwyddyn ar ol cyrhaedd eu hoed. Ymfudwyr o wledydd eraill, drwy gofrestru eu bwriad o ddyfod yn ddinasyddion Americanaidd, ydynt yn cael eu hystyried yn ddinasyddion genedigol Americanaidd, ac ni ofynir dim ganddynt ond i orphen eu rhyddfreiniad cyn derbyn y teitl diweddaf i'r tir.

Dywed Mr. T. fod pum' mlynedd yn y wlad hono yn werth cymmaint i ddyn diwyd a sobr er enill eiddo, nag ugain mlynedd y tu dwyrain i'r Mynyddoedd Creigiog. Mae prisoedd y marchnadoedd yn debyg yr un fath ag yn California; cig moch ac eidion o 15 i 20 cent y pwys; ymenyn, $1 y pwys; gwenith, $1 50 i $2 y bwysel; ceirch, $3 y bwysel; wyau, o 50 i 75 cent y dwsyn.

Dyben y llywodraeth yn cynyg yr anogaethau hyn i ymfudwyr yw symud yr Indiaid a breswyliant y fro hyfrydlawn a ffrwythlawn hono i'r ochor ddwyreiniol i fynyddoedd Cascade. Pennodwyd Bwrdd o Ddirprwywyr i brynu y tiroedd yma gan yr Indiaid, ac i brynu tiroedd eraill i'w symud hwythau iddynt. O ganlyniad gall pawb deimlo yn hollol sicr nad oes y perygl lleiaf o flinder oddiwrth yr Indiaid ar ol hyn. Nid oes dim perygl oddiwrth Indiaid wrth fyned i Oregon ar draws y tir, nac ychwaith ac ol cyrhaedd y wlad.

Y mae tair ffordd i fyned yno: un heibio i Benrhyn Horn—amser o 6 i 8 mis; arall, dros Wddfdir Panama—amser, o 40 i 45 o ddyddiau o New York; a'r drydydd ar draws y tir—amser, o'r afon Missouri yn mlaen, o ddau a hanner i bum' mis. Y draul yn debyg yr un faint ag a godir am fyned trwy yr un ffyrdd i California.

Dywedir fod yn Oregon fwngloddiau glo, haiarn, marmor, graenfaen, halen ac aur.

## YR AMSER GYNT.

TON—"*Yr Amser Gynt.*"

Bu imi fwyn gyfeillion gynt,
I'm lloni ar bob pryd,
Ond er ys amser meirwon ynt;
'Rwy'n unig yn y byd;
Gorfuwyd canu'n iach
I'r amser gynt;
Ac hiraeth lenwa'r galon fach
Wrth gofio'r amser gynt.

Aem law yn llaw i ben y twyn
I roesaw gwawr y dydd;
Ac unem gerdd â'r fwyalch fwyn
Wrth gasglu blodau blydd;
Fel blodau gwywo wnaeth
Yr amser gynt;
Ac er fy nghalar distaw aeth
Hoff gerdd yr amser gynt.

Fel alltud wyf mewn estron wlad,
'N agored i bob cam;
Nid oes i'm mwyach ofal tad,
Na chusan melys mam;
Rhyfeddol donau'r byd
Sy'n curo'r fron,
Ac holi'r wyf o bryd i bryd,
Ai dyma'r olaf don?

JOHN EMLYN JONES.

## DYCHYMYG.

Mi welais beth un diwrnod,
A gwir yw'r geiriau hyn;
A'i wreichion yn dyrchafu,
'Roedd arno olwg syn;
Pan aethum idd'ei foddi
Derchafai'n uwch i'r lan,
Fel gorfu arnaf gilio
A'i adael yn y man;
'Does ganddo draed i gerdded
Na llaw i deimlo chwaith,
Er hyn mae yn ddefnyddiol
I bawb sydd yn y gwaith.
Ohebwyr glân y Seren,
Yn awr 'rwyf dan fy mhwn,
Os ydych yn garedig
Dywedwch beth oedd hwn.

LLAI NA'R LLEIAF.

## RHEILFFORDD PHILADELPHIA, READING, A POTTSVILLE.

Cynnaliwyd cyfarfod blynyddol y rheilffordd uchod yn Philadelphia, Chwef. 12, pan y dewiswyd John Tucker, Ysw., yn Llywydd; S. Bradford yn Ysgrifenydd a Thrysorydd, ac amryw foneddigion eraill yn swyddwyr am y flwyddyn ddyfodol.

Y mae y mynegiad yn amlwg a boddhaol, ac yn dangos bod masnach y rheilffordd yn dra phwysig a chynyddfawr. Y derbyniadau am y flwyddyn ddiweddaf oeddent o gylch $2,363,958; yr elw yn $1,283,635. Rhanwyd y swm uchod fel y canlyn: sef 6 y cant yn gyfran-dâl i'r rhan-ddalwyr, a'r gweddill at dalu llogau a dyledion y Cwmni.

Cyfeiria y mynegiad at y bwriad a amlygir gan rai personau i ddeisebu am freinlen i godi rheilffordd newydd rhwng Philadelphia a Pottsville, a dengys oferedd y fath anturiaeth. Dywed y gallai y rheilffordd bresennol gyda thraul o un miliwn o ddoleri wneud mwy o fasnach yn ychwanegol i'r hyn y mae yn ei wneud yn bresennol, nag a all rheilffordd newydd ei wneud o gwbl ar ol treulio o leiaf wyth miliwn o ddoleri.

Dywed y mynegiad fod mwnwyr swydd Schuylkill yn gofyn gostyngiad yn mhris trosglwyddiad y glo i Philadelphia o $1 75 i $1 50 y dunell; gan haeru y byddai hyny yn sicrhau mwy o elw i'r Cwmni, o herwydd y byddai i'r fasnach ychwanegu, &c. Golyga y Cwmni ostwng y pris i $1 50 os derbyniant 1,400,000 o dunelli, ond na allant ostwng y pris os na dderbyniant hyny o dunelli yn ystod y flwyddyn. Ond deallwn mai eu bwriad yw gostwng y pris i $1 50, mewn dysgwyliad y bydd i hyny gefnogi masnach yr ardal, ac fel y gallo y mwnwyr yma gystadleu yn fwy effeithiol â glowyr y Lehigh ac eraill. Dichon fod ganddynt amcan arall mewn golwg, sef gwrthwynebu y cynnygiad i godi rheilffordd newydd, trwy ymdrechu enill ffafr y rhai sydd yn masnachu â hwynt.

Y mae y mynegiad hwn yn crybwyll yn y modd mwyaf caredig am Gwmni y Gamlas, ac yr oedd eu mynegiad hwythau hefyd yn canmol swyddogion y rheilffordd.

## Y FASNACH LO.

Er fod y fasnach uchod wedi ei niweidio yn bwysig yn yr ardal hon gan y llifogydd mawrion a gymerasant le yn misoedd Gorphenhaf a Medi, eto y mae mwy o lô wedi ei anfon i'r farchnad yn ystod y flwyddyn ddiweddaf nag a anfonwyd mewn unrhyw flwyddyn flaenorol. Rhoddwn y cyfanswm o'r tunelli a anfonwyd o'r gwahanol ardaloedd a ganlyn yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf.

| | 1849. | 1850. |
|---|---|---|
| Schuylkill—Rheilffordd, | 1,115,918 | 1,423,977 |
| " Camlas, | 489,208 | 288,030 |
| Y Cwbl o Schuylkill, | 1,605,126 | 1,712,007 |
| Swatara, . . . | 78,299 | 70,919 |
| | 1,683,425 | 1,782,926 |
| Lehigh, . . . | 802,245 | 722,622 |
| Lackawanna, . | 454,250 | 550,417 |
| Wilkesbarre, . . . | 259,080 | 218,665 |
| Shamokin, . . | 19,650 | 19,921 |
| Wiconisco, . . . | 25,315 | 37,763 |
| Y cwbl, . . | 3,242,866 | 3,332,314 |
| | | 3,242,865 |
| Mwy yn 1850, . . . | | 89,448 |

Fel hyn, y mae y fasnach hon yn cynyddu o hyd, er cymmaint yw y cwyno sydd yn ein plith, a diau mai cynyddu a wna eto. Dysgwyliwn y bydd i bedair miliwd o dunelli o leiaf gael ei yru i'r farchnad gan yr ardaloedd uchod yn ystod y flwyddyn bresennol.

Un peth y cwynir yn fawr o'i herwydd fel yn effeithio yn niweidiol i fasnach ardal y Schuylkill, yw y prisoedd uchel a godir gan Gwmni y Rheilffordd, sef ychwaneg na $1 50 y dunell, yr hyn a ystyrir gan amryw yn doll afresymol ac anghyfiawn. Deallwn hefyd fod cwmni annibynol yn bwriadu anfon cais i'r Lywodraethfa am ganiatad i wneud rheilffordd newydd rhwng y lle hwn a Philadelphia, ond nis gwyddom pa fodd y try eu bwriad allan eto.

LLYWODRAETHFA PENNSYLFANIA.—Cyfarfyddodd cynhrychiolwyr ein talaeth yn Harrisburg, ar y 7fed o'r mis diweddaf. Dewiswyd John Cessna yn Llefarydd y Tŷ. Mae Cenhadwri y Llywodraethwr yn fyr, cynnwysfawr ac amlwg, ac yn cyffwrdd â holl brif byngciau y dalaeth. Cymeradwyir ei gynllun yn fawr yn lleihau y treulion, gan amcanu dwyn y dalaeth yn ddiddyled. Y mae yn amlygu ei olygiadau o barth y tariff

gan ddangos yr angenrheidrwydd o gyfnewidiad yn y weithred bresennol, er amddiffyn masnach y dalaeth. Cymeradwya sefydliad ariandai, a gwasgariad papyrau (*notes*) bychain. Mewn pethau eraill y mae yn unol yn ei genhadwri â golygiadau y Whig'aid. Nid yw yn amlygu ei feddwl mewn modd penderfynol mewn perthynas i ddeddf y caethion ffoedig! anoga sylw ac ufudd-dod dyladwy i'r weithred, ond ymddengys nad yw yn b'eidiol iddi o ran ei olygiadau personol ei hun. Ymddengys Mr. Johnston dan beth anhawsder i amlygu ei feddwl ar y mater hwn, gan fod yn hysbys fod y weithred yn hollol groes i'w olygiadau gwrthgaethiwol blaenorol.

Etholwyd Richard Broadhead (Dem.), yn Seneddwr U. D. dros y dalaeth.

---

## DIWEDDAR O WLAD YR AUR.

Daeth yr agerfad Crescent City yn ddiweddar i New York, yn dwyn pedwar cant o ymfudwyr, a thua $1,500,000 o lwch aur, heblaw symiau helaeth yn mhlith yr ymfudwyr. Cafodd y Crescent City ei hoedi am dri diwrnod yn Chagres wrth aros am ei chludgydau o Panama. Ymddengys i fintai o ladron ai fog ymosod ar y cludwyr pan tua saith milldir o Panama. Yr oeddent o gylch 60 o rhifedi. Cymerasant bump o'r mulod i'r coed, a chawsant dros gan' mil o ddoleri o aur yn eu llwythau. Gwnawd pob brys gan y lleill o'r cludwyr, y rhai a lwyddasant i ddiangc yn ol i Panama, lle y cawsant gynorthwy prydlawn, a chafwyd yr ariau oll yn ol, oddieithr o gylch chwech mil o ddoleri. Cymerwyd dau o'r lladron yn garcharorion, un o honynt wedi ei glwyfo yn ddrwg. Yr oedd y trysorau wedi eu claddu yn y ddaear, a chafwyd hyd iddynt trwy i un o'r carcharorion gyfaddef y weithred a nodi y lle.

Pan oedd y Crescent City ar ei thaith ar un noswaith pan yn hyd. 35, lled. 73, gwelent oleuni dysglaer, yr hyn a achosodd iddynt i hwylio tuag ato. Cawsant allan yn fuan bod yno long ar dân, yr hon oedd agos wedi ei llwyr ddifa.

Yr oedd dau foneddwr yn dyfod adref i New York, wedi llwyddo braidd yn anghydmarol mewn gweithrediadau unigol; yr oedd ganddynt werth $150 000 o lwch aur y cwbl wedi ei gasglu ganddynt yn ystod yr haf ar afon y Yuba. Y personau ffortunus yw Thomas J. a Daniel Fergason, gynt o Danbury, Conn.

Y mae y Cholera yn gwneud cryn waith yn San Francisco a manau eraill. Yn mhlith eraill, deallwn fod rai Cymry wedi syrthio yn aberth i gynddaredd y plâ. Gwelsom hanes drueans am y llong Abby Baker, o Yarmouth, Me., llywydd Timothy Pratt. Bu y llywydd farw yn gyntaf, yna ei fab Augustus Pratt, ail-lywydd y llong; tua yr un amser, bu farw ei frawd Enos, y dydd canlynol canlynwyd hwy i'r cyfyngder olaf gan William, brawd arall. Yn mhen dau ddiwrnod trengodd bachgenyn arall a berthynai i'r llong, ac ar ei ol ef Mrs. Jane Pratt, gweddw y Cadb. T. Pratt, gan adael bachgen bychan naw mlwydd oed, am ba un y gofalir yn dyner a danfonir ef yn ol i'r talaethau y cyfleusdra cyntaf. Buont oll farw o fewn un wythnos i'w gilydd, ac o'r un clefyd. Cymerwyd y lleill ar y bwrdd yn glaf, y rhai a anfonwyd i'r ysbytty, nes oedd y llong wedi ei llwyr adael. Diwedd yr hanes ydyw, fod y llong wedi syrthio i ddwylaw y Gweinyddion (*Administrators*) Cyhoeddus.

Y newyddion o'r cloddfeydd ydynt gyffelyb fel o'r blaen. Y rhan fwyaf o'r cloddio wedi ei ohirio dros y gauaf; a lluoedd o wahanol weithwyr a chrefftwyr yn chwilio am waith yn y dinasoedd, ond yn methu ei gael.

---

## CYNGHOR EGLWYSIG.

Yn gymmaint ag i'r Eglwys Fedyddiedig Gymreig yn Carbondale anfon llythyrau cymhelliadol i'r eglwysi canlynol, sef, Abington, Greenfield, Clifard, Blakeley, a'r *Berean Church*, Carbondale, yn deisyfu arnynt am anfon cynrychiolwyr i eistedd mewn cynghor, er ystyried yr achos o'r anghydfod a'r anhrefn sydd yn eu plith;

Tach. 11, 1850, cyfarfu y cynghor yn ol yr anerchiad, am ddau o'r gloch, yn nghapel y Bedyddwyr Cymreig, Carbondale. Cafwyd enwau y personau canlynol fel cynrychiolwyr y gwahanol eglwysi: Abington, y Parch. A. Hopper, L. W. Stone, a'r brawd Blake. O Greenfield, Diacon Silvins, J. G. Wetherby, a W. Miller. O Clifard, Robt. Hartley. O Blakeley, y Parch. J. Thomson, Diacon Calender a B. Bowen. O'r Berean Church, y Parch. H. Curtis, E. Jones, E. Miller, a'r brawd Dopp. Rhoddwyd cymhelliad hefyd i'r Parch. N. Calender, New Millford, a'r Parch. D. E. Bowen i gydweithredu yn y cynghor. Wedi dechreu trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. N. Calender, neilltuwyd y Parch. H. Curtis yn Gymedrolwr, ac N. Calender yn Ysgrifenydd.

Yna ymofynodd A. Hopper am ddyben y cyfarfod, pan y darfu i D. E. Bowen roddi mynegiad byr o'r dyrys wch a fodolai, ynghyd a'r achos o hono; yna ymofynodd Hopper am y cofnodau o weithrediadau yr eglwys yn ei chysylltiad â'r achos. Cafwyd nad oedd yr un gweithrediad wedi ei roddi ar bapyr yn eu plith. Yna ymofynwyd a oedd yn arferiad yn mhlith y Bedyddwyr Cymreig i dderbyn a diaelodi heb bleidlais yr eglwys? Un blaid a ddywedai ei fod, a'r llall nad oedd. Cafwyd hefyd nad yw articlau ffydd a chyfammod yr eglwys, wrth ba rai yr ymrwymasant yn amser eu corffoliad, ar gael. Wedi ymdrin a'r achos yn faniol a phwyllog, cafwyd gan y pleidiau foddlodi CLADDU y cwbl, a dechreu hyd o'r newydd; ac fel arwydd o hyn ysgydwodd John Bowen a John Protheroe ddwylaw yn ngwydd y Cynghor, fel cynrychiolwyr y pleidiau.

Yna *penderfynodd y Cynghor*—

1. Yn gymmaint a bod y Parch. D. E. Bowen wedi darparu articlau ffydd a cyfammod eglwysig, pa rai sydd yr un o ran sylwedd â'r rai cynenid dan ba rai y corffolwyd yr eg-

lwys, a chyda golwg ar ba rai y cawsant y freinlen gyfreithiol, yr hon sydd yn awr yn eu meddiant; ein bod yn cydnabod y brodyr a'r chwiorydd sydd yn awr yn addoli yn y tŷ hwn, yn enwau pa rai yr anfonwyd yr anerchiad wedi ei arwyddo Tach. 4, 1850, gan Geo. Bates, Ysgr., "*Yr Eglwys Reolaidd o Fedyddwyr Cymreig yn Carbondale.*"

2 Fod gweithrediadau y Cynghor hwn i gael eu cofnodi ar lyfr yr eglwys, wedi eu harwyddo gan y Cymedrolwr a'r Ysgrifenydd, i fod yn derfyniad ar yr oll amser dyfodol.

**Arwyddwyd dros ac yn enw y Cynghor,**

HENRY CURTIS, *Cymedrolwr.*

N. CALENDER, *Ysgr.*

## COFIANT Y BRAWD BENJAMIN EVANS,

***Bellmont, swydd Schuylkill, Pa.,***

**Yr hwn a fu farw Hydref 17, 1850, yn 67* ml. oed.**

GANWYD yr hen frawd uchod yn mhlwyf Eglwys Erw, swydd Benfro, D. C., lle y treuliodd y rhan foreuol o'i oes, yn gweithio gyda yr amaethwyr. Pan o gylch 23ain oed, aeth tua y mynyddau mwnawl, ac ymsefydlodd yn ardal Merthyr Tydfil, lle yr ymunodd mewn priodas ag Alice Evans, yr hon sydd yn awr yn weddw hen a methiedig, wedi ei gadael i alaru ar ei ol. Treuliodd tua 26ain o flynyddoedd yn Merthyr, ac fel dyn a chymmydog, yr oedd yn anwyl ac yn barchus yno gan bawb. Yn y flwyddyn 1833 daeth ef a'i wraig, a'i dair merch, dros y weilgi mawr i diroedd y Gorllewin, sef i America, a sefydlasant yn Bellmont, swydd Schuylkill, Pa., lle y treuliodd weddill ei oes. Nid oedd yr hen frawd uchod wedi ymuno â chrefydd Crist yn ngwlad ei enedigaeth, er ei fod (fel y cyfaddefai yn aml) yn teimlo yn ddwys dan y weinidogaeth efengylaidd. Ac felly hefyd yn y wlad hon, parhaodd y dylanwadau i gryfhau yn eu heffeithioldeb ar ei feddwl, nes ei ddwyn o'r diwedd i ufudd-dod Crist, ac yn y flwyddyn 1837, (os ydwyf yn iawn gofio,) penderfynodd roddi ei hunan yn gyntaf i'r Arglwydd, ac yna i'w bobl, a bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd yn Nghrist, gan y Parch. Wm. Morgan, yn Pottsville; nid oedd achos gan y Bedyddwyr yn Bellmont pryd hyny, ond yr oedd y gwahanol enwadau crefyddol yn ymuno i gynnal addoliad gyda eu gilydd; ond penderfynodd ef a dau neu dri o frodyr ereill i gael tŷ addoliad i Dduw eu tadau yn Bellmont, a bu yr hen frawd Benjamin Evans yn hynod o ffyddlon, llafurus, a haelionus, tuag at gael capel y Bedyddwyr yno i ben.

Bu yn llafurus iawn gyda yr achos pan nad oeddent ond ychydig o frodyr a chwiorydd yn y lle. Bu yn ddefnyddiol iawn gyda y canu,—bu yn blaenori y canu am amryw flynyddau, hyd nes i'r *brest* fyned yn rhy gyfyng: tua y flwyddyn 1842 neillduwyd ef i'r swydd ddiaconaidd, yr hon a gyflawnodd mewn modd anrhydeddus, hyd nes iddo orphen ei yrfa ddaearol.

Ni fyddai yr addoliad un amser heb amenau a dymuniadau, ocheneidiau a dagrau lawer, pan y byddai ef yno, ac ni welid ei le yn wag un amser yn yr addoliad, oddieithr fod afiechyd neu rhywbeth anghyffredin arall yn ei rwystro. Byddai yn hoff iawn ganddo bob amser i ymddiddan am Grist—am ei ddarostyngiad mawr i gymeryd plaid pechaduriaid, ac am ei ddyoddefiadau chwerwon, &c. Byddai yn darllen llawer iawn ar lyfr Duw, ac y mae yr ysgrifenydd yn dyst iddo weled y dagrau yn llifo dros ei ruddiau lawer gwaith pan y byddai uwchben ei Feibl.

Yr oedd yn hynod dangnefeddus yn yr ardal a'r gymmydogaeth, ac yn neillduol yn yr eglwys. Byddai yn anog llawer ar yr eglwys i dangnefedd a chariad brawdol, &c. Yr oedd wedi myned yn dra ffaeledig y blynyddoedd diweddaf, o herwydd cyfyngder yn y pibellau gwynt. Yr oedd ei fynwes yn gyfyng iawn pan y byddai yn cerdded ychydig; ond mynych y dywedai y cai ef frest iach heb fod yn hir. Tua dechreu mis Awst cafodd ei daro yn glaf iawn gan y *Rheumatic Fever*—cymerodd lawer o gyffeiriau, ond y cwbl yn ofer. Parhaodd mewn poenau ac arteithiau am yn agos i dri mis, ond dyoddefodd y cwbl yn dawel ac amyneddgar, gan lwyrymroddi i ewyllys Duw, i wneuthur ag ef fel y mynai. Dywedai yn ei gystudd, os oedd raid i'r hen "dŷ o bridd" ddyfod i lawr, fod ganddo "dŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd," &c. Pan oedd y Parch. Wm. Morgan wedi dyfod i ymweled ag ef un tro, ymdrechodd i adrodd yr hen bennill hwnw,

"Cyfammod hwn, fel modrwy grwn y mae," &c.

Ond methai gan wendid a chyfyngder yn y fynwes. Pan oedd yn glaf iawn, a'i blant, sef ei ferched, yn wylo yn ymyl ei wely, dywedai wrthynt, "Nac wylwch, fy anwyl blant, os rhaid colli y bywyd hwn, mae bywyd arall gwell na hwn i'w gael,—

'Mae hwnw fry yn nhŷ fy Nhad.'"

Prydnawn dydd Iau, y 17eg o Hydref, yr oedd wedi myned mor wan fel nad allai ddywedyd ond ychydig. Dywedai fod llawer ar ei feddwl, ond nad allai ddywedyd dim; a thuag 11eg o'r gloch y nos hono, cymerodd yr enaid ei ehedfa i fynu at Dduw, lle yr ydym yn hyderu ei fod wedi dechreu canu y gân na fydd diwedd arni byth, "Iddo ef," &c. Dydd Sadwrn, y 19eg, ymgynnullodd tyrfa fawr o'n cenedl ac ereill ynghyd, i weinyddu y gymwynas olaf iddo ef, sef ei gario a'i hebrwng o'r tŷ tua y gladdfa, yn Bellmont (tua hanner milldir o ffordd), a gosod ei gorff yn y bedd. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. W. Morgan yn y capel, oddiwrth Salm 37. 37.

Teimlir galar cyffredinol ar ei ol, yn neillduol yn yr eglwys, yr hyn a arwyddwyd mewn rhan rhan trwy wisgo yr areithfa â galarwisg, yr hyn a anrhegwyd gan y chwiorydd. Ceisiwn ninau oll barodrwydd erbyn yr unrhyw amgylchiad, oblegyd y rhai byw a wyddant y byddant feirw;" ac yn yr awr

* Gwelir fod blwyddyn o gamsyniad yn Seren Teehwedd, tu dal. 269.

ni thybioch y daw Mab y dyn. Gan gredu yn ddiysgog fod yr hen frawd ffyddlon Benjamin Evans yn awr wedi ei gymhwyso i gael rhan o orphwysfa y saint yn y goleuni, y gorphwys Ei fab-yn-nghyfraith galarus,

NATHANIEL GRIFFITHS.

## COFIANT THOS. ELIAS, MINERSVILLE.

MR. GOL.—Gan fod "coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig," caniatewch i mi ryw gongl o'r Seren Orllewinol i drosi nodweddion Thomas Elias i'w genedl a'i oloesolion, fel y byddo ei goffadwriaeth ar gof a chadw gan hil Gomer wedi i'w gorff bydru yn mhriddellau y dyffryn, ac y byddo efe wedi marw yn llefaru eto.

Ganwyd ein cyfaill yn mhlwyf Gelligaer, swydd Forganwg, Ebrill 4, 1805, mab ydoedd i Thomas a Mary Elias. Yn y flwydd-18— cychwynodd o'r Aifft, gan ganu yn iach i'w hen gyfeillion a llanerchau Soar. ac hwyliodd ei gamrau tua Mynydd Seion—ymresodd dan faner Imanuel, y Tywysog sy'n Frenin yn Seion. Bedyddiwyd ef gan y Parch. John Jenkins, Hengoed; daeth John Jenkins ieu., wedi hyny Cenhadwr yn Llydaw, yn gyfaill ffordd iddo, oblegyd cawsant ill dau eu geni o ddwfr yr un dydd. Yn y fl. 1830, priododd gwrthddrych ein cofiant â Margaret Llewelyn, yr hon yn awr sydd wir-weddw ac unig, wedi ei gadael yn y glyn, i alaru ar ol ei phriod hoff a hawddgar. Daethant i'r wlad hon yn y flwyddyn 1835, ac yn y cylchoedd hyn y treuliodd Thomas Elias weddill ei oes. Bu yn ddiwyd yn ei ddydd a'i dymor, yn llafurio am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol; eto nid esgeulusai y bywyd a dderfydd; yr ydoedd yn onest yn ei waith, yn ddiwyd gyda'i alwedigaeth, ac yn barchus bob amser gan ei feistr. Yr oedd Elias yn hynod mewn diwydrwydd, ac yn ddifeddwl drwg,—meddai ar y cariad hwnw, yr hwn y dywed Paul am dano, "Nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg," &c. Efallai ei fod yn rhy barod i wneud cyfeillion o ddyfodiaid cyn eu profi, ac o ganlyniad yn fwy agored i gael siomedigaethau yn y cyfryw gyfeillion. Modd bynag, parchai Elias ddeddfau cyfeillgarwch; a glynai wrth y cyfaill hyd oni chelai brofion diymwad nad ydoedd yn teilyngu yr enw, yna rhoddai ef i fynu, mewn gobaith y gwnelai ddiwygio a dyfod i'r iawn. Yr oedd enw da crefydd a chymeriadau crefyddwyr yn agos iawn i'w galon. Ymserchai lawer yn y brodyr ffyddlon, y rhai a alwai "y ffyddloniaid yn Nghrist Iesu." Harddu'r broffes ydoedd y peth blaenaf yn ei olwg. "Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist," oedd ei arwyddair yn nydd y frwydr. Yr oedd yn ddibaid yn ei ymdrech i ddysgu y dysgybl ieuangc yn fanylach yn egwyddorion Duw; cyfarwyddo yr anghyfarwydd, a chynghori yr anystyriol ydoedd ei hyfrydaf waith ef. Yr oedd yn ffieiddio'r balch, ac â'i holl egni ymdrechai i ddarostwng y dyn hunanddoeth a chwyddedig. Ymddygai fel tad i'r ieuengctyd yn Seion; a byddai yn cael ei amgylchu gan y cyfryw bob amser y buasai cyfleusdra yn caniatau. Cyfraith ei Dduw ydoedd prif ddigrifwch ei enaid—eglurhau hon i'r plant oedd ei hoffwaith; a gweled y plant yn iawnsynied gair y gwirionedd oedd y wobr a'i boddlonai—coron ei ymdrechion.

Yr oedd ganddo barch neillduol i weinidogion y Testament Newydd. Parchai hwynt yn ol eu teilyngdod; ac fel goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw. Hefyd, yr oedd yn awyddus iawn i godi brodyr ieuaingc gobeithiol i'r weinidogaeth. Dywedai wrthyf unwaith am un, "Y mae yn *sound* ar ei draed, (eb efe) os yw yn meddu ar y cymhwysderau eraill." Medrai gydymdeimlo â'r brodyr ieuaingc hyn yn eu gwendid, a chynghorai lawer arnynt a hyny mewn modd anogaethol, os na welai ysbryd ymchwyddo ynddynt. Yr oedd Elias yn gyfaill cywir a diragrith iawn. Gwasanaethodd y brawd swydd diacon gyda chymeradwyaeth mawr; ac "enillodd iddo ei hun radd dda a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu." Nid oedd neb yn fwy selog nag efe yn mhlaid yr Ysgol Sabbothol, pwy bynag fyddai yn absennol nid oedd ei le ef byth yn wag: nid oedd gwahaniaeth chwaith i ba swyddogaeth yn yr ysgol y neillduid ef iddi. Llanw'r cylch oedd ymgais y brawd—pa un bynag ai arolygydd, ai ynte athraw ar y dosbarth iselaf. Nid oedd nemawr gwahaniaeth ganddo ef, ac yn wir pan yn mhlith y plant yr oedd yn ei elfen naturiol, wrth fodd ei galon, a'i holl enaid yn y gwaith. Gellir dywedyd am Thomas Elias, ei fod bob amser yn barod i wneud yr hyn a allasai yn mhob cyssylltiad; yr oedd yn weithiwr difefl yn ngwinllan ei Arglwydd, ac yn filwr da i Iesu Grist. Yr oedd y brawd yn dra phenderfynol parth ei olygiadau ar brif byngciau y grefydd Gristionogol, a mympwyau dynion yn ddiwerth iawn yn ei olwg. Yr oedd yn ymofyn "fel hyn y dywed yr Arglwydd," cyn y cydymffurfiai â'r unrhyw osodiad crefyddol. Dim ond y gwirionedd Dwyfol a fedrai ei ysgogi drwch y blewyn: eto yr oedd mor barod a neb a welais erioed i roddi ffordd o flaen hwn. Enciliai bob amser o flaen cleddyf yr Ysbryd, ac nid o flaen braich o gnawd. Derwen ydoedd mewn diysgogrwydd—ni effeithiai y storom arno ef, er cyfnewid ei olygiadau arbethau a phersonau, ond yn hytrach i wreiddio yn ddyfnach nag o'r blaen; gwyddid pa le i'w gael ef; celid ef yn yr un man heddyw ac y fory, yn y dryc-hin ac mewn tywydd têg, fel nodwydd y morwr, *always true to the pole.* Dir yw mai ei fwyd a'i ddiod oedd gwneuthur ewyllys ei Arglwydd. Dyn o gof bywiog iawn ydoedd parth dygwyddiadau—adroddai hanesion gyda manylder neillduol, ac os byddai rhywbeth yn bleidiol yn y cyfryw hanesiaeth, byddai yr adroddiad o honynt yn hollol ddibartiaeth, gan adael i'r gwrandawyr ffurfio barn ddiduedd. Adroddai yn aml am yr amser gynt—y cyfarfodydd gweddi a gynnelid, a'r hwyliau a fwynhaent tua chymmydogaeth Hengoed; byddai ei enaid megys yn teimlo wrth son am danynt, a'r adgof o honynt yn cynhyrchu teimlad yn ei ysbryd, a

diau nad anghofia byth 'mo honynt, gan mai blaen-brawf oeddynt o'r gogoniant ddatguddir i ni—dafnau o'r cyflawnder mawr, ac ernes o'r etifeddiaeth dragywyddol. Wrth gofio am flynyddoedd yr hen amser, achwynai ar y tywydd a'i cyfarfyddodd yn yr Americ. Ond erbyn heddyw y mae y cwbl wedi troi yn felus win—dyfroedd Mara a holl ddyoddefiadau y llawr wedi myned o'r golwg yn ngholeuni y gogoniant, a'r byr-ysgafn gystudd wedi gweithredu tragywyddol bwys gogoniant. Fel Cristion, yr oedd yn ostyngedig a hunan-ymwadol, wedi ymdrwsio â gostyngeiddrwydd oddi mewn. Yr oedd purdeb neillduol yn ei ymddygiad—santeiddrwydd yn ei fuchedd—nefoleidd-dra yn ei ysbryd—gras yn ei ymadroddion, ac adeiladaeth dduwiol yn ei gyfeillach. Os dilynwn ef i'r cyfarfod gweddi, yr oedd megys dau-parth o ysbryd Elias y Thesbiad wedi syrthio arno—yn y cwrdd gweddi misol yr oedd bob amser ar *float*, tân y nef yn llosgi yn ei galon, ac yntau yn cael ei orlenwi ag ysbryd Cenhadol, ac yn dra haelfrydig yn ei gyfraniad at achosion elusengar a gwir deilwng. Yn y gyfeillach neillduol nid oedd byth achos i'w gymhell i ddweyd, yr oedd bob amser yn barod i ganmol yr Arglwydd am ei ddaioni, a rhyw destyn newydd ganddo bob wythnos, yn llawn dyddordeb i'r frawdoliaeth. Yn y bregeth yr oedd yn wrandawyr astud a chofus—y gwirioneddau yn ymaflyd yn ei galon, ei edrychiad yn serchog, ac yn aml treiglai y dagrau dros ei ruddiau yn lli'. Gwrandawr da oedd Elias, a chymhorth mawr i'r pregethwr pan chwythai yr awelon dros fryn y groes. Yn y cyfarfod eglwysig ni byddai efe byth am glogyno pechod, eithr defnyddiai gleddyf yr Ysbryd yn ddeheuig iawn—y rheol ddwyfol oedd ei arf ef i drafod dysgyblaeth yn nhŷ Dduw, ac yr oedd min ar ei arf bob amser yn y cysswllt uchod. Er ei fod yn barod i agor y clwyf yn ei holl erchylldod, eto nid oedd neb yn fwy parod nag efe i feddyginiaethu yr archoll, ac i gymhwyso "balm enaid dymunol" at glwyf yr edifeiriol. Ond nid arbedai efe na brawd na châr ar draul cymylu y rheol ddwyfol; yr oedd gormod parch ganddo ef at air y gwirionedd i *gompromiso* yr un darn o hono, pa mor anwyl bynag y troseddwr yn ei olwg. Yr oedd y brawd E. yn dangnefyddwr mewn gwirionedd, a gellir dywedyd am dano ei fod yn ber-arogl Crist yn mhob man. Yr oedd ei gynghor bob amser yn fuddiol, ei ddylanwad yn iachusol, a'i siampl yn addysgiadol iawn. "Rhodio yn ol y rheol hon" ydoedd ei arwyddair ef. "Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd Jonathan, cu iawn fuost genyf fi," &c.

Yr oedd yn ffyddlon ac ymdrechol iawn yn mhlaid yr achos yn ei holl ranau, a hyny nid oddiar egwyddor i gael ei ganmol gan ddynion, ond o gariad at achos y Gwaredwr; ac yn wir yr oedd yn derbyn ei wobr, oblegyd ei Dad, yr hwn a welai yn y dirgel, a'i talai ef yn yr amlwg. Yr oedd yn gydwybodol iawn yn ei ymwneud â phob peth, yn enwedig yn ei gyflawniadau crefyddol. Cyfaill ydoedd i'r tlawd a'r rheidus, yn bendifaddeu y rhai o deulu'r ffydd. Ond ow! canfyddwyd arwyddion ys amser yn ol fod pabell y brawd yn cael ei dattod, haul bywyd yn machlud, ac yntau yn fwy ysbrydol o ddydd i ddydd—ei gyssylltion â'r ddaear hon yn cael eu tori, a'r enaid yn cael ei lanw â *gas* dwyfol gwlad ei ddinasyddiaeth. Bu yn graddol ddihoeni am ddwy flynedd, ac yn analluog i ddilyn ei alwedigaeth. Eto, ymdrechai lawer ar y pen uchod. Y galon oedd eisteddle afiechyd T. Elias. Yr oedd o ran ei brofiad yn nefolaidd, y glyn yn oleu iddo, cysgod angeu wedi ei droi yn foreuddydd, grym y dwfr wedi ei dori, a mynediad helaeth i mewn i dragywyddol orphwysfa. "Fy nhad, fy nhad! cerbyd Israel a'i farchogion!" Tachwedd 22 hunodd yn yr angeu, a chladdwyd ef ar y 23ain, wrth addoldy y Bedyddwyr Cymreig yn Minersville. Yn absennoldeb y gweinidog pregethodd y Parch. Wm. Morgan, Pottsville, oddiar Eph. 2. 8.

JOHN P. HARRIS.

Och angau! arfau erfawr—erch alaeth,
Archelyn arswydfawr,
Trist wylwn troi'st i elawr,
Ein brawd mwyn, onid brad mawr?

Am gwynion gweddwon a'n gweddi—neu blant,
Neb helynt, ni phrisi;
Nis geill maint, braint, na bri,
Aur filoedd, dy rhyfoli.* * flatter.

Y duwiol, y ffol diffydd,—y rhwyfus
Wr ifanc, a'r henydd,
Gelwir pawb fel eu gilydd
I fyddar ddaiar ryw ddydd.

Er hyny daw ryw un dydd—hoff addawd† † a set time.
Y ffyddiawg a'i cenfydd,
Yr agorir ei gaerydd,
A rho'ir ei gaethion yn rhydd.

Ochir, hiraethir ar ol
Ein addwyn frawd defnyddiol;
Hawddgarwch oedd wiw goron
I Thomas Elias lon;
Rho'i ddidwn hyfforddiadau
I'r gwir i ddyfod o'r gau.
Gwron, a'i lon'd o gariad,
I Seion bu'n dirion dad;
Ys oedd hygall swyddogydd,
Heini ei ddawn yn ei ddydd.
Gwanar a fu i'r gweiniaid,
Cufwyn hoff lyw, cefn a phlaid.
Rhoddai achles cynesfwyn
Yn nydd rhaid, a nawdd i'r wyn.
Carodd y budd, mewn cwrdd bach;
Rhanog fu o'i gyfrinach;
Urddoli ar ei ddaulun
Têr iawn hwyl, y Tri yn un.

Yr eglwys sydd yn rhygloff
Briw dwys oedd colli brawd hoff.

Ffarwel, Elias hoff eirwedd—iach wyd
Uwch adwyth a llygredd;
Tragywyddol orfoledd
Yw dy ran yn myd yr hedd.

IEUAN DDU A'R LLINOS.

---

## BYR-GOFIANT ENOCH MORGAN, MINERSVILLE.

GANWYD Mr. Enoch Morgan yn Llangatwg, Crughywel, swydd Frycheiniog. Mab ydoedd i Rhys a Margaret Morgan, o'r lle dywededig, yn yr hon gymmydogaeth y treuliodd ef ddyddiau ei faboed. Yn 1824, ymunodd mewn priodas ag Anne Davies, ac ymsefydlas

ant yn Cendle, ger Nantyglo, hyd ddydd eu cychwyniad i'r Gorllewin pell. Yn y fl. 1830, cyrhaeddasant y lle hwn (Minersville), ac yma y yr ymsefydlasant, gan feddu ar y boddlonrwydd hyny ag y mae cyffredinolrwydd ein cenedl yn y wlad hon yn dra ymddifad o hono. Yma y daeth yn wasgfa ar Enoch Morgan am fater ei enaid, ac y cafodd olwg ar y Gwaredwr mawr yn wyn a gwydog, yn rhagori ar ddeng mil, Dangosodd ei fod yn awyddus i ganlyn yr Arglwydd Iesu Grist, a bedyddiwyd ef gan y Parch. Wm. Morgan, Pottsville, yn 1840. Nid oedd taith grefyddol y brawd Morgan ond byr, eto arweiniodd fywyd dychlynaidd a diargyhoedd. Gosododd i fynu ei safon o fywyd crefyddol uwchlaw llawer o broffeswyr yr oes; ond nid yn uwch na'r hyn yw *standard* y gwirionedd—y maenprawf dwyfol. Dysgwyliai ef i bawb a'r oedd wedi eu henwi ar enw Crist i gyfateb y cyfryw broffes yn eu buchedd a'u hymarweddiad; nid yn unig gofyn i eraill gydymffurfio a'r rheol a wnelai, ond ymdrechai at y nôd ei hun—y gamp uchel o alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu. Yr oedd y brawd yn ffyddlon yn yr hyn a ymddyriedid iddo, a gellir dywedyd am dano, ei fod yn barod i wasanaethu ei frodyr, ac yn ymdrechu ar gael ei hun yn gymeradwy gyda Duw. Pa un ai cartref ai oddi cartref y byddai, bod yn gymeradwy gyda Duw oedd ei bwnge ef. "Ac Enoc a rodiodd gyda Duw." Yr oedd y brawd yn dwyn mawr sel dros bob sefydliad gwir deilwng, yn enwedig yr Ysgol Sabbothol! ac O mor hyfryd yw gweled hen frodyr fel hyn yn nghanol y plant, yn athrawon yn ein hysgolion, a'u presennoldeb yn addurn i'r cyfryw sefydliadau, ac yn galondid mawr i'r rhai effro ac ymdrechol yn Seion. Nid oedd awydd cael y flaenoriaeth yn nhŷ Dduw ynddo,—boddlonai i'w sefyllfa, ac ymdrechai lanw ei gylch gyda ffyddlondeb. Yr oedd hefyd yn rhydd iawn oddiwrth y plâ hwnw sydd wedi lladd defnyddioldeb miloedd yn nghysegr Arglwydd y lluoedd, sef hunan-ddyrchafiad. Yr oedd Enoc Morgan yn foddlon i'w gylch, ac o ganlyniad yn llanw ei le ei hun yn nhŷ yr Arglwydd. Yn ei hir-gystudd bu yn dawel ac ymroddgar iawn, gan ymorphwys ei enaid ar yr Arglwydd ei Dduw. Yr oedd gwedi ymheddychu â Duw trwy waed y groes, ac yn pwyso ar yr aberth am gadwedigaeth yr enaid. Arweiniai yr hen bennill acw yn aml—

"'Doedd dim yn well i wneud â hwy
Na'u cuddio yn ei farwol glwy.'"

Pan oedd natur yn ymollwng, y storom yn curo yn erbyn y mur, a'r gwynt megys yn chwyrnellu difrod o'i amgylch, safodd yr adeilad yn nghanol y rhyferthwy, canys yr oedd wedi ei adaeladu ar y graig. "Ni frysia yr hwn a gredo." Yr oedd Crist yn werthfawr i'w enaid. Wedi hir nychdod a graddol ddihoeniad, braidd yn annysgwyliadwy, ehedodd ei ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef, nos Fercher, yr 8fed o Ionawr, a daiarwyd ef yn monwent y Bedyddwyr ar yr 11eg. Gweinyddwyd gan y brodyr J. P. Harris, R. R. Williams (A.), a Wm. Morgan. Pregethodd yr olaf oddiar y geiriau, "Am hyny byddwch chwithau hefyd barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." Yr oedd Mr. M. yn briod serchog, yn dad tyner, yn gymmydog caredig, yn ddyn parchus, ac yn Gristion diledrith. Gadawodd weddw a chwech o blant, yngnyd a chylch eang o gyfeillion, i alaru ar ei ol.

"Ffarwel, fy nghyfaill anwyl iawn," &c.
J. P. H.

Gweddw a phlant wylant heli—ow! uchel
O achos ei golli;
Bid i rhai'n adnabod Rhi,
Un addas, er eu noddi. LLINOS.

## YSGRIF BOSTSWYDDFAOL NEWYDD.

Dywedasom y mis diweddaf fod gostyngiad yn debyg o gymeryd lle yn nghludiad llythyrau, papyrau, cyhoeddiadau, &c. Y mae yr ysgrif erbyn hyn wedi pasio trwy Dŷ y Cynrychiolwyr, a gobeithiwn y bydd iddi fod yn gyfraith yn fuan. Gostyngir llythyrau yn pwyso hanner wns i dair cent, a 3 cent am bob hanner wns yn ychwaneg. Papyrau, grealau (*magazines*), &c. yn pwyso dwy wns neu lai, am un cent, ac un cent am bob wns ychwanegol, o fewn y talaethau. Cymerir y rhai hyn i unrhyw barth o'r dalaeth lle y byddont yn cael eu hargraffu am hanner y pris uchod, ac i unrhyw fan yn y swydd, neu o fewn deg-ar-hugain o filldiroedd i'r lle y byddont yn cael eu hargraffu, *yn rhydd a didraul.*

Gan fod y Seren yn pwyso ychydig llai na dwy wns, bydd yn dra manteisiol i'n derbynwyr. Y mae yr holl swyddogion presennol i gael eu cadw ac i dderbyn y cyflogau a dderbyniant yn bresennol. Ymddengys fod yr ysgrif hon yn derbyn cymeradwyaeth cyffredinol.

## GENEDIGAETHAU.

Rhag. 14, yn Minersville, priod Mr. Griffith Richards, ar fab. Gelwir ef Daniel.

## PRIODASAU.

Yn Carbondale, Rhag. 25ain, 1850, gan y Parch. L. Williams, Mr. Henry Evans, masnachwr, a Miss Elizabeth Howells, y ddau o'r lle a nodwyd.

Dau oeddynt wedi addaw—droiau gant
Myn'd er gwell, gobeithiaw,
Ac mor gytun gwnaent unaw,
Anwylion llon, law yn llaw.
IOAN MACHNO.

Yn Minersville, Rhag. 25, gan y Parch. J. P. Harris, Mr. Benjamin Howells, a Mrs. Maria Lewis, ill dau o'r lle uchod.

Rhagfyr 29ain, gan y Parch. Wm: Jones, yn nhŷ Mr. Robert M. Jones, plwyf Trenton, swydd Oneida, Mr. John Williams, a Miss Mary Morris.

Eto, Ionawr 16eg, gan yr un, yn nhŷ Mr. Thomas Rowlands, plwyf Trenton, Oneida, Mr. John Williams a Miss Elizabeth Rowlands.

Yn Dunmore, swydd Luzerne, Pa., Rhagfyr 24, gan y Parch. W. Richmond, Mr. Evan Jones, a Mrs. Jane Thomas, ill dau o'r lle uchod.

I Evan Jones a'i Briod heini'
'Rwyf yn dymuno pob daioni;
Cael bod hyd fedd mewn hedd a llawnder
A'r ochor draw heb fraw na phrudd-der.

GWILYM O'R ALLT.

Llwydd a f'o i Jones a'i briod
Fyw n y byd yn ddedwydd hynod,
A chael plant tirion i'w dyddanu
Pan mewn henaint a phenwyni.

J. G. OWEN.

## MARWOLAETHAU.

Yn Abersiwgr, Rhagfyr 6, 1850, yn 24 oed, Ruth, gwraig John Vintin, *moulder*. Yr oedd wedi bod yn ymweled â'i pherthynasau yn Portsmouth, Ohio: ac ar ei dychweliad adref fe'i tarawyd ar Mynaglog (*Quinsey*) yn ei gwddf; ac a dorodd i lawr, a throdd yn losgfa (*Inflamation*) ar yr ysgyfaint ac mewn tair wythnos gorphenodd angeu ei waith ar ei phabell briddlyd. Merch ydoedd i David Price, y crydd, gynt o Ferthyr Tydfil. Fel gwraig, rhodd Duw ydoedd. Diar. 19. 14. Ac fel cymmydoges, ni fuasech byth yn ei chlywed os na buasech yn ei gweled. Yr oedd yn dda gan bawb am dani, o herwydd ei llarieidd-dra. Yr oedd yn dawel yn ngwyneb pob tywydd a fuasai yn dyfod i'w chyfarfod; felly yn y cystudd hwn; pan oedd angeu yn dattod y cyssylltiadau rhwng y corff a'r enaid. Yr oedd yn arfer gwrando y gair, ond heb ufuddhau na gwneud proffes gyhoeddus o Fab Duw; eto yr ydym yn credu ei bod wedi ei chyfnewid trwy ras cyn ei marw; a chan mai "Duw parod i faddeu" yw yr Arglwydd, credwn iddi gael trugaredd. Salm 86. 5. Esay 58. 8. Hefyd, mae ei allu penarglwyddiaethol yn sail i ni i gredu hyny; Rhuf. 9. 15. Nid ydym ni yn deall y ffordd y mae Duw yn gweithio bob amser er cyfnewid pechaduriaid—weithiau trwy ddarllen y gair, gwrando y gair, gweddio, &c., ac y mae cystudd weithiau yn cael ei fendithio i rai. Pan gafodd Paul ei argyhoeddi y peth cyntaf a wnaeth oedd gweddio; a thyma y cymeriad a gafodd gan yr Arglwydd, "Wele y mae yn gweddio." Gallwn ninau dystio ei bod hithau yn gweddio; a thystiai fod ganddi Ffrynd i ddyfod gyda hi trwy y glyn tywyll. Dydd yr angladd ymgasglodd tyrfa fawr i hebrwng ei gweddillion i'r beddrod, pan y pregethodd y Parch. D. E. Bowen, oddiar Math. 16. 26. Claddwyd hi yn yml ei mab.

Angeu sydd rhyfelwr cadarn
Yn y byd lle'r wyf yn byw;
Gweithio mae ar bob cenedlaeth,
Nid gwahaniaeth llun na lliw;
O am 'nabod Iesu'n briod
Cyn y daw ef atom ni,
Fel y byddo'n gymwynaswr
I'n trosglwyddo i'r wlad fry.

THOMAS LLOYD.

Yn ninas Jersey, Ann, gwraig Mr. Edward Thornton, yn 18 mlwydd a 10 mis oed. Merch ydoedd i Mr. John Jenkins, gynt o Bentyrch, swydd Forganwg.

Yn New-York, Rhag. 31, yn 2 ml. a 6 mis oed, Ana, merch Wm. Thomas, gynt o Bontardawe, swydd Forganwg.

CAERLYFROG-NEWYDD.—Cymerodd damwain alaethus le y 15fed o Ionawr, trwy i chwech o dai ag oeddent yn cael eu hadeiladu syrthio yn ddisymwth, yn rhan uchaf y ddinas. Yr oedd dros 30 o weithwyr ynddynt ar y pryd, pump o ba rai a ddiangasant agos yn ddianaf, drwy neidio. Syrthiodd yr adeiladau tua'r dwyrain, gan adael y mur cefn yn sefyll, fel y diangodd y gweithwyr oeddent yno heb fawr niwed. Wedi rhyddhau pawb a fernid fod yn fyw, tynwyd i lawr y muriau sigledig; ac yna symudwyd yr adfeilion ymaith. Collwyd chwech o fywydau. Beiir Mr. W. Thomas, yr adeiladydd, yn fawr gan rai am esgeulusdra a diffyg gofal, ond ymddengys nad oes unrhyw dystiolaeth safadwy, ag y gellir ymddibynu arni, wedi ei dwyn hyd yma yn ei erbyn, er bod ymchwiliad wedi ei wneud i'r achos.

DARNAU TAIR CENT.—Y mae Tŷ y Cynrychiolwyr wedi gosod darpariaeth yn ysgrif newydd y post-swyddfa, i fathu darnau tair cent—rhan yn arian a rhan yn gopor. Byddant yn hawdd i'w gwahaniaethu oddiwrth bob *coin* arall.

## GOFYNIADAU.

***At Mr. E. D. Thomas, Covington, Ky.***

SYR,—Trwy hynawsedd Golygydd y Seren dymunaf osod ger eich bron y gofyniadau canlynol:

1. A yw gallu dyn yn bresennol yn gyfartal â'i ddyledswydd?
2. Ai cyfansoddiad gwreiddiol dyn yw sylfaen ei ddyledswydd, ynte ei allu presennol?
3. Ai yn ol rhwymau y cospir dyn, ynte yn ol ei allu?
4. Egluro Ioan 3. 8; pa un ai y gweithydd, neu y rhai y gweithir arnynt, a gyffelybir i wynt?
5. A ydyw gair Duw yn gyfnewidiol yn ei allu?
6. Yn mha ddull y mae y credinwyr yn yr amser presennol yn derbyn ernes yr Ysbryd?

Atebiad eglur ac ysgrythyrol i'r uchodion a ddengys wrth ddrws bwy y mae y pla yn aros. Yr eiddoch yn y gwirionedd,

TEUTALIAN.

## CYFIEITHAD O WAITH DR. YOUNG.

I beth mae'r doeth yn siarad
Am ei foesoldeb mwy;
Tydi, O! waedlyd gariad,
Oddefaist farwol glwy';
Dy garu di a'th ddilyn
Yw'r rheol foesol fawr,
Gwaith newydd yw'r gorchymyn
I bawb drwy'r nef a'r llawr. CYNDDELW.

## EGLWYS Y BEDYDDWYR CYMREIG YN CINCINNATI.

Mr. Gol.—Dymuuir arnoch hysbysu fod yr eglwys uchod yn bresennol yn ymddifad o weinidog, ac os bydd rhyw un neu rai o weinidogion yr enwad yn cael ar eu meddwl i dalu ymweliad â'r rhan hon o wlad y gorllewin, bydd yn dda genym eu gweled.

*Cincinnati, Rhagfyr* 17, 1850. W. W.

## ARIAN FFUGIOL (*COUNTERFEITS*).

Y mae haid o ddyhirod trwy y wlad yn taenu papyrau ffugiol, ac yn llwyddo i raddau yn eu dichellion anghyfiawn ac anghyfreithlawn; er fod rai o honynt yn cael eu dal bob dydd. Ymddengys mai y papyryn ffugiol $10 sydd ar y *Miners' Bank, of Pottsville*, yw yr un mwyaf cyffredin sydd ganddynt i dlwyn eu gwaith yn mlaen. Y mae y nodyn hw yn efelychiad lled dda o'r nodyn gwreiddiol, ond ei fod o gylch 1-5 o fod fedd yn fyrach, ac yn fwy garw ei ymddangosiad. Y mae ganddynt hefyd nifer o bapyrau ffugiol ar wahanol fanciau eraill.

## DARGANFYDDIAD PENAF YR OES.

Dywedir fod boneddwr dwyreiniol wedi dyfeisio ryw fath o beiriant neu allu, yr hwn sydd i yru agerdd allan o arferiad trwy y byd! Y mae yr hysbysiad hwn yn ymddangos yn ddyeithr ac amheus, ond tystir yn y *Philadelphia Ledger* a phapyrau eraill, fod y ddyfais wedi ei chwblhau, ac wedi ei gosod mewn gweithrediad yn ngwydd tystion celfyddgar, ac y bydd i'r byd gael ei synu yn fil mwy yn fuan, ar ol i'r darganfyddiad gael ei ddwyn i'r amlwg. Y mae y dyfeisydd yn awr yn sicrhau *patent right* iddo yn ngwledydd Ewrop, yna gosodir un i fynu yn Washington, ac ar ol hyny mewn lleoedd eraill.—Dywedir fod yr egwyddor yn hynod o syml a digost, gan y bydd dwy dunell o lô yn ddigon i yru y llong fwyaf o gylch y byd.

Rhaid i ni gyfaddef ein bod yn dra amheus o gywirdeb yr hanes hon. Gwelsom amryw yn ymffrostio yn eu gorchestion a'u cynlluniau dyfodol cyn yn bresennol, gan ddarogan chwyldroadau mawrion a rhyfeddol; ond y cwbl yn troi allan yn aneffeithiol a diles yn y diwedd. Ar yr un pryd ni ddylem gondemnio unrhyw beth cyn ei brofi felly.

Glo Tramor.—Dygwyd i'r gwahanol borthladdoedd yn y wlad hon y niferi canlynol o dunelli o lo tramor yn ystod y tair blynedd diweddaf:

| | Tunelli. | Gwerth. |
|---|---|---|
| 1848, | 196,241 | 461,140 |
| 1849, | 198,213 | 409,282 |
| 1850, | 180,439 | 378,817 |

Caethwas Ffoedig yn New-York.—Bu cryn gynhwrf yn y lle hwn o barth y caethwas Long, yr hwn a brofwyd fod wedi ffoi, ac a anfonwyd yn ol i Virginia. Cynnygiwyd prynu ei ryddid, ond gomeddwyd hyny, gan nad oedd hawl gan y Goruchwyliwr. Y mae holl deimlad a ddangosir trwy y wlad ar amgylchiadau fel hyn yn brawf diymwad fod y bobl yn gyffredin yn erbyn y weithred, ac hyderwn y bydd cyfnewidiad ynddi yn fuan.

Tan yn Utica.—Drwg genym gael ar ddeall fod nifer fawr o lyfrau Cymraeg wedi llosgi eto yn Utica, trwy yr hyn y colledir y cyhoeddwr parchus, Mr. Evans, mewn ran. Llosgodd 500 o Waith Gurnal, a mil o'r Cyfarwyddyd Profedig. Yr oeddent gyda y rhwymwr pan losgodd y masnachdy.

Llosgodd eglwys fawr y Presbiteriaid yn yr un lle wedi hyny.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Derbyniwyd newyddion o Ewrop hyd y 4ydd o'r mis diweddaf, y rhai ydynt, gan mwyaf, heb unrhyw newydd-deb, o leiaf oddiar y mis blaenorol. Ond drwg genym bod ein terfynau y waith hon yn gwrthod caniatau unrhyw dalfyriad o sefyllfa gwleidydd terfysglyd Ewrop. Pan oeddem yn barod i ddechreu ar yr hanesiaeth dramor daeth dau neu dri o farwgofion i mewn, y rhai a wnaethant ein cynlluniau blaenorol yn hollol anghyrhaeddadwy. Pa fodd bynag, ymdrechwn wneud y diffyg hwn i fynu mewn rhyw fesur yn y rhifynau dyfodol.

Mae amryw agerlongau costfawr yn cael eu parotoi i redeg i wahanol wledydd—yn mhlith eraill y mae y llinell o Southampton i Brazil yn dwyn sylw y wlad.

Nid oes unrhyw gyfnewidiad o bwys yn ymddangos yn y cynhwrf gwrth-babaidd, ond dichon ei bod yn tawelu ychydig.

Y parotoadau erbyn yr Arddangosiad mawr yn Llundain yn myned yn mlaen yn hwylus. Daeth cadwyn berlaidd o India yn werth o gylch £7,000, a chyfrwy aur tua £6,000, &c. Y mae Ali Moorad, Ewprwr Rwsia, a mawrion eraill wedi cyfranu yn hynod o helaeth.—Nid yw y palas gwydr wedi ei gwbl orphen, ond cyflwynwyd ef yn ffurfiol i'r frenines ar y 1af o Ionawr.

Y mae y tai yn mharth gorllewinol Llundain, sef ardal yr Arddangosiad, yn cael eu hardrethu am brisoedd anghyffredin o uchel. Codir £12 y mis am un ystafell. Bydd yr ymgynnulliad yn ddiau yn lluosog iawn.

Mae cryn bryder yn bodoli o barth yr agerfad Atlantic, yr hon a adawodd Liverpool ar yr 28ain o Rhagfyr, ac heb gyrhaedd pan yr ydym yn parotoi i'r wasg ar y 24ain. Gan fod yn agos i bedair wythnos er pan gychwynodd, yr hyn sydd yn ddau cymmaint o amser ag a gymer agerlongau yn gyffredin; a chan y gwyddir fod tywydd garw wedi ei chyfarfod, ofnir gan rai ei bod wedi ei cholli: ond y farn fwyaf gyffredin yw ei bod wedi gorfod troi i ryw borthladd mwyaf cyfleus er adgyweirio ei pheirianwaith, neu iddi syrthio

yn fyr o danwydd, gan ei bod yn llosgi cymmaint o lo. Y mae yn un o'r ager-longau goreu, ac wedi bod yn hynod lwyddiannus hyd yn hyn. Y mae longau eraill yn chwilio am dani, a bernir yn hyderus y bydd iddi eto ddyfod i'r amlwg.

Daeth yr agerlong Arctic i mewn i Halifax ar y 24ain, yr hon a ddyga newyddion o Liverpool hyd yr 11eg. gosododd i mewn yno o herwydd ei bod yn fyr o lo. Nid oedd dim wedi ei glywed o barth yr Atlantic, yr hyn sydd yn gwanhau y gobeithion yn ei chylch i raddau helaeth.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

**Enciliadau.**—Un ffordd sydd gan weinidogion grwgnachlyd yr enwadau ymneillduedig i ddial ar eu heglwysi, yw gadael Ymneillduaeth ac ymuno â'r Eglwys Sefydledig. Y mae dau neu dri o'r fath amgylchiadau wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn y Dywysogaeth. Yn mhlith eraill y mae y Parch. J. P Jones, diweddar weinidog y Bedyddwyr yn Mhenybont-ar-Ogwr. Amcan Mr. J. bob amser yw "gwneud ei hun yn bob peth" er cyrhaedd dybenion neillduol, ond yn hyn bu yn aflwyddiannus hyd yma—treiodd Gymry a Saeson Penybont, ond methodd bob ergyd. Hyderwn y bydd yn fwy dedwydd yn y camdiweddaf, ac y bydd ychydig yn fwy boddlawn i'w sefyllfa o hyn allan.

**Merthyr.**—Breuddwydiodd glowr o'r enw Wm. Jones, 59 oed, ei fod wedi cael ei ladd un noson yn ddiweddar; yn y boreu, efe a amlygodd ei freuddwyd, a dywedodd fod arno dipyn o ofn myned at ei waith. Pa fodd bynag efe a aeth, a chyn pen ychydig iawn o amser syrthiodd dwy dunell o lo arno, gan ei wasgu yn yfflon.

**Cwmafon.**—Rhag. 23, anrhegwyd tua 400 o blant perthynol i ysgolion y lle hwn â the a lluniaeth gan Mr. a Mrs. Biddulph. Wedi hyn holwyd hwy mewn hanesyddiaeth ysgrythyrol, rhifyddiaeth, daearyddiaeth, &c., gan y Parch John Morgan ac eraill, &c. Yr oedd yr atebion yn briodol a boddhaol.

**Trafferthion Jacob.**—Y mae boneddwr yn byw gerllaw Wrexham, yr hwn sydd yn cadw hen was o'r enw Jacob i drin ei ardd a gwerthu y cynhyrch. Yn ddiweddar anfonwyd Jacob i'r dref a chol o fresych (*cabbage*) cochion i'w gwerthu am bris penodedig ei feistr. Gwnaeth Jacob y cwbl a allasai dyn marwol ei wneud i gael prynwyr, ond y cwbl yn aflwyddiannus,—dywedid wrtho eu bod yn rhy ddrud, a gorfu arno eu cymeryd yn ol yn yr hwyr i'w feistr, yr hwn a'i galwodd yn hen ffwl diog am beidio eu gwerthu, a gorchymynodd iddo barotoi cynnifer a hyny eilwaith i'w cymeryd gyda y rhai hyny boreu dranoeth ar anifail i farchnad Caerlleon, i'w gwerthu am yr un bris. Yn foreu iawn yr oedd Jacob yn barod, a rhoddodd ei feistr iddo lythyr i'w gymeryd i foneddwr ar y ffordd, gan ei gyfarwyddo i alw am yr atebiad wrth ddychwelyd. Rhoddodd Jacob y llythyr i'r boneddwr, yr hwn a'i hadwaenai, ac a orchymynodd iddo fyned i'r tŷ i gael lluniaeth. Yn y cyfamser, wedi deall neges Jacob, gorchymodd i'w gerbydwr arllwys bresych cochion Jacob allan o'r sach, a'i llanw â bresych gwynion oedd ganddo ef yn gyfleus. Wedi gwneud hyn daeth Jacob allan, a gyrodd yn mlaen gynted ag y medrai tua Chaerlleon, ond wedi agor ei sach, yr oedd ei fresych cochion wedi troi yn wynion. Yr oedd ei ofid a'i syndod erbyn hyn braidd yn anghydmarol. Nid oedd ond ynfydrwydd iddo eu cynyg am y pris a orchymynodd ei feistr, a gorfu iddo eu cymeryd yn ol drachefn. Pa fodd bynag, ni anghofiodd alw am yr atebiad i'r llythyr. Gwahoddwyd ef i'r tŷ drachefn i gael bwyd, a chydsyniodd yntau yn ddigon gofidus a thrallodus ei feddwl. Wedi swperu a derbyn y llythyr atebiadol, aeth Jacob at ei anifail a phrysurodd adref. Yr oedd ei feistr yn dysgwyl am dano yn awyddus, ac wrth ganfod ei sach eto yn llawn dechreuodd ymgynhyrfu. Dywedodd Jacob fod y bresych wedi newid eu lliw, a gofynodd i'w feistr a ddarfu iddo ef eu newid yn y sach y nos cyn hyny. Pryd hyn aeth tymher ei feistr yn aflywodraethus, a dechreuai guro Jacob dlawd yn annhrugarog. Agorwyd y sach, ac wele siomedigaeth eto i Jacob—yr oedd y bresych oll yn gochion. Wedi i'r meistr ddyfod ychydig ato ei hun, ac iddo agor llythyr ei gyfaill, cafodd eglurhad o'r dirgelwch. Yr oedd yn danfon llawn dâl am y bresech, a 2s. 6c. dros ben hyny, o herwydd siomedigaeth Jacob, gan ddymuno arno i'w esgusodi am yr hyfdra a gymerodd yn newid y bresych ddwy waith pan oedd Jacob yn y tŷ. Daeth Jacob a'i feistr yn well ffryndiau wedi hyn, ond y mae yn amheus pa un a dderbyniodd Jacob yr hanner coron.

**Aberystwyth.**—Cafwyd eglurhad tra difrifol yn y lle hwn o ansicrwydd bywyd yn ddiweddar. Yr oedd John Hughes, gwas ffyddlon i Mr. Joseph Downie, gwerthwr gwin a gwyrodydd, yn myned un boreu i'r ddaeargell i dyuu gwyrod. Un o'r merched yn myned i lawr ychydig ar ei ol, a'i canfyddodd yn gorwedd ar y llawr yn mron marw. Galwyd yn ddioed am y meddyg Williams, yr hwn a wnaeth y cwbl a allasai, ond yr oedd y wreichionen fywiol wedi ymadael. Yr oedd y trengedig yn 64 oed, ac yn hynod o iach trwy ei oes, ac yr oedd yn ymddangos yn ei iechyd arferol hyd y nod ar y dydd hwnw.

**Nefyn.**—Mae gwahanol ymosodiadau wedi eu gwneud i osod meddiannau ar dân yn yr ardal hon, ond llwyddwyd i'w difforddi cyn i fawr colled gael ei wneud.

**Cyffredinol.**—Cryn achwyniadau sydd yn barhaus yn ein cyrhaedd o'r dosbarthiadau gweithfaol, ac nid heb achos. Mae y gweithfeydd haiarn a glo yn myned yn mlaen yn araf—y cyflogau yn isel, a llawer allan o waith. Mae sefyllfa amryw yn isel, ac nid yw o unrhyw ddyben i'r gweithwyr tlodion i achwyn—os na ddewisant weithio ceir digon yn eu lle. Yr unig fantais i'r gweithwyr yw fod yr ymborth yn isel. Y tyddynwyr a achwynant yn dost ar eu sefyllfa, gan fod y rhenti a'r trethi yn fawrion, a hwythau yn cael mor lleied am eu hyd a'u nwyfau.

# "Y DRYCH."

**Pris $1 y flwyddyn yn mlaen llaw. $1 50 yn niwedd y flwyddyn.**

NEWYDDIADUR CYMREIG, YN CAEL EI GYHOEDDI YN EFROG NEWYDD AM 1851.

Y DRYCH, NEWYDDIADUR WYTHNOSOL CYMREIG, yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o ddarllen mewn Cyhoeddindau o'r fath. Bydd y NEWYDDION Cartrefol a Thramorol mor gyflawn a dim a gynnwysir yn yr WYTHNOSOLION SEISNIG; yn enwedig bydd y NEWYDDION CYMREIG yn fwy cyflawn a diweddar nac a geir trwy unrhyw gyfrwng arall yr ochr hyn i'r Werydd. Yr ydym wedi pennodi goruchwyliwr cyfrifol yn Llynlleifiad i dderbyn a llwybreiddio, gyda phob agerlong yn ymadael i'r Talaethau Unedig, newyddion a gohebiaethau bwriadol i'r DRYCH.

Yr ydym wedi dyogelu y personau canlynol. fel goruchwylwyr cyffredinol a gohebwyr wythnosol yn Mhrydain:
Mr. THOMAS MANUEL. diweddar Olygydd yr Amserau, yn Llynlleifiad.
Y Parch. JOHN M. THOMAS, Coed-duon, swydd Fynwy (diweddar o Efrog Newydd,) dros Ddeheubarth Cymru,
Y Parch. WM T. THOMAS, Llanddaniel, swydd Fon, dros Ogledd Cymru.

Heblaw y gwyr uchod, yr ydym wedi cael addewid o ohebiaethau achlysurol oddiwrth amryw o ysgrifenwyr Cymreig ffraethaf a llyfnaf Prydain ac America.

Cyfarwyddar pob archebion a gohebiaethau yn ddidraul, at JOHN M. JONES,
51 Beaver-Street, New-York.

# O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# CYFNEWIDIAD MEWN ENW.

Y MAE Mr. BENJAMIN THOMAS, gynt o Lewelyn, yn bresennol Goruchwyliwr George H. Potts, Ysw., yn dymuno ar bawb a fyddont yn ysgrifenu ato ef, neu yn ymwneud ag ef mewn masnach, i gyfarwyddo ato a'i alw BENJAMIN D. THOMAS o hyn allan. Y mae yn barnu yn angenrheidiol i ychwanegu y llythyren D, o herwydd fod eraill yn yr ardal o'r enw hwnw, pa rai ydynt yn wahanol iddo ef mewn egwyddorion ac ymarferion.

# PELENI ADFERIADAWL
## LLYSIEUOG
# *WORSDELL!*

**Gwerthir dros ddau cymmaint o honynt yn Nghymru ag a wneir o unrhyw Beleni eraill yno.**

## Y PELENI GOREU A RHATAF YN YR AMERICA.

ADDEFIR yn gyffredinol mai PELENI ADFERIADOL WORSDELL yw y Cyffyr mwyaf effeithiol a galluog a gynnygiwyd erioed i sylw y cyhoedd. Mae y Peleni hyn yn enwog am nad ynt yn achosi nemawr o boen na theimlad annymunol wrth weithio, er eu bod mor rymus. Y mae yr enwogrwydd a gyrhaeddasant i'w briodoli yn benaf i'r defnyddiau iachusol ac adferiadol o ba rai y maent wedi eu cyfansoddi. Eu swydd yw puro y gwaed, rhyddhau y cyfansoddiad o bob anmhuredd, symud y rhwystrau sydd ar ffordd gwasgariad gwlybyroedd y corff, a chyrhaedd gwraidd yr afiechyd, gan ei symud allan yn raddol a diboen yn gyffredin.

Maent wedi adferu iechyd i filoedd, fel y dengys y nifer anarferol o dystiolaethau sydd genym ar law. Nid oes unrhyw berygl eu rhoddi i blentyn bychan un diwrnod oed. I ferched a gwragedd NYCHLYD a GWANAIDD, a mamau plant, y maent yn anghystadleuadwy, cyn, yn gystal ag ar ol esgoriad. Fel meddyginiaeth teuluaidd cyffredin gwarantir hwy i gyflawni eu swydd, a'u bod mor effeithiol ag y gall unrhyw gyffyr fod. Y maent yn puro, yn glanhau, ac yn nerthu ffynhonell a ffrydiau bywyd, ac yn cyfranu grym a bywiawgrwydd trwy yr holl gyfansoddiad dynol. Yn y Cryd a'r Mwyth ymosodiadau Geriaidd, dechreu twymynod, gwaed anmhur, ac anhwylderau cyffelyb, maent wedi effeithio gwellhad rhyfeddol lawer gwaith. Er eu bod yn cael eu defnyddio mor aml y maent bob amser yn llwyddo. Un foneddiges a alwodd arnom ychydig wythnosau yn ol, gan hysbysu iddi hi gael ei gwel'hau ganddynt, ar ol bod yn glaf dros fwy na dwy flynedd, a defnyddio gwerth cant a hanner o ddoleri o wahanol gyffeiriau. Yr ydym yn derbyn tystiolaethau dyddiol o ardaloedd y Cryd yn y Gorllewin,—oll yn cyduno i ddatgan na chafodd unrhyw Gyffyr ei ddefnyddio yno gyda y fath lwyddiant. Y cwbl a ofynwn yw gwneud prawf o honynt—os na bydd hyny yn ddigon i ddarbwyllo y mwyaf anghredinicl o'u rhinweddau, nis gwyddom am ddim arall a ddichon ei wneu l.

Y mae y cymeriad uchel y maent wedi ei enill trwy Loegr a Chymry, ynghyd a'u cyflwyniad diweddar i'r teulu breninol, wedi iddynt wellhau perthynas i'r Prince Albert, yn brofion adnewyddol o'u daioni anmhrisiadwy. Heblaw eu bod y goreu a'r mwyaf diniwed yn eu gweithrediad, y maent hefyd y RHATAF o bob Cyffyr sydd wedi eu cynyg i'r cyhoedd, gan fod pob blwch yn cynnwys HANNER CANT o BELENI, am y swm fychan o hanner dolar y blwch.

Gwarantir y Peleni hyn yn llysiau pur. Y mae enw y Dr. Worsdell yn argraffedig ar ddull ysgrif ar bob blwch. Byddwch ofalus i gael y rhai iawn.

Mae miloedd o bersonau yn dinystrio eu cyfansoddiad wrth ddibrisio eu hunain yn rhy hir. Peidiwch ymddibynu ar foddion difudd, yr hwn a ddichon esmwythau y poen dros ychydig amser, ond chwiliwch am gyffeiriau i symud yr afiechyd ymaith. Gwnewch brawf ar unwaith o'r feddyginiaeth ddigyffelyb hono, sef PELENI ADFERIADAWL WORSDELL (*Worsdell's Restorative Pills*), y sydd mor enwog trwy yr holl wlad fel meddyginiaeth i ddoluriau cyffredin dynolryw.

Mae y cyfarwyddyd a'r hawl i ddarparu a gwerthu y Peleni hyn yn yr Unol Dalaethau wedi ei drosglwyddo i Dr. ALFRED WEEKS a'i Gyf., Philadelphia. Gellir cael unrhyw nifer o honynt gan Olygydd y Seren Orllewinol, yn Pottsville; Mr. Coatsworth a Mr. Brown, yn yr un lle; a chan y goruchwylwyr, agos yn mhob dinas a thref trwy yr undeb.

Y Fferyllfa a'r brif Swyddfa, Rhif. 70 North Eighth-Street, Philadelphia.

A. WEEKS A'I GYF.,
Perchenogion a Gwneuthurwyr

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

### CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] MAWRTH, 1851. [RHIF. 81.

CYNNWYSIAD.


Ardeb y Parch. D. H. Gillette, . . 52
Desgrifiad o'r un, . . . . . . 76

Addysgiadau wedi eu tynu oddiwrth holiadau ac atebion, syl aenedig oddiwrth Rhuf. viii, 53
Yr African a'r Llew, . . . . . 54
Alarwm i Ddeffro y Dynion sydd yn Cysgu yn y Cwrdd, . . . . . . . 55
Trioedd newyddion, . . . . . . 56
Galar-gan Thos. Elias ac Enoch Morgan, Minersville, . . . . . . . 56
Sefyllfa Foesol Dynolryw, . . . . 57
Cyfarfod Trimisol Marcy—Anerchiad o barth y Seren Orllewinol, . . . . . 58
Y Welsh Yankee. . . . . . . 59
Diolchgarwch i Mr. T. Tomkins, Pittsburg, . 59
Widowed Inebriate's Lament—Pennillion i'w cyf., 60
Llythyr o California, . . . . . 60
Y Cymry a'r Golofn Genedlaethol, . . 61
Cymdeithas Ddirwestol Dunmore, swydd Luzerne, 62
Anrheg i Mr. Evan Harris, Carbondale. . 63
Llafur Ysgol Sabbothol y Bedyddwyr yn Coalport, 63
Seren Gobaith, . . . . . . . 65
Cyfarchiad y Parch J. F. Berg, D. D., mewn atebiad i Ddarlith yr Archesgob Hughes ar Adfeiliad Protestaniaeth, . . . 66
Helyntion Ymfudawl, . . . . . 68
Ychydig bennillion o glod i Mr. Llewelyn Llewelyn, Telynwr, . . . . . 68
Eglwyr Gymreig y Bedyddwyr yn New York, 69
Y Parch. Ebenezer Edwards, . . . . 69
Llenyddiaeth y Bedyddwyr, . . . . 69
Anerchiad i Geiliog yn canu, . . . . 70
Anerchiad i Olygydd y Seren Orllewinol a'i briod ar enedigaeth eu Merch ieuangaf, . 73
Gwahoddiad i T. Tomkins, i ymweled â'i gyfeillion ar ddechreu blwyddyn, . . 78
Ar Enedigaeth Daniel, mab Griffith a Mary Richards, Minersville. . . . . . 70
Agoriad Addoldy yn Bloomsburg, . . 70
*Genedigaethau*, . . . . . . 71
*Priodasau*, . . . . . . . 71
*Marwolaethau*, . . . . . . 71
*Atebiad*, . . . . . . . . 72
*Gofyniadau*, . . . . . . . . 72
Dychymyg, . . . . . . . . 73

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. . . 73
Yr agerfad Atlantic yn ddyogel, . . . . 73
Ffrainge, . . . . . . . . 73
Denmark, &c . . . . . . . . 73
Y Pab, . . . . . . . . . 74
Twrci, . . . . . . . . . 74
Jamaica, . . . . . . . . . 74
China, . . . . . . . . . 74
Madagascar, . . . . . . . 74
*Tywysogaeth Cymru.*—Trefforest, . . 75
" " Y Fasnach Haiarn, 75
" " Seren Gomer, . . 75
" " Arsylfa Seryddol, 75
" " Ail agoriad Bethel, Glan-y-mor, Llanelli, 75
" " Croesyparc—Penyrheol—Agoriad Addoldy—Neillduad Gweinidog—Symudiadau, . . . 75
" " *Marwolaethau*, . 76


POTTSVILLE.

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞Derbyniwyd yn ystod y mis y gohebiaethau canlynol heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Cyf. o Curtis ar Gymundeb, gan W. Morgan, Pottsville; Y Bedyddwyr yn Dodgeville, gan John Ll. Roberts. (rhy ddiweddar i'r rhifyn presennol); Sylw ar Hunan-amddiffyniad Mr. Eleazer Jones, gan John Roberts, Summit Hill; Tôn, gan W. Collins, Cincinnati; Gemau Crefyddol, gan Theta Eta; Swyddogion yr Eglwys, cyfl. Ewyllysiwr Da i Sion; Politics a Chrefydd, gan Alfred Harris, Marcy—yn y nesaf; Amrywion Detholedig, gan Iorwerth. &c.

☞Derbyniasom y taliadau canlynol—T. Jones, Talmadge, $1 25; Parch. R. Davies, Palmyra, $3 75; E. Howells, Etowah, Georgia, $2; T. Tomkins, Pittsburg, $1 25; C. Richards, New York. $14 60; Thos. H. Jones, Remsen, $24 25; hefyd, am lyfrau eraill, $3 25; Wm. Thomas, Rattling Run, $2 50; Gwenllian Davies, eto, $1 25; yn Pottsville, $5.

☞Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

---

BYWYD JOSEPH.—Mae yr hanes ddifyrus hon, fel y mae wedi ymddangos o fis i fis yn y Seren, wedi ei gwneud i fynu genym yn llyfr bychan. 192 o dudalenau, wedi ei rwymo yn dda, am 31 cents yr un, neu bedwar am ddolar i'r Ysgolion Sabbothol. Gellir eu cael gan argraffydd y Seren, neu y Parch. E. B. Evans, Pittston Ferry, Pa. Gellir cael rhai o honynt wedi eu rhwymo yn hardd mewn morocco, am bris ychydig uwch. Mae yn ateb yn ragorol i'w roi yn anrheg i blant.

Gyrwn y llyfrau uchod i'r rhai sydd wedi danfon am danynt o leoedd pellenig mor fuan ag y gallwn gael cyfleusdra. Mae y cludiad yn ormod i'w danfon gyda y *post*.

---

Y CYMRY YN RARRLING RUN A YELLOW SPRING.—Y mae ychydig gyfeillion crefyddol o wahanol enwadau yn cyduno i ymdrechu cynnal cyfarfodydd ac Ysgol Sabbothol yn y lleoedd uchod, yn swydd Dauphin, Pa. Os bydd yn gyfleus i ryw bregethwr o unrhyw enwad, i ymweled â hwy bydd yn dda gynddynt ei weled, ac ymdrechant ei ddigolledu am ei lafur.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU,—Am JOB a HANNAH LEWIS, gynt o Dredegar, swydd Fynwy. Gadawsant Loberry Mines, ger Pinegrove, tua dwy flynedd yn ol. Gallant glywed rhywbeth er eu mantais trwy anfon eu cyfarwyddyd i olygydd y Seren Orllewinol, neu i Mr. Morgan Lewis, Loberry, Tremont P. O., Schuylkill Co., Pa.

HEFYD—

YMOFYNIR am EDWARD JENKINS, (*Collier*,) yr hwn a adawodd ei deulu yn Pittston Ferry, Pa., yn mis Awst diweddaf. Yr enw wrth ba un yr oedd yn adnabyddus gan y rhai a'i hadwaenai yn yr Hen Wlad oedd Edward Pont Cotun, Rhymney. Dymuna ei wraig yn ostyngedig os gwyr rhyw rai pa le y mae i ddanfon gair at ei briod gofidus gyda brys. Cyfeirir ati Jane Jenkins, Pittston, Luzerne Co., Pa.

---

BEIBLAU A THESTAMENTAU CYMREIG.—Y mae Golygydd y Seren o gylch derbyn nifer o Feiblau a Thestamentau Cymraeg o wahanol brisoedd a maintiolaeth. Y mae amryw bersonau a rai ysgolion wedi bod yn ymholi am danynt er ys rai misoedd trwy yr ardal. Hysbyswn y gallant eu cael genym am arian parod ar y tyleran mwyaf rhesymol. Gwneler brys i anfon am danynt, cyn y byddant oll wedi eu gwerthu.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.—Bwriadwn argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithir ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.


# "Y DRYCH."

**Pris $1 y flwyddyn yn mlaen llaw. $1 50 yn niwedd y flwyddyn.**

NEWYDDIADUR CYMREIG, YN CAEL EI GYHOEDDI YN EFROG NEWYDD AM 1851.

Y DRYCH, NEWYDDIADUR WYTHNOSOL CYMREIG, yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o ddarllen mewn Cyhoeddiadau o'r fath. Bydd y NEWYDDION Cartrefol a Thramorol mor gyflawn a dim a gynnwysir yn yr WYTHNOSOLION SEISNIG; yn enwedig bydd y NEWYDDION CYMREIG yn fwy cyflawn a diweddar nac a geir trwy unrhyw gyfrwng arall yr ochr hyn i'r Werydd. Yr ydym wedi pennodi goruchwyliwr cyfrifol yn Llynlleifiad i dderbyn a llwybreiddio, gyda phob agerlong yn ymadael i'r Talaethau Unedig, newyddion a gohebiaethau bwriadol i'r DRYCH.

Yr ydym wedi dyogelu y personau canlynol, fel goruchwylwyr cyffredinol a gohebwyr wythnosol yn Mhrydain:

Mr. THOMAS MANUEL, diweddar Olygydd yr Amserau, yn Llynlleifiad.

Y Parch. JOHN M. THOMAS, Coed-duon, swydd Fynwy (diweddar o Efrog Newydd,) dros Ddeheubarth Cymru.

Y Parch. WM T. THOMAS, Llanddaniel, swydd Fon, dros Ogledd Cymru.

Heblaw y gwyr uchod, yr ydym wedi cael addewid o ohebiaethau achlysurol oddiwrth amryw o ysgrifenwyr Cymreig ffraethaf a llyfnaf Prydain ac America.

Cyfarwyddar pob archebion a gohebiaethau yn ddidraul, at JOHN M. JONES,
51 Beaver-Street, New-York.

# O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.



ENGRAVED BY J.SARTAIN.

D. H. Gillette.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] MAWRTH, 1851. [RHIF. 81.

### ADDYSGIADAU

*Wedi eu tynu oddiwrth Holiadau ac Atebion, sylfaenedig ar Rhufeiniaid viii, ynghyd a chynnwysiad y cyfryw Bennod wedi ei droi ar Gân.*

(AT WASANAETH YR YSGOLION SABBOTHOL.)

*O'r "Bedyddiwr."*

HOLIAD GAN Y BECHGYN.

Er mwyn eglurdeb caniatewch
In' fyn'd trwy'r gwaith yn iawn,
Trwy ofyn rhai holiadau teg
A chael atebion llawn.
Gan hyny ymofynwn 'nawr,
A chwi'n chwiorydd mad,
Pa le ca'r euog noddfa glud
Rhag llid dialydd gwa'd ?

Y MERCHED YN ATEB.

Ein hateb cewch—Yn Iesu Grist,
Pen y cyfammod gwell,
Mae pawb a gred yn ddyogel llawn,
A'r damnio gilia 'mhell.

Hol.—Rho'wch wybod ynte, heb nacad,
Beth yw eu nodau gwir ?

At.—Nid ynt yn byw yn ol y cnawd,
Ond 'nol yr Ysbryd pur.

Hol.—Pa ddeddf ryddhaodd rai mor gaeth
O afael pechod cas ?

At.—Deddf Ysbryd bywyd oddiwrth Dduw;
Mae'n weithred llawn o ras.

Hol.—A all'sai dim o'r ddeddf ryddhau
Ar Sinai fynydd gaw'd ?

At.—Na all'sai fyth ryddhau un dyn,
Hi aeth yn wan trwy'r cnawd.

Hol.—Yn ngwyneb yr anallu hyn
A d'wynodd unrhyw wawr?

At.—O do, danfonodd Duw ei Fab,
Wneud fynu'r diffyg mawr.

Hol.—Pa ddyben a atebwyd gan
Y Mab a'i waith digoll ?

At.—Dyogelodd byth anrhydedd deddf,
Er cadw'r seintiau oll.

Hol.—Pa effaith, d'wedwch, y mae'r gwaith
Yn gael ar rhai'n wrth fyw ?

At.—Mae'n puro 'u syniad nes maent oll
Mewn hedd â chyfraith Duw.

Hol.—A gadd 'r elyniaeth ddaeth trwy'r cnawd
Ei lladd gan arfau'r nef?

At.—O, do, mae Ysbryd Crist yn ben,
Prawf bod yn eiddo ef.

Hol.—A yw fod Crist yn byw'n ei saint
'N eu cadw rhag y glyn?

At.—O, na, ni ddarfu'r Iesu mwyn
I feddwl dim o hyn.

Hol.—A raid i'w cyrff i aros byth
Tan gloiau yn y llawr?

At.—Na raid, fe haera'r Ysbryd pur
Cant godi fach a mawr.

Hol.—A ydyw'r fath addewid wych
'N eu gwneud yn ddyled-wŷr?

At.—O, ydyw, frodyr hoff, heb lai,
Boed in' roi'i glod yn glir.

YR HOLL YSGOL.

Nid byw yn ol tueddiadau'r cnawd,
O hyn ail farw fydd;
Ond marwhau gweithredoedd corff,
Trwy'r Ysbryd Glân bob dydd;
Can's sawl arweinir ganddo ef
Sy' blant i Dduw yn awr,
Fe'u gogoneddir gyda Christ
Mewn etifeddiaeth fawr.

Yr Ysbryd a dderbynir gan
Y saint wrth fyn'd tua hon,
Nid Ysbryd y caethiwed blin,
Ond ysbryd meibion llon;
Cyd-dystiolaetha'r Ysbryd hwn
A'n hysbryd egwan ni,
Ein bod yn blant i Dduw—mae'n wyrth,
Drwy hyn daw'r nef i ni.

Y MERCHED YN HOLI.

Wel, frodyr tra hynaws a siriol,
Eich sylw a grefwn yn fawr,
Er cael eich atebion goleuwych,
Tan ddyled 'rych chwithau yn awr.
Pa gyfrif, debygech, a ddylai
'Tifeddion fath freintiau mor gun,
Ei wneuthur o chwerwon drallodau
Yr amser presennol a blin ?

Y BECHGYN YN ATEB.

Mae'ch tegwch a'ch cwestiwn yn gofyn
Ein sylw a'n hateb, heb lai,—
Eu cyfrif ni ddaliant gymhariaeth
A'r gwynfyd sy'n ol i'w fwynhau.

Hol.—A ydyw'r gre'digaeth mewn hiraeth
'Gael meibion Jehofa yn rhydd?

At.—O ydyw, och'neidia 'n drwn-lwythog,
Mewn awydd am weled y dydd.

Hol.—A ydyw y seintiau eu hunain
Mewn gwewyr 'n y rhyfel am hedd?

At.—O ydynt, 'och'neidiant yn fewnol,
Am bryniad eu cyrff o law'r bedd.

Hol.—A dd'wedir 'eu meddyginiaethir
O'u hiraeth am weled y dydd?
A'r Ysbryd 'ran ffynud yn gymhorth
(Er gwendid) i weddio mewn ffydd?

At.—O, d'wedir yn eglur, er cysur,
Trwy obaith iechoir eu poen;
A'r Ysbryd yn erfyn dros lwyddiant
Eu gweddiau, yn haeddiant yr Oen.

Hol.—A dd'wedir y caiff pob peth a gwrddant
Gyd-weithio 'fod er eu lleshad?

At.—O d'wedir! goruwch-lywodraethir
Y cwbl, gan gynghor eu Tad.

Hol.—A oes rhyw gadernid yn perthyn
I'r melus osodion, wrth raid?

At.—O, oes, y mae'r arfaeth a'r galw,
A'r cyfiawnhad hefyd o'u plaid;
Cyrhaeddant yn sicr ogoniant,
Mae'r nefoedd yn gyfan o'u tu;
Pwy ddichon gan hyny i lwyddo
'N eu herbyn, er cryfed fo'r llu?

H.—Pwy sicrwydd sydd genych mai drostynt
Mae Duw a'i arfaethau digoll?

At.—O, digon, heb eisiau dim rhagor,—
Traddododd ei Fab drostynt oll!
Pa wedd ein chwiorydd mwyn hawddgar
Na ddyry Duw Dad gydag Ef,
Bob peth angenrheidiol er codi
Ei deulu i feddiant o'r nef.

YR HOLL YSGOL.

Gan hyny oferedd ac ynfyd
Ddwyn c'nygion i'w herbyn a gan,
Er ceisio eu profi'n euogion
Duw Dad sy'n eu cyfiawnhau;
Pwy fedr gan hyny eu damnio
'Nol marw y Mab yn eu lle,
A chododd yn foreu o'i feddrod
I eiriol yn nghanol y ne'.

Hol.—Mae'r teimlad yn dechreu cynhesu,
Gan hyny awn eto'n y bla'n;
Gofynwn i'ch frodyr a welir
Yr Iesu a'i eiddo ar wa'n?

At.—Ein hateb yn siriol a roddwn,
Mae'r newydd yn felus heb gel,
Nis dichon un gelyn fyn'd rhyngddynt,
Mae'r undeb a'i gloiau dan sel;

Gorthrymder, neu ingoedd y meddwl,
Neu ymlid tra ffyrnig y byd,
Neu newyn, neu noethni, enbydrwydd,
Neu gleddyf, rhy wan ynt i gyd.

Hol.—Eich ateb awgryma, feddyliem,
Er poethed y rhyfel a'r tân,
Mae'r saint a gongcwera 'n y diwedd,
Trwy'r Blaenor orchfygodd o'r bla'n.

At.—Diameu y try'r fuddugoliaeth
O ochr canlynwyr yr Oen,
Hwy neidiant ar warau'u gelynion
A hwy a ddyrchefir o'u poen.

Hol.—Un cwestiwn yn mhellach ofynwn,
Gan ddeisyf eich ateb ar gân;
Oes tebyg y llwydda ryw wrthddrych
Gael Iesu a'i eiddo ar wa'n;
A datod y c'lymau cariadlawn
A'u hasiant mor agos a thyn,
Neu gwywo holl flodau Paradwys,
A thewi am angau y bryn?

At.—Na, na, ein hoffusaf chwiorydd,
'Does eisiau i ofnau i fod;
Nis gall unrhyw beth sy'n bodoli,
Neu eto a ddichon i ddod,
I ysgar yr Iesu a'i eiddo,
Er maint ymosoder at hyn;
Mae rivet yr haeddiant yn cadw
Yr holl gysylltiadau yn dyn:

YR HOLL YSGOL.

Hen angau, hyll, atgas, ac enbyd,
Nac einioes drafferthus ychwaith,
Angylion na thywysogaethau,
Rhy wan ynt i gyd at y gwaith!
Meddiannau, na phethau presennol,
Na phethau i ddyfod 'nol hyn,
Nac uchder, na dyfnder eithafion,
Nac unrhyw greadur yn llyn,
All lwyddo i ddryllio'r cyfammod,
Llw Duwdod yw'r sylfaen, heb gel,
Gwaed Meichiau a redodd o'i galon,
Er rhoi ei holl rwymau dan sel;
Y cariad o'i fewn a flagura,
Trwy oesau y di-ddiwedd fyd,
Y seintiau adlamant mewn hoffder,
A'r Oen gaiff y moliant i gyd;
Gan hyny gweddiwn yn ddyfal
Am feddu'r fath undeb mor gu;
Aed gwagedd y ddaear lle myno,
Boed Iesu yn eiddo i ni.—Amen.

## YR AFFRICAN A'R LLEW.

YR helynt a ganlyn a gyfieithwyd o ysgrifeniadau y Parch. Mr. Moffat, cenhadwr yn Affrica, yn achos yr Efengyl.

Yr hanes ganlynol, medd ef, a ddengys y perygl mae rhai trafaelwyr yn eu cyfarfod. Dyn perthynol i gynnulleidfa Mr. Schmelen, yn Bethany. wrth ddychwelyd adref, wedi bod yn ymweled â'i gyfeillion, a gymerodd daith i fyned heibio i ffynon, neu yn hytrach lyn, yn mha le yr ydoedd yn gobeithio y gallai ladd gafr-gyrnhyddol (*antelope*) i'r dyben idd ei dwyn adref i'w deulu. Yr haul ydcedd wedi codi yn lled uchel pan y cyrhaeddodd ef y man bwriadol; ac wedi syllu am beth amser, a methu gweled dim idd ei saethu, gosododd ei ddryll i lawr ar graig isel, tu ol i'r hon yr oedd llwyni byrion o ddrain yn tyfu. Aeth at y dyfroedd, a chymerodd yn galonog ddigon o hono i dori ei syched; yna dychwelodd i'r graig, eisteddodd, a difyrai ei hun wrth chwiffio ei bibell, a chan ei fod yn flinedig oblegyd y daith syrthiodd i gysgu. Yn fuan y gwres a ddisgynai ar y graig a'i deffrodd, a gwelai lew anferth, a'i lygaid yn serenu i'w wyneb, ac yr ydoedd o fewn tair troedfedd i'w draed. Y dyn ni chyffrodd am rai mynudau, nes cael ei feddwl i'w le, yna edrychai am ei ddryll, gan araf symud ei law ato; ond am iddo gyffroi y

llew a godai ei ben i fynu, gan ruo yn ddychrynllyd. Gwnaeth gynnygiad ar ol cynnygiad i gael gafael yn y dryll, ond ni fedrai; a gorfu iddo roddi hyny i fynu, am fod y llew mor wrthwynebus; yr oedd megys yn gynddeiriog pan y gwnai gymmaint a symud ei law. Ei sefyllfa ydoedd yn eithaf poenus—y graig ar yr hon yr eisteddai ydoedd mor wresog fel na allai braidd oddef i'w draed noethion i gyffwrdd â hi; ofnai symud troed, ond codai un ar y llall dros ychydig amser. Fel hyn y dydd a ddiweddodd, a'r nos hefyd, ond ni symudai y llew o'r un man Cyfododd yr haul drachefn, a'i wres yn fuan a adnewyddodd boenau ei draed: ond ni wnai y llew ganiatau iddo gyffro braidd ddim Yn y prydnawn aeth y llew at y dwfr oedd yn ymyl; ond yr ydoedd yn edrych yn ol, ac wrth weled y dyn yn estyn ei law i gydio yn y dryll. dychwelai megys yn gynddeiriog, gan ymddangos fel pe buasai yn myned i neidio arno. Aeth at y dwfr drachefn, a daeth yn ei ol, gan orwedd yn ymyl y graig. Nos arall a derfynodd a dywedai y dyn wrth ei desgrifio, nad ydoedd yn gwybod a gysgodd ai peidio, ond os do, iddo gysgu a'i lygaid yn agored, oblegyd ei fod o hyd yn gweled y llew. Cyn canol dydd aeth yr anifail i'r dwfr, a phan ydoedd yno clywai swn mewn rhyw le, ac oblegyd hyny aeth o'r golwg i'r llwyni. Y dyn yn awr a wnaeth ymdrech drachefn, a chafodd afael yn ei ddryll; ond wrth dreio codi efe a syrthiodd, am fod ei gluniau wedi myned yn ddirym. A'i ddryll yn ei law, ymlusgodd at y dwfr, ac a yfodd. Wrth sylwi ar ei draed canfyddai fod ei fysedd wedi rhostio, a chroen ei draed ydoedd yn dyfod ymaith gyda'r borfa. Eisteddodd yno am rai mynudau, gan ddysgwyl gweled y llew yn dyfod yn ol, a chan benderfynu gollwng cynnwysiad ei ddryll idd ei ymenydd; ond gan nad oedd yr anifail yn ymddangos, cylymai y dryll ar ei gefn, a gwnaeth ei ffordd oreu y gallai ar ei draed a'i ddwylo i'r llwybr agosaf, gan obeithio y deuai rhyw un heibio. Pan nad allai fyned yn mhellach, mewn modd rhagluniaethol daeth dyn ato, yr hwn a'i cymerodd i ddyogelwch, lle y cafodd gynorthwy, oblegyd yr ydoedd wedi colli bysedd ei draed, ac efe a fu yn gloff hyd ei farwolaeth.

THETA ETA.

---

## ALARWM I DDEFFRO Y DYNION SYDD YN CYSGU YN Y CWRDD.

[Parhad o dudal. 33.]

WEDI roddi ychydig o arwydd-nodau dyn dan lywodraeth ysbryd cysgu yn y cwrdd, yn awr caf ddangos ei ganlyniadau niweidiol a drwg. Yn gyntaf, mae'r dyn yn gwneuthur camwri dirfawr â'i gorff ei hun: pe buasai ef yn cysgu gartref buasai yn lles i'w natur ef; ond y mae cysgu yn y cwrdd, mewn brawychiadau ac ofn, yn difuddio'r dyn o'r mwynhad a allasai gael wrth gysgu gartref. Onid yw hyn yn golled ddirfawr? Hefyd, y mae y cysgwr yn fawr ofid i'r cyfryw fyddont yn ei ymyl ef ar y pryd. Mae hwnw yn ofni ei ddeffroi ef rhag i'r cysgwr ymadroddi pethau anfoesgar pan yn cael ei aflonyddu; canys o ddifrif y mae anhapion felly wedi bod ar brydiau. Clywais am dyddynwr unwaith a gysgodd yn y cwrdd. Yn ei gwsg, meddyliai fod y fuwch wedi myned i'r ysgubor at y llafur, pan sathrodd ei gyd-wrandawr ei droed i'w ddeffroi ef. Meddyliodd yntef mai y fuwch a'i gwnaeth. Yna efe a ddywedodd, "Prw'r fuwch!" gan daflu het i ganol yr addoldy, at y fuwch, tybiasai ef; ond beth oedd yno ond cynnulleidfa weddaidd o addolwyr, oni buasai iddo ef eu gyru i chwerthin ar y pryd! ac nis gwn i a beidiodd y pregethwr â gwenu am y tro. Onid yw yn rhyfedd na fyddai anhapion o'r fath yn fynychach o herwydd y cysgwyr. Mae'r cyd-wrandawr hefyd yn ofni gadael ei gydgreadur i bechu a hyny yn ngwydd ei lygaid, rhag euogi ei gydwybod gerbron Duw. Fel hyn mae'r dyn hwn yn cael mwy o boen na phleser yn y cwrdd; a hyny o herwydd y cysgwr sydd yn ei ymyl.— Ond pa beth a ddywedaf am yr effeithiau y mae yn adael ar berthynasau y cysgwr. Mae y cyfryw yn sicr o blygu eu penau gan gywilydd. Ymdrechu cadw eu golwg ar y pregethwr, ond cil-llygaid fyth ar y cysgwr, gan ddywedyd yn eu meddwl, "O! pe bawn yn nes atat ti mi wasgwn dy drwyn." Ac felly llawer o bethau sydd yn llanw meddwl ei berthynasau. Dygwydda weithiau fod y gwr yn cysgu, a'r wraig yn ei ganfod ef; yna hi a ofyna iddo ef yn ol dyfod adref, "Paham y cysgasoch yn y cwrdd?" Yna y cysgwr a syber-wada, gan ddywedyd, "Nid oeddwn yn cysgu, wraig." Y wraig a'i hetyb, "Nid oeddech! y dyn, na ddywedwch ac na wadwch wrthyf fi, canys gwelais eich cyd-wrandawr yn eich deffroi ddwy neu dair gwaith." Yna y gwr chwyrn a'i hateba, "Eich hanwiredd chwi yw hyny; canys gwrandaw yn ddwys oeddwn i, ac nid llygad-wibio fel chwi a'ch cyffelyb." Fel y gwelwch fod y teulu wedi myned ben-ben â'u gilydd, dim ond o achos cysgu yn y cwrdd. Dygwyddodd i rieni geryddu eu plant am chwerthin ar lofft y tŷ cwrdd, pan yr atebasant hwythau, "Yn wir chwi ddylech geryddu eich brawd am gysgu yn yml y bwrdd, cyn ein ceryddu ni am chwerthin yn y cwrdd, canys yr oedd yn debycach i hwrdd nac i Gristion o ddyn," &c. Dyma bechod wedi achlysuru pechod arall gwaeth ato. Beth pe dygwyddai i bawb gysgu yn y cwrdd ar unwaith, pa fath gwrdd fyddai hwnw? Pwy ddychymmygai y cai Duw addoliad yn y cyfarfod hwnw? O ran y cysgwr byddai delw mor fuddiol yn y gadair a'r ymadroddwr mwyaf hyawdl, a llyfr breuddwydion a atebai gystal dyben a llyfr Duw.

Pe cesglid yr holl gyswyr mewn llongau i'w danfon i Lapland, lle mae hanner blwyddyn o nos, i gael gwledd o gysgu, hwyrach y cawn eu cadw yn effro yn y cwrdd ar ol dyfod yn eu hol. Dilynwch y cysgwr i'r ffair, canfyddwch ef yno mor effro ag undyn, pwy bynag; ond yn y cwrdd yn nghanol dyffryn cwsg cyn pen hanner awr! Mae yn annhebyg fod dyn yn cael un fendith

enaid pan yn cysgu, canys pa fendith fyddai'r nefoedd pe dygwyddai iddynt gysgu yno? Nid wyf am ameu nad oes dynion da yn cael eu blino gan y drwg hwn fel drygau eraill, ond rhyfedd na fyddai parch i'r gynnulleidfa yn peri iddynt ymatal yn ei erbyn. Gwell a fyddai iddynt fyned allan a dyfod i mewn drachefn, nac ymollwng dan draed y gelyn, gyda'r rythr cyntaf o'i ymosodiad. Beth! a ydyw enaid yn llai peth yn ei olwg na marchnad i'w gynhyrch a'i anifeiliaid? ac a gaiff y pregethwyr golli eu cysgu i fyfyrio pa beth i'w ddywedyd uwch ben cysgaduriaid? A gaiff angylion y drydydd nef fyned o'r oedfeuon heb un newydd gwell i'w Harglwydd na bod y Cymry yn cysgu wrth wrando yr ewyllys ddwyfol? O gysgedigion! a gaiff y pregethwr son am Fab Duw, yn ei boenau a'i ludded, yn gweddio ddyfalach, ddyfalach, yn cario ei groes ar ei gefn clwyfus i Galfaria. ac yn llefain yno, "Eloi, Eloi!" a marw dan wg ei Dad, er mwyn dyn, eto dyn yn cysgu? O warth y rhyw ddynol! Eto, er pob peth, mae rhai Cristionogion yn euog o hyn hyd y nod wrth fwrdd yr Arglwydd; ac oni byddai i'r swyddog eu deffroi elai yr ordinhad heibio heb yn wybod iddynt! Enaid anwyl! dy ddydd gweithio a llafurio erbyn tragywyddoldeb ydyw pob oedfa a gefaist ti a finnau erioed: mae ein haul-ddydd yn mron machludo —derfydd ein haf—y mae gauaf yn agoshau, a'r nos yn dyfod pan na ddichon neb weithio. Cawn gysgu yn llwch y bedd, lle nad oes gwaith na dychymmyg, canys yno y gorphwys y rhai lluddiedig; ond fe ellir dannod i'r cysgedigion ymadroddion Crist i'r Phariseaid, fel hyn, "Canasom bibau i chwi, ond ni ddawnsiasoch;—galarnad, ond ni chwynfanasoch;" eithr cysgu wnaethoch chwi: ond y mae yn rhaid deffro yn y farn, wrth roddi cyfrif am gysgu yn oedfeuon gras. Gan hyny "deffro di yr hwn wyt yn cysgu" ar frys, "a chyfod oddiwrth y meirw, a Christ a oleua i ti." Felly y byddo. Amen.

## TRIOEDD NEWYDDION.

Tri pheth anhawdd eu cuddio—surdoes mewn blawd, eira ar berwyn, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth bair i ddyn wneud son am dano—lladrata, lladd, a chysgu yn y cwrdd.

Tri pheth cas gan bob duwiol—gweddio mewn llyfr, gwrando pregeth heb Grist ynddi, a chysgu yn y cwrdd.

Tri rhinwedd i ymestyn atynt—talu hen ddyledion, bod mewn heddwch â'r cymmydogion, a pheidio cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth i'w cadw mewn cof—dydd Sabboth, dydd y farn, a pheidio cysgu yn y cwrdd.

Tri dyn i'w gosod ynghyd—dyn dall a byddar, dyn wedi marw, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth dyr galon pregethwr—ceffyl cloff, gwely damp, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth da gan bregethwr—llygaid i ddarllen, gorsedd gras i weddio, a dynion yn gwrandaw heb gysgu yn y cwrdd.

Tri pheth i'w ffieiddio—cynhenwr mewn diod-dy, diogyn yn amser cynhauaf, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth da mewn eglwys—goleu i ddarllen, tân i ymdwymno, a gwely i'r sawl fyddont yn cysgu yn y cwrdd.

Tri dyn cas i'w gweled—gwr yn curo ei wraig, meddwyn yn cerdded, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri phechod mawr—chwerthin mewn angladd, meddwi yn y cymun, a chysgu yn y cwrdd.

Tri pheth cas mewn cwrdd—plant yn llefain, cwn yn ymladd, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth anhawdd eu dyoddef—tân ar groen, brycheuyn mewn llygad, a dyn yn cysgu yn y cwrdd.

Tri pheth bair gywilydd i ddyn—bwyta mwy na digon, tyngu anudon, a chysgu yn y cwrdd.

Tri pheth na fydd yn y nef—canwyll i oleuo, cymmydogion yn ymgyfreithio, a dynion yn cysgu yn y cwrdd.

Fy nymuniad yw, a'r i hyn o linellau fod yn foddion i gywilyddio a hefyd i argyhoeddi y cysgwyr, rhag dygwydd iddynt beth a fyddo gwaeth.

*Columbus, O.* *Cyf.* L. N. Lewis

## GALAR-GAN

### THOMAS ELIAS AC ENOCH MORGAN,

MINERSVILLE.

Yn myd y trallodion wyf eto,
Hen angeu a rwygodd fy mron,
Symudodd fy mrodyr mor odiaeth,
'Maent heddyw dan gauad y don;
Dan gloion y glyn maent yn gorphwys,
Weis culwys a boddus heb wad,
Yn dawel heb ofid na blinder,
Er maint y gorthrymder a ga'd.

Galaru, hiraethu 'rwyf weithion
Wrth golli cyfeillion mor gu,
Yn anwyl a rhwyddwych ymroddent
Boddlonent i 'wyllys eu Rhi;
Yn ddiwyd treuliasant eu d'wrnod,
Hoff gyfnod i lychod y llawr;
Bydd cofio am dani'n dragywydd
Mewn ardal uwch caerydd y wawr.

Rhai ffyddlon o Seion symudwyd,
Fe'u hunwyd ag engyl y ne';
Mae'r eglwys o'r herwydd mewn hiraeth,
Du alaeth a lanwodd y lle:
'E deimlir y golled,—rhwyg hollol,
Yn monwes yr ysgol y sy',
Yr athraw a'r plentyn orchuddir,
Trist wylir y deigr yn lli'.

Elias ac Enoc anwyla'
Hiraethu am danoch 'rwyf 'nawr,
Myfi wedi'm gadael yn Seion,
Yn nghanol trallodion y llawr;
A chwithau yn canu fyth yna,
Uwchlaw pob rhyw loesau byth mwy,
Per-byngcio yr anthem bereiddfwya,
Am waed yr Iachawdwr a'i glwy'.

Ai enwog yw dinas Caersalem,
Ei 'strydoedd a'i pherlau mor syw,
i theml a'i hardd adeiladau,
Yr oresdd lle'r eistedd Oen Duw?
Gwlad nefol a golud gogoniant
Yn feddiant i bryfed mor wael;
Llanerchau Paradwys i rodio,
Awelon y Ganaan wen hael.

Per-arogl bryn y per-lysiau,
Pleserau ddylifant trwy'r wlad,
Rhyw ganu diddarfod i'r Duwdod,
A moli Mab priod y Tad;
Mor ddedwydd yr ydych chwi yna,
Yn gwledda drwy'r cariad a gaed,
Y palmwydd a'r goron, mewn mwyniant,
A diolch am rinwedd y gwaed.

Mi garwn gael gwybod yn ebrwydd
Pa dywydd yn nghysgod y glyn,—
Y niwaid yr aethoch chwi drwyddynt,
Ba helynt fu arnoch bryd hyn?
Ai dofon yr afon lle rhodioch
Gyferbyn â dinas ein Duw?
Beth heddyw am rwystrau'r gelynion,
Mynyddoedd tywyllion eu lliw?

"Ni aethom yn iach drwy'r blinderau,
Ni glywsom ruadau y dw'r;
Ofnadwy a chwerw yw marw
Heb gymhorth ein Tarian a'n Twr.
Yr Iesu, ein grasol Iachawdwr,
Cu Awdwr ein cysur a'n braint,
A'n nerthodd o wendid i gyrhaedd
Tragwyddol orphwysfa y saint.

"O fryniau trigfanau dedwyddwch,
Bro elwch edrychwn i lawr,
A seiniwn ar danau Hosana,
Gogoniant drwy'r nefoedd yn awr."
Pa bryd y caf finau gyrhaeddyd,
Hen oror—hawddamor y wlad;
Caf lanio yn mhorthladd Caersalem,
A gweled fy mrodyr mwyn mad.

Fy mrodyr, mawr awydd sydd arnaf,
Ddod atoch byth yna i fyw;
I ganu am glwyfau'r Gwaredwr,
A gras fy Iachawdwr a'm Duw;
Daw boreu ca'm henaid fyn'd gartref,
Pryd hyn byddaf finnau mewn hoen,
Wrth gwrddyd a'm brodyr ysbrydol—
Hwyl nefol i ganmol yr Oen.

IEUAN DDU.

## SEFYLLFA FOESOL DYNOLRYW.

"Ac y byddwch megys duwiau."

HAEDDBARCH OLYGYDD,—Dichon na chafodd un ran o araeth y sarff wrth ein rhieni cyntaf gymmaint o ddylanwad ar eu meddwl a'r awgrymiad cynnwysedig yn y rhan uchod.

Os felly, pwy ryfedd os ydyw dynoliaeth idd ei chanfod oddi yno hyd yn awr fel a'i llygad ar a'i hymgais at hyny yn mhob cyssylltiad? Os oes amheuaeth yn y meddwl o barthed i wirionedd y gosodiad, craffer arni yn ei changhenau; os felly, dichon y canfyddwn arwyddion a'n cymhellant i gredu yn ddibetrusder fod pob cangen darddedig o'r boncyff o ddynoliaeth i raddau dan ddylawad ysbryd balch a chwyddedig yn ei wahanol hymgeisiadau. A chan y dichon fod y dull a'r lleoedd y mae dynion yn eu ceisio yn rhy amrywiol i ni eu cynnwys, chwilied pob dyn drosto ei hun. Canfyddwn un yn ceisio ymwthio i sedd Duw, ac yn dywedyd, Dringaf yn uwch na'r cymylau—tebyg fyddaf i'r Goruchaf. Un arall mewn lle a dull gwahanol, trwy dybied am Dduw ei fod yn gwbl fel ef ei hun, &c. Ond y mae un peth i'w ryfeddu uwchlaw y cyfan, sef yw hyny, nad oes yr un o'r canghenau yn gallu arddangos yr arwyddion a nodwyd yn eglurach na'r canghenau hyny a ymdrechant wadu eu cyssylltiad â'u gwreiddyn! Digrif, onite, fyddai eu clywed mai hwy sydd yn dwyn eu gwreiddyn? Ond fe ddywedant yn ddigon difloesgni beth sydd yn hollol mor wrthdrawiadol a hyny, sef nad oes yr un cyssylltiad rhyngddynt hwy ag ef; ac fod yn anmhosibl, yn unol â natur rhyw lywodraeth sydd ganddynt, i ddim o'i felusder na'i chwerwder gael ei drosglwyddo iddynt hwy mewn un modd. Cofier mai y chwerwder a berthyna i'w gwreiddyn sydd yn wrthodedig ganddynt. Ond cofier hefyd gyda llaw, os ydyw natur eu llywodraeth yn atal y naill oddi wrthynt, y mae hefyd o angenrheidrwydd yn atal y llall. Ond na thwyller ni, y mae *dynoliaeth, trosedd*, ac *euogrwydd* wedi cael eu cylymu â'u gilydd yn y fath fodd ag y meiddiwn roddi her i bob llaw a thafod hunan-geisiol o fewn y bydysawd eu hysgar. O ganlyniad, os yn feddiannol ar y cyntaf, gallwn fod yn ddyogel am y ddau a'i dilyna. Hefyd, heblaw fod y gwahanol ddeddfau yn rhwym o wrthsefyll y fath ymgais hunan-geisiol a gwrthdrawiadol, credwn, a hyny nid oddiar eiriau yn unig, ond hefyd oddiwrth weithred, fod hyfrydwch ei Chreawdwr yn gymmaint yn y natur ddynol, fel nas goddefai i'w changhenau, dan ddylanwad egwyddorion *Anwn*, fyned a gwneud *auction* ar y rhagoriaethau a'r melusderau a berthyna iddi, a thaflu, pe gallent, y rhelyw gwrthodedig ganddynt hwy i ebargofiant tragywyddol. Na, na, nid felly, gyfaill; ni adwaenir y fath rhaniadau yn neddf-lyfr dynoliaeth; os wyt am fod yn feddiannol ar ddim o honi rhaid i ti ei medda yn ddieithriad yn yr holl chwerwder a'r melusder a berthyna iddi yn ein rhieni cyntaf, y dydd y dywedodd eu Creawdwr, "Melldigedig fydd y ddaear o'th achos di." Wel, syndod, meddai rhyw un, a oes rhyw felusder yn perthyn i'r natur ddynol? Enaid anwyl, y mae y melusder, y cyfoeth, yr anrhydedd, a'r gogoniant, a berthyna iddi yn ei hundeb â'i Chreawdwr tu hwnt i'w llygad, na'i chlust, na'i chalon allu eu cynnwys na'u hamgyffred ond yn unig mewn rhan; o ganlyniad, geill waeddi yn ngwyneb pob gofid a galar a enillodd iddi ei hun pan o dan ddylanwad ei gelyn, yn tori deddf ei Chreawdwr; ie, meddaf, gall waeddi yn eu gwyneb oll, "Rhagor-amlhaodd gras." A diolch i'r Nefoedd am hyny. Yn awr, enaid gwerthfawr, na thwyller di, ac na thwylla di dy hun, ond gwybydd a chred, mai i'r ddynoliaeth hono ydoedd yn gynnwysedig yn

Adda ac Efa, nid yn unig cyn, ond hefyd pan ydoedd ffrwyth y pren gwaharddedig rhwng eu dannedd; ie, enaid, dyma y ddynoliaeth i ba un y perthyna "anchwiliadwy olud" ein hanwyl Harglwydd Iesu Grist. Ac y mae mor wired â'r gwirionedd ei hun, oddieithr i ti gael dy eni o amgenach hâd na'r hâd llygredig o ba un y'th anwyd unwaith, a thrwy hyny ddod yn etifedd y bendithion a ddaeth trwy ufudd-dod Adda'r ail, y bydd y melldithion a ddaeth trwy anufudd-dod yr Adda cyntaf yn dy ddilyn, ie, enaid, a hyny yn fanol, yn yr ysbrydol a'r anfarwol fyd, dim gwahaniaeth pwy ydwyt, na beth yw grym dy falchder chwyddedig a hunan-geisiol. Fe brofa y pethau hyn eu hunain maes o law, oddieithr i ti allu profi dy fod yn rhywbeth heblaw dyn; neu ynte dy fod yn hanfodi o ryw ddynoliaeth heblaw yr un dan sylw, yr hyn sydd yn debyg o fod yn ormod o orchwyl; o ganlyniad, fel y byddo da i ti yn yr amser a ddaw, cred air Duw, yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, fod "barn i gondemniad wedi dyfod ar bob dyn trwy gamwedd un." Rhuf. 5. 8, &c.

[I'w barhau.]

IOAN O FORT SCHUYLER.

## CYFARFOD TRIMISOL MARCY.

### Anerchiad o barth y Seren Orllewinol.

CYNNALIWYD y cyfarfod hwn ar yr 8fed a'r 9fed o Ionawr diweddaf. Dechreuwyd y gynhadledd prydnawn dydd Mercher. Ac yn mhlith materion eraill ag yr ymdriniwyd â hwynt, nodwn achos y 'Seren Orllewinol.' Traddodwyd amryw areithiau cynnwysfawr a grymus ar deilyngdod y Seren; a chredaf fod pawb yn teimlo eu rhwymedigaeth i'w derbyn a rhoddi pob annogaeth iddi i fyned yn mlaen, fel yr unig gyhoeddiad perthynol i'r Bedyddwyr Cymreig yn y wlad. Mae yr ystyriaeth hon ynddi ei hun yn ddigon i gynesu calon pob Bedyddiwr tuag ati. Mae y Seren yn sefyll yn yr un berthynas â ni fel enwad ag y mae y gweinidog yn ei ddal â'r eglwys. Fel ag y mae y gweinidog yn ymddibynu ar yr eglwys am ei gynnaliaeth, felly y mae y Seren yn ymddibynu ar enwad y Bedyddwyr am ei chynnaliaeth. A dylem gofio mai nid elusengarwch ydyw yr hyn ag ydym yn ei gyfranu tuagat y Seren. Mae yn ddyled arnom, ac y mae pob dyn gonest yn talu ei ddyledion. Os ydym ni yn rhoi arian, &c., i gynnal y Seren, mae hithau yn rhoi goleuni i ninau yn eu lle. Mae y Seren wedi ein gwasanaethu ni yn ffyddlon er ys blynyddau. Bu amser pan oedd ymosodiadau llenyddol yn cael eu gwneud ar y Bedyddwyr. Yn yr adeg yma gwnaeth y Seren ei hymddangosiad cyntaf yn y byd gorllewinol. Taflodd ei goleuni llachar ar athrawiaethau crefydd. Amddiffynodd gymeriad, egwyddorion, ac ordinhadau y Bedyddwyr yn y fath fodd nes peri i'r personau hyny a fynai greu rhagfarn yn meddwl y cyhoedd yn eu herbyn wridio, ac yn y diwedd ddystewi. Fel hyn mae y Seren wedi ein gwasanaethu ni am amser maith, ac y mae ganddi lawer o waith i'w gyflawni eto. Mae wedi rhoi llawer o wybodaeth—llawer o fendithion, ac y mae ganddi lawer yn ychwaneg i'w gyfranu.—Mae y Seren wedi eich amddiffyn chwi pan oedd yn gyfyng arnoch, a wnewch chwi droi eich cefnau arni hi yn awr yn ei chyfyngder? Byddai hyny yn anniolchgar. Byddai yn angharedig. Byddai yn anheilwng o Fedyddwyr! Gobeithio eich bod dan lywodraeth egwyddor uwch. Mae yn wir fod cyhoeddiadau eraill i gael gan y Cymry yn y wlad hon; ac y mae y cyhoeddiadau hyny yn cael eu cynnal yn anrhydeddus, ac y mae hyn yn dylanwadu yn fawr er gwneud yr enwadau a'u rhodda allan yn llwyddiannus ac anrhydeddus. Nid ydym yn dywedyd dim yn erbyn y cyhoeddiadau hyn, ond yr ydym yn eu canmol, ac y maent yn deilwng o'u canmol. Nid ydynt yn myned allan o flaen y cyhoedd a gwynebau llwydion a darfodedigaeth yn argraffedig ar eu gwedd, fel pe buasent wedi bod yn byw ar *elusengarwch*, yr hyn yn yr oes hon sydd ddull boneddigaidd a chrefyddol o *lwgu* creaduriaid. Na, na, nid dyma eu hymddangosiaid. Mae eu gwynebau iachus a dysglaer yn dangos eu bod yn byw ar frasder y tir. Mae yr enwadau parchus ag sydd yn rhoi y cyhoeddiadau hyn allan yn gweled gwerth cyhoeddiadau misol, ac felly yn ymdrechu fel un gwr i'w cynnal. Maent hwy yn anrhydedd i'w cyhoeddiadau, ac y mae y cyhoeddiadau yn eu hanrhydeddu hwythau; ac fe fyddant yn anrhydedd iddynt mewn oesau dyfodol. Ond y mae arnom ni eisiau cyhoeddiad ein hunain. Mae gan yr enwadau eraill eu cyhoeddiadau, ac y mae genym ni egwyddorion fel hwythau. A ydyw yr egwyddorion hyny yn deilwng o'u pleidio? A ydynt yn deilwng o gael eu dangos gerbron y byd? os ydynt, daliwch eich cyhoeddiad i fynu. Pa fodd y gall y Bedyddwyr gynnal cyhoeddiad os byddant yn derbyn cyhoeddiadau eraill, ac yn gwrthod eu cyhoeddiad eu hunain? Os ydych yn derbyn y 'Cenhadwr,' y 'Cyfaill,' neu y 'Drych,' y mae hyny yn rhinwedd ynoch, ond os ydych yn gwrthod y 'Seren,' mae hyny yn fai ynoch. Eto y mae llawer yn euog o hyn. Nid ydym am anog y cyfryw i roi y cyhoeddiadau eraill i fynu, ond erfyniwn arnynt i ychwanegu atynt y Seren; ac wrth dderbyn y Seren byddwch

yn dangos eich cymeradwyaeth o egwyddorion y Seren, yr hon sydd yn amddiffyn eich egwyddorion eich hunain. Peth nesaf at wrthgiliad ydyw gwrthod y cyhoeddiad misol. Dichon fod rhai Bedyddwyr nad ydynt yn derbyn yr un papyr crefyddol. Wrth y cyfryw y dywedwn, fod gan y Seren fil mwy o ddylanwad nag sydd gan y pregethwr ag y maent hwy yn ei wrando. Efallai fod y pregethwr yn llefaru wrth gannoedd, ond y mae y Seren yn llefaru wrth filoedd. Darllenir yr un rhifyn fe ddichon gan ddegau, a bydd rai yn ei darllen mewn oesau dyfodol. Pe argreffid y bregeth hono a fuodd yn foddion i'w dychwelyd hwy at yr Arglwydd yn y Seren, cawsai ei phregethu i gannoedd lawer trwy y talaethau, a gallai fod yn foddion i achub ugeiniau, yn lle ei bod yn syrthio i dir anghof. Yr wyf yn meddwl pe buasai pregethwyr a gweinidogion y Bedyddwyr yn edrych ar y mater yn y goleuni yma, y buasent yn defnyddio mwy ar yr ysgrifell mewn modd cyhoeddus, ac yn danfon mwy o ffrwyth eu myfyrdodau i'r Seren nag y maent wedi bod yn yr arferiad o'i wneud. Gobeithio y ceir gweled diwygiad yn hyn y flwyddyn bresennol. Mae ein hoes yn fyr, o ganlyniad dylem ddefnyddio pob cyfleusdra i wneud daioni, yr hyn ydyw dyben ein bodoliaeth. Yn y modd hyn ni allwn orchfygu angeu, a llefaru wrth ein cydgreaduriaid pan y byddom ni yn y bedd. Mae y wasg yn gwisgo dyn ag anfarwoldeb, yn ei wneud ef bron yn hollbresennol, a throi yr holl fyd yn un pulpid i rinwedd a daioni. Drwy y wasg y gall y pregethwr drosglwyddo ei bregethau o oes i oes, ac o genedlaeth i genedlaeth, hyd oni wawria dydd mawr y cyfrif. Gall fod yn bresennol gyda holl deuluoedd y byd ar un Sabboth, ac anerch holl deuluoedd y ddaear ag un llais. Mae ein gallu ni i wneud daioni, ac i ledaenu teyrnas y Cyfryngwr yn fil mwy nag eiddo ein tadau, ac y mae ein rhwymedigaeth yn gyfartal i'n dyledswydd bob amser. Pwy yntau wrth edrych fel hyn arnynt a ewyllysia weled un o'r cyhoeddiadau misol yn cael ei roddi i fynu. Nid oes gormod o gyhoeddiadau yn ein gwlad, ein dymuniad yw eu gweled oll yn llwyddo. Pwy fynai ladd "Cyfaill?" Pwy fynai erlid ac ysbeilio "Cenhadwr" diniwed a haelfrydig? Pwy fynai ddryllio "Drychau?" A phwy fynai ddiffodd y "Ser?" Neb; yr ydym yn egwan ac yn amddifad, ac yn agored i gyfeiliorni yn barhaus, o ganlyniad y mae arnom eisiau "Cyfaill." Yr ydym yn byw yn mhell oddiwrth ein gilydd, ac y mae arnom eisiau "Cenhadwr" i deithio yn ein plith. Mae y byd yn llawn cymysgedd o gyfeiliornadau a gwirionedd, o ganlyniad y mae eisiau Dethol-ydd, i ddethol y gwerthfawr oddiwrth y gwael. Mae llawer o bethau drwg a niweidiol yn perthyn i ni nas gallwn eu gweled ein hunain, ac y mae eisiau dal Drychau o'n blaen. Yr ydym yn dywyll ein hunain, ac yn byw mewn byd tywyll, a buasai yn well genyf fi ymestyn at gael ychwaneg o Sêr na cheisio diffodd yr hon sydd yn llewyrchu mor ffyddlon i ni yn wir.

Gyda golwg ar y Seren, penderfynodd y cyfarfod ein bod ni yn rhoi pob anogaeth iddi i fyned yn mlaen; ein bod yn barod i'w chynorthwyo drwy ysgrifenu iddi, &c., ac yn erfyn ar ein brodyr weithredu yn yr un modd mewn lleoedd eraill.

Penderfynwyd hefyd fod y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn Utica.

Cafodd rhanau cyhoeddus y cyfarfod eu dwyn yn mlaen fel arferol. Y pregethwyr oeddynt D. J. Williams, Steuben; W. Jones, Remsen; D. Jenkins, Utica; Morris J. Williams, South Trenton; John Huges, Marcy.

*Marcy.* A. Harris, *Ysgr.*

## Y WELSH YANKEE.

Mr. Editor,—Fi dim gwybod a fyddwch chi boddlon i mi rito i'r Seren, but fi wedi meddwl rito iddi lawer tro. Fi wedi colli yr Welsh, am bod tad a mam fi wedi dysgu fi i speco English. Fi a llawer o news eisiau ei rito i'r Seren, os byddwch chi yn dewis. Fi am roddi hanes ni fel teulu, a crefydd hefyd, a hanes y Yankees; a fi yn meddwl treio dysgu peth ar y Welsh, er mwyn roi learning i eraill, oblegyd fi wedi gweled llawer bellach. Fi yn meddwl rito y gwir am lawer peth, oblegyd bod llawer o'r Welsh yn ignorant. Gwnaf rito i'r Seren hyd nes y stopiwch fi, neu i mi fethu, a thalaf y postage am bob llythyr: but fi digon boddlon i bawb i rito fel maent yn gweled oreu, a pwy wyr na wneiff Gwen my wraig i rito hefyd: but fi darfod yn awr yn fyr. Welsh Yankee.

## DIOLCHGARWCH I MR. T. TOMKINS, PITTSBURG.

Diolchus wyf i Mr. Tomkins llon
Am anrheg dda ar ddechreu'r flwyddyn hon,
Sef Llyfr gwych yr enwog Hervey hael,
Yn iaith fy mam, mor ddyddan yw ei gael.
Llawn yw o iaith deg, odiaeth, a digoll,
Pob meddwl-ddrych yn wych geir ynddo oll.
Myfyrdod dwys yn mhlith y beddau sydd
O'i fewn yn dlos, i'n dysgu nos a dydd.
Ac mewn modd hardd, am ardd o flodau per,
Ac hefyd am y nen a'r siriol ser;
A thraethawd am y gauaf ynddo cawn,
Testynau cu yn llu geir ynddo'n llawn.
Caiff genyf barch hyd arch fel trysor drud,
Eich cofio wnaf tra byddaf yn y byd,
Am rodd mor llawn o ddawn fel ffrydiau lli',
Ffarwel, mewn hedd, wr mwynaidd iawn i mi.

*Pittsburg, Ion.* 1851. Iorwerth.

## WIDOWED INEBRIATE'S LAMENT.

BY AUGUSTUS J. B. DUGANNE.

I'M thinking on thy smile, Mary—
Thy bright and trusting smile,
In the morning of our youth and love,
Ere sorrow came—or guile:
When thine arms were twined about my neck,
And my eyes looked into thine,
And the heart that throbbed for me alone
Was nestling close to mine!

I see full many a smile, Mary,
On young lips beaming bright,
And many an eye of light and love
Is flashing in my sight:
But the smile is not for my poor heart,
And the eye is strange to me,
And loneliness steals o'er my soul
When its memory turns to thee!

I'm thinking of the night, Mary,
The night of grief and shame,
When with drunken ravings on my lips
To thee I homeward came.
Oh! the tear was in thine earnest eye,
And thy bosom wildly heaved,
Yet a smile of love was on thy cheek,
Though the heart was sorely grieved;

But the smile soon left thy lips, Mary,
And thine eye grew dim and sad;
For the tempter lured my steps from thee
And the wine cup drove me mad.
From thy cheek the roses quickly fled,
And the ringing laugh was gone,
Yet thy heart still fondly clung to me,
And still kept trusting on.

Oh! my words were harsh to thee, Mary,
For the wine cup drove me wild;
And I chid thee when thine eyes were sad,
And I cursed thee when they smiled.
God knows that I loved thee then,
But the fire was in my brain,
And the curse of drink was in my heart
To make my love a bane.

'Twas a pleasant home of ours, Mary,
In the spring-time of thy life,
When I looked upon thy sunny face
And proudly called thee wife—
And 'twas pleasant when our children played
Before our cottage door;
But the children sleep with thee, Mary,
I shall never see them more!

Thou'rt resting in the church-yard now,
And no stone is at thy head!
But the sexton knows a drunkard's wife
Sleeps in that lowly bed;
And he says the hand of God, Mary,
Will fall with crushing weight,
On the wretch who brought thy gentle life
To its untimely fate!

Dymunir cyfieithad o'r penillion uchod gan L. J.

## LLYTHYR O CALIFORNIA.

*At Olygydd y Seren Orllewinol.*

*Dinas Neveda, Rhag.* 4, 1850.

HOFFUS GYFAILL,—Gwyddom trwy brofiad fod "newyddion da o wlad bell fel dyfroedd oerion i'r enaid sychedig," ac yn neillduol y maent felly pan yn dyfod oddiwrth, ac yn dal cyssylltiad â chyfeillion hoff a mynwesol.

Y fan lle yr ydym yn gwersyllu, (o herwydd dyma ein dull o siarad) a elwir Dinas Neveda, tua 80 milldir i'r gogledd o Ddinas Sacramento. Dullwedd y wlad oddiamgylch sydd fynyddig ac anwastad, ac y mae yr hinsawdd yn llawer oerach nag ydym mewn rhanau eraill o'r wlad, lle y maent wedi darganfod y mwn gwerthfawr; ond nid ydym wedi profi un anhawsder neillduol oddiwrth yr hin hyd yn hyn, ond i'r gwrthwyneb, ni welsom y fath hinsawdd iachus yn ein bywyd ag ydym yn fwynhau yn y parthau hyn o'r wlad. Profir hyn yn amlwg oddiwrth sefyllfa iachus y mwnwyr; ac am farwolaethau, nis gellir eu cymharu i amryw fanau o'r talaethau, lle mae poblogaeth mor lluosog. Am danom ni, gallwn ddywedyd na fwynasom erioed gystal iechyd ag ydym yn fwynhau yn bresennol, ac wedi ei fwynhau er pan ydym yn y wlad.

Fe ddaeth y tymhor gwlawog i mewn tua yr 20fed o'r mis diweddaf; cawsom rai cafodydd tua dechreu mis Medi, ac wedi hyny ni chawsom ddim gwlaw hyd yr 20fed o fis Tachwedd, ac wedi yr 20fed yr ydym wedi cael llawer iawn o wlaw. Y mae yn gwlawio yn gyson am ddau neu dri o ddiwrnodau; ac yna y mae yn atal, a chawn dywydd fel y gallwn weithio. Yn ol dim a allwn ddysgu oddiwrth ddynion sydd wedi byw yma am auaf neu ddau yn flaenorol, nis gallwn weithio dim rhagor na thua thri diwrnod o'r wythnos. Nid ydym wedi cael dim eira hyd yn hyn. Yr ydym wedi parotoi yn brydlawn gyferbyn â'r gauaf. Y mae genym *log cabin* cynes a chyfleus wedi ei adeiladu, ac y mae mor ddiddos fel nad oes diferyn o ddwfr yn dyfod i mewn yn un man. Ac hefyd, yr ydym wedi cael ein hymborth gauaf i mewn yn gryno am brisoedd lled rhesymol: talasam y peilliaid. $25 y cant; pytatws, $30; y *pork*, $35; ymenyn, 80 cents y pwys; *fresh beef*, 30 cents y pwys; afalau sychion, 50 cts. y pwys; siwgr, 40 cents; coffee, $1; halen, 40 cents: ffa, 40 cents; *molasses*, $1 25 y chwart, a phob peth arall mewn cyfartalwch. Mae pob math o ymborth i'w cael am hanner y prisoedd ag oeddent y flwyddyn ddiweddaf, ac felly y mae gyda golwg ar gyflogau: yn lle eu bod yn talu wns y dydd, nid ydynt yn talu ond oddeutu hanner wns, neu o hyny i ddeg dolar. A thyma *average* cyflogau mwnwyr, crefftwyr a phob math o weithwyr trwy y wlad.

Mae amryw ddulliau o weithio gan y cloddwyr yn y cylchoedd yma. Mae rhai yn gweithio mewn nentydd sychion, yn taflu y pridd i fynu yn bentyrau, i aros hyd nes y cant ddwfr i'w olchi. Mae eraill yn gweith-

io mewn *creeks*, ac yn defnyddio math o gryd i olchi y llaid. Mae eraill yn *sinkio* i lawr yn ddwfn i'r ddaear, o ugain i dringain o droedfeddi, ac ar ol cyrhaedd y *bed rock* maent yn *drifto*, gan weithio yn llwyddiannus iawn. Y mae eraill yn *sinkio* tri neu bedwar o dyllau, fe ddichon, ac yn methu cael dim. Nis gellir gweithio yn rhwydd yn y mwngloddiau olaf yn y gaeaf, o herwydd y dwfr; ond bydd gan lawer o honynt hwy, fel y rhai blaenaf, ddigon o waith i olchi yr hyn a fyddont wedi ei daflu i fynu yn flaenorol.

Y mae cymdeithas yma yn wahanol iawn i'r hyn ydyw y talaethau. Yn un peth y mae yma gymmaint o amrywiaeth cenedloedd—y mae yn ein hymyl ni Saeson, New Zealanders, Portigues, Chiniaid, Daniaid, Gwyddelod, Braziliaid, Americaniaid a Chymry—dynion o bob gradd a sefyllfa, o'r *professor* hyd y labrwr, oll yn gydradd, a heddwch a thangnefedd yn teyrnasu. Mae yn nepell oddiwrthym lwyth o Indiaid yn gwersyllu. Nid oes diwrnod yn myned heibio nad oes rhai o honynt yn dyfod i'n gweled. Y maent yn gwbl heddychlon a chyfeillgar; mae rhai o honynt yn gweithio yn lled gyson, ond y rhan fwyaf o honynt ydynt ddiog a segurllyd, yn byw ar *acorns*, y rhai y mae y menywod yn ei gasglu, o herwydd y mae *squaw* yn gwneud cymmaint os nad mwy o galedwaith na'r gwrywiaid.

Y diffyg mwyaf yn California yw, nad oes yma ddim menywod addas i fod yn ymgeledd cymhwys i ddyn. Mae gweled menyw rhinweddol yma yn rhyfeddod mwy na dim arall. Rhyfedd, onide, mor isel y mae y rhyw fenywaidd yn myned, pan yn troddi i ddilyn llwybrau anlladrwydd ac anfoesoldeb. Mae eu dull o fyw gan mwyaf yn warth i ddynieth. Nid oes nemawr o sylw yn cael ei dalu i grefydd na phethau crefyddol yn y cylch hwedd hyn hyd yma. Nid oes ond un tŷ cwrdd yn yr holl le, yn mha un y mae pregethu ddwy waith bob Sabboth; ond braidd y gallech wybod gwahaniaeth rhwng Sabboth a diwrnod o'r wythnos yma. Y modd y treulir y Sabboth yma gan y rhan fwyaf yw trwy fasnachu, parotoi, golchi, clytio, myned i'r *store*, &c., ac eraill yn myned i hela; a rhan arall o dair yn myned i yfed a gamblio, yr hyn fe ddichon a barhaut i'w wneud trwy yr wythnos: ac eraill yn gweithio.

Mae yr aur ydym yn ei gael yn y lle yr ydym yn gweithio yn fras, ac yn wahanol iawn i'r llwch y maent yn gael mewn rai manau. Pan yn son am fras, nid ydych i feddwl ei fod yn lympiau mawrion fel eich dyrnau; ond pan fyddo o gylch maintiolaeth penau nodwyddau yma ystyriwn ef yn fras.

Tebygol iawn y bydd y newydd wedi eich cyrhaedd fod y Colera yn gwneud difrodia lau mawrion yn y wlad yma; gwir ei fod wedi cymeryd amryw ymaith yn San Francisco a Sacramento; ond ni chlywais ei fod o gwbl wedi gwneud ei ymddangosiad yn nghylchoedd y cloddfeydd, a gwn na chymerodd neb ymaith yn yr ardal yma, yr hon a gynnwys o ddeg i bumtheg mil o drigolion. Y clefydau mwyaf cyffredin yn mysg y mwnwyr yw y clefyd rhydd a'r cryd a'r mwyth.

Nis gallaf ddywedyd nemawr am y wlad yma fel gwlad amaethyddol. Nid ydyw hyd yma wedi ei phrofi ond mewn rai manau, a'r manau hyny yn cynhyrchu pob math o ffwythau yn doreithiog iawn. Maent yn codi y wynwin (*onions*) mwyaf a welais i erioed, ynghyd a phytatw ragorol, llysiau gerddi, ffrwythau, &c.

Ond beth dal son am ffarmio mewn gwlad fel hon, lle y gall pob dyn gweithgar enill o bump i wyth dolar y dydd, a byw ar ddolar, ac yn sefyll *chance* o wneud ei ffortun mewn ychydig amser; ac hefyd y mae yr holl boblogaeth wedi eu llenwi gymmaint â'r drych feddwl auraidd, fel nad oes gan ldynt unrhyw hyfrydwch i siarad na meddwl am ddim ond *rich diggins*. Mae mwngloddiau newyddion yn cael eu darganfod yn barhaus, fel y mae yr hen rai yn cael eu gweithio allan. Maent yn myned bellach bellach i'r gogledd o hyd, a pha bellaf i'r gogledd y maent yn myned, iachusaf ydynt idd eu gweithio, o herwydd meithder a gerwindeb y gauaf; ond y mae y wlad hon yn meddu manteision ar Peru a Chili, o herwydd fod yma gyflawnder o goed a dwfr, yr hyn nid oes yn y gwledydd cyfoeth og hyny heb dalu yn ddrud am dano.

Nid ydym wedi gweled neb Cymry ag oeddem yn eu hadnabod yma eto; ac ni welsom ond dau neu dri o gwbl. Yr ydwyf yn anfon yn y llythyr hwn *specimen* o aur y wlad hon, pa un a ddyn unaf arnoch ei dderbyn fel cyfaill. Yr eiddoch, &c.

MORRIS HUGHES.

## Y CYMRY A'R GOLOFN GENEDLAETHOL.

CYNNALIWYD cyfarfod cyhoeddus yn addoldy y Cynulleidfaolion yn Utica, Ionawr 22, 1851, yn unol a'r annogaeth a rodded i Gymry Utica fis yn ol, o gyfarfod yr Annibynwyr yn Remsen; i ystyried y priodoldeb i Gymry America i roddi maen yn y golofn genedlaethol, a adeledir er coffadwriaeth am yr enwog George Washington.

Galwyd y Parch. Evan Griffith i lywyddu y cyfarfod; a Mr. Ellis H. Roberts, B. A., yn Ysgrifenydd. Ar ol i'r llywydd egluro dyben y cyfarfod, a rhoddi bras-olwg ac adolygiad ar nodwedd Washington a chenedl y Cymry, efe a dynodd gasgliad yn cynnwys rheswm cryf dros y cynnygiad.

Darllenwyd i'r cyfarfod rag-draeth a threfnres o benderfyniadau, y rhai a ystyriwyd ac a eglurwyd, ac a basiwyd fel y canlyn:

Yn gymmaint a'n bod yn cydnabod fod George Washington yn ddyn a gyd-gynnullodd iddo ei hun briodoliaethau gwir fawredd yn fwy cyfan na'r rhan fwyaf o'r nodweddau a geir mewn hanesiaeth hen a diweddaf. Os adolygir ef fel rhyfelwr, ei ogoniant oedd trugaredd, ac ni thynai gleddyf ond i amddiffyn rhyddid ac uniondeb; os edrychir arno fel deddf-wneuthurwr a deddf-weinyddydd, yr oedd yn gyfiawn tu hwnt i ddifriaeth; fel gwladwr yr ydoedd yn ddifefl ac heb ei ragorach: ac fel Cristion, edrychai at Dduw am arweiniad, amddiffyniad a llwyddiant, fel Je-

hosaphat. Dyn mawr a da ydoedd—tad y wladwriaeth yn yr hon y cawsom gartref i fwynhau ein rhyddid a'n crefydd.

Am hyny, penderfynwyd, Ein bod yn anog ein cydgenedl trwy holl barthau America, i gyduno i roddi maen yn y Golofn Genedlaethol, a gyfodir fel teyrnged o barch i Washington, am ei wladgareidd-dra, a'i ddyfal-ymlyniad wrth egwyddorion llywodraeth rydd, ynghyd a'i amddiffyniad iddynt.

Penderfynwyd, Ein bod yn ol esiampl y rhai a godasant golofn Bunker Hill, yn serchus wahodd y merched Cymreig i uno gyda'r meibion yn y gorchwyl clodus.

Penderfynwyd, Gan ei bod yn angenrheidiol i gael Pwyllgor (*Committee*) canol-barthol i weithredu dros y genedl, a bod Utica yn llawn mor fanteisiol i'r cyfryw bwyllgor ag unrhyw barth arall, fod y cyfarfod yn ethol saith i fod yn bwyllgor canol-barthol, gorchwyl pa un a fydd derbyn cyfraniadau o'r gwahanol fanau at yr anturiaeth; ac arddygiad cyffredinol y gorchwyl yn mlaen, mewn cydweithiad â Phwyllgorau Cynorthwyol, a ddichon gael eu hethol yn y gwahanol sefydliadau Cymreig.

Penderfynwyd, Fod y cyfarfod yn barnu yn angenrheidiol gael o leiaf $400 tuag at brynu y maen, ei lathru, a cherfio arno, &c.

Penderfynwyd, Fod y cyfarfod yn anog y gwahanol sefydliadau Cymreig yn ddioed i ethol eu Pwyllgorau Cynorthwyol i weithredu a derbyn y cyfraniadau; ac hefyd, taer ddymunir ar y cyfryw bwyllgorau anfon yr hyn a dderbyniant i'r Pwyllgor Canolbarthol erbyn y 1af o Fehefin, 1851.

Penderfynwyd, Ein bod yn erfyn am gydweithrediad yr holl Gyhoeddiadau Cymreig, i ddwyn yn mlaen yr amcan mewn golwg.

Etholodd y cyfarfod yn Bwyllgor Canolbathol yr enwogion canlynol, Ellis H. Roberts, B. A.; Henry Roberts; L. D. Howell; David Thomas; John B. Jones; David Perry, a Thomas Hughes.

Ar ol pasio penderfyniad i gyhoeddi hanes gweithrediadau y cyfarfod yn yr holl Gyhoeddiadau Cymreig, a newyddiaduron Seisnig Utica, cynnygiwyd a phasiwyd goniriad y cyfarfod.

EVAN GRIFFITH, *Llywydd.*
ELLIS H. ROBERTS, *Ysgrifenydd.*

Dewisodd y Pwyllgor Mr. Henry Roberts yn Drysorydd, a Mr. Ellis H. Roberts yn Ysgrifenydd.

Y Pwyllgor Canolbarthol a gyhoeddant anerchiad trwy yr holl Gyhoeddiadau Cymreig, ynghyd a chynllun i weithredu, mor fuan ag y gallont.

Rhydd aelodau y pwyllgor gyfarwyddiadau unrhyw amser y gelwir am hyny.

*Utica, Ion.* 20, 1851. EVAN GRIFFITH.

---

## CYMDEITHAS DDIRWESTOL DUNMORE

*Swydd Luzerne, Pa.*

---

MR. GOLYGYDD,—Dywenydd ydyw genyf allu ysgrifio atoch am y llwyddiant mawr ag sydd wedi bod ar Ddirwest yn y gymmydogaeth hon yn ddiweddar, yn mhlith ein cenedl y Cymry. Gwybodus ydyw i lawer o ddarllenwyr y Seren i fod cynydd mawr wedi bod yn mhoblogaeth y lle hwn yn ysbaid y chwech mis diweddaf; ac fel yr oedd y boblogaeth yn lluosogi yr oedd meddwdod yn cynyddu; ac er galar rhaid cyfaddef nad oedd yn cynyddu yn gyflymach yn mysg un genedl nag yn mysg y Cymry. Yr oeddent braidd wedi myned yn waeth na y Gwyddelod (pe buasai le). Wrth weled y gelyn yn myned yn mlaen yn y fath rwysg, yr oedd plant Duw yn methu a pheidio teimlo, a theimiasant i'r fath raddau yn y diwedd nes y penderfynasant fyned allan idd ei wrthwynebu fel un gwr; ac er dwyn yr amcan i weithrediad penderfynwyd ffurfio pwyllgor er sylfaenu Cymdeithas Ddirwestol—y *gyntaf yn Dunmore*. Ymgynnullasom at ein gilydd Rhagfyr 28, 1850, pryd y cynnygiwyd i Wm. R. Jones gymeryd y gadair er llywyddu y cyfarfod, yr hyn a wnaeth, ac agorodd y cwrdd mewn araeth fer (ond cynnwysfawr), pryd y dangosodd y niwed ofnadwy ag oedd meddwdod yn ei wneud i Gymry Dunmore. yn eu gwaith, yn eu teuluoedd, ac yn eu cymeriadau—yn eu cyrff a'u heneidiau; ac i fod galwad arnom i sefydlu Cymdeithas Ddirwestol yma, er ymdrechu atal y corwynt meddwol, rhag ysgubo dynion i ddinystr a thrueni amserol a thragywyddol. Wedi anerch y cyfarfod gan ddau neu dri o frodyr eraill ar yr un testyn, aethpwyd yn mlaen a gweithrediadau y cyfarfod. Y peth cyntaf a wnaed ydoedd penderfynu swyddogion, pa rai oeddent i weithredu am y tri mis dyfodol, a dewiswyd y rhai canlynol: Llywyddion—W. R. Jones a John Lewis; Trysorydd—Elias Davies; Ysgrifenyddion—Evan Davies a James G. Owen. Yna ffurfiwyd amryw reolau er cadw y Gymdeithas mewn trefn—deg oedd ein rhifedi y noswaith gyntaf. Penderfynwyd cyn ymadael i gael cwrdd arall yn mhen wythnos.

Yr ail gyfarfod a agorwyd gan y Llywydd yn fedrus a theimladwy. Yna galwodd ar James G. Owen i anerch y cyfarfod; wedi talu ufudd-dod sylwodd yntau ar y gelyn a wrthwynebir gan y Gymdeithas, sef meddwdod; ynghyd a'r moddion neu yr egwyddor a bleidir ganddi, sef sobrwydd. Sylwodd i fod y gelyn a wrthwynebir ganddi yn milwrio yn erbyn cysur dyn fel creadur teimladwy, yn erbyn cysur dyn fel creadur rhesymol, yn erbyn cysur dyn fel creadur cymdeithasol ac yn y diwedd fel bod anfarwol. Sylwodd hefyd i fod yr egwyddor a bleidir ganddi yn milwrio o blaid cysur dyn fel bod teimladwy, rhesymol a chymdeithasol. Dilynwyd ef gan Thomas Cheshire yn ddyddorol a difyrus iawn. Yna rhoddwyd cyfleusdra i bwy bynag a chwenychai ddyfod yn mlaen i ymuno â'r gymdeithas, pryd y gwelsom nad oedd ein llafur wedi bod yn hollol ofer. Ar ddiwedd y cyfarfod cawsom i fod rhifedi yr aelodau wedi cynyddu o 10 i 39.

Yr wythnos ganlynol cawsom gyfarfod drachefn, pryd y daeth y Parch. D. E. Bowen, Carbondale, i ymweled â ni, yr hwn a areithiodd gyda y fath rym a hyawdledd, nes yr

ymunodd pawb ag oedd yn wyddfodol, onid pump. Mae pob proffeswr yn y lle wedi ymuno â ni yn erbyn y gelyn, ac nid yw rhifedi yr yfwyr Cymreig yma yn bresennol ond bychan, er eu bod yn ormod o ryw 15 neu 13 eto. Gobeithio na byddant yn hir cyn gweled eu ffolineb, ac ymlochesu dan aden y Gymdeithas Ddirwestol.

Gallwn ddywedyd hefyd i fod y Nefoedd wedi dangos ei boddlonrwydd ar ein hymdrechiadau, oblegyd gwelwyd amryw y diwrnodau canlynol (dan weinidogaeth y Parch. D. E. Bowen), yn dyfod ar ddarfod am danynt, gan ofyn y ffordd tua mynydd Duw.—Cafodd yr aelodau hefyd, pa rai oeddynt wedi bod yn hir yn rhodio ar hyd llanerchau Gilboa, eu harwain trwy ei weinidogaeth at afon Duw, ffrydiau yr hon sydd yn llawenhau y plant. Hyfryd ydyw genym weled ein brawd yn dechreu ei weinidogaeth trwy y cymmydogaethau yma, sef o Carbondale i Pittston Ferry, gydag arwyddion amlwg o fod y Nefoedd yn foddlon idd ei ddyfodiad i'n plith. UN O'R YSGRIFENYDDION.

## ANRHEG I MR. EVAN HARRIS, CARBONDALE.

Bu cyfarfod tra difyrus yn Neuadd yr Odyddion, Carbondale, nos Fawrth, Ionawr 21, er cyflwyno oriawr (*watch*) a chadwyn aur ardderchog fel arwydd o barch i'n cydwladwr teilwng Mr. Evan Harris, un o arolygwyr gweithrediadau mwnawl Cwmni Deleware a Hudson. Yr ydym yn deall fod Mr. Harris o gylch symud i Scrantonia, lle y mae i gymeryd gofal mwngloddiau Cwmni Ligget's Gap. Dewiswyd Dr. Rice Lewis yn Gadeirydd, a James Archibald, Ysw., yn Rhag-Lywydd. Y Cadeirydd a osododd allan ddyben y cyfarfod, ac yna Mr. Canavan a amlygodd yn mhellach y modd yr oedd yr anrheg wedi ei chael i ben, a hyny heb fod Mr. Harris yn gwybod dim am y peth. Dangoswyd ganddo fod Mr. Harris wedi llanw swyddau o ymddyriedaeth yn Carbondale bob amser er anrhydedd iddo ei hun a boddlonrwydd i eraill, ac wedi aberthu ei amser a roddi ei ddylanwad er llesiant naturiol, moesol a dealldwriaethol y werin. Penderfynwyd, [Fod y cyfarfod yn barchus, wrth ystyried ei werth, yn cyflwyno yr oriawr a'r gadwyn euraidd iddo trwy law y Mil. Byrnes, gan ddymuno ar Mr. Harris eu derbyn fel arwydd o'n parch tuag ato.

Gwnaeth y Mil. B. araeth wresog ar deilyngdod Mr. H., ac estynodd yr anrheg iddo, gan ddymuno iddo bob llwyddiant a'i hiliogaeth ar ei ol.

Atebwyd gan Mr. Harris mewn araeth dra theimladwy. Dymunai hynawsedd a chydymdeimlad ei gyfeillion pan yn methu gosod allan ei ddiolchgarwch. Yr oedd y meddwl am ymadael â'i gyfeillion yn Carbondale yn effeithio yn ddwys ar ei deimladau, ond yr oedd yr arwydd hyn o'u caredigrwydd, pan yn dyfod oddiwrthynt fel gwahanol genedlaethau fyth yn ddwysach. Yr oedd yn dda ganddo ymadael â hwy dan deimladau mor garedig, ac hyderai pa bryd bynag y buasai yn dyfod i ymweled â'r lle hwnw drachefn, eu cael hwynt oll, fel yr oedd yn eu gadael y noswaith hono, yn gyfeillion gwresog a gwirioneddol. Terfynodd trwy ddatgan ei ddymuniadau ar eu rhan, am eu cysuron a'u dedwyddwch amserol a thragywyddol.

Traddodwyd amryw areithiau eraill yn ystod yr hwyr. Yr oedd Mr. Archibald yn sicrhau bod ei wasanaeth wedi roddi hollol foddlonrwydd i'r Cwmni, a bod ei ymddygiadau bob amser wedi bod yn ddoeth a boneddigaidd, ac yn gyfiawn tuagat y meistri a'r gweithwyr.—Ymddangosai Mr. A. wedi ei foddio yn fawr yn ngweithrediadau y cyfarfod.—*Lackawanna Journal.*

## LLAFUR YSGOL SABBOTHOL Y BEDYDDWYR YN EBENEZER, COALPORT.

MR. GOLYGYDD,—Wele ninau, yn mhlith llawer eraill o'n cyd-genedl, yn anfon ychydig o hanes ein Hysgol Sabbothol yn y lle hwn. Mae yr Ysgol yn dra llewyrchus yn ein plith yn bresennol, ac arwyddion fod ein cenedl yn awyddus am ddysgu a chofio Gair Duw.

Llafur yr Ysgol yn ystod y tri mis diweddaf sydd fel y canlyn:—pennodau, 34; Salmau, 63; adnodau, 1,005.

Nid ydyw ein rhifedi ond bychan; o ganlyniad nis gellir dysgwyl fod ein llafur yn fawr. Ein rhif sydd fel y canlyn—Arolygydd, 1; Ysgrifenydd, 1; Athrawon, 9; Ysgolheigion, 55.

Hefyd, y mae genym i'ch hysbysu fod yr Ysgol yn y chwarter diweddaf wedi anrhegu yr eglwys ag oriawr (*time piece*) hardd, i'w osod yn y capel newydd. Taled yr Arglwydd iddynt am eu haelioni, a bendithied ei Air, yn y darlleniad a'r pregethiad o hono, i'w hachub i fywyd tragywyddol.

WM. WILLIAMS, *Arolygydd.*
DAVID D. PHILLIPS, *Ysgrifenydd.*
*Coalport, Ohio, Ionawr* 21, 1851.

## SEREN GOBAITH.

Ow! SEREN Gobaith! harddaf Seren sydd
Yn entrych nen—rhagflaenydd dysglaer dydd!
Mewn tywyll nos, dy lewyrch hirbair di
A'm harwain trwy ofidiau dwfn diri',
Pan gura stormydd bywyd ar fy mhen;
Pan chwytha arnaf wyntoedd llymaf nen;
Pan dan orthrymder cryf gelyniaeth mawr,
Neu gan ffug-gyfaill cel y'm cwympir lawr;
Pan suddo f'enaid yn y dyfnder maith;
Dan bob rhyw adfyd ar fy ngharw daith,
Os caf gip-olwg ar dy ddysglaer bryd
Mi ddof i'r lan, er gwaethaf trallod byd.
Dy degwch llachar a'm tywysa 'mla'n
I drechu pob rhyw wrth'nebiadau'n lan.
A phan y teithiwyf ddyffryn "brenin braw,"
Os caf dy weled yn yr entrych draw,
Nid ofnaf ddychryniadau'r tywyll fedd,
Mewn hyder ffydd cyrhaeddaf Wlad yr Hedd.

*Easton, Pa., Chwef.* 1, 1851. D. R. P.

## CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.,

*Mewn atebiad i Ddarlith yr Archesgob Hughes, ar Adfeiliad Protestaniaeth.*

[Parhad o dudal. 42.]

Ond y mae achos arall i'r hyn a elwir Adfeiliad Protestaniaeth; ac O, ar Dduw, na buasai yr achos hwn erioed heb fodoli. Er egluro hyn, ni gawn neillduo un wlad allan o'r gwledydd hyny a nodir gan yr Archesgob Hughes fel esiampl, gyda y nodiad hwn, i fod yr un nodiad yn gymhwysiadol i holl wledydd Ewrop yn mha rai y mae Protestaniaeth wedi adfeilio yn ystod y ddau cant a hanner blynyddoedd diweddaf, yn mha rai hefyd y darfu i grefydd y Beibl i gadw ei thiriogaeth a'i sefyllfa er yr holl ddylanwadau cryfion ag oedd yn gweithredu yn ei herbyn. Cyfeiria yr Archesgob Hughes ni i Ffraingc. "Ewch i Ffraingc," meddai, "ac edrychwch ar sefyllfa y wlad hono, yr hon y dywedir am dani gan deithwyr nad yw ei themlau ond drych gwael a gwaedlyd o gredo ymadawedig. Y maent yn oeraidd ac yn dywyll." Ond a gadael eu bod felly, pa beth yw yr achos o hyny? Gofynwn i'r Huguenotiaid lladdedig, Pwy a ddiffoddodd y tân ag oedd yn llosgi mor llewyrchus ar eich allorau? Pwy a wnaeth eich temlau yn oeraidd ac yn dywyll? Pwy a yrodd y myrddiynau o addolwyr defosiynol a duwiol o'u lleoedd cyssegredig? Gofynaf eto, Pwy a'u gwnaeth hwynt yn oer ac yn dywyll? O! Archesgob Hughes, pa fodd y beiddiwch ein cyfeirio i Ffraingc? A ddarfu i chwi ddim clywed erioed am noswaith drallodus, ddychrynadwy ac arswydol St. Bartholomew, yn y flwyddyn 1572? A ydych chwi ddim yn gwybod i fod rhai o hiliogaeth yr Huguenotiaid yn America i eich adgofio o hyn? O ydyw, y mae yn gwybod yn ddigon da am yr holl bethau hyn, er hyny y mae yn llefaru mewn dull diofal a ffroen-uchel iawn. Y mae yn cyfeirio at Ffraingc, yr hon yn y dyddiau gynt gyda golwg ar elfenau Protestaniaeth a Phabyddiaeth oedd yn agos yn gyfartal. Dywedir i fod eu temlau yn oeraidd ac yn dywyll. Pa ryfedd. Meddyliwch am y miloedd ar filoedd o Brotestaniaid a roddwyd i farwolaeth yn y modd creulonaf, a hyny yn Paris yn unig. Deffrowyd hwy o'u cwsg yn sydyn wrth swn y tocsin, ac ar eu mynediad i'r heol yr oeddent yn cyfarfod a'u llofruddion didrugaredd yn arfog, ac wedi gwisgo eu hunain ag arwydd y groes wen ar eu hysgwyddau, ac yn ddiarwybod iddynt, ac yn hollol ymddifad o unrhyw fath o amddiffyniad, yn cael eu harwain fel defaid i'r lladdfa gan lofruddion Pabaidd. Cafodd yr un fath alanasdra ei gyflawni mewn lleoedd eraill, nes oedd Ffraingc yn diferu gan waed Protestaniaid. Yr oedd pob trais a gormes a chreulondeb yn cael ei arfer tuag atynt ag a allasai yr offeiriaid Pabaidd eu dyfeisio. Yr oeddent yn tori yr ammodau mwyaf cyssegredig, yn eu hysbeilio o'u meddianuau a'u hiawnderau, ac yn eu hymddifadu o bob cysur naturiol a allasent. Ac wedi iddynt godi i amddiffyn eu hunain a'u hiawnderau, ac wedi iddynt ennill rhai manteision arnynt, darfu iddynt ymostwng er mwyn heddwch, ac fel deiliaid ffyddlon idd eu brenin; ond eto, eilwaith ac eilwaith, yn gweled y llwon yn cael eu tori, a'r ammodau mwyaf cyssegredig yn cael eu hesgeuluso yn eu cyflawniad, fel pe na buasai unrhyw bwys ynddynt. Ac o'r diwedd darfu i Louis gymeryd yn ei ben trwy ddylanwad Pabyddiaeth idd eu hargyhoeddi a'u dwyn i gyd i'r eglwys Babaidd. A phwy meddwch chwi oedd ei genhadau ef ond ei filwyr creulawn. Yn hyn yr oedd Louis yn ymffrostio ei fod wedi cael llwybr rhagorol i ddarostwng y cyndyn. Gadawodd miloedd yr amser hwn eu gwlad, ac a ffoisant i Holland, Lloegr, a lleoedd eraill am ddyogelwch: oblegyd nid oedd gan yr Huguenotiaid tlawd, druain, ddim ond naill ai cydymffurfio â'r ffydd Babaidd, neu garchar a'r crogbren. Addefaf yn rhwydd na ddarfu i'r gwir barchedig Archesgob Hughes ddywedyd gair mwy gwirioneddol erioed nag a ddywedodd wrth y gynnulleidfa synfawr yn eglwys gadeiriol St. Patrick, sef i fod Protestaniaeth yn adfeilio yn Ffraingc. Y mae ei haeriadau yn hy ac yn bresaidd iawn, ond eto y mae yn gyson ag ef ei hun pan feddyliom pwy yw efe. Onid esgob gwir barchedig ar eglwys anffaeledig yw efe? Oni ddarfu i'r Pab o Rufain orchymyn y Te Deum arbenig, sef emyn o ddiolchgarwch i Dduw, ynghyd a'r uchel offeren, pan y cyrhaeddodd y newydd y Dragywyddol Ddinas mewn gorfoledd am y galanasdra mawr a gyflawnwyd yn St. Bartholomew? Onid yw y bath-ddarnau a fathwyd yn y bath-dy pabyddol ar gael eto, yn dwyn yr argraff gwaedlyd hwnw, "Hugunostarum Strages," (Lladdfa yr Huguenotiaid." Gorfoleddwch Archesgob, os ydych yn cael pleser yn y meddwl i fod Protestaniaeth yn adfeilio yn Ffraingc; ond gwybyddwch na bydd i'r pethau hyn fyned heibio yn ddisylw gan Dduw, y mae dydd barn i fod—efe a eilw i gyfrif am hyn oll. Yr holl ormes, y difrod, a'r galanasdra ag sydd wedi ei gyflawni trwy offeryngarwch y grefydd Babaidd—bydd y cyfrifoldeb yn bwysig. Nid

yw yr hyn a nodwyd ond arwyddlun o'r dystryw a'r galanasdra a wnaed mewn lleoedd eraill. Y mae y grefydd Brotestanaidd wedi cyfarfod â llawer iawn o wrthwynebiadau a rhai ymosodiadau cyffelyb i'r hyn a nodwyd yn Iseldiroedd Netherlands, Lloegr, Iwerddon, Ysbaen, yr Ital, a gwledydd eraill, eto yn dal ei thir a'i sefyllfa yn rhyfeddol ag ystyried yr amgylchiadau—y prawfiadau tanllyd, a'r creulonderau ag y mae wedi myned trwyddynt. Y mae yn fwy o rhyfeddod, ar rhai ystyriaethau ei bod heb ei difa na phe buasai wedi ei llwyr ddiddymu o fodoliaeth. Ond y mae yn dal ei thir yn rhyfeddol er yr anhawsderau a gyfarfyddodd mewn gwahanol oesau, ac y mae mor gryfed yn bresennol yn Ewrop ag oedd yn mhen hanner cant o flynyddoedd wedi y Diwygiad. Oni bai ei bod o Dduw byddai wedi darfod er ys oesoedd; y mae yn enedigol o'r nefoedd, ac felly ni bydd iddi farw byth. Gall adfeilio, ond hi a adfywia drachefn. Y mae fel y berth a welodd Moses, yn llosgi ac heb ei difa, ac nis gellir ei difa, oblegyd y mae Duw ynddi.

Gallwn aros ychydig yma, a beiddio rhoddi her am atebiad, a hyny ar sylfeini da. Ond y mae haeriadau eraill ag sydd yn cael eu dwyn mewn dull dirmygus yn ein herbyn gan yr archesgob, ag sydd yn galw am ein sylw, ac nid yn unig hyny, ond y mae hefyd yn galw am gerydd. Y mae yn llefaru mewn dull gwawdlyd am y genhadiaeth Brotestanaidd, ac am ei chenhadon, trwy amcanu gosod allan eu bod yn aflwyddiannus yn yr hyn sydd ganddynt mewn golwg, sef diwygiad y Paganiaid, a'u dygiad i'r ffydd Brotestanaidd. Llefara am hyn fel mewn gweniaith, ac ymegonedda yn llwyddiant y cenhadon Pabyddol. Gwrandewch arno. "Nyni a wyddom," medd efe, "i fod miloedd ar filoedd wedi eu gwario o Loegr ac o'r Unol Dalaethau, a channoedd, os nid miloedd, o genhadon wedi cael eu haberthu yn yr anturiaeth, er ymeangu terfynau y grefydd Brotestanaidd yn y byd Paganaidd; ac yr wyf yn dywedyd yn hŷ, yn hollol aflwyddiannus." Nid yw yr archesgob yn ol am hyfdra, yn enwedig pan yn taranu yn eglwys gadeiriol St. Patrick. Pe byddai ei eiriau mor wirioneddol ag ydynt o feiddgar, byddai ei lais yn ddychrynadwy. Ond nid ydynt yn wirionedd, ac felly gallwn wrando arnynt yn ddiddychryn. Gallwn ddywedyd nad oes dim llai yr awr hon na chan' mil o ddychweledigion oddiwrth Baganiaeth yn gysylltiedig â'r gwahanol a'r amrywiol sefydliadau Cristionogol ac Efengylaidd ag ydynt yn wasgaredig yn mhlith gwahanol genedlaethau Paganaidd. Y mae yr archesgob yn cyfeirio yn ei ddarlith at y cyfrifiad a roddwyd gan y Parch. D. Mallin, Ysgrifenydd Eisteddfod Ddirprwyol y Gymdeithas Genhadol Americanaidd, ei fod yn ei adroddiad o sefyllfa y genhadiaeth dramor, wedi rhoddi cyfrif y dychweledigion yn ddau cant a hanner o filoedd. Ond nid yw yr archesgob yn meddwl dim am y lluoedd ag sydd wedi myned trwy lyn cysgod angau mewn gobaith o fywyd tragywyddol i bresennoldeb eu Barnwr, pa rai a dafiasant eu heulunod i'r wadd ac i'r ystlymod, ac ydynt yn awr wedi golchi eu gynau, a'u canu yn ngwaed yr Oen, rhifedi y rhai ni ddadguddir hyd y dydd olaf. Ond a gadael bod eu rhifedi yn rhagor na'r cyfrif a nodwyd, beth yw hyn at yr hyn y mae y genhadiaeth Babyddol wedi ei wneud? Nid ydyw ddim, a llai na dim. Gwrandewch ar yr archesgob. "Pa mor ryfeddol," medd efe, "ac eto pa mor addysgiadol ydyw i ni feddwl am dano, fel ag y mae Duw wedi dangos y gwahaniaeth rhwng gwirionedd a chyfeiliornad yn y peth hyn, oblegyd pan y mae Protestaniaeth wedi methu dychwelyd neb, y mae Pabyddiaeth wedi llwyddo yn nychweliad pawb." Dyma ei ymadroddion ef. Y maent yn ffigwraidd iawn, yn ysblenydd, ac yn uchel dros ben. Y mae y cenhadon Jesuitaidd wedi ymweled â China wedi ymweled â China er ys llawer o flynyddoedd bellach, a phwy a wyr nad yw Ymerawdwr Nefolaidd China, a phawb o'i bobl, wedi bod yn Babyddion da, ac wedi bod felly er ys oesoedd? Darfu i Charles V. gynt yru y Mooriaid yn dorfeydd i afonydd Ysbaen, a phwy a wyr nad yw y Mooriaid yn Babyddion da hyd y dydd hwn? Nid oes cymmaint a Thwrc, na mab i Dwrc, na Mahometaniad yn Asia ac Affrica, nad yw wedi cael ei ddychwelyd, oblegyd y mae y grefydd Babaidd wedi effeithio er dychwelyd pawb. Nid oes Indiad yn America, Apache Blackfoot na Cherokee, ar nad yw yn feibion da i'r eglwys Babaidd! O! yr anghyffredin eglwys Babaidd! O! yr aruthrol archesgob! Fel y mae y ffyddloniaid yn Nghaerefrog Newydd yn synu ac yn rhyfeddu pan yn meddwl am y llygaid eryraidd a'r llais udgornaidd, a'r doniau hyawdledd a feddiannai yr enwog Dr. Flyng, ei fod wedi ei ddychwelyd! y dysgedig De Witt, ei gyd-golegwyr, a'r holl enwogion sydd yn esgyn areithfeydd, ac yn anrhydedd i'r ddinas enwog hono, wedi cael eu dwyn i'r un gorlan. Ac hyd y nod y gwron diofn Dr. Brownley o'r diwedd wedi gweled ei gamsynied, yn dyfod ar ffyn-baglau, fel hen Gadben Bunyan, yn ei Ryfel Santaidd, i gusanu traed y mawr a'r gwir barchedig archesgob. Wrth fy mod yn dywedyd hyn, yr

wyf yn gwybod nad yw yr archesgob yn honi y fath fuddugoliaethau a nodwyd i Babyddiaeth, ond yr wyf am iddo fod ar ei ocheliad rhag defnyddio y fath ddull mawreddog ac ymffrostgar o lefaru, a myned i'r fath eithafoedd mewn gormodiaeth. Gall Pabyddiaeth ymffrostio yn ei buddugoliaethau Paganaidd ar ryw ystyriaeth, nid yw Protestaniaeth yn cenfigenu dim wrthi yn ei llwyddiant, o herwydd nid yw y Protestaniaid yn dewis llwyddo yn yr un dull ag y maent hwy yn llwyddo. Nid newid un rhes o eilunod am y llall y mae y Protestaniaid, ac nid enwi duwiau Paganaidd ag enwau Cristionogol y maent chwaith. Darfu i Rufain Baganaidd feddiannu yr hen bantheon (teml yr holl dduwiau,) a goddef i'r holl dduwiau Paganaidd i aros yn gysegredig yn y deml. Yr oeddent yn foddlon i alw un ddelw sef Jupiter, ar enw St. Pedr, a thrwsio Venus â gemau a blodau, a'i chyssegru i'r forwyn Fair; ond nid rhyw hen ffurfiau a rhyw hen ddefodau gwael fel hyn sydd gan y cenhadon Protestanaidd, ond y maent yn hollol wrthwynebol i bob rhith o eilun-addoliaeth, Y maent yn myned allan, yn ol gorchymyn eu Harglwydd, gan bregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd. Y maent yn sefyll dros gyfnewidiad calon a bywyd duwiol. Yr ydym yn addef i fod y Pabyddion yn eu ffordd hwy yn gwneuthur mwy o ddychweledigion nag a ddarfu i Brotestaniaeth erioed wneud yn ei ffordd hi o broselytio; oblegyd os na byddant mewn modd boddhaol yn proffesu eu hunain yn aelodau o'r eglwys Babyddol, y maent yn eu rhwymo i fod felly yn mhob gwlad ag y mae awdurdod ganddynt arnynt; ac nid yw o gymmaint pwys am eu dull o fyw, os cydymffurfiant âg ymarferiadau yr eglwys. Ond am Brotestaniaeth, nid yw yn gwneuthur defnydd o un awdurdod nac un arf ond gair y gwirionedd—galwa arnynt i ymostwng ac ufuddhau i Grist mewn modd boddhaol, a chydymffurfio â rheolau y Testament Newydd. Cyfnewidiad egwyddor a bywyd. Dyma yr hyn ydym ni yn ei feddwl wrth ddychweliad (*convertion*). Y mae yr archesgob yn llefaru mewn modd gwenieithus am ein llwyddiant yn Ynysoedd Sandwich, ond ar yr un pryd y mae yn anghofio dywedyd wrthym am y trais yn Tahiti rhai blynyddoedd yn ol, pan oedd *French brandy* a Phabyddiaeth yn cael eu gwthio i mewn i'r porthladd, a'r brodorion tlodion yn cael eu rhwymo i'w derbyn trwy fin y cleddyf a grym y magnel.

Ond awn rhagom at bwynt arall o eiddo Archesgob Hughes, yn yr hwn y mae yn gwneuthur y cam a'r anghyssondeb mwyaf â Phrotestaniaeth, sef ei chyhuddo o fod yn achosi yr anffyddiaeth a'r penboethni sydd yn y byd, yr hyn sydd yn cael ei ddangos gan bawb a'r nad yw yn dwyn cyssylltiad â'r eglwys Babaidd. Y mae hyn yn gosod y bai yn gosod y bai yn gwbl ar Brotestaniaeth—ei bod yn achos o bob cyfeiliornad ag sydd yn bodoli yn y byd. Y mae yn llefaru mewn modd digllawn i fod neb wedi meddwl ac yn arwyddo i fod anffyddiaeth wedi deilliaw o fynwes yr Eglwys Babaidd. Y mae yn dywedyd nad yw yr Eglwys Babaidd yn feddiannol ar unrhyw swyn ag sydd yn dwyn dyn i aros ynddi, pan ar yr un pryd y mae ei dueddiad at gyfeiliornad; felly y gallaf finnau ddywedyd am Brotestanianth. Dywed ef y gall pregethwr Protestanaidd bregethu anffyddiaeth, ac eto fod yn Brotestant. Ond nis gall offeiriad Pabaidd wneud hyny byth a bod yn Babydd ar yr un pryd. Meddyliwyf i fod y gwahaniaeth uchod yn debyg iawn i'r gwahaniaeth ag a ddywedir fod gan rhyw hen esgob Pabaidd flynyddoedd yn ol. Yr oedd yn dywysog tymhorol ac ysbrydol, ond er y cwbl yr oedd yn dueddol i arfer iaith lygredig, ac nid yn anaml iawn y byddai yn rhegu a chymeryd enw Duw yn ofer. Ryw dro cymerodd rhyw un arno i'w geryddu am y llwon a arferai. Yr ateb a roddodd yntau oedd, ei fod pan yn tyngu, yn tyngu fel barnwr, ac nid fel esgob. "Wel, fy arglwydd," ebe ei geryddwr, yr wyf yn ofni os bydd i'r barnwr gael ei ddamnio na bydd yr esgob yn mhell oddi wrtho." Nid wyf yn gweled y gwahaniaeth rhwng pregethu anffyddiaeth fel dyn a phregethu anffyddiaeth fel esgob, oddieithr ei fod yn gynnwysedig yn hyn, ei fod yn cael ei rwymo i gydymffurfio ag ymarferiadau yr eglwys mewn modd ymddangosiadol yn y cyssylltiad olaf. Ond beth yw ymddangosiad o beth ac ymarferiadau allanol o werth, os na bydd dyn yn wirioneddol yn yr hyn y mae yn cymeryd arno fod? Nid yw y pechodau o anffyddiaeth a chyfeiliornadau o angenrheidrwyddd yn deilliaw oddiwrtd egwyddorion y grefydd Brotestanaidd. Y maent yn groes i egwyddorion Protestaniaeth, ac yn cael eu condemnio ganddi, ac ni bu mewn un dull yn achos o honynt. Felly y mae yn annheg ac yn anghyfiawn i gyhuddo Protestaniaeth o'r hyn nad yw yn euog o hono?

Ond, medd yr archesgob, y mae i chwi eich Joe Smith, a'r Monmoniad. I ni ein Joe Smith—nid oes dim a fynom ni ag ef. Y mae yn cael ei gau allan oddiwrthym yn hollol yn ol egwyddorion ein rheolau sefydledig. Y Beibl, a'r Beibl yn unig, yw rheol ffydd ac ymarweddiad y Protestaniaid. Y mae gan

Joe ddadguddiedigaethau newyddion a thraddodiadau lawer, agos mor heddynol (*interesting*) a Chwedlau Butler yn Mywyd y Seintiau. Nid oes i ni gymdeithas â'r Mormoniaid. "Y mae genych hefyd eich Tad Miller," medd yr archesgob. Gwir, bu un a elwid Miller amser yn ol; ond yr wyf yn meddwl ei fod wedi marw. Wel, yr oedd y dyn tlawd yn gamsyniol, ac efe a ddenodd eraill i'r un camsynied, fel y mae mwyaf y trueni. Ond, ai y Beibl a dwyllodd Dady Miller, neu ynte camddeall y Beibl a wnaeth efe? Os yr olaf, na fydded i chwi feio ein rheol ni; ond os y blaenaf, gellwch yn ddyogel hysbysu i'r gwyr llyg, a'r bobl yn gyffredin, nad oes ganddynt hawl i ddarllen yr ysgrythyrau. Ar yr olwg hyny, llyfr drwg a niweidiol yw y Beibl. Y mae genych hawl i'w gondemnio i'r fflamiau. Ond yr oedd yr hen Dad Miller yn cyfeiliorni; a chwi a wyddoch yn ddigon da, y gwir barchedig syr, nad yw wedi dyfod i rhan ond ychydig i fod yn anffaeledig.

Eto, y mae yr archesgob yn ei fymadroddion yn llefaru yn llym iawn am eisteddfodau y menywod, yn mha rai y maent yn dadwrdd o berthynas i'w hiawndarau; ac y mae yn beio Protestaniaeth am yr afradlonrwydd a'r fath gynnulliadau. Yma y mae yn gadael o'r golwg y gwirionedd pwysig nad yw y blaenoriaid yn y bygwthiadol chwyldroad cyfeillgar hwn ddim yn sefyll ar wastad-len (*platform*) Protestaniaeth. Dywedant mai y Beibl yw rhwystr penaf eu llwyddiant.—Pa fodd felly y profa fod Protestaniaeth yn achosi y fath benboethni, yr hyn a wrthwynebir ganddi mor ddifrifol. Mor belled ag y mae gwir ormes yn bodoli yn y sefyllfa gymdeithasol mewn cyssylltiad â benywod, y mae egwyddorion yr ysgrythyrau, yn eu cymwysiad atynt yn sicrhau yr holl iawnderau a berthyna iddynt yn eu perthynas ag amgylchiadau yn eu sefyllfa gymdeithasol. Gellir profi hyn trwy brofiadau y benywod eu hunain, eu bod yn ddyogel gyda golwg ar eu hiawnderau yn mhob man dros y byd ar dir Protestaniaeth, yn y gwledydd hyny ag sydd o dan eu dylanwad; a gallwn ddywedyd rhagor, nad ydynt yn gwbl ddyogel ond yn unig trwy rinwedd y ffydd Brotestanaidd. Yr anhawsder mawr yn sefyllfa yr Archesgob H. yw ei wyrdroad o reol ffydd y Protestaniaid. Yr ymresymiad penaf a mwyaf dewisedig gan amddiffynwyr y grefydd Babaidd bob amser yw nad oes dim sicrwydd a chadernid yn y ffydd Brotestanaidd, am fod ei phroffeswyr yn gwrthod yn gwbl awdurdod Crist;—fel pe buasai y Protestaniaid yn credu ac yn dysgu i fod gan bob dyn hawl i feddwl ac i wneud yn ei berthynas a materion crefyddol yn ol fel y byddo efe yn ewyllysio ei hun. Y mae hyn yn wrthuni o'r mwyaf, ac yn cael ei wrthbrofi trwy ein haddefiad o'r gwirionedd hyny mai Duw sydd wedi rhagnodi yn ei air erthyglau ein crefydd, pa rai ydym yn eu credu, ac yn eu cymeryd fel rheolau ein ffydd a'n hymarweddiad.—Ein credoau, a'n cyffesiadau, a'n holwyddoregau, nid ydynt ond cynnifer o draddodiadau ffurfiol yn cael eu tynu allan a'u gyflwyno i sylw, ond nid fel rheolau ychwanegol i'n ffydd. eithr yn cael eu cynnyg fel esponiad neu eglurhad o'r unig a'r unrhyw reol. Gallant wahaniaethu, ac y maent yn gwahaniaethu mewn rhai pethau, ond o ran sylwedd y gwahanol byngciau y maent yr un. Yr ydym yn cymeryd yn sail, ac yn cyfaddef yr egwyddor mai Duw yn unig sydd Arglwydd ar y gydwybod. Y mae yr ysgrythyrau eu hunain yn galw am gyfeiriad atynt yn yr hyn y maent yn ei ddysgu, "At y gair, ac at y dystiolaeth, oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt."—"Chwiliwch yr ysgrythyrau," mewn geiriau eraill. Y mae y Beibl yn ymwneud â phob dyn fel bod cyfrifol i Dduw. Y mae yn ymwneud ag ef fel bod rhesymol, yn feddiannol ar alluoedd i ddeall y gyfraith ddwyfol—y mae yn galw arno fel y cyfryw i iawn ymarferiad o'i alluoedd, i ffurfio ei egwyddorion crefyddol. Y mae i farnu drosto ei hun, ac yn gyfrifol i Dduw yn unig am ei olygiadau. Y mae Eglwys Rhufain, ar y llaw arall, yn dywedyd y dylai pob dyn ymddibynu yn gwbl ar ei hawdurdod hi. Ei hiaith yw, Y mae yn rhaid i chwi gredu, am mai hyn a ddysgir gan yr eglwys. Y mae yn rhaid i chwi gredu yr athrawiaeth hyn, ac ymarferyd yr arferiad arall, er nad ydynt wedi eu rhagnodi nac yn gynnwysedig yn y fraint-ysgrif (*charter*) ag y mae Duw wedi ei rhoddi i chwi, a hyny am fod yr eglwys yn ei orchymyn. Yn awr, fel Protestaniaid, yr ydym yn gwadu yn hollol i fod Duw wedi rhoddi y fath awdurdod i unrhyw benadur na phenaduriaeth eglwysig dan y nefoedd. Fel Protestaniaid, yr ydym yn cyhoeddi egwyddorion mawrion rhyddid oddiwrth iau ysbrydol o awdurdod dyn. Nid ydym yn addef neb yn ben i'r eglwys ond yr hwn a osodwyd gan Dduw, sef yr Arglwydd Iesu Grist.

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

[I'w barhau.]

## HELYNTION YMFUDAWL.

LLYTHYR I.

Ychydig, ysgwaethyroedd, sydd yn gwybod 'y mod i yn Merica, ond waeth o flewyn am hyny; yr wyf yma, ac nid bach oedd y drafferth a ges i ddod. Rown i ys blynedde yn teimlo rhyw duedd i ddod i Merica; ond lled anodd odd gadel yr hen dŷ a'r hen gymdogaeth, a'r hen ffryndie, a chroesi'r môr i'r wlad yma. Ond wath wath rodd hi yn mynd yn Nghymru o hyd, ac ambell i lythyr go lew o glod i Merica yn dod i'r gymdogeth. Ryw ddiwrnod, fel rodd yn rhaid i bethe fod, fe ddaeth y casglwr ata i i mofyn y dreth fawr, a fine heb ddim i dalu Ac fe aeth o yn lled sosi arno i, pryd hyny fi setles i'r pwngc yn y meddwl. Felly, ac i'r tŷ a fi at yr hen rnig, a bawn i wrthi, Shan, fel mai byw fi mi af tua Merica—chymra i ddim rhagor o dafod a dannedd y tylwyth yna. Dafydd, be hithe, dw i'n hidio mo'r gecsen goch am hyny, mi ddo inau hefyd, ni werthwn y cwbl, mae'r mater wedi setlo. Ac yn bartoi yr aeth hi. Mi eles i lythyr at ryw un yn Lerpwl, waith rown i wedi gweled ryw glod mawr iddo ar ryw bapyr, fel yn cyfrwyddo dynion i Merica, ac rown i yn ceisio ganto fo i edrych am le i ni i lodgo, ac hefyd am long dda i ni fynd ynddi, as y buseu ni yno gyda'r steam paced dydd Mawrth, a mynd naethon ni, a chyn bod y llestar wrth y pur, fel ron nw'n i alw o, dyna ryw un ar lan yn gwaeddi, A ydi Mr. Jones ar y bwrdd yna Neb yn ateb. Dyna fe'n gweddi wedi'n, yr un peth. Down i'n meddwl dim mai fi odd e'n feddwl, ond dywedodd Shan yn ddistaw wrtho i, Y chi mae e'n alw. Mi deimles i'm hun yn chwyddo pryd hyn, nes odd y bytyne bron yn tascu oddiar fy nillad, waith dodd neb byth yn arfer galw Meistr arna' i Welwch chi, bawn i yn ddistaw wrth Shan, fel caiff dyn i barchu gan ddynion call o gartre. Yr own i yn barod i fyned gydag o i bob man wrth gael y nghalw yn Syr a Mr. Ac i'w dŷ o yr awd; ac fe allse ni feddwl mai'n lles ni oedd y cwbl ag oedd mewn golwg ganto fo; ond fe ddeallws Shan a fine mai dyn am arian i gyd oedd o. Roedd o yn deyd i fod ganto fo un o'r llonge gore i ni. I'w gweld hi yr awd. Rown i yn ffaelu ei leicio hi yn dda, ac fe wedodd ryw un yn gwnsel wrtho i, mai hen long marshantwr wedi chondemnio oedd hi. O wel, bawn i, fe geiff fod yna i'w chrogi cyn raf fi gam gyda hi. Pan geison ni wared o, ni eithon i chwilio am un arall; ron ni'n ryw 25 neu 30 gyda'n gilydd; a phan oem ni'n dechre sylwi ar y llonge dyma nhw, machgen byw i, y runners ar y'n hol ni, fel bythueid, yn 'mofyn ni i gyduno, fel nad oedd modd mynd o'u bache nhwy. Ni gawsen y lle gore yn y llong, ond waeth hyny na chwaneg. Cydur o nawd yn yr ail gaban. Ond dodd y lle ddim lawr ar yr un papyr; a phan awd i hwylio, y styrige oedd y'n lle ni gyda'r Gwyddelod; ac fe gostiodd bob o goron i ni wedi'n am gael myn'd i'r ail gaban. Ni geison daith go lew; yr hen long yn siglo'n ddrwg weithiau. Yr oedd y captan yn scwrso â fi bob dydd, ac yn cymryd arno fod yn ffrynd i mi; ond rwy'n meddwl mai i gael sport am ben ym Saesnag i yr oedd o yn siarad â mor amal. Un diwrnddd rodd shark yn y golwg. Bawn i wrth y captan, Pysgod cas yw'r sharks, on'te? Iê, ebe fe, ond 'dyw nhw ddim hanner cyndrwg a'r landsharks. O! ebawn i, mi weles i rai o'r rhei'ny yn Lerpwl. 'Dyw rheiny, ebe fo, ddim hanner cynddrwg â rhai New York. Gabidwl wyllt, ebawn i, os oes gwaeth caw dal yn New York nag sydd yn Lerpwl ddof i ddim yno. Mae'n rhaid i chi fyned yno, ebe fo, ond peidiwch gneud dim o neb, ond edrychwch am lodgings eich hun. Ond, ebawn i, fe allai 'raf i'r tŷ gwaethaf. Wei, ebe fo, fydd hwnw fawr gwaeth na'r goreu. Ond i mewn y dowd i ganol y gang o gwn y geiniog. Gadewch i fi gael y'm ana'l; mi ddywedaf eto ffordd fu rhyntw i a hwythe hefyd.

DAFYDD SHON, TIR-Y-TWRCHBREN.

## YCHYDIG BENNILLION O GLOD I MR. LLEWELYN LLEWELYN, TELYNWR,

*Gynt o Aberdar, swydd Forganwg, D. C., yn bresennol yn anneddu yn Carbondale, Pa.*

*Mesur*—TRIBAN MORGANWG.

O Aberdar daeth dewrion
Iawn ddoniol delynorion;
All chwareu tanau yn ddigoll
A'u gosod oll yn gyson.

Fe ganodd Dafydd Frenin
Yn beraidd gyda'r delyn;
Ond am ei chwareu, fel 'rwy'n fyw,
Llaw anwyl yw Llewelyn.

Fe fagodd Cymru fechgyn
Hydoliaidd ar y delyn:
Llewelyn, meistr bryn a phant,
Medd Leyshon Nant yr-odyn.

Pan daflo'r angeu difiin
Y dwylo 'ddiar y delyn,
O Arglwydd Ior rho'r nefoedd fry
'N lle olaf i Llewelyn.

*Nesquehoning, Pa.* LEYSHON THOMAS.

☞ Y pennillion uchod a gyfansoddwyd mewn modd byr-fyfyr yn Nghydgerdd Mr. Ll., Ion. 28, 1851.

## EGLWYS GYMREIG Y BEDYDDWYR YN NGHAEEEFROG NEWYDD.

Y mae eglwys Ddu w yn mhob oes o'r byd yn cyfarfod â llawer o rwystrau ar y ffordd, fel y bydd ei gelynion yn aml yn barod i ddywedyd ei bod yn orchfygedig; a hithau ei hun weithiau yn barod i ofni hyny a digaloni; ond y mae Duw bob amser yn dyfod i'r maes mewn pryd i'w hamddiffyn a'i gwaredu. Felly y mae wedi bod gyda'r gangen fechan hon er pan ddechreuwyd yr achos yma. Y mae amryw weithiau wedi bod yn isel iawn yr olwg arno, fel y mae yn debyg fod rhai yn debyg, os nid wedi dechreu cyfansoddi pregeth angladdol iddi yn nechreu y flwyddyn 1848. Yr oedd i'n golwg ni yn y dadfodedigaeth, a'r naill beth yn canlyn y llall, ac fel pe buasent yn cydweithredu i osod terfyn arno, &c.—y gwrandawyr braidd oll wedi ymadael, hanner yr ychydig aelodau wedi myned braidd yn ddifater, a'r rhan arall bron a llwyr ddigaloni. Yn mis Mehefin, yn y flwyddyn uchod, i'n golwg ni yr oedd yr ergyd olaf wedi ei roddi iddi, ond yn yr adeg hono gwelsom y geiriau hyny yn cael eu gwirio, "Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, medd yr Arglwydd." Daeth y Parch. Thos. Ll. Davies, ein hanwyl weinidog presennol, i mewn yma o'r hen wlad, a hyny braidd i'r diwrnod yr oedd ei angen. Pe buasai yn dyfod yn gynt ni buasai o unrhyw ddyben i ni, a phe buasai ychydig yn hwy, buasai yn rhy ddiweddar. Y Sabboth cyntaf y pregethodd cawsom ein capel yn orlawn o wrandawyr, ac o hyny hyd yn bresennol y mae ein haddoldy yn cael ei lanw yn gyson, a'r brawd Davies yn llawn mor gymeradwy a phoblogaidd (os nid mwy) yn awr nag ydoedd y flwyddyn gyntaf; ac fel Cristion a chyfaill y mae yn cael ei garu yn fwy fwy yn barhaus gan yr eglwys a'r gwrandawyr, ac yn llaw yr Arglwydd y mae wedi bod o fendith annraethol i'r achos yn y lle hwn. Mae llawer yn dyfod i wrando nad oeddent yn dyfod o'r blaen—llawer wedi plygu i arddel Iesu, a llawer o wrthgilwyr wedi troi yn ol. Dau yn y gyfeillach yn bresennol yn aros am gael eu bedyddio, ac amryw eraill fel yn cloffi rhwng dau feddwl. Gallwn ddywedyd yn awr yn briodol, "Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen." Hir oes i'n hanwyl frawd a ninnau, i fod gyda ein gilydd; a gweuau yr Arglwydd i aros gyda ni, ydyw gwir ddymuniad fy nghalon.

Yr eiddoch, &c.

THOMAS JONES.



## Y PARCH. EBENEZER EDWARDS.

YN ystod y mis diweddaf ymwelwyd â'r ardal hon gan y dyn ieuangc gobeithiol uchod (mab y Parch. John Edwards, Brynmawr), yr hwn a arosodd am wythnos i bregethu yn y gwahanol fanau trwy y gymmydogaeth. Y mae Mr. E. wedi dyfod yn ddiweddar o Gymru, ac y mae yn bresennol yn llafurio gydag eglwys y Bedyddwyr Seisnig yn Danville am ychydig fisoedd. Mae wedi derbyn manteision dysgeidiaeth er yn ieuangc; a threuliodd y tymhor arferol yn athrofa Hwlffordd. Byddai yn dda i'r Cymry ymdrechu cadw y fath bregethwyr ieuaingc ag ef, yn lle eu bod yn cymeryd gofal eglwysi Seisnig, trwy yr hyn y mae eu cenedl yn cael eu llwyr ymddifadu (ond odid) o'u gwasanaeth a'u defnyddioldeb.

## LLENYDDIAETH Y BEDYDDWYR.

Ymddengys oddiwrth wahanol awgrymiadau fod rai brodyr o enwadau eraill yn barod i gyfrif y Bedyddwyr, nid yn unig yn ddiffygiol mewn dysgeidiaeth gyffredinol, ond fel mewn gwirionedd yn anheilwng o enw yn y byd llenyddol. A ydyw hyn yn ffaith?

Pe felly y byddai, gellid cael rhyw esgusawd yn yr erledigaethau a ddyoddefasant oddiwrth sefydliadau gwladol. Y mae hyny yn fynych wedi crebachu eu hadnoddau arianol, ac wedi atal tyfiant sefydliadau llenyddol yn eu plith, hyd y blynyddoedd diweddaf yma, ac yn awr yn benaf yn ein gwlad rydd ein hunain. Eto nid ydyw Duw wedi gadael ei hunan heb dyst. O dan yr holl anfanteision yma y mae gyda ni lenyddiaeth, yr hon, hyd y nod pe cymharid hi ag eraill, nid ydyw idd ei diystyru.

Heb ddywedyd gair am y ffaith y gallwn yn ddyogel hawlio holl lenyddiaeth Gristaidd y ddwy gan'rif gyntaf, a rhan fawr o'r un a berthyna i'r drydedd a'r bedwaredd gan'rif, heb fyned yn mhellach yn ol na y ddwy gan'rif ddiweddaf, y mae ffrwythau gogoneddus wedi blodeuo ac addfedu ar bren y Bedyddwyr. Onid Bedyddiwr oedd Milton awenyddol, tywysog yr holl feirdd Saxonaidd? Onid Bedyddiwr oedd Bunyan athrylithgar a duwiol? Onid Bedyddiwr oedd Roger Williams, *champion* mawr cyntaf rhyddid crefyddol?

A oes esboniad mwy dysgedig, neu gorff o dduwinyddiaeth mwy cyflawn nag eiddo y Dr. Gill? A oes duwinydd ymarferol neu ddadleuol yn rhagori ar Andrew Fuller? A oes coethach adolygydd Beiblaidd, neu gym-

hwyllydd mwy meistrolaidd na Dr. Carson? A oes ysgolhaig dwyreiniol uwchlaw Dr. Carey? A oes yn yr iaith Saesnig draethodwr mwy dyfnddeall na John Foster? Ac a oes ysgrifenydd a mwy o brydferthwch a phurdeb awdurol na Robert Hall—a phwy all nodi pregethwr mwy hyawdl?

Y mae y *North American Review* yn rhoddi dewisiad pendifaddeu i waith Dr. Godwin ar Dduwinyddiaeth Anianyddol, yn hytrach na gwaith Arglwydd Brougham; ac i waith Dr. Wayland ar foesoni (*ethics*) yn hytrach nag i waith Dr. Wardlaw. Mewn bywgraffaeth Gristaidd yn mha le y mae un yn rhagorach na bywgraffiad Mrs. Judson, gan y Cadeirdraw Knowles? Mewn llenyddiaeth areithfaol yn mha le y mae ardderchocach na'r gyfrol ddiweddar o amrywion gan y Dr. W. R. Williams.—*Philadelphia Baptist Record.*

## ANERCHIAD I'R CEILIOG YN CANU.

Clywais lais, nid gwaglais, ond gwiw-gloch,
Yn y boreu, yn beraidd blygein-gloch;
Awch o benglog chwiban-gloch,
Cyw mab iar yn glaear fel cloch. H. P.

## ANERCHIAD I OLYGYDD Y SEREN A'I BRIOD,

*Ar Enedigaeth eu Merch Ann Maria, gwel Rhifyn Ionawr,* 1851.

I'r fam a'r tad, ac Ann Maria'u merch
Boed nawdd y nef,—mae'n siriol ddenu serch;
A dyddiau hir fo i'nt ar dir ein Ner,
A hawl i'r fro ddedwyddol uwch y ser.

Y fam a fo yn wych, heb nych na nwyd;
A'r ferch fo'n iach, nid afiach, lesg a llwyd.
Boed Ann bob dydd ar gynydd, O mor gu
Yw hi ar don, "mae'n bert" a llon mewn llu.

THETA ETA.

## GWAHODDIAD I T. TOMKINS AR DDECHREU Y FLWYDDYN 1851, I YMWELED A'I GYFEILLION YN EU TY NEWYDD.

Paham na ddeu't i'n gweled ni
Yn byw o fewn tŷ newydd,
'Does neb a gelai fwy o barch
Pe deu't ar arch i'r mynydd.

'Rhym am dy wel'd, os credu ni,
Yn llonwedd er ein llywio,
O berwydd gwyddom dy fod di
Yn dirion lle bo taro.

Am hyny dere'n fuan iawn,
Oei gyfiawn garedigrwydd,
A phob ymgeledd allwn ni
I'th wneuthur di yn ddedwydd.

TWM A SAM A LISOD.

*Minersville, ger Pittsburg, Ionawr,* 1851.

## AR ENEDIGAETH DANIEL, MAB GRIFFITH A MARY RICHARDS, MINERSVILLE.

Haf heilawg, tesawg i ti—ein Daniel,
A Duw Ner i'th noddi;
Oes ffrwythlawn hoff radlawn ffri,
Wiw rinawl i'th goroni. LLINOS.

Anwyl, heb os, yw Daniel bach—tirf yw
Y ter-fwyn ddyn puriach;
Hyd ei oes bid einioes iach,
Gwefredol* ei gyfrinach. * Electrical.

IEUAN DDU.

## ENGLYN I ROBERT Y GOF AM DYNU DANEDD.

Robert, nid oes dyn pertach—am dynu
Y danedd llawn sothach:
E dyn ofid dyn afiach
A'i flin fyd ar flaen ei fach.

AEL HAIARN.

## AGORIAD ADDONDY YN BLOOMSBURG.

Sadwrn a Sul, Chwefror 1, 2, agorwyd addoldy newydd perthynol i'r Bedyddwyr Cymreig yn Bloomsburg, swydd Columbia, Pa. Prydnawn dydd Sadwrn, cyfarfyddodd y frawdoliaeth a'r gweinidogion mewn cynhadledd pryd y roddwyd cynghorion ac hyfforddiadau i'r gangen fechan o fynydd tŷ yr Arglwydd a gynnulla yn Mynydd Seion (enw yr addoldy) i addoli Jehofa.

Am 6 o'r gloch, dechreuwyd y cyfarfod cyhoeddus drwy ddarllen a gweddio gan y barwd W. Morgan, a phregethodd y brodyr J. Evans, a J. P Harris, Minersville; oddiar Jos. 7. 19—21, a Rhuf. 8. 13.

Am 10, boreu dydd yr Arglwydd, gweddiodd y brawd E. Edwards, Danville, a phregethodd y brodyr H. Hughes, Bloomsburg, a Wm. Morgan, Pottsville; oddiar Luc 12. 20, a Phil. 4. 13. Am 2, darllenodd a gweddiodd y brawd J. P. Harris; a phregethodd E. Edwards, a — Foley, (W.), Danville; oddiar Diar. 23. 23, ac Act. 5 40—42. Ar ddiwedd y cyfarfod dangosodd y brawd Harris mewn araeth fer sefyllfa yr achos yn y lle—traul yr adeilad—y swm a gasglwyd, ynghyd a'r hyn sydd yn ddyledus er gorphen traul yr adeiladaeth; ac aeth y brodyr oddiamgylch i dderbyn ewyllys da y gwyddfodolion. Yr oedd yr oll o'r cyfarfod uchod yn cael ei gynnal yn yr iaith Seisnig. Am chwech o'r gloch, darllenodd a gweddiodd y brawd J. Evans, Minersville; pregethodd y brodyr W. Morgan a J. P. Harris, oddiar Salm 34. 8. ac Esay 63. 1—6. Cafwyd cyfarfodydd dyddorol iawn, a llawer o rwyddineb i ddweyd, ac hwyl i wrando.

Fel hyn, trwy ymdrech mawr, yr ydym wedi llwyddo i gael tŷ hardd a chyfleus i addoli Duw yn iaith Gomer yn y lle hwn—y mae yn mesur 30 troedfedd wrth 30, a mynwent yn gysylltiedig ag ef. Costiodd y tir a'r adeiladaeth $900, ac y mae tua $300 o'r cyfryw swm yn aros arnom eto heb eu talu. Anwyl frodyr, y mae yn edrych yn dywyll

iawn arnom i feddwl eu casglu yn y cylchoedd hyn dan yr amgylchiadau presennol, a hyny erbyn dechreu y *spring*. O ganlyniad yr ydym wedi cymeryd yr hyfdra i awdurdodi y Parch. H. Hughes i dalu ymweliad drosom â chyfeillion lyr Arglwydd Iesu Grist yn ninas a thalaeth Caerefrog-Newydd. Gobeithiwn, anwyl frodyr, y gwnewch gydymdeimlo â ni yn ein tlodi, a |than faich mawr; ac y gweddiwch drosom i'r fechan fyned yn fil, a'r wael yn genedl gref.

RICH'D HARRIS,
SAM'L JONES.

## GENEDIGAETHAU.

Yn Pottsville, Chwef. 18, Jane, priod Mr. Thomas Llewelyn, ar fab. Gelwir ei enw ef William.

Yn Cincinnati, Ionawr —, Mary, gwraig Stephen Evans, ar fab. Gelwir ei enw ef James. G.

## PRIODASAU.

Yn Pipetown, ger Pittsburg, Rhagfyr 25, gan y Parch. T. Edwards, Mr. John Williams a Mrs. Mary Morgans, ill dau o'r lle uchod.

Fe wnawd yr undeb hyd y bedd,
O hyd boedd iddynt i gael hedd;
A modd i ofni Duw o hyd,
Fel caffont hedd ar ddiwedd byd.
IORWERTH.

Yn Pottsville, Chwef. 15, gan y Parch. W. Morgan, Mr. Thomas W. Morgan, a Mrs. Ann Davies, y ddau o Minersville.

Yn New York, Tachwedd 5, gan y Parch. T. Ll. Davies, Mr. George Sheldcock, a Miss Mary Williams, ill dau o'r ddinas uchod.

Tachwedd 18, gan yr un, Mr. H. Lewis, a Mrs. Elizabeth Coffin, o'r un lle.

Chwefror 22, gan yr un, Mr. Henry Jones, a Miss Mary Ann Hughes, ill dau o'r ddinas uchod.

Hir fo dyddiau dedwydd Harry
Gyda'i briod fwyngu Mary,
I gael plant a phob anrhydedd
A dedwyddwch hyd y diwedd. M.

Yn Minersville, Chwef. 6, gan y Parch. J. P. Harris, Mr. John Evans, a Miss Rebeca Bowen, ill dau o'r lle uchod.

## MARWOLAETHAU.

Yn Tamaqua, Chwef. 12, yn 18 mis oed, Elisabeth, merch i David a Lydia Jenkins. Claddwyd ei rhan farwol yn nghladdfa y Bedyddwyr yn Pottsville. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Wm. Morgan.

Yn Rondolph, swydd Columbia, Wis., Ion. 5, o gylch 30ain oed, mewn canlyniad i enedigaeth plentyn, Mary, priod Mr. David Williams, gynt o Pottsville. Merch ydoedd i John a Jane Davies, Dowlais, swydd Forganwg. Ymunodd â chrefydd yn ieuangc gyda yr Annibynwyr, a pharhaodd yn addurn i'w phroffes yno, ac hefyd yn y wlad hon. Ymfudodd hi a'i phriod i America tua naw mlynedd yn ol, sefydlasant yn ardal Philadelphia; ac oddi yno y daethant i Pottsville, lle yr arosasant hyd hydref 1849, pan y symudasant i Wisconsin; ond er cyrhaeddyd eu cartref gorllewinol, eto marw oedd yn ei haros hi, a hyny yn mhen llai na blwyddyn a hanner. Y mae y newydd galarus am farwolaeth Mrs. W. wedi creu teimlad dwys yn mhlith pawb a'i hadwuenai, o herwydd y parch oedd ganddynt tuag ati. Yr oedd yn gymmydoges hynod o garedig a siriol—bob amser yn heddychlon, boneddigaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrythau da, diduedd, a diragrith. Nid oedd nemawr o lygaid sychion trwy yr ardal wrth ymadael â hi, ac y mae y newydd am ei marwolaeth yn dysgyn yn drwm ar lawer calon, yn enwedig ei chwiorydd crefyddol. Bu yn ffyddlon iawn yn eu cyfarfod gweddi wythnosol, yn gystal a dyledswyddau eraill crefydd. Un o rai ragorol y ddaear ydoedd, a diau genym iddi gael mynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Harglwydd. Ymgeledded yr Arglwydd ei phriod galarus a'i phlant ymddifaid yn eu trallod mewn gwlad estronol.

Ionawr 28, 1851, yn Cincinnati, Mrs. Margaret Thomas, gweddw Mr. Thomas Thomas, gynt o Columbus. Ganwyd Mrs. Thomas yn Trallwm, plwyf Myddfe, sir Gaerfyrddin, D. C., yn y flwyddyn 1794, ar y 19eg o Hydref. Merch ydoedd i Thomas ac Elizabeth Thomas, o'r lle uchod. Ymunodd yn yr ystad briodasol â Mr. Thomas Thomas yn y flwyddyn 1814. Ymfudodd i'r wlad hon yn y fl. 1819, a sefydlodd y teulu yn ardal Utica, C. N., lle y preswyliasant hyd y flwyddyn 1830, pan y symudasant i Radnor, swydd Deleware, Ohio. Buont yno dros yspaid dwy flynedd, o ba le yr aethant i ddinas Columbus, lle y bu Mrs. Thomas yn aros hyd y tair blynedd ddiweddaf o'i hoes, pan y symudodd i'r ddinas hon, lle yr oedd ei phlant yn preswylio.

Ymunodd Mrs. Thomas ag eglwys Crist gyda y Trefnyddion Calfinaidd pan yn 15 mlwydd oed. Bu yn aelod rheolaidd o'r gangen hono o gorlan Iesu hyd y flwyddyn 1821, pan yr ymunodd ag eglwys y Bedyddwyr yn Utica, y pryd hwnw o dan weinidogaeth y Parch. David Griffiths. Parhaodd ei pherthynas ag eglwys y Bedyddwyr hyd ddydd ei marwolaeth. Bu Mrs. Thomas fel plentyn yn ufudd a pharchus i'w rhieni. Fel gwraig, yn ffyddlon yn yr ystad briodasol. Fel mam, yn dirion a gofalus o'i phlant. Fel cymmydoges, yr ydoedd yn garedig a heddychlon; ac fel Cristion, yr ydoedd yn selog dros yr achos goreu, ac yn dangos parch mawr i weision Crist o bob enwad crefyddol.

Bu mewn cystudd trwm y ddwy flynedd ddiweddaf o'i hoes. Ei chlefyd ydoedd y darfodedigaeth, a dyoddefodd ei chystudd yn hynod o ddirwgnach, heb roddi dim yn ynfyd yn erbyn ewyllys yr Arglwydd. Yr ydoedd yn dra diolchgar am ymweliadau gweinidogion yr efengyl o bob enwad; a thystiodd ei bod yn cael pleser mawr, a budd neillduol, wrth ddarllen yr ysgrythyr lân yn ei hir gystudd. Gadawodd dystiolaeth eglur ar ei hol ei bod wedi myned i wlad well. O gylch blwyddyn cyn ei marwolaeth dewisodd y 13eg a'r 14eg o adnodau yn y 12fed bennod

o lyfr y Pregethwr i fod yn destyn ei phregeth angladdol. Ac ar ei chais, a amlygwyd ychydig ddyddiau cyn ei marwolaeth, pregethodd yr ysgrifenydd ar y geiriau uchod i dyrfa fawr o Gymry a Saeson, cyn hebrwng ei gweddillion i dŷ ei hir gartref. Wrth y bedd, canwyd ar ei chais y pennill canlynol:

"Ar fyr caf rodio llwybr na ddeuaf byth yn ol," &c.

Gallwn ninau ddywedyd wrth ddarllen yr hanesyn uchod, mai "Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."

Yr eiddoch dros y cyfeillion,

*Cincinnati, Chwef.* 9, 1851. H. R. PRICE.

☞Dymunir ar y Cenhadwr a'r Cyfaill gyhoeddi yr hanes uchod.

Chwef. 2, yn Cincinnati, yn chwech mis oed, Mary Jane Rowlands, merch John a Mary Rowlands. "Wele plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd, a'i wobr ef yw ffrwyth y groth." G.

## MARWOLAETH ROBERT T. OWENS, MARCY.

Gadawodd y brawd Robert T. Owens y lle hwn yn gynar yn y gwanwyn diweddaf, a chychwynodd gyda chyfeillion eraill o'r cymmydogaethau hyn tua Chalifornia. Wedi profi llawer o siomedigaethau a helyntion annysgwyliadwy ar eu taith, cyrhaeddasant San Francisco tua dechreu yr hydref. Buont yn gweithio am ysbaid o amser yn y *mines*, ond nid oedd y gwaith hwn yn cydfyned â iechyd un o gyfeillion Mr. Owens; felly, fe aeth gydag ef i dref Sacramento, i chwilio am waith dros y gauaf, ag ydoedd yn fwy cydrywiol â'i iechyd. Ond wedi myned yno, methasant a chael gwaith wrth eu bodd. Yna prynwyd ymborth dros y gauaf, a dychwelwyd yn ol tua y *mines* drachefn. Pan o fewn ychydig bellder oddiwrth eu gweithfa a'u cyfeillion tarawyd Mr. Owens â'r colera; a gorfu idd ei gyfaill ei adael mewn tŷ o'r enw "Mountain House;" ac aeth yntau yn mlaen gyda y wageni a'r ymborth tua y "mines." Dychwelwyd yn ol mor fuan ag y gellid; ond erbyn hyny yr ydoedd wedi myned yn rhy wan i ymddiddan, a braidd yr adwaenai ei gyfeillion. Ni buodd byw ond ychydig oriau ar ol hyn. Claddwyd ef mewn modd parchus ac anrhydeddus. Fel hyn y mae y brawd hoff hwn, a gerid gan bawb a'i hadwaenai, yn gorwedd o ran ei gorff, ar ororau ell y Mor Tawelog, ac yno yr erys hyd oni wawrio y boreu y cesglir ynghyd deulu yr Oen.

Mae genym bob lle i gredu am y brawd yma fod ei ysbryd anfarwol wedi myned i orphwys i dangnefedd ei Arglwydd. Yr oedd Mr. Owens yn un o rai ragorol y ddaear—yr oedd yn un o dymer mwynaidd ac heddychlon. Yr oedd yn un helaeth ei gyfraniadau at achosion haelionus a chrefyddol. Meddai wybodaeth helaeth yn Nghair Duw a phethau crefydd. Gwasanaethodd yn eglwys Marcy fel diacon am flynyddau maith, a rhoddodd foddlonrwydd cyffredinol. Cafwyd colled fawr ar ei ol. Gadawodd deulu lluosog i alaru ar ei ol, a chydymdeimlir â hwynt gan y gymmydogaeth yn gyffredinol. Bydded i'r Arglwydd fod yn dirion wrthynt yn ei ragluniaeth fawr. Bydded iddo eu hymgeleddu oll â'i ras, a'u parotoi i gyfarfod â'r un amgylchiad sobr. Coded ei blant i fynu i lanw ei le, i fabwysiadu ei rinweddau, ac i rodio yn ei ffyrdd.

Dichon y cewch glywed ychwaneg am y brawd teilwng hwn yn fuan. Mae ei rinweddau yn deilwng o goffadwriaeth.

*Marcy.* A. HARRIS.

## ATEBIAD.

*Atebiad i Ofyniad R. Woolley, Seren Ionawr, tud.* 26.

MR. GOL.—Gan na wnaeth neb ateb eich gohebydd Mr. W. yn y Seren olaf, wele fi yn anfon iddo yr atebiad canlynol, air yn nghair, fel y cefais ef yn y Bedyddiwr; nid ydwyf am fod yn debyg i anfonwr y bregeth angladdol yn ddiweddar,—cymeryd sylwadau eraill yn eiddo i mi fy hun.

Marc 9. 49.—"Canys pob un a helltir â thân, a phob aberth a helltir â halen." Y mae yr adnod ddyrys hon wedi dyrysu cywreinrwydd llawer o'r dysgedigion penaf. Heb i ni osod i lawr luaws o farnau, ymfoddlonwn ar yr un tebycaf o honynt i fod yn gywir:—"Canys pob un a helltir â thân," &c. Ymddengys fod cyssylltiad rhwng yr adnod hon a'r rhai blaenorol, oddiwrth y gair "Canys," yr hwn sydd yn gyplys-air. Yn yr adnodau blaenorol, darllenir fod troseddwyr anedifeiriol yn cael eu bwrw i Gehenna o dân uffern, lle y bydd y tân yn eu llosgi yn dragywyddol, a'u teimladrwydd hwythau o'u pechodau yn eu dirboeni yn oes oesoedd; oblegyd pob un, hyny yw, pob un ag a gaiff ei daflu i'r Gehenna danllyd a gaiff ei dymheru (*seasoned*) a gaiff ei ddyogelu (*preserved*) yn y tân hwnw. Bydd y tân a dywelltir ar yr annuwiol yma yn cael yr un effaith a heli ar gig pan yr arllwysir ef arno. Nid ei ddifa ond ei ddyogelu; yn lle difa bywyd, estyna a pharha fywyd yn oes oesoedd, i ddyoddef cnoadau cydwybod. Felly, wrth y "pob un" y meddylir pob annuwiol; "a hellir â thân," yn ffugwrol i ddangos parhad ei fodoliaeth ynddo.

"A phob aberth a helltir a halen." Meddylir y cyfeiria hyn at saint Duw. Pob aberth. Y mae saint Duw yn "aberthau byw, santaidd a chymeradwy ger ei fron." Y rhai sydd yn cael eu halltu neu eu pereiddio ag halen gras a phurdeb egwyddor, ac a barhant yn aberth cymeradwy gerbron Duw i dragywyddoldeb yn ddiddarfod. LLEWELYN.

## GOFYNIADAU.

*At Mr. E. D. Thomas, Covington, Ky.*

SYR,—Y mae ychydig o bethau wedi aros am dymhor ar fy meddwl ag sydd yn ymddangos yn dra thywyll i mi; ac yr oeddwn yn methu penderfynu at ba Gymro galluog a

dysgedig y cyfeiriwn hwynt, er mwyn cael goleuni; ond pan welais chwi yn medru chwareu y dyn mawr mor gampus, gan ymwneud ag A. Campbell a'i ganlynwyr fel us, penderfynais eu cyfeirio atoch chwi, gan obeithio y bydd i chwi fy anrhegu â'ch golygiadau arnynt yn syml a goleubwyll:

1. Pa gynnifer o wahanol fodau y mae yn bosibl i ddyn bechu yn eu herbyn, ac yn mha gyssylltiad?

2. Pa gynnifer o wahanol ddeddfau all dyn eu troseddu, a pha beth yw eu hawliau?

3. Pa gynnifer o'r bodau a'r deddfau hyny sydd yn gallu cospi am y bai, ac hefyd pa nifer o honynt sydd a hawl i faddeu?

IANTO GOCH Y CREIGIAU.

---

A ellir ystyried yr Hen Destament, neu ranau o hono, yn reol berffaith o gred ac ymarferiad i Gristionogion dan yr efengyl? Os yn gadarnhaol y bydd yr atebiad, dymunwn i'r atebwr roddi eglurhad ar ymadroddion Paul yn Rhuf. 6. 14, ac hefyd Gal. 4. 31. Mi a hoffwn yn fawr pe byddai Mr. R. T. Jones, Utica, neu ryw un medrus arall, yn gwneud ei feddwl yn gyhoeddus ar y pwngc uchod cyn gynted ag y byddo modd, gan ei fod yn destyn ag sydd wedi achosi peth dadl yn ein plith yn y gymmydogaeth hon.

*Flint Creek, Iowa.* THOS. LEWIS.

---

## DYCHYMYG.

Ar ddiwrnod yn ddiweddar
Sylwi wnes mewn syndod maith
Ar ryw wrthddrych a ganfyddais
Yn ymsymud ar ei daith;
'Roedd ei yrfa o'r gorllewin
I'r gogedd oer a'r dwyrain faith;
Ond cyn iddo ef wynebu
Ar y de gorphenai'i daith!
Cym'rais arnaf rifo'i gamrau,
Hyn yn gynil wnaf heb goll,
Cefais allan eu rhifedi
'N ddeg a saith o'u cyfrif oll;
'Roedd yn teithio yn fwy araf
Fel y d'ai at ganol dydd,
I'r sawl roddo ei ddeongliad
Mewn geiriau llawn diolchus fydd—

*Flint Creek, Iowa.* THOS. LEWIS.

---

# HANESIAETH DRAMOR.

## PRYDAIN FAWR, &c.

### YR AGERLONG ATLANTIC YN DDYOGEL.

Y prif newydd o ddyddordeb a dderbyniwyd gyda yr agerfad Affrica, yw bod yr Atlantic yn ddyogel, gyda phawb ar ei bwrdd.

Cyfarfyddodd â thywydd garw am naw diwrnod ol yn ol. Anafwyd ei pheriannau fel yr oeddent yn methu gweithio, a gorfu arni droi yn ol pan o fewn wyth cant o filldiroedd i Halifax, gan fod y gwynt yn ei herbyn. Gosododd i mewn i borthladd Cork, o ba le y cymerwyd hi i Liverpool i'w hadgyweirio, yr hyn a gymer o gylch tri mis.

Dygodd yr Affrica holl ymfudwyr a llythyr-gydau yr Atlantic. Mae yr ymfudwyr yn ymddiddan yn hynod o barchus am ymdrechiadau a llafur diflin Cadb. West, a phasiwyd penderfyniad unfrydol ganddynt i ddychwelyd eu diolchgarwch gwresocaf iddo. Deallwn fod tansgrifiad hefyd yn cael ei wneud i godi anrheg werthfawr i gael ei chyflwyno iddo. Gwnaeth swyddogion eraill yr agerlong eu rhan yn ragorol yn yr amgylchiad peryglus a chyfyng. Mae y llawenydd mwyaf trwy Ewrop ac America o herwydd y waredigaeth. Mae hyn yn enwogi yr Atlantic yn hytrach na'i dianrhydeddu.

Yr oedd y Senedd i gyfarfod ar y 4ydd. Cyhoeddid araeth y Frenines rai dyddiau yn mlaen llaw yn y papyrau. Ryw ddarn tra diles ac anmhenderfynol ydyw: nid yw yn cymeryd unrhyw dir cyhoeddus ac amlwg ar y cwestiwn Pabaidd. Ystyria fod y gyfraith yn anghyfyngedig ar y mater; a geilw am ystyriaeth y Senedd i esbonio, ac os buasai angen i wneuthur deddfau priodol i'r amgylchiad.

## FFRAINGC.

Mae Louis Napoleon wedi llwyddo i sefydlu Gweinyddiaeth newydd, ac wedi concro ei wrthwynebwyr i raddau. Mae y Cynghor presennol, er eu bod yn ddiau wrth fodd calon y Llywydd, yn anadnabyddus i'r bobl, ac o ganlyniad mae llawer o anfoddlonrwydd iddynt.

Y mae cynnygiad wedi ei wneud gan Gen. Fabvier i ryddhau Abd-el-kader, o'i garchar, ond yn ofer; y mae y drysau yn gau arno am enyd o'r hyn lleiaf. Y mae yn syndod fod un wlad ag sydd yn cymeryd ei bod yn wareiddiedig yn gallu gwneuthur y fath anghyfiawnder dybryd ag a wneir â'r penaeth Arabaidd hwn. Nid cael ei gymeryd yn garcharor a wnaeth efe ar y dechreu, ond roddodd ei hunan fyny yn wirfoddol ar ammodau ei fod ef i gael ei drosglwyddo i Alexandria, neu St. Jean de Acre; a gwnaed cydundeb i'r pwrpas hyny ag ef gan y General Lamoriciere, yr hwn a gadarnhawyd gan y Duc d'Aumale, yr hwn oedd ar y pryd yn Llywodraethwr Cyffredinol Algiers. Yr oedd yn anmhosibl gwneud cydundeb mwy rhwymedig na hwn; ond eto y mae wedi cael ei basio heibio bron yn ddisylw fel peth dirym, a'i dori yn y modd amlycaf.

## DENMARC, &c.

Da genym ddeall fod y ddadl yn debyg o gael ei therfynu rhwng Hesse Cassel a Denmarc a Schleswig Holstein.

## Y PAB.

Y mae y swn allan fod y Pab yn bwriadu roddi ei swydd i fynu, ar gynghor ei gardinaliaid, ac ymneillduo i ryw fonachlog, i dreulio y gweddill o'i ddyddiau mewn bywyd anghyhoedd. Y reswm a roddir dros hyn yw o herwydd sefyllfa ddyrys ei amgylchiadau. Sicr yw bod ryw ymgynghori mawr yn bresennol yn Rhufain. Y mae yr Archesgob Hughes wedi cyrhaedd yno.

## TWRCI.

Bu terfysg lled bwysig yn Aleppo, ond y mae drosodd, a derbyniodd y terfysgwyr gospedigaeth drom. Hysbysir i Kerim Pasha anfon cenadwriaeth at brif benaethiaid y terfysgwyr i ofyn am iddynt ddyfod ato ef. Derbyniwyd ei wahoddiad ganddynt o dan yr argyhoeddiad y byddai i arswyd rhag i ychwaneg o derfysgiadau dori allan fod yn ddigon o sicrwydd y perchid hwy, ac na feiddid eu drygu. Ond yn hyny camsyniasant. Daliwyd hwy ganddo yn garcharorion. Wrth weled eu penaethiaid yn oedi dychwelyd, prysurodd y terfysgwyr i gymeryd eu harfau; a daeth gryn 10,000 o honynt yn arfog i ymofyn eu rhyddhad. Yr oedd y Cadfridog Tyrcaidd yn dysgwyl hyny, ac atebodd eu gofyniad drwy ymosod arnynt â 4,000 o filwyr ag oedd efe wedi gasglu o fewn y lluestai. Dilynwyd hyny gan fwydr enbyd, yr hon a barhaodd tua phedair awr ar hugain, ond tredd allan yn ffafriol i'r Tyrciaid. Dinystriwyd tri o brif orsafau, a lladdwyd 1,800 o'r terfysgwyr yn yr ymdrech. Diangodd y gweddill, ac erlyniwyd hwy gan y meirch-filwyr Tyrcaidd. Ni syrthiodd cymmaint ag un Cristion yn yr hafog hwn. Y mae meddiannau y terfysgwyr i gael eu defnyddio i ddigolledu y Cristionogion am y dinystr a wnaed i'w meddiannau a'u heglwysi ar y 14 a'r 15 o Hydref. Y mae y Sultan, yr hwn ar bob achlysur, meddir, sydd wedi dangos ei hoffder o fesurau tyner, wedi ei orfodi i gymeryd y dull garw hyn i ddangos i'r rhai hyny a ymdrechant gael ganddo gyfnewid ei fesurau, a pheidio caniatau goddefiad crefyddol yn ei diriogaeth, mai nid drwy lunio bradwriaethau eang i ddymchwelyd ei lywodraeth y gellir ei dueddu i wneuthur hyny; a dangosodd hefyd nad yw efe heb feddwl am amgylchiadau ei ddeiliaid Cristionogol.

## JAMAICA.

Y mae y colera wedi tori allan yn yr ynys hon. Dywedir fod ei effeithiau yn ddychrynllyd. Y mae nifer y marwolaethau wedi bod o gylch cant a hanner neu ddau cant y dydd am beth amser. Yr oeddid yn methu parotoi eirch iddynt yn ddigon buan; ac yr oedd lluaws o gyrff yn cael eu gadael allan ar wyneb y ddaear i bydru ac i lygru yr awyrgylch oddiamgylch iddynt, yn unig o herwydd diffyg help angenrheidiol i dori beddau iddynt. Nid yn aml y bu y fath anrhaith ag sydd wedi ei ddilyn yn ddiweddar yn yr ynys hon.

## CHINA.

Y mae y newyddion o'r ymerodraeth hon yn mynegu i ni fod gwrthryfel wedi tori allan yno. Y mae y gwrthryfelwyr wedi bod yn lled lwyddiannus hyd yn hyn. Gorchfygwyd y byddinoedd ymerodrol rai gweithiau. Cesglid milwyr o bob cwr i ymosod arnynt. Yr oedd rhai yn dysgwyl y byddent yn fuan wedi cymeryd Pekin ei hunan, ac y byddai yr ymerawdwr Yih-chu wedi cael ei ddiorseddu. Ond dywed eraill nad dyma yr amcan sydd ganddynt mewn golwg, ac nad ydoedd y gwrthryfelwyr ond heidiau o ladron ac ysbeilwyr.

## MADAGASGAR.

*Cristionogion yn cael eu dedfrydu i farwolaeth.*

Un prydnawn yn mis Mehefin diweddaf, pan oedd tuag wyth mil o Gristionogion wedi cyfarfod â'u gilydd mewn gwahanol fanau yn Imerena, i gyflawni eu gwasanaeth crefyddol, cymerwyd hwynt oll i fynu gan yr awdurdodau gwladol, a dedfrydwyd hwynt i ddyoddef marwolaeth. Cyflawnwyd y ddedfryd ar 18 o honynt. Llwyddodd y lleill yn rhywfodd i ddiangc, a ffoisant tua phalas y tywysog, mab y frenines, am ddydgelwch. Cymerwyd y dorf i mewn ganddo gyda pharodrwydd, ac addawodd eu dyogelu. Daeth hyn yn wybodus i'r frenines yn fuan, yr hon a anfonodd ei phen-swyddog a gorchymyn at y tywysog am iddo eu rhoddi i fynu oll, er gosod y ddedfryd mewn gweithrediad. Gwrthododd yntau gydsynio â'i chais, gan ddywedyd eu bod dan ei ofal ef, ac os oedd unrhyw ddyn yn teimlo arno i wthio i mewn i'w balas ef, gan amcanu at gymeryd y Cristionogion, y buasai iddo gael ei farwolaethu yn ddioed. Darfu i eiriau uchel gymeryd lle rhwng y prifswyddog Reinharo â'r Tywysog. Arwyddodd yr uwch-swyddog i'r tywysog ei fod mewn gwrthryfel gyhoeddus yn erbyn y frenines; ar hyn cyffrodd y tywysog, ac ymaflodd yn ei gleddyf, ac amcanodd at ben y swyddog, tarawodd ef ar ochor ei ben, a thorodd ei glust. Daeth y cadfridogion ag oeddent yn bresennol yn mlaen, gan waredu y swyddog pan oedd y tywysog yn myned i osod terfyn ar ei fywyd, a chymerasant ef ymaith. Pan glywodd y frenines am yr hyn a gymerodd le, hi a dawelodd y cwbl, gan

ofni y buasai ymyriad pellach yn achos o derfysg a gwrthryfel neu chwyldroad yn Imerena; o herwydd yr oedd yn gwybod fod holl feibion ieuaingc Ankofa yn bleidiol i'r tywysog, a bod yr holl bobl a'r milwyr yn ffafriol iddo.

Y mae y Cristionogion yno yn ddyogel yn bresennol, ac yn cyfarfod â'u gilydd yn y prydnawn, heb i'r awdurdodau ymyraeth â hwynt. Y mae y tywysog ieuangc hwn yn awr yn 21 oed. Y mae wedi ei ddwyn i fynu gyda y Cadfridog Ratsibambe. Y mae yn addaw sefydlu ei orsedd fel ag yr oedd yn amser ei dad, brenin Radama, os bydd byw i ddyfod i'r orsedd, yr hyn sydd i gymeryd lle ar farwolaeth ei fam, y frenines bresennol. Y mae wedi bod amryw weithiau yn nghyfarfodydd gweddi y Cristionogion, ac yn gwneud pob ymgais idd eu hamddiffyn a'u cysuro.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

TREFFOREST.—Cynnaliwyd cyfarfod pregethu yn Libanus, Tach. 25ain a'r 26ain. Y pregethwyr oeddent—J. Lloyd, Merthyr; T. Price, Aberdar; E. Evans, Dowlais; a B. Evans, Hirwaun.

Y FASNACH HAIARN.—Y mae marchnad yr haiarn yn Nghymru yn dal fynu, a dywedir fod y prisiau yn 2s. 6c. uwchlaw yr hyn oeddent yn ddiweddar. Y mae cryn lawer o eirchion am reiliau yn parhau i gael eu cymeryd, ac y mae y fasnach yn ymddangos yn llawer cryfach nag y bu er ys talm. Y mae bariau yn cyrhaedd 4p. 15s. yn rhydd, ar fyrddau llongau, yn Nghymru, tra y mae rhai gwneuthurwyr yn gofyn 5p. y dunell: ac y mae cryn lawer o eirchion am reiliau am y pris hwnw yn y farchnad.

SEREN GOMER.—Mae y Cyhoeddiad anrhydeddus hwn wedi ei werthu yn ddiweddar i wyth o weinidogion y Bedyddwyr yn swydd Fynwy; pwy ydynt nis gwyddom. Y mae S. Evans, yr hen Olygydd, mewn llythyr i'r Bedyddiwr, yn eu cyhuddo o lawer o bethau anghyfiawn ac anheilwng, ac yn amlygu ei benderfyniad i gychwyn Cyhoeddiad arall, ar ei anturiaeth ei hun, pa un a elwir, "Seren Gomer Newydd."

ARSYLLFA SERYDDOL CYMRU.—Y mae cynnygiad ar droed i ffurfio cymdeithas i'w galw, "Cymdeithas Freiniol yr Arsyllfa Seryddol Gymreig," i fod dan nawdd ei uchelder breninol Tywysog Cymru. Mae yr Amserau a phapyrau eraill yn dra ymdrechol i gael yr amcan teilwng i ben. Seryddiaeth, yn ddiau, yw yr ardderchocaf a'r oruchaf o'r holl wyddorion a'r gwybodaethau anianyddol.

AIL-AGORIAD BETHEL GLAN-Y-MOR, LLANELLI.—Cynnaliwyd y cyfarfodydd dydd Sul a nos Lun, Tach. 24, 25. Dechreuwyd trwy gynnal cwrdd gweddi am saith o'r gloch, pryd y gweddiodd pedwar o frodyr am i Dduw roi ei wenau yn y cyfarfodydd. Am hanner awr wedi deg, dechreuwyd gan J. P. Williams, Blaenywaen; a phregethodd y Parch. J. Spencer, Llanelli, a N. Thomas, Caerfyrddin. Am ddau, gweddiodd D. Davies, Siloa; pregethodd J. P. Williams, a D. D. Evans, Pontrhydyryn. Am hanner awr wedi chwech, gweddiodd y brawd G. Jones; pregethodd y brodyr N. Thomas, a B. Thomas, Penrhiwgoch. Nos Lun, am hanner awr wedi chwech, gweddiodd y brawd M. James, Llwynhendy; a phregethodd J. P. Williams, a D. D. Evans. Casglwyd ar ddiwedd pob cyfarfod, a'r swm a dderbyniwyd oedd 167p. 10s. 3c.

CROESYPARC.—Bu cyfarfod misol Bro Morganwg yn y lle hwn Rhag. 11eg a'r 12fed. Y pregethwyr oeddent—Thomas, Llancarfan; Davies, Penyfai; Evans, Bontfaen; Edwards, Llancarfan; Owens, Twynyrodyn; Williams, Trefforest; Morse, Cortwn; Jenkins, Paran. Yr oedd yn gyfarfod poblogaidd a hwylus iawn.

PENYRHEOL.—Cynnaliwyd Cyfarfod Misol yr Hen Gymanfa yma, Mawrth a Mercher, Tachwedd 19 a'r 20. Gweinyddwyd gan Owens, Pisga, Maesyfed; Roberts, gynt o'r Twyngwyn; M. Lewis, Capelyffin; Evans, Llanau; a Price, Maesyberllan.

AGORIAD ADDOLDY.—Sabboth, Rhagfyr 22, agorwyd capel Neyland, Dyfed. Am ddeg y boreu, pregethodd T. P. Thomas, Honeybro'; am ddau, J. Rees, Myrtletwy; ac am chwech, J. H. Thomas, Aberdaugleddyf. Y mae y capel yn dlws iawn, ac wedi ei orphen yn dda. Yr oedd y gynnulleidfa yn dra lluosog, a'r casgliad yn rhagorol.

NEILLDUAD GWEINIDOG.—Tach. 28, neillduwyd y brawd David Davies i gyflawn waith y weinidogaeth yn eglwys y Bedyddwyr yn Nantgwyn, swydd Faesyfed. Am ddeg, dechreuwyd gan y brawd E. Brunt, Bwlchsarnau; areithiodd y brawd S. Pugh, Bwlchsarnau ar natur eglwys efengylaidd, a gofynodd yr holiadau arferol i'r gweinidog ieuangc, a dychafwyd yr urdd-weddi gan y brawd Brunt; yn ganlynol, pregethodd D. Jarman, Bontnewydd-ar-Wy, ar ddyledswydd y gweinidog, a R. Davies, Bethania, ar ddyledswydd yr eglwys. Yn y rhan ganlynol o'r dydd cafwyd pregethau buddiol a chynnwysfawr gan y brodyr Brunt, Jarman, a Davies. Y mae argoelion cysurus iawn ar yr undeb hwn eisoes.

SYMUDIADAU.—Y Parch. R. Johns, gynt o Silo, Abercanaid, wedi symud i Sion, Trosnant.—Y Parch. Evan Thomas, diweddar o Bethel, Mynwy, i eglwys y Bedyddwyr yn Aberteifi.—Y Parch. H. W. Hughes, Bethania, Maesteg, Morganwg, wedi derbyn galwad eglwys Stanhope-street, Llynlleifiad, ac wedi dechreu ar ei weinidogaeth yno er canol mis Rhagfyr.—Y mae y brawd Dan'l Rees, o Gastellnedd, wedi derbyn galwad unfrydol i gydweinidogaethu â'r hen frawd John Jenkins, yn Hengoed.—Y brawd J. D. Williams, Gelligaer, wedi cydsynio â galwad gan eglwys Cwmbach, Aberdar.

### MARWOLAETHAU.

Boreu dydd Llun, Tach. 25, Mr. Daniel Samuel, Blaenau Gwent, o gylch 50 oed. Yr oedd yn ddyn parchus iawn yn yr ardal, yn aelod defnyddiol, ac yn ddiacon ffyddlon yn eglwys y Parch. J. Lewis. Dydd Iau canlynol ymgasglodd tyrfa luosog i dalu eu cymwynas olaf idd ei ran weddilledig. Y brodyr a weinyddasant oeddent y Parch. W. Price, Beula; R. Johns, Pontypwl; Wm. Thomas, Pisga; Wm. Roberts, Salem; a W. Thomas, Casnewydd.

Yn ddiweddar, yn Machynlleth, Miss Jane Pugh, er dirfawr dristwch i berthynasau caredig ac eraill, yn 50 oed. Bedyddiwyd hi ar broffes o'i ffydd yn Aberystwyth, gan y diweddar Barch. J. James, Penybont-ar-Ogwy, tua'r flwyddyn 1816, ryw ychydig amser cyn ei ymadawiad â'r lle blaenaf. Dychwelodd Jane i Machynlleth, a pharhaodd yn ffyddlon yn ei phroffes hyd y diwedd.

Dydd Gwener, Rhag 13, yn 36 oed, ar ol byr gystudd, ac yn dra annysgwyliadwy, Mr. Benjamin Williams, Cwrier, Aberteifi, er galar i'r dref a'r gymmydogaeth, yn dra chyffredin. Yr oedd yn athraw ffyddlon yn Ysgol Sabbothol Bethania, ac yn llafurus gyda'r canu. Yr oedd ei angladd yn un lluosog, pregethodd J. P. Williams, Blaenywaun, ar yr amgylchiad yn dra chymhwysiadol.

Boreu Sabboth, Rhag. 8, yn dri ugain ml. oed, Mr. Henry Richards, Uchel-oleu (Highlight). Bu yn aelod teilwng gyda y Bedyddwyr, ac yn ddiacon ffyddlon o eglwys Cadoxton am oddeutu deng mlynedd ar ugain. Gadawodd weddw a saith o blant i alaru eu colled. Dydd Mercher, y 12fed, cyfarfu tyrfa mwy lluosog nag a welwyd yn Nghadoxton er ys blynyddau, pregethodd y Parch. T. Roberts, gweinidog y lle, oddiar Gal. 6. 7, 8; a roddwyd ei gorff i orwedd yn y bedd teuluaidd. mewn gobaith am ran yn yr adgyfodiad gwell.

Tachwedd 9, Elisabeth Williams, Ffosygerwyn, Llanfiangel Nantbran, Brycheiniog. yn bedwar ugain a chwech mlwydd oed. Dydd Iau, y 14eg, hebryngwyd ei gweddillion gan dyrfa luosog i gladdfa Sardis, yn ymyl ei phriod. Anerchwyd y gynnulleidfa gan y Parch. J. Evans, Aberhonddu. Yr oedd amryw rinweddau neillduol yn cyfarfod yn yr hen chwaer hon.

Ion. 13, yn 84 oed, Joseph Jones, Nant-yr efail, Bettws, Abergele.

## ARDEB Y PARCH. DANIEL HOLBROOK GILLETTE.

Y gwr ieuangc parchus a thra gobeithiol uchod a orphenodd ei yrfa ddaearol yn nghanol-ddydd oes o ddefnyddioldeb yn Mobile, Alabama, yn mis Chwefror, 1845, yn 32 oed. Trwy garedigrwydd ei frawd, y Parch. A. D. Gillettee, Philadelphia, cawsom ein hanrhegu â'i Gofiant yn gyfrol hardd o 234 o dudalenau; nis gallwn ddarllen nemawr o'i hanes heb orchfygu ein teimladau caletaf, a'n gwneud yn barod i feddwl bod "coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig;" ond y mae ein terfynau yn gwrthod i ni wneud ond crybwylliad byr am dano yn bresenol. Tebyg na chyfarfyddodd cymmaint o nodweddiadau dymunol gyda thalentau mawrion, ac arwyddion o ddefnyddioldeb dyfodol, mewn nemawr o gymeriadau ag a wnaethant ynddo ef; ond yn aml y gwelwn y blodeuyn harddaf yn gwiwo ymaith braidd cyn ymagor yn ei holl ardderchawgrwydd a'i dlysni amryliw, a'r Cristion duwiolaf yn cael ei gymeryd ymaith oddiwrth helbulon y llawr cyn profi nemawr o honynt, fel pe buasai wedi ei fwriadu yn hytrach i fod yn etifedd y nef na chario y groes yn myd yr anial.

Ganwyd D. H. Gillette yn Cambridge, swydd Washington, C. N., yn 1813. Efe oedd yr ieuangaf o bump o frodyr—pedwar o honynt yn weinidogion enwog i'r Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd yn deillio o deulu cyfrifol. wedi eu hanrhydeddu gan yr Arglwydd mewn modd neillduol er ys oesau. Yr oedd Dr. Wm. Gillette yn un o'r Huguenotiaid gwrol, a ddyoddefasant yr erledigaeth fwyaf greulawn er mwyn cydwybod ac er mwyn Iesu yn Ffraingc. Yr oedd yn feddyg adnabyddus ac yn bregethwyr ffyddlon yn ei ddydd. Ar ei deithiau meddygol yr oedd bob amser yn ymdrechol iawn i daenu gwirioneddau yr efengyl, a dangos twyll Pabyddiaeth i'r bobl. Pan dorodd yr erledigaeth Babaidd allan yn Ffraingc gorfu iddo ef ac amryw eraill ddiangc drosodd fel crwydriaid neu ymnoddwyr i'r wlad hon am eu bywydau. Y mae ei hiliogaeth, y naill ar ol y llall, wedi ei ganlyn yn un o'r ddwy swydd anrhydeddus a nodwyd agos yn ddieithriad—naill ai meddygon neu weinidogion y Testament Newydd.

Heb ymhelaethu o barth ei hynafiaid, cafodd y Parch. Daniel H. Gillette ei anrhydeddu â llwyddiant anarferol yn ystod y tymhor byr y bu yn gweinyddu fel bugail i dair o eglwysi y Bedyddwyr yn y wlad hon. Myfyriodd yn ngholeg Hamilton, C. N.; ac ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yn Rahway, J N., ond yr oedd dyledswyddau ei gylch yn rhy bwysig i'w gyfansoddiad i'w cyflawni, a barnodd yn oreu i symud i Charlottsville, Va. Er ei fod yn hynod o gymeradwy a llwyddiannus yma, eto gorfu iddo roddi ei swydd i fynu, o herwydd fod ei iechyd yn parhau i ddadfeilio, a chymerodd daith i Mobile. Llwyddwyd i'w gael yno i gymeryd gofal eglwys St. Anthony Street, lle y llafuriodd nes i'w nerth ddarfod. Ymdrechodd bregethu hyd o fewn dwy wythnos i'w farwolaeth, ond methodd, a chariwyd ef allan, pan y sylwai mai dyma y tro diweddaf iddo fyned allan o'r addoldy. Bu yn offeryn, dan fendith y nef, i ddychwelyd ugeiniau. Yr oedd rhyw neillduolrwydd yn ei ddull o draddodi, fel y crogai ei wrandawyr wrth y miloedd megys wrth ei wefusau. Bu blynyddau cyhoeddus ei fywyd yn enwog a bendigedig; ac nid oes neb a'i clywodd nad yw yn parchu ei enw. Pan ddaeth marw, yr oedd ef yn dawel—nid oedd ganddo ddim i'w wneud ond marw. "Yr oedd ei farn gyda'r Arglwydd, a'i waith gyda'i Dduw."

"NI WYR NI DDYSGONI DDYSG-NI WRENDY."

College Library
Evans

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] EBRILL, 1851. [RHIF. 82.

CYNNWYSIAD.


Politics a Chrefydd, . . . . . 77
Sefyllfa Foesol Dynolryw, . . . . 79
"Pwy yw fy Mrawd!" . . . . 80
Gemau Crefyddol, . . . . . . . 81
Meddwdod, . . . . . . . 81
Y Tybaco, . . . . . . . 81
Proffwyd tlawd, . . . . . 82
Yrenw Jones yn uchaf, . . . . . 82
Pregethwr teithiol a Diacon, . . . 82
Ariandy Lloegr, . . . . . 82
Dedwyddwch, . . . . . . . 82
Cyfarchiad y Parch. J. F. Berg, D. D., mewn ateb-iad i Ddarlith yr Archesgob Hughes ar Ad-feiliad Protestaniaeth, . . . 82
Pabyddiaeth—at y Cymry, . . . . 87
Pryddest-awdl ar Long-ddrylliad Dynoliaeth, 87
Helyntion Ymfudawl, . . . . 89
Llythyr o Wisconsin at D. T. Jones, Minersville, 90
Y Welsh Yankee, . . . . . 91
Welsh Creek, Ill., . . . . . . 91
Yr Ysgrif Bostwyddfaol newydd, . . . 92
Y Gynghorfa Ddiweddaf, . . . . 92
Yr etholiadau yn Nhalaeth Caerefrog Newydd, 92
Argraffu a Dwfr, . . . . . . . 92
Ysgol Sabbothol a Chyfarfodydd Cymreig Rattling Run a Yellow Spring, Pa., . . . 93
Dedfryd Pyfer y Llofrudd, . . . . 93
Carbondale yn Ddinas, . . . . 93
Bedydd yn Minersville, . . . . . 93
Y Spiritual Knockings, . . . . . 93
Anerchiad at y Cymry yn y Talaethau Unedig, gan y Pwyllgor Canolbarthol tuagat feddiannu Maen yn Nhofgolofn Washington, . . 93
*Genedigaethau*, . . . . . . . 95
*Priodasau*, . . . . . . . 95
*Marwolaethau*, . . . . . . . 95
*Gofyniadau*, . . . . . . . . 96


HANESIAETH DRAMOR.


Prydain Fawr, Iwerddon, &c. . . 96
Rhufain, . . . . . . . . 96
Yspaen, . . . . . . . . 96
Prwsia ac Awstria, . . . . . . 96
Rwsia ac Awstria, . . . . . . 97
Twrci, . . . . . . . . . 97
Brazil, . . . . . . . . . 97
Trefedigaeth Gymreig yn Rio Grande, Brazil, 97
Masnach yr Haiarn, . . . . . 97
*Tywysogaeth Cymru.*—Storom gref, . . 98
" " Urddiad Gweinidogion yn Hengoed a Blaenconyn, 98
" " Aberystwyth, . . 98
" " "Y Principality," . . 99
" " Pentyrch, . . . 99
" " Rumni, . . . . 99
" " Cwmifor, . . . 99
" " Twynyrodyn, Morganwg, 99
" " Urddiad yn Coginan, . 99
" " " Pontardawy, 99
" " Ebenezer, Merthyr, . 99
" " Lerpwl, . . . . 99
" " Eisteddfad Gelligroes, 99
" " Cynnrychioliad Morganwg, 100
" " Sefydliad Gweinidog, 100
" " *Marwolaethau*, . 100


POTTSVILLE:

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞Derbyniasom y taliadau canlynol—J. James, Zanesville, O., $5; C. Richards, New York, $5; John Prosser, Brady's Bend, $5; Edward Farr, Summit Hill, $2 50, a $2 am lyfrau eraill; John G. Davies, Cincinnati, $7; Ambrose Ambrose, Covington, $1; Wm. Hughes, Welsh Creek, Ill., $1; Lewis D. Lewis, Scrantonia, $3; Evan Williams, Tuscarora, 1 25; H. Davies, Utica, $20; Lewis N. Lewis, Columbus, Ohio, $5; W. Thomas, Rattling Run, am lyfrau $1; B. Griffiths, Tamaqua, ar ddwy waith, $5 25; J. J. Williams, Blossburg, $5; [dylesid cydnabod y taliad hwn y mis diweddaf;] W. Davies, Pottsville, 75 cents; J. J. ac eraill, $4.

☞Gorfu arnom adael allan ysgrifau Ewyllysiwr Da i Seion; y Parch. W. Morgan, Pottsville, a Thon a Phennillion, cyfl. W. Collins, Cincinnati, o herwydd diffyg lle. Ymddangosant yn y nesaf.

☞Daeth gohebiaeth W. Roberts, Talmadge, ac ail lythyr y Parch. W. Jones, Remsen, yn rhy ddiweddar i'r rhifyn hwn.

☞Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

---

☞Yr ydym yn anfon ryw nifer o Gyfarchiad Dr. Berg gyda y sypynau am y mis hwn i wahanol fanau. Hyderwn y gwna ein cyfeillion eu goreu i'w gwerthu a'u gwasgaru. Eu pris yw 6¼cts. Er annogaeth i'r Ysgolion ac eraill eu prynu roddir 20 am ddolar.

---

BYWYD JOSEPH.—Mae yr hanes ddifyrus hon, fel y mae wedi ymddangos o fis i fis yn y Seren, wedi ei gwneud i fynu genym yn llyfr bychan, 192 o dudalenau, wedi ei rwymo yn dda, am 31 cents yr un, neu bedwar am ddolar i'r Ysgolion Sabbothol. Gellir eu cael gan argraffydd y Seren, neu y Parch. E. B. Evans, Pittston Ferry, Pa. Gellir cael rhai o honynt wedi eu rhwymo yn hardd mewn morocco, am bris ychydig uwch. Mae yn atob yn ragorol i'w roi yn anrheg i blant.

Gyrwn y llyfrau uchod i'r rhai sydd wedi danfon am danynt o leoedd pellenig mor fuan ag y gallwn gael cyfleusdra. Mae y cludiad yn ormod i'w danfon gyda y *post*.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU,—Am JOB a HANNAH LEWIS, gynt o Dredegar, swydd Fynwy. Gadawsant Loberry Mines, ger Pinegrove, tua dwy flynedd yn ol. Gallant glywed rhywbeth er eu mantais trwy anfon eu cyfarwyddyd i olygydd y Seren Orllewinol, neu i Mr. Morgan Lewis, Loberry, Tremont P. O., Schuylkill Co., Pa.

HEFYD—

YMOFYNIR am EDWARD JENKINS, (*Collier*,) yr hwn a adawodd ei deulu yn Pittston Ferry, Pa., yn mis Awst diweddaf. Yr enw wrth ba un yr oedd yn adnabyddus gan y rhai a'i hadwaenai yn yr Hen Wlad oedd Edward Pont Cotun, Rhymney. Dymuna ei wraig yn ostyngedig os gwyr rhyw rai pa le y mae i ddanfon gair at ei briod gofidus gyda brys. Cyfeirir ati Jane Jenkins, Pittston, Luzerne Co., Pa.

---

BEIBLAU A THESTAMENTAU CYMREIG.—Y mae Golygydd y Seren wedi derbyn nifer o Feiblau a Thestamentau Cymraeg o wahanol brisoedd a maintioliaeth. Y mae amryw bersonau a rai ysgolion wedi bod yn ymholi am danynt er ys rai misoedd trwy yr ardal. Hysbyswn y gallant eu cael genym am arian parod ar y telerau mwyaf rhesymol. Gwneler brys i anfon am danynt, cyn y byddant oll wedi eu gwerthu.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D.D.—Yr ydys wedi argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithwyd ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.

---


# "Y DRYCH."

**Pris $1 y flwyddyn yn mlaen llaw. $1 50 yn niwedd y flwyddyn.**

NEWYDDIADUR CYMREIG, YN CAEL EI GYHOEDDI YN EFROG NEWYDD AM 1851.

Y DRYCH, NEWYDDIADUR WYTHNOSOL CYMREIG, yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o ddarllen mewn Cyhoeddiadau o'r fath. Bydd y NEWYDDION Cartrefol a Thramorol mor gyflawn a dim a gynnwysir yn yr WYTHNOSOLION SEISNIG; yn enwedig bydd y NEWYDDION CYMREIG yn fwy cyflawn a diweddar nac a geir trwy unrhyw gyfrwng arall yr ochr hyn i'r Werydd. Yr ydym wedi pennodi goruchwyliwr cyfrifol yn Llynlleifiad i dderbyn a llwybreiddio, gyda phob agerlong yn ymadael i'r Talaethau Unedig, newyddion a gohebiaethau bwriadol i'r DRYCH.

Yr ydym wedi dyogelu y personau canlynol, fel goruchwylwyr cyffredinol a gohebwyr wythnosol yn Mhrydain:
Mr. THOMAS MANUEL, diweddar Olygydd yr Amserau, yn Llynlleifiad.
Y Parch. JOHN M. THOMAS, Coed-duon, swydd Fynwy (diweddar o Efrog Newydd,) dros Ddeheubarth Cymru.
Y Parch. WM T. THOMAS, Llanddaniel, swydd Fon, dros Ogledd Cymru.

Heblaw y gwyr uchod, yr ydym wedi cael addewid o ohebiaethau achlysurol oddiwrth amryw o ysgrifenwyr Cymreig fraethaf a llyfnaf Prydain ac America.

Cyfarwydder pob archebion a gohebiaethau yn ddidraul, at JOHN M. JONES,
51 Beaver-Street, New-York.


---


# O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dy gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneud pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] EBRILL, 1851. [RHIF. 82.

## POLITICS A CHREFYDD.

LLYTHYR II.

YR ydym wedi dangos yn barod natur y cyssylltiad sydd rhwng crefydd a *pholitics*, neu rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth. A'r peth nesaf ag sydd yn dyfod dan ein sylw yw nodi rhai ystyriaethau er dangos fod y fath gyssylltiad rhyngddynt ag sydd wedi ei nodi a'i eglurhau yn y Seren am fis Ionawr.

Gellid meddwl, ar yr olwg gyntaf, ei bod yn hollol afreidiol i nodi un rheswm er argyhoeddi unrhyw gorff crefyddol eu bod dan rwymau i ufuddhau i Dduw, a gweithredu yn ei ofn ac er ei ogoniant pan yn ymwneud â materion y wladwriaeth; ond y mae yn hysbys i ddarllenwyr y Seren a llawer eraill, bod hyd y nod cymanfaoedd yn y wlad yma yn gwadu hyny yn hollol, ac yn gwrthwynebu y rhai sydd yn gofyn cynorthwy eu gweddiau a'u pleidleisiau i buro y wladwriaeth oddiwrth ei llygredigaethau, nid â rhesymau têg, ond â haeriadau noeth,—gormes a thrawsawdurdodiad eglwysig. Clywodd yr ysgrifenydd am un a gynnygiodd y mater yma i sylw cyfarfod cyhoeddus ychydig amser yn ol, ond gwrthwynebwyd ef yn uniongyrchol drwy fygythion haerllug, &c.; ond drwy fod y person uchod yn deall ychydig am natur llywodraeth eglwysig, methwyd ei ddychrynu i ddystawrwydd drwy foddion fel hyn. Wrth weled nad oedd hyny yn tycio, hysbyswyd y cyfarfod fod rheolau yr eglwys hono yn gwahardd yn y modd mwyaf caeth i ymdrin dim ag achos dynoliaeth o fewn ei muriau cyssegredig. A thyma fel y safodd y mater. Onid ydyw yn druenus meddwl fod dynion drwy eu traddodiadau am ddysgyblaeth eglwysig yn diddymu gair Duw—yn gosod cyfreithiau tragywyddol y nefoedd dan draed, ac yn haeru mai eu rheolau eglwysig ydyw yr *higher law?*

Ond i ddyfod at y pwngc. Addewais nodi rhai ystyriaethau er dangos fod dyledswyddau pwysig gan grefyddwyr i'w cyflawni yn nghyssylltiad â'r wladwriaeth. Ac yr ydwyf yn awr yn galw eich sylw at y pethau canlynol.

Mae gan bob dinesydd yn y wlad yma hawl i bleidleisio dros rai pethau, ac yn erbyn pethau eraill. Pan y byddo dynion anghymwys a diegwyddor yn cael eu cynnyg i sylw y cyhoedd fel ymgeisyddion am swyddau cyfrifol yn y wladwriaeth, mae ganddo hawl i roi ei bleidlais dros ddynion da ag ydynt yn bleidiol i'r fath ddiwygiadau, ac yn ymrwymo i'w dwyn yn mlaen. Mae llawer o bethau yn ein gwlad ag sydd yn angenrheidiol eu dileu. Gellid nodi llawer o bethau ag sydd yn cael eu goddef yn America ag ydynt yn atalfeydd i lwyddiant yr efengyl. Nis gall yr efengyl lwyddo nes eu symud. Mae yma gyfreithiau ag sydd yn gwahardd yn y modd mwyaf caeth i'r efengyl gael ei phregethu yn ei phurdeb i ddosbarth helaeth o fodau anfarwol a fydd yn cyfarfod â ni yn nydd mawr y cyfrif. Gwrthodir iddynt bob math o addysg ag sydd yn angenrheidiol er eu gwneud yn gysurus yma ac i'w parotoi erbyn byd arall. Mae yn wir fod llawer o'r caethion yn cael clywed pregethu. Ond gofynaf pa fath bregethau maent yn glywed? Mae gwahaniaeth rhwng pregethu a phregethu. Mae yr offeiriad pabaidd yn pregethu i'w wrandawyr, ond pa fath bregethau mae yn ei draddodi iddynt? Gall un dull o bregethu fod yn felldith tra byddo dull gwahanol yn fendith. Pa fodd y gall y caeth garu Duw yn y dull y gosodir ei gymeriad allan yn y de? Mae y pregethwr yno yn eu dysgu fod Duw wedi gwneud y dyn gwyn yn arglwydd ar y dyn du, ac fod y dyn du wedi ei fwriadu—wedi ei wneud—i'r dyben o wasanaethu y dyn gwyn, a'i fod yn bechod iddynt i beidio a gwneud hyn, &c. Rhyw sothach fel hyn, ac nid yr efengyl, sydd yn cael eu pregethu i'r caethion yn eu gwlad—y rhai sydd yn cael clywed pregethu mewn un dull; ond y mae miloedd nad ydynt yn cael clywed un math o bregethau, nac yn gwybod math o lythyren ar lyfr. Mae llawer o honynt yn byw yn yr aflendid a'r anfoesoldeb mwyaf ffiaidd, ac ymddygir tuag atynt gan eu meistriaid yn y modd creulonaf. Ni chaniateir iddynt gael eu dysgu, eu moesoli, a'u dyrchafu, mewn modd efengylaidd. Ni chaniateir iddynt gael cymmaint a Beibl, na chael eu dysgu i'w ddarllen, rhag ofn iddynt wybod mai *dynion ynt*. Gall y caethfeistr eu darostwng i

unrhyw wasanaeth ag y cymhellir ef atynt gan ei dueddiadau llygredig. Ac y mae llawer o honynt yn cymeryd mantais oddiwrth awdurdod fel hyn i'w defnyddio i'r dybenion mwyaf aflan, ffiaidd, ac anfoesol. Os gwrthodant ufuddhau i orchymyn y caethfeistr, hyd y nod pan y byddo gwneud ei orchymyn yn bechod yn erbyn Duw a'u cydwybod eu hunain, mae ganddo hawl yn ol cyfreithiau ei wlad i'w cospi yn y modd mwyaf creulon.—Dyma fel y mae llawer o'n brodyr a'n chwiorydd yn cael eu trin gan y gormeswr. Nid oes gan y gyfraith yr un clust i wrando cwynion galarus y caeth, na'r un llaw i'w hamddiffyn. Mae y gyfraith yn edrych arno ef fel meddiant, ac nid fel person—mewn geiriau mwy amlwg, fel anifail ac nid fel dyn. Ond os ydyw y gormeswr—y gyfraith—a llawer o eglwysi a chymanfaoedd yn fyddar i ruddfanau dynoliaeth orthrymedig, mae yn gysur i'r caeth feddwl fod Duw yn y nefoedd ag sydd yn gwrando ar ei gruddfanau—yn prysuro i'w gwaredu—yn codi dynion i fynu i ddadleu ei achos, ac i dori ei gadwynau. Dyma yw natur a gweithrediadau caethiwed, ynghyd a'r cyfreithiau ag sydd yn ei amddiffyn yn ein gwlad. Yn awr, cymeraf yn ganiataol yr addefa pob crefyddwr ag sydd yn caru gweled teyrnas Crist yn llwyddo ar y ddaear a phechaduriaid yn cael eu dychwelyd ato, y dylid dileu y fath gyfreithiau a'r fath drefniant yn ddioedi o'n plith. Ond dichon y dyweda rhai nad oes y fath gyfreithiau a'r rhai uchod yn y gogledd, ac nad oes dim a wnelom ni â chyfreithiau y de. Gellid cyfeirio y rhai sydd yn ymresymu fel hyn at ddeddf y ffoedigion, yr hon sydd yn perthyn i'r gogledd gymmaint os nid mwy nag i'r de. Ond a chaniatau nad oes cyfreithiau yn amddiffyn caethiwed yn y gogledd, ni byddai hyny yn gwneud un wrthddadl yn erbyn yr ymresymiad sydd dan ein sylw yn bresennol. Dadleu yr ydym ni yn awr fod cyssylltiad rhwng crefydd a pholitics—y dylai politics fod dan ddylanwad crefydd. Ond os nad oes cyssylltiad rhyngddynt yn y gogledd nis gall fod cyssylltiad rhyngddynt yn y de. Os nad ydyw yn ddyledswydd ar grefyddwyr y gogledd i wrthwynebu cyfreithiau annuwiol, nis gall hyny fod yn ddyledswydd ar grefyddwyr y de. Os ydyw yn anghyfreithlon i'r naill i ymwneud â materion gwladol y mae felly i'r llall hefyd. Yr un ydyw gwir grefydd yn mhob man. Os gall cymanfaoedd y gogledd rhyddhau yr eglwysi oddiwrth ddyledswyddau politicaidd, gall cymanfaoedd y de wneud yr un modd. Pa fodd yntau mae dileu y fath gyfreithiau? Braidd na cheir gan bob eglwys yn y gogledd, o'r hyn lleiaf mewn dull oeraidd, i addef y dylai y fath gyfreithiau anghristionogol a'r fath drefniant a chaethiwed gael ei ddileu. Ond y maent yn gwadu mai nid eu dyledswydd hwy ydyw gwneud hyny—mae yn bechod iddynt hwy ymwneud â'r fath faterion daearol. Dyma athrawiaeth ryfedd iawn. Gadewch i ni edrych i mewn i'r gwaelod. Dyma beth a addefir sydd eisiau ei wneud, ond y mae yn bechod i'r eglwys ac i grefyddwyr idd ei wneud. Felly mae yn rhaid i ryw un bechu idd ei gyflawni! "Mae eisiau ei wneud," meddai y crefyddwr, "ond y mae yn bechod i ymyraeth dim ag ef er hyny." Os oes eisiau ei wneud mae yn rhaid ei fod yn dda—nid oes eisiau gwneud drwg. Nis gall yr eglwys bechu wrth gyflawni ewyllys yr Arglwydd, ond gall bechu wrth beidio ei chyflawni. Mae yn un o'r anghyssonderau mwyaf i eglwysi i ddywedyd fod eisiau cael diwygiadau yn y wladwriaeth, ond ei fod yn bechod iddynt hwy fel crefyddwyr i ymyraeth dim â'r peth. Wel, pa fodd mae dwyn diwygiadau gwladol yn y blaen gan grefyddwyr neu aelodau eglwysig? Yr ydys wedi dangos yn barod fod gan bob dinesydd hawl i roddi ei bleidlais yn erbyn pethau drwg a llygredig yn y wladwriaeth, a thros yr hyn sydd dda a rhinweddol. Os bydd mwyafrif y pleidleisiau dros newid y deddfau uchod, neu ddileu rhyw bethau niweidiol allan o'r llywodraeth, fe ellir ei wneud. Barn y cyhoedd, fel ag y mae yn cael ei amlygu yn y bleidlais, sydd yn llywodraethu pob gwlad rhydd—yn cymeradwyo neu yn anghymeradwyo ei chyfreithiau. Nid ydyw ein cyfreithiau ddim ond geiriau eraill am farn neu feddwl y cyhoedd gyda golwg ar unrhyw beth—mae yr hawl i bleidleisio yn gwisgo crefyddwyr â gallu effeithiol i gyrhaeddyd dau ddyben pwysig, sef yn 1. Atal drygau niweidiol i'r llywodraeth, a symud rhai ag sydd yn bodoli yn barod. Mae yn hawddach atal drwg na'i symud wedi iddo gymeryd lle. Pe buasai crefyddwyr wedi gwneud eu dyledswydd yn y blynyddau sydd wedi myned heibio, ni fuasai y fath beth a deddf y ffoedigion wedi ei ffurfio a'i gosod mewn grym, yr hon sydd wedi troi gwladwriaeth America yn helfa caethion ffoedig. Eu dystawrwydd hwy i raddau pell fu yn achos i'r fath ddeddf gael ei ffurfio. Peth hawdd fuasai ei hatal, ond peth anhawdd fydd ei dileu. Yr oedd yn hawddach atal caethiwed i ddyfod i'r wlad yn y dechreu na'i symud. Mae yn awr fel pren wedi gwreiddio yn ddwfn yn y ddaear, ac nid gwynt bach sydd yn ddigon i'w daflu i lawr. Mae wedi ymglymu â sefydliad poblogaidd. cyfreithiau y wlad, ac elw llawer o'i thrigolion. Mae bywoliaeth llawer yn ymglymu â masnachu

mewn dynion. Maent yn credu fod eu dedwyddwch tymhorol yn ymddibynu ar barhad caethiwed, ac nid anogaethau bychain a gymhella rhai fel hyn i rei eu caethion i fynu yn ddiderfysg. Yn y modd hyn y mae un drwg yn arwain i ddrygau eraill; ac y mae atal un drwg yn gwneud llawer o les. 2. Y mae yr hawl i bleidleisio yn ddefnyddiol, nid yn unig i atal a symud pethau drwg, ond hefyd i wneud daioni, drwy bleidio cyfreithiau, dynion a mesurau da, &c. Mae yn ddigon eglur yntau y dylai crefyddwyr ddefnyddio y gallu neu yr hawl yma. Dyma y modd y gallant symud y pethau ag sydd yn ein gwlad yn atal yr efengyl i lwyddo. "Yr hwn a allo wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod yw iddo." Mae gelyniaeth dragywyddol rhwng y groes â phob pechod, ac y mae y crefyddwr hwnw ag sydd yn peidio gwrthwynebu pechod yn mhob modd yn elyn i groes Crist. Pa beth! Crist yn marw er dinystrio gweithredoedd y diafol, a'i ganlynwyr yn eu hadeiladu drachefn! Onid yw hyn yn anghyssondeb erchyll? Gellir ysgrifenu uwchben drws llawer eglwys yn y dyddiau hyn—

"False to their trust."

[I'w barhau.]

Yr eiddoch, &c.

*Marcy.* ALFRED HARRIS.

## SEFYLLFA FOESOL DYNOLRYW.

[Parhad o dudal. 58.]

Cydnabyddaf, Mr. Golygydd, fod fy ysgrif yn rhedeg yn bell, ond os goddefa eich hynawsedd mae a fynwyf ychydig yn mhellach â'r bechgyn hunan-alluog hyn. Deuaf at hyny trwy eu hannog i beidio llunio anwiredd ar eu rhieni cyntaf, pa rai sydd er ys blynyddau bellach wedi myned yn ymborth i bryfed y llwch. Arwydd o ddiffyg nid bychan ydyw llunio anwireddau ar neb, yn enwedig ar rhieni, a'r rhai hyny wedi meirw hefyd. Yr anwiredd a olygir genyf yn bresennol yw hwn, sef bod "Adda ac Efa wedi tori eu hammodau." Mae haeriadau o'r fath yn naturiol yn cenedlu y gofyniad, Pa beth oeddent wedi ei ammodi? a thyna hwy yn awr yn y *ditch*, heb fod ganddynt ddim i'w wneuthur ond gwasgu'r glust ac edrych ar eu gilydd, neu redeg i ryw *gyffes*, neu *gredo*, neu *holwyddoreg*. Ond cofier nad oes dim yn y gyffes a fwriadodd y nefoedd i fod yn reol ein ffydd a'n hymarweddiad a'n tuedda i ddychymmygu yn y mesur lleiaf fod eu Creawdwr mewn un modd wedi gofyn oddiwrthynt nac *ammod* na *chydsyniad;* ond yn hytrach i'r gwrthwyneb y dengys y gyffes a nodwyd trwyddi oll, sef fod y grym rhwymedigaethol a berthyna i'r hyn a osodwyd o'u blaen yn tarddu yn unig oddiar orchymyn ac awdurdod y Gosodwr. O ganlyniad, un o blant naturiol yr egwyddor hunanol ydyw y dychymmyg uchod, yr hon egwyddor nas gall oddef fod y Creawdwr yn nac wedi gwneud dim heb ei chydsyniad hi. Un o *erthyglau* ei ffydd yn mhob oes o'r byd ydyw golygu am dani ei hun ei bod yn gwybod nid yn unig cymmaint ond llawer mwy na phawb eraill. Y peth nesaf ydyw ymdrechu gwadu pob peth nas gall ei gynnwys a'i amgyffred; a'r nesaf at hyn ydyw, gwrthwynebu a beio pob peth a fo a'i duedd i'w gosod hi yn ei lle priodol; a thra dalio at yr articlau hyn y mae yn ddyogel y cawn ei chlywed yn ei deiliaid yn awr ac eilwaith yn rhyfela â, grwgnach yn erbyn, a beio ar ben-arglwyddiaeth y Jehofa, gan ddywedyd, "Un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn, a thi a'u gwnaethost hwynt yn gystal â ninau." "Wele, cynnifer o flynyddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throseddais i un amser dy orchymyn, ac ni roddaist fynn erioed i mi i fod yn llawen gyda'm cyfeillion; eithr pan ddaeth dy fab hwn, yr hwn a ddifaodd dy fywyd di gyda phuteiniaid, ti a leddaist iddo ef y llo pasgedig," &c. "Ymddengys i mi nas gall hyn fod yn unol â natur llywodraeth foesol a rhyddweithrediad dyn," &c. Dichon Mr. Gol., fod y dull diweddaf hwn o rwgnach heb ddyfod o'r plisgyn yn oes y grwgnachwyr cyntaf, pe amgen diau y cawsai ei arferyd, o herwydd ymddengys tu hwnt i bob amheuaeth eu bod yn ffrwyth yr un cyndad, ac wedi eu magu a'u meithrin ar yr un bronau; o ran nid oes neb ond yr hiliogaeth hyn mor gyfarwydd â natur y llywodraeth, ynghyd ag amrywiol o gyfrinachau a dirgel-bethau yr orsedd. Mae eu dull gwybodus yn dadleu y pethau hyn yn ddigon a gwneud i ddynion cyffredin i feddwl eu bod i'r orsedd uchaf yr un mewn ystyr a'r hyn ydoedd Syr Robert Peel yn ei ddydd i'r orsedd Frydeinig. Ond rhag iddynt ein twyllo, trown i'r 20fed ben. yn Mathew, 13—16 adn. Yno cawn weled pa sylw y mae y Brenin yn wneud o honynt. Yn awr, wrth derfynu, cymhellaf arnynt un annogaeth yn rhagor, sef yw hyny, peidio a choleddu y dychymmyg dwl, ynfyd, a gwrthdrawiadol o fod dynoliaeth yn awr yr un modd a chyn iddi dori yr hyn a osodwyd o'i blaen gan ei Chreawdwr, yn meddu ar allu digonol i ddod i fynu â'i dyledswyddau,—sef caru Duw â'i holl galon, &c. Yr wyf yn ei alw [yn awr yn ddychymmyg dwl, ynfyd, &c. yn—1. Am ei fod heb yr un sylfaen yn Nghair Duw. Yn 2. Am fod y gair yn dywedyd yn bendant, "Ac nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun;" Salm 22. 29; Job 9. 2, 3; Salm 130. 3, &c. Yn 3. Am ei fod yn rhagdybied dynoliaeth fel yn meddu ar allu digonol ynddi hi hun i osod ei hun mewn sefyllfa nas gall deddf santaidd Duw ddywedyd yn ei gwyneb, Euog; o ganlyniad mae yn rhwym o ddywedyd, Cyfiawn. "Oblegyd ni chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf" Gal. 2. 16 a 21. Yn 4. Am ei fod yn taflu anfri ar yr amlygiadau penaf o'r cariad mwyaf, trwy osod yr angenrheidrwydd o iawn fel yn tarddu oddiar esgeulusdod a

diogi dynoliaeth, ac nid oddiar eu hanallu neu eu hannigonolrwydd, ac felly yn golygu yr Iawn yn iawn dros un ag ydoedd a digon o arian yn ei bwrs i dalu drosto ei hun. "Canys Crist, pan oeddem ni eto yn weiniaid," &c. Rhuf. 5. 6. Yn 5. Am ei fod yn golygu fod ffordd i'r nefoedd heblaw trwy yr hwn a ddywedodd, "Myfi yw y ffordd—nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Yn 6. Am ei fod yn golygu y gellir gwneud Babilon, neu gymysgfa warthus o'r nefoedd, a hyny mewn amrywiol ystyriaethau; nodaf un, sef anthem yr hil ddynol; gwrandaw arnynt yn awr yn rhedeg drosti, "Iddo ef, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni," &c. "I ni ein hunain y bo'r diolch am ein gallu." "Iddo ef yr hwn a'n carodd ni." "I ni ein hunain am ein gallu." "Iddo ef." "I ni ein hunain," &c. Ddarllenydd anwyl, dyma le rhyfedd!! Ond gan fy mod yn meddwl fy mod yn dy glywed yn dywedyd, 'Digon, digon,' ni chwanegaf ond yn unig dywedyd, O'r holl bethau sydd a'u tuedd i wneud *ffwl* o ddyn, canfyddwn yn eglur mai nid y lleiaf yn nygiad hyn oddiamgylch ydyw y wybodaeth hunan-dybiol, &c. "Pan dybient eu bod yn ddoethion hwy a aethant yn ffyliaid;" Rhuf. 1. 22. Os mai ffolineb mewn dyn ydyw ymdrechu cael ffrwyth da oddiar bren drwg—dwfr glan o ffynon fydr—bara croyw o does sur, &c., mae y ffolineb hyn yn anfeidrol fwy felly. Ond trwy drugaredd yr hyn oedd yn anmhosibl gyda dynion a gawd yn bosibl gyda Duw. Yn feddiannol ar barch tuag ato, am ei fod yr hyn yw gwneler ni oll. Amen.

IOAN O FORT SCHUYLER.

## "PWY YW FY MRAWD?"

BRAWD sydd air a gyfansoddir o'r gwreiddair *bru*, a'r terfyniad *awd*, sef *bruawd*, ond a dalfyrir *brawd;* efelly, fy mrawd ydyw un o'r un bru â mi. Trawsenwir y gair hwn yn fynych mewn gwahanol amgylchiadau, megys brawd maeth y galwant yr hwn a gydfagwyd â mi—brawd cymdeithasol ar yr hwn a fyddo yn aelod o'r un gymdeithas, &c. Dywedodd Iesu Grist wrth ei ddysgyblion, "Chwithau oll brodyr ydych." Cadwyd yr enw a'r peth hefyd yn eu hunlle cyhyd ag y bu Cristionogaeth yn dirwyn ei hanadl o'i hawyr gynhenid; ond yn fuan sed i ymofyn pwy a gai fod yn ben, ac nid pwy a fyddai yn frawd? Yn awr, dyma y frawdoliaeth wedi myned yn elyniaeth, a'r gwahanol eglwysi gledd yn nghledd. Troes y fuddugoliaeth o du Rhufain, a phenderfynwyd trwy resymeg y cleddyf mai yr eglwys hono a gelai fod yn fam-eglwys trwy y byd mawr o gwr bwy gilydd; a chyfenwai ei hun yn eglwys lân gatholicaidd. Nyni a drown ein gwynebau yn awr i'r lle cyssegredig hwn, ac a edrychwn pa faint o frawdoliaeth sydd rhyngddynt â'u gilydd yma. Y prawf a'n darbwylla yn drwyadl mai yn ofer y chwiliwn am wir frawdoliaeth yn holl ystafelloedd cyssegredig y ddinas ymerodrol; canys ni oddefai uchelgais yr offeiriaid iddynt fod yn frodyr i'r bobl. Aeth y brodyr yn fuan yn barchedigion, yn wir barchedigion, ac yn wir barchedigion dadau yn Nuw, &c. Ffaith nas gellir ei chelu yw fod y llygredigaeth yma wedi rhedeg yn un ffrwd lifeiriol dros yr holl fyd Cristionogol.—Gan fod yr aur pur wedi tywyllu, a'r gogoniant tragywyddol i raddau mawrion tan leni y nos, yn ofer y chwiliwn am gymdeithas wir frawdol yn un man. Tybiwyf mai y gymdeithas agosaf i'r un Gristionogol a gynnygiwyd i sylw y byd ydyw y gymdeithas Odyddol. Y mae yr enw brawd o leiaf yn cael ei arddelwi yn anrhydeddus yn y gymdeithas hon; canys ni chywilyddia boneddigion penaf ein gwlad yma i gael eu galw yn frodyr i'r tlotaf a'r dystadlaf o fewn cylch y cyfundeb. Gwirionedd galarus ar y cyfan yw, fod yr enw yn fwy adnabyddus nâ'r peth. Gair bychan hawdd ei barablu yw brawd; er hyny nid hawdd yw cael allan wir frawdoliaeth. Y mae y gair ar flaen tafod y gwir a'r gau odydd, ond ni cheir y peth namyn yn y fynwes wir odyddol. Gwir fod llawer wedi ymwthio i'r cyfundeb Odyddol heb ystyried fod cymmaint ag un brawd yn yr holl fyd iddynt. Y maent dan lywodraeth hunan-les, a dim arall. Nid yw Odydd mwy na rhyw un arall, idd ei feio am ofalu am les personol. Dyma ddeddf gyntaf natur. Ond y mae Odyddiaeth yn dysgwyl rhywbeth mwy na hyn yn mhob un o'i phlant. Nid yw y foneddiges hon yn cydnabod neb fel ei gwir deulu ond y rhai sydd yn ymhyfrydu mewn gwneuthur daioni i'r holl deulu dynol, ac yn enwedig i'r brodyr o'r cyfundeb hwn. Y mae yr unbenes Odyddol yn edrych yn llawer mwy parchus ar y dyngarwr sydd tu faes idd ei therfynau nag ar yr un anfrawdol sydd tu fewn iddynt. Wele, y mae y gofyniad o hyd yn aros heb ei ateb; canys mi a welaf fod yr anturiaeth yn ormod i mi ymddibynu ar neb fel fy mrawd ond yn unig wrth ei ffrwyth; canys y mae dynion yn medru llechu yn nghysgod yr enwau y gwelant yn dda eu hunain. Wedi methu dyfod o hyd i fy mrawd wrth ei enw, nis gallaf wneud yn well nag ymofyn am dano wrth ei nodwedd, canys "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt," meddai Dwyfol brofiedydd. Gyda'r arweinydd yma, ynte, mi a roddaf dro trwy anialwch y byd i chwilio am fy mrawd—pwy yw fy mrawd? Nid yr hwn a addawa i ni bob peth, ac ni rydd i mi ddim—nid yr hwn a'm canmola yn fy ngwyneb, ac a'm henlliba yn fy nghefn—nid yr hwn a wena yn fy wyneb, ac a rydd y bicell yn fy nghalon, &c. Nage, nage, nid hwn, pa fodd bynag, yw fy mrawd. Pwy ynte yw fy mrawd? Y mae idd ei gael mewn rhai manau hyd y nod yn mhlith plant dau-wynebog Adda. Ond un o ddeng mil ydyw. Nis gallaf ei ganfod trwy y gwydr gloyw. Nis gallaf ei adnabod yn y dydd y mae pelydr haul llwyddiant yn peri i mi weled pawb yn frodyr i mi; pan o'r braidd y medraf gredu fod cymmaint ag un gelyn i mi yn yr holl fyd, oddigerth ambell genfigenddyn sydd yn teneuo ar fy mraster; ond pan aeth fy haul is ei orwel—pan gymerodd ei daith i dir machludiad—pan ymgynnullodd y cymylau ynghyd—pan ddechreuodd y

ddryc-hin ofnadwy ymdywallt ar fy mhen, ciliodd fy mrodyr oll ond un i'r cysgod, nid oeddwn yn gallu ei ganfod gan dawch du; efe a estynai ei law i mi; yna gofynais gyda llais crynedig, Pwy oedd wedi aros. Yntau a atebai, Dy frawd Odyddawl. Dychlamodd fy nghalon yn fy mynwes er cymmaint oedd fy nghofid; adgofiais hen wireb a fynych adroddai fy mam, sef, "Y càr cywir yn yr ing ei gwelir." Yna cefais ychydig o hamdden, tra yr ydoedd y cwmwl arall yn ymgrogi; a chan wasgu ei law, cyferchais ef gan ddolefain, Ffrawd, frawd, clywais dy enw ganwaith, ond yn awr yr ydwyf yn teimlo dy werth. Pryd nad oedd arnaf angen am gymhorth yr oedd digon ya cynnyg, ond pan y byddai yn dda cael llawer, ni cheir ond un. O fy mrawd, ebai yntau, pa beth a allaf weinyddu i ti? Y mae genyf ychydig win yn fy nghostrel, ac ychydig deisenau yn fy nghod; y mae pob ergyd a deimli yn cyrhaedd fy ymysgaroedd, y mae dy ddagrau di yn ddagrau i minnau; ac y mae yr ychydig seibiant a fwynhei megys yn llacio llinynau fy nheimlad. Pa beth a gymeri genyf? Atebais, Dim—dim ond ireiddio ychydig ar y gwefusau sydd yn crino o flaen awelon angeu, a symud y chwys a weli fod yn arwyddo dynesiad ingol marwolaeth; a thra byddo dy law yn cyflawni hyn bydded i dy weddi gyflwyno dy enaid i Dad yr ysbrydoedd, yna y byddi yn rhwym o gilio draw, ond nid heb gyflawni rhan brawd. Ni elli lynu yn hwy. Ond da genyf allu dy hysbysu fy mod mewn gobaith am Gyfaill a ddaw gyda mi trwy byrth tywyll cysgod angeu, a'i lusern yn ei law, i droi cysgod angeu yn oleu-ddydd. O, fel y glynaist ti, fy mrawd: ond na oered dy serch er hyny tra y dywedwyf, "Y mae Cyfaill a lyn yn well na brawd." Y mae fy nerth yn pallu. Buaswn yn dymuno dywedyd mwy ar yr angenrheidrwydd i'r Odyddion fod oll yn wir frodyr idd eu gilydd, fel y byddai y naill yn gysur i'r llall, trwy barchu eu gilydd, dyrchafu eu gilydd i dir annibyniaeth drwyadl, ac na byddo iddynt guro am damaid o fara wrth ddrws neb, ac yn enwedig bod tu allan i afaelion deddf y tlodion. Cymmaint sydd yn eisiau yw digon o frawdgarwch i gyrhaedd y dyben hwn. Terfynaf gan wir ddymuno i'r awyr foesol gael ei phuro, y tywyllwch i gilio draw; a chalonau oerion eu twymno gan haul mawr Odyddiaeth. Yn iach, yn iach i ti, fy mrawd.—O'r *Odydd Cymreig.*

*Pittsburg.* *Cyfl.* Sami Dweyd y Gwir.

---

## GEMAU CREFYDDOL.

Hwnw yw y cyfrifwr goreu, pa un a all wneud cyfrifiad cywir i fynu o'i holl golliadau ei hun.—*Nevins.*

Meistr cwerylon yw y diafol; oblegyd y gwasanaeth mae yn osod ar ei weision ydyw dinystrio eu hunain.—*Pres. Edwards.*

Mae yr Arglwydd Iesu Grist yn Dduw, at yr hwn y gallwn ni nesau heb falchder, ac o flaen pa un mae modd i ni i ymddarostwng heb anobaith.—*Pascal.*

Nis gellir talu gormod o sylw i ddyledswyddau, nag ymddyried rhy fach yn y cyflawniadau o honynt.—*Hecker.*

Mae toriad ia, a thoddiad ia, yn gosod allan ddau fath o edifeirwch.—*Nevins.*

Mae iawn ddysgu un o'r ieuengctyd yn well gwrolgamp na chymeryd Caerdroia.—*Melancthon.*

Y ddau ddyn tebycaf eu dylanwad i gael Crist yn euog a roddasant eu tystiolaeth o'i ddieuogrwydd; un o honynt a ddywedodd, "Pechais gan fradychu gwaed gwirion;" a'r llall a ddywedodd, "Nid wyf fi yn cael dim bai yn y dyn hwn."—*Pres. Edwards.*

Gan fod gorsedd gras mor hyfrydol i'r saint, pa mor bleserus fydd agoshau at orsedd gogoniant—*Nevins.*

Ni a ddylem ofni meddwl gerbron Duw, yr hyn ydym yn ofni gyflawni gerbron dynion.—*Sibbs.*

Rhoddwch i mi y llygad a wel Dduw yn mhob peth, y llaw a'i gwasanaetha ef gyda phob peth, a'r galon a wna ei fendithio ef am bob peth.—*Secker.*

Fe rydd gwrandawyr bob amser eu gwrandawiad i'r llefarwyr a roddant iddynt bethau idd eu hystyried; rhaid i'r ymadroddwyr fod yn rhai cyffrous cyn gwneud eu gwrandawyr i fod felly.—*Dr. Emmons.*

Fe ddylai eich teulu chwi fod yn ddarluniad pa fath deuluoedd a ddymunech i eraill fod.

Y rhai na welant eu hamser yn fyr ni feddyliant fod tragywyddoldeb yn faith.

Gwell yw siarad bob yn ail ag eraill, na siarad y cwbl ein hunain, fel pe na byddai neb arall yn werth eu gwrado.

Nod amlwg ar ragrithiwr yw, bod un yn canfod beiau mawrion braidd yn mhawb ond ei hunan. Theta Eta.

---

## MEDDWDOD.

Mae pobl Lloegr wedi gwario y llynedd am wirodydd (*liquors*) tua dau cant a hanner o filiwnau o ddoleri, sef, oddeutu pedwar ugain a phumtheg o filiwnau o ddoleri yn fwy nag a dalwyd ganddynt am farw; pa ryfedd bod yno rai yn ddigon hyrt i gofleidio Pabyddiaeth?

Mae llywodraeth Sweden wedi pasio cyfraith yn ddiweddar fod yn rhaid i bob un a feddwa yno i dalu $15 o ddirwy am y tro cyntaf, a $30 am yr ail dro, &c. Pa fodd yr atedai cyfraith o'r fath yn yr Unol Daleithau?

---

## Y TYBACO.

Achwynai un dyn fod y plant yn defnyddio myglys er ei waethaf ef. Paham, ebe y llall, na chaiff y llall, na chaiff y plant ddefnyddio yr hyn a ddefnyddiwch chwi eich hunan?—O mi gefais gynghor gan feddig i *usco tybaco,*

am fod genyf *frest tost* yn awr er ys pumtheg mlynedd. A ydyw eich brest yn well erbyn hyn? Nag ydyw, mae yn wlyb o hyd. Wel, yn wir, yr ydych wedi cael prawf têg na wellir chwi â'r feddyginiaeth bresennol; ac am hyny treiwch ryw beth arall yn fuan.

THETA ETA.

## PROFFWYD TLAWD.

TUA deng mlynedd ar hugain yn ol, brethynwr o Seneca Falls, a sylwai wrth gyfaill, "Edrychwch ar y dyn ieuangc yna sydd yn pasio; efe yw y gweithiwr goreu yn fy siop; ond y mae yn ddrwg genyf ddweyd, y mae yn awr yn myned i wneud ffwl o hono ei hun, drwy adael crefft dda, i efrydu y gyfraith." Y dyn ieuangc hwnw oedd Millard Fillmore, Llywydd presennol yr Unol Dalaethau.

## YR ENW JONES YN UCHAF.

Yn swyddfa y Rhestrydd Cyffredinol dangosir rhyw ffeitniau tra rhyfedd mewn perthynas i nifer personau o'r un enwau yn Lloegr a Chymru. Ganwyd, priodwyd, neu bu farw o Mehefin, 30, 1837, hyd Gorphenhaf 1, 1838, y niferi canlynol o'r gwahanol enwau: Jones, 13,429; Smith, 12,637; Williams, 8743; Taylor, 6440; Davies, 5589; Brown, 5585; Thomas, 6278; Evans, 4930; Roberts, 4190; Johnson, 3743; Robinson, 3555; Wilson, 3399; Wright, 3299; Hall, 3227; Hughes, 3130; Wood, 3167; Walker, 3148; Lewis, 3134; Green, 3112; Edwards, 3097; White, 3087; Jackson, 3040; Turner, 2908; Thomson, 2874; Hill, 2368; Harris, 2771; Cooper, 2698.—*O'r "Bedyddiwr."*

## PREGETHWR TEITHIOL A DIACON.

Bu ymddiddan tebyg i a ganlyn yn ddiweddar rhwng pregethwr teithiol (o'r fath ag oedd) a diacon. Daeth y pregethwr ar ei daith i dŷ y diacon i ymholi am gyhoeddiad.

P.—A oes cyhoeddiad i mi yma heno?

D.—Nac oes.

P.—Trueni yw hyny hefyd?

D.—Nac yw hyny ddim yn un trueni.

P.—Beth! a ydych chwi ddim yn dewis clywed pregethu yr efengyl?

D.—Y mae genym ni weinidog yn pregethu yr efengyl i ni—dyna yw ei waith ef,—ac y mae efe yn foddlon i bregethu ychwaneg pe y dewisem—ac nid ydym wedi blino arno ef.

P.—Wel, ie, yr ydwyf fi yn ddyn dyeithr.

D.—Pwy gymwysderau yw hyny; a ydych chwi yn meddwl y creda y bobl yr efengyl drwy i ddyn dyeithr ei phregethu, yn gynt na thrwy i ddyn adnabyddus iddynt?

P.—Fe ddywedir wrthyf finau am bregethu yr efengyl i bob creadur.

D.—Y mae y creaduriaid hyn yn arferol â chlywed yr efengyl: ond os ydych yn golygu ufuddhau i'r comisiwn cyhoeddwch yr efengyl i'r rhai nad ydynt wedi ei chlywed.

P.—Pe byddech yn gwybod fy holl amgylchiadau ni byddech mor sych ataf—mae y gwaith glo wedi sefyll acw, a finau yn dlawd iawn.

D.—Paham yr ydych yn dyfod yma i'n poeni ni—nis gallwn eich cynorthwyo.

P.—Pa le y mae eich gweinidog yn byw?

D.—Pa beth sydd arnoch eisiau ganddo ef?

P.—Edrych a gaf letty ganddo.

D.—Nid yw ef yn cadw *inn* na *lodging house;* ac y mae ganddo ef ddigon o waith i gynnal ei hun a'i deulu, heb *supportio* segurwyr fel chwychwi.—O. W.—*Eto.*

## ARIANDY LLOEGR.

Dywedir fod o gylch tri ugain o gyfrolau pedwar plyg mawrion yn cael eu llenwi bob dydd yn y *Bank of England* o gyfrifon ysgrifenedig. Cedwir tair o argraffweisg yn gweithio trwy nerth agerdd, a dwy o lawargraffweisg, ar waith yn barhaus o fewn y *bank* i wneud llyfrau, &c. Mor gywir y mae nifer y *bank notes* yn cael eu nodi drwy beirianwaith nes y mae lladrata un o honynt yn beth nad ellir ei wneud heb ganfyddiad sicr.

## DEDWYDDWCH.

BYDD Dedwyddwch yn fynych wrth ein hystlys, a ninau yn myned heibio heb ei gweled: bydd Aflwyddiant yn mhell, a nyni a redwn i'w chyfarfod.

"Na ddos i hela am wynfyd cu
Dros fryn a phant yn mhell.
A hithan'n gorwedd yn dy dŷ—
Yn dawel yn dy gell."

## CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.,

### *Mewn atebiad i Ddarlith yr Archesgob Hughes, ar Adfeiliad Protestaniaeth.*

[Parhad o dudal. 68.]

Y mae ymresymiad yr esgob Hughes yn y cwbl o hono, yn tueddu i ddinystrio y rhyddid hwn. Y mae yn rhaid iddo ef gael pen dynol i flaenori, a rheoli, a llywodraethu yr eglwys—pen gweledig, ie, mewn gair, Pab anffaeledig. Penderfyniad mwy afresymol ac anphilosophyddol nis gallwn ei gyrhaedd. Y fath ffug digywilydd a hwn o anffaeledigrwydd pabyddol ni ddarfu erioed gael ei ddyfeisio gan hygoeledd dyn. Yn y tueddiad hwn tuagat awdurdod draws-arglwyddiaethol y gorwedd y perygl, trwy yr hyn y bygythir dinystr pob sefydliad rhydd, yr hyn a effeithir yn gyffredin trwy lwyddiant y grefydd Babaidd. Y mae hi yn honi uchafiaeth fel iawnder dwyfol. Y mae hi yn anfoddlon, ac ni bydd byth yn foddlon i fod yn feddiannol yn unig ar freintiau cyfatebol i eraill i fod

yn gyfiawn ac yn wirioneddol tuag ati ei hun. Y mae yn rhaid iddi gael awdurdod a llywodraeth, a hi a lywodraetha â gwialen haiarn. Ni oddefa unrhyw ymresymiad am iawnderau cydwybod, oddieithr oddiar wendid ac analluawgrwydd, yr hyn sydd yn ei rhwymo weithiau i sisial fel allan o'r llwch. Pan na allo gael rhagor hi a gymer oddefiad, gan aros a dysgwyl am gyfle i ddangos ei gallu trwy ddanfon allan ei gorchymynion annhrugarog a gormesol. Gwawdia yr Esgob Hughes Eglwys Loegr, trwy ei hystyried fel caethes o dan awdurdod y llywodraeth; ond am Eglwys Rhufain, hi yw y feistres, hi yw yr arch-deyrn sydd yn llywodraethu gweithrediadau y barnwr, yn ysgogi y llywiawdwr, ac yn rhwymo y brenin ar ei orsedd i ymostwng mewn modd gostyngedig i'w hawdurdod. Gwelwn un o'r Pabau yn rhwymo Emprwr Almaen i sefyll yn droed-noeth tu allan i'r porth am dri diwrnod fel drwgweithredwr, cyn cael y fraint o wrandawiad gan ei uchafiaeth Pabaidd. Gwelwn un arall o honynt yn gosod ei draed ar wddf brenin, gan gyfeirio at y geiriau hyny yn un o Salmau Dafydd, "Ar y llew a'r asp y cerddu; y cenaw llew a'r ddraig a fethri." Wrth i ni edrych yn ol i hanesyddiaeth, a darllen hanes gweithrediadau Eglwys Rhufain, y fath olygfeydd o greulonderau sydd yn ymddyrchafu i'n golwg yn y creulonderau ag sydd wedi cael eu harfer yn yr erledigaethau ar y Protestaniaid, pa rai sydd yn warthnodau annileuadwy ar ei chymeriad. Yr wyf yn wybodus am yr amddiffyniad a wna ei phleidwyr ar y pen hwn, yr hwn a gaf ei nodi yma dan y golygiad i fod cam mawr wedi cael ei wneuthur â'r Protestaniaid gyda golwg ar eu hochor hwy i'r ddadl, trwy fethu gwneuthur defnydd o neillduolrwydd yr amgylchiadau at ba rai y cyfeiriwn, er gwrthbrofi y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y Protestaniaid. Dywedir fod y Protestaniaid wedi bod yn euog o erlid a gorthrymu rhai ag oeddent o wahanol olygiadau hyd y nod yn eu plith eu hunain, a hyny yn achos cydwybod. Yr wyf yn addef hyn, ond pwy a'u dysgodd hwynt i wneud hyn ond Eglwys Rhufain? Pwy a'u gyrodd hwynt i erlid Eglwys Rhufain? Ond y mae gwahaniaeth eto yn bodoli rhyngom ag Eglwys Rhufain; a gadael i fod rhai o'r Protestaniaid wedi erlid a gorthymu eraill nid ydym yn eu cymeradwyo am hyny, ac nid ydym yn honi yr hawl o erlid a gorthrymu eraill yn achos eu crefydd. Ond y mae Eglwys Rhufain yn ei gymeradwyo, ac yn honi ei hawl i'w gyflawni yn barhaus, ac yn addef ei bod, ac yn dangos hyny pa bryd bynag y mae yn meddiannu yr awdurdod. Edrychwn ar safon ei chyfundraeth yn ei sefydliadau duwinyddol, cawn fod y myfyrwyr sydd yn y sefydliadau hyn yn cael eu dysgu, ei fod yn weithred gyfiawn i roddi hereticiaid i farwolaeth. Edrychwn ar yr hyn a gymerodd le yn ddiweddar yn Madeira. Yr oedd cannoedd o'r Portuguese yn gorfod ffoi o'r ynys yn unig am eu bod yn darllen yr ysgrythyrau. Yr oeddent yn cael eu hela fel creaduriaid gwylltion, a'u gyru i'r mynyddoedd ac i'r ogofeydd am ddyogelwch, a chymerid meddiant o'u heiddo fel anrhaith, a hyny yn unig am eu bod yn dewis gwirioneddau Duw yn rhagor na chwedlau Eglwys Rhufain. Yn y peth hwn y mae eglwys Rhufain wedi bod yn wastadol yn gyson â hi ei hun, y mae bob amser yn erlid y Cristionogion Protestanaidd pan y mae yn feddiannol ar awdurdod.

Yn awr, gadewch i ni osod i lawr achos tybiadol. Golygwn y bydd i'r grefydd Babaidd i gynyddu yn y wlad hon yn ystod yr hanner cant o flynyddoedd dyfodol i'r fath raddau ag y dysgwylia yr Archesgob Hughes iddi gynyddu. Bydd y wlad y pryd hyn wedi cael ei dwyn i sefyllfa ac amgylchiad pwysig ac anghyffredin o ran ei natur—bydd Eglwys Rhufain, (os ydyw yr arch-esgob yn gywir) gwedi enill gallu, ac awdurdod, a dylanwad mawr, ac yn feddiannol ar nawddiadau helaeth iawn. Efallai y bydd wedi dyfod i allu i lywodraethu etholiadau i'r fath raddau, fel y gall effeithio ar etholiad llywydd i'r Unol Dalaethau, ynghyd a llywodraethwyr i'r gwahanol dalaethau. Golygwn iddi sicrhau y mwyaf-rif o'r seneddwyr, a'r mwyafrif o'n cynrychiolwyr yn wladyddol ac yn dalaethol. Dichon y gall gyrhaedd y gallu, a'r awdurdod ynghyd a'r dylanwad hyn oll, heb fod y mwyrif o'r bobl yn perthyn i'w chymundeb—bydd y *balance of power* yn ei meddiant, ac o ganlyniad yn troi y fantol etholiadol yn y modd y myno, ac yn medru gwrthbwyso dylanwad y Protestaniaid, &c. Yn awr a golygu ei bod yn feddiannol ar y dylanwad hyn, ac yn rhoddi ei chynorthwy i unrhyw blaid boliticaidd ag a fyddo yn addaw rhoddi ei dylanwad iddi hithau, er ei galluogi i ddwyn oddiamgylch ei hamcanion. Yna, yn ol natur rhediad amgylchiadau, bydd iddi i ofyn am rhyw ragorfreintiau, a honi ei hawl i rhyw addefiadau a galw am rhyw gyfreithiau neillduol mewn ffordd o gydnabyddiaeth—efallai atal darlleniad y Beibl yn yr ysgolion cyhoeddus, ac wedi hyny efallai y bydd iddi i feddwl y byddai yn beth dymunol i atal ei ddefnyddio mewn un sefydliad rhydd arall; ac wedi hyn bydd yn barod i ymosod ar y pulpit, a dywedyd, Ni oddefir

i chwi ddarlithio fel hyn ar Brotestaniaeth—y mae yn beth drwg a niweidiol—y mae yn cynhyrfu y bobl, ac y mae yn rhaid ei ddodi i lawr.

Ond tebyg y bydd rhai o'r Protestaniaid y pryd hwnw mor ddiblyg a phenderfynol fel na bydd iddynt gymeryd eu dodi i lawr na thewi ychwaith cyhyd ag y byddo ganddynt lygaid i weled, a gallu i ddarllen, a chalon i garu, a thafod i lefaru. Beth yn awr, cyhuddir hwynt o fod yn derfysgwyr ac yn ddynion niweidiol i heddwch y wladwriaeth, ac yn amcanu i daflu pob peth i annhrefn. Y mae yn rhaid eu ffrwyno. Golygwch fod rhai o'r pregethwyr Protestanaidd mwyaf heintus yn cael eu dal a'u condenio i farwolaeth, ac i fod hyny yn cael ei osod mewn gweithrediad; ar rai o honynt efallai y goddefir i hyny gymeryd lle, er y dichon y bydd llawer yn teimlo, ond yn ofni gwneud gwrthwynebiad mewn modd cyhoeddus, ac y bydd i y galluoedd pryd hyny i ffrwyno, ac atal, a chaethiwo dynion eraill, ac fe allai eu rhoddi i farwolaeth, &c. Yn nesaf bydd yn beth dymunol ganddynt i gael dwyn unffurfiad i weithrediad, yna bydd i'r Protestaniaid gael eu hymddifadu o nodded y llywodraeth; gwedi hyn bydd yn rhaid myned i'r offeren (*mass*), a chyfaddefiadau, ac anfon eu gwragedd a'u merched, fel y byddo i'r offeiriaid osod cwestiynau ger eu bron wrth ba rai y cwymp diweirdeb mewn modd marwol.—Bydd yn rhaid rhoddi y Beibl hefyd i fynu, neu fyned ger y pawl ac i'r ffagodau tanllyd. Bydd i rhai fyned yn foddhaol at y pawl ac i'r ffagodau, ac a losgir; yna cwyd ysbryd gwrthwynebiad yn y bobl fel fflam a fyddai wedi cael ei magu am amser, a bydd i'r ysbryd hyn ddangos ei hun mewn modd digofus, nes y byddo i holl garwyr rhyddid i gynhyrfu i'r graddau uwchaf,—pryd y bydd i'r iau Babaidd i gael ei thaflu ymaith, a gorchfygir ei grym a'i dylanwad, fel y bydd i Brotestaniaeth a'r Protestaniaid gael nawdd y llywodraeth drachefn. Gyrir ei hoffeiriaid o'r wlad, a bydd yn dda ganddynt ddiangc am eu bywyd. Yn awr nid yw hyn ond desgrifiad anghywir efallai o'r hyn a gymerai le pe llwyddai Pabyddiaeth i'r graddau a nodwyd. Nid wyf yn dywedyd y bydd felly; ond yr wyf yn dywedyd fod y fath beth wedi cymeryd lle, a gwasanaetha i osod allan paham y darfu i'r Protestaniaid erlid y Pabyddion. Darfu i'r frenines Elizabeth o Loegr wrthod ei nawdd i'r Jesuitiaid, a gosododd rhai o honynt i farwolaeth; ond paham? am eu bod mewn modd bradwriaethus yn amcanu ei hymddifadu o'i choron, a sefydlu awdurdod y pab. Meddyliwn am dân Smithfield, yn mha un y merthyrwyd Ridley a Latimer. Y mae hyn yn fyw yn meddyliau y bobl yn y dyddiau presennol, ynghyd a'r creulonderau, y poenydio, a'r tywallt gwaed a gymerodd le yn amser teyrnasiad y freninles Mary: wrth feddwl am ei hegwyddorion mwy o dynerwch a llai o greulondeb a gerwyndeb nis gellid braidd ei ddysgwyl.

Y mae yr archesgob Hughes yn addef fod Eglwys Rhufain yn bwriadu cael y wlad hon o dan ei hawdurdod. Wel, y mae pob dyn sydd wedi sylwi ond ychydig ar ddull Eglwys Rhufain o weithredu yn gwybod hyn er ys cryn amser bellach; y mae y Pab o Rhufain wedi gosod ei galon ar y wlad hon. Nis gall fod hebddi, oblegyd y mae Pabyddiaeth yn adfeilio yn Ewrop. A fydd iddo lwyddo? Nid wyf yn credu y bydd; ac os bydd iddo lwyddo, bydd y Protestaniaid yn deilwng o'r wialen—pa un a fydd i'r offeiriaid Pabaidd ei ddefnyddio gydag ewyllys da. Yr ydym ni yn myned i gael ein hargyhoeddi a'n dychwelyd yn ddiau. Ein hargyhoeddi a'n dychwelyd at beth? At eilun-addoliaeth—at addoli dyn—at addoli delwau—at addoli cythreuliaid. Oddiwrth beth yr ydym ni i gael ein hargyhoeddi a'n dychwelyd? Oddiwrth Gristionogaeth at Babyddiaeth—oddiwrth y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu at ffolinebau atgas a ffiaidd y gyfundraeth ag sydd yn sarhad i Dduw ac yn ddarostyngiad i ddyn. Gallaf yn awr braidd ganfod gwen o dosturi onest a gorchudd yn ymddangos fel yn enyn yn wyneb y Crynwr pan y mae yr archesgob Hughes yn agoshau ato, a'r rhosynau yn ei law idd ei argyhoeddi a'i ddychwelyd at y gorchwyl o adrodd ei weddiau trwy gynorthwy llinyn o gleiniau (*beads.*) Ai nid ei atebiad pwyllig a gweddaidd a fyddai, Gyfaill John, yr wyf yn gweled trwy yr holl bethau hyn dy fod yn hynod o goel-grefyddol? Beth a fydd i'r archesgob ei wneud â'r Trefnyddion Wesleyaidd, a'r Presbiteriaid, a'r Episcopaliaid, a'r Bedyddwyr, a'r Lutheriaid, a holl lwythau yr Israel Brotestanaidd? Y mae iddo ef i gofio os yw Eglwys Rhufain yn chwanegu yn ei chymunwyr, felly yr ydym ninnau; ac yn lluosocach nas gall hi, trwy y mudiadau o wledydd tramor. Dywedaf, archesgob Hughes, y byddai mor hawdded i chwi dynu y bwa o'r cwmwl a dinystrio gallu a dylanwad y Protestaniaid yn America. Gallwch ymdrechu darbwyllo dinasyddion y werin-lywodraeth fawr hon trwy lewyrch gwan eich canwyll frwyn, ac haeru fod eich canwyll frwyn chwi yn cynnwys mwy o oleuni nag sydd yn yr haul, ac yn fwy dysglaer yn ei llewyrchiadau; ac os credant chwi bydd y wlad hon yn eiddo i chwi, a'r

Pab, a Satan, cyhyd ag y byddo ei phobl yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni.

Nid wyf yn beio yr archesgob Hughes am wneud yr addefiad uchod. Y mae ysbryd ein sefydliadau yn rhoddi i Eglwys Rhufain a phawb eraill yr hawl i addoli Duw yn ol fel y cyfarwyddir hwynt gan eu cydwybodau.—Y mae gan bawb a ewyllysio hawl i fod yn nghyfundeb Eglwys Rhufain; ond yn ol cyfansoddiad ein llywodraeth ni nid ydynt i gael rhagor. Pan y mae Eglwys Rhufain yn cymeryd arni yr awdurdod o fod yn frenines y mae yn gofyn mwy nag a berthyn iddi, ac yn camu i dir anghyfreithlon, a thrwy hyny yn agor bedd iddi ei hun wrth ei thraed ei hun. Y mae aderyn galluog a boneddigaidd yn ehedeg yn uchel; caniata i adar bychain i ganu, a gall y wiber ymdorchi ac ymheulo yn ngholeuni a gwres yr haul, a thaflu ei chroen ac ymlusgo ar y graig, a'i llysnafedd yn ymddysgleirio, heb i'r aderyn mawreddig a nodwyd wneud unrhyw sylw o honi; ond pan y mae yn dringo i'r glogwyn lle y mae ei nyth, a lle y maga ei rhai bychain, ac y cwyd ei phen i'w niweidio hwynt, yna y bydd yr eryr a'i phig a'i ewynedd yn y sarff ar unwaith, a dryllia ei chroen a'i rhanau tumewnol, gan ei dadgymalu gymal oddiwrth gymal, ac a'i tafl yn waedlyd ac yn archolledig i'w lloches dywodlyd ei hun.

Fel Protestaniaid yr ydym yn rhwym, yn ol ein proffes o'r egwyddorion ag yr ydym yn eu mabwysiadu, i roddi i bawb y fraint a'r mwynhad o rhyddid cydwybod yn eu gweithrediadau yn eu perthynas â Duw a'i addoli; ac er fod yn ddyledswydd arnom amddiffyn pawb yn y mwynderau a nodwyd, yr ydym hefyd yn ystyried fod genym hawl i chwilio golygiadau cyhoeddus eraill ar wahanol byngciau a broffesant eu bod yn eu coleddu, a'u hymarferiadau crefyddol, a'u beirniadu mewn modd cyhoeddus. Ac felly yr ydym yn caniatau yr un hawl i eraill o barth ein golygiadau a'n hymarferiadau ninau. Nid ydym yn gofyn rhagor, ac ni bydd i ni byth gymeryd llai. Anturiwn ddywedyd mewn ysbryd da a chyda phob tegwch, os na oddef un gyfundraeth ei chwilio yn y modd mwyaf manol, nad ydyw Duw ddim wedi golygu iddi lewyrchu ar dir ag sydd wedi ei gyssegru i rhyddid a dedwyddwch i deyrnasu arno.

Y mae yr archesgob Hughes yn dywedyd mai y peth cyntaf yn y grefydd Brotestanaidd yw *tynu i lawr*. Nid oedd ei chenhadwri gyntaf, medd efe, ddim a adeiladu, ond i dynu i lawr. Gwir, o dan y gyfraith Lefeticaidd, pan oedd unrhyw dŷ yn cael ei lygru, mewn modd heintus, ac yn anobeithiol i'w buro oddiwrth effaithiau y gwahanglwyf, yr oedd yn rhaid ei dynu i lawr; ac y mae genym dystiolaeth ysbrydoledig wedi ei rhoddi gan apostol Iesu Grist fod cenhadwri Cristionogiaeth felly, oblegyd medd efe, "Arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw, i fwrw cestyll i'r llawr." Y mae yn rhaid i ni fwrw i lawr ysgarthion a sorod y grefydd Babaidd, cyn yr adeiladir credinwyr yn demlau i'r Ysbryd Glân. Y mae yr archesgob Hughes yn gwawdio ac yn ymdrechu iselhau y grefydd Brotestanaidd, am ei bod yn cynnwys yr elfenau hyny, sef y cadarnhaol a'r nacaol. Y mae yn dywedyd Iê, ac yn dywedyd Nage. Gwir, a pha grefydd a'r nad ydyw yn dywedyd felly. Yr ydym ni yn dywedyd Iê, wrth bob gair ag sydd wedi dyfod allan o enau Duw! ac yr ydym yn dywedyd Nage, wrth bob traddodiad o eiddo dynion. Dywedwn, fel Protestaniaid, yn awr ac am byth, Dim Pabyddiaeth.

Y mae yr archesgob Hughes yn dychymygu, o herwydd ein bod ni yn addef ein bod yn Brotestaniaid ein bod trwy hyny yn cadarnhau fod Crist wedi sefydlu ei eglwys er ymledaenu ei athrawiaeth, trwy gyhoeddiad o honi; a'i fod, yn mhen pumtheg cant o flynyddoedd, wedi methu yn ei hamcan: a'n bod ni, y Protestaniaid, wedi codi a dyfod allan idd eu hadnewyddu. Nid felly, y gwir barchedig syr, y mae y fath gasgliad yn hollol anghywir. Gwir ydyw, fe ddarfu i eglwys Dduw, o dan yr hen gyfammod, fyned yn llygredig, ac iddi gael ei dwyn i gaethiwed i Babilon. Ond er iddi fyned fel Sodom a Gomora, ac iddi gael ei thori ymaith fel cangen ddiffrwyth ac atgas, eto gofalodd Duw i adw gweddill iddo ei hun er y cwbl. Y mae yr un gwirionedd yn cael ei ddangos yn amgylchiadau yr eglwys dan y cyfammod newydd. Ni ddarfu i Dduw erioed adael ei hun heb dystion, hyd y nod yn yr amser mwyaf tywyll. Yr ydym yn cael fod Elias y proffwyd yn cwyno unwaith nad oedd ond ei hunan wedi ei adael o broffwydi yr Arglwydd; ond dywedodd Duw wrtho fod ganddo ef hyd y nod yn yr amser hwnw fwy na saith mil o dystion ffyddlon, pa rai ni phlygasant eu gliniau i Baal, na chysanu ei ddelwau. Ac felly yn yr amser mwyaf tywyll o dan awdurdod a llywodraeth Pabyddiaeth, pan oedd Eglwys Rhufain yn ei sefyllfa uwchaf, gofalodd yr Arglwydd am gadw gweddill iddo ei hun, a'u cadw hefyd er holl ddyfais, malais a gallu Anghrist, ac yn ngwyneb ei ymgais mwyaf i'w dinystrio.—Nid yw yn un prawf o fethiant yn eglwys Dduw ei bod yn dywyll arni ar amserau, a'i bod yn byw yn yr anialwch, trwy ei bod yn

cael ei dwyn i amserau ac amgylchiadau ag y mae Duw yn ei phrofi, ac yn ei dysgu i ymddibynu yn fwy cyflawn arno, ac i weithredu yn fwy bywiog a grymus o blaid ei achos ef. Pan y darfu i'r archesgob Hughes anturio gwneuthur yr haeriad aruthrol o fod unoliaeth mewn athrawiaeth bob amser yn Eglwys Rhufain, dywedodd y peth mwyaf haerllug a adroddwyd erioed yn eglwys gadeiriol St. Patrick. Ni a ddarllenwn rhan o'i haeriad, a thyma y peth diweddaf a gawn ni sylwi arno. Ar ol gosod allan yr annhebygolrwydd o fod un o bob deg o'r Protestaniaid allan o'r holl rhifedi o hanner cant o filiwnau yn gydunol o ran eu golygiadau ar bob pwynt mewn sylwedd a manyldra yn egwyddorion ac athrawiaeth y grefydd Gristionogol; dyweda, o'r tu arall, fod yr eglwys Babaidd yn cynnwys y rhifedi o ddau cant o filiwnau, yn wasgaredig yn ngwahanol barthau y byd, o godiad hyd fachludiad haul, ac nad oedd yn un antur i ddywedyd na allesid cael cymmaint a deg allan o'r ddau can' miliwn yn gwahaniaethu dim, yn y mesur lleiaf, yn eu golygiadau am athrawiaeth Eglwys Rhufain, yn yr hyn ag yw hi, a'r hyn oedd ni yn wreiddiol gyda golwg ar yr hyn a ddatguddir am Fab Duw. Y mae y fath haerllugrwydd a hyn tu draw i unrhyw gydmariaeth a ellir ei rhedeg yn gyfochrog â hi tu allan i Eglwys Rhufain ei hun. I hyn oll gallaf ateb, cymerwch unrhyw ddeg o Gristionogion Efengylaidd allan o un o'r enwadau Protestanaidd, a meddwl am holl wirioneddau sylfaenol y grefydd Gristionogol, a phob pwngc ar ba rai y mae iachawdwriaeth yr enaid yn ymddibynu, ac am gyflawniad y dyledswyddau mwyaf pwysig a gynnwysa crefydd ein Harglwydd Iesu Grist, a llefarant ag un galon, ac mewn un llais, eu bod yn unol yn eu golygiadau. Dywedant wrthych mai ffydd yn Nghrist, a bywyd santaidd fel ei ffrwyth, yw yr unig brawf o galon ailenedig. Ond, ai ni ddarfu i Eglwys Rhufain erioed wahaniaethu oddiwrth egwyddorion gwreiddiol eglwys Crist? Y mae y fath ofyniad yn sarhad ar ddealldwriaeth pob Cristion gwybodus. Cyfnewidiaf yr ymofyniad, a gofynaf, A ddarfu i Eglwys Rhufain fod yn gyson â hi ei hun bob amser? Os felly, pa fodd y mae hi hyd y dydd hwn heb ddyfod i benderfyniad pa le y mae ei hanffaeledigrwydd hi yn gynnwysedig? Ai yn y Pab y mae, neu ynte yn y cynghor, neu yn y Pab a'r cynghor ynghyd? Penderfynwch y ddadl Italaidd a Galicaidd ar y pen hwn, yr hon sydd yn fyw hyd y nod yn y dydd hwn, cyn ymffrostio yn eich unoliaeth mewn barn. Cyn y gallech wneud hyn, archesgob, y mae eich ymffrost yn rhy ddirmygus i ymresymiad sobr. Cofiwch am y ddadl a'r digasedd o berthynas i burdeb y forwyn Fair yn nghenedliad Crist. Meddyliwch am derfysg eich Dominican a'ch Franciscan. Gelwch i eich meddwl rhai o'r rhwygiadau mawr ag sydd wedi eu cofnodi yn hanes Rhufain Babaidd, yn mha rai y gwelwn i fod Pabau cydymgeisiol yn melldithio ac yn esgymuno y naill y llall, cyn y byddo i chwi feiddio dyfod allan eto i fostio ac ymogoneddu yn eich undeb ffydd ac ymarferiad, yr hyn sydd, yn eich golwg chwi, yn nod ar wir eglwys. Ond cofiwch hyn hefyd, pryd bynag y bydd i chwi gael amser at y gorchwyl, y byddai yn dda gan lawer i chwi ddangos prawf, trwy ba un y gellwch ddangos y cysondeb a'r cydundeb sydd yn y purdan a'r poenydiaethau, a'ch cyd-ddygiaeth, &c., ynghyd a'ch holl ddychymmygion, yn gysylltiedig â'r dadguddiad gwreiddiol o Fab Duw.

Yr wyf wedi ymdrechu dangos paham yr ydym, fel Protestaniaid, yn gwrthod derbyn, ac yn gwrthwynebu y rhyfyg gwastraffus a'r diofalwch gwaradwyddus a ymddengys yn haeriadau y dyn hwn o Gath; ac er y gall amcanu amddiffyn ei hun trwy ymgecru oddiamgylch iddo ei hun gannoedd o rhagddywediadau, wedi eu dewis o brif-resymau llewyrchus Macauley, ond ni bydd iddynt ei gynorthwyo. Ni bydd enllibwr Thos. Cranmer a Wm. Penn yn debyg o gael fawr derbyniad fel proffwyd, pan y mae ei ymddyried fel hanesydd wedi ei golli.

Yr wyf yn awr yn gadael darlith yr archesgob. Ond cyn y dybenwyf, caniatewch i mi ddywedyd ychydig eiriau yn rhagor. Yr wyf yn barod i addef nad yw ymddangosiad presennol Protestaniaeth ddim yn gwbl fel y dymunem. Nid yw Protestaniaeth eto wedi cwblhau ei gwaith, ac ni bydd idd ei gwaith gael ei orphen hyd nes y byddo i'r ddaear gael ei hamgylchu â gwregys goleuni a chariad. Yr ydym yn gwneud rhy fach o eglwys gyffredinol Crist, yr hon sydd yn cynnwys holl aelodau dirgelaidd corff gogoneddus yr Arglwydd Iesu Grist; ac yr ydym yn gwneuthur gormod o neillduolrwydd enwadol. Dylai y Protestaniaid fod yn fwy unol: a hwy a fyddant felly rhyw amser. Dylent edrych mwy ar byngciau cydunol ac hanfodol crefydd, a llai ar byngciau gwahaniaethol. Gall ymgais Anffyddiaeth a Phabyddiaeth fod yn foddion i'w dwyn yn fwy agos at eu gilydd, ond y mae yn rhaid fod egwyddor undeb ynom cyn y bydd i undeb sefydlog gymeryd lle. Y mae llwythau Israel eto yn yr anialwch, ond y mae Canaan mewn addewid, lle na bydd ond un gorlan ac un bugail. Am

bob gair ag wyf wedi ei ddweyd, am bob peth ag yr wyf wedi ei adrodd, yr wyf yn foddlon i ystyried fy hun yn gyfrifol. Yr wyf yn caru synwyr-wers rhagorol yr hen Rhufeinydd, "*Nis gallaf ddywedyd dim ag sydd yn dwyllodrus, ac nid wyf yn ofni dywedyd dim ag sydd yn wirionedd.*" Os enllibir fi, yr wyf yn dywedyd wrthych yn mlaen llaw, ni bydd i hyny effeithio dim arnaf fi. Yr wyf wedi ymarfer ag ef. Os cyfarfyddir â mi mewn ymresymiad cyhoeddus, yr wyf yn barod i amddiffyn y gwirionedd pan y byddo ymosodiad arno gan unrhyw wrthwynebwr ag a fyddo o gymeriad; ond ni wnaf sylw o neb arall. Ac yn ngwyneb holl ddynesiadau ymosodwyr a gwrthwynebwyr arglwyddaidd, pa rai sydd yn cyhoeddi adfeiliad ein ffydd Brotestanaidd, ac yn chwerthin i lawr mewn modd gwawdlyd athrawiaethau pur yr ysgrythyrau santaidd, y dywedaf finnau, yn ngheiriau yr enwog Beza; pan oedd yr eglwys ddiwygiedig yn cael ei bygwth ag erledigaeth adnewyddol gan drahaus frenin Ffraingc, "*Syr, y mae eglwys Crist yn eingion ag sydd wedi treulio llawer gordd.*"

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

---

## PABYDDIAETH.—AT Y CYMRY.

Er amser yr undeb anghyfreithlon a ffurfiodd yr Ymerawdwr Cystenyn Fawr rhwng y wlad a'r eglwys,—er yr amser y perffeithiwyd halogrwydd yr undeb hwnw gan Gregory Fawr,—er y bedwerydd gan'rif, nid yw y diafol wedi bod mor ffodus a dyfeisio unpeth ag sydd wedi bod mor ddinystriol i gynydd achos y Gwaredwr a pheirianwaith "y dyn pechod"—Pabyddiaeth. Y mae rhyfel barhaus wedi ei dwyn yn mlaen rhwng y gelyn hwn a'r gwirionedd, ac ambell i waith y mae eglwys Dduw yn ymddangos fel wedi ei darostwng, ond eto, sicr yw y gwelir hi yn orchfygol yn y diwedd. Y mae cenedl y Cymry, trwy drugaredd, wedi eu gwaredu rhag llawer o'r halogrwydd ag y mae cenedlaethau eraill wedi bod yn agored iddo hyd yn awr, ond y mae Eglwys Rhufain er hyny heb ildio y maes; y mae yn gyfrwys iawn yn ei dichellion, ac y mae ganddi wybodaeth ragorol o'r natur ddynol; gwyr hi nad gwiw meddwl am enill y Cymry heb ymdrechiadau mwy penderfynol nag erioed. Gwyr fod yn rhaid cael cenhadau yn llefaru yr iaith hono yn hyawdl, a chael llyfrau Cymreig hefyd; pa le y ceir y cyntaf nis gwyddom, er y gwneir pob ymdrech i'w cael; ond am yr olaf, y maent ar fyned i'r wasg, ac yn o fuan bydd cannoedd o *Common Prayer books* y Pabyddion wedi cael eu harllwys rhwng mynyddau Cymru, o wasg argraffydd yn Derby; ac oddiyno byddant yn cael eu dwyn i Gymry America, &c. O! fy ngwlad, fy ngwlad! a lithir di eto i halogrwydd Rhufain? Barnaf na wneir; ond rhaid cael cydweithrediad egniol Protestaniaid i atal y plâ. Gwyddom hefyd fod dinystr ein sefydliadau, ac hyd y nod ein rhyddid, yn y wlad hon, yn ymddibynu ar lwyddiant eglwys Rhufain; ac am hyny bydded i bawb a deimlant dros eu gwlad, eu rhyddid, eu crefydd, ac yn enwedig eu plant, ymysgwyd at eu dyledswyddau. Benau teuluoedd, byddwch ar eich gwyliadwriaeth—y mae y rhwyd yn cael ei thaenu—gofelwch nad elo y cyffeswyr Pabaidd rhyngoch chwi a'ch teulu: nid hyd-lewyrn Seintiau y Dyddiau Diweddaf ydyw y rhai hyn—bydd yma gyfrwysdra saith-dyblyg, a bydd y "butain" yn marchog mewn rhwysg a mawredd: ac os denid y bobl gan wehilion enwadau Cymru, ac annuwiolion ffanaticaidd, at dwyll a hoced Mormoniaeth, pa fodd y safant o flaen nerth, golud, ac ardderchawgrwydd daearol Babilon!—os rhedasant ar ol canwyllau brwyn Joe Smith, pa beth a wnant a goleuadau cyfoethog Rhufain! Yr enwadau Cymreig, deffrowch; y mae y mater hwn o bwys, ac yn gofyn gweithrediad cydunol a phrydlawn pawb Protestaniaid. Na fydded i chwi, yn aned neb, fod yn ol o roddi eich dylanwad o blaid y gwirionedd. Onid ydyw y Cymry wedi eu hanrhydeddu gan Dduw uwchlaw holl genedlaethau y ddaear mewn ystyr grefyddol? bydded i ninau ystyried ein dyledswydd i gadw ein coron, a chadw y ganwyllbren i oleuo yn ein plith—na oddefer iddo gael ei orchuddio â llestri Pabyddiaeth, ond bydded i bawb ganfod y goleuni dysglaer, fel y gogoneddont ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

---

## PRYDDEST-AWDL AR LONG-DDRYLLIAD DYNOLIAETH.

GAN COLUMBUS, MINERSVILLE.

*Ymoralwad—Y Gread—Y Llong—Desgrifiad o'r boreu—Mynediad y Llong i'r mor—Helaethrwydd cylch ei mordwy—Llong yn y pellder—Trodd allan yn Herwlong* (Pirate)*—Yr Hudoliaeth—Y Llong yn cyfnewid ei rhedfa—Desgrifiad o'r ystorm—Y Llongddrylliad—Desgrifiad o'r noson hono—Creuydd y Bydysawd yn Arglwydd yr elfenau.*

DEFFRO, alluoedd cân, fy awen dèr,
I ganu i'r dyn a'i freiniau dan y sèr;
Yr Arglwydd Ior, Creawdydd nef a llawr,
Ar drothwy'r dim, uwchlaw y tryblith mawr,
Y safodd ef——gan ddwyn y byd i fod,
Trysorau'y wawr a'r cyfan is y rhod,

Drwy rym y "Bydded," Hollalluog lef,
Y gwnawd y byd a'i gedyrn ddodrefn ef:
Y gogledd ar y gwagle gyda'r wys,
A daenwyd 'nawr; gwasgarwyd goleu glwys—
Drwy deyrnas hyll yr hen gaddugawl nos;
A gwnaethpwyd "llong dynoliaeth" yn dra thlos:
Ar lun a delw Naf y gwnaethpwyd hi,
Prif orchwyl mawr, a champwaith Un yn dri,
Anfarwol oedd, a mawr ei braint a'i bri,
Santeiddrwydd prid, ei haddurn uwch y lli':
Llong oedd i ddwyn 'Merawdwr Eden wen,
O urddas mawr, a choron ar ei ben:
'Doedd hwn ond 'chydig iawn is engyl nef,
Ar foreu'r creu—'roedd pob peth tano ef.
Efe sy' i dalu teyrnged—mawl i Dduw,
A rhoi gogoniant llawn i'r enw gwiw.
Ar foreu têg, plygeiniol foreu glwys,
Agorodd pyrth y dydd ei gloion mwys;
Y wawr ymledodd, taenodd dros y nen,
A phaentodd fyrdd wrthddrychau'r ddaear wen:
Y goedwig werdd adseiniai gerddi pêr,
Y côr adeiniog cain cydfolent Ner,
A'u cathlau pur croesawent huan nes,
A'r perlog wlith addurnent geingciau'r pren.
Yr haul gyfododd yn ei nerth fel cawr,
O natur wŷl. E wridia'th wedd yn awr,
'Roedd hinon haf a thes y boreu hwn
Yn gwenn pau Paradwys dan ei bwn
O aeron mawr, per ffrwythau Eden wen;
Haelfrydedd Ner ddylifodd fry o'r nen.
Y boreu hwn y gwthiwyd llong i'r môr,
Llong eawog iawn, penigamp waith ein Pôr,
Un ddestlus wech, mawreddog oedd ei llun,
Ac ar ei bwrdd rhow'd tynged teulu dyn.
Hon ymbleserai ar y cefnfor chwai,
Ei bronau gwyrf a holltai'r heli'n ddau,
Ac yn ei helfen llamai uwch y don,
Dan gludo trysor pena'r ddaear hon;
Dysgleirient yn yr haul ei hwyliau cain,
Sidanaidd iawn eu gwe, o liain main;
Cofleidient yr adfywiol chwâ fel câr,
Cusanent yr awelon dyfir gwâr;
A'r llong a rwygai'r lli' glain, llefn ei wedd,
Fel bonedd syw eisteddai ar ei sedd.
Gan hwyllo'r pwynt a roddwyd gan ei Llyw,
Sef pegwyn hoff ufudd-dod pur wrth fyw;
Os llywir hi oddiwrth yr hyntiol bwynt,
Anufuddhau, a marw ar y gwynt—
Sy'n bwynt i golli'r llong, difrodi'r llwyth,
Rhyw golled flin, heb fodd i'w hadfer byth.
Rhowd iddi ryddid llawn, holl barthau'r byd,
Maelerfa fawr, a phorth o'i chylch i gyd;
O gloddiau'r ia, a'i gloion oesol ery,—
Ystlysau'r de, hyd eitha'r ddaear gu.
Cyn hanner dydd, draw hwyl e weiddwyd ma's;
Fel nodyn gwyn, ar fin y gorwel glas:
Ac ar ei hynt ymlwybrai ffordd y don,
Ei hesgyll leda', rhyga'r lli' â'i bron!
A dawnsia'r môr yn ewyn gwyn o'i bla'n,
Dynesu mae yn chwern, (un odiaeth lân,)
Fe hiliwyd bwrdd, caw'd ciniaw syml ei sawr,*
A'r wyliadwriaeth ga'dd ei newid 'nawr.
Y cymhar† oedd yn ganfod gyda'i ddrych
Yn syllu'n graff ar osgedd y llong wych;
Medd Gwen, Ow! llun y sarff yw'i eilun‡ ef,
A'i faniar ddengys barch i deulu'r nef;
Rhyw swyddog mawr, un call, ei chadben hi,
Ust! ust! y mae'n llefaru wrthym ni,—

Hei, ho, y llong brydweddol dlos,
Pa le yn rhwym yn moreu'ch ho's?
Rho'wch wybod, Beth am Dduw y nef?
Beth ydyw'r newydd da o dref!

Mae'n breinlen ni dros fôr a thir yn hael,
A chyfoeth byd,—ein heiddo ni yw'r mael;
Ond, ni chawn lanio ar yr ynys draw,
Gwaharddwyd hyn ar g'odd mewn geiriau braw.
Pw, pw, atebai Satan ar ei wên,
Mor wirion y'ch i wrandaw ar eich Rhên,
Gwyr ef yn dda am eich gwiriondeb lleddf,
I'ch cadw mewn 'mostyngiad idd ei ddeddf;
Mae'r ynys draw yn llawn o aeron pêr
Acw mae trysorfa fawr doethineb Nêr;
Mwn-gloddiau cyfoeth a goludoedd Duw,
Hollwybodaeth, yw'r ffrwythau hardd eu lliw;

Pe bae chwi ond archwaethu
O'r ffrwyth dymunol hardd,
Sy'n crogi ar y cangau,
Yn nghanol prenau'r ardd,
Chwi fyddech 'nawr fel "duwiau,"
Yn gwybod da a drwg;
Y lleni wedi 'tynu,
Heb ofni'r nef na'i gwg.

Y geiriau hyn suddasant megys plwm,
I galon Efa dêg, i'w gwneud yn drwm;
A'r llong a safodd, trodd o'i phwynt yn fiel,
A'i rhedfa 'nawr oedd am yr ynys ddel.
Yr hwyl i'r gwynt yn mhen yr hwylbren fry
Gyfodwyd 'nawr, a mawr yr hwyl a fu;
Dynesu wnai at y gororau glwys,
Heb feddwl am y canlyniadau dwys.
Java foesol! a'th bren gwenwynig dig,
Mi gofia'r clwy' a gefais yn dy wig.
Mordwyo wnaent yn mlaen gerllaw y tir,
Dan gysgod penrhyn gwg yr oe'nt yn wir;
Oblegyd, pan y llong a drodd o'i hynt,
Yn fuan iawn gan fraw cwynfanai'r gwynt;
Golygfa brudd ymdaenai dros y nen,
Y môr a wisgai gwmwl ar ei ben—
Llwydach ei liw na's gwelodd neb o'r bla'n,
A'r pysg arswydent yn eu gwely glân.
'Roedd rhes o greigiau du o dan y dw'r,
Lle planodd Duw y cyntaf oleu-dwr,
I gadw ffwrdd rhag holl beryglon brâd,
A chadw'i lle yn rhydau'r moroedd mâd.
Y llong a d'rawodd—ei hergydion certh
Dynodai rym y lli' a'i foriog nerth.
Y gwynt yn awr a ruthrai o ddwrn Ior,
A thymhestl fawr gynhyrfai'r llydan for.
O bôl i bôl, berwedig yw fel pair,
O dônau dig! mynyddau byw a gair;
Y cadben mawr a deimlai ing ac och!
Uwch dadwrdd yr elfenau gwaeddai'n groch,
Mae gobaith dyn, prif angor teulu'r llawr,
A'u cysur oll am byth ar goll yn awr;
Balm bywyd pur wrth bren marwolaeth aeth
Ar goll—a soddodd yn y dyfnder llaith.
Anobaith wedi'm dal, fel marwor mae
Y teimlad byw, o dan fy mron o wae!
Carcharor wyf gan Dduw a'i gyfraith gu,
Ai marw raid? Pa fodd, fy Efa, y bu??
Yr haul yn awr ger ei orllewin fedd,
A golwg sur a gwgus yn ei wedd;
Y cylch o'i amgylch a ddynoda ddrwg,
A'r pyst o tano ynt arwyddion gwg;
Ei wyneb gwelw a'i wisg borphoraidd bur;
Wna dd'rogan 'nawr rhyw boenau mawr a chur;

---

* *Temperate.*
† *Mate,* gelwir gwraig Adda yn *help-meet* iddo.
‡ *Figure head.*

Ymwylltio wna'r elfenau trwy'r holl dd'ar,
A'r creaduriaid grynynt, gwyllt a gwâr.
Hen nos a ddaeth—y gwyll ei mentyll do'dd
Y ddaear las; ofnadwy oedd y modd—
Y gwisgodd da'r a môr eu mentyll du,
Nos gofwy dyn—nos dywell arnom ni.
Er t wylled oedd y nos a'i mentyll chwith;
Tywyllwch dyn oedd fwy teimladwy byth.
Eistedda Neifion ar y tonau dig,
Llywydda hwynt, ei sedd sydd ar eu brig,
A maingc ei goethwych draed yw'r dyfnder du,
Lle chwery'r pysg a'r mor-feirch mawr yn llu;
Ei air fel mur amgylcha y'mla'n i'r mor,
A chywir* yw pob ton yn nheyrnas Ior; * *loyal.*
Y gwynt yn ei drysorfa geir heb goll,
Chwibanu wna, i'w ddwrn y geilw oll;
Ac yno'n Rhi, cadwyna ef yn rhwydd,
A'i ollwng nawr, fel angel cryf i'w swydd,
Lledaena'i esgyll mawr, eheda'n chwai,
Ufuddol yw i eirchion y Duw mau;
'Rhwn ferchyg ar y corwynt, cerbyd chwyrn,
A'i enw JAH! ofnadwy yw ein Teyrn,
Pan rydd ei lef,—ei ddolef sigla'r byd,
A'r creaduriaid grynant oll ynghyd;
Arswydant wrth ei gerth leferydd ef,
Tarana'i lais, ysgydwant dda'r a nef.

Gwel euog ddyn, gwael bryfyn brau,
Ymryson mae a'i Luniwr,
O olwg drom, truenus ddyn,
Tydi dy hun sy'n fradwr.

[I'w barhau.]

## HELYNTION YMFUDAWL.

### LLYTHYR II.

WEL, mi wedes i, ond cael y'm ana'l, y ceich chi wybod ffordd y bu hi rhyntw i â runners New York. Wel, mewn y deithom, a dyma nhw o boitu ni, yr holl gethern yn gang gryno, "'Rw i'n meddwl y dewch chi gyda fi," ebre un. "Na, gyda fi," ebre'r llall. "Gen i mae'r lle goreu."—"Twyllwr yw o," ebre ynte. "Twyllwyr yw'r ddau," meddai un arall, "pwy ddiwrnod y daethon nhwy o garchar y stât am robo dynion diarth o'r bla'n." A machgen mawr i, dyma nhw'n ymdeiru, yn ffraeo, a chwympo allan. "Brenin y brole," ebwn wrth Sian, "dyma giwdawd." "Dafydd," ebe Sian, "sefwch chi'n ol—mae nhw'n myntymo lapio'u gilydd er mwyn cael cyfle i'ch lapio chi." "Wel, wel," ebawn i, "Sian, mae'r rhain yn waeth eto na chigfrain y dreth fawr a'r degwm." A mewn yr aeth Shan o fine i'r caban. A dyma ryw ddyn yn dod mewn yno i scwrso â fi. "Wel, i b'le ry'ch chi am fyn'd, syr," ebre fo? Wel, bawn i yn y' meddwl, mi wranta i y cymra i ofal shag cael y nhyna mewn yn New York trwy syr a meistr, fel yn Lerpwl. "Pwy i chi, syr, sy'n gofyn, a beth yw hyny i chi?" "Wel," ebre fo, "ym enw i yw Cadwalader Richards, ac os cym'rwch chi'ch cynghori gin i, mi'ch hela i chi y ffordd rataf." Mi gofies i pryd hyny y mod i wedi gwel'd i enw o ar ryw bapyrau y Nghymru. "Dafydd," ebre Sian yn ddistaw, "waeth i ni fyn'd efo fo, waeth mae'n rhaid i ni fyn'd efo rhyw un." "Bargen," ebwn i, "os 'dych chi'n dod; ac os gwnaiff o gam â ni, allwch chi ddim roi tafod na dane' i fi wedi'n." Mi wedes i wrth y Cymry 'mod i'n myn'd efo fo. "Treied pob un i fforten i hunan," ebre nhwynte; ond fe ddaeth ryw bump neu chwech o nwy efo ni. Fe gytunodd o am y'n lle ni dros y nos yn o lew o rad. Dranoeth daeth efo ni i office Mr. Allen, 157 Cedar-st., ac fe gytunodd am y'n cario ni trwy Bufflo i Milwaci am wyth dolar yr un, a chan' pwys o lygage yn rhydd, a 75 cent y cant am y rest. Wel i chi, fe aeth y Cymry eraill i office rhyw Smwddo, rwy'n meddwl; ac fe gytunson yno, ac ro'n ni a nwynte yn mynd i Albani gyda'n gilydd, ar fwrdd y steamer, yr Isaac Newton; a'r noswaith hono aeth ryw son am y passage. "Faint y dalsoch ch'i, Dafydd," ebre nhwy? "Wyth dolar," ebrawn i, "bob cam i Milwaci." Mi gweles i nhw' yn gwenu yn nghil i boche pryd hyny. "Wel," ebrawn i, "faint dalsoch chi?" "Chwech dolar," ebre nhwy. "Dyna," ebre Sian, "chwi ar ol o hyd." "Sian," ebrawn i, "cofiwch i chwi son gynta' am hyny, ac mi wedes i nad oedd dim tafod a dane' i fod wedi'n." Wedi i'r Cymry oedd wedi cytuno gyda fi glywed hyna, fe aethon nhwy yn lled sosi i fi—wel, yr oedd y nghylla ina wedi suro peth hefyd.—"Wel, ddaw o ddim yn ol," ebrawn i wrthyn' hwy. Ond i Albani yr awd boreu dranoeth. Wel i chwi, dyma ryw un i'r bwrdd yn gofyn am *bassengers* Mr. Allen. Ffordd ro'n nw'n gwybod fod yno bassengers iddo fo wn i ddim, os nad o'n nhwy wedi cael clywed trwy'r wyrs rhyfedd yna. "Oes," ebrawn i yn lled sych, "fi fentra i i chi;" waith 'rodd talu dau ddolar yn rhagor na nhwy yn gwasga'n drwm yn y'm stymog i. "Dewch gyda fi," ebre fo. Efo fo yr eithon ni, ac fe gawd y *pass*, fel ro'n w'n i alw o; ond lled ddu oedd y cwpwl Cymry oedd gyda fi yn edrych arna i o hyd; ond fel y dygwyddodd pethe fod, 'deithon ni ddim ffwrdd o Albani hyd y prydnawn; ac fel yr oe'm ni yn cerdded i weled y lle, ni gwrddson â'r lleill ag oedd wedi cytuno yn office y Smwddo, a dyma nwy yn redeg ata i, ac yn deid, "Dafydd, beth y newn ni—'ryn ni wedi cael y'n twyllo yn New-York—y $6 a dal'son ni yno 'dyw o ddim ond yr hanner, ac mae nwy wedi ysgrifenu ar gefen y'n *tickets* ni'n bod ni i dalu chwech dolar arall yma, a dim ond hanner cant pound o lygage sy'n rhydd i ni, a dolar y cant am y rest."—Mi ddes i i'm lle pryd hyny. "Pawb i dreio i fforten i hunan," ebrawn i, "rhyngoch chwi â'ch mater—'dos gen' i ddim i wneud ag o." Wel, ebawn i wrth Sian, "mae Dafydd Shon yr ochor dde i'r berth eto." A dyma y rhai oedd gyda fi yn gwe'd pryd hyny, "Wel done Dafydd Shon, 'ryn ni wedi sefyll arian trwy y dyn Richards." "Peidiwch gneud golwg gilwgus arna'i i eto, ynte," meddwn i. Talu geison nwy, beth bynag; a ffwrdd â ni. Yn mhen rhyw saith diwrnod 'ron ni yn Bufflo, ac oddiyno i Milwaci, yn Wisconsin, ac ro'n ni yno ddau ddiwrnod a hanner o'u bla'n nhw. Ac 'rw' i'n canmol y mraint i gwrdd â'r dyn hwnw, waith 'rwy i'n meddwl iddyn nhwy i' chael hi yn lled ddrwg ar y ffordd wrth ddwad, ond weda nwy ddim o'r gwaetha, wrtho i, o achos gwneud *spri* o hono i ar y

afon. Mae gen i ragor i weyd eto. 'Rown i wedi addo ela y' meddwl yn onest i William, Brynuchel, a Ianto y Ceubwll, ac eraill; ac i hela arian i mofyn tylwyth tlawd i fi. Dwi' ddim am son llawer am deny' nwy, waith beth fyddai' well. Ond 'rown i am fod cystal a nghair i anfon; ond 'wyddwn i ddim i bwy i ymddyried, waith allwn i ddim trysto arian i ddwylo pawb; ond fe wedodd rhyw Hwntw sy'n byw yn y'm ymyl i fod o yn adnabyddus â Mr. Thomas Ll. Davies, gweinidog gwŷr y dwr yn New York; a'i fod yn barnu y gall'swn drysto iddo fo—i fod o yn siwr o 'neud yn onest. Mi eles i yr arian iddo fo, ac mi ces o gystal a'r peth 'wedodd yr Hwntw hwnw am dano. Fe helodd yr arian iddyn' nhw, a *recite* i fina' am danyn' nw'; a phan oe'n nwy'n dod mi glywes i ragor am y runners, a chwi gewch glywed ragor am danyn' nhwy eto.

DAFYDD SHON, TIR-Y-TWRCHBREN.

---

## LLYTHYR O WISCONSIN AT D. T. JONES, MINERSVILLE.

*Franklin, Gorllewinbarth Wis., Medi* 17, 1850.

ANWYL FRAWD JONES,—Hyd yn hyn nid wyf wedi cael amser i ysgrifenu atoch. Yr wyf bob dydd yn trafaelio o amgylch y wlad, ac yn pregethu y nos fynychaf, yr wyf wedi teithio trwy y dalaeth hon o'r dwyrain hyd gwr eithaf, y gorllewin, ac yn awr ar ymylau talaeth Iowa. Mae fy iechyd yn dda iawn, a tneimlwyf yn dra chalonog yn nghanol y *Far West*. Y mae llawer iawn o gloddfeydd mwn plwm drwy y cylchoedd hyn, Dodgeville, Mineral Point, Galena, &c., ac mae llawer o bobl yn cael bywoliaeth gysurus wrth gloddio'r mŵn. Amcanaf ateb eich gofyniadau yn ffyddlawn a gonest hyd eithaf fy ngwybodaeth. Nid ydwyf wedi gweled nemawr ddim tir tlawd yn yr holl dalaeth. Pa un bynag ai *prarie*, ai *oak openings*, ai *bottom land*, mae'r *soil* yn dda, a chynhyrcha *grop* toreithiog iawn. Parth lliw'r *soil*, y mae yn ddu, a thra dwfn, tir heb angen gwrtaith yn y ffordd o achles am hir flynyddau yw.

> "Rhydd ber-lysiau, blodau blith;—daear gron
> Meillion o'i dwylo, a mill yn dewfrith."

Parth dullwedd y tir, mae'r *prarie* yn annysgrifiadwy braidd: y drychfeddwl mwyaf trawiadol yw tonau y mor ar ol ystorom—y naill yn ymdaflu ar draws y llall, mewn annhrefn mawreddog; ie, tebyg i donau llonydd a diog ydynt; ond eu bod yn llawer mwy na neb tonau a welais i erioed—yn hawdd i'w haredig bob cwys, ac yn mhob man. Wrth edrych oddi amgylch gellir dweyd yn iaith y bardd—

> "Wele ogylch y byd i'w olygu,
> A'i banau meithion heb eu amaethu."

Mae'r *bottom land* yn weirgloddydd parod,—delydd gwyrddleisiou a ffurfiodd llaw natur, heb angen gwaith celfyddyd amgen i'w *fenceo*. Mae tir y west yn wir fawreddog; eto mae rhai pethau annymunol yn perthyn iddo—math o *draw-backs* ar Eden y gorllewin. Nid oes yma gymmaint cyflawnder o ddwfr ag yr ewyllysiwn, er fod yma ddyfroedd lawer, a dwfr neillduol o flasus:

> "Yr afonydd drwy faenor
> Yn dwys ymarllwys i'r mor."

Hefyd, mae'r coed yn brin ar y *prarie*. A chan fod y gauaf yn faith a'r hinsawdd yn oer, bydd yn angenreidiol sicrhau tir coed, yr hyn dry yn elw nid bychan i'r ffarmwr yn y pen draw. Anghofiais ddweyd fod yn hawdd i gael dwfr braidd yn mhob man trwy gloddio yn ddwfn am dano. Mae melinau llif a mâl yn weddol o gyfleus yn y cylchoedd hyn.

Yn nesaf, mae cerig calch drwy'r holl amgylchoedd hyn, a meddyliwyf eu bod bob amser i'w cael ger y mwn plwm. Gellwch eu llosgi ar eich tir eich hun os ewyllysiwch. Mae tir y llywodraeth ar y prif-ffyrdd wedi ei werthu gan mwyaf, a'i brynu gan *speculators*, ac mae y rhai hyn yn barod i'w werthu eto am $2 50 neu $3 yr erw. Ac yn wir, gellir prynu tir ganddynt ar amserau mor rhad a thir y llywodraeth. Mae llawer o hono yn cael ei werthu am y dreth yn barhaus. Gwylio'r cyfleusdra yw'r pwngc er sicrhau tyddyn yma.

> "Apis fu'n dewis ei dir
> Yn meusydd ffrwythlawn Misir."

Mae'r bobl yn byw yn dra chysurus ffordd yma. Digonedd o fwyd yn mhob tŷ. Diau fod yma y llawnder mwyaf ar y pen hwn.—Maent yn codi cnydau toreithiog iawn.

> Mewn bwriad mynu bara
> Yn llunlaeth o doraeth da.

Eto, mae'r annedd-dai yn wael iawn. Tai *logs* braidd drwy'r holl wlad, ac ni welais nemawr o ysgyboriau, yr hyn feddyliwyf sy'n golled fawr i'r tyddynwyr. Ac efallai nid cymmaint pan ystyrir fod ganddynt beiriant i ddyrnu, nithio, a glanhau eu gwenith. Dygir y peiriannau hyn i'r meusydd yn mis Medi; cludir yr ŷd i'r heiniardy, a gadawir y gwellt, &c., ar y maes.

> "Mis Medi o'r maes mudir
> Effeithiau gwrteithiau'r tir;
> Pand ytyw'r mis dewisaf
> Drwy borth hwn daw'r ebyrth haf."

Mae arian ac aur mewn cylchrediad drwy y parth hyn o'r wlad. Ni welais un *bank bill* y ffordd yma hyd eto, na phres chwaith

mewn trafodaeth arianol. Mae'r cawa a'r ymenyn yn agos mor ddrud yma ag ydynt yn Mhensylfania. Gyda golwg ar y gerddi, gellir cael hadau o bob math yma. Bwyteais, ar ol ciniaw heddyw, yn nhŷ Mr. Edward Platt, y *watermelon* goreu a archwaethais erioed, a gwelais wynwyn mawr wedi tyfu oddiwrth yr hadau y flwyddyn hon, yn fwy na'm dwrn. Nid oes yma nemawr perllanau eto, a'r rhai sydd yma maent yn ieuangc iawn. Meddyliwyf ei bod yn oer iawn yma yn y gauaf. eto mae yn iachus. Hefyd, mae tymor yr haf yn lled fyr. Rhaid bod yn ddiwyd tra bo'r haul yn ymddangos, mewn trefn i ddarparu erbyn gauaf. Nid wyf yn dywedyd hyn er eich digaloni chwi, a'ch dad-orllewineiddio, ond adrodd ffeithiau—dweyd am bethau ac amgylchiadau fel y maent. Mae'r *rails* i wneud *fenses* yn costio cryn lawer—costiant $30 y fil, ac y mae yn rhaid cael tua 6000 o honynt i wneud *fense* i 40 erw o dir. Pris aredig tir prarie yr erw y waith gyntaf yw tua $2 50.

Dir yw y bydd y wlad hon yn un o'r rhai cyfoethocaf yn yr Amerig cyn hir. Mae ymfudwyr lawer yn ymarllwys iddi yn feunyddiol. Os penderfynu dod yma, dod a'r teulu yr un amser yw y goreu. Mae'r draul yn fawr a'r ffordd yn faith. Ni chynghorwn neb i symud yma heb eu bod yn benderfynol ei hymladd allan drwy'r tew a'r teneu. Y mae yma rai a ewyllysient fod yn ol yn Mhensylvania, ac eraill yn ddedwydd yn y mwyniant o doraeth y Gorllewin.

Wyf, frawd, yr eiddoch yn ddiledrith,

J. P. Harris.

☞ Deallwn fod Mr. Jones yn bwriadu cychwyn tua y Gorllewin pell canol y mis hwn. Boed ef a'i deulu dan fendith y nef, ac o fendith yn y gymmydogaeth yr ymsefydlont. Gwyddom y bydd ei ddrws yn agored bob amser i dderbyn arch Duw, ac y bydd groesaw i brophwyd gael tamaid o fara, ac os bydd amgylchiadau y tŷ yn caniatau, ystafell fechan, a gwely, ac ystol, a bwrdd, a chanwyllbren, &c.—Gol.

## Y WELSH YANKEE.

Mr. Editor.—Fi wedi gwel'd bod chwi'n printo gwaith fi, ac am hyny mi writio atoch eto. Fi treio mendio y tro hwn, waith bod fi yn clywed bod rai yn gneud sport o'm Welsh fi. Wel, fi dim helpio am hyny, waith fi'n gwneud y best I can. Fi wedi cael cam mawr, oblegyd tad a mam, waith bod nwy'n peidio useo common sense ata' i, ond fi'n caru nwy er hyny. Pan own i'n bach, ron' nwy'n treio dysgu English i fi, cyn dysgu hyny eu hunain; ac wrth bod fi yn dysgu English gan mam, ac yn peidio dysgu Welsh, fi ceso'm dwyn fynu heb un iaith. Ron' nwy'n meddwl gwnend fi Sais mawr, but fi cwympo lawr rhwng y ddwy stol, ac mae many felly heblaw fi. Fi gwybod am bregethwr a aeth yn ddiweddar i preacho i'r wlad, ac yn meeting y boreu fe gweyd tebyg i hyn, "Fi gobeithio y gwnewch chi y Welsh i esgusodi fi, am nad wyf yn gallu preacho'ch iaith chi yn correct, am bod fi yn arfer general yn mysg y Saison." Pan ddaeth pregeth yr afternoon, fe yn myned i breacho i'r Saeson, a fe gweyd yr un stori yno wedi'n, ac yn gofyn iddynt am "excuseio'i broken language," am bod fe'n Cymro. Fe wedi gweyd felly yn y morning wrth y Cymry, felly, fe dim gwybod Cymraeg na Saesnaeg. Dyma y sort o bregethwyr ellir expecto fydd llawer yn yr oes nesaf. Fi son eto, er example, am un Cymro yn myned i preacho English, ac wrth bod fe yn son am y llongau ar y mor, fe gweyd fel hyn, "Sheeps on the sea;" ac un arall wrth son am ail-enedigaeth yn galw hyny, "Second-born." Fi dim gallu deall what would dwad o'r Cymry fel hyn; ant heb yr un iaith. Onid gwell i'r plant gael eu dysgu naill ai yn Cymry neu yn Saeson, a hyny yn correct, yn lle eu bod hwy fel fi a llawer eraill. Hefyd, fi gorfod mynd gyda tad a mam fi i'r Welsh Church ar y Sul; a hwy wrth beidio dysgu Cymraeg i fi wedi cloi deall fi i fynu yn entirely oddiwrth ddeall trefn fawr y gras. Dylai tadau a mamau y Cymry ddysgu eu plant i ddarllen Cymraeg a deall Cymraeg, neu gadael eu plant i fyned i glywed preacho Saesnig, am mai yn young y gellir effecto ar eu meddyliau. O na byddai common sense wedi cael mwy o le yn penau llaweroedd. Fi gobeithio, Mr. Editor, y caiff my writing le yn y Seren, waith fi gweyd peth useful. Os bydd ambell Dic Shon Dafydd yn digio wrthyf fi, fi'n meddwl chwareu Yankee trick â hwy, trwy beidio deud ble fi byw.

Welsh Yankee.

## WELSH CREEK, ILLINOIS.

Y mae y Parch. W. Williams yn llafurio yma gyda chryn lwyddiant, ac arwyddion fod yr Arglwydd yn bendithio ei lafur. Mae oddeutu $450 wedi eu tanarifio at dŷ cwrdd, yr hwn a gewch ei hanes yn fanylach eto.

Yr ydym wedi cael gauaf hynod o dymherus hyd yma—ni chawsom nemawr o eira.—Mae'r gledrffordd o Chicago wedi ei gorphen hyd o fewn deng milldir i sefydlfa'r Cymry, yr hyn sydd yn gyfleusdra gwerthfawr—daw yn nes eto. . . . . . W. H.

## YR YSGRIF BOSTSWYDDFAOL NEWYDD.

Yr ydym wedi crybwyll o'r blaen bod yr ysgrif hon yn debyg o basio y Gynghorfa, yr hyn a gymerodd le, a thyma fed dyliwn oedd prif orchwyl yr eisteddiad. Pa fodd bynag, cyfnewidiwyd hi gryn lawer gan y Senedd, ond y mae yn wellhad pwysig ar y drefn bresennol; mae yr ysgrif yn gwahaniaethu y tollau yn ol y pellder ag y byddo y llythyrau a'r newyddiaduron yn cael eu danfon. Y mae i ddyfod i weithrediad ar y 1af o fis Gorphenhaf nesaf. Y doll ar lythyrau sengl i unrhyw bellder yn y talaethau nid dros 3000 o filldiroedd, fydd tair cent; uwchlaw 3000, chwech cent, os telir yn mlaen llaw. Am lythyrau tramor, i unrhyw bellder dan 2500 o filldiroedd, deg cent; uwchlaw y pellder hyny, 21 cent. Llythyr sengl a ystyrir un yn pwyso hanner wns; llythyrau dwbl, telir dwbl doll, &c.

Y tollau ar newyddiaduron ydynt i fod fel y canlyn: Papyrau wythnosol, heb fod yn pwyso mwy na thair wns, i gael eu danfon yn ddidraul i unrhyw fan yn y swydd lle y byddont yn cael eu cyhoeddi; am unrhyw bellder nid dros 50 milldir allan o'r swydd lle y cyheeddir hwy, pum' cent am bob tri mis; dros 50, ac heb fod uwchlaw 300 milldir, 10 cent am bob tri mis; dros 300, ac nid dros 2000, 20 cent bob tri mis; dros 2000, ac islaw 4500, 25 cent; ac unrhyw bellder dros hyny, 30 cent bob tri mis. Papyrau hanner wythnosol i dalu dwbwl y doll, ac felly yn y blaen, yn ol mynychder eu cyhoeddiad.

Am gylchgronau, grealau, cyhoeddiadau misol, &c., heb fod dros un wns o bwysau, telir am feithder heb fod dros 500 milldir, un cent; mwy na 500, ac nid dros 1500 milldir, dwy cent; ac un cent yn ychwanegol am bob 1500 o filldiroedd uwchlaw hyny. Am bob wns ychwanegol ychwanegir y doll yn gyfartal. Pan delir y chwarter yn mlaen, nid yw y doll am gylchronau neu realau i fod yn fwy na hanner y prisoedd uchod. Felly, gan fod y Seren yn pwyso ryw ychydig llai na dwy wns, ni bydd ei chludiad ond un cent i'r rhan amlaf o'n derbynwyr, os telir y doll dri mis yn mlaen.

Bydd caniatad i osod biliau yn y sypynau; a gall cyhoeddwyr gyfnewid eu cyhoeddiadau â'u gilydd yn ddidraul. Llythyrau heb eu talu yn mlaen i fod yn ddwbl-doll. Y mae argraff-nodau tair cent i gael eu gwneud er blaen-dalu tollau llythyrau; a'u cadw ar werth gan bob postfeistr.

Nid oes neb o'r postswyddfeydd presennol i gael eu roddi i fynu. Llythyrau na byddo galw am danynt i gael eu hysbysu (*advertize*) unwaith yn y papyr helaethaf ei gylchrediad yn yr ardal, ac ni bydd y tâl a ganiateir am hyny ond un cent am bob llythyr.

Y mae yr ysgrif hefyd yn darparu i ddarn au tair cent gael eu bathu, tair rhan o bedair i fod yn arian, a'r bedwarydd ran yn gopor.

---

## Y GYNGHORFA DDIWEDDAF.

Gohiriwyd yr eisteddfod diweddaf ar y 4ydd o Fawrth; ac wrth adolygu ei gweithrediadau nis gallwn lai na theimlo gradd o brudd-der a thristwch o herwydd fod cymmaint o arian y wlad, ac amser gwerthfawr ein cynrychiolwyr a'n seneddwyr, yn cael eu camdreulio; a hyny pan y mae sefyllfa y wlad yn galw am eu sylw mwyaf difrifol. Y mae dysgwyliadau llawer wrthynt wedi troi yn siomedigaeth, ac y mae y mesurau a alwai am eu hystyriaethau yn sefyll fel o'r blaen. Ymddengys mai hunan-les yw yr egwyddor sydd yn llywodraethu mawrion ein tir gan mwyaf, ac wrth ystyried hyn, nid ydym heb ofni bod caethiwed a gormes mor gadarn a diysgog ag erioed yn y wlad; ac y mae y gorchwyl o dori ymaith gadwynau a beichiau y gorthrymedig yn ymddangos fel yn anobeithiol; ond y mae ein gobaith a'n hyder yn cryfhau i raddau wrth feddwl mai yn llaw y bobl y mae y gallu, ac yn neillduol wrth gofio bod yr Arglwydd yn aml yn goruwchlywodraeth pethau yn ei ragluniaeth er ateb dybenion pwysig, a dwyn diwygiadau mawrion oddiamgylch.

Treuliwyd yr amser yn hollol ddifudd hyd o fewn dau neu dri diwrnod i ddiwedd yr eisteddfod, pan y gwelsant hi yn bryd iddynt ddeffroi, a gwnaethant ryw ychydig er gochelyd y cywilydd o ddychwelyd gartref heb wneud dim. Nid oes dim wedi ei wneud er rhwyddhau ac amddiffyn masnach y wlad, yr hyn sydd yn siomedigaeth i fwnwyr, glowyr, a gwneuthurwyr haiarn y dalaeth hon.

---

## YR ETHOLIADAU YN NHALAETH CAEREFROG-NEWYDD.

Yn ol y cyfrifon sydd wedi eu derbyn, y mae y Democrats yn faddugol mewn amryw fanau. Etholasant eu hymgeswyr am swydd maer yn Utica, Syracuse, Rochester, Buffalo, Oswego, Troy a Newburg, &c.

---

## ARGRAFFU A DWFR.

Y mae gwasg y *Boston Traveller* yn cael ei gweithio trwy nerth dwfr, yr hon yw yr unig engraifft yn y wlad hon o'r fath. Y mae olwyn fawr tu allan, fel melin, ac y mae y peiriant yn ateb y dyben, a'r draul yn llawer llai nag efo agerdd. Ymddengys fod dau argraffydd eraill wedi gwneud cynnygiadau aflwyddiannus i wneud hyn ryw amser yn ol.

## YR YSGOL SABBOTHOL A'R CYFARFODYDD CYMREIG

*Yn Rattling Run a Yellow Spring, Pa.*

MR. GOL.—Yr ydym yn cymeryd yr adeg bresennol i anfon atoch ychydig o'n hanes fel ychydig frodyr a chwiorydd crefyddol yn yr ardal hon. Y mae yn llawen genym hysbysu fod y gwaith da yn llwyddo yn ein plith, a bod yr Arglwydd wedi gwrando ac yn ateb ein gweddiau. Yr ydym wedi cael y pleser o weled tri o afradloniaid wedi dyfod yn ol i dŷ eu Tad. ac y mae pob argoelion fod y Tad yn eu derbyn gyda y groesaw mwyaf. Mae yma un hefyd wedi dyfod o'r newydd, ac y mae eraill yn teimlo eu hangen am grefydd. Eiu rhifedi yn bresennol yw 19, ac y mae 15 o'r nifer hyn yn Fedyddwyr. Yr ydym yn cyduno â'n gilydd i gadw yn mlaen addoliad crefyddol ac Ysgol Sabbothol yn ein hiaith ein hunain.

Yn ystod y tri mis diweddaf adroddwyd yn ein Hysgol Sabbothol—Pennodau, 24; Salmau, 33; Adnodau gwasgaradig, 323.

Nid ydym yn lluosog iawn yma yn yr ysgol—ysgolheigion, 30; athrawon, 5; arolygydd, 1; ysgrifenydd, 1. Y cwbl, 37.

EVAN THOMAS, *Arolygydd.*
WM. THOMAS, *Ysgrifenydd.*

## DEDFRYD PYFER. Y LLOFRUDD.

Yn mhrawdlys olaf swydd Schuylkill, yn Orwigsburg, Pa. y mis diweddaf, profwyd Martin Pyfer, Ellmyniad, yn euog o ladd ei wraig yn Schuylkill Haven, trwy ei thrywanu â chyllell yn ei mynwes. Cafodd brawf têg a diduedd, yr hwn a barhaodd dri diwrnod, ac nid oedd gan ei gyfreithiwr unrhyw ffug o ddadl ond ei fod yn llafurio ar y pryd dan radd o wallgofrwydd neu ddyryswch meddwl. Profwyd ei fod dan effaith gwirod pan gyflawnodd y weithred, â'r hyn yr oedd yn dra chynnefin yn ddiweddar.

Dedfrydwyd y carcharor gan y Barnwr Kidder, i ddyoddef cosp drymaf y gyfraith, sef ei ddibenyddio, mor fuan ag y byddo i'r Llywodraethwr Johnston bennodi.

Dywedir fod y dyn annedwydd hwn, Pyfer, wedi bod unwaith yn grefyddwr, ac yn cymeryd arno y swydd neu y cymeriad o bregethwr yr efengyl; ond yn ddiweddar ymddengys ei fod wedi ymollwng i yfed, ac yn ei feddwdod yr oedd yn hynod o greulawn a dideimlad. Yn mhlith ei deulu yr oedd yn dra gormesol, ac meddu tymherau aflywodraethus—yr oedd yn berygl iddynt fod yn agos iddo. Y mae ei wedd yn dynodi creulondeb, Yr oedd yn ymddangos yn wan ar ei brawf, yr hyn a achosid gan ei gaethiwed. Mae ei blant yn elusendy y swydd.

Wrth gyhoeddi y ddedfryd, dywedai y barnwr ei fod yn euog o'r trosedd mwyaf, sef llofruddio ei wraig ei hun, priod ei fynwes, yr hon a ymrwymodd i'w hymgeleddu a'i chynnal! Cynghorodd ef i barotoi i gyfarfod ei ddiwedd, ac nad oedd gwiw iddo obeithio derbyn unrhyw ffafr oddiwrth y Llywodraethwr—fod ei achos yn hollol anobeithiol; o herwydd iddo gyflawni y weithred yn y modd mwyaf diesgus, a hyny yn ngwydd ei blant. Cynghorai ef i erfyn ffafr ei Dduw, gan yr hwn yn unig y gallai obeithio cael trugaredd.

CARBONDALE.—Mae y lle bywiog a chynyddfawr hwn wedi ei gydnabod yn ddinas gan lywodraethfa y dalaeth hon.

MINERSVILLE.—Mawrth 2, bedyddiwyd tri ar broffes o'u ffydd yn Minersville, gan y Parch. J. P. Harris. Mae dau eto yn y gyfeillach.

Y SPIRITUAL KNOCKINGS.—Er fod y Cymry yn cael eu hystyried gan lawer yn dra ofergoelus, yn credu ac adrodd chwedlau disail o barth ysbrydion a phethau cyffelyb; ond ymddengys bod y fath sothach yn cael derbyniad gan genedlaethau eraill o'n hamgylch, yn llawn mor barod a chenym ninau. Dywedant fod y bodau neu yr ymwelyddion ysbrydol hyn mewn amryw fanau yn curo byrddau, drysau, &c., tra y mae eraill o honynt yn gwneud oernadau dychrynllyd, ac yn rhodio oddiamgylch mewn dillad gwynion yn nyfnder y nos, &c.

## ARERCHIAD AT Y CYMRY YN Y TALAETHAU UNEDIG.

*Gan y Pwyllgor Canolbarthol tuagat feddiannu Maen i gynrychioli y Cymry yn America yn Nghofgolofn Washington.*

Cynnygir gosod yn y Gofgolofn Wladwriaethol, yn awr yn cael ei hadeiladu yn mhrifddinas y werin-lywodraeth, faen, er dangos parch y Cymry i goffadwriaeth Washington, a'u hymlyniad wrth ei egwyddorion. Gofynir teyrnged fel hon oddiwrthym gan nodweddion hynodwych tad ei wlad, a chan ein perthynas â gwlad ein tadau, a lle genedigol llawer o honom, ac â'r werin lywodraeth o'r hon yr ydym yn awr yn ddinasyddion. Canfyddwn yn Washington y dyn yr hwn a unai ynddo ei hun briodoliaethau y rhyfelwr a'r gwladgarwr, y gwladgarwr a'r doethwr (*sage*), y dinesydd a'r Cristion, yn berffeith-

iach nag un dyn arall y crybwylla hanesyddiaeth am dano. Ac ymfalchiwn ein bod yn alluog i honi i'r genedl Gymreig nodedig a chyflawn werthfawregiad o'r cyfryw nodweddiad. Profa hanesyddiaeth ymdrechion diffino y bobl ddewrwych hyn. o diriad Cæsar yn Mhrydain Fawr, hyd eu huniad yn y fl. 1231, am annibyniaeth gwladwriaethol.—Nid rhyfedd, ynte, eu bod hwy bob amser yn llawenychu yn nghoruchafiaethau egwyddorion rhyddid, ac yn mawrygu person ac enw pob dyn a gyflwyno ei hun i achos gogoneddus rhyddid gwladol. Bob amser y maent hwy wedi hynodi yn eu cariad at grefydd yn ei phurdeb a'i rhyddid; ac o herwydd hyn, gwelir hwy byth yn mlaenaf yn anrhydeddu yr hwn, yn llaw Duw, ag sydd wedi bod yn foddion i sefydlu yma genedl yn gallu gwerthfawrogi yr un uchel-fraint, ag a ddichon fod yn un deml harddwych wedi ei chyssegru i ddwyfol wasanaeth y Goruchaf. Yn mhellach, heblaw hyn, ymfudodd ein tadau, a llawer o honom ninau yn bersonol, o fynyddau a dyffrynoedd y dywysogaeth, lle y llethid hwy â degymau, ac y gorlwythid hwy â threthi trymion. Cawsant yn y wlad yma wlad a chartref a fawr garent, sefydlwyr cyntaf pa un a ystyrid ganddynt, a chenym ninau, eu plant, gobeithir, yn ddiolchgar, fel y cymwynaswyr penaf a welodd y byd erioed.

Yr ydym, gan hyny, yn ewyllysio gosod yn nghof-golofn y penaf a'r rhagoraf o'r bobl. i'r hwn y mae ein mabwysiedig, ein dewisedig, ein haddawedig wlad, yn ddyledus am ei thragoriaeth, dystiolaeth fechan o'n hymlyniad wrth yr egwyddorion sydd yn gerfiedig ar y Datganiad Gwladwriaethol o Annibyniaeth, y rhai a geid yn ymgorffori ac yn gogoneddu yr anfarwol Washington; y rhai a drosglwyddir hefyd, gobeithiwn, i'r oesoedd diweddaraf, yn nghyfansoddiad y werin-lywodraeth hon. Yr ydym yn ewyllysio tystiolaethu trwy weithred gyhoeddus na ymostyngwn i neb rhyw gorff o bobl yn ein gwladgarwch a'n cariad at rhyddid. y rhai ydynt hynodion priodoliaethau pob dinesydd Americaidd.

Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y ddinas hon (Utica), ar brydnawn yr 22ain o fis Ionawr, 1351, yn yr hwn y pennodwyd y tansgrifwyr yn bwyllgor canolbarthol, gyda dyledswyddau cyssylltiol a grybwyllir yn hanes y cyfarfod hwnw, yr hwn a gyhoeddwyd ar y pryd. Yn nghyflawniad eu dyledswyddau mae y tansgrifwyr wedi gwneud y cyfryw ymofyniadau ag a'u galluoga i effeithio yr amcan cynnygiadwy.

Oddiwrth yr ymchwiliad a wnaethpwyd, deallwn nas gellir cael maen cyfaddas i'r pwrpas ynghyd a ffurfwedd (*design*) priodol yn gerfiedig arno, am ddim llai na $600. Buwyd yn ymgynghori ag amryw foneddigion yn meddu y cymhwysderau perffeithiaf i farnu, ac y maent hwy oll yn unfrydol yn cymeradwyo marmor (*marble*) fel y defnydd goreu ac addasaf i'r pwrpas. Nid oes un ffurfwedd bennodol o gerfwaith wedi ei bennodi. Ar y pen hwn bydd mwy o faes yn agored i ddangos chwaeth yn gystal a threuliad o arian. Mae y Pwyllgor Canolbarthol yn gwahodd, oddiwrth y gwahanol bwyllgorau a ddichon gael eu ffurfio i gydweithredu, awgrymiadau mewn perthynas i'r rhan hwn o'u llafur. Bydd iddynt hefyd alw atynt, idd eu cynorthwyo ar y pen hwn, foneddigion y rhai y mae natur ddiwylliedig eu chwaeth yn adnabyddus ac addefol gyffredinol. Y swm a enwyd—$600—ydym yn ystyried y ddolar rhataf y gellir cael maen teilwng o'r Cymry. Gellid defnyddio llawer mwy yn dra manteisiol. Gellid defnyddio $800. yr hyn a sicrhai dystiolaeth ardderchog o wladgarwch y Cymry yn America.

Cymhella y Pwyllgor Canolbarthol fod i gyfarfodydd gael eu cynnal yn mhob cymmydogaeth lle mae Cymry. Bydded i hanes y Cymry gael ei adolygu, ac adgoffaer ymlyniad diwyro ein cyndadau at ryddid. Gosoder nodweddiad Washington allan yn ei wir oleuni llachar ac ysblenydd. Gwneler i bawb *deimlo* priodoldeb—Ie, angenrheidrwydd—y gorchwyl a gynnygir i sylw yn bresennol. Wedi i ddigon o frwdfrydedd ac aiddgarwch gael eu magu yn eu mynwesau, ffurfier pwyllgorau i'r dyben o gasglu arian, ac i gyfrinachu â'r Pwyllgor Canolbarthol. Yna bydded i gasgliad gael ei wneud gyda phob brys dichonadwy, ac anfoner yr hyn a gasgler ar unwaith, mewn trefn i wybod ar ba beth i ymddyried. Yn y lleoedd hyny nad ydyw y Cymry ond ychydig nifer. yr ydym yn cymhell rhyw berson cyfrifol i gymeryd arno gasglu yr hyn a ellir, a'u hanfon i'r Pwyllgor Canolbarthol.

Nid ydym, ar un cyfrif, yn ewyllysio i'n hapeliaid gael ei esgeuluso. Beiddiwn alw arnoch chwi, Gymry, wrth eich dinasoedd a'ch trefydd. Mae yn angenrheidiol i ni gael gwybod yn union-gyrchol pa faint a ellir ei gasglu. A fydd i ryw berson yn mhob cymmydogaeth gymeryd y mater mewn llaw, a'n hysbysu pa faint a ellir wneyd yn y gymmydogaeth? Deuwch, Gymry Remsen, a dinas Efrog Newydd! pa faint a gawn oddi wrthych at yr achos haelfrydig a gwladgarol hwn? Pa faint oddi wrthych chwi, Gymry yn Ebensburg, yn Pittsburg, yn Carbondale, yn Pottsville, ac yn Minersville? Pa faint oddi wrthych chwi, Gymry sydd yn trigo ar fras-diroedd Ohio, yn Cincinnatti, yn Paddy's-Run, yn Columbus, ac yn Newark? Ac oddi wrthych chwithau, feibion Gwalia, yn y Gorllewin bell. Yr ydym yn gwneyd cais union-gyrchol atoch chwi y Cymry! pa le bynag yr ydych yn trigo yn y Taleithau Unedig. Mae llawer o honoch yn gyfoethog, ac yn llenwi swyddau anrhydeddus yn eich gwahanol breswylfeydd. Na fydded i'r ymostyn du o *grintachrwydd* cybyddlyd lynu wrth yr enw Cymreig ar yr achos presenol. Byddwch haelfrydig yn eich diolchgarwch am yr holl a fwynhewch.

Yr ydym yn ewyllysio clywed o bob un o'r lleoedd a enwyd uchod, ac oddiwrth bob cymmydogaeth arall a ewyllysio gyfrann i'r drysorgell, cyn diwedd Mawrth, os dichonadwy, yn crybwyll pa fodd y mae y bobl yn gogwyddo yn eu teimladau gyda golwg ar ein symudiadau yn yr achos hwn. Hysbysir ni gan Ysgrifenydd y Gofgolofn Wladwriaethol yn ninas Washington, y dylai y maen fod yn y ddinas

hono yn mis Mehefin neu Gorphenhaf. Fe wel ein cyfeillion oddiwrth hyn nad oes genym amser idd ei golli. Dylai fod yr holl dderbyniadau yn ein llaw mor gynhar yn Mehefin ag y byddo dichonadwy.

Os bydd unrhyw weddill yn aros wedi prynu a chwblhau yn briodol faen o farmor idd ei ddodi yn y Gofgolofn, ac wedi talu y treuliadau damweiniol mewn cyssylltiaid â'i gludiad i Washington, mae y Pwllgor Canolbarthol yn ymrwymo i'w ddodi yn nhrysorfa y Gymdeithas Elusengarol Gymreig, sefydledig yn Utica, dyben yr hon yw diwallu angen ymfudwyr o Gymru, a'u cadw rhag ceisio elusen na dybynu ar y cyhoedd.

ELLIS H. ROBERTS,
HENRY ROBERTS,
DAVID THOMAS,
JOHN E. JONES,
DAVID PERRY,
THOMAS HUGHES,

Pwllgor Canolbarthol.

*Utica, Chwef.* 22, 1851.

☞ Gan fod yr amser wedi cerdded yn mhell, a bod amryw heb wneud dim yn yr achos hwn, hyderwn y gwneir pob brys dyladwy i gasglu yn y gwahanol sefydlfaoedd Cymreig trwy y wlad. Diau na bydd yn rhy ddiweddar i anfon y cyfraniadau i mewn o hyn i ddiwedd y mis hwn (Ebrill).—GOL.

---

## GENEDIGAETHAU.

Chwefror 24, yn Blossburg, Pa., mab i Mr. John J. Williams, a Margaret ei briod. Gelwir ei enw ef George Miles.

Pob llwyddiant a mwyniant llawn—fo'n canlyn
'Run ieuangc serchoglawn,
A chymwysderau synwyrlawn
I greu 'run bach—'run mawr mewn dawn.

I'w rieni dymunaf bob llwydd—i ddysgu
George Miles, 'rhyn fydd ddedwydd:
A'i fagu yn yr Arglwydd
Yn ei ddydd, mewn llawen lwydd.

IEUAN DYFED.

Yn Danville, Tach. 26, Ann, gwraig Watkin Williams, ar fab. Gelwir ei enw ef Watkin.

Yn Summit Hill, Chwefror 27, Ann, priod L. Richards, ar ferch. Gelwir ei henw hi Eliza.

---

## PRIODWYD—

Yn Big Rock, Kane Co., Ill., Chwefror 8, gan y Parch. W. Williams, Mr. John T. Jones, a Mrs. Eleanor Owens.

Yn Pottsvile, Chwef. 22, gan y Parch. Wm. Morgan, Mr. John Simmons, Cwmbwrla, a Miss Mary Rosser, St. Clair.

Yn Pottsville, gan y Parch. Wm. Morgan, Mawrth 4, Mr. John F. Lewis, Pottsville, a Miss Mary Swetzel, Lebanon.

Eto, Mawrth 18, gan yr un, Mr. Shadrach Morgan, Tamaqua, a Miss Hannah Williams, Tuscarora.

DYMUNAF 'nawr, fy nghyfaill glân,
Pob llwyddiant ichwi fyn'd ymla'n;
Gan fyw'n gytun, heb un yn groes,
Mewn undeb mad tra pery'ch hoes.

Hir einioes fyddo i chwi'ch dau,
A byw yn ddedwydd dan yr iau,
Cysuron mwyn efengyl Crist
A'ch gwnaiff yn llawen—nid yn drist.

Yn mlaen yr eloch law yn llaw
Trwy'r fuchedd hon—heb boen na braw,
Mewn gwir frawdgarwch b'och o hyd
Tra paro'ch dyddiau'n hyn o fyd.

Os plant a gewch, (peth gweddus yw
Eu dwyn i fynu'n ofn Duw;)
Rhowch iddynt hwy gynghorion mâd,
A 'siamplau doeth, fel mam a thad.

Hyfforddwch hwynt bob bore a nawn
I deithio ar hyd y llwybr iawn
Sy'n arwain pawb o'r ddaear lawr
I'r nefoedd fry, medd ein Duw mawr.

Bydd yno wledd o fyth barhad
Tu fewn i'r hyfryd, nafol wlad:
Ac yno'n llawen byddant hwy,
Heb ofni byth ymadael mwy.

*Tamaqua, Mawrth* 22, 1851. DEWI MORGANWG.

Yn Remsen, Chwefror 26, gan y Parch. W. Jones, Mr. David R. Davies, o Deerfield Corners, a Miss Hannah Morris, merch y Parch. David Morris, Ohio.

Yn Pottsvslle, Mawrth 8, gan y Parch. W. J. Jones, Mr. David Thomas, Lehigh, a Miss Ann Williams, Pottsville.

Yn Brady's Bend, yr 28ain o Chwefror, gan y Parch. David Davies, John Kelly, yn 60 oed, a Mrs. Elizabeth Vintin, yn 67 mlwydd oed. Gweinyddwyd y briodas yn nhŷ ei merch.

Eto, gan yr un, yn nhŷ tad y wraig ieuangc, Mr. David Shorthill, a Miss Margaret Richards, merch John a Mary Richards.

---

## MARWOLAETHAU.

Chwefror 10, yn Big Rock, Ill., yn 63 oed, Mr. Daniel Evans. Gweinyddwyd ar achlysur ei gladdedigaeth gan y Parch. W. Williams. W. H.

Yn Philadelphia, Mawrth 4, yn 21 oed, Mrs. Margaret Rowsell, merch Mrs. Ann Lewis, Pottsville. Daearwyd ei gweddillion ynghladdfa Lafayette.

Chwef. 24, yn East Mines, ger Pottsville, Margaret, merch Abraham ac Ann Jenkins, yn chwech mlwydd oed, o'r *Scarlet Fever*.

Yn Pottsville, Mawrth 8, o'r Scarlet Fever, Margaret, merch John ac Ann Howard, yn 8 mlwydd oed.

Ew, Mawrth 11, Thomas, mab John ac Ann Heward, yn 8 mlwydd oed. Fel hyn y torwyd dau o'u plant o dir y byw o fewn ychydig ddiwrnodau i'w gilydd.

---

## GOFYNIADAU.

MR. GOL.—Dymunir arnoch chwi, neu ryw un o'ch gohebwyr parchus, i ateb y gofyniad canlynol, hyny yw, A ydyw yn unol ag efengyl Crist i ryw eglwys addaw yn flynyddol idd ei gweinidog o bedwar i bump cant o ddoleri; ac i'r gweinidog hwnw i gadw ei gyflog o'r casgliad at y capel, os na fydd yr eglwys yn talu y pump cant, yn ol ei haddewid? EMRYS WLEDIG.

AT.—Y mae y fath ymddygiad yn anonestrwydd mewn unrhyw weinidog, yr hyn sydd groes i efengyl Crist; o herwydd gorchymynir i ni "ddarparu pethau onest yn ngholwg pob dyn."—GOL.

---

Pa un ai tân ai dwfr ydyw y gwerthfawrocaf? COPPA DWL.

---

A ydyw llwyddiant unrhyw grefydd yn brawf o'i dwyfoldeb? W. H.

AT.—Nac ydyw, tra byddo pechod mor llwyddiannus ag y mae yn y byd.—GOL.

---

*At Mr. John X. Jones, Caerefrog-Newydd.*

MR. GOL.—Gydag hyfrydwch mawr yr wyf yn darllen eich Seren brydferth o fis i fis; a hoff genyf weled cymmaint o amrywiaethau yn britho ei dalenau.. Dymunol yw gweled pob ymgais i gynyddu mewn gwybodaeth, a dwyn ein cenedl yn mlaen mewn rinwedd a chyfrifoldeb. Dymunwn olygiadau Mr. J. ar pethau canlynol:

1. Pa beth yw yr achos gwreiddiol o glefydau dynolryw?
2. Os pechod ydyw yr achos, pa fodd y gall llysiau, coedydd, mwnau, halenau, &c. fod yn feddyginiaeth, gan fod yn rhaid symud yr achos cyn dileu yr effaith?
3. Ar ba beth y sylfaenwyd y grediniaeth hono gyntaf, sef fod meddyginiaeth i'w chael yn y pethau a nodwyd?

Atebiad i'r pethau uchod a foddlona lawer heblaw Yr eiddoch, &c.,

CYMRO GWAN.

---

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Gyda yr agerlong Arctic derbyniasom newyddion Ewropaidd hyd y 4ydd o Fawrth.

Y mae Llywodraeth Prydain yn bresennol mewn sefyllfa gynhyrfus o herwydd dattodiad y Weinyddiaeth, a hyny yn mhen ychydig ddyddiau wedi i'r Senedd gyfarfod.—Yr achos penaf o'r anghydfod oedd y ddadl ar Babyddiaeth, ynghyd a'r ymryson ar Gyllideb Canghellwr y Trysorlys. Anfonodd Arglwydd John Russell a'r lleill o'r gweinidogion at y frenines eu bod yn rhoddi eu swyddau i fynu, gan anog y frenines i anfon am Syr James Graham, a'i awdurdodi i ffurfio gweinyddiaeth newydd. Deallwn fod cryn anhawsdra i gael hyn i ben, ac y mae yn dra anmhenderfynol hyd yma pa fodd y try allan; ond wedi diswyddo eu hunain o gylch dwy wythnos, cymerodd yr hen weinidogion eu swyddau yn ol am ryw dymhor, ac yn awr y mae pethau yn sefyll fel o'r blaen.

Bu tân echryslawn yn Ava, China. Llosgodd 2,000 o dai.

### RHUFAIN.

Hysbysir fod Cymdeithasau dirgelaidd yn brysur gyda'r gwaith o ledaenu traethodau llywodol o blaid y werin-lywodraeth, ac yn erbyn llywodraeth ysbrydol a thymhorol y Pab, ac y maent wedi myned mor eofn, fel y mae y llywodraeth o'r diwedd wedi penderfynu ceisio eu hattal, os oes modd, an enwedig gan eu bod mor haerllug ag anfon un o'r copiau cyntaf o bob traethawd i'w Santeiddrwydd ei hun, ac nid pleserus iawn ydyw i'r hen ŵr penfeddal ddarllen adolygiadau y gwerinwyr ar ei lywodraeth, a chanfod eu hadolygiadau ar gyflwr arianol ei drysorfa. Anfonir copiau hefyd i bob un o'r Cardinaliaid a'r preladiaid. Mae yr olaf o'r cyhoeddiadau dirgelaidd hyn am draethawd o faintioli canolig, wedi ei argraffu yn dda, a golwg prydferth allanol arno, yr hyn sydd wedi peru i'r hedd-geidwaid ddyblu eu diwydrwydd er mwyn cael allan awdwyr neu argraffwyr y traethodau andwyol hyn, ond hyd yma y maent yn ymchwilio yn ofer.

### YSBAEN.

Y mae chwyldroad wedi cymeryd lle yn Ngweinyddiaeth y wlad hon hefyd, ac y mae Narvaez o'r diwedd wedi rhoddi ei swydd o Brif-weinidog i fyny, ac wedi ymadael o'r Brif-ddinas. Dywedir mai yr achos ydoedd i'r frenines ei sarhadu drwy beidio ei wahodd ef a'i gyd-weinidogion i ddawns a gynaliwyd ychydig amser yn ol yn a palas breninol.

### PRWSIA AC AWSTRIA.

Cynwysa y newyddiadur swyddol am yr 11eg cyfisol, ddeddf freninol yn rhyddhau Narvaez oddiwrth ei swydd bwysig, o herwydd ei afiechyd parhaus; ac y mae newyddion ddiweddarach a gyrhaeddasant Paris gyda y gwefrebydd. yn adrodd fod y Weinyddiaeth newydd wedi ei ffurfio o dan arolygiaeth Bravo Murillo fel Prif-weinidog.

RWSIA AC AWSTRIA.

Nid oes genym newyddion o bwys i'w had rodd yn nghylch y gwledydd uchod y mis hwn. Mae y cynadleddau yn Dresden yn parhau o hyd.

Bu rhyw swn yn ddiweddar fod Ymerawdwr Rwsia ac Awstria, ynghyd a brenin Prwsia yn bwriadu cyfarfod ynghyd mewn rhyw dref ar y Cyfandir, i ymgynghori yn nghylch materion gwladwriaethol, ond mae rhai o'r newyddiaduron yn gwadu hyn. Diameu mai materion dyrus Germani a ddeuai dan sylw y cynghor breninol pe ymgynullai; ond nid oes gan achos rhyddid ddim i'w obeithio, ond llawer i'w ofni oddiwrth y fath gyfarfod, pe cymerai le.

Mae cyflwr arianol Awstria yn isel dros ben. Gwariwyd mwy o lawer iawn nag a dderbyniwyd yn y flwyddyn ddiweddaf. Meth-daliad llwyr fydd canlyniad hyn oll ond odid.

Ceisia Awstria gyda phob egni ddwyn ei holl Daleithiau i mewn i'r Cyngbrair Allmaenaidd, er mwyn cael mwy o ddylanwad yno na Phrwsia. Gwrthwynebir hyn gan Prwsia, a dywedir fod Ffrainc a Lloeger wedi anfon gwrth-dystiaid unedig yn erbyn y cais trahaus hwn o eiddo Awstria.

TWRCI.

Mae llythyr o Turin, dyddiedig y 3ydd o Ionawr, yn hysbysu fod yr enwog Gadfridog Bem, y Cadlywydd Pwylaidd yn rhyfel Hungary, wedi marw yn Alleppo ar yr 11eg o Ragfyr diweddaf, ar ol ychydig o afiechyd. Gan ei fod yn swyddog milwrol yn myddin Twrci, derbyniodd yr "anrhydedd" berthynol i Gad-lywyddion meirw ar amser eu claddedigaeth. Y mae ymdrechiadau yn cael eu gwneud yn awr eto i ryddhau Kossuth a'i gydgarcharorion. Hyderwn y byddant yn llwyddianus.

BRAZIL.

Tybir y bydd rhyfel yn tori allan yn fuan rhwng Rosas, Llywydd Gweriniaeth Buenos Ayres, ac Ymerodraeth Brazil, ac am hyny y mae yr Ymerawdwr wedi galw y Llyngesydd Grenfell, yr hwn a drigai yn Llynlleifiad ac a lanwai y swydd o Drefniedydd Cyffredinol, yn ol i Brazil i gymeryd llywyddiaeth y llynges Brazilaidd, os beiddia Rosas gyhoeddi rhyfel.

---

TREFEDIGAETH GYMREIG YN RIO GRANDE DO SUL, BRAZIL.

Y mae cynnygiad ar droed yn Nghymru i bersonau ymfudo yn drefnus i'r wlad hon, gan fod rhandir wedi ei neillduo i'r Cymry yn y rhan hyfrytaf a ffrwythlonaf o'r wlad uchod, ac yn yml cyfleusderau mordwyol a marchnad dda. Bwriedir i 300 neu 400 o honynt fyned drosodd yn fuan, a gweinidog gyda hwy. Darperir llongau i'w trosglwyddo ar ol cael 100 yn barod i bob un. Pris, yn cynnwys ymborth a phob traul, pum' punt yr un, i'w talu cyn cychwyn; a'r gweddill (tua 3p. neu 4p.) ar ol ymsefydlu. Plant dan bedair-ar-ddeg oed, hanner y pris.

Er cefnogi y Cymry i ymfudo, dywedir bod hinsawdd iachus, daear ffrwythlon, y tir am bum' swllt yr erw, i'w talu mewn chwech mlynedd; ymborth y flwyddyn gyntaf, ac anifeiliaid, &c. i'w cael, os dewisir, gan Gymdeithas Rio Grande, cefnogaeth ac amddiffyn gan y Llywodraeth, a rhyddid crefyddol a gwladol.

---

MASNACH YR HAIARN.

Y cyntaf o'r cyfarfodydd chwarterol o feistri haiarn am y flwyddyn bresennol a gynnaliwyd yn Woolverhampton, Ionawr 8. Nid oedd y nifer a ddaethant ynghyd mor lluosog ag arferol, yn enwedig o'r cyfaelwyr (*dealers*). Mynega rhai o'r meistriaid haiarn eu bod yn llawn o archebion, digonedd am rai misoedd i ddyfod; tra y rydd eraill liw tra phruddaidd i fasnach, a haerir nad oes unrhyw welliant er y cyfarfod chwarterol diweddaf. Y mae y llaw-weithwyr oll, y rhai ydynt dreulwyr mawr o haiarn (gweuthurwyr arfau miniog er engraifft) yn hynod o brysur. Tuedda yr amgylchiadau hyn, ac eraill o nodweddiad llai pwysig, i gadw y prisiau i fynu yn gadarn, os yn wir na bydd iddynt godi. Haerir gan rai pleidiau fod ammodau wedi eu cynnyg a'u derbyn am swm mawr o haiarn am 10s. y dunell o godiad, ond mae angen am gadarnhad o hyn, ac o dan amgylchiadau presennol, ymddengys braidd yn anhygoel. Gyda golwg ar y darluniad tra phruddaidd o sefyllfa y fasnach, yr hwn a dynwyd gan rai partion, rhoddwyd ateb da gan un o'r haiarn feistri mwyaf cyfoethog a ffel ychydig o wythnosau yn ol; dywedodd, "Y mae y fasnach haiarn yn isel, yn ol rhai pobl, er ys pan ydwyf fi yn cofio, ond yr ydym yn trefnu i wingo yn mlaen yn dra glew wedi y cyfan." Nid oes ystor mawr o haiarn, ac y mae masnach ardal Wolverhampton braidd yn gwella mwy na pheidio.

Yr oedd cyfarfod chwarterol y meistri haiarn yn Birmingham, yn lluosocach o lawer na chyfarfod Wolverhampton. Nid oedd yr olygfa ar y fasnach haiarn mor fywiog ag ydoedd cyn y Nadolig, ac o'r herwydd ni chaf-

wyd codiad yn y prisiau, oddieithr am *pigs*, am ba rai y dywedir y rhoddir 2s. 6c. y dunell yn ychwaneg. Mae pawb yn cyfaddef fod golwg lawer mwy calonog ar y fasnach haiarn yn Lloegr, a dysgwylir archebion lled fawr o'r America, ac o gyfandir Ewrop, yn ystod yr haf nesaf.

Cynnaliwyd cyfarfod diweddaf y meistri am y chwarter dyfodol yn Dudley, yn mha un yr oedd nifer luosog o'r prif farsiandwyr, a chydnabyddid yn gyffredin ganddynt fod y fasnach haiarn a gwell golwg arni yn awr nag a fu er ys cryn amser. Cadarnhawyd y codiad yn mhris yr haiarn a elwir *pig-iron*.

[Y mae yn ofidus genym wrth ddarllen y fath newyddion a hyn bod y fasnach haiarn mewn sefyllfa mor isel yn America. Onid yw hyn yn dangos fod eisiau i'n llywodraeth amddiffyn diwydrwydd a masnach cartrefol yn wahanol i'r drefn bresennol?]

## TYWYSOGAETH CYMRU.

### STOROM GREF.

Yn un o'r stormydd diweddar torodd y mor i mewn ar draws mynwent ac eglwys y Dinas, Dyfed, a chariodd ymaith lawer iawn o'r fynwent, drylliodd byrth y beddau, ac ysbeiliodd hwynt o'u carcharorion cysglyd, ond er hyny ni ollyngodd angeu ei afaelion o honynt. Llawer o drigolion a orfyddent edrych gyda theimladau hawddach i'w dych'mygu n'au darlunio, ar eirch a gweddillion meirwon eu perthynasau ymadawedig yn cael eu cyffroi "cyn yr amser," a'u cario i'r weilgi werdd; ond nid oedd un ymwared—dim i wneud ond sefyll, synu, teimlo, ac wylo, ac adgofio er eu cysur y bydd yn rhaid i'r "mor rhoddi fynu ei feirwon." Ond nid oedd haner y fynwent yn ddigon o aberth i'r mor cynhyrfus, eithr ymhyfâodd ac aeth yn mlaen hyd at gryn yr allor, aeth ymaith a rhan o'r eglwys—y gangell, y llyfrau, y llestri cyssegredig, y coffr haiarn, &c. Y mae yn awr son am symud yr eglwys o gyrhaedd y don.

Urddiad Gweinidog yn Hengoed.—Ion. 7, 8, bu cyfarfod gweinidogion yma i neillduo y brawd Daniel Rees, o Gastellnedd, i waith cyflawn y weinidogaeth efengylaidd, fel cydlafurwr â'r hen weinidog, sef y Parch. J. Jenkins, (nerth yr hwn sydd yn awr i raddau yn methu, o herwydd llafur ac henaint.) Nos Fawrth, dechreuwyd trwy ddarllen a gweddi gan y brawd S. Williams, Nantyglo; a phregethodd y brodyr J. Jones, Caersalem Newydd, ac O. Williams, Trefforest. Am ddeg, boreu dydd Mercher, dechreuwyd gan Williams, Llysfaen; yna gosodwyd yr holiadau perthynol i'r achos, i'r hyn y derbyniwyd atebion, gydag adroddiad o gynnwysiad cyffes ei ffydd, i foddlonrwydd gan y gweinidog ieuangc; yna neillduwyd ef i'w swydd bwysig trwy weddi, gydag arddodiad dwylaw y gweinidogion. gan J. Jenkins, hen weinidog yr eglwys; yna pregethodd y brawd S. Williams, Nantyglo, ar ddyledswyddau y gweinidog, a'r brawd T. Price, Aberdar, ddyledswyddau yr eglwys; a J. Jones, Seion, Merthyr. Am ddau, gweddiodd J. D. Williams; pregethodd y brodyr O. Williams, Trefforest, a J. Jones, Merthyr. Am chwech, dechreuwyd gan y brawd L. Lewis, pregethodd y brodyr Williams, Llysfaen, a Jones, Caersalem Newydd, a S. Williams. Y mae dewisiad y brawd Daniel Rees i'r weinidogaeth wedi cymeryd lle yn hyfryd o unfrydol ac heddychlawn gyda yr holl eglwys yn Hengoed a'r hen weinidog. Nid ydys heb arwyddion yn barod fod yr Arglwydd yn llwyddo ei lafur yn y lle. Parhaed felly yw ein gweddi.

Arall.—Cynnaliwyd cyfarfod Mawrth a Mercher, yr 28ain a'r 29ain o Ionawr, yn Blaenconyn, swydd Benfro, er neillduo y brawd O. Griffiths, diweddar fyfyriwr yn Athrofa Hwlffordd, i gyflawn waith y weinidogaeth yn y lle uchod. Nos Fawrth, gweddiodd y brawd B. Lewis, myfyriwr; pregethodd y brodyr D. W. Morris, Beulah; a J. D. Thomas, Blaenyffos. Dydd Mercher, dechreuwyd drwy ddarllen a gweddio gan y brawd H. Price, Carmel; a phregethodd T. G. Jones, athraw ieithyddol athrofa Hwlffordd, ar natur eglwys Crist. Dywedwyd fod yr eglwys yn rhoddi galwad unfrydol i'r brawd O. Griffiths; yna cyfododd y brawd i arwyddo ei gydsyniad â'u cais, ac arwyddodd hefyd ei fod yn benderfynol i wneud ei oreu yn ngwinllan ei Arglwydd. Wedi hyny gweddiodd y Parch. J. Edwards, Glanyrhyd, ar i Dduw fendithio yr undeb; pregethodd y Parch. H. Davies, Llangloffan, ar ddyledswyddau y gweinidog; a T. E. Thomas, Trehale, ar ddyledswyddau yr eglwys, a therfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y brawd T. Thomas, Bwlchgwynt. Am chwech, darllenodd a gweddiodd T. D. Mathias, Narberth, pregethodd E. Davies, Pater, a T. G. Jones, Hwlffordd. Cafwyd arwyddion yn y cyfarfod o foddlonrwydd y nef ar yr undeb.

Aberystwyth.—Y mae yn y dref hon, hen wr o'r enw John Penny, yr hwn a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw Jack Peggy, wedi dyfod o fod yn berffaith dlawd, yn wr boneddig ar unwaith—drwy i'r swm o ddeng mil o bunau ddyfod iddo yn annysgwyliadwy ar farwolaeth cefnder, yr hwn ydoedd feddyg yn yr India; bu farw yn ol yr hanes a gafwyd yn mis Ebrill, 1849. Teilwng yw hysbysu mai drwy offerynoliaeth Pryse Loveden, Ysw., A. S., Gogerddan; y daeth yr hen wr o hyd i'r arian. Gall ganu hen ewyllys Adda yn burion, a dywedyd—

"Mae llawer fel finnau ac ychydig yn dechreu,
Yn dyfod o'r goreu, cyn diwedd eu hoes."

Y mae efe yn ddeg a thri-ugain oed—gweithiodd yn galed ar hyd ei fywyd tuag at gadw deg o blant, ni ofynodd erioed am gymhorth plwyfol, ac mae John Penny yn enwog mewn diwydrwydd.

"Y PRINCIPALITY."—O herwydd camdriniaeth a difaterwch y mae y newyddiadur tra dyddorawl hwn wedi marw, ac o ganlyniad y mae yr Ymneillduwyr yn Nghymru yn bresennol heb un papyr Seisnig neillduol at eu gwasanaeth, nac yn wir yr un o gwbl sydd yn teilyngu eu cefnogaeth. Gweir y diffyg i fynu i raddau gan y "Bristol Examiner and South Wales Advertiser," yr hwn sydd bapyr da ragorol, ac yn ddiysgog o blaid yr egwyddorion Ymneillduol.

PENTYRCH.—Cynnaliwyd Cyfarfod Misol Bro Morganwg yn y lle hwn Ionawr 8 a'r 9. Gweinyddwyd gan y brodyr Edwards, Llancarfan; E. Morse, Cortwn; H. Jenkins, Paran; Thomas, Llancarfan; Evans, Bontfaen; a dechreuwyd y cyfarfodydd gan eraill.

RUMNI.—Cynnaliwyd cyfarfod blynyddol Jerusalem, Sul a Llun, Tach. 3 a'r 4. Dygwyd y gwaith yn mlaen gan y brodyr Evans, Nebo; D. R. Jones, Penuel; D. Jones, Caerdydd; J. Roberts, Merthyr; a B. Price. Y mae y ddyled wedi ei lleihau £230 yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf, ac nid oes yn bresennol ond yn unig arian Mr. Williams, Sirhowi, sef £800. yn aros.

CWMIFOR.—Cynnaliwyd cyfarfod gweinidogion, yn Cwmifor, ger Llandilo, Rhagfyr 17 a'r 18. Gweinyddwyd gan Thomas, Caerfyrddin; Williams, Aberduar; Morris, Pontbrenaraeth; Spencer, Llanelli, a James, Soar.

TWYNYRODYN, MORGANWG.—Ionawr 1, bu cyfarfod yn y lle hwn, i'r dyben o sefydlu y Parch. Robert Owen yn weinidog i'r eglwys yno. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan D. Jones, a W. Jones, Caerdydd; Thomas, Bassaleg; Jones, Seion; Lloyd, Ebenezer, Merthyr; Rees Rees, Abertawe; B. E. Thomas, Llancarfan.

URDDIAD.—Yn nghapel Jezreel, Coginan, ger Aberystwyth, Ion. 7, 8, cynnaliwyd cyfarfod i urddo David Jenkins i gyflawn waith y weinidogaeth. Cafodd y brawd yma ei ddwyn i fynu yn eglwys Bethel, Silian, sir Aberteifi, a bu dair blynedd yn athrofa Hwlffordd. Pregethwyd gan R. Roberts, Swyddffynon, ar natur eglwys; J. Williams, Aberduar, ar ddyledswydd y gweinidog, ac E. Williams, Aberystwyth, ar ddyledswydd yr eglwys. Cymerodd gweinidogion eraill ran yn y cyfarfodydd.

ARALL.—Ar y dyddiau Mercher a Iau, y 17eg a'r 18fed o Rhagfyr, cynnaliwyd cyfarfod yn Mbontardawy, ar yr achlysur o neillduo y brawd Charles Williams, o'r Graigarw, i fod yn weinidog ar eglwys fechan y Bedyddwyr yn y lle hwn. Gweinyddwyd gan y brodyr Evans, Llangynidr; Watkins, Treforris; James, Llwynhendy; Davies, Clydach; Jones, Caersalem Newydd; Pugh, Yscetty; Reynolds, Cydweli; Davies, Abertawy; Davies, Cwmaman; Jones, Castellnedd; Evans, Llangynidr; Evans, Hirwaun.

EBENEZER, MERTHYR.—Bu cylchwyl yma Rhagfyr 24, 25. Pregethwyd gan Edwards, Rymni; Ellis, Sirhowi; Evans, Hirwaun; a T. Davies, High Street. Yn yr hwyr, Price, Aberdar, ac Evans, Dowlais.

CAPEL LLANELWY.—Mae y capel uchod wedi ei brynu yn feddiant i'r Bedyddwyr, ac aeth y draul i'w brynu a'i adgyweirio yn £120; cafwyd £40 yn yr ardal; ac mae Robert Morris ar ei daith yn casglu er talu y gweddill.

LERPWL.—Dydd Nadolig diweddaf cynhaliwyd gwyl de gan y Bedyddwyr Cymreig a gyfarfyddant yn Stanhope street, yn addoldy y brodyr Seisnig yn Myrtle-street, pryd y dechreuodd y Parch. H. W. Hughes, gynt o'r Llwyni, ar ei weinidogaeth yn eu plith; tra yr oedd yn agos i wyth cant o gyfeillion yr achos goreu yn cydgyfranogi ag ef yn y wledd. Galwyd y brawd P. Lloyd, Birkenhead, i'r gadair; anerchodd Mr. Hughes, y gweinidog, y gynnulleidfa yn Seisnig; ac yna areithiodd P. Thomas, un o'r cenhadon trefol, yn y ddwy iaith, yn sobr a difrifol iawn. Ar ei ol ef galwyd D. Roberts, (Dewi Hiraethog), i anerch y cyfarfod, yr hyn a wnaeth nes oedd llawenydd a chynhwrf trwy yr holl dorf. Gwnaeth y cantorion hefyd eu rhan yn ragorol. Yr oedd yr elw oddiwrth y te dros 20p. Casglodd plant yr ysgol dros £31. Y mae hyn yn teilyngu y clod mwyaf. Hefyd, casglwyd 5p. 8s. gan un o'r gwrandawyr; a phum' punt gan un o'r aelodau. Yr oedd coffr wedi ei ddarparu, a chafwyd dros ddeg punt yn hwnw. Felly, tynwyd dros 80 punt o'r hen ddyled i lawr, a hyny heb ond ychydig iawn o swn a thwrw. Y mae yma ysbryd myned yn mlaen, a gweithio wedi ei blanu yn meddyliau y bobl.

GELLIGROES.—Cynnaliodd Cymreigyddion Gelligroes eu pedwerydd eisteddfod yn nhŷ Mr. Aneurin Jones, yn ystafell yr Iforniaid. Cymerwyd y gadair gan y Llywydd penodedig, D. H. Evans, Ysw., (Daniel Ddu,) a chynorthwywyd ef gan y Parchedigion Rob't Ellis, Syrowi, a Wm. Williams, Llysfaen. Islywydd, Dewi Idloes, Gelligaer. Agorwyd y cyfarfod gan y Llywydd mewn araeth dra chynnwysfawr ac athrylithgar, ar Ddefnyddioldeb yr Eisteddfodau, a'u dylanwad i wrteithio y meddwl. Yna chwareuodd Mr. Ll. Williams, Caerffili, y don, "Bardd yn ei Awen," nes swynaw yr holl wrandawyr. Anerchwyd y cyfarfod mewn englynion ac areithiau gan W. Williams, R. Ellis, Dewi Idloes, Israel Jacob, (I. Ddu Glan Syrowy,) Thomas Jones, (Eos Gwent,) Aneurin Jones, &c. Yna darllenodd y Llywydd feirniadaeth yr hyglod Tegid ar y cyfansoddiadau, yr hwn a ddyfarnai y gwobrau fel y canlyn:

1. Traethawd ar Ansawdd a gwerth y pedwar mesur ar hugain—2p. Un traethawd, a hwnw yn orchestol a theilwng, gan "Un o hil Gweithfoed o Bowys," sef y Parch. R. Ellis, Syrhowi.

2. Traethawd ar Wrthuni Rhyfel i benderfynu dadleuon gwladol—1p. Chwech traethawd. Ni roddwyd digon o amser i Tegid i farnu yr holl gyfansoddiadau, o'r herwydd ni feirniadodd y rhai hyn. Beirniedir hwynt gan y Parch. J. Rowe, Risca, ac anfonir y wobr i'r awdwr buddugol.

3. Pryddest ddiodl ar "Farwolaeth Crist," —1p. 10s. Naw pryddest, y goraf oedd Ffagan, sef Mr. D. Davies (Dewi Idloes.)

4. Cân ar yr achlysur o farwolaeth Mr. Hephni James, (Woodfields), yn Nghaercystenyn—1p. Pedair cân, y goraf oedd Pathos, sef Mr. I. Jacob, (I. Ddu Glan Syrowy).

5. Wyth englyn i'r "Lluchias-ebyr Isforol" —1p. Pump o ymgeiswyr, y wobr i'w rhanu rhwng "Gutta Percha," sef Mr. John Emlyn Jones, (Ioan Emlyn), swyddfa y Bedyddiwr, Caerdydd, ac "Un a fydd yn foddlon:" nid oedd hwn yn wyddfodol, na'i enw priodol dan sêl.

6. Cân ddigrif ar Ymweliad Haynau â Darllawdy Barclay a Perkins"—10s. Pump cân, oll yn annheilwng o'r wobr. Gadawyd y testyn hwn yn agored erbyn yr eisteddfod nesaf.

7. "Tawddgyrch Cadwynog i'r Goleudy" —10s. Tri-ar-ddeg o ymgeiswyr; y goreu oedd "Lloer," sef Mr. T. Davies, Dinas Powis (Dewi Wyn o Essyllt).

Rhwng y gwahanol destynau chwareuwyd tonau Cymreig, megys "Pen Rhaw," "Serch Hudol," "Y Bêr Oslef," &c., yn dra effeithiol gan y telynor medrus; a datganwyd gan John Roberts, Merthyr, yr hwn a enillodd y wobr waith datganu yn ol trefn Gwent a Morganwg. Datganodd Mr. John Jones gân ar y Wawr, er hyfrydwch dirfawr i'r presenolion. Treuliwyd y cyfarfod yn y modd mwyaf dyddoral; ac wedi talu diolch i'r cadeirydd am ei lywyddiaeth fedrus a boneddigaidd, ac i'r Beirniad (er nad oedd yn wyddfodol) am ei feirniadaeth gywirfarn, ymadawodd pawb yn brydlon, gan dystio eu llwyr foddlonrwydd i weithrediadau y dydd.

Cynnrychioliad Morganwg.—Fel y tybiwyd, y mae Iarll Dunraven, yr hwn a elwid gynt yn Is-Iarll Adare, wedi rhoddi ei eisteddle seneddol i fynu i ddwylaw yr etholwyr. Mae wedi cyhoeddi anerchiad ar yr achlysur, yn mha un y cyfeiria at y llafur mawr yn nghlyn â'i swydd, fel yr achos paham y dymuna esgusodi ei hun rhagllaw, rhag bod yn aelod seneddol dros swydd Forganwg. Y mae son am lawer fel rhai tybiol o fod yn ymgeiswyr, ac y mae Syr George Tyler allan er canol Ionawr. Tory yw Syr George, ac ni byddai llawer i'w ddysgwyl i'r Ymneilldnwyr oddiwrtho ef. Enwir Howell Gwyn, Ysw., hefyd, yr hwn sydd yn awr yn aelod seneddol dros Falmouth, ac y mae son am gynnyg Henry Thomas, Ysw., Preswylfa, yr hwn sydd wedi bod yn Is-gadeirydd Llysoedd Chwarterol y sir am amser.

Sefydliad Gweinidog.—Rhagfyr 24, 25, bu cyfarfod yn Beulah, swydd Benfro, er sefydlu y Parch. D. W. Morris, yn fugail ar yr eglwys grybwylledig. Nos Fawrth, y 24ain, pregethodd y Parch. H. Davies, Llangloffan, a D. George, Jabez. Y dydd canlynol gweinyddwyd gan wahanol frodyr.

## MARWOLAETHAU.

Ionawr 4, yn 59 oed, y Parch. Jenkin Thomas, gynt o Sandford-lodge, Cheltenham.

Rhagfyr 2, yn 63 oed, y brawd John Jones, Nentlwyrog. Teimlir colled ddwys yn Bethania ar ei ol.

Rhag. 26, yn 84 oed, John Richard, College. Aelod hardd yn eglwys y Bedyddwyr, Porthydwfr, Aberhonddu, am ddeg-ar-hugain o flynyddau, ac yn ddiacon am yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes. Yr oedd yn nodedig am ei larieidd-dra.

Nos Sadwrn, Rhagfyr 14, yn Gellifelen, ger Bwlchgwynt, swydd Gaerfyrddin, yr hen frawd duwiol a defnyddiol Daniel Davies, yn 82 mlwydd oed. Brawd oedd i'r diweddar Barch. B. Davies Ffynonwell-na-buwch. Yr oedd yn aelod ffyddlon, yn ddiacon gonest, ac yn ddyn llettygar a charedig.

Rhagfyr 27, yn Tralee, Iwerddon, y Cad. David Williams, Parcybig, Trefdraeth, yn ei 67 oed, a chladdwyd ef yn y lle. Yr oedd oedd yn ddyn diwyd, ac yn grefyddwr manwl er yn ieuangc.

Rhag. 12, Ann Thomas, yn 77 ml. oed, wedi bod yn aelod rheolaidd gyda y Bedyddwyr yn Nhonyfelin, Caerffili, am bedair-blynedd-ar-hugain.

Yn Llanelli, Rhag. 23, ar ol tua dau fis o gystudd, Ann, hoffus wraig David Clement, a merch henaf y diweddar John Hugh, Llandafen, ger y lle uchod. Treuliodd 16 mlynedd o'i bywyd yn eglwys Crist.

Chwefror 4, yn 27 oed, Richard Williams, ail fab Thomas Williams, Gwesty yr Albion, Bute-street, Caerdydd.

Chwef. 4, yn Aberaman, (yn nhŷ ei mab, J. R. Maurice,) Mrs. Maurice, yn 60 oed.

Chwef. 2, yn 36 oed, Mr. Hugh Owen, Clwt Plas, Penmynydd, Mon.

Chwef. 7, yn 85 oed, Mr. Hugh Jones, meistr y *Flat Temple* a hwyliai rhwng Caerlleon a Bangor.

Chwefror 9, yn 25 oed, gweddw y diweddar Mr. John Jones, ieu., meistr morwrol, Pont Menai, a merch henaf John Rowland, Cadnant, Pont Menai.

Chwef. 10, yn 6 oed, Thomas, mab John Williams, Clarence Grove, Everton, Llynlleifiad.

Chwef. 12, yn 45 oed, Miss Jane Smith, a fu am lawer o flynyddau yn geidwad tŷ Mr. Chas. Buchanan, Ty'n-y-pistyll, ger Corwen.

Ionawr y 31ain, 1851. yn 33ain oed, Mrs. Anna Davies, priod Daniel Davies, glowr, Abercarn.

Ion. 22, 1851. o'r darfodedigaeth, yn 34ain oed, William James, mab i John ac Elizabeth James, o'r Vrondrydd, plwyf Llanfair-nant-y-gof, swydd Benfro. Pregethai yn fynych yn yr eglwysi cymmydogaethol; a pherchid ef yn fawr gan bawb o'i gydnabod. Teimlir colled ar ei ol.

Ionawr 17, 1851, Taliesin, mab Aneurin ac Ann Jones, o westdy Gelligroes, yn 5 ml. a 6 mis oed.

Chwefror 8, yn 72 oed, Mrs. Roberts, priod Peter Roberts, Ysw., yn diweddar o'r Wyddgrug, sir Fflint.

Yn diweddar, yn Abercarn, yn 62 oed, Mr. James Francis.

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library

Y

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] MAI, 1851. [RHIF. 83.

CYNNWYSIAD.

Hanes y Berthlwyd, . . . . . 101
Rhesymau y Parch. Robert Hall ar Gymundeb Eglwysig yn cael eu hysgrifio, . 102
Yr Archollion a'r feddyginiaeth, . . . 105
Cwyn y Cyfaill, . . . . . . . 106
Dyledswyddau Esgobion, . . . . 107
Y Deuddeg Apostol, . . . . . 109
Holiadau ac Atebion ar Fedydd, . . 111
Pryddest-awdl ar Longddrylliad Dynollaeth, 112
Anwybodaeth, . . . . . . 113
Cyfarfodydd yn achos Cofgolofn Washington yn—Pottsville, . . . . . . 114
Minersville, . . . . . . 114
Scrantonia, . . . . . . 115
Cofiant John Rowe, Bellmont, . . . 115
Cyfarfod Trimisol Utica, . . . . 116
Rheilffordd Panama, . . . . . 116
Y Fibl Gymdeithas, . . . . . 116
Cymdeithas Haelionus Dewi Sant yn Nghaerefrog-Newydd, . . . . . . 117
Addoldy y Bedyddwyr Cymreig yn yr un lle, 117
Lladrad yn yr un lle, . . . . 117
Bedydd yn yr un lle, . . . . . 117
Poblogaeth y r Unol Dalaethau, . . . 118
Adfywiadau Crefyddol yn Carbondale, . 118
" " Dunmore, . 118
" " Scrantonia, . 118
" " Pittston, . . 119
Malldod y Cloron, . . . . . . 119
*Genedigaethau,* . . . . . 119
*Priodasau,* . . . . . . . . 119
*Marwolaethau,* . . . . . . . 119
" Marwolaeth y Parch. Mathias Phillips, 120
[illegible]—[illegible] atebiad Llewelyn i ofyniad R. Woolley, . . . . . 120

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. . . 120
India, . . . . . . . . . 120
Ffrainc, . . . . . . . . 120
Yspaen, . . . . . . . . 121
Naples, . . . . . . . . 121
Prwsia, . . . . . . . . 121
Sweden, . . . . . . . . . 121
Twrci, . . . . . . . . . 121
Penrhyn Gobaith Da, . . . . . 121
*Tywysogaeth Cymru.*—Y Parch. L. Powell, Caerdydd, . . . . 121
" " Felinfoel, . . . 122
" " Risca, . . . . 122
" " Gelligaer, . . . 122
" " Sir Gaerfyrddin, . 122
" " Bryntroedgam, . 122
" " Yr Hen Gymanfa, . 122
" " Blaenyffos, . . . 122
" " B. Price (Cymro Bach), 122
" " Amgylchiad hynod, 123
" " Eisteddfod Caerdydd, 123
" " Eisteddfodau dyfodol, 123
" " Siomiant Mormoniaeth, 123
" " Prif Ysgol Gymreig, 123
" " Morganwg, . . 123
" " *Priodasau,* . . 123
" " *Marwolaethau,* . 123
PRYDYDDIAETH—Hiraeth y Bardd am ei wlad, a'r Pennillion ar yr un, . . . . 124

POTTSVILLE:
Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Politics a Chrefydd, gan Alfred Harris, Marcy; Yr Iechawdwriaeth, gan W. Roberts, Talmadge, O.; Hanesion, gan y Parch. W. Jones, Remsen, hefyd, oddiwrth J. Griffiths, (rhy ddiweddar); Anerchiad at Ann Hughes, Caerefrog Newydd, oddiwrth R. W., Liverpool; Peroriaeth, Coalport, gan John J. Williams, Penillion i'w cyfieithu, gan John Morris, Yellow Spring; Englynion i Fwnwyr swydd Schuylkill, gan Sam ab Dewi, Minersville; Corffoliad Eglwys yn Pittston Ferry, gan y Parch. E. Edwards, (rhy ddiweddar), &c. &c.

☞Derbyniasom y taliadau canlynol—Wm. S. Davies, Pottsville, $1; D. Edmunds, Tamaqua, $2 75; D. Jenkins, St. Clair, 50 cts.; Parch. D. E. Thomas (o gyfrif Thos. B. James,) Ebensburg, $5; Parch. Rees Davies, Acnor, O.. $2; Abm. Davies, St. Clair, $2 50; N. Davies, Allentown, 1 50.

☞Hyderwn y bydd i amryw o'n goruchwylwyr a n derbynwyr gofio am danom, ac anfon eu taliadau i mewn yn ystod y mis presennol. Bydd hyn yn gymwynas i ni.

☞Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

---

☞Yr ydym yn anfon ryw nifer o Gyfarchiad Dr. Berg gyda y sypynau am y mis hwn i wahanol fanau. Hyderwn y gwna ein cyfeillion eu goreu i'w gwerthu a'u gwasgaru. Eu pris yw 6¼cts. Er annogaeth i'r Ysgolion ac eraill eu prynu rhoddir 20 am ddolar.

---

BYWYD JOSEPH.—Mae yr hanes ddifyrus hon, fel y mae wedi ymddangos o fis i fis yn y Seren, wedi ei gwneud i fyny genym yn llyfr bychan, 192 o dudalenau, wedi ei rwymo yn dda, am 31 cents yr un, neu bedwar am ddolar i'r Ysgolion Sabbothol. Gellir eu cael gan argraffydd y Seren, neu y Parch. E. B. Evans, Pittston Ferry, Pa. Gellir cael rhai o honynt wedi eu rhwymo yn hardd mewn morocco, am bris ychydig uwch. Mae yn stob yn ragorol i'w roi yn anrheg i blant.

Gyrwn y llyfrau uchod i'r rhai sydd wedi danfon am danynt o leoedd pelleuig mor fuan ag y gallwn gael cyfleusdra. Mae y cludiad yn ormod i'w danfon gyda y *post*.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D.D.—Yr ydys wedi argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithwyd ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwnc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestanaidd, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.

---


# "Y DRYCH."

**Pris $1 y flwyddyn yn mlaen llaw. $1 50 yn niwedd y flwyddyn.**

NEWYDDIADUR CYMREIG, YN CAEL EI GYHOEDDI YN EFROG NEWYDD AM 1851.

Y DRYCH, NEWYDDIADUR WYTHNOSOL CYMREIG, yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o ddarllen mewn Cyhoeddiadau o'r fath. Bydd y NEWYDDION Cartrefol a Thramorol mor gyflawn a dim a gynnwysir yn yr WYTHNOSOLION SEISNIG; yn enwedig bydd y NEWYDDION CYMREIG yn fwy cyflawn a diweddar nac a geir mewn unrhyw gyfrwng arall yr ochr hyn i'r Werydd. Yr ydym wedi pennodi goruchwyliwr cyfrifol yn Llynlleifiad i dderbyn a llwybreiddio, gyda phob agerlong yn ymadael i'r Talaethau Unedig, newyddion a gohebiaethau bwriadol i'r DRYCH.

Yr ydym wedi dyogelu y personau canlynol, fel goruchwylwyr cyffredinol a gohebwyr wythnosol yn Mhrydain:
Mr. THOMAS MANUEL, diweddar Olygydd yr Amserau, yn Llynlleifiad.
Y Parch. JOHN M. THOMAS, Coedduon, swydd Fynwy (diweddar o Efrog Newydd,) dros Ddeheubarth Cymru,
Y Parch. WM T. THOMAS, Llanddaniel, swydd Fon, dros Ogledd Cymru

Heblaw y gwyr uchod, yr ydym wedi cael addewid o ohebiaethau achlysurol oddiwrth amryw o ysgrifenwyr Cymreig ffraethaf a Thyfnaf Prydain ac America.

Cyfarwydder pob archebion a gohebiaethau yn ddidraul, at JOHN M. JONES,
51 Beaver-Street, New-York.


---


# O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES: ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.



---


## YSTORDY GYFFEIRIOL A MEDDYGOL.


*Market Street, above Second, Pottsville.*

Y DR. J T. NICHOLAS a ddymuna hysbysu fod ganddo ef ar werth bob math o Gyffeiriau Meddygol, a phethau eraill a werthir yn gyffredin mewn ystordai o'r fath y cwbl am y prisoedd iselaf, ac a warantir o'r fath oreu ac o'r defnyddiau [illegible].

Pottsville Mawrth 1851.



**O DOBSON Hetwr,**



*Centre-street, Pottsville,*

A ddymuna hysbysu i'r Cymry yn yr ardal ei fod yn parhau i gario ei fasnach yn y blaen yn Centre-st., gerllaw Market Street.

## Ystorfa newydd o Gyffeiriau Breinfedig yn Pottsville.

Y CYFFEIRIAU canlynol ydynt ar werth yn Swyddfa y "Mining Register" a'r "Seren Orllewinol," yn Centre-st., yn agos i Market st. Pottsville. Y cwbl a warantir yn wreiddiol.

| | Pris |
|---|---|
| Dr. Williams' Anti Dyspeptic Bitters, | $0 50 |
| Dr. Hoofland's Bitters, | 1 00 |
| Dr. Cullen's Panacea, | 1 09 |
| " " Remedy, | 1 00 |
| " " Piles Remedy, | 1 00 |
| " " Carminative Balsam, | 50 |
| Magic Lotion, | 50 |
| Balsam Cordial, | 25 |
| Hair Tonic, | 50 |
| Hutching's Bitters, | 50 |

Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] MAI, 1851. [RHIF. 83.

## HANES Y BERTHLWYD.

A ganlyn a gymerwyd o'r "Bedyddiwr," am fis Mawrth diweddaf, wedi ei ysgrifenu mewn cyssylltiad ag hanes Corffoliad Eglwys y Berthlwyd. Bu cyfarfod gweinidogion yno Chwefror y 3ydd a'r 4ydd, pan y cymerwyd gwahanol ranau yn y gwasanaeth gan y brodyr D. Rees, Hengoed; W. Williams, Trefforest; J. Jenkins, Hengoed; T. Price. Aberdar; L. Lewis, Gelligaer; J. D. Williams, Abernantygroes; a B. Evans, Hirwaun. Darllenwyd gollyngdod brawdol a chariadlawn i dri ugain a dau o aelodau, i fod yn eglwys reolaidd i Grist yn y lle uchod. Cafwyd yma gyfarfodydd hyfryd.

Y mae ychydig o amgylchiadau yn teilyngu eu coffhau yn gyssylltiedig â chorffoliad yr eglwys bresennol yn y Berthlwyd. Yr ydys wedi barnu mai mewn hen dŷ fferm, a elwir Berthlwyd (oddiwrth yr hwn y mae y Capel presennol yn cael ei enw) y corffolwyd yr eglwys sydd yn awr yn cyfarfod yn Hengoed, o gylch y flwyddyn 1650. Ond fe gafwyd yr hanes yn fwy cywir o hen lyfr Eglwys Ilston, ger Abertawy; lle y dangosir fod yr eglwys wedi ei chorffoli yn Llanharan, yn y flwyddyn 1649; ac iddi symud ei chyfarfodydd oddi yno i Lantrisant; a chyn hir ar ol hyny, cynnaliai yr eglwys ei phrif gyfarfodydd yn Nghraig-yr-allt a'r Berthlwyd. Fe berthynai i'r eglwys y pryd hwnw, sef yn amser Cromwel, rai dynion mawrion yn y byd, megis *Colonel Prichard, o Lancauach Fawr,* a'r *Cadpen Evans, o'r Dyffryn-ffrwd.* Yr oedd yr eglwys yn cael ei galw Eglwys Craigyrallt, mor ddiweddar a'r flwyddyn 1700; ac y mae mor debygol fod cymun yn cael eu weini yn y Berthlwyd hefyd yn y cyfamser, hyd y flwyddyn 1710, pryd yr adeiladwyd addoldy Hengoed, lle yr ymgynnullai yr holl eglwys i ymarfer a mwynhau yr ordinhadau. Wedi hyny, fe barhawyd i gynnal cyfarfodydd a phregethu yr efengyl yn yr Hen Berthlwyd yn enwedig ar nos Sabbothau, nes adeiliadu'r addoldy presennol, yn yr hwn y mae'r addoliad, boreu a hwyr bob Sabboth, a chymundeb unwaith yn y mis, wedi cael ei gynnal yn barhaus. Fe welir felly fod yr eglwys wedi symud o'r Berthlwyd i Hengoed; ac yn awr, wedi dychwelyd yn gangen o Hengoed, i ymgorffoli eto yn eglwys reolaidd yn y Berthlwyd!

Peth arall a ystyriwyf yn deilwng o'i gofnodi yma, a hyny yn benaf am nad wyf yn gwybod fod yr amgylchiad wedi ei ddiogelu mewn ysgrif nac argraff erioed o'r blaen. Derbynias yr hanesyn canlynol o enau yr henafieithydd enwog, Iolo Morganwg ei hun. Yr oedd ef wedi cael ar ddeall fod rhyw wr duwiol a dysgedig wedi bod yn byw mewn rhyw le tua blaen Cwmnedd, o'r enw Thomas Llewelyn, wedi cael ei godi i fod yn offeiriad eglwysig, y mae yn debyg, ond wedi gwrthod y swydd hono o gydwybod, o gylch y flwyddyn 1600, os nid cyn hyny; a bod y gwr duwiol wedi bod yn pregethu yr efengyl yn llwyddiannus, ac wedi casglu gwahanol gynnulleidfaoedd bychain mewn rhyw fanau yn mlaenau y cymydd, o flaen Glyntawy, i Ferthyr Tydfil; ac yn mhlith manau eraill, iddo gasglu cynnulleidfa fechan yn y tŷ fferm a elwir Blaen Canaid, yn mhlwyf Merthyr. Ac mae genym brawf fod cynnulleidfa yn cyfarfod yn Mhlaen Canaid, yn ddirgelaidd, yn amser yr erledigaeth, dan Siarl yr II. Dywedodd yr hanesydd enwog wrthyf, fod y gynnulleidfa yn parhau i gyfarfod i addoli yn Mhlaen Canaid, hyd ar ol yr erledigaeth; er ei fod yn debyg fod Thomas Llewelyn wedi marw yn hir cyn hyny. Yr oedd fy hanesydd wedi cael ar ddeall fod aelodau Blaen Canaid yn gymysgedig o Fedyddwyr neu Drochwyr, gwrth-fedyddwyr, (sef rhai na thybient yn angenrheidiol i weini bedydd i neb, fel y Crynwyr,) a bedyddwyr neu daenellwyr babanod; ac yr oeddent yn dal eu hundeb hyd ar ol tymhor trallodus yr erledigaeth. Cyn hir wedi hyny, pan yr aethant i adeiladu tŷ cwrdd Cwmyglo, (yr hwn y mae ei adfeilion yn weledig yn bresennol), fe ymranodd y pleidiau. Bedyddwyr babanod a arosasant yn Cwmyglo; ac ymunodd Bedyddwyr y crediniol â'u brodyr yn y Berthlwyd a Llanfabon. Aeth yr ychydig wrth-fedyddwyr i gyfarfod yn Cefn-y-fforest, tŷ un Lydia Fell—hi oedd perchenog Cefn-y-fforest ac amryw dyddynod eraill yn yr ardal yr amser hwnw. Mrs. Fell a adeiladodd Fynwent y Crynwyr,

gyda bwriad i adeiladu yno addoldy: ond cyn cyflawni y bwriad hwnw, fe ddaeth y Crynwyr i godi achos yn Trefarig; felly hi a ymunodd â'r Crynwyr yno, ac a roddodd y fynwent a'r tir perthynol iddynt hwy; yn y fynwent hon y claddwyd Mrs. Lydia Fell, o gylch y flwyddyn 1663, neu 1665. Nid wyf yn sicr pa un o'r ddwy flwyddyn; ond yr yd wyf yn lled benderfynol mai yn un o'r ddwy, drwy gofio i mi weled ei chareg fedd, er ys llawer o flynyddoedd, yr hon sydd yn awr wedi ei dryllio. J. JENKINS.

*Maesycwmwr.*

## RHESYMAU Y PARCH. ROBERT HALL AR GYMUNDEB EGLWYSIG YN CAEL EU HYSTYRIED.

GAN T. F. CURTIS, A. M.

### LLYTHYR I.

1. Fod y defnydd a wna o'r gair Cymundeb yn dywyll ac amheus. 2. Nad yw ei gymwysiad at swper yr Arglwydd yn profi dim. 3. Ei olygiad ar arwyddocâd swper yr Arglwydd yn cael ei ystyried. 4. Ei eglurhad o wrthodiad babanod i gyfranogi o'r swper. 5. Gwledd arwyddocaol. 6. Y teimlad annymunol a effeithia ymneillduad oddiwrth eraill yn nghyfranogiad o swper yr Arglwydd.

1. Y mae sylw cyntaf ein hawdwr yn cael ei enwi, "Rhydd-gymundeb yn cael ei annog oddiar rhwymedigaeth cariad brawdol." Nid yn unig y mae tywyllwch yn yr enwad hyn, ond y mae i'w ganfod yn rhedeg trwy ei sylw yn gwbl dan y pen hwn, yn y gwahanol feddyliau yn mha rai y defnyddia y gair cymundeb. Y mae Mr. Hall weithiau yn defnyddio y gair fel o feddwl cyfystyr i gymdeithas Gristionogaidd; bryd arall i gymdeithas eglwysig; a phryd arall y mae yn ei arferyd am swper yr Arglwydd, fel arwydd o gymdeithasfa eglwysig. Dichon fod ein hawdwr wedi meddwl fod y gwahanol feddyliau uchod yn briodol; ond a gadael eu bod felly, eto nid oedd ganddo hawl i'w ddefnyddio mewn dull caniataol er ymresymu am y pwngc mewn dadl.

Yn ol y meddwl cyntaf yr ydym yn cwbl gydweled ag ef, er fod yn ddyledswydd arnom i achlesu teimladau gwresog o undeb Cristionogol tuagat bawb ag yr ydym yn eu hystyried yn Gristionogion, yn Babyddion ac yn Brotestaniaid—yn Fedyddwyr ac yn Daenellwyr babanod. Mor belled â hyn y mae y geiriau a goffhawyd ganddo o garu ein gilydd yn ei ddwyn ef allan o ran cywirdeb meddwl, a dim yn mhellach. Ond os wrth gymundeb y golyga efe gymdeithas eglwysig (gwel Rhan 1, pen. 4.) yr hyn a an nogir ganddo i fod yn yr ymarferiad o hono oddiar yr ystyriaeth o rwymedigaeth cariad brawdol, yn ein perthynas â phawb a fyddo genym barch iddynt fel Cristionogion, yna byddai yn rhaid i bob teimlad teuluaidd o aelodiaeth eglwysig i gael ei dori i lawr, oblegyd os ydyw anogaeth gyffredinol i gariad brawdol yn brawf o hyn, yna gallwn gymeryd yn ganiataol fod tyleran gweledig aelodiaeth mewn eglwys neillduol yn cyfateboli i aelodiaeth yn yr eglwys anweledig a chyffredinol, yr hyn y mae Mr. Hall yn ei gymeryd yn ganiataol trwy ei holl waith. Dyma y prif bwynt ag sydd mewn dadl. Y mae gwahaniaeth rhwng yr undeb a fodola rhwng y Cristionogion â'u gilydd yn Nghrist, a'r undeb a fodola rhwng y Cristionogion â'u gilydd, fel aelodau eglwysig. Y mae y cyntaf yn anweledig, y mae yr ail yn weledig. Y mae yr eglwys anweledig a chyffredinol yn ysbrydol; nid oes ynddi ordinhadau, nac angenrheidrwydd am danynt, na moddion gras mewn ystyr dymhorol, na rheolau i gydymffurfio â hwynt. Y mae ei deiliaid yn cymdeithasu mewn ystyr ysbrydol â Phen yr eglwys, ac yn mwynhau gras y moddion. Ond am yr eglwys weledig, y mae iddi ei hordinhadau a'i rheolau, pa rai sydd yn dymhorol o ran eu natur, i ni ymwneud â hwy, ac i drefnu ein hymddygiadau mewn cydymffurfiad â hwynt yn ol eu natur. Gwel Sylwadau Curtis, Rhan 1, pen. 4.

2. Yn y rhan ddiweddaf dan y pen hwn, y mae yn ymddangos nad yw ein hawdwr yn golygu wrth gymundeb ddim mwy na llai na swper yr Arglwydd. Y mae yn casglu ac yn sefydlu ei ymresymiadau: ac i'r dyben o osod y pwngc allan yn y modd mwyaf goleu, y mae yn angenrheidiol i ni gyfeirio at yr hyn a awgrymasom o'r blaen, am ddau feddwl arwyddocaol y gair *cymun*, sef ei fod yn arwyddo gwledd ac aberth, yn mha un yr ydym yn gyfranogion trwy ffydd o gorff a gwaed ein Gwaredwr, yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a offrymodd ei hun ar y groes. Pan y byddom yn ei ystyried ar y golygiad hwn, y mae yn ddefod ammodol, yn mha un yr ydym yn derbyn ernes o gymod, pan yn arddel yr Arglwydd fel ein Duw, ac yn amgylchu y bwrdd fel rhan o'i deulu. Yn ei ail olygiad y mae yn meddwl cydnabyddiaeth y Cristionogion o'r naill y llall fel aelodau o Grist, ac felly, yn ol iaith yr apostol Paul, yn un corff. Yn awr, a ydym yn cydnabod taenellwyr babanod yn Gristionogion, neu nad ydym? Os nad ydym, gadewch i ni lefaru mewn modd distreg a goleu, a chyfiawnhau

ein hanghydnabyddiaeth o honynt fel y cyfryw ar unwaith, ar sylfaen eang a chydweddol. Ond os bydd i ni ei cydnabod yn Gristionogion, a chydnabod ein bod yn achlesu meddwl mor dyner, ac mor rhydd a haelfrydig, paham y bydd i ni ymwrthod i gyduno â hwy, mor belled ag y mae cyfeillgarwch yn myned, mewn sefydliad ag sydd heb unrhyw ddyben arall mewn golwg ynddo ond dangos yr undeb brawdol ag yr ydym yn ei deimlo tuagat ein gilydd.

Pan y mae unrhyw weithred arwyddocaol yn cymeryd i mewn iddi gyfeiriad at ddau neu ragor o wahanol berthynasau, fel ag yr ydym wedi gweled mewn rhan flaenorol, y mae yn rhaid i'r holl berthynasau fodoli fel yr arwyddwyd. Er prawf, y mae yn wir fod swper yr Arglwydd yn gyntaf o gwbl yn arwydd o ein cyfranogiad o'r lleshad a ddeillia trwy farwolaeth Crist; ond ni bydd i hyn, ar dir ein hawdwr, gyfiawnhau y Cristion yn nghyfranogiad o swper yr Arglwydd, gyda y rhai nad ydynt ar un ystyriaeth yn proffesu eu ffydd yn Nghrist; o herwydd, yn ol ei olygiad ef, nid yn unig y mae ein cyfranogiad o swper yr Arglwydd yn arwydd o ein hundeb â Christ, ond hefyd ein cydnabyddiaeth o'r naill y llall, fel aelodau o Grist. Y mae sylw ein hawdwr yn addefiad o hyn.

3. Ar ei ail feddwl o arwyddocad swper yr Arglwydd yr ydym am wneud rhai sylwadau, oblegyd mewn gwirionedd y mae yr holl ddadl yn troi ar hyn. Os ydyw mewn gwirionedd rhwng y personau ag sydd yn cyfranogi o hono, yn arwydd o'u cydnabyddiaeth o'r naill y llall, fel aelodau o Grist, a dim yn rhagor, os nad yw ei arwyddocad yn dwyn perthynas â dim arall ond arwyddo y teimlad brawdol y maent yn ei achlesu at eu gilydd, yr hwn sydd yn bodoli rhwng yr holl Gristionogion; y mae yn ddiamheuol ar y golygiad hwn y dylai pawb ag sydd yn cydnabod eu hunain yn aelodau i gyduno â'u gilydd yn eu cyfranogiad o swper yr Arglwydd.

Er yr holl uchelgais hwn o eiddo yr awdwr ar y pwngc mewn dadl, yr ydym yn honi fod dyben arall mewn golwg yn swper yr Arglwydd. Mae yn arwyddo y teimlad brawdol ag sydd yn cael ei achlesu tuagat eu gilydd fel aelodau o Grist. Yr ydym yn barod wedi dangos fod swper yr Arglwydd nid yn unig yn arwydd o'u cydnabyddiaeth o'r naill y llall, fel cydaelodau o Grist, ond fel rhai ag y mae perthynas eglwysig yn bodoli rhyngddynt. Y mae y rhesymau a ddygir ger ein bron gyda y fath ddull buddugol, wedi eu sefydlu ar gamdyb hollol, fel yr ydym yn credu yn hollol, o rai o'r pethau a ddangosir yn berthynasol yn swper yr Arglwydd. "Yr ydym yn addef fod taenellwyr babanod yn Gristionogion, ai nid ydym?" medd ein hawdwr. "Os nad ydym, gadewch i ni lefaru yn eglur a diatreg." Nid ydym yn gweled paham y dylem lefaru yn eglur a diatreg ar y pwngc hwn. neu pa beth sydd gan hyn i wneud â'r pwngc mewn dadl. Nid yw taenellwyr babanod yn cydnabod unrhyw undeb eglwysig rhyngddynt â ni, ac nid ydym ninau â hwythau. Ac yn wir, gall un feddwl, os yw y berthynas hon yn bodoli, ei bod yn llesiol, ac y dylem fod yn gyd-gyfranog; a chan nad ydym yn dewis peidio a llefaru yn oleu a diatreg, ni a addefwn yn rhwydd ein bod yn cydnabod llawer o honynt, o'r hyn lleiaf, efallai, yn well Cristionogion na ni ein hunain. "Os felly, paham yr ydych yn gwrthod cydgyfranogi â hwynt o swper yr Arglwydd?" Yn unig am ein bod yn credu fod ein unoliaeth â hwynt yn ein cyfranogiad o swper yr Arglwydd yn arwyddo mwy nag ein bod yn eu hystyried hwynt yn Gristionogion. Arwydda eu bod hwy yn foddlon i uno â ni yn ein perthynas eglwysig, a ninau â hwythau, yr hyn nid yw yn wirionedd o un ochor. Byddai hyn yn ddywedyd yn ngwydd y byd i fod ein golygiadau am athrawiaeth, am eglwys, am drefn, am ddysgyblaeth, am ordinhadau a llywodraeth yr eglwys, a phob peth a berthyna i grefydd mor debyg, fel y gallwn gydfyw yn yr un eglwys. Ar yr egwyddor hon ni charai taenellwyr babanod na ninau weithredu, ac felly ni ddylem ei lefaru. Yr ydym wedi gweled yn flaenorol, pan y byddai gweithred arwyddocaol yn cynnwys cyfeiriad perthynasol at ddau neu ragor o bethau gwahanol, y mae yn rhaid fod y cyfryw bethau mewn bodoliaeth a arwyddir yn y weithred, er cyfiawnhau defnydd yr arwydd.

4. Y mae eglurhad o unrhyw beth yn aml yn cael ei gofio pan y mae ymresymiad yn cael ei anghofio; a chan ein bod am nodi pob peth ag y mae ein hawdwr wedi ei ddwyn o'i ochor ef i'r pwngc, ni gawn chwanegu yr hyn a ganlyn. "Pan y mae plant yr un rhieni, o herwydd y gwahanol olygiadau sydd yn cael eu rhoddi ganddynt ar ryw erthygl yn ewyllys eu tad, yn gwrthod eistedd wrth yr un bwrdd, ac yfed o'r un cwpan, byddai yn wrthun iddynt gymeryd arnynt i ddywedyd fod eu teimladau a'u serch tuagat eu gilydd yn parhau yr un fath; ac felly gyda golwg ar y Cristionogion, y mae yn wrthun iddynt ddywedyd fod eu gwrthodiad i ymuno â'u gilydd yn y cymundeb yn profi eu bod yn caru eu gilydd."

Byddai yr eglurhad am blant yn gwrthod eistedd wrth yr un bwrdd yn gymhwysiadol pe byddai swper yr Arglwydd fel pryd cyffredin, ac nid arwyddiadol. Ond nid hyn yw yr achos o'u gwrthodiad. Y mae yn cael ei ddangos mewn ffaith, oblegyd y mae y blaid sydd yn gwrthod gyda y parodrwydd mwyaf yn cyduno â'u brodyr i gyfranogi o unrhyw bryd arall ag a fyddo yn arwydd o'u parch tuagat eu gilydd fel Cristionogion. Os ydyw swper yr Arglwydd yn arwydd o rhywbeth, arwydd o beth ydyw? Os o gymdeithas Gristionogol, a dim yn rhagor, yna dylai pawb ag sydd yn ystyried eu gilydd yn Gristionogion i gyduno a chydgymuno; a byddai y canlyniad a noda Mr. Hall i gymeryd lle yn ei berthynas â'r rhai a wrthoda. Ond os ydyw swper yr Arglwydd yn arwyddo eu perthynas eglwysig, yna nis gall y rhai nad ydynt yn dwyn perthynas eglwysig yn gydweddol â natur yr hyn a arwyddir gydgyfranogi yn yr arwydd.

5. Y mae yn arferiad yn Ewrop, ac hefyd yn y wlad hon, gan y rhai sydd yn ymwneud ag amgylchiadau gwladwriaethol i wneuthur gwleddoedd politicaidd, pa rai a berthynant yn gyffredin i ryw blaid neillduol, er cynull ac ymuno yr aelodau a berthynant i'r cyfryw blaid â'u gilydd mewn cydweithrediad, er dwyn oddiamgylch yr hyn a fyddo mewn golwg ganddynt. Y mae unoliaeth y cyfryw rai a'u cydgyfranogiad o'r wledd yn arwyddo eu bod o'r un golygiad am y prif beth a fyddo mewn golwg ganddynt, i'r hyn y mae y wledd wedi ei darparu. Ni byddai gwrthodiad eraill i gydgyfranogi â hwy yn cael ei ystyried fel dangosiad o'u bod yn gwrthod cyfarfod â hwy fel boneddigion a chyfeillion, a chydgyfranogi â hwy mewn gwledd ar ryw amgylchiad neu achos arall. Ni byddai yn arwydd hefyd o ddiffyg hyder ynddynt, fel dinasyddion gwirioneddol a ffyddlon, parod i sefyll dros iawnderau eu gwlad,—yn cydnabod eu hunain yn gyd-ddinasyddion, ac yn arwyddo eu hymlyniad wrth yr un cyfansoddiad (*constitution*), ond yn unig eu bod yn methu cydweled â'r blaid yn y mesurau neillduol oedd ganddynt mewn golwg yno. Mae brodyr yn aml yn gwrthod cyfranogi â'u gilydd yn y gwleddoedd arwyddiadol hyn, eto nid yw eu serch a'u parch tuagat eu gilydd fel brodyr yn lleihau o herwydd hyn.

6. Y mae awdwr Tylerau Cymundeb, mewn modd hyawdl iawn, yn rhoddi darluniad o'r teimlad annymunol a effeithia ymneillduad ac ymwrthodiad o gydgyfranogi â dynion a ystyrir yn ddynion da a duwiol yn meddyliau eraill ag sydd yn gyfeillion mynwesol iddynt wrth eu gweled yn cael eu gwrthod wrth fwrdd y cymun. I fod amgylchiadau o'r fath yn bod nid ydym yn ameu, ond y mae hyn yn cael ei achosi trwy anghofio yn hollol gymeriad arwyddiadol y sefydliad, o'r hyn lleiaf trwy anghofio ei fod yn arwydd o berthynas eglwysig, neu ddim yn rhagor na eu cymdeithas â'r saint yn y goleuni. Mae y dybiaeth na chafodd y cyfryw Gristionogion rhagorol eu claddu yn y bedydd yn symud pob anesmwythder o'r meddwl am wrthod cydymffurfio â hwy. Gwna yr hanesyn canlynol eglurhau yr hyn a ewyllysiwn ei osod allan.

7. Ar un amser amryw flynyddoedd yn ol, darfu i hen wr parchus deithio tua dau cant o filldiroedd er bod yn nghladdedigaeth perthynas, i'r hon yr oedd ganddo barch neillduol. Y dydd cyn i'r foneddiges hon farw, yr hyn a gymerodd le yn sydyn, darfu i'w hunig ferch briodi. Wedi gosod y corff yn y bedd, a dychwelyd o'r galarwyr yn eu hol i'r tŷ, pa rai oeddent wedi dyfod o wahanol ranau o'r wlad, yn ol arferiad yr amser, yr oeddent i giniawa ynghyd cyn darllen yr ewyllys, ac yna i ymadael, heb efallai gyfarfod byth mwy ar y ddaear. Ond yr oedd cyfeillion y marw yn gyfeillion hefyd i'r bobl ieuaingc, pa rai oeddent newydd briodi, ac anghofiodd llawer o honynt yr achos galarus ag oedd wedi eu dwyn ynghyd, ac arwyddodd rhai eu teimladau yn eu perthynas â'r bobl ieuaingc yn eu hundeb priodasol syn i'r lliain gael ei godi oddiar y bwrdd,—yn lle arwyddion o alar ar yr achlysur o'r gladdedigaeth, yr oedd yno arwyddion o lawenydd; a chododd un o honynt, gan osod gerbron y gyfeillach ar iddynt gyduno mewn cynnygiad o iechyd da i'r priodfab a'r briodferch. Teimlodd yr hen wr wrth ganfod y gyfeillach yn cyfnewid yn ei natur, a chyfododd ar ei draed, a chyfarchodd y bobl ieuaingc, gan ddywedyd, "Fy mhlant, nis gallaf yfed eich iechyd da chwi ar yr amgylchiad presennol. Yr wyf yn eich caru bob un o honoch, a chyda pharodrwydd meddwl yn rhoddi i chwi fy mendith. Daethum yma heddyw, nid i gynnal ac i gyfranogi o wledd briodasol pobl ieuaingc; ond i fod yn ngwledd angladdol fy hen gyfeilles barchus." Buasai ei gydsyniad ar y pryd hwnw nid yn unig yn arwydd o gyfeillgarwch â'r dynion ieuaingc, ond hefyd yn arwyddo mai yr achlysur o'i ddyfodiad yno oedd y briodas, ac nid y gladdedigaeth; ac felly, nid oedd gan y pleidiau unrhyw achos i deimlo anesmwythder a phoen meddwl o herwydd ei fod ef yn gwrthod yfed o'r cwpan ag oeddent hwy yn yfed o hono. Nid oedd ei fod yn gwrthod cyfranogi â hwy yn arwydd ei fod yn

ddiystyr am eu dedwyddwch. Buasai cyfranogi yn ei feddwl ef yn anmharch i'r achos ag y daethant yngbyd o'i herwydd.

Er symhwyso yr hanes uchod at 'yr achos dan sylw, mae y poen a'r anesmwythder a achosir trwy deimlad ataliadol o gyduno â'r Cristionogion yn y swper, yn codi oddiar ddiffyg deall yn gwbl ei harwyddocad. Y mae cyfranogiad o swper yr Arglwydd yn arwydd o undeb eglwysig, ac o rhyw berthynas rhwng y pleidiau; ac ni ddylai teimladau neb gael eu dolurio o herwydd ein bod yn gwrthod cydeistedd â'r rhai a ystyriwn nad ynt yn feddiannol ar olygiadau cywir ar arwyddion perthynasol yr ordinhad.

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

## YR ARCHOLLION A'R FEDDYGINIAETH.

FE sonir yn y Bibl am archollion pan olygir pechodau. Y dyben o lefaru yn gydmariaethol felly yw, fel y'n galluoger i amgyffred. Mae pawb a droseddasant yn archolledig. Heb wyliadwriaeth fe geir archollion newyddion, ac fe eheda y son am hyny megys ar adenydd y gwynt. Mae llawer un wedi cael clwyf mewn adeg fer na wellhawyd mo hono am dymhor maith, ie, hyd y bedd.

Yn flaenaf, sylwn ar y priodoldeb sydd o alw troseddau yn achollion. (Diar. 26. 22; Esa. 1. 6.)

1. Oblegyd eu bod yn amrywiol. Mae llawer math o honynt. Mewn ystyr foesol gellir dywedyd fod rhai yn meddu clwyfau cybyddol, ac eraill ydynt ddrwg eu hwyl gan falchder. Nid ychydig sydd yn glwyfus gan feddwdod, ac mae lluoedd mewn sefyllfa ddrwg o herwydd cenfigen. Da fyddai i'r cyfryw gofio mai—

"Gwenwynig yw cenfigen—un adwyth
Niweidiawl ei helfen,
Lle tyfo lle byddo'n ben,
O'i pharchu lladd ei pherchen."

Mae pob math o archollion pechadurus yn beryglus ac yn farwol, oddieithr iddynt gael eu iachau. "Onid edifarhewch chwi a ddyfethir oll yn yr un modd."

2. Maent yn debyg am na cheir cyffwrdd yn hawdd â hwynt. Fe oddefa yr archolledig ei drin drosto oll yn hawddach na'i glwyf dolurus. Mae llawer o wrandawyr yr efengyl, ac o aelodau eglwysig yn debyg i hyn. Hwy a wrandawant am bechodau dynion eraill gyda blas, ond os cyffyrddir â'u harchollion hwy, maent yn barod i wingo. Hwy a fynwesant eu pechodau fel eu Benjaminiaid anwylaf.

3. Mae ambell i archoll yn anhawdd neillduol idd eu meddyginiaethu. Fe ymdrechwyd i ddiwygio llawer un, ond fe methwyd. Rhai anhawdd iawn i'w meddyginiaethu ydyw pechodau dirgel. Yn gyffredin fe esgeulusir y cyfryw nes y byddo hi yn rhy ddiweddar. Mae calon llawer un fel calon pren pwdr: ni welir ei ddrwg hyd nes torir ef i lawr. Gellir ofni fod llawer o ragrithwyr yn yr oes hon—er eu bod yn proffesu yr adwaenant Dduw, mae eu gweithredoedd yn dangos yn wahanol.

Yn nesaf, ni a sylwn ar y feddyginiaeth.

1. Gweinidogaeth y gair ydyw prif foddion iachad. Mae gair Duw yn agor y clwyfau, ac yn dwyn rai i iawn deimlad o honynt. Pan oedd Pedr yn pregethu ar ddydd y Pentecost, fe ddwysbigwyd miloedd, nes oeddent yn gwaeddi, pa beth a wnelsent i fod yn gadwedig. Y gair ydyw cyfrwng gweinidogaeth yr Ysbryd Glân, i ddychwelyd eneidiau at Dduw. Os y gair ydyw y moddion ordeiniedig, rhaid o ganlyniad fod gweinidogaeth y gair a rhan idd ei wneud er iachau yr archolledig. Er nad ydym yn cofio fod gweinidogion y Testament Newydd yn cael eu galw wrth yr enw meddygon, er hyny y maent yn dra thebyg ar amryw ystyriaethau; sef—

1. Mae rhai meddygon a addawant yn dda i'r claf hyd ei farwolaeth. Ni ddywedant un amser am y perygl ag y mae y dyn ynddo, ond eu iaith yw "Heddwch, heddwch, pryd nad oes heddwch." Mae rhai pregethwyr yn debyg i'r meddygon hyn—nid ydynt braidd un amser yn cyffwrdd â'r perygl sydd o fyw mewn pechod. Fe gerir y fath yma yn fawr gan y cyfryw ag sydd yn hoffi cael llonydd yn eu beiau. Dyma bregethwyr y gwŷr a'r modrwyau aur. . Darllenant hen lithiau gwageddol, nad ydynt yn son am bechodau yr oes. Sonir gan rai yn barchus am y feddyginiaeth; ond fe'i gwrthodir gan bawb na theimlant eu hangen o honi.

2. Math arall o feddygon, yw rhai chwerwon a diserch. Ni chymerant ofal wrth drin yr archollion. Gwnant y clwyf yn waeth.—Maent yn bygwth ac yn taranu. Eu rheol yw teyrnasu, ac nid bod o les. Meddyliant mai dyma y ffordd sicraf i achosi iachad. Mae llawer o weinidogion wedi ei cholli yn fawr ar y pen hwn. Ofnant fod yn dirion, ac ymostwng i bobl eu gofal mewn gostyngeiddrwydd, rhag iddynt golli eu hamcanion: pan mewn gwirionedd y gallent fyw yn llawer mwy cysurus felly nag mewn un ffordd arall. Pwy oedd yn fwy tirion nâ'r diweddar Barch. ——? ac o herwydd hyny yr oedd yr Arglwydd yn mysg pobl ei ofal; hwy a ym-

grymment iddo seithwaith, megys Jacob i'w frawd Esay. Dywedir i Dr. Mason, o New-York, farchogaeth hanner cant o filldiroedd i ymostwng i hen wraig oedd ef wedi ofidio, trwy adrodd iddi roddi llwy haiarn iddo i fwyta bara a llaeth. Gwel *Anecdotes for the Family,* cyhoeddedig gan y Gymdeithas Draethodawl, tudal. 158.

Mae yr apostol wedi profi mai ar y tir yma yr oedd ef a'i frodyr yn llafurio. Ei eiriau ef ydynt, "Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd, a ninau yn weision i chwi er mwyn Iesu." 2 Cor. 4. 5.

3. Math arall o feddygon ydyw y rhai gofalus. Ymdrechant yn y modd tyneraf i agor yr archollion i'w gwaelodion i'r dyben idd eu iachau. Maent yn hynod ofalus rhag gwneud y clwyf yn waeth. Eu prif hymgais ydyw gwneud daioni. Fel hyn y dylai cenhadau Iesu Grist fod. Dyma y dull y gellir bod o les. 1 Tim. 2. 2; 2 Tim. 4. 2.

4. Fel meddygon, caiff gweision Crist eu canmol gan rai, a'u beio gan eraill. "Canys tra y dywedo un, Myfi ydwyf eiddo Paul, ac arall, Myfi ydwyf eiddo Apolos, onid ydych chwi yn gnawdol?" 1 Cor. 3. 4. Nid eu canmol na'u dirmygu a ddylid; ond eu parchu er mwyn eu swydd.

5. Mae y meddygon a'r gweinidogion yn debyg, am y dysgwylir iddynt yn ddioed i ufuddhau i bob galwad, beth bynag fyddo yn rwystr. Os bydd iddynt ddefnyddio esgus rhesymol hwy a gant ddilyn eu hynt, a rhoddir cymhelliad i ryw un arall.

Mae un peth yn eu gwahaniaethu yn fawr, sef y tâl am eu hymdrechiadau. Pe byddai y meddygon yn cael eu cynnal fel llawer o weinidogion, mae yn lled debyg y byddai llai o feddygon yn y byd. Rhaid i'r meddyg gael ei dalu am ei waith, pa un bynag a wna efe ddaioni ai peidio. Y meddyg goreu a ddylai gael ei dalu oreu, gyda chalon rwydd. Mae y Beibl yn dangos y dylai y rhai sydd yn llafurio fel gweinidogion i gael eu cynnal gan eu gwrandawyr. 1 Cor. 9. 14. Er nad oes neb braidd yn meddwl, oni byddant yn dlodion iawn, ac yn byw ar drugaredd pobl eraill, y gwna meddygon idd eu gwasanaethu hwy am ddim; eto mae llawer yn dysgwyl am i'r gweinidogion idd eu gwasanaethu yn rhad, ac nid ydyw eu holl ymdrechion o blaid yr efengyl o gymmaint gwerth yn eu golwg ag y rhoddant unrhyw beth at eu cynnaliaeth. Dyledswydd gweision Crist yw ymdrechu fel eu Meistr mawr, y Meddyg anffaeledig, i fod yn ffyddlawn i drelo bod o les. Fe roddodd Paul siampl ragorol ger ein gwydd am hyn pan yn dywedyd, "Ond goddef yr ydym bob peth, fel na roddom ddim rwystr i efengyl Crist." 1 Cor. 9. 12. Fel y mae meddyginiaeth naturiol yn felus a gwerthfawr, felly hefyd y mae yr iechawdwriaeth fawr trwy waed yr Oen. Mewn iawn bryd y dylem oll ymofyn am dani.

THETA ETA.

---

## CWYN Y CYFAILL.

*O'r "Bedyddiwr"*

"Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry, oddeutu'r bwrdd."

TRA yn y byd y byddwyf byw,
'Rwy'n colli rhyw gyfeillion,
Fy mrodyr a'm chwiorydd cu
Sy'n cefnu arnai'n gyson;
Mi gollais rai a gwel'd eu bod
Yn tynu 'r beddrod beunydd,
Ac eraill hefyd pan oe'nt iach,
Heb fynyd fach o rybudd.

Yr ie'ngctyd hawddgar. têg eu bryd,
Ynghyd a'r canol oedran,
A'r henaint cu, nad ânt o'm co',
Sy'n gryno yn y graian;
Rhai'n fryeg eu sêl 'fo'r Ysgol Sul,
Ac engyl, gwn, am ganu,
A llu yn llawn rhinweddau da,
Rhy anhawdd yma'u henwi.

Mor llon oe'nt hwy tu yma'r llen,
A'u dyben mor undebol,
Oll o un llais am enill lles
I'r fynwes gynes gainol;
Gogoniant Duw, yn fwy na dim,
Mi wn, oedd grym eu crefydd,
A gwledd i'w henaid hwy o hyd
Oedd cludo'n glud ei glodydd.

Ond ow! hen angeu'n glau a'i gledd,
Er rhinwedd, a'u trywanodd,
Ac er i'r deigron dreiglo'm grudd,
Mewn ceufedd cudd fe'u cauodd!
'Nawr yn eu gwely oeraidd gwael,
Mae'u cyrff i'w cael heb gyffro,
A phryfaid mân y llaid fel llu,
O gylch eu gwely'n gwylio.

Er yn y bedd yn hir iawn bydd,
Y rhan o bridd yn braenu,
Yr enaid gân yr hynod gainge,
Ger oesol fainge yr Iesu;
Ar ol daw awr y geilw Duw,
Eu cyrff yn fyw o'r cyffion,
Cant mwy rhoi her i angeu'i hun,
Uwch gelyn yn iach galon.

Ar fanau niwl 'rwyf finau'n awr,
Mewn hiraeth mawr yn dysgwyl
Am Iesu cu i'm dwyn fel câr
O garchar at y gorchwyl;
Pan ffy gofidiau poenau ffwrdd,
A ni'n ail-gwrdd â'n gilydd,
Cawn iachus cân heb achos cwyn,
Sain fwyn ar Seion fynydd.

DUDOCHWYRION.

## DYLEDSWYDDAU ESGOBION.

MR. GOL.—Dymunir arnoch gan ragor nag un i'r ysgrif ganlynol, o'r "Tyst Apostolaidd," (rhifyn Mawrth, 1849,) gael ymddangos yn y Seren, er mwyn galw sylw yr eglwysi, y gweinidogion, ac yn *enwedig* y diaconiaid, at reolau y Testament Newydd, oddiwrth yr hen ymarferiadau cnawdol a llygredig sydd yn bodoli mewn rhai eglwysi yn bresennol. Gobeithio y bydd ysgrif oleu ac ysgrythyrol Mr. E. Roberts o dan fendith y nef i ddwyn diwygiad buan yn mhlith yr eglwysi Cymreig yn America.

EWYLLYSIWR DA I SEION.

Y peth cyntaf yn ngwaith esgob y cawn sylwi arno yw, pregethu yr efengyl, dysgu Cristionogaeth, a gwneuthur Crist yn hysbys i bechaduriaid. Dyma ran benaf a phwysicaf y swydd. Gan fod "y ddaear i gael ei llenwi â gwybodaeth o'r Arglwydd, megys y mae y dyfroedd yn toi y môr," rhaid cael rhyw foddion i ddwyn hyn oddiamgylch. Y moddion a appwyntiwyd yw pregethu. Rhaid, o ganlyniad, yw mai peth i barhau yn y byd yw pregethu yr efengyl, a rhaid hefyd cael rhyw swyddogion i gyflawni y gorchwyl. Dyma y moddion a appwyntiodd Duw i orchfygu y byd, i ddyfetha anghrist, i lenwi y byd â gwybodaeth am Iawn mawr Calfaria, ac i achub pechaduriad rhag yr ail farwolaeth. Yr unig swyddogion a appwyntiodd ac a adawodd yr apostolion ar eu holau yn y byd i'r perwyl hwn oedd Esgobion neu Henuriaid; a thrwy y swyddogion hyn mae comisiwn Crist i'w apostolion i gael ei gyflawni. O herwydd hyn gelwir hwy yn "athrawon" (Eph. 4. 11.) "Rhaid gan hyny i *esgob* fod —— yn *athrawaidd*." (1 Tim. 3. 2.) "Ac ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson; ond bod yn dirion wrth bawb, yn *athrawus*, yn ddyoddefgar, mewn addfwynder yn *dysgu* y rhai gwrthwynebus," &c. (2 Tim. 2. 24—26.) "Yn dal yn lew y gair ffyddlon yn ol yr addysg, fel y gallo gynghori yn yr athrawiaeth iachus, ac argyhoeddi y rhai sydd yn gwrthddywedyd." (Tit 1. 9.) Yr apostol Paul a ddywed wrth Timotheus, "A'r pethau a glywaist genyf trwy lawer o dystion, traddoda y rhai hyny i ddynion ffyddlon, y rhai a fyddant gymhwys i ddysgu eraill hefyd." (2 Tim. 2. 2.) Dangosa yr adnodau hyn fod pregethu yr efengyl, neu ddysgu Cristionogaeth, yn un o brif waith esgob; o ganlyniad, dywed yr apostol Paul "Cyfrifer yr henuriaid sydd llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dau ddyblyg; yn enwedig y rhai sydd yn *poeni yn y gair a'r athrawiaeth*." (1 Tim. 5. 17.) Testyn eu pregethu yw "y gair a'r athrawiaeth,"—yr efengyl, yn ei holl athrawiaethau, addewidion, ordinhadau, gorchymynion, a chymhellion: "y gwirionedd megys ag y mae yn yr Iesu,"—holl gynghor Duw, heb guddio dim o'r pethau buddiol.

Rhan bwysig arall o waith yr henuriaid neu yr esgobion, yw llywodraethu eglwys Crist yn unol â'r rheolau a osododd o'n blaen yn yr efengyl. Dywedir fod gofal eglwys Dduw arnynt. (1 Tim. 3. 5.) Dywedir hefyd eu bod yn ei llywodraethu, (1 Tim. 5. 17.) ac annogir yr aelodau i fod yn ddarostyngedig iddynt "Ufyddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megys rhai fydd raid iddynt roddi cyfrif: fel y gallont wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist; canys difudd i chwi yw hyny." (Heb. 13. 7. a'r 17. 24.) Mae yr enwau a roddir i'r swyddogion hyn yn dangos fod ganddynt ryw awdurdod a llywodraeth yn yr eglwys. Gelwir hwy yn "fugeiliaid," ac fel y cyfryw gorchymynir iddynt borthi praidd Duw, "gan fwrw golwg arnynt" (1 Pedr 5. 2.) Defnyddir y gair Groeg "*poimano*," a gyfieithir yn yr adnod hon "porthi," a'r gair *égouménoi*, a gyfieithir *blaenoriaid* yn yr adnodau blaenorol, i osod allan lywodraeth Crist y Pen bugail ar ei bobl. "A thithau Bethlehem tir Iuda, nid lleiaf wyt yn mhlith tywysogion Iuda: canys o honot ti y daw Tywysog, (Gr. *égouménos—blaenor* yn ol Heb. 13. 7. 17. 24.) yr hwn a fugeilia (Gr. *poinamei—porthi* yn ol 1 Pedr 5. 2.) fy mhobl Israel." Mae yr ymadroddion sydd yn gosod allan y gallu uwchaf i lywodraethu, y rhai a ddefnyddir i osod allan hyd y nod swyddogaeth Crist pen mawr yr eglwys, yn cael eu defnyddio i ddynodi awdurdod yr henuriaid neu esgobion, ac i osod allan y gallu â pha un y maent wedi eu gwisgo fel llywodraethwyr a bugeiliaid eglwys Crist. Mae y geiriau esgob a henuriad hefyd o angheuheidrwydd yn dynodi uwchafiaeth gyda golwg ar swydd. Golyga y gair a gyfieithir *esgob*, (*episcopos*, o *episcopomai*,) edrych dros, arolygu, un wedi ei osod i gymeryd gofal, neu arolygu. Bernir fod y gair *henuriaid* wedi ei gymeryd oddiwrth swyddogion a elwid felly yn mhlith yr Iuddewon, y rhai a dderbynient yr enw *henuriaid*, i ddynodi yr awdurdod a feddianent fel llywodraethwyr neu farnwyr y bobl. Camgymeriad gwirfoddol *Lords Deacons* ambell i eglwys yw mai ganddynt hwy mae yr awdurdod, ac mae gwas iddynt hwy ac i'r eglwys yw yr esgob, neu y *gweinidog*, fel ei gelwir, i gael ei sathru dan draed, fel y gwelant hwy yn dda. Gan yr esgob mae yr awdurdod yn ol y Testament Newydd, ac nid yw y diacon ond swyddog i gyflawni pethau sydd anghyfleus iddo ef ymwned â hwynt heb attal ei ddefnyddioldeb. Chwi, *my Lords*, yw gweision yr eglwys a'r gweinidog, pe cydnabyddech eich lle; a'ch dyledswydd yw gwneuthur eich goreu er cysur eich gweinidog, ei gynnorthwyo yn ei waith gor-bwysig, a chynnal ei freichiau i'r lan. Dinystriwyd defnyddioldeb llawer brawd selog o eisiau fod pawb yn cydnabod ei le a'i waith ei hun yn yr ystyr hyn.

Fe allai y'm cyhuddir o fod yn henadurol neu bresbiteraidd yn fy ngh²olygiadau, gan rai a ddarllenant y sylwadau hyn; gan hyny, gwell fyddai, cyn myned yn mhellach, geisio dangos i'r cyfryw beth yw henaduriaeth, a pheth yw annibyniaeth. Henaduriaeth neu bresbiteriaeth yw y gyfundraeth hono o lywodraethu yr eglwys gan henuriaid wedi ymgynull mewn eisteddfod, neu gynghorfa, lle na byddo gan neb lais ond yr henuriaid; penderfyniadau pa rai a ystyrir fel cyfreithiau y Mediaid a'r Persiaid, nas gellir eu tori; ac nid llywodraeth yr esgob neu yr henuriad yn ei eglwys ei hun-

Anibyniaeth yw y gyfundraeth hono o lywodraethu materion pob eglwys ynddi ei hunan, drwy y swyddogion a ddewiswyd ganddi i'r perwyl hyny, yn annibynol ar bob eglwys neu henuriaid eglwys arall. Er egluro y pwngc hwn, rhoddwn gerbron y darllenydd y difyniad canlynol o ddarlithoedd medrus yr enwog Dr. Doddridge:—"Ond siarad yn briodol, gellir galw y rhai hyny a ddaliant fod pob gweinidog yn esgob neu arolygwr ei gynnulleidfa ei hun, heb fod gan un person neu gorff o bobl hawl, drwy ddwyfol osodiad, i weinyddu un swydd uwchraddol neu arolygol ynddi—yn *gynnulleidfaol*, a chamgymeriad mawr fyddai galw y cyfryw yn henaduriaid (*Presbyterians*), oblegyd gweinyddir dysgyblaeth henadurawl mewn eisteddfodau a chyfarfodydd, y naill yn israddol i'r llall, a'r cyfan oll yn ddarostyngedig i'r hyn a elwir yn gyffredin, y Cyfarfod Cyffredinol, (*the General Assembly*)."

Mae gan bob eglwys, yn ol y Testament Newydd, hawl i gario ei dysgyblaeth ei hun, yn annibynol ar bob eglwys arall; ond nid yw hyn mewn un modd yn cau allan y priodoldeb o ymgynghori âg eglwysi a gweinidogion amgylchynol. Ni wna hyny mewn un modd ddinistrio ei hannibyniaeth, oblegyd nid ydyw mewn un modd yn ymrwymo drwy hyny i weithredu yn ol eu penderfyniadau, ond yn unig yn ymofyn â hwynt am gyfarwyddyd mewn achosion y mae yn methu a'u penderfynu ei hunan. Ond cadw hyn mewn golwg, nis gall undeb Cymanfaol fod yn groes i annibyniaeth; oblegyd nid amcan y cyfryw undeb yw llywodraethu yr eglwysi, ond eu cynorthwyo i gario achos y Messia yn mlaen, ac i drefnu y cynlluniau goreu i'r dyben hwn. Yn amlder cynghorion y mae dyogelwch.

Ond i ddychwelyd at y pwngc dan sylw, fe wel y darllenydd fod pob eglwys yn annibynol, ac mai gan y gweinidog mae yr awdurdod lywodraethol ynddi. Wedi i eglwys ddewis ei hesgob, cofied y cyfryw eglwys ei bod wedi ei darostwng ei hun yn wirfoddol o dan ei awdurdod. Ond cofied yr esgob yntau nad ydyw i ddefnyddio yr awdurdod hon i "drawsarglwyddiaethu ar eglwys Dduw." Nid awdurdod deddfwneuthurol, ond gweinyddol, sydd ganddo; gweinyddu cyfreithiau Crist yw ei waith. Rheol ei lywodraeth yw gair Duw, ac heb roddi ato, na thynu oddiwrtho. Ac nid yw ei awdurdod ychwaith yn un arglwyddiaethol, ond darbwyllol. Dywedai Crist wrth ei apostolion, "Chwi a wyddoch fod penaethiaid y cenedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai mawrion yn tra-awdurdodi arnynt hwy. Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond pwy bynag a fyno fod yn fawr yn eich plith chwi, bydded weinidog i chwi; a phwy bynag a fyno fod yn benaf yn eich plith, bydded was i chwi." (Mat. 20. 25—28.) Pedr hefyd a ddywed. "Yr henuriaid sydd yn eich plith, atolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf hefyd gyd-henuriaid, a thyst o ddyoddefiadau Crist, yr hwn hefyd wyf gyfranog o'r gogoniant a ddatguddir: porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg arnynt; nid trwy gymhell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn *tra-arglwyddiaethu* ar etifeddiaeth Duw, ond gan fod yn siamplau i'r praidd. A phan ymddangoso y Pen-bugail, chwi a gewch dderbyn anniflanedig goron y gogoniant." [1 Pedr. 5. 1—4.] Nis gall fod dim yn fwy gwrthwynebus i iaith y Beibl ar y pen hwn na thrawsarglwyddiaeth esgobawl, beth bynag yw y ffurf a gymera. Ni fynai Paul, er ei fod yn apostol, ei weinyddu, ond dywedai, "Nid am ein bod yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi, ond yr ydym yn gydweithwyr â chwi." (2 Cor. 1. 24.) Oddiwrth yr adnodau a ddyfynasom, ynghyd ag amryw eraill, yn mha rhai mae gwaith esgobion neu henuriaid yn cael ei ddarlunio, ni welwn mai eu swydd arbenigol hwy oedd llywodraethiad yr eglwys. Eu gwaith hwy oedd gofalu am drefn: amddiffyn purdeb mewn athrawiaeth ac ymarferiad, gwylio yn erbyn camarferiadau, ceryddu y rhai beius, a blaenori mewn achosion cyhoeddus. Eto, nid oes i ni feddwl fod eu heglwysi i gael eu cau allan o gyfranogiad yn y gorchwyl hwn: mae hyn yn amlwg oddiwrth y ffaith fod llywodraethiad yr eglwys yn un boblogaidd neu werinaidd, ac hefyd oddiwrth amryw siamplau yr eglwysi apostolaidd.

Rhan arall o waith esgob yw gweinyddu ordinhadau yr eglwys. Barna rhai mai yr esgob, a'r esgob yn unig, sydd i'w gweinyddu; ond peth tra anhawdd yw penderfynu hyn o'r Testament Newydd. Nid oes un adnod o'i fewn yn dweyd yn arbenigol fod y gwaith hwn yn perthyn i'r esgob neu yr henuriaid. Nid ydym wedi canfod un adnod yn dweyd fod bedydd na swper yr Arglwydd erioed wedi cael eu gweinyddu gan y dosbarth hyn o swyddogion; ac os hwy yw yr unig bersonau a ddylent weinyddu yr ordinhadau hyn, onid ydyw yn peth tra rhyfedd fod y Testament Newydd mor ddistaw ar y mater? Er hyny, nid ydym yn ei gyfrif yn beth anmhriodol cyfyngu eu gweinyddiad i'r esgob, lle byddo esgob i'w gael; oblegyd wedi i eglwys ddewis ei hesgob, ac iddo yntau gymeryd arno weini y swydd, priodol, feddyliem, yw i weinyddiad ordinhadau yr eglwys gael ei gyfyngu iddo ef. Ond mewn achos o angen, megys lle na byddo esgob ar eglwys, nid ydym yn ei canfod yn beth afresymol, nac anysgrythyrol, i'r eglwys bennodi un o'r diaconiaid, neu ryw frawd teilwng arall i weinyddu. (Gwel y ddarllenydd ragor ar y mater hwn yngwaith teilwng y Duwinydd treiddgar a gonest Andrew Fuller, *In the Miscellaneous Letters.*)

Nid oes sail o fewn yr ysgrythyrau, mae yn ymddangos i mi o leiaf, fod yn perthyn i swydd yn yr eglwys. Beth bynag, nid oes genym un gorchymyn na siampl o hyn o fewn holl air Duw. Ni ddarfu yr apostolion, er mor uchel eu swydd fel swyddogion ysbrydoledig, wedi eu hanfon gan Grist, gymeryd y fath awdurdod arnynt; ond, fel y cawn ddangos eto, cyflwynasant hyn i'r eglwysi. Rhagorfraint arbenigol i'r eglwys yw hon; a phan y byddo esgob yn ymhoni yr awdurdod hon gwybydded ei fod yn gormesu ar freintiau yr eglwys.

Yr eiddoch, &c.

*Pontesbury.* E. Roberts.

## Y DEUDDEG APOSTOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

Nid yw yr hanes sydd yn ein meddiant mor gyflawn a sicr ag y dymunem o barth yr unigolion a fuont yn offerynol ar blaniad cyntaf yr efengyl i weinidogaethu yn y gwahanol wledydd; ac nid yw ein gwybodaeth ychwaith yn hollol benderfynol am faes llafur a llwyddiant pob un o'r apostolion; ond y mae a ganlyn yn gryhoad o'r hyn sydd wedi ei gyflwyno drwy yr hanesion a faruir yn fwyaf credadwy gan yr haneswyr eglwysig mwyaf cyfrifol.

Simon Pedr, yn ol yr hanes a roddir yn llyfr yr Actau, a lafuriodd yn llwyddiannus yn Jerusalem a Judea am rai blynyddau, a ddyoddefodd lawer o erledigaethau, ac a gyflawnodd wyrthiau nerthol yn enw ei Arglwydd; ac o herwydd ei wroldeb a'i hyfdra, mae yn sefyll fel yn flaenaf yn mhlith ei frodyr; Act. 4. 8. Wedi y weledigaeth a gafodd er dadguddio meddwl Duw o barth dychweliad y cenedloedd, dywedir iddo deithio yn mhell drwy dalaethau y Groegiaid, Thracia, a'r Asia Leiaf, nes cyrhaedd Babilon, gan bregethu i Iuddewon a chenedloedd; ac oddiwrth ei gyfarchiad, yn ei lythyr cyntaf at yr Inddewon gwasgaredig ar hyd Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia, gellir meddwl ei fod wedi llafurio yn yr holl wledydd hyny. Apostolaeth yr enwaediad oedd yn benaf wedi ei hymddiried iddo, ac yn mhlith yr Iuddewon y bu gan mwyaf yn pregethu, er nad yn hollol felly; ond nid oes genym nemawr o hanes ei weithrediadau neillduol wedi y cynghor a gynnaliwyd yn Jerusalem, yn y flwyddyn 51. Mae Eusebius yn dywedyd, yn ol hysbysiad Origen, iddo fyned yn niwedd ei oes i Rufain; ac mae y rhan fwyaf o'r hen ysgrifenwyr yn credu iddo ddyoddef merthyrdod yno yn nheyrnasiad Nero, yn agos yr un amser a'r apostol Paul. *Lardner, Can. Vol. III, chap.* 18.

Iago, mab Alpheus, yr hwn, yn ol arferiad yr Iuddewon, a elwir Iago brawd yr Arglwydd, am ei fod yn berthynas agos iddo; a Iago fychan, o herwydd ei fod, fel y meddylir, yn llai ei gorffolaeth na Iago mab Zebedeus, a dreuliodd ei fywyd yn benaf, os nid yn hollol, yn Jerusalem. Arno ef y gorphwysai gofal yr eglwys luosog yn y ddinas hono, ac yno y bu yn llafurio yn llwyddiannus ac yn gymeradwy, nes cynhyrfwyd llid yr Iuddewon yn ei erbyn, o herwydd llwyddiant ei weinidogaeth, fel y taflasant ef i lawr oddiar binacl y deml, ac y drylliasant ei ben â phastwn pannwr. Yr oedd hyn yn ol barn haneswyr eglwysig, yn y flwyddyn 62. *Gwel y Rhagymadrodd i Epistol Iago yn Meibl Bagster. Calmet's Dict.*

Andreas, brawd Simon Pedr, a lafuriodd yn Scythia, ac a ddychwelodd i Byzantium, a elwir yn awr *Constantinople*, lle y bu am ryw dymor yn pregethu gyda llwydd mawr. Wedi hyny teithiodd drwy dalaethau Thracia, Macedonia, Epirus, Thesalv, ac Achaia; ac wedi bod yn offerynol i ddychwelyd eneidiau lawer yn ninas Patria, cafodd ei gymeryd i fynu gan Egeas, rhaglaw y dalaeth, yr hwn a'i cymhellodd yn daer i aberthu i'r duwiau eilunaidd. Eithr yr apostol yn ddifrifol a gynghorodd y swyddog i ystyried fod ei Farnwr yn y nefoedd, a rhoddi iddo yr anrhydedd dyladwy drwy ymwrthod â'r eilunod meirwon, a derbyn Crist fel Ceidwad galluog i achub ei enaid. Ond y rhaglaw a ffromodd yn ffyrnig, gan orchymyn na soniai mwy am iachawdwriaeth drwy Grist, gan fod yr Iuddewon wedi ei groeshoelio yn barod; ac os anturiai wneuthur hyny, y celai yntau ei sicrhau ar y groes. A chan na chydsyniai â'r gwaharddiad, cafodd ei ddedfrydu i ddyoddef marwolaeth; ac er gwneuthur hyny yn fwy graddol a nychlyd, cafodd ei rwymo ar y pren yn lle ei hoelio, ac felly y terfynodd ei fywyd. *Memoirs of the Apostles in Fox's Book of Martyrs. Fleetwood's Lives of the Apostles, p.* 501.

Phillip, yr hwn oedd yn frodor o Bethsaida, yn Galilea, ac yn un o ddysgyblion Ioan, a alwyd gan Grist, ac a wisgwyd â'r swydd apostolaidd; ond nid oes genym hanes mor helaeth am ei weithrediadau ag a ddymunem. Yr oedd dau ddysgybl o'r un enw yn swyddogion cymeradwy yn yr eglwys, sef Philip yr apostol, a Philip y diacon; ac mae yn anhawdd penderfynu pa un o'r ddau aeth i waered i Samaria i bregethu, ac a fu mor llwyddiannus yno; ond yr hyn sydd fwyaf tebygol yw, mai Philip y diacon oedd y dyn. Am Philip yr apostol, dywedir fod maes ei lafur yn yr Asia uchod, ac iddo gydlafurio ag Andreas yn mhlith y Scythiaid, ond iddo dreulio y rhan olaf o'i fywyd yn Hierapolis, yn Phrygia; ac mai yno y seliodd â'i waed y gwirioneddau gwerthfawr ag oedd wedi bregethu gyda sêl a difrifoldeb mawr. *Smith's Introduction to the History of Missions.*

Thomas, a elwir Didymus, yn ol tystiolaeth Jerome, a fu yn genad llafurus iawn yn mhlith y Mediaid, y Persiaid, y Parthiaid, a'r Magiaid, a chenedloedd dwyreiniol eraill. Dywedir iddo deithio yn mhell i'r dwyrain, ac mae rhai yn barnu mai oddiwrtho ef mae Cristionogion St. Thomas, yn yr India Ddwyreiniol, wedi cymeryd eu henw. Fod llawer yn cyfenwi eu hunain felly yno sydd hysbys; ac mae traddodiad yn eu plith i'r apostol ddyoddef merthyrdod drwy greulonderau y Brahminiaid oeddent wedi eu cynhyrfu drwy fod cynnifer yn ymwrthod â'r eilunod, ac yn troi i addoli y Duw anweledig. Mae Crysostom yn nodi am Thomas, er ei fod unwaith y gwanaf a'r mwyaf anghrediniol o'r dysgyblion, ei fod wedi hyny y mwyaf dewr ac anorchfygol o honynt, fel y gwynebodd ar y llwythau mwyaf anwaraidd a'r peryglon mwyaf arswydus gyda hyfdra diysgog, ac iddo deithio drwy ran fawr o'r byd yn nerth ei Arglwydd i gyhoeddi anchwiliadwy olud gras. *Calmet's Dict. Fleetwood's Lives of the Apostles, p.* 508.

Bartholomeus, yr hwn, yn ol barn llawer, yw yr un a Nathanael, a lafuriodd yn ol rhai o'r hen hanesyddion, gyda Thomas am ryw dymhor yn yr India; ond tybid mai prif faes ei lafur oedd Lycaonia, ac Armenia, a'r gwledydd amgylchynol. Mae Chrysostom

yn haeru iddo lafurio yn llwyddiannus yn mhlith yr Armeniaid, a selio ei dystiolaeth yn Albanople drwy ddyoddef marwolaeth, yn ol ymgais y swyddogion paganaidd, y rhai a gynhyrfasent y llywodraeth i'w ferthyru yn y modd mwyaf creulon, am ei fod wedi troi cynnifer oddiwrth y duwiau gau. Nid yw yr hanes am dano mor gyflawn ag am amryw o'i gydapostolion. *Calmet's Dict. Smith's Introduction.*

Mathew, wedi llafurio am ryw dymor yn Judea, ac ysgrifenu ei efengyl er mwyn budd yr Iuddewon crediniol, a deithiodd drwy Persia, Parthia, India, ac Ethiopia, ac a derfynodd ei waith yn Abysinia drwy ddyoddef merthyrdod; ond yn mha ddull sydd ansicr, er mai y farn gyffredin yw, mai ei drywanu a wnaethpwyd â gwaywffon. *Fleetwood's Lives of the Apostles.*

Iago, brawd Ioan, oedd un o feibion Zebedus. Dywedir mai maes ei lafur oedd yn mhlith yr Iuddewon crediniol, a wasgarwyd drwy y wlad ar ferthyrdod Stephan; y mae rhai wedi honi ei fod yn llafurio yn fwy helaeth yn mhlith yr holl Iuddewon gwasgaredig. Nid hir iawn y cafodd aros ar y maes, oblegyd Herod Agrippa, er mwyn boddloni yr Iuddewon, a'i lladdodd â'r cleddyf tua y flwyddyn 42, neu 44, ychydig amser cyn ei farwolaeth erchyll ei hun, yr hyn a gymerodd le pan oedd ei galon yn llawn o ryfyg, drwy fod y Sidoniaid, wrth wrando ei araeth, yn llefain allan mai llais Duw, ac nid dyn, oeddent yn glywed: Act. 12. 28.

Simon y Canaanead, a elwir hefyd Zelotes, a gymerodd faes helaeth yn ol rhai hanesion; ond nid oes cymmaint sicrwydd am gywirdeb yr hysbysiadau a roddant. Dywedir iddo deithio trwy yr Aifft, Lybia, a Mauritius, a phregethu yr efengyl i'r lluoedd anwaraidd yn y taleithau hyny, nes selio ei dystiolaeth drwy ddyoddef marwolaeth y groes; ond nid oes gwybodaeth benderfynol am y lle na'r amser y cymerodd hyny le, ac mewn gair, mae cymmaint o anghydundeb rhwng yr hen hanesion o berthynas iddo, fel nad oes modd ei gymmodi; ond wrth farnu iddo deithio drwy wahanol wledydd, a bod rhai yn cofnodi ei lafur mewn un wlad, ac eraill yn son am ei weithrediadau mewn gwlad arall, ac efallai bob un yn dywedyd yr hyn sydd gywir, ond yn ymgyfyngu at un rhan o'i lafur helaeth.

Am Mathias, yr hwn a ddewiswyd yn lle Judas Iscariot, nid oes ar gael ddim hanes, ond yn unig iddo gael ei gyfrif yn mhlith y deuddeg. Ac am Judas, brawd Iago, nid ynt yr hysbysiadau ond amheus, oddigerth iddo ysgrifenu yr epistol sydd yn dwyn ei enw. Er nad ynt y dysgedigion yn cyduno yn hollol o barth amseriad yr epistol, y maent oll yn cyduno ei fod wedi ei ysgrifenu ar ol dinystr Jerusalem; ac nid oes neb o honynt yn honi ei fod yn foreuach na'r flwyddyn 70, pan mae eraill, megys Mile, yn ei amseru yn y flwyddyn 90. Oddiwrth hyn ymddengys iddo gael bywyd hir; ac er fod rhai yn dywedyd iddo ddyoddef merthyrdod yn ymerodraeth y Persiaid, mae eraill gyda mwy o debygolrwydd yn haeru iddo farw marwolaeth naturiol yn Edessa, dan lywodraeth Abagarus. *Macknight's Pref. to Epistle of James. Fleetwood's Lives of the Apostles.*

Mae hanes Paul yn fwy cyflawn yn y Testament Newydd na neb o'i gyd-apostolion.—Wedi ei alw ar y ffordd i Damascus, ymroddodd i bregethu yn y ddinas hono am ryw dymor. Yr oedd hyn, fel y bernir, tua diwedd y flwyddyn 37, ac yntau tua 34 ml. oed. Wedi hyn aeth i Arabia, lle yr arosodd tua dwy flynedd, ac yna dychwelodd i Damascus; a phan y cyfododd erledigaeth yno fel nad oedd modd iddo lafurio yn hwy yn y lle, aeth i fynu i Jerusalem, at yr apostolion oeddent yn aros yno. Ond yn fuan iawn gorfu iddo ffoi oddiyno, o herwydd ymgais yr Iudewon i'w lofruddio am ei waith; ond er gorfod ffoi o Jerusalem myned rhagddo a wnaeth, gan bregethu Crist drwy ardaloedd Syria a Cilicia. Yn mhen tymhor lled hir yr y'm yn ei gael yn Antiochia, lle y gorchymynodd yr Ysbryd Glân neillduo Barnabas a Saul i'r gwaith, i'r hwn yr oeddent wedi eu galw. Yr oedd wedi derbyn awdurdod apostolaidd oddiwrth Iesu Grist ei hun, ac yn awr yr oedd i gael ei neillduo yn ol trefn yr eglwys, ac o'r pryd hyn mae yn cael ei enwi yn apostol. Yr oedd hyn ar ol i Iago, brawd Ioan, gael ei ladd gan Ioan â'r cleddyf. Mor fuan ag y cyflawnwyd y gorchymyn hwn, Paul a Barnabas a gymerasant eu taith trwy Asia leiaf, gan bregethu gyda llwydd mawr yn mhob ardal; ac o hyn yn mlaen hyd ddiwedd ei oes, bu Paul yr apostol mwyaf llafurus, cyfrifol, a llwyddiannus, nes wedi pregethu, dyoddef ac ysgrifenu er gogoniant Duw a budd dynion, am ddeng-mlynedd-arugain y seliodd ei dystiolaeth â'i waed drwy ddyoddef merthyrdod, pan ymddangosodd yr ail waith gerbron Nero, yn y flwyddyn 66.

Am Barnabas, nid oes genym ddim hanes wedi ei ymadawiad oddiwrth Paul, ar eu cychwyniad yr ail waith i ymweled ag eglwysi y cenedloedd, ond yn unig iddo forio tua Cyprus.

Ioan, mab Zebedeus, oedd y dysgybl anwyl: Ei nodweddiad arbenig oedd cariad. Yr oedd yn dyst o wyrthiau, dyoddefiadau, marwolaeth, ac adgyfodiad ei Arglwydd, ac yn un o'r apostolion penaf, ac yn golofn yn yr eglwys. Bernir iddo aros am rai blynyddau yn Jerusalem a Judea; ond maes ei lafur yn y rhan olaf o'i fywyd oedd yn yr Asia Leiaf, a'i breswylfod oedd yn Ephesus. Efe a ysgrifenodd yr Efengyl sydd yn dwyn ei enw, a thri o epistolau, ynghyd a llyfr y Dadguddiad; ac ymddengys mai ei ysgrifeniadau ef yw y diweddaf a roddwyd drwy ddwyfol ysbrydoliaeth. Mae llawer o bethau hynod yn cael eu dywedyd am dano gan yr ysgrifenwyr boreuol, ond nid oes ychwaneg o'i hanes yn ymddangos yn sicr nag iddo gael ei gymeryd i fynu gan yr awdurdodau paganaidd yn nheyrnasiad yr Ymerawdwr Domitian tua y flwyddyn 95, a'i alltudio i Ynys Patmos; ond drwy farwolaeth y gormeswr hwnw yn y flwyddyn 97, cafodd fyw yn hwy na neb o'i gyd-ddysgyblion, yn ol barn yr holl haneswyr, a marw marwolaeth naturiol mewn heddwch yn ninas Ephesus, yn y drydydd

flwyddyn o deyrnasiad Trajan, pan, fel y dywedir, tua chan' mlwydd oed.

Dyma y dynion a anfonodd Duw i wynebu ar y byd oedd yn gorwedd mewn drygioni. Yn mhlith yr Iuddewon nid oedd ond rhagfarn a gwrthwynebiad ffyrnig i'w ddysgwyl, gan eu bod wedi croeshoelio Arglwydd y bywyd; ac yn mhlith y cenedloedd yr oedd balchder y Philosophyddion a thwyll yr offeiriadaeth yn eu gwrthsefyll yn mhob goror, a'r awdurdodau gwladol yn barod, yn ol eu dyfais i amddiffyn yr hen sefydliadau â'u holl egni; ac yn ol barn ddynol nid oedd un gobaith mewn golwg am i'r achos anmhoblogaidd, ya yr hwn yr oeddent wedi ymafaelyd, enill y fuddugoliaeth byth. Ond dan ddylanwad ffydd, mewn nerth anweledig yr aethant allan, ac ni bu eu mynediad yn ofer. Llaw yr Arglwydd oedd o'u tu, a thrwy ei nerth anorchfygol ef, dynion o bob gradd, a chenedloedd o bob cymeriad, a broffesent nerth gair y bywyd. Yn y deheu, y dwyrain, y gogledd, a'r gorllewin, yr oedd enw yr Arglwydd Iesu wedi ei gyhoeddi cyn diwedd eu hoes, eglwysi wedi eu casglu yn mhob gwlad adnabyddus, a chredinwyr hyd y nod ar gael yn nheulu Cæsar. Yn ol tystiolaeth yr apostol Paul, "Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu swn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y ddaear:" Rhuf. 10. 18.

## HOLIADAU AC ATEBION AR FEDYDD.

Gof.—Pa bethau a ddylem eu hystyried mewn perthynas i fedydd dwfr?

At.—1. Y deiliaid. 2. Y dull. 3. Y dyben. 4. Yr arwyddocad.

Gof.—Pwy yw iawn ddeiliaid bedydd?

At.—1. Iawn ddeiliaid bedydd yw y rhai
Sy'n edifeiriol am eu bai;
Heb hyn 'does neb o fewn i'r wlad
Yn ddeiliad iawn i'r ordinhad.
Act. 2. 38.

2. Iawn ddeiliaid bedydd hefyd yw,
Yn ol darluniad Beibl Duw,
Cyffesu eu pechodau wnan',
'Nol rheol bur 'ysgrythyr lân.
Math. 3. 5, 6.

3. Iawn ddeiliaid bedydd hefyd sydd,
Yn gyhoedd yn proffesu ffydd,
Fod Iesu Grist yn wir Fab Duw,
Fath hyn y cywir ddeiliaid yw.
Act. 8 36—38.

4. Iawn ddeiliaid bedydd eto, clyw,
Sy'n credu 'fengyl teyrnas Duw;
Y cyfryw yn Samaria gawd,
Bedyddio'n wyr a gwragedd wnawd.
Act. 8. 12.

5. Y deiliaid iawn, 'nol trefn Crist,
Sydd am eu cyflwr drwg yn drist,
Yn gwaeddi 'maes ag uchel gri,
Ha wŷr a brodyr, beth wnawn ni?
Act. 2. 27, 28.

6. Darluniad pwy yw'r deiliaid iawn,
Ond manol chwilio'n aml cawn,
Ac un o'u nodau'n mhellach yw,
'Wyllysgar dderbyn geiriau Duw.
Act. 2. 41.

7. Y deiliaid iawn, dysgyblion y'nt,
Yn ol arferiad Iesu gynt,
Dysgyblion wnaeth mewn rhif yn fwy,
Ac yna eu bedyddio hwy.
Ioan 4. 1, 2.

8. Mewn deiliaid bedydd o bob llwyth
Angenrhaid yw cael addas ffrwyth
I edifeirwch am eu bai,
O eisiau hyn gwrthodwyd rhai.
Math. 3. 7, 8.

Gof.—Pa fath oedd y teuluoedd a fedyddiwyd gan yr apostol?

At.—1. Ceidwad y carchar, yr oedd hwn,
Yn credu Duw, a'i deulu'n grwn;
'Roedd teulu addas gan y gwr
I fod yn ddeiliaid bedydd dw'r.
Act. 16. 32—34.

2. Tŷ Stephanas, medd gair y nef,
Blaenffrwyth Achaia ydoedd ef,
A'i deulu fu, nis gwn pa faint,
Ymosod wnaeth i swydd y saint.
1 Cor. 16. 15

3. 'Roedd teulu Lydia'n addas cawn,
Fel brodyr 'dderbyn cysur llawn,
Nis gwn eu rhif na'u galwad hwy,
P'un plant, ai gweision, neu 'te pwy.
Act. 16. 40.

Gof.—Pa ddull mae bedydd i'w iawn weinyddu?

At.—1. Gorchuddio'r corff, neu soddi yw,
Neu gladdiad yn iaith Beibl Duw,
Gwyr pawb mai claddu yw rhoi 'nghudd,
Fel rhoir y marw yn y pridd.
Col. 2. 12.

2. Er cyfleus weini'r ordinhad
Dewiswyd afon fwya'r wlad,
Os nid er cyfle'u soddi lawr,
At beth awd i'r Iorddonen fawr?
Math. 3. 4—6.

3. Wrth weini bedydd ai'r ddau wr,
Er mwyn cyfleusdra lawr i'r dwr;
Os nad ei soddi yno wna'd,
'Doedd angen iddynt wlychu' tra'd.
Act. 8. 38, 39.

4. Rheswm 'fedyddio'n Aenon gre'
Fod dyfroedd lawer yn y lle,
Fe ddengys hyn mai claddiad yw,
'Nol grym rhesymiad Ysbryd Duw.
Ioan 3. 23.

Gof.—Pa debygolrwydd oedd rhwng mynediad Israel trwy y môr a bedydd dwfr, gan fod Paul yn ei alw yn fedydd?

At.—1. Trwy'r mor aeth Israel 'mlaen yn hy',
A'r mor yn bentwr o bob tu;
Y mor oedd fur o'u cylch yn grwn,
Fel bedydd trochiad ydoedd hwn.
Ecs. 14. 21, 22.

2. A chwmwl tân oedd uwch eu pen,
I'w cadw 'nghudd y nos fel llen;
Iê, cwmwl tân, nid cwmwl llaith,
Fel bedydd trochiad oedd eu taith.
Ecs. 14. 20, 27.

3. Ond ceisio myn'd mor bell yn ol
'Gael deiliaid bedydd sydd yn ffol,
Tadau a phlant oedd yno cawn,
Defaid a gwartheg lawer iawn.
Ecs. 12. 37, 38.

Gof.—Gan fod Crist yn galw ei ddyoddefiadau yn fedydd, pa debygolrwydd oedd rhyngddo â bedydd dwfr?

At.—1. D'oddefaint Crist oedd drefn Duw,
A bedydd dw'r ei gynghor yw,
Anufuddhau i'r ordinhad
Diystyru cynghor nefol Dad.
Luc 7. 30.

2. Yr Iesu mawr, fel addfwyn Oen,
A ddaeth o'i fodd i dd'oddef poen,
Iawn ddeiliaid bedydd yr un modd,
A ddaw i ufuddhau o'u bodd.
Math. 3. 5, 6.

3. Unwaith am byth goddefodd Crist,
Unwaith i'r byd i fod yn drist;
Un bedydd hefyd ac un ffydd
Un waith i ei iawn ddeiliaid sydd.
Eph. 4. 5.

4. Pob rhan o'i gorff ddyoddefodd gur,
O'i ben i'w draed a'i gefn pur;
Ei lwyr orchuddio ga'dd y gwr,
Darluniad têg o fedydd dw'r.
Sal. 69. 1, 2.

Gof.—I ba ddyben y mae credinwyr yn ufuddhau i fedydd?

At.—Credinwyr sydd gan lawenhau,
I fedydd d'wr yn ufuddhau,
Er cyfaddefiad i fod Duw
Ag hawl roi deddf i ddynolryw.
Luc 7. 29.

2. Crediniol ufuddhau a wna,
Er ateb pur gydwybod dda;
Nid golchi ffwrdd fydreddi'r cnawd,
Fel dywed rhai mewn ffordd o wawd.
1 Pedr 3. 21.

Gof.—Pa beth y mae bedydd yn ei arwyddo?

At.—1. Y bedydd dw'r yn arwydd sydd,
Gyfeirio llygaid perchen ffydd,
Ar drefn gras i olchi bai,
Sef aberth Crist, i'n llwyr lanhau.
Act. 22. 16.

2. Mae bedydd dw'r fel arwydd gwych,
I berchen ffydd y mae fel drych,
Cyff'lybiaeth o farwolaeth Crist,
Fu ar y groes yn eithaf trist.
Rhuf. 6. 5.

3. I'r rhai crediniol arwydd yw
O'u hundeb da a Christ eu Duw,
Ac o'u cymundeb hwy ag ef
Sydd heddyw fry ar orsedd nef.
Col. 2. 12.

4. Y bedydd dw'r arwyddo mae,
Modd dylai'r bedyddiedig rai
I farw i bechod a phob chwant,
A byw i Dduw fel ffyddlon blant.
Rhuf. 6. 4.

5. Mae bedydd yn arwyddocau
Fod adgyfodiad yn ddiau,
O! syndod y fath bethau sydd
Mewn bedydd dw'r i berchen ffydd.
1 Cor. 15. 29.

Gof.—Pa annogaethau sydd i arddel bedydd yn ol gair Duw yn ngwyneb cymmaint o wrthwynebiadau?

At.—1. Esiampl Iesu Grist ei hun,
Annogaeth gref yw i bob un
Sy'n arddel Crist, er gwawd a stwr,
I ufuddhau i fedydd dw'r.
Math. 3. 13—15.

2. Gorchymyn Crist cyn esgyn fry
Sydd yn annogaeth gref i ni,
I ufuddhau i'r ordinhad
'Nol geiriau Duw, nid trefn gwlad.
Marc 16. 15, 16.

3. Drachefn, er anogaeth gref,
Addewid werthfawr roddodd ef,
Fod gyda'r gwaith hyd ddiwedd byd
O ufuddhau i'w eiriau gyd.
Math. 28. 19, 20.

PHILOTHEOROS.

*Cyfl. J. J., Centreville.*

---

## PRYDDEST-AWDL AR LONG-DDRYLLIAD DYNOLIAETH.

GAN COLUMBUS. MINERSVILLE.

[Parhad o dudal. 89.]

*Y Cynghor yn y Nef—Y Gynghorfa Santaidd yn methu cael allan gynllun i adferyd dyn—Trugaredd yn eiriol—Y Mab o'i wirfodd yn ymrwymo—Angel yn cyhoeddi addewid Eden—Gobaith ryddhad i'r teulu annedwydd—Cyfodiad y lleuad--Dynesiad y boreu—Y seren ddydd—Yr haul—Mab Duw yn gadael y nef—Ei enedigaeth—Yr effeithiau cydfynedol.*

Y newydd trist ymledodd drwy'r wlad fry;
Fel trydan aeth drwy seddau'r teulu cu;
Mab ie'ngaf Duw, etifedd daear gron,
Collodd ei etifeddiaeth dan y don.
Thronau ac arglwyddiaethau tŷ ein Tad
Gynnullwyd 'nawr—cynghorfa ddaeth y wlad;
Hyfedr a chall i drefnu cynllun llawn
I achub teulu dyn, a'u dwyn i'r iawn.
Er pob ryw ddawn, a'r ddyfais oreu gaed,
Methasant oll, nis gwyddent lwybr y gwaed,
Yr orsedd wen, a'i chedyrn hawliau cry';
Cymeriad Ion, deilyngant barch a bri:
Dywedai'r ddeddf, "Anrhydedd rhaid i'm gael,"
Cyfiawnder lefai, "Boddlonir finnau'n hael."
Mae'n rhaid cael Iawn, iawn cyfoll am y bai,
Neu ddamnio dyn yn yr uffernol ffau:
Nis gwyddom 'nawr am lwybr cyfiawnhad,
I gadw dyn, a barn fod ar ei thra'd.
Daw'r orsedd lawr,—ei seliau cadarn cry'
Yw cywir farn, cyfiawnder tani sy'.
Pan drodd ein cydraddolion,* meib y wawr,
Mewn blin wrthryfel yn y nefoedd fawr,
Chwyrndafiwyd hwynt dros gaerau gwynfa gu,
Cadwynau trag'wyddol mewn t'wyllwch du,
Fydd mwy eu rhan, mewn eirias—tonau tân;
Diafliaid ynt, gelynion pob peth glân.
Pa fodd â dyn gwneir amgen ar y llawr,
I gospi drwg cyneuwyd Tophet fawr;

---

* Compeers.

Ar hyn trugaredd fwyn eiriolai'n llaith,
O arbed euog ddyn!—penigamp waith—
Duw cariad hael, doethineb yr un modd
A welir yn ei waith, a'i drefn ar g'odd;
Rhaid dileu hyn wrth gospi teulu dyn--
O arbed hwynt, er mewn dy enw dy hun.
Ar hyn y Mab o'i wirfodd ddaeth i'r ma's,
Af yn eu lle, gwas'naethaf megys gwas,
Mi ro'f i'r ddeddf fawrhad, anrhydedd llawn,
Cymeriad Nhad a wnaf yn ddysglaer iawn;
Boddlonrwydd rof i gledd cyfiawnder llym,
A'r orsedd wen seiriana yn ei grym.
Mi rof fy hun yn aberth ar y groes,
Gwnaf farw'n lon tan felldith angeu loes;
Cymeraf gorff, hâd Ab'ram, natur dyn,
I gospi yn y cnawd hyll bechod blin;
Fy mywyd pur a roddaf yn eu lle,
Iawn mawr ei rin i ymfoddloni r ne';
Pechabêrth âf, a bwch diangol byw,
Er gwneuthur cymmod llawn rhwng dyn a Duw,
Ymrwymo 'rwyf yn awr trwy lw dilith
I roi boddlonrwydd têg i'r ddeddf am byth.
Mae cyfraith nef o fewn fy nghalon lân,
Mi barchaf hon drwy stormydd dwr a thân;
Argraffaf ddwyfol werth ar f'aberth hedd,
Duw yn y cnawd yn ufuddhau hyd fedd.
Cyfiawnder pur, anhyblyg wyt i'r gwan,
A' 'n feichiau 'nawr, 'rho'm mywyd ar eu rhan;
Ar hyn cyfammod newydd wnawd yn rhad,
Un cadarn iawn, i'w gadarnhau trwy wa'd.
Gwaed mawr ei rin, gwaed priod anwyl Duw,
Nid wyn na theirw, gwaed mwy gwerthfawr yw.
Danfonwyd 'nawr y genhad nefol gu,
A newydd da i'r teulu yn y lli'.
Ysigo pen y sarff wnai had y wraig,
A dwyn y llong o'r helbul ar y graig;
Ar hyn tywynodd gwawr dros gaer y nen;
Gwawr seren ddydd a gobaith drwy y llen.
Fe saethodd gwawr o entrych las y ne',
A gwaredigaeth lwyr a ddaeth i'r lle.
Estynwyd einioes dyn—e oedwyd barn,
Cyhoeddwyd iechydwriaeth yn mhob darn
O'r drefn ryfedd gun ddyfeisiodd Duw
I gadw dyn, a chodi'r marw'n fyw.
I'r teulu tlawd yn nghroth y noson erch
Seiniarai gobaith 'nawr—ar aden serch
Ehedai'r meddwl fry drwy'r pelydr glas,
Addewid had y wraig. O olud gras!
Gwnai hyn y dychrynadwy d'wyllwch du
Yn llawer llai dychrynllyd nag y bu.
Addewid ar addewid rho'wd yn dêr,
A goleu mwy drwy gyfrwng y twr sêr
Y lleuad feingron godai hanner nos,
Ariann'r nefol lu wnai'r huan dlos.
Ei goleu claer—benthycol oleu haul,
Gyhoeddai fry oleuni Adda'r ail.
Y cysgod llwyd a welid yn ei gwawl
Ddynodai foreu gwell——hoff destun mawl.
Arwyddion gaw'd fod amser gwell i dd'od,
A dysgwyl mawr am godiad haul yn bod;
Sef haul cyfiawnder pur——goleuni'r byd,
A llewyrch llad, o'r nefoedd, i ni gyd.
Pleiades 'nawr siriolent uwch y lli'
Plygeiniol gân—eu cydgerdd oddifry,
A'r seren ddydd gyfodai draw yn mhell,
Yn dweyd fod gwawr ar ddod, a gobaith gwell
I deulu'r dd'ar; bywyd fwyniant ar y llawr,
A goleu llon haul y cyfiawnder mawr.
Ryw ragredegydd hon o doriad gwawr,
Parchenog fydd a wel y dydd yn awr.

O'r maes e gilia hen gysgodau'r nos,
A natur oll a wisga'i haddurn dlos.
Ar foreu teg, cyflawnder amser Duw,
Gwnawd par'toadau yn y nefoedd wiw,
I adfer braint, colledig freiniau dyn,
A'i ddwyn i gymmod, trwy ras Tri yn un.
Diosgai Mab ei ddwyfol wisg i'r gwaith;
Mewn cnawd rhaid gwaredu dyn o'r dyfnder llaith.
Ei wisg fel Duw ddiosgodd cyn y cryd,
O'r neilldu taflodd hon, gwas'naethodd yn y byd;
Golygfa syn, llesmeiriol oiwg gawd,
Wrth wel'd etifedd nef yn gwisgo cnawd;
Gadawodd fonwes Duw, a gosgordd bur
O engyl nef——i dlodi daeth a chur,—
Dan wraidd tylodi aeth——hyd angeu'r groes
Yn ufudd bu, d oddefodd farwol loes.
Ar foroedd cariad llawn, môr cariad cry,
Yr hwyliodd ef——anturiaeth Duw oedd hi;
Ei hwyliau main i'r gwynt a ledai 'nawr,
I chwilio am golledig deulu'r llawr!
'Does dim a'i dawr o'i rhedfa ar y dw'r,
Ei amcan hael yw bod yn gadarn dŵr,
A nodd'a deg i bawb o'i frodyr fydd.
I'w hachub daeth, a dwyn y caeth yn rhydd.
Ac ar ei waith yn dyblu penrhyn gwg,
Pyrth Sinai fawr, yn nghanol tân a mwg.
Meib Anwn boeth a dremient draw i'r mor,
"Ai'n hachub ni mae llong waredol Ior
Yn hwylio draw ar foroedd llydain gras,
A'n dwyn yn rhydd o'r carchar du i ma's?"
Dynesu wnai at oror uffern fawr,
A'r diawl petruso fu am fynud awr,
Nes gwel'd yr hwyl yn hwylio yn y gwynt,
At Israel draw yr hwyliai yn ei phwynt.
Tra'r praidd yn aros ar y llethroedd ma's,
Ymborthi wnaent ar fryniau Judah fras:
Bugeiliaid llon a'u gwylient yn y nos;
Rhyfeddent fawredd Duw a'i drefn dlos.
Y noson hon daeth llong waredol Duw,
Yn Methl'em dre' y glaniodd llong ein Llyw,
'Nol hanes hen, a chyfrif Daniel wiw,
Y glaniodd hi, 'nol arfaeth foreu Duw.
Ar diriad hon, angelion ganent 'nawr,
Uwch Bethl'em wael, cerddoriaeth nefol wawr;
Gogoniant yn y goruchafion ga,
Ein Duw——i deulu dyn ewyllys da.
Cydlawenhau â'r côr mae plant y llawr,
Hawddamor i'ch yw iaith y nef yn awr,
Fe aned Ceidwad cu, Gwaredwr cain,
Yr Iesu mad fu dan y goron ddrain.
Pan anwyd ef, fe welwyd seren syw,
A'r doethion draw arweiniwyd at eu Duw.
Dangosai hon waedoliaeth Brenin nef——
Uchelaf radd——addoliad haeddai ef.
Angelion Duw fu yn goleuo'r* twyn
A chanu cerdd ei enedigaeth fwyn.

Da yw'r newydd, ganwyd Ceidwad
I'r amddifaid is y nef;
Ceidwad hollol, un rhinweddol
A gwaredol ydyw ef.
Ynddo'r unwyd nef a daear,
Mewn llawenydd cwrddant nawr,
A thramwyfa geir drwy gyfrwng
Iesu Grist o'r nef i'r llawr.

[I'w barhau.]

Os yw anwybodaeth yn gysur, ffolineb yw bod yn ddoeth.

* Illumination.

## CYFARFOD YN ACHOS COFGOLOFN WASHINGTON.

Cynnaliwyd Cyfarfod lluosog a brwdfrydig o ddinasyddion Cymreig swydd Schuylkill, Pa., nos Fercher, y 9fed o Ebrill, 1851, yn nghapel y Cynnulleidfaollon Cymreig, yn Pottsville, er cymeryd dan sylw y symudiad presennol o barotoi maen yn mhlith Cymry America i'w osod yn Nghofgolofn Washington, a phenderfynu ar gynllun i weithredu yn yr achos.

Wedi i'r Parch. Mr. Cadwalader, Pittsburg, anerch gorsedd gras, cyfododd Mr. William Rees, ac hysbysodd fod y Cysbwyllawd Darpariadol wedi pennodi Mr. John Jones yn Gadeirydd a W. B. Morgan yn Ysgrifenydd y Cyfarfod, yr hyn a gymeradwywyd yn unfrydol. Dangosodd y Cadeirydd ddyben y Cyfarfod mewn araeth fer; yna galwyd ar y Cysbwyllawd Darpariadol i gyflwyno y Cynnygiadau a farnent yn addas i'r cyfarfod, y rhai a ddarllenwyd yn Gymraeg a Saesnaeg, fel y canlyn—

Yn gymmaint a bod Cofgolofn Genedlaethol yn awr o gylch cael ei chodi yn eisteddle Llywodraeth Weinyddiadol yr Unol Dalaethau, er anrhydedd i Goffadwriaeth y Cadfridog enwog George Washington; ac yn gymmaint a bod cyfraniadau a defnyddiau er ei chwblhau yn cael eu gofyn a'u derbyn oddiwrth bawb cenedlaethau o bob gwlad ac hinsawdd a deimlant yn gyfeillgar i'r amcan; ac yn gymmaint a bod y Cymry, mewn amryw dalaethau o'r Undeb, yn awyddus i gyfranu ryw ychydig er arwyddo eu cymeradwyaeth o'r amcan, ac yn cymhell cydweithrediad eu brodyr trwy y wlad, er cael modd i brynu Maen, yn cynnwys cerfiad priodol i'w osod yn y Golofn soniedig,—am hyny

Penderfynwyd—Ein bod ni, er yn Dramoriaid trwy enedigaeth, yn Americaniaid a Gweriniaid mewn teimlad; ac wedi gwneud gwlad Washington yn dir mabwysiedig i ni; ac yn gwerthfawrogi y Rhyddid a'r Cyfleusderau a ganiateir i ni yma idd eu mwynhau.

Penderfynwyd—Er fod croniclau yr oesau a gwahanol genedlaethau yn gosod allan mewn modd parchus enwau llawer o wladgarwyr enwog, llywodwyr treiddgar, a chadfridogion gwrol—dynion yn llawn gwladgarwch a rhinwedd, y rhai a wnaethant lawer o ddaioni yn achos mawr dynolryw,—eto yn flaenaf a gogoneddusaf o honynt oll y saif enw Washington ar ddalenau hanesyddiaeth; a phan y barnwn yn briodol ac angenrheidiol i'w wlad godi Colofn Goffadwriaethol idd ei anrhydeddu, eto, mwy dymunol yw meddwl fod gorchestion a rhinweddau Washington yn cael eu gwerthfawrogi a'u canmol yn mhob parth o'r ddaear lle mae pleidwyr rhyddid yn bodoli; ac yn mhen oesau dyfodol, bydd ei goffadwriaeth ef—meistr-ysbryd a phrif gynhyrchydd Annibyniaeth Americanaidd yn adfywio meddylian a gwreli breichiau y miloedd a allant o bryd i bryd gymeryd arnynt y gwaith mawr o adnewyddu y byd politicaidd.

Penderfynwyd—Ein bod ni, yn y modd mwyaf llawen ac unol, yn cyduno â'n cyfeillion yn Utica a lleoedd eraill, i gyfranu i drysorfa y gofgolofn, yn ol y cynnygiad a wnawd ganddynt hwy.

Penderfynwyd—Fod Cysbwyllawd i gael eu pennodi, yn gyfansoddedig o bersonau a breswyliant yn Pottsville, i gael eu galw "Y Cysbwyllawd Canolbarthol," a bod awdurdod ganddynt i bennodi casglyddion trwy y swydd a'r ardal i dderbyn cyfraniadau at y Gofgolofn.

Penderfynwyd—Fod y casglyddion oll i ddwyn eu cyfrifon a'r symau a dderbyniant i mewn i'r Cysbwyllawd Canolbarthol yn Pottsville erbyn y Sadwrn olaf yn y mis hwn; ac nad ydym yn barnu yn angenrheidiol i'r casglyddion dderbyn dros 25 cents oddiwrth unrhyw berson unigol.

Penderfynwyd—Fod y Cysbwyllawd Canolbarthol i gael eu hawdurdodi i ddanfon yr arian yn ddioed i'r Cysbwyllawd Cyffredinol i Utica; am yr hyn y maent i ofalu am dderbyn dangosiad digonol.

Ar gynnygiad, eiliad, a chymeradwyaeth unfrydol y cyfarfod, *Penderfynwyd*—Ein bod yn derbyn a mabwysiadu y Blaendraeth a'r Penderfyniadau uchod, a bod John Jones, Wm. B. Morgan, a Richard Edwards, i fod yn Gysbwyllawd Canolbarthol.

Cyfarchwyd y cyfarfod yn Gymraeg gan y Parch. R. R. Williams, Minersville; Richard Edwards, a'r Parch. Wm. J. Jones, Pottsville; a'r Parch. Mr. Cadwalader, o Pittsburg.—Areithiwyd yn Seisnig gan y Meddyg J. T. Nicholas, a G. L. Vliet, Golygydd y *Mining Register*, Pottsville.

John Jones, *Cadeirydd.*
Wm. B. Morgan, *Ysgr.*

---

## Y CYFARFOD YN MINERSVILLE.

Nos Lun, Ebrill 14, bu cyfarfod i'r un perwyl a'r un uchod, yn addoldy yr Annibynwyr Cymreig yn Minersville. Wedi i Mr. R. Edwards ddechreu y cwrdd trwy weddi, dewiswyd y Dr. J. T. Nicholas yn Llywydd, a Mr. John Price, yn Ysgrifenydd.

Y Llywydd a amlygodd ddyben ac amcan

y cyfarfod, yna darllenwyd hanes gweithrediadau y cyfarfod yn Pottsville, a phenderfynwyd yn unfrydol i gydweithredu â'r cynllun a fabwysiadwyd yno. Neillduwyd casglyddion i dderbyn cyfraniadau ein cenedl trwy y lle a'r ardal, a chyfarwyddwyd hwynt i ddwyn eu mynegiad i mewn yn brydlawn i'r Cysbwyllawd Canolbarthol.

Traddodwyd areithiau ar yr amgylchiad yn Gymreig gan Mr. L. Jones, Minersville; Rd. Edwards, a'r Parch. Wm. Morgan, Pottsville. Areithiwyd yn Seisnig gan Dr. Nicholas. Difyrwyd y cyfarfod gan sain beraidd gwahanol offer cerdd a chwareuid yn fedrus; ac yn y diwedd, ymunwyd â hwy gan beroriaeth y cor,-er mawr foddlonrwydd y gwyddfodolion.

☞ Y mae yn dda genym ddeall fod cymmaint o undeb a chydweithrediad yn yr achos hwn trwy y swydd, er fod amgylchiadau yn anffafriol. Nid ydym yn bresennol yn gwybod pa swm a gasglwyd, ond diau y cawn wybod hyny mewn amser priodol.

Bwriedir cyhoeddi y symau a dderbynir o bob lle mor fuan ag y byddo modd.

## CYFARFOD CENEDLAETHOL ARALL YN SCRANTONIA.

Mr. Golygydd,—Cynnaliwyd cyfarfod yn y lle hwn Mawrth 21ain, 1851, yn nghapel y Trefnyddion Calfinaidd, i wneud sylw ar anerchiad y Pwyllgor Canolbarthol yn Utica, mewn perthynas i anfon maen i gynrychioli y Cymry i'w osod yn y gofgolofn genedlaethol ag sydd yn awr yn cael ei hadeiladu yn mhrifddinas y weriniaeth i'r enwog a'r anfarwol George Washington. Daeth llawer o Gymry ynghyd i'r perwyl. Ar gynnygiad John R. Williams, dewiswyd John F. Davies yn unfrydol i fod yn Gadeirydd, Richard Thomas yn Ysgrifenydd, a John R. Williams yn Drysorydd.

Yna dewiswyd y personau canlynol i areithio ar yr achlysur, Henry Christmas, Thos. Cheshire, John R. Williams, a James Owens. Cawsom gyfarfod llewyrchus.

Ar ddiwedd y cyfarfod, penderfynwyd cael cyfarfod arall. Yn ganlynol i hyny, cynnaliwyd cyfarfod arall Mawrth 31ain, 1851, yn yr un lle. Yna dewiswyd yr un swyddogion ag o'r blaen, pan gawsom araeth ddyddorawl gan James Owens ar yr achos, ac araeth ddirwestol gan yr un.

Ar gynnygiad un o'r gwyddfodolion, cynnygwyd a chariwyd, fod i'r Ysgrifenydd anfon hanes y cyfarfodydd hyn i'r tri chyhoeddiad Cymreig ac i'r Drych. Wedi hyny penderfynwyd anfon y swm a gasglwyd, sef $12, i'r Cysbwyllawd yn Utica, i ofal y Parch. Ev. Griffith.

Richard Thomas, *Ysgrifenydd.*
John R. Williams, *Trysorydd.*

## COFIANT JOHN ROWE, BELLMONT,
*Swydd Schuylkill, Pa.*

Nid ydym yn gwybod ond ychydig o hanes ein brawd ymadawedig yn y rhan gyntaf o'i oes, ond yn unig iddo gael ei eni yn ardal Llanidloes, yn swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru. Symudodd oddi yma pan yn ieuangc i gymmydogaeth Nantyglo, swydd Fynwy, lle y mae yn debygol iddo aros y rhan fwyaf o'i amser, hyd nes iddo ddyfod drosodd i'r Unol Dalaethau tua phedair ar bumtheg o flynyddoedd yn ol. Wedi cyrhaedd y wlad hon cymerodd wibdaith trwy rai o'r gwahanol dalaethau, gan ddysgwyl y mae yn debygol, fel llawer eraill, am y man gwyn i breswylio arno. Daeth ar ei dro i ardal Pottsville, lle y darfu iddo ef ymsefydlu hyd derfyn ei oes. Fel dyn yr oedd yn hynaws ac yn garedig, ac fel priod a thad yn dyner a gofalus am ei deulu.

Gyda golwg ar ei gyssylltiad â chrefydd, y mae yn ymddangos iddo uno mewn aelodiaeth â'r eglwys Fedyddiedig yn Nantyglo. Bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd yn Nghrist gan y Parch. Christmas Evans. Yn fuan ar ol ei ddyfodiad yma, a chael ei deulu ato, ymunodd ag eglwys y Bedyddwyr yn y lle uchod, lle y bu yn hynod o ffyddlon yn ei ymdrechiadau yn ei gyssylltiad â chysur, a llwyddiant a gogoniant achos ein Gwaredwr: ac fel y mae y Cristionogion yn rhagori mewn rhyw rinweddau neillduol y naill ar y llall, un o'r nodweddiadau mwyaf neillduol ag oedd yn llewyrchu yn ei gymeriad ef ydoedd ei haelioni a'i barodrwydd i gynorthwyo yr achos. Yr oedd yn feddiannol ar barodrwydd meddwl bob amser i roddi at unrhyw achos teilwng yn ol ei allu. Yr oedd ei dŷ hefyd yn agored bob amser i genhadau yr Arglwydd o ba le bynag y deuent, a chyflawnder o bethau cymhwysiadol i'w diwallu a'u lloni. Yr oedd ef, a'i briod, a'i blant, yn gweinyddu gyda pharodrwydd meddwl, yr hyn a ddygai yr ymwelydd yn fuan i deimlo yn esmwyth, gan y deallai nad oedd ei ymweliad yn faich iddynt. Bu yn cydweithredu mewn undeb a brawdgarwch â'r brawd Benjamin Evans ac eraill am flynyddoedd yn Bellmont, ac yr ydym yn hyderu na bu ei lafur yn ofer yn yr Arglwydd. Ond y maent wedi eu cymeryd eill dau oddiwrth eu llafur,

fel y credwn, i fwynhau y wobr addawedig i'r rhai sydd yn caru Duw. Yr ydym yn gweled eu heisiau, ac yn teimlo ein colled, ond yr ydym yn tawelu dan yr ystyriaeth fod ein colled ni yn elw iddynt hwy. Cafodd y brawd Rowe gystudd hirfaith, ond ymdrechodd hyd â allai, er fod y *breast* yn gyfyng a'r anadl yn fyr, i fyned i gyfarfod â'i frodyr i dŷ yr Arglwydd. Ond y mae ei holl gystudd drosodd. Y mae y corff cystuddiedig wedi ei dynu lawr i'r bedd—

> "Lle cysga felus hun, heb deimlo gwyn na gwae,
> Nes del archangel Duw i'w ddeffro yn y clai."

Cafodd y fraint o weled ei blant i gyd ond un yn uno ag achos yr Arglwydd Iesu Grist. Bydded i'w weddw a'i blant i fod yn wrthddrychau o sylw Duw mewn modd grasol yma, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw. Claddwyd ei rau farwol, fel y nodwyd yn barod yn y Seren, yn nghladdfa y Bedyddwyr yn Pottsville.

*Pottsville.* W. MORGAN.

---

## CYFARFOD TRIMISOL UTICA.

Cynnaliwyd y cyfarfod uchod ar yr 2il a'r 3ydd o Ebrill. Treuliwyd prydnawn dydd Mercher mewn ymddiddan crefyddol. Neillduwyd y gweinidog, y Parch. D. Jenkins, yn gadeirydd. Anerchodd y brodyr y cyfarfod ar wahanol byngciau ymarferol crefydd. Anogasant yr eglwysi i ymestyn yn mlaen at egwyddorion crefydd, ac ymdrechu ei dwyn i ymarferiad cyffredinol yn y byd. Dangoswyd hefyd fod y cylch ag y mae yr eglwysi a'r cyfarfod chwarterol wedi bod yn troi ynddo yn yr amser a aeth heibio, yn rhy gyfyng—fod eisiau cymeryd golwg mwy helaeth mewn cyfatfodydd o'r natur hyn ar amgylchiadau crefydd—y dylai y brodyr ddyfod yngbyd gyda bwriad i gynllunio a threfnu mesurau er gwneud lles i'r eglwysi, ac i'r byd yn gyffredinol. Mae pechodau cyhoeddus yn ymgryfhau ac yn lledaenu yn ein gwlad ac yn ein hardaloedd. Dylai cyfarfodydd fel hyn gymeryd y pethau yma dan eu sylw, ac esgor ar y mesurau goreu a mwyaf doeth i ddarostwng annuwioldeb yn y byd, a dwyn y gwirionedd i *gontact* â llygredigaethau yr oes, nes ag y byddentyn gwywo dan ei ddylanwadau.

Penderfynwyd—Bod y Cyfarfod Trimisol nesaf yn cael ei gynnal yn Steuben, Gorph. yr 2il a'r 3ydd.

Dechreuwyd y cyfarfodydd cyhoeddus am chwech yn yr hwyr. Gweddiodd A. Harris. Pregethodd y brodyr Morris Williams, South Trenton, oddiwrth Heb. 11. 6; "Ar Ffydd Noah;" a James Harris, Marcy, oddiwrth Salm 77. 10; "Ffydd yn buddugoliaethu anghrediniaeth yn y credadyn."

Dranoeth, am ddeg, dechreuwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parch. James Harris; a phregethodd y brodyr Alfred Harris, Marcy, oddiwrth Actau 26. 28, "Ar y cymeriad Cristionogol;" a Wm. Jones, Remsen, oddiwrth Gal. 5. 6; "Yr hyn nad yw, a'r hyn sydd o werth a phwysigrwydd mewn crefydd."

Am ddau, agorwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parch. R. Littler, South Trenton; yna pregethodd y brodyr Morris Williams, South Trenton, oddiwrth ———, "Ar y cysylltiad sydd rhwng dedwyddwch a maddeuant pechod;" a D. J. Williams, Steuben; oddiwrth Gal. 6. 14; "Croes Crist."

Dechreuwyd y cyfarfod hwyrol am chwech. Gweddiodd Mr. Owen Parry, Remsen; a phregethodd y brodyr A. Harris, oddiwrth Hos. 4. 18; "Ar waith yr Arglwydd yn rhoddi pechadur anedifeiriol i fynu yn ei gyndynrwydd;" a D. J. Williams, oddiwrth 1 Pedr 1. 9; "Ar iachawdwriaeth yr enaid."

Hyderwn fod y gwirioneddau pwysig a gafodd eu traddodi yn y cyfarfod uchod wedi gwneud argraffiadau dwfn ar feddyliau y rhai oedd yn eu gwrando. Ein gweddi yw ar iddynt fod dan fendith yr Arglwydd er dwyn allan gyflawnder o ffrwythau crefyddol a gweithredoedd da.

*Marcy.* ALFRED HARRIS, *Ysg.*

---

## RHELFFORDD PANAMA.

Mae Rheilffordd Panama wedi ei graddio yn gyflawn o Novy Bay, ger Chagres i Gatoon, ac yn barod i'r cledrau. Bwriedir ei chwblhau hyd y man hwnw erbyn Gorph. 1, 1851; i Gorgonia, erbyn Ionawr 1, 1852; ac i Panama yn 1853. Gosodir peiriannau ar y ffordd yn y mis presennol (Mai). Y mae yn awr saith cant a hanner o ddynion yn gweithio yno, ac y mae dau cant a hanner i gael eu hychwanegu atynt yn fuan.

---

## Y FIBL GYMDEITHAS.

Mae yn dda genym ddeall fod amryw o'r eglwysi Cymreig yn Wisconsin ac Ohio mor ymdrechol a ffyddlon yn eu gweithrediadau a'u cyfraniadau at y Gymdeithas Feiblaidd. Yn mhlith eraill, mae cymdeithas Racine a'i chyffiniau wedi gwneud yn ganmoladwy yn eu cyfarfod blynyddol diweddaf. Hyderwn y gwna yr eglwysi yn gyffredinol gymeryd y mater at eu hystyriaeth. Gwyddom fod eglwysi Cymreig Pennsylvania yn mhell yn ol o fod yn gwneud eu dyledswydd.

## CYMDEITHAS HAELIONUS DEWI SANT,

*Yn Nghaerefrog-Newydd.*

Da genym weled oddiwrth gyfrifon Ysgrifenydd y Gymdeithas anrhydeddus hon, (Mr. Thomas R. Jones) fod ei thrysorfa yn parhau i gynyddu, er ei bod yn cyfranu yn hael a diatal mewn amgylchiadau a alwant ei sylw. Rhoddwn y cyfrif a ganlyn o'r Drych:

| | |
|---|---|
| Mawrth 1, 1850. y swm yn y drysorfa sefydledig oedd - | $725 50 |
| " 18, " Derbyniwyd yn anrheg oddiwrth y *Cambrian Ball Committee*, . - - | 104 00 |
| Mai 16, " Derbyniwyd yn anrheg oddiwrth y Cysbwyllawd a arolygai y gylchwyl ar Wyl Ddewi, | 70 53 |
| Medi 16, Cydroddion gan wyth o'r aeodau, $5 yr un—$40. | |
| " " At yr hyn yr ychwanegwyd, gan y Llywydd, Mr. Miles, $40, | 80 00 |
| " " Anrheg oddiwrth y diweddar Gymdeithas Gymreig, - | 146 00 |
| Rhag. 16, Anrheg oddiwrth y *Cambrian Ball Committee*, - | 205 00 |
| Mawrth 1, 1851, Cydroddion gan amryw foneddigion yn y wledd, | 395 00 |
| Y taliadau gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn, - - - - | 55 75 |
| | $1782 42 |

Swm yr ychwanegiad at y Drysorfa Sefydledig yn y flwyddyn ddiweddaf, yn cynnwys y derbyniadau y 1af o Fawrth, 1841, $92 04.

Mae $1200 00 o arian y Gymdeithas allan ar ysgrif-rwym a gwystl mewn modd dyogel, ac yn elwa llog blynyddol o $7 y cant. Mae $400 00 mewn ariandy cynilo, a'r gweddill yn llaw y trysorydd.

Cyfranodd y Gymdeithas mewn elusen yn ystod y flwyddyn a aeth heibio $150.

Mae gan y Gymdeithas sail i gredu y bydd cynnwysiad ei thrysorfa sefydlog wedi cyrhaedd y swm o $2,000 cyn pen blwyddyn eto, yr hyn a ddug i mewn yn llog, swm cynorthwyol iawn i'r drysorfa gyfranadwy.

## ADDOLDY Y BEDYDDWYR CYMREIG YN NGHAEREFROG-NEWYDD.

Yr ydoedd ein haddoldy mewn gwir angen am ei lanhau a'i *baintio*, ond nid oeddem yn gwybod pa fodd i fyned trwy y draul: ac yr oeddem yn benderfynol nas gallem wneud hyny oni chaem gan y chwiorydd gymeryd at y gorchwyl; a chan hyny, roddwyd cymhelliad iddynt mewn cyfarfod cyhoeddus i gymeryd y mater dan sylw; yr hyn beth a wnaethant, a phenderfynasant yn unfrydol i gydsynio, ac felly aethant ati yn egniol ac mewn difrif. Ac wrth weled eu llwyddiant ac y buasai y casgliad yn fwy na'r draul, penderfynasom i gael y *gas* i mewn yr un pryd, yr hyn oedd arnom fawr angen am dano; ac hefyd i gael *carpets* dros y llawr, a gorchuddio yr areithfa â melfet coch, a gosod *design* tu cefn i hyny. Trwy ymdrech Elizabeth Richards, merch Mr. C. Richards, (tua 13eg oed,) cawsom *gas-burners* hardd neillduol: hefyd, trwy ymdrech Catharine Davies, sef merch y Parch. T. Ll. Davies, (tua yr un oedran,) cawsom awrlais hardd i'w osod ar wyneb yr oriel (*gallery*). Aeth y draul yn $250, heblaw y *gasburners* a'r awrlais; ond hyn sydd yn ein lloni, pan ailagorwyd ef ar y Sabboth cyntaf yn Ebrill, yr oedd y draul i gyd wedi ei thalu. Beth na wna y rhyw fenywaidd os amcanant tuag ato?

Y mae genym yn bresennol addoldy mor hardded yn ol ei faintioli ag un a fedd y Bedyddwyr yn y ddinas fawr hon, ac yn debygol yn un rhan o'r Unol Dalaethau. Byddai yn werth i Gymro ddyfod dri chant o filldiroedd er mwyn gweled addoldy mor hardd gan ei genedl mewn gwlad estronol. AELOD.

LLADRAD.—Dydd Sadwrn, Ebrill 5, rhwng 1 a 3 o'r gloch yn y prydnawn, torwyd i dŷ Mrs. Davies, 166 Heol Madison, Caerefrog-Newydd, ac aeth ef neu hwy i fynu i'r lloft, i ystafelloedd y byrddwyr, lle yr oedd eu tryngciau, &c. Torasant amryw gloeau, a chymerasant ymaith y cwbl a allent. Cafodd Mr. Robert Morris ei ymddifadu o'r hyn oll a feddai ond y dillad oedd am dano ar y pryd, oddieithr ryw ychydig o bethau a adawsant yn ngwaelod ei drwnc. Mae ei golled yn cynnwys swm o arian, ac ysgrif-hawl am dir (*land warrant*) yn Wisconsin, ac un nodyn $500, ac un arall $50, a llawer o ddillad gwerthfawr. Cymerasant *suit* o ddillad o drwngc Mr. Henry Parry, a swm o arian, &c. Tybir iddynt gymeryd yr ysbail ymaith yn un o ganfasau y gwelyau. Y mae yn beth tra rhyfedd fod y lledrad digywilydd hyn wedi ei wneud ganol dydd, pan oedd y teulu i mewn, ac ni chlywyd unrhyw stwr, nac un arwydd o'u hymweliad, nes myned i fynu, a gweled ol eu dwylaw. Nid oes unrhyw wybodaeth gan neb pwy allent fod, ond diau eu bod yn adnabyddus â'r gwaith.

CAEREFROG-NEWYDD.—Traddodwyd darlith ragorol gan ein hanwyl weinidog, y Parch. Thos. Ll. Davies, yn gosod allan mewn modd goleu a synwyrlawn yr ynfydrwydd o fyned a chwilio am ddull na deiliaid bedydd i'r Hen Destament, am nad oedd y naill na'r llall o honynt yn bodoli y pryd hwnw. Ac wedi gorphen y ddarlith bedyddiodd ddau ar broffes o'u ffydd yn Mab Duw mewn modd tra gweddus, yn ngwydd cynnulleidfa luosog o edrychwyr. Llwyddiant i'r gwaith dafyned yn mlaen. THOMAS JONES.

## POBLOGAETH YR UNOL DALAETHAU.

Y cyfrif canlynol a gymerwyd o'r *National Intelligencer*, yn cynnwys poblogaeth yr Unol Dalaethau, mor belled ag y gellir cael allan yn bresennol oddiwrth fynegiadau y *Marshals*. Y daflen a ganlyn a gynnwys rhifedi y bobl rhyddion, y caethion, ynghyd a nifer y cynrychiolwyr o bob talaeth:

| *Talaethau.* | *Pobl rhydd.* | *Caethion.* | *Cyn.* |
|---|---|---|---|
| Maine, | 582,036 | | 6 |
| N. Hampshire, | 318,003 | | 3 |
| Massachusetts, | 894,724 | | 10 |
| Vermont, | 314,322 | | 2 |
| Rhode Island, | 147,549 | | 1 |
| Connecticut, | 370,914 | | 3 |
| New York, | 3,098,818 | | 33 |
| New Jersey, | 489,368 | 52 | 5 |
| Pennsylvania, | 2,341,204 | | 25 |
| Ohio, | 1,681,940 | | 21 |
| Indiana, | 990,258 | | 10 |
| Wisconsin, | 305,596 | | 3 |
| Michigan, | 397,576 | | 4 |
| Illiois, | 850,000 | | 9 |
| Iowa, | 102.000 | | 2 |
| California, | 200,000 | | 2 |
| Maryland, | 492,661 | 90,355 | 5 |
| Virginia, | 940,000 | 460,000 | 13 |
| North Carolina, | 575,000 | 288,000 | 9 |
| South Carolina, | 200,000 | 350,000 | 5 |
| Georgia, | 556,000 | 365,000 | 8 |
| Florida, | 45,000 | 22,000 | 1 |
| Alabama, | 440,000 | 330,000 | 6 |
| Mississippi, | 300,000 | 320,000 | 5 |
| Louisiana, | 250,000 | 200,000 | 3 |
| Texas, | 120,000 | 50,000 | 1 |
| Arkansas, | 150,000 | 45,000 | 1 |
| Missouri, | 590,000 | 91,000 | 6 |
| Tennesee, | 800,000 | 250,000 | 18 |
| Kentucky, | 782,000 | 211,000 | 9 |
| Delaware, | 90,277 | 2,322 | 1 |
| | | | 222 |

*Cyfanrhif y Boblogaeth.*

| | *Rhydd.* | *Caeth.* |
|---|---|---|
| Talaethau rhydd, | 13,574,797 | |
| Talaethau caeth, | 6,449,938 | 3,075,234 |
| Tiriogaethau a dosbarth'u, | 197,985 | 3,500 |
| | 20,182,720 | 3,78,634 |

## ADFYWIADAU CREFYDDOL.

Mr. Gol.—Diau y bydd yn ddyddorawl genych chwi glywed am dywalltiadau Ysbryd y gras ar gynnulleidfaoedd y saint yn ngwahanol barthau ein gwlad uchelfri. Yr ydych chwi, syr, wedi cyssegru eich bywyd, eich talentau, a'ch holl alluoedd at wasanaeth crefydd a llenyddiaeth; ac y mae arnom rwymau i'ch pleidio yn eich ymdrech glodwiw yn dal i fynu Seren lachar yn yr awyrgylch foesol am gynnifer o flynyddoedd, yn ngwyneb cymmaint o anhawsderau. Y mae genych resymau digonol i ymgalonogi, canys y mae eich Seren yn cynyddu yn ei dysgleirdeb, ac yn pelydru yn fwy tanbeidiol y flwyddyn hon nac erioed o'r blaen, i'm tyb i. Ei hamddiffyniad o Brotestaniaeth sydd berl annraethol mwy ei werth na phris y "Seren" trwy'r flwyddyn, ac yn adlewyrchu anrhydedd annifianedig ar y cyfieithydd parchus a'r golygydd aiddgar.

Anwyl olygydd, yr ydwyf yn hyderu fod cyfnod newydd ar wawrio ar lenyddiaeth a chrefydd. Mae Sion wan, yr hon sydd wedi bod yn ngwaelod tir Assyria, a'r hesg am ei phen, yn sefyll eto ar fynydd Sion; a merched Salem yn hwylio eu telynau, er moli Cadben ein hiechydwriaeth ni. Mae'r awelon pêr o fryniau Caersalem wedi chwythu arnom yn nyffryn y Lackawanna y misoedd sydd wedi myned heibio, ac yr ydym yn hyderu nad yw hyn ond blaenbrawf o dywalltiadau mwy. "O frodyr, gweddiwch drosom ni."

Yn *Carbondale* mae yr eglwys yn myned yn mlaen yn gariadus a llwyddiannus: Mae y Parch. D. E. Bowen wedi bedyddio chwech yma ar broffes o'u ffydd yn Mab Duw; ac y mae eraill yn dywedyd, "Awn gyda chwi, canys clywsom fod Duw yn eich plith."

Yn *Dunmore* y mae hefyd gangen ag sydd yn cael ei dwfrhau dan gawodydd marwol glwy' y dyddiau hyn. Yma y cyfannedda y brodyr parchus W. R. Jones a Thomas Cheshire, y rhai sydd yn llafurio yn y gair a'r athrawiaeth, er adeiladaeth i'r saint a dychweliad pechaduriaid yn y cylchoedd hyn. Bedyddiwyd dau yma gan y Parch. D. E. Bowen, ac y mae dau ymgeisydd eto gerbron y frawdoliaeth, a rhai afradloniaid wedi dychwelyd i dŷ eu Tad.

Yn *Scrantonia* hefyd y mae eglwys ieuangc ag sydd yn profi geirwiredd yr addewid, ys ef, "Byddaf fel y gwlith i Israel, efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megys Libanus." Y mae ffyddlondeb mawr wedi ei ddangos yma gan ychydig frodyr i ddal yr achos i fynu yn nyfnder y nos; ond y maent wedi eu talu ar y ganfed yn barod, trwy weled bod eu gweddiau yn cael eu hateb mewn achubiaeth torf o bechaduriaid; ac

"Nid yw eto ond dechreu gwawrio," &c.

Bedyddiwyd naw yma gan y Parch. D. E. Bowen. Y mae yma hefyd frawd teilwng yn dechreu arfer ei ddawn yn gyhoeddus, sef Lewis Lewis, yr hwn a fedyddiwyd rhai blynyddau yn ol gan y Parch. D. Evans, yn Danville.

Mae y lle hwn yn un o'r lleoedd mwyaf gobeithiol am gynydd yn y dalaeth. Yma y mae y Cymro hyglod John F. Davies, Ysw., yn arolygu y *blast furnaces*, er anrhydedd

iddo ei hun a'i gydwladwyr. Yma hefyd y mae gwaith glo eang yn cael ei agor dan arolygiad ein cydwladwr clodwiw Evan Harris, Ysw. Bydd yma le da i Gymry i ymsefydlu.

Yn *Pittston* hefyd y mae llaw yr Arglwydd yn estynedig. Mae y frawdoliaeth wedi adfywio, gwrthgilwyr wedi eu hadferu, a phechaduriaid wedi eu dwyn o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef. Bedyddiwyd pedwar yma gan y Parch. D. E. Bowen, a dysgwyliwn y bydd ychwaneg i ganlyn Iesu yn yr ordinhad fendigedig hon y Sabboth nesaf (Ebrill 20fed.) Y mae y brawd doniol a duwiol y Parch. E. Edwards, diweddar o Gymru, o gylch sefydlu yn y lle cynyddfawr hwn fel bugail ar braidd Duw. Gobeithio y gwna Duw ei arddel a'i lwyddo, nes y bydd y fechan yn fil, a'r gwael yn genedl gref, yw gwir ddymuniad yr eiddoch,

PAREUTHENTES.

*Lackawanna Valley. Ebrill* 15, 1851.

---

MALLDOD Y CLORON.—Y mae cryn chwilio yn y dyddiau hyn i natur a'r achos o'r haint sydd yn y cloron. Cynnygodd Llywodraethfa Massachusetts y swm o $10,000 am amlygiad o ryw feddyginiaeth ymarferol rhagddo. Y mae y feddyginiaeth i sefyll prawf llwyddiannus am bum' mlynedd. Y mae un John D. Snyder, Franklin, swydd Bergen, Jersey Newydd, wedi gwneud cais am y wobr, gan y cymer arno ddarganfod y feddyginiaeth,—y cynllun yw gwasgaru llonaid llaw o lydw o gwmpas pob un ar ymddangosiad yr haint.

---

## GENEDIGAETHAU.

Yn Silver Creek, Pa., Ebrill 1, Mrs. Platt, priod Mr. Richard Platt, ar ferch. Gelwir ei henw hi Mary.

Yn Bwlch-yr-arth, Pa., Ebrill 10fed, 1851, Ann, priod Mr. Isaac Valentine, ar ferch. Gelwir hi Mary.

---

## PRIODWYD—

Mawrth 20, yn nhŷ Mr. Robert R. Roberts, ger Remsen, gan y Parch. William Jones, Mr. Humphrey G. Williams, a Miss Margaret Hughes, y ddau o blwyf Remsen.

Yn Pottsville, Ebrill 12, gan y Parch. Wm. Morgan, Mr. Thos Jones, a Miss Ann Joseph, y ddau o Pottsville.

Yn ei dŷ ei hun, yn Steuben, gan y Parch. D. J. Williams, Chwefror 20, 1851, Mr. Evan M. Davies, nai i'r Parch. Evan Davies, (Eta Delta,) Newmarket, Cymru, a Miss Ellen Williams, merch Mr. Edward Williams, Fairfield, Remsen.

Yn Minersville, Mawrth 12, gan y Parch. R. R. Williams, Mr. Edward R. Evans, a Miss Martha Davies, y ddau o Minersville.

Wele amgeledd wiwlon—hoewfwynaidd
I fynwes Ned Ifan,
Hwn a eill o hyn allan—iawn fwynhau
Hapus adegau a dyddiau diddan.

Nid ymwrthod â Martha—y fydd hwn,
O'i fodd ef a'i cara;
Pob rhyw wiwles ddynes dda,
Wâr addwyn a'i gorhaedda.

Blinderau, diau deuant—i'w cyrhaedd,
Ond cariad a'u lleddfant;
Dwyn y iau yn dyn a wnant,
O dani y cydunant. YR ADERYN.

---

Pob llwyddiant a mwyniant dymunol
I'r pâr priodasol eu dau;
A chymhorth y Nef i gyduno
A wnaf ei ddymuno'n ddiau.

Cynyrchion y stad briodasol
O ddwyfol osodiad ein Duw,
I'ch dilyn tra yn y byd yma,
A myn'd i'w orphwysfa i fyw.

*Gynt o St. Clair.* Y GWALCH.

---

## MARWOLAETHAU.

Rhagfyr 14eg, 1850, yn Minersville, yn 80 mlwydd oed, Mrs. Jane Price, gynt o'r Argoed, swydd Fynwy, Deheudir Cymru. Daearwyd ei rhan farwol yn nghladdfa y Bedyddwyr yn Pottsville. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. W. Morgan.

Yr oedd Mrs. P. yn dra adnabyddus i amryw o drigolion Mynwy a Morganwg, gan fod ei masnach yn galw am hyny; ac yr oedd ei chymeriad yn ddifrycheulyd mewn gonestrwydd yn mhlith pob gradd a sefyllfa.

Mawrth 30, 1351, ger Pittsburg, yn agos i 57 oed, Mr. Thomas Tomkins, genedigol o'r Cefnmawr, plwyf Ruabon, G. C. Bu fy anwyl frawd yn aelod ffyddlawn gyda y Bedyddwyr yn y lle uchod am lawer o flynyddoedd. Gweinyddwyd ar achlysur y gladdedigaeth wrth y tŷ gan y Parch. Samuel Williams, gweinidog yr eglwys y perthynai ein brawd iddi, yn dra chynnwysfawr yn yr iaith Saesnig; a'r Parch. T. Edwards, wrth y bedd, yn Gymraeg.

Byddai yn dda genyf fi ac amryw eraill weled cofiant iddo yn y Seren, gan ryw un a wyr ei hanes yn well na myfi.

Ffarwel, gyfaill mwyn a ffyddlon,
Diwyd, tirion tra'r y llawr;
Gwnest fy mlaenu rai mynudau
Byrion i'r bytholfyd mawr.
Nid yw einioes ar y goreu
Ond fel dyrnfydd, byr a gwan;
O am 'nabod Iesu n Gyfaill,
Saif yn gadarn ar fy rhan. AB GWILYM.

Yn Bellmont, swydd Schuylkill, Pa., yn 37 mlwydd oed, y brawd Jacob Rosser, gynt o Lanelli, swydd Frycheiniog. Derbyniasom gofiant iddo pan yn agos a myned i'r wasg. Ymddengys yn y nesaf.

## MARWOLAETH Y PARCH. MATHIAS PHILLIPS.

Mewn llythyr oddiwrth y Parch. Rees Davies, cawsom hanes marwolaeth y gweinidog uchod. Aeth i California i chwilio am aur yn Ebrill, 1849; ac o herwydd y lludded, y drafferth, a'r helbul cydfynedol â'r daith, cymerwyd ef yn glaf yn mis Tachwedd, a bu farw ar yr 2il o Ragfyr yn yr un flwyddyn. Gadawodd weddw a phedwar o blant i alaru eu colled ar ei ol.

Diau y byddai ychydig o hanes ei fywyd yn dra derbyniol gan amryw yn y wlad hon a Chymru, ac os gall neb o'n gohebwyr ein cynysgaeddu â choffant iddo, bydd yn dda genym ei gyhoeddi. Deallwn iddo gael ei eni mewn lle a elwir Ffynon, yn swydd Gaerfyrddin, a bu fyw o gylch gweithfeydd haiarn swydd Forganwg dros rai blynyddau. Daeth i'r wlad hon yn y flwyddyn 1834.

## ATEBIAD.

*Sylw ar Atebiad Llewelyn i Ofyniad R. Woolley, yn Seren Mawrth, tud. 72.*

Mr. Gol.—Canfyddais esboniad tra anghysson â gair Duw, yn ol fy marn i, yn eich cyhoeddiad clodwiw, gan Llywelyn.

Marc 9. 49. "Canys pob un a helltir â thân, a phob aberth a helltir â halen." Yn 1af, dywed fod yr adnod hon wedi dyrysu cywreinrwydd llawer o'r dysgedigion penaf; ond barnwyf nad yw gair Duw yn dyrysu y rhai sydd ag ymofyniad diduedd am y gwirionedd, o herwydd dywed Iesu wrth ei ddysgyblion ef y caent hwy wybod y gwirionedd. Diobon y gall dynion nad oes ganddynt ewyllys i ranau o air yr Arglwydd (Jer. 6. 10.) ddyrysu a dallu meddyliau eraill; ond y mae holl eiriau Crist "yn amlwg i'r neb a ddeallo, ac yn uniawn i'r rhai a gafodd wybodaeth." Diar. 8. 9.

2. Heb ddilyn ei esboniad gwrthun, pan y dywed y bydd y tân yn cael yr un effaith ar yr annuwiol â halen ar gig, &c., barnwn nad oes cyfeiriad at hyny yn y geiriau. Yn awr y mae plant a phobl Dduw yn cael eu halltu fel â thân yn y byd a'r bywyd hwn, canys y mae geiriau Crist fel tân y toddydd, Mal. 3. 13, 14, &c. 1 Pedr 1. 6, 7: "Fel y caffer profiad eich ffydd chwi, yr hwn sydd werthfawrocach nâ'r aur colladwy—cydbrofer ef trwy dân, er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant yn ymddangosiad Iesu Grist." "A phob aberth a helltir â halen." Yr oedd halen ar yr aberth yn yr hen amser. Lef. 2. 13; "Offryma halen ar bob offrwm i ti." Ac felly y mae pobl Dduw yn offrymu eu gweddiau trwy ffydd yn enw Iesu Grist; ac y mae enw Iesu Grist ar eu gweddiau ffyddiog fel halen yn eu pereiddio a'u cymeradwyo gerbron Duw.

Diau genyf fod y geiriau "*pob un* a helltir â thân," yn dal perthynas hefyd â'r annuwiol yn gystal a'r duwiol. Dyma ran pob dyn anedifeiriol yw ei daflu i uffern, i'r tân anniffoddadwy, lle y poenir hwy i dragywyddoldeb mewn tân a brwnstan, lle nid yw eu pryf hwynt yn marw na'r tân yn diffodd.

*Pottsville.* John Thomas.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Gyda yr agerlong America derbyniasom y newyddion Ewropaidd diweddaf.

Nid oes dim o bwys mewn ystyr fasnachol. Yr oedd ychydig ostyngiad eto yn mhris y cotwm.

Y mae y gwahanol wledydd yn prysur ddanfon eu cynhyrchion i Lundain, a pharotoadau cawrfilaidd y palas gwydr bron a chyrhaedd y terfyn.

Mae y ddadl Babaidd yn parhau i ddwyn sylw y Senedd gan mwyaf.

Y Tad Gavazzi.—Hen Babydd dychweledig yw y Tad yma. Ac yn awr y mae yn saethu mellt ei hyawdledd yn erbyn y Pabaeth, gyda chalon Lutheraidd, nes mae Anghrist yn crynu rhagddo; y mae nertholrwydd ei areithiau taranllyd, pwysigrwydd ei ymadroddion dwysedig, a swyn ei gynghorion duwiol, wedi enill iddo gylch eh̄elaeth o hoffwyr yn y brif ddinas. Y mae yn areithio o nos i nos ar y Chwilys, ac erchyllion eraill y Babaeth, gyda grym ac hyawdledd anwrthwynebol, ac y mae y dyddordeb a deimlir ynddo yn cynyddu yn barhaus.

### INDIA.

Cyrhaeddodd newyddion o'r India i Lundain yn ddiweddar. Mae rhai o'r llwythau brodorawl yn parhau i ladrata yn Asam a Sciende o hyd. Lladdwyd tri o Brydeinwyr gan fintai un o'r llwythau, a chladdasant 22 o bersonau rhwng gwŷr, gwragedd a phlant. Anfonwyd milwyr i'w cospi am eu haerllugrwydd. Mae Syr C. Napier wedi dychwelyd i Loegr, am ei fod yn canfod, meddai, nad oedd mewn gwirionedd yn Llywydd Cyffredinol, gan fod eraill ag oedd yn deall llai nag ef am faterion milwrol a hawl ganddynt i ymyraeth ag ef yn nghyflawniad ei ddyledswyddau. Dinystriwyd agos i yr oll o dref Ranjoor gan dân ar yr 28ain o Ragfyr, pan y llwyr losgwyd dros 2,000 o dai, a llawer iawn o'r llongau oedd yn y porthladd ar y pryd.

### FFRAINGC.

Y mae dadl boeth wedi bod yn ddiweddar yn y Senedd am gynnaliaeth milwyr Ffraingc yn Rhufain, ond yno y maent i fod er y cyfan, a da yw hyny i'r Pab, druan. Yr oedd son fod canghenau breninol y Bourboniaid a'r Orleaniaid yn awyddus am ymuniad, ond hysbysir yn awr fod y blaid Orleanaidd wedi rhoddi terfyn at bob cyflafareddiad ar y mater hwn. Mae pleidwyr Bourbon yn ddig iawn o herwydd hyn. Trwy ddeddf y llywodraeth mae Gwarchodlu Gwladwriaethol Strasbourgh wedi eu difyddino. Yr oeddent yn rhy elyniaethus i Buonaparte o ran eu daliadau. Gorchymynir iddynt oll roddi eu barfau i fynu yn ddioed.

### YSBAEN.

Mae Senor Isturitz, cenhad Ysbaen i Lys Victoria, wedi cael caniatad i ddychwelyd i'w wlad, a dysgwylir y cyrhaedda Madrid yn fuan. Mae rhai yn cael eu harwain i gredu y pennodir Isturitz yn Llywydd y Gynghorfa yn lle Murille; oblegyd mae yr olaf wedi penderfynu glynu wrth y blaid gymedrol; ond os rhydd y blaid hono y cynorthwy a ddysgwylia iddo, ni phetrusa roddi ei swydd i fynu i'w Mawrhydi, neu o leiaf anog y frenines i ddadgorffoli y Senedd. Dyma benderfyniad Cynghorfa ddiweddaf y weinyddiaeth. Hefyd, mae y gweinidogion wedi penderfynu cynnyg fod holl droseddau y wasg i gael eu profi gan rheithwyr.

### NAPLES.

Tra mae pob cenedl ar wyneb y ddaear yn dysgwyl yn bryderus am agoriad yr Arddangosiad Mawr yn Llundain; a thra y mae ymwelwyr o bob congl o'r byd o'r bron yn parotoi i fyned yno yn nghorff yr haf dyfodol, mae y brenin Bomba wedi hysbysu i'w ddeiliaid na rydd ganiatad iddynt hwy symud cam o'u cartrefleoedd. Nid oes achos rhyfeddu rhyw lawer o herwydd hyn, oblegyd byddai tuedd yn hyny i ddynoethi gormes annyoddefol eu gwlad. Diameu hefyd fod yr Eglwys Lân Gatholig yn anfoddlon iawn i beryglu credo deiliaid Bomba, drwy roddi cyfleusdra iddynt wrando ar eiriau tanllyd y Tad Gavazzi, y rhai a gyrhaeddasant i Naples, er gwaethaf y Jesuitiaid gochelgar. I un dosbarth yn unig y roddir caniatad i fyned i Lundain, sef i ysbiwyr cyflogedig y brenin. Dysgwylir y bydd yno haid o'r rhai hyn.

### PRWSIA.

Ar y 10fed o Chwefror, llosgwyd Senedddy Prwsia yn ulw. Torodd y tân allan tua hanner awr wedi saith yn yr hwyr, a chyn hir yr oedd yr adeilad oll wedi ei ddifa. Yn ffodus ni chollwyd un bywyd, ac ni ledaenodd y tân at yr adeiladau eraill. Wrth geisio cynesu yr ystafell seneddol erbyn yr eisteddiad dranoeth y dechreuodd y tân.

### SWEDEN.

Cymerodd terfysg gwerinol le yn Stockholm, prif-ddinas Sweden, oddeutu canol mis Chwefror. Yr oedd gallu yr hedd-geidwaid yn annigonol i orchfygu y terfysgwyr, ac anfonwyd am filwyr i chwalu y torfeydd afrywiog. Cymerwyd dros ddeugain o bersonau yn garcharorion.

### TWRCI.

Mae Sultan Twrci wedi anfon lluaws o nwyfau ynghyd, ar ei draul ei hunan, i'w hanfon i'r Arddangosiad mawr. Bydd tri o ddirprwywyr Tyrcaidd a chyfieithydd Armenaidd yn canlyn y nwyfau i Lundain.

Dysgwylir y bydd oddeutu 8,000 o wahanol bethau yn cael eu hanfon drosodd yn gyfansoddedig o sidanau, meteloedd, brethynau brodorawl, carpedau, padellau, a lluaws o bethau eraill.

### PENRHYN GOBAITH DA.

Y mae rhyfel wedi tori allan yn y gorsafoedd Prydeinig yn y wlad hon eto, ac yn ol yr argoelion presennol y mae yn debyg o fod yn un gwaedlyd ac ystyfnig. Y mae y Gaikas a'r holl lwythau eraill, gyda'r eithriad o lwyth Pato, mewn arfau, ac y mae amryw frwydrau wedi cymeryd lle eisoes. Mae y newyddion o faes y rhyfel yn cyrhaedd hyd yr 28ain o Ionawr. Ymosododd y Caffrariaid ar Fort Hare (amddiffynfa filwrol) gyda y dyben o ladrata ychain y Fingoes (brodorion) a'r trefedigaethwyr; ond cawsant dderbyniad lled annysgwyliadwy, oblegyd lladdwyd dros gant o honynt, a gorfuwyd iddynt o'r diwedd ffoi ymaith. Ni laddwyd ond chwech o'r Fingoes.

Ymosodwyd ar Fort Beaufort gan y gwrthryfelwyr o dan arweiniad eu tywysog Hermanus, yr hwn a laddwyd gyda ei fab, a lluaws o'i ganlynwyr, ac erlidiwyd y gweddill yn ddigon pell.

Ymddengys fod y proffwyd brodorawl Umlageni wedi colli cryn lawer o'i ddylanwad ar ei gydwladwyr yn ddiweddar.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

Y Parch. Lewis Powell, Caerdydd.—Y mae y dyn rhyfeddol hwn yn awr o gylch ysgrifenu hanes ei fywyd, yr hwn a gyhoeddir, a diau y gwna yr hen batriarch teilwng gyfiawnder â'i hunan.

FELINFOEL.—Cynnaliwyd cyfarfod blynyddol yma, er diddyledu yr addoldy, ar y 13fed o Ionawr diweddaf. Cafwyd achos tra neillduol gan yr eglwys uchod eleni eto i fod yn ddiolchgar. Cafwyd casgliad rhagorol ag ystyried yr amgylchiadau ag y mae tyddynwyr ynddynt yn bresennol, yn gystal a'r effaith o hyny ar y gweithwyr yn gyffredinol yn yr ardal hon. Casglwyd yn agos i £53, heb i un ymdrech flaenorol gael ei gwneud, drwy ofyn i un dyn beth a roddai; na dim ond yr egwyddor wirfoddol yn gweithio, yr hon a ganmolai y brodyr parchus a weinyddent, sef John Jones, Sion, Merthyr, a David Jones, Caerdydd. Nid oedd neb ond y ddau frawd yn pregethu drwy y cyfarfod, ac nid oedd neb yn arwyddo fod eisiau neb arall ychwaith. Pregethasant bedair gwaith y naill ar y llall, gydag arddeliad mawr, ac arwyddion fod yr Arglwydd o'u tu.

RISCA.—Cynnaliwyd cyfarfod trimisol yn Moria, ar y 29ain a'r 30ain o Ionawr, 1851.—O gylch dau o'r gloch prydnawn y dydd cyntaf, lluaws mawr o weinidogion a chenhadau a bresennolasant eu hunain yn y wisgle, a bu cynhadledd. Penderfynwyd fod y cwrdd trimisol nesaf i fod yn Nash, ynghyd a phethau angenrheidiol eraill. Y gwasanaeth cyhoeddus a ddechreuwyd am saith yr hwyr cyntaf, gan W. Williams, Llysfaen; pregethodd W. Thomas, Pisga, a T. Evans, Nebo. Am ddeg dydd Mercher, dechreuwyd gan D. Edwards, Llysfaen; a phregethodd E. Williams, Cwmbran. Saes., D. Ll. Isaac, Trosnant, a W. Roberts, Tredegar. Am hanner awr wedi dau, dechreuwyd gan J. Jarman, Argoed; a phregethodd D. Evans, Llaneurwg, D. R. Stephen, Abergwyddon, (Saesnaeg), a D. Edwards, Deml. Am saith, pregethodd W. Roberts, Salem; B. Price, (Cymro Bach), ac O. Michael, Blaenafon.

GELLIGAER.—Bu cyfarfod trimisol Morganwg yn y lle hwn ar y 5ed a'r 6fed o Chwefror, 1851. Yn mhlith pethau eraill, penderfynwyd fod y deiseb a ddygwyd gerbron gan y brawd Price, Aberdar, yn cael ei fabwysiadu, a'i anfon i'r eglwysi, yn erfyn ar y Senedd am wrthod y swm o £30,000 a ganiateir yn bresennol i Goleg Maynooth; a gwrthwynebu cynnygiadau y Pab a'i gynghorwyr i sefydlu Pabyddiaeth yn Nghymru a Lloegr. Yr hwyr cyntaf, dechreuodd y brawd John Morris, Aberaman; pregethodd y brodyr B. Evans, Hirwaun; D. Williams, Gerazim; a W. Lewis, Dinas. Am ddeg, dranoeth, pregethodd T. Price, Aberdar; E. Evans, Dowlais, a J. Jones, Merthyr. Am ddau, W. Williams, Llysfaen; O. Williams, Trefforest; a D. Jones, Caerdydd. Am chwech, R. Owen, Twynyrodyn; S. Edwards, Rumni, a W. Edwards, Tongwynlas.

SIR GAERFYRDDIN.—Cynnaliwyd cyfarfod trimisol yn Seion, St. Clears, ar yr 11eg a'r 12fed o Chwefror diweddaf. Dechreuwyd y nos gyntaf gan Williams, Salem, Mydrim; a phregethodd Reynolds, Cydweli, a Jones, Felinfoel. Am hanner awr wedi naw, boreu dydd Mercher, dechreuwyd gan Rollins, Caerfyrddin; a phregethodd Price, Beula; a N. Thomas, Caerfyrddin. Am ddau, dechreuwyd gan Davies, Bwlchnewydd; a phregethodd Price, Beula; a Jones, Felinfoel.—Yn yr hwyr, pregethodd dau o'r brodyr. Cafwyd cyrddau lluosog, hwylus, ac adeiladol.

BRYNTROEDGAM.—Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y lle hwn ar y Sabboth, y 5ed o Ionawr diweddaf. Y mae hwn yn lle poblogaidd rhwng Cwmafon a'r Llwyni; a dyben y cwrdd oedd corffoli y brodyr a'r chwiorydd yma yn eglwys o Fedyddwyr, y rhai oeddent o'r blaen yn gangen o eglwys Penuel, Cwmafon, ynghyd a neillduo tri o ddiaconiaid. Am ddeg, darllenodd a gweddiodd y Parch. W. Bowen, gynt o'r Pil; ac yna aed drwy ranau y gwasanaeth fel yr ydys yn arfer yn gyffredin. Dyrchafwyd gweddi gan y Parch. D. Thomas, gweinidog y lle, mewn cyssylltiad â gosodiad dwylaw ar y diaconiaid; a phregethodd y Parch. T. Hopkins, Tondu, a W. Bowen; y cyntaf ar "natur eglwys," a'r ail ar "y swydd ddiaconaidd." Yn y prydnawn a'r hwyr, pregethodd y brodyr uchod drachefn.

YR HEN GYMANFA.—Cynnaliwyd cyfarfod trimisol yn y Capel Newydd, ar y 12fed a'r 13eg o Chwefror. Yr hwynt cyntaf, pregethodd y brodyr Jones, Llanfaircaereinion, a Brunt, Bwlchysarnau. Dranoeth, pregethodd Price, Maesyberllan; Jarman, Pentrenewydd; Pugh, Llanfairmuallt; Jones, Llanfaircaereinion; Davies, Glynelan; Nicholas, Caersws; a Jones, Staylittle.

BLAENYFFOS.—Cynnaliwyd cyfarfod misol yn y lle hwn ar y Mercher a'r Iau, y 19eg a'r 20fed o Chwefror. Yr hwyr cyntaf, pregethodd y brodyr T. Griffiths, Llwyndafydd; a J. P. Williams, Blaenywaun. Dydd Iau, dechreuwyd drwy ddarllen a gweddio gan y brawd S. Davies; a phregethodd y brodyr D. Jones, Star; J. Jones, Llandysil; a E. Thomas, Aberteifi. Am chwech, pregethodd y brodyr R. Pryce, Cilfowyr, ac M. Evans, Penybryn. Cafwyd cyfarfod da o'i ddechreu i'w ddiwedd.

Mewn cyssylltiad â'r hanes hon achwynid ar draws-arglwyddiaeth "warcatwyr" y dreth eglwys; o herwydd y mae hyd y nod yr anifeiliaid mudion mewn perygl yn yr ardal hono yn y dyddiau presnnol. Cynnygid fod cyfarfod o gydymdeimlad i gael ei gynnal, gyda golwg ar y rhai a ddyoddefant yn yr achos.

B. PRICE, (CYMRO BACH.)—Y mae y brawd defnyddiol a chymeradwy hwn wedi roddi y swydd o oruchwylydd cenhadol i fynu i ofal y Gymdeithas. Dywed mewn anerchiad at eglwysi a gweinidogion y Bedyddwyr yn y dywysogaeth, mai ei reswm am hyn yw ei fod yn myned yn hen ac yn analluog i deithio, a'i fod am roddi y swydd i rywun sydd ieuangach. Dywed y buasai yn dda ganddo fod o wasanaeth beunyddiol yn yr achos da hwn; ac annoga hwynt i barhau ac ychwanegu yn eu sel a'u cyfraniadau. Dywed hefyd fod eisiau gwaed ieuangc i lanw y swydd yn effeithiol a llwyddiannus. Deallwn fod Mr. Price wedi roddi y boddlonrwydd mwyaf i'r gymdeithas a'r eglwysi fel goruchwylydd.

AMGYLCHIAD HYNOD.—Yr oedd merch ieuangc yn gwasanaethu yn mhlwyf Llanfiangel yr hon oedd feichiog, ac yn agos i esgor. Yn ddiweddar agorodd ei hochor â phâr o *scissors*, a thrwy hyny gwaredodd ei hun o faban llawn-dyf. Cafwyd gafael ynddi pan wrth y gwaith o wnio y clwyf. Galwyd am gymhorth meddygol yn ddioed, ond bu farw yn nhŷ ei rieni yn mhen ychydig ddyddiau o fadriad (*mortification.*)

EISTEDDFOD DEWI SANT.—Ar y 3ydd o fis Mawrth, cynnaliwyd cyfarfod cyntaf Eisteddfod Dewi Sant, yn nhŷ Mrs. Williams, New Inn, Caerdydd, pryd yr ymgasglodd llawer iawn o garwyr 'Cymro, Cymry a Chymraeg,' ynghyd, i wrando ar leisiau melusion y delyn, yr hon a chwareuid gan Mr. Davies, Merthyr, ac i weled gwobrwyo yr ymgeiswyr llwyddiannus. Cymerwyd y gadair gan W. Davies, Ysw., Dinas, a barnwyd y cyfansoddiadau gan Mr. Bowen, (Meudwy Glan Taf,) a John Emlyn Jones.

Am yr awdl arwest gynghaneddol oreu o glod i W. W. Lewis, Ysw., Mynydd Bychan; dwy bunt, i Mr. Thomas Davies, (Dewi Wyn o Essyllt.)

Am y chwech englyn Unodl Union goreu o glod i'r Arglwyddes Bute; punt, i'r Parch. J. R. Morgan (Lleurwg.)

Am y traethawd goreu ar sefydliad yr Athenæum yn Nghaerdydd; punt, i John Rees, Pendaren.

Am y gân oreu o glod i Filgwn Thos. Richards, Ysw., o'r Faendre, Llaneurwg, ar y dôn "Y Fêl Wefus;" punt, Mr. Edward Williams, (Iolo Mynwy.)

Am y chwech pennill goreu i Ddydd Gwyl Dewi. Ton, "Ar hyd y nos." Deg swllt; i Mr. Morgan (Lleurwg).

Am y gynhadledd oreu i'w darllen a'i barnu yn ngwydd y cyfarfod; deg swllt, Mr. Williams (Iolo Mynwy.)

Am yr Englyn Unodl Union goreu i'r Aradr. Pum swllt. Mr. Williams, (Iolo Mynwy).

EISTEDDFODAU DYFODOL.—Y mae yn dda genym ddeall fod Eisteddfod Madog yn debyg o gael ei dwyn yn mlaen ar well cynllun nag un o'r cynnulliadau diweddar. Y mae y pwyllgor yn cyfarfod yn aml, a dangosir pob awydd i ddwyn y cwbl yn mlaen fel y gellir edrych arno "yn ngwyneb haul a llygad goleuni."

Y mae eisteddfod fawr i gael ei chynnal yn Nhowlais, ac un arall yn Mhontypridd, ac un arall yn Lerpwl. Y mae y testynau wedi eu cyhoeddi.

SIOMIANT MORMONIAETH.—Gwelsom lythyr maith, wedi ei ddyddio yn St. Louis, Rhag. 28, 1850, oddiwrth Henry Wilkins, bachgen yn dwy ar bumtheg oed, at ei dad, J. Wilkins, Tref Sior, Merthyr. Y mae yn rhoddi hanes ei fordaith o Liverpool i'r lle hwnw, ynghyd a'r twyll a'r anghyfiawnder a arferwyd ato ef ac eraill gan y blaenoriaid Mormonaidd.—Ymddengys fod y mab yn un o'r trueiniaid hyny a hudwyd ymaith gan y bobl a gamenwir Seintiau. Dywed fod celwyddau y gau-broffwydi wedi ei wneud ef a'i gydymfudwyr yn dra annedwydd, a'i fod yn awyddus i ddychwelyd at ei rieni, ond yn hollol analluog, &c. Yr oedd rai o'r Monmoniaid yn Dowlais yn dweyd na ddaeth y fath lythyr oddiwrth y bachgen, ond mai llythyr a ysgrifenwyd yn Merthyr oedd, gyda bwriad i'w dirmygu hwy: wr:h y cyfryw, dywed y tad, "os bydd hyny yn foddlonrwydd i chwi, deuwch ataf fi, a chewch weled y llythyr yn wreiddiol, a *phost-mark* St. Louis, Liverpool, &c. arno."

PRIF-YSGOL GYMREIG.—Ar Wyl Ddewi diweddaf cynnaliwyd cyfarfod lluoseg o offeiriaid Cymreig, yn Mhersondy Netherthong, York, yn ol yr arferiad blynyddol er ys deng-mlynedd-ar-hugain bellach. Ymdrinid yno â llawer o bethau pwysig, yn dal cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig yn Nghymru, megys cael esgobion Cymreig, a phrif-ysgolion Cymreig. Diau na byddai hyn ond cyfiawnder â Chymru, ac yn un o ganghenau y brif-ysgol hono, paham nad ellid cael arsyllfa seryddol Gymreig.

> "Rhodder i'r Cymry radiau—yn esgud
> Yn mysg gwybodaethau,
> A'r hyfryd gelfyddydau
> Er lles ein gwlad fwynlan fau."

MORGANWG.—Etholwyd Syr George Tyler heb un gwrthwynebiad, yn aelod seneddol dros y swydd hon.

---

### PRIODASAU.

Chwefror 12, gan y Parch. E. Brunt, Mr. T. Jones, a Miss Martha Jones, ill dau o'r Wern, ger y Dolau.

Yn Bwlchsarnau, Mawrth 12, gan y Parch. E. Brunt, David Davies, Groes, swydd Drefaldwyn, a Sarah Pugh, merch y Parch. S. Pugh, Brondre, swydd Faesyfed.

---

### MARWOLAETHAU.

Yn Talywaun, ger Pisga, swydd Fynwy, Chwefror 22ain, pan yn tynu ar ei 27ain oed, Dafydd Jones, mab Morris ac Elisabeth, o'r Garth Trevor, plwyf Llangollen, swydd Dinbych. Bedyddiwyd ef yn y Cefnmawr, pan yn 15 oed. Symudodd i Blaenafon, ac oddiyno i ardal Pisga. Priododd yno â merch i W. Williams, un o ddiaconiaid yr eglwys; a bendithiodd Duw eu hundeb i fod yn gysur i bob un, ond drylliodd angeu y briodas yn ol dwy flynedd a hanner. Fel dyn, yr oedd Dafydd yn un o dymher naturiol hynaws a thirion; fel Cristion, yr oedd ei serch at ei frodyr crefyddol yn wresog a diragrith, a'i ymddygiadau yn mysg ei gyfoedion digrefydd oeddent ddidramgwydd ac argyhoeddiadol.

Chwef. 10, Mrs. Mary Jones, Penrhiwlas, yn 28 mlwydd oed. Yr oedd yn aelod parchus yn eglwys y Bedyddwyr yn Talywern.—Gadawodd briod tyner, a thri o blant, i alaru ar ei hol.

Mawrth 5, yn 75 oed, Richard Price, o'r Six Bells, Aberhondda.

Mawrth 4, yn 70 oed, Ann Evans, gwerthydd blawd, Heol Tyeiddew, Pwllheli.

Mawrth 4, G. Davies, barcer, Llanrwst.

# PERORIAETH.

## HIRAETH Y BARDD AM EI WLAD; neu BWTHYN FY NHAD.

*Gan C. James, Llanilar, Ceredigion, D. C.* *Cyfl. gan Wm. Collins, Cincinnati.*



### PENNILLION I'R DON UCHOD.

Rhyw dynged arw sydd i'm rhan,
  Rhaid gadael glan yr afon,
Lle treuliais ddedwydd foreu oes,
  Heb deimlo gloes gofalon;
    A rhoi nosdda i'm hanwyl wlad,
    A chefnu byth ar fwth fy Nhad.

Yn iach i wlad y delyn chweg,
  Ei dolydd têg a'i bryniau,
Rhaid hwylio lle nas treiddia swyn
  Peroriaeth fwyn na thanau,
    Dros foroedd pell i estron wlad,
    Heb weled mwy hoff fwth fy Nhad.

Gan hiraeth prudd fy mron a dyr,
  Ni fydd ond byr fy nyddiau,
Wrth feddwl beunydd am fy ngwlad,
  Anwylaf wlad fy nhadau;
    A'r llwybrau oedd i'm gynt mor fad,
    A'r ardd, a'r llwyn, a bwth fy Nhad.

Daw hâf—i ddeffraw boreu Mai
  Daw 'hedydd a'i emynau,
Dillada'r per friallu'r llawr,
  A'r rhosyn dawr arogla;
    Ond hwy nis gallant roi boddhad
    I mi mor bell o fwth fy Nhad.

Pan fyddaf draw ar fron y lli'
  Tymhestlog mi a gofiaf
Am ddelw hardd a deigryn serch
  Un ffyddlawn ferch hawddgaraf;
    O'm cofion hefyd nid ymad|
    Y bwthyn llwyd lle trig fy Nhad.

Os pell o'm genedigol wlad
  Rhaid crwydro'n fad dan dristyd,
Heb obaith am ddychwelyd mwy,
  Yn alltud trwy fy mywyd:
    Grudd laith a ddyry drist goffhad
    O'r gwladaidd fwth lle trig fy Nhad.

Y dydd a ffoes, aeth haul i lawr,
  Ac ebrwydd gwawr a dora;
Chwydd mynwes wen yr hwyl gan wynt,
  A'r llong i'r hynt a frysia;
    A gwerydd fôr a gudd fy ngwlad
    O'm golwg byth, a bwth fy Nhad.

D. Silvan Evans (*Hirlas*).

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

---

### CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] MEHEFIN, 1851. [RHIF. 84.

CYNNWYSIAD.


Politics a Chrefydd, . . . . . 125
Rhesymau y Parch. Robert Hall ar Gymundeb Eglwysig yn cael eu hystyried, . 127
Yr Iechawdwriaeth, . . . . . 129
Anerchiad at Ann Hughes, New York, . 129
Hanes yr Eglwys Gristionogol, . . 130
Melinau Llygod, . . . . . . 135
Yr Areithfa—Llinellau i'w cyfieithu, . 139
Pryd dest-awdl ar Long-ddrylliad Dynoliaeth, 140
Ymweliad â Yellow Spring a Rattling Run, Pa. 141
Englynion i'r Mwnwyr, . . 148
Beirniadaeth Ysgrythyrol.—Math. 11. 11. . 149
Colled bwysig trwy dân i Genhadiaeth y Bedyddwyr Americanaidd, . . . . 149
Byr-Gofiant y brawd Jacob Rosser, Bellmont, 149
Corffoliad Eglwys yn Pittston Ferry, Pa. . 150
Bedyddwyr yr Unol Dalaethau, . . 151
Amgylchiad Echryslawn yn Harrison, Indiana, 151
Llofruddiaeth eto yn swydd Bradford, Pa. . 151
Gweithred erchyll, . . . . 151
Englynion i'r Parch. E. D. Thomas, Ebensburg, 152
Hanesyn digrif, . . . . . . 152
Y Tafarndai a'r Sabboth, . . . . 152
Tân yn Pittsburg, . . . . 153
Colli Deugain o Fywydau ar yr afon Mississippi, 153
Darganfyddiad newydd, . . . . 153
Y Cylchwyliau Crefyddol, . . . . 153
Cofgolofn Washington, . . . . 154
Marchnad Caerefrog Newydd, . . 154
Y Fasnach Lo, . . . . . . . 154
Ardystiolaeth Ddirwestol yn Nghof-golofn Washington, . . . . . . . . . 154
Y Llywydd Fillmore, . . . . . 154
Amgylchiad galarus, . . . . . . 154
*Genedigaethau,* . . . . 154
*Priodasau,* . . . . . . . 154
Gofyniadau, . . . . . . 155
Dychymyg, . . . . . . 155
At Mr. John Thomas Pottsville, . . 155

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. . . 155
Yr Arddangosiad, . . . . . . 156
Ffrainge, . . . . . . . . 156
Portugal, . . . . . . . 156
India, . . . . . . . . . 156
Penrhyn Gobaith Da, . . . . . 156
Ymfudiaeth o Bremen, . . . . . 156
Gwrthryfel Cuba, . . . . . . 156
Diffoddi y Vesuvius, . . . . . 156
*Tywysogaeth Cymru.*—Ymfudiad i America, 156
Cymanfaoedd, . . . . . . 156
Llofruddiaeth, . . . . . 156
Agoriad Addoldy Ainon, Tongwyrddlas, 157
" " Hermon, Nantyglo, . 157
Bedwas, . . . . . 157
Rhydwilym, . . . . . . 157
Cymdeithas y Dadgysylltiad, . . 157
Pwllheli, . . . . . . . . 157
Cross Inn, Llandybie, . . . . 157
Caergybi, . . . . . . . . 157
Cwmbach, ger Aberdar, . . . 157
Symudiadau Gweinidogion, . . . 157
Amlwch, . . . . . . . 157
Parch. T. Thomas, Castellnewydd-Emlyn, 158
Llundain, . . . . . . . 158
Bro Morganwg, . . . . . . 158
Rheilffordd Deau Cymru, . . . . 158
Treforris, . . . . . . . 158
*Priodasau,* . . . . . . . 158
*Marwolaethau,* . . . . . 158


---

**POTTSVILLE.**

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR

☞Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Marwnad y Parch. Thos. Jones, Rhydwilym, cyfl. gan y Parch. E. Edwards, Pittston; Englynion ar Gyfeillgarwch, gan B. Jones, Minersville; Cwyn yr Aur yn Nghod y Cybydd, Gair i'r Iesu, Blodeuyn y Glaswelltyn, a Gair wrth weled y Meddwyn, cyfl. gan Danl. Lewis, Blakeley; hefyd, Gohebiaethau y Parch. T. Ll. Davies, C. N., "Yr Un Od," Cyfaill, T. E., "Yr American Welshman," &c.

☞Derbyniasom yn daliad, oddiwrth John Prosser, Brady's Bend, $5; Isaac Valentine, Bear Gap, $1 25; James Israel, eto, $1 25; J. W. Jones, South Trenton, $10; Wm. Williams, Tremont, $2 50; Lewis Rees, Yellow Spring, $1; Mrs. Rees, St. Clair, am '49 a '50, $2 50. Am lyfrau, gan y Parch. T. Jones, Tamaqua, $3 50, &c.

GOSTYNGIAD TOLL Y CLUDIAD.—Bydd cyfraith newydd y Post-swyddfa yn dyfod i weithrediad gyda y rhifyn nesaf. Os bydd neb yn ewyllysio derbyn y Seren o'r newydd am chwech mis diweddaf o'r flwyddyn hon hyderwn y gwnant anfon atom, a gwnawn eu diwallu yn llawen. Cynghorwn ein dosbarthwyr i dalu y *postage* ddau fis yn mlaen wrth godi y rhifyn nesaf trwy yr hyn ni bydd ond un cent o gludiad ar bob rhifyn.

☞Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

☞Cydsyniwn â cheisiadau ein cyfeillion yn Blossburg, Ohio a Wisconsin, y mis nesaf, trwy anfon y llyfrau a ewyllysiant. Oedwn eu gyru am un mis am y bydd y *postage* yn gostwng.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU—am CATHARINE MEAZY (wrth ei henw morwynol). Daeth i'r wlad hon o ardal Pil, swydd Forganwg. Mudodd yn y llong Jamestown. Glaniodd yn New York Mehefin. 1849, a chlywyd iddi briodi yn ardal Pittsburg. Dymuna Ann Gimblet ei chyfnither, glywed ei hanes. Cyfarwydder at John Gimblet, Yellow Spring, Dauphin Co., Pa.

*Hefyd—*

Am WILLIAM THOMAS, mab John Thomas (Shon Shon Domos y Pwyswr), o Fleur De Lis, swydd Fynwy. Daeth William i'r wlad hon tua 11 mlynedd yn ol, a bu yn aros am beth amser, yn Minersville. Pwy bynag a wyr rhywbeth am dano, dymunir iddynt gyfeirio at Daniel Lewis, Blacksmith, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

---

ESBONIAD Y DR. GILL YN NGHYMRAEG.—Y mae y gwaith ragorol hwn yn awr yn cael ei gyhoeddi yn rhanau gan Mr. Wm. Owen, Caerdydd. Deallwn ei fod allan o'r wasg yn barod hyd yr Epistolau. Mae y Cyhoeddwr wedi cael awgrymiadau oddiwrth rai o Gymry America eu bod am ei gael, ac addawa anfon blychaid yma os bydd galwad, gan fod llongau yn dyfod oddiyno bob mis i America. Dymuna i ryw un cyfrifol gael ei bennodi yn oruchwyliwr.

Er mwyn hwylusu ychydig ar hyn, gall y rhai a chwenychant ei gael anfon atom ni (yn ddidraul) ac yna, os ceir ryw nifer o dderbynwyr, gelllr pennodi ryw un addas i dderbyn y tansgrifiadau, a derbyn y llyfrau hefyd.

GEIRIADUR D. SYLVAN EVANS.—Pwy bynag a ewyllysio dderbyn y llyfr hwn hefyd, gallant ei gael cyn hir trwy anfon eu henwau i mewn i olygydd y Seren.

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D.D.—Yr ydys wedi argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithwyd ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.


# "Y DRYCH."

**Pris $1 y flwyddyn yn mlaen llaw. $1 50 yn niwedd y flwyddyn.**

NEWYDDIADUR CYMREIG, YN CAEL EI GYHOEDDI YN EFROG NEWYDD AM 1851.

Y DRYCH, NEWYDDIADUR WYTHNOSOL CYMREIG, yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o ddarllen mewn Cyhoeddiadau o'r fath. Bydd y NEWYDDION Cartrefol a Thramorol mor gyflawn a dim a gynnwysir yn yr WYTHNOSOLION SEISNIG; yn enwedig bydd y NEWYDDION CYMREIG yn fwy cyflawn a diweddar nac a geir trwy unrhyw gyfrwng arall yr ochr hyn i'r Werydd. Yr ydym wedi pennodi goruchwyliwr cyfrifol yn Llynlleifiad i dderbyn a llwybreiddio, gyda phob agerlong yn ymadael i'r Talaethau Unedig, newyddion a gohebiaethau bwriadol i'r DRYCH.

Yr ydym wedi dyogelu y personau canlynol, fel goruchwylwyr cyffredinol a gohebwyr wythnosol yn Mhrydain:

Mr. THOMAS MANUEL, diweddar Olygydd yr Amserau, yn Llynlleifiad.

Y Parch. JOHN M. THOMAS, Coed-duon, swydd Fynwy (diweddar o Efrog Newydd,) dros Ddeheubarth Cymru,

Y Parch. WM T. THOMAS, Llanddaniel, swydd Fon, dros Ogledd Cymru.

Heblaw y gwyr uchod, yr ydym wedi cael addewid o ohebiaethau achlysurol oddiwrth amryw o ysgrifenwyr Cymreig ffraethaf a llyfnaf Prydain ac America.

Cyfarwyddar pob archebion a gohebiaethau yn ddidraul, at JOHN M. JONES,
51 Beaver-Street, New-York.

# O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] MEHEFIN, 1851. [RHIF. 84.


## POLITICS A CHREFYDD.

LLYTHYR III.

DANGOSAIS yn fy llythyr diweddaf fod yr hawl i bleidleisio yn foddion effeithiol ac hawdd i wneud llawer o ddaioni, drwy atal drygau i'r wladwriaeth, a symud pob peth niweidiol o honi. Dangoswyd hefyd mai dyledswydd crefyddwyr fel dinasyddion yw gwneud defnydd o'r gallu hwn, er dwyn oddiamgylch les penaf eu gwlad. Ond pa fodd y mae iddynt hwy i weithredu er sicrhau yr amcan hyn? Pa fath lywodraeth y maent hwy i amddiffyn? Pa fesurau y maent hwy i gymeradwyo? Dros ba ddynion y maent hwy i roddi eu pleidlais—dynion da, neu yntau rai drwg? Pwy gaiff lywodraethu eu gwlad? Mae yma ddynion da i'w cael—rhai sydd yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth bob drwg; ac y mae yma ddynion hollol wahanol i hyn. Rhai sydd a'u hyfrydwch mewn rhyfeloedd—rhai sydd yn ysbeilio eu cydgreaduriaid ar y *scale* helaethaf—rhai sydd yn fyddar i lais dynoliaeth, ac yn byw yn ol eu tueddiadau a'u chwantau annuwiol, y rhai nad ynt yn ceisio dim ond eu lles eu hunain yn mhob peth. Gwyddoch fod ein gwlad yn cynnwys dynion o'r cymeriadau hyn. Yn awr, pa un o'r dosbarthiadau uchod sydd yn deilwng o gael llywodraethu? Dros ba un o honynt y mae crefyddwyr i roddi eu dylanwad a'u pleidlais? Nid mater dibwys ydyw penderfynu pwy sydd i gael llywodraethu y wlad hon. Mae materion mwyaf y wladwriaeth yn cael eu hymddyried i ofal eu llywydd. Pwy yntau yw y dyn mwyaf teilwng o'n hymddyried?

Mae dynion diegwyddor yn dewis rhai ag sydd o'r un nodweddiad â hwy eu hunain i'w llywodraethu. Nis gellid dysgwyl dim yn amgen na hyn oddi wrthynt hwy. Ond a wna crefyddwyr gydymffurfio â hwynt yn hyn? Frodyr, a ddywedwch chwi yn y modd mwyaf cyhoeddus wrth y dynion hyn, "Eich pobl chwi yw ein pobl ninau." A wnewch chwi roi ar ddeall i'r byd fod genych fwy o ymddyried yn egwyddorion dynion annuwiol nag sydd genych yn egwyddorion Crist. Pan ydych chwi yn gwrthod i ddynion da gael llywodraethu mae eich ymddygiad yn llefaru yn uchel. Mae yr holl wlad yn eich clywed. Yr ydych yn dweyd nad oes genych ymddyried yn egwyddorion y dyn ag ydych yn ei wrthod. Os ydyw y dyn hwnw yn Gristion mae yn *gynrychiolydd* Crist ar y ddaear. Ac wrth ei wrthod ef yr ydych yn gwrthod Crist. Mae Crist yn bwriadu llywodraethu y byd drwy ei bobl, ac mae gwrthod ymostyngiad i egwyddorion Crist yn wadiad o'i awdurdod, ac yn ymwrthodiad o'i lywodraeth. Mae ein hymddygiad yn llefaru mor groyw a geiriau yr Iuddewon, "Ni fynwn ni y dyn hwn i deyrnasu arnom."—Gadewch i ni gael rhyw Farrabas annuwiol yn ei le. "A phwy bynag a'm gwado i yn ngwydd dynion mimmau a'i gwadaf yntau yn ngwydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd."

Dangosodd crefyddwyr, neu o'r hyn lleiaf lawer o honynt, yn yr etholiad diweddaf, nad oedd ganddynt hwy ddim ymddyried yn Mrenin Seion—Tywysog Heddwch. Y fath glwyf a gafodd yr Iachawdwr gan ei gyfeillion pan aethant tua Mexico, i ymofyn dyn gwaedlyd i'w llywodraethu, a dyrchafwyd ef i un o'r swyddau uwchaf yn y wladwriaeth. Ai dyma y ffordd y mae dwyn y byd at Grist, a dangos ein hanghymeradwyaeth i rhyfeloedd? Dyrchafu y rhai fyddont wedi lladd fwyaf i'r swyddau uwchaf a mwyaf parchus! Mae crefyddwyr yn dweyd eu bod yn ddeiliaid Brenin Seion, ond pa le y mae eu hufudddod iddo? Yr ydym ni yn weision i'r rhai y byddom yn eu gwasanaethu, ac yn ddeiliaid i'r rhai y byddom yn ufuddhau iddynt. Pa fodd y gallwn fod yn ddeiliaid i Grist os na fyddwn yn ufuddhau iddo, ac yn dangos fod genym barch ac ymddyried yn ei gyfreithiau. Rhyw frenin rhyfedd fyddai hwnw na thelid ufudd-dod iddo gan ei ddeiliaid. Mae llawer yn proffesu bod Crist yn Frenin arnynt, ond yn eu gweithredoedd, ac yn enwedig yn eu pleidlais, yn dywedyd "nad adwaenant hwy mo'r dyn."

Mae dinaswyr pan yn dewis swyddogien i lywodraethu eu gwlad, yn honi eu bod am ddewis y dynion goreu—y rhai a wna fwyaf o les i'r wladwriaeth. Ac yn ol nodweddiad y dynion a ddewisir ganddynt hwy y maent yn dangos i'r byd, pwy, yn ol eu barn hwy, yw

y dynion goreu, mwyaf llesiol a theilwng o gael llywodraethu. Dylai crefyddwyr hefyd yn yr etholiad rhoi dangosiad cyhoeddus i'r byd o'r dynion a farnant hwythau yn oreu a mwyaf teilwng o lywodraeth ac ymddyried. Os ydych yn credu fod egwyddorion Cristionogaeth yn well nag egwyddorion y byd, a bod dynion sydd o'r un nodweddiad â Christ yn fwy teilwng o'ch hymddyried nag eraill, gwnewch roi amlygiad o hyny drwy roi eich pleidlais drostynt. Nis gellir dywedyd pa faint o les a allai pleidlais fel hyn ei wneud. Fe deimlid ei dylanwad drwy yr holl dalaethau. Mae pob pleidlais yn ymgorffoliad o egwyddorion, yr hwn sydd yn pleidleisio. Mae y dyn sydd yn pleidleisio yn erbyn ymgeisyddion annuwiol yn dywedyd yn ei ymddygiadau, "Nid oes genyf fi ymddyried yn y dyn acw—mae efe yn tori Sabbothau Duw—mae yn gormesu ei gydgreaduriaid—mae yn byw dan lywodraeth ei drachwant—nid yw wedi dysgu llywodraethu ei hunan, a pha fodd y gall efe lywodraethu eraill. Dyma paham yr ydwyf fi yn gwrthod eich ymgeisydd chwi. Yr wyf fi yn rhoddi fy mhleidlais dros ymgeisydd arall—nid am ei fod yn Whig nac yn Ddemocrat, ond am ei fod yn ofni pechu yn erbyn Duw, ac yn ceisio lles ei gyd-ddynion fel ei brifamcan. Mae wedi ei wisgo â chymeriad yr Arglwydd Iesu. Mae yn gyfiawn, yn drugarog, ac yn wirioneddol. Efe ydyw y dyn mwyaf tebyg i Grist a edwyn i yn y wlad—yr wyf fi yn caru Crist, ac am ei fod ef yn debyg i Grist yr ydwyf yn ei garu yntau.—Mae genyf fi ymddyried yn egwyddorion Crist, a chan ei fod ef dan ddylanwad yr egwyddorion hyn, mi a ddangosaf i fy ngwlad fy mod yn eu parchu, drwy bleidleisio drostynt, a rhoi fy ymddyried penaf ynddynt." Oni fuasai yn llawer gwell—oni fuasai mwy o obaith gweled diwygiad mawr yn dechreu yn y wladwriaeth, pe buasai crefyddwyr yn corffoli ac yn dysgu egwyddorion, fel hyn yn eu pleidleisiau gwladol?

Y mae llawer o lygredigaethau yn cael eu goddef yn ein gwlad. Y mae rhai o'r pechodau duaf yn y wlad hon dan amddiffyniad y cyfreithiau! ac y mae gan yr holl ddinasyddion ran yn ngwneuthuriad y cyfreithiau hyny, ac felly yn gyfrifol i Dduw am danynt gymmaint â neb. Mae barn wedi ei droi yn ei ol, a chyfiawnâer yn sefyll o hirbell. Mae gwirionedd wedi syrthio yn yr heol, ac uniondeb ni ddaw i mewn. Ychydig sydd yn gosod hyn at eu hystyriaeth. Os gallant hwy a'u plant a'u cyfeillion fechanu rhyddid, dedwyddwch, a breintiau crefyddol, nid ydynt hwy yn meddwl am, nac yn cydymdeimlo ag eraill ag sydd yn ymddifad o'r pethau hyn. Ond cofiwch, anwyl gyfeillion, pa faint y mae Mab Duw wedi ei wneud ar eich rhan chwi. Ac nid oedd mwy o rwymau arno ef i farw drosoch chwi nag sydd arnoch chwithau i ymwadu â'ch lles eich hunain, er mwyn bod yn fendith i'ch cydgreaduriaid. Os ydyw y llywodraeth wedi myned yn llygredig, yr hyn sydd yn cael ei addef yn gyffredinol, mae yn angenrheidiol ei diwygio. Ond pwy sydd i wneud hyn? Y mae yn angenrheidiol i ryw un neu ryw rai gymeryd y gwaith mewn llaw. Nis gellir dysgwyl iddi ddiwygio ei hun. Pan mae pethau llygredig yn cael eu gadael yn llonydd y maent yn myned yn waeth. Cafodd caethiwed lonydd yn y wlad yma am ddau cant o flynyddoedd, ond cynyddu ac ychwanegu nerth y mae byd yn bresennol. Nis gellir dysgwyl i'r Arglwydd ddiwygio y wlad mewn modd digyfrwng oddieithr iddo dywallt ei farnau arnom. Mae wedi bod yn gwneud hyn, ond ei reol gyffredin yw defnyddio ei bobl fel offerynau i ddwyn ei fwriadau yn mlaen. Ac ni ellir dysgwyl i ddynion annuwiol i ddechreu gwir ddiwygiad yn y wlad. Mae y rhai yma yn gyffredin yn gwrthwynebu symudiadau o'r natur hyn. Nis gall pren drwg roddi ffrwythau da. Mae dynion drwg, o drysor drwg eu calon, yn dwyn allan bethau drwg. Nis oes gobaith, yntau, eu gweled hwy yn gwneud ymdrechiadau sylweddol i ddiwygio eraill nes diwygio eu hunain yn gyntaf. I ba le yr edrychwn ni yntau am gynorthwy. Pwy a ddaw yn gynorthwy i'r Arglwydd yn erbyn pechodau a gormes yr oes? Frodyr, y mae ein dysgwyliad ni wrthych chwi. A gaiff ein dysgwyliad ei siomi? A wnewch chwi droi oddiwrthym? A wnewch chwi ein gadael i ni ein hunain yn y frwydr ofnadwy yma â galluoedd y tywyllwch a llygredigaethau y byd? A wnewch chwi uno gyda ein gelynion, ac ameu llesoldeb ein hamcan? Na ato Duw i chwi wneud hyn. Cofiwch fod dydd cyfrif yn dod. Er mwyn yr Iachawdwr, er mwyn eich crefydd, ac er mwyn dynoliaeth, yr ydym yn erfyn arnoch i ddyfod allan i'n cynorthwyo. Mae y gwaith mawr yn arafu yn ei gyflymder eisiau na buasech chwi yn ei gynorthwyo. Yr ydych yn addef mai peth da yw sobri y byd, ac mai peth da yw goleuo yr anwybodus, a thaenu egwyddorion crefydd Iesu; ac onid peth da hefyd, meddwch chwi, yw rhyddhau y caeth. Paham, yntau, yr ydych chwi yn sefyll yn ol, pan y mae holl hyawdledd gruddfanau nas gall

iaith eu traethu yn galw arnoch i ddyfod yn mlaen i gynorthwyo y gwan, a'u rhyddhau o grafangau y gormeswr.

*Marcy.* ALFRED HARRIS.

## RHESYMAU Y PARCH. ROBERT HALL AR GYMUNDEB EGLWYSIG YN CAEL EU HYSTYRIED.

GAN T. F. CURTIS, A. M.

PEN. II.

1. Goddefiad cyfeiliornadau yn cael eu hystyried. 2. Arferiad Cristionogion. 3. Fod yr ysgrythyr yn gwahardd hyny. 4. Y canlyniad o olygiadau R. Hall. 5. Cyfeiliornadau yn gyffredin yn ddinystriol, ond nid bob amser. 6. Gall personau a fyddo yn dal pob math o gyfeiliornadau fod yn aelodau ac yn swyddogion mewn eglwysi a fyddont yn dal cymundeb cymysg.

1. Ymresymiad ar yr ymarferiad o gymundeb cymysg yn mhlith Cristionogion gwirioneddol o wahanol enwadau.

"Gorchymynir i ni mewn modd amlwg," medd R. Hall, "i oddef yn yr eglwys wahanol olygiadau, os na byddant yn anghysson â natur yr iachawdwriaeth." Yr oedd, medd efe, yr apostolion o wahanol feddyliau. Yr Iuddewon a'r cenedloedd dychweledig a chrediniol a wahaniaethent yn eu golygiadau, &c. Ei bod yn ddyledswydd arnom oddef gwahanol feddyliau yn yr eglwys nid oes neb yn ameu; ond y mae ein hawdwr yn haeru yn yr ymresymiad uchod ein bod yn addef neu yn caniatau gwahanol feddyliau yn yr un eglwys, hyd y nod am bob peth ar nad yw yn anghysson â natur yr iachawdwriaeth. Yn hyn yr ydym yn gwahaniaethu, ac nid yn unig yr ydym ni yn gwahaniaethu oddiwrtho yn yr ymresymiad ryfeddol uchod, ond hefyd y mae yn debygol nad oes un eglwys o wahanol enwad ag a gyduna ag ef yn y golygiad uchod mewn modd ymarferol. Arweinia y fath gynllun o aelodiaeth eglwysig ni i oddef aelodau yr eglwys Babaidd, ac aelodau eglwys Groeg, ac aelodau pob eglwys a elwir yn Gristionogol; ac nid yn unig eu goddef fel aelodau, ond eu hystyried yn yr un sefyllfa, ac yn feddiannol ar yr un hawliau â ni ein hunain yn mhob ystyriaeth, pa mor niweidiol bynag y byddont i'r eglwys, oddieithr i ni allu profi fod eu golygiadau yn anghysson â'r iachawdwriaeth. Ond rhagor am hyn yn ol llaw.

2. Pa le y mae yr enwad nad yw yn gofyn oddiwrth ei aelodau bethau nad ydynt yn angenrheidiol er eu iechawdwriaeth. Y mae y taenellwyr yn gofyn gan eu haelodau daenellu eu babanod; a phaham ynteu y beiir ac y gwaradwyddir ni am ofyn i'r crediniol ufuddhau i'r gwir fedydd?

3. Dichon y gall fod R. Hall yn meddwl fod hwn yn ddigonol fel ymresymiad yn ei berthynas â thaenellwyr babanod; ond nid yw yn cyffwrdd â'r hyn a haera efe i fod yn reol y Testament Newydd, sef ei fod yn orchymyn pennodol i oddef yn yr eglwys rai o wahanol olygiadau, ar na byddont yn anghydweddol â natur yr iachawdwriaeth. Ond yn wahanol yr ydym yn cael, yn lle gorchymyn pennodol i oddef gwahanol olygiadau, rhybuddir ni i fod ar ein gocheliad rhag cyfeiliornwyr, ac i beidio ymostwng i roddi lle iddynt, fel yr arosai gwirionedd yr efengyl yn ein plith. Gal. 2. 5. "Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi frodyr, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, dynu o honoch ymaith oddiwrth bob brawd ag sydd yn rhodio yn afreolus, ac nid yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe genym ni." 2 Thes. 3. 6. Y mae y dull hwn o ymadroddi yn gryf iawn. Y mae y gorchymyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, ac felly yn galw am weithrediad yn gyfatebol i'w awdurdod, "Gochel y dyn a fyddo heretic, wedi un ac ail rybudd." Titus 3. 6. Y mae y dull hwn o ymadroddi yn benderfynol. Yn llythyrenol, un yn creu anghydfod, un yn dwyn i mewn gyfeiliornadau, yw y cymeriad a waherddir yma. Person ymbleidgar, ymrysongar. (Gwel Eiriadur Robinson.) Y mae y cyfryw ddyn i gael ei wrthod gwedi un ac ail rybudd. Y mae yr egwyddor yn cael ei dangos a'i dysgu i ni mewn gwahanol fanau yn yr ysgrythyrau. Nid yn unig gyda golwg ar yr eithafoedd y gall dynion fyned mewn cyfeiliornad, a thrwy hyny beryglu eu hiechydwriaeth, ond hefyd gyda golwg ar yr effaith y maent yn ei gael ar lywodraeth a chysur yr eglwys. Gall un milwr aflywodraethus niweidio dysgleirdeb byddin. Y mae hyn yn dangos gwendid ymresymiad R. Hall.

4. Nas gellir derbyn neb mewn modd priodol yn aelodau o eglwysi Cristionogol, heb wneuthur proffes beth bynag o dduwioldeb personol, sydd wirionedd anwadadwy. Ond y mae fod eglwys weledig Crist yn goddef ei haelodau i fod o wahanol olygiadau ac ymarferiadau, a'r ymarferiadau a'r golygiadau hyny yn anysgrythyrol, er efallai ddim yn peryglu eu iachawdwriaeth, yn tueddu i gynhyrfu yr eglwys, ac i ddinystrio y cysur a'r daioni a ellir ei ddysgwyl; yr hyn sydd yn dangos mewn modd amlwg mai nid dyma gynllun aelodiaeth eglwysig yn ol y Testament Newydd. Eto, dyma y cynllun y mae R. Hall yn dadlu drosto. Ni byddai aelodiaeth eglwysig o fawr gwerth pe byddai goddefiad yn

cael ei roddi i ddynion a fyddo yn dal pob math o gyfeiliornadau i gael aelodiaeth ynddi; ac ni byddai i ddynion da a duwiol, ag sydd yn caru y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, i oddef cyfeiliornwyr i gymeradwyo eu golygiadau i eraill, ac i bleidleisio drostynt, ond dangos eu hanghyssondeb, ac nad ydynt yn bleidwyr selog a thrwyadl i'r gwirionedd. Eto, nid oes unrhyw amheuaeth yn bodoli o barth meddwl a dyben yr awdwr, oblegyd y mae yn amlygu hyny yn fwy eglur a goleu yn yr ymadfoddion canlynol: "Wedi esmwythau y ffordd i arwain y darllenydd, nid oes genyf yn unig ond nodi fy ngholygiadau er penderfynu pa mor belled y mae y gorchymyn apostolaidd yn ein rhwymo i oddef cyfeiliornad ein brodyr, taenellwyr babanod—pa un a ydyw o angenrheidrwydd yn eu hanghymwyso i fod o rhifedi y rhai a dderbynir gan Grist i'w ogoniant—pa un a ellir eu hystyried yn Gristionogion gwirioneddol, neu a fydd i gefnogwyr y cyfryw gyfeiliornad i sefyll neu syrthio yn y dydd a ddaw." Gwel Waith Hall, Cyf. I. 326-7.

Gellir gweled wrth y sylw hwn fod yr awdwr yn cymhwyso ei nodiadau yn gyfatebol at y rhai a fyddont yn dal aelodiaeth gyflawn a sefydlog yn yr eglwys, a'r rhai fyddont yn cyfranogi yn achlysurol o swper yr Arglwydd. Y mae y cwbl ag y mae efe yn ddwyn o blaid yr olaf yn gyfatebol i'r blaenaf. Y mae pob un a dderbynir at fwrdd yr Arglwydd yn cael ei dderbyn i fwynhad o holl hawliau a breintiau aelodau cyflawn a sefydlog. Y mae eu pleidlais yr un fath y naill a'r llall, yn newisiad gweinidogion, yn eu barn a'u penderfyniad o barth athrawiaeth—beth a ddylid ei ganiatau, a pha beth a ddylid ei wrthod, ac yn holl drefniadau yr eglwys. Y maent yn meddu hawl i bob swydd yn yr eglwys—gallant gael eu dewis yn weinidogion neu yn ddiaconiaid, os bydd y mwyrif o'r aelodau o'u plaid.

5. Dichon fod amryw gyfeiliornadau ag sydd yn niweidiol i'r eglwys fel corff, ac hefyd i fywyd Cristionogaeth, a'r nad ydynt o angenrheidrwydd yn cau o deyrnas nefoedd, a dichon fod dynion da a duwiol yn eu coleddu. Ond os na ellir profi fod y cyfryw gyfeiliornadau yn rhwystr iddynt gael eu derbyn i ogoniant yn y byd a ddaw, neu ei fod yn anmhosibl iddynt eu dal a'u coleddu a bod ar yr un pryd yn wir Gristionogion, neu fod eu hymddiffynwyr i syrthio yn y farn, (yr hyn nis gall neb ei wneud heb fod yn feddiannol ar berffeithiau dwyfol,) yr ydym yn rhwym, medd ein hawdwr, yn ol gorchymyn pennodol yr ysgrythyr, i'w goddef yn yr eglwys o'r hon yr ydym yn aelodau, er ein bod yn gwybod eu bod yn wahanol yn eu golygiadau, a chaniatau iddynt yr holl ragorfreintiau a berthynant i aelodau gwreiddiol yr eglwys, mewn pleidleisio, llefaru, pregethu, a phob peth arall; er y gall eu golygiadau, rhai o honynt, arwain i'r canlyniadau mwyaf niweidiol a dinystriol i eglwys Dduw, ac i'r aelodau mewn modd personol. Ond os na allwn brofi eu bod o angenrheidrwydd yn eu rhwystro i'r nefoedd, y mae yn rhaid i ni edrych ar y cyfryw gyfeiliornadau fel gwahaniaeth meddyliau, pa rai a ddylid eu goddef fel rhai nad yw yn anghydweddol â natur yr iachawdwriaeth. I fod y canlyniad a nodwyd o angenrheidrwydd yn tarddu yn naturiol oddiwrth olygiadau yr awdwr, nid oes neb a all ameu, mor belled ag y mae eu cymwysiad yn dwyn perthynas â thaenellwyr babanod, yr ydym yn addef; ac felly y mae yr eglwysi ag sydd yn dal cymundeb cymysg yn Mhrydain Fawr yn gweithredu yn gwbl fel y nodwyd. Addefa R. Hall ei hun, os byddai i'r meddwl hyn i ffynu y byddai i'r enw Bedyddwyr cyn hir fyned o ymarferiad yn mhlith cymdeithasau Cristionogol, neu na fyddai yr enw mor briodol i'r eglwys ag i bersonau. (Gwel Gwaith Hall, Cyf. II. tud. 228-9.)

6. A yw yn debygol y gwnelai yr eglwysi taenellyddawl, yn neillduol y Cynnulleidfaolion, fabwysiadu cynllun R. Hall? Pe byddent yn mabwysiadu ei gynllun ef o aelodiaeth eglwysig, yna byddai eu gweinidogion, eu diaconiaid, a'u haelodau, yn aelodau o eglwysi yr un fath ag eglwysi y Bedyddwyr ag sydd yn dal cymundeb cymysg, a gallai aelodau y Bedyddwyr fod yn eu plith, yn mwynhau yr un hawliau a'r un awdurdod ag eraill; a'r mwyrif ynddynt fyddai y blaid a feddai yr awdurdod a'r llywodraeth; ac ni byddai y lleill ond cael eu goddef, os byddai rhyw wahaniaeth rhyngddynt â hwy. Y mae hyn wedi cael ei brofi i ryw raddau yn barod o ran ei dueddiad niweidiol. Y mae wedi bod yn achos i atal y gwirionedd mewn anghyfiawnder i'r dyben o gadw y pleidiau yn heddychol. Y mae genym brawfiadau i fod rhai wedi cael eu hattal i ddweyd am fedyddio y crediniol trwy suddiad yr holl gorff mewn dwfr. Y mae taenellwyr wedi cael eu dewis yn ddiaconiaid ac yn weinidogion i eglwysi ag oedd yn proffesu eu hunain yn Fedyddwyr; ac y mae rhai eglwysi yn taenellu eu babanod, ac yn bedyddio eu crediniol, efallai gan yr un gweinidog. Ond beth bynag a feddylir am hyn yn ei berthynas â thaenelliad babanod, yr oedd R. Hall yn proffesu ei

fod yn barod i weithredu oddiar yr un egwyddor yn ei berthynas â chyfeiliornadau eraill; ac hyd y nod dywed fod yr ysgrythyr yn gorchymyn hyny. Y mae yn dywedyd hefyd mewn man arall nad oedd genym ni un egwyddor gyffredin i sefydlu ein dull o weithredu arni. Ond meddyliwn i fod yr egwyddor gyffredin ag y mae efe yn sefydlu telerau aelodiaeth eglwysig arni yn llawn o ganlyniadau niweidiol, yn gymmaint felly ag y byddai yn ganiataol i ni beidio dewis un egwyddor, yn hytrach na dewis ei egwyddor ef.

[I'w barhau.]

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

## YR IECHAWDWRIAETH.

YSPAEN, M. N.—6, 5.

O dowch, O dowch i gyd
Yn awr i syllu
Ar drefn i gadw byd,
A wnaed gan Iesu;
Trefn ryfedd rasol yw
I ddyn nesau at Dduw,
A thrwy ei waed gael byw,
Er gwrthryfelu.

Rhyfeddwn byth heb baid
Y ddyfais ddwyfol
A gawd i godi o'r llaid
Y natur ddynol,
Yr hon a drefnodd Duw,
Trwy gyfrwng Iesu gwiw,
I roddi 'ddynolrrw
Fywyd trag'wyddol.

O iachawdwriaeth rad,
Mae ynot ddigon
Ar gyfer halog had
Sy'n llawn angenion;
Mae'th drysor fel y môr,
Medd gair yr Arglwydd Iôr,
Yn faith ddiderfyn stôr
I rai tylodion.

Cyfiawnder Crist yw sail
Yr iachawdwriaeth,
A haeddiant Adda'r Ail
I blant marwolaeth;
Mae haeddiant dwyfol loes,
A rhinwedd gwaed y groes,
Yn ddigon i bob oes
Gael meddyginiaeth.

Beth oedd Bethesda gref
Wrth waed yr amod;
Glanha gwaed ei Fab ef
Oddiwrth bob pechod:
Nid rhaid yw dysgwyl chwaith
Am ddeugain mlynedd maith,
Can's nid ar ambell waith
Mae'n rhoi gollyngdod.

Y pethau cryfaf sydd
O fewn cre'digaeth
Ddileir oll ryw ddydd
O goffadwriaeth.
Y ddaear aiff yn fflam,
Fel wyn ei bryniau llam,
Ond byth bydd cofio am
Yr iachawdwriaeth.

O drefniad Un yn dri
Fe gafwyd noddfa,
A cholli gwaed yn lli'
Ar ben Calfaria;
O ffown i noddfa'r gwaed
Sy'n golchi'r dua' gaed,
Fe'n cyfyd ar ein traed,
Rhown Haleliwia.

GWILYM O'R FOEL.

## ANERCHIAD AT ANN HUGHES, NEW-YORK.

ODDIWRTH GYFAILL O'R HEN WLAD.

*Bardd.*—Atoch, Ann, yn fwyn serchoglon,
Anfonaf anerch byr yr awrhon;
Syn i mi eich bod ysywaeth
'Mhell o wlad eich genedigaeth.

*Ann.*—Mynych 'hedeg mae fy meddwl
Yna atoch dan bob trwbwl;
Poeni'n fynych gyda hiraeth
Am hen wlad fy nghenedigaeth.

*Bardd.*—Er rhuo'r môr a'i donau breision,
A bod yn mhell yn ngwlad yr estron,
Eto 'gyd ar dro mae hiraeth
Eich bod o wlad eich genedigaeth.

*Ann.*—Er i'm forio dros yr eigion,
O fy ngwlad, i fod yn estron,
Eto gwell f'ai genyf ganwaith
Fod yn mro fy nghenedigaeth.

*Bardd.*—Mangre hyfryd ydyw Cymru,
Lle mae hawddfyd yn carfrefu,
A pherth'nasau tirion odiaeth,
Sydd yn ngwlad eich genedigaeth.

*Ann.*—Pan adgofiwyf am hen Gymru
Hoff, lle mae fy anwyl deulu,
Carwn ddyfod i'r gym'dogaeth,
Hyfryd fan fy nghenedigaeth.

*Bardd.*—Os eich gweled a gawn eto
Ar fro Cymru wedi tirio,
Mawr lawenydd fydd heb alaeth
Eich gwel'd yn ngwlad eich genedigaeth.

*Ann.*—Nid yn fuan iawn mae'n debyg,
Os do'i byth o dir Amerig,
Costau mawr a dygn fordaith
Sy' ddod i wlad fy nghenedigaeth.

*Bardd.*—Yn awr dymunaf wrth derfynu,
Llwyddiant yna fyddo i chwi,
Hyd nes deuwch i'r gym'dogaeth,
Dewisol fro eich genedigaeth.

Ond os na chawn ni gydgyfarfod
Ymwrolwch, byddwch barod,
Cyn del cystudd a marwolaeth
A chwi o fro eich genedigaeth.

Byddwch ffyddlon i grefydda,
Daliwch beunydd bob cyfleusdra
At wneud da o blaid Crist'nogaeth,
Fel yn ngwlad eich genedigaeth.

*Liverpool.* R. W.

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### Y GANRHIF GYNTAF.

Yr oedd ymddangosiad Crist yn y byd i sefydlu teyrnas ysbrydol iddo ei hun, er gogoniant i Dduw a budd i ddynion yn erthygl pwysig yn ysgrifeniadau yr holl broffwydi. Yn ganlynol i hyn, yr ym yn cael fod dysgwyliad mawr am dano yn bodoli yn mysg yr Iuddewon tua phen pedair mil o flynyddau o gread y byd; ond mewn cymeriad gwahanol, ac i ddyben gwahanol iawn i'r hyn oedd Duw wedi arfaethu. Ac, os credwn dystiolaeth rhai hanesyddion lled gyfrifol, yr oedd y dyb wedi ymdaenu yn mysg rhai o'r cenedloedd fod tywysog o urddasolrwydd anghydmarol ar ymddangos, i osod i fyny deyrnas a ymledai dros yr holl fyd. Ac nid oedd hyn yn rhyfedd, pan ystyriom fod yr Iuddewon wedi bod am dri ugain a deg mlynedd yn Babilon, a rhai o hynynt megys Daniel yn gyfrifol yn y llys; eu bod am dymhor hwy wedi bod dan nawdd y Persiaid; nes eu darostyngiad gan Alecsander: ac wedi hyny dan iau y Syriaid, â'r rhai y buont yn rhyfela yn hir am eu rhyddid crefyddol dan dywysiad y Macabeaid; a'u bod yn awr dan deyrnged i'r Rhufeiniaid. Peth anhawdd meddwl, dan y fath amgylchiadau, fod y cenedloedd hyn yn hollol anwybodus o'r dysgwyliad a goleddent: fodd bynag, mae yn amlwg fod y dyb yn bodoli, ac wedi ymdaenu yn helaeth yn y dwyrain (*Suetonius in Vita Vespas*, *Tacitus Hist.*, *Lib. v. Cap.* 13).

Mae yr efengylwyr a ysgrifenasant hanes bywyd a marwolaeth Crist wedi amseru ei enedigaeth yn nheyrnasiad Augustus Cæsar, pan oedd Herod yn frenin ar Judea, ond heb nodi y tymhor yn ei deyrnasiad y cymerodd hyny le; ac mae hyn wedi achosi cryn lawer o lafur i'r dysgedigion hen a diweddar. Yn ol y cyfrif sydd wedi ffynu yn mhlith Cristionogion, yr oedd hyn yn y flwyddyn pedair mil a phedair o oes y byd; ond y mae amseryddion diweddar yn honi iddo gael ei eni yn y flwyddyn pedair mil, ac y mae yn debyg mai hyny sydd gywir. (*Preface to Prideux's Connec.*, *Bagster's Chron.*, *Index to the Bible*). Yr oedd holl amgylchiadau ei enedigaeth wedi eu rhagfynegu mor fanol, ac yn cyfateb mor gyflawn i gyssylltiadau ei ymddangosiad, fel nad oes modd ameu, ar un tir rhesymol, nad hwn ydoedd y proffwyd a addawyd i'r tadau, a'r brenin oedd i lywodraethu mewn cyfiawnder dros yr holl ddaear; ac wrth gydmaru y proffwydoliaethau â'u cyflawniad, fel y maent wedi eu cofnodi yn y Testament Newydd, yr ym yn canfod i ddynion santaidd Duw dan yr Hen Destament lefaru ac ysgrifenu fel y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân, yr hwn o ddechreuad amser sydd yn canfod y diwedd.

Nid oes genym nemawr o hanes ei fywyd boreuol, oddigerth amgylchiadau rhyfeddol ei enedigaeth, a gofal Rhagluniaeth am dano, pan oedd awdurdodau penaethiaid, yn ol dyfais fydol, am ei ddinystrio. Pan y gwnaethpwyd ymchwil am dano gan ddoethion o'r dwyrain, fe gynhyrfwyd Herod a'i holl lys mewn bwriad i'w ddyfetha, rhag iddo feddiannu yr orsedd a ewyllysiai y gormeswr gadw yn ddyogel i'w hiliogaeth ei hun. Ond ofer fu yr ymgais, oblegid angel Duw a ymddangosod i Joseph, gan ei rybuddio i ffoi i'r Aifft, a chymeryd y Mab bychan a'i fam gydag ef, ac aros yno nes derbyniai gyfarwyddyd ychwanegol; ac yn fuan wedi marwolaeth Herod, Joseph a'i deulu, ar orchymyn Duw, a ddychwelasant i dir Israel, ac a breswyliasant yn ninas Nazareth, yn nhalaeth Galilea. Pan yn ddeuddeg oed, fe aeth gyda ei fam a Joseph i'r wyl grefyddol a gynnelid yn Jerusalem, pryd yr ymresymodd â'r athrawon yn y deml nes oedd pawb yn rhyfeddu o herwydd ei ddeall; ac o hyny allan nid ydym yn clywed dim am dano, ond yn unig ei fod yn ufudd i'w rieni, nes y daeth y tymhor arfaethedig iddo ddechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus.

Yn ol rhag-ddywediad y proffwyd Esay, tua chwech mis cyn i'r Iesu ddechreu ar ei weinidogaeth, ymddangosodd Ioan Fedyddiwr yn anialwch Judea, gan bregethu edifeirwch er maddeuant pechodau: a phan oedd lluoedd o'r Iuddewon yn ymdyru i wrando ar ei weinidogaeth, ac i ymostwng i'w fedydd, yr Iesu ei hun a ymddangosodd yn eu plith i ufuddhau i'r gosodiad dwyfol, er cyflawnu pob cyfiawnder. Ar yr achlysur, fe ddysgynodd yr Ysbryd Glân arno mewn dull fel colomen, ac fe gyhoeddwyd drwy lef o'r nef foddlonrwydd y Tad i'w holl ymddygiad. Yn union wedi hyny fe'i harweiniwyd gan yr Ysbryd i'r anialwch, i'w demtio gan ddiafol, fel y byddai yn mhob peth yn alluog i gydymdeimlo â'i frodyr; ac yna ymroddodd at y gwaith mawr o bregethu efengyl y deyrnas, a iachau pob math o anhwylderau yn mhlith y bobl. Ond nid cynt yr ymddangosodd yn ei gymeriad fel Athraw, nag y cyfododd gwrthwynebiad mawr yn ei erbyn oddiwrth yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Yr oedd ei athrawiaeth yn annyoddefol iddynt, am ei bod yn dynoethi eu twyll, ac yn collfarnu eu rhagrith, ac yn eu dal allan yn ngwydd dynion fel yr oeddent mewn gwirionedd yn ngholwg Duw; ac o herwydd hyn, rhaid oedd iddynt naill ai rhoddi fynu eu hawl i'w hamcanion uchelfrydig a chnawdol, neu ynte ddarbwyllo eu cydamserwyr i gredu mai twyllwr oedd, ac nid cenad anfonedig oddiwrth Dduw. A chan nad oeddent barod i aberthu y cyfrifoldeb oeddent wedi ei enill drwy ffydd ragrithiol, ymroddasant â'u holl egni i ddarostwng ei gymeriad, fel un a honai iddo ei hun awdurdod anghyfreithlawn; ac amcanent ei wneuthur yn euog o gabledd, am ei fod yn ei wneuthur ei hun allan yn Fab Duw.

Er cymmaint o weithredoedd nerthol a wnaethwyd ganddo, a'r arafwch a nodweddodd ei holl ymddygiad, nid oedd modd i ddofi eu cynddaredd nes iddynt yn y diwedd ei draddodi i ddwylaw y cenedloedd, a'i ddedfrydu i farwolaeth waradwyddus y groes. Ond er iddynt lwyddo mor belled a hyny yn eu hamcan, siomedigaeth oedd eu rhan wedi y cyfan; oblegyd ar foreu y trydydd dydd

dadguddiwyd ef yn Fab Duw mewn gallu yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw; a chan fod hyn yn erthygl o'r pwys mwyaf yn ei gysylltiad â holl gyfundraeth gras, mae y ffaith wedi ei sylfaenu ar brofion anwadadwy. Yr oeddent yr Iuddewon wedi mabwysiadu pob mesur er atal twyll yn yr amgylchiad, ond heb un meddwl eu bod drwy hyny yn gwasanaethu yr achos a amcanent ei ddiddymu. Ond er selio y maen a gosod gwyliadwriaeth, wele angel o'r nef yn dysgyn, rhwymau angeu yn ymddattod, gwisgoedd y bedd yn cael eu gadael ar ol, a'r Iesu yn ymddangos yn fuddugoliaethus i'w ddysgyblion, er llawenydd annraethadwy a gogoneddus i'w calonau. Ac wedi aros dros ddeugain niwrnod ar y ddaear i'w cyfarwyddo, a'u cefnogi i ymaflyd yn y gorchwyl a ymddyriedai iddynt, efe a orchymynodd iddynt bregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd, gan ddechreu yn Jerusalem. Ac yna, wedi bendithio y dysgyblion ar fynydd yr Olewydd, efe a ddyrchafodd i'r uchelder, ac a eisteddodd ar ddeheulaw y Tad, gan ddysgwyl o hyn allan, hyd oni osodir ei elynion yn droedfaingc i'w draed ef.

Er cymmaint y gwrthwynebiadau a gyfarfyddodd ein Harglwydd oddiwrth benaethiaid yr Iuddewon yn ystod ei weinidogaeth, ymddengys fod llawer wedi credu ynddo i gadwedigaeth yr enaid. Heblaw yr un-ar-ddeg a enwir yn ddysgyblion nodedig, yr oedd deg a thrugain wedi eu hanfon ganddo i bregethu yn nhymhor ei weinidogaeth; ac yr ym yn cael fod chwe ugain yn bresennol yn y cynghor a gynnaliwyd i ddewis tyst o'i adgyfodiad yn lle Judas Iscariot, yr hwn oedd wedi syrthio drwy drosedd a myned i'w le ei hun; ac mae yr apostol Paul yn nodi ei weled ef gan bum' cant brodyr ar unwaith wedi ei gyfodi ef o feirw; 1 Cor. 15. 6. Yr oedd hyn oll cyn tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, a'r llwyddiant mawr a ganlynodd hyny; ac felly yr oedd y credinwyr yn yr adeg hyn yn fwy lluosog nag mae Cristionogion weithiau yn meddwl, o eisiau chwilio y Testament Newydd yn fanylach.

Nid yw yn ymddangos i'r apostolion wneuthur dim mewn ffordd o bregethu i'r werinos o esgyniad ein Harglwydd hyd ddysgyniad yr Ysbryd, eithr yr oeddent yn parhau mewn gweddi a dysgwyliad am gyflawniad yr addewid: ac yn mhen deg niwrnod yr oeddent yn gytun yn yr un lle, pryd y gwisgwyd hwy â nerth o'r uchelder. Ac yna hwy a ymroddasant at eu gwaith gyda diwydrwydd a pharhad diymwad, a thrwy eu hofferyngarwch dygwyd miloedd o breswylwyr Jerusalem mewn amser byr i broffesu ffydd yn Iesu Grist fel Mab Duw a Iachawdwr dynion. Ar ddydd y Pentecost, fe ychwanegwyd atynt dair mil, ac mewn ychydig amser wedi hyny yr oedd y nifer oll yn bum' mil; Act. 4. 4. Ac er i'r penaethiaid arfer eu dyfais a'u hawdurdod i ddistewi y weinidogaeth, hyd y nod drwy garcharu y gweinidogion, lledaenu o hyd oedd yr achos, nes oeddent yr henuriaid yn pentyru ac yn gofyn i'w gilydd, Beth fydd diwedd y pethau hyn?

Hyd yma yr oeddent yr apostolion a'r dychweledigion yn mwynhau eu cymdeithas grefyddol yn Jerusalem, a llwydd mawr ar eu hymdrechion, fel yr oedd rhai yn cael eu hychwanegu atynt yn feunyddiol; a chan fod eu meddiant yn drysorfa gyffredinol, nid oedd ar neb eisiau dim. Ond nid hir y buont felly cyn i'r Iuddewon gyfodi erledigaeth ffyrnig yn eu herbyn, pryd y merthyrwyd Stephan, ac y gwasgarwyd y dysgyblion drwy wleddydd Judea a Samaria. Yr oedd hyn yn ymgais i ddinystrio yr achos, ond gwahanol iawn fu yr effaith; oblegyd y dysgyblion a wasgarwyd a daenasant yr efengyl yn mhob dinas, fel mewn ychydig amser y llanwyd holl ororau gwlad Judea â gwybodaeth o'r Arglwydd, ac eneidiau lawer a gredasant y gwirionedd. Oddiar ferthyrdod Stephan yr oedd Saul o Tarsus yn un o erlidwyr mwyaf selog yr eglwys, ac nid oedd un anturiaeth yn ormod yn ei olwg i ddifodi yr achos, a merthyru ei goleddwyr yn mhob dinas; ond pan oedd a'i holl egni yn ymroddi i'r gwaith annuwiol hyn, gwelodd Duw yn dda i'w argyhoeddi o'i ynfydrwydd a'i ddwyn i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac yn y canlyniad i fod yn offerynol i ledaenu ac amddiffyn yr achos Cristionogol tu hwnt i neb o'i gydweithwyr yn ngwaith ei Arglwydd.

Yr oedd y dysgyblion a wasgarwyd yn amser yr erledigaeth wedi teithio nid yn unig drwy Judea a Samaria, eithr hefyd drwy Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, ond heb lefaru gair wrth neb ond yr Iuddewon yn unig; ac er fod o leiaf saith mlynedd wedi myned heibio oddiar esgyniad Crist, nid ymddengys fod hyd y nod yr apostolion eu hunain wedi deall helaethrwydd y gorchymyn a dderbyniasent oddiwrth eu Harglwydd; ond yn awr wedi llafurio yn llwyddiannus yn Jerusalem a Judea, yr oeddent mewn cyflwr i ymaflyd mewn gorchwyl helaethach; ac er symud pob rwystr a gyfodai oddiar ragfarn, fe ddangosodd Duw i Pedr drwy weledigaeth fod y cenedloedd efyd i gyd-gyfranogi yn mendithion teyrnas Crist. Yn y canlyniad, fe wynebodd yr apostolion ar wahanol wledydd i gyhoeddi iachawdwriaeth drwy rinwedd iawn Crist, a chyn diwedd eu hoes yr oedd yr efengyl wedi ei phregethu drwy holl daleithau yr ymerodraeth Rufeinaidd.

[Yr ydym yn barod, yn y rhifyn diweddaf, wedi rhoddi ychydig o hanes llafur yr apostolion, gan hyny ni fanylwn am danynt yn bresennol].

Nid ydym yn cael un hanes fod y fath beth yn yr oes apostolaidd a lle o addoliad o'r fath ag sydd yn awr yn cael ei gyfrif yn anhebgorol, yn mron i bob eglwys fechan. Cyfarfyddent y Cristionogion cyntaf mewn tŷ annedd, mewn goruwch-ystafell, neu mewn unrhyw le a fyddai yn gyfleus i gynnal eu cyfarfodydd. Credent yr addewid hono, mai—Pa le bynag y byddai dau neu dri yn ymgyfarfod yn enw Crist, mai yno y bydd yn eu canol hwynt; ac mai addoliad ysbrydol, heb un addurn i foddhau balchder, oedd yr addoliad derbyniol yn ngolwg Duw; ac felly yr ym yn darllen am eglwys yn nhŷ Nymphas, ac am eglwys yn nhŷ Philemon, am mai yn y tai hyny y cynnalient eu cyfarfodydd; Col. 4. 15; Phil. 2.

Trefn yr eglwys yn y ganrif gyntaf oedd fel y canlyn;—Yr oedd y rhai a broffesent ffydd ac edifeirwch yn cael eu bedyddio a'u huno mewn cymdeithas eglwysig, ac yn cael eu hystyried yn gyfranogion o holl freintiau teyrnas Crist. Y swyddogion cyffredin oeddent esgobion a diaconiaid, ond yr oedd yn-ddynt hefyd efengylwyr a phroffwydi, a rhai a lafarent â thafodau dyeithr; ond nid oes un cyfarwyddyd yn cael ei roddi i Timotheus o berthynas i gymwysderau neb swyddogion, ond y ddau radd blaenaf, yr hyn sydd yn ein darbwyllo i farnu mai y rhai hyn oeddent y swyddwyr cyffredin ac arosol yn eglwysi y saint. Byddent y cyfryw rai yn cael eu neillduo drwy ympryd a gweddi, ac arddodiad dwylaw, ac yna yn gweini eu swydd fel y byddai amgylchiadau yn galw; Act. 6. 5, 6; 1 Tim. 3. 1—10.

Nid oes achos nodi yr athrawiaeth oedd yn cael ei dysgu yn y ganrhif hyn, na'r dull oeddent yn pregethu, gan fod engreifftiau tra perffaith o hyn i'w cael yn y Testament Newydd; ac am yr ordinhadau, nid oeddent amgen na bedydd a swper yr Arglwydd. Am y cariad-wleddoedd y sonir am danynt, nid ymddengys eu bod yn amgen na darpariad o eiddo y cyfoethogion i ymgeleddu y tlodion, pryd y cydgyfarfyddent fel un teulu i gyfranogi yn gymmedrol o'r hyn a ddarparesid, yn ol cyfarwyddyd Crist; Luc 14. 13.

Gan mai crefydd cariad yw crefydd Crist, ac mai hon yw yr unig grefydd yn y byd sydd wedi ei sylfaenu ar yr egwyddor hyny, gellid dysgwyl amlygiad o'r nodweddiad hyn yn yr eglwys yn yr oes apostolaidd, ac nid yw y dysgwyliad yn ofer. Mae yr egwyddor hon yn llanw yr holl Destament Newydd.—Cariad Duw yw y ffynon o'r hon y mae y cyfan yn tarddu. Cariad at Dduw yw egwyddor pob gwir ufudd-dod i gyfraith Crist; a chariad at y brodyr yw y prawf mwyaf amlwg yn ol yr efengyl o undeb gwirioneddol â Christ, fel y wir winwydden. Yn unol â hyn. cawn yn fore yn amser Cristionogaeth fod mesurau yn cael eu darparu gan y dysgyblion i gynorthwyo y gweddwon, a'r dychweledigion yn rhoddi eu meddiannau yn y drysorfa gyffredinol, fel na byddai neb yn aros mewn diffyg. Tua y flwyddyn 44 y dechreuodd y newyn mawr drwy sychder yn ngwlad Judea, yr hwn a barhaodd am dair blynedd, pryd y darostyngwyd y saint tlodion yno i'r caledi mwyaf gresynus; a thyma y pryd hefyd y penderfynodd y dysgyblion yn mhob dinas anfon cynorthwy i'w brodyr, yn ol eu gallu, ac y bu yr apostol Paul, a'i gydlafurwyr mor ymdrechol yn yr achos.—Er eu bod mewn llawn waith mewn pethau ysbrydol, nid oeddent drwy hyny yn colli eu golwg ar hawl y frawdoliaeth i'w cydymdeimlad mewn cyfyngderau tymhorol; eithr yn rhoddi achos i'r paganiaid i synu, a dywedyd, "Gwelwch fel y maent y Cristionogion hyn yn caru eu gilydd!" Yr oedd darparu at gyfreidiau y tlodion yn rhan o'u cyfundraeth grefyddol, a dysgent i bob Cristion, mai "crefydd bur a dihalogedig gerbron Duw a'r Tad yw hyn, ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a chadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd." Er cymmaint oedd llafur a llwyddiant yr apostolion, cawsant lawer o flinder yn eu hoes, o herwydd ymgais y gau-athrawon i lygru Cristionogaeth, drwy gymysgu elfenau cyfeiliornus â'r athrawiaeth apostolaidd; drwy wadu rhai o'r gwirioneddau hanfodol i'r efengyl, a thrwy ychwanegu defodau anysgrythyrol at y grefydd ysbrydol a sylfaenesid gan yr Arglwydd Iesu Grist.

Y cyfeiliornad blaenaf a ymosododd ar yr eglwys apostolaidd, oedd eiddo yr athrawon Iuddewaidd, a gydnabyddent Grist fel y Messia addawedig, ond ar yr un pryd a ddysgent fod yr enwaediad yn hanfodol er cyfiawnhad, ac ymlyniad wrth ddefodau y ddeddf seremoniol yn anhebgorol er iechydwriaeth. Er i'r apostol Paul wrthwynebu y cyfeiliornad hyn â'i holl egni yn ei epistolau, ni ddiangodd un o'r eglwysi rhag ei ddylanwad; ac mae y duedd yn ffynu hyd yr awr hon yn mhlith Cristionogion, i gymysgu egwyddorion yr hen oruchwyliaeth â chyfundraeth ysbrydol y Testament Newydd. Ac oddiyma y cyfododd eglwysi gwladol mewn efelychiad i'r eglwys Iuddewig, a phethau eraill ag ydynt yn hollol anghydweddol ag ansawdd yr oruchwyliaeth efengylaidd. Cymysgu egwyddorion y ddwy oruchwyliaeth oedd y cyfeiliornad blaenaf a amcanodd lygru yr eglwys, ac mae yn ddigon tebyg mai hwn fydd y diweddaf i gael ei hollol ddifodi yn mhlith proffeswyr efengyl Crist; ond rhaid ei ddiddymu cyn y byddo y gyfundraeth efengylaidd yn cael ei deall a'i dysgu yn ei symlrwydd drwy yr holl ddaear. Yn Antiochia y dechreuodd y cyfeiliornad hyn i flino yr eglwys, ac er ei wrthwynebu y cynnaliwyd y cynghor yn Jerusalem, tua y flwyddyn 51.—Act. 15. 1—30.

Y cyfeiliornad nesaf a ymgododd, oedd ymgais i gymysgu philosophyddiaeth yr ysgolion ag athrawiaeth y groes. Mae yr apostol, yn ei epistolau at y Corinthiaid, yn ergydio yn aml at y cyfeiliornad hyn. Yr oedd y Groegiaid wedi arfer rhesymu a chyssylltu achosion ag effeithiau; ac am nad oedd yr efengyl yn ffrwyth doethineb ddynol, na'r athrawiaeth yn cael ei thraddodi gyda yr holl addurniadau a arferent hwy, yr oedd yn eu plith ymraniadau yn ei chylch. Rhai o honynt a geisient ddoethineb, ond nid doethineb Duw; ac am nad oedd gwrthddrych eu hymgais yn gwneuthur i fynu ran o'r weinidogaeth apostolaidd, yr oedd cymeriad y cenhadau yn ddiystyrllyd yn eu golwg. Yn erbyn y cyfeiliornad hyn y mae yr apostol yn ysgrifenu yn ei epistol at y Colosiaid yn gystal ag at y Corinthiaid: 1 Cor. 1. 18—31. Col. 2. 8.

Y trydydd cyfeiliornad a ymdaenodd yn yr oes apostolaidd a berthynai i adgyfodiad y corff, ac fe'i gelwir, Cyfeiliornad Hymenæus a Philetus. Ymddengys fod gan y rhai hyn blaid yn eglwys Corinth; ac fe achosodd hyn i'r apostol i ysgrifenu at yr eglwys hono ar y pwngc, gan roddi eglurhad mor gyflawn o'r athrawiaeth, fel nad oedd modd i ni gamsynied am y goleu yn yr hwn yr oedd yn cael ei dal gan apostolion Crist. Yr oedd adgyfodiad y meirw yn wrthddrych gwawd yn

nghyfrif yr Atheniaid, am ei bod yn athrawiaeth dadguddiad, ac nid yn un mesur yn ffrwyth rheswm dynol; ac yr oedd y dynion hyn, er gwneuthur yr efengyl i gyd-eistedd â'r tybiau derbyniol, yn dysgu nad oedd Crist wedi addaw y byddai i'r corff gael ei gyfodi, eithr mai adgyfodiad yr enaid o ddiraddiaeth llygredigaeth oedd y cyfan mewn dysgwyliad; a chan fod y cyfnewidiad hyn wedi cymeryd lle o berthynas i'r credinwyr, fod yr adgyfodiad wedi ei effeithio yn barod. 2 Tim. 2. 17. Ond mae yr apostol yn dangos fod hyn yn gyfeiliornad o bwys mawr.

Y pedwerydd oedd cyfeiliornad Cerinthus a'r Ebioniaid. Mae Irenæus yn dywedyd i'r gau-athraw Cerinthus wrthsefyll tri o'r apostolion, sef Pedr, Paul a Ioan, a'i fod yn dysgu i'r byd gael ei greu gan angylion, ac mai dyn yn unig oedd Iesu Grist; fod yn rhaid glynu wrth y ddeddf seremoniol, ac yn enwedig yr enwaediad; ac mai tymhor glythineb fydd y mil blynyddoedd, ac yr adeiledir Jerusalem a'r deml drachefn, ynghyd a llawer o bethau cyffelyb. Iuddew genedigol oedd y dyn hwn, a dywedir iddo ymddangos fel athraw yn lled fuan wedi dinystr Jerusalem, a'i fod wedi ei addysgu yn Alexandria. Cymysgedd oedd ei gyfundraeth o Iuddewiaeth, Cristionogaeth, ac athrawiaeth y Gnostiaid.—(*Jones' Lect. on Eccles. Hist.*, *Vol. I*, *p.* 178.)

Y pumed oedd cyfeiliornad y Gnostiaid, ac efallai, o bawb mai hwy fu y blaid fwyaf blinderus i'r eglwys yn yr oes hon a'r un ganlynol. Amcan y rhai hyn oedd dwyn athrawiaeth Crist i gydgweddu â'r philosophyddiaeth ddwyreiniol yn ei hegwyddorion o barth dechreuad y byd, elfenau natur ac enaid dyn. Rhy faith fyddai amcanu rhoddi darluniad cyflawn o'u cyfundraeth, ond yn unig nodi eu bod yn gwadu gwir dduwdod a gwir ddynoliaeth Crist, er eu bod yn cyfaddef ei fod yn gennad wedi dysgyn oddiwrth Dduw. Yr oeddent hefyd yn ameu ei farwolaeth a'i adgyfodiad; ac yn dysgu mai unig amcan ei ymddangosiad oedd adferu y wybodaeth oedd wedi myned ar goll; ac yn unol â'u barn am elfenau natur, fel gwreiddyn pob drwg, yr oeddent yn gwrthod athrawiaeth adgyfodiad y corff yn benderfynol. Simon Magus, yn ol tystiolaeth llawer o'r henafiaid, oedd blaenor y blaid hon; ond mae rhai o'r dysgedigion yn ameu hyny. Y neb sydd am weled darluniad helaeth o'u syniadau a all gael hyny yn y cyhoeddiadau canlynol: *Dr. Mosheim's Eccles. Hist.*, 8*vo ed.*, *p.* 38. *Jones' Lect. on Eccles. Hist.*. *Vol. I.*, *p.* 179.

Y blaid ddiweddaf o gyfeiliornwyr yn yr oes apostolaidd oedd y Nicoliaid; ond am natur eu hathrawiaeth a'u harferiadau nid oes genym ond gwybodaeth gyfyng iawn. Mae ein Harglwydd yn eu nodi, ac yn eu beio, yn Dat. 2. 6, 14, 15; ac oddiwrth yr ymadroddion a ddefnyddir yno, mae lle i farnu eu bod yn anfoesol o ran eu buchedd. Mae llawer o'r haneswyr hen yn haeru mai Nicholas, un o'r saith diacon, oedd sylfaenydd y blaid hon; ond nid yw eu tystiolaeth yn ymddangos yn benderfynol. Yr oedd plaid luosog o'r Gnostiaid yn dwyn yr enw hyn yn yr ail ganrhif, ac yn eu herbyn hwy yr ysgrifenodd Clement o Alexandria, ei Stromata; ond pa un ai yr un blaid oeddent ag a nodir yn llyfr y Dadguddiad sydd amheus, neu o'r hyn leiaf, mae yn cael ei gyfrif felly gan Mosheim, a rhai ysgrifenwyr cyfrifol eraill.

Yr oedd rhai o'r cyfeiliornadau hyn wedi ymdaenu yn amser yr apostol Paul, ac yr oeddent oll wedi ymddangos cyn i'r apostol Ioan ysgrifenu ei epistol cyntaf; ac o herwydd yr ymadawiad oddiwrth y gwirionedd oedd wedi cymeryd lle, mae yr apostol hwnw yn darlunio cymeriad y gau-athrawon fel rhai oedd wedi myned allan oddiwrthynt hwy, am nad oeddent o honynt; ac yn rhybuddio y brodyr i aros yn Nghrist, ac i ymwrthod â'r cyfeiliornwyr mor llwyr a pheidio eu derbyn i'w tai, na dywedyd Duw yn rhwydd wrthynt, rhag bod yn gyfranog o'u gweithredoedd hwynt. Wrth chwilio y cyfeiliornadau hyn yr y'm yn canfod eu bod gan mwyaf wedi tarddu oddiar ymgais i fod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd; ac mae yr un egwyddor eto yn gweithio yn y byd, a buddiol fyddai i Gristionogion yr oes bresennol fod yn wyliadwrus, a glynu wrth y gair dwyfol yn ei burdeb. Yr ym yn canfod llawer o ymgais yn barod i gymysgu yr efengyl â chyfundraethau dynol; a pheth digon tebyg y bydd i hyn gynyddu yn gydraddol â chynydd balchder dealldwriaeth ansantaidd; ond ein cysur yw fod cadarn sail Duw yn sefyll, ac mai ar ei air a'i allu ef mae y llwydd yn gorphwys.

Am yr erledigaethau a gymmerasant le yn y ganrif gyntaf, yr ym wedi son mewn rhan yn barod. Gan fod yr Iuddewon fel cenedl wedi gwrthod Crist, nid oedd lle i ddysgwyl amgen nag iddynt wgu ar ei ganlynwyr, ac felly y gwnaethant. Aml y byddent yn dwyn yr apostolion gerbron yr henuriaid, ac yn eu cyhuddo, eu rhybuddio, a'u carcharu; ac yn y flwyddyn 34 o'r amseriad cyffredin, hwy ferthyrasent Stephan, pryd y cyfodwyd erledigaeth gyffredin yn Jerusalem yn erbyn y dysgyblion. Ac nid yw yn ymddangos mai yn Jerusalem yn unig y bu y creulonderau hyn yn ffynu, oblegyd yr oedd Saul o Tarsus yn eu dilyn i ddinasoedd dyeithr; ac nid peth tebyg yw mai efe oedd yr unig un oedd â llaw yn y gorchwyl. Ond ni chawn hanes am ferthyrdod neb o'r dysgyblion, o'r flwyddyn 45, pryd y lladdwyd Iago, brawd Ioan, â'r cleddyf; a chan i Herod drengu yn fuan wedi hyny, nid yw yn debyg i'r ymgais hyn barhau yn hir. Ond er nad oeddent yn gallu dinystrio bywydau y dysgyblion, nid oeddent yn ymatal rhag eu trallodi drwy bob dyfais, fel mae yn amlwg oddiwrth hanes yr apostol Paul am ei ddyoddefiadau ei hun, yn ei ail epistol at y Corinthiaid, pen. 11. 24, yn gystal ag oddiwrth Act. 9. 29; a 23. 12, 13.

Hyd yma yr oeddent y Rhufeiniaid wedi ymddwyn tuagat y Cristionogion, yn ol eu harfer tuagat eraill, heb ymyraeth â hwy am eu crefydd; ond fel yr oedd yr efengyl yn ymdaenu yr oeddent y temlau eilunaidd yn colli eu parch, a'r offeiriaid eu dylanwad a'u helw, ac o ganlyniad yr oedd parodrwydd yn y pleidiau eilunaddolgar i ymaflyd yn y cyfleusdra cyntaf i wrthwynebu y gyfun-

draeth newydd; ond nid cynt na'r flwyddyn 64, y cawsant ffordd agored i gyflawni eu dymuniad. Yr oedd Nero y pryd hyn yn meddiannu yr orsedd ymerodrol. Creulondeb oedd nodweddiad ei natur, ac yn unol â'i gymeriad, llosgodd ran o'r ddinas; a chan ei fod yn gwybod fod parodrwydd yn yr eilunaddolwyr i gollfarnu y Cristionogion, fe'i cyhuddodd o'r trosedd erchyll ag oedd yn gorwedd wrth ei ddrws ei hun, ac fel y gallesid dysgwyl, llwyddodd yn ei amcan. Yn y canlyniad, cafodd y Cristionogion eu anrheithio yn y modd mwyaf creulon a didrugaredd. Mae Tacitus yn adrodd fod y rhai a ddalient yn cael eu gwneuthur yn ddifyrwch i'r werinos trwy eu gwisgo yn nghrwyn anifeiliaid gwylltion, a gosod cwn i'w llarpio: croeshoelient eraill, a llosgent nifer fawr, a gwisgent y cyfryw â dillad wedi eu trochi mewn pyg, a gosodent hwy ar dân yn ymyl y ffyrdd, i roddi goleuni drwy y nos. Cynnygiodd Nero ei erddi ei hun i fod yn lleoedd y uienyddiad, fel y celai efe yr hyfrydwch o weled gwrthddrychau ei atgasrwydd a'i greulonder yn dyoddef fel hyn. Fe barhaodd yr erledigaeth hyn bedair blynedd, a dywedir iddi ymdaenu yn mhell drwy y talaethau, yr hyn sydd debygol, gan fod amddiffynwyr yr hen grefyddau yn barod i ymaflyd yn y fath gyfleusdra i ddial y dianrhydedd oedd wedi cael ei daflu ar eu duwiau meirwon. Yn nhymor yr erledigaeth hon y merthyrwyd yr apostolion—Pedr a Phaul.

Ar farwolaeth ddychrynllyd Nero, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 68, terfynodd yr erledigaeth hon, a chawsant y Cristionogion fesur o lonyddwch drwy holl deyrnasiad Vespasian a'i fab Titus; ond yr oeddent yn cyfranogi yn helaeth o flinderau yr amser, yn enwedig yn Judea, oblegyd yn y tymhor hyn y dinystriwyd Jerusalem, y llosgwyd y deml, ac y gwasgarwyd y genedl oedd wedi mwynhau cymmaint o ymgeledd Duw. Ond wedi marw Titus, esgynodd Domitian i'r orsedd. Yr oedd hwn yn ddyn tebyg i Nero, ac yn y flwyddyn 95 cyfododd erledigaeth ffyrnig ar y Cristionogion dan ei gyfarwyddiad. Yr achos o'r erledigaeth hon, yn ol tystiolaeth Hegesippus, oedd, fod Domitian yn colli yr orsedd, am ei fod wedi clywed y byddai i un gyfodi o blith perthynasau Crist, i honi hawl i lywodraethu yn ddideyrnged. Fodd bynag, mae yn sicr i'r erledigaeth hon ymdaenu drwy yr holl dalaethau gyda chyflymder a chreulonder mawr, fel nad oedd na gradd na swydd yn un dyogelwch, oblegyd yn mhlith y rhai a ferthyrwyd yr ym yn cael Flavius Clemens, o urddas llywodraethol, a Flavia Domitilla, yr hon oedd gyfnither i Domitian ei hun. Yn amser yr erledigaeth hon yr alltudiwyd yr apostol Ioan i Ynys Patmos. Ond nid hir y parhaodd y blinder dirfawr hwn, oblegyd yn y flwyddyn 96 terfynodd y gormeswr hwn ei holl orchestion, ac esgynodd Nerva i'r orsedd.

Mor fuan ag y daeth Nerva yn ymerawdwr, diddymwyd cyfreithiau erledigaethus Domitian, a chafodd yr alltudion ddychwelyd i'w cartref, leoedd mewn tangnefedd; ac yn eu plith, daeth Ioan yn ol i Ephesus, lle bu yn llafurio hyd ei farwolaeth. Yr oeddent y Cristionogion yn awr yn lluosog drwy yr holl ymerodraeth, ac yn mhlith pob gradd, fel yr ymddengys oddiwrth hanes y rhai a seliasant eu proffes â'u gwaed, a chynyddu oedd eu nifer er cymmaint oedd y dyoddefiadau. Er gwaethaf henuriaid yr Iuddewon, ac offeiriaid y cenedloedd, yr oedd enw Iesu yn derbyn cymeradwyaeth yn mhob gwlad, ac eneidiau yn mhob goror lyn ymddyried yn ei haeddiant, nes oeddent y temlau a'r allorau eilunaidd yn syrthio i ddiraddiaeth, a'r swyddwyr a berthynent i'w gwasanaeth yn cael awdurdod ymerawdwyr, a chleddyfau y swyddogion i amddiffyn eu cyfundraeth.

Wrth roddi golwg ar hanes Cristionogaeth yn y ganrif gyntaf, mae yn naturiol i ymofyn, Beth oedd gwir elfenau ei llwyddiant diymwad? Dynion a gyfrifid yn annysgedig oeddent y cenhadau, cyfundraeth annerbyniol i galon dyn llygredig oeddent yn ei chynnyg, ac yr oedd holl ddyfais Iuddewon a chenedloedd yn ei herbyn: ac eto i gyd, llwyddo yr oeddent yn wyneb pob gwrthwynebiad: ac nid oedd ymosodiadau Nero a Domitian, er lladd llawer, yn lleihau dim ar eu llwyddiant. Mae hyn wedi cael llawer o sylw gan ddynion dysgedig, ac, fel arfer, maent wedi ei briodoli i wahanol achosion. Rhai a honant fod y gyfundraeth efengylaidd mor gyson a rhesymol, fel yr oedd yn ei chymeradwyo ei hun i bob dyn diragfarn, mor fuan ag y buasai yn cael ei chyhoeddi yn ei glywedigaeth. Mae yn sicr fod y gyfundraeth yn deilwng o dderbyniad, ond nid ym yn barod i feddwl mai dynion diragfarn oedd pawb a ddarostyngwyd dan eu dylanwad, ac o ganlyniad, mae yn rhaid dysgwyl ar ryw beth arall fel gwreiddyn y llwydd apostolaidd. Mae eraill wedi priodoli y llwydd i'r gwyrthiau a gyflawnwyd gan y rhai a'u pregethent. Mae yn wir y dichon i'r gwyrthiau a gyflawnwyd ganddynt wneuthur argraffiadau dyfnion ar y rhai a'u gwelsent, ond nid pawb wedi y cyfan a fuont lygad-dystion o'r gwyrthiau apostolaidd a ddychwelwyd i'r ffydd. Rhaid, gan hyny, fod rhyw achos arall i'w gydnabod; ac wrth ddarllen y Testament Newydd yn ystyrbwyll, yr ym yn cael fod y cyfan i'w briodoli i ddylanwad yr Ysbryd Glân ar galonau y gwrandawyr. Yr oedd Paul yn plannu, ac Apolos yn dyfrhau, ond Duw, trwy oruchwyliaeth argyhoeddiadol ac adnewyddol ei Ysbryd, oedd yn rhoddi y cynydd.

Er fod oes y gwyrthiau wedi myned heibio, mae yr un dylanwad ag a achosodd eu llwyddiant hwy i'w ddysgwyl yn ngweinyddiad y moddion hyd ddiwedd amser; ac ar hyn y dylem sylfaenu hyder weddigar am ddychweliad eneidiau i'r ffydd, hyd nes byddo y ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd. Nid drwy air na nerth dyn, ond drwy ddylanwad Ysbryd y Duw byw; canys drwyddo ef, ac o hono ef, ac iddo ef y mae pob peth yn nghyfundraeth iachawdwriaeth, ac iddo ef y byddo yr holl ogoniant. Yr oeddent yr apostolion yn eu dydd yn gweini y moddion arfaethedig yn ddigymysg â dyfais ddynol, ac yn ymddibynu ar yr addewid am gydweithrediad yr Ysbryd, ac felly yn mynd

allan yn hyderus i wynebu ar fyd pechadurus a chyfeiliornus; a phan fyddent yn adolygu ffrwyth eu llafur, cydnabyddent mai llaw yr Arglwydd a'u gwnaeth yn fuddugol. A chyn y byddo i'r eglwys Gristionogol eto fwynhau yr un llwyddiant, rhaid ei chael i goleddu yr un syniadau, ac i orphwys ar nerth yr un Ysbryd. ac yna cyflawnir yr un gorchestion buddugol, er gogoniant Duw ac iachawdwriaeth dynion.

Mae un gofyniad arall yn debyg o ymgynnyg i'r darllenydd myfyrgar, wrth ddarllen am yr erledigaethau a gyfodwyd yn erbyn Cristionogaeth gan Rufain baganaidd, sef, Beth oedd yr achos i'r Rhufeiniaid drin Cristionogaeth felly, pan nad oedd y llywodraeth hyny yn arfer ymyraeth dim â gwahanol grefyddau neb o'u deiliaid paganaidd? Er deall yr achos, mae yn rhaid ystyried fod Cristionogaeth yn collfarnu pob gau-grefydd, ac o ganlyniad yn ameu hawl eu holl dduwiau i unrhyw addoliad, parch neu wasanaeth. Yr oeddent y Rhufeiniaid yn foddlon i'r Groegiaid, y Syriaid a'r Ephesiaid addoli eu duwiau eu hunain, ond nid i ddarbwyllo eraill i wneuthur felly, na'u beio am ymlynu wrth eu heilunod. Ond yr oeddent genhadau y cymod efengylaidd yn dysgu mai pechod o'r fath waethaf oedd ymgrymu ger eu bron, ac addoli y fath bethau, ac yn dangos mai eithafion ynfydrwydd oedd dysgwyl un cymhorth oddi wrthynt; a thrwy hyny yr oeddent yn cynhyrfu llid y werinos, ac atgasrwydd holl goleddwyr y gyfundraeth eilun-addolgar. Dyma un o'r achosion sydd hyd yn awr yn cynhyrfu gelyniaeth yn nghalonau dynion anedifeiriol yn erbyn efengyl gras, sef, eu bod yn collfarnu eu hegwyddorion, yn dynoethi eu hynfydrwydd, ac yn eu gosod yn bechaduriaid colledig gerbron Duw, mewn angen o drugaredd faddeuol, ac heb un hawl i'w gymeradwyaeth: ac yr oedd hyn yn effeithio mesurau y cenedloedd paganaidd, er eu tueddu i anrheithio eglwys y Duw byw yn yr amser gynt.

Heblaw hyny, yr oedd llwyddiant Cristionogaeth yn perygla elw llu mawr o ddynion hunanol a dylanwadol yn eu dydd. Yr oeddent yr offeiriaid paganaidd, drwy eu twyll, yn meddu cyfrifoldeb, ac yn derbyn parch ar draul y rhai a hudent, a'u cyfoeth yn cynyddu yn gydraddol â choelgrefyddoldeb y werinos; ond yn awr wele y deml yn gwaghau, a'r allorau yn myned yn ddiwasanaeth, drwy fod goleuni yn llewyrchu ar y rhai oeddent wedi arfer eistedd yn mro â chysgod angeu; ac yn y man wele yr offeiriaid a'u cymdeithion yn brawychu, ac yn galw ar yr awdurdodau i osod terfyn ar yr ymosodiad oedd yn bygwth sychu ffynonau eu holl hyfrydwch. A chan fod eilunaddoliaeth yn gymysgedig â'r holl sefydliadau gwladol, nid anhawdd oedd iddynt enill clefydd y swyddog o'u plaid; ac fel hyn yr oeddent yn cymeryd gafael yn mhob cyfleusdra i ddarbwyllo y llywodraethwyr i gredu fod y grefydd newydd oedd yn ymdaenu drwy y byd, yn sicr yn y diwedd o ddymchwelyd pob trefniant gwladol yn gystal a chrefyddol, a dwyn y cyfan i annrefn, gresyndod, a dinystr. Drwy y fath ddyfais yr oeddent yn aml yn llwyddo yn eu hamcan, mor belled a rhwystro y dysgyblion i ddyoddef arteithiau, carchar a marwolaeth; ond wedi y cyfan yr oedd yr achos yn myned rhagddo, braich yr Arglwydd yn cael ei dadguddio, a'r cenedloedd yn gweled iachawdwriaeth Duw, er siomedigaeth i holl lywodraethwyr tywyllwch y byd hwn.

## MELINAU LLYGOD.

Y mae boneddwr yn Kirkaldy, Ysgotland, wedi dofi dwy lygoden, ac wedi dyfeisio peirianwaith gyda pha un y gallant nyddu cotwm. Y mae y peiriant wedi ei gynllunio yn y fath fodd fel y gall llygoden gyffredin nyddu, cyfroddeddu, a chenglu o gant i gant a chwech ar hugain o edafedd yn y dydd. I fyned drwy hyn o orchwyl, rhaid i'r pedestrydd bychan redeg deg milltir a hanner. Gwerth dimai o flawd ceirch a fwyta un o honynt am bum wythnos, ac yn ystod hyny o amser, nydda gant a deg o edafynau yn y dydd. Felly enilla llygoden 7s. 6c. yn y flwyddyn. Tyner allan o hyny 5c. am eu byrddio, a swllt am y peiriant, bydd 'y chwe' swllt eraill yn enill clir o eiddo y llygoden bob blwyddyn. "Y gwr, sef y llogwr llygod," a fwriada geisio *lease* ar dŷ yr hwn a gynnalia ddeng mil o felinau llygod, a digon o le i'r ceidwaid a rhai cannoedd o edrychwyr.—*Eastern Counties Herald.*

## YR AREITHFA.—LLINELLAU I'W CYFIEITHU.

Mr. Gol.—Hyderaf y caniatewch i'r llinellau canlynol, a gyfansoddwyd gan Cowper, gael ymddangos yn y Seren, ac hyderaf y bydd i rai o'ch gohebwyr barddonol roddi cyfieithad iddynt, o herwydd eu teilyngdod.

W. R.

### THE PULPIT.

BY COWPER.

I say the pulpit (in the sober use
Of its legitimate, peculiar powers)
Must stand acknowledged, while the world shall stand,
The most important and effectual guard,
Support, and ornament of virtue's cause.
There stands the messenger of truth; there stands
The legate of the skies! His theme divine,
His office sacred, his credentials clear.
By him the violated law speaks out
Its thunders; and by him, in strains as sweet
As angels use, the gospel whispers peace.
He 'stablishes the strong, restores the weak,
Reclaims the wanderer, binds the broken-heart,
And, armed himself in panoply complete
Of heavenly temper, furnishes with arms
Bright as his own, and trains, by every rule
Of holy discipline, to glorious war,
The sacramental host of God's elect!

# PRYDDEST-AWDL AR LONG-DDRYLLIAD DYNOLIAETH.

GAN COLUMBUS, MINERSVILLE.

[Parhad o dudal. 112.]

*Y Cynhwrf yn Uffern—Agoriad y Gynghorfa fawr—Araeth ei Fawrhydi o'r Pwll—Ymgynghoriad y Cynghor—Ypenderfyniad—Yr ymosodiad—Herod yn gynghreiriwr—Cyflafn Bethlehem—Ffoedigaeth Crist i'r Aifft—Ei fedydd—Satan gn ei demtio yn yr anialwch—Crist yn gorchfygu a chleddyf y Gair—Danfon y deuddeg apostol a'r deg dysgybl a thriugain i'r maes—Eu llwyddiant—Ail ymosodiad pyrth uffern—Y cynghreirwyr—Crist wrtho ei hun yn y frwydr—Y galluoedd yn ei erbyn—Tywyllni yr ardrem.*

Ar diriad Mab y dyn yn Meth'lem dref,
A'i ddyben hael eglurai engyl nef,
Y boreu hwn rhyw rengau mwy na rhi',
Trigolion uffern fawr, a'u blaenor du,
Gynnullwyd oll yn gydgynghorfa gall
I neuadd* lwyd tywysog meib y fall,
I drefnu du fesurau cyfrwys, drwg,
Er cadw dyn dan felldith Duw a'i wg.
Taraw'd y bwrdd, cyhoeddwyd gosteg 'nawr,
Adseiniai gosteg drwy y neuadd fawr;
Ar hyn e ddringai Belzi fry i'w sedd,
Yn ddoethwych iawn, doethineb yn ei wedd.
Y cwrdd agorwyd gydag effaith dwys,
A'r gwyddfodolion oll a deimlent bwys
Y baich; a'r angenrheidrwydd iddynt oll
Fod ar y maes yn hyf, heb un ar goll:
Rhyw gynllun rhaid ei wneud yn ddirgel iawn
I soddi llong y nef yn Methl'em gawn:
Gwenwyno wnawn ddrylliedig feddwl llaith
Y t'lodion blin, i groesi'r Dwyfol waith;
I wrthod holl alwadau tyner gras,
A'u cadw mewn gwrthryfel ar y ma's;
Dyfeisiwn bob ryw ddichell heb un sen,
Enwogrwydd uffern ddu, a Belzi'n pen,
Gael hâd y wraig i ddannedd creigiau dig,
I'r berw crych, lle collwyd ar ei frig,
Rhydd freiniau dyn yn llestr Eden wen,
A dewr wrth'nebu holl alluoedd nen.
Ar hyn cyfodai'r llywydd ar ei dra'd,
Cadfridog mawr a theyrn holl lengau'r wlad,
Anerchai hwynt mewn rhyw frwdfrydedd mawr
"Swyddogion oll, a'm milwyr pwy a'ch dawr?
Cydraddwyr dewr, o'r nefoedd taflwyd ni,
Ein cwymp fu fawr, o'r goruchelder fry,
Ac yma mewn cadwynau certh eu grym,
Yn alltudiedig o'r gre'digaeth y'm.
Bythol elyniaeth hoeddaf yn mhob modd,
Yn erbyn Duw drwy ddylith lw ar g'odd;
Fy nhylwyth glew, swyddogion uffern gerth,
I'r maes yn awr yn arfog yn eich nerth;
Ar santaidd gaer y nef ni ruthrwn 'nawr,"
Yn mlaen, yn mlaen! dadseiniai'r orsedd fawr;
Adenill wnawn ein hen orseddau cu,
Mae'r dda'r i gyd mewn cynghrair gyda ni.
Fy nghydraddolion, meibion y wawr ddydd,
'Rwy'n penderfynu marw neu fod yn rhydd,
'Rwyf am i'ch oll ystyried un peth 'nawr,
'E groga tynged Anwn ar yr awr—
Mae'n rhyddid a'n dedwyddwch oll o'r bron,
'Dibynu maent ar yr anturiaeth hon;
Mae'n urddas mawr, ein mawredd, ac ein bri,
Yn troi yn awr ar eich ffyddlondeb chwi;
Arfogwn oll——i'r maes, i'r maes——i'r pair,
Gwrolder yn y gâd ein harwyddair.
Ein baniar ddu mewn nerth a blaenwn fry,
A chwyfio wna ar gaer y ne' mewn bri;
Draw, draw, mae buddugoliaeth lwyr a llad.
I'n hanes mae——cymerwn gyrau'r wlad.
Arfogwn 'nawr; anrhydedd uffern sydd,
A'n gloew gledd yn deilwng iawn o'r dydd.*
Yn llengau awd i wlad Judea fras,
I'mosod ar y Mab mewn agwedd gwas.
Eiddigedd rowd yn nghalon Herod flin,
Fod brenin wedi eni——Mab y dyn,
A Brenin yr Iuddewon gelwid ef,
Amlygwyd hyn gan seren yn y nef.
Gwnawd ordinhad yn Juda gyda brys,
I ladd ei nerth gwnawd cyfraith yn y llys;
Breninol ordinhad gan Herod fawr,
Cynhyrfwyd ef gan nerthoedd uffern 'nawr,
I ladd eu meibion oll tan ddwy flwydd oed,
Yn Methl'em draw mae'r delyn ar y coed.
Y fam, fel Rahel gynt, wylofain mae:
Yn Rama clywyd och, a llefau gwae;
Ond Mab y dyn, drwy rybudd oddi fry,
A hwyliodd tua'r Aifft—ein Ceidwad cu.
Yn hyn fe siomwyd dyfais uffern flin,
Gorchfygodd ef, Emanuel Duw dyn.
Cynyddu wnaeth fel dyn—pan ddaeth yn fawr
Bedyddiwrd ef yn yr Iorddonen 'nawr.
Fe gadarnhaw'd ar goedd, dan sel y nef,
Mai anwyl Fab y Tad—Duw ydoedd ef.
E rodd i ni es'ampl lawn o'r modd
I'w ddilyn oll—gwneud proffes dda ar g'odd.
Nid cynt y gwnaeth bortreiad yn y dwr
O drefn gras, a'r ffordd i'r cadarn dwr—
Daeth uffern hyll yn mlaen i'w demtio nawr,
Yn yr anialwch cras e gwyllt ei wawr;
Ymprydio bu hoff briod fab y Tad;
Hen Satan ar ei dro wrth rodio'r wlad
A ddaeth yn mlaen, fel meudwy yn y wig,
Llariaidd ei wedd, hen wr mewn mantell fyg.—
"Ai ti a welais yn y dyfroedd draw?]
Claddedig oe't, heb arswyd, ofn na braw,
Pan rwygodd nef gan lef o'r orsedd fry,
Boddlonrwydd gaed—fy anwyl Fab wyt ti.
Rhyw lais ar goedd o entrych nefoedd fawr,
O'r nef y daeth, e swniodd hyd y llawr,
Os ti yw Mab yr Hollalluog Dduw,
Ymprydio'r wyf yn wael—gad ini fyw;
O arch i'r cerig hyn yn fara fod,
Fel byddom byw am ronyn is y rhod.
'Rwyf yn d' adnabod Satan yn rhy dda,
Hen dwyllwr wyt, a'th ddichell mawr a ga—
Gilgwthiad llawn—nid bara, er mor dda;
A gynnal fywyd dyn ond geiriau Duw,
Am hyny ufuddha i'r teilwng lyw;
A chledd y gair e faeddwyd Satan 'nawr,
Cledd yn ngwrth gledd, gorchfygwyd uffern fawr.
Cymerwyd ef i'r ddinas santaidd gu,
Caersalem lon, a Duw ei haddurn hi—
Dysglaerwyn gysegr cain, ein Harglwydd ner,
A'i dyrau mawr ddyrchafent hyd y sêr:
Ar binacl uchel iawn y safai Crist,
A'r temtiwr dd'wedai 'nawr yn wyneb-drist,
Os ti yw cyn-fab Duw—Duw'r lluoedd mawr,
Rho i mi brawf drwy fwrw'th hun i lawr;
Dim niwed gei—mae yn dy warchod di
Osgorddlu bur yr orsedd santaidd fry.

* Pandemonium.

* Victory.

Ufuddol wyf i'r gair, ac er mwyn hyn,
Na themtia Dduw, atebai'r Iesu gwyn.
I Tabor draw, neu Carmel uchel frig,
Cymerwyd ef, uwch môr a'i donau dig.
Golygfa synfawr iawn oedd gwel'd yngh̄yd
Gogoniant da'r, a holl deyrnasoedd byd,—
Yn rhoddion hael, 'Mherawdwr mwya' gaed,
Am syrthio lawr, addoli wrth ei draed.
Llygredig wyt, a'th wobrwy fel dy hun,
Dos ymaith 'nawr wrth archiad Mab y dyn.
Gorch'mynir i'n addoli'r Arglwydd Dduw,
Ac ef yn unig a was'naethi, clyw.
Siomedig iawn o'r maes, y temtiwr du
Enciliai 'nawr—y frwydr drodd o'u tu.
Cadd hâd y wraig y fuddugoliaeth hon,
Ac uffern boeth a grynai ger ei fron.
Yr Iesu mawr ddanfonai 'nawr i'r gwaith,
Ei fadau mân, cynhyrfu uffern faith,
Y fintai fechan ddewr yn mlaenaf aeth,
A'r deuddeg arwyr doeth yn enwog ddaeth;
Ac ar ol rhai'n danfonwyd llynges fwy,
Rhyw ddeg a thrugain llawn o'u cyfrif hwy;
Mewn cynghrair têg y cydweithredont 'nawr,
Yn enw ac awdurdod Iesu mawr.
Eu harfau glain ar gestyll cryf y ddraig,
Yn chwareu'n lew drwy nerthoedd hâd y wraig;
A baniar hedd ar lawer castell du
A blanwyd 'nawr gan ein Llyngesydd ni:
Encilio draw wnai rengau uffern drist,
Fel mellten syrthio wnaent o flaen ein Crist.
Nid amgen oe'nt na duw Philistia gynt,
O flaen arch Duw i'r llawr eu Dagon hwynt—
A syrthiodd yn dra chwyrn oddiar ei sedd,
Ei ben yn friw, ffieiddiol iawn ei wedd.
Wrth enw'r Oen brawychus oedd eu llef,
Mab Duw a'r "Sanct" y cydnabyddent Ef.
'Doedd saith na lleng o'i flaen ond megys dim,
Dychrynent oll wrth air ei ddwyfol rym.
Gwel lengau uffern dân, byddinog lu,
Encilio maent o'r gâd i'r cadlys cry'—
I gasglu nerth, dwyn gallu'r t'wyllwch ma's
I 'mosod a'u holl rym ar gaerau gras;
Ymresu wnai pob cythraul drwy'r holl wlad
I gario arf—byddino wnaent i'r gâd.
Draw llynges gref—cadlynges anwn sydd
Yn hwylio ma's, a brwydr fawr a fydd;
'R elyniaeth hen a thost sy'n berwi 'nawr
Yn monwes deiliaid du'r anoddyn mawr.
Mewn cynghrair maent â holl bwerau r llawr—
Rhufeinwyr dewr—grym gorsedd Cæsar fawr;
Plant Abr'am gyda hyn a'u llef am wa'd!
Mewn gair 'roedd gallu'r ddaear yn y gâd.
Mi welaf long y nef—ein *Silo* wiw,
Yn unig ar y dw'r, ac wrth y llyw—
Pen-cadben mawr, Iachawdwr euog ddyn,
Wrth'nebai'r llu, heb gymhorth, ond ei hun.
Gwaredu dyn ei amcan grasol cu,
Gelynol hwn i drefn ddoeth ein Rhi.
Yn nghanol y trychionog donau gwrdd,
Yr Iesu mâd a safai ar ei bwrdd.
Y gwron mawr wrth'nebai'r lluoedd maith,
Diarswyd oedd tra berwai'r eigion llaith;
Y tonau mawr, digofus donau Duw,
Bygythient 'nawr i'w lyngcu ef yn fyw;
Ei enaid mewn cyfyngder!—O ein Por,
A chyfynghau yn awr wna'r cyfyng-for;*
Cyfiawnder safai draw yn gadarn fur,
Heb drwydded ganddo ef i fyn'd i dir;
Rhyw fas-le gwyllt, a cheulan fawr oedd rhwng
Llong bywyd dyn a'r teulu dan y blwng,
I'w rhwystro 'mla'n i borth trueni dyn,
Fe wgai'r nef a'r ddaear oedd yn flin.
Ow! daeth o hyd cyflegrau Sinai hen,
A'i Dad oedd 'nawr yn gorfod cuddio'i wen,
Yr haul mor dêr a guddiai'i oleu cl'ar,
Tywyllni mawr oedd yn gorchuddio'r dda'r.
'Relfenau cry' a wylent wrth ei draed,
A'r gread oll mewn dychryn 'nawr a gaed.
Llyngesydd uffern ddall, "Yn mlaen, yn mlaen,"
Arwyddai 'nawr, agorwn arno'n tan;
Os maeddwn ef cawn barch a chlodydd glan—
Mae'n soddi 'nawr yn nghanol mwg a than.

[I'w barhau.]

* *Channel*

## RATTLING RUN A YELLOW SPRING.

Yn ystod y mis diweddaf ymwelasom â'r lleoedd newyddion a enwir uchod, y rhai a orweddant mewn ardal uchel, ac hynod o arw a cherigog ar y Mynydd Coch (*Red Mountain*), yn swydd Dauphin, Pa. Gan fod amgylchiadau ein swyddogaeth yn caniatau i ni hebgor ychydig ddyddiau yn gyffredin yn nechreu y mis, yr ydym yn aml yn defnyddio y cyfleusdra i ymweled a gwasgaredigion ein cenedl trwy yr amrywiol ardaloedd cymmydogaethol. Y mae y gweithfeydd glo yn wasgaredig trwy fynyddoedd Pennsylvania; a gellir dilyn rhediad y gwythienau cuddiedig a gwerthfawr fe allai am ddegau os nid ugeiniau o filldiroedd trwy galon y creigiau, y rhai a gloddir ac a ddygir allan mewn gwahanol fanau yma ac acw, yn ol fel y byddo cyfleusderau ac amgylchiadau yn caniatau. Y mae yn llawen genym ddeall wrth ymweled â'r gwahanol sefydlfeydd lle mae yr anturiaethau mwnawl hyn yn cael eu dwyn yn mlaen nad oes unrhyw genedl yn cael ei hystyried yn fwy dyfeisgar a medrus i dynu y trysor llosgadwy hwn o grombil y ddaear nâ'r Cymry. Gwyddom gryn dipyn o hanes y gweithfeydd glo o fewn y pum' mlynedd diweddaf yn ardaloedd Pinegrove, Tremont, Llewelyn, Minersville, Pottsville, New Castle, Wadesville, St. Clair, Bellmont, Cwmbwrla, New Philadelphia, Silver Creek, Middleport, Patterson, Tuscarora, Summit Hill, Beaver's Meadow, Jeansville, Hazleton, &c., a gwyddom ychydig am y Cymry oddiyno yn mlaen trwy Wilkesbarre, Pittston Ferry, Hyde Park neu Scrantonia, Dunmore, Blakeley i Carbondale, a beiddiwn ddywedyd eu bod yn cael eu parchu fel gweithwyr da a chaled yn yr holl leoedd uchod, ac ystyrir yn gyffredin nad ydynt yn ol i neb mewn dyfais a deall yn eu galwedigaeth. Profir hyn gan y ffaith fod amryw o honynt yn dal sefyllfaoedd o awdurdod a chyfrifoldeb trwy

yr ardal mewn amryw fanau. Ond ofnwn er hyny nad yw rai o honynt mor enwog a hyn mewn moesau a rhinwedd.

Ond yn lle crwydro fel hyn, deuwn yn mlaen at y daith a gymerasom. Dydd Gwener, Mai 9fed, cychwynasom o'n cartref heddychlawn o gylch hanner dydd tuag ardal Westwood, dwy filldir o Pottsville, lle y cyfarfuasom â cheffyl haiarn, yr hwn a'n cymerodd mewn ychydig amser i Tremont, tua deg milldir o bellder, a phrysurasom yn mlaen yn ddioed gyda *stage* Bear Gap dros y mynydd i Ddyffryn William. Yr oeddem yn gadael cloddfeydd Loberry ar y llaw chwith, (lle mae ein cydwladwr a'n cyfaill haeddbarch Morgan Lewis a'i feibion yn oruchwylwyr), ac aethom yn mlaen oddiyno ar draed i Ddyffryn Clark. Erbyn cyrhaedd tŷ John McAllister yr oedd cysgodau yr hwyr yn dechreu taflu eu mentyll drosom. Rhaid oedd aros yma dros y nos; a chawsom bob caredigrwydd a sylw a allasem ei ddysgwyl oddiwrth y teulu—ymdrawsom yma yn llawer gwell na'n dysgwyliad. Yr oeddem yn awr wedi myned heibio i'r ffordd a arweinia at Gold Mine Gap, ac yn agos ar gyfer Roush Gap, lle y mae cyflawnder mawr o lo wedi ei gael allan, ac yn cael ei gloddio. Boreu dranoeth, o gylch saith o'r gloch, rhaid oedd wynebu yn mlaen ar y rhan fwyaf arw ac annymunol o'r daith. Nid oedd ond saith milldir oddi yma i Yellow Spring. Cawsom lwybr lled wastad am fwy nag hanner y ffordd trwy waelod y dyffryn, ond wedi hyny yr oedd y Mynydd Coch genym i'w groesi. Yr oedd y coed wedi eu nodi er cyfarwyddo y teithiwr helbulus, ond yr oedd yn ormod gwaith mewn rai manau i ni wneud allan pa le yr oedd unrhyw fath o lwybr. Gwarchod pawb, dyma le. Yr oedd y chwys yn tori allan drosom oll, a buom unwaith agos a digaloni, gan feddwl na allasem gyrhaedd pen y mynydd. Y mae y mynydd yn uchel a chribog, a charneddau mawrion o gerig anferth yn aml trwyddo, dros ba rai yr oedd yn rhaid cripian rhywfodd ar ein traed a'n dwylaw, a hyny pan oedd yr haul yn gwresogi gyda thanbeidrwydd neillduol. Buom agos i ddwy awr yn teithio un filldir, ac yr oeddem yn barhaus mewn llawn waith. Pa fodd bynag, cyrhaeddasom y lle a chwenychem o'r diwedd, a thra dymunol oedd cyfarfod â chyfeillion caredig yn nghanol y fath anialwch diwrtaith. Y pellder o Pottsville i Yellow Spring yw 35 milldir; i Rattling Run, 39 milldir.

Y mae y cwmni i ba un y perthyna cloddfeydd Yellow Spring a Rattling Run wedi myned i draul anferth i wneud parotoadau at y gwaith, ond hyd yn hyn nid oes ond ansicrwydd yn bodoli o barth y glo, er eu bod wedi cloddio i lawr ato. Mae y gwythienau yn anghysson, ac weithiau yn methu neu yn darfod rhwng y creigiau, y rhai ydynt hynod o galed ac anhawdd i'w tori. Ofnir y bydd rhaid iddynt roddi y cwbl i fynu, yn enwedig yn Rattling Run; ond penderfynant wneud yr oll a allont cyn hyny. Y hwn mae yn gwmni anrhydeddus—yn talu yn dda, a throant y gweithwyr ymaith am feddwi, ymladd, neu unrhyw anfoesoldeb cyffelyb. Y mae ein cydwladwyr teilwng D. Davies, T. Thomas, a J. Rodgers yn oruchwylwyr oddi tanynt.

Treuliasom y Sabboth yma yn lled gysurus. Cynnelir cyfarfodydd ganddynt yn y ddau le. Da genym ychwanegu fod arwyddion helaeth o foddlonrwydd y Nef ar y cyfarfodydd Cymreig a'r Ysgol Sul yn y lleoedd hyn. Syndod y fath gyfnewidiad sydyn sydd yn y tywydd; ymddengys fel pe byddai am neidio o ganol gauaf i ganol haf, a gadael y gwanwyn. Dydd Llun diweddaf yr oedd yr holl ardal wedi ei gorchuddio gan eira, heddyw y mae yn hynod o boeth; ond y mae y cyfeillion yn ffyddlon i deithio o'r naill fan i'r llall trwy y gwres i'r cyfarfodydd, pellder o bedair milldir. Mae yr ychydig frodyr sydd yma yn byw mewn heddwch a chydweithrediad. Bedyddwyr yw y rhan luosocaf o honynt, ond y maent yn hollol anmhleidiol yn eu dull o gario yr achos yn mhlaen, ac yn helaethion beunydd yn ngwaith yr Arglwydd. Ychydig wythnosau yn ol bu y Parch. R. R. Williams, Minersville, yma yn gosod amgylchiadau ei deml o'u blaen, a deallwn iddo dderbyn ryw $60 neu $70 yn eu plith, yr hyn sydd brawf teg o'u hysbryd rydd a'u haelionusrwydd.

Dychwelasom yn ol boreu dydd Llun, ond gan fod hyn o hanes wedi cymeryd mwy o le yn barod nag a ddylai, nid ymhelaethwn yn bresennol.

---

## ENGLYNION I'R MWNWYR.

Yn swydd Schuylkill mae miloedd—o fwnwyr
　Tu fewn i'w hardaloedd;
　Diau bu dyddiau nad oedd
　Naddu ar ei mynyddoedd.

Yn awr rhyw dorf fawr, fel daear-foch—sydd
　A'u swn oddi danoch;
　Glo geisiant, gyrant yn groch,
　Oll am hwn yn llym ynoch.

Y mwnwr trwy amynedd—a'i arfau
　Gynhyrfodd eich perfedd;
　Mwn a glô a min ei gledd
　A ddwyn ef o'i ddu annedd.

Gwasgarant, gweithiant y gwythi—o fewn
　I fonau'r clogwyni,
　Goreu saig er gwresogi
　Glan ei wedd yw glo i ni.

Anturiaeth ag hynt arwach—i ddynion,
Ni ddaw un o'i gwaelach;
Crogi mae rhai cerigach,
Bygwth o hyd bywyd bach.

Mwg ag awyr ddrwg a ddrewa—yn sur
I hinsawdd y cylla;
Foreu a hwyr fe fyrha
Iechyd y dynion iacha'.

Meibion teg, gwiwdeg gedyrn—a llesiol
Gollasant eu haddurn;
Llysg fflamiau, gan chwareu'n chwyrn,
Y rhisgl oddiam 'r esgyrn.

Mae swn fel anwn fileinig—twrwf,
Fel taran chwyddedig,
Rhuadau angharedig,
Pan enyna danfa dig.

Y mwnwr, cais ymanog,—y dyled
O dalu gwell cyflog:
Daw clô oer ar dŷ claiog,
A'i fwrw i lawr cyn cael fawr log.'

*Minersville* S. AB DEWI.

## BEIRNIADAETH YSGRYTHYROL.

"Yn mhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr; er hyny yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nag ef."—Math. 11. 11.

MR. GOL.—Gwelais sylw yn ddiweddar ar y geiriau uchod sydd wedi rhoddi tueddiad cryf ydwyf i'w fabwysiadu fel gwir feddwl y geiriau, yn rhagor i ddim a welais o'r blaen. Dywedai yr awdwr mai y drychfeddwl yn y gwreiddiol, oedd *yr hwn sydd lai*, ac nid "yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd." Barnai mai cyfeirio oedd ein Harglwydd Iesu Grist ato ei hun pan yn son am "y lleiaf." Hyny yw, y lleiaf o ran amser, y pryd hwnw. "Y lleiaf yn nheyrnas nefoedd," sef yn ngweinidogaeth goruchwyliaeth yr efengyl.—Yr oedd Ioan o'i flaen ef yn ngweinidogaeth yr oruchwyliaeth hon, ac wedi bod fe ddichon yn fwy cyhoeddus nag ef cyn hyny, fel yr oedd rai yn barnu mai efe oedd y Crist.—Eto, yr oedd Ioan yn llai nag ef mewn ystyr bersonol. Nid oedd Ioan ond dyn wedi ei anfon gan Dduw, ond yr oedd Iesu yn berson dwyfol dwyfol mewn undeb â natur ddynol. Y "Duw a ymddangosodd mewn cnawd." Barnwyf y gwna y golygiad hwn gydeistedd yn hollol naturiol â chyssylltiadau y geiriau. Yr wyf am i eraill gymeryd y sylw uchod dan eu hystyriaeth, a barnu yn ddiduedd pa un a ydyw yn fwy cyson â'r hen feddyliau eraill sydd wedi bod genym; oblegyd y mae o bwys i ni i fod yn feddiannol ar feddwl y geiriau, yn neillduol pa beth a feddylir wrth "deyrnas nefoedd" yn y geirhyn, ac mewn manau eraill. Gwadir gan rai nad oedd Ioan na Christ yn gweinidogaethu dan yr oruchwyliaeth efengylaidd; ond os yw y meddwl uchod yn gywir (fel yr ydwyf yn cael fy nhueddu i gredu ei fod), y mae yn un o'r prawfiadau cryfaf i brofi eu bod. Ac ar y golygiad hwnw yn fwyaf neillduol yr oedd Ioan yn fwy na neb o'r proffwydi a fu o'i flaen ef. Ond am Grist, wedi iddo ef ddechreu ar y weinidogaeth yr oedd yn fwy na Ioan, er ei fod wedi bod lai o amser nag ef pryd hyny yn y weinidogaeth.

*Pottsville.* AB GOMER.

## COLLED DDIRFAWR I GENHADIAETH Y BEDYDDWYR YN SIAM.

Derbyniwyd y newydd gyda yr "Europa" fod yr adeiladaethau cyfleus perthynol i Genhadiaeth y Bedyddwyr Americanaidd yn Bangkul, Siam, wedi eu llwyr ddinystrio trwy dân ar y 4ydd o Ionawr. Dechreuodd y tân mewn tŷ un o'r brodorion, ac ymledodd gyda y fath gyflymdra, fel y methwyd achub nemawr o bethau. Dinystriwyd y swyddfa argraffyddol a'r holl ddefnyddiau, yn cynnwys llythyrenau, llafnau ystrydebedig, llyfrgelloedd, &c., a holl ddodrefn a meddiannau personol y cenhadon: collwyd agos y cwbl o'r ail argraffiad o'r Testament Newydd, fel yr oedd yn anhawdd cael digon o gopiau i ddwyn yr addoliad cyffredin yn mlaen ar y Sabboth. Nis gall y golled fod yn llai na deg mil o ddoleri, ond y tebygolrwydd yw ei bod yn llawer mwy. Derbyniwyd y cenhadon i annedd Senor Marcellino De Aranjo Ross, y Gweinidog Portuguaidd, a chyfarfuasant â llawer o garedigrwydd oddiwrth eraill. Y mae Mr. Chandler yn bwriadu dychwelyd i Boston mor fuan ag y byddo modd, i barotoi i wneud y golled i fynu.

## BYR-GOFIANT Y BRAWD JACOB ROSSER,

*Bellmont, swydd Schuylkill, Pa.*

GANWYD Mr. Jacob Rosser yn mhlwyf Llanelli, swydd Frycheiniog, ar yr 16eg o Ebrill, 1814. Mab ydoedd i John a Jane Rosser, o'r lle dywededig, yn yr hon gymmydogaeth y treuliodd ef ddyddiau ei faboed. Yn y flwyddyn 1833 ymunodd mewn priodas ag Ann Lewis, ac ymsefydlasant yn y Brynmawr, ger Nantyglo. Yn mhen ychydig amser symudasant i Benygarnfach, yn yr un ardal. Yma y daeth yn wasgfa ar wrthddrych ein cofiant am fater ei enaid—gwelodd ei sefyllfa fel pechadur, a chafodd olwg ar Iesu mawr yn wyn a gwridog, yn rhagori

ar ddeng mil; ac yn y flwyddyn 1837 penderfynodd roddi ei hunan yn gyntaf i'r Arglwydd, ac yna i'w bobl, a bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd yn Nghrist Iesu gan y Parch, Robert Prichard, pryd hyny yn weinidog yn Hermon, Nantyglo.

Er nad oedd taith grefyddol y brawd Jacob Rosser ond byr, eto rhodiodd fywyd dychlynaidd a diargyhoedd uwchlaw llawer o broffeswyr yr oes. Ymdrechodd at y nod, y gamp uchel o alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu.

Gadawodd wlad ei enedigaeth Ebrill 4ydd, 1848, a daeth dros y weilgi mawr i diroedd y Gorllewin, ac ymsefydlodd yn Bellmont, swydd Schuylkill, Pa., lle y treuliodd weddill ei oes gan mwyaf. Bu yn ffyddlon a diwyd yn ei ddydd a'i dymor, ac yn llafurus am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol; er hyny nid esgeulusai y bywyd presennol—yr oedd yn ddiwyd gyda ei alwedigaeth, ac yn barchus gan ei gymmydogion a'i feistri. Yr oedd yn hynod mewn diwydrwydd, ac yn ddiflin yn ei alwedigaeth. Yr oedd yn ddifeddwl drwg, fel y dywed Paul am gariad, "nid oedd yn gwneuthur yn anweddaidd, nid oedd yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddid, ac ni feddyliai ddrwg." Ymserchai yn ei frodyr a'i chwiorydd crefyddol, a chynghorai hwynt yn aml i fod yn ofalus y naill am y llall. Harddu ei broffes ydoedd y peth blaenaf yn ei olwg. Talai sylw manwl i'r geiriau, "Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist." Yr oedd yn ffyddlon iawn i gadw ei gydgynnulliad, gan fod yn wresog yn yr ysbryd, yn nghwlwm y tangnefedd. Yn yr addoliad cyhoeddus a dirgelaidd byddai yn aml yn son gyda hoffder am y Gwr a'r Duwdod ynddo'n trigo. Dilynai ei daith o Fethlehem i fynydd Calfaria; ac arweiniai yn aml at yr hen bennill hwnw—

"Sylfaen *sound* yw'r Arglwydd Iesu,
Arno'r wyf am adeiladu."

Yr oed Jacob Rosser yn foddlon i'w gylch, ac o ganlyniad yn llanw ei le hun yn mhlith ei frodyr yn nhŷ yr Arglwydd, gan ymorphwys achos ei enaid ar ras ei Dduw am gadwedigath. Adroddai y pennill hwnw yn aml—

"'Dwy'n mofyn neb ond Iesu cu
I'm harwain i'r Baradwys fry."

Mawrth 28, 1851, fel yr oedd Jacob Rosser a'i gydweithiwr, John Whiteman, yn myned at eu gwaith yn y boreu, taniodd y danchwa (*fire damp*), fel y llosgodd y ddau yn ddrwg; ac er pob ymdrech meddygol ni lwyddodd dim i wneud lles i'n brawd Rosser. Dyoddefodd boenau dirfawr yn amyneddgar iawn am chwech o ddyddiau, ac yr ail o Ebrill, deallai fod ei dŷ o bridd yn dyfod i lawr. Gorchymynodd idd ei briod roddi ei phwys ar Iesu Grist, yr hwn sydd yn abl i'w chynnal pan y byddai ef yn llwch y bedd. Dywedai fod yn dda ganddo y pryd hyny ei fod wedi gosod ei hyder ar Grist cyn ei gystuddio, &c., a thua chanol y nos, ehedodd yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.

Ebrill 4, ymgasglodd torf luosog i weini y gymwynas olaf i'w ran farwol, pryd y claddwyd ef i gladdfa y Bedyddwyr yn Bellmont. Pregethodd y Parch. W. Morgan ar yr achlysur yn y capel, oddiar 1 Thes. 4 14. Anerchwyd y gynnulleidfa ar lan y bedd gan y Parch. Wm. J. Jones.

Gadawodd ein brawd weddw a chwech o blant, ynghyd a llawer o berthynasau a chyfeillion, i alaru ar ei ol.

Ffarwel, fy nhyfaill hoff,
Gadewaist fi'n y glyn,
Mynych ydwyt yn fy nghof,
A'm dagrau sydd yn llyn;
Lle'r ydwyt ti 'rwyf finnau'n dod,
O Dduw rho i'm y cywir nod.

JOHN W. DAVIES.

## CORFFOLIAD EGLWYS YN PITTSTON FERRY, PA.

Dydd Sabboth, yr 21ain o Ebrill, cafwyd cyfarfodydd tra dymunol yn y lle uchod. Yn y boreu am naw cyfarfuasom wrth ochor y dwr, ac wedi darllen, gweddio a chanu, "claddwyd gyda Christ yn y bedydd" dri, gan y brawd D. E. Bowen, Carbondale.

Dechreuwyd yr oedfa deg o'r gloch gan y brawd T. Cheshire; a phregethoddodd D. E. Bowen ar "Sicrwydd llwyddiant eiriolaeth Crist;" 1 Ioan 2. 1, 2. Wedi yr oedfa eisteddodd "cynghor" o frodyr a ddaethant i ymweled â ni o Carbondale, Dunmore, a Scrantonia, i ystyried priodoldeb y corffoliad.

Am hanner awr wedi dau, darllenodd a gweddiodd y brawd L. D. Lewis; yna traddodwyd araeth yn Saesnaeg a Chymraeg ar natur a dybenion eglwys Gristionogol, gan y brawd E. Edwards (gweinidog y lle). Wedi hyny rhoddwyd deheulaw cymdeithas iddo ef, ac i'r eglwys trwyddo, gan y brawd D. E. Bowen, a chydeisteddasom i wledda ar y swper santaidd.

Am hanner awr wedi chwech, dechreuwyd gan y brawd Benjamin Bowen; a phregethwyd gan y brodyr E. Edwards a D. E. Bowen; y cyntaf yn Saesnaeg, Can. Sol. 8. 5, a'r olaf yn Gymraeg, Eph. 2. 20—22.

Fel hyn y treuliasom y dydd—dydd yn yr

hwn y cawsom fadd ysbrydol—dydd a erys yn hir yn ein cof—dydd, hyderwn, a adawa argraff barhaus a daioous ar ein calon.

Y mae yn galondid genym fod yr olwg ar y lle hwn mor obeithiol. Gyda gweddi, cydweithrediad a 'gwenau y Nef, diau y gwelir yma cyn hir eglwys aml mewn rhifedi, a gobeithiwn enwog mewn grasusau. A thra y byddo eu his-fugail yn ymdrechu eu harwain i "borfeydd gwelltog," a'u tywys "gerllaw y dyfroedd tawel," bydded i'r Pen-bugail—Bugail mawr y defaid, ei arwain ef a hwythau, ac "a'u perffeithio yn mhob gweithred dda."

E. EDWARDS.

## BEDYDDWYR YR UNOL DALAETHAU.

Oddiwrth Ddyddiadur y Bedyddwyr am y flwyddyn hon, a gyhoeddwyd yn Philadelphia, ymddengys mai nifer aelodau y Bedyddwyr yn yr Unol Dalaethau ydyw 754,652; o gymanfaoedd 578; o eglwysi, 10,441; o weinidogion ordeiniedig, 6,049; ac o weinidogion trwyddedig, 1855; ac mai nifer y personau a fedyddiwyd mewn un flwyddyn ydoedd 57,719. Yn California y mae pedwar o weinidogion ordeiniedig, ac 28 o aelodau. Y mae 20 o golegau, ac 8 o sefydliadau duwinyddol, yn perthyn iddynt yn yr Unol Dalaethau. Y mae gan Canada a Nova Scotia un coleg bob un, tra nad oes yn Mhrydain ond pump o golegau gan y Bedyddwyr. Mae y Bedyddwyr yn yr Unol Dalaethau yn dwyn allan 37 o gyhoeddiadau, 25 yn wythnosol, 1 pymthengnosol, 13 yn fisol, a 2 yn chwarterol. Y mae ganddynt hefyd 10 o gymdeithasau cenhadol er lledaenu yr efengyl.

## AMGYLCHIAD ECHRYSLAWN.

Cyfarfyddodd Gwyddel o'r enw Hanagan, ei wraig a chwech o blant, Mrs. O'Donnel a'i mab, a dau eraill a arosent yn y tŷ, (y cwbl yn 12,) â diwedd truenus, yn swydd Harrison, Indiana, ar y 15fed o Ebrill. Ymddengys eu bod un diwrnod, wedi iddynt helaethu eu tŷ, yn cyduno i yfed i ormodedd, a gwahoddasant un o'r cymmydogion atynt, yr hwn (fel y bernir) a osododd ryw gymysgaeth yn y gwirod, er eu gwneud yn fwy disynwyr a difeddwl nag yr oeddent yn barod pan yn eu meddwdod. O gylch naw o'r gloch y nos, pan oeddent hwy yn cysgu, cymerodd y tŷ dân, a llosgasant oll yn ulw cyn i neb ddyfod i'r fan. Yr oedd yn olygfa druenus. Rhaid eu bod mewn sefyllfa hynod o feddw neu ddideimlad, cyn y buasent oll yn cysgu ac heb ddeffroi yn ngwyneb y stwr cydfynedol â'r fath amgylchiad. Mae tybiaeth lled gadarn i'r weithred gael ei chyflawni gan y cymmydog a fu yn eu plith, gan fod ganddo ddigofaint at y teulu yn flaenorol, a bod ei dystiolaeth ef a thystiolaeth ei wraig mor wahanol o barth yr amser y dychwelodd adreu.

## LLOFRUDDIAETH ETO YN SWYDD BRADFORD, PA.

Cafodd dyn o'r enw Moses Bramhall, o Asylum, ei draddodi i garchar y swydd hon dan y cyhuddiad o ladd ei wraig. Yr oedd yn llawn o greulondeb ati yn gyffredin yn ei feddwdod, ac wedi bygwth cymeryd ei bywyd ymaith amryw weithiau. Nos Fawrth yn ddiweddar ciliodd allan o'r tŷ rhag ei ofn, ac aeth yntau ar ei hol a goddiweddodd hi; ym osododd ar y weithred fileinig yn gyntaf trwy ei churo, ac wedi iddo ei chael ar lawr, ymaflodd yn ei gwydd i'w thagu. Dywedai ei hun iddo ei gadael unwaith yn gorwedd felly, ond wedi myned ymaith ychydig canfyddodd arwyddion bywyd, a dychwelodd yn ol pryd y gwasgodd hi ar ei gwddf nes oedd yn hollol farw! Yr oedd yn feddw ar y pryd.

## GWEITHRED ERCHYLL.

Cyflawnwyd llofruddiaeth o'r mwyaf barbaraidd ar wr, gwraig a phlentyn, yn Roxborough, naw milldir o Philadelphia, dechreu y mis diweddaf. Enwau y trengedigion ydoedd Valentine Bartle, Ellmynwr, tua 30 oed; ei wraig Catharine, a baban 12 mis oed. Cafwyd corff Bartle wedi ei dori yn dra erchyll, o fewn hanner cant o latheni i'r tŷ. Yr oedd ei freichiau agos yn rhydd oddiwrth ei gorff, a'i ymenydd wedi ei guro allan. Ymddengys yn amlwg mai efe oedd y cyntaf a ymosodwyd arno, a'i fod yn ffoi pan dderbyniodd yr ergydion. Cafwyd ei wraig yn gorwedd yn yml y drws, a'i hymenydd allan; a'r bychan diniwed yn gorwedd, wedi derbyn dau ergyd marwol ar ei ben. Yr oedd un o fysedd y fam wedi ei dori, a bernir i hyny gymeryd lle wrth ymdrechu amddiffyn ei baban. Yr arfau angeuol oeddent fwyall a phren, y rhai a gafwyd gerllaw. Cynnygir gwobr o $200 am ddal y llofrudd.

Cafwyd hefyd gyllell cigydd yn agos i'r un lle, wedi ei bwriadu yn ddiau at y lofruddiaeth.

Y llofrudd tybiedig sydd o gylch 19 oed. Ellmyn, yn siarad Saesnaeg toredig, o gylch 5 troed. 7 mod. Bu yn ngwasanaeth y teulu, a syrthiodd allan â Mr. Bartle. Mae ar ffo er pan gyflawnwyd y weithred.

## ENGLYNION I'R PARCH. E. D. THOMAS, EBENSBURG, PA.

**Un medrus, a dawn ymadrodd—odlaeth**
**Ydyw yn ei gylchoedd;**
**Y cudeg Iesu cododd**
**Yn eofn Fab wrth ei fodd.**

**Dyfodiad y mad wr i'n mysg—fyddo**
**Yn foddion o fawrddysg**
**I ddwyn llu yn deulu dysg**
**Llwydded ei ddidwyll addysg.**

**Difeth mae yn pregethu—gair anwyl,**
**Gwirionedd yr Iesu;**
**Mewn mwyn agwedd mae'n mynegu**
**Am drefniad y cariad cu.**

**Gweinidog enwog anwyl—anfonodd**
**Naf i ni mewn egwyl;**
**Gwr chweg iawn at y gorchwyl,**
**I syberhau mewn sobr hwyl.**

**ALLEGHANY.**

## HANESYN DIGRIF.

Fel yr oedd Mrs. Esther Stansbury, yr hon oedd yn byw mewn cwrt oedd yn troi o Race Street, Philadelphia, yn dyfod a llond cynog o ddwr o'r ffynon i'r tŷ, y nos o'r blaen, canfyddai fasged yn gorwedd ar riniog y drws.—Gan roi ei llaw ynddo, gyda chywreinrwydd benywaidd, i wybod pa beth ydoedd ei gynnwysiad, teimlai fod ynddo ryw beth byw, ac yn cico; ond yr ydoedd wedi ei rwymo mewn cynnifer o gadachau, fel yr oedd yn anmhosibl gwneud darganfyddiad pellach heb eu dattod oddiam y gwrthddrych. Yr oedd darn o bapyr wedi ei blynu fel llythyr, yn gorwedd wrth ymyl y basged. Aeth Mrs. S. i'r tŷ yn ddioed, ac wedi goleuo y ganwyll darllenai y nodyn yn bur awyddus. Yr oedd wedi ei gyfeirio at ei gwr, ac yn rhedeg fel hyn:—

"*At Joe Stansbury.—Syr,*—Dyma'r babi i ti, ac yr wyf yn gobeithio y cym'ri di ofal am dano, fel y byddo yn cael ei ddwyn i fynu yn well dyn na'i dad. E! Joe, yr wyt ti yn hen gadno slei hefyd. Pwy fyse'n meddwl y byse rhyw hen greadur llonydd, dystaw, sobr, fel ag yr wyt ti yn 'drychyd, yn rhyw bechadur mor ofnadwy. Y ti bia'r plentyn. Gelli dyngu hyny. Drycha arno fe, Joe Stansbury, bob modfedd o hono fe. Twyllaist ti fi'n ofnadwy Joseph, wrth gymeryd arnat dy fod yn wr gweddw; ond gwna ran tad i'r babi bach ac mi faddeua i ti. Dy dorcalonus NANSI."

O. Y.—Paid a gadael i'r hen fenyw trwyn main yna o wraig sydd gyda ti i weld y llythyr yma. Perswadia hi i ryw stori am y babi.

Yr oedd Mr. J. Stansbury yn y gegin yn bwyta ei swper yn bur ddiofal, heb feddwl dim am yr ystorm oedd yn croni i ymdywallt ar ei ben. Taflwyd drws y gegin yn llydan; a gwichiodd Mrs. S. allan, "Stansbury, dere yma'r hen gadno a thi! Dyma dro shompol!"

Sychodd Mr. Stansbury ei geg a chefn ei law i fod yn barod i ufuddhau i alwad ei wraig.

"A fyddai yn dda genyt ti wel'd Nansi—y dorcalonus Nansi," gwaeddai Mrs. S., wedi i'w gwr euog ymlusgo i'r lle.

"Nansi, pwy Nansi yw hi?" ebe'r creadur twyllodrus, fel pe buasai yn hollol anbysbys o'r fath enw.

"Pwy Nansi! Nansi mam y plentyn oedd yn y basged wrth y drws, Mr. Stansbury. *O dear me*, rwyt ti'n drychyd yn bur ddidiwed, ond darllena di y llythyr yna, ac yna drycha yn y basged yna. Paid ofni; chnoff e ddim arnat ti, waith does dim dannedd gydag e, druan—byddi'n siwr o'i nabod ef, waith mae e'r un shwt â thi, ys gwedodd dy hen *ladi*—ond cei di wel'd, ac mi fydda'n siwr o adael i bawb wybod dy hanes di."

Ac mewn llai na phum' mynud yr oedd Mrs. S. yn un â'i gair, oblegyd yr oedd holl ferched y cwrt yn y tŷ, i weled tynu y cadachau oddiam y babi,—yr oedd chwilfrydedd i'w ganfod ar bob gwedd, fel yr oedd y wraig ffromus yn tynu cadach ar ol cadach oddiam y plentyn, symudiadau bywiog yr hwn oedd yn synu pawb.

"Mae'n llawn o nwyf y cythraul, eisiws," ebe Mrs. S., "y mae hyny yn dangos taw fe pia fe, cewch wel'd yn union ei fod r'un shwt ag e yn mhob peth."

O'r diwedd, tynwyd y dernyn olaf oddiam y plentyn, a neidiodd yntau—allan o'r fasged, a thrwy y drws i'r cwrt—yn ffurf *cath ddu fawr*.

## Y TAFARNDAI A'R SABBOTH.

Y mae cryn deimlad yn bodoli yn bresennol trwy yr ardal hon, o barth cadw y tafarndai yn agored ar y Sabbothau; a deallwn fod yr achos yn derbyn sylw i raddau mwy neu lai mewn amryw swyddau eraill trwy y dalaeth. Wrth weled anfoesoldeb ac afreoleiddiwch yn cynyddu ar y dydd Sabboth, a bod y rhai a garent santeiddio y dydd hwnw yn cael eu haflonyddu yn aml gan swn cableddu a therfysgoedd y meddwon, penderfynodd cyfeillion moesoldeb a threfn i ddeisebu i'r llys, a'r fod i'r gyfraith sydd yn darparu dros gadwraeth y Sabboth gael ei gosod mewn gweithrediad yn fanol, ac arwyddwyd y deisebau hyn gan niferi mawrion o'r dinasyddion. Y canlyniad

a fu i'r barnwyr gyfarwyddo cyfreithiwr y swydd i rybuddio yr holl dafarnwyr i gau eu tai i fynu ar y Sabbothau, a pheidio gwerthu gwlybyroedd meddwol i neb ond i deithwyr yn unig; a gorchymynid i'r ynadon a'r heddgeidwaid fod yn ofalus i edrych i mewn yn eu gwahanol ardaloedd, a'r fod i'r rybudd gael ei gadw i'r llythyren, yn mhob amgylchiad. Yn unol â'r gwaharddiad uchod, daeth golwg hollol wahanol ar ein hystrydoedd dros ychydig Sabbothau—nid oedd perygl i neb gael eu blino gan y meddwon wrth fyned i'r addoldai, ac nid oedd swn terfysgoedd ac ymladdau i'w clywed ar y dydd cyssegredig trwy yr ardaloedd; ond yn ddisymwth cyfnewidiodd agwedd pethau fel o'r blaen, ac yn bresennol agorir y tafarndai, a meddwir ynddynt ar y Sabbothau, heb fod neb o'r awdodau yn ymyraeth â hwynt yn y mesur lleiaf. Dywedir gan rai fod camddealldwriaeth yn bodoli rhwng y barnwr Kidder a Mr. Palmer, cyfreithiwr y swydd, o barth natur neu fanylrwydd y gyfraith yn yr achos; ac fel hyn y mae achos sobrwydd a diwygiad wedi ei atal pan yn myned yn mlaen yn ei gyflymdra yn ein plith. Pa fodd bynag, nid yw Meibion Dirwest a chyfeillion y Sabboth am "roddi y llong i fynu" yn yr ystorm bresennol, ond daliant yn mlaen i weithio, trwy barotoi deisebau eto erbyn y llys nesaf, yn gofyn am sylw difrifol holl swyddogion cyfiawnder i'r achos, yn enwedig a'r iddynt edrych i mewn i sefyllfa y tai bychain, yn mha rai y gwerthir cwrw, gan fod rhan fawr o'r afreoleiddiwch yn cael ei achosi ynddynt. Yr ydys hefyd yn deisebu i'r lywodraethfa am gyfyngu nifer y trwyddedau, &c. Hyderwn y bydd y dirwestwyr yn ffyddlon i weithio mewn pryd yn yr achos, gan fod llawer iawn o rwystrau a gwrthwynebiadau ar eu ffordd—mae deiseb wedi ei barotoi gan y tafarnwyr, yn gofyn gan y llys i beidio ymyraeth "â bwydydd a diodydd" y dinasyddion, a chaniatau yr un rhyddid ag o'r blaen i dafarnwyr werthu ar y Sabboth, &c. Mae y deisebau hyn hefyd, fel y deallwn, wedi eu gwasgaru trwy y swydd, a dywedir eu bod yn cael eu harwyddo gan amryw; gobeithiwn, pa fodd bynag, er mwyn anrhydedd y swydd, y bydd arwyddwyr y deiseb cyntaf (o blaid moesoldeb, trefn a chadwraeth y Sabboth) yn llawer lluosocach.

---

Pittsburg.—Mai 6, llosgodd eglwys fawr y Pabyddion yn y lle hwn. Ni wyddus pa beth oedd yr achos i'r adeilad gymeryd tân. Costiodd $30,000. Daliwyd dyn ar waith yn roi tŷ yr esgob ar dân pan oedd yr eglwys yn llogi!

## COLLI DEUGAIN O FYWYDAU AR YR AFON MISSISSIPPI.

Mai 2, pan oedd yr agerlong Webster tua 110 milldir uwchlaw Vicksburg, cymerodd dân, ac a losgodd yn gyflym hyd wyneb y dwfr. Canfyddwyd y tân gyntaf tua thri o'r gloch yn y prydnawn, a'r olygfa a ddilynodd oedd arswydus tu draw i ddesgrifiad. Trodd y Pilot y llong tua'r lan, a safodd wrth y llyw hyd oni orfodwyd ef gan y mwg a'r fflamiau i'w adael; yna y bad a ymollyngodd eilwaith i ddwfr dwfn; a thra yr oedd y tân yn cynyddu yn arswydol, a'r fflamiau yn ymsaethu allan, rai o'r ymdeithwyr yn eu gwylltineb a ymruthrent i'r tân, tra yr oedd eraill yn ymwasgu at ochr y bad, ac yn cydio ynddo â'u dwylaw, nes y gorfodid hwy, un ar ol y llall, gan rym y gwres, i daflu eu hunain i'r afon, nes boddi. Ni allwyd achub ond ychydig nifer o'r menywod, gan eu bod wedi eu tori ymaith gan y fflamiau oddiwrth eu gwyr a'u cyfeillion. O ddeuddeg i bumtheg o'r teithwyr a neidiasant i'r dwfr, ac a allasant ymaflyd mewn rhyw hen foncyffion yn yr afon, hyd oni achubwyd hwy gan fadau bychain a rwyfwyd atynt oddiar y lan. Y trigolion ar lan yr afon, gyda iddynt ganfod y tân yn ddioed a wnaethant bob ymdrech i achub y bobl, a thrwy gymhorth tri neu bedwar o fadau, achubwyd amryw oddiar y boncyffion, ac oddiar ochrau y llong losgedig. Nifer y teithwyr a'r dwylaw ar y bwrdd oedd tua chant, o ba rai triugain yn unig a gafwyd—y gweddill a dybir eu bod wedi eu colli trwy losgi neu foddi.

---

## DARGANFYDDIAD NEWYDD.

Ymddengys yn awr oddiwrth brawf diamheuol a wnaed yn ddiweddar yn Worcester, Massachusetts, y gellir gyda pheiriant bychan ddadgysoddi yr awyr cyffredin, a defnyddio yr ufelai (*oxygen*) yn gyffelyb fel y gwneir ag olew neu gas mewn lamp, a bod y goleuni a roddir mor glir a grymus ag a geir oddiwrth y *gas* goreu a ddefnyddir i oleuo ein dinasoedd. Dywedai golygydd y 'Christian Citizen,' "Gwelais y peiriant mewn gweithrediad yn ein swyddfa, chwiliais i'w ansawdd yn fanwl, a dadgysoddais yr ufelai â'm llaw fy hun, a darllenais wrth y goleuni a gynhyrchwyd yn y modd hyn, yr hwn oleuni sydd gystal os nad yn rhagori ar y *gas* goreu a losgir yn ein dinasoedd. Mae y fflam yn dra gwyn a dysglaer, yn llosgi yn glir a gwastad, yn hollol ddiarogl, ac am yr hanner awr y bum yn gwylio ei weithrediad nis gallwn ganfod fod yr ufelai yn cael ei ddifa neu yn lleihau. Yr holl beiriant a ddefnyddid a ellir ei gael am tua dwy ddolar, ac yr oedd y fflam yn ddigonol i oleuo unrhyw ystafell gyffredin."

---

Y Cylchwyliau Crefyddol, a gynnaliwyd fel arferol dechreu y mis diweddaf. Mae yn hyfryd canfod cymmaint o ffyddlondeb trwy ein gwlad i gynnal a dwyn yn mlaen amcanion y cymdeithau daionus hyn.

## COFGOLOFN WASHINGTON.

Y symau canlynol a dderbyniwyd gan y cysbwyllawd yn Pottsville, i'w danfon i'r Cysbwyllawd Canolbarthol yn Utica, at bwrcasu maen i gynrychioli hil Gomer yn y Gofgolofn soniedig :

| | |
|---|---|
| Pottsville, . . . . | $7 42 |
| St. Clair, . . . . . | 5 98 |
| Silver Creek, . . . . | 3 00 |
| Eagle Hill a Bellmont, . | 3 75 |
| Beaver's Meadow a Janesville, | 6 85 |
| Tamaqua, . . . | 3 00 |
| | 30 00 |

Ni dderbyniasom y casgliadau o ardaloedd Minersville na Summit Hill; deallwn eu bod wedi casglu yn y lleoedd hyny. Dichon eu bod hwy yn eu gyru ar eu pen eu hunain i'r Cysbwyllawd yn Utica.

## MARCHNAD CAEREFROG-NEWYDD.

Glo.—Llynlleifiad, (y calloraid), o $6 50 i $6 75; Careglo, (y dunell), $4 50 i 5 25.

Peilliaid (y faril).—Rhif. 2, $3 62 i 3 87; Goreuon, 4 50 i 4 56; Michigan, 4 63 i 4 75; Genesee, pur, 4 87 i $5; Eto, goreuon, $5 00 i 6 50; Blawd Rhyg, 3 37.

Yd.—Gwenith, Genesee gwyn, (y bwysel), $1 12 i $1 18; Eto, Ohio, $1 i $1 04; Eto, Michigan, $1 08 i 1 12; Rhyg, 76 i 78 cents; Ceirch, 51 i 56.

Bwydydd.—Cig Eidion, y goreu, (y faril), $8 75 i $10; Eto, da $6 i 6 7 25; Cig moch, $10 i $14; Ymenyn, (y pwys,) Orange, 18 i 21; C. N., 15 i 16.

Haiarn a Phlwm.—Haiarn. Pig, Seisnig a Scotland, (y dunell), $22 50 i $25; Americanaidd, $22 i 23; Eto, wedi rolio, $50 i $55; Plwm, bar a sheet, 5 i 5½.

Lludw.—Pot, (y 100 pwys), $5; Pearl, eto, $5 50.

Y Fasnach Lo.—Y mae cwmni y gamlas wedi gostwng y doll ar lo rhwng y lle hwn â Philadelphia, i 25 cents y dunell. Y mae yr effaith ddaionus a gynhyrchir gan y gostyngiad hwn eisoes yn amlwg, er nad yw y farchnad yn fywiog, na'r pris ond isel yn y dinasoedd. Dysgwylir y bydd yn rhaid i gwmni y rheilffordd hefyd ostwng yn fuan. Y gwir yw fod hyn yn hollol anhebgorol cyn y gall ardal y Schuylkill gystadleu yn llwyddiannus â chwmniaethau eraill. Mae amryw o'r gweithfeydd yn bresennol yn cael eu dwyn yn mlaen yn lled fywiog.

Arlystiolaeth Ddirwestol yn Ngholofn Washington.—Mae maen i gael ei osod yn ngholofn Washington ac enwau y Llywyddion wrtho yn cynnwys a ganlyn :—"Gan yr argyhoeddir ni drwy sylw a phrofiad, yn gystal a thrwy dystiolaeth feddygol, fod gwirodydd poethion nid yn unig yn afreidiol fel diod, ond hefyd yn niweidiol, ac y byddai eu hanarferiad yn tueddu i ddyrchafu iechyd, rhinwedd, a dedwyddwch y wladwriaeth, yr ydym yn y modd hyn yn traethu ein barn, pe byddai i ddinasyddion yr Unol Dalaethau, yn enwedig y dynion ieuaingc, beidio yn hollol â'r arferiad o honynt, y dygent yn mlaen drwy hyny, nid yn unig eu lles eu hunain, ond hefyd ddaioni ein gwlad a'r byd."

Y Llywydd Fillmore.—Cymerodd ein Llywydd daith y mis diweddaf i agoriad ffurfiol Rheilffordd Efrog ac Erie. Derbyniwyd ef gyda llawenydd a boddlonrwydd yn Philadelphia a lleoedd eraill, trwy ba rai yr oedd yn myned, a hyny gan bob plaid boliticaidd.

Amgylchiad Galarus.—Fel yr oeddid yn gwneud prawf o ferwedydd newydd perthynol i un o beiriannau y rheilffordd, yn Patterson, New Jersey, ar y 7fed o Fai, ymdorodd y berwedydd gyda thrwst dirfawr, fel y lladdwyd pedwar o ddynion, a chlwyfwyd o 15 i 18 eraill—rai o honynt yn ddrwg iawn. Dywedir mai esgeulusdod fu yn achos o'r tro echrydus.

## GENEDIGAETHAU.

Yn Brady's Bend, Pa., Gorph. 2, 1850, priod Thomas Lloyd, ar ferch. Gelwir hi Mary.

Eto, Tach. 23, Rachel, priod James Bowen, ar ferch. Gelwir hi Elizabeth Jane.

Eto, Mawrth 26. 1851, Mary, gwraig Morris Lewis, ar ferch. Gelwir hi Margaret Jane.

Eto, Ebrill 19, Mary, gwraig Geo. Ward, ar fab. Gelwir ei enw ef George Alfred.

Yn Tamaqua, Mawrth 1, Ann, priod Lewis T. Williams, dosbarthwr y Seren, ar ferch. Gelwir hi Mary Ann.

Yn Summit Hill, Ebrill 15, Sarah, gwraig John Richards, ar fab. Gelwir ei enw ef Richard.

### PRIODWYD—

Yn Utica, Ebrill 14, gan y Parch. D. C. Corey, Mr. Wm. Davies, a Miss Eleanor Turner, y ddau o Utica.

William, wr mwynaidd a mad—a ddoniwyd
Ag addien fun geiniad;
Byd llon a fyddo yn llad
Yn dilyn yr anwyliad. Ab Llewelyn.

Yn Remsen, swydd Oneida, C. N., Ebrill 14, gan y Parch. Wm. Jones, Mr. Daniel Griffith, a Miss Catherine Jones, y ddau o Steuben.

Mai 8, gan y Parch. R. Littler, Mr. John X. Jones, Caerefrog Newydd, a Miss Mary Hughes, South Trenton, Swydd Oneida, C. N., yn nhŷ ei brawd Mr. Isaac Hughes.

Hyderwn fod bywyd maith o ddedwyddwch teuluaidd a mwyniant priodasol didor yn aros ein cyfaill profedig, parchus a meddylgar, ynghyd a'i briod tyner, destlus a charedig; "Gwell hwyr na hwyrach," gobeithiwn, sydd hen ddiareb a wirir yn eu hundeb. Ond pwy feddyliasai fod y feudith hon yn nhgadw i'r hen langc cadarnfryd? pa le mae ei resymau dros weddwdod yn awr?—Gol.

## GOFYNIADAU.

Mr. Gol.—Carwn i chwi neu ryw rai o'ch gohebwyr deallus roddi atebion i'r gofyniadau a ganlyn:

1. A ddylid diaelodi brawd neu chwaer a fyddo wedi troseddu y rheolau a osododd Mab Duw yn ei dŷ neu ei eglwys ar y ddaear, yn ngwyneb prawfiadau digonol fod edifeirwch yn y troseddwr am ei drosedd ?

2. A oes parch i Dduw a'i ddeddfau yn nghalon yr aelod hwnw a bleidio neu a rydd arbediad i'r troseddwr ar brawf digonol fod edifeirwch dwfn yn ei feddiannu, yn ngwyneb cyhuddiadau gwirioneddol ?

3. A ddylid diaelodi brawd neu chwaer o eglwys Dduw oddiar gyhuddiadau gwirioneddol a ddygir yn eu herbyn gan ddynion digrefydd ? Llysedydd.

*Porth-y-Gwynt.*

Mr. Gol.—Y mae y rhan hyny o'r ysgrythyr wedi bod dan ein sylw yn ddiweddar, a chan ein bod yn methu cael boddlonrwydd o barth yr adnodau, gosodwn hwynt ger eich bron chwi ynghyd a'ch gohebwyr, sef Marc 16. 14—19; yn fwyaf neillduol, pa hyd y parhaodd oes y gwyrthiau ag oedd yn canlyn y rhai oeddent yn credu? Atebiad buan a rydd foddlonrwydd i lawer, heblaw

Yr eiddoch yn ostyngedig,
Thomas Lloyd.

## DYCHYMYG.

Wrth eistedd un diwrnod, a syllu yn dra llon,
Canfyddais wrthddrych hynod yn cerdded ger fy mron;
Nid ydoedd yn ngardd Eden, nac yn yr arch mae'n wir;
Nid ydyw yn y dyfroedd, ond mae ef ar y tir.
Mae ganddo draed i gerdded, a llygaid fwy nag un;
Nid ydyw yn greadur, ymlusgiad, fwy na dyn.
Ohebwyr glân y Seren, rhai medrus ydych chwi,
Os d'wedwch beth yw'r gwrthddrych tra boddlon fyddaf fi.
Llai na'r Lleiaf.

## AT MR. JONH THOMAS, POTTSVILLE.

Syr,—Byddai yn dda genyf wybod ar ba dudalen o'r Seren y gwelsoch esboniad o'm heiddo i ar Marc 9. 49. Y mae yn ymddangos i mi eich bod chwi, J. T., yn methu gweled yn dda pan y darllenasoch yr esboniad dan sylw; neu ynte fe sygndynwyd galluoedd eich meddwl cawrfilaidd i ryw ardal awyraidd i astudio sylw i'w wneud arno; a bu y gorchestwaith hyn yn gorwedd mor drwm ar eich gwynt ddydd a nos, fel na chawsoch hamdden byth wedi hyny i ddarllen yr esboniad nes cael eich sylw gorgampus yn barod i'r wasg: pe amgen, buasech yn sicr o ganfod mai nid fy esboniad i ydoedd; oblegyd oni ddywedais fy mod i yn ei gyflwyno air yn nghair fel yr ymddangosodd yn y Bedyddiwr; ac nad oeddwn am fod yn debyg i anfonydd y bregeth angladdol hono yn priodoli gwaith eraill i mi fy hun.

Yn awr, Mr. Golygydd, nid fy amcan wrth roddi cilgwthiad fel hyn i J. T. yw roddi ar ddeall fy mod yn ystyried yr esboniad yn gyfeiliornus mewn dim—gall pob darllenydd a fyddo yn feddiannol ar synwyr cyffredin (nid synwyr *ang*hyffredin fel sydd yn dalpiau yn mhenglog J. T.,) farnu drosto ei hun am hyn: ond yr wyf am ei ddysgu i agor ei lygaid dipyn yn lletach y tro nesaf wrth anfon ei sylwadau i'r wasg, a pheidio gwneud cam âg awduron, trwy dadogi eu drychfeddyliau i eraill nad ynt yn cymeryd arnynt eu hawlio.

Llewelyn.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Gyda yr agerlong "Franklin" derbyniasom newyddion Ewropaidd hyd y 7fed o'r mis diweddaf (Mai).

Mae y cotwm wedi gostwng eto er y mis diweddaf; ond yr oedd peth codiad ynddo pan adawodd y Franklin.

Cafodd Argl. J. Russell a'i gydweinidogion eu gorchfygu eto, ar yr 2il o Fai, yr hyn ydoedd yn destyn llawenydd cyffredinol trwy y wlad. Dygodd Mr. Hume ei gynnygiad yn mlaen o barth adnewyddiad Treth y Daered (*Income Tax*), yn cyfyngu ei effeithiau i un ac nid tair blynedd, ac yn ei wneud yn llai anghyfiawn mewn gwahanol ystyriaethau. Yr oedd hyn yn ddiwygiad pwysig, a chariwyd ef trwy i 244 bleidleisio o'i blaid, a 230 yn ei erbyn. Bernir y bydd i Syr John yn bresennol ymostwng i ganiatau yr hyn a omeddai o'r blaen, gan ei fod yn gweled nad oes ganddo ddim arall i'w wneud.

Peth arall sydd newydd ei benderfynu gan Dŷ y Cyffredin yw lleihau y treulion cyhoeddus, trwy ostwng cyflogau y prif swyddogion, a chynilo y sefydliadau cyffredin. Mae cyflog flynyddol yr Argl. Ganghellwr wedi ei dynu i lawr o £14,000 i £10,000, a'r Negesydd i Ffraingc o £10,000 i £8,000; ac mewn cyflogau eraill mae y gostyngiad yn gyfatebol. Mae symudiadau fel hyn yn hollol anhebgorol o herwydd amgylchiadau isel a theimladau y wlad.

Mae yr ymfudiaeth o'r Iwerddon yn hynod fawr; gan mwyaf i'r Unol Dalaethau.

## YR ARDDANGOSIAD.

Agorwyd y Palas Gwydr gan y Frenines ar y 1af o Fai, gyda rhwysg a gorwychedd digyffelyb. Yr oedd y darpariadau yn hynod o ysblenydd, a sylw pawb ar yr amgylchiad. Byddai yn ormod i ni sylwi ar y seremoniau cydfynedol â'r agoriad. Er fod y tywydd yn anffafriol y dyddiau cyntaf, a'r pris am fynediad i mewn yn uchel, sef £1, cymerwyd o £500 i £2,000 bob dydd wrth y drysau, heblaw y miloedd a dderbyniwyd am docynau dros y tymhor. Yn ngwyneb fod cynnifer yn ymdyru iddo dan y fath amgylchiadau, bernir y bydd y derbyniadau mewn tywydd tèg, ac am brisoedd is a mwy cyrhaeddadwy, yn llawer mwy na'r dysgwyliadau mwyaf helaeth a lluosog.

## FFRAINGC.

Dathlwyd trydydd gylchwyl gweriniaeth Ffraingc ar y 5ed o Fai yn Paris yn nghanol gwlaw a llaid, a than olygiaeth can' mil o filwyr. Yr oedd tyrfaoedd anferth yn ymarllwys i'r brif-ddinas, a phasiodd y cwbl heb unrhyw gynhwrf o bwys. Tua diwedd y dydd daeth y newydd fod terfysg wedi tori allan yn Lyons, ond trodd hyny allan yn anwiredd.

## PORTUGAL.

Mae y newyddion diweddar o Portugal yn hysbysu am wrthryfel sydd wedi tori allan yno. Blaenor y fyddin ydyw Saldanha, ac y mae 5,000 o'r milwyr wedi ymuno ag ef. Amcan y gwrthryfelwyr yw diswyddo gweinyddiaeth Cabrai. Y maent wedi llwyddo i gymeryd dinas Oporto heb unrhyw orchestwaith na nemawr o golli gwaed. Achosodd hyn yr ofnau mwyaf yn mhlith pleidwyr y llys yn Lisbon. Rhoddodd y Count de Thomar, y gweinidog, ei swydd i fynu yn ddioed, a ffodd ymaith ar fwrdd llong Brydeinig i borthladd Spaenaidd Vigo. Mae y frenines yn gweled fod yr holl wlad o blaid Oporto, o ganlyniad danfonodd am dano i Lisbon, ond gwrthododd yntau fyned hyd oni byddo iddi sefydlu gweinidogaeth unol â'r egwyddorion hyny yn achos pa rai y mae efe wedi ymarfogi. Digon tebyg y bydd yn rhaid iddi wneud hyny.

## YR INDIA.

Tarawodd yr agerlestr a gludai lythyrau yr India o Alexandria i Trieste ar y traeth yn Mor y Canoldir, ac anfonwyd agerlestri eraill ati i gludo ei theithwyr i'r lan.

Cyrhaeddodd y General Jung Bahadoor, yr hwn a ymwelodd â Lloegr y llynedd, yn ol i Nepaul yn llwyddiannus, ond ymddengys nad yw ei sefyllfa yn un ddymunol iawn, o herwydd cydfradychodd ei dad a'i frawd â'u gilydd gyda y bwriad o'i lofruddio yn mhen ychydig ddyddiau ar ol ei ddychweliad. Mae y fyddin yn hoff iawn o Jung, a cheisiodd ei dad eu troi yn elynion iddo, a'u darbwyllo i ymuno ag ef i'w lofruddio, ond methodd.

## PENRHYN GOBAITH DA.

Dywedir fod Syr H. Smith wedi llwyr orchfygu trigolion y Penrhyn; ac os gwir hyn gall y Saeson ledrata rhagor o'u tir yn awr, a'u hysbeilio o'r oll a feddant.

## YMFUDIAETH O BREMEN.

O'r 1af o Ionawr hyd yr 28ain o Ebrill, gadawodd 51 o longau Bremen tua yr Unol Dalaethau, yn dwyn 7690 o ymfudwyr. O'r rhai hyn yr oedd 30 o longau, a 4022 o ymfudwyr i Gaerefrog-Newydd; 8 llong, a 1968 o ymfudwyr i New Orleans; 7 llong, a 1190 o ymfudwyr i Baltimore; 3 llong, a 275 o ymfudwyr i Galveston; a 3 llong, a 299 o ymfudwyr i Philadelphia.

## GWRTHRYFEL CUBA.

Y newyddion diweddaf o Port Principe a'n hysbysant fod arwyddion o gwrthryfel cyffredinol ar dori allan yn Cuba. Cafodd naw o ddynion anrhydeddus, o'r teuluoedd mwyaf cyfrifol yn Port Principe eu cymeryd i fynu yn y nos, a'u carcharu, gan swyddogion y Llywodraeth, dan y dybiaeth yn ddiau fod ganddynt ryw law yn nygiad oddi amgylch y gwrthryfel fygythiedig.

## DIFFODDI Y VESUVIUS.

Mae mesurau yn bresennol ar weithrediad yn nheyrnas Naples i ddiffoddi y llosgfal Vesuvius! Deallir fod gwaelod y brif losgorel (*crater*) yn is o rai miloedd o droedfeddi nag arwyneb y môr. Y cynllun, gan hyny, yw tori dyfrffos neu gamlas o'r môr iddi, traul yr hyn a fyddai tua dwy filiwn o ddolerau, ac felly diffodd y tân sydd wedi bod yn enyn am filoedd o flynyddoedd. Dywedir y byddai y tiroedd breision a enillid drwy hyny yn werth y deng waith mwy na digon i dalu y draul.

# TYWYSOGAETH CYMRU.

**Ymfudiad i America.**—Yr oedd y brawd teilwng a thra chymeradwy Thomas Roberts, gynt gweinidog y Bedyddwyr yn Nghadoxton, Morganwg, a mab i'r diweddar Barch. John Roberts, Bontfaen, yn ymadael â Chaerdydd am Gaerefrog-Newydd ar y 25ain o fis Ebrill; o ganlyniad, os cafodd fordaith weddol hwylus, gallwn ddysgwyl clywed ei fod wedi tirio yn y wlad hon agos mor fuan ag y byddo y rhifyn hwn allan o'r wasg. Dymunwn lwyddiant a chysur mawr iddo yn y byd newydd. Nis gwyddom i ba le y mae yn bwriadu wynebu.

Deallwn fod rai ugeiniau eraill o Ddeheubarth Cymru ar ymfudo i'r wlad hon.

**Cymanfaoedd.**—Cynnelir Cymanfa Dyfed yleni yn Ninbych (Tenby), Meh. 3ydd a'r 4ydd. Y mae hwn yn lle newydd i'r Bedyddwyr, ac hyderir y bydd o les ynddo.

Cynnelid Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Penyparc, ger Aberteifi, y Mawrth a'r Mercher, y 13eg a'r 14eg o Fai. Dysgwyliwn hanes y Gymanfa hon erbyn y rhifyn nesaf.

**Llofruddiaeth.**—Curwyd Thos. Stephens o Westbury Hill, sir Benfro, gan un William Jones, fel y bu farw y dydd canlynol.

Ail-agoriad Addoldy.—Chwef. 3ydd a'r 4ydd, 1851, ail-agorwyd addoldy Ainon, Tongwyrddlas, lle yn agos i Gaerdydd. Y mae yr addoldy uchod wedi cael ei helaethu a'i wneud yn un o'r addoldai mwyaf cyfleus a phrydferth yn yr holl gymmydogaeth. Y mae Mr. Lewis, gynt o Aberdar, yr hwn sydd yn awr yn weinidog yn Tongwyrddlas, yn teilyngu canmoliaeth am ei fedrusrwydd yn helaethu y tŷ mor rhad, a rhoddi cymmaint o lafur a thrafferth bersonol gyda yr adeiladaeth. Ar achlysur yr ail-agoriad, y brodyr a weinyddasant oedd, D. a W. Jones, a Fuller, Caerdydd; J. Jones, a J. Lloyd, Merthyr; E. Davies, Dowlais; y rhanau arweiniol gan y brodyr Davies, Wauntrodau; Owens, Twynyrodyn; Thomas, Machen, &c.

Eto.—Cynnaliwyd cyfarfodydd er agoriad Hermon, Garnfach, ger Nantyglo, nos Fawrth y 4ydd, a dydd Mercher y 5ed o Fawrth. Y nos flaenorol, dechreuwyd gan y Parch. T. Lewis, Llanddewi; pregethodd y Parchn. E. Evans, Dowlais, a T. Thomas, Maesaleg. Am ddeg boreu dranoeth, dechreuwyd gan B. Williams, Daranfelen, pregethodd y Parchn. T. Thomas, Pontypwl, (Saes.), a F. Hiley, Llanwenarth, (Cym.) Am ddau yn y prydnawn, dechreuodd y Parch. W. Roberts, Tredegar; pregethodd J. Jones, Merthyr; B. Price, (Cymro Bach,) (Saes.), a J. Jenkins, Hengoed. Yn yr hwyr, dechreuwyd gan y Parch. D. Morgan, Blaenafon; pregethodd y Parchn. N. Thomas, Caerfyrddin, a T. Thomas, Pontypwl. Yr oedd tua dwy fil o bersonau yn bresennol. Casglodd eglwys Hermon y flwyddyn ddiweddaf 350 punt tuagat leihau dyled eu haddoldy, a 150p. tuagat gynnal yr achos yn eu plith. Mae yr eglwys a'r gynnulleidfa yn bwriadu talu y ddyled oll eu hunain.

Bedwas.—Chwefror 18, 19, cynnaliwyd cyfarfod er corffoli eglwys yn y lle uchod. Nos Fawrth, pregethodd y brawd E. Thomas, Machen, a T. Thomas, Bassaleg. Dranoeth, gweinyddwyd gan y brodyr uchod, ynghyd a J. Rowe a D. R. Stephen.

Rhidwilym.—Dyddiau Mercher a Iau, y 19eg a'r 20fed o Chwefror, cynnaliwyd cyfarfod yn y lle hwn, i'r dyben o ymsefydlu y Parch. Henry Price, Carmel, yn fugail ar yr eglwys uchod. Gweinyddwyd gan O. Griffiths, Blaenconin; D. Davies, Tabor; T. Williams, a H. Davies, Llangloffan; D. George, Jabez; B. Thomas, Arberth; a J. P. Williams, Blaenywaun.

Cymdeithas y Dadgyssylltiad.—Y mae Mr. J. Kingsley a'r Parch. J. Clapp wedi bod ar daith trwy Ddeheudir Cymru yn ddiweddar, er helaethu egwyddorion y Gymdeithas uchod; traddodwyd areithiau galluog ganddynt hwy a chefnogwyr yr achos yn Nghaerdydd, Abertawy, Caerfyrddin, Llanelli, Aberteifi, &c. Derbyniwyd hwynt gyda chymeradwyaeth gan wrandawyr lluosog.

Pwllheli.—Nos Lun, y 10fed o Ebrill, bu cyfarfod i'r dyben o bleidio Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn yr addoldy, Pentrepoeth, yn y dref hon. Cymerwyd y gadair gan Wm. Jones, Ysw., Brynhyfryd. Y cyfarfod a ddechreuwyd drwy weddi gan Mr. Morris Roberts. Areithiwyd o blaid yr achos cenhadol gan y Parchn. E. Edwards a R. Jones, (W.); W. Griffith, (T. C.); a R. P. Griffith, (A.), a Morris Edwards, gweinidog y Bedyddwyr yn Nhreffynon. Yn ystod y cyfarfod, dangosid delw a addolid gynt gan drigolion y gwledydd lle y dygir yn mlaen weithrediadau canmoladwy y gymdeithas hon. Yr oedd y gynnulleidfa yn lluosog a pharchus, a'r areithiau yn hyawdl ac effeithiol.

Cross Inn, Llandybie.—Dydd Mawrth, y 1af o Ebrill, cynnaliwyd cyfarfod tê yn Bethesda, capel y Bedyddwyr yn Cwmaman, pan yr oedd yno tua phump cant o bersonau yn bresennol. Yr oedd y gwragedd wedi darparu yr un mor dda ar gyfer y corff, ag oedd eraill wedi ei wneud gogyfer â'r meddwl. Yr oedd yn gwrdd llwyddiannus.

Caergybi.—Dyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 8fed a'r 9fed, cymerodd agoriad capel y Bedyddwyr yn Nghaergybi ei le yn mysg dysgwyliadau neillduol yr oes hon. Yr oedd llawer o ddysgwyl drwy wahanol barthau y gogledd am yr adeg hon, a braidd nad oedd yr ager-gerbyd agos a methu symud gan y fath luaws oedd yn dyfod ynghyd ar yr achlysur. Beth bynag, erbyn saith o'r gloch y noson gyntaf, yr oedd yr addoldy eang, helaeth, a chyfleus wedi ei orlenwi. Dechreuwyd drwy weddi gan y brawd T. Evans, Pontripont; a phregethodd y Parchn. C. M. Birrell, Llynlleifiad (Saes.) a T. R. Davies, Glanwydden, (Cym.) Dranoeth, am naw, bu cynhadledd, pryd y penderfynwyd, yn mhlith pethau eraill, ar i Gymanfa Mon, eleni, i gael ei chynnal yn Llanfachreth. Am ddeg, dechreuodd y cwrdd cyhoeddus, pan y darllenodd a gweddiodd Mr. H. Jones, (Trefniedydd); a phregethodd y Parchn. W. Richards, Caernarfon, a H. Williams, Amlwch. Am ddau, dechreuodd Mr. Griffiths. (Annibynwr); a phregethodd y Parchn. H. W. Hughes, Llynlleifiad, a T. R. Davies. Am 7 yn yr hwyr, dechreuodd y Parch. John Edwards, gynt o Landegfan; pregethodd y Parchn. H. Richards, a H. W. Hughes. Yr un pryd, yn addoldy y Bedyddwyr Seisnig, dechreuodd Mr. Nelson, y gweinidog; a phregethodd C. M. Birrel, yn ei iaith ei hun. Cafwyd casgliadau da yn mheb cyfarfod. Y mae Mr. Morgan a'i eglwys yn deilwng o glod am eu hymdrechiadau selog.

Cwmbach, ger Aberdar.—Cynnaliwyd cyfarfod i'r dyben o sefydlu y Parch. J. D. Williams, gynt o Gelligaer, yn weinidog ar yr eglwys hon, Mawrth 18fed a'r 19eg. Yr hwyr cyntaf, ac am ddeg, dau a chwech dranoeth, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus, er gosod allan ddyledswyddau y gweinidog a'r eglwys, ynghyd a'r diaconiaid. Y mae gobeithion ac argoelion cryfion y bydd y brawd Williams yn ddedwydd a llwyddiannus yn ei gylch newydd. Ar yr achlysur, areithiodd Mr. T. Price, Aberdar, ar natur eglwys; J. Jones, Merthyr, ar ddyledswydd eglwys, a J. Lloyd, ar ddyledswydd y gweinidog. Gweinyddwyd gan amryw bregethwyr eraill.

Symudiadau Gweinidogion.—Mae D. Roberts, Cwmbychan. wedi derbyn galwad ei fam-eglwys, Ebenezer, Llangefni, a'r brawd James Nicholas, Llanerchymedd, yr unrhyw yn Mangor.

Amlwch.—Gwelsom gydnabyddiaeth bod eglwys y Bedyddwyr yn y lle hwn wedi derbyn llythyr o America oddiwrth wr ieuangc o'r enw Richard Williams, yn cynnwys ugain punt, gyda dymuniad ar i ddeg punt gael eu rhanu rhwng y brodyr a'r chwiorydd tlotaf a berthynent i eglwys Salem, a'r deg eraill idd eu defnyddio at yr achosion mwyaf angenrheidiol perthynol i achos ein Gwaredwr yn eu plith. Nis gwyddom yn mha le y mae Mr. W. yn y wlad hon, ond hyderwn ei fod o fendith pa le bynag y mae.

Dedwyddwch Teuluaidd.—Traddodwyd darlith synwyrlawn gan y Parch. Timothy Thomas, Graig, Castellnewydd Emlyn, yn ysgoldy Aberbane, (ar "Ddedwyddwch Teuluaidd." Y mae darlithoedd misol yn cael eu traddodi yn yr ysgoldy uchod gan weinidogion yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr. Rhoddwyd y testyn uchod gan y cysawd i Mr. Thomas, am y gwyddent nad oedd neb o'r gweinidogion wedi mwynhau mwy o "ddedwyddwch teuluaidd" nag efe, ac felly yn fwy addas at ddarlithio ar y pwngc.

Llundain.—Ebrill 10, cynnaliwyd cyfarfod cyfeillgar yn addoldy y Bedyddwyr Cymreig, Moorfields, i anrhegu y Parch. B. Williams, y gweinidog, â chwpan arian ysblenydd wedi ei brynu gan aelodau menywaidd yr eglwys. Am 5 o'r gloch yn y prydnawn, daeth nifer fawr o frodyr a chwiorydd a chyfeillion ynghyd i fwynhau gwledd a barotowyd iddynt gan rianod glân y Cymry. Wedi i bawb gael eu gwala a'u gweddill cymerwyd y gadair gan y Parch. D. Davies, (T. C.), yr hwn, wedi agor y cyfarfod mewn araeth fer, a alwodd ar yr hen frawd Roger Evans, (yr hwn sydd wedi bod yn ddiacon i'r eglwys dros ugain mlynedd) i gyflwyno y cwpan i Mr. Williams: cododd yntau i dalu iddynt ei ddiolchgarwch mewn araeth hyawdl a gwir deilwng o hono, a derbyniodd fonllefau o gymeradwyaeth. Areithiwyd yn ganlynol gan y Meistrd. Lloyd, Morris, Ellis, a Simons. Canwyd anthemau gan y cantorion nes synu y gwrandawyr. Mae Mr. Williams yn hynod o barchus yn y lle hwn. Trwy ei ymdrech ef yn benaf talodd yr eglwys yr holl ddyled oedd ar ei haddoldy yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, sef 254p. 14s. 6c.

Bro Morganwg.—Cynnaliwyd cwrdd misol yn Bethlehem, Llancarfan, ar y 9fed a'r 10fed o Ebrill. Gweinyddwyd yno gan y brodyr R. Brown, Pil; E. Thomas, Machen; R. Owen, Twynyrodyn; R. Davies, Penyfai; E. Morse, Cortwn; J. Evans, Bontfaen; a H. Jenkins, Paran.

Rheilffordd Deau Cymru.—Da genym fod yn alluog i hysbysu ein darllenwyr yn y gorllewin fod yr ymyraeth ag oedd rhwng Cwmni y Rheilffordd hon â chwmni y Great Western wedi cael ei benderfynu i foddlonrwydd, ac y bydd i'r rheilffordd drwy hyny gael ei hagor i Gaerfyrddin gyda phob brys galluadwy, ac oddi yno i Aberdaugleddyf cyn gynted ag y gellir cael caniatad seneddol. Pan gymero hyn le, a gwna yn o fuan, gellir dywedyd mai un o fendithion tymhorol penaf Deau Cymru fydd y rheilffordd hon; gesyd fywyd newydd yn masnach y siroedd isaf; a theimlir ei heffaith hyd y nod gan wyddau Waungilwen, yn enwedig os dygir hwynt i farchnadoedd Morganwg, lle gellir cael tri swllt yr un yn fwy am danynt nag a geir yn y marchnadoedd isaf.

Treforris.—Nos Lun, Ebrill 14, traddodwyd darlith gorpampus ar "Ryfeddodau Celfyddyd," gan y Parch. J. R. Morgan, Aberafon, yn Nghapel Seion, Treforris. Cymerwyd y gadair ar yr achlysur gan y Parch. T. Jones, (A.) Yr oedd yr araeth o gyfansoddiad destlus a da iawn, a thraddodiad yn ystwyth a dylanwadol.

---

## PRIODASAU.

Yn Hengoed, Mawrth 21, gan y Parch. J. Jenkins, ac yn ngwydd y Cofrestrydd, Mr. D. Evans, pregethwr gyda y Bedyddwyr yn Berthlwyd, Llanfabon, a Miss Mary Amy Harris, wyr i'r diweddar Barch. Harry Evan Harris, gynt o Blaenau Gwent.

Yn Ararat, Wauntroda, Mawrth 22, gan D. Davies, Mr. Danl. Williams, a Miss Ruth Thomas, y ddau o'r gymmydogaeth hon.

Yn y Tabernacl, Caerdydd, Ebrill 1, gan y Parch. D. Jones. Mr. Thomas Mathews, goruchwylydd, a Miss Anne Griffiths, nith i Mr. Evan Llewelyn, siopwr, eill dau o Gaerdydd.

Eto, Ebrill 3, gan Mr. John Emlyn Jones, yn Ebenezer, Caerdydd, Mons. Victor Faber, trosfaelwr llongolion, a Miss Church, y ddau o'r dref hon.

Yn Ebenezer, swydd Benfro, Mawrth 27, gan y Parch. J. D. Thomas, Blaenffos, Mr. J. Richards, Ciddigill-isaf, a Miss Eliza James, o Eglwyserw.

---

## MARWOLAETHAU.

Ebrill 8, yn 76 oed, John Parry (Bardd Alaw), yr hwn fel bardd, ac yn enwedig fel cerddor fu yn anrhydedd i Gymry am amryw flynyddau.

Chwef. 20, Mrs. Elizabeth Gilbert, yr hon oedd aelod parchus yn Elim, Dowlais.

Yn ddiweddar, Mrs. Ann Jones, Hendrefor, Lleyn, swydd Gaernarfon, yn 69 oed.

Ebrill 1, yn 65 oed, Mr. Thomas Jones, Plough, Llandegla.

Ebrill 4, yn 35 ml. oed, Mr. Robert Evans, Gwastadgoed, (Gartheiniog gynt) Mallwyd.

Ebrill 5, yn 41 oed, Mr. D. Wm. Lloyd, Ty'n-y-llan, Llangwyllog, Mon.

Mawrth 2[illegible]. Catherine, priod Thos. Evans, a merch Richard Rowlands, gof, Dinas Mowddwy.

Mawrth 23, yn y Bala, yn 71 oed, Richard Parry, Land Surveyor.

Mawrth 21, yn 19 oed, yn Mhensarn, Mon, Jane, unig ferch W. Williams, Sacheus.

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] GORPHENHAF, 1851. [RHIF. 85.

CYNNWYSIAD.


Gweddi agoriadol Arddangoriad mawr Llundain, 159
Rhesymau y Parch. Robert Hall ar Gymundeb Eglwysig yn cael eu hystyried, 159
Pennillion detholedig o Farwnad y Parch. Thos. Jones, Rhydwilyn, 163
Hanes yr Eglwys Gristionogol, 164
Anerchiad i'r Parch. Thos. Roberts ar ei gychwyniad tuag America, 170
Ffolineb llan Gyffylog, 171
Y Mormoniaid yn Beaver Island, 171
Dic Shon Dafydd yr Ail—Y pwngc i'r lythyren, 172
Y Bedyddwyr yn Winebago, Wis., 173
Pryddest-awdl ar Long-ddrylliad Dynoliaeth, 174
Cyfarfod Trimisol Steuben, 175
Corffoliad Eglwys yn Dunmore, 176
Cymeradwyaeth Ddirwestol, 176
Cymry Bradford a Chofgolofn Washington, 176
Cymeradwyaeth i'r meddyg D. S. Spear, Pottsville, 177
Pittston, Pa., 177
Symudiad gweinidogion, 177
Jenny Lind, 177
Damwain Angeuol yn New Philadelphia, Pa. 178

*Adolygiad y Wasg*—Sermons of Christmas Evans, a new translation from the Welsh; with a Memoir and Portraiture of the Author; by Rev. Joseph Cross, 178
" " Lights and Shadows of Scottish Life, by John Wilson, Esq., 178

*Priodasau*, 178
*Genedigaethau*, 179
*Marwolaethau*, 179
Cynghorion buddiol, 179
California,—Tân yn San Francisco, eto yn Stockton, y cloddfeydd, &c. 179

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. 179
Yr Arddangosiad, 179
Ymfudiaeth—Marwolaethau—Masnach, 180
Ffraingc, 180
Penrhyn Gobaith Da, 180

*Tywysogaeth Cymru*.—Y Bedyddwyr yn sir Aberteifi, 180
" " Cyflog gweinidogion, 180
" " Aberdare, 180
" " Dowlais, 180
" " Llundain, 181
" " Llynlleifiad, 181
" " Cwrdd Cwarter Morganwg, 181
" " Eto, Yr Hen Gymanfa, 181
" " Llwynhendy, 181
" " Aberdulais, 181
" " Trefforest, 181
" " Carmel, Pontytypridd, 182
" " Seren Cymru, 182

*Priodasau*, 182
*Marwolaethau*, 182


POTTSVILLE.

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Marwgofion, gan Cymro; Adolygiad ar Feirniadaeth, gan y Parch. E. Edwards, Pittston; Llythyrau W. J., T. R., M. M. J., W. S. D., W., Mynyddwyr; Hanesion, ga y Parchn. T. R. D., (rhy ddiweddar i'r rhifyn hwn); L. M., &c.

☞Buasai yn dda genym genym gyhoeddi Cân Mynyddwr wr yn gweled yn addas i anfon ei lythyr yn brydlawn; ond nid ydym yn ewyll hebiaethau a fyddont wedi ymddangos mewn cyhoeddiad arall y mis blaenorol.

☞Derbyniasom yn daliad oddiwrth Richard R. Thomas, Steube h. James Jeffreys, Winebago, Wis., $2; Parch. R. Morris, Centreville, N. Y., (1849), $2 50; n James, (am 1350.) $5 50; Parch. R. Davies, Paris, Ohio, $3, Thos. Phillips, Carbondale, (am 1851), $1 25. Am lyfrau eraill, gan y Parch. E. Edwards, Pittston, $7; Thos. Jones, Talmadge, $2. Wm. S. Davies, Pottsville, 50cts; Jas. G. Jones, Wilkesbarre, $4.

☞Hyderwn y gwna ein dosbarthwyr ymdrech i gasglu y tâl am 1851 yn ystod y mis presennol, yr hyn a duedda i hwylusu ein camrau yn fawr. Barnwn fod hyn yn dêg—yr ydym ni wedi roddi *credit* iddynt dros saith mis, ai gormod i'n derbynwyr roddi ymddyried i ninau am bum' mis? Ond mae rai yn ein dyled er y flwyddyn o'r blaen, ac fe allai fwy na hyny. O chwi, esgeuluswyr un o ddyledswyddau penaf dyn, deffrowch yn ddioed, rhag i neb allu dywedyd fod Shon Domos mewn dyled o flwyddyn neu ddwy am ei gyhoeddiad.

GOSTYNGIAD TOLL Y CLUDIAD.—Bydd cyfraith newydd y Post-swyddfa yn dyfod i weithrediad gyda y rhifyn hwn. Od oes neb yn ewyllysio derbyn y Seren o'r newydd am y chwech mis diweddaf o'r flwyddyn hon hyderwn y gwnant anfon atom, a gwnawn eu diwallu yn llawen. Cynghorwn ein dosbarthwyr i dalu y *postage* ddau fis yn mlaen wrth godi y rhifyn hwn trwy yr hyn ni bydd ond un cent o gludiad ar bob rhifyn.

☞Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

☞Cydsyniwn â cheisiadau ein cyfeillion yn Blossburg, Ohio a Wisconsin, y mis hwn, trwy anfon y llyfrau a ewyllysiant. Oedwyd eu gyru am un mis am fod y *postage* yn gostwng.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU—am CATHARINE MEAZY (wrth ei henw morwynol). Daeth i'r wlad hon o ardal Pil, swydd Forganwg. Mudodd yn y llong Jamestown. Glaniodd yn New York Mehefin. 1849, a chlywyd iddi briodi yn ardal Pittsburg. Dymuna Ann Gimblet ei chyfnither, glywed ei hanes. Cyfarwydder at John Gimblet, Yellow Spring, Dauphin Co., Pa.

*Hefyd—*

Am JOHN GRIFFITHS, gynt o Flaenafon, (ond genedigol o Sir Aberteifi, D. C.). mab i David Griffiths, Hatwr, Sirowy. Mudodd i America tua chwech mlynedd yn ol; y lle yr ydoedd pan glywyd oddiwrtho ddiweddaf oedd Turtle Creek, Northumberland Co., Pa. Os gwyr neb o'n darllenwyr rhywbeth am dano, dymunir arnynt yn barchus i gyfeirio at ei gefnder, Evan Griffiths, Carpenter, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

*Hefyd—*

Am WILLIAM POWELL, gynt o Langynidr, swydd Frycheiniog, D. C. Mudodd i'r wlad hon tua phedair neu bum' mlynedd yn ol. Sefydlodd yn rhywle yn y parth uchaf o Illinois. Carai ei hen wasanaethwr, Thos. Phillips, glywed ei hanes. Cyfarwydder unrhyw hysbysrwydd am dano at Thos. Phillips, care of Rev. D. E. Bowen, Carbondale, Luzerne Co., Pa.

*Hefyd—*

Am WILLIAM THOMAS, mab John Thomas (Shon Shon Domos y Pwyswr), o Fleur De Lis, swydd Fynwy. Daeth William i'r wlad hon tua 11 mlynedd yn ol, a bu yn aros am beth amser yn Minersville. Pwy bynag a wyr rhywbeth am dano, dymunir iddynt gyfeirio at Daniel Lewis, Blacksmith, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

---

ESBONIAD Y DR. GILL YN NGHYMRAEG.—Y mae y gwaith ragorol hwn yn awr yn cael ei gyhoeddi yn rhanau gan Mr. Wm. Owen, Caerdydd. Deallwn ei fod allan o'r wasg yn barod hyd yr Epistolau. Mae y Cyhoeddwr wedi cael awgrymiadau oddiwrth rai o Gymry America eu bod am ei gael, ac addawa anfon blychaid yma os bydd galwad, gan fod llongau yn dyfod oddiyno bob mis i America. Dymuna i ryw un cyfrifol gael ei bennodi yn oruchwyliwr.

Er mwyn hwylusu ychydig ar hyn, gall y rhai a chwenychant ei gael anfon atom ni (yn ddidraul) ac yna, os ceir ryw nifer o dderbynwyr, gellir pennodi ryw un addas i dderbyn y tansgrifiadau, a derbyn y llyfrau hefyd.

GEIRIADUR D. SYLVAN EVANS.—Pwy bynag a ewyllysio dderbyn y llyfr hwn hefyd, gallant ei gael cyn hir trwy anfon eu henwau i mewn i olygydd y Seren.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.—Yr ydys wedi argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithwyd ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.

---


## O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 23, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Y... Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneu... gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a ... aeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] GORPHENHAF, 1851. [RHIF. 85.

## GWEDDI AGORIADOL ARDDANGOSIAD MAWR LLUNDAIN.

Y weddi ganlynol o eiddo Archesgob Canterburu, a draddodwyd ar agoriad Arddangosiad Llundain:

"Hollalluog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn llywodraethu pob peth yn y nef ac ar y ddaear, hebot Ti nid oes dim yn gadarn nac yn santaidd, atolygwn arnat i dderbyn ein hoffrwm o fawl a diolchgarwch; a derbyn ein gweddiau, y rhai ydym yn eu cyflwyno atat y dydd hwn ar ran y deyrnas, a phobl y wlad hon. Cyfaddefwn, O Arglwydd, dy fod Di wedi cyfranu bendithion lluosog, y rhai a allesit yn gyfiawn eu hatal oddiwrthym. Cyfaddefwn mai o'th drugaredd Di yn unig y caniateir i ni gyfarfod fel hyn i ymgrymu o'th flaen i ddiolch i Ti am dy ddaioni mawr. Ac yn awr, O Arglwydd, atolygwn arnat am fendithio y gwaith a ganiateaist i ni ei ddechreu, a deisyfwn arnat i anrhydeddu â'th foddlonrwydd ein dybenion yn cyssylltu ynghyd wahanol genedlaethau y ddaear yn rhwymau heddwch a thangnefedd. Genyt Ti, O Arglwydd, y mae parotoad calon dyn. Tydi sydd yn atal terfysgoedd a rhyfeloedd o fewn ein gwlad; Tydi sydd yn achosi fod heddwch o fewn ein caerau, a ffyniant o fewn ein palasau. O honot Ti y mae fod gwybodaeth yn ymledaenu dros y byd, o herwydd y mae ysbryd dyn oddiwrthyt Ti, ac ysbrydoliaeth yr Hollalluog sydd yn roddi iddo ddeall. Gan hyny, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun, y byddo yr holl ogoniant. Pan y byddom fel hyn yn adolygu amrywiol weithrediadau dyfais a chelfyddyd, na fydded i'n calonau ymchwyddo, fel yr anghofiom yr Arglwydd ein Duw, a meddwl mai ein gallu neu ein cywreinrwydd ein hunain a ddygodd i ni yr holl drysorau hyn. Dysg ni bob amser i gofio bod y cwbl yn deilliaw oddiwrthyt Ti, ac mai Tydi sydd yn teyrnasu dros bawb. Y cyfoeth a'r anrhydedd a berthynant i Ti, ac i Ti yn unig. Ac yn awr, O Dduw, deisyfwn arnat i oruwch-lywodraethu yr ymgynnulliad hwn o genedlaethau, fel y byddo yn tueddu i eangu dy ogoniant, i ledaenu dy air santaidd, ac i gynyddu llwyddiant cyffredinol, trwy gynhyrchu tangnefedd ac ewyllys da yn mhlith gwahanol dylwythau y ddaear. Bydded i'th drugareddau oll dueddu ein calonau i'th wasanaethu yn fwy ffyddlon, yr hwn ydwyt awdwr a chyfranwr y cwbl. Ac yn ddiweddaf, O Arglwydd, dysg ni i ddefnyddio y bendithion daearol hwn, y rhai a roddaist i ni mor helaeth i'w mwynhau, fel na byddo iddynt dynu ein serchiadau oddiar y pethau nefol hyny a ddarperaist Ti i'r sawl a'th garant ac a'th wasanaethant, trwy haeddiant a chyfryn dod dy anwyl Fab Iesu Grist, ein Hiachawdwr, i'r Hwn, gyda Thi a'th Ysbryd Santaidd, y byddo yr holl anrhydedd a'r gogoniant."

---

## RHESYMAU Y PARCH. ROBERT HALL AR GYMUNDEB EGLWYSIG YN CAEL EU HYSTYRIED.

GAN T. F. CURTIS, M. A.

[Parhad o dudal. 129.]

7. Yn ol athrawiaeth Mr. Hall nis gallai un o'n heglwysi fod yn Galfinaidd yn yr athrawiaeth oni bydd yn alluog i brofi fod Arminiaeth yn rwystr i fyned i'r nefoedd. Yr oedd John Milton yn dadleu gyda sel a brwdfrydedd o blaid i wr a gwraig gael eu hysgaru. Pwy a all ddywedyd i fod hyn yn gymmaint cyfeiliornad ag a fuasai yn ei gau allan o'r nefoedd? ac felly y mae yn rhaid gosod cyfeiliornad fel hwn yn y gofres o Gyfeiliornadau Goddefol. Yr oedd hefyd yn Ariad, ac felly nid yw athrawiaeth y Drindod i fod mwyach yn un o wirioneddau sylfaenol crefydd. Yr oedd, fel y deallir Dr. Bushnel, yn gwadu natur ddirprwyol Iawn Crist; ond eto, os na ellir profi i fod hyny yn gyfeiliornad ag sydd yn cau o'r nefoedd y mae yn rhaid ei oddef yn yr eglwys; ac y mae yn rhaid golygu nad yw gwadu priodol ddirprwyaeth o fawr pwys, ond yn unig gwahaniaeth meddwl, ag sydd i gael ei oddef, yn gyfartal i wir olygiad am fedydd. Yr oedd Augustine, yn un o'r tadau Cristionogol mwyaf duwiol (fel ag y mae ei gyfaddefiadau yn dangos), eto yr oedd yn dal mewn gweddio dros y meirw, a bod bedydd yn ailenedigaeth. Yr oedd Fenelan yn Babydd; Neander ac Arnold braidd

yn credu ysbrydoliaeth anffaeledig; a John Foster yn ymwrthod â thragywyddol gospedigaeth. Ond a ydyw yn ddigon o brawf i ni eu bod yn cael eu cau o'r nefoedd am eu bod yn dal y cyfeiliornadau hyn; neu o'r tu arall, a yw yn angenrheidiol i ni gyfaddef fod yr ysgrythyr yn gorchymyn mewn modd pennodol eu derbyn yn aelodau ac yn weinidogion i'n heglwysi? Ar y golygiad hwn y mae yn rhaid i ni dderbyn Pabyddion ar un llaw a gwadwyr ysbrydoliaeth ar y llaw arall, yn gymysgedig â'u gilydd, i'n heglwysi; ac ni bydd i ni gael ein cydnabod mwyach fel rhai yn coleddu unrhyw olygiadau neillduol, fel na bydd yr enw Bedyddwyr mor briodol i ni fel eglwysi ag a fydd i bersonau; a gweinidogion o bob golygiadau, o'r Pabydd i lawr hyd yr Arminiad, yn honi hawliau cyfartal i'r aelodau gwreiddiol, fel gorchymyn ysgrythyrol pennodol i'r eglwysi i gydymffurfio ag ef.—Trwy hyn byddai yn rhaid i ni roddi heibio yr hen arwyddair apostolaidd hwnw, "Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd:" a gosod yn ei le amryw arglwyddi, amryw olygiadau, amryw fedyddiadau. Nid yw ein brodyr y cymunwyr cymysg yn ymatal rhag canlyniadau mor belled ag y mae hyny yn dwyn perthynas â thaenellwyr babanod, a dywedant fod yr un egwyddor gyffredinol yn gymhwysiadol i bob achos arall.

8. Ond nid hyn yn unig yw y cwbl. Yr ydym yn ol golygiad ein brodyr y cymunwyr cymysg, i oddef nid yn unig gwahanol olygiadau yn yr eglwysi, ond hefyd wahanol ymarferiadau, os na byddwn yn barnu fod y cyfryw ymarferiadau yn eu hanghymwyso i fod yn ffafr Duw. Nid yn unig yr ydym i oddef y golygiad o daenelliad babanod, ond hefyd yr ydym i oddef yr ymarferiad o hono. Yr ydym yn addef i fod hyn yn angenrheidiol er bod yn gyson yn ol y meddwl uchod; ond i ba le y mae yn ein harwain? Yr ydym i oddef John Milton, er ei fod yn dadleu yn selog dros ysgariad, am nad ydym yn gallu profi fod hyny o angenrheidrwydd yn ei anghymhwyso i fod mewn sefyllfa o ras. Nid ydym i ddywedyd dim yn ei erbyn yn ein pregethau, rhag i ni trwy hyny dramgwyddo neu flino cydwybodau y brodyr gweiniaid a fyddo yn dal y fath olygiad yn yr eglwys. Ond meddyliwn pe byddem yn dwyn y golygiad o ysgariad i weithrediad, a fyddai yn rhaid i ni oddef hyny o ddewisiad? Y mae hyn yn angenrheidiol yn ol yr egwyddor gyffredin. Y mae yn rhaid i ni oddef y Pabyddion i weddio ar y Fair Forwyn, i addoli ysbryd, i benlinio mewn cyfaddefiad i offeiriad, ac ar yr un pryd fod yn aelodau rheolaidd yn yr eglwysi; ac efallai yn weinidogion. Nid yw ond gwahaniaeth meddyliau, ac nid yw o angenrheidrwydd yn effeithio dim yn erbyn ein hiechydwriaeth. Rhai blynyddau yn ol darfu i un o weinidogion yr efengyl ag oedd yn cael ei ystyried yn ddyn duwiol a defnyddiol, i ysgrifenu gwaith i brofi y dylasai pob dyn a fuasai i hudo menyw o lwybr diweirdeb i gael ei rwymo i'w phriodi, pa un ai dyn priod a fuasai ai peidio. Trwy hyn yr oedd yn dadleu ac yn amcanu profi yr angenrheidrwydd o rwymo aml-wreigiaeth mewn rai amgylchiadau. Meddyliwn pe byddai godinebwr edifeiriol yn gweithredu yn gydwybodol yn ol y golygiad uchod, a fyddai yn rhaid i ni ei oddef yn yr eglwys i fyw felly, pan y mae daioni cymdeithas yn galw am ei gospi yn ol cyfraith y tir.

9. Meddyliwyf ein bod wedi dywedyd digon er dangos nad yw y fath gynllun o aelodiaeth eglwysig wedi cael ei orchymyn mewn modd pennodol yn yr ysgrythyrau, na'i fod mewn modd casgliadol yn cael ei gynnwys ynddynt. Yr ysgrythyrau a ddygir gan Mr. Hall er profi ei bwngc ydoedd Rhuf. 14. 1—5, "Yr hwn sydd wan yn y ffydd derbyniwch atoch, nid i ymrafaelion rhesymau," &c. Eto, Rhuf. 15. 1, 6, 7, "A nyni y rhai ydym gryfion a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid, ac nid rhyngu ein bodd ein hunain," &c. Ar yr ysgrythyrau a nodwyd y mae R. Hall yn sefydlu y rhesymau a ganlyn: Y mae mynud o sylw, medd efe, ar y cyssylltiad yn rhwym o argyhoeddi y darllenydd i fod y gair *gwan* yn yr adnodau uchod yn golygu personau ag oedd yn gyfeiliornus yn eu golygiadau crefyddol. Y mae yn angenrheidiol i ni i sylwi ar yr egwyddor ar ba un y mae yr apostol yn gorchymyn goddefiad, ac os ydyw yn gymhwysiadol yn y meddwl eangaf o hono i'w gymhwyso at ein brodyr y taenellwyr, yr hyn nid oes le i'w ameu, y mae yr egwyddor yn amlwg nad yw y cyfeiliornad uchod o'r fath natur a mawredd ag oedd yn ddigon i atal y cyfryw o fod yn ffafr Duw. "Yr hwn sydd yn bwyta na ddiystyred yr hwn nid yw yn bwyta; a'r hwn nid yw yn bwyta na farned yr hwn sydd yn bwyta, canys Duw a'i derbyniodd ef." Os hyn yw y rheswm a roir dros gydundeb goddefiadol, a'i fod yn reswm digonol, fel nas gall neb ei wadu heb ameu ysbrydolrwydd yr ysgrifenydd, y mae mor ddigonol yn ei gymwysiad o oddefiad i bob cyfeiliornad ar na byddo yn ein hanghymwyso i fod mewn sefyllfa o gadwedigaeth, fel pe byddai y cyfeiliornad hyny yn cael ei nodi dan ei enw. Felly, nid oes genym ond un o ddau beth idd ei ddewis—naill ai gwadu

yr haeriad o fod y rhai sydd yn gwahaniaethu o ran eu golygiadau oddiwrthym ni am fedydd yn gymeradwy gyda Duw, nea ynte eu derbyn ar yr un tir, ac ar yr un egwyddor ag y darfu i'r apostol Paul orchymyn goddefiad iddynt yn y geiriau a nodwyd.* Os yw yr egwyddor uchod yn gywir,—

10. Digon yw dywedyd i fod y geiriau a nodwyd yn profi yr hyn a addefir gan bawb: fod y Cristionogion yn gwahaniaethu yn eu golygiadau a'u hymarferiadau oddiwrth eu gilydd mewn rai pethau sydd i'w goddef yn yr eglwys, pan y byddo genym le i feddwl fod y brawd gwan yn dderbyniol gyda Duw. Am natur y pethau ag oeddent yn gwahaniaethu o'i herwydd yn amser Paul yn achos derbyniad y brawd gwan, y maent yn cael eu nodi. Pethau oeddent nad oedd un gorchymyn pennodol wedi ei roddi, nac unrhyw reol neillduol wedi ei gosod ar lawr gan Dduw i ymarfer â hi yn un ffordd mwy nâ'r llall, fel y gallasent gydymffurfio â holl ewyllys a rheolau datguddiedig Duw, ac eto bod yn wahanol i'w gilydd yn y pethau a nodwyd. Y mae yn ymddangos fod yr apostol yn gosod derbyniad y brawd gwan ar y ddau olygiad a ganlyn:—Yn 1. Nad oeddent hwy wrth weithredu fel y nodwyd yn troseddu gorchymyn ysbrydoledig, ond yn cydymffurfio â holl ewyllys ddatguddiedig Duw yn yr achos mewn dadl. Y mae hyn yn cael ei nodi yn amlwg yn adn. 14; "Mi a wn, ac y mae yn sicr genyf trwy yr Arglwydd Iesu Grist, nad oes dim yn aflan o hono ei hun;" ac yn adnodau y 5ed a'r 6fed, dywedir eu bod yn gwahaniaethu yn eu meddyliau o barth diwrnodau—rhai yn barnu diwrnod uwchlaw diwrnod, ac eraill yn barnu pob diwrnod yn ogyfuwch. Nid oedd pethau fel yma ond pethau goddefadwy. Bydded, ebe yr apostol, bob un yn sicr yn ei feddwl ei hun. Nid oeddent trwy hyn yn troseddu un gorchymyn o ddatguddiad Duw. 2. Gan nad oeddent yn troseddu un gorchymyn o ddatguddiad Duw, yr oeddent i gael eu derbyn i undeb eglwysig, a'u goddef yn yr eglwys, gan fod arwyddion eu bod mewn ffafr gyda Duw, ac wedi gwybod mewn modd profiadol am oruchwyliaeth ei ras ef fel ei blant; yr oeddent yn wrthddrychau addas i gael eu goddef yn yr eglwys yn Rhufain, at yr hon yr oedd yn ysgrifenu. Y mae i ni dderbyn y naill fel y llall, fel ag y mae Crist wedi ein derbyn ni. Ond nid yw fod y pethau uchod yn cael eu goddef yn eglwys Rhufain ddim yn brawf y dylid goddef dynion i goleddu pob rhyw fympwy, ac i ymarfer ag ymarferiadau gwrthdrawiadol i orchymyn pennodol a datguddiedig Duw.

11. Fel un ag oedd yn benderfynol yn ei feddwl i fod ei ymresymiad yn anatebadwy, y mae ein hawdwr mewn modd buddugoliaethus yn cyrchu ato eilwaith ac eilwaith mewn iaith fel hyn: "Oddiwrth y pethau a nodwyd, yr ydym yn ymresymu, gan fod yr apostol Paul yn ei osod i lawr fel rheswm y dylasai y Cristionogion oddef eu gilydd, am eu bod oll yn dderbyniol gan Grist, yr hyn yn ddiamheuol sydd yn rheswm digonol, ac yn cael ei addef felly, y dylai gael ei helaethu i bawb a fyddo yn yr un sefyllfa, pa rai ydynt dderbyniol gan Grist.*"

Yr ydym am wneuthur dau nodiad ar yr ymresymiad uchod: Yn 1. Yn lle dywedyd fod yr apostol yn ei osod i lawr fel rheswm y dylasai y Cristionogion oddef eu gilydd, dylasai ddywedyd y Cristionogion hyny, pa rai yn eu perthynas â'r achos mewn dadl a ddarfu gydymffurfio â holl ofyniadau a rheolau ysbrydoliaeth. Yn 2. Wedi gwneud y gwelliant hyn, gallwn ganiatau i fod ei benderfyniad am gydundeb goddefiad yn gymhwysiadol i bawb yn yr unrhyw sefyllfa; hyny yw, nid yn unig y rhai ag sydd yn dderbyniol gan Grist er eu bod yn gyfeiliornus, ond hefyd y rhai ag sydd yn dderbyniol ganddo ef ar nad ynt yn gyfeiliornus, sef y rhai ag sydd yn cydymffurfio ag ewyllys ddatguddiedig Duw yn eu perthynas ag aelodiaeth eglwysig. A ellir honi yr hawl i daenellwyr babanod? (a gadael eraill ag sydd yn dal cyfeiliornadau o wahanol ddesgrifiadau heblaw y rhai hyny ag sydd o angenrheidrwydd yn eu hymddifadu o hawl i'r iachawdwriaeth), a ellir, gofynaf eto, honi yr hawl iddynt hwy, y taenellwyr, oddiar yr ysgrythyrau dan sylw, a dangos ein bod oddiar orchymyn pennodol iddeu derbyn, nid fel Cristionogion yn unig ond hefyd i holl iawnderau a breintiau ein heglwysi, fel eglwysi neillduol?

Er gosod yr achos mewn dull ag y bydd i ddwyn allan i'r golwg mewn modd amlwg rym y testynau y cyfeiria R. Hall atynt; ac ar yr un pryd i roddi yr eglurhad goreu a allwn ni feddwl am dano ar y gofyniad mewn dadl, meddyliwn fod dau gyflwr yn angenrheidiol er bod yn aelodau o'r eglwys weledig gydag unrhyw enwad: un yw eu bod mewn sefyllfa gymeradwy gyda Duw, a'r ail yw eu bod mewn cydymffurfiad â'r gyfrol ysbrydoledig. Gyda golwg ar yr ordinhad o fedydd, nis gallai y gweinidog ddywedyd am y rhai a gydymffurfiant â'r rheol

* Gweithiau Hall, cyf. 1, tudal. 325-6.

* Atebiad i Ringhorn, rhan. 3, pen. 7. Gweithiau Hall, tudal. 457.

Ddwyfol, Gan fod y brodyr hyn wedi ufuddhau a chyflawnu gorchymyn Crist, derbyniwch hwynt, y mae Crist wedi eu derbyn.—A fyddai yn deg i ni gasglu oddiwrth y fath gyfarchiad o eiddo y gweinidog, ei fod yn dysgu ac yn anog y frawdoliaeth i dderbyn y personau hyny ag sydd yn anufuddhau, ac yn gweithredu yn groes i orchymyn Duw yn eu perthynas â bedydd, yn aelodau o'r eglwys weledig yn unig, fel Cristionogion ?

12. Gallem orphwys yma yn y meddwl ein bod wedi dinystrio y cynllun o aelodiaeth eglwysig a ymdrechir ei sefydlu gan R. Hall, ond gyda golwg arnom ni ein hunain, nid oes ynom un petrusder i ddywedod ein bod yn meddwl i fod yr ymadroddion o berthynas i betrusder Iuddewaidd, a fyddo yn cael ei ddal mewn modd gweddaidd, ac heb ddadleuaeth mewn un modd, pan y mae yn cael ei osod mewn cyssylltiad â'r ymadroddion hyny ag sydd yn llefaru am dynu oddiwrth yr afreolus, ac ymwrthod â'r ymrysongar, yn dangos fod awdurdod didoladwy unrhyw raddau wedi cael ei adael i pob eglwys neillduol, yn ngwahanol wledydd y ddaear, ac yn ngwahanol oesau y byd, er gosod allan beth yw proffes gredadwy o dduwioldeb; a pha beth yw y rheolau appwyntiedig gan Dduw, pa rai a ofynir i ni gydymffurfio â hwy er bod yn aelodau o eglwys weledig Crist, ac i benderfynu drosto ei hun i ryw raddau beth yw y safon, neu pa mor uchel y gellir gosod safon aelodiaeth eglwysig er bod yn fanteisiol er ymeangu gwybodaeth o bethau Dwyfol yn y byd, a hyny mor belled ag na byddo yr eglwys yn ymwrthod nac yn esgeuluso y pethau angenrheidiol i gymymffurfio â hwy. Y mae yr eglwys yn gynnulleidfa o wirfoddolion ar rai golygiadau, ond nid oes gan un o'i haelodau hawl i newid gosodiadau Duw, ac nid oes ganddynt yr awdurdod hyny mewn ystyr eglwysig chwaith. Y mae yr eglwys yn gynnulleidfa o wirfoddolion, ac y mae gan bob ymgeisydd hawl i adrodd beth y mae yn e dderbyn, a pha beth y mae yn ei wrthod. Yn hyn y cafodd cyffesau ffydd eu dechreuad, ac mor belled â hyn ni ddylent gael eu gwrthod. Y mae hanes crefydd weledig yn y byd yn dangos ei bod yn iawn eu goddef mewn un oes a than rai amgylchiadau ag y mae yr eglwys ynddynt, pan na na fyddai o ddaioni, ond yn niweidiol, eu goddef mewn oes arall, a than amgylchiadau gwahanol. Mewn sefydliadau fel eglwysi Crist, a fyddont wedi eu gwneud o unigolion, y maent i olygu nid eu lles personol yn unig, ond eu lles fel cynnulleidfa, ac nid yn unig hyny, ond hefyd y maent i olygu lles y byd mewn ystyr gyffredinol, er ei ddwyn i adnabyddiaeth o'r gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Weithiau bydd galwad i'r Cristion wneud mwy nag y mae yn ei wneud yn barod er ei iachawdwriaeth ei hun, ac weithiau y mae yn angenrheidiol i'r eglwys fod yn fwy caeth a llym mewn dysgyblaeth nac ar amserau eraill, am fod lles yr eglwys a'r byd yn galw am hyny; a phe byddai yr eglwys yn gollwng y ddysgyblaeth i lawr, byddai iddi yn fuan fyned yn llygredig, a chollai ei dylanwad ar y byd.

13. Yn awr gofynir, a fyddai ddim yn well ar yr egwyddorion hyn i ein heglwysi i ddefnyddio eu doethineb a'u gallu o blaid derbyn personau difedydd yn aelodau o honynt? dywedaf heb betruso, Na fyddai; a'r rheswm sydd genyf am hyn yw y byddai yn groes i'r arferiad apostolaidd, ac yn groes i olygiadau pawb o'r Cristionogion yn mhob lle a phob amser; ac nid yn unig hyny, ond dinystria bob rhyddid mewn llefaru a gweithredu o berthynas i fedydd; a hyny rhag ofn rhoddi tramgwydd; a byddai yn mogi pob ymchwiliad am y gwirionedd; ac er y gall y rhai difedydd fod yn llai eu rhifedi ar y dechreu, gallant gynyddu o radd i radd, nes byddai i eglwys y Bedyddwyr gael ei dinystrio, a golygiadau y Bedyddwyr i gael eu dileu, gyda golwg ar y weinidogaeth a'r ymarferiadau yn yr eglwysi; oblegyd ni oddefid dim o hyny gan y mwyrif, rhag y byddai yn achos tramgwydd i eraill, a thrwy hyny byddai rhyddid ymadrodd yn cael ei wrthod i'r rhai a ewyllysient lefaru yr hyn ydym yn ei ystyried fel un o'r breintiau mwyaf gwerthfawr ag yr ydym yn feddiannol arnynt. Byddai y fath gynllun eglwysig ag a gymeradwyir gan R. Hall yn achosi y canlyniadau mwyaf dinystriol i wirioneddau y grefydd Gristionogol, a'i ddilyn i'r eithafoedd o hono.

Heblaw hyn, pell y byddom o feddwl credu mewn taenelliad babanod fel peth ag sydd o angenrheidrwydd yn gyssylliedig â bywyd duwiol; eto, gan fod ei ddiniweidrwydd ef yn cael ei osod i lawr fel un o'r ymresymiadau cryfaf dros gymundeb cymysg, y mae i ni sylwi fod yr arferiad o fedyddio â thaenellu babanod wedi bod yn un o'r niweidiau mwyaf i'r grefydd Gristionogol, i fywyd duwiol, ac i aelodau ailenedigol yr eglwys, er ys pymtheg cant o flynyddoedd ag y mae gwedi bod mewn arferiad. Er gweled hyn y mae yn rhaid i ni edrych arno yn ei effeithiau a'i ganlyniadau. Edrychwn, er engraifft, ar yr arferiad mewn gwledydd pabyddol, ni a ganfyddwn y byd braidd unwaith wedi ei gymeryd i mewn i'r eglwys, heb ddim gwahaniaeth rhwng y dychweledig a'r annychweledig. A ydyw ddim wedi argraffu ar feddyliau llawer y dybiaeth fod ychydig ddwfr yn ei gymwys-

iad at y baban, er yn anwybodus iddo, yn ei wneud yn aelod o Grist, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd? Onid yw hyn wedi arwain llawer i'r dybiaeth arswydol fod y rhai nad ydynt yn cael eu bedyddio neu eu taenellu, ac sydd yn marw yn eu babandod, yn golledig? Onid yw wedi bod yn rwystr mawr i gadw i fynu ddysgyblaeth yr eglwys, trwy gymysgu y byd a'r eglwys â'u gilydd—y duwiol a'r annuwiol? Ac ai nid yr arferiad o fedyddio neu daenellu babanod fu yr achos mwyaf neillduol i gymmaint o offeiriaid annuwiol gael eu sefydlu ar wahanol ganghenyr Eglwys Sefydledig yn Lloegr? Dywedir am John Wesley, pan gafodd ei godi fel diwygiwr, na allasai gael yn mhlith yr holl offeiriaid ond tri a allasai feddwl eu bod wedi gwybod mewn modd gwirioneddol am effeithiau crefydd. Oddiar yr ymarferiad hyn y deilliodd math o ymddangosiad o foesoldeb yn lle edifeirwch ac ufudd-dod efengylaidd yn Lloegr Newydd, yr hyn yn naturiol a derfynodd yn ymdaeniad eang Undodiaeth. O'r tu arall, bedydd neu daenelliad babanod yw y prif le cuddiedig o ba un y tardd y prawf o athrawiaeth traddodiad, yr hyn sydd wedi achosi y fath effeithiau yn yr eglwysi Esgobaethol a Phabaidd. Rhy faith fyddai gosod allan yma yr holl niweidiau ag y mae yr arferiad uchod wedi ei achosi. Y mae yn wir y dichon nad yw yr holl niweidiau wedi cael eu teimlo mewn unrhyw achos neillduol. Cododd amryw ddynion duwiol, doniol a defnyddiol iawn yn yr eglwysi ag oedd yn dal yr arferiad o daenelliad babanod—enwau pa rai sydd wedi bod yn addurn i eglwys Dduw. Nis gallwn anghofio Edwards, a Payson, a llawer eraill. Ond dywedai Dr. Bushnel yn ei ymddiffyniad i fedydd babanod i fod y personau a nodwyd yn Fedyddwyr o ran eu golygiadau, ac felly yr ydym yn eu parchu yn fwy. A thyma y reswm i fod yr ymarferiad wedi gwneuthur mor lleied o niwed yn yr eglwysi.

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

## PENNILLION DETHOLEDIG
## O FARWNAD Y PARCH. THOS. JONES,
### *Rhydwilym.*

GAN HENRY PRICE, PENFFORDD.

CENHADAU sy'n dwyn cenhadwri
  Am gymmod a heddwch i ni,
Trwy rinwedd y gwaed ga'dd ei dywallt
  Ar fynydd Calfaria yn lli';
Canwyllau sy'n rhoddi goleuni,
  Dinasoedd ar fryniau ynt hwy;
A halen pereiddiol y ddaear,
  O'u colli mae colled a chlwy'.

Yn mhlith y rhai doniol sydd heddyw
  Yn gorwedd yn dawel a mud
Mae Jones o Rhydwilym, gwr enwog—
  Ar grefydd y rhoddodd ei fryd;
Am bethau y ddaear ni wyddai
  Ond llai na'r cyffredin sydd wir;
Ond pethau sylweddol gwir grefydd
  I'w feddwl oedd oleu a chlir.

Ni chafodd ef ddysg mewn athrofa,
  Ond gwyddai gryn lawer er hyn,
Pregethai'n Gymraeg ac yn Saesnaeg
  Am haeddiant ac aberth y bryn;
Pwy Gymro bregetha mewn ragor
  Os ymffrost adewir yn mhell?
Fe ellir gwneud twyll o ryw ffyliaid,
  Ond eraill sy'n gwybod yn well.

Nid dwfr cronedig oedd ganddo
  Yn cael ei gyhoeddi i ma's,
Ond ffrwyth ei fyfyrdod ei hunan—
  Yn wreiddiol—yn felys ei flas;
Ar fwrdd cymanfaoedd Deheudir
  Pregethai flynyddau yn ol,
Nes ydoedd pregethwyr ac eraill
  Yn cyfrif eu hunain yn ffol.

Mewn cyrddau blynyddol, chwarterol
  A misol, yn mhob man o'r wlad,
Cyfrifid e'n un o'r rhai penaf,
  Rhoid iddo'r llywyddiaeth fel tad;
Er fod ynddynt amgen' sgolheigion,
  Am ryw bethau dyfnion, diball,
Am farn Thomas Jones byddai galwad,
  A'i eiriau gyfrifid yn gall.

Darllenai ryw lyfrau tra buddiol
  Heb flino o'r boreu hyd nos;
Fu neb yn fwy diwyd yn hyny.
  A phar'odd hyd derfyn ei o's;
Gorfyddai i Nansy ar droion
  Ei anfon o amgylch ei dir,
Pan fyddai'n ei wel'd yn pendwmu
  Wrth eistedd i ddarllen yn hir.

Nid oedd pan yn iach nac yn afiach
  Ddim fawr cyfeillachwr ag un;
Ni dd'wedodd erioed ddrwg yn nghefn,
  Na gormod yn wyneb un dyn;
Pan ai i ymweled â'r cleifion,
  Ni si'radai ond 'chydig â hwy,
Ond darllen, gweddio, och'neidio,
  Wnai gymmaint a neb, os nid mwy.

Dyoddefodd ei gystudd† yn dawel,
  Heb achwyn na chodi ei law,
Nes ydoedd tan afael y brenin
  Sy'n peri'r fath ddychryn a braw;
Ac yna fe diriodd yn dawel
  I froydd gwyrddleision y nef.
Mae heddyw heb lygredd na chystudd,
  Uwch cyrhaedd pob gelyn yn nhref.

Rhydwilym, ac oll o'i changhenau,
  Maent heddyw mewn galar ynghyd,
Waith colli eu bugail a'u blaenor,—
  Ei well ni ddangosa y byd.
Bu'n esgob ar eglwys Rhydwilym,
  Ac eraill, agos deugain a thair
O feithion flynyddau—mae'n debyg
  Fod hyny yn gywir bob gair.

*Pittston.* *Cyf.* E. EDWARDS.

† Cystuddiwyd ef yn drwm am naw mis o amser.

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### YR AIL GANRHIF.

Ar ddechreuad y canrhif hwn yr oedd Trajan yn eistedd ar yr orsedd ymerodrol, i'r hon yr oedd wedi esgyn yn y flwyddyn 98. Yr oedd tymhor byr yr ymerawdwr Nerva wedi rhanu rhwng llywodraeth orthrymus Domitian ac esgyniad Trajan, ond ni pharhaodd teyrnasiad Nerva ond un-mis-ar-bumtheg ac wyth niwrnod, pryd y cafodd yr ymerodraeth achos galaru o herwydd marwolaeth anmhryd-lawn un o'r ymerawdwyr goreu, a'r Cristionogion, o herwydd colli llywodraethwr oedd wedi dangos gradd mawr o dynerwch tuag atynt yn eu cyflwr blinderus. Dan ei nawdd yr oedd ei ddeiliaid mewn dysgwyliad am lonyddwch a dedwyddwch gwladol, oblegyd yr oedd y rhai a garcharesid am dyb-fradwriaeth yn cael eu rhyddhau, a'r rhai a alltudasid am eu crefydd yn cael dychwelyd yn ddyogel i'w cartrefleoedd. Dywedir hefyd iddo adferu meddiannau y rhai a ysbeiliasid yn anghyfiawn, a chosbi yr athrodwyr oeddent wedi eu cam-gyhuddo, ac ymroddi â'i holl egni i feddyginiaethu blinderau ei ddeiliaid mor belled ag oedd ddichonadwy mewn tymhor mor fyred. Estynodd i'r Cristionogion ymgeledd tyner drwy anghefnogi pob ymosodiad arnynt, er eu bod eto yn cael eu cyfrif yn fath o ddidduwiaid, am nad oedd ganddynt na themlau, nac allorau, nac aberthau, yr hyn, yn marn y cenedloedd, oedd hanfodol i grefyddolder.

Yr oedd Trajan yn ymerawdwr o gymeriad cymysglyd; yn llawn o uchelgais am anrhydedd, weithiau yn annoeth yn ei fesurau, ac yn anystyriol yn ei ymddygiadau. Ond, ar y cyfan yn haelfrydig i'w ddeiliaid, ac yn tueddu i fod yn drugarog; ond i'r Cristionogion yn wahanol iawn i hyny, drwy ei fod yn roi ffordd i'r eilun-addolwyr i gyflawni yr amcanion mwyaf anghyfiawn tuag atynt, ac weithiau, fel y cawn weled, yn arfer ei awdurdod i'w gormesu yn bersonol hyd farwolaeth am eu crefydd. Yn lled fuan wedi ei esgyniad i'r orsedd gosododd ei gyfaill Pliny yn rhaglaw ar dalaeth Bithynia. Yr oedd hwn yn un o'r dynion mwyaf enwog, a'r dalaeth dan ei awdurdod yn un helaeth a chyfrifol; ac yn ngweinyddiad ei swydd yr oedd nifer fawr o'r Cristionogion yn cael eu dwyn o'i flaen dan gyhuddiad o herwydd eu ffydd.—Gan nad oedd yn flaenorol wedi cael cyfleusdra i fod yn wyddfodol pan fyddai eu hachos yn cael ei drin yn y brawdlysoedd, yr oedd mewn petrusdod o barth y dull y dylasai ymddwyn tuag atynt, ac yn yr amgylchiad ysgrifenodd at yr ymerawdwr yn yr achos yn y flwyddyn 206, ac yn gymmaint a bod ei lythyr yn rhoddi golwg mor gyffrous ar gyflwr y Cristionogion yn y tymhor hyny, meddyliwn na bydd cyfieithad o hono, ynghyd ag ateb Trajan, yn anfuddiol i'r darllenydd, yr hyn sydd fel y canlyn:

*"Pliny at yr Ymerawdwr Trajan.*

"Sire,—Fy arfer yw ymgynghori â chwi yn mhob achos dyryslyd, oblegyd pan fyddo fy marn fy hun yn petruso, pwy all fod yn fwy cymhwys i'm cyfarwyddo neu i'm dysgu lle yr wyf yn anwybodus na'ch hunan.

"Nid oeddwn erioed wedi cael achlysur i fod yn wyddfodol pan fyddai achos y Cristionogion yn cael ei drin cyn i mi ddyfod i'r dalaeth hon. Yr wyf gan hyny yn anwybodus am yr eithafion mae yn arferol eu cosbi, neu i annog eu herlyniad. Yr wyf hefyd yn amheus pa un a ddylai rhyw wahaniaeth gael ei wneuthur rhwng ieuengctyd ac henafiaid; a rhwng y gweiniaid a rhai cedyrn; a pha un a ddylai maddeuant gael ei gynnyg ar ammod edifeirwch, a pha un hefyd ai yw yn ddichonadwy i ddileu euogrwydd proffes o Gristionogrwydd drwy ddad-ddywediad penderfynol; ac felly hefyd a ydyw proffes yn unig i'w hystyried yn drosedd, gan nad pwy mor ddiniweid bynag y bydd y proffeswr mewn ystyriaethau eraill. Ac oni ddylai y troseddau a gyssylltir â'r enw gael eu profi cyn y byddont yn ddarostyngedig i gosp.

"Ar yr un pryd, y dull yr wyf wedi arfer ymddwyn hyd yma tuagat y Cristionogion a gyhuddid fel y cyfryw, sydd fel y canlyn:—Mi a'u holwn, Ai Cristionogion ydych chwi? Os cydnabyddent hyny, rhoddwn yr un gofyniad yr eilwaith, a'r drydedd, gan fygwth y gosb mae y gyfraith wedi ddarparu. *Os parhaent, gorchymynwn eu dihenyddio yn y fan; oblegyd yn hyn yr oeddwn yn benderfynol, beth bynag oedd natur eu crefydd, fod y fath bengamrwydd a chyndynrwydd anmhlygadwy yn galw am gosp.* Mi a gedwais rai a gyfranogent o'r ynfydrwydd hyn i'w hanfon i Rufain, i ymddangos yn eich brawdlys chwi, o herwydd eu braint fel dinasyddion Rufeinaidd.

"Yn ymdriniaeth yr achosion hyn, gan fod y cyhuddiadau yn cynyddu, mae gwahanol amgylchiadau yn dygwydd. Anfonwyd i mi gofres o enwau gan gyhuddwr anadnabyddus, ond pan y gelwais hwynt gerbron amryw a dystiasant nad oeddent yn Gristionogion, nac wedi bod felly erioed, ac adroddasant ar fy ol ymbiliad ar y duwiau, ac ar eich delw chwi, yr hon a orchymynais ei dwyn i'r lle i'r amcan hyny, a chyflawnasant hefyd y defodau cyssegredig â gwin a thus, gan ymwrthod ag enw Crist, yr hyn, fel ym hysbysir, na ellir byth ddarbwyllo neb Cristionogion i'w wneuthur. Bernais yn addas gan hyny i ryddhau y rhai hyn. Eraill a enwyd gan gyhuddwr a gyfaddefasant ar y cyntaf eu bod yn Gristionogion, ond a wadasant hyny yn ol llaw, gan dystio, er eu bod unwaith o'r cyfenwad hyny, eu bod wedi rhoddi fyny eu proffes, rhai er ys tair blynedd, eraill er ys ychwaneg, a rhyw nifer er ys ugain mlynedd yn ol. Y rhai hyn oll a addolasant eich delw chwi a'r duwiau eraill, ac ar yr un pryd a ymwrthodasant â Christ.

"A thyma yr hanes a roddent i mi am natur y grefydd oeddent unwaith yn ei phroffesu, pa un bynag ai cyfenwad trosedd neu gyfeiliornad mae yn haeddu, sef eu bod yn ymgyfarfod ar ddydd arbenig cyn codi haul i uno yn nghyd i ganu hymnau i Grist fel Duw, gan ymrwymo drwy lw difrifol i ymwrthod â phob drygioni, ac ymgadw oddiwrth ledrad, anonestrwydd a godineb, &c., a pheidio tori

adduned byth, na chadw dim yn ol a ymddyriedid iddynt pan y gelwid am dano. Ar ddiwedd yr addoliad ymadawent, a chyfarfyddent drachefn mewn gwledd, yn gymysgedig yn wir, heb un gwahaniaeth o ran gradd na rhyw, ond yn hollol ddiniweid; ac oddiwrth hyn yr oeddent wedi ymatal oddiar gyhoeddiad fy nghorchymyn, yn yr hwn, yn ol eich cyfarwyddyd, y gwaharddais gymdeithasau o'r fath.

"Fel y gallwn gael hysbysiad mwy cyflawn er cyrhaeddyd y gwirionedd, mi a fernais yn addas i arteithio dwy ddynes, a elwid yn ddiaconesau, ond ni allais dynu dim oddiwrthynt ond cydnabyddiaeth o goel-grefydd hollol lygredig, ac felly roddais heibio bob ymgais ychwanegol, gan benderfynu ceisio eich cyfarwyddyd chwi, oblegyd mae nifer y troseddwyr mor lluosog, fel y mae yr achos yn galw am yr ystyriaeth fwyaf difrifol. Mae yr achwyniadau yn llifo i mewn yn erbyn lluoedd o bob oed a gradd, ac o bob rhyw, a bydd i ychwaneg gael eu cyhuddo, oblegyd mae heintusrwydd y goelgrefydd hon wedi ymdaenu nid yn unig yn y dinasoedd, eithr yn y pentrefydd hefyd, ac wedi cyrhaeddyd hyd y nod breswylfaoedd y tyddynwyr. Ond wedi y cyfan, yr wyf o'r farn ei fod yn ddichonadwy i'w hattal, ac y mae llwyddiant fy ymdrechion yn cau allan anobaith, oblegyd mae y temlau a fuant unwaith bron yn wâg yn cael ymweliadau adnewyddol, a'r arferion cyssegredig a fuant mewn atalfa yn cael eu cyflawni drachefn, a'r aberthau oeddent wedi myned yn anwerthadwy yn awr yn cael eu prynu yn awyddus, oddiwrth yr hyn yr wyf yn casglu y gellid adferu llawer, pe byddai gobaith am faddeuant ar ammod edifeirwch yn cael ei gadarnhau yn benderfynol."

Atebodd yr ymerawdwr y llythyr hwn fel y canlyn:—

*Trajan at Pliny.*

"PLINY ANWYLAIDD,—Yr ydych wedi gwneuthur yn berffaith iawn yn y dull yr ydych wedi ymddwyn yn yr achosion a berthynant i'r cyhuddiadau yn erbyn y Cristionogion. Ni ellir roddi un reol gyffredinol i ateb i bob achos neillduol. Na fydded i'r bobl hyn gael eu hela gan gyhuddwyr, ond os cyhuddir hwy a'u profi yn euog, bydded iddynt gael eu dihenyddio, ond gyda y cyfyngiad hyn,—Os bydd i neb roddi Cristionogaeth i fynu, a phrofi hyny drwy gyflwyno eu gweddiau at ein duwiau ni, cant faddeuant ar eu hedifeirwch, er mor amheus y dichon fod eu hymddygiad blaenorol. Ond am gyhuddiadau dienw ni ddylent gael un sylw, o herwydd byddai hyny yn roddi siampl anghysson ag egwyddor ein llywodraeth."

Tua yr un amser yr oedd Tiberianus yn llywodraethu yn Syria, ac ysgrifenodd yntau at yr ymerawdwr fel y canlyn: "Yr ydwyf wedi blino wrth gospi a dinystrio y Galileaid, neu y blaid a elwir Cristionogion, yn ol eich gorchymyn, ac eto nid ydynt byth yn ymatal rhag cydnabod yn wirfoddol beth ynt, a chynyg eu hunain i farwolaeth. Ac o herwydd hyny yr ydwyf wedi ymosod drwy gynghorion a bygythion i'w hattal rhag cyffesu i mi eu bod o'r blaid hono; ond wedi y cwbl maent yn parhau i wneuthur felly yn ngwyneb pob erledigaeth. Gwelwch fod yn dda gan hyny i'm hysbysu, beth a farna eich urddasrwydd yn oreu i'w wneuthur yn yr achos."

Mae y llythyrau yma o bwys yn hanesyddiaeth eglwysig y canrhif hwn, am eu bod yn dangos mor lluosog oeddent y dysgyblion drwy dalaethau yr ymerodraeth. Yr oedd cymmant llwyddiant wedi cydfyned â'r achos Cristionogol, fel yr oeddent y temlau yn agos bod yn wag, a'r allorau yn ddiwasanaeth yn Bithynia, a'r merthyron mor lluosog yn Syria, fel yr oedd y rhaglaw wedi blino ar y gwaith o'u rhoddi i farwolaeth; ac yr ym yn dysgu oddiwrth dystiolaeth Tertulian, fod llwyddiant mor fawr yn ffynu yn Affrica yn ystod y canrhif hwn, ac felly hefyd yn mhlith amryw o genedloedd eraill y byd, megys yn neheubarth Ffraingc, fel y canfyddir oddiwrth hanes yr erledigaeth yno yn nheyrnasiad Antoninus Verus.

Mae y darnau hyn yn dangos hefyd fod cyfreithiau dychrynllyd mewn grym yr amser hyny yn erbyn canlynwyr Crist. Yr ym yma yn canfod ei fod yn drosedd cosbadwy â marwolaeth i ddyn ei gydnabod ei hun yn Gristion, ac yn beth amheus yn marn Pliny a oedd ffordd i arbed dyn a fyddai wedi gwneuthur hyny ar yr ammod o wadu ei broffes. Nid ym yn gwybod pa bryd y gwnaethpwyd y cyfreithiau hyn, ond y peth mwyaf tebyg yw na ddiddymwyd deddfau gwaedlyd Nero a Domitian, er iddynt gael eu hatal, ac iddynt gael eu dwyn drachefn i weithrediad yn nheyrnasiad Trajan; fodd bynag, y mae yn amlwg fod yr erledigaeth yn greulon, ac wedi ymdaenu drwy dalaethau pellenig, ac yn enwedig drwy Syria a'r Asia leiaf, oblegyd o'r gwledydd hyn yr anfonwyd am y cyfarwyddiadau uchod.

Ond y peth mwyaf pwysig yn y cyfryw gyfraniadau yw y dystiolaeth a gynnwysant, o barth undeb buchedd y Cristionogion yn yr oes hono. Yn ol tystiolaeth y gwrthgilwyr a wadent eu perthynas â'r achos, yr oeddent yn ymwadu megys trwy lw â phob twyll, anlladrwydd, a drygioni; yn addoli Crist fel Duw, ac yn dal coffadwriaeth o'i farwolaeth iawnol yn yr ordinhad o swper yr Arglwydd yn ol ei orchymyn, ac yn ymrwymo i fyw yn onest ac yn ffyddlawn tuagat eu cyd-ddynion yn mhob peth; ac er arteithio gwragedd er mwyn cael tystiolaeth yn eu herbyn, nid oedd dim ar gael ond yr hyn a gyfrifid gan y paganiaid yn goel-grefydd lygredig, am eu bod yn diystyru eu heilunod, ac yn ymgadw oddiwrth eu harferion hygoelus, paganaidd, a thwyllodrus.

Er i'r llythyr hwn o eiddo yr ymerawdwr ysgafnhau y blinderau i ryw fesur, eto yr oedd cyflwr y Cristionogion yn drallodus drwy holl deyrnasiad Trajan, a llawer o honynt yn cael eu rhoddi i farwolaeth, oblegyd yr oeddent yr eilunaddolwyr yn cymeryd gafael yn mhob cyfleusdra i gyffroi y werinos yn eu herbyn, ac yn priodoli pob dygwyddiad trallodus i anfoddlonrwydd y duwiau, am fod y Cristionogion yn collfarnu eu gwasanaeth. Yn nghylch yr amser yn yr hwn yr

ysgrifenodd Pliny ei lythyr, yr oedd yr ymerawdwr yn ymbarotoi i ryfela â'r Partbiaid, ac ar ei daith cyrhaeddodd Antiochia, prifddinas Syria. Yn ystod ei arosiad yno dinystriwyd rhan fawr o'r ddinas drwy ddaeargryn, ac fel arfer fe gyfrifwyd hyn yn farn o herwydd y Cristionogion. Yr oedd Ignatius y pryd hyn yn fugail ar yr eglwys Gristionogol yn y ddinas hono. Brodor oedd o Syria, wedi ei ddwyn i wybodaeth o'r gwirionedd drwy weinidogaeth yr apostol Ioan, ac wedi cyfeillachu llawer â Phedr a Phaul. Yr oedd ei dduwioldeb a'i gymwysderau wedi ei gymeradwyo i sylw yr eglwys yn Antiochia, o'r hon yr oedd yn aelod, fel un addas i arolygu yr achos, ac fe'i hurddwyd gan Ioan yn y fl. 67, a bu yn llanw ei swydd gyda llawer o lwyddiant am ddeugain mlynedd. Drwy ryw foddion dygwyd Ignatius gerbron yr Ymerawdwr, yr hwn a'i cyhuddodd o droseddu y gyfraith drwy broffesu Cristionogaeth; eithr yr hen Gristion difrifol a'i hamddiffynodd ei hun ac achos ei Arglwydd, gan dystio nad oeddent dduwiau y cenedloedd amgen na gwagedd, am yr hyn y cafodd ei ddyfarnu i ddyoddef marwolaeth drwy ei daflu i'r chwareudy, i'w larpio gan yr anifeiliaid gwylltion. Ac er gwneuthur un ag oedd mor enwog yn mhlith ei frodyr yn siampl mwy cyhoeddus, cafodd ei anfon i ddyoddef yn Rhufain, lle y gorphenodd ei yrfa tua diwedd y flwyddyn 107, yn ol barn y rhan amlaf o hanesyddion dysgedig. Mae casgliad o'i lythyrau eto ar gael, yn mha rai y mae yn dyfynu rhanau o epistolau Paul, ac yn cyfeirio ai eraill, yn gystal ag at yr efengylau yn ol Mathew a Ioan, yr hyn a ddengys fod yr ysgrifeniadau santaidd mewn derbyniad gan eglwysi Crist, fel rheol ffydd ac ymarweddiad y pryd hyny, fel y maent yn awr.

Tua yr un amser ag y merthyrwyd Ignatius yn Rhufain, cafodd Simon Cleophas, yr hwn a ganlynodd yr apostol Iago fel bugail yr eglwys a gasglwyd yn Jerusalem, eithr a symudodd i dref a elwid *Pella* pan ddinystriwyd y brif-ddinas, ei gyhuddo gerbron Atticus, y rhaglaw Rhufeinig, o fod yn Gristion. Dywedir ei fod y pryd hyny yn rhagor na chan' mlwydd oed, ond nid oedd blodau y pren Almon yn un dyogelwch iddo rhag creulonder, oblegyd wedi ei fflangellu ddydd ar ol dydd, nes oeddent ei elynion yn synu o herwydd ei wrolder, cafodd ei groeshoelio yn y diwedd yn Jerusalem. Parhaodd pethau fel hyn nes marw Trajan, yn y flwyddyn 117, pan yn dwyn yn mlaen ei orchestion milwraidd yn y dwyrain, wedi iddo deyrnasu pedair-arbumtheg o flyneddau.

Ar farwolaeth Trajan, disgynodd y llywodraeth ar ysgwyddau Adrian. Yr oedd hwn yn fwy afrywiog ei dymher na Trajan; ond yn ol tystiolaeth Gibbon yn Ymerawdwr tra mawreddog a galluog, ac yn meddu ar gynheddfau cymhwys i drin achosion gwladol pwysig, ac i ymchwilio i'r pethau manylaf a berthynant i gyfundraeth lywodraethol; ond ymddengys wedi y cyfan fod awydd lywodraethol ei galon at gywreinrwydd a gwagedd, fel yn ei dro y canfyddir ef yn dywysog canmoladwy, yn dwyll-ddadleuwr dirmygus, ac yn ormeswr anghyfiawn ac eiddigus. Fodd bynag, mae yn sicr yn y blynyddau cyntaf o'i deyrnasiad, i nifer fawr o ganlynwyr Crist gael eu dyfarnu i farwolaeth, drwy fod yr offeiriaid yn cynhyrfu y werinos yn eu herbyn, yn enwedig yn amserau y campau cyhoeddus, a'r swyddogion yn cynsynio â'u hamcanion, rhag i derfysgiadau gyfodi yn mhlith y bobl yn gyffredinol.

Yn y chwechfed flwyddyn o'i deyrnasiad ymwelodd Adrian â dinas Athens, ac yn yr amser hyny yr oedd Quadratus yn fugail ar yr eglwys Gristionogol yno. Yr oedd hwn yn ddyn o ddysg a dylanwad, ac ysgrifenodd amddiffyniad i'r Cristionogion, ac a'i cyflwynodd i'r ymerawdwr. ac efe oedd y cyntaf a anturiodd wneuthur felly: ac yn ol tystiolaeth Jerome, cafodd y mesur hwn effaith ffafriol ar ei feddwl. Canlynwyd ei siampl gan Aristides, yr hwn oedd ddyn hyawdl a dysgedig, a'r hwn yn bersonol a gyflwynodd lyfr i'r ymerawdwr yn cynnwys hanes y Cristionogion, ac amddiffyniad eu hegwyddorion. Yr oedd y cyfansoddiad hyn ar gael yn amser Jerome, ond y mae yn awr yn hollol wedi ei golli. Tua yr un amser ysgrifenodd Serenus Granianus, rhaglaw Asia, at yr ymerawdwr yn achos y Cristionogion, gan osod allan mor greulon ac anghyfiawn ydoedd yr arferiad o gospi ac aberthu dynion nad oeddent yn euog o un trosedd. Dyma y cyntaf o'r rhaglawiaid Rhufeinig a anturiodd amheu cywirdeb cyfraith Trajan, yr hon oedd yn dyfarnu y Cristionogion i farwolaeth am eu bod yn Gristionogion, yn anymddibynol ar ddim arall.

Fe ganfyddodd Adrian rhesymoldeb yr amheuaeth, ac fe feddylir fod ei feddwl wedi ei barotoi i hyny drwy ysgrifeniadau Quadratus ac Aristides. Yr oedd Serenus ynghylch roddi ei raglawiaeth i fynu pan ysgrifenodd, ac fe'i canlynwyd yn y llywodraeth gan Minutius Fundanus, ac at hwn y cyfeiriodd yr ymerawdwr ei ewyllys fel y canlyn:

*At Minutius Fundanus.*

"Yr wyf wedi derbyn llythyr oddiwrth yr ardderchocaf Serenus Granianus, yr hwn yr ydych chwi wedi ganlyn. Nid yw yr achos a berthyn i'r Cristionogion yn ymddangos i mi yn un modd yn beth i fyned heibio yn ysgafn: er atal dynion i gael eu haflonyddu yn ddiachos, ac fel na byddo i hystyngwyr gael cefnogaeth i gyflawnu eu harferion atgas, os bydd i drigolion y dalaeth ddwyn cyhuddiadau yn erbyn y Cristionogion yn gyhoeddus, fel y gallont ateb drostynt eu hunain, gadawer iddynt fyned yn mlaen, ond yn y ffordd hyny yn unigol, ac nid drwy dwrdd anfoesaidd a haerllugrwydd yn unig; oblegyd y mae yn llawer mwy gweddus, os bydd i neb eu cyhuddo, i chwi gymeryd yr achos mewn llaw. Os bydd gan hyny i neb gyhuddo y Cristionogion, a dangos eu bod yn troseddu y cyfreithiau yn weithredol, penderfynwch yr achos yn ol natur y trosedd; ond drwy Herculus! os bydd y cyhuddiad yn athrawd, barnwch ei fawredd, a chosbwch ef fel y byddo yn haeddu."

Yr oedd yr ysgrif hon o eiddo yr ymerawdwr Adrian yn tueddu, yn ol ei meddwl amlwg i ddyogelu y Cristionogion oddiwrth lid

eu gelynion, yn gymmaint ag nad oeddent mwyach yn gospadwy am eu proffes yn unig; ond yn fuan iawn dyfeisiodd eu caseion ffordd arall i'w trallodi drwy gyffroi llid y werinos yn eu herbyn fel didduwiaid; ac felly nid oedd eu cyflwr, ond trallodus hyd farwolaeth Adrian, yn y flwyddyn 138, pryd yr esgynodd Titus Antonius Pius i'r orsedd ymerodrol. Yr oedd hwn yn seneddwr profiadol o'r blaen, ac yn ddyn haelfrydig a dyngarol; ac er ei fod yn bagan nid yw yn ymddangos iddo dra-llodi y Cristionogion, na chefnogi eraill i wneuthur hyny. Yn nechreuad ei lywodraeth ysgrifenodd Justin Martyr ei amddiffyniad yn erbyn y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn y Cristionogion am ddidduwiaeth ac anghrefyddoldeb, ac a'i cyflwynodd i'r ymerawdwr, a chan ei fod yn canfod fod creulonderau erchyll yn cael eu cyflawnu yn erbyn y dynion diniweid hyn, yn enwedig yn y talaethau pellenig, ysgrifenodd y cylch-lythyr canlynol at y swyddogion drwy holl dalaethau Asia:

*Yr Ymerawdwr at Senedd Gyffredinol Asia.*

"Yr wyf yn hollol o'r farn y bydd i'r duwiau gymeryd gofal i ddatguddio y fath ddynion (a'r rhai yr oedd achwyniad wedi ei wneuthur o'u herwydd,) oblegyd y mae yn perthynu llawer mwy iddynt hwy nag i chwi i gospi y rhai a wrthodant eu haddoli, os ynt alluog i wneuthur hyny. Ond yr ydych chwi yn trallodi y Cristionogion, ac yn eu cyhuddo o ddidduwiaeth, a beiau eraill nad ydych alluog i'w profi. Mae marw am eu crefydd yn elw mawr iddynt hwy, ac y maent yn enill eu hamcan, oblegyd y maent yn taflu ymaith eu bywydau yn hytrach na chydsynio â'ch gorchymynion chwi. O barth y daeargrynfeydd sydd wedi dygwydd gynt ac yn ddiweddar, onid yw yn addas idd eich adgofio am eich anobaith eich hunain pan ddygwyddo pethau felly, a cheisio genych gydmaru eich tymher a'ch hymddygiad â'u heiddo hwy.—Gwelwch mor dawel y maent hwy yn ymddyried yn eu Duw, pan yr ydych chwi yn ymddangos yn anwybodus o'r duwiau, ac yn esgeuluso eu gwasanaeth. Yr ydych yn byw mewn anwybodaeth o'r gwir Dduw ei hun, ac yn trallodi ac yn erlid y rhai a'i haddolant hyd at farwolaeth. O berthynas i'r un dynion ysgrifenodd rhai o'r rhaglawiaid eraill at fy nhad nefolaidd Adrian, i'r rhai yr atebodd, na fyddai iddynt gael eu haflonyddu, oddieithr iddynt wneuthur rhywbeth yn erbyn y llywodraeth Rufeinig. Mae llawer hefyd wedi ymwneuthur â minnau yn achos y dynion hyn, i'r rhai yr wyf wedi ateb yn unol â rheol fy nhad. Os bydd, gan hyny, i neb barhau i gyhuddo y Cristionogion am eu bod y cyfryw, bydded i'r cyhuddedig gael ei ryddhau, er ei fod yn Gristion, a chosper y cyhuddwr."

A osodwyd i fynu yn Ephesus, yn senedd gyffredinol Asia.

Mae Eusebius yn ein hysbysu i'r ymerawdwr anfon llythyrau i'r un amcan at y Lariseniaid, y Thessaloniaid, yr Atheniaid, a'r holl Roegiaid, ac iddo ofalu hefyd fod ei benderfyniadau yn cael eu dwyn i weithrediad; ac fel hyn y terfynwyd y drydedd erledigaeth, yr hon oedd wedi parhau gyda rhai cyfnewidiadau am yn nghylch pumtheg-mlynedd-ar-ugain. O'r pryd hyn cafodd yr eglwys dawelwch am dair-blynedd-ar-ugain, ac nid gormod peth yw barnu i'r achos lwyddo yn dra helaeth, fel y canfyddir oddiwrth luosogrwydd y merthyron a seliasant eu tystiolaeth yn nhymor yr erledigaeth nesaf.

Ar farwolaeth Antonius Pius, yn y flwyddyn 162, dysgynodd y llywodraeth ar ysgwydd Marcus Antonius Aurelius, yr hwn oedd yn barod wedi bod yn cydlywodraethu ag Antonius Pius, o leiaf mewn enw, oddiar pan yn ddwy-ar-bumtheg oed. Yr oedd yr ymerawdwr hwn yn ddyn gwybodus, ond yr oedd wedi cofleidio philosophyddiaeth y Stoiciaid er yn fachgen, ac yn ymdrechol iawn i daenu egwyddorion y gyfundraeth hyny yn mhlith ei ddeiliaid. Nid rhyfedd gan hyny, os oedd wedi edrych gydag anghymeradwyaeth ar fesurau tyner ei gydymaith tuagat y Cristionogion, a'i fod yn barod i'w diddymu pan ddaeth i feddu ar gyflawn awdurdod. Fodd bynag, mae yn sicr mor fuan ag y gwisgwyd ef ag awdurdod cyflawn, iddo ymwrthod ag egwyddorion haelfrydig ei ragflaenor, ac agor drws erledigaeth o newydd, er gorthrymder anarferol i ganlynwyr Crist drwy yr holl ymerodraeth. Yn Asia ymddengys fod yr eglwysi mewn trallod mawr, ac yn mhlith y rhai a seliasant eu tystiolaeth yr ym yn cael yr enwog Polycarp, bugail eglwys Smyrna, yr hwn oedd tua chan' mlwydd oed. Bernir mai efe oedd angel yr eglwys, at yr hwn y cyfeirir llythyr yn llyfr y Datguddiad, a chafodd ei losgi yn fyw ar orchymyn y rhaglaw yn y flwyddyn 166. Ymdaenodd yr erledigaeth hon drwy yr holl dalaethau, fel yr ym yn cael hanes am ferthyrdod lluoedd, nid yn unig yn Rhufain, ac Alexandria, a dinasoedd Asia, ond hefyd yn Ffraingc, lle yr oedd Cristionogaeth wedi ymdaenu yn helaeth iawn. Torodd yr erledigaeth allan yn Vienne a Lyons, drwy ddinas gyfagos i'w gilydd yn y wlad hono, tua y flwyddyn 177, a bu yr eglwysi yn agos cael eu difodi, fel y gwelir oddiwrth y llythyr a anfonwyd oddiyno at y Cristionogion yn Asia a Phrygia, ar derfyn y gorthrymder, cyfieithad o'r hwn sydd ar gael yn hanes y bedwerydd erledigaeth yn llyfr y merthyron gan Fox, ond ni allwn ei roddi i mewn yma o herwydd ei feithder.

Ar farwolaeth Marcus Aurelius esgynodd Commodus i'r orsedd; ac er ei fod yn eulun-addolwr mwy penboeth na'r rhan fwyaf o'i gyd-amserwyr, nid ym yn cael fod erledigaeth gyffredinol yn ffynu yn ystod ei deyrnasiad ef; ond er hyny yr oedd y Cristionogion yn cael eu trallodi yn fynych, a rhai yn cael eu merthyru am ddwyn tystiolaeth yn erbyn eulunaddoliaeth yr oes. Fe'i canlynwyd gan Pertinax am ychydig fisoedd, ac yna esgynodd Severus i'r orsedd, ac er na chyfododd erledigaeth gyffredinol yn ystod y deng mlynedd cyntaf o'i lywodraeth, eto y mae yn eglur oddiwrth dystiolaeth Tertulian, a Chlement o Alexandria ac eraill, i lawer o waed y Cristionogion gael ei dywallt yn niwedd yr ail ganrhif yn Asia, a'r Aifft, a rhai talaethau eraill.

Ond er cymmaint blinderau yr oes hon cyfododd Duw dystion doniol a dysgedig i amddiffyn ei achos drwy bregethu y gair ac ysgrifenu o'i du yn ngwyneb pob perygl; ac efallai na byddai ychydig o'u hanes yn annerbyniol gan y darllenydd. Yr ydym wedi son yn barod am Polycarp ac Ignatius, a seliasant eu tystiolaeth â'u bywydau. Mae rai o'u hysgrifeniadau eto ar gael, megys llythyr Ignatius, a ysgrifenwyd, fel y bernir, wedi ei ddyfarnu i ddyoddef am ei grefydd, ac hefyd epistol byr o eiddo Polycarp. Mae Eusebius wedi ein hanrhegu â rhan fawr o lythyr eglwys Smyrna at y brodyr yn Pontus, yn cynnwys hanes gyffrous iawn am ferthyrdod Polycarp, ac mae cyfieithad o hono gan Archesgob Wake, i'w ganfod yn hanes merthyron Fox, dan y bedwerydd erledigaeth. Yr ym hefyd wedi nodi Quadratus, bugail eglwys Athen, yr hwn a amddiffynodd y Cristionogion yn nheyrnasiad Adrian, ac a gyflwynodd ei amddiffyniad i'r ymerawdwr, ac Aristides, yr hwn cyn ei ddychweliad oedd yn un o philosophyddion dysgedig y ddinas enwog hono, ac yn ei wisg fel philosophydd y cyflwynodd ei lyfr i'r ymerawdwr, ond nid oes genym hanes eu buchedd derfynol.

Y nesaf a ddylem nodi yw Melito, bugail eglwys Sardis, yr hwn a ysgrifenodd amddiffyniad i'r Cristionogion, ac a'i cyflwynodd i'r ymerawdwr Aurelius, yn fuan wedi merthyrdod Polycarp, efallai tua y flwyddyn 170.—Mae rhan o'i amddiffyniad wedi ei gadw gan Eusebius, yn yr hwn y mae yn achwyn ar y creulonder anarferol o fod dynion diniweid yn cael eu herlid drwy holl Asia; ac fod cyhuddwyr haerllug yn cymeryd achlysur drwy y gyfraith ymerodrol i ysbeilio y cyfiawn o'u meddiannau. Mae, gan hyny, yn ymbil ar yr ymerawdwr i beidio goddef i'r Cristionogion gael eu trin felly; i ymostwng i chwilio y cyhuddiadau a ddygid yn eu herbyn, ac i osod terfyn ar yr erledigaeth drwy ddileu y gyfraith oedd yn eu gormesu; gan ei hysbysu, ar yr un pryd, fod Cristionogaeth mor belled o fod yn wrthwynebol i'w lywodraeth, fel yr oedd yn tueddu yn fawr i gadarnhau yr ymerodraeth.

Justin Martyr, hefyd, a fu yn amddiffynydd gwrol i'r Cristionogion. Brodor oedd hwn o ddinas Sychar, yn agos i Samaria, ond Groegwr oedd ei dad o'r enw Priscus, a dygodd ei fab i fynu yn ei grefydd eulunaddolgar, ac a roddodd iddo yr holl fanteision angenrheidiol er ei wneuthur yn Philosophydd enwog. I'r dyben o berffeithio ei wybodaeth, aeth Justin i waered i'r Aifft, lle yr oedd athrofeydd enwog y pryd hyny am ddysgeidiaeth ddirgelaidd yr oes. Gan ei fod yn anghymeradwyo cyfundraethau y Stoiciaid a'r Peripateaid, ymroddodd yn awyddus i astudio yr athrawiaeth Blatonaidd. Pan oedd yn myfyrio ar y gyfundraeth hon, dygwyddodd iddo gyfarfod wrth rodio ar lan y môr â dyn oedranus a difrifol, yr hwn wedi ymddiddan ag ef am amryw bethau, a arweiniodd ei feddwl at Gristionogaeth, ac a gynhyrfodd ynddo awydd i chwilio ei hawl, a'r canlyniad fu, drwy fendith Duw, iddo dderbyn yr efengyl yn ddifrifol. O'r pryd hwn defnyddiodd ei holl ddysg o blaid achos Crist, gan bregethu yr efengyl, amddiffyn yr achos, a gwrthwynebu cyfeiliornwyr hyd ei farwolaeth. Cyflwynodd ei amddiffyniad cyntaf i'r ymerawdwr Antoninus Pius, a'r ail i'r ymerawdwr Aurelius a Senedd Rhufain, a dadleuodd yn fuddugol â Trypho yn Ephesus, ac â Crescenns yn Rhufain, lle y dyoddefodd ferthyrdod, yn nghyd a chwech eraill, am ballu aberthu i'w duwiau eulunaidd.

Un arall o amddiffynwyr hynod Cristionogaeth yn y ganrhif hwn oedd Athenageras. Pagan oedd yntau yn nechreuad ei fywyd, ac ymddengys iddo astudio philosophyddiaeth yn ysgolion Athen, oblegyd mewn dau o'i weithiau awdurol y mae yn cael ei enwi yn philosophydd Athenaidd. Yn ol tystiolaeth Philip Sidites, yr hwn a ysgrifenodd yn nechreuad y pumed canrif, ymroddodd i ysgrifenu yn erbyn y Cristionogion; ond wrth chwilio yr ysgrythyrau, er mwyn gwneuthur ei waith yn effeithiol, gorchfygwyd ei ragfarn gan y prawfiadau a ganfyddai o'u dwyfol awdurdod; ac felly fe'i gorfuwyd gan argyhoeddiad i gofleidio Cristionogaeth. Ysgrifenodd yntau amddiffyniad i'r Cristionogion, a thraethawd ar adgyfodiad y meirw; ac y mae yn amlwg oddiwrth ei waith ei fod yn ddyn dysgedig, yn rhesymwr medrus, ac yn Gristion difrifol; a phe byddai ein cylch yn caniatau, hyfrydwch genym fyddai cyflwyno rhan o'i amddiffyniad i'r darllenydd.

Hegesippus hefyd sydd yn un o wroniaid Cristionogol yr oes hon. Dywedir mai Iuddew genedigol ydoedd, ond iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd Gristionogol. Fe'i ganwyd tua dechreu yr ail ganrhif, ac efe a fu farw yn nheyrnasiad Commodus. Cyfansoddodd hanes amgylchiadau eglwys Dduw o adgyfodiad Crist hyd ei amser ei hun. Mae Jerome yn dywedyd am dano iddo gasglu llawer o ffeithiau er budd i'r darllenydd, a'u cyhoeddi mewn pum llyfr, mewn iaith hawdd ac amlwg, yn gyffelyb i eiddo yr efengylwyr; ond nid oes ond rhanau o honynt yn awr ar gael; ac yr ym yn ddyledus am hyny, fel am lawer o bethau eraill, mewn rhan i Eusebius, ac mewn rhan i Photius. Yn ei waith yr ym yn cael hanes am ferthyrdod yr apostol Iago yn Jerusalem, ac am yr ymchwil manol a wnaethwyd gan Domitian am neb o hâd Dafydd, y rhai, fel y dychymmygai, a beryglent ei orsedd, ac er mwyn dinystrio y rhai y cyfodwyd yr ail erledigaeth.

Y nesaf o awduron yr ail ganrhif a alwa am ein sylw yw Theophilus o Antiochia, yr hwn a ysgrifenodd yn nheyrnasiad Marcus Antoninus Aurelius, ynghylch y flwyddyn 180. Pagan gwreiddiol oedd hwn, fel y mae ei hun yn ein hysbysu, ac y mae ei waith yn profi ei fod yn hyddysg iawn yn holl lenoriaeth y Groegiaid, ac yn amddiffynwr selog o'r ffydd yn erbyn cyfeiliornadau Hermogenes a Marcion, yn gystal ag yn erbyn cam-gyhuddiadau y paganiaid. Mae ei ysgrifeniadau wedi myned ar goll, oddieithr y tri llyfr a gyfeiriodd at Antolychus, ar y grefydd Gristionogol. Efe oedd chweched bugail eglwys Antiochia, yn ol Jerome; ac oddiwrth yr hyn sydd yn aros o'i waith, ymddengys ei fod yn

ysgrifenydd trefnus, rhesymgar, a champus, ac yn gyfarwydd iawn yn yr ysgrythyrau. Efe yw y cyntaf o'r tadau sydd yn arfer y gair Drindod, i osod allan y gwahaniaeth dadguddiedig yn y Duwdod.

Mae Irenæus hefyd i'w rifo yn mhlith awduron cyfrifol yr ail ganrhif. Groegwr genedigol oedd, wedi ei eni yn agos i Smyrna, tua y flwyddyn 140, a bu farw yn y flwyddyn 202. Mae Tertulian yn ei gyfrif yn un o brif ysgrifenwyr yr eglwys Gristionogol, ac yn chwiliwr manol i bob barn, gan feddwl ei fod wedi ystyried cyfundraethau y Philosophyddion, barn yr hereticiaid, ac egwyddorion Cristionogaeth. Dywedir ei fod wedi ei ddwyn i fynu mewn dysgeidiaeth ddynol, ac wedi hyny ei fod wedi ei addysgu gan Polycarp, esgob Smyrna, ac iddo fyned gydag ef i Rufain pan oedd dadl boeth yn yr eglwysi yn nghylch yr amser i gadw y Pasg. Pan yn Rhufain, fe'i darbwyllwyd ef drwy ddymuniad unol Polycarp, ac Anicetus, bugail yr eglwys yn Rhufain, i fyned i Ffraingc, lle yr oedd nifer fawr o Gristionogion Groegaidd yn preswylio, yn enwedig yn Marseiles a'r ardaloedd amgylchynol. Bu yno am rai blynyddau yn cynorthwyo Pothnius gyda llawer o gymeradwyaeth, ac yn y flwyddyn 177 penderfynwyd arno i dynu fynu farn eglwysi Lyons a Vienne, mewn trefn i wastadu yr ymrafael oedd wedi cyfodi yn eglwysi Asia o barth achos Montanus; ac yn un llythyr mae yn nodi yr erledigaeth ddychrynllyd oedd yn ffynu yn Ffraingc yr amser hyny. Wedi merthyru Pothnius, dewiswyd Irenæus yn fugail ar yr eglwys yn Lyons, mewn tymhor tymhestlog, drwy fod y gelynion yn ymosod arnynt oddiallan, a chyfeiliornadau yn ymgodi oddimewn. Yr amgylchiad diweddaf a'i tueddodd, ar gais llaweroedd, i gymeryd y gwaith pwysig mewn llaw o ysgrifenu ei lyfr yn erbyn cyfeiliornadau. Mae y traethawd hwn, yn benaf yn ergydio at athrawiaeth y Gnostiaid, fel yr oedd yn cael ei dysgu gan Valentinus a'i ganlynwyr. Mae yn amlwg ei fod yn ddyn medrus yn yr ysgrythyrau, ac yn adnabyddus o gyfundraethau y cenedloedd, ac yn ddyn tra gostyngedig hefyd. fel yr ymddengys oddiwrth ei lythyr at Victor, esgob Rhufain ynghylch amser y Pasg. Ac er nad yw ei waith awdurol yn rhydd, yn marn y dysgedigion, oddiwrth anmherffeithrwydd, eto y mae pawb yn ei gyfrif yn ddyn canmoladwy.

Y diweddaf a nodwn o awduron yr ail ganrhif yw Clement o Alexandria, yr hwn oedd yn byw tua diwedd yr ail ganrhif a dechreuad y drydedd, er nad oes genym hanes benderfynol am amser ei enedigaeth na'i farwolaeth. Yn y flwyddyn 192, pan anfonwyd cais at Demetrius, esgob eglwys Alexandria, am genhadau i bregethu yr efengyl i'r Indiaid, Pantænus, athraw yr ysgol egwyddorol, a ddewiswyd i'r gwaith hyny, ac ar ei ymadawiad ef cymerodd Clement ofal yr ysgol, a dywedir i lawer o ddynion cyfrifol gael eu haddysgu ganddo, ac yn eu plith yr enwog Origen, ac Alecsander a fu wedi hyny yn bugeilio yr eglwys oedd yn Jerusalem. Y rhai penaf o'i gyfansoddiadau awdurol sydd yn aros yw y *Protrepticon ad Gentes*, neu Gynghor i Baganiaid; *Pedagogus*, neu yr Ysgol-feistr; yn cynnwys rheol ymddygiad i Gristion dychweledig; a'r *Stromata*, yr hwn enw sydd yn arwyddo amrywiaeth, yn yr hwn y mae wedi casglu ynghyd syniadau dewisedig y philosophyddion goreu, er dangos y cydundeb oedd rhyngddynt â'r rhai o'r athrawiaethau Cristionogol. Ymddengys, oddiwrth ei waith, ei fod yn ddyn hynod o ddysgedig, ac wedi darllen rhan fawr o'r gweithiau awdurol oeddent y pryd hyny mewn bodoliaeth.

Dyma y gwroniaid fuant yn amddiffynwyr cyhoeddus i achos gwir grefydd yn yr ail ganrhif, pan yr oeddent eu gelynion yn barod i'w marwolaethu am eu gwaith; a gorfu i amryw o honynt selio eu tystiolaeth â'u gwaed. Wrth edrych yn ol, yr ym yn canfod tynerwch Duw at ei eglwys, yn ei waith yn codi dynion mor gymwys yn y fath dymor, ac yr ym yn rhwym o gydnabod mai ei law ef a wnaeth hyn. Yr oedd y rhai a nodwyd oll yn ddynion dysgedig a galluog, ac fel y cyfryw wedi pwyso yr achos a bwrw y draul, ac wedi canfod golud Crist yn fwy cyfoeth nag anrhydedd y byd; ac, o herwydd hyny, wedi dewis goddef pob adfyd gyda phobl Dduw, yn hytrach na chael mwyniant pechod dros amser, canys edrych yr oeddent ar daledigaeth y gwobrwy.

Ond er cymmaint sel Cristionogion yr ail ganrhif, a'u hymdrech, a'u dyoddefgarwch, nid ym heb ganfod yn yr oes hono ymadawiad oddiwrth y cynllun cyntefig mewn rhai pethau pwysig, a dechreuad amryw o'r mesurau niweidiol a fuant wedi hyny yn ffynonau dirywiad cyffredinol i'r achos. Er mawr ofid i'r eglwysi yr oedd athrawiaeth y Gnostiaid yn cael ei chymysgu gan lawer â'r efengyl, ac fel y daeth Philosophyddion i broffesu crefydd Crist, dygasant gyda hwy rai o'u syniadau cyntefig, a chymysgasant y pethau hyny â'r gyfundraeth efengylaidd, neu o amcanasant esbonio yr efengyl yn unol â'r dull arferol yn yr athrofeydd philosophyddaidd. Fel hyn yr ydym yn cael fod rhai yn cymeryd y farn Blatonaidd am gyflwr eneidiau wedi eu hymadawiad â'r corff, a chredent mai eneidiau merthyron a seintiau nodedig yn unig a esgynant yn uniongyrchol i'r goganiant, ac y byddai y rhai eraill yn cael eu cadw mewn lle canol hyd ail-ddyfodiad Crist, neu o leiaf nes y byddent wedi eu puro oddiwrth bob gweddill o lygredigaeth; a bu yr athrawiaeth hon mewn amser yn wreiddyn i lawer o gyfeiliornadau, ac arferiadau coelgrefyddol.

Cyfeiliornad arall yn yr oes hon, ac yn hir wedi hyny, oedd priodoli meddwl dyblig i'r ysgrythyrau; sef meddwl llythyrenol ac amlwg, a meddwl ysbrydol a dirgelaidd, yr hwn a orweddai yn guddiedig dan len y lythyren allanol. Y blaenaf a ystyrient yn lled ddibwys, a'u holl orchestwaith fyddai am gael gafael yn yr olaf; ac fel hyn yr oeddent yn aml yn gosod eu dychymmygion cywraint eu hunain i fynu yn lle meddwl dadguddiedig Duw. Yr oedd rhai o'r esbonwyr hefyd yn dangos gormod o ymgais i ddwyn ymadroddion yr ysgrythyr i gynnal y syniadau philosophyddaidd a berthynent i'r cyfundraethau

oeddent yn goleddu, ac y mae y bai hwn yn cael ei osod i ran Clement o Alexandria, gan y dysgedigion, er cymmaint ei gyfrifoldeb am ddysg a duwioldeb, ac fe'i canlynwyd ef gan lawer o'i olafiaid, ac nid yw y bai wedi ei ddiddymu yn hollol yn ein dyddiau ni.

Am ymddygiad moesol y Cristionogion yn yr oes hon, y mae yn ymddangos yn ffafriol oddiwrth lythyr Justyn Martyr at Zeno, a thraethodau Clement ar athrod, amynedd, a diweirdeb, yn gystal ag oddiwrth dystiolaeth y gwrthgilwyr gerbron Pliny, a nodwyd yn barod; ond am eu mesurau eglwysig, ni allwn ddywedyd mor dyner ag y dymunem. Yr oedd y dyb yn ffynu fod dwy reol wedi eu rhoddi gan Grist i'w ganlynwyr; un i'r Cristionogion yn gyffredinol, a'r llall i'r rhai a ymgeisient am radd mwy uchel mewn santeiddrwydd. Y blaenaf a alwent yn rheolau, a'r olaf yn gynghorion. Dysgent fod y blaenaf yn rhwymedig ar bawb, ond fod yr olaf yn perthynu i'r rhai a ymgeisient am gymdeithas mwy agos â Duw. Rhoddodd hyn fodoliaeth i blaid newydd o ddynion yn yr eglwys a farnent yn anghyfreithlon iddynt eu hunain y pethau oeddent gyfreithlon i eraill, megys yfed gwin, bwyta cig, priodi, ac ymyrid ag achosion tymhorol y byd. Ac mewn amser cynyddodd hyuy, nes dwyn allan yr arferiadau hermitaidd a fuant yn ffynu yn yr oesau gynt, a gweddill pa rai ynt ar gael yn rhai o grefyddau eglwys Rhufain hyd yn awr.

Yn y rhan flaenaf o'r canrhif hwn yr oeddent yr eglwysi yn hollol anymddibynol ar eu gilydd o ran awdurdod, a phob eglwys yn dwyn ei hachosion yn mlaen ar ei phen ei hun; ond cyn diwedd yr oes hon cymerodd cyfnewidiad mawr le, drwy ymuniad yr eglwysi fyddent mewn un dosbarth fel un corff eglwysig; a chyfarfyddent eu dirprwywyr ar amserau yn yr un lle, i drin yr achosion perthynol i'r corff. Cafodd y cynllun hwn ei ddechreuad yn mhlith y Groegiaid, y rhai oeddent wedi arfer erioed ag undeb talaethol mewn achosion gwladol, ac yn awr a amcanent gymhwyso yr un drefn at achosion crefyddol. Ond nid hir y cyfyngwyd y cymanfaoedd hyn i'r eglwysi Groegaidd, eithr cydnabyddwyd eu buddioldeb yn gyffredinol, a ffurfiwyd y fath undeb yn mhob gwlad mewn amser, lle yr oedd eglwysi Cristionogol yn bodoli. Ond er mor fuddiol y bernid y fath undeb ar y cyntaf, effeithiodd yn raddol gyfnewidiad mawr yn nghyflwr yr eglwysi, fel y lleihawyd breintiau cyntefig yr aelodau cyffredin, ac y cynyddwyd awdurdod yr esgobion yn ddiarwybod, nes y cyrhaeddasant gyflwr yn y diwedd nad oedd wedi ei honi gan neb o weision cyntaf Crist.

Nid oedd cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle yn y dull o addoli, nac ychwaith yn ngweinyddiad yr ordinhadau, nes tua y rhan olaf o'r canrhif hwn, pryd y dygwyd i mewn rai arferiadau o natur amheus. Tua diwedd y canrhif, yr oedd swper yr Arglwydd yn cael ei gweinyddu yn gyffredin ar y dydd cyntaf o'r wythnos, yn agos yn y modd canlynol:—byddai ran o'r bara a'r gwin a gyflwynid gan y ffyddloniaid ar yr achlysur, yn cael ei neillduo gan yr esgob drwy weddi at wasanaeth yr ordinhad. Cymysgid y gwin â dwfr, a thorid y bara yn amrywiol ranau, ac anfonid rhan o'r elfenau cyssegredig i'r cleifion a'r absennolion, fel nod o serch oddiwrth yr holl frawdoliaeth; ac y mae yn ymddangos oddiwrth dystiolaethau lled gredadwy fod cyfranogiad yn yr ordinhad hon yn cael ei ystyried yn hanfodol er iachawdwriaeth y pryd hyny: a byddai cariad-wledd yn canlyn, pryd y cyfranogent y tlodion yn gymmedrol o ddarpariadau y brodyr fyddent mewn cyflwr mwy cysurus.

Wrth adolygu hanes yr eglwys Gristionogol yn yr ail ganrhif, yr ym yn cael achos mawr i ryfeddu o herwydd llwyddiant yr achos, sêl y Cristionogion, a nerth gras Duw yn cynorthwyo ei weision yn eu holl ddyoddefiadau; ond ar yr un pryd i alaru o herwydd tuedd dynoliaeth yn mhob oes i lygru y gyfundraeth berffaith a ddarparodd Duw i feddyginiaethu anhwylderau moesol y byd. Yma canfyddwn ei fod yn beth dichonadwy i Gristionogion, pan yn llwyddiannus oddi allan, ddirywio oddi mewn, drwy fabwysiadu mesurau o'u dyfais eu hunain—i hwylusu eu hamcanion, yn lle glynu wrth y gwirionedd yn ei symlrwydd gwreiddiol. Buddiol fyddai i Gristionogion ein hoes ni i ystyried hyn, a chymeryd gofal mawr rhag cyfaddasu eu mesurau crefyddol i ateb archwaeth y byd annychweledig; oblegyd er y dichon y gall hyny am ryw dymor gymeradwyo yr achos i sylw rhai cyfrifol, bydd y canlyniad yn llawer gwaeth na gwg neb gwrthwynebwyr. Dylanwad Ysbryd Duw, ac nid cymeradwyaeth tywysogion y ddaear, a ddwg oddiamgych y cyfnewidiad mawr, ac a wna deyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef.

## ANERCHIAD I'R PARCH. THOMAS ROBERTS,

*Ar ei gychwyniad tuag America, yn Mai, 1851.*

Fy anwyl frawd, pan draw yn mhell
  Dros donau maith a geirwon,
Dy heddwch a'th gysuron fo
  Yn llifo fel yr a..n.

Y Gwr sy'n Llywydd ar y byd,
  A Duw dy dadau hefyd,
A fyddo dy Arweinydd doeth,
  A'th hoff Gydymaith hyfryd.

Yr un yw Ef, yr un a fydd
  Yn eithaf y Gorllewin,
Ag ydyw yn y dwyrain-fyd,
  A chodiad haul diderfyn.

Boed Hwn yn Wr cyfrinach it'
  Pan draw yn mhlith dyeithriaid,
Ac yna ni fydd newid gwlad
  Yn pwyso ar dy enaid.

Di fyddi gartref yn mhob man
  Ond it' gael teimlo'n hollol
I fod dy Gyfaill a dy Dad
  Yn Dduw sy'n Hollbresennol.

Gobeithiaf fod yr arfaeth fawr
  A llaw yn dy sympdiad,
A bod it' waith mewn rhan sy bell
  O winllan fawr dy Geidwad.

Yn iach, fy anwyl frawd, yn iach,
Cawn gwrdd yn ngwlad Goleuni,
Lle na chawn mwyach ddweyd ffarwel,
Yn nghwmni'r cyfiawn Iesu.

Dy gyfaill yn nheyrnas ac amynedd Iesu Grist,
*Pontypridd.* JAMES RICHARDS.

## FFOLINEB IFAN GYFFYLOG.

YR wyf wedi bod yn ymholi er yn fachgen â phob math ar ddyn sydd yn deall Cymraeg —boneddig a gwreng—o ba le y tarddodd yr ymadrodd sydd mor gyffredin yn Ngwent a Morganwg, pan y darlunir ynfydrwydd rhyw ddyn, "Yr wyt ti yn ffolach nag Ifan Gyffylog." Y gofyniad parhaus—Pwy oedd Ifan Gyffylog, ac yn mheth yr oedd hynodrwydd neu enwogrwydd ei ffolineb. Dyma oleu ar y cwbl, yn llyfr Mr. Cobb o Gaerdydd:— "Ieuan Gyffylog,—Cyffoled ag Ieuan Gyffylog," meddant, "yn Morganwg." Nodyn Iolo Morganwg yw hwn.

Gan nad beth oedd gwir enw y dyn—ai Owain neu Ieuan—wrth yr enw olaf yr adwaenid ef a'i waith yn Mynwy a Morganwg: ac am ei fod yn lawer callach na'i gydoeswyr, ac efallai yn difyru ei hun yn fynych ar draul eu hanwybodaeth a'u hygrededd, yr oedd yn enwog yn eu bryd am ffolineb—fel dyn "*hanner maes o'i gof,*" ac fel rhyw "*innishent.*" A phan ddywedai ryw un air dicyn synwyrolach na'r cyffredin, a rhyw amcan bach, gan nad pa mor waned at gylch o sylw a gwybodaeth tuhwnt idd eu cyrhaedd hwy, "O," ebai y 'ffeiriedyn tordyn bloneg-og, neu y cyfreithiwr safnrwth a chodenawg, a phob lladradgi ystrywgar o bob galwad, "*Y mae hwna yn ffolach nag Ifan Gyffylog.*" Y drwg mwyaf a allaf fi ei ddymunaw i wŷr Morganwg a Gwent hefyd yw, bod mor ffoled ag Ifan Gyffylog a'i gyffelyb; a da fydd iddynt a'u plant ar eu hol.

*Abergwyddon.* D. R. STEPHEN.

## Y MORMONIAID YN BEAVER ISLAND.

Ar y 10fed o Ebrill, dygwyd gwys oddiwrth y Sirydd yn erbyn y brenin Strang ac o gylch deg-ar-hugain o'i ganlynwyr, am amryw droseddau, megys tŷ-doriadau, llosgiadau, lladradau, &c. Daliwyd pumtheg o honynt, ond y lleill a ddiangasant. Tystiai un G. J. Adam, yr hwn oedd yn un o Seintiau y Dyddiau Diweddaf, ei fod ef yn byw yn Beaver Island, Lake Michigan, o fis Ebrill, 1850, hyd fis Hydref, yn yr un flwyddyn, (oddieithr pedair wythnos y bu ymaith ar neges,) ac yn ystod y tymhor hwnw clywodd Jas. J. Strang amryw weithiau yn dysgu nad oedd yn unrhyw bechod iddynt hwy ysbeilio Iuddewon na chenedloedd, llosgi eu tai, nac hyd y nod gymeryd ymaith eu bywydau, os na buasai i hyny ddyfod i'r amlwg. Tystiai yn mhellach iddo ef weled James J. Strang, yn eistedd ar orsedd, mewn gwisg freninol, a choron ar ei ben, (yn debyg i goronau breninoedd Lloegr) yn hysbysu i'w gynnulleidfa (y rhai oeddent dros ddau 'cant mewn rhifedi,) ei fod ef y dydd hwnw wedi coroni ei hun yn frenin ar orchymyn Duw, a bod pob teyrnas neu allu arall i gael eu dileu. Rhoddodd y dywededig Strang orchymyn i chwifio baner a ddarparesid ganddo ef yn flaenorol, yr hyn a wnawd. Ar y faner yr oedd llun dyn a phalmwydd yn ei law, yn cael ei amgylchynu gan ddeuddeg seren. Galwodd Strang ar nifer o'r bobl yn mlaen, a gwnaeth iddynt benlinio wrth ei draed, ac yn enw ei Dduw, a'r palmwydd yn ei law, cyhoeddodd hwy yn dywysogion ac yn bendefigion ei ymerodraeth. Yna dywedodd bod Beaver Island a'r Ynysoedd cymmydogaethol i gael eu llywodraethu yn unig gan ei gyfreithiau ef o hyny allan, a'u bod i ddal eu tir yn annibynol oddiwrth lywodraeth yr Unol Dalaethau. Tystiai hefyd i'r dywededig James J. Strang dynu allan, ac ysgrifenu cyfammod, yr hwn a alwai Cyfammod y Deyrnas, yr hwn a weinyddai i'w ganlynwyr yn mhresennoldeb y lleill. Bu y dywededig Adams am beth amser yn gwrthod derbyn y cyfammod, am y barnai ei fod yn drosedd yn erbyn yr Unol Dalaethau; ond gan y barnai fod ei fywyd mewn perygl am wrthod cydsynio â chais y dywededig Strang, derbyniodd ef wedi hyny gydag amryw eraill. Yr oedd yn cael ei dderbyn a'r llaw ddeau ar groes—y groes yn gorwedd ar y Beibl Santaidd. A ganlyn sydd ran o'r cyfammod, fel y mae yn cael ei weinyddu gan y dywededig Strang:

"Yr wyf fi, yn mhresennoldeb Duw a'r tywysogion urddasol hyn, yn difrifol addunedu, cyduno ac ymrwymo, trwy nerth y gwir a'r hunan-ymddibynol Dduw, fy mod yn ymwrthod â phob math o ymrwymiad i bob brenin, tywysog, llywydd, neu lywodraethwr ar y ddaear, ac i ufuddhau i Jas. J. Strang fel penaeth nefol a brenin urddasol a llawn-awdurdodedig y greadigaeth; a'r cyfreithiau a'r deddfau a wneir ganddo ef ydynt i oruwchlywyddu holl deyrnasoedd y byd. Ac yr wyf yn mhellach yn ymrwymo y bydd i mi ufuddhau a gosod y cyfreithiau hyn mewn gweithrediad tra parhao fy mywyd. * * * Ond os bydd i mi fod mor ddrwg, annuwiol, ac ansantaidd, a thori fy nghyfammod hwn, bydded i Dduw, y Tad tragywyddol, dynu ei

drugareddau oddiwrthyf dros byth; bydded i Iesu Grist, y Gwaredwr, droi oddiwrthyf, a chau drws y nefoedd dros byth yn fy erbyn; a bydded i mi gael fy ymddifadu o bob cysur, a phrofi trueni a dinystr yn dragywydd."

Tystiai y dywededig Adams yn mhellach, nad yw yr uchod ond llai na'r hanner o'r cyfammod, a'i fod yn cynnwys pethau eraill.

Ar y 10fed o Ebrill daeth swyddogion awdurdodedig i'r ynys, a llwyddusant i ddal Strang (hunan-wneuthuredig frenin y byd) ac eraill o'i ganlynwyr; dan y cyhuddiad o atal llythyr-god yr Unol Dalaethau, ymosod ar y cludydd; bathu arian ffugiol, ysbeilio, &c. Cymerwyd hwynt i Detroit, (Mich.) mewn agerfad; a bydd yr achos i gael ei brofi yn ei bryd gan y llys gwladol. Gollyngwyd y prif-broffwyd wedi iddo roddi y meichnafon gofynol. Y mae Strang yn ddyn o ymddangosiad cadarn a threiddgar; genedigol yw o swydd Chautauque, Caerefrog Newydd; efe yw prif gynhyrfydd a phen y symudiad. Dywed y swyddogion fod golwg dlawd a gwael ar yr ynys, heb unrhyw arwydd o lafur, diwydrwydd, na gwrtaith.

Y mae Strang yngbyd a'r lleill o'i ganlynwyr a gymerwyd i fynu, yn tystio eu bod yn hollol ddieuog o'r cyhuddiadau a nodwyd.

---

## DIC SHON DAFYDD YR AIL.

### Y PWNGC I'R LYTHYREN.

Mr. Gol.—Dymunwn eich haelfrydedd i gyhoeddi yr hyn a ganlyn yn y Seren Orllewinol. Er ys llawn bedwar mis yn ol aeth y Bedyddwyr Neillduol yn y lle hwn i weinyddu yr ordinhad o fedydd i un edifeiriol am ei beiau yn yr afon Ohio; ac wedi i'r bedyddiwr gladdu y bedyddiedig, rywfodd drwy lyfndra y llaid, (canys y mae yn debyg iawn i sebon du), llithrodd troed y bedyddiedig ar waith y bedyddiwr yn ei chodi, fel mai anhawdd oedd iddo ei dal i fynu o'r dwfr ond gwnaeth hyny; ac aeth un neu ddau o'r brodyr i'w chynorthwyo o'r llaid, yn mha un yr oedd ei throed yn suddo.

Gwn yn eithaf, Mr. Golygydd, eich bod chwi, ynghyd a llawer eraill ag sydd yn ystyried bedydd y Testament Newydd yn rhywbeth heblaw "seremoni," yn teimlo pan oeddech yn darllen yr ohebiaeth i'r "Cyfaill o'r Hen Wlad," am fis Mai, 1851, tudal. 150, dan y testyn, "Yn agos i lythyren y pwngc," wedi ei ysgrifenu gan "Dic Shon Dafydd," Coalport. Dymunwn hysbysu i bawb o'r Bedyddwyr trwoch na chlywais ddim am y dygwyddiad wedi y Sul y dygwyddodd, a'r dydd Llun canlynol (ac ni chawswn glywed y ddau ddiwrnod hyny ychwaith oni buasai fod rhai crefyddwyr yn elynion i "gynghor Duw,") hyd nes y gwelais yr ysgrif dan sylw yn y "Cyfaill."

Yn awr, gwnaf sylwad mor fyred ag y medrwyf ar ysgrif Dic Shon Dafydd No. 2.

Dywed fod y ddau wedi myned i'r dwfr i gyflawni y "seremoni drochyddol," &c., ond na ddaeth ond yr ysglyfaeth i'r lan trwy gymhorth rai o'r gwyddfodolion. Wrth hyn dealla rai nad oeddent yn llygaid-dystion o'r weithred mai ei llusgo gafodd y bedyddiedig i dir, ac fod y bedyddiwr, erbyn hyn, o ran ei gorff, yn Llyngclyn Mexico. Gallaf sicrhau i chwi, Mr. Gol., nad yw'r un o honynt wedi boddi, o herwydd gwelais y ddau yn ddiweddar.

Gwelwch, wrth hanes y dygwyddiad, fod Dic Rhif. 2, (yr hwn nad oedd yn llygad-dyst o'r amgylchiad,) wedi gwneud pump o sylwadau, ac ysgrifenu 90 o linellau, ar gefn celwydd. O barth ei sylwad cyntaf a'r ail, nid ydynt yn werth sylw, am eu bod yn gelwydd disail. Yn ei drydedd sylwad, difyna y gwirionedd santaidd at ei ddyben dichellddrwg ei hun; "Yn ffyrdd cyfiawnder y mae bywyd, ac yn ei llwybrau hi nid oes marwolaeth."—Ymddengys fod Dic yr Ail drwy ei ddyfyniad uchod am i'r darllenydd gredu yn ddiysgog fod enaid y bedyddiwr wedi ei drosglwyddo i'r llyngclyn ysbrydol, tra mae ei gorff yn Llyngclyn Mexico. Eto, "Yr hwn a gadwo y gorchymyn a geidw ei einioes." Yn atebiad i hyn gofynaf i Dic, A wyt ti yn cadw y gorchymyn? llawer hawddach yw gweled y blewyn sydd yn llygad y brawd na'r trawst sydd yn ein llygaid ein hunain. Yn ei bedwerydd sylwad, mae cyfeiriad at ddyledswydd crefyddwyr. Dymunwn ei sylw ef at hyny hefyd. Gwyr Dic fod un o'i frodyr wedi bod yn ddiweddar, os nad yw yn bresennol, a'i enw yn y llys gwladol yma am "*slander;*" pa ddistawa fyddo Richard hefyd, hwyaf i gyd y bydd yntau heb fod yn yr un lle am "*libel.*"

Yn nesaf, dywed Dic fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, hyd y nod wrth gondemnio llygredigaeth, yn weddaidd a gwylaidd. Atolwg, Dic, pa bryd y dylasent fod? A welaist ti ryw un yn dy oes yn ymddwyn mor addas a'r rhai hyny? neu yn arfer mor lleied o dwyll a'r ysgrifenwyr ysbrydoledig? Byddai yn ddigon da pe byddai Dic dipyn yn fwy tebyg iddynt! Mae'r apostol Paul hefyd dan gerydd gan Mr. Dic, am ei fod yn cadw cwrdd drwy'r nos, fel y syrthiodd y bachgen (a hyny heb fod yn agos i'r afon) drwy'r ffenestr pan yn cysgu yn y cwrdd.

Mae yn dda genyf hysbysu i'r Bedyddwyr trwy y wlad, fod y boblogaeth yn gyffredinol trwy y lle yn gweled gwaelder egwyddor Dic. Mae achos y Bedyddwyr yn y lle yn cynyddu yn ngwyneb yr amcan maleisddrwg; ac argoelion y bydd i daenellwyr droi yn drochwyr. Llwydd i hyny gymeryd lle, medd LLYGAD-DYST.

*Coalport.*

O. Y. Dymunwn hynawsedd ein gohebydd Llygad-dyst am gwtogi, neu adael allan ran o'r ysgrif uchod. Yr unig reswm a gynnygiwn am hyn yw nad ydym am orlwytho ein Cyhoeddiad â gwawdiaith bersonol hyd y nod ar y rhai a athrodant ac a ddygant gamdystiolaethau yn erbyn yr enwad i ba un y perthynwn. Cawsom ohebiaeth arall hefyd, yn cynnwys *statement* o'r amgylchiad, pa un a gyduna yn hollol â thystiolaeth Llygad-dyst, ac a rydd rai ergydion didrugaredd ar ben Mr. Dic. Ond o'n rhan ein hunain, nid ydym yn ystyried fod y fath ymosodiadau corgiaidd ac anfoneddigaidd yn teilyngu nemawr iawn o sylw, heblaw cydymdeimlad, o herwydd y maent bob amser (os bydd iddynt effeithio rhywbeth) yn dylanwadu yn llesiol i wrthddrychau eu cynddaredd. Mae yr ysgrifenydd yn dwyn cyhuddiad noeth yn erbyn un o fechgyn y "corff," wrth ei enw, o fod a llaw yn awduriaeth ysgrif Dic Shon Dafydd; ond nid ydym yn ystyried y byddai yn foneddigaidd ei ddynoethi yn bresennol. Barnwn, pa fodd bynag, y dylai y gwahanol enwadau, yn enwedig y rhai sydd yn sefyll yn genhadau dros Grist, fod a gormod o barch i'w gilydd i ddywedyd anwireddau o'r fath, a gwawdio y rhai a weinyddant ordinhadau pwysig y Testament Newydd.—GOL.

---

## Y BEDYDDWYR YN WINEBAGO, WIS.

MR. GOL.—Fel y mae Ragluniaeth Duw wedi tywys miloedd o'n cenedl dros y weilgi fawr, a'u dwyn yn ddyogel i dir Columbia, y mae talaeth Wisconsin wedi dygwydd bod yn artrefle i nifer dra lluosog o honynt. A chan mai trigolion gwlad efengyl yw hil Gomer, nid ydynt wedi anghofio eu dyledswyddau fel y cyfryw yn y Gorllewin pell, er fod llawer o lesgedd ysbryd yn nghlyn â hwynt yma, fel mewn lleoedd eraill. Mae yn Wisconsin ddau beth niweidiol i grefydd, sef anhawsderau i ddechreu byw, er fod mor hawdded dechreu byw yn Wisconsin ag mewn unrhyw dalaeth a wn i am dani; eto, mae ymsymud a dechreu sefydlu yn sicr o ddwyn helbul am beth amser, yn enwedig yn mhlith y rhai a fyddont yn isel o ran eu hamgylchiadau; a thyma sefyllfa lluoedd o drigolion Wisconsin yn bresennol. Peth arall, yw rhagweliad amser iddynt i fod yn gyfoethog. Maent yn gweled eu cymmydogion, y rhai a ddechreuasant dair neu bedair blynedd yn ol, yn awr yn dra chysurus,—maent hwythau hefyd yn cyrchu at yr un nod, ac y mae yn ddiamheuol y cyrhaedda pawb ag sydd yn ymdrechol y nod hwn yn dra buan. Byddant ddedwydd ar eu tiroedd, mor belled ag y mae pethau y bywyd yma yn dal cyssylltiad â hyny.

Yn mis Awst, 1849, ffurfiwyd eglwys fechan o Fedyddwyr Cymreig yn y lle hwn, dan yr enw, "Yr Eglwys Gyntaf o Fedyddwyr Cymreig yn Wisconsin;" a chan fod lluoedd o Saeson oddiamgylch, defnyddiwyd ran o'r amser eu cynnal moddion yn eu hiaith; a gwelodd Duw yn dda i fendithio ein llafur er dwyn amrywiol o honynt i ufuddhau i'r gwirionedd, a pharhawyd felly i gario yr achos yn mlaen yma yn y ddwy iaith hyd y gauaf diweddaf, pryd y barnwyd mai gwell er lles yr achos, a chysur y Cymry a'r Saeson, oedd ymranu, a ffurfio eglwys Seisnig; a hyny a gymerodd le yn ol boddlonrwydd pawb o bob tu.

Y mae y Cymry wedi adeiladu tŷ addoliad tra chyfleus; ac yr ydym yn cael y fraint o wrando yr efengyl yn cael ei chyhoeddi ynddo yn yr iaith Gymraeg. Hefyd, yr ydym yn credu y bydd i'r achos gynyddu yn y lle hwn. Ein gweddi yw mai felly bo. "O frodyr, gweddiwch drosom." Hefyd, cawsom y pleser o weled corffoli eglwys o Saeson tuag wyth milldir o'r lle hwn; a da gan holl gyfeillion y Gwaredwr glywed fod terfynau ei deyrnas yn ymeangu. Mae y Bedyddwyr yn Wisconsin yn wasgaredig fel defaid ar gyfeiliorn, ond nid oes yma fugeiliaid i'w casglu. O na bai i Dduw anfon rai o'i weision ag mae wedi eu galw a'u donio i'r gwaith i faes eang Wisconsin, y rhai a fyddai yn foddlon i aberthu pob peth er ei fwyn. Y fath ddynion sydd arnom eu heisiau yma.

Yn nesaf, sefyllfa y lle. Mae yr eglwys Gymraeg tuag wyth milldir o Oskosh, tref ar lan Llyn Winebago, lle mae y *Fox River* yn ymarllwys i'r *lake*, tua 70 milldir o Milwaukie. Nid yn aml y gellir gweled harddach gwlad yr olwg arni na'r rhandir hyn o Wisconsin, ac nid wyf yn meddwl fod llawer gwell tir yn yr Unol Dalaethau: ac er ei fod yn mhell i'r gogledd, nid wyf yn meddwl fod fawr wahaniaeth yn yr hinsawdd i'r rhanau deheuol o'r dalaeth. Beth bynag am hyny, mae y cnydau yn y rhandir hon o'r dalaeth mor doreithiog ag un rhan o honi.

Gyda golwg ar fasnach yma, wrth bob-

tebyg bydd mewn bri mawr—gyda'r goreu yn y dalaeth. Bydd yr agerfadau yn teithio o New Orleans trwyodd i Buffalo, sef o afon Wisconsin trwy gamlaslyn sydd wedi ei orphen i Afon y Llwynog, a thrwy Lyn Winnebago i Greenbay a Lake Michigan. Nid oes unrhyw rwystr i'r gwaith hyn ond un rhediad (*rabbits*) yn Afon y Llwynog. Mae y rhan fwyaf wedi ei orphen ond yr un lle a nodwyd.

Yn nesaf, y mae tir y llywodraeth wedi ei lwyr-gymeryd yn yr ardal hon; ond y mae yma lawer o dir a ellir ei gael yn rhad iawn, wedi ei brynu gan *speculators*. Y mae tir gan y llywodraeth tu hwnt i Afon y Llwynog, lle mae lluoedd yn cyrchu yn y dyddiau hyn. Nid wyf am berswadio neb, ond yr wyf yn credu y byddai yn well i luoedd o'n cenedl fod ar dyddyn da o dir mewn lle iachus, lle y gallant gael cartref cysurus, heb ofni *stop cars* na gostyngiad prls, na dim ond ymddyried i'w diwrnod gwaith. Nid yw y Cymro yn ol mewn gwybodaeth, nac mewn doniau hyawdl i osod ei feddwl allan gergwydd y cyhoedd; nid yw ychwaith yn ol mewn moesau na diwydrwydd; ond mawr yw yr ofn mentro sydd yn ei feddiannu. Y mae yn rhaid anturio peth cyn meddiannu y wlad: o ganlyniad byddwn effro, a chwiliwn am y rhan oreu o honi. Sicrhawn etifeddiaeth o honi i'n plant. Byddwn arglwyddi arnom ein hunain, a mwynhawn ein rhyddid.

*Ael y Bryn.* GRESI.

---

## PRYDDEST-AWDL AR LONG-DDRYLLIAD DYNOLIAETH.

OAN COLUMBUS, MINERSVILLE.

[Parhad o dudal. 147.]

*Y Fuddugoliaeth—Ymdrech Crist ag Angeu—Ei fynediad i'r bedd—Profiad ei ddysgyblion ar foreu y trydydd dydd—Adgyfodiad yr Arglwydd Iesu—Gorchfygu Angeu a'r Bedd—Yr oruchafiaeth yn brawf o wirionedd yr athrawiaeth—Llawenydd y dysgyblion diwedydd yr adgyfodiad—Ei fynediad i'r Nefoedd—Y croesaw a dderbyniodd gan y Tad—Yr effeithiau—Danfoniad yr Ysbryd Glan—Dydd y Pentecost—Y llwyddiant—Cyffredinolrwydd yr Efengyl a'i hammodau—Ei darpariadau a'i llwyddiant mawr—Effeithiau ei llwyddiant.*

GORPHENWYD! waeddai'r Cadben, uchel lef—
Frawychai longau'r fagddu, rhwyga'r nef;
Sain buddugoliaeth lawn a grynai'r dda'r,
Delwi wnai Anwn fawr er maint ei bâr;
Ei llongau oll bron colli 'nawr ar g'odd,
Y frwydr fawr ar droi, wel dyma'r modd;
Y fuddugoliaeth drodd o du y dyn,
A'r cedyrn oll—gwyr Basan oeddynt flin;
Mewn cythrwfl certh, eu dyrys fyddin oll—
A baniar uffern fawr a aeth ar goll.
Ysbeilio wnaeth Tywysog mawr y nen
Y t'wysogaethau oll, a rhwygo'r llen.
Yr awdurdodau hefyd gym'rodd ef,
Gan eu harddangos fry rhwng da'r a nef;
A phen y sarff yn wir ga'dd farwol friw
Gan had y wraig, Eneiniog anwyl Duw;
'R ysgrifenlaw a'r ordinhadau oll,
Oedd ar y ffordd gymerwyd yn ddigoll;
Ac wrth yr hwylbren braff e hoeliwyd rhai'n;
Blodeua rhyddid mwy dan goron ddrain.
Trwy waed cawd llwybr rydd i fyn'd at Dduw,
Porth mawr i'r nef, o'r llong ddrylliedig, clyw.
Cyfiawnder a foddlonwyd yn y gâd,
Magnelau'r ddeddf ddistawent yn y gwa'd.
Iawn mawr ef rîn a beraroglai 'nawr
Ar ol y storom flin—tawelwch mawr.
Ar hyn daeth llong yn mlaen, un hyll ei gwedd,
Ei harwydd hi ysgerbwd* dyn a'r bedd;
Ei chadwyn fawr e saethodd hon fel saeth
I long waredol dyn, i'w dwyn yn gaeth.
Llong bywyd suddodd draw, a bywyd myrdd,
Fel Jonas bu yn mol y ~~dyfnder gwyrdd~~;
O'r golwg aeth, fe deimlai yr holl had
Oedd am ryddhad a bywyd gyda'r Tad;
Eu teimlad 'nawr sy'n annraethadwy iawn,
Ar ol y storom maent mewn prudd-der llawn.

Mae Israel heb eu gwared,
Hwn yw y trydydd dydd
Yn ol addewid Iesu,
Y deuai o'r bedd yn rhydd;
Mae eto yn garcharor,
Yn rhwymau angeu bydd,
A ninau heb ein gwared,
Hwn yw y trydydd dydd.

Mae'n gobaith 'nawr yn ofni,
A ninau'n drist ein gwedd;
Yr Iesu'n hanwyl Briod
Yn gaeth yn ngwaelod bedd;
Cryf iawn yn rhwymau angeu,
A phyrth y beddrod sydd
Yn greulon wrth ein Ceidwad,
Hwn yw y trydydd dydd.

Dyddanwch Israel heddyw
Sydd heb gyfodi o'r bedd;
Ai'r maen neu'r clo Rhufeinig
Sy'n dal Etifedd hedd?
Neu'r milwyr dewr osodwyd
I warchod Awdwr ffydd;
Mae heddyw heb ymddangos,
Hwn yw y trydydd dydd.

Ond llong waredol Ior a godai'n gu,
Yn rhydd y daeth o'r sygn draethell du;
Ar frig y don, dros fâr cyfiawnder aeth,
Gan ddwyn rhyddhad i'r dyoddefwyr caeth;
Yn Bosrah dre', prif ddinas teyrn y bedd,
Y planodd faniar bywyd, haeddodd hedd.
Anferthol hyll, ddychrynol frenin braw—
Gymerodd ef, a'i orsedd grynai draw;
'Rallweddau mawr o'i law a wasga'i gledd,
Gan rym ei nerth y giynai pyrth y bedd:
Fe ddrylliodd ddrws hen garchar angeu mawr,
Ac angeu'i hun mewn cadwyn ro'wd yn awr.
Gwiw faniar gobaith blanodd ef yn rhydd
Ar dyrau'r bedd, yn foreu'r trydydd dydd,
Daeth bywyd 'nawr, ac anfarwoldeb mwy,
Yn oleu iawn drwy rinwedd marwol glwy'.

---

* *Skeleton.*

Ei filwyr oll pan welsant hyn—yn llon
I'r gâd yn awr, tangnefedd dan eu bron;
Gor'chafiaeth lwyr ar yr uffernol lu,
Y maen, y sêl, y bedd a'r ceidwaid cry'.
Mae'r Iesu'n fyw, byw hefyd fyddwn ni;
Y gwir Fessia yw, er gwaetha'r llu,
O'r storom fawr! nid oeddym ni ond gwan,
I sefyll yn y llif a dod i'r lan.
O'n Cadben mawr, Tywysog grasol dyn,
I'r storom lawr, anturiodd ef ei hun,
Er mwyn pechadur drwg a haeddodd byth
Y gerwyn ddig, a fflamiau uffern syth.
Tywysog hedd o'r bedd a ddaeth yn rhydd;
Cyfodi wnaeth ar foreu'r trydydd dydd.

Cyfodi wnaeth ein Harglwydd
I dderbyn parch a bri,
Addoliad llon angylion,
A mawl y seintiau fry.
'Rym heddyw yn gongcwerwyr,
Byw gysur teulu'r ffydd;
Yr Iesu a gyfododd
Yn foreu'r trydydd dydd.

Fe gododd ein Hiachawdwr,
Gan ddryllio rhwymau'r bedd,
O Bosrah daeth, ac Edom,
Yn wrol iawn ei wedd.
Chwilfriwiodd gastell angeu,
O'i rwymau daeth yn rhydd;
Ein Harglwydd mawr a gododd
Ar foreu'r trydydd dydd.

Ni welsom ein Gwaredwr
Ac agoriadau'r bedd
Yn crogi wrth ei wregys,
A bywyd yn ei wedd;
Fe'i parchwn ef heb dewi,
Na fyddwn mwy yn brudd,
Mae'r Iesu wedi codi
Ar foreu'r trydydd dydd.

Daw dydd gwaredir Seion
O'r bedd yn hardd ei gwedd,
Ar ddelw'i Phriod Iesu,
Mewn bywyd pur a hedd;
Yn mydd y gorthrymderau
Llawenydd yma sydd
Yn nghalon teulu Seion
Wrth gofio'r trydydd dydd.

Ein Crist a adgyfododd,
Ac ef yn flaenffrwyth wnaed;
Ei aberth yn dderbyniol,
Rinweddol yw ei waed;
Y plant a ddygir adreu,
A mawr y canu fydd
Trwy oesau'r byd trag'wyddol,
Wrth gofio'r trydydd dydd.

[I'w barhau.]

## CYFARFOD TRIMISOL STEUBEN.

Gyda golwg ar gyfleusderau ac amgylchiadau yr ardal uchod, barnodd y brodyr y byddai yn well ei gynnal ar y 9fed a'r 10fed o'r mis hwn (Mehefin) yn hytrach nag yn yr amser arferol.

Cadwyd cynhadledd prydnawn dydd Llun. Treuliwyd y rhan hyn o'r cyfarfod yn benaf i ymdrin ag achos ac amgylchiadau crefydd mewn cysylltiad â'r ardaloedd hyn. Cafwyd llawer o gynghorion buddiol gan y brodyr. Gobeithiwn y cofir hwynt yn hir, ac y gweithredir yn gyfatebol iddynt gan y rhai ag oedd yn eu gwrando.

Ar gais y Parch. Hugh H. Hughes, gynt o Utica, yr hwn er yn ddiweddar sydd wedi symud oddiwrthym.—

Penderfynwyd yn unfrydol, ein bod ni, fel Cyfarfod Trimisol Oneida, yn rhoddi llythyr o ollyngdod a chymeradwyaeth i'r brawd fel aelod rheolaidd o'r Gymanfa, &c., a phregethwr a gweinidog doniol, parchus, a chymeradwy yn ein plith.

Bydd y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn Remsen.

Dechreuwyd yr oedfaon cyhoeddus yn yr hwyr, pryd y gweddiodd y brawd J. Hughes, Marcy; a phregethodd y brodyr Hugh H. Hughes, Bloomsburg, oddiwrth Luc 19. 41, 42, a James Harris, Marcy, oddiwrth Rhuf. 8. 34. Am 10, dranoeth, gweddiodd y brawd John W. Jones, South Trenton; a phregethodd y brodyr canlynol: John Hughes, Marcy, Preg. 11. 9; Edward Humphreys, diweddar o'r Hen Wlad, Heb. 12. 22—24. Am ddau, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Wm. Jones, Remsen; a phregethodd A. Harris, Marcy, oddiwrth Act. 24. 25; a'r Parch. T. Ll. Davies, New York, Salm 79. 11. Yn yr hwyr am 7, pregethodd y brodyr Robt. Williams, South Trenton, oddiwrth 1 Tim. 1. 15; a Thos. Ll. Davies, oddiwrth 1 Bren. 14. 13.

Cawsom gyfarfod dymunol iawn. Yr oedd yno gynnulleidfa luosog a pharchus iawn yn gwrando, a gweinidogion Duw yn derbyn cymhorth oddiwrtho i draethu y gwirioneddau pwysig. Mae adfywiad helaeth wedi bod yn yr eglwys hon yn ddiweddar. Mae Ysbryd yr Arglwydd yn ei ddylanwadau achubol wedi ei dywallt ar yr ardaloedd. Hyderwn fod y cyfarfod hwn wedi bod yn foddion, dan fendith yr Arglwydd, i ddwfnhau yr argyhoeddiadau blaenorol, ac i gadarnhau breichiau ein brodyr a'n chwiorydd yn y lle, ynghyd a'u gweinidog parchus a doniol, yr hwn sydd wedi ymweled â hwynt a chyflawnder bendithion yr efengyl. Mae amryw wedi ymuno â'r achos yno yn barod, ac mae llawer yn ychwaneg yn y gyfeillach, wedi amlygu eu parodrwydd i ymostwng i ordinhadau Mab Duw, a gwneuthur eu cartref gyda phobl yr Arglwydd. Bydded iddynt gael aros dan nawdd ac amddiffyn yr Arglwydd; a bydded i'r diwygiad hwn ymledu, nes ag y bydd ein holl gydgenedl yn yr ardaloedd, a thrwy y wlad yn gyffredinol, wedi diangc o afael colledigaeth.

Bu rai pethau dan sylw y gynhadledd, o barth cyhoeddi llyfrau, &c., y rhai gohiriwyd i fod dan sylw y Gymanfa yn Pennsylvania.

D. J. WILLIAMS, *Cadeirydd.*

*Marcy.* A. HARRIS, *Ysgrifenydd.*

## CORFFOLIAD EGLWYS YN DUNMORE.

PRYDNAWN dydd Sadwrn, Mai 3ydd, cyfarfyddodd amryw frodyr o eglwysi y Bedyddwyr yn Carbondale, Scraton a Pittston; a chydeisteddasom mewn cynghor tua thri o'r gloch.

Am chwech, dechreuwyd yr oedfa gyhoeddus gan y brawd L. D. Lewis, Scranton; a phregethodd y brawd E. Edwards, Pittston, Rhuf. 12. 1. Boreu Sabboth, y 4ydd, am 10, darllenodd a gweddiodd y brawd W. Richmond, Blakeley, a thraddodwyd darlith ar eglwys y Testament Newydd gan y brawd E. Edwards; yna rhoddwyd deheulaw cymdeithas i gynrychiolwyr yr eglwys gan y brawd D. E. Bowen, Carbondale. Cyn ymadael, cydgofiasom, yn yr ordinhad appwyntiedig, gariad rhad Pen yr eglwys. (Gorfu i'r brawd Edwards ddychwelyd i bregethu yn Pittston.) Yn y prydnawn, cynnaliwyd cyfarfod Saesnaeg gan y brawd Bowen. Testyn ei bregeth ydoedd Act. 7. 50. Am chwech, traddodwyd dwy bregeth, y cyntaf gan y brawd Richmond, Heb. 2. 3; yr ail gan y brawd Bowen, 1 Ioan 2. 1, 2. Dechreuwyd yr oedfa hon gan y brawd T. Cheshire, a diweddwyd gan y brawd W. R. Jones—brodyr teilwng a defnyddiol, a phregethwyr cynorthwyol yn yr eglwys gorffoledig.

Gwir ewyllys ein calon, a'n gweddi ar Dduw droe y gangen fechan hon o fynydd ei dŷ sydd er eu cysur a'u llwyddiant, hyd oni welant gyflawniad o addewid gyssurlawn Jehofa, "Y fechan a fydd yn fil." E. E.

## CYMERADWYAETH DDIRWESTOL.

DILYS yw y cydnabyddir gan bawb i fod rhinwedd yn deilwng o ganmoliaeth gyhoeddus. Nid y lleiaf o rinweddau a fleitadir yn mhlith dynion yn ein hoes ni yw bod yn ffyddlon yn mhlaid dirwest. Fe dygwyddai i ryw un wneud gorchestwaith ar faes y gwaed, trwy wrthsefyll gelyn a fyddai yn debyg o ddinystrio dedwyddwch y dinasyddion, ynghyd a thaflu fy wlad i orthrymder a thlodi, llenwid cylchgronau a newyddiaduron y talaethau â'i glod, a throsglwyddid ei enw da i oesau dyfodol trwy gyfrwng croniclau yr amseroedd.

Meddyliwyf mai un o'r gelynion gwaethaf a ymddangosodd erioed yn ein byd ni yw y brenin Alcohol; a phaham na chaniateir i minnau ddywedyd gair o ganmoliaeth i'r gwroniaid a safant ar y maes yn erbyn y Goliath hwn sydd wedi lladd a dinystrio cymmaint o oreuon y wlad: felly, gan fod y Parch. Howell Powell ar ymadael oddiwrthym o'r lle hwn, sef Aberaiwgr, i fyned i Cincinnati, yr oeddem fel cymdeithas ddirwestol yn y lle hwn am hysbysu i'n brodyr dirwestol yn y ddinas hono, ynghyd a'r cyhoedd yn gyffredinol, fod Mr. Powell wedi bod yn ffyddlon tu hwnt i'r cyffredin yn mhlaid yr achos da hwn. Nid wyf yn amheu po byddai i bob dirwestwr ddangos yr un ffyddlondeb yn mhlaid y rhinwedd hon, mai nid hir y byddai y gelyn atgas hwn heb syrthio fel Dagon o flaen arch Duw byddinoedd Israel, ac yna caiff pob un sydd yn caru sobrwydd chwareu clychau clod. Dymunem i'r brawd bob llwydd i fod a'i law yn ngwar y gelyn hwn nes ei lwyr orchfygu. Llwydd i bob rhinwedd i fyned ar gynydd yw gwir ddymuniad fy nghalon. Ydwyf, yr eiddoch,

Dros Gymdeithas Ddirwestol Aberaiwgr,

*Meh.* 7, 1851. JOHN S. JONES, *Ysgr.*

## CYMRY BRADFORD A CHOFGOLOFN WASHINGTON.

YMDDENGYS fod gwahanol feddyliau yn Bradford, fel mewn lleoedd ereill o barth y gofgolofn; ond nid ydym wrth ddywedyd hyn am eu cyhuddo o unrhyw ymddygiadau na theimladau anheilwng yn gyffredinol yn yr achos. Derbyniasom lythyr maith oddiwrth Mr. Wm. S. Davies, yn eu hamddiffyn mewn modd campus yn ngwyneb y cyhuddiadau a ddygwyd yn eu herbyn o bryd i bryd yn y "Drych." Y mae yr ysgrifenydd yn adolygu y gwahanol lythyrau a ymddangosodd am danynt yn lled fanol, ac yn dangos fod Golygydd y Drych wedi ei gamarwain, trwy ryw lythyr neu lythyrau dirgelaidd, i ddwyn cyhuddiadau anheilwng yn eu herbyn. Gwyddom fod cyfiawnder yn galw am iddynt hwy yn gystal ag ereill, gael amddiffyn eu hunain, ond nid ydym yn gweled un angenrheidrwydd iddynt i wneud hyny yn fwy cyhoeddus nag y mae y cyhuddiadau wedi eu dwyn yn eu herbyn; a byddai yn anhawdd i'n darllenwyr ddeall yr amddiffyniad heb wybod y cyhuddiadau. Dealiwn fod yr ysgrif wedi ei danfon i'r Drych, a barnwn y gwna ef ei chyhoeddi yno ateb pob dyben, yr hyn yn ddiau a ganiata y golygydd; ond os gwrthoda ef ei chyhoeddi, ymdrechwn roddi lle iddi y mis nesaf, os nad oes unrhyw gwyn wedi ymddangos yn y Seren yn erbyn Cymry Bradford.

## CYMERADWYAETH I'R MEDDYG D. S. SPEAR, POTTSVILLE.

MR. GOL.—Goddefwch mi, trwy gyfrwng y Seren Orllewinol, i ddychwelyd fy niolchgarwch gwresocaf, ynghyd a'm priod, i'r meddyg teilwng a medrus uchod, am ei ofal diflin o'n hanwyl blentyn, bachgen 9 mlwydd oed, trwy yr hyn y bu yn offeryn, dan fendith y Nef, i achub ei fywyd, o herwydd fod ei glefyd y fath fel yr oedd yn ngholwg meddygon a thrigolion yr ardal mewn sefyllfa hollol anobeithiol. Cafodd fy mab ei gymeryd yn glaf o'r *Inflamatory* a'r *Typhus Fever*, a chan y deallasom yn fuan ei fod mewn sefyllfa beryglus, cafodd bob tynerwch a gofal meddygol a allasem ei gyrhaedd iddo. Pa fodd bynag, ymddangosai fel pe na buasai dim yn tycio [yn] ei achos—y ddwy dwymyn greulawn wedi cyfarfod ynghyd a fygythient ei ymddattodiad buan, ac a herient bob dyfais a chyffeirian meddygol. Dyma ei sefyllfa pan gymeredd y meddyg Spear ei achos mewn llaw, yn mhen tua dwy wythnos wedi ei gymeryd yn glaf. Derbyniodd oddiwrtho bob sylw a alwai am dano, ac yn fuan deallasom er ein llawenydd ei fod yn llwyddo i orchfygu ei gystudd, yr hyn a roddodd sail i'n gobeithion drachefn am ei adferiad. Parhaodd i wellhau yn dra chyflym, fel yr oedd yn iach yn mhen o gylch tair wythnos wedi i Dr. Spear ei gymeryd mewn llaw, ond ei fod yn wan, ac mewn sefyllfa wangedig. Ystyrir ei achos gan bawb a wyddant am yr amgylchiadau yn brawf neillduol o fedrusrwydd y meddyg a nodwyd. Y mae yma amryw yn yr ardal a deimlant dan rwymau i'r meddyg, o herwydd ei gywreiniarwydd a'i barodrwydd i'w gwasanaethu, ac yn neillduol o herwydd ei dyleran rhesymol a'i garedigrwydd i'r tlodion; a diau genyf y bydd yn dda ganddynt weled tystiolaeth gyhoeddus fel hyn o'i fedrusrwydd. Eich cymmydog gostyngedig,

THOS. J. HARRIS.

*Pottsville, Mch.* 12, 1851.

PITTSTON, PA.—Sabboth, Mai 18, bedyddiwyd yma wr a gwraig ar broffes o'u ffydd yn Iesu, gan y Parch. E. Edwards, y gweinidog. Bu y wraig gynt yn aelod o'r eglwys Annibynol Gymreig yn y lle hwn.

SYMUDIAD GWEINIDOG.—Mae y Parch. Theophilus Jones wedi roddi gofal yr eglwys yn Marcus Hook i fyny, ac wedi derbyn galwad yr eglwys Saesnaeg yn Hatboro, Montgomery Co., Pa.

ETO.—Cyrhaeddodd y Parch. Thomas Roberts, gynt o Cadoxton, Morganwg, y lle hwn dechreu y mis diweddaf, gyda ei deulu, wedi cael mordaith lwyddiannus i Gaerefrog Newydd. Cychwynodd Mr. Roberts oddiyma tua Danville ar y 18fed, ond nid yw yn benderfynol pa le i ymsefydlu.

## JENNY LIND.

Mae y gantores swyngar hon wedi bod yn ddiweddar yn canu yn New York a Philadelphia, ac ymddengys nad yw ei henwogrwydd mewn un modd yn lleihau; yn hytrach gallwn feddwl fod ei chlod yn ymledaenu ac yn cynyddu yn barhaus. Cawsom y boddlonrwydd o'i gwrando yn Philadelphia, ac nis gallwn ddarlunio y teimladau a gynhyrchai—mae ei llais yn effeithio ar bob cynheddf, a'i hymddangosiad yn weddaidd a diymffrost. Nis gellir ei gwrando nac edrych arni heb weled arwyddion amlwg o ysbryd hael a charedig. Dygwyddodd amgylchiad yn ystod yr hwyr pa un a roddodd gyfleusdra ragorol i Jenny i ddangos ei thuedd gyfeillgar a'i chydymdeimlad. Yr oedd yno berorydd ieuangc tra medrus i ymddangos am y tro cyntaf i chwareu y *piano*, ond gan fod yr adeilad mor helaeth yr oedd amryw yno yn methu ei glywed, a dechreuasant fyned yn anamyneddgar yn y rhan uchaf o'r tŷ, yr hyn a fu yn foddion i gyffroi eraill, a digaloni y cerddor anghyfarwydd â'r fath amgylchiadau; a chododd yntau ar ei draed, gan wneud ei foes i ymadael â'r *stage*. Pan ar fyned o'r golwg rhedai Jenny i'w gyfarfod dan guro ei dwylaw, ac ymaflodd yn law mewn agwedd siriol a chroesawgar, yr hyn a dynodd drwst anferth o gymeradwyaeth oddiwrth y dorf; galwyd am dano i ddyfod yn ol, a daeth hithau allan drachefn gan ei arwain yn mlaen yn nghanol y bloeddiadau uchaf. Nid oes angen dywedyd iddo gael dystawrwydd yr ail dro.

Y mae Jenny wedi ymryddhau oddiwrth y cydundeb oedd rhyngddi â Mr. Barnum trwy dalu iddo y swm o $25,000. Dywedir mai y prif achos o'r ymraniad oedd fod Barnum yn ei gwneud i deithio a chanu gormod, a'i bod hithau wedi blino dan y fath galedwaith, ac yn awyddus i fwynhau ei hun yn well, ac adnewyddu ei nerth. Talodd iddo $18,000 yn gyntaf am leihau y cydundeb i gant, yn lle cant a hanner o nosweithiau. Wedi hyny prynodd ei rhyddid o saith noswaith drachefn am saith mil o ddoleri. Felly canodd iddo ef 93 o nosweithiau, a diau iddo wneud rai cannoedd o filoedd o ddoleri trwyddi. Mae ei ymddygiadau mewn cysylltiad â hi yn cael eu beio gan lawer.

Mae Jenny yn bresennol yn canu yn anaml, ar ei chyfrif ei hun, ac nid ydym yn dysgwyl clywed y bydd iddi rwymo ei hun mwy. Deallwn fod Barnum o gylch ymadael tua ffair y byd i chwilio am ryw *novelties* er denu sylw pellach.

## DAMWAIN ANGEUOL.

Yn New Philadelphia, ger Pottsville, Meh. 10, pan oedd dau Gymro o'r enwau John James ac Edward Richards, yn myned i'r gwaith, enynodd y danchwa, trwy yr hyn y cawsant eu llosgi yn erwinol. Bu farw James y dydd nesaf. Ymgynnullodd tyrfa luosog o'i gydwladwyr ac eraill i gyflawni y gymwynas olaf iddo. Claddwyd ef yn nghladdfa yr Annibynwyr yn Pottsville.

Boreu y dydd Gwener canlynol bu farw Richards, wedi dyoddef poen mawr. Yr oedd ef yn enedigol o Nantyglo, Cymru. Nid oedd neb o'i berthynasau gydag ef yn ei amser diweddaf, ond cyflawnwyd y diffyg hwnw gan Mr. Stephen Adams a'i wraig, y rhai a weiniasant iddo gyda gofal a thynerwch neillduol; a chladdwyd ef mewn modd gweddaidd ganddynt yn nghladdfa y Bedyddwyr yn Pottsville. Gweinyddwyd ar yr achlysuron uchod gan y Parchedigion Jones a Morgan. Deallwn fod Richards wedi gwneud ewyllys drefnus am yr hyn sydd ar ei ol dros ben traul ei gladdedigaeth.

## ADOLYGIAD Y WASG.

*Sermons of Christmas Evans, a new Translation from the Welsh; with a Memoir and Portraiture of the Author, by Rev. Joseph Cross. Published by W. A. Leary & Co., 138 North Second Street, Philadelphia.*

Nid oes angen dywedyd wrth y Cymry fod pregethau yr enwog Christmas Evans yn teilyngu eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn holl ieithoedd y byd. Addefir gan bawb fod Christmas yn ddyn mawr—rhywbeth tu draw i'r cyffredin; yr oedd ei ddull gwreiddiol o draddodi yn perthynu yn unig iddo ei hun, a'i gydmariaethau bob amser i'r pwrpas. Ei bregethau argraffedig a ystyrir yn nodweddiadol o hono, ac addefir gan y duwinyddion Seisnig penaf nad oes eu gwell wedi ymddangos erioed trwy y wasg. Mae y drychfeddyliau yn rymus a threfnus—yn rhwydd eu deall, ac yn anhawdd eu hanghofio. Ni ddylai un teulu fod heb y fath lyfr.

Mae y llyfr hwn newydd ei gyhoeddi yn Seisnig yn un gyfrol hardd wythplyg, wedi ei rwymo yn dda, am y pris rhyfeddol o isel o ddolar a hanner. Yn nechreu y llyfr y mae dau gerfiad ardderchog ar ddur—y naill yn cynnwys darlun hardd o Christmas, a'r llall yn cynnwys ei lun yn yr areithfa, a chynnulleidfa fawr o'i flaen yn gwrando am eu bywydau. Yn nesaf, mae Blaendraeth cynnwysfawr gan y cyfieithydd, yn rhoddi hanes crefydd yn Mhrydain; yn canlyn mae ei Gofiant, wedi ei gyfieithu yn benaf o'r Cofiant Cymraeg, gan W. Morgan, Caergybi; ac yn olaf mewn trefn mae pregethau a damegion yr hen gawr anllygeidiog. Mae yr argraffiad yn hardd, y papyr yn dda, a'r llyfr oll, o ran gwaith ac ymddangosiad, yn anrhydedd i'r cyhoeddwyr haeddbarch.

Mae cyhoeddi y fath lyfrau a hyn yn tueddu i godi yr enwau "Cymro, Cymru, a Chymraeg," yn America; ac i enwogi ein cenedl mewn crefydd a duwioldeb; ac o ganlyniad ein dyledswydd yw cefnogi y cyhoeddwyr trwy brynu y llyfr. Bydded i'r rhai sydd yn codi eu plant i fynu yn yr iaith Seisnig osod y pregethau hyn o'u blaen, trwy yr hyn y gwnant eu dyledswydd tuag atynt, ac y dangosant eu bod yn ewyllysio cefnogi y rhai a gyhoeddant weithiau hen dduwinyddion enwog Gwalia; ac mewn canlyniad gwelid ychwaneg o honynt yn ymddangos yn fuan trwy y wasg Americanaidd; a byddai yr hen bregethwyr sydd wedi marw yn ngwlad ein tadau—rai o honynt er ys oesau, ac eraill yn fwy diweddar—yn llefaru eto, nes synu trigolion gwlad Columbus.

Gall y rhai a ewyllysiont ei feddu ei gael genym ni, os bydd hyny yn fwy cyfleus iddynt na gyru at y cyhoeddwyr.

*Lights and Shadows of Scottish Life, by John Wilson, Esq., Editor of Blackwood's Magazine. Philadelphia: Published by W. A. Leary & Co., No. 138 North Second St.*

Llyfr dyddorawl arall yw hwn, a osodwyd ar ein bwrdd gan yr un cyhoeddwyr. Nid ydym wedi cael hamdden eto i ddarllen nemawr o hono; ond oddiwrth yr hyn ydym yn barod wedi ei ddarllen, ynghyd a chymeriad llenyddol yr awdwr, a dyddordeb y testyn, yr ydym yn addaw llawer o ddifyrwch ac addysg i ni ein hunain wrth edrych dros ei ddalenau. Y mae yn cyfateb yn hollol i chwaeth lenyddol yr oes, gan ei fod yn darlunio bywyd ac arferion Albanaidd mewn ffurf hanesyddol. Gallwn feddwl nad oes nemawr o wledydd yn meddu mwy o nodweddiadau dyddorgar nag Uchel-diroedd yr Alban, fel y gwelir hwynt yn amlwg wedi eu tynu allan yn y gyfrol gynnwysfawr hon.

## PRIODWYD—

Mai 29, yn nhŷ Mr. Owen Jones, Remsen, gan y Parch. Wm. Jones, Mr. Theodore Ellis, a Miss Mary Williams, y ddau o Remsen.

Meh. 5, yn Pottsville, gan y Parch. Wm. Morgan, Mr. Jonah Platt, o New Philadelphia, a Miss Margaret Evans, Cwmbwrla.

Mai 10, yn Minersville, gan y Parch. J. P. Harris, Mr. Daniel Jenkins, a Mrs. Mary Watkins, ill dau o'r lle uchod.

Yn yr un lle, Meh. 6, gan y Parch. J. P. Harris, Mr. Rees Thomas, Llewelyn, a Mrs. Catherine Morgan, diweddar o Dredegar, D. Cymru.

Meh. 2, yn Nghaerefrog-Newydd, gan y Parch. Thos. J. Evans, Jonathan G. Evans, o Philadelphia, â Catherine Rees, C. N., merch i'r Parch. Edward Rees, Portleiden, swydd Lewis, C. N.

### GENEDIGAETHAU.

Yn ddiweddar, yn Rattling Run, Pa., priod Wm. Thomas, dosbarthwr y Seren.

Yn Pittston, Ebrill 8, Rachel, gwraig Manaseh A. Jones, ar fab. Gelwir ei enw ef Dafydd.

Duw Ior a gynnalio
Ein Dafydd tra fyddo;
Ei iechyd a'i fywyd o
Yn buraidd a barhao. EI DAD.

### MARWOLAETHAU.

Yn Pottsville, Meh. 2, yn 27 oed, *Mrs. Elizabeth Davies*, priod Henry Davies. Nid oedd gyrfa ddaearol Mrs. Davies ond byr, ond gwnaeth yn y tymhor byr hwn broffes gyhoeddus o'i chrediniaeth yn Nghrist, yn ngwydd tystion lawer, a pharhaodd yn ei phroffes hyd derfyn ei hoes. Ni chafodd ond cystudd byr, ond yr oedd yn llym a phwysig; er hyny meddiannodd amynedd Cristion, gan ddysgwyl diwedd ei ffydd, sef iachawdwriaeth yr enaid. Trwy hyn cafodd ei phriod ei ymddifadu o'i chymdeithas, dau o blant o'i gofal a'i gwneinyddiaeth, pedwar o frodyr o gyfeillach eu hunig chwaer, a'r frawdoliaeth grefyddol y perthynai iddi o un o'r aelodau. Yr ydym yn hyderu fod eu colled hwy yn elw iddi hi. Daearwyd ei rhan farwol yn nghladdfa y Bedyddwyr Cymreig, yn yr un bedd a'i merch fychan, yr hon a gladdwyd yr hydref diweddaf. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Wm. Morgan.

Yn ddisymwth, ar y 10fed o Fehefin, yn Jeansville, swydd Luzerne, Pa., Ann, priod Rees Price, yn 42 oed. Yr oedd mewn parch cyffredinol, ac yn Gristion ffyddlon. Gadawodd briod a phump o blant.

Mai 28, yn 23 oed, *Mary Jones*, priod Solomon Jones, Dunmore, a merch i Wm. Thomas, Carbondale. Nid oedd yn hollol iach er ys blynyddau; ond wedi symud i Dunmore y gwelwyd arwyddion fod angeu yn agos. Barnai meddygon mai cancr wedi gwreiddio ar y cylla oedd yn achos o'i chlefyd.

### CYNGHORION BUDDION.

*Cyfl. gan Dr. J. T. Nicholas, gyda dymuniad am eu cyhoeddi*

B patient, B prayerful, B humble, B mild,
B wise as a Solon, B meek as a child;
B studious, B thoughtful, B loving, B kind;
B sure you make matters subservient to mind.
B cautious, B prudent, B trustful, B true,
B temperate in argument, pleasure, and wine;
B careful of conduct, of money, of time;
B cheerful, B grateful, B hopeful, B firm,
B peaceful, benevolent, willing to learn;
B courageous, B gentle, B liberal, B just,
B aspiring, B humble, because thou art dust,
B penitent, circumspect, sound in the faith,
B active, devoted; B faithful till death.
B honest, B holy, transparent, and pure,
B dependent, B Christ-like and you'll B secure.

### CALIFORNIA.

Y newyddion diweddaf o wlad yr aur a'n hysbysant fod tân arswydus wedi cymeryd lle yn San Francisco, y fath na bu yno erioed o'r blaen. Y mae y ddinas agos wedi ei llwyr ddinystrio; o leiaf, mae y rhan fasnachol oll yn llydw. Ofnir fod yno amryw fywydau wedi eu colli. Yr adeiladaethau penaf yn y ddinas ydynt oll yn adfail—mae y papyrau wedi eu llanw ag hanes y dinystr, ond nis gallwn ddechreu roddi enwau y dyoddefwyr. Cymerodd y llongau dân, a chollwyd amryw o honynt. Cyfrifir y golled yn bumtheg miliwn o ddoleri, ond barnai rai fod y cyfrif hyn, fel yr ymddengys y fath amgylchiadau yn gyffredin, yn ormod. Y mae miloedd wedi eu taflu allan o'u tai, heb un lle i roddi eu penau i lawr—amryw a ystyrid yn gyfoethog o'r blaen, ydynt yn awr heb ddim. Bwriedid mabwysiadu ryw fesurau er esmwythau ychydig ar sefyllfa y dyoddefwyr; ond nid oedd gobaith y gallesid gwneud nemawr drostynt. Y mae golwg druenus ar y ddinas. Nid oedd yr holl ymdrechion i atal y fflamiau o fawr dyben; yr oedd y gwres y fath fel na allasai y peirianwyr fyned i rai manau manteisiol i weithio. Y mae yr holl le mewn cynhwrf, a masnach wedi myned yn hollol o'r golwg.

Bu tân arswydus hefyd yn Stockton ar y 13eg o Fai. Y fath golledion a difrod trwy dân ag a gymer le yn barhaus yn y wlad annedwydd hon ni chlywir am eu bath mewn unrhyw barth arall o'r byd.

Y newyddion o'r cloddfeydd ydynt o natur lwyddiannus. Yr oedd gobeithion da gan amryw o'r mwnwyr, a chloddfeydd newyddion yn cael eu darganfod yn barhaus. Rai o'r gweithwyr a enillent o $20 i $50 y dydd.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Nid oes unrhyw newydd gwladol o bwys o Loegr. Ffair y Byd sydd yn parhau i dynu sylw yn benaf. Ar yr ail o Fehefin derbyniwyd deunaw cant o bunnau wrth y drysau. Nifer y personau a fu i mewn ar y 3ydd oedd 53,361, y swm a delid ganddynt oedd swllt yr un. Derbyniwyd fel hyn a thrwy werthu tocynau dros y tymhor, y swm o £2,315 2s. 6c. Y swm fwyaf a dderbyniwyd mewn un diwrnod oedd tair miliwn o bunnau. Darlunir yr olygfa, gan y rhai a'i gwelsant, fel yn fawreddog neillduol, ond mae yn lled anhawdd gwneud llawer o ddefnydd cyffredinol o honi heb wybodaeth ac hyfforddiad. Yma y mae holl genedloedd y ddaear fel yn cydymgeisio i arddangos pa un sydd yn cyfranu fwyaf at ddedwyddwch y teulu dynol, ac yn lle eu gweled mewn eiddigedd yn arddangos ysbeilion celanedd a dinystr, arddangosant gynhyrchion y goedwig a'r mwnglawdd, a gweithion yr eingion a'r gweydd, ynghyd a'r arfau hyny â pha rai y gorchfygir diffrwythder y mynydd, neu ddyfroedd y dyffryn; drwy y rhai yr adeiladir dinasoedd, gan eu cyd-gydio â doleni o haiarn; a thrwy y rai y

treiddir i ryfeddodau a dirgeledigaethau y gread, ac y cwblheir gorchestion clodfawr a ystyrid gynt yn annichonadwy—mewn gair, y mae pob peth yma yn arddangos heddwch, ac yn cefnogi dyfeisgarwch a rhinwedd; ac y mae y byd cyfan yn edrych ar, ac yn cyfarch yr olygfa.

Gwneir parotoadau mawrion ar gyfer Cymanfa fawr Llundain, yr hon sydd i gael ei hagor ar y 22ain o'r mis hwn (Gorphenhaf.) Y mae pob rheswm i ddysgwyl y bydd y Gymanfa hon yn tra ragori mewn nifer, dylanwad, a gallu moesol ar bob cyfarfod blaenorol. Y dyben yw dwyn oddiamgylch a chefnogi egwyddorion Heddwch a Brawdoliaeth Gyffredinol. Bydd cynrychiolwyr o America a gwahanol wledydd Ewrop yn bresennol.

Yr ymfudiaeth a barha i ymarllwys, yn enwedig o'r Iwerddon.

Y mae Iarll Shaftesbury, Cadeirydd Cysbwyllawd yn Nhŷ yr Arglwyddi, wedi marw yn ddiweddar. Hefyd, Richard Laler Shiel, y gweinidog Prydeinig yn Florence. ar y 26ain o Fai. Y newyddion o'r dosbarthiadau gweithfaol ydynt anogaethol,—yn Manchester, Nottingham, a lleoedd eraill, mae sefyllfa y gweithfeydd gwlan yn fywiog a chyson.

## FFRAINC.

Y newyddion o Ffrangc a roddant hanes faith am ymweliad y Llywydd â'r dosbarthiadau Gogleddol. Derbyniwyd ef gyda llawenydd mawr yn y gwahanol ddinasoedd; a chyfarchodd yntau y gwyddfodolion amryw weithiau. Dychwelodd i Paris ar y 3ydd o Fehefin. Pwy fydd y Llywydd? dyma'r mater sydd yn cynhyrfu y wlad fwyaf yn awr, ac y mae pob plaid yn ddiwyd iawn i sicrhau eu dyben eu hunain. Y tebygolrwydd yw pe byddai etholiad yn cymeryd lle yn bresennol y bydd Louis Napoleon yn fuddugol; ond y mae y Ffrangcwr fel ceiliog y gwynt, ac nis gall un dewin ddweyd pa gyfnewidiad a gymer le cyn 1852.

## PENRHYN GOBAITH DA.

Y newyddion diweddaf o'r Penrhyn a hysbysant fod y pleidiau gelynol yno yn parhau i ymrafaelio, ond nid oes dim o bwys neillduol yn eu symudiadau. Ymladdwyd nifer o fan-frwydrau, a lladdwyd cant o'r Caffrariaid ar unwaith.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

Y Bedyddwyr yn Sir Aberteifi.—Dydd Sul, y 4ydd o Fai, yn Swyddffynon, gerllaw Tregaron, bedyddiwyd pumtheg o bobl yn ngwydd cynnulleidfa fawr yn yr awyr agored, mewn llyn yn agos i gapel y Bedyddwyr. Dechreuwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parch. John Hughes, Tregaron; a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. Robert Roberts, Swyddffynon. Pregethodd y Parch. Edward Williams, Aberystwyth, oddiar Act. 28. 22, allan o flaen y capel, gan fod y capel yn rhy fychan i gynnal y dorf. Mae y Bedyddwyr yn nghymmydogaeth Tregaron wedi cael ychwanegiad mawr at nifer eu haelodau yn ddiweddar. Bedyddiwyd wyth o bersonau yn Rhydfendigaid, pythefnos yn ol, ac y mae un ar ugain eto i'w bedyddio yn yr un man. Ymunodd tua 17 yn ychwanegol yn Swyddffynon, y rhai sydd i gael eu bedyddio yn fuan.—*Amserau.*

Cyflog Gweinidogion.—Nid oes dosbarth o ddynion yn Nghymru yn derbyn llai am eu gwaith na'r gweinidogion ymneillduol. Tra mae'r wlad oddiamgylch yn myned rhagddi mewn cynydd a chysur, rhwymir y gweinidog, druan, wrth y *post*, gan daflu iddo ei ddogn ddydd yn ei ddydd, heb feddwl dim fod ganddo deulu i'w dwyn i fynu, amgylchiadau i ofalu am danynt, ac henaint i barotoi gogyfer ag ef. Y mae yn dda genym weled ambell i eithriad i'r ymddygiad anghristionogol yma; ac ambell i seren yn cael ei chrogi yn y gyfundraeth wirfoddol: yn mhlith y penaf o honynt y mae yn dda genym nodi yr eglwys Gymreig yn y Tabernacl, Caerdydd, yr hon sydd eglwys luosog a pharchus, gan fod Duw wedi gweled yn dda i lwyddo llafur eu gweinidog ragorol yn dra helaeth, a benderfynodd yn mis Mai diweddaf i gyfodi ei gyflog i gan' punt y flwyddyn. Cofnodir hyn nid er mwyn helaethu enwogrwydd y Parch. Dafydd Jones, ond er mwyn deffro eraill at eu dyledswydd, ac er denu y nifer fawr sydd ar ol o honynt i wneuthur yr un cyfiawnder â'u gweinidogion ag a wnaeth eglwys y Tabernacl.

Aberdare.—"Y mae cynhwrf mawr wedi cymeryd lle yn mysg y pleidiau crefyddol yn Aberdare, yr hyn mae yn bur debyg a derfyna yn y diwedd yn nwylaw y cyfreithwyr. Dydd Sul, pythefnos i'r diweddaf, ymwrthododd gweinidog a chynnulleidfa capel y Bedyddwyr â'u golygiadau crefyddol, a chofleidiasant eiddo y 'Seintiau,' ac heb ymfoddloni ar hyny, y maent wedi cymeryd meddiant o'r capel i'w droi at wasanaeth yr ynfydion hyn. Ar yr un dydd bedyddiwyd hwynt oll yn yr afon Cynon. Gresyn, gresyn, fod ein cydwladwyr wedi ynfydu cymmaint."

Cymerasom yr hanesyn rhyfeddol uchod o'r "Drych" am Meh. 14. Er nas gwyddom ddim am yr amgylchiad, ymddengys i ni yn rhywfodd fel peth tra annhebygol i fod oll yn wirionedd. Gwelsom ddau o gyhoeddiadau yr Hen Wlad yn ystod y mis diweddaf, ac nid oedd gair o grybwylliad am y fath amgylchiad yn un o honynt; a'n barn yw fod yr hanes rhywbeth yn debyg i chwedl Dic Shon Dafydd yn y Cyfaill, o barth y Bedydd yn Coalport. Nid ydym wrth ddywedyd hyn yn drwb-dybio golygydd parchus y "Drych" o lunio ac estyn y stori mewn un modd—diau ei fod ef wedi derbyn yr hanes fel y mae ar lawr; ond gall fod wedi ei *stretchio* cyn cyrhaedd Caerefrog-Newydd, a dichon y byddai i'r cwbl droi allan yn ol ei chwilio rhywbeth yn debyg i chwedl enwog y brain, neu "ryw gath heblaw ein cath ni."—Gol.

Dowlais.—Y mae yr Arglwyddes Charlotte Guest wedi anrhegu Côr Cerddorol Dowlais âg offer cerdd, ac y maent yn dyfod yn mlaen yn dra medrus mewn chwareu.

LLUNDAIN.—Cynnaliwyd cyrddau cenhadol Bedyddwyr Cymreig Llundain ar ddydd yr Arglwydd, Ebrill 27ain, yn nghapel Heol Eldon, Moorfields. Yn y boreu cynnaliwyd cyfarfod gweddio am lwyddiant ar y genhadaeth. Am 11 o'r gloch pregethodd B. Williams. Am 2, pregethodd y Parch. Abraham Jones, o Ferthyr Tydfil, (Saesnaeg), a'r Parch. J. Jones, (Mathetes,) o Gaersalem Newydd, yn Gymraeg. Yn y boreu bu Mr. Jones yn pregethu yn Saesnaeg i'r gynnulleidfa luosog yn Hawley Road, Kentish Town; ac yn hwyr y Sabboth, am chwech, pregethodd drachefn yn Gymraeg yn Moorfields, yn gystal a'r Sabboth canlynol drwy y dydd. Daeth Mr. Jones yma ar gais Pwyllgor y Genhadiaeth, a rhoddodd ei bregethau foddhad mawr i'r eglwys a'r gynnulleidfa yn gyffredinol. Yr oeddent oll wedi eu cyfansoddi yn dda, ac yn cael eu traddodi gyda llewyrch a hwyludeb neillduol. Rhoddodd yr ymweliad hwn o eiddo y brawd Jones, fel dyn ieuangc, fawr foddhad i'r Saeson a'r Cymry yn Llundain, a chasglodd yn rhagorol. Dywedai y Saeson, "We must have a Welshman to preach for us again at our annual meeting; they are the men for touching the string between the heart and the pocket."

LLYNLLEIFIAD. — Cynnaliwyd Cymanfa y Bydyddwyr Cymreig yma ar Ddydd Gwener Groglith a Sul y Pasg, y 18fed a'r 20fed o Ebrill, yn addoldai Great Cross Hall Street, Byrom Street, Stanhope Street, a Bond Street. Y brodyr a bregethasant yno oedd y Parchedigion D. Davies, Abertawy, a J. P. Williams, Blaenywaun, o'r Deheudir; a J. Prichard, Llangollen; E. Evans, Cefnmawr; R. Jones, Llanllyfni; J. Edwards, Llandegfaen: R. Roberts, Llanfachreth; a R. A. Jones, Llanfaircaereinion. Yr oedd yn un o'r cymanfaoedd mwyaf lluosog a gafwyd yma erioed, os nad y fwyaf; yr oedd y pregethau oll wedi eu cyfansoddi yn fedrus ac ysgrythyrol, ac yn cael eu traddodi yn hwylus, a chyda mesur helaeth o ddylanwad. Hyderir y bydd y canlyniadau yn dda. Siomwyd amryw yno yn eu dysgwyliad am y Parch. J. Jones, Merthyr; ond gobaith llawn yn Lerpwl yw y ceir ei weled ef eto.

MORGANWG.—Bu cyfarfod trimisol yn Salem, Llangyfelach, Mai 7fed a'r 8fed. Y gynhadledd y prydnawn cyntaf, a'r cyfarfodydd cyhoeddus yn yr hwyr, ac am 10, 2, a 6, dranoeth. Gweinyddwyd gan y brodyr Davies, Clydach; R. Evans, Castellnedd; B. Evans, Hirwaun; Watkins, Treforris; Titus Jones, Castellnedd; John Jones, Seion, Merthyr; J. Jenkins, Heagoed; D. Davies, ieu., Treboeth; D. Jones, Caerdydd; D. Davies, Abertawy; C. Williams, Pontardawy; Ebenezer Morgan, Glynnedd, &c.

YR HEN GYMANFA.—Cynnaliwyd cyfarfod trimisol yn Maesyberllan, ar y 13eg a'r 14eg o Fai. Am chwech o'r gloch y prydnawn cyntaf, dechreuwyd drwy ddarllen a gweddi gan y brawd T. Kinsay; pregethodd J. Jarman, Argoed; a D. Jarman, Pontnewydd. Y dydd canlynol am 10, dechreuwyd gan W. Williams, Llanfrynach; pregethodd W. Richards, Penyrheol; D. L. Pugh, Llanfairmuallt, a J. Davies, Brynmawr. Am 2, pregethodd E. Jones, Pantycelyn; J. W. Evans, Aberhonddu, (Saesnaeg,) a W. Roberts, Llangors. Am chwech, pregethodd J. Jones, Sardis; M. Lewis, Capelyffin; a T. Williams, Soar.

LLWYNHENDY.—Agorwyd tŷ cyfarfod newydd i addoli ynddo yn Llwynhendy, ger Llanelli, sir Gaerfyrddin, ar y 17eg a'r 18eg o Ebrill. Dechreuwyd yr oedfa y nos gyntaf, gan y brawd D. Williams, Gerazim; pregethodd y brodyr J. Jones, Caersalem Newydd, a B. Thomas, Penrhiwgoch. Boreu dranoeth, am ddeg, dechreuwyd gan W. Hughes, Bethel, Glanymor; a phregethodd N. Thomas, Heol-y-prior, a H. W. Jones, Tabernacl, Caerfyrddin. Am 2, anerchwyd gorsedd gras gan J. Spencer, Capel Sion, Llanelli; pregethodd D. Jones, Caerdydd, a J. Jones, Seion, Merthyr. Am chwech, pregethodd D. Williams, Gerazim; J. Lloyd, Seion, Saint Clears; a J. Jones, Seion, Merthyr. Yr oedd y pregethau yn dda, y gwrandawyr yn lluosog, a'r rhoddion er talu dyled y capel yn ehelaeth ag ystyried marweidd-dra masnach. Casglwyd ar yr achlysur 150p. Yr oedd galwad mawr am dŷ mwy cyfleus yn nghymmydogaeth Llwynhendy; yr oedd yr hen dŷ wedi myned yn rhy fach i'r aelodau gydeistedd mewn cymundeb, ond nid oedd tir yn perthyn i'r hen dŷ i'w helaethu; yr oedd hefyd angen mawr am gladdle yn y gymmydogaeth; ac felly meddyliwyd am ddarn o dir cyfleus i godi tŷ a chael claddle. Cafwyd gan R. J. Neville, Ysw., erw o dir mewn man cyfleus yn ymyl yr hen gapel, ar ymyl y ffordd sydd yn arwain o Lanelli i Abertawy. Hyd y *lease* yw mil o flynyddoedd, am yr ardreth o swllt yn y flwyddyn, ond eu bod yn talu 50p. wrth gael y tir. Mae amryw wedi eu claddu yn y fynwent newydd yn barod, o herwydd fod y claddleoedd oddiamgylch mor llawn. Mae y cwbl wedi ei orphen yn hardd. Rhwng pryniad y tir a thraul adeiladaeth y capel aethpwyd i ddyled o 750p. A rhwng y casgliad a wnawd ar ddechreu yr adeiladaeth gan yr aelodau a'r gwrandawyr, a'r casgliad a wnawd ar yr agoriad lleihawyd y ddyled yn fawr. Er fod y gymmydogaeth hon yn ol mewn amryw o bethau, eto mae yn mhell yn mlaen yn mhwngc y rhoi er talu dyledion y tai cyrddau.

ABERDULAIS.—Dydd Llun a dydd Mawrth, y 5ed a'r 6fed o Fai, agorwyd addoldy newydd yn y lle hwn, gan y Bedyddwyr ger Castellnedd. Gweinyddwyd gan y brodyr Williams, Salem; Bowen, Hwlffordd; Thomas, Cwmbychan; Davies, Abertawy; Evans, Hirwaun; Davies, Cwmtwrch; Morgan, Aberafon; Morgan. Glynnedd; Evans, Abertawy; a Jones, Merthyr. Cafwyd pregethau ragorol, hin hyfryd, a thyrfa luosocach nag a welwyd ar un achlysur o'r blaen yn Aberdulais. Casglwyd at yr achos teilwng hwn 102p.

TREFFOREST.—Gosodwyd careg sylfaen i gapel newydd y Bedyddwyr yn y lle hwn ar y 12fed o Fai, gan T. Hopkins, Ysw., Caerdydd. Traddodwyd areithiau ar yr achlysur gan y brodyr W. a D. Jones, ac A. G. Fuller

o Gaerdydd; ac O. Williams, Trefforest. Y mae yma achos newydd lled obeithiol, wedi ei ddechreu a'i ddwyn yn mlaen drwy lafur diflin a rhad y brawd teilwng J. Williams, Cantwn, yr hwn sydd wedi bedyddio amryw yma.

CARMEL, PONTYPRIDD.—Mae yr hen ddull cardodaidd o fyned oddiamgylch y wlad i gasglu at dai cyrddau yn rhoddi fforddi drefn well o gasglu gartef, ac wedi ysgwyd ymaith yr hen ddyled, sef trugain punt, ynghyd a'r llog. Drwg genym ddeall fod eu gweinidog parchus, Mr. Richards, o herwydd eiddilwch mawr, yn methu pregethu mor aml ag y carai ef a'r eglwys.

"SEREN CYMRU."—Mae Saml. Evans, hen olygydd Seren Gomer, wedi roddi allan hysbysiad ei fod yn bwriadu cyhoeddi (os ca gefnogaeth ddigonol,) newyddiadur Cymreig dan yr enw "Seren Cymru;" i ddyfod allan bob pythefnos, am 3c. yr un; ac os llwyddir i gael cefnogaeth ddigonol bwriedir ei chyhoeddi yn wythnosol, os bydd y rhan amlaf o'r derbynwyr yn bleidiol i hyny gymeryd lle. Nid yw Seren Gomer yn ymddangos yn llwyddiannus iawn yn nwylaw y perchenogion presennol.

## PRIODASAU.

Mai 12, yn swyddfa y Cofrestrydd, Crughywel, Mr. Walter Gunter, blaenor y canu yn nghapel y Bedyddwyr yn Llanelli, Brycheiniog, a Miss Margaret Reynallt, o Lanelli.

Ebrill 12, yn Nghaersalem, Dowlais, gan y Parch. E. Evans, Mr. Thomas Watts a Miss Mary Thomas.

Mawrth 8, yn y Tabernacl, Caerdydd, gan y Parch. D. Jones, Mr. Rhys Thomas, meindowr (*tiler*), Caerffili, a Miss Amy James, Gwestfawr, plwyf Meiryn, ger y Casbach, swydd Fynwy.

Ebrill 8, yn Hengoed, gan y Parch. J. Jenkins, Mr. Thos. Edwards, Tredomaen Fawr, Llanfabon, a Miss Susanna Perrot, Hengoed Hall, Gelligaer.

I Thomas a'i wraig boed tymor—anwyl,
A'i uniad yn ddidor;
Dien ddau f'o dan nawdd Ior—
Yw'm gweddi a'm egwyddor.
MORGAN GWENYGERWYN.

Hir oes wych efo'i eres wen
I Dwmi o Dredom'en. W. O.

Ebrill 1, yn Mynyddislwyn, gan y Parch. Mr. Hughes, William, trydydd mab Mr. John Williams, Llanbradach, a Meist. M. Llewelyn, Pantglas, Abergwyddon, Mynwy.

Eto, Ebrill 26, yn yr un lle, a chan yr un, Mr. Lewis Thomas, Cwmdu, a Miss Margaret Davies, Ffrwd, eill dau o blwyf Bedwas, Mynwy.

Mai 1, yn eglwys Aberdare, gan y Parch. D. Noyle, Mr. David Davies, a Miss Ann Morgan, eill dau o Lwydcoed, Aberdare.

Mai 6, yn yr un lle, gan yr un, Mr. Richd. Richard, a Miss Eliza Rees, eill dau o Hirwaun.

Mai 6, yn y Tabernacl, Penybont, Morganwg, gan y Parch. John David Williams, Mr. David Evans, Oxford Street, Abertawe, mab y Parch. J. Evans, Three Crosses, ger Abertawe, a Miss Jennett Hopkin, merch henaf y diweddar E. Hopkins, Tondu, Penybont.

Mai 12, yn Llansamlet, gan y Parch. M. R. Morgan, Mr. John Jones, goruchwyliwr yn ngwaith glo Aberdare, a Maria, ail ferch Mr. Wm. Davies, Half-way House, Llansamlet.

Mai 14, yn Aberdare, Mr. Thos. Nicholas, garddwr, Glanafon, Margam, a Mary, merch y diweddar John Rees, Penclawdd.

Mai 15, yn Nghaerdydd, gan y Parch. Wm. Jones, Mr. Thos. Rees, adeiladydd, a Miss Mary Jane, merch ieuangaf Mrs. J. Roberts, Caerdydd.

## MARWOLAETHAU.

Mai 6, y Parch. John James, gweinidog y Bedyddwyr yn Soar, Llandyfaen, o'r darfodedigaeth, yn Nghaerfyrddin, yn 33 oed. Ar y 10fed, claddwyd ei weddillion yn y Tabernacl, pan y gweinyddwyd gan N. Thomas a H. W. Jones.

Mai 8, yn 70 oed, John Evans, diwaddar o'r Three Crows, Caerfyrddin.

Mawrth 5, Thos. Jones, gwestwr, Machynlleth, yn 59 oed.

Ebrill 4, ar enedigaeth plentyn, Mrs. Williams, Ffosygerwyn, plwyf Trallong, swydd Frrcheiniog, yn 26 oed, er galar a cholled i lawer.

Mai 12, yn Aberteifi, yn dra disymwth, Mr. Levi Phillips, llieinydd (*draper*), yn 39ain ml. oed. Mab oedd i'r diweddar Barch. D. Phillips, Blaenywaun. Teimlir colled fawr ar ei ol.

Mae wylofain am Lefi—a'i symud
Disymwth bâr' ofni;—
Ni bu'r tafod yn Aberteifi—heb
Ryw alareb ar awr ei elorl.

Mai 2, yn y Casnewydd, sir Fynwy, yn 91 ml. oed, Mrs. Roberts, mam John Frost, y Chartist alltudiedig.

Mai 1, yn Cadoxton, ger Caerdydd, swydd Forganwg, George Kingdon, mab Mr. Phillip Thomas.

Mai 2, yn 3 bl. oed, John, mab John Lewis, Smith Street, Caerdydd.

Mai 9, yn y Mumbles, ger Abertawe, Ruth, gweddw y diweddar John Lloyd, am lawer o flynyddoedd arolygydd y dollfa yn y lle uchod.

Mai 12, yn Coedcerniw, ger Trecastell, sir Fynwy, yn 8 ml. oed, Edward Prichard, mab y Parch. Morgan Powell, ficer St. Bride gyda Choedcernyw.

Yn ddiweddar, Wm. Jones, Jericho, Caerwen, Mon.

Mai 6, yn 74 ml. oed, Mrs. Elizabeth Williams, Tynewydd, Abergele.

Mai 4, yn 78 ml. oed, Wm. Rowlands, cerbyd-adeiladydd, Beaumaris.

Mai 2, yn 83 oed, yn y Bryn, Llanfair, ger Ruthin, Mrs. Jade Hughes, mam y diweddar E. Jones Hughes, Ysw., Plas Onn.

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library

Paul D. Evans
Dansville, N. Y.

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

### CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] AWST, 1851. [RHIF. 86.

CYNNWYSIAD.


Caru y byd, . . . . . . 183
Cwyn yr Aur yn Nghod y Cybydd, . 184
Rheswm a Greddf, . . . . . 185
Hanes yr Eglwys Gristionogol, . . 187
Pryddest-awdl ar Long-ddrylliad Dynoliaeth, 195
Y diweddar Barch. J. Price, . . . . 195
Ymladdfa waedlyd, . . . . . . . 196
Y Bedweryydd o Orphenhaf, 1851, . . . . 196
Jenny Lind yn Hartford, . . . . . 196
Y ddadl rhwng Llewelyn a J. Thomas, Pottsville, 196
Cyfansoddiadau y Cadeirdraw J Bryan, o Philadelphia, . . . . . . . . 197
Y Gofgolofn yn Summit Hill. . . . 197
Damwain angeuol mewn gwaith glo ger Pottsville, 198
Carchar newydd swydd Schuylkill, . 198
Dirwestwyr mewn Ysgol Sul, . . . . 198
Llafur Ysgol Sabbothol Ebenezer, Coalport; Ohio, 198
Bedydd y Seintiau yn Aberdare, . . 197
Aberdare—Y "Seintiau" a'r Bedyddwyr, . 197
Achos y Bedyddwyr yn Summit Hill a Tamaqua, 200
Talwch gludiad eich llythyrau yn mlaen, . 200
*Gofyniadau*, . . . . . . 200
Minersville, Pa., . . . . . . 201
*Genedigaethau*, . . . . 201
*Priodasau*, . . . . . . . 201
*Marwolaethau*, . . . . . . . 201
Yr Arch-esgob Hughes, . . . . 202

Marwolaethau trwy Enwaedu, . . . . 212

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. . . 202
Ffraingc, . . . . . . . . 202
Rhufain, . . . . . . . . . 202
Y Palas Gwydr yn ddim mewn cymhariaeth, 202
Prwsia, . . . . . . . 203
Portugal, . . . . . . . 203
Algeria, . . . . . . . . 203
Penrhyn Gobaith Da, . . . . . 203
China, . . . . . . . . . 203
*Tywysogaeth Cymru.*—Dygwyddiad hynod yn sir Gaerfyrddin, . 203
" " Aberteifi, . . 204
" " Cynrychioliad Caerdydd, 204
" " Llanelli, . . 204
" " Diddymiad y 'Truck System yn Aberdare, 204
" " Cymanfa Mynwy, . 204
" " " Dyfed, . 204
" " " Ceredigion a Chaerfyrddin, 204
" " Athrofa Pontypwl, 205
" " Caerfyrddin, . 205
" " Llandegfan, . . 205
" " Abergwaun, . . 205
" " Cwmtwrch, . . 205
" " Capel-y-beirdd, . 205
" " Y Garn, . . . 205
" " Llanberis, . . 205
" " *Marwolaethau*, . . 205
" " Eisteddfod Athenaidd Caerdydd, . 206


POTTSVILLE:

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Barddoniaeth, gan Dewi, Ioan ab Iago, a'r Parch. J. P. Harris; Beyrniadaeth Ysgrythyrol eto ar Math. xi., 11, gan Philalethes, Pittston; Helaethrwydd cyfoeth y Saint, gan Brutus.

☞Derbyniasom yn daliad, oddiwrth J. G. Davies, Cincinnati, $10; a $1 am Lyfrau (Bywyd Joseph); Parch. Peter Lloyd, Salisbury, trwy law Mr. J. Thomas Hymn, $2 50; Parch. D. Williams, Thurman, O., $4; Mrs. Richards, gynt o'r Carnarvon Castle, N. Y., $3; Thos. Hopkins, Troy, $3—trwy law Mr. C. Richards; am 1851—John Davies, Bellmont, $1; Thos. Maxy, Beaver Meadow, 75cts.; E. Peters, eto, 50 cts., Thos. Lewis, Flint Creek, Iowa, $3 75.

☞At Mr. T. D. Williams, Calais.—Ni dderbyniasom yr hyn a nodasoch; ond gan i chwi ei anfon yr ydych yn rhydd.

☞CYMANFA DDIRWESTOL SWYDD SCHUYLKILL.—Cynnelir Cymanfa neu Gynghor gan Gyfeillion Dirwest yn Pottsville, dydd Sadwrn, Gorph. 9, er ymgynghori o barth y mesurau goreu i weithredu dan yr amgylchiadau presennol. Dysgwylir nifer mawr o gynrychiolwyr o wahanol gymdeithasau y swydd i fod yn bresennol. Rhoddodd y Cysbwyllawd Darpariadol wahoddiad i'r Cadeirdraw Jas. Bryan, o Philadelphia, ddyfod i fynu i areithio ar yr achlysur; a bwriedir (os gall hebgor yr amser) iddo ymweled â rhai o'r trefydd cymmydogaethol i'w hanerch ar yr un testyn. Cofied y Cymry ddyfod i wrando arno.

☞ESBONIAD J. JENKINS, HENGOED, AR YR HEN DESTAMENT, yn ddwy gyfrol, wedi ei rwymo yn dda, ac heb ei niweidio mewn un modd. Am werth am bris isel, trwy ymholi â golygydd y Seren, neu Mr. J. D. Jones, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

☞Hyderwn y gwna ein dosbarthwyr ymdrech i gasglu y tâl am 1851 yn ystod y mis presennol, yr hyn a duedda i hwylusu ein camrau yn fawr.

☞Gorfu arnom adael rai pethau allan y mis diweddaf a fwriadem eu cyhoeddi, o herwydd diffyg lle, megys Rhesymau Hall yn cael eu hystyried, &c. Mae Hanes yr Eglwys Gristionogol yn cymeryd i fynn gryn le, er fod yr awdwr wedi cyflawnu ei waith yn hynod gyunwysfawr. Mae yn llawer mwy na gwerth y lle a gymera, fel y gwel ein darllenwyr ymchwilgar.

☞Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU—am CATHARINE MEAZY (wrth ei henw morwynol). Daeth i'r wlad hon o ardal Pil, swydd Forganwg. Mudodd yn y llong Jamestown. Glaniodd yn New York Mehefin. 1849, a chlywyd iddi briodi yn ardal Pittsburg. Dymuna Ann Gimblet. ei chyfnither, glywed ei hanes. Cyfarwydder at John Gimblet, Yellow Spring, Dauphin Co., Pa.

*Hefyd—*

Am JOHN GRIFFITHS, gynt o Flaenafon, (ond genedigol o Sir 'Aberteifi, D. C.), mab i David Griffiths, Hatwr, Sirowy. Mudodd i America tua chwech mlynedd yn ol; y lle yr ydoedd pan glywyd oddiwrtho ddiweddaf oedd Turtle Creek, Northumberland Co., Pa. Os gwyr neb o'n darllenwyr rhywbeth am dano, dymunir arnynt yn barchus i gyfeirio at ei gefnder, Evan Griffiths, Carpenter, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

*Hefyd—*

Am WILLIAM POWELL, gynt o Langynidr, swydd Frycheiniog, D. C. Mudodd i'r wlad hon tua phedair neu bum' mlynedd yn ol. Sefydlodd yn rhywle yn y parth uchaf o Illinois. Carai ei hen wasanaethwr, Thos. Phillips, glywed ei hanes. Cyfarwydder unrhyw hysbysrwydd am dano at Thos. Phillips, care of Rev. D. E. Bowen, Carbondale, Luzerne Co., Pa.

*Hefyd—*

Am WILLIAM THOMAS, mab John Thomas (Shon Shon Domos y Pwyswr), o Fleur De Lis, swydd Fynwy. Daeth William i'r wlad hon tua 11 mlynedd yn ol, a bu yn aros am beth amser yn Minersville. Pwy bynag a wyr rhywbeth am dano, dymunir iddynt gyfeirio at Daniel Lewis, Blacksmith, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

---

ESBONIAD Y DR. GILL YN NGHYMRAEG.—Y mae y gwaith ragorol hwn yn awr yn cael ei gyhoeddi yn rhanau gan Mr. Wm. Owen, Caerdydd. Deallwn ei fod allan o'r wasg yn barod hyd yr Epistolau. Mae y Cyhoeddwr wedi cael awgrymiadau oddiwrth rai o Gymry America eu bod am ei gael, ac addawa anfon blychaid yma os bydd galwad, gan fod llongau yn dyfod oddiyno bob mis i America. Dymuna i ryw un cyfrifol gael ei bennodi yn oruchwyliwr.

Er mwyn hwylusu ychydig ar hyn, gall y rhai a chwenychant ei gael anfon atom ni (yn ddidraul) ac yna, os ceir ryw nifer o dderbynwyr, gellir pennodi ryw un addas i dderbyn y tansgrifiadau, a derbyn y llyfrau hefyd.

GEIRIADUR D. SYLVAN EVANS.—Pwy bynag a ewyllysio dderbyn y llyfr hwn hefyd, gallant ei gael cyn hir trwy anfon eu henwau i mewn i olygydd y Seren.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D.D.—Yr ydys wedi argraffu yr atebiad campus hwn i 'ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithwyd ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.


## O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# Y SEREN ORLLEWINOL

CYF. VIII.] AWST, 1851. [RHIF. 86.

## CARU Y BYD.

PAN welodd y wraig degwch y ffrwyth gwaharddedig, hi a estynodd ei llaw yn awyddus idd ei feddiannu, ac mae ei phlant y rhan amlaf yn dueddol i'w hefelychu hyd yr awr hon. Agorant eu llygaid ar y byd, a'r olwg arno a'u denant idd ei geisio fel eu trysor penaf. Mae ei ddull mor ddymunol, yn ei balasau gwych o feini caboledig, a'i leni têg, a'i lestri o arian, aur, &c., nes bydd miloedd yn barod i waeddi allan, "O mor ddedwydd yw preswylwyr yr annedd orwych yna; nid oes arnynt hwy na gofid na galar; ac O na chaem ninau y fath breswylfa, fel y byddem yn wir ddedwydd mewn byd o ofid." Pan yn meddwl ac yn hiraethu fel hyn, dacw brydydd myfyrgar yn nesau, a mwy o wybodaeth yn ei siol na mil, ac wedi edrych o'i gwmpas, a gosod ei delyn mewn hwyl, efe a ganodd fel yma:

"Y palas godidog, uchelfrig, gwych, draw
Gaf wel'd yn llawn llwybrau y gofid a'r braw;
Tra llu arno'n syllu mewn syndod dilyth,
Yn nghronglwyd y fangre gwaeth gofal ei nyth."

O mor dêg yw y byd! Mae y dyffryn meillionog lle y pora yr anifeiliaid, lle y chwery yr wyn diniwaid, a lle y tyf y coed cysgodfawr, yn hardd. Draw wele y llynoedd, lle mae y pysg yn chwareu, a'r elyrch yn nofio yn araf. Dacw y meirch calonog yn rhedeg, a'r gyrwr mor ddu a siaced y gweinidog boreu y Sabboth. Yn wir, mae y gwragedd, y merched, a'r hil yn hardd, a phwy galon na waedda allan, "Rhagor o'r byd!"—Edrychwch ar yr ardd yn ymyl y palas—mae ynddi luoedd o blanhigion heirdd, a rhai o bell—ynddi y tyf y llysiau pêr, ar ba rai y mae y blodau yn ymddangos, nes llawenhau a llanw y meddwl â syndod, yn fil mwy cywrain na "Ffair y Byd yn Llundain yn 1851!" Wele y winwydden yn ymgynnal ar y mur! Mewn harddwch mawr mae y boneddwr a'i eiddo yn rhodio o lwyn i lwyn, gan sylwi gyda gwên ar ei berllanau ffrwythlawn; ac yn yr olwg llu a ddywedant, "O mor anwyl yw y byd; rhaid i ni gael ychwaneg o hono beth bynag fyddo yn ol." Yn araf dacw wr pwyllog yn nesáu, ac yn mwmlan canu yn debyg i hyn:

"Anneddau mawreddig a rhodres y byd,
Boddlonrwydd a garaf yn well na chwi gyd:
Ar fer derfydd bywyd, ac oes megys hûn,
Ychydig, pe gwelci, sydd ddigon i ddyn."

Heblaw fod pethau y bywyd presennol yn harddu eu meddiannydd, maent hefyd yn ei ddyrchafu i fod yn hynod synwyrol yn ngholwg miloedd. Y bobl gyfoethog ydyw pobl gall Lloegr, ac i raddau dyma fel y mae yn yr Unol Dalaethau! Ystyrir synwyr llawer yn eu haur, eu harian a'u hetifeddiaethau. Dyna fel oedd Job (42. 10, 11.)

Mae cenfigen yn codi syched am ddyrchafiad. Bydd y gwr yn gweled eiddo arall yn rhagorach, a'r wraig a genfydd wisg y foneddiges gyfagos yn decach a dysgleiriach na'r eiddo hi; am hyny, er mwyn ymddyrchafu yn uwch nag eraill, cydunant i floeddio, "O am gryn lawer yn fwy o'r byd i ni."

Awydd am ddyrchafiad bydol fu yn achos i'r Iuddewon i wrthod y Messia. Er mwyn arian y gwerthodd Judas ei Arglwydd. Demas a adawodd grefydd, "gan garu y byd presennol." Ananias a Sapphira a "ddywedasant gelwydd wrth Dduw;" ac fe'u lladdwyd am eu hymddygiad; a'r achos o'r trosedd oedd cariad gormodol at "werth y tir." Pwy a ddywed wrth sylwi ar y darluniadau uchod, a lluoedd o'u cyffelyb a geir yn y Beibl, Diwedd dedwydd sydd i'r rhai a fawr awyddant am bethau daearol? Er mwyn enill y byd y cedwir y tafarndai, lle y cymhwysir miloedd i golledigaeth yn flynyddol, ac y cedwir caethiwed truenus er cael arian, trwy osod miliwnau i weithio yn galed, a chadw eu cyflogau mewn modd anghyfiawn.

Beth yw yr achos o'r ysbeiliadau ar dir a môr? onid awydd am y byd. Gwneir pob ymdrech gan garwyr trysorau natur yn fwy na phob peth arall i gyrhaedd eu dymuniad. Fe dwyllir mewn pwysau a mesur, fe wneir cam â'r diniweid, fe ddygir cam-dystiolaeth, er gwaethaf holl rybuddion cydwybod, heb feddwl ond ychydig am y dydd i roddi cyfrif am yr ymddygiad. Priodol yw gwrando pa beth a ddywed "Callineb Cristionogol" am dlodi a chyfoeth, sef, "Dylem ni, sydd heb haeddu dim, fod yn foddlon ar rhywbeth." "Nid oes eisiau rhai pethau ar y dyn tlawd: ond y mae eisiau pob peth ar y dyn cyfoethog."

O bawb cybyddlyd, y cybyddion crefyddol a gaseir fwyaf. Dywedai un, "Yr ydwyf gyda chrefydd er ys pum' mlynedd ar ugain, ac nid yw wedi costio i mi mewn hyny o flynyddoedd bum' cent ar ugain." Syndod fod y fath gybydd wedi llechu yn yr eglwys trwy yr holl amser heb gyfranu dim. Pe gwelai y gwr hwnw fod yn dda i dalu ymweliad â gwahanol sefydliadau Cymreig y Talaethau Unedig i draddodi darlithoedd, er dangos pa fodd y dygai efe ei gynlluniau yn mlaen, nid ydym yn ameu na chei ef wrandawiad astud iawn gan lawer. Mae yn gofus genym i ni glywed am Gymro cybyddlyd yn y wlad hon yn cyfranu at y Gymdeithas Feiblaidd. Pan oedd llawer wedi ymgasglu yngbyd er mwyn anog a chyfranu, awd o'r diwedd at alw yr enwau a derbyn yr addewidion. Yr oedd yn mysg y dyrfa un a ystyrid yn addas i gael teitl D. D. mewn cariad at y byd, ac am hyny sylwai un arno mewn ffordd o gywreinrwydd. Pan ddechreuodd y rhai oedd yn gyfeillion i'r achos daionus nesau at y bwrdd, gan osod eu rhoddion o'u dwylo yn ewyllysga, nid oedd ef yn ymddangos mewn un modd yn siriol. Yr oedd efe wedi addaw dolar. Gosododd ei law yn ei logell, gan droi y ddolar yn ei ddwrn yn hir; o'r diwedd fe alwyd Mr.——, a gallesid meddwl i'r gair gyrhaeddyd ei holl deimladau. Ond fe gododd ar ei draed, ac a nesaodd yn araf o gam i gam at y bwrdd; ac yna tynodd ei law a'r dolar arall, fel pe tynasai nes tori rhai *nerves* yn ei gyfansoddiad; yna fe drodd ei gefn ar y bwrdd, ac a estynodd ei ddolar tu ol i'w gefn, heb obaith ei weled mwyach, a'i galon ar dori. Yn amser yr apostolion gadawai llawer eu tai a'u tiroedd er mwyn canlyn Crist, eithr y mae rhai mor annedwydd a gwneud yn wahanol yn yr oes hon, sef gadael crefydd er mwyn y byd. Cyn hir fe ddaw amgylchiad ag y try y byd ei gefn ar ei feddiannydd, gan ei anerch, "Ffarwel, dim yn mhellach." Rhaid i'r cyfoethog adael ei drysorau ar ol, heb wybod pwy a'u meddianna, nac i ba beth. Pan fydd y gwr eang ei olud yn ofidus yn ei oriau olaf (ac felly y mae yn aml), yn ceisio gwneud ei ewyllys, bydd y tlawd yn rhydd oddiwrth y cyfryw drafferth, ac yn cael llonydd i farw. Yn lle bod yn rhy awyddus am bethau amserol, ymofynwn am y cyfoeth sydd yn nghadw yn y nefoedd. Llefwn am feddu trysorau dialw yn ol, sef bendithion grasol Duw yn ei Fab, er iechawdwriaeth. Nid caru y byd o flaen dim arall yw gwaith pobl Dduw ar y ddaear. Priodol yw cofio y dywediadau canlynol:

"Cael cyfran o'r byd sydd drugaredd, ond cael y byd yn brif ran sydd drueni."

"Dylem ymdrechu cwtogi ein blys yn fwy na chwanegu ein cyfoeth."

*Pittsburg.* IORWERTH.

## CWYN YR AUR YN NGHOD Y CYBYDD.

TEULU Gwalia, dewch yn ufudd, Ar hyd y nos,
Rho'wch eich clust wrth god y cybydd, Ar hyd y nos;
Mawr mor oer yw cwyn yr arian,
'Raur yn uchel sydd yn tuchan
O fewn cod y cybydd aflan, Ar hyd y nos.

Gwel'som amser tra chysurus, Ar hyd y nos,
Medd yr aur yn bur alarus, Ar hyd y nos;
Pan yr oeddem 'nol ein helfen
Gynt yn ddiball mewn da ddyben,
Gan y gwr fn'n rhoi elusen, Ar hyd y nos.

Dyma ddyben ein gwneuthuriad, Ar hyd y nos,
Gwneud o ddifrif les yn ddifrad, Ar hyd y nos,
Teithio'n ddiflin heb un aflwydd,
Treulio'n hoes mewn dyddiau dedwydd
Gan y dynion haelion hylwydd, Ar hyd y nos.

Ond yn awr 'rym mewn caethiwed, Ar hyd y nos,
Goleu'r dydd nis gallwn weled, Ar hyd y nos;
Yma'n gorwedd megys meirwon
O fewn cod y crinwas creulon,
Och! mor galed yw ei galon, Ar hyd y nos.

Yma'n erwin gwnaeth ein harwain, Ar hyd y nos,
Y mae achos i ni ochain, Ar hyd y nos;
Gan lym 'winau'r cybydd anwar,
Ni a gyrchwyd mewn i'w garchar,
Mwy nis gallwn rodio daear, Ar hyd y nos.

Dyma ladd ein holl gysuron, Ar hyd y nos,
I fod pawb yn rhodio n rhyddion, Ar hyd y nos;
Ninau'n wban yn anniben,
Beth dal gwadu, yn ei goden,
Methu'n deg a gwel'd yr haulwen, Ar hyd y nos.

Y mae ofn yn ein calon, Ar hyd y nos,
Y delir chwi y rhai sy'n rhyddion, Ar hyd y nos,
Os na wyddoch am ei ddichell,
Sefwch draw heb fod yn nepell
Rhag eich cwain mewn i'w gawell, Ar hyd y nos.

Nid oes yma ond tywyllwch, Ar hyd y nos,
O fewn cod yr hen anferthwch. Ar hyd y nos;
Mawr yw'r poen sydd yma'n oestad,
Mawr yw'r rhwd sy'n llychu'n dillad.
Am hyn daw gwae i'r cybydd anfad, Ar hyd y nos.

Os yr 'ych am ei adnabod, Ar hyd y nos,
Genym cewch ei nodau'n barod, Ar hyd y nos;
Dyma'n hollol ddull ei ddillad,
Hoffus yw gael llodrau lladrad,
Hugan dew o wlan du'r ddafad, Ar hyd y nos.

Mae ei ddwylaw'n hyll a blewog, Ar hyd y nos,
Mae yn hoffi bod fel llwynog. Ar hyd y nos,
Rhedeg draw a rhedeg yma
Ar ol cyfoeth, nes ei ddala,
Y cybydd cas, ni wel 'mo'i wala, Ar hyd y nos.

Pe cai'r byd i gyd yn gryno, Ar hyd y nos,
Byddai' wange am ragor eto, Ar hyd y nos,
Gan ei drachwant am yr arian,
Cael y cwbl iddo ei hunan,
Nid oes lonydd iddo hepian, Ar hyd y nos.

Gan ei awydd gas drachwantus, Ar hyd y nos,
Mae ei ysbryd yn anfoddus, Ar hyd y nos;
B th a wnaf, medd ef yn gyson,
Am gael aur ac arian ddigon,
Dyma dduw a garai 'nghalon, Ar hyd y nos.

Dyma ddull y cybydd creulon, Ar hyd y dydd,
Pan yn prynu mul neu eidion, Ar hyd y dydd,
Myn y rhai'n y pris iselaf,
Fu llawn werth (medd ef) ni thalaf,
Rhag i'm coden gael y gwaethaf, Ar hyd y dydd.

Ei weled cewch pan fyddo'n gwerthu, Ar hyd y dydd,
Pris uchelaf fyn pryd hyny, Ar hyd y dydd;
Hoffa ddadleu d wrnod cyfan,
Nes bod yn ofid iddo'i hunan,
Er mwyn llanw'i god o arian, Ar hyd y dydd.

Ac fel yna mae mewn ffwdan, Ar hyd y nos,
Yn addoli'r god a'r arian, Ar hyd y nos:
Heb ystyried ei fod beunydd
Hwyr a boreu'n casglu tanwydd,
Rhai a'u poenau yn dragywydd, Ar hyd y nos.

Dyma rhai o nodau'r cybydd, Ar hyd y nos,
Synwch, ciliwch rhagddo beunydd, Ar hyd y nos,
Rhag ar ddamwain i'r un creulon
Ddod fel barcut ar y cywion,
Eich dal a'ch gosod yn y cyffion, Ar hyd y nos.

Pedwar peth ddymunwn weled, Ar hyd y nos,
Gwel'd y byd i gyd yn ungred, Ar hyd y nos,
Gweled maddu pawb o'r meddwon,
Gwel'd difrodi pob afradlon,
A gwel'd boddi'r holl gybyddion, Ar hyd y nos.

*Blakeley.* Cyf. DANL. LEWIS.

☞ Nid yw y cyfiwynydd wedi roddi enw yr awdwr yn ei lythyr.—GOL.

## RHESWM A GREDDF.

TRADDODWYD tair darlith yn ddiweddar gan Mr. Rumball yn y Sefydliad Colegawl yn Llynlleifiad, ar "Reswm a Greddf, neu y gwahaniaeth dealldwriaethol rhwng Dyn ac Anifail." Ystyrir y ddarlith ddiweddaf yn un o'r rhai goreu a draddodwyd erioed ar y mater, ac yn brawf o feddwl o'r radd uchaf. Nid yw ein terfynau yn caniatau i roddi ond y dyfyniad a ganlyn o honi:

Mae gan bob anifeiliaid amgyffred a theimlad; mae y rhan fwyaf o honynt yn medru gweled; ac y mae llawer o honynt yn clywed, yn archwaethu, ac yn arogli. Y rhai hyn ydynt weithrediadau dealldwriaethol, ac nid yw dyn yn dangos dim rhagoriaeth ar y ci neu yr epa yn yr ystyr hyn; ie, mewn bywyd gwareiddiedig, y mae yn syrthio yn mhell yn ol iddynt yn mywiogrwydd a chyfiymdra ei synwyrau. Anifeiliaid, yn neillduol y graddau uchelaf o honynt, ydynt yn dyfod mor berffaith adnabyddus â phriodoliaethau corfforol defnydd â dyn ei hunan. Maent yn dangos eu bod yn amgyffred ffurf, maintioli, pwysau, a lliw gyda'r manyldeb mwyaf; maent yn cofio am leoedd a dywyddiadau; gwrandawant ar swn, ac y mae ganddynt glustiau peroriaethol; maent yn ymwybodus o'r amser sydd yn myned heibio; maent yn feddiannol ar allu i gydosod a chyfrif pethau i ryw radd, er fod hyny yn cael ei wadu gan Spurzheim. Ond y mae yn sicr fod ci yn barod i ymladd ag un ci, tra y mae yn rhedeg ymaith oddiwrth ddau; gan hyny y mae yn gwybod fod dau yn fwy nag un, ac y mae hyn yn agos yn gyfartal â gwybodaeth rhai anwariaid, y rhai nis gallant gyfrif yn mhellach na phedwar, tra y mae y cyfrifyddion galluog yn ein plith ni yn medru braidd lunosogi sêr y nefoedd wrth dywod y môr, a dywedyd wrthym y cyfanswm. Yn mhlith y galluoedd amgyffrediadol, gan hyny, ymddengys mai rhif, amser, ac efallai trefn, yw yr unig rai sydd wedi cael eu cyfranu i raddau mwy helaeth i ddyn nag i anifail. Drwy weithrediad y galluoedd hyn y mae gwybodaeth yn dyfod i'r meddwl; a pha beth ydym ni yn wneuthur o hono wedi hyny? Y gwahanol bethau o ba rai y gwneir i fynu y wybodaeth hon a gyfansoddant gynnifer a hyny o *feddylddrychau*, ac yr ydym yn awr yn dechreu ymresymu oddi wrthynt. 'Mewn ymresymu, meddai Locke, y mae pedair o raddau; yn gyntaf, dadguddio a chael allan brofion; yn ail, eu trefnu yn rheolaidd; yn drydydd, amgyffred eu cydgysylltiad; ac yn bedwerydd, dyfod i benderfyniad cywir.'— Eto, 'Rheswm yw y gynheddf hono drwy ba un y tybir fod dyn yn cael ei wahaniaethu oddiwrth anifeiliaid, ac yn yr hyn beth y mae yn eglur ei fod yn rhagori yn mhell arnynt.'

Mae yr amser yn rhy brin i chwilio y gosodiadau hyn; ond rhaid sylwi fod Locke yn amen y gwahaniaeth tybiedig rhwng dyn ac anifailiaid, ac nid yw ond haeru fod 'ein rheswm ni yn rhagori yn mhell ar yr eiddynt hwy,' yr hyn yw y pwngc sydd yn awr dan ein sylw. Beth ydym ni yn wneuthur pan yn ymresymu? Yr ydym yn cymeryd dau neu ychwaneg o'n meddylddrychau, ac yn eu cymharu â'u gilydd. Nis gallwn gymharu un meddylddrych â'r meddylddrych hwnw ei hunan, ond â rhywbeth arall. Er engraifft, gallaf gydmaru rhai ranau o'r cwpan hwn â rhanau eraill, neu yr holl gwpan â chwpan arall. Ond nis gallaf gydmaru y cwpan oll ag ef ei hun. Ac wrth gydmaru, yr wyf yn ymdrechu cael allan yn mha bethau y mae gwrthddrychau yn cytuno, yn ol fy meddylddrych i am danynt,—yn mha bethau y maent yn gwahaniaethu, a phaham. Wele, ynte, dair cynheddf, sef un o olrhain gwahaniaethau, a elwir gan feddyl-ddadlunwyr (*phrenologists*) yn gymhariaeth, ond a

ddylid ei enwi y gallu i ddosranu; yn ail, y gallu i olrhain tebygoliaethau, neu y gynheddf i amgyffred cydweddiadau, a gamenwir yn arabedd; a'r drydedd, y gynheddf o amgyffred achos ac effaith, neu edrych drwy natur i fynu at Awdwr natur,—y rhai hyn a gyfansoddant ein holl alluoedd ymresymiadol. Ac y maent yn cael eu gosod ar waith yn mhob perthynas o eiddo y meddwl—i wahaniaethu pren oddiwrth gareg, tŷ oddiwrth ddyn, daear oddiwrth ddwfr, a thywod oddiwrth y llaid. Drwy y galluoedd hyn y mae y lloerig tlawd yn adnabod ei ymborth, drwyddynt hwy y mae yn myned i'w wely, ac yn ymdwymo wrth y tân; a thrwyddynt hwy, a hwy yn unig, y darfu i Newton ddilyn y planedau yn eu cylchoedd, olrhain y seren wib yn ei henciliad pellaf, dangos fod golosg a diamwnt yn un sylwedd, a bod yn bosibl llosgi dwfr.

Ai dyn yn unig, ynte, sydd yn ymresymu? Ai greddf yw unig gynysgaeth yr anifail? Beth yw greddf?

Greddf yw y duedd i wneud, a'r gallu i wneud, yr un modd ag oedd y cyn-rywiau yn gwneud bob amser yn flaenorol, yn ddiwahaniaeth, ac yn ddigyfnewidiad. Mae greddf wedi cael ei darlunio yn dra chywir fel 'gwybodaeth cyn ymbrawf.' Yr adar a adeiladant eu nythau, oll yn ol eu rhywiau, o'r un defnyddiau, ac yn yr un dull: a hyn hefyd heb un addysg, ac heb weled y fath o'r blaen. Mager y ceiliog du, y wenol, neu y fronfraith, ar gotwm mewn cawell,—gadawer hwynt allan yn rhydd, ac yn y gwanwyn dyfodol, ceir gweled y fwyalchen yn amgylchu ei nyth â gwair, y fronfraith â chlai, a'r wenol a gluda laid o'r llyn neu yr afon gyfagos i adeiladu muriau ei thŷ cywrain. Prif briodoliaeth greddf yw bod yn ddiwelliant ac annysgadwy. Mor berffaith y bu erioed, ac y mae yn parhau, yn ei holl weithrediadau, fel y credai y dysgedig Syr Isaac Newton, mai Ysbryd Duw ei hun sydd yn cyfarwyddo adenydd a gylfinau yr adar, canys nis gellai un ail achos fod mor anffaeledig.

Prif briodolaeth rheswm yw, ei fod yn 'wybodaeth *wedi* ymbrawf;' y mae yn cael ei wneud i fynu trwy gymharu ffeithiau ac olrhain eu perthynasau. Mae yn tyfu gyda'n tyfiant, ac yn cynyddu gyda'n cryfder ni; nid yn unig gellir ei ddysgu, ond drwy ddysgu y mae yn ymeangu; tra nad yw greddf fyth yn cyfeiliorni. Mae rheswm yn gynyddol; ond y mae greddf yr un peth yn mhob oes. Mae rheswm yn annherfynol, greddf yn derfynol. Mae pob dyn yn dysgu ymresymu, ond y mae greddf yn cael ei phlanu yn modolaeth y creadur. Fel yr ydym yn esgyn ar hyd y radden anifeilaidd, yr ydym yn cael fod greddf yn myned yn llai eglur a galluog. Tra y mae y morgrugyn, y pryf-gopyn, a'r wenynen, yn gynddelwau ardderchog o effeithioldeb greddf, nid yw y cawrfil, y ci, a'r epa yn arddangos braidd un arwydd o hono. Pa synwyroldeb sydd gan y rhai hyny, ynte? Rheswm, wrth gwrs; fel hefyd y mae gan y wenynen, y pysgodyn, a phob creadur sydd yn meddu ymenydd. Greddf a ddyweda wrthynt pa beth i'w wneuthur; rheswm a'u hysbysant pa fodd i'w wneuthur. Y wenynen a weithia ei chell yn chwe'-ochrawg,—a eheda oddiwrth rai blodau at flodau eraill,—a heia weithiau ei mêl â'i chrwybr, oll drwy effaith greddf; ond rheswm sydd yn dangos iddi y ffordd: nid yw fyth yn taro ei hun yn erbyn tai a choedydd, mae yn cymharu un cwch neu lestr â llestr arall, ac yn myned i mewn i'r un iawn, gan ochelyd y llall—mae yn adnabod y begegyr oddiwrth y wenynen weithgar, yn noddi ac yn amgeleddu y naill, tra y mae yn erlid ac yn dystrywio y llall.

Onid yw y cawrfil yn cael ei ddysgu? onid yw yn ymresymu, pan y mae yn dal allan ei ddimai â'i dduryn, ac yn crio am deisen? pan y mae yn saethu yr ergyd o'r llawddryll, ac yn agor byllt y drysau? Onid yw y peneuryn yn dysgu y ffordd i dynu dwfr i'w gawell i ddiwallu ei hun, a'r ci yn myned ar orchymyn ei feistr i gyrchu adref y ddeadell, neu i'w gwylio, fel y byddo yr achos yn gofyn? Hyd y nod y mochyn, a ellir ei ddysgu i dynu allan un garden yn hytrach na'r llall drwy adnabod llais cyfarwyddol ei feistr.

Ond y mae yn rhaid i ni gael tystiolaethau o ymresymiaeth ddwys a neillduol; nid ydym yn ymfoddloni ar ddangosiad o'r galluoedd cymhariaethol a wnant i'r ci 'wylio ei feistr rhag taro yn erbyn post, neu syrthio i'r ffos,' ac a wnant i'r ceffyl fyned i mewn i'r marchdy pan fyddo y drws yn agored, a pheidio gwneud y cynnyg pan fyddo y drws yn gauad. Yr ydym yn gwrthod yr enw rheswm i'r gweithrediadau meddyliol hyny a wnant i'r oen bach ffoi oddiwrth y ci sydd wedi ei glwyfo at ei fam sydd wedi ei noddi a'i amddiffyn; ac yn galluogi y ddafad i adnabod ei hoenig ei hun yn mhlith deng mil o rai eraill. Huber a sylwa, fod gwenyn yn wastad yn dechreu adeiladu eu diliau yn mhen uchaf y llestr, ond nis gallant adeiladu tuag i fynu. Crybwylla i'r gwynt unwaith ysgwyd un o'r llestri, a rhyddhau un o'r diliau, yr hon a syrthiodd; y gwenyn yn ddioed a'i sicrhasant rhwng y rhai eraill, ac aethant yn brysur i weithio, a chadarnasant gydiadau yr holl ddiliau eraill, rhag i'r gwynt eu rhyddhau hwythau hefyd. *Cyf.* S. E.

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### Y TRYDYDD CANRHIF.

AR ddechreuad y canrhif hwn yr oedd Cristionogaeth wedi ymdaenu yn dra helaeth drwy holl derfynau yr ymerodraeth Rufeinig, er cymmaint yr erledigaethau oedd wedi cymeryd lle yn y canrhif o'r blaen, a nifer fawr o ddynion dylanwadol wedi dei byn yr efengyl. Ond wedi y cyfan, yr oedd cyflwr y Cristionogion yn drallodus, gan fod cyfreithiau gwawdlyd yn bodoli yn eu herbyn, a'r swyddogion yn barod i wrandaw achwyniadau yr offeiriadaeth baganaidd; er nad oedd erledigaeth gyffredinol yn ffynu oddiar esgyniad Commodus i'r orsedd, nes tua y ddegfed flwyddyn o deyrnasiad Severus. Yr oedd Severus yn cael ei gyfrif yn ymerawdwr gwell na llawer eraill yn nechreuad ei deyrnasiad, ond gwaethygu a wnaeth cyflwr y Cristionogion yn fuan wedi ei esgyniad; ac ynghylch y flwyddyn 203, gwnaeth gyfraith i atal pawb o'i ddeiliaid i newid eu crefydd am Iuddewaeth na Christionogaeth, ac agorodd hyn ddrws i'r hyn a elwir y bumed erledigaeth. Er nad oedd y gyfraith hon yn collfarnu y Cristionogion am eu bod felly yn barod, ond yn amcanu atal ychwanegiad eu rhif, eto hi a roddodd achlysur i'r swyddogion gwangcus i erlid y Cristionogion tylodion hyd farwolaeth, er mwyn rhwymo y rhai mwyaf cyfoethog i brynu eu rhyddid ar draul eu meddiant. Parhaodd yr erledigaeth hon ynghylch wyth mlynedd; ac yn ei thymor merthyrwyd nifer fawr o Gristionogion; ac yn eu plith Leonidas, tad yr enwog Origen, am yr hwn y soniwn yn ol llaw; Victor, bugail eglwys Rhufain; Irenæus, bugail eglwys Lyons, yn Ffraingc; a'r gwragedd enwog Perpetua, a Ffelicitas, yn Carthage, ynghyd a llu o rai eraill nad oedd y byd yn deilwng o honynt.

Mae yn amlwg i'r erledigaeth hon ymdaenu drwy yr holl ymerodraeth, oddiwrth y gwahanol wledydd yn y rhai y merthyrwyd yr enwogion, am ba rai y mae hanes wedi dysgyn i'n dwylaw ni; ond dywedir mai yn yr Aifft a pharthau eraill o Affrica, a thalaethau Asia, y bu y dyoddefiadau mwyaf erchyll. Yr oedd y Cristionogion y pryd hyn mor lluosog, fel y dywed Fox fod merthyron yr erledigaeth hon yn aneirif; ac er cymmaint oedd yn selio eu tystiolaeth â'u gwaed, cynyddu yr oeddent o hyd, yn ol tystiolaeth yr ysgrifenwyr boreuol, fel mai nid peth anghyffredin oedd i rai ddyfod allan wrth ganfod gwrolder y merthyron, i'w cyduabod eu hunain yn Gristionogion, ac i ymostwng i'r un creulonderau, gan gredu y derbynient goron y bywyd, yr hyn a farnent o fwy gwerth na mwyniant yr holl fyd.

Ar farwolaeth Severus, yn y flwyddyn 211, esgynodd ei fab Caracalla i'r orsedd, yr hwn a deyrnasodd am chwech mlynedd, ac yn ystod ei lywodraeth ni fu yn euog o aflonyddu y Cristionogion ei hun, na goddef i eraill wneuthur hyny. Canlynwyd ef gan Heliogabalus, un o'r ymerawdwyr mwyaf ynfyd a eisteddodd erioed ar orsedd Rhufain; ond ni bu ei deyrnasiad ond tua thair neu bedair blynedd, ac nid ym yn cael iddo ymyryd dim ag achos y Cristionogion. Wedi i'r milwyr ladd Heliogabalus, dysgynodd y llywodraeth ar ysgwydd Alexander Severus, yr hwn a fu yn ymerawdwr rhinweddol iawn am dairblynedd-ar-ddeg. Mae yn wir na ddileodd Alexander y cyfreithiau oedd yn bodoli yn erbyn y Cristionogion, ac o herwydd hyny i rai gael eu merthyru yn ei deyrnasiad; ond er hyny mae yn hysbys ei fod yn ffafriol iawn iddynt, ac yn hynod o barod i'w hamddiffyn pan fyddai cyfleusderau yn ymgynnyg; ac mae rhai yn dywedyd iddo fyned mor belled â thalu rhyw fath o addoliad i awdwr Cristionogaeth, a chyfrifir hyn yn effaith yr addysg oedd wedi ei dderbyn oddiwrth ei fam, Julia Mammæa, yr hon oedd yn coleddu barn barchus am y grefydd Gristionogol, ac wedi gwrandaw yn awyddus ar Origen, pan yn Antiochia yn esbonio gair y bywyd. Barn yr hanesyddion yw, fod Alexander a'i fam yn edrych ar y grefydd Gristionogol gyda llawer o gymeradwyaeth, ac yn ei barnu yn deilwng o ymgeledd uwchlaw pob crefydd arall.

Yr oedd yr eglwys yn awr wedi mwynhau mesur anarferol o dawelwch am tua phedair-blynedd-ar-ugain; ond ar farwolaeth Alexander Severus, yn y flwyddyn 235, cyhoeddwyd Maximin yn ymerawdwr, drwy ewyllys y milwyr yn hytrach na thrwy awdurdod y senedd; ac yn fuan cyfododd y chweched erledigaeth yn erbyn y Cristionogion. Yr achos o'r erledigaeth hon oedd fel y canlyn:—Yr oedd Maximin wedi anog y fyddin i ladd Alexander, yr hwn yn holl ystod ei deyrnasiad oedd yn ymgeleddwr tyner i'r Cristionogion, a than ei nawdd yr oeddent wedi cyrhaeddyd mesur mawr o ddylanwad a chyfrifoldeb. Yr oedd Maximin gan hyny mewn dychryn rhag i'r Cristionogion afaelu mewn rhyw gyfleusdra i ddial marwolaeth eu hymgeleddwr; ac er atal hyny, dygodd gyfreithiau i weithrediad yn benaf yn erbyn y gweinidogion, neu yr esgobion, fel y gelwid hwy yn gyffredin yn y canrhif hwn. Yr oedd Alexander wedi eu trin fel ei gyfeillion, ond yn awr yr oedd pob ymgais yn cael ei wneuthur i'w cymeryd a'u dyfetha yn y modd mwyaf erchyll a didrugaredd. Ac er mai yn erbyn esgobion a blaenoriaid yr eglwysi yr oedd y cyfreithiau wedi eu hamcanu, cymerodd y swyddogion paganaidd achlysur i lofruddio y Cristionogion yn ddiwahaniaeth drwy yr holl dalaethau; ond nid hir y parhaodd y dymhestl hon, oblegyd ni bu teyrnasiad y gorthrymwr, yn ol tystiolaeth Fox, ond tua thair blynedd; eithr y mae rhai yn gwneuthur y tymhor ryw faint yn rhagor; fodd bynag, mae yn sicr i filoedd gael eu torri ymaith yn ystod ei lywodraeth am achosion gwladol, yn gystal ag am eu proffes grefyddol, ac yn eu plith nifer fawr o'r teuluoedd mwyaf cyfrifol yn Rhufain.

Pan esgynodd Gordian i'r orsedd, cafodd yr eglwys dawelwch drachefn, ac nid ydym yn clywed i un ymgais gael ei wneud yn erbyn

y Cristionogion yn y chwech mlynedd y bu yn teyrnasu; a phan esgynodd Philip cawsant ymgeledd ychwanegol, oblegyd yr oedd ef, a'i fab o'r un enw mor ffafriol iddynt, fel y mae llawer o'r hanesyddion hen a diweddar yn honi eu bod ill dau wedi coffeidio Cristionogaeth, a'u bedyddio i'r ffydd yn ddirgel; ond nid yw hyny yn ymddangos yn beth penderfynol: fodd bynag, y mae yn ddiameus eu bod yn haelfrydig i ganlynwyr Crist, ac yn gyfeillgar iawn â llawer o flaenoriaid yr achos; ond tua phedair blynedd y parhaodd eu teyrnasiad, ac mae lle i feddwl fod crefydd wedi dirywio yn fawr yn yr amser hyny, er fod proffes o honi wedi cynyddu, fel y gwelwn oddiwrth y gwrthgiliadau a gymerasant le yn nhymor yr erledigaeth nesaf.

Yn y flwyddyn 250, esgynodd yr ymerawdwr Decius i'r orsedd, pryd y cymerodd y seithfed erledigaeth le. Yr oedd cyfreithiau Decius yn erbyn y Cristionogion yn fwy llym na dim oedd o'r blaen wedi bod mewn grym, oblegyd yr oeddent yn rhwymo y swyddogion, dan boen marwolaeth, naill ai i'w dinystrio drwy yr holl dalaethau yn ddieithriad, neu eu gorfodi drwy arteithiau o amryw fath i droi yn ol at eilun-addoliaeth y paganiaid. Er na pharhaodd y trallod hyn ond o ddwy i dair blynedd, merthyrwyd nifer fawr o Gristionogion ffyddlawn, a hyny yn y dull mwyaf erchyll a allasai y gelynion ddyfeisio. Ond y peth mwyaf galarus yn hanes yr erledigaeth hon yw nifer y gwrthgilwyr a wadasant eu proffes mewn cydmariaeth i'r hyn oedd wedi dygwydd dan yr erledigaethau o'r blaen. Mae yn wir, yn ol gorchymyn yr ymerawdwr, fod yr arteithiau a ddefnyddid yn arswydus i natur, a'u bod yn cael eu delnyddio yn y ffordd fwyaf tebyg i orchfygu gwroldeb y dyoddefwyr, ac fod hyny i ryw fesur yn rhoddi cyfrif am y cwympiadau yn ol a gymerasant le. Ond barnwn fod achos arall yn bodoli. Yr ym wedi nodi yn barod, fod Cristionogaeth yn gymeradwy yn y llys yn amser Alexander Severus, a'i bod dan y nawdd ymerodrol yn amser Philip a'i fab, ac nid peth rhyfedd os ymlysgedd dynion diegwyddor i'r eglwysi yn y tymhor hwnw, nad oeddent yn meddu ar fodd i sefyll yn y dydd drwg, ac i aberthu eu bywydau o blaid eu proffes; fodd bynag, sicr yw i nifer fawr wadu eu proffes, ac i hyn achosi braw mawr yn mhlith y ffyddloniaid yn gyffredinol.

Yn y flwyddyn 254 y cyrhaeddodd Valerian yr orsedd, pryd y cafodd yr eglwys Gristionogol dawelwch am bum' mlynedd, yr olwg ar bethau yn ddisymwth ac annysgwyliadwy. Yr oedd yr ymerawdwr wedi dewis dyn o'r enw Macrianus yn gyfaill mynwesol iddo, ac yn cymeryd ei arwain ganddo yn holl fesurau ei lywodraeth, ac yr oedd hwn yn bagan selog, ac yn goel-grefyddwr penboeth. Ar ddymuniad hwn cyhoeddodd yr ymerawdwr gyfraith i atal y Cristionogion i gynnal neb cyfarfodydd, ac i alltudio pawb o'u hesgobion a'u hathrawon; a chanlynwyd hon gan un arall mwy llym yn eu herbyn, ac yn y canlyniad merthyrwyd nifer fawr drwy yr holl ymerodraeth, ac yn eu plith yr ym yn cael Cyprian, esgob Carthage, a [illegible]yd i farwolaeth drwy dori ei ben; Sixtus, esgob Rhufain, yr hwn a groeshoeliwyd, a Laurentius, diacon a olosgwyd ar dân marw, ond dyoddefodd fel un yn gweled yr anweledig. Ni pharhaodd yr erledigaeth hon ond ynghylch tair blynedd, a chafodd ei therfynu drwy i'r ymerawdwr gael ei gymeryd yn garcharor wrth ryfela â'r Persiaid, pryd yr adferodd ei fab Gallienus fesur o ryddid ac heddwch i'r Cristionogion. Bu Gallienus yn llywodraethu am wyth mlynedd, ac yn y tymhor hwnw yr oedd cyflwr y Cristionogion yn ddyoddefol, er nid yn ddedwydd; ac felly hefyd yr oedd yn nheyrnasiad ei ganlyniedydd Claudius, yr hwn a deyrnasodd am oddeutu dwy flynedd.

Yn y flwyddyn 270 Aurelian a gyhoeddwyd yn ymerawdwr, ac am y pedair blynedd cyntaf o'i lywodraeth yr oedd cyflwr y Cristionogion yn debyg fel o'r blaen; ond yn y bumed flwyddyn o'i deyrnasiad, taenodd cwmwl argoelus drostynt, yr hwn a fuasai yn farwol i laweroedd oni buasai i'w farwolaeth erchyll ei hun atal cyflawniad ei au canion creulon. Fe'i cynhyrfwyd gan ei goelgrefyddoldeb ei hun, neu gan ymgais yr offeiriaid paganaidd, i wneuthur ymosodiad nerthol ar y Cristionogion; ond cyn cyhoeddi ei gyfraith drwy yr ymerodraeth fe'i gorfuwyd i ymadael â Gaul, lle y cafodd ei roddi i farwolaeth gyda chreulonder mawr. Y mae ymosodiad Aurelian yn cael ei gyfrif y nawfed erledigaeth, ond mae yn amlwg na bu yn gyffredinol iawn, ac ni ferthyrwyd nemawr yn ei hystod, ac o farwolaeth yr ymerawdwr hwn hyd ddiwedd yr ail ganrhif, mwynhaodd y Criitionogion fesur cymmedrol o lonyddwch.

Yr oedd cyflwr gwladol yr ymerodraeth Rufeinig yn hynod o annedwydd drwy ran fawr o'r canrhif hwn, ac yn euwedig felly er esgyniad Maximin i'r orsedd. Ar ei farwolaeth cyfododd terfysgiadau yn y ddinas, fel mewn ychydig fisoedd y lladdwyd cymmaint a chwech o dywysogion yn olynol, a therfynfynwyd bywyd Philip a Gordian drwy greulondér. Dywed Gibbon, fod y tymhor o esgyniad Decius i farwolaeth Gallienus yn dymhor anffodus a chywilyddus, gan fod pob dosran o hono yn cael ei hynodi gan ryw drallod, a phob talaeth yn cael ei blino gan ryw gystudd. Yr oedd yr ymerodraeth yn cael ei hamgylchynu gan elynion estronol ar bob llaw, a'i chynhyrfu gan uchelgais trais feddianwyr gwylltion ac anystyriol. Yr ym yn cael fod cynnifer a phedwar-ar-bumtheg ar unwaith yn cystadlu am yr orsedd; ac yr oedd dewisiad cam-lywodraeth, a dienyddiad y rhai hyn, yn achosi gresyndod anfesurol i'r holl ddeiliaid. Ond nid yr anhrefn hyn ydoedd unig flinder yr ymerodraeth, eithr fe'i canlynwyd gan newyn dychrynllyd, fel y mae Gibbon yn nodi, ac wedi hyny gan blâ dinystriol a fu yn ymdaenu drwy bob talaeth am rai blynyddau. Dywedir am ryw dymhor fod tua phum' mil yn marw bob dydd yn y ddinas ymerodrol yn unig, ac fod rhai o'r dinasoedd eraill yn agos cael eu diaueddu; ac y mae Gibbon yn casglu oddiwrth ysgrifau perthynol i gyflwr Alexandria, fod y cleddyf, y newyn, a'r haint wedi marwolaethu tua

hanner deiliaid yr ymerodraeth yn y blynyddau arswydus hyn. Ac y mae y ffeithiau yma yn rhoddi esboniad hawdd a diymwad ar ganlyniadau agoriad yr ail, y drydedd, a'r bedwerydd sel yn y chweched bennod yn llyfr y Datguddiad, megys y mae yr erledigaethau a ddyoddefodd y Cristionogion, y rhai oedd yn awr yn agos terfynu oddiwrth Rufain baganaidd, yn cyfateb i'r hyn a briodolir i agoriad y bumed sel

Y mae yn hawdd meddwl fod canlynwyr Crist yn dwyn eu rhan yn yr holl flinderau hyn, ac ar yr un pryd yn dyoddef gwawd ac enllib oddiwrth eu caseion, ac yn cael eu cyfrif yn achos o'r holl orthrymderau gan yr eulunaddolwyr, am eu bod wedi ymadael â'r duwiau meirwon. Dyma yn fyr oedd cyflwr allanol y Cristionogion yn y canrhif hwn Yr oeddent yn dyoddef llawer fel eu cyd-amserwyr oddwrth amgylchiadau gresynus yr ymerodraeth, ac yn dyoddef yn barhaus oddiwrth wrthwynebrwydd y paganiaid; ond ar rai tymhorau yn dyoddef drwy erledigaethau cyffredinol, dan awdurdod y cyfreithiau gwaedlyd oeddent yn cael eu dwyn i weithrediad; ond wedi y cyfan, yr oedd yr achos wedi enill sylw, a rhai o'r ymerawdwyr wedi ei gymeradwyo, o leiaf yn ddirgel, a nifer mawr o bob gradd yn ei arddel, yn ngwyneb pob ymosodiad yn eu herbyn.

Ond wrth edrych yn fwy manol yr ym yn cael achos i gredu. er fod arddelwyr Cristionogaeth wedi cynyddu yn fynod yn y canrhif hwn, fod dirywiad mawr wedi cymeryd lle yn mhlith y Cristionogion wedi ei ddechreuad gyda golwg ar grefydd fel yr oedd wedi ei dysgu gan Arglwydd y bywyd. Y mae tystiolaeth Cyprian, esgob Carthage, yn dangos hyn yn benderfynol. "Rhaid cyfaddef (medd efe), fod y blinderau creulon sydd wedi ein goddiweddyd, ac wedi yn agos dyfetha ein praidd, ac sydd eto yn parhau i wneuthur felly, wedi dygwydd o herwydd ein pechodau, am nad ym wedi ymgadw yn ffordd yr Arglwydd a glynu wrth ei orchymynion a arfaethwyd i'n tywys i iachawdwriaeth. Cyflawnodd Crist ewyllys ei Dad, ond yr ydym ni wedi esgeuluso ewyllys Crist. Ein prif amcan ydyw enill arian, ac ychwanegu etifeddiaethau. Yr ym yn dilyn balchder, heb amser i ddim ond i geisio blaenori ar ein gilydd, ac ymryson, ac yr ym wedi esgeuluso symlrwydd y ffydd. Yr ym wedi rhoddi y byd i fynu mewn gair, ond nid mewn gweithred. Y mae pob un yn amcanu ei foddhau ei hun. ac nid boddhau eraill." (*Cipriani Opera. Epist. xi.*) Y mae Eusebius hefyd yn cydu bod yr un peth, fel hyn:—"Drwy ormod rhyddid aethant hwy (y Cristionogion) yn esgeulus ac yn fusgrell, gan genfigenu a gwaradwyddo eu gilydd, a dwyn yn mlaen fath o ryfel cartrefol yn eu plith eu hunain, fel y gwnaent yr esgobion ymryson â'r esgobion; a'r bobl a ymranent yn bleidiau. Yr oedd rhagrith a thwyll wedi ymgodi i'r cyflwr uchelaf o ddrygioni, fel yr oeddent mor annheimladwy fel nad ymgeisient at ddofi yr anfoddlonrwydd dwyfol, ond megys didduwiaid yn meddwl fod y byd heb un llywodraeth ragluniaethol, ac fel hyn yn ychwanegu y naill bechod at y llall. Yr oeddent yr esgobion eu hunain wedi rhoddi heibio bob gofal am grefydd, ac yn ymgystadlu yn barhaus, heb wneuthur dim ond ymryson, bygwth, cenfigenu, a chasbau eu gilydd; ac yn llawn o uchelgais, yn arfer eu hawdurdod yn ormesol. (*Eusebius Eccles. Hist., Lib.* 8, *ch. i.*)

Er ein bod yn mhell o feddwl mai dyma gymeriad holl Gristionogion y trydydd canrhif, eto mae yn amlwg fod y dirywiad yn fawr, ac o herwydd hyny, nid rhyfedd fod y gwrthgiliadau mor lluosog yn nhymor y seithfed erledigaeth. Y gwir yw fod y Cristionogion yn awr yn blaid luosog, ac er fod y llywodraeth eto yn Baganaidd, yr oedd yn eu plith lawer o ddynion cyfrifol o ran pethau tymhorol, ac yr oedd y llywodraethwyr yn eu gorthrymu neu yn eu hymgeleddu fel y byddau eu dylais a'u cyfrwysdra yn eu cyfarwyddo. Mewn amser llonydd yr oedd llawer yn ymresu yn eu plith, nad oeddent yn meddu ar y ffydd na yr hunan-ymwadiad hanffodol i wir grefydd; ac yn dwyn i mewn gyda hwy yr egwyddorion a'r arferiadau ag oeddent unol â'u cymeriadau eu hunain; ac felly yr ym yn cael i gyfnewidiad mawr gymeryd lle yn mron yn mhob peth perthynol i'r grefydd Gristionogol cyn diwedd y trydydd canrhif.

Er fod yr un ysbryd wedi ymddangos yn y canrhif o'r blaen. eto yn y canrhif hwn y dygwyd y gyfundraeth esgobaethol i drefn, nerth, a gweithrediad; fel y difeddianhwyd yr aelodau cyffredin o'r hawl arferol yn achosion yr eglwysi. Gwnaethpwyd hefyd y gwahaniaeth yn lledaenach rhwng swydd yr esgob a swydd yr henuriad ac yn y diwedd yr ym yn cael esgobion Rhufain, Antiochia, Carthage, ac Alexandria, yn hawlio blaenoriaeth ar yr esgobion eraill. Fel hyn yr oedd y drwg yn cynyddu yn raddol, a'r ffordd yn cael ei pharotoi yn ddiarwybod i'r dyn pechod ymddangos, ac i'r holl gyfeiliornadau i ymdaenu a fuant am oesau wedi hyny yn felldith i'r byd. Ac yn y canlyniad, i'r drefn newydd a ddygwyd i weithrediad yn llywodraeth yr eglwysi, daeth yr esgobion yn fath o dywysogion eglwysig, yn lle y bugeiliaid gostyngedig oeddent o'r blaen, a ffurfiwyd graddau y weinidogaeth yn ol cynllun yr offeiriadaeth Iuddewig.

Hyd yma yr oedd yn cael ei ystyried yn beth cyfreithlon i'r gweinidogion briodi; ond cyfrifid y rhai a arosent mewn cyflwr sengl yn fwy enwog am dduwioldeb a santeiddrwydd. Yn Affrica penderfynodd llawer i enill y cymeriad hwn am radd uchel o ysbrydolrwydd, a chynyddodd yr ymgais yn raddol, nes daeth y peth hwn yn mhen amser yn rhan o gyfundraeth eglwysig egl ys Rhufain, ac fel pob ymadawiad arall oddiwrth y gwirionedd, yn ffynon i anfoesoldeb a ffieidd-dra. Y mae yn wir i lawer o'r esgobion boreuol rag-ganfod ffrwythau y drefn anysgrythyrol hon, a chodi eu llef yn ei herbyn, ond ofer fu eu llafur; yn mlaen yr aeth y cyfeiliornad hwn, fel llawer o rai eraill, nes daeth dychymmygion dynion i lywodraethu yn lle cyfraith Crist, a mesurau esgobion yn lle eg-

wyddorion syml a phurion y Testament Newydd.

Yr oedd yr athrawiaeth apostolaidd mewn bri, ac yn cael ei phregethu yn ei phurdeb yn nechreuad y canrhif hwn, ac fel y daeth dynion oeddent wedi eu haddysgu yn ysgolion y philosophyddion i gymeryd rhan yn y gwaith, hwy a ddiystyrasant yr hen ffordd yn yr hon yr oedd eu rhagflaenoriaid wedi rhodio, ac a ymroddasant am ffordd newydd i ddwyn y gwaith yn mlaen. Yr oeddent y rhai a ymglyment â'r gyfundraeth Blatonaidd yn gwneuthur hono yn faen-prawf pob gwirionedd, ac yn mesur pob peth yn ol eu hegwyddorion; ac oddiwrth hyn y tarddodd yr hyn a enwyd wedi hyny yn ddewiniaeth ysgolhegol, ac felly hefyd y gellir dywedyd am yr athrawiaeth gyfrinol, yr hon a ddysgai fod yr ysgrythyr yn dweyd un peth ond yn meddwl peth arall; ond nid pawb o weinidogion y trydydd canrhif a syrthiasant i'r camsyniadau hyn, eithr y rhai oeddent yn barod wedi coleidio egwyddorion y Platoniaid.

Y mae pawb sydd wedi chwilio hanes foreuol Cristionogaeth, yn cydnabod i lawer o ddefodau o natur amheus gael eu dwyn i'r eglwysi yn y canrhif hwn. Hyd yma yr oeddent y Cristionogion yn cyfarfod lle y gallent, ond yn awr yr oedd gan yr eglwysi leoedd sefydlog i addoli yn y rhan fwyaf o'r talaethau; ac mae yn debyg iawn, yn ol tystiolaeth ysgrifenwyr credadwy, fod rhai o'r rhai hyn wedi eu haddurno â delwau. Yr oedd swyn-gyfaredd yr offeiriaid wedi dechreu hefyd, ynghyd ag ystrangciau coel-grefyddol eraill, ac ymprydiau aml mewn enwogrwydd mawr. Dygodd y Cristionogion Iuddewaidd rai o'u harferiadau eu hunain i mewn, y philosophyddion dwyreiniol rai o'u hegwyddorion hwythau, a'r Platoniaid rai o neillduolion eu cyfundraeth; ac fel hyn yr anurddwyd y grefydd oedd wedi ei haddasu yn berffaith gan ei Hawdwr urddasol, i feddyginiaethu holl anhwylderau moesol y teulu dynol. (*Jones's Lectures on Eccles. History, Lect. XVI. Mosheim's Eccles Hist., Cent. III, ch. iv.*)

Yn ol tystiolaeth Tertulian dechreuwyd gweddio dros y meirw yn y canrhif hwn, oddiar y dyb a nodwyd mewn erthygl flaenorol, fod eneidiau y rhai nad oeddent wedi marw am eu proffes yn cael eu cadw mewn lle canol hyd ailddyfodiad Crist; a dechreuodd y farn ffynu, yn ol tystiolaeth Origen (os nad yw ei waith wedi ei lygru,) y gallai eiriolaeth ysbrydion ymadawedig fuddioli y rhai byw, ond nid oes ar gael ddim prawf fod ymbiliau yn cael eu cyflwyno atynt, nac addoliad yn cael ei dalu iddynt. Mae yn ddiau hefyd fod cadw dyddiau gwyliau, a pharchu arwydd y groes mewn arferiad lled gyffredin yn y canrhif hwn, ac fod ymdrech mawr yn ffynu i wisgo yr addoliadau cyhoeddus â'r addurniadau derbyniol yn marn y byd.

Cymerodd cyfnewidiad le yn y dull o weinyddu swper yr Arglwydd, er gwneud yr ordinhad yn fwy tebyg i'r dirgeledigaethau arferol yn mhlith y cenedloedd, gan farnu y buasai hyny yn tueddu mwy i gyffroi teimladau defosiynol na'r hen ddull cyntefig; ac nid peth anghyffredin yn yr eglwysi mwyaf enwog am aelodau cyfoethog, oedd cael llestri arian, ac hyd y nod llestri aur at y gwasanaeth. Byddai y gweddiau ar yr achlysur yn hirfaith, a'r holl waith yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y ffordd fwyaf tebyg i enill sylw coel-grefyddol, a boddhau meddwl y rhai a garent rodres ac ymddangosiad mawreddog mewn addoliad. Ac er gwneuthur y dirgelwch yn fwy, nid oedd neb yn cael caniatad i fod yn wyddfodol ond y cyfryw a fyddent yn meddu hawl hefyd i gyfranogi, ac yr oedd y cyfan yn cael ei addasu i wneuthur y sefydliad yn chwyddedig, yn lle y dangosiad syml o farwolaeth Crist, fel yr oedd wedi ei amcanu ar y cyntaf.

Yr oedd yr ordinhad o fedydd yn cael ei gweinyddu yn y canrhif hwn, fel yn y canrhif o'r blaen, ddwywaith yn y flwyddyn, i'r rhai wedi hir barotoad addysg a dderbynid i ddirgeledigaethau teyrnas Crist; ac yr oedd yn cael ei hystyried fel yn dyogelu maddeuant pechodau i'w deiliaid; ac hefyd yr oedd yr esgob, fel y tybid, drwy arddodiad ei ddwylaw ar y bedyddiedig yn cyfranu iddo ddoniau santeiddiol yr Ysbryd Glân. Yr oedd y defodau a nodwyd yn cael eu gyflawnu yn ddieithriad mewn cysylltiad â bedydd yn y canrhif hwn, a bedydd yn cael ei ystyried yn beth hanfodol i iachawdwriaeth yr enaid; ac felly yr oedd yr ordinhadau yn cynyddu yn eu pwys fel dirgelwch, a'r esgobion yn eu hawl fel eu gweinyddwyr, mewn cydraddoldeb â'r ymadawiad oddiwrth y cynllun cyntefig. Y mae yn amlwg hefyd fod bedydd babanod mewn arferiad yn foreu yn y canrhif hwn, ond y mae yn hawdd profi nad oedd yn gyffredinol, oddiwrth ysgrifeniadau Tertulian ac eraill.

Wrth edrych ar yr ymadawiad oddiwrth gyfundraeth y Testament Newydd oedd yn cymeryd lle, nid rhyfedd fod rhai yn ymneillduo oddiwrth y corff cyffredinol, ac yn ffurfio cynulleidfaoedd yn y rhai yr oedd egwyddorion yr efengyl yn cael eu harddel yn anghysylltiedig â'r llywodraeth drais-arglwyddiaethol a'r defodau coel-grefyddol ag oeddent yn awr yn ffynu mor helaeth. Yr ydym yn gwybod nad oes un pwngc yn syrthio dan sylw yr hanesydd eglwysig sydd yn fwy anhawdd ei benderfynu na chymeriad gwirioneddol y Cristionogion hyny sydd wedi eu gwisgo ag enw hereticiaid, am eu bod wedi ymwrthod â'r gyfundraeth a goleddid gan y rhan amlaf o'u cydamserwyr Cristionogol. Rhaid er hyny, er mwyn bod yn onest, i ni wneuthur gwahaniaeth rhwng y gwerthfawr a'r gwael, a chymeradwyo ymneillduaeth os bydd hyny yn cyfodi oddiar achosion cyfreithlon, er y dichon ein bod wrth hyny yn gorfod gwahaniaethu yn ein barn oddiwrth haneswyr cyfrifol, sydd o herwydd ymlyniad wrth sefydliadau dynol, wedi beio dynion a ddylasent ganmol, am eu sêl dros y gwirionedd.

Tua diwedd yr ail ganrhif y cyfododd dyn o'r enw Montanus, yr hwn a ymroddodd yn erbyn llygredigaethau yr eglwys gyda llymder mawr. Mae Dr. Mosheim yn ei gyfrif yn ddyn penboeth ac annysgedig, ond ar yr un

pryd yn cydnabod nad oedd yn gwyro oddiwrth neb o athrawiaethau y Testament Newydd. Yn ol yr hyn o hanes sydd genydd am dano, ymddeugys ei fod wedi blino ar y dull penrydd oedd yn ffynu, ac am gael dysgyblaeth lanach i weithrediad, ac efallai ei fod yn gwasgu pethau i eithafion afreidiol, fel y mae yn dygwydd yn aml yn y fath amgylchiadau; ond pa fodd bynag, fe'i diarddelwyd am ei waith. Ond ni wnaeth hyn atal ei ymgais, na therfynu ei lwyddiant. Brodor ydoedd Montanus o Phrygia, ac yno y ffurfiodd yr eglwys gyntaf yn ol ei gynllun ei hun; ond ymdaenodd ei blaid yn ebrwydd drwy Asia ac Affrica, a rhanau o Ewrop hefyd. Ynghylch dechreuad y trydydd canrhif unodd Tertulian, un o henuriaid eglwys Carthage, â'r blaid hon; a chan fod cryn lawer o waith Tertulian wedi dysgyn i lawr i'n hamser ni, mae genym ryw sail i farnu pa fath syniadau ac arferiadau oedd yn ffynu yn mhlith y Montaniaid. Mae Tertulian yn un o'r awduron mwyaf enwog yn mhlith y Lladinwyr boreuol; a phe buasai Montanus mor benboeth ag y mae rhai wedi ceisio ei wneuthur, anhawdd meddwl y buasai henuriad mor ddysgedig yn ymuno â'i blaid; ond tebyg yw mai ei drosedd oedd ymneillduaeth, a hyny am fod arferion coel-grefyddol yn cael eu gosod i fynu, yn lle crefydd syml efengyl Crist, a dysgyblaeth y Testament Newydd yn cael ei hesgeuluso yn yr eglwysi.

Plaid arall a gyfododd yn y canrhif hwn oedd y Novatianistiaid, ac a fuont wedi hyny am oesau yn gorff lluosog o Gristionogion, a pharhaodd eu gweddill hyd amser Luther.—Arweinydd dechreuol y blaid hon oedd Novatianus, yr hwn oedd henuriad cyfrifol yn eglwys Rhufain tua'r flwyddyn 252. Yr oedd yn ddyn o ddysg a dawn, ac yn awdwr amryw lyfrau ar athrawiaeth y Drindod, a phyngciau eraill; ond wrth ganfod y llygredd oedd yn ffynu, ymneillduodd oddiwrth yr eglwys, a ffurfiodd gynnulleidfa anymddibynol, i'r hon y bu yn gweinyddu yn ol ei olygiadau ei hun am reolau teyrnas Crist. Nid ydym yn cael ei fod yn dal unrhyw athrawiaeth gyfeiliornus, er ei fod yn cael ei alw yn awdwr cyfeiliornad y Puritaniaid; ond nid oedd yr hyn a enwir ynddo yn gyfeiliornad ddim amgen nag ymlyniad wrth y gwirionedd, mewn gwrthwynebiad i'r trefniadau anysgrythyrol oeddent y pryd hwnw wedi eu dwyn i weithrediad rhy gyffredin drwy yr eglwysi. Gan fod llawer, fel yntau, yn gofidio o herwydd y dirywiad, taenodd y blaid hon yn ebrwydd iawn; ac er fod Mosheim yn beio Novatian o herwydd llymder ei ddysgyblaeth, mae lle i feddwl mai yn mhlith y blaid hon y mae yn rhaid edrych am grefydd Crist yn ei phurdeb cyntefig, pan oedd yr eglwys gyffredinol yn syrthio i ben-ryddid, coel-grefyddoldeb, ac eulun-addoliaeth.

Cyfododd plaid arall yn y canrhif hwn oedd yn wahanol iawn oddiwrth y pleidiau blaenorol. Ei sylfaenydd oedd un o'r enw Manes, neu, fel y mae yn cael ei alw yn fynych, Manichœus, ac oddiwrtho mae ei ganlynwyr yn cael eu henwi y Manichæaid. Brodor oedd hwn o Persia, wedi ei ddwyn i fyna yn mhlith y Magiaid, ac yn un o honynt cyn iddo broffesu Cristionogaeth. Cymysgedd oedd ei gyfundraeth o egwyddorion philosophyddiaeth y Persiaid ac efengyl Crist, ac yr oedd yn cymeryd i mewn gyfeiliornadau lawer; ond yr oedd ei reolau yn llym, ei fuchedd yn sobr a rheolaidd, a'i ddawn a'i anturiaeth yn hudoliaethus ac argraffus. Mewn ychydig amser, ffurfiodd gyfenwad lled luosog, a dyoddefodd farwolaeth dan lywodraeth Veranus, brenin Persia.

Tua chanol y canrhif hwn y cyfododd Sabelius yn Pentapolis, i ameu athrawiaeth y Drindod. Yr oedd Noetus o Smyrna wedi gwneuthur yr un peth yn barod, a chanlynwyd ef yn yr un llwybr gan Beryllus, esgob Bozrah. Bu hyn yn achos o ddadleuon aml yn y trydydd canrhif, ac ysgrifenwyd llawer ar y pwngc; ond arosodd wedi y cyfan yn anmhenderfynol, nes yn y diwedd y cyfodwyd y ddadl Ariaidd, yr hon, yn y canrhif nesaf, a achosodd gymmaint o gynhwrf drwy yr eglwysi. Bu hefyd lawer o ddadleuon yn ffynu yn nghylch y mil blynyddau, drwy fod Papias, esgob Hierapolis, a Nepas, henuriad yn un o eglwysi yr Aifft, wedi taenu syniadau am y tymhor addawedig fel amser gloddest a mwyniant cnawdol.

Wrth edrych ar y cyfeiliornadau a'r dirywiad hyn yn y trydydd canrhif, yr ydym yn canfod nad yw hynafiaeth arferiadau yn un prawf o'u cywirdeb; a pheth lled ryfedd fod Cristionogion mor fynych yn son am farn y tadau, fel prawf o uniondeb eu credoau a'u mesurau, pan na allent gael modd i'w hamddiffyn yn nghyfraith Crist. Y gwir yw i lawer o ddirywiad gymeryd lle yn yr ail ganrhif, a llawer mwy yn y trydydd, nes agorwyd ffordd i'r cyfeiliornadau cyffredinol a ganlynasant. Gwell gan hyny yw myned at y gair a'r dystiolaeth, a rheoleiddio ein ffydd a'n harferiadau yn ol y cynllun cyntefig, nag amcanu cynnal dim nad yw yn cael ei gymeradwyo yn y gyfrol santaidd, ar y sail ei fod mewn ymarferiad boreuol yn mhlith Cristionogion; oblegyd ar y tir hwn gellir cynnal i fynu lawer iawn o'r arferion mwyaf ofergoelus sydd wedi alltudio y cynllun ysgrythyrol o blith rhan fawr o'r llwythau a enwir ar enw Crist.

Ond er fod dirywiad mawr wedi cymeryd lle yn y trydydd canrhif, eto yr oedd nifer mawr o'r Cristionogion yn dal yr athrawiaeth yn ei phurdeb, ac yn glynu wrth reolau yr efengyl yn ddiysgog. Yr oedd hefyd yn y tymhor hwn ddynion nerthol, doniol a dysgedig, yn llafurio yn ddiwyd er taenu yr achos, ac yn amddiffyn y gwirionedd yn erbyn cyfeiliornadau yr oes; ac nid nifer bychan o'r rhai hyn, wedi treulio eu hamser i wasanaethu eu Harglwydd, a seliasat eu tystiolaeth drwy ddyoddef merthyrdod. Byddai yn rhy anhawdd, yn ein cylch cyfyng, i enwi holl awduron Cristionogol yr oes hon; ond meddyliem mai derbyniol gan y darllenydd fydd cael ychydig o hanes y rhai y mae cyfeiriadau atynt yn cael eu gwneuthur yn aml mewn achosion dadleugar, yn gystal ag eraill a fuont yn amddiffynwyr i'r Cristionogion yn erbyn ymosodiadau gelynol y paganiaid.

Y blaenaf a nodwn yw Muncius Felix, yr hwn a ysgrifenodd yn nghylch y flwyddyn 210. Brodor o Affrica oedd hwn, cyfreithiwr wrth ei alwad, a bernir ei fod yn glynu wrth ei alwad fel y cyfryw wedi ei droedigaeth at Gristionogaeth, gan ei fod yn nodi yn un o'i weithiau awdurol fod amser crynhoi y grawn-win yn ei ryddhau oddiwrth ddyledswyddau y llys. Ysgrifenodd amddiffyniad campus i'r Cristionogion mewn ffordd o ymddiddan, yn yr hwn y mae yn ateb yr holl gyhuddiadau a osodid yn eu herbyn yn fedrus ac yn nerthol. Ymddengys ei fod yn deall y grefydd efengylaidd yn dda, ac yn ei pharchu yn ddifrifol, a'i fod yn ysgrifenydd prydferth, ac yn rhesymwr anorchfygol; a byddai darllen ei waith yn debyg o foddhau y rhai a ewyllysiant ddeall cyflwr y Cristionogion ar ddechreuad y trydydd canrhif. Nid oes hanes genym am fuchedd derfynol yr awdwr enwog hwn, ond rhaid fod gwasanaeth dyn mor alluog o bwys i'r eglwys yn y fath amser trallodus.

Y nesaf yw Tertullian, am yr hwn yr ydym wedi son yn barod. Brodor o Affrica oedd yntau, wedi ei eni yn ninas Carthage. Swyddog milwraidd oedd ei dad, ac ymddengys iddo roddi addysg haelionus i'w fab, i'r dyben o'i ddwyn i fyny yn gyfreithiwr, ond nid oes prawf penderfynol iddo arferyd yr alwad hono. Pa fodd bynag, mae wedi rhoddi prawfiadau digonol yn ei weithiau awdurol ei fod yn hollol wybodus o'r cyfreithiau Rhufeinaidd, ac yn hyddysg iawn yn ngweithiau y beirdd Groegaidd, yn gystal ag yn hanesyddiaeth, areithyddiaeth, a philosophyddiaeth yr ysgrifenwyr paganaidd. Y Lladin oedd ei iaith briodol, ond yr oedd mor hyddysg yn y Groeg fel yr ysgrifenodd rai llyfrau yn yr iaith hono. Nid ydym yn gwybod a oedd ei dad yn proffesu Cristionogaeth ai nad oedd, ac nid oes genym ddim o hanes ei droedigaeth yntau. Mae Dr. Allix yn gosod ei enedigaeth yn y flwyddyn 150, ac eraill yn 160, ei droedigaeth tua 185, a'i farwolaeth ynghylch 220. Tua y flwyddyn 195, dewiswyd ef yn esgob ar eglwys Carthage, ac oddeutu y flwyddyn 199 ymneillduodd oddiwrth hono, ac ymunodd â phlaid Montanus. Mae lluosawgrwydd a chynnwysiad ei weithiau awdurol yn ei wneuthur y mwyaf enwog o'r tadau Lladinaidd. Ysgrifenodd ef amryw draethodau ar Berson Crist, yn erbyn dychymmygion Marcion Apelles a Valentinus, y rhai a honent nad oedd Crist yn wir ddyn; ac un ar yr adgyfodiad; ac amddiffyniad nerthol i'r Cristionogion, a gyflwynwyd i lywodraethwyr y dalaeth i'r hon yr oedd Carthage yn brif-ddinas. Mae traethawd o'i waith ar Edifeirwch, ac un arall ar Weddi. Er fod rhai o'i weithiau yn cael eu cyfrif yn dywyll, y mae pawb yn ei farnu yn awdwr dysgedig a chymeradwy.

Y trydydd yw Cyprian, esgob Carthage. Ganwyd ef yn Carthage yn nechreuad y trydydd canrhif. Paganiaid oeddent ei rieni, ac felly y bu yntau am y rhan fwyaf o'i fywyd. Mae Lactantius yn dywedyd ei fod mewn parch mawr fel athraw areithyddiaeth yn ei ddinas enedigol. Yn y flwyddyn 246 y cymerodd ei ddychweliad le trwy offeryngarwch Cæcilius, un o'r athrawon Cristionogol yn eglwys Carthage; ac o'r pryd hwnw yr oedd ei ymddygiad addas yn ennill cymeradwyaeth mawr. Yn fuan wedi ei droedigaeth ysgrifenodd ei draethawd ar Ras Duw, ac un arall ar Wagedd Eilunod. Yn mhen ychydig fisoedd wedi ei dderbyn yn aelod, galwyd ef i waith y weinidogaeth, yr hyn oedd allan o'r drefn gyffredin, ond yr oedd hwn yn cael ei ystyried yn ddyn hynod. Pan ydoedd wedi llafurio oddeutu dwy flynedd yn y weinidogaeth, bu farw prif fugail yr eglwys; a chan ei fod yn angenrheidiol i benderfynu ar rhyw un i lanw ei le, syrthiodd y dewisiad ar Cyprian, yr hwn oedd yn anewyllysgar iawn i gymeryd y swydd, ond yr oedd yr eglwys yn benderfynol, ac yn y diwedd cydsyniodd â'i dymuniad. Dichon fod hyn yn ymddangos i rai yn amheus yn awr, ac fod difrifoldeb Cyprian yn eu barn yn beth anghredadwy; ond eto dylem gofio, er fod y gyfundraeth esgobaethol wedi ennill tir, ac yn ymestyn at arglwyddiaeth, nad swydd mewn enw yn unig oedd swydd yr esgob y pryd hwnw. Yr oedd y gwaith yn bwysig, a'r daledigaeth yn gyfyng; ac weithiau yn anghyfartal; ac heblaw hyn, pan gyfodai erledigaeth, yr esgobion a'r henuriaid yn gyffredin fyddent y rhai blaenaf i ddyoddef ei phwys. Yn y tymhor llonydd oedd wedi bod, yr oedd ymddygiad y Cristionogion wedi newid er gwaeth, yr hyn oedd yn achos o ofid mawr i Cyprian. Yr oeddent yn byw yn rhy foethus, a'r rhyw fenywaidd yn ymwisgo yn rhy drwsiadus, yn ol dull y byd. Parodd hyn iddo ysgrifenu traethawd ynghylch gwisgoedd merched ieuaingc, yn yr hwn y mae yn galw eu sylw at yr hyn a ysgrifenwyd gan yr apostolion ar y pwngc, ac yn dangos mai gweddeidd-dra a sobrwydd ydynt brif addurniadau y rhyw fenywaidd.

Pan gyfododd yr erledigaeth dan deyrnasiad Decius, dyoddefodd eglwysi Affrica y rhan drymaf o'r blinder; a phan oedd y dymhestl yn ei llawn nerth, y Paganiaid a fynent ddal Cyprian, a'i daflu i'r chwareudy i'w larpio gan y llewod. Er diangc rhag y perygl ymadawodd o'r ddinas; ond er hyny cyhoeddwyd ef yn droseddwr wrth ei enw, a chymerwyd gafael yn ei feddiannau. Bu fel hyn yn ymguddio am ryw dymor; ond ar derfyn yr erledigaeth dychwelodd i'r ddinas, a chafodd yr eglwys mewn cyflwr dyryslyd iawn, drwy fod llawer wedi syrthio ymaith oddiwrth eu proffes, yr hyn a'i tueddodd i alw cynghor i ystyried yr achos yn y fl. 252. Yn y flwyddyn ganlynol bu cynghor drachefn; ac yn yr ganlynol bu un arall, i ystyried a oedd y bedydd fyddai wedi ei weinyddu gan hereticiaid i'w ystyried yn gyfreithlon neu beidio, a phenderfynwyd yn nacaol.

Pan gyfododd yr erledigaeth yn nheyrnasiad yr ymerawdwr Valerian, cafodd Cyprian ei alw o flaen y rhaglaw Aspasius, a'i alltudio i Curebes, tref arforawl yn Zeugitania, lle y bu am flwyddyn; ond pan ddaeth Galerius Maximus yn rhaglaw, cafodd ei alw oddiyno i ymddangos gerbron y swyddog; ac wedi ymguddio am ryw dymhor er mwyn dyoddef yn mhlith ei braidd, ymroddodd yn wirfoddol i ddwylaw y rhaglaw, a dyfarnwyd ef i

ddyoddef marwolaeth, ac arweiniwyd ef i'r dienyddle, lle y terfynodd ei yrfa yn ddiysgog. Yr unig ateb a wnaeth pan glywodd ei ddedfryd oedd, "Clodforer Duw." Dyn galluog, rhinweddol, a duwiol oedd Cyprian, ond yr oedd wedi ymglymu yn rhy gyflawn â'r gyfundraeth esgobaethol, a'r mesurau anysgrythyrol perthynol iddi ag oeddent yn awr mewn gweithrediad. Bu yn bugeilio eglwys Cathage am gymmaint a deng mlynedd.

Y nesaf at Cyprian yw Origen, am yr hwn y gallwn ddweyd llawer mwy nag a oddef ein cylch, yn gymmaint a'i fod yn un o'r Cristionogion mwyaf hynod a dysgedig yn ei oes. Fe'i ganwyd yn Alexandria, tua y fl. 185, ac yr oedd ei rieni yn Gristionogion. Ei dad, Leonidas, a gymerodd arno ei hun ofal ei addysg boreuol am ryw dymor, ac a'i haddysgodd yn ol ei oed yn y ddysgeidiaeth oedd yn gyfrifol yn mhlith y dysgedigion yr amser hyny, ond eto mewn cysylltiad â gwybodaeth o'r ysgrythyr, ac fe ddywedir ei fod yn arfer dysgu cyfran o'r gyfrol santaidd pan yn blentyn bob dydd, a'i adrodd heb lyfr. Wedi myned yn mlaen fel hyn dan addysg ei dad, fe'i rhoddwyd dan ofal Ammonius, yr hwn oedd philosophydd enwog, i ddysgu athronyddiaeth, a than gyfarwyddyd Clement o Alexandria, i astudio duwinyddiaeth. Oddiwrth y blaenaf yfodd yn helaeth o'r athroniaeth Blatonaidd, yr hyn a'i gwnaeth yn hynod wedi hyny am rai pethau cywraint a dychymmygol y buasai yn llawer gwell iddo fod yn amddifad o honynt. Fe gynyddodd mor gyflym mewn gwybodaeth o'r celfyddydau fel y daeth yn enwog, pan eto yn ieuangc, mewn mesuraeth, rhifyddiaeth, cerddoriaeth, ac areithyddiaeth, yn gystal a duwinyddiaeth.

Pan oedd ynghylch dwy-ar-bumtheg oed, trodd yr erledigaeth allan gyda nerth anarferol dan lywodraeth Severus, a chafodd Leonidas, tad Origen, ei gymeryd i fynu am ei grefydd. Y fath oedd sel frwd Origen, ar yr achlysur, fel y bu yn gryn orchestwaith i'w fam ei atal rhag myned allan i'w gydnabod ei hun yn Gristion, er cyfranogi yn yr un anrhydedd o ddyoddef marwolaeth yn achos ei Arglwydd. Fodd bynag, ysgrifenodd at ei dad, gan ei anog i lynu yn ei broffes, a pheidio er dim a goddef i achosion ei deulu lluosog i effeithio yn anffafriol i'w barhad yn y ffydd. Leonidas wedi ei gefnogi gan ei fab fel hyn, a ddyoddefodd ferthyrdod gyda gwrolder, gan adael teulu yn cynnwys gweddw a saith o blant; a chan i'r cyfan o'i feddiant fyned yn yspail i'r gorthrymwyr, yr oeddent yn hollol ddiymgeledd, ac yn agored i'r tlodi mwyaf blinderus. Ond ni effeithiodd hyn ddim amgen ar Origen na galw allan ei holl alluoedd i ddarparu cynnaliaeth iddynt, yr hyn a wnaeth drwy ddal swydd athraw athronyddol, ac fel hyn cynnaliodd ei fam a'i frodyr yn ddieisiau dim, yr hyn sydd yn dangos ei gymeriad.

Pan yr oedd fel hyn yn darparu at gyfreidiau ei berthynasau, daeth Cadair Ysgol Alexandria yn wag, drwy symudiad Clement, ac fe alwyd ar Origen i'w llanw, a chydsyniodd yntau â'r alwad, ac a werthodd ei lyfrau athronyddol, gan ddyogelu cynnaliaeth gymmedrol oddiwrth y prynwr, ac ymroddodd at ei alwad newydd gyda hunan-ymwadiad mawr. O'r pryd hwn yr oedd ei enwogrwydd yn cynyddu, a lluoedd yn pentyru i wraddaw ar ei addysg; ond yr oedd yr erledigaeth yn ffyrnigu, fel yr oedd yn aml mewn perygl yn ei waith yn ymdrechu i gefnogi a chysuro y dyoddefwyr a'r merthyron. Yn lled fuan, dechreuodd ffrwyth ei ddysgeidiaeth ymddangos yn ei weithiau awdurol. Pan yn Rhufain, dechreuodd ei waith enwog a elwid y *Tetrapla*. Beibl Hebraeg oedd hwn, a phedwar cyfieithad o hono ar gyfer eu gilydd, at y rhai yr ychwanegodd ddau gyfieithad arall, y rhai a wnant i fynu ei *Hexapla*. Gwaith gorchestol oedd hwn i un dyn. Ysgrifenodd hefyd esboniad ar Genesis, yr efengyl yn ol Ioan, llyfr y Galarnad, a phump ar ugain o'r Salmau; a chyhoeddodd waith a elwir *De Principiis* a'r *Stromata*, neu amrywiaeth; at yr hyn y gallwn ychwanegu ei amddiffyniad o Gristionogaeth yn erbyn Celsus.

Er amled ei weithiau awdurol, teithiodd i wahanol wledydd, fel yr ydym weithiau yn ei gael yn Rhufain, yn Cæsarea, yn Athens, ac yn Antiochia, yn nghafael â gwaith ei Arglwydd; ond wedi'r cyfan, cafodd ofid mawr, drwy i ymryson gyfodi rhyngddo ef â Demetrius, esgob yr eglwys yn Alexandria. Y farn gyffredin yw, mai ar Demetrius oedd y bai; ond, modd bynag, mae yn sicr i'r anghydfod achosi terfysg mawr drwy yr holl eglwysi. Yn nheyrnasiad Maximin, gorfu iddo ffoi i Athen o herwydd yr erledigaeth; ac yn nheyrnasiad Decius, fe'i cymerwyd yn garcharor, ac a'i llwythwyd â chadwyni haiarn, a bu amryw ddyddiau a'i draed mewn cyffion, yn goddef arteithiau annraethadwy. Ond cafodd ryddhad wedi hyny, a bu yn treulio gweddill ei ddyddiau fel milwr da i Iesu Grist, nes gorphen ei holl lafur yn Tyre, tua'r fl. 254, pan yn dri ugain a naw mlwydd oed.

Y nesaf at Origen yw Dionysius o Alexandria, yr hwn oedd yn un o ysgrifenwyr mwyaf medrus y canrhif hwn. Pagan oedd hwn cyn ei droedigaeth, ac yr oedd o deulu cyfrifol yn y byd. Yr oedd yn ei ieuengctyd wedi chwilio y cyfundraethau philosophyddol ag oeddent mewn enwogrwydd heb nemawr o foddlonrwydd iddo ei hun, nes yn y diwedd i'w feddwl gael ei arwain at yr efengyl, lle y canfyddodd yr hyn oedd wedi ei geisio yn ofer yn ysgrifenadau Plato a'r philosophyddion eraill. Yr ydym yn ei ganfod yn gyntaf fel athraw Cristionogol, yn arolygydd yr ysgol egwyddorol, fel canlyniedydd Origen, ac yna yn un o henuriaid yr eglwys, ac yn ddiweddaf yn brif fugail arni, a hyny mewn tymhor helbulus iawn, nid yn unig o herwydd erledigaethau oddi allan, ond felly hefyd o herwydd cyfeiliornadau oddimewn. Ond drwy ddyoddef caledi yn ddiysgog, ac amddiffyn y gwirionedd gyda sel ac arafwch mawr, enillodd gymeriad mor uchel yn nghyfrif y dysgedigion â neb o'i gydamserwyr. Yr oedd y gweinidog Cristionogol hwn mor hynod am wrolder a sefydlogrwydd, ag

am ostyngeiddrwydd a llarieidd-dra, ac fel y cyfryw, yn addas iawn i ysgrifenu ar y pyngciau oeddent mewn dadl yn yr eglwysi o berthynas i'r mil blynyddau, Sabbeliaeth, ac Undodiaeth; ac ysgrifenodd ar bob un o'r testynau hyn gyda medrusrwydd a chywreinrwydd, er nad yw ei waith yn hollol rydd oddiwrth syniadau amheus.

Tymhor blinderus oedd amser llafur Dionysius, oblegyd yr oedd yn gweinidogaethu yn nhymor y ddwy erledigaeth gyffredinol a gymerasant le yn nheyrnasiad Decius a Valerian; a bu hefyd erledigaeth ffyrnig yn erbyn y Cristionogion yn Alexandria, tua'r flwyddyn 248, pan oedd yr eglwysi eraill mewn tawelwch. Cafodd hefyd ei ran yn mlinderau cyffredin yr amser, drwy fod haint marwol yn ffynu yn y ddinas, a newyn arteithiol drwy yr holl wlad. Yn amser Decius fe'i cymerwyd i fynu, ac a'i halltudiwyd i Taposyria, ond cafodd ei waredu yn annysgwyliadwy o'i gaethiwed, ac a lechodd yn ddirgel mewn rhan anial o barthau Lybia, nes i'r dymhestl ostegu, yn mhen tua blwyddyn wedi ei alltudiad. Yn nheyrnasiad Valerian dyoddefodd ragor; oblegyd fe'i halltudiwyd pan yn glaf iawn, i le a elwid Cephro, yn anialdir Lybia; a gomeddwyd iddo gynnal neb cyfarfodydd crefyddol; ac yn y cyflwr gresynus hwn y bu am dair blynedd, nes i Gallienus esmwythau blinderau y Cristionogion, pryd y dychwelodd drachefn i Alexandria, ac yr ymroddodd drachefn at ei ddyledswyddau bugeilaidd, ac a fu farw mewn oedran teg, yn y flwyddyn 267.

Tua diwedd y canrhif hwn y cyfododd Pamphilus o Cæsarea, am yr hwn y dylem son, o herwydd ei wasanaeth i achos Crist. Yr oedd hwn yn gyfaill mynwesol i Eusebius yr hanesydd eglwysig, i'r hwn yr ym yn ddyledus am rhan fawr o'r wybodaeth a feddwn am gyflwr boreuol Cristionogaeth. Un o henuriaid yr eglwys yn Cæsarea oedd Pamphilus, ac yr oedd yn ddyn enwog am ddysg a duwioldeb. Ei ymdrech i daenu gwybodaeth o'r ysgrythyrau sydd wedi ei hynodi yn benaf. Arferai gadw amryw gopiau o'r ysgrifeniadau santaidd, er mwyn rhoddi eu benthyg i'r neb a dueddai i'w darllen, ac yr oedd wedi adysgrifenu rhai o honynt yn fanol â'i law ei hun. Sefydlodd hefyd lyfr-dy at wasanaeth yr eglwys, yr hwn, fel y dywedir, a gynnwysai ddeng mil ar hugain o gyfrolau. Nifer hynod yn yr amser hyny oedd hwn, a rhaid ei fod yn ddyn cyfoethog cyn y gallasai wneuthur y fath orchwyl. Ar y fath ddynion y byddai pwys yr erledigaethau yn sicr o ddisgyn flaenaf, ac felly y bu yn ei achos yntau. Cafodd ei gymeryd i fynu a'i ddwyn o flaen Urbanus y rhaglaw, yr hwn a'i holodd yn fanol am ei wybodaeth mewn gwahanol gelfyddydau, ac wedi hyny a orchymynodd iddo gydsynio â chrefydd sefydlog y wlad, ac aberthu i'r duwiau. A phan ballodd Pamphilus ufuddhau iddo, dyfarnodd ef i'w arteithio mewn modd creulon, ac yna i'w fwrw yn ngharchar, lle y cadwyd ef am ddwy flynedd, ac yn mhen y tymhor hwnw dihenyddiwyd ef. Fel hyn y terfynodd Pamphilus ei yrfa, gan adael siampl deilwng i'w olynwyr.

Nid Pamphilus ydoedd yr unig un a wnaeth ymdrech mawr yn y canrhif hwn i helaethu gwybodaeth o'r ysgrifeniadau santaidd; ac nid y rhai a enwyd yn barod oedd yr oll o amddiffynwyr gwrol Cristionogaeth yn y canrhif hwn. Yr oedd Julius Africanus, Gregory o Cæsarea, Methodius a Hippolytus, ac amryw eraill, yn awduron enwog yn eu dydd, ond nid oes nemawr o'u gweithiau wedi disgyn i'n hamser ni. Gellir hefyd cyfrif Pierius a Hesychus yn yr Aifft, a Lycian yn Antiochia, yn ymdrechwyr diwyd i luosogi y copiau o'r gyfrol santaidd; ac y mae pob lle i feddwl ei fod yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o ddyledswydd Cristionogion cyfoethog i gynorthwyo yr ymgais fuddiol hon. A thrwy y moddion yma, ynghyd a diwydrwydd nifer mawr o'r dysgyblion yn y gwaith o bregethu, taenodd Cristionogaeth yn hynod yn y canrhif hwn, er maint yr erlid a'r merthyru a gymerodd le yn rhai tymhorau yn ei ystod. Yn mhlith eraill, yr ydym yn cael i lwyth o Arabiaid, drwy offeryngarwch Origen, gael eu tueddu i dderbyn yr efengyl, ac i nifer mawr o'r Gothiaid anwaraidd gael eu dychwelyd i'r ffydd. Yn Ffraingc hefyd hysbysir ni i'r achos enill tir, ac ymdaenu yn hynod yn yr Almaen, ac felly hefyd yn Mhrydain, fel yr ymestynodd i'r rhan ogleddol o'r ynys, ac mewn gair, lledodd proffes o Grist yn mhlith yr holl genedloedd, i'r rhai yr oedd yr efengyl wedi ei chyhoeddi yn y canrhif o'r blaen gyda chyflymder.

Ond er fod Cristionogaeth yn enill cymeradwyaeth yn mhlith gwahanol lwythau, yr ydym yn canfod y dirywiad yn myned rhagddo fel yr ydym yn pellhau oddiwrth yr oes apostolaidd, a chydymffurfiad ag egwyddorion y byd yn goresgyn lle y grefydd syml ac ysbrydol oedd wedi ei dysgu gan Arglwydd y bywyd. Yn raddol y cymerodd hyn le, ac yr oedd ymadawiad oddiwrth egwyddorion yr efengyl mewn un peth yn agor y ffordd i ymadawiad mewn peth arall, nes yr oedd y drws yn agored i'r cyfnewidiad mawr a gymerodd le yn y canrhif canlynol. Yn y cyfan, yr ydym yn canfod tuedd i agweddu teyrnas Crist yn ol tuedd teyrnasoedd y byd hwn, ac yn y diwedd daeth ffrwyth yr ymgais i addfedrwydd, pan y symudwyd yr atalfa drwy uno Cristionogaeth â'r llywodraeth wladol.— Mae yn hawdd meddwl fod llawer yn pleidio y dirywiad heb farnu eu bod yn cyfeiliorni, drwy edrych ar y manteision dychymmygol oedd eu mesurau yn debyg o ddyogelu; ond nid ydyw dyfais gnawdol byth yn gynorthwy i grefydd Crist, na chydymffurfiad â'r byd yn rhwyddhau y ffordd i fuddugoliaethau y groes. Er y dichon y fath fesurau gymeradwyo yr achos i sylw y cyfoethogion, ac enill pleidlais tywysogion a breninoedd y byd, eu hamcanion eu hunain fydd ganddynt mewn golwg, ac ni bydd crefydd yn eu llaw ond offerynau i ateb dybenion anghydweddol â'i hamcan cyntefig. Cynghor y doethaf o ddynion yw, "Pryn y gwir, ac na werth;" a gwell i achos Crist yw bod dan wg y byd nag enill ei gymeradwyaeth drwy ymadael mewn dim oddiwrth reolau y gair. Ac o hyn mae genym brawfiadau cyffrous a diymwad yn

effeithiau y dirywiad a ddechreuodd yn yr ail, a gynyddodd yn y trydydd, ac a ffrwythodd yn y pedwerydd canrhif o oes Cristionogaeth.

## PRYDDEST-AWDL AR LONG-DDRYLLIAD DYNOLIAETH.

OAN COLUMBUS, MINERSVILLE.

[Parhad o dudal. 175.]

*Adgyfodiad Crist—Ei fynediad i fynu i'r Nefoedd—Y croesaw a dderbyniodd gan y Tad—Yr effeithiau—Danfoniad yr Ysbryd Glan—Dydd y Pentecost—Y llwyddiant—Cyffredinolrwydd yr Efengyl a'i hamodau—Ei darpariadau a'i llwyddiant mawr—Effeithiau ei llwyddiant.*

Trwy suddiad llong y nef trugarodd gadd
Fynediad rydd at blant yr isel-radd.
Cyhoeddwyd fry o orsedd eurwych nef
Faddeuant llawn a rhad drwy'i haeddiant ef.
Digllonedd Duw a dro'dd yn heddwch 'nawr,
Daeth boreu Jubilddydd ar deulu'r llawr.
Esgynodd Crist mewn hedd i'w orsedd fry,
Bendithio'r plant ei weithred olaf fu;
Ymadael wnaeth a bywyd yn ei wedd,
Gan daflu goleu cla'r dros bant y bedd.
Mewn rhwysg a mawredd pur esgynodd ef
Yn nghol ei saint, yn nghanol engyl nef.
'Retifedd mawr ddychwelai 'nol i'w wlad,
Yn llawn anrhydedd byw o faes y gad;
Cyfarchiad llon y teulu uchel gân
Dderbyniodd ef drwy yr orymdaith lân.
Mewn cadwyn gref caethiwed gludwyd 'nawr—
A rhoddion hael wasgarwyd ar y llawr.
Aeth Iesu 'fewn i borth Caersalem wen,
"Teilwng yw'r Oen" ddadseiniai muriau'r nen,
Cyfarchwyd ef gan osgordd gwlad y dydd;
Llawenydd mawr—daw teulu'r llawr yn rhydd.
I Hwn, dyrchafu wnawd y pyrth yn dêr,
Y dorau oesol cry' sydd uwch y sêr:
Yn mlaen yr aeth i'r orsedd yn ei rwysg,
A nodau'r plant yn amlwg ar ei wisg.
Gwreichioni wnai yr orsedd danbaid bur,
Y gwaed daenellodd ef ro'dd hedd yn wir.
Yr Iesu mwyn yn deyrn teyrnasoedd oll—
Yn Frenin mawr, cyhoeddwyd ef heb goll;
Rhow'd coron ar ei ben—ar orsedd ne'
Fe'i molir byth, bu farw yn ein lle.
Rhyw foreu pêr, daeth Llywydd nef yn mla'n,
Dyddanu'r plant ei waith—yr Ysbryd Glân
Y d'wrnod hwn i'r môr bad bywyd aeth—
Dysgyblion Crist arfogent at eu gwaith;
Yn aiddgar iawn e safai Pedr yn hyf
A'r un ar ddeg a'u Llywydd yn y llif;
O fad y bywyd pur rho'dd gynnyg gwiw,
Fod bywyd idd ei gael yn arch ei Dduw,
Awd at y llong ddrylliedig oedd ar goll
A chymmod llawn i'r dyoddefwyr oll.
Oddiar y llong ddrylliedig hanes gawn
Fod tair-mil wedi'u dwyn yn foreu iawn;
Fe'u rhoddwyd hwynt ar fwrdd ein Seion gan,
Ysbyt-long fawr, a nawddle teulu dyn;
Yn hon yn dêr mae perchenogion ffydd
I groesi'r moroedd maith i wlad y dydd;
Gwahoddir pawb i ddod i'w bwrdd heb os,
A groesaw geir a ddel trwy borthfa'r gro's;
Ei hamod teg yw credu gwir-fab Duw,
Ac ufuddhau i'w osodiadau gwiw;
Ar hyn derbyniad gei i long y nef,
A'th ddwyn yn iach i'w deyrnas freiniol ef.
Dysgyblion Crist fu'n ddiwyd yn eu dydd
I daenu dros y dda'r egwyddor rydd
Y deyrnas fawr sefydlwyd yn y gwa'd,
Ysbrydol yw ei hawl—ysbrydol had,—
Y galon yw ei sedd, a'r meddwl wna
Yn ufudd iawn i Awdwr y gwaith da;
A deiliaid aml rif y deyrnas hon
A gyfnewidiwyd oll drwy ras yr Ion;
Yr anian dda a blanwyd ynddynt hwy,
Blaguro wna drwy haeddiant marwol glwy'.
Rhyw lwyddiant mawr fu ar gyhoeddiad hon,
A'r newydd da a gludwyd dros y don
I'r gwledydd draw—drwy'r byd e deimlwyd hoen
Am fuddugoliaeth lwyr drwy waed yr Oen.
I'r gogledd oer, a thiroedd Asia fwyn
Newyddion da am fywyd ga'dd eu dwyn;
Disgynai lawr gawodydd maethlawn gras,
Ar y diffeithwch gwyllt a'r anial cras.
Blodeua'r anial dir fel rhosyn hardd,
A'r ddaear fydd yn ail i Eden ardd.
Trigolion banau'r byd a glywsant 'nawr,
Fod heddwch idd ei gael trwy'r Iesu mawr.
Yn mhob rhyw bau a lledrad is y ne'
Mae plant y cwymp, o'r dwyrain faith i'r de.
Gorchfygu wnawd: e blanwyd baniar gras
Ar fryniau Gwalia hoff, ac Asia fras;
Yn Rhufain fawr, 'merodrol ddinas oedd,
Ac Athen ddoeth mynegwyd draw ar goedd
Am frwydr Calfari—y bri a'r fraint
A ddeillia'i deulu dyn—cael bod yn saint;
Caersalem hardd, preswylfa'r Brenin mawr
Oedd canol-bwynt yr holl ddylanwad mawr.
Y gyfraith aeth o lys y freiniol sedd,
O Seion fryn; a Gair Tywysog hedd
Wynebodd ar yr Iuddew ac ei dras;—
Caersalem oedd trysorfa golud gras.
Y cylch nid oedd idd ei gyfyngu mwy,
Cawd breinlen lawn yn haeddiant marwol glwy',
Y byd yw maes y weinidogaeth wiw,
Cred a bedydd yw'r amod i gael byw.
Anghredu'r Mab o fodd sy'n ddamniol fal
A gospir byth yn yr uffernol ffau. [fawr,
Dwyn dyn oedd gaeth yn rhydd, y draul oedd
Y Mab a ddaeth o orsedd nef i lawr:
Y driniaeth ga'dd is ne' oedd arw iawn,
Dyoddefodd angeu'r groes o gariad llawn
At wael ac euog ddyn—a chyfrwng gaw'd
I fyned at y Tad. O ddedwydd ffawd.

[I'w barhau.]

## Y DIWEDDAR BARCH. J. PRICE.

Joseph Price, was hoff y praidd—ow! oerodd
Tan ei araeth ddwysaidd;
Yn hir iawn coffheir ei aidd,
Ei les pur, a'i lais peraidd.

Tra enw Herring try'n hiraeth—am ein Price,
Mewn pridd mae'n gwas odiaeth;
Ond ei enw uwch senw a'i saeth
Gaiff dirion goffadwriaeth.

Price hawddgar, llu a'i carent—a'i wir glod
Arogla o'r fynwent;
Adeilion cof i'w dalent
Yn lan gawn tua Blaenau Gwent. E.

### YMLADDFA WAEDLYD.

Cymerodd yr amgylchiad truenus a ganlyn le yn ddiweddar: ar nos Sadwrn aeth Dr. Loronzo D. Williams, mab John M. Williams, ger Lynchburg, Va., oddicartref, wedi cwblhau cydundeb blaenorol â merch henaf Cad. Richard G. Morris, o'r un ardal, i gyfarfod ynghyd er cilio ymaith i Washington, mewn bwriad i ymbriodi. Yr oedd y ferch ieuangc yn ei 19eg mlwydd oed, a daeth y newydd yn fuan i glustiau ei theulu wedi iddi gychwyn. Aeth y Cad. Morris a'i fab Richard G. ar eu hol yn ddioed, a daliasant hwynt yn Charlottsville, a dyn ieuangc o'r un lle o'r enw Hill yn eu cwmni. Cymerasant Williams a Hill i fynu yn ddioed, gan eu rhwymo drosodd am y swm o fil o ddoleri bob un. Yr oedd y ferch ieuangc wedi ei sicrhau yn y gwesty, ond llwyddodd ei thad a'i brawd i gael gafael ynddi; ac aeth y ddau gwmni tuag adreu. Yn Livingston, swydd Nelson, arosasant oll yn yr un tŷ, a phan yn cydeistedd wrth y bwrdd yno, cymerodd cweryl le rhwng Williams a Morris yr ieuangaf. Y canlyniad fu i Morris daflu y llestri a'r ymborth i'w wyneb ef a Hill. Pryd hyn dechreuodd ymladdfa greulon, yr hon a derfynodd yn angeuol i'r tri, yn ol pob tebygolrwydd. Saethwyd Williams yn ei ochor gan Morris, a Hill yn ei fynwes gan yr un—y ddau yn ol yr arwyddion yn anfeddyginiaethol; a syrthiodd R. G. Morris yn farw yn y man, wedi ei saethu trwy ei ben gan Williams, fel y bernir. Yr oedd y tad a'r ferch mewn ystafell i fynu y grisiau pan gymerodd yr ysgarmes waedlyd le. Nis gellir darlunio teimladau perthynasau y pleidiau anffodus.

### Y BEDWERYDD O ORPHENHAF, 1851.

Y newyddion o wahanol fanau a ddangosant fod yr wyl genedlaethol wedi ei chynnal gyda chymmaint o gynhwyf a bywiawgrwydd ag erioed trwy y wlad yn gyffredinol. Yn rai o'r dinasoedd yr oedd darpariadau gorwych neillduol ar gyfer yr amgylchiad. Y mae cadw y dydd hwn mewn modd gweddus yn gydweddol â syniadau pob dyn sydd yn caru egwyddorion rhyddid a gwerin-lywodraeth; ond y mae y dull anifeilaidd y cedwir y dydd hwn mewn gwahanol fanau trwy yr ardal hon yn gwneud i ni feddwl yn aml y byddai yn well peidio gwneud unrhyw sylw o hono, yn rhagor diwrnodau eraill, gan nad oes braidd dim sydd yn gydweddol â'i natur i'w weled na'i glywed o'r boreu hyd yr hwyr. Y mae miloedd yn ddiau yn meddwl nad yw ond dydd o loddest, meddwdod, anfoesoldeb, ac ymladdau, ac yn mhlith eraill, ofnwn fod rhai Cymry yma felly. Nis gallesid rhodio yr heolydd heb weled golygfeydd o'r mwyaf truenus. Swn cableddau arswydlawn y meddwon a lanwent glustiau pawb, a sefyllfa warthus yr ymladdfeydd a orchfygent bob teimlad.

### JENNY LIND YN HARTFORD.

Nos Sadwrn, Gorph. 5, yr oedd Miss Lind yn canu yn y Bedwerydd Eglwys yn Hartford. Yr oedd y tocynau yn rhedeg i fynu i bum' a deg dolar yr un. Yr oedd yr adeilad wedi ei orlenwi, a thua dwy fil o bersonau yn methu myned i mewn; o ganlyniad ymdyrai y dyrfa o gylch yr adeilad, ac ar benau y tai cyfagos, i gipio swn y beroriaeth. Cymerwyd gofal pa fodd bynag i gau y ffenestri i fynu, ac i dynu y *blinds* drostynt, er atal y rhai oedd tu allan i wrando na gweled: achosodd hyn y cynhwrf mwyaf yn mhlith y dorf y tu allan; bloeddient a gwaeddent fel yr oedd braidd yn anmhosibl i'r gynnulleidfa tu fewn i glywed y canu. Drylliwyd rhai o'r ffenestri, a bu llawer o gynhwrf hyd ddiwedd y cydgerdd. Yr oedd pawb yn melldithio gwerthwyr y tocynau, a'r dull yn mha un yr oeddent wedi eu gwerthu. Ar ddiwedd y cydgerdd cymerwyd Jenny allan yn ddirgel trwy ddrws y cefn, a chychwynodd yn ddioed gyda y rheilffordd tua Springfield. Parhaodd y terfysgwyr i floeddio dros fwy nac awr wedi ei hymadawiad.

### Y DDADL RHWNG LLEWELYN A JOHN THOMAS, POTTSVILLE.

Byd o bechaduriaid yw y byd hwn: ac os nad ydym yn camsynied yn fawr, ystyrir golygyddion yn gyffredin yn rhestr y "penaf" o honynt; o ganlyniad, ofer i ninau yw ceisio ymryddhau oddiwrth yr euogrwydd a berthyna i'r cymeriad. Ond yn yr amgylchiad presennol yr ydym yn rhwym o ddadleu nad oedd ein trosedd yn wirfoddol; ac felly os ydym i gael ein barnu yn ol ein galluoedd a'r manteision a feddwn, hyderwn na bydd ein dedfryd yn aethlym iawn. Gwir i ni dderbyn ysgrif yn erbyn Llywelyn mewn pryd i'r rhifyn diweddaf, ond gan fod rai ergydion a ystyriem yn dra anghysson ynddi, a bod y maes yn gyfyng, gadawyd hi allan y mis diweddaf, mewn bwriad i wneud sylw o honi yn y rhifyn presennol. Ond erbyn hyn mae y storom wedi ein dal, ac nid yw yr awdwr parchus yn ein hystyried yn deilwng o'r anrhydedd o gyflwyno ei ysgrif i'r cyhoedd, yr hyn a wna ein sefyllfa yn dra annedwydd.

Rhag y bydd i ni gael ein cyhuddo o bleidgarwch i "Llywelyn," dywedwn nad ydym yn un wedd am ei amddiffyn. Yr oedd efe yn ystyried yr eglurhad a gymerodd o'r "Bedyddiwr" y goreu a welodd ef erioed ar yr adnod; a chan iddo ei gyflwyno i'r Seren heb roddi enw yr awdwr wrtho, barnwn fod ein cymmydog John Thomas i raddau yn esgusodol am ei alw yn esboniad Llywelyn. Y mae y rhan fwyaf o ddrychfeddyliau pawb awduron wedi eu dethol neu eu casglu o gyfansoddiadau eraill, ond ysgrifenant hwynt, a chyfrifir hwynt yn eiddo iddynt, ac o ganlyniad y maent yn rhwym o sefyll neu syrthio wrthynt. Nid oedd hyn ond trosedd dibwys yn J. T., er na buasai o le ynddo i awgrymu mai cyflwynydd ac nid awdwr yr esboniad oedd Llewelyn. Digon, feddyliem, am hyn. —Gol.

## CYFANSODDIADAU Y CADEIRDRAW J. BRYAN, O PHILADELPHIA.

Yr ydym yn ddyledus i'n cydwladwr dysgedig uchod am dair o'i ddarlithiau, y rhai a gyhoeddwyd yn ddiweddar mewn gwahanol fanau. Y cyntaf yn cynnwys amryw ddarganfyddiadau gwerthfawr o barth y clust, y rhai a ystyrir o bwys annraethol i feddygon a naturiaethwyr. Yr ail, ar gynydd meddyginiaeth yn yr hanner can mlynedd cyntaf o'r bedwerydd gan'rhif ar bumtheg—sef darlith a draddodwyd ganddo ar agoriad sesiwn ddiweddaf Coleg Meddygol Philadelphia. A'r diweddaf ar hanes Llaw-feddyginiaeth; a draddodwyd yn nghyfarfod blynyddol Coleg Meddygol Geneva. Mae y darlithiau hyn oll wedi eu gosod allan yn y dull mwyaf dyddorgar, ac yn brawf diysgog fod yr awdwr yn deall ei bwngc. Byddai yn dda genym roddi dyfyniadau o honynt, a bwriadwn wneud hyny gan fyddo ein terfynau yn caniatau.

Y mae y Cadeirdraw Bryan yn bresennol yn sefyll yn y rhes flaenaf yn nghôr meddygol yr Unol Dalaethau; ac y mae ei lwyddiant yn codi i fynu o fod yn fachgen tlawd i'w sefyllfa bresennol yn achos o ymffrost a llawenydd i bob Cymro a deimla ryw eiddigedd dros anrhydedd ei genedl. Cyhuddir ni yn gyffredin o ddiffyg uchelgais a dyfeisgarwch; ond yn y dynsawd gwiwglodus dan sylw yr ydym yn cael enghraifft i'r gwrthwyneb. Y mae yn ymddangos yn hynod ar yr olwg gyntaf i feddwl mai dynion wedi codi o sefyllfaoedd isel yw prif enwogion ein gwlad; ond derfydd y rhyfeddod hwnw pan feddyliom fod tuedd naturiol mewn cyfoeth i greu difaterwch a meithrin diogi, fel y gwelwn nad yw y cyfoethogion yn meddu nemawr o ymlyniad nac ymgais am wybodaeth fuddiol, pan y mae dynion o amgylchiadau isel yn cael eu cynhyrfu yn mlaen wrth ymdrechu yn erbyn rwystrau ac anhawsderau. Fel llaw-feddyg mae Bryan heb ei ail. Bu rai o'r achosion mwyaf afrwydd ac anghyffredin o wahanol gymmydogaethau dan ei driniaeth yn ystod y ddau fis y bu yn ddiweddar yn nghyfarfod blynyddol Coleg Geneva; yr oedd yn petbynu iddo i dori chwydd-gasglau (*tumours*) a phethau cyffelyb, ac mae ei lwyddiant a'i fedrusrwydd i gyflawni y fath gywreinwaith yn adnabyddus trwy yr holl wlad.

## Y GOFGOLOFN YN SUMMIT HILL.

Mewn cyfarfod o ddinasyddion a thrigolion Summit Hill a'r cylchoedd, wedi ymgynnull ynghyd yn unol ag hysbysiad blaenorol, cyfarfuasantyn y tŷ ysgol perthynol i'r plwyf, yn Ashton, ar ddydd Sadwrn, y 26ain o Ebrill, 1851.

Dewiswyd Evan Phillips, Ysw., yn Gadeirydd, a Mr. Thomas Phillips yn Ysgrifenydd. Yna cynnygwyd y Blaendraeth a'r Penderfyniadau canlynol, y rhai a fabwysiadwyd:

Yn gymmaint a'n bod ni, drigolion Cymreig Summit Hill a'r cylchoedd, yn awyddus am fynegu ein cydnabyddiaeth o'n rhyddid crefyddol a dinasyddol, a sicrheir i ni gan gyfreithiau y Talaethau Unedig, &c., ac yn gymmaint a bod y rhyddid hyny wedi ei ddyogelu i ni yn benaf, dan Dduw, trwy offerynoliaeth y gwiwglodus Gadfridog Washington—

Penderfynwyd—Ein bod yn uno yn galonog â'n cydwladwyr mewn gwahanol fanau trwy y wlad hon i gyfranu o'n heiddo tuag at brynu careg briodol idd ei gosod yn y Gofgolofn yn awr yn cael ei hadeiladu yn ninas Washington, er coffadwriaeth o dad ei wlad.

Penderfynwyd—Fod pwyllgor o naw i gael ei bennodi i gasglu cyfraniadau; ac ysgrifenydd gohebol i ohebu â'r Pwyllgor Canolbarthol yn Utica, ac i ofalu am bob ysgrifion allanol eraill, perthynol i'r pwngc.

Penderfynwyd—Fod y pwyllgor e gasglyddion i gael ei addysgu i achosi i'r arian a fyddont wedi eu casglu, i gael eu danfon i'r Pwyllgor Canolbarthol yn Utica, erbyn y 10fed o Fai, ac i geisio dangoseg am yr un.

Penderfynwyd—Fod yr Ysgrifenydd Gohebawl i gael ei addysgu i anfon gweithrediadau y cyfarfod hwn, a chyfrif o'r arian a gesglir, i'r Cyhoeddiadau Cymreig.

Yna pennodwyd Meistrd. Hugh Davies, I. P. Owen, Evan Phillips, Thos. Hughes, John

Leyshon, Zorobabel Thomas, David Powell, a John Thomas, yn bwyllgor o gasglyddion; ac Isaac P. Owen yn Ysgrifenydd Gohebol, a Z. Thomas yn Drysorydd. Y swm a gasglwyd yw $31.

Isaac P. Owen, *Ysgr. Goh'l.*

---

## DAMWAIN ANGEUOL MEWN GWAITH GLO GER POTTSVILLE.

Dydd Sul, y 29ain o Fehefin, cyfarfuodd pedwar o ddynion ag anffawd annysgwliadwy wrth waith glo Mr. George Miller, pa un a fu yn achos o'u hangeu oll mewn ychydig ddyddiau. Eu henwau ydoedd Mr. Anthony Fox, y goruchwyliwr; Mr. Joseph Oldknow, a Mr. James Howard a'i fab (bachgenyn bychan saith mlwydd oed.) Yr oeddent yn codi y clawr ymaith oddiar bwll awyr, pan y gosodasant ganwyll oleuedig ar wddf y pwll, er profi sefyllfa yr awyr tu fewn; ond yn ddisymwth cymerodd tanchwa arswydus le, yn tanio oddiwrth eu canwyll eu hunain, a chwythodd goed a cherig i fynu, gyda nerth anferthol, a'u clwyfo a'u llosgi hwythau i'r fath raddau fel y buont farw oll o fewn ychydig ddyddiau. Nid oes hanes am unrhyw amgylchiad o'r fath o'i flaen—dynion yn cael eu lladd gan danchwa pan yn sefyll ar wyneb y ddaear yn ymyl y pwll.

---

## CARCHAR NEWYDD SWYDD SCHUYLKILL, YN POTTSVILLE.

Mae y carchar hwn yn awr yn cael ei adeiladu yn y lle hwn. Rhoddwyd y gwaith allan wrth *gontracts* i grefftwyr o leoedd eraill, gan eu bod yn cynnyg ei wneud yn is na'r rhai oedd yn byw yn y lle. Ond wedi iddynt fyned yn mlaen yn brysur am beth amser gyda yr adeilad dechreuwyd beio eu gwaith, am nad oedd yn dyfod i fynu â'r cynllun. Galwyd cyfarfod ar y 4ydd o Orphenhaf i ystyried y mater, pan y neillduwyd cysbwyllawd i arolygu y gwaith, a dwyn eu mynegiad i gyfarfod gohiriedig yr wythnos ganlynol. Yn y cyfarfod nesaf, cyflwynasant eu mynegiad, yn condemnio y defnyddiau a'r gwaith i'r graddau pellaf—nid yw y cerig, y muriau, na'r priddfeini, yn cyfateb i'r *specification*, meddynt; ac achwynent o herwydd fod y *contractors* wedi gomedd caniatad iddynt i fyned i mewn i weled y gwaith. Penderfynodd y cyfarfod yn ddiwrthwynebiad i dderbyn eu mynegiad, ac hefyd i anghymeradwyo ymddygiad y crefftwyr a'u gwaharddasant i fyned i mewn, gan fod y carchar yn feddiant i bobl y swydd, ac i gael ei adeiladu â'u harian, o ganlyniad fod ganddynt hawl i edrych allan a yw y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen fel y dylai. Nid yw yn hysbys eto pa fodd y terfyna yr achos yma rhyngddynt.

---

## DIRWESTWYR MEWN YSGOL SUL.

Mae yn dda genym hysbysu fod Dirwest ar gynydd yn y lle hwn yn mhlith yr ieuengctyd. Yr hanesyn a ganlyn a brawf hyny:—Un o'r Ysgolion Sabbothol a arferent fyned i'r coed ar y 4ydd o Orphenhaf i ganu, areithio, adrodd, &c.; a chymerent gyda hwy luniaeth a thablen neu ddiod fain (*small beer*). Y flwyddyn hon penderfynwyd i fyned i'r coed fel arferol, hefyd eu bod i gymeryd teisienau a phethau eraill i'w bwyta. Ond beth fynent i'w yfed? Gofynodd yr arolygydd i bawb a ewyllysient gael gwin sefyll ar eu traed. Ni chododd un. Yn nesaf gorchynodd i'r rhai a garent ddiod wan i ddangos hyny trwy godi. Ni chododd ond tri. Yn olaf, bydded i bawb a ewyllysiant gael dwfr oer i godi. Cododd yr holl ysgol yn ddioed. Dyma'r man mae eisiau i ddirwest wreiddio—yn yr ysgol Sabbothol—a bydd i'w ffrwythau dori allan yn y canlyniad.

---

## LLAFUR YSGOL SABBOTHOL EBENEZER, COALPORT, OHIO,

*Am y tri mis diweddaf, yn diweddu y 15fed o Fehefin*, 1351.

Adroddwyd—Pennodau, 34; Salmau, 26; Adaodau, 761.

Dywenydd fydd genych, Mr. Golygydd, (er nad ydyw yr ysgol hon ond bychan,) gael ar ddeall fod yma gystadleuaeth am Feiblau a Thestamentau o fewn y chwarter o'r blaen a'r un presennol, rhwng tri o fechgyn ieuaingc, fel y maent wedi dwyn yn dêg yr hyn a rwymodd y cyfarfod athrawon iddynt am eu llafur yn cofio yr hyn a osodwyd arnynt o'r gyfrol ddwyfol. Er nad oeddym ond 28 mewn rhifedi y Sul diweddaf, golygir genym y bydd yn llawer mwy llewyrchus erbyn ein mynegiad nesaf. Llwydd iddi, medd fy enaid, canys derbyniais fy hun yr hyn a'm galluogodd i ffurfio yr ysgrifen hon atoch drwy gyfrwng yr Ysgol Sabbothol.

"Llwyddiant fyth fo i'r ysgol rad,
Yn Sabbothol;
Cofir ymdrechiadau'n gwlad
Yn drag'wyddol:
Ac fe welir myrdd o'i phlant
Yn y noddfa,
Yn cyduno ar y tant,
Haleliwia.

Benjamin Thomas, *Arolygydd.*
Dafydd D. Phylips, *Ysgrifenydd.*

## BEDYDD Y SEINTIAU YN ABERDARE.

Yn gymmaint a fy mod wedi canfod yn y Seren am y mis diweddaf gam-dystiolaeth yn erbyn eglwys y Bedyddwyr yn Aberdare, yr wyf yn teimlo yn ddyledswydd arnaf i amddiffyn ei chymeriad fel eglwys i Grist, yr hon sydd, ynghyd a'i gweinidog parchus, yn berffaith rydd oddiwrth bob rhyw sothach o eiddo y 'Seintiau;' a chredwyf fod ei bugail hoff, y Parch. T. Price, yn byw yn rhy agos i'r Nefoedd i droi o fod yn Sant i fod yn Satan. Ond gan fy mod ar yr amser y cyfeirir ato yn y lle, ac yn dal perthynas fel aelod â'r eglwys hono, gallaf sicrhau yn ngwyneb haul a llygad goleuni mai "ryw gath arall, ac nid ein cath ni" ydoedd; a'r un arall hono, tebygaf, yw Aberaman; o herwydd gwn fod ryw gymmaint o gynhwrf yno, am fod y blaidd wedi tarfu y defaid; ond hoff yw meddwl fod y defaid wedi ei adnabod mewn pryd, ac wedi ffoi rhagddo. Mae yr hanes a gymerasoch chwi, Mr. Golygydd, o'r Drych, yn gabolfa anwireddus gan mwyaf. Gwir i ryw fath o hen bregethwr oedd yno gael ei drochi gan y "Seintiau" yn afon Cynon; ond ni throchwyd neb arall ganddynt y Sabboth hwnw:—deallwyf fod dau neu dri o honynt wedi ei ganlyn yn mhen ychydig amser wedi hyny:—rhoddodd yr aelodau yn gyffredinol eu hunain dan ofal Mr. Price. Yr oedd yr hen bregethwr hwn yn chwenych y blaen yn eu plith, ond o herwydd methu, gwnaeth ymuno â bwystfilod o'r un natur ag ef ei hun; ond mae o fwy o bwys na'i golli ef, ei fod yn bwriadu colledu Mr. Price o'r arian sydd ganddo ar yr addoldy; o herwydd dichon fod ganddo ryw awdurdod neu ddylanwad yn rhywfodd yn mhlith yr ymddyriedolwyr; a digon tebyg yw mai yn nwylaw y cyfreithwyr y terfyna yr achos. Bydd hyn yn ddysglaid newydd ar fwrdd Satan. Addefa pawb mai anghyfiawn yw i Mr. Price fod heb ei arian; ond pe byddai yn eu cael, gwelwn mai cynnygiad lladradaidd o eiddo sataniaid y dyddiau diweddaf yw eu bod am feddiannu yr addoldy, o herwydd eiddo y Bedyddwyr yw mewn gwirionedd; ond barnwyf os na fydd i'r Arglwydd ganiatau rhyddid i satan fel yn amser Job gynt, y bydd i'r Bedyddwyr ennill y fuddugoliaeth eto, a chael cydgwrdd a gwledda ar fwrdd eu Tad, heb neb yn beiddio eu drygu. Henffych i'r dydd.

JAMES LEWIS.

*Pottsville, Gorph.* 15, 1851.

---

Wedi cysodi yr uchod, derbyniasom y llythyr canlynol, pa un a roddwn yn llawn o flaen ein darllenwyr:

## ABERDARE.—Y "SEINTIAU" A'R BEDYDDWYR.

*"Facts are stubborn things."*

ANWYL MR. GOL.—Er pan glywais yr ystori rhyfedd a gyhoeddwyd yn gyntaf yn y "Drych," ac yn ddiweddaf yn y "Seren," yr wyf wedi bod yn manol ymholi am ffeithiau y peth. Gwyddwn mai brawd parchus o'r enw Thomas Price oedd unig weinidog y Bedyddwyr yn Aberdare, ac yr oeddwn yn dra hwyrfrydig i gredu mai ato ef a'i eglwys y cyfeiriai yr hanesyn dan sylw.

Barnwyf y bydd yn hoff genych chwi, yn gystal a'ch derbynwyr lluosog, gael a ganlyn fel ffrwyth fy ymdrech yn ymgeisio am y gwir. Saif "Y gwir yn erbyn y byd."

I ddechreu. Bu, gryn dipyn o anghysur mewn eglwys fechan perthynol i'r Bedyddwyr yn Cwmbach, Abernantygroes. Gwrthryfel dd tua 18 o'r aelodau yn erbyn yr hen wr a weinidogaethai yn y fan hono. Ymadawsant o'r Cwmbach, a cheisiasant loches yn eglwys y Bedyddwyr yn Carmel, Aberdare. Bu yno beth cynhwrf ac anfoddlonrwydd yn ngwyneb derbyniad y 18 hyn. Pa fodd bynag, cawsant aelodiaeth. Cyn pen *dau fis* anesmwythodd rhai o honynt yno, a ffoisant i eglwys y Bedyddwyr yn Mountain Ash. O fewn corff blwyddyn ymadawsant *oll* o Aberdare.

Hen ddiareb ydyw, "Adar o'r un lliw a dynant i'r un lle." Cyfarfu y crwydriaid yn Aberaman. Yno amcanasant godi achos newydd, a chyflogasant ystafell. Daeth y brodyr Price, Aberdare, ac Evans, Hirwaun, yn achlysurol i bregethu atynt am oddeutu tri mis. Cynyddai rhifedi y gwrandawyr, ymddangosai pethau yn dra ffafriol.

Pryd hyn ymwelodd y Parch. D. Jones (Dewi Elfed), gynt o Jerusalem, Rhumney, â'r gymmydogaeth. Yr oedd Mr. J. wedi coleddu daliadau y "Seintiau." Ymddiffynai hwynt yn Rhumney, nes i'r bobl ei adael bron yn llwyr. Hysbys oedd hyn yn yr holl dir. Tebygaf mai o herwydd hyn, y darfu i Mr. J., pan ddaeth i Aberamanddarlithio *yn erbyn* y Seintiau.

Penderfynwyd codi addoldy. Codwyd ef i'r *square*, a safodd o ddiffyg arian. Mewn pwyllgor o weinidogion y Bedyddwyr, penderfynwyd roddi cynorthwy i gael y tŷ dan dô beth bynag. Felly y bu, ac felly y mae yn aros hyd heddyw, heb hanner ei orphen.—Dyma yr achos o hyny. Meddyliai Mr. J. fod y cwbl yn sicr a diymod erbyn hyn; o ganlyniad daeth allan megys gynt yn ei wisg Formonaidd. Yn y cyfamser, cynnaliwyd cwrdd chwarter Morganwg yn Aberdare (mis Tach., 1850.) Yn y gynhadledd dygwyd cyhuddiad gan rhai o'r aelodau yn erbyn Mr. J., a'r canlyniad fu i Mr. J. a thri eraill gael eu bedyddio yn afon Cynon gan y Mormoniaid.—Yr un dydd ag y trochwyd Mr. J. amcanwyd ei osod yn mhwlpid y capel newydd *trwy drais*, ond methwyd llwyddo. Yn ddioed ar ol hyn, anturiwyd at wneud y tŷ cwrdd yn un Mormonaidd, trwy rym cyfraith y wlad. D. S.—Yr oedd Mr. J. wedi talu dros yr eglwys tua £140, gan dderbyn y tâl-ysgrifau (*receipts*) yn ei enw ei hun!! Tybiodd Mr. J. a'i frodyr *saintaidd* fod yr ymddygiad *boneddigaidd* ac *apostolaidd* (?) hwn yn rhoddi iddo hawl ar y tŷ. Hefyd, gwnaethant gynyg i gymeryd y capel am y gweddill o'r ddyled. (Cynyg gwerthfawr, onide?)

Wel, y mae y mater, fel y dywed y Drych, erbyn hyn, yn debyg o fod yn nwylaw y cyfreithwyr.

Un peth sydd yn fendith annraethol dan yr

amgylchiadau hyn yw fod un o erthyglau y *lease* yn nodi yn bendant mai athrawiaeth cymanfa Morganwg sydd i gael ei phregethu yn y capel, tra y byddo careg ar gareg o hono yn sefyll; ac fod y *trustees oll yn erbyn* iddo fyned yn feddiant i'r "Seintiau" ar unrhyw dyleran.

Dyna i chwi y ffeithiau, megys y cafwyd hwynt gan eich gohebydd. Credwyf eu bod yn *gywir*. *Os nad ydynt*, hoffwn yn fawr i ryw un ysgrifenu ar y mater eto. *Os ydynt*, gwasanaethant i ddangos y gwahaniaeth rhwng "ein cath ni" a "rhyw gath heblaw ein cath ni," yn y pethau canlynol:

1. Yn lle "Aberdare," Aberaman yw y man y bu y "cynhwrf mawr."

2. Yn lle "gweinidog a chynnulleidfa yn ymwrthod â'u golygiadau crefyddol, a chofleidio eiddo y 'Seintiau,'" Cwrdd Chwarter y Bedyddwyr yn Morganwg a ymwrthododd â'r gweinidog, ac unrhyw aelod a goledda ei olygiadau.

3. Yn lle "bedyddiwyd hwynt *oll* yn afon Cynon," ni fedyddiwyd ond Mr. Jones a *thri* eraill.

4. Yn lle fod y Mormoniaid "wedi cymeryd meddiant o'r capel, i'w droi at wasanaeth yr ynfydion hyn," y maent hyd yma wedi methu llwyddo yn eu hamcan, er mor gyfrwys a dichellgar yr ymddygodd yr *olynydd apostolaidd* J.; ac ymddengys y sicrwydd nad allant byth "ei droi" heb gyfnewid y *trustees* a'r *lease* yn dra eglur i feddwl

*Pittston.* CARWR GWIRIONEDD.

☞Carwn i Olygydd hybarch y "Drych" gopio, os gwel yn dda.

---

## ACHOS Y BEDYDDWYR YN SUMMIT HILL, &c.

MAE'r achos goreu yn gwisgo agwedd gysurus yn y lle hwn, er pan ddaeth y Parch. D. Evans yma i ymsefydlu. Er nad oes yma ddim llawer o chwanegiad at yr eglwys o'r newydd, eto gallwn feddwl fod y meusydd yn wynion i'r cynhauaf. Hyderwn fod y tir wedi ei fraenaru i dderbyn yr hâd da, a'i fod yn cael dyfnder daear, fel ag y byddo y ffrwyth yn santeiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol. Bedyddiwyd dau yma gan y brawd David Evans, ar broffes o'u ffydd yn Mab Duw. Bu un o honynt yn proffesu gyda yr Annibynwyr am rai blynyddau. Hyderwd nad yw hyn ond blaenffrwyth o gynhauaf mawr.

Hefyd, mewn cyssylltiad â'r eglwys hon mae ychydig o frodyr a chwiorydd yn Tamaqua yn cyfarfod i addoli Duw yn Sabbothol ac yn wythnosol; ac mae y brawd Evans yn myned yno ddwywaith yn y mis i bregethu a gweini'r ordinhadau: mae yno un chwaer yn bresennol yn y gyfeillach yn aros am gael eu bedyddio. Dymuna y brodyr yn y lle uchod ar weinidogion a phregethwyr i beidio eu hanghofio pan yn myned heibio.—Ein dymuniad ar ein brodyr yn mhell ac agos yw, ar iddynt gofio am danom yn eu gweddiau, ac ymdrechwn ninau wneud yr un peth drostynt hwythau, ac felly ni a gyflawnwn gyfraith Crist.

*Summit Hill.* E. FARR.

---

## TALWCH GLUDIAD EICH LLYTHYRAU YN MLAEN.

Dylid cofio fod y *postage* ar lythyrau wrth eu talu yn mlaen ddwy cent yn llai nac wrth eu codi, dan y gyfraith bresennol. Mae hyn yn ei gwneud yn debygol y bydd agos pawb yn talu am eu llythyrau yn mlaen. Byddai yn angharedig ynoch i anfon llythyr masnachol at echwynwr na dyledwr, nac ysgrifenu at gyfaill, a'i osod dan dreth o bump cent, pan y gallech chwi ei dwyn am dair cent. Ond yn benaf, dylai pawb a fyddont yn danfon llythyrau i ofyn cymwynasau, neu i hysbysu rhyw bethau na fyddont o un budd i'r derbynydd, eu talu yn mlaen—mae boneddigeiddrwydd yn gofyn iddynt wneud hyn.

---

## GOFYNIADAU.

MR. GOLYGYDD,—Wele fi yn defnyddio yr adeg hon i'ch anerch ag un gofyniad os gwelwch yn dda ei rhoi gergwydd y cyhoedd, sef, Pa un a oes bedydd yn yr adnod sydd yn Ioan 3. 5. yn cael ei olygu; pan ddywedir, "Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd," &c. ai nad oes? Nid wyf yn gofyn fel un am rhoi gwybodaeth, ond fel un am gael gwybodaeth. Yr wyf wedi darllen gwaith rai o'r dynion mwyaf dysgedig o bob enwad, ac y maent yn golygu fod bedydd yma, megys Mathew Henry, Barnes, ac eraill, yn gystal a'r dynion enwocaf a fedd y Bedyddwyr.

Yr achos i mi fyned mewn petrusder yn nghylch y geiriau yw, o herwydd fy mod yn ddiweddar wedi bod yn gwrando un a alwai ei hun yn Fedyddiwr, ac yr oedd yn dywedydd nad oedd bedydd yn cael ei olygu ynddi,—dim ond gwaith yr Ysbryd Glân; o herwydd fod cyfnewidiad pechadur o Dduw, ac yn deilliaw oddi uchod, yn cael ei osod allan yn yr Ysgrythyrau; gan hyny nis gallasai yr adnod gynnwys bedydd, am mai peth naturiol neu anianol yw bedydd, ond mai peth oddi uchod oedd yn cael son am dano yma. Yr oeddwn i yn golygu rhywbeth yn wahanol; ond safai ef yn benderfynol ac haerllug dros ei bwngc; a chan agor ei Destament Groeg, dywedai 'Fel hyn y mae yn y Groeg.' Ond ni ddywedaf ychwaneg yn bresennol.

Yn awr, gan fy mod i raddau wedi fy nyrysu fel yma, hyderaf y gwna rai o'ch gohebwyr medrus roddi eglurhad buan a chywir ar y geiriau trwy gyfrwng y Seren.

*Youngstown, O.* R. WOOLLEY.

---

MR. GOL.—Dymunir eglurhad trwy gyfrwng y Seren ar Ioan 17. 22—24. W.

---

MINERSVILLE.—Meh. 22, ychwanegwyd at eglwys y Bedyddwyr Cymreg yn y lle hwn, ddeuddeg drwy fedydd, a llythyron o Gymru.

---

## GENEDIGAETHAU.

Tachwedd 1, 1850, yn New Minersville, ger Pomeroy, Ohio, Mary, gwraig Mr. Abel Williams, ar fab. Ei enw yw Sephania.

Hydref 18, 1850, yn Pomeroy, Ohio, Margaret, priod Mr. John Thomas Him, ar ferch. Gelwir hi Mary Jane.

Eto, yn yr un lle, Ebrill 2, 1851, Gwenllian Thomas, ar ferch. Ei henw yw Jane.

Mai 23, yn Centreville, Galia Co., Ohio, Mary Ann, gwraig y Parch. David A. Jones, gweinidog y Bedyddwyr Neillduol, ar ferch. Adnabyddir hi wrth yr enw Eliza Jane.

Yn ardal Youngstown, Ohio, Ebrill 6, 1851, Hannah, gwraig Thos. Lloyd, ar ferch. Ei henw yw Allis.

Eto, Mai 22, Margaret, gwraig Richd. Williams, ar ferch. Ei henw yw Mary.

---

## PRIODWYD—

Yn Nghaerefrog-Newydd, gan y Parch. T. Ll. Davies, 238 Tenth Avenue, Meh. 16eg, Mr. John Prosser, o Pittston Ferry, a Miss Sarah Edwards, o Dredegar, swydd Fynwy.

Yr un dydd, gan yr un, Mr. Wm. McLochan, o'r Ital, a Miss Margaret Baron, o Giberalter.

Yn Palmyra, Ebrill 8, 1851, gan y Parch. R. Davies, Mr. Thomas Jenkins, a Miss Martha Thomas, y ddau o Palmyra.

Yn Pipetown, ger Pittsburg, Meh. 21ain, gan y Parch. T. Edwards, Mr. John Davies, gynt o Aberdare, a Mrs. Sarah Miller, Saesnes, o Loegr.

"Ar led pan bo i drallodion--gyfodi
'N gawodydd mawr trymion,
Daw'r un waraidd, lariaidd lon,
Ag eli i glwyfau'r galon."

---

## MARWOLAETHAU.

Yn Pottsville, Meh. 25, o'r *Scarlet Fever*, Mary Ellen, merch Thomas P. ac Elizabeth Davies yn bedair blwydd, dau fis, a dau-arhugain o ddyddiau.

Yn ardal Youngstown, Ohio, Meh. 17, 1851, plentyn i James a Jane Morris, yn 6 mis a 16 diwrnod. Bu yn sal am gryn amser. Buont yn meddwl ei fod yn gwellhau ar droion, ond gweithio yr oedd angeu yn ei gyfansoddiad, nes terfynu ei oedl. Claddwyd yn mynwent y Bedyddwyr, pan y dywedwyd ychydig ar yr achlysur gan yr ysgrifenydd. Bydded i'w rieni ymgysuro, gan ystyried mai yr Arglwydd a roddodd, ac mai efe a gymerodd ymaith. Mae ganddynt le i ymdawelu, o herwydd fod y nef yn eiddo y cyfryw rai.—Bydded iddynt hwythau ymofyn am barodrwydd i fyned at eu plentyn i baradwys.

D. PROBERT.

Yn yr un ardal, Meh. 2, Wm. Philpott, o'r darfodedigaeth, wedi bod yn sal am rai misoedd. Yr oedd Mr. P. yn dra adnabyddus i'n cenedl trwy yr ardal, yn gystal ag mewn lleoedd eraill y bu yn aros. Daeth i'r wlad hon o gylch 16eg mlynedd yn ol. Agorodd waith glo yn Saw Mill Run, ger Pittsburg; a gwnaeth yr un peth yn Middlebury, ac hefyd yn Youngstown. Cafodd llawer o'n cenedl lwybr o fywioliaeth trwyddo. Yn ein golwg ni yr oedd yn ymddangos yn ystyriol iawn am fater ei enaid. Gobeithiwn ei fod mewn gwell lle. Gadawodd weddw a dwy o ferched i alaru ar ei ol. Ar y 3ydd. ymgasglodd tyrfa luosog o'n cydgenedl ynghyd a chenedlaethau eraill, i dalu y gymwynas olaf iddo, pryd y traddododd D. Jones, Wisconsin, bregeth ar yr achlysur. oddiar y geiriau canlynol: "O fewn y flwyddyn hon y byddi farw;" mewn modd syml a phwysig, yn Saesnaeg. Yna hebryngwyd ei ran ddaearol i'w gladdu i fynwent y Bedyddwyr, lle y dywedwyd ychydig gan yr ysgrifenydd oddiar y geiriau "Bydd barod i gyfarfod â'th Dduw;" ac un o'r Wesleyaid Seisig na wnaeth rhai sylwadau cyffredinol ar yr 8fed o'r Rhufeiniaid, mewn modd sobr a difrifol. Felly claddwyd ei gorff yn y bedd, lle y gorwedd hyd udganiad yr udgorn mawr. Bydded i'w berthynasau ymgysuro ar ei ol, a pharotoi erbyn yr un amgylchiad.

YR UN.

Eto, dydd Mercher, Gorph. 11eg, Griffith Williams, o'r un lle. Cymerwyd ef yn glaf ar y 3ydd o'r *lung fever*, yr hyn a derfynodd yn angeuol iddo yn mhen wythnos. Gadawodd weddw ac wyth o blant i alaru. Yr Arglwydd a ofalo am y weddw a'r ymddifaid. Claddwyd wrth gapel yr Annibynwyr ger Youngstown, pryd y pregethodd gweinidog y lle ar yr achlysur, oddiar 2 Sam. 12. 23.

YR UN.

Un arall a fu farw yn yr un ardal, nos Wener, Gorph. 13, oedd Daniel Hughes, gan adael gweddw a phump o blant i alaru ar ei ol. Yr oedd wedi ei daro yn glaf o gylch yr un amser a Griffith, a gorphenodd ei yrfa yn fuan ar ei ol. Dydd Sadwrn, y 14eg, ymgasglodd tyrfa luosog o'n cyd-genedl i'w ddwyn i dŷ ei hir-gartref. Cyn claddu, yn ol y drefn arferol, pregethodd y Parch. Evans, gweinidog y lle, ar yr achlysur, mewn modd pwysig a sobr. Yr oedd y rhan fwyaf yn teimlo galar ar ei ol; yr oedd yn grefyddwr hardd, ac yn gymmydog caredig. Barnwn fod marw yn elw iddo. Bydded i ni fel cenedl gymeryd rhybydd. Mae angeu yn gweithio yn ein hardaloedd. Am hyny byddwn barod.

YR UN.

Yn Pottsville, Meh. 23, yn 5 mlwydd oed; Rachel, merch Thomas J. a Sarah Harris, gynt o Ddowlais. Claddwyd hi y dydd canlynol yn mynwent yr Annibynwyr, pryd yr ymgynnullodd amryw ynghyd. Pregethodd y Parch. Wm. J. Jones yn yr addoldy, ac areithiodd R. Edwards wrth y bedd.

Yn ddiweddar, yn Sandusky, O., yn 15eg mis a 5 diwrnod oed, Morris, mab John a Jane M. Jones, o'r *Intermetent Fever*. Y mae ei rieni mewn galar mawr am dano; ond yr wyf am ddywedyd wrthynt yn ngheiriau y Salmydd, "Wele plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd, ei wobr ef yw ffrwyth y groth." A chan ystyried mai eiddo arall oedd, bydded iddynt ddywedyd gyda gwas y proffwyd, "Och fi, fy meistr, canys benthyg oedd."

*Cincinnati.* G.

Ebrill 16eg, yn ninas Columbus, Ohio, yn 48 mlwydd oed, Mr. Richard Theophilus, genedigol o blwyf Llangamarch, D. C. Yr oedd o berchen synwyr cryf a deall da; darllenodd lawer ar hyd ei oes, ond gadawodd yr un peth angenrheidiol yn ail beth hyd ei ddyddiau olaf. Pa fodd yr ymdarawodd nid ydym yn cymeryd arnom ein bod yn gwybod. Daearwyd ei ran farwol y dydd canlynol: gweinyddwyd ar yr achlysur gan y brawd Lewis N. Lewis, yn gynnwysfawr a byr. M. J., *Columbus.*

Archesgob Hughes.—Mae y gwr enwog hwn ar ôl ei ddychweliad, wedi anfoddloni rai o'i hen gyfeillion mwyaf gwresog, o herwydd ei syniadau, y rhai mae yn debyg a gofleidiodd ar ei daith ddiweddar i Rhufain. Mae wedi pleidio egwyddorion gwrth-werinol yn y modd mwyaf noeth, yr hyn sydd yn debyg o'i iselhau i raddau mawr yn mhlith y bobl. Ei gyfeillion pendefigaidd (*aristocratic*) yn gweled hyn a benderfynant wneud pob ymdrech i'w amddiffyn, ac er daagos eu hymlyniad wrthod, gwahoddwyd ef i giniaw ardderchog yn New-York gan gant a hanner o honynt, ar yr 21ain o'r mis diweddaf. Derbyniodd yr arch-esgob y gwahaddiad; a chymerodd y giniaw le am wyth o'r gloch yn yr hwyr. Nid ydym yn gwybod pa amser y swperodd yr arch-esgob, wedi ciniawa mor ddiweddar, ond barnwn nad cyn boreu dranoeth, os na ddarfu iddo wneud glwth o hono ei hun. Oni fuasai yn fwy o drugaredd â'i natur i'w gyfeillion roddi ciniaw dda iddo ar Ddydd Gwener y Croglith, ar ol traddodi ei ddarlith yn eglwys St. Paul?

Marwolaethau trwy Enwaedu.—Rhydd papyrau Germany hanes am dri o blant wedi marw mewn canlyniad i gael eu henwaedu gan offeiriad Iuddewig anfedrus ac anghyfarwydd â'r gwaith.

# HANESIAETH DRAMOR.

## PRYDAIN FAWR, &c.

Cawsom y newyddion diweddaraf gyda yr agerfad Pacific, yr hon a adawodd Liverpool prydnawn y 9fed o Orphenhaf. Nid oedd dim o bwys yn y newyddion o Loegr. Mae masnach yn parhau yn isel, yn enwedig y cotwm. Y nifer fwyaf o ymwelwyr â'r palas gwydr mewn un diwrnod oedd tua chan mil. Bernid i 60,000 fod i mewn ar yr un pryd. Y mae yr adeilad prydferth hwn i gael ei gadw i fynu i'r llywodraeth. Y Pabyddion a barhant i gadw yn mlaen yn eu hymdrechiadau yn Lloegr, ac ymddengys fod eu dylanwad yn cynyddu.

## FFRAINGC.

Adolygiad y ffurf-lywodraeth sydd yn destyn ymddiddan y wlad hon yn barhaus, ac y mae llawer storm yn cymeryd lle yn y senedd wrth ymdrin â'r pwngc.

## RHUFAIN.

Cynhwrf a thywallt gwaed ydynt amgylchiadau cyffredin yn Rhufain yn ddiweddar. Y mae y milwyr Rhufeinig a Ffrengig ar y telerau mwyaf llidiog at eu gilydd, yr sydd wedi achosi ymladdau gwaedlyd rhyngddynt.—Un dydd lladdwyd pedwar neu bump o'r milwyr, ac un o'r dinasyddion trwy i derfysg dori allan o herwydd sel un o'r pregethwyr Jesuitaidd yn gwahardd cario arfau dirglaidd, na chadw llyfrau anghyfreithlon. Ofnid fod pethau fel hyn yn debyg o waethygu yno.

## Y PALAS GWYDR YN FYCHAN MEWN CYMHARIAETH.

Dywedodd Mr. Duff, yn nghyfarfod blynyddol Cenhadiaeth y Wesleyaid, yn Llundain, am un o demlau paganaidd India, fel hyn: "Yn Seringham y mae y deml fwyaf ag sydd yn bod, y mae yn debyg, o'r naill begwn i'r llall. Y mae o ffurf pedair-onglog yn filldir bob ochr, ac felly y mae yn bedair milldir o gwmpas. Son am y palas gwydr! Fel y gallwch roi ceiniog yn eich llogell, felly y gellwch roddi y palas gwydr yn llogell y deml hon i eilunod. Mae y muriau yn bum' troedfedd ar hugain o uchder, ac yn bedair neu bum' troedfedd o dew; ac yn nghanol pob mur y mae twr uchel. Wedi i chwi fyned i un petryal yr ydych yn dyfod i un arall drachefn: ac yr ydych yn cael fel hyn saith o bentryalau, y naill o fewn y llall, yn llawn o addolwyr Brahminaidd. Mae y neuadd fawr o bererinion yn cael ei chynnal gan fil o golofnau, pob un o honynt yn gareg gyfanwaith.

## PRWSIA.

Y mae y wlad hon yn myned yn ei hol ar garlam tua chynydd gormesiaeth, fel y dengys y ffath ganlynol. Yn Konigsberg yr oedd Cymdeithas Heddwch yn bodoli; as arferai yr aelodau ymgynnull ynghyd o bryd i brydi ymgynghori â'u gilydd, ac i ddarllen traethodau a chyhoeddiadau yn dal cyssylltiad â sefydliad y Gymdeithas. Un noswaith darllenodd Mr. Rapp erthygl o'r "Herald o'r Peace," a olygir gan ein cydwladwr talentog y Parch. Henry Richards, o Lundain, a chan mai cyhoeddiad swyddol Cymdeithas Heddwch Lloegr yw yr "Herald," canfyddodd yr heddgeidwaid yn y ffaith yna brawf fod cymdeithas Konigsberg yn troseddu y gyfraith sydd yn gwahardd i unrhyw gymdeithas a drwyddedir ganddynt fod yn gyssylltiedig â chymdeithas neu gymdeithasau eraill, ac mewn canlyniad yr oeddent yn euog o gyfeillachu yn anghyfreithlon â chymdeithasau Seisnig, ac o'r herwydd dadgorffolwyd Cymdeithas Heddwch Konigsberg, a chwiliwyd yn nhai Llywydd ac Ysgrifenydd y Gymdeithas am ohebiaethau rhwng y boneddigion hyny ag Elihu Burrit!

## PORTUGAL.

Mae Saldanha yn parhau yn boblogaidd iawn, ac y mae yn neillduol gyda y gwaith o roddi yr egwyddorion a broffesodd ar y cyntaf mewn grym. Mae y senedd wedi ei ddadgorffori, ac un arall wedi cyfarfod yn ei lle.—Rhoddodd hyn foddlonrwydd cyffredinol i'r bobl. Pan ffodd Thomar ar fwrdd yr agerlestr ar ei daith tua Lloegr, honai ei fod yn dlawd dros ben; ond haerir ei fod yn gyfoethog odiaeth pan ddiangodd o Portugal.—Adsefydlir yr holl bendefigion a ddifreiniwyd gan Don Pedro, (am ei fod yn eu hystyried yn Figueliaid,) yn eu breiniau a'u hawliau, os tyngant y gwnant gadw yr orsedd i'r teulu sydd yn awr yn llywodraethu. Mae yr holl rai a gynorthwyasant Saldanha yn y gwrthryfel wedi eu gwobrwyo a'u dyrchafu.

## ALGERIA.

Awdurdodwyd y byddinoedd Ffrengig yn Algeria i ail-ymosod ar y brodorion ychydig fisoedd yn ol; ac mae y rhyfel wedi dechreu gyda lladdfa fawr o bob tu. Anfonodd y Cad. St. Aurand bump neu chwech mil o wyr yn erbyn Djijelli, ac y mae eisoes wedi colli mwy o ddynion nag a gollodd y Marshal Bugeaud yn ei wrthgyrchiadau ar lwythau y Kabyliaid, ac yn yr holl ryfeloedd yn 1845 yn Oran ac Algiers. Ymguddiodd llu o'r brodorion, ac yn ddisymwth syrthiasant ar ddwy fintai o'r milwyr Ffrengig, gan ladd 200 o wyr a phump o swyddogion. Dywedir fod holl rif y lladdedigion yn 300. Ar y llaw arall, y mae dial y Ffrangcod wedi bod yn un ofnadwy. Cyn pen yr wythnos ar ol yr amgylchiad uchod, dinystrasant 42 o bentrefi; llosgwyd hwy a phob peth ynddynt yn ulw. Pan ystyrir mai mynyddwyr yn byw ar ffrwyth eu llafur yw Kabyliaid hyn, a bod eu preswylfeydd wedi eu dyfetha, a'u cartrefi eu gwneuthur yn anghyfannedd, gan estroniaid awyddus am anrhydedd milwrol, nis gallwn lai na chydymdeimlo â hwynt.

## PENRHYN GOBAITH DA.

Hysbysa y newyddion diweddaraf fod Krelli, prif benaeth y llwythau ar y goror nad ydynt dan lywodraeth Sandilli, wedi ymuno o'r diwedd â Sandilli, penaeth y Gaikiaid, a phenderfynu ymladd yn erbyn y milwyr Prydeinig. Y mae hyn yn debyg o barhau y rhyfel am amser annherfynol; ond hyd yn hyn mae Syr H. Smith wedi llwyddo i gadw ei dir yn ngwyneb pob gwrthwynebiad, heblaw roddi curfa lled dda i Krelli, yr hwn a siomwyd yn fawr yn ei filwyr, y rhai a ddangosasant eu cefnau i'r gelyn yn lle eu gwynebau, a cheisiasant ddiangc ymaith yn chwyrn, eithr daliwyd deunaw o'r mân-benaethiaid ffoedig. Yr oedd yr ager-lestr Singapore wedi cyrhaedd, gydag adgyflenwad o filwyr Lloegr i gynorthwyo Syr Harry Smith, a galluogant y prif-lywydd i ymosod ar y gwrthryfelwyr, a hyny yn ffyrnig, yn fuan.

## CHINA.

Torodd gwrthryfel lled bwysig allan yn y wlad hon yn ddiweddar, ac hyd yn hyn mae y gwrthryfelwyr wedi bod yn neillduol o lwyddiannus. Y maent eisoes yn meddiannu darn o dir, llawn cymmaint a Lloegr a Chymru gyda eu gilydd.

---

# TYWYSOGAETH CYMRU.

Dygwyddiad Hynod.—Nos Wener, y 16eg o Fai, 1851, daeth buwch, eiddo Thos. Jones, o'r Tycanol, plwyf Llanfihangel-aberbythich, swydd Gaerfyrddin, allo hynod, a dau ben arno, yn nghlyn wrth eu gilydd yn y talcen a'r cernau, ac yn agor oddiwrth eu gilydd oddeutu tair modfedd oddiar y safn, ac yn ymborthi â'r ddwy safn, a phob un o'r ddwy yn trosglwyddo eu pawr fel eu gilydd; dim ond un llwngc ac un geg ar ei gorff, fel llo siengl cyffredin; medda bedwar llygad a dau glust, ac mae yn debyg y bydd pedwar corn arno; hyd yn hyn mae yn cryfhau, ac yn debyg o fyw. Y mae ei berchen wedi cael cynnyg deg punt am dano gan foneddwr o'r gymmydogaeth. Mae ugeiniau o ddynion wedi bod yn ei weled, ac yn parhau felly yn barhaus.

**Aberteifi.**—Ar y 13eg o Fehefin, bu hen wraig o'r enw Ann Griffiths, Llanllynau, ger Aberteifi, farw, yn 106 mlwydd oed. Yr oedd mewn llawn feddiant o'i synwyrau hyd yr olaf; a'i diwrnod y bu farw yr oedd yn gwau hosanau, heb gymhorth gwydrau i weled.

**Cynrychioliad Caerdydd.**—Mae Mr. Nichol, yr aelod presennol, wedi cyhoeddi anerchiad, yn mha un y beia Walter Coffin, Ysw., am geisio ei ddisodlu yn ei absennoldeb; ac yn hysbysu ei fod yn bwriadu cynnyg ei hun eto pan gymer etholiad le. Mewn atebiad, mae Mr. Coffin yn hysbysu ei fod yn lled hyderus yr etholir ef yn llwyddiannus, am ei fod yn Rydd-fasnachwr ac yn Ddiwygiwr.

**Rheilffordd Bangor a Chaernarfon.**—Rhoddwyd cydsyniad y frenines wrth y rheithsgrif yn caniatau gwneud y rheilffordd rhwng Bangor a Chaernarfon yn mis Mehefin diweddaf.

**Llanelli.**—Mae Mri. Tregoning a Chyf. yn agor gweithiau alcan (*tin*) mawrion gerllaw Llanelli, y rhai yn ddiau a roddant fywoliaeth i luaws mawr, ac a duedda i wella masnach cyffredin y dref a'r porthladd.

**Dilddymiad y Truck System yn Aberdar.**—Mae yn dda genym allu hysbysu ein darllenwyr fod y gyfundrefn ormesol o dalu i weithwyr mewn nwyddau yn lle mewn arian, cyfundrefn sydd yn twyllo y gweithiwr o ran fawr o'i gyflog, ac yn ddinystriol i fasnach deg y gymmydogaeth, wedi ei diddymu yn Aberdar, drwy fod Mri. Fothergill wedi hysbysu eu bwriad o hyn allan i dalu cyflogau y gweithwyr mewn arian, fel y gallont brynu â chynyrch eu llafur caled yn y farchnad rataf.

---

## CYMANFAOEDD.

**Mynwy.**—Cynnaliwyd y Gymanfa hon yn Basaleg. Cynnaliwyd cynhadledd, yr hon a ddechreuwyd drwy ddarlleniad gair Duw a gweddi gan y brawd oedranus a thra pharchus James Michael, o Bonthir. Wedi ethol y brawd Timothy Thomas, gweinidog y lle, yn gadeirydd, galwyd am y cyfrifon a'r hanesion oddiwrth yr eglwysi, a chafwyd ar ddeall er ein gorfoledd, fod heddwch, undeb, a chydgordiad dymunol yn ffynu ynddynt a rhyngddynt yn gyffredinol. Wedi y rhuthr mawr ac anarferol o gynydd a gawd yn y sir hon y llynedd, nid oedd amgen i'w ddysgwyl na llawer iawn o ddiaelodi, yr hyn, ysygaeth, a gymerodd le. Ond wedi y cwbl, y mae cynydd o 225 yn rhif yr aelodau. Diolch i'r nefoedd am hyny. Derbyniwyd yn aelodau o'r gymanfa yr eglwysi canlynol, sef Scenfirith; Seion, Brynmawr; a Hephsiba, Bedwas. Y mae y cyfnewidiadau a hysbyswyd yno wedi eu cyhoeddi o bryd i bryd yn y Seren. Mae y gymanfa nesaf i fod yn Libanus, Coed-duon, ar y Mawrth a'r Mercher olaf yn mis Mai, 1352. Y penderfyniadau eraill yn ddibwys. Am 6 o'r gloch hwyr y dydd cyntaf, dechreuwyd y gymanfa ar y maes gan y brawd J. Rowe, Riscae; pregethodd y brodyr B. Williams, Nantyglo, W. Thomas, Pisga, a R. Ellis, Sirhowi. Ioan 8. 32; Dat. 14. 13; Esay 33. 20. Am hanner awr wedi chwech boreu dranoeth yn yr addoldy, dechreuwyd gan y Parch. D. Jones, Caerdydd; a phregethodd y brodyr B. Williams, Dareufelen; J. Lewis, Blaenau Gwent, a D. Davies, Lixwm, Fflint. Act. 15. 11; Dat. 22. 1; 2 Pedr 3. 14. Am 10 o'r gloch, ar y maes, dechreuwyd yr addoliad gan y brawd T. Bevan, Nantyglo; a phregethodd y brodyr D. Jones, Caerdydd; T. Thomas, Pontypwl, (Saes.,) a F. Hiley, Llanweuarth. Salm 48 14; Act. 3. 21; Esay 12. 3. Dibedwyd y cwrdd hwn drwy weddi gan y brawd James Michael, Ponthir. Am ddau, dechreuwyd gan y brawd J. Rees, Victoria; a phregethodd y brodyr T. Price, Aberdar; D. Morgan, Blaenafon, (Saes.); a D. Davies, Abertawy. Math. 16. 3; Titus 2. 12, 13; 1 Pedr 1. 12. Am 6 o'r gloch, ar y maes, dechreuwyd y cwrdd gan y brawd D. W. Morris, o Beula, swydd Benfro; pregethodd y brodyr D. Davies, Llanelli; a D. D. Evans, Pontrhydyryn. Act. 5. 38, 39; Heb. 2. 9.—Yr oedd y gymanfa hon yn un boblogaidd anarferol; ac yn un trwyddi yn fwy llewyrchus, efallai, nag un a gawd yn swydd Fynwy oddiar ffurfiad y gymanfa yn 1832 hyd yn awr. Yr oedd pob peth yn ffafriol, y tywydd yn hyfryd a dymunol, y nefoedd yn gwenu, y brodyr yn cael eu codi i'w huchel-fanau, a'r dyrfa anferth yn lloni wrth ymborthi ar ddysgleidiau gras.

**Dyfed.**—Cynnaliwyd y Gymanfa hon yn Dinbych (Tenby), ar y 3ydd a'r 4ydd o Fehefin. Bu cynadledd dydd Mawrth am 10 a 2 gan y cenhadau a'r gweinidogion. Am 6, yn yr addoldy, dechreuwyd gan y brawd T. D. Mathias, Narberth: a phregethodd y brodyr T. Williams, Llangloffan, a D. Griffiths, athraw duwinyddol coleg Accrington. Am 7, boreu dranoeth, cynnaliwyd cwrdd gweddi i ofyn bendith Duw ar y gymanfa. Am 10, ar y maes, cyfarfu torf luosog yno ag ystyried y lle oedd y gymanfa: dechreuodd y brawd D. Davies, Abertawy; pregethodd y brodyr N. Thomas, Caerfyrddin; J. P. Williams, Blaunwaun, yn Gymraeg, a D. Evans, Abertawy. Am 2, dechreuodd T. Harris, y cenhadwr cartrefol; a phregethodd y brodyr E. Thomas, Aberteifi, a D. Davies, Abertawy. Dwy bregeth Gymraeg a fu yma; mae y lle yn hollol Seisnigaidd. Yr oedd yn gymanfa ragorol.

**Ceredigion a Chaerfyrddin.**—Y gymanfa hon a gynnaliwyd eleni yn Penyparc, ger Aberteifi, ar y 10fed a'r 11eg o Fehefin. Bu cynhadledd am ddeg o'r gloch prydnawn y dydd cyntaf. Am ddau, ar y maes, dechreuodd y brawd T. Jones, Caio; a phregethodd y brodyr T. Williams, Llangloffan, a D. Davies, Abertawy. Am chwech, yn yr addoldy, pregethodd y brodyr M. James, Llwynhendy, a D. Griffiths, Cwmifor. Boreu y dydd canlynol, am saith, pregethodd y brodyr N. Thomas, Caerfyrddin, a R. Roberts, Swyddffynon. Am ddeg, darllenodd a gweddiodd o brawd J. Evans; a phregethodd y brodyr E. Williams, Aberystwyth; D. Evans, Abertawy, (yn Saesnaeg,) a D. Davies, o'r un lle. Am ddau, darllenodd a gweddiodd y brawd E. Thomas, Aberteifi; pregethodd y brawd J.

Williams, Aberdaar, a D. Jones, Felinfoel. Am chwech, pregethodd y brodyr J. Evans, Talybont, a D. Davies, Tabor. Cafwyd cymanfa luosog o bobl, cyrddau da, a hin ddymunol.

Athrofa Pontypwl.—Cynnaliwyd cyfarfod blynyddol yr athrofa hon ar y Mercher a Iau, yr 21ain a'r 22ain o Fai. Boreu dydd Mercher holwyd y myfyrwyr mewn difynyddiaeth gan y Parch. A. G. Fuller, Caerdydd; ac mewn llenddysg gan Mr. G. C. Daniell, Caerodor. Yn y prydnawn, darllenodd Mr. John Rowlands, un o'r myfyrwyr, draethawd rhagorol ar "Brofion Cristionogaeth," a phregethodd y Parch. John Evans, Pontfaen, oddiar Act. 11. 20, 21. Boreu dydd Iau, cynnaliwyd gwasanaeth Seisnig, pryd y darllenodd Mr. Richard Hughes, myfyriwr, draethawd; a phregethwyd gan y Parch. T. Davies, Merthyr, oddiwrth Esay 52. 2. Yn y prydnawn aethpwyd i ymdrin â materion y sefydliad, pryd y cymerwyd y gadair gan W. W. Phillips, Ysw., ac y cydunwyd yn unfrydol ar amryw benderfyniadau. Oddiwrth y mynegiad ymddangosai fod y sefydliad mewn dyled o tua 130p.; mai rhif y myfyrwyr yw deuddeg; fod dau wedi gadael yr athrofa yn y Nadolig, un i Benfro a'r llall i Gilfowyr; ac fod amryw weinidogion wedi bod mor garedig ag ymrwymo i ymweled â Lloegr i gasglu at y sefydliad daionus hwn.

Caerfyrddin.—Cynnaliwyd cymanfa myfyrwyr Park-yr-Elvet yn Gibeon, capel yr Annibynwyr, ar Sabboth, yr 25ain o Fai diweddaf. Am ddeg, dechreuwyd gan y parchus athraw drwy ddarllen a gweddio; pregethwyd gan y brodyr J. P. Williams, (B.,) ar "ddyoddefaint Iawnol Crist," a B. J. Evans, (B.,) yn Saesnaeg, ar "Y cryfach na'r cryfarfog," a J. Evans, (A.,) ar "Grefydd Simeon." Am ddau, pregethodd y brodyr W. Lewis, (B.,) ar "gyflwr diogel y Cristion," a T. Evans, (A.,) ar "Hyfryd lais yr Efengyl." Am chwech, pregethodd y brodyr G. J. Thomas, (B.,) oddiar "Wele Oen Duw," a B. Evans, (A.,) ar "Freniniaeth Crist;" a H. Lewis, (T. C.,) ar y "Rheidrwydd i Grist ddyoddef." A llefaru fel gwrandawr, gosodid yr efengyl allan yn y modd goreu y gallai amgyffredion a iaith dyn ei darlunio, a Duw yn gwenu ar y cwrdd.

Llandegfan.—Cynnaliwyd cyfarfod pregethu Capel Seion, fel arferol, dyddiau y Sulgwyn. Nos Lun, dechreuwyd drwy weddi gan y brawd W. Owen, Bond-st., Le'rpwl; a phregethodd y brawd J. Nicholas, Bangor, a D. Price, Great Cross Hall-st., L'erpwl. Dranoeth, am ddeg, pregethodd W. Owen, a D. Roberts, Llangefni. Am 2, pregethodd y brodyr R. Roberts, Llanfachreth, a R. Jones, Llanllyfni. Am 6, pregethodd D. Price, a R. Roberts.

Abergwaun.—Cynnaliwyd cwrdd chwarter yn y lle hwn nos Fawrth a dydd Mercher, y 13eg a'r 14eg o Fai, pryd y pregethodd y brodyr Evans, Aberystwyth; Thomas, Trehale; Morris, Bethabara; Williams, Blaenywaun; Williams, Llangloffan; a George, Jabez.

Cwmtwrch.—Bu cyfarfod pregethu yn y lle hwn, er gwastadhau yr ymrafael oedd wedi cymeryd lle, a meddir yr hyfrydwch i hysbysu eu bod yn awr wedi dyfod i ddeall ac undeb cysurus â'u gilydd, yn ol penderfyniad neu gyfarwyddyd y cwrdd chwarter. Y brodyr a alwyd yngbyd ar yr achlysur ydoedd E. Morgans, Glynnedd; R. Evans, Castellnedd; J. Jones, Caersalem Newydd; B. Evans, Hirwaun, a D. Jones, Caerdydd.

Capel-y-Beirdd.—Cynnaliwyd cwrdd pregethu yma Mercher a Iau, Meh. 4ydd a'r 5ed, pan y pregethodd y brodyr T. E. James, Brynmawr; Davies, Glanwydden; Hughes, Nefyn; Richards, Caernarfon; Nicholas, Bangor; Morgan, Caergybi.

Y Garn.—Bu cwrdd blynyddol yma nos Iau a dydd Gwener, y 5ed a'r 6fed o Fehefin, pryd y pregethodd y brodyr W. Jones, Caergybi; J. Roberts, Llanbaiarn; J. Nicholas Bangor; T. R. Davies, Glanwydden; T. E. James, Brynmawr; W. Richards, Caernarfon, a W. Morgan, Caergybi.

Llanberis.—Bu cyfarfod dyddorawl iawn yn y lle hwn ar Sul a Llun y Sulgwyn, pryd y pregethodd y brodyr J. Roberts, Pantycim; T. E. James, Brynmawr; W. Richards, Caernarfon; R. Jones, Llanllyfni; T. Roberts, Llangefni; a T. R. Davies, Glanwydden. Ni fu gwell cyfarfod yn Llanberis erioed, medd pobl garedig y lle.

---

## MARWOLAETHAU.

Yn ddiweddar, yn Llundain, Mrs. Catherine Hinghley, yn 31 ml. oed. Yr oedd yn aelod parchus yn eglwys Moorfields er ys amryw flynyddau, ac yn hynod mewn rhinwedd a duwioldeb. Genedigol oedd o ardal Aberteifi. Bu y frawdoliaeth yn Moorfields yn garedig iawn iddi yn ei chystudd diweddaf, yr hyn a barhaodd am gryn amser; a darfu iddynt weithredu o un galon er dwyn traul ei chladdedigaeth.

Meh. 5, Mr. D. Rowlands, o arwydd y George, Saint Mary Ax, Llundain, o'r darfodedigaeth, yn 38 mlwydd oed. Genedigol ydoedd o Lanrhystyd, swydd Aberteifi.

Meh. 13, Mr. Evan Davies, Aberdar. Yr oedd wedi myned yn wael iawn ei iechyd er ys tipyn, ac o'r herwydd aeth i ffynon Llanwrtyd, lle y bu am bythefnos cyn i'r wreichionen fywiol ehedeg ymaith, ac unodd yn yr Arglwydd ar y dyddiad uchod yn 52 oed, wedi bod yn llafurio yn ngwinllan ei Arglwydd am 22 o flynyddau, ac am naw mlynedd o hyny yn y swydd ddiaconaidd. Claddwyd ef yn Hirwaun. Pregethodd B. Evans ar yr achlysur.

Mehefin 15, Mrs. Jane Evans, gweddw y diweddar Mr. David Evans, 'Cart and Horse,' Heol-y-prior, Caerfyrddin, a mam-yn-nghyfraith y Parch. Jas. Richards, Pontypridd, yn bedwar ugain mlwydd oed. Bu yn aelod o eglwys Heol-y-prior am lawer iawn o flynyddau; a theimlir colled ar ei hol gan yr eglwys a'r gymmydogaeth. Gadawodd deulu galarus.

"NI WYR, NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library
Paul ... Evans
Dansville, N. Y.

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] MEDI, 1851. [RHIF. 87.

CYNNWYSIAD.

Pregeth, gan y diweddar Barch. Daniel Jones, Caerffili, - 207
Y Wraig Gecrus, - 208
Y Trydan, - 208
Rhesymau y Parch. Robert Hall ar Gymundeb Eglwysig yn cael eu hystyried, - 209
Beirniadaeth eto ar Math. 11. 11. - 211
I'r Aradr, - 211
Hanes yr Eglwys Gristionogol, - 212
Gwrthryfel Cuba, - 219
Yr Erledigaeth yn Sweden, - 219
Y Giniaw i'r Archesgob Hughes, - 219
Rhybudd Cyhoeddus—Cyfraith a Threfn, 220
Ugain o Ddiarebion, - 220
Y Cholera, - 221
Rhybudd i Ferched, - 221
At Ymfudwyr i America a'u Cyfeillion—Cymeradwyaethau i Mr. D. Davies, Liverpool, 221
Pryddest-awdl ar Long-ddrylliad Dynoliaeth, 222
Twyllo Ymfudwyr, - 223
Cymdeithas Wrthgaethiwol Newark, Ohio, 224
Pittston, Pa. - 224
Cynhadledd Ddirwestol swydd Schuylkill, 225
"Nis gellir dianc rhag gofid," - 225

*Genedigaeth*, - 226
*Priodasau*, - 226
*Marwolaethau*, - 226

Casgliadau at Addoldy y Wesleyaid Cymreig yn Utica, - 227

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. - 228
Yr Arddangosiad Mawr, - 228
Y Ddeilliadeb, - 228
Rhufain, - 228
Portugal, - 228
Awstria a Phrwsia, - 228

*Tywysogaeth Cymru.*—Brynmawr, - 228
" " Newyddiaduron Cymreig, 228
" " Cymanfa Morganwg, - 229
" " " Yr Hen Gymanfa, 229
" " " Caernarfon, 229
" " " Mon, - 229
" " Y Llong Taff, - 229
" " *Marwolaethau*, - 230

HYSBYSIADAU, - 230

POTTSVILLE.

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞ Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Gallnoedd y Meddwl Dynol, gan M.; Y Meddwyn, gan Theta Eta; Marwolaeth E. Harris (rhy ddiweddar i'r rhifyn hwn), gan D. Probert, Youngstown; Pwngc Ysgol J. M. Thomas, Aberteifi, ar Enedigaeth Crist, cyf. B. Williams, South Trenton; Rhesymau Pahem y mae Dyn yn teimlo cyn lleied o barch i Dduw, o Waith Dr. Dick, cyf. O. E. Jones, Remsen; Gofyniadau, gan B. L. D.; Marwolaethau, (rhy ddiweddar) gan Ehedydd America.

☞ Derbyniasom yn daliad, oddiwrth Mr. Daniel Lewis, Blakeley, $1 75; Mr. W. T. Lawrence, Danville, $5; Mr. Abm. Davies, St. Clair, $4 25; Mr. Robt. Thomas, Bellmont, $5; Mr. Edw. Platt, Highland, Wis., $3; Wm. R. Jones, Dunmore, am 1851, $6 75; hefyd, $1 25 am 1847 gan yr un.

☞ RHYBUDD I DDYLEWYR.—Bwriadwn anfon biliau yn erbyn pawb ag y dynt ddwy flynedd neu ychwaneg mewn dyled i'r postfeistri hyny lle y mae y cyfryw rhifynau yn cael eu cyfarwyddo, gyda y rhifyn nesaf. Er mwyn iawn-ddealldwriaeth, awdurdodwn hwynt i'w casglu, os bydd hyny yn ddichonadwy, am yr hyn y caniatawn dâl iddynt. Pwy bynag a ddewiso ochelyd y cyfryw ddull annymunol o dalu am y Seren, hyderwn y danfonant eu cyfrifon i mewn cyn y 24ain o'r mis hwn, (Medi.)

☞ CYMANFA Y BEDYDDWYR CYMREIG YN NWYREINBARTH PENNSYLVANIA — Cynnelir y Gymanfa hon y flwyddyn bresennol gyda yr eglwysi yn Pittston, Scranton ia, Dunmore, a Charbondale. Gan fod y brodyr yn Pittston yn bwriadu agor yr addoldy newydd yno ar yr un amser, mae yr amser heb ei benderfynu eto. Bwriedid ei chynnal diwedd y mis hwn (Medi,) ond y mae yn dra thebyg na bydd y tŷ mewn sefyllfa addas i fyned iddo pryd hyny.

☞ ESBONIAD J. JENKINS, HENGOED, AR YR HEN DESTAMENT, yn ddwy gyfrol, wedi ei rwymo yn dda, ac heb ei niweidio mewn un modd. Ar werth am bris isel, trwy ymholi â golygydd y Seren, neu Mr. J. D. Jones, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

☞ Hyderwn y gwna ein dosbarthwyr ymdrech i gasglu y tâl am 1851 yn ystod y mis presennol. Yr ydym yn deall fod amryw yn gwneud felly, ac hyderwn y byddant mor garedig a'u gyru i mewn mor fuan ag y gallont.

☞ Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU—am Mr. HUMPHREY HUGHES. Ymadawodd o Nant-y-glo dwy flynedd i mis Mai diweddaf i'r wlad hon. Yr oedd yn cadw ceffylau i Mr. Bailis, Nant-y-glo. Nis gwyddom pa le y mae; ond os daw y llinellau hyn i'w law ef, neu un o ddarllenwyr caredig y Seren sydd yn gwybod am dano, hyderwn y bydd mor garedig ag anfon trwy lythyr at ei ferch sydd wedi dyfod i'r wlad hon yn ddiweddar. Rhydd hyny foddlonrwydd mawr iddi hi a'i phriod, Zephania Williams. Cyfarwydder Mr. Zepheniah Williams, Columbus, Ohio.

*Hefyd—*

Am THOMAS GRIFFITH, genedigol o blwyf Trewern, swydd Faesyfed, mab i James Griffiths, yn awr o Nantyglo. Ymadawodd T. G. oddiyno tair blynedd i'r haf diweddaf i'r wlad hon. Nid ydym yn gwybod dim am dano; ond dymuna ei anwyl frawd John Griffiths yn daer arno ef, neu ryw un arall gwybodus o hono, anfon hysbysiad o hono wedi ei gyfarwyddo at John Griffiths, care of Zephania Williams, Columbus, Ohio.

*Hefyd—*

Am DAVID PRICE, mab Thomas a Margaret Price, Cerywi, D. C.; mwnwr neu lowr ydoedd. Ymadawodd o Gymry er ys ugain mlynedd yn ol i'r wlad hon. Clywsom ei fod yn Brownsville, ger Pittsburg, Pa. Dymuna ei anwyl chwaer ieuangaf, Harriet Price, arno ef, neu ryw un caredig arall ag sydd yn gwybod am dano anfon ati trwy lythyr, a chyfarwyddyd iddi i anfon ato ef. Cyfarwydder at Miss Harriet Price, Columbus, O.

*Hefyd—*

Am JOHN GRIFFITHS, gynt o Flaenafon, (ond genedigol o Sir Aberteifi, D. C.). mab i David Griffiths, Hatwr, Sirowy. Mudodd i America tua chwech mlynedd yn ol; y lle yr ydoedd pan glywyd oddiwrtho ddiweddaf oedd Turtle Creek, Northumberland Co., Pa. Os gwyr neb o'n darllenwyr rhywbeth am dano, dymunir arnynt yn barchus i gyfeirio at ei gefnder, Evan Griffiths, Carpenter, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

---

ESBONIAD Y DR. GILL YN NGHYMRAEG.—Y mae y gwaith ragorol hwn yn awr yn cael ei gyhoeddi yn rhanau gan Mr. Wm. Owen, Caerdydd. Deallwn ei fod allan o'r wasg yn barod hyd yr Epistolau. Mae y Cyhoeddwr wedi cael awgrymiadau oddiwrth rai o Gymry America eu bod am ei gael, ac addawa anfon blychaid yma os bydd galwad, gan fod llongau yn dyfod oddiyno bob mis i America. Dymuna i ryw un cyfrifol gael ei bennodi yn oruchwyliwr.

Er mwyn hwylusu ychydig ar hyn, gall y rhai a chwenychant ei gael anfon atom ni (yn ddidraul) ac yna, os ceir ryw nifer o dderbynwyr, gellir pennodi ryw un addas i dderbyn y tansgrifiadau, a derbyn y llyfrau hefyd.

GEIRIADUR D. SYLVAN EVANS.—Pwy bynag a ewyllysio dderbyn y llyfr hwn hefyd, gallant ei gael cyn bir trwy anfon eu henwan i mewn i olygydd y Seren,

---


## O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] MEDI, 1851. [RHIF. 87.

## PREGETH

GAN Y DIWEDDAR BARCH. DANIEL JONES, CAERFFILI.

"Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tuag atom ni, oblegyd a nyni eto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom."—Rhuf. 5. 8.

AMRYWIOL ydynt yr amlygiadau a wneir o Dduw drwy ei weithredoedd; y mae pob peth yn uchel dystio ei fodolaeth a'i allu—y gareg a ddengys ei fod, a'i fod yn un galluog, am nad oes neb ond un hollalluog a all greu hyd y nod gareg. Mae y llysiau a'r coedydd yn amlygiad pellach; mae rhyw fath o fywyd—y tyfladol—wedi ei gyfranu iddynt hwy. Mae yr anifail yn ddadblygiad pellach eto o'r Duwdod—mae yma *deimlad*. Pwyer careg, archoller pren, ni theimla y naill na'r llall; ond cyffyrdder â'r anifail, megys â phen bys, ac efe a deimla fel un o honom ninau.—Mae gallu a doethineb Duw yn ganfyddadwy yn holl ranau y greadigaeth. "Mae y nefoedd yn dadgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwylaw ef." Mae ffurfiad y corff dynol, ac undeb corff ac enaid â'u gilydd, yn rhyfeddol. Yn yr olwg ar hyn, dywedai y Salmydd, "Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed," &c. Wrth daflu golwg dros wahanol ranau ei ffyrdd ef, cawn ein gorfodi i ddywedyd gyda'r Salmydd, "Mor lluosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd; gwnaethost hwynt oll mewn doethineb," &c. Mae rhagluniaeth Duw yn eglur ddangos a dadgan ei ddaioni ef; mae "dydd i ddydd yn traethu ymadrodd, a nos i nos yn dangos gwybodaeth" o'i ofal parhaus am ei holl greaduriaid. Ond trefn iachawdwriaeth ydyw y prif amlygiad a wnaed o'r Duwdod; dyma lle mae rhagorol fawredd ei nerth yn dyfod i'r golwg; yma y canfyddir dyfnder golud ei ddoethineb, ac anchwiliadwy olud ei ras. Uwchben hyn y dywedai Paul, mewn syndod, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb!" &c. Yma y mae Duw yn canmol ei gariad. Greadigaeth, dystawa! ragluniaeth, gostega! y mae Duw ei hun yn dyfod i'r maes i ganmol ei gariad yn ymyl croes Iesu! Mae y testyn yn dangos mawredd cariad Duw at ddynion, wrth yn

I. Gymeriad y gwrthddrychau a garwyd,—*pechaduriaid.*

II. Mawredd yr amlygiad a wnaed o'r cariad hwnw,—*Crist yn marw drosom.*

III. Mawredd y ganmoliaeth a roir iddo,—*Duw yn canmol ei gariad.*

I. Cymeriad y gwrthddrychau a garwyd,—pechaduriaid. Dyma sefyllfa dynolryw—euogion, troseddwyr.

1. Maent yn wreiddiol bechaduriaid. Dysgir ni yn yr ysgrythyr santaidd i'r Bod dwyfol greu dyn ar y cyntaf ar ei ddelw ei hun—mewn dedwyddwch; ond er galar rhaid son, i'r gelyn osod temtasiwn o flaen ein rhieni cyntaf, sef dywedyd, Os byddai iddynt fwyta o ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg, y byddent megys duwiau. Credasant dad y celwydd o flaen Duw y gwirionedd, cydsyniasant â'r brofedigaeth, ac estynasant eu dwylaw i dori gorchymyn Duw, gan dybied y byddent yn myned cyfuwch â Duw ei hun; ond yn lle myned yn uwch aethant yn is; yn lle myned yn ddoeth, aethant yn ffyliaid; yn lle bod mewn heddwch â Duw, aethant yn elynion iddo; ac yn lle bod ar ddelw Duw, aethant ar ddelw y diafol. Wedi i bechod ddyfod i mewn i wraidd pren dynoliaeth, fe gerddodd y nodd drwy yr holl ganghenau; ac wedi i'r gwenwyn ddyfod i ffynon yr hil ddynol, fe redodd drwy yr holl ffrydiau, &c. "Trwy gamwedd un dyn y daeth pechod i'r byd." A chlywaf Dafydd yn dywedyd, mai "Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf."

2. Y mae pawb yn anianol a gweithredol bechaduriaid. Dyma wrthddrych sylw ac ymestyniad yr holl hil ddynol—pechod. "Yr Arglwydd," medd y Salmydd, "a edrychodd i lawr o'r nefoedd, i weled a oedd neb deallgar yn ymgeisio â Duw; ciliodd pawb, cydymddifwynasant; nid oes neb yn gwneuthur daioni, nac oes un." Neb yn gwrandaw ar lais Duw, ond pawb yn myned yn ei ffordd ei hun; un yn caru cybydd-dod, y llall yn caru meddwdod; un yn myned ar ol y tegan hwn, y llall ar ol y tegan arall, heb feddwl dim am Dduw. Y maent yn gaethion gan bechod a diafol, ac eto heb deimlo ei gadwynau. Pechod yn arglwyddiaethu, a phechod yw y gamp y mae dynion yn ymestyn ati. Mewn gwirionedd, nid oes dim yn perthyn i ni ond pechod. Pechod yw y gelyn sydd yn

difa cysuron y Cristion yn y byd yma, ac yn peri i'w Dad nefol guddio ei wyneb oddiwrtho. Clywaf Paul, apostol mawr y cenedloedd, yn dywedyd, "Ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon." Meddyliodd rhai o'r Iuddewon hunanol, y Phariseaid, eu bod hwy yn rhodio yn gyfiawn yn ol y ddeddf; ond y mae Paul yn y drydedd bennod o'r Rhufeiniaid, yn dangos iddynt eu camsyniad, drwy brofi fod yr Iuddewon, yn gystal a'r cenedloedd, wedi myned yn ol am ogoniant Duw. "Beth gan hyny," eb efe, "a ydym ni yn fwy rhagorol? Nac ydym ddim; canys ni a brofasom o'r blaen fod pawb, Iuddewon a Groegwyr, dan bechod." O! y fath olwg ofnadwy, a niwed dychrynllyd, y mae pechod wedi ei wneuthur ar ac yn ein byd! Difa holl gysuron sylweddol dyn, ei gymhwyso i wlad y gwae; ie, pechod sy ddyryswch ar ddeddf y Jehofa, ac yn ergydio at orsedd y Duw byw! O! y fath olwg druenus sydd ar ddyn trwy bechod! Dyma y rhai a garodd Duw!

II. Mawredd amlygiad ei gariad tuagatynt, —"i Grist farw drosom ni."

Mae yr apostol yn y cyssylltiad hwn yn gosod cariad dynion at eu gilydd yn un pen i'r glorian, a chariad Duw at ddynion yn y pen arall. Wrth son am gariad dynion at eu gilydd, dywed fel hyn, "Oblegyd braidd y bydd neb farw dros un cyfiawn:"—un cyfiawn, un ag sydd yn gwneuthur y pethau dyledus arno—un fyddo megys yn talu ceiniog am geiniog; "eithr dros y da ysgatfydd fe feiddia un farw hefyd." Fel pe dywedasai, Efallai y ceir un yn foddlawn marw dros hwnw, am y daioni a'r cymwynasgarwch a dderbyniwyd o'i law. Y mae yn troi yn awr at yr ochr arall, a'i olwg ar gariad Duw at ddyn, ac yn dywedyd, "Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tuag atom; oblegyd a nyni eto yn bechaduriaid, i Grist farw drosom. Dangosodd Duw ddaioni mawr at ddynion yn y byd yma ar lawer o amgylchiadau, megys cadw Noah a'i deulu yn fyw yn amser y diluw, achub Lot o Sedom, gwaredu Israel o'r Aifft a'u dwyn drwy y Mor Coch; ond marwolaeth ei Fab yw yr amlygiad mwyaf o'i gariad.

1. Mawredd y person a fu farw—*Crist.*

2. Mawredd ei ddyoddefiadau—dyoddef *nes marw.*

3. Natur ei farwolaeth. Marw *drosom* ni.

Cariad Iesu a'i cymhellodd i osod ei law wrth y *fond* ar y cyntaf; ei gariad a'i cymhellodd i gymeryd ein natur; ei gariad a achosodd iddo chwysu y gwaed yn Gethsemane, o gariad at ddyn y bu farw ar y groes, fel y gallai pechaduriaid gael diangc byth rhag yr ail farwolaeth. Wrth farw dros bechaduriaid efe a faeddodd uffern, gorchfygodd angeu a'r bedd, ac a foddlonodd gyfiawnder. "Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw," &c. Nis gallasai Duw, er mai Duw yw efe, ddangos mwy o gariad na rhoi ei Fab i farw.

III. Mawredd y ganmoliaeth y mae Duw yn roi iddo. "Duw yn canmol ei gariad." Y mae yn ei ganmol, yn

1. Fel cariad tragywyddol. "A chariad tragywyddol y'th gerais," &c. Do; fe garodd Duw cyn creu mor na thir, draw yn rhyw le yn y tragywyddoldeb pell diddechreu. Fe wnaeth cariad Duw rhyw waith mawr yn nhragywyddoldeb; efe a etholodd o gariad, ac efe a drefnodd fodd i achub plant y codwm o gariad.

2. Fel cariad hunan-ymgynhyrfiol. Ni chafodd achos yn un o blant Adda i ymserchu ynddynt, na charu neb o honynt. Nyni *eto yn bechaduriaid.* Nyni eto yn wrthryfelwyr —nyni eto yn elynion. Y mae yr Arglwydd drwy y proffwyd Ezeciel, (pen. 16,) yn darlunio sefyllfa dyn wrth natur, a'i dosturi yntau ato.

3. Fel cariad rhad. "Caraf hwynt yn rhad." Mae yr oll o'r iachawdwriaeth yn rhad.

4. Fel cariad anfeidrol. Nid oes clorian a all ei bwyso, na llinyn a all ei fesur. Mae yn lletach na'r greadigaeth, yn uwch na'r nefoedd, ac yn ddyfnach na'r moroedd. Mae uwchlaw gwybodaeth.

5. Fel cariad anghyfnewidiol. Dal hwn yr un pan fyddo y mynyddau a'r bryniau yn ymsymud, a'r ddaear yn ymollwng. Bydd cariad Duw yr un yn angeu, y farn, a thragywyddoldeb.—*Bedyddiwr.*

## Y WRAIG GECRUS.

Poenus wraig gecrus wna'i gwr—yn adyn
Annedwydd ei gyflwr;
Diyndid yw'n ei dwndwr,
A'i einioes dawdd yn ei stwr.

Ei phlant ni wyddant am hedd—ei dyrnod
Arnynt sy'n ddiddiwedd;
Pob rhai, pe gallai'n un gwedd
A dynai rhwng ei danedd.

Digia ei holl gymmydogion—canys
Cynhen ac ymryson;
A chelwydd leinw'i chalon,
Pla a haint y plwy' yw hon.

DEWI WYN O ESYLLT.

## Y TRYDAN.

Gwyfr hybell y gwefrebydd—a'i poer, a
Llawer peiriant felfydd;
Ond drwy anian daranydd,
Nerth ei follt bros yn wyrth fydd!

FARADAY.

## RHESYMAU Y PARCH. ROBERT HALL AR GYMUNDEB EGLWYSIG YN CAEL EU HYSTYRIED.

GAN T. F. CURTIS, M. A.

PEN. III.

1. Dau feddwl y gair eglwys. 2. Haeriad yr awdwr nad ydynt yn gwahaniaethu ond mewn rhan yn cael ei ystyried. 3. Fod y gwir wahaniaeth yn dinystrio ei ymresymiad. 4. Fod y rhai sydd mewn cymundeb gyda Duw i fod mewn cymundeb gyda ni. 5. Y rhyfyg o ymddyrchafu i feddwl am fwy o burdeb na Christ. 6. Yr un rheswm am y Pasg.

1. Enwa yr awdwr yr ymresymiad hwn, "Bedyddwyr neu Daenellwyr babanod yn rhan o'r wir eglwys, ac felly fod eu hataliad o gymundeb yn anghyfreithlon." Mae yr awdwr dan y pen hwn yn dechreu ei ymresymiad trwy nodi, pe byddem ond sylwi mewn modd dyladwy ar y dull o ymadroddi yn y Testament Newydd, y byddem i gael fod y gair eglwys, yn y defnydd a wneir o hono mewn ystyr grefyddol, yn cynnwys ond y ddau feddwl a nodwyd; hyny yw, ei fod yn dynodi naill ai yr holl ffyddloniaid yn Nghrist, fel y mae yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys, yr hon yw ei gorff ef, neu unrhyw gynnulleidfa o Gristionogion a fyddai wedi ymuno i wasanaethu eu Duw, megys yr eglwysi yn Corinth, Ephesus a Rhufain. Nid yw y gair yn cael ei ddefnyddio yn un man fel y mae yn cael ei ddefnyddio gan lawer yn ddiweddar, sef ei fod yn cynnwys y gwahanol gynnulleidfaoedd o Gristionogion yn y cyfanswm a fyddo mewn talaeth neu deyrnas.

2. Mor belled â hyn yr ydym yn cyduno â'r awdwr; hyny yw, am y defnydd celfyddydol a wneir o'r gair eglwys yn y Testament Newydd. Nid oes ond y ddau feddwl uchod iddo, ac nid yw yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr grefyddol ond yn un o'r ddau feddwl uchod. Ond y pwynt ag yr ydym ni yn gwahaniaethu oddiwrth Mr. Hall yw, ei fod yn cymeryd yn ganiataol nad yw y ddau feddwl a nodwyd ond gwahaniaethu mewn rhan, ac nid yn y cwbl. Os ydyw yn sefydlu ei ymresymiad ar y golygiad mai yr un gair sydd yn cael ei ddefnyddio am y ddau feddwl hyn, y mae yn gamsyniol. Pe felly, byddai yr un mor briodol i'w ddefnyddio am y gynnulleidfa derfysglyd o addolwyr Diana yr Ephesiaid: yr un gair a ddefnyddir yn wreiddiol yn Actau 17. 32. Y mae y meddwl hwn mor belled o fod yn wirionedd ag ydyw i fod gwahaniaeth rhifedi yn cynnwys y gwahaniaeth ag sydd rhwng eglwys neillduedig a gweledig Crist a'r eglwys gyffredinol ac anweledig. Y mae y gwahaniaeth hwn o angenrheidrwydd yn codi oddiwrth y ffaith i fod un yn weledig a'r llall yn anweledig. Er bod yn aelod o eglwys weledig Crist, y mae yn angenrheidiol gwneuthur proffes gyhoeddus o Grist; ond y mae yn bosibl i ddyn ddyfod yn aelod ar unwaith o eglwys anweledig Crist cyn y byddo wedi gwneuthur proffes o hono. Y mae yn wir y gall dyn wneuthur proffes o Grist heb ei fod yn wirioneddol, ond nis gall dyn fod yn aelod o eglwys anweledig Crist heb fod yn wirioneddol. Eto, er bod yn aelod o eglwys weledig Crist, y mae yn rhaid cael y cymwysder gofynol yn ol y Testament Newydd.

3. Pe byddem yn caniatau fod bedyddwyr neu daenellwyr babanod yn rhan o wir eglwys Crist yn ol y meddwl a goledda Mr. H., yna y mae yn rhaid ei fod yn golygu eu bod yn rhan o eglwys gyffredinol ac anweledig Crist, yr hon yw corff Crist. Oddiar hyn y dadleua, nad oes genym hawl i'w hatal i gydgyfranogi â ni yn swper yr Arglwydd. Wrth hyn nid ydym ni yn eu hattal o fod yn aelodau o eglwys anweledig Crist. Ond nid oes dim a fynom ni â'u sefyllfa mewn ystyr ysbrydol. Nid oes neb ond yr hwn sydd yn agor fel nas gall neb gau, a chau fel nas gall neb agor, a all dderbyn i'r corff, nac atal o'r corff ysbrydol hwn. Wrth eu hatal o gymundeb nid ydym yn golygu ein bod yn eu hatal oddiwrth arwydd o'u haelodiaeth yn yr eglwys anweledig. Yr ydym wedi nodi yn barod i fod swper yr Arglwydd yn arwydd o beth hollol wahanol, sef o undeb eglwysig mewn ystyr weledig, neillduedig, a pherthynasol.—Nid yw i fod dyn yn cyfranogi o swper yr Arglwydd yn brawf diymwad ei fod yn aelod o eglwys anweledig Crist; ac nid yw wedi ei olygu i fod yn brawf o hyny; ond y mae ei gyfranogiad o'r swper yn brawf ei fod yn aelod o eglwys weledig a neillduedig Crist. Nid oes dim yn anmhriodol ac yn anghyfreithlon ynom i beidio eu cymhell i gyfranogi o swper yr Arglwydd, mwy nag oedd i fod yr Iuddewon yn peidio cymhell eraill o'u cyd-genedl i gydgyfranogi â hwy o'r Pasg. Nid oedd hyn yn eu hymddifadu o fod yn Iuddewon; ac felly nid ydym ninau, wrth beidio cymhell taenellwyr babanod i gydgyfranogi â ni o'r swper, yn eu hymddifadu o fod mewn undeb anweledig âg eglwys Crist; ac nid ydym yn ewyllysio gwneud hyn, ond yr ydym yn llettya meddyliau da am lawer o honynt eu bod yn aelodau gwirioneddol o'r eglwys anweledig, eto yn gamsyniol yn ein golwg ni am yr ordinhad o fedydd. Y mae ein hymddygiad yn arwyddo tynerwch ein meddyliau am danynt, oblegyd yr ydym yn cyduno â hwy yn weithredol ar achlysuron ag sydd yn arwydd-

ion o'u duwioldeb; eto yr ydym yn eu hystyried yn ddiffygiol o fod yn feddiannol ar y cymwysder gofynol i fod yn aelodau o eglwys weledig Crist, am mai eglwys fedyddiedig ydyw eglwys weledig Crist.

4. Ni bydd i'r hwn a fyddo i gadw ei olwg ar y gwahaniaeth a nodwyd i deimlo unrhyw flinder meddwl oddiwrth yr ymresymiad canlynol o eiddo yr awdwr. Ar ol gosod i lawr rai gosodiadau neillduol, pa rai a ystyria efe yn ddigon grymus i gynhyrchu yn y diragfarn argyhoeddiad uniawn-gyrchol, y mae yn nodi a ganlyn, sef i fod y rhai ag y mae Awdwr dwyfol yr eglwys yn eu cynhyrfu, ac yn gweithredu arnynt trwy ei Ysbryd, ac yn eu derbyn i gymundeb ag ef ei hun, yn feddiannol ar gymwysder i fod mewn cymundeb gyda ni. Pa beth a ellir, medd ein hawdwr, ei ddwyn yn wrthwynebol i wirionedd mor ddiamheuol ac eglur. Nid ydyw yn angenrheidiol i ni gadw un gwrthddadl ar y pen hwn; nid ydym yn dadlu y gosodiad. Ac nid yw yn debygol fod Mr. Hall ei hun wedi myned i'r camsynied y buasem yn ei wrthddadlu oddieithr ei fod wedi colli ei olwg ar y gwahaniaeth a nodwyd ag sydd rhwng yr eglwys weledig a'r eglwys anweledig; a chymysgu y defnydd llythyrenol ac arwyddiadol a wneir o'r gair cymundeb. Yr ydym yn eu derbyn i ein cymundeb mewn ystyr ysbrydol gyda pharodrwydd meddwl, sef y rhai ag y mae genym le i feddwl i fod Pen yr eglwys yn eu derbyn i gymundeb ag ef ei hun; ond ar yr un pryd nis gallwn fod mewn undeb eglwysig â hwynt, yn ol trefn a rheolau yr eglwys weledig; oblegyd yr ydym yn ystyried, fel ag yr ydym wedi nodi yn barod, mor belled ag y mae swper yr Arglwydd yn dwyn perthynas â'r eglwys fel eglwys, (fel ag y mae yn cael ei harfer,) y mae yn arwydd o'u hundeb eglwysig; ond fel y mae yn dwyn perthynas â Christ, y mae yn beth personol. "Holed dyn ef ei hun."

5. O berthynas i'r hyn a annogir gan yr awdwr yn yr un cyssylltiad, yr ydym yn ei ystyried yn rhyfyg i amcanu at fwy o burdeb na Christ ei hun, na mwy o fanyldra yn newisiad aelodau yr eglwys nag y mae ei hawdwr gwedi ei ddangos ei hun. Nid oes genym ond nodi i fod yr eglwysi gweledig wedi eu sefydlu gan yr un a sefydlodd yr eglwys anweledig, ynghyd a'u gwahanol reolau a thyleran aelodiaeth. Byddai yn wrthun i feddwl mai yr un rheolau a thylerau sydd yn angenrheidiol i'r ddau olygiad. Ac nid yw yn ymddangos i fod mwy o burdeb yn angenrheidiol er aelodiaeth yn yr eglwys weledig nag sydd yn angenrheidiol er aelodiaeth yn yr eglwys anweledig. Proffes gyhoeddus o ffydd yn Nghrist sydd yn angenrheidiol yn y cyntaf; ac uniondeb calon ac egwyddorion mewn ystyr ysbrydol sydd yn angenrheidiol yn yr ail. Y mae y tylerau yn wahanol, yn ol fel y mae eu sefydliad yn wahanol. Nid undeb â'r eglwys weledig, heb amser yn brawf o undeb â'r eglwys anweledig. O'r tu arall, nid yw i fod rhai heb fod mewn aelodiaeth yn yr eglwys weledig bob amser yn brawf nad yw y cyfryw rai mewn aelodiaeth yn yr anweledig gyda golwg ar rai amgylchiadau, mwy nag yw y rhai a all fod yn yr Unol Dalaethau yn gymwys ar bob golygiad i fod yn aelodau o'r undeb; yn brawf nad ydynt yn aelodau o'r gymdeithas ddynol mewn ystyr gyffredinol. Gall dyn fod wedi mabwysiadu egwyddorion cyfansoddiad yr Unol Dalaethau, eto heb gydymffurfio mewn modd proffesedig â'r tylerau a ofynir gan y cyfansoddiad er bod yn aelod o'r undeb. Y mae i gyfansoddiad eglwys weledig Iesu Grist dylerau, ac y mae yn rhaid cydymffurfio â hwynt er bod yn aelodau rheolaidd o honi. Ond nid yw hyn yn brawf na all rhai fod wedi mabwysiadu eu hegwyddorion, ond eu bod trwy ryw a than rai amgylchiadau heb wneuthur proffes gyhoeddus o'u hegwyddorion, ac heb gydymffurfio â'i thylerau; ac felly yn anghymwys i fod yn aelodau rheolaidd o honi. Ond ni ddylai neb gymeryd hyn yn esgus iddynt, gan feddwl fod mabwysiadu yr egwyddorion yn ddigon. Os bydd amser a chyfleusdra yn caniatau, y mae Awdwr yr eglwys yn gorchymyn i ni gydymffurfio â'i rheolau. "O cerwch fi cedwch fy nghorchymynion."

6. Ond y dull mwyaf amlwg, efallai, i ddangos twyll y fath ymresymiadau, yw trwy ddangos y canlyniadau y maent o'u dilyn yn ein harwain iddynt. Addefir gan bawb ag sydd wedi sylwi mewn modd dyladwy ar natur yr oruchwyliaeth Iuddewig, i fod y fath gyssylltiad rhwng yr enwaediad â'r Pasg, fel nad oedd neb ar na fuasai yn ufuddhau i'r cyntaf yn gymhwys i gyfranogi o'r ail, na bod yn aelodau o'r eglwys Iuddewig, heb fod yn droseddwyr o orchymyn Duw.—Ond a ydyw yn angenrheidiol oddiar yr ystyriaeth hyn i brofi fod enwaediad bob amser a than bob amgylchiad yn angenrheidiol i iachawdwriaeth? neu nad oedd neb o drigolion y ddaear yn dderbyniol ac yn gymeradwy gyda Duw, ac mewn cymundeb ag ef trwy y ffydd yr hon oedd gan Abraham yn y dienwaediad, pa rai ni ddarfu iddynt ufuddhau i'r seremoni o enwaedu; ac felly yn anghymhwys i gyfranogi o'r Pasg, neu o oen y pasg, yr hwn oedd yn gysgod neu wrthlun o Oen Duw yr hwn sydd yn tynu ymaith

bechodau y byd? Os na bydd i Mr. Hall wadu hyn, y mae ei nodiadau o angenrheidrwydd yn tueddu i gyhuddo y Deddfroddwr dwyfol, sef Awdwr goruchwyliaeth Moses, o fwy o fanyldra yn newisiad defnyddiau yr eglwys Iuddewig, nag a ddarfu i Awdwr goruchwyliaeth y Testament Newydd ei arferyd yn ei ddewisiad o ddefnyddiau yr eglwys efengylaidd. Y mae hyn yn ddigon o wrthbrawf i'r fath ymresymiadau.

*Pottsville.* *Cyf.* W. MORGAN.

---

## BEIRNIADAETH YSGRYTHYROL ETO, AR MATH. 11. 11.

HYBARCH OLYGYDD,—Carwyf yn fawr weled ymdrech yn mhawb "o bob llwyth, iaith a chenedl," er cael allan wir feddwl y Dwyfol air. Hoffais ganfod a darllen ysgrif fy nghyfaill "Ab Gomer," yn Seren Mehefin. Eithr rhaid i mi wrth y ryddid i anghydsynio â'r feirniadaeth a fabwysiadwyd ganddo—yn

1. Oblegyd nad wyf yn barod i fabwysiadu y dull anghysson canlynol o ymresymu: "Y lleiaf yn nheyrnas nefoedd," sef "yn ngweinidogaeth goruchwyliaeth yr efengyl." Ar ol hyn, dywed, "gwedir gan rai nad oedd Ioan na Christ yn gweinidogaethu dan yr oruchwyliaeth efengylaidd; ond os yw y meddwl uchod (sef y feirniadaeth dan sylw) yn gywir, fel yr wyf yn cael fy nhueddu i gredu ei fod, y mae yn un o'r *prawfiadau cryfaf* i *brofi* eu bod." Wele eiriau Ab Gomer.

Yn awr, onid disail rhyfeddol yw yr ymresymiad? *Unig sail* cywirdeb y feirniadaeth ydyw *fod* "Ioan a Christ yn gweinidogaethu o dan yr oruchwyliaeth efengylaidd," ac eto un o'r "prawfiadau cryfaf i brofi eu bod" a geir yn y frawddeg, "*os* yw y meddwl uchod yn gywir." Nis gwn a wyr fy nghyfaill rhywbeth am rheolau *logic* ai peidio. Fodd bynag, gwel pawb fod ei resymeg yn engraifft o'r hyn a eilw y Sais, "*reasoning within a circle.*" Nid wyf yn mabwysiadu y golygiad yn—

2. Oblegyd nad ymddengys i mi (fel y barnai Ab Gomer) "y gwna y golygiad hwn gydeistedd yn hollol naturiol â chyssylltiadau y geiriau." Credwyf mai dyma yw unig *brawf anffaeledig* cywirdeb neu anghywirdeb unrhyw esboniad, sef ei *gysondeb â'r testynau cyssylltiedig.* Yn ol y rheol yma profer y feirniadaeth dan sylw. Amlwg i'r darllenydd yw, y cyfeiriai ein Harglwydd at Ioan fel proffwyd, te, 'a mwy na phroffwyd,' (gwel adn. 9.) h. y., mwy nag a olygai ei wrandawyr nag oedd yn gynnwysedig [yn y gair. Yn "hollol naturiol" gan hyny y cyflawnwn synwyr y testyn trwy osod y gair "proffwyd" i mewn lle mae y synwyr yn ddiffygiol. Os gwneir hyn, a choleddu y dybiaeth y cyfeiriai ein Harglwydd Iesu Grist *ato ei hun*, pan yn son am "y lleiaf," (neu yn ol y Groeg "yr hwn sydd lai,") yna gwneir ein Iachawdwr yn "*lleiaf*," neu yn "*llai*" *proffwyd* na Ioan. Ond nis gwn yn mha ystyriaeth y gellir credu ei fod felly, tra y cofiwyf fod fod fy Arglwydd, mewn modd o neillduolrwydd, yn cael ei alw "*y* proffwyd," a'r "proffwyd *mawr*."

Od yw Ab Gomer, neu ryw un arall, am wybod meddwl ysgrifenydd y llinellau hyn. Y meddwl sydd ganddo, nid wrth edrych ar olygiadau eraill, ond ar gyssylltiadau y geiriau, yn unig, dyma ydyw. Cyfeiria Iesu at ei ddysgyblion gweinidogaethol—y *proffwydi* y rhoddes orchymyn iddynt ychydig cyn hyny fel yma, "*Nac ewch i ffordd y cenedloedd*, ac i ddinas Samaria nac ewch i mewn; eithr ewch yn hytrach at gyfrgolledig *ddefaid ty Israel;* ac wrth fyned, pregethwch, gan ddywedyd, Fod teyrnas nefoedd yn nesau;" pen. 10 adn. 5, 6, 7. Wedi ei gyfodi o feirw rhoddai i'r un proffwydi y gorchymyn hwn, "Ewch i'r *holl fyd*, a phregethwch yr efengyl i *bob creadur;*" Marc 16. 15.

Yn awr, yr ydwyf yn darllen yr adnod dan sylw fel yma: Yr wyf yn gosod y gair "*proffwyd*" i mewn; "Yn wir meddaf i chwi, yn mhlith plant gwragedd (yn yr amser a aeth heibio,) chododd neb mwy (proffwyd*) nag Ioan Fedyddiwr; er hyny (mewn amser dyfodol—yn haf-ddydd yr efengyl) yr hwn (yn mhlith proffwydi) sydd lai (proffwyd) yn nheyrnas nefoedd, sydd fwy (proffwyd) nag ef."

Yn bresennol gadawaf y nodau hyn i ystyriaeth fy nghyfaill "Ab Gomer," a'ch darllenyddion aml a synwyrol, gan hysbysu mai fy unig rheswm dros eu hymddangosiad ydyw y credwyf eu bod yn *fwy* cyson, yn *fwy* "naturiol," ac yn cydeistedd yn *well* â "chyssylltiadau y geiriau, na'r hyn a ymddangosodd yn Seren Mehefin diweddaf.

*Pittston.* PHILALETHES.

---

## I'R ARADR.

I'R Amaethon er moethau—heb aradr,
Prif beiriant yr oesau,
Ni ddaw'n byd yn addien bau,
Gan hauedig gain ydau. CYMRUAIN.

---

* Mewn man arall dywed un o'r hanesyddwyr santaidd yn gyffelyb, Luc 7. 28, "Yn mhlith, &c., nid oes broffwyd mwy," &c.

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### Y PEDWERYDD CANRHIF.

YN nechreuad y canrhif hwn yr oedd yr ymerodraeth Rufeinig yn cael ei llywodraethu gan bedwar o benaduriaid. O'r rhai hyn yr oedd Diocletian a Maximian Herculeus yn blaenori mewn awdurdod; a Chonstantius Chlorus a Maximinus Galerius yn ymerawdwyr is-raddol. Yr oedd Diocletian wedi esgyn i'r orsedd yn y flwyddyn 234, ac felly wedi llywodraethu un mlynedd ar bumtheg o'r canrhif blaenorol heb aflonyddu y Cristionogion mewn dim, er ei fod yn bagan hollol goel-grefyddol. Yr oedd Constantius Chlorus, yr hwn oedd yn llywodraethu Gaul a Phrydain, yn dywysog haelfrydig, tyner a dyngarol. Yr oedd yn canfod gwagedd y duwiau meirwon, yn trin y Cristionogion gyda chymeradwyaeth ac arafwch, ac yn eu gosod mewn rhai o'r swyddau gwladol. Yn ol tystiolaeth hanesyddion yr oedd ef wedi priodi Helen, merch Coel Godebog, yr hon oedd dywysoges grefyddol, ac yn Gristionoges selog, a hi, meddant, oedd mam Cystenyn Fawr. Dichon fod hyn wedi effeithio ar yr ymerawdwr er ei ddwyn yn ddirgel i gymeradwyo egwyddorion Cristionogaeth; fodd bynag, mae'n sicr ei fod yn dywysog rhinweddol, ac yn llywodraethwr doeth a chanmoladwy, ac fel y cyfryw mewn parch mawr gan ei holl ddeiliaid. *Hanes Crefydd yn Nghymru, gan D. Peter, Cent. IV.*

Yr oedd yr eglwys yn awr wedi cael gradd o lonyddwch am ran fawr o ddeugain mlynedd, oblegyd nid ymdaenodd yr hyn a elwir y nawfed erledigaeth yn mhell, o herwydd marwolaeth greulon yr ymerawdwr Aurelian, yr hwn oedd wedi ei chyfodi. Yn y tymhor llonydd hwn yr oedd Cristionogaeth yn ymdaenu yn mhob talaeth, a'r hen grefyddau yn enill tir, a phob peth yn rhag-arwyddo fod yr amser yn nesau pan fyddai dylanwad ac elw'r offeiriaid paganaidd yn terfynu. Nid peth annysgwyliadwy gan hyny oedd iddynt frawychu a gosod eu dyfais ar waith i atal rhedegfa y grefydd oedd yn gosod eu duwiau yn ddifri, eu temlau yn wag, a'u hallorau yn ddiwasanaeth; ac felly y gwnaethant yn gyntaf drwy geisio cynhyrfu Diocletian i gymeryd eu plaid. Ond gan nad oedd hwn yn dangos parodrwydd i gydsynio â'u hamcan, hwy a droisant at Maximinus Galerius, yr hwn oedd yn un o'r ymerawdwyr, ac yn briod â merch Diocletian. Tywysog anwybodus oedd hwn yn mron am bob peth ond achosion milwraidd, ac o duedd ffyrnig a chreulon, ac felly yn gymwys iawn i'w hamcanion gwaedlyd. Trwy resymau twyllodrus yr offeiriaid, dylanwad ei fam hygoelus, a'i nwydau gorwyllt ei hun, fe'i cynhyrfwyd i ymbil mor daer ar Diocletian am gyfraith yn erbyn y Cristionogion, fel yn y diwedd y llwyddodd yn ei ymgais, ac y cyfodwyd y ddegfed erledigaeth.

Yn y flwyddyn 302, pan oedd Diocletian yn Nicomedia, prif-ddinas Bithynia, lle yr oedd nifer fawr o Gristionogion, y cyhoeddwyd y gyfraith oedd yn gorchymyn dinystrio addoldai y Cristionogion, llosgi eu holl lyfrau, a'u difoddiannu o'u hawliau gwladol, a'u dyfarnu yn anheilwng o unrhyw ddyrchafiad neu anrhydedd. Nid oedd yr ysgrifen hon yn cyffwrdd â'u bywydau, oblegyd yr oedd Diocletian yn anewyllysgar i dywallt gwaed, ond yr oedd Galerius yn penderfynu dwyn ei amcan yn mlaen. Yn fuan wedi cyhoeddi yr ysgrifen hon, pan oedd Galerius eto yn aros gyda Diocletian, fe dorodd tân allan ddwy waith yn y llys, ac er mai Galerius ei hun oedd y ffaglwr yn ol pob tebygolrwydd, efe a ddarbwyllodd yr ymerawdwr i gredu mai y Cristionogion oedd yn euog o'r trosedd, ac yn y canlyniad llofruddiwyd lluoedd o honynt yn y ddinas hono yn y modd mwyaf erchyll a didrugaredd. Yr ydym yn cael i rai miloedd gael eu llosgi yr un diwrnod yn un o demlau Nicomedia ar ddechreuad yr erledigaeth, ac yn ol tystiolaeth Eusebius a hanesyddion boreuol eraill, yr oedd pob dyfais yn cael ei defnyddio er cynyddu arteithiau y dyoddefwyr. *Euseb Hist. Eccles. lib. VIII. cap. VI. Lactant. Demont. Pers. cap. XIX.*

Ond nid hir y cyfyngwyd y blinder hwn i Nicomedia, oblegyd cyhoeddwyd ysgrifen ymerodrol arall, yr hon oedd yn gorchymyn dal a charcharu pawb, esgobion, bugeiliaid, ac athrawon Cristionogol drwy yr holl ymerodraeth; a chanlynwyd hon gan un arall oedd yn rhwymo y swyddogion drwy yr holl dalaethau i arfer pob arteithiau er gorfodi y dyoddefwyr i aberthu i'r duwiau. Bu yr erledigaeth hon yn llawer mwy erchyll nag un oedd wedi ei blaenori, ac yn fwy cyffredinol drwy yr ymerodraeth. Mae yn wir hefyd i nifer fawr syrthio oddiwrth eu proffes, ond safodd miloedd lawer yn wrol ac yn fuddugoliaethus dan yr arteithiau mwyaf annyoddefol a allasai creulonder eu dyfeisio, a dyfarnwyd lluoedd aneirif i orphen eu bywydau yn y mwn-gloddiau fel caethion. Yr ydym yn cael ar dystiolaeth hanesyddion credadwy, i gymmaint a dwy fil ar bumtheg o Gristionogion ddyoddef merthyrdod yn ystod un mis yn nhymor yr erledigaeth hon, ac yn y deng mlynedd y bu yn cynddeiriogi, fod nifer y merthyron yn nhalaeth yr Aifft yn unig ddim llai na chant a hanner o filoedd. Mae'n wir fod Gibbon yn ameu y lluosawgrwydd hyn, ond pan ystyriom barodrwydd yr offeiriaid i amddiffyn yr hen gyfundrefn, eu dylanwad yn mhlith y swyddogion, a llymder y cyfreithiau oeddent wedi eu dwyn i weithrediad, nid ym yn canfod rheswm i betruso o barth cywirdeb y cyfrif. Mae'n amlwg nad oedd Galerius yn amcanu dim llai na difodi Cristionogaeth, a'i fod wedi darbwyllo Diocletian i ymroddi i'r un amcan, ac o ganlyniad fod yr erledigaeth yn ffyrnig ac yn gyffredinol; ac wrth ystyried lluosogrwydd y Cristionogion drwy yr holl ymerodraeth, y mae yn hawdd gweled fod y nifer yn lluosog; ac oni buasai fod gallu anweledig o du yr achos, buasai yr erledigaeth hon yn debyg drwy ei chreulonder o ateb dyben y trefnwr a'i cyfododd.

Nid oedd yr erledigaethau blaenorol wedi

effeithio nemawr ar eglwysi ynys Prydain, oud cyrhaeddodd y ddegfed erledigaeth yno, er nad i'r un gradd â llawer o dalaethau eraill. Yr oedd Constantius Chlorus yn ffafriol i'r Cristionogion, ond nid oedd ond ymerawdwr is-raddol ar ddechreuad y blinder, ac yr oedd y cyfreithiau gwaedlyd yn llym ac yn benderfynol; ac felly merthyrwyd nifer fawr o ddysgyblion Crist yn yr ynys yma, ac yn eu plith Alban o Ferulam, Amphibalis o Gaerlleon-ar-Wysg, Aaron a Julius o'r un lle, ac Agulius o Lundain; ac er na pharhaodd y trallod ond tua blwyddyn a hanner yn yr ynys hono, gwanhawyd yr achos nes oedd ei gyflwr yn isel. Ond pan wisgwyd Constantius â chyflawn awdurdod ar ymadawiad Diocletian o'r orsedd, fe derfynodd yr erledigaeth yn Mhrydain, a chafodd y Cristionogion oeddent wedi ffoi ddychwelyd i'w cartref-leoedd mewn dyogelwch, a chyd-gyfarfod i foliannu Duw fel arferol am ei ddaioni.

Ond nid felly yr oedd achos y Cristionogion yn y rhan ddwyreiniol o'r ymerodraeth lle yr oedd Galerius yn llywodraethu, canys parhaodd yr erledigaeth yno yn y cyfan tua deng mlynedd, nes fod y treiswyr yn y diwedd yn gorfod canfod nad oedd ei ymgais i ddifodi Cristionogaeth ond peth ofer. Yr oedd hefyd erbyn hyn wedi cyfarfod â chynnifer o siomedigaethau yn ei amcanion eraill, fel yr oedd yn ddeiliad gresyndod annraethadwy. Fe gyhoeddodd gan hyny ysgrifen cyn ei farw i ryddhau y Cristionogion oddiwrth y gorthrymder oedd wedi tarddu o'i greulonder ei hun, ac i ganiatau iddynt fyw yn ol rheolau eu crefydd, ac i gynnal eu cyfarfodydd mewn llonyddwch. Nid hir wedi hyny y bu y treiswr cyn gorfod ymddangos yn ngwydd ei Farnwr, oblegyd bu farw yn nechreu y mis canlynol, yn y cyflwr mwyaf gresynus y gellir son am dano, wedi bod yn achos o farwolaeth llu aneirif o ddynion diniweid nad oedd y byd yn deilwng o honynt.

Ar farwolaeth Constantius Chlorus, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 306, cyhoeddwyd Cystenyn ei fab yn ymerawdwr y gorllewin gan y fyddin; ac wedi iddo ennill buddugoliaethau ar y gwrthwynebwyr Almaenaidd, a rhai llwythau eraill ar gyfandir Ewrop; fe'i cadarnhawyd yn ei urddasrwydd gan y Senedd Rufeinig; a chydnabyddwyd ef felly gan Galerius ei hun, er fod hyn yn groes iawn i'w feddwl. Ar farwolaeth Galerius fe syrthiodd y talaethau dwyreiniol i ddwylaw Maximin a Licinius, ac amcanodd Maxentius draws-feddiannu talaethau Affrica, ynghyd a'r Eidal, gan fwriadu goresgyn yr holl ymerodraeth orllewinol. Cystenyn wedi deall hyn, a gychwynodd i'r Eidal a byddin o ddeugain mil o filwyr, ac wedi amryw frwydrau yn y rhai y bu yn fuddugol, fe ddinystriodd alluoedd Maxentius, yr hwn wrth ffoi a syrthiodd i afon Tiber, ac a foddwyd yno. Pan yn y rhyfelgyrch hwn y dywedir i Cystenyn ganfod croes ddysglaer yn yr awyr, a'r geiriau hyn yn ysgrifenedig arni, *drwy hon y gorchfygi*. Am gywirdeb yr hanes nid ym yn anturio i benderfynu; ond y mae Eusebius yn tystio iddo dderbyn yr hysbysiad o enau yr ymerawdwr ei hun; pa fodd bynag, mae yn sicr i Cystenyn a'i gyd-lywodraethwr Licinius gyhoeddi ysgrifen ymerodrol oddeutu y fl. 312, yr hon oedd yn dyogelu rhyddid crefyddol i holl ddeiliaid yr ymerodraeth.

Yr oedd Licinius yn awr wedi priodi chwaer Cystenyn, ac yr oedd arwyddion heddwch yn ymddangos drwy y talaethau, a'r Cristionogion yn cynnal eu cyfarfodydd mewn llonyddwch, a'r addoldai, o'r rhai yr oeddent wedi eu hysbeilio, yn cael eu hadferu iddynt. Oud nid hir y buont heb gwmwl adnewyddol, oblegyd tua y fiwyddyn 314 cyfododd ymryson rhwng y ddau ymerawdwr, pryd y dyoddefodd y Cristionogion beth trallod oddiwrth Licinius; ond wedi ychydig frwydrau, yn y rhai na fu un ochr yn hollol fuddugol, effeithiwyd cymod, ac felly dychwelodd pethau i'w cyflwr blaenorol. O'r tymhor hwn ymroddodd Cystenyn yn egniol iawn i drin achosion eglwysig y Cristionogion, ac i sefydlu trefn pethau yn eu plith yn ol ei farn ei hun, nes tua y flwyddyn 324, pryd y torodd rhyfel allan yr ail waith rhwng y ddau ymerawdwr. Trodd y fuddugoliaeth o du Cystenyn, a dyfarnwyd Licinius ganddo i farwolaeth, ac felly daeth yn unig lywodraethwr yr holl ymerodraeth; ac yn fuan iawn wedi hyny cyhoeddodd ei benderfyniad i gefnogi y grefydd Gristionogol, ac i anghymeradwyo pob crefydd arall. O'r pryd hwn gellir amseru y cyssylltiad anghyfreithlon rhwng gwlad ac eglwys sydd wedi bodoli, ac yn parhau felly, er drwg mawr i achos Crist yn y rhan fwyaf o dalaethau Ewrop.

Yr oedd Cystenyn yn awr yn llywodraethu yr eglwys yn gystal a'r wlad, yn casglu yr esgobion i gynnal cyfarfodydd, yn gwrandaw y dadeluon oedd rhyngddynt, ac yn penderfynu achosion a berthynent yn unig i achos crefydd. Yr oedd hyn yn ymddangos ar y cyntaf yn gyfnewidiad ffafriol, ond wrth y ffrwyth yr ym i farnu y pren, ac wrth chwilio yn fanol ni a ganfyddwn i hyn agor ffordd i lygredd a choelgrefydd i ymdaenu, ac uchelgais a thraws-lywodraeth i ffynu, a fuont wedi hyn yn waradwydd i Gristionogaeth ac yn felldith i'r byd. Mae yn anhawdd yn awr i farnu egwyddor Cystenyn, am fod ei gymeriad mor gymysglyd. Wrth edrych ar ei ymddygiad tuagat Licinius a'i fab, a thuagat Crispus ei fab ei hun, ynghyd ag amryw o bethau eraill yn hanes ei fywyd, y mae yn anhawdd eu cymmodi â chymeriad ysgrythyrol Cristion gwirioneddol; pan ar y llaw arall yr ymddengys yn selog dros heddwch yr eglwys, a llwyddiant achos Crist, ond ar y cyfan, bu yn offerynol yn llaw yr Arglwydd i effeithio cyfnewidiad mawr yn nghyflwr allanol y Cristionogion; a phe buasai yn gadael y cwbl fel yr oeddent wedi cyhoeddi ei ddwy ysgrifen gyntaf, buasem yn ei gyfrif yn un o'r ymerawdwyr doethaf, oblegyd yr oedd y rhai hyny yn dyogelu cyflawn ryddid mewn pethau crefyddol i'w holl ddeiliaid yn ddiwahaniaeth.

Yr oedd sel grefyddol Cystenyn yn cynyddu mewn ymddangosiad yn gydraddol â'i oed, fel yr ym yn ei ganfod yn adeiladu addoldai ardderchog drwy yr ymerodraeth, ac yn eu haddurno yn ol ei archwaeth ei hun; yn

ymlynu yn fanol wrth y defodau newyddion a gymeradwyent yr esgobion, yn ymprydio yn fynych, ac yn cadw y gwyliau appwyntiedig; ac hyd y nod yn cymeryd taith i Jerusalem i chwilio am fedd Crist, ac yn adeiladu lle o addoliad mawreddog yn Bethlehem, lle yr oedd Arglwydd y bywyd wedi ei eni a'i roddi mewn preseb. Ond wedi y cylan, yr oedd yn gohirio ufudd-dod i orchymyn penderfynol Crist, oblegyd nid ufuddhaodd i'r ordinhad o fedydd nes yn ymyl ei farwolaeth.—Mae hyn yn ymddangos yn hynod, ac yn profi yn ddiymwad mai nid crefydd y Testament Newydd, yn ei symlrwydd gwreiddiol, oedd gwrthddrych ei ymgais, ac nad oeddent yr athrawon â'r rhai yr oeddent yn cyfrinachu, yn rheoleiddio eu hymddygiad yn eu mesurau eglwysig yn ol cyfraith Crist. Fodd bynag, pan yr oedd ei gystudd diweddaf wedi ymaflyd ynddo, galwodd am nifer o esgobion i'r llys ymerodrol yn Nicomedia, ac a ddymunodd ar iddynt ei fedyddio, gan addunedu treulio gweddill ei ddyddiau fel dysgybl i'r Iesu. Yn ganlynol i hyn bedyddiwyd ef gan Eusebius, esgob Nicomedia, ac o'r pryd hyny rhoddodd heibio ei wisgoedd ymerodrol; ac wedi cystudd byr hunodd yr angeu, y 22ain o Fai, 337, tua 64 mlwydd oed, wedi teyrnasu tair-blynedd-ar-ddeg-ar-hugain.

Ar ei farwolaeth gadawodd Cystenyn dri mab, sef Cystenyn yr Ail, Constans, a Chonstantius, a rhwng y rhai hyn, yn ol ewyllys eu tad, y rhanwyd yr ymerodraeth, ond nid oeddent yn meddu ar alluoedd eu rhagflaenor. Hwy a ddilynasant ei siampl ef mor belled a chefnogi yr esgobaeth, ac anghymeradwyo paganiaeth. Cystenyn yr Ail oedd yn llywodraethu yn Yspaen, Gaul, a Phrydain; Constans yn Iliricum, Affrica, a'r Eidal; a Chonstantius yn Asia, Syria, a'r Aifft, a Chonstantinople yn brif-ddinas i'w lywodraeth. Ond yn mhen cymmaint a thair blynedd wedi marw eu tad, cyfododd ymryson rhwng Cystenyn yr Ail a'i frawd Constans, a chanlynodd rhyfel yn yr hwn y collodd Cystenyn ei fywyd; ac unwyd ymerodraeth y trengedig ag eiddo ei frawd buddugol, ac felly y parhaodd hyd y flwyddyn 350, pryd y llofruddiwyd Constans drwy frâd Magmentius, yr hwn oedd am draws-feddiannu y llywodraeth, ond ni thyciodd yn hir yn ei amcan, oblegyd Constantius wedi ymgynhyrfu yn gyfiawn yn ei erbyn a'i gorchfygodd mewn brwydr, ac yntau mewn braw rhag syrthio i'w ddwylaw, a laddodd ei hun; ac felly yn y flwyddyn 353, daeth Constantius, fel ei dad, i lywodraethu yr holl ymerodraeth, a pharhaodd felly hyd ei farwolaeth, yn y flwyddyn 361.

Ar farwolaeth Constantius esgynodd Julian i'r orsedd, pryd y cymerodd pethau agwedd newydd gyda golwg ar Gristionogaeth. Yr oedd Julian wedi ei ddwyn i fynu dan addysg Eusebius, esgob Nicomedia; ond er pob ymgais i'w egwyddori yn y gyfundraeth Gristionogol, fel yr oedd yn cael ei dysgu y pryd hyny, yr oedd ei duedd at baganiaeth, er ei fod yn cuddio hyn nes oedd y llywodraeth yn ei feddiant. Yn fuan wedi ei esgyniad i'r orsedd dangosodd sel annraethol o blaid yr hen grefyddau, fel yr oedd rhan o'r llys yn cael ei gyssegru at wasanaeth yr haul, a'r gerddi yn cael eu gorlenwi ag allorau i'r duwiau. Yr oedd wedi cymeryd yn ei ben yr amcan o adeiladu teml Jerusalem o'r newydd, ac wedi cyhoeddi gwahoddiad cyffredinol i'r holl Iuddewon gwasgaredig i ymgasglu yno; ond cyn cyflawnu nemawr o'i amcanion terfynodd llywodraeth Julian drwy iddo gael ei frathu â saeth milwr wrth ryfela â'r Persiaid, yn ymyl yr afon Euphrates, wedi iddo deyrnasu cymmaint ag ugain mis. Yr oedd wedi dangos peth gwrthwynebiad i'r Cristionogion yn y tymhor byr hwn, a pheth tebyg yw, pe buasai yn cael byw yn hir y buasent yn gorfod dyoddef blinderau adnewyddol, ond symudodd ei farwolaeth y cwmwl oedd yn ymgyfodi.

Jovian a'i canlynodd yn y flwyddyn 363, ac er na bu ei deyrnasiad yntau ond byr, effeithiodd yn rymus ar amcanion y blaid baganaidd, fel y diffoddwyd y gobaith oedd wedi ei enyn yn amser y llywodraeth flaenorol. Yn union wedi ei esgyniad, diddymodd gyfreithiau Julian, ac a gyhoeddodd ei benderfyniad i gefnogi y grefydd Gristionogol, ac i adferu eu breintiau blaenorol i'r eglwys a'r esgobion; ond ar yr un pryd hysbysodd i'w ddeiliaid nad oedd yn amcanu trallodi neb o honynt, o herwydd eu harferiadau crefyddol, eithr eu bod yn hollol rydd i ddilyn eu hen ddefodau os ewyllysient, gan ei fod yn anghymeradwyo pob ymryson, ac yn parchu yn unig y cyfryw a ymestynent at heddwch.—Ond er hyny syrthio wnaeth paganiaeth wedi colli y dylanwad ymerodrol, fel mewn amryw ddinasoedd yr aeth y temlau yn wag, a'r allorau yn ddiwasanaeth; ac o'r pryd hwn gellir dywedir fod paganiaeth wedi cael archoll anfeddyginiaethol. Ni pharhaodd teyrnasiad Jovian ond tua blwyddyn, ac nid gormod canmoliaeth iddo yw dweyd iddo ddangos mwy o gallineb mewn achosion crefyddol na llawer o'i flaenoriaid, er nad oedd ond swyddwr milwraidd cyn ei esgyniad i'r orsedd ymerodrol.

Canlynwyd Jovian gan ddau frawd, sef Valentinian a Valens. Yr oeddent, yn ol tystiolaeth Gibbon, yn ddynion cymmedrol, ac yn gefnogwyr dysgeidiaeth, er nad oeddent eu hunain yn ddysgedig. O barth crefydd yr oedd Valentinian yn ymlynu wrth y blaid a gyfrifid yn iawn-dyb, ond nid oedd am drallodi y rhai a wahaniaethent oddiwrtho; ond nid felly yr oedd ei gydymaith, eithr tueddai i orfodi pawb i goleddu yr un farn ag ef ei hun; ond ni bu nemawr o drallod i neb am eu golygiadau crefyddol nes wedi marw Valentinian, yn y flwyddyn 375, pryd y cymerodd Valens ei gynhyrfu gan Eudoxius, esgob Constantinople, i gefnogi yr Ariaid, ac i erlid, fflangellu, a charcharu y blaid arall, a pharhaodd pethau felly am dair blynedd, pryd y terfynodd yr ymerawdwr ei fywyd mewn brwydr â'r Gothiaid.

Ar farwolaeth Valens esgynodd Gratian i'r orsedd; a chan ei fod yn coleddu barn y Trinitariaid, galwodd yn ol y rhai oeddent wedi eu halltudio am eu barn gan ei rag-flaenor, ac a'u hadferodd i'w lleoedd cyntefig, ac a anfonodd Saporis un o'i swyddogion, i yru yr Ariaid, fel cynnifer o fwystfilod gwylltion,

allan o'u heglwysi. Yn fuan wedi ei esgyniad cymerodd Gratian Theodosius yn gydymaith iddo ei hun yn y llywodraeth, a chymerodd hwn siampl Cystenyn Fawr yn ddieithriad, drwy eistedd fel Pen yr eglwys i amddiffyn yr hyn a gyfrifai yn iawn-dyb, i anrhegu yr esgobion â chyfoeth ac anrhydedd, ac i ddifodi gweddillion paganiaeth drwy yr ymerodraeth. Tua diwedd y flwyddyn 390, cyhoeddodd ei gyfraith, yn yr hon yr hysbysai mai ei ewyllys oedd na byddai i neb o'i ddeiliaid, pa un bynag ai yn swyddogion neu yn ddinasyddion, yn dlawd neu yn gyfoethog, aberthu un aberth diniweid er anrhydedd i eulun marw, ac fod y neb a wnelai hyny yn cael eu cyhoeddi yn euog o drosedd yn erbyn y llywodraeth, ac yn agored i farwolaeth; ac fel hyn yr oedd y defodau paganaidd yn cael eu gwahardd a'u gwneuthur yn gospadwy; a dywedir i'r gyfraith hon gael ei gosod mewn gweithrediad gyda llymder mawr, fel nad oedd yn mhen ychydig flynyddau, fawr o weddillion eulun-addoliaeth yn ganfyddadwy, oddieithr yn gymysgedig ag addoliad dirywiedig y Cristionogion.

Yn mis Ionawr, 395, y bu farw Theodosius, a chanlynwyd ef gan ei ddau fab Arcadius a Honorius. Yr oedd cyflwr yr ymerodraeth yn awr yn resynus, drwy fod gelynion estronol yn eu goresgyn ar bob llaw, y llywodraethwyr yn ddibrofiad, a'r milwyr yn ddinerth.—Nid oedd Arcadius ond deunaw mlwydd oed pan esgynodd i'r orsedd, na'i frawd Honorius ond un-ar-ddeg, ac yn fuan yr oedd lluoedd afrifed o'r Gothiaid mewn arfau yn ymosod arnynt o bob tu; ac fel hyn yr oedd y ffordd yn cael ei hagor i'r deg corn, yn ol proffwydoliaeth Daniel, gyfodi yn sefydliad y teyrnasoedd Ewropaidd, a sylfaenwyd ar diriogaeth yr ymerodraeth oedd wedi bod am oesau yn ben ar y byd. Yn y tymhor hwn yr oedd Cristionogaeth mewn cysylltiad cyflawn â'r llywodraeth, a'r esgobion yn derbyn ymgellywodraeth, a'r esgobion yn derbyn ymgeledd ymerodrol, a chrefydd Crist wedi ei gwyrdroi gan ddyfais gnawdol, i ateb amcanion uchelfrydig tywysogion a llywodraethwyr y byd hwn.

Y cyfnewidiad cyntaf yn nghyflwr yr eglwys Gristionogol yn y canrhif hwn sydd yn galw am ein sylw yw, ei chysylliad â'r llywodraeth wladol, ac oddiar hwn y cyfododd y cyfnewidiadau eraill, am y rhai y bydd raid i ni son. Wrth ddarllen y Testament Newydd yr ym yn cael nad yw teyrnas Crist o'r byd hwn, eithr ei bod wedi ei sylfaenu ar egwyddor wahanol oddiwrth ymerodraethau y byd, ac i ddybenion nad ynt yn dderbyniol gan dywysogion y ddaear. Ond fel y cynyddodd y dirywiad, am yr hwn yr ydym wedi son yn yr erthyglau blaenorol, yr ym yn canfod ymgais i agweddu Cristionogaeth yn ol dull teyrnasoedd gwladol, a chymeryd cyflwr y genedl Iuddewig yn bortread i'r cyfan. Ond nid oedd y ffordd yn agored i hyn nes daeth Cystenyn i'r orsedd ymerodrol. Pan oedd y llywodraeth yn baganaidd yr oedd cleddyf y swyddog yn erbyn Cristionogaeth; ond pan ddaeth y llywodraethwr gwladol yn fath o ben ar yr eglwys gyffredinol, gosodwyd crefydd ar dir hollol anysgrythyrol, a rhoddwyd heibio yr egwyddor gyntefig ar yr hon yr oedd Cristionogaeth wedi ei sylfaenu. Ac o'r pryd hwn yr ydym yn canfod dynion a enwent enw Crist, yn erlid ac yn traflyngcu eu gilydd, mor ffyrnig a didrugaredd a neb o'r paganiaid oedd wedi eu blaenori yn yr ymgais i alltudio y gwir o ororau y ddaear.

Yn nesaf at hyn, agweddwyd trefniant y weinidogaeth yn ol cynllun yr awdurdodau gwladol, yn gymysgedig â'r offeiriadaeth gysgodol. Yn y Testament Newydd dysgir ni mai un yw ein pen, sef Crist, ac mai brodyr ynt ei holl ddysgyblion; ac yr oedd hyn yn cael ei gydnabod yn ddiymwad yn yr oes apostolaidd; ac nid ym yn canfod arwyddion o gyfnewidiad nes tua diwedd yr ail ganrhif. Yn y trydydd canrhif cynyddodd y dirywiad yn raddol, ac yn y pedwerydd ffrwythodd y cyfeiliornad drwy ddwyn allan gyfundraeth offeiriadol, na wyddai y Testament Newydd ddim am dani. Esgob Rhufain yn awr a welid yn blaenori y llu, a phatriarch Constantinople yn ymgystadlu ag ef am y flaenoriaeth. Yr oedd y dirywiad hwn wedi dechreu bodoli tua diwedd yr ail ganrhif, drwy fod rhyw esgob poblogaidd yn cael ei ddewis i flaenori yn ei ddosbarth ei hun, ac i gymmedroli yn y cymanfaoedd cyffredinol, a thyma ddechreuad y cymeriad patriarchaidd yn yr eglwysi Cristionogol; ond awdurdod Cystenyn a'i sefydlodd mewn cyflawn weithrediad, ac felly y daeth esgobion Rhufain, Alecsandria, Antiochia, a Chonstantinople yn batriarchiaid eglwysig, a than eu llywodraeth esgobion ac henuriaid, a nifer fawr o swyddwyr eraill yn ol dyfais y penaethiaid, a'r rhai hyn yn edrych am eu helw o'u gororau, ac yn cenfigenu wrth eu gilydd, nes oeddent yn ymddifad o bob teimlad gostyngedig ac hunan-ymwadol, ac yn hollol annheilwng o gael eu cyfrif yn weision Crist, ac yn fugeiliaid y praidd a brynwyd â gwaed ei groes ef.

Y trydydd cyfnewidiad a nodwn yma a gymerodd le yn y canrhif hwn oedd sylfaenu cynnaliaeth crefydd ar dir newydd. Hyd yma yr oedd y cyfan yn ymddibynu ar yr egwyddor wirfoddol; ac er fod Cristionogion cyfoethog yn cyfranu yn helaeth iawn tuag at gyfreidiau yr achos, nid ym yn cael fod neb o honynt yn meddwl am waddoli yr eglwysi. Ond yn y fl. 321, cyhoeddodd Cystenyn ysgrif ymerodrol yn caniatau cyflawn ryddid i'r neb a ewyllysia i anrhegu yr eglwys â'r faint a fynai o'i feddiannau, ac i ddiogelu y cyfryw roddion at wasanaeth crefydd, a holl feddiant y merthyron oeddent wedi dyoddef marwolaeth heb adael etifeddion ar eu hol. Yr oedd hyn yn ymddangos yn fanteisiol iawn i'r achos, ond yr oedd yn cynnwys ymadawiad oddiwrth egwyddorion efengyl Crist, ac effeithiodd gyfnewidiad unol â'i natur ei hun, fel y daeth amryw o'r eglwysi i feddu ar etifeddiaeth anymddibynol dan nawdd y gyfraith wladol. Cynyddodd balchder a thraws-arglwyddiaeth yr esgobion i helaethrwydd anyoddefol; ac ymddangosodd cymmaint tuedd ynddynt i gynyddu y gwaddol, fel y gorfuwyd cael cyfraith yn nheyrnasiad Valentinian, tua y flwyddyn 370, i'w hattal i dderbyn cymunroddion oddiwrth y rhyw fenywaidd, yr hyn

a ddengys fod diwydrwydd y swyddwyr eglwysig i gynyddu eu golud wedi cymeryd lle yr hunan-ymwadiad a berthynai i'w cymeriad fel gweinidogion Crist. Dyma ddechreuad etifeddiaeth yr eglwys, ac er gwneuthur y mesur yn fwy cymeradwy byddai'r gwaddol yn cael ei gyssylltu ag enw rhyw sant neu apostol; ac felly yr oedd gwaddol mawr eglwys Rhufain yn cael ei alw yn etifeddiaeth St. Pedr.

Heblaw y cyfnewidiadau hyn, chwanegwyd nifer fawr o arferiadau coel-grefyddol at y gwasanaeth, fel nad oedd nemawr o wahaniaeth ymddangosiadol rhyngddo â dull cyntefig y cenedloedd o addoli eu gwroniaid a'u tywysogion ymadawedig. Mor fuan ag y dinystriwyd temlau y paganiaid, cyfodwyd addoldai mor debyg iddynt ag oedd yn ddichonadwy; ac er enill cymeradwyaeth y rhai oeddent wedi arfer cael eu llygad-dynu gan ymddangosiadau mawreddog, fe'u haddurnwyd â'r lluniau a'r delwau mwyaf prisfawr. Mewn gair, dygwyd i mewn gymmaint o ddefodau anysgrythyrol, fel y dywedai Augustine eu bod wedi rhoddi trymach iau ar yddfau y Cristionogion nâ'r hon oedd wedi gwasgu mor galed ar yr Iuddewon gynt. Yr oedd crefydd arferedig yn awr yn gymysgedig o ddefodau Iuddewaidd, arferiadau paganaidd, syniadau y philosophyddion a rhai o reolau efengyl Crist. Dyma y fath oedd cyflwr Cristionogaeth tua diwedd y pedwerydd canrhif; ond yr oedd gan Dduw y pryd hwnw dystion ffyddlon a ymwrthodent â'r cyfeiliornadau poblogaidd hyn, ac a ymlynent yn ddiysgog wrth y gwirionedd yn ei symlrwydd gwreiddiol, er eu bod yn cael eu cyhoeddi yn rhwygwyr am eu gwaith.

Pan oedd yr ymdrech hyn yn cael ei wneuthur i gyd-agweddu Cristionogaeth ag egwyddorion y byd, yr oedd yr esgobion yn ddiwyd yn eu hymgais i enill cynorthwy oddiwrth y cyfoethogion i adeiladu addoldai gorwych a chymeradwy. Er hwylusu eu llwyddiant yn hyn, hwy a benderfynasant y byddai i'r rhai a adeiladent yr addoldai feddu hawl i gyflwyno y rhai a gymeradwyent i weinyddu ynddynt; a thyma ddechreuad y gyflwyn-hawl sydd wedi bod am oesau yn golofn gref i gynnal balchder a thrais pendefigion y byd, ac i wneuthur crefydd yn llaw-forwyn i'w hamcanion uchel-frydig. Pleidlais a dylanwad y rhai hyn yn awr oedd yn dwyn i mewn swyddogion i arolygu achosion crefydd, neu yn hytrach i feddiannu yr awdurdod a mwynhau y gwaddol ag oedd coel-grefydd wedi ei gyssylltu â swydd yr esgobion. Ac er cymmaint y chwyldroadau sydd wedi cymeryd lle, mae'r cyfeiliornad hwn yn parhau yn ei rym hyd yn awr, i felldithio y byd a gwaradwyddo crefydd; ac efallai nad oes un wlad lle mae yn ffynu yn fwy helaeth nag yn ynys Prydain, mewn cyssylltiad â'r eglwys wladol,

Yr oedd y swydd esgobaethol erbyn hyn yn wrthddrych uchelgais, ac yn neillduol felly yn y lleoedd a fyddent fwyaf hynod o barth gwaddol yr eglwys. Fel engraifft o hyn yr ym yn cael ar farwolaeth Liberius, esgob Rhufain, yn y flwyddyn 366, i ymgystadliad brwd gymeryd lle rhwng Damasus ac Ursicinus am y gadair esgobol. Plaid Damasus [fu'n fuddugol, ond anturiodd y blaid wrthwynebol i urddo Ursicinus; ac yn yr ymryson fe gynhyrfwyd y ddinas, fel y llofruddiwyd cynnifer a chant a dau-ar-bumtheg-ar-hugain o ddynion, yn ol tystiolaeth Socrates, yn y cweryl. Nid oedd hyn ond dechreuad y canlyniadau a gyfodasant oddiar gyssylltiad yr eglwys â'r llywodraeth wladol, a pheth hawdd fyddai pentyru engreifftiau o'r un natur, ond y mae hyn yn ddigon i ddangos i'r Cristionogion, mewn enw, golli ysbryd Crist pan ddaethant i ymddibynu ar ymgeledd tywysogion y byd. Nid yr esgobion yn unig oeddent ddeiliaid y dirywiad hwn, er mai yn eu plith hwy yr oedd yn fwyaf amlwg, eithr yr oeddent yr henuriaid a'r diaconiaid yn ymlwybro yn yr un ffordd, gan ymestyn at hunan-ddyrchafiad ac anrhydedd bydol fel eu prif wrthddrychau, ac mewn gair yr oedd cenfigen wedi cymeryd lle cariad, ac elw wedi meddiannu yr orsedd yn eu calonau. Dysgyblion Crist oeddent yn ol proffes, ond plant y byd yn ol eu hysbryd; ac nid oedd achos mwy i'r cenedloedd synu a galw ar eu cyfeillion i sylwi, fel yr oeddent y Cristionogion hyn yn caru eu gilydd.

Yn foreu yn y canrhif hwn y cyfododd y ddadl Ariaidd yn eglwys Alecsandria. Yr oedd Sabeliaeth wedi ymddangos yno i ryw fesur yn y canrhif o'r blaen, ond yn awr yr oedd y pwngc wedi newid ei agwedd. Yr oedd dechreuad y ddadl fel hyn. Alexander, un o henuriaid yr eglwys, mewn cyfarfod, a osododd allan ei syniadau yn hynod o hyderus, gan haeru fod y Mab nid yn unig o'r un urddasrwydd â'r Tad, ond hefyd o'r un hanfod. Fe wrthwynebwyd hyn gan Arius, yr yr hwn hefyd oedd yn un o henuriaid yr eglwys, ac yn ddyn medrus a chyfrwys mewn dadleuaeth, am ei fod yn rhy debyg i'r athrawiaeth Sabelaidd oedd wedi cael ei gwrthod yn barod; ac yna rhedodd i eithafoedd arall, gan honi fod y Mab yn hollol ac yn hanfodol wahanol oddiwrth y Tad; ac nad oedd amgen na'r blaenaf a'r penaf o'r bodau a grewyd ganddo o ddim; ac felly ei fod yn islaw iddo mewn natur ac urddasolrwydd. Nid cynt y cyhoeddodd Arius ei farn nag y cymeradwywyd ei syniadau gan nifer fawr yn yr Aifft a'r talaethau amgylchynol; ac yn mhlith y rhai hyn yr oedd llawer o ddynion cyfrifol am gyfoeth, dysgeidiaeth, a dylanwad yn y byd. Wedi galw dau gyfarfod esgobaethol yn Alecsandria ar yr achos, diarddelwyd Arius; ond ni wnaeth hyn un atalfa ar y cyfeiliornad, oblegyd wedi symud oddiyno i Balestina, ysgrifenodd yn ddiwyd at y dynion dysgedicaf, ac a enillodd luaws o bleidwyr cyfrifol, ac yn eu plith Eusebius, o Nicomedia, un o'r esgobion mwyaf dylanwadol yn ei oes.

Nid oedd Cystenyn ar y cyntaf yn gwneud nemawr o sylw ar yr ymrafael hwn; ond fel yr oedd y ddadl yn ymdaenu, a'r eglwysi yn ymgynhyrfu, ysgrifenodd lythyr at y pleidiau ymrysongar, i'w cynghori i roddi fynu y ddadl; ond gan na bu hyn yn effeithiol i ostegu y cynhwrf, fe alwodd gynghor cyffredinol i gael ei gynnal yn Nicea yn y flwyddyn 325. Yn ol gorchymyn yr ymerawdwr, ym-

gasglodd 318 o esgobion, heblaw graddau eraill o swyddwyr eglwysig; ac fe ddywedir fod yr oll yn 2048 o bersonau. Ffurfiwyd yno o leiaf gymmaint ag ugain o reolau o berthynas i blaid Novatian, i amser cadw y Pasg, ac i helaethrwydd awdurdod yr esgobion, a phethau eraill o'r un natur. Ond y peth mwyaf pwysig o'r cyfan oedd y ddadl ar berson Crist, yn yr hon yr oedd Arius ac Alexander yn arweinyddion. Eusebius o Nicomedia; Theognis, o Nicea; a Marius, o Chalcedon, oeddent brif gynorthwywyr Arius, ac Athenasius oedd prif amddiffynydd barn Alecsander.

Yn y diwedd barnwyd syniadau Arius yn gyfeiliornus, a chydunwyd ar yr erthyglau a gynnwysir yn y gredo Niceaidd sydd ar gael yn Llyfr Gweddi Cyffredin Eglwys Loegr, fel rheol uniawn-gred. Esgymunwyd Arius, a chyflwynwyd penderfyniadau y cynghor i Sylvester, esgob Rhufain, ac fe'i cadarnhawyd ganddo mewn cynghor o'i eiddo ynteu, gan gyhoeddi melldith ar y neb a'i gwrthwynebai. Ond er holl lafur cynghor Nicea am yn agos i dri mis i effeithio unoliaeth barn yn mhlith Cristionogion; ac er cael yr awdurdod ymerodrol i'w cefnogi i rwymo pawb i dderbyn eu penderfyniadau, ni bu yr ymgais ond ofer. Mae yn wir i Arius gael ei alltudio o Alecsandria, ac i'w bleidwyr gael eu dal allan fel cyfeiliornwyr, ac i Cystenyn orchymyn llosgi llyfrau Arius, a chyhoeddi y neb na wnelai hyny yn ddarostyngedig i gosp marwolaeth; ond yn mlaen yr aeth y cyfeiliornad am dymhor hir; ac yn nheyrnasiad Constantius, yr Ariaid oedd y blaid gymeradwy yn y llys, a'r esgobion Ariaidd oeddent yn y parch mwyaf gan y llywodraethwyr.

Dyma un engraifft gyffrous o aneffeithioldeb ymyriad ymerawdwr ag achosion cydwybod. Yr oedd Cystenyn yn collfarnu Ariaeth, ac yn rhwymo pawb i'w gwrthod, ac yn darparu blinder i'r neb a'i cefnogai, a'i fab yn llawn mor benderfynol yn cefnogi y gyfundraeth, ac yn anog ei ddeiliaid i'w derbyn.—Nid ym yn beio Cystenyn am fod yn gwrthod Ariaeth, na'i fab am ei derbyn; canys yr oedd hawl ganddynt i farnu drostynt eu hunain, ac i'r Arglwydd yr oeddent yn gyfrifedig am eu cred; ond dyma'r drwg, eu bod yn cymeryd arnynt i rwymo eu deiliaid i fod o'r un farn â hwy eu hunain, ac yn eu trallodi am nad allent fod felly. Mae llywodraethwyr y ddaear yn colli y ffordd pan ymgeisiant lywodraethu cydwybodau eu deiliaid. Nid dyma eu gwaith, a phan ymgeisiant at y fath orchwyl nid oes ond anghyssondeb a blinder yn canlyn, ac mae digon o dystiolaeth ar gael nad ynt yn gymwys i benderfynu y fath achosion, ac o ganlyniad fod eu hymyraeth yn anghysson â rhyddid, ac yn arwain i drawsarglwyddiaeth, erledigaeth, a gresyndod.

Ar yr amser hwn, nid at yr ysgrythyr y byddid yn cyfeirio er profi cywirdeb neu anghywirdeb barn, ond at benderfyniadau y cyfarfodydd cyffredinol; ac felly yr oedd yr esgobion yn cymeryd y cyfan yn eu dwylaw eu hunain, a'r bobl gyffredin yn cael eu hymddifadu o bob hawl, nes yn y diwedd y daethant y swyddogion i gael eu hystyried megys yn cyfansoddi yr eglwys, a'r pethau a gydunent hwy arnynt yn eu cyfarfodydd a gyhoeddid fel barn yr eglwys yn gyffredinol.—Fel yr oedd hunan-ymgais yr offeiriadaeth yn cynyddu, yr oedd ymarweddiad y cyffredin yn dirywio, a chyflwr moesol y Cristionogion yn iselhau, ac fel y gallasid dysgwyl yn y fath dymor, yr oedd dysgyblaeth yn dadfeilio, ac anwiredd, balchder, ac anghyfiawnder yn amlhau, a phob peth yn dangos nad oedd ganddynt ond ffurf duwioldeb wedi gwadu ei grym, ac enw o fod yn fyw pan yn feirw yn eu camweddau.

Pan yr oedd cyflwr y Cristionogion yn dirywio fel hyn, yr oedd llawer o ddynion difrifol a chydwybodol yn ymneillduo oddiwrth y corff cyffredinol, ac yn penderfynu ymwrthod â'r cyfnewidiadau llygredig a gymeradwyid gan yr esgobion, a glynu wrth y Testament Newydd fel unig reol ffydd ac ymarweddiad. Yr oedd y rhai hyn yn cael eu cyfrif yn rhwygwyr ac yn gyfeiliornwyr, nid am eu bod yn ymadael â'r gwirionedd, ond am eu bod yn pallu cwympo i mewn â'r gyfundraeth lywodraethol, ac ymddarostwng i awdurdod anysgrythyrol y cyfarfodydd esgobaethol. Yr ym wedi nodi yn barod i Montanus a Thertulian wneuthur felly tua diwedd yr ail ganrhif, neu ddechreuad y trydydd, ac i Novatian ddilyn ei siampl tua'r fl. 251. Yr oedd plaid Novatian yn lluosog iawn yn y pedwerydd canrhif, ac yn dal yr athrawiaeth yn ei phurdeb, a'r ddysgyblaeth eglwysig yn ol rheol y gair. Yr ym yn cael, yn ol tystiolaeth yr enwog Socrates, fod Acesius, un o'r esgobion Novatianaidd yn nghymanfa Nicea, a phan y gofynodd yr ymerawdwr Cystenyn iddo os oedd yn cyduno â'r gredo a gyfansoddwyd yno, iddo ateb nad oedd ynddi ddim pethau newydd iddo ef; eithr y pethau oedd wedi eu credu, a'r pethau oeddent yn cael eu dysgu yn ddiymwad oddiar oes yr apostolion. Ond pan ofynodd yr ymerawdwr paham, gan hyny, yr oedd yn ymneillduo o gymundeb yr eglwys gyffredinol, iddo ddangos anghymeradwyaeth o'r ddysgyblaeth esgeulus ag oedd mewn arferiad, a'i chyferbynu i'r hyn oedd mewn gweithrediad yn mysg ei blaid ei hun; nes i Cystenyn ddweyd wrtho yn y diwedd, am iddo fyned i'r nefoedd, felly, yn ei ffordd ei hun; ac yn y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd ysgrifen ymerodrol ffafriol i'r blaid hon. Ond wedi y cyfan, cawsant beth trallod cyn diwedd teyrnasiad Cystenyn, a llawer rhagor yn amser ei fab Constantius; ond llwyddo a wnaeth yr achos yn eu dwylaw, a chyfododd Duw yn eu plith lu o weinidogion doniol a duwiol i borthi ei braidd, a'u harwain yn ffordd gwirionedd.

Tua y flwyddyn 306 y cyfododd plaid arall o ymneillduwyr, tebyg iawn i blaid Novatian, yn Affrica. Eu harweinydd oedd esgob o'r enw Donatus, ac oddiwrth hyny yr oeddent yn cael eu galw yn Ddonatiaid. Mae y Dr. Mosheim yn priodoli eu cyfodiad i ymrafael a gymerodd le rhwng y Numidiaid a'r Carthageniaid ynghylch dewisiad Cæcilianus i fod yn ganlynydd i Mensurius fel esgob ar eglwys Carthage; ond wrth chwilio yr achos, mae yn amlwg eu bod wedi blino ar y llygredd a'r

penrhyddid oedd yn ffynu drwy yr eglwysi, ac am gael dysgyblaeth ysgrythyrol i weithrediad. Mae y dysgedig Du Pin yn dywedyd nad oedd un gwahaniaeth rhyngddynt â'r eglwys gyffredinol mewn athrawiaeth, ac nad oeddent yn dysgu dim amgen nag a gynnwysir yn y gredo aposto'aidd, ond eu bod yn haeru fod yr holl eglwysi ag oeddent yn dal cymundeb ag eglwys Carthage wedi darfod a bod yn wir eglwysi Iesu Grist, ac felly fod yr eglwys efengylaidd ar gael yn eu plith hwy yn unig; a'u bod yn dal y dylai yr eglwys gael ei chyfansoddi yn unig o ddynion cyfiawn a santaidd, ac er y dichon rhai drwg ymlusgo iddi, na ddylent gael eu goddef pan ddeallir eu bod felly. *(Du Pin, Ch. Hist., Cent. IV., c. 3.)*

Yn lled fuan taenodd syniadau y Donatiaid yn mhell ac yn agos, fel y daethant yn gorff lluosog iawn, yn enwedig yn Affrica. Nid oedd braidd ddinas yn y wlad hono heb gynnulleidfa o honynt, ac yr oeddent wedi cyrhaeddyd cymmaint o gyfrifoldeb yn mhen cymmaint a deng mlynedd wedi marwolaeth Cystenyn, fel y danfonodd Constans ei fab ddau genad urddasol i geisio eu huno â'r eglwys gyffredinol. Ond pan yr ymdrechid eu darbwyllo i hyn, yr oeddynt yn sylfaenu eu hymneillduaeth ar dystiolaeth Crist am natur ei deyrnas, ac yn collfarnu y cyssylltiad anysgrythyrol rhwng gwlad ac eglwys, ac yn gofyn, yn ol tystiolaeth Optatus, beth oedd a wnelai ymerawdwyr â'r eglwys, neu beth oedd a wnelai Cristionogion â breninoedd, neu esgobion â llysoedd. Oddiwrth hyn yr ym yn canfod nad tramgwydd yn nghylch dewisiad esgob oedd prif achos eu hymneillduaeth, ond ei fod yn tarddu oddiar egwyddor gyfiawn, ac ysgrythyrol; a phe buasai pawb yn gweithredu dan ddylanwadau yr un farn, ni fuasai achos genym i gofnodi y creulonderau a ddyoddefwyd gan ganlynwyr Crist, o'r pryd hwn hyd amser y diwygiad Almaenaidd. Cawsant lawer o'u herlid yn amser Cystenyn a'i feibion, ond cynyddu oedd eu rhif, er gorfod ffoi ac ymguddio rhag llid a gormes dynion a'u galwent eu hunain yn ganlynwyr Crist, ond mewn gwirionedd oeddent wedi ymadael ag egwyddorion ei grefydd. Yn nechreuad y pedwerydd canrhif, pan gynnaliwyd y cynghor yn Ngharthage, yr oedd yn wyddfodol 565 o esgobion, ac yr oedd 279 o honynt yn perthyn i blaid y Donatiaid, fel nad oedd mwyafrif eu gwrthwynebwyr ond saith, yr hyn a brawf eu bod yn hynod o luosog. er holl lymder eu dysgyblaeth a chreulonder eu caseion. *(Jones's Lectures on Eccles. Hist., Lect. XXV.)*

Tua diwedd y canrhif hwn hefyd y cyfododd Aerius, (nid Arius o Alexandria,) ac a gasglodd lawer o gynnulleidfaoedd ymneillduedig yn Capadocia, Pontus ac Armenia. Yr oedd hwn o'r blaen yn henuriad, a dywed Mosheim ei fod yn hanner Ariad; ond nid yw hyn ond dull cyffredin o iselhau cymeriad ymneillduwyr. Ei brif erthygl oedd, "Nad oedd un gwahaniaeth yn ol y gosodiad Dwyfol rhwng esgobion a henuriaid, eithr mai yr un peth yn hollol oedd eu swydd, yn ol y Testament Newydd." Yr oedd hyn yn dderbyniol gan lawer o Gristionogion difrifol, gan fod balchder a thraws-arglwyddiaeth yr esgobion wedi cynyddu i eithafion annyoddefol; ac felly yr oeddent yn barod i gwympo i mewn â barn Aerius ar y pen hwn. Yr oedd pyngciau eraill o berthynas i ba rai yr oedd yn gwahaniaethu oddiwrth y blaid lywodraethol, oblegyd yr oedd yn collfarnu y ddefod o weddio dros y meirw, yn amau rhwymau yr ymprydiau gosodedig, ac yn gwadu y buddioldeb o gadw y pasg, a phethau eraill o'r un natur ag oeddent yn awr mewn bri; ac nid oedd ei ymgais ddim yn llai na dwyn Cristionogaeth yn ol i'w symlrwydd cyntefig. Er fod hanesyddion eglwysig wedi barnu yn addas i resu y blaid hon yn mhlith yr hereticiaid, maent hyd yma heb brofi ei bod yn dal un egwyddor anysgrythyrol, nac yn gwrthod un gosodiad a gynnwysir yn nghyfraith Crist; ond yr oeddent yn ymwrthod â'r defodau llygredig oedd yn gymysgedig â'r gyfundraeth boblogaidd; ac yn dewis addoli Duw yn ol cyfarwyddyd ei air, yn hytrach nag yn ol penderfyniadau esgobion uchelfrydig. A phwy na chanmolai eu hymddygiad, ond y rhai ynt wedi ymadael â'r portead a roddwyd drwy awdurdod ysbrydoledig?—*(Gwel Mosheim's Eccles. Hist., Cent. IV., c. 3. sect. 21.)*

Wrth edrych ar lygredigaethau y pedwerydd canrhif, mae yn ddymunol cofio fod nifer fawr o ymneillduwyr yn ymwrthod â'r defodau coel-grefyddol, ac yn dewis dyoddef adfyd a gwawd, yn hytrach nag ymostwng i awdurdod ddynol yn lle cyfraith Crist. Er fod y rhai hyn yn cael eu drwgliwio fel hereticiaid gan eu gwrthwynebwyr, tystion Crist oeddent dros ei wirionedd, ac er nad oeddent alluog i wrthsefyll cyfeiliornadau yr oes, ac effeithio diwygiad cyffredinol, eto, yr oedd eu hymgais diysgog yn atalfa ar y llygredd, a'u hymdrech o blaid yr efengyl yn dal goleuni allan mewn amser tywyll, a thrwy eu hofferyngarwch yr oedd llawer o eneidiau yn derbyn cysuron gobaith, ac yn cael eu cyfarwyddo yn y ffordd i'r bywyd a'r dedwyddwch a addawodd Duw i'r rhai a garent ei ymddangosiad ef.

Yr awduron mwyaf enwog yn y canrhif hwn oeddent Eusebius o Cesarea, Athanasius o Alecsandria, a Phedr o'r un lle, Basil o Cesarea, Cyril o Jerusalem, Chrysostom o Constantinople, Epiphanus o Salamis, Gregory, Nazianzen, ac Ephraim y Syriad, yn mhlith y Groegiaid; ac yn mhlith y Lladinwyr, Hilary, esgob Poictiers, yr hwn a enillodd enw mawr drwy ysgrifenu [ei ddeuddeg llyfr ar athrawiaeth y Drindod; Lactantius, yr hwn a ddynoethodd ffolineb y coel-grefyddau Paganaidd, gyda medrusrwydd campus; Ambrose, esgob Milan, yr hwn, ar y cyfan, a gyfrifir yr awdwr cymeradwy; Jerome, yr hwn oedd fonach dysgedig o Balestina; ac a ysgrifenodd lawer o bethau buddiol, yn gymysgedig â rhai pethau coel-grefyddol yr oes, ac yn aml gyda sarugrwydd anghyfreithlon tuag at y rhai a wahaniaethent mewn dim oddiwrth ei farn ei hun; ac Augustine, esgob Hippo, yn Affrica, yr hwn oedd ddyn galluog ac enwog yn ei ddydd; ac y mae ei enw a'i

weithiau mewn llawer o barch hyd yn awr gan amddiffynwyr y gyfundraeth esgobaethol. Yr oedd hefyd lawer o awduron eraill yn y canrbif hwn nad oeddent mor enwog a'r rhai a nodwyd; ac er fod peth o'u gweithiau ar gael, nid ynt yn cynnwys nemawr o bethau o bwys neillduol. Yr oedd llawer yn cael ei ysgrifenu yn y tymhor hwn yn erbyn yr Ymneillduwyr, ac yn enwedig yn erbyn y Donatiaid; ac mae gormod parodrwydd wedi ymddangos yn yr hanesyddion diweddar i gymeradwyo y cyhuddiadau a ddygid yn eu herbyn, heb ystyried eu bod wedi eu cyfodi pan oedd y dadleuon yn eu gwres poethaf, a'r esgobion yn y braw mwyaf, o barth eu dylanwad yn mhlith y werin. Meddyliwn y gwel y neb a ystyrio yr achos yn ddiduedd, fod digon o sail gan Ymneillduwyr y pedwerydd canrbif i gyhuddo yr eglwys gyffredinol o ymadawiad oddiwrth symlrwydd yr efengyl, ac o ganlyniad i ymneillduo a throi yn ol at y rheolau cyntefig, rhag bod yn gyfranog o'r dirywiad. Fod hyn nid yn unig yn gyfreithlon, ond hefyd yn ddyledswydd, sydd wirionedd diymwad, pe amgen, ni byddai modd i gyfiawnhau un cyfnewidiad, megys y diwygiad Almaenaidd; ond byddai yn rhaid i'r lleiafrif aros yn y cyfeiliornad yn groes i gydwybod, nes byddai y mwyafrif yn agor eu llygaid i ganfod eu camwri, ac yn dwyn eu calonau i ymwrthod â'r cam-ymddygiad. Ond dyledswydd deiliaid Crist yw gwrthod pob awdurdod ddynol, pan yn gwrthdaro yn erbyn ei ewyllys ddatguddiedig ef.

## GWRTHRYFEL CUBA.

Y mae cryn gynhwrf a phryder yn meddyliau rai, o barth y canlyniadau a allent gymeryd lle pe dygwyddai i'r gwrthryfelwyr fod yn llwyddiannus yn Cuba. Ond o'n rhan ein hunain, nid ydym yn barnu bod hyny yn ddichonadwy; a phe byddai yn bossibl i'r gwrthryfelwyr fod yn fuddugol yn eu hymosodiad presennol, byddai Ffraingc, Lloegr, a Spaen, o angenrheidrwydd i gymeryd plaid llywodraeth Cuba, yr hyn a wna eu hannibyniaeth yn hollol anobeithiol wedi y cwbl.

Ond pe byddai yn bosibl i'r gwrthryfelwyr lwyddo, byddai yn sicr yn destyn galar dwys i'r wlad hon, o herwydd achosai gwerylon a theimladau digofus yn adnewyddol rhwng y De a'r Gogledd. Pe byddai Cuba ond enill ei hannibyniaeth, ymofynai yn ddioed am gael ei derbyn i'r Undeb talaethol, ac yn y fath amgylchiad byddai y De o blaid ei derbyn yn grynswth, heb ymyraeth dim â'i "sefydliadau neillduol." Y Gogledd a wrthwynebai hyn, gan na byddai yn foddlawn ychwanegu terfynau caethiwed; ac nis gellid dysgwyl ond ymryson trwy yr holl wlad. Byddai hon yn ddiau yn boethach dadl na'r un a brofasom yn ddiweddar. Wedi colli California fel talaeth gaeth, a gweled y tebygolrwydd y bydd iddynt golli Mexico Newydd ac Utah, byddai y Deau yn teimlo fel pe buasai eu hanrhydedd yn gynnwysedig yn nyogeliad y diriogaeth newydd hon, a digon tebyg y safent fel un gwr dos hyny, yn ngwyneb pob gwrthwynebiad o eiddo y gogledd. Pwy a all ddychymmygu y canlyniadau o'r fath amgylchiad?—*Journal of Commerce.*

## YR ERLEDIGAETH YN SWEDEN.

Mae y Parch. F. O. Nilsson wedi cael ei alltudio o'r deyrnas hon o herwydd gwneud cynnygiad i sefydlu eglwys o Fedyddwyr yn Gothenberg, Sweden. Danfonwyd deiseb at y brenin (yr hwn a ystyrir yn ddyn caredig a rhyddfrydig neillduol) yn dymuno arno ei ryddhau oddiwrth y ddedfryd. Gwnaeth Bedyddwyr Lloegr hefyd bob ymdrech yn eu gallu i'w ryddhau, ond hyd yn hyn ymddengys fel pe byddai y cwbl yn ofer, er nad yw Mr. Nilsson wedi ei anfon ymaith eto. Mae yr eglwys fechan yno yn debyg o gael ei gwasgaru.

Dywedir fod y brenin yn bleidiol i ryddid a goddefiad crefyddol, ac o ganlyniad bernir nad yw efe ei hun yn achos o'r erledigaeth; ond fod offeiriaid crefydd sefydledig y wlad rhywfodd wedi dylanwadu yn yr achos; gan fod ganddynt hwy lais mewn achosion gwladol yn gystal a chrefyddol, a bod eu cydsyniad yn angenrheidiol cyn y gellir gosod unrhyw gyfraith newydd mewn grym. Y maent hwy yn elynion marwol i bawb a wahaniaethant oddiwrth eu heglwys eu hunain (math o Lutheriaeth lygredig), oddieithr (fel y mae yn syndod meddwl) y Pabyddion!—caniateir i bleidwyr Rhufain wneud fel y mynont yno.

Y mae cyfraith Sweden yn gwahardd priodas, oddieithr fod y pleidiau wedi cyfranogi o'r sacrament o fewn llai na blwyddyn cyn hyny yn yr eglwys Lutheraidd. Y mae pob enwad crefyddol arall, gan hyny, yn cael eu difreinio o briodas gyfreithlon. Onid yw yn resynus meddwl fod y fath ysgelerderau yn cael eu dwyn yn mlaen mewn gwledydd a elwir yn Brotestanaidd?

## Y GINIAW I'R ARCHESGOB HUGHES.

Y mae hanes y wledd orwych hon yn cymeryd i fynu gryn le yn y papyrau Pabaidd; ac ymddengys fod llawer o bethau tra ryfeddol yn cyfarfod ynddi. Un o honynt yw gwahodd prif *boliticians* y wlad, o'r Llywydd Fillmore i lawr, i giniaw a roddid i ddifeinydd.

Nis gwyddom am ddim ond titl yr Archesgob Hughes, a'i berthynas â'r eglwys Babaidd, yn ddigon i gadw y fath amgylchiad rhag bod yn sarhad cyffredinol.

Wrth ystyried nad oes dim yn niweidio cymmaint ar aelodau yr eglwys Babaidd yn Nghaerefrog-Newydd â meddwdod, y mae yn syndod fod yr arch-esgob yn medru cefnogi cyfeddach o'r fath benaf trwy roddi ei bresennoldeb yno, lle yr oedd pob math o wirodydd a gwinoedd yn cael cyfranogi o honynt. Diau fod eisiau ymdrechion y Tad Mathew er sobreiddio mawrion yr eglwys, yn gystal a'r Gwyddelod carpiog a dirmygedig.

Y mae y llwngc-destynau a yfwyd, ynghyd a'r areithiau a draddodwyd ar yr achlysur, yn llawn o'r ysbryd a'r egwyddorion hyny sydd wedi nodweddoli yr eglwys Babaidd er ys amryw ganrhifoedd. Yn mhlith y dynion a ganmolwyd yno am eu dysg a'u duwioldeb, nodwn enw M. Veuillot, yr hwn yn un o'i lyfrau a ddywed, "Yr wyf yn cyfaddef yn rhwydd fod yn ddrwg genyf na buasai John Huss wedi ei losgi yn gynt nag y gwnawd, ac na buasai Martyn Luther wedi ei losgi yn yr un modd. Galarus yw meddwl nad oedd brenin digon duwiol a diysgog i'w gael i osod y gyfraith lemaf mewn gweithrediad yn erbyn y Protestaniaid." Ni chaniateid i neb golygyddion fod yn bresennol ond y rhai a ystyrid yn bleidiol i Eglwys Rhufain.

## RHYBUDD CYHOEDDUS.—CYFRAITH A THREFN.

Y tansgrifwyr a neillduwyd yn gysbwyllawd gan gyfeillion dirwest a moesoldeb yn swydd Schuylkill, er cydweithredu â'r awdurdodau gwladol yn Pottsville, er gweinyddu y gyfraith gyda golwg ar fasnach y gwirodydd meddwol yn ein plith. Y maent o ganlyniad yn rhoddi rhybydd fel yma, y bydd iddynt hwy ymdrechu cyflawnu y dyledswyddau a ymddyriedwyd iddynt, mewn modd ffyddlon. Ac hefyd, dymunant ar bob dinesydd a gara gyfraith a threfn i'w hysbysu o unrhyw drosedd yn erbyn y gyfraith a all ddyfod dan eu sylw.

Y mae y gyfrath, mewn modd amlwg, yn gwahardd tafarnwyr neu westwyr i werthu gwirod ar y Sabboth; ac yn gorchymyn iddynt gau yr ystafelloedd a elwir *"bars"* i fynu, fel pob lle arall o fasnach, ar y dydd hwnw. Mae y tai bychain, lle y gwerthir cwrw, wedi eu nodi allan gan y *Grand Jury* fel yn achosi rhan fawr o'r troseddau a gyflawnir yn y swydd, a gorchymynodd y llys eu bod oll i gau i fynu ar y Sabboth, ac os gwrthodant wneuthur felly eu bod i gael eu hysbysu i'r llys.

Mae y cysbwyllawd yn bwriadu sefyll o blaid y gyfraith. Mae yr ystordai a'r masnachdai eraill yn cydsynio â'r gyfraith trwy gau i fynu. Paham y goddefir i'r gwirodwerthwyr, (masnach pa rai sydd nid yn unig yn tueddu i anfoesoli, ond hefyd i niweidio a dinystrio cysuron miloedd) i droseddu y gyfraith? Os na oddefir i ddyn brynu ymborth ar y Sabboth, paham y caniateir iddo brynu gwirod? Mae y golygfeydd anweddaidd a'r ymrysonau gwaedlyd a gymerasant le yn ein plith yn ddiweddar, yn galw yn uchel am sylw a chydweithrediad holl bleidwyr trefn a moesoldeb trwy y swydd.

| | |
|---|---|
| ANDREW RUSSELL, | THOMAS J. WREN, |
| THOS. H. WALKER, | BENJAMIN BANNAN, |
| RICHARD EDWARDS, | JOHN H. JAMES, |
| AARON POTTS, | GOERGE K. SMITH, |
| H. A. SHOLLENBERGER, | P. SIMPSON, |
| MORRIS H. GORHAM, | ENOS CHICHESTER. |

## UGAIN O DDIAREBION.

1. Y baich y mae un yn ei ddewis ni theimlir.
2. Gair da a ddywedir mewn amser mor fyr ag un drwg.
3. Y mae un chwedl yn dda nes clywir y llall.
4. Ni welir un mor fuan ag y clywir ef.
5. Nid yw un amser yn rhy ddiweddar i ddysgu.
6. Dechreuad da sydd hanner cyflawniad y weithred.
7. Bydded i bob un wella un, a bydd y gwaith yn fuan wedi ei wneud.
8. Pe byddai balchder yn gelfyddyd, byddai y byd yn llawn athrawon.
9. Chwyn drwg a dyf yn fuan.
10. Na rydd sicrwydd byth i fynu am obaith.
11. Ni raid i'r ffortenus wrth lawer o gynghor, a'r dyn byrbwyll ni chymer ddim.
12. Ymdrech i foddio y ffol sydd waith ofer.
13. Câr dy gymmydog, ond na thyn i lawr dy glawdd dy hun.
14. Badau bychain rhaid gadw yn agos i'r lan.
15. Y mae gair didwyll yn well na llw ysgeulus.
16. Y tamaid a fwyty un ei hun ni wna gyfeillion.
17. Angeu wna i'r hen wraig drotian.
18. A gollo yr hyn sy ddy*l*edus iddo ni cha ddiolch.
19. Gosodwch galon wrol wrth rin.
20. Os na anturi di beth enilli di ddim.

## Y CHOLERA.

Mae yr hanesion bod y Cholea mewn amrywiol fanau trwy y dalaeth yn cael ei ameu gan rai, ond a gadarnheir gan y meddygon. Fodd bynag, nid yw yn ymddangos ei fod yn gwneud nemawr o ddifrod mewn cymhariaeth i'r hyn a achosodd yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae rai amgylchiadau wedi cymeryd lle yn yr ardal hon. Dylid gwneud pob ymdrech i'w ochelyd, yn neillduol trwy ymarfer cymmedroldeb a glanweithdra, ac hefyd trwy ymgadw oddiwrth ffrwythau anaeddfed, &c.

## RHYBUDD I FERCHED:

Rai blynyddau yn ol ymfudodd Sais i Wisconsin, yr hwn oedd yn dra anghymmedrol yn ei arferion, a pharhaodd yn feddwyn ar ol hyny, nes y gorfu idd ei wraig ei adael, gan fod ei bywyd yn aml mewn perygl. Tua chwech mis yn ol cymerwyd hi yn glaf, a bu farw; yr oedd ef pryd hyny mor feddw fel yr oedd yn hollol anaddas ac analluog i fyned i'w hangladd. Pryd hyn yr oedd yn grwydryn, wedi colli y cwbl a feddai. Un diwrnod pan yn methu cael gwyrod, daeth i'w gof fod gan ei wraig fodrwy aur o beth gwerth, a chan feddwl fod y fodrwy wedi ei chladdu gyda hi, efe a ysbeiliodd raw, pa un a gymerodd i gloddio i fynu y bedd, gan fwriadu cael y fodrwy trwy hyny. Fodd bynag, cafodd fod y fodrwy wedi ei chymeryd ymaith, wedi iddo dori clawr yr arch â'r raw.

Nid yw hyn ond un esiampl, allan o filoedd o enghreifftiau a ellid eu nodi, y gwna y meddwon bob peth o fewn eu gallu i gael gwyrod; ie, cyflawnant weithredoedd a waherddir gan bob teimlad o weddeidd-dra a dynoliaeth, er meddu yr hylif sydd yn dinystrio eu cysuron yma, ac yn eu suddo mewn gwaeau yn oes oesoedd. Ferched, gochelwch y fath gymeriadau.

## AT YMFUDWYR I'R AMERICA.

DAVID DAVIES, 43 UNION ST., LIVERPOOL,

*Liverpool, Chwef.* 12, 1851.

Yr ydym ni, y rhai y mae ein henwau isod, yn tystiolaethu ddarfod i Mr. David Davies, ymddwyn atom yn y modd mwyaf ffyddlawn, gonest, a theilwng, fel goruchwyliwr trosom ar ein cychwyniad i'r America. Gofalodd am ddyogelu y pethau a ddarparasom ar gyfer y fordaith, hyd nes i ni eu rhoddi yn ddyogel yn y llong; ac yr ydoedd wedi parotoi lletty cysurus i bawb o honom erbyn ein dyfodiad i Liverpool. Y mae ei ofal am danom yn ein galluogi i gymhell eraill o'u cyd-genedl a fwriadant ymfudo i'r America, i gyflwyno eu hunain i'w ofal, fel y bydd iddynt gael eu gwaredu rhag haid o dwyllwyr drygionus sydd a'u holl amcanion i ysbeilio yr ymfudwyr. Hefyd, y mae genym i hysbysu fod gan Mrs. Davies, No. 43 Union-street, yn agos i'r Exchange, Liverpool, dŷ eang a chyfleus, i lettya ymwelwyr ac ymfudwyr, a digon o le dyegel i gadw eu nwyddau a'u holl gelfi.

Tystion,

Owen Jones, Ieu., Gallt y Foel.
Robt. Prichard, Tanyfardd.

Ymfudwyr,

Ellis Davies, Ebenezer, Llanddeiniolen.
David T. Morris, Eto.
John Williams, Eto.
William Humphreys, Gallt-y-foel.
&c. Ein rhifedi yn 49.

## CYMERADWYAETH ARALL I'R UN.

*Liverpool, Chwef.* 13, 1851.

Yr ydym wedi darllen amryw dystiolaethau blaenorol o barthed Mr. David Davies, yn ei gyssylltiad ag ymfudwyr; daeth rhai o honom yma dan amheuaeth o'u gwirionedd; o herwydd fod amryw eraill yn cyhoeddi anwiredd i'r cyhoedd, a thrwy yr un cyfrwng yr ydym am ddangos i'r byd fod ei ymdrech a'i onestrwydd yn teilyngu cefnogaeth ei gyd-genedl yn gyffredinol. Daethom ni yma nos Iau am ddeg o'r gloch; boreu dranoeth am wyth, yr oeddem ar fwrdd y llong, a phob peth yn barod i hwylio i'r fordaith. Rhaid i ni briodoli y cyfan i Mr. Davies. Llawer o son sydd am Liverpool a'i hysbeilwyr: nid heb achos; bai y Cymry eu hunain yw eu bod yn cymeryd eu harwain i leoedd o'r fath. Os ydych am fod yn ddyogel, gofalwch am No. 43, Union-street. Mae amryw o honom wedi bod yma o'r blaen wrth fyned i'r America, ac yn dymuno ar ein perthynasau a'n cyfeillion oll, pan yn ymfudo, i roi eu gofal yn hollol i Mr. David Davies; gwna fwy trosoch o lawer nag a ellwch wneud eich hunain.

Wele ni, y rhai y mae ein henwau isod, drosom ein hunain a'n cyd-ymfudwyr, yn amlygu i'r cyhoedd ei fod yn wir deilwng o gefnogaeth pob Cymro. Ein rhifedi yn ddeg ar hugain.

John D. Morris, Rumney.
Geo. Morgan, Duke's Town, Syrhowi.
William Jones, Ebbw Vale.
Rowland Turner, Eto.
Phillip Thomas, Blaenafon.

## PRYDDEST-AWDL AR LONG-DDRYLLIAD DYNOLIAETH.

GAN COLUMBUS, MINERSVILLE.

[Parhad o dudal. 195.]

*Ymddygiad y teulu dynol yn ngwyneb yr amlygiad penaf o gariad Duw tuag atynt—Y Phariseaid—Perthynasau Abraham yn ol y cnawd—Bydolddyn—Y Llong Argo—Seion—Helaethrwydd ei darpariadau—Ei gogoniant a'i dyogelwch—Ei dynesiad i'r wlad well—Darganfodiad bryniau'r wlad—Yr olygfa yn ymagor—Dinas Caersalem yn dod i'r golwg—Golygfeydd per-lewygol y fro nefol—Ei dyfroedd tryloywon yn adlewyrchu'r ddinas aur—Yr angorfa—Hwylio i'r hafan—Prydferthwch ac addurn y ddinas—Dedwyddwch y dinasyddion—Glanio—Y Croesaw—Dyoddefiadau ac ofnau y fordaith yn myned o'r golwg yn ymyl tragywyddol bwys gogoniant.*

OND ow! y dyn wrth'nebai â'i holl nerth
Y drefn gun, y gwaed a'i ddwyfol werth,
Y cynyg grasol iawn oferedd oedd
Gan hunain-ddoethion byd, y rhai'n ar g'oedd—
Ar g'oedd y diystyrent foddion gras,
Ac mewn gwrthryfel safent ar y ma's.
Uwch yr olygfa drist wylofus hon
Cenhadau hedd a wylent ar y don
Fod teulu'r gwarth, gresynol blant y llawr,
Yn eu sefyllfâ gaeth, mewn dyfnder mawr,
Yn ymbleseru 'nawr mewn tlodi blin,
A gwrthod bywyd byth drwy Fab y dyn.
'Roedd rhai yn addunedu ufuddhau,
Y deuent hwy cyn celai'r drws ei gau—
Drws mawr trugaredd rad, agorwyd yn
Y frwydr fawr, ar ben Calfaria fryn;
Y Phariseaid wnaent glwyd-fad* ar y dw'r,
O ddarnau'r llong ddrylliedig—llyma'u twr,
Ar Sinai draw eu gyrid gan y llif,
A'u dyfais wan, gan rym y gwyntoedd cryf—
A fethodd 'nawr, a mawr y siom a fu.
Eu crefydd hwy, oferedd ydoedd hi.
Mordwywr hyglod iawn, un mawr ei ddysg,
O urdd Gamaliel ddoeth gawd yn eu mysg,
Ar hanner dydd ei gwch yn ddrylliau aeth,
Ac yntau'n wir i ddeddf y nef oedd gaeth;
Yn ngholeu gras ei redfa welodd 'nawr—
Yn wyrgam iawn, ac yntau oedd ar lawr.
Daeth llong waredol Duw i'w godi'n gu,
Ei wared wnaeth, rhag suddo i uffern ddu.
Y cnawd, y cnawd, oedd crefydd llawer un,
Perthynas sydd rhwng Abraham â'r dyn:
E'n cedwir ni yr etholedig had,
Plant Abra'm y'm—mae Abra'm i ni'n dad;
I'r aber gwyn gau noddfa oedd gerllaw,
Y nofiai'r rhai'n, a theimlent yn ddifraw.
E fromai'r lleill wrth drefn marwol glwy',
Nid oedd yn ol eu chwaeth na'u harchwaeth hwy.
'Roedd trysor rhai, a'u calon oll o'r bron
Yn narnau'r llong a deflid gan y don.
Eu serch ar bethau'r drylliad, sorod gwael;
Gan wrthod trefn gras, a'i breiniau hael.
'Roedd yno un, dyn ieuangc hoenus, gawn.
Ar ddrylliau'r llong, ei serch a'i fryd oedd lawn;
Rhaff bywyd daflwyd iddo gan ein Crist:
Ond ow! ei afael a ollyngai'n drist,
Gan farnu'i olud mawr yn ormod gwarth,
Am fywyd pur, a'r noddfa fwya'i nerth.

Fel hyn y dyrfa fawr ni thalant barch—
I'r nef; gan ffoi am noddfa i'r gwir arch—
O drefniad doeth, ac haeledd Brenin ne',
Wnaeth Iesu Grist, drwy farw yn ein lle.
Er maint y dirmyg daflodd y rhai hyn
Ar gariad rad, goddefaint pen y bryn,
Daeth rai yn mlaen, dan deimlad ac o'u bodd,
Rhoddasant barch i gynllun Duw ar go'dd,
Ar fwrdd llong Seion rhoddwyd hwynt yn awr
I fyw 'nol arch a threfniad Iesu mawr,
Trosglwydd long gras, i'w dwyn i'r hafan wiw—
I deyrnas nef. Gwaredol deulu Duw,
Llong fawr, ac iddi borth o barthau'r byd,
Dyogel yw, mae'i Llywydd byw o hyd.
Am Argo gau y pagan clywsom gynt,
Gyssegrwyd draw i'r duwiau ar ei hynt,
O dderw hen, byw wig Dodona hi
Dan nawdd y duwiau mân, y nofiai'r lli'.
Yn chwedlau hen, Paganaidd chwedlau† mwys;
Ceir hanes hon, y llong ddych'mygol lwys,
Dyogel oedd, a chyssegredig gawn
Dan noddiant llu o dduwiau egwan iawn.
Os dyogel hon. Beth am ein Siloh gref?
Hoff breswyl Duw, gogoniant pena'r nef.
Yr Oracl byw a dd'wed ar g'odd yn gu,
Dan nodded Ner anfarwol ydyw hi.
Dyogel oll ei llwyth a'i dwylo cain,
Ceir dyogelwch llawn i bawb o'r rhai'n,
Yn swyddfa'r nef, mae'u henwau yno'n llawn
Yn llyfr mawr yr Oen, yn hywel iawn;
Cyn collir un o'r plant gofnodwyd fry,
Mynyddau mawr a'r bryniau oesol cry
A giliant draw, symudir hwy o'u lle,
'R elfenau dawdd, ânt heibio dda'r a ne',
Tra byw y Mab, ac eiriol gyda'r Tad,
Dyogel Israel Duw dan nawdd y gwa'd,
Llong Seion sydd yn ddwbl ddyogel 'nawr,
A'i phar'toadau ynt anfeidrol fawr.
Yr olew-wydden werdd ei deilen, hedd
Yw 'i harwydd hi, heddychol iawn ei gwedd.
Cyfiawnder Adda'r Ail ei hwyliau main,
A'i rhaffau oll ynt addewidion cain:
Ei gwarchglawdd‡ hi yw iechydwriaeth rad,
A'i dyogeliad llawn yw gwerth y gwa'd.
Ei hangor fawr afaela hwnt i'r llen,
Prif obaith dyn, ar Iesu yn y nen.
Ac ar ei bwrdd darlun-len nefol geir
O'r holl beryglon maith—y dwyfol air.
Ei chwmpawd hi sy'n gywir iawn heb wad,
Yn hwylio mae drwy foroedd geirwon brad.
Min sygn-draethau hyll yn mlaen hi â,
Gan nofio'n dêr ar ol yr Iesu da;
Y creigiau hyll amgylchai ym'lau'r wlad,
Gan long-ddrylliadau blin yn llawn a ga'd;
Goleudai mawr a welid ar bob llaw,
I gadw'r morwr mâd rhag briw a braw.
Mewn llawer tymhestl flin bu yn y lli',
Ei goddiweddyd ga'dd gan groeswynt cry';
Nosweithiau du, bu arni'n gyfyng iawn,
Peryglon aml-ri' o'i deutu'n llawn.
Fe ofnodd rai rhag suddo yn y lli',
Ond gwaredigaeth ddaeth i'r teulu cu.
Trugaredd ar eu rhan eiriolai 'nawr,
Ac enfys hardd amgylchai'r nefoedd fawr.
Gwawr gobaith a seinianai oddi fry,
A seren gobaith gododd uwch y lli',
Dywellid angen pawb, 'roedd pob-peth pur
Ar fwrdd llong Seion Duw, o'r nefol dir;

* raft.

† Mythology.
‡ Bulwarks.

Bara'r bywyd, pereiddiol ddyfroedd byw,
Digonedd llawno hen ystordy Duw,
Ac undeb yn eu plitth, fel brodyr llon,
Cydunent roi'r gogoniant oll i'r Ion.
Rhyw ddydd aroglwyd peraroglau'r tir,
A chwythai'r chwa dros fro dedwyddyd pur,
Draw fryniau arfaiwoldeb, gyda'r wawr,
A gwlad yr hedd a ddaeth i'r golwg 'nawr,
Yn uchel saif yr anflygredig dre'
Yn amlwg iawn, a phenrhyn mawr y ne'.
Eneswyd at y lan, a'i meisydd glwys,
Paradwys hardd, dyneswyd ar ei phwys,
Y mor yn awr fel grisial ar y gro,
Oedd ogoneddus iawn. O r nefol fro!
Tryloywon ddyfroedd glwys y nefol dir,
A adlewyrchent wawr y ddinas bur.
Angorfa bywyd a gyrhaeddwyd 'nawr,
Ac eirian byrth—mynedfa'r ddinas fawr,
Caersalem dinas hedd, i'w gwydd yn gu,
A'i hadduniadau aur a welid fry,
Ei 'strydoedd glain—hoff balas tŷ ein Tad
Ddysgleiriai draw, haul araul yr holl wlad;
Golygfa ber, llesmeiriol olwg sydd
Draw, draw, tu draw i'r don yn ngwlad y dydd,
Mi welaf draw yn mhell ar Salem fryn
Rhyw luoedd maith a'n gynau'n berffaith wyn.
Ac yn eu llaw delynau'r Arglwydd Ner,
Sain buddugoliaeth 'nawr ddadseiniai'r ser.
Rhyw balmwydd gwyrdd sy'n nwylaw'r teulu glân,
A chanu maent mewn nefol hwyl ar dân,—
Pêr glodydd byw i'r Oen aeth yn eu lle,
A chrynu wnaeth rhiniogau pyrth y ne'.
Ar hyn i dir daeth Seion fel y wawr,
A chân yr Oen drwy'r nef adseiniai 'nawr.
O'r groesaw pur, hawddamor yr holl wlad
Gyrhoeddwyd drwy lanerchau tŷ ein Tad;
A'r Mab eu harddel wnaeth yn ngwydd y llu,
Fy mhlant ywr rhai'n, cewch aros gyda mi.
O de'wch fy mhlant i'r etifeddiaeth fad,
Yn llon de'wch i drigfanau tŷ eich Tad,
A'r brodyr fu, a'u blaenent yn y gad.
Groesawent 'nawr i fewn i'r nefol wlad,
Ac yno mae yn nghanol gorsedd Duw,
Yr Oen difai a laddwyd i'n gael byw,
O'n cartref llon, gorphwysfa nefol gu,
Cawn aros yma mwy a seinio'n hy'
Ar danau'r delyn aur, mewn rhwysgfawr fri,
Mai teilwng ydyw'r Oen, ein Ceidwad cu.
Y fordaith arw gaed ger Basan draw,
Godreuon Asur dir a dyffryn braw,
A llyngclyn mawr tiriogaeth angeu du,
Yn ddiddim maent yn awr—mewn mwyniant cu.
Fy nghyfaill mwyn, dei o'r dyfnderau 'r lan,
Wrth ddilyn ol y llu sydd fry o'th fla'n;
Dy olwg cadw draw at hafan Duw,
Cei ianio'n der ac aros yno i fyw.
A'r saint yn un, cei ganmol gras y nef,
A moli byth yr Oen a'i haeddiant Ef.

J. P. Harris.

## TWYLLO YMFUDWYR.

Y mae ymfudwyr, ar ol ymdrechu yn galed i ymdawelu o dan bynau trymion ac anhawdd eu dwyn yn ngwlad eu tadau, a mabwysiadu o honynt y meddyl-ddrych mai nefoedd fach is-haulawl ydyw y byd newydd Americanaidd, a chael trwy ddiwydrwydd a chynildeb y swm angenrheidiol i dalu eu clud-log o'r naill wlad i'r llall, yn ol canu yn iach i berthynasau agos, cyfeillion hoff, a chymdeithion bywyd, ynghyd a'r degwm, a'r dreth, a'u hiliogaeth diflino, ac ymostwng i driniaeth pell o fod yn ddymunol, a threulio o bedair i wyth o wythnosau, gydag ychydig eithriadau, tra annifyrus,—y maent, meddaf, ar eu dynesiad a'u glaniad i wlad eu mabwysiad, yn agored i gael eu twyllo, eu camarwain, a'u hysbeilio gan y giwaid anfoesgar a thwyllodrus a'u cyfarfyddant ar fwrdd y llong, pa rai, a geiriau teg, ac ymadrodd tyner, dan rith cyfeillgarwch, a sugnant eu *little all* o'u llogellau mewn ffordd o glud-log tua mangre eu cyfeiriad; pan mewn gwirionedd (ac ystyried gyda y teimladau mwyaf tyner) ni bydd ganddynt ond eu llesiant eu hunain mewn golwg, yr hyn a wel yr ymfudwr wedi y cychwyno o Efrog-Newydd; ac y ca weithio ei ffordd oreu a allo trwy balfau y d—fl—d mewn rhith dynion, a'u cyfarfydda yn mhob porth ar eu taith i fangre eu cyfeiriad. Trwy drugaredd y nef mae ambell i ymfudwr wedi dysgu digon yn ysgol *human nature* i ddiangc heb eu niweidio, a'i fywyd a'i eiddo gydag ef o grafangau y *runners.*

Y mae Dirprwywyr Ymfudiaeth (*Commissioners of Emigration*) trwy ymdrech a chymhelliad Eli Parry, Ysw., mair Albany, a chydweithrediad yr unrhyw swyddogion yn Efrog-Newydd a Buffalo, wedi mabwysiadu cynllun newydd er dyogeliad ymfudwyr. Rhydd J. C. Verplank, Ysw., Llywydd Bwrdd y Dirprwywyr, rybudd drwy gylch-lythyr dyddiedig Gorph. 18fed, 1851, i bob un sydd yn ymarfer â'r gwaith o lwybreiddio ymfudwyr, "Na oddefir i'r hyn a elwir '*Booking of Passengers*' gael ei wneud ar fwrdd unrhyw long, agerfad, y *dock*, nac yn unrhyw fan ond yn 'Swyddfa Gyffredinol y Llwybreiddiwr;' ac na oddefir i'r llwybreiddwyr i roddi talysgrifau pen-rydd a diwerth, wedi eu harwydd-nodi ganddynt, i ymfudwyr, na phwysiad eu cludai (*baggage*) ond yn y man y cydunir ac y telir y clud-log." Cynnwys y rhybudd hefyd y rhaid i bob tocyn (*ticket*) gynnwys heblaw y dydd a'r mis a'r lle, nifer y personau a dalant, swm eu cludai, a phris eu cludiad; ynghyd ag hysbysiad eglur a dealladwy am drefn eu cludiad, pa un ai gydag agerfad, rheilffordd, neu gamlas y byddont i fyned, ac enw y lleoedd y dichon i gyfnewidiad gael ei wneud ar drefn eu cludiad. A gofynir i bob llwybreiddiwr roddi cydundeb cyflawn, ysgrifenedig, a dealledig, i bob ymfudwr neu ymfudwyr, 'idd ei gadw ganddynt er eu dyogeliad.

Gobeithiaf mai dechreuad diwygiad ydyw

hyn, ac y parheir i ddiwygio y drefn ymfudawl, hyd nes y sicrheir cyflawn ddyogeliad i'r anochelgar a'r difeddwl-ddrwg, ac y symudir yr achos o'r arswyd a'r ofn a lethu y rhai, onibai hyn, a fyddant alluog i ofalu am danynt eu hunain.

Da fyddai i'r anochelgar a'r analluog i ofalu am dano ei hun, wedi y glanio yn Efrog-Newydd, ymofyn am y dyngarwr a'r gwladgarwr cymwynasgar, Mr. Cadwaladr Richards, yr hwn a geir naill ai yn 157 Cedar-st., North River, neu 605 Fourth st., East River. Hyderaf y gwna pob un a allo osod hyn o flaen ei berthynas neu ei gyfaill, wrth anfon iddynt gyfarwyddiadau tuagat ddyfod i'r wlad hon. LLAI.

*Trenton Ddeheuol, E. N., Awst* 11, 1851.

---

## CYMDEITHAS WRTHGAETHIWOL NEWARK, OHIO.

GORPH. 16, 1851, cyfarfu amryw o Gymry Newark, Ohio, yn nghapel yr eglwys Gynnulleidfaol, a gweithredwyd fel y canlyn:

*Yn gymmaint* a'n bod ni fel Cristionogion yn ystyried fod caethiwed yn gwrthdaro yn erbyn deddfau y Jehofa, ac yn ymddifadu dyn o'i hawl fel creadur rhesymol, a bod cyfraith y caeth ffoedig yn groes i reol y Testament Newydd, am hyny, *Penderfynwyd*—

1. Ein bod ni, fel Cristionogion, yn rhwym o roi dyledus barch i Dduw.

2. Mai un o ddybenion neillduol yr eglwys yw goleuo y byd; a thrwy ei goleuni, ei chydymdeimlad a'i hymdrechiadau, wneud y byd yn well.

3. Fod y cyfreithiau hyny sydd yn gofyn i ni wneud yr hyn y mae Duw yn ei wahardd, ac yn ein hatal i gyflawnu yr hyn y mae efe yn ei orchymyn, yn ein golwg ni yn ddrwg, a'n dyledswydd arbenig hyd y gallom yw eu gwrthwynebu, a rhoddi ein dylanwad yn eu herbyn.

4. Fod cyfraith y caeth ffoedig, a basiwyd gan Gynghorfa yr Unol Dalaethau, ac sydd yn awr mewn grym yn y wlad hon, yn groes i'r Cyfansoddiad, ac yn dileu yr *Habeas Corpus*, yn condemnio y dyn diniwed i gaethiwed gwastadol, &c., heb un prawf yn ei achos; ac yn ein rhwymo ninnau i gynorthwyo i'w ddychwelyd i gaethiwed, yn groes i orchymyn y nef. Gwel Deut. 23. 15, 16.

5. Ein bod ni, fel Cristionogion, yn hytrach nag ufuddhau i'r gyfraith annynol hon, yn teimlo yn llawen i ddyoddef ei chosb, gan ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion; gan hyny pe byddai i un o honom gael ei ddwyn gan amgylchiadau pethau i ddyoddef ei chospedigaeth trwy gario y penderfyniadau hyn i weithrediad, ni a gyd-ddyoddefwn, a a'i cynorthwywn ef, gan ddwyn beichiau ein gilydd, ac felly y cyflawnwn gyfraith Crist.

6. Gan fod cyfraith Crist yn gorchymyn i ni wneud i eraill fel y dymunem i eraill wneud i ninau, yr ydym yn teimlo fod arnom rwymau i wneud a allom er dileu y gyfraith uchod.

7. Ein bod yn cydymdeimlo â'r brodyr a'r cyfeillion o liw ag sydd yn dyoddef, ac yn agored i ddyoddef o dan y gyfraith greulawn a disail hon, ac i ymdrechu gwneud a allom yn gysson ag egwyddorion Cristionogaeth, i'w cynorthwyo yn eu hymdrechiadau am ryddid.

8. Ei bod yn ddyledswydd arnom fel cenedl ac eglwysi Cristionogol yn y wlad werin-lywodraethol hon, lle mae y llywodraeth yn llaw y deiliaid, i gyhoeddi ein golygiadau trist ar y gyfraith annynol hon.

9. Ein bod fel dyn-garwyr a Christionogion nid yn unig i ddyogelu a chynorthwyo y ffoedion, ond hefyd i weddio drostynt, a rhoddi ein pleidlais a phob moddion eraill, er eu gwaredu o dan fflangell caeth orthrymwyr y De.

THOMAS DANIEL, *Cadeirydd*.
T. W. EVANS, *Ysgr*.

---

## PITTSTON, PA.

MAE y fyddin fechan o Fedyddwyr yn cynyddu yn raddol yn y lle hwn. Sabboth, Gorph. 13, *listiodd* gwr a gwraig dan faner Brenin Seion. Bedyddiwyd hwy i Grist Iesu. Hyderwn y gwisgant am danynt yr Arglwydd Iesu Grist. Gweinyddwyd yr ordinhad gan y brawd E. Edwards, eu gweinidog, yn afon y Susquehana, "Canys dyfroedd lawer oedd yno."

Deallwn bod yr eglwys hon yn bresennol yn cyfrif yn agos i driugain o aelodau; ac y mae ganddynt gynnulleidfa luosog a thra gobeithiol o wrandawyr. Cyfarfyddant yn bresennol mewn goruwch-ystafell pa un sydd yn rhy fychan ac yn dra anghysurus i'r gynnulleidfa. Bernir hefyd fod y lle yn debyg o gynyddu mewn blynyddau dyfodol, ac y bydd i lawer o'n cyd-genedl ymsefydlu yno eto. Dan yr amgylchiadau hyn penderfynasant adeiladu addoldy helaeth a chyfleus, ac y mae y gwaith yn barod wedi ei ddechreu. Bernir na bydd y draul yn llai na $1,500. Mae y brawd ffyddlawn sydd yn llafurio yn eu plith wedi ymrwymo i wneud ei oreu i gasglu at yr adeilad newydd; a chan ei fod yn bwriadu symud i Cincinnati tua mis Tachwedd, y mae yn bresennol yn ddiwyd yn ymweled â gwahanol fanau yn y dalaeth hon a Chaerefrog-Newydd, i gasglu yr hyn a gaffo at y gwaith.

## CYNHADLEDD IDDIRWESTOL SWYDD SCHUYLKILL.

Cynnaliwyd y cwrdd anrhydeddus hwn yn Pottsville, Awst 9, 1851. Yr oedd yn bresennol gynrychiolwyr o bob parth o'r swydd, ac ymdriniwyd â'r gwahanol benderfyniadau mewn modd heddychlawn a thangnefeddus. Cyfarfuwyd yn Neuadd Meibion Dirwest am ddeg yn y boreu a dau yn y prydnawn. Nid yw ein tudalenau yn caniatau i ni roddi ond talfyriad o r Penderfyniadau, &c.

*Yr Egwyddor.*—Ein bod yn ystyried yr egwyddrion canlynol yn rai sefydledig, ac fel y cyfryw ein bod yn ymrwymo i sefyll a gweithredu wrthynt rhagllaw:

1. Ein bod yn ystyried anghymmedroldeb yn ddrwg mawr, pa un bynag a edrychir arno mewn ystyr naturiol, moesol, neu gymdeithasol.

2. Mai i'r arferiad o yfed y gwlybyroedd meddwol fel diodydd cyffredin y priodolir y rhan fwyaf o ddrygau anghymmedroldeb. O ganlyniad, os yw meddwdod i gael ei ddileu, rhaid atal y drygau hyn yn gyntaf; ac nis gallwn gydnabod neb yn gyfaill i ddirwest a chymmedroldeb a wrthodo roddi ei ddylanwad yn uniongyrchol neu anuniongyrchol yn erbyn yr arferion hyn.

3. Fod gan bob dyn ddylanwad er drwg neu dda—naill ai i atal neu hwylusu achos dirwest; ac yn neillduol felly y rhai a lanwant swyddau gwladol.

4. Gyda golwg ar y gwirioneddau anwadwy hyn, yr ydym yn datgan ein barn gydwybodol a gonest, nas gall un cyfaill i gymmedroldeb (yn gysson ag ef ei hun) gefnogi a phleidleisio dros neb i swyddau ag ydynt yn y fasnach feddwol, neu yn ardrethu eu tai i werthu gwirodydd; neu mewn un modd yn cefnogi arferion anghymmedrol ac anfoescymdeithas.

Dyma yr egwyddorion a gymeradwywn i gyfeillion dirwest yn ein plith, ac er mwyn eu dwyn i weithrediad cynnygir i'r gynhadledd y penderfyniadau canlynol:

1. Ein bod yn llwyr-ymwadu â'r drychfeddwl o godi plaid boliticaidd newydd: ystyriwn hyn yn annoeth yn gystal a diangenrhaid.

2. Mai ein dyben yw dylanwadu ar y gwahanol bleidiau presennol i gynnyg dynion o'r nodweddiad uchod fel ymgeiswyr am swyddau gwladol. Yn hyn y maent yn ddiau yn alluog i gydsynio â'n cais; ac os na wnant felly, oddiwrth gyfeillion anghymmedroldeb, nid oddiwrthym ni, y rhaid iddynt ddysgwyl am gymhorth.

3. Ein bod, mewn trefn i gario allan yr egwyddorion hyn, yn rhwymo ein hunain i beidio pleidleisio dros unrhyw ymgeisydd os na bydd ei gymmeriad a'i ymddygiad yn ei nodi allan fel pleidiwr i ddirwest; a'n bod hefyd yn cymeradwyo i gymdeithasau eraill trwy y swydd a'r dalaeth fabwysiadu yr un cynllun i weithredu wrtho.

Derbyniwyd yr Egwyddorion a'r Penderfyniadau uchod agos oll yn unfrydol. Yr oedd yno rai yn bleidiol i gyfnewid ychydig eiriau yn y 3ydd penderfyniad, ond nid oedd dros bump allan o 50 yn ei wrthwynebu.

Yna darllenwyd y Blaendraeth a'r Penderfyniadau canlynol, y rhai a gymeradwywyd yn unfrydol gan y Gynhadledd:

*Yn gymmaint* a'i bod yn ddyledswydd ar bawb i gydweithredu yn achos Cymmedroldeb a Sobrwydd, er dwyn yn mlaen yr achos gogoneddus hwn mewn modd llwyddiannus; ac yn gymmaint a bod y Gynhadledd hon wedi sylwi, gyda theimladau galarus, bod Cymdeithasau a Chyfarfodydd Dirwestol yn cael eu hesgeuluso a'u gollwng i lawr trwy y swydd, a'r gwaith yn gwbl yn syrthio i ddwylaw Meibion Dirwest; am hyny

*Penderfynwyd,*—Ein bod ni, pan yn llawenhau yn llwyddiant Cymdeithas Meibion Dirwest trwy y swydd, mewn modd difrifol yn anog pawb i sefydlu Cymdeithasau Lleol, mewn lleoedd nad oes cyfarfodydd neu gymdeithasau yn bresennol; ac i wneud pob ymdrech yn eu gallu i ddwyn y fath gymdeithasau yn mlaen mewn modd bywiog a llwyddiannus.

*Penderfynwyd,*—Ein bod yn deisyfu ar Farnwyr y Llysoedd mewn modd manol i osod y gyfraith mewn gweithrediad yn erbyn y drygau deilliedig o'r fasnach feddwol; yn enwedig pan fyddo y Sabboth yn cael ei halogi. Ac nid ydym yn ystyried o bwys pa un a fyddo unrhyw drosedd cyhoeddus neu feddwdod yn cymeryd lle yn y tai y gellir dwyn cyhuddiadau yn eu herbyn, mae y ffaith bod poteli a gwyrodydd yn cael eu dangos yn y tai hyn, lle y mai dynion yn yr arferiad o fyned i mewn ac allan, yn ddigon o dystiolaeth yn eu herbyn, yn neillduol pan mae y *Grand Jury* wedi eu dynodi fel lleoedd profedigaethus, pa rai a achosant y rhan fwyaf o dreulion cyhoeddus y swydd.

*Penderfynwyd,*—Bod y Gynhadledd yn cymeradwyo i bawb o'r Meistri Glo, y rhai a barhant i werthu gwirod yn eu hystordai, i ymwrthod â'r fasnach; a barnwn na byddant yn golledwyr pwysig trwy hyny. Byddai y fath ymddygiad yn brawf eu bod yn anghymeradwyo yr arferiad o yfed, ac am ochelyd y canlyniadau gresynus a ddeilliant oddiwrth y fasnach.

*Penderfynwyd,*—Gan ein bod yn credu y bydd i'r achos dirwestol gynyddu yn ol yr un graddau ag y byddo masnachu mewn gwirodydd yn lleihau, y barnwn mai dyledswydd holl gyfeillion dirwest yw roddi eu dyladwad er darbwyllo pawb i adael y fasnach feddwol; ac i gefnogi y masnachwyr hyny nad ydynt yn gwerthu gwirodydd, trwy brynu yn eu hystordai, yn hytrach na chan y rhai a'u gwerthant.

*Penderfynwyd,*—Y bydd i ni gydweithredu â'r ynadon a'r swyddogion cyhoeddus yn y gwahanol bentrefydd, trwy fod yn ffyddlawn o blaid y gyfraith sydd yn gwahardd y tafarndai i gael eu hagor ar y Sabboth.

Penderfynwyd amryw bethau eraill yn y gynhadledd; ond gan eu bod yn dal cyssylltiad â phersonau ac amgylchiadau neillduol, barnwn nad yw o bwys eu cyhoeddi yma.

Darllenwyd Anerchiad at bobl y Swydd gan y Parch. Mr. Cooley, yr hwn a gymeradwyd yn unfrydol, a phenderfynwyd ei argraffu. Mae y cyfansoddiad hwn yn cynnwys amryw ffeithiau pwysig, wedi eu gosod allan mewn iaith rymus a goleu, a bwriadwn roddi cyfieithad o'r Anerchiad mewn rhifyn dyfodol.

Traddodwyd tair o areithiau ragorol gan y Cadeirdraw Bryan nos Wener, a phrydnawn ac hwyr dydd Sadwrn. Ymwelodd hefyd â rhai o'r trefydd cymmydogaethol yn ystod yr wythnos ganlynol, i'w hanerch ar yr un testyn. fel y canlyn: Minersville, nos Lun; St. Clair, nos Fercher; Tamaqua, nos Iau; Summit Hill nos Wener. Yr oedd ei areithiau yn wahanol i'r dull cyffredin o areithio dirwest; triniai egwyddorion ac achosion i'r gwraidd; a dangosai deimlad bywiog y Cymro, nes yr oedd yn anmhosibl i neb o'i wrandawyr fethu cael eu boddio. Mae yma ddysgwyliad am ei glywed yn fuan eto.

---

"NIS GELLIR DIANGC RHAG GOFID."

Ionawr 8, 1851, bu farw, yn 32 oed, Ann, gwraig Thomas Jones, Treletert, swydd Benfro, gan adael priod a phump o blant i alaru ar ei hol. Y 30ain o Ebrill canlynol, cychwynodd Thomas i'r Amerig, gan obeithio cael gwell cyfleusdra i godi ei blant bychain ymddifaid. Nid oedd ganddo neb gydag ef i'w gynorthwyo i ymgeleddu y rhai bychain ar y daith fawr a pheryglus, ac anhawdd ydyw darlunio y gofidiau a'r gwasgfeuon a brofodd. Mehefin 10, cyrhaeddodd ben ei daith yn Paris, Ohio; a chyn iddo gyrhaedd tŷ ei frawd, sef David Jones, Newport, yr oedd ei blant bychain i gyd yn glaf iawn. Mehefin 28, bu farw Edward, ei fab ieuangaf, yn 15 mis oed. Claddwyd ef wrth y Capel Cerig, Palmyra, (perthynol i'r Bedyddwyr;) a chyn iddynt ddychwelyd yn ol o hebrwng Edward i dŷ ei hir gartref, yr oedd William ei frawd wedi ei ganlyn i'r daith bell, yn dair blwydd a 6 mis oed. Darllenodd a gweddiodd y Parch. Joseph Davies, gweinidog y Methodistiaid, yn y tŷ y ddau ddiwrnod, cyn cychwyn. Yn y capel pregethodd y Parch. Rees Davies, gweinidog y lle, yn fywiog ac effro ar yr achlysuron. Cafodd Thomas Jones a'i blant bob ymgeledd yn nhŷ ei frawd a allasai braich o gnawd ei roddi, ond er y cwbl angeu gariodd y dydd. Dyma rybudd eto i bawb o honom i lafurio am adnabyddiaeth o undeb rhwng ein heneidiau â'r Cyfaill hwnw a lyn wrthym yn well na brawd.

Ann anwyl aeth o'r byd i bant,
Gan adael priod hoff a phlant,
Nis gwelir mwy o honi byth
Yn gwenu'n siriol yn eu plith.

Er colli o Edward bach ei fam
Ca'dd fyn'd i fynwes Abraham,
A William yntau ga'dd ryddhad,
Maent heddyw mewn rhagorach gwlad.

Y tad a'r plant sydd heddyw'n fyw
Fo dan ymgeledd dadol Duw;
Cael teitl i'r wlad a gaffont hwy
Lle na fydd môr i'w groesi mwy.

*Paris, O.* SAMUEL JONES.

---

GENEDIGAETHAU.

Yn East Mines, ger Pottsville, Awst 12fed, Ann, gwraig Abraham Jenkins, ar fab. Ei enw yw Abraham.

---

PRIODWYD—

Yn Pottsville, Awst 9, gan y Parch. Wm. Morgan, Mr. Robt. Ferry, a Miss Mary James, y ddau o Minersville.

Yn Utica, Gorph. 3, Mr. Thos Davies a Miss Ann Jones.

---

MARWOLAETHAU.

Yn Granville, Ohio, Gorph. 11eg, 1851, Mrs. Mary Lloyd, priod John C. Lloyd, yn 37 oed. Yr oedd Mrs. Lloyd yn ferch i Robert a Marw Williams, plwyf Aberdaron, swydd Gaernarfon, G. C. Symudasant i'r wlad hon, a sefydlasant yn Steuben, N. Y.—Ymunodd ein chwaer ag achos Crist pan yn 18 oed, a derbyniwyd hi i gyssylltiad ag eglwys y Bedyddwyr yn New York. Mae genym sail dda i gredu ei bod wedi rhoddi ei hun i'r Arglwydd. Yr oedd llawer o nodau morwyn ffyddlon a da yn amlwg yn ei bywyd. Ei chystudd oedd math o ddarfodedigaeth. Bu yn sal am tua naw mis. Yr oedd ganddi obaith er yn wan am wellhau; ond yr oedd yn teimlo ei hun yn gwanhau o ddydd i ddydd; a darfu iddi ildio i drefn y nef, a rhoddi pwys ei enaid ar y Gwaredwr bendigedig. Gadawodd briod a thri o blant mewn dwys alar ar ei hol. T. W. E.

Yn South Pittsburg, Gorph. 24ain, 1851, Rachel, merch i'r Parch. T. Pugh a'i briod, yn agos i bedair blwydd oed. Y dydd canlynol, cyflawnwyd y ddefod angladdol yn y tŷ gan y Parch. T. Edwards, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Tarcy.

Trugaredd yw cael cuddio llwch
Ein hoff gyfeillion cu,
Mewn hedd i uno am ryw dro
Dan glo yn angeu du;
Daw pawb o'r saint mewn braint yn fyw,
Trwy lef Mab Duw mewn hedd,
A Rachel fach fydd yn ei gol,
Heb arni ol y bedd. IORWERTH.

Yn Pottsville, Gorph. 31, yn 27 oed, yn nhŷ Mr. Benjamin Thomas, Mr. Benjamin Davies, gynt o Lanelli, swydd Frycheiniog. Cafodd gystudd trwm, ond terfynodd yn ei farwolaeth. Daearwyd ei ran farwol yn mgladdfa y Bedyddwyr yn Pottsville. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. W. Morgan.

Yn ddiweddar yn ardal Rattling Run, Pa., priod Mr. Wm. Evans, gynt o Minersville, yn 38 oed. Yr oedd yn aelod parchus gyda yr Annibynwyr. Symudodd i'r ardal ychydig ddiwrnodau cyn amser ei hesgoriad, yr hyn a fu yn niweidiol iddi, trwy iddi gael ei hysgwyd yn ormodol, a'i hysigo i raddau yn y sefyllfa yr oedd ynddi. Priodolir ei marwolaeth yn benaf i hyn. Gadawodd briod a 5 o blant. Claddwyd ei gweddillion yn nghladdfa yr Annibynwyr Seisnig yn Dauphin ar y 3ydd o Orphenhaf.

Yn Pottsville, Awst 15, yn 65 ml. oed, Mrs. Mary Richards, priod Mr. James Richards, y crydd. Yr oedd Mrs. R. yn enedfgol o Sant Ffagan, Bro Morganwg. Y mae yn ymddangos iddi ymuno mewn priodas â Mr. J. Richards pan o gylch ugain mlwydd oed, ac felly treuliasant mewn undeb cysurlawn 45 o flynyddau; amser mwy nag y mae llawer yn ei gael i gyd-fyw; ond er meithder yr amser daeth i ben, a dattodwyd yr undeb gan angeu. Y mae yr hen frawd Richards wedi ei adael i alaru ei ymddifadrwydd o'i chymdeithas i dreulio awyr-brydnawn ei oes; ond y mae hyn ganddo i hyderu arno,—y mae ei fab gydag ef i ofalu am dano yn ei henaint a'i anallnawgrwydd corfforol. Yr oedd Mrs. R. nid yn unig yn fwynaidd a hawddgar o ran ei thymer, ac yn ddiwyd a gofalus am amgylchiadau teuluaidd, ac yn heddychlon yn mhlith ei chymmydogion; ond ei hymlyniad, ei sel, a'i rhinweddau crefyddol a'i coronai yn benaf. Yr oedd wedi gwneuthur proffes gyhoeddus o'r Arglwydd Iesu Grist er ys 35 o flynyddoedd, a pharhaodd yn ei phroffes yn yr hen wlad a'r wlad hon, mewn ffyddlondeb a haelionusrwydd hyd dérfyn ei hoes. Bedyddiwyd hi ar broffes o'i ffydd yn Nghrist gan y Parch. Joseph Price, yn yr Argoed, swydd Fynwy. Gwedi preswylio yn yr ardal hono am rai blynyddoedd, ymfudodd ei phriod a hithau, ac amryw eraill o'u cymmydogion i'r wlad hon, ac ymsefydlasant yn Carbondale; ond o herwydd cyfnewidiad yn amgylchiadau y gwaith yn yr ardal hono, a bod eu mab wedi dyfod i aros i'r lle hwn, penderfynasant i symud i ardal Pottsville, lle y terfynodd hi ei gyrfa ddaearol. Daeth tyrfa luosog o'r ardalwyr ynghyd i gyflawni y gymwynas olaf yn eu perthynas â hi, trwy ddaearu ei chorff yn nghladdfa eglwys y Bedyddwyr Cymreig, pryd yr anerchwyd y gwylddfodolion gan y Parch. Wm. Morgan.

## Y WESLEYAID CYMREIG YN UTICA.

Barchus Olygydd,—Erfyniwn eich hynawsedd i'r llinellau canlynol gael ymddangos yn eich cyhoeddiad.

Y mae y cyffredin o'n cyd-genedl yn yr Unol-Dalaethau yn hysbys fod y Wesleyaid Cymreig wedi adeiladu capel yn ninas Utica yn y flwyddyn 1850; y draul o'i adeiladu, ynghyd a'r tir, yw $1950; a chan mai gweiniaid a thylodion ydym, buom dan orfod i appelio at ein brodyr crefyddol o wahanol enwadau am gynorthwy; a chan eu bod hwy wedi dangos y fath gydymdeimlad trwy gyfranu, yr ydym yn cydnabod ein rhwymau i ddychwelyd ein diolchgarwch gwresocaf i'r rhai a gyfranasant mor haelionus at yr achos; a rhoddwn iddynt sefyllfa y cyfrifon yn fyrfel y canlyn:

| | |
|---|---|
| Casglwyd yn Utica a'r amgylchoedd, | $713 80 |
| Ynghyd ag addewidion yn cyrhaedd | 100 00 |
| New York a Boston, - - - | 243 45 |
| Trwy dalaeth Pennsylvania, - | 435 46 |
| Cyfraniadau a chasgliadau misol yr eglwys, - - - - - | 177 87 |

Gyda golwg ar daith y Parch. Rees Davies trwy Pennsylvania, dywed fel hyn: "Tach. 18 gadewais fy nghartref, gan wynebu ar dalaeth Pennsylvania, ac er fod amryw o'r gweithfeydd glo yn sefyll er ys rhai misoedd yn flaenorol, a thrwy hyny fod llawer o ddynion allan o waith; ac hefyd fod un yn gwisgo yr un cymeriad a minnau, sef casglwr, wedi cael y blaen arnaf yn mhob lle agos yn mhlith y Cymry, eto, er y cwbl, dangosodd fy nghyd-genedl fod ganddynt galon i weithio a llaw i gyfranu."

Anwyl a charedig frodyr a chyfeillion, Y mae yn ddrwg genym na buasai yr hysbysiad hwn wedi ei barotoi i'r wasg yn gynt: ond yr ydym yn eich hysbysu fod rhwystrau ar y ffordd i roddi y cyfrif nemawr yn gynt. Yn awr, yn ol eich dymuniad am wybodaeth o lwyddiant taith y brawd Davies, ynghyd a'i addewid yntau, rhoddwn enwau pob lle, a'r symau a gasglwyd ynddynt:

| | |
|---|---|
| Oxford, . . . | $6 62½ |
| Green, . . . . | 2 75 |
| Binghamton, . . | 20 72 |
| Carbondale, . . | 74 25 |
| Dunmore, . . | 5 25 |
| Scrantonia, . . . | 18 55 |
| Pittston, . . | 52 42½ |
| New Troy, . . | 23 00 |
| Kingston, . . | 5 00 |
| Williamsburg, . . | 12 60½ |
| Tamaqua, . . | 20 14 |
| Summit Hill, . . | 34 43 |
| Pottsville a'r cylchoedd, | 27 77½ |
| St. Clair, . | 31 39 |
| Eagle Hill a'r cylchoedd, | 23 82 |
| Minersville, . . | 55 13 |
| Phœnixville, . | 8 39 |
| Philadelphia, . . | 10 50 |
| New York, . . | 3 00 |
| | $435 46½ |

Yr ydym wedi tynu dyled ein capel o'r swm uchod i lawr i chwe' chant a hanner o ddoleri, ar ol talu traul y casglydd.

Ond i goroni y cwbl, gallwn ddywedyd na bu ein gwaith yn sefydlu achos Wesleyaidd yn y lle hwn yn ofer; canys bendithiodd yr Arglwydd ein llafur er cael 11 o'r newydd, na buont o'r blaen, yn aelodau o'r eglwys. Clod i Dduw am hyny.

Yr ydym ni, dros yr eglwys, yn cydnabod derbyniad y symau uchod, ac yn dymuno dychwelyd ein diolchgarwch i bawb am eu caredigrwydd.

John Parry, *Trysorydd.*
Thos. Morris, *Ysgr.*

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Cawsom y newyddion diweddaraf gyda y Baltic, yr hon a adawodd Liverpool Awst 6, a gwnaeth y fordaith fyraf a glywyd son erioed am dani i New York, sef ychydig lai na deg diwrnod.

Mae amryw ddadleuon brwd wedi cymeryd lle yn Senedd Prydain, ond dim mesurau o bwys wedi eu penderfynu.

Yr Arddangosiad Mawr.—Nid ydyw y dyddordeb a deimlir yn llwyddiant yr Arddangosiad yn lleihau dim. Yr oedd nifer yr ymwelwyr a'r derbyniadau wrth y drysau yn llawn cymmaint yn y mis diweddaf ag un o'r wythnosau blaenorol. Yn ystod mis Gorphenhaf, daeth lluaws o bobl i fynu o'r talaethau gyda y gwahanol rheilffyrdd a gyrchant i Lundain. Yr oedd y lle yn llawn iawn ar rai dyddiau, ac o herwydd poethder yr hin a'r llawnder, yr oedd tufewn i'r adeilad yn fwll dros ben.

Efallai nad ydyw yn hysbys i lawer fod rhwym-drawstiau haiarn mawr *transept* y Palas Gwydr wedi eu gwneuthur yn ngwaith haiarn Aberdar. Yr haiarn mortbwyledig goreu a welwyd erioed ydynt.

Y Ddeilliadeb.—Dyma gyfrif o boblogaeth Prydain Fawr ar bob un o'r chwe' rhifiad a wnaed yn ystod y canrhif presennol:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1801, | 10,942,646 | 1831, | 16,537,398 |
| 1811, | 12,609,364 | 1841, | 18,844,434 |
| 1831, | 14,371,631 | 1851, | 20,919,531 |

Nid oedd y cyfrifon am Iwerddon wedi eu gwneud. Mae yn debyg y dangosant leihad yn y boblogaeth, o herwydd y newyn a'r ymfudiaeth. Cyfrifir na fydd dros 8,000,000, ac felly fe fydd holl boblogaeth y Deyrnas Gyfunol ychydig yn llai na 29,000,000.

Y mae 550,158 yn fwy o ferched yn Mhrydain nag sydd o feibion. Y mae yr anghyfartalrwydd hwn yn cynyddu yn barhaus, yr hyn sydd yn tynu sylw gwladgarwyr, ac yn peri iddynt feddwl am ryw gynllun i gludo y merched hyny sydd gymwys i wledydd lle mae y cyfartalrwydd yr ochr arall. Mae y fath nifer ormodol o'r "llestr gwanaf" yn ddiau yn niweid mawr, oblegyd y mae amldra yn eu gwneud yn ddiwerth; ac nid oes dim mwy gofidus na bod merched yn cael eu gosod at drugaredd dynion yn fwy nag y mae y Creawdwr wedi bwriadu. Y mae y fyddin a'r llynges yn achosi gradd o'r gwahaniaeth, a diau fod amgylchiadau masnach ac ymfudiaeth felly hefyd. Y mae y merched trwy eu hamldra gormodol fel hyn yn colli urddas eu rhyw.

### RHUFAIN.

Mae y Pab wedi ymadael o Rhufain am dro o leiaf, yn mis Gorphenhaf, a chyrchodd ei gamrau tua chastell De Gano Dolpho, lle yr ymwelodd brenin Naples ag ef, a chiniawsant ynghyd yn yr hwyr. Tybir mai pwngc ymddiddan y ddau gyfaill ydoedd, pa fodd y geliir gwthio y milwyr Ffrengig o Rhufain. Dyfeisiwyd y cynllun a ganlyn: mae'r Awstriaid i gilio yn ol o'r talaethau Pabyddol cyn belled a Bologna, yn mha ddinas y maent i aros. Mae y milwyr Ffrengig i ymadael o Rhufain, ac aros yn Civita Vecchia; ac yna y mae Bomba i anfon 10,000 o filwyr i gymeryd meddiant o'r Ddinas Santaidd. Ond y pwngc i'w ystyried ydyw hyn, a gydsynia Ffraingc â'r cynllun? Tybiwn y bydd yn lled anfoddlon.

### PORTUGAL.

Mae llywodraeth Saldahna wedi cyhoeddi deddf etholiadol yn datgan y modd y mae yr etholiad nesaf i gymeryd lle. Etholiadau anuniongyrchol a fyddant, hyny yw, fe etholir nifer o bersonau yn mhob rhandir, y rhai a awdurdodir i ethol cynrychiolwyr i'r senedd. Dysgwylir y bydd i'r etholiadau droi allan yn ffafriol iawn i'r blaid ryddgarol; ac o herwydd hyn mae pleidwyr Thomar yn ddig, ac yn son am wrthryfela os na ddileir y ddeddf etholiadol.

### AWSTRIA A PHRWSIA.

Mae y llywodraethau hyn yn parhau i ymgecru â'u gilydd ynghylch derbyniad eu talaethau eithriadol, hyny yw, rhai allan i gylch yr Almaen, i mewn i'r undeb Allmaenaidd.—Yr oedd Prwsia wedi llwyddo i gael ei holl Dalaethau yn agos ac yn mhell i'r Undeb; ac yr oedd Awstria yn gofyn am yr un peth, yr hyn a adawai iddi ddwyn ei thalaethau Eidalaidd, ac eraill llawn mor bellenig, i'r Undeb Allmaenaidd, a thrwy hyn rhoddid y mwyafrif o bleidleisiau yn ei meddiant hi.

Mae y peth yn ymddangos yn ddibwys, ond mae llawer iawn o ysgrifenu, teithio, a chyflafareddu yn ei gylch.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

Brynmawr.—Ar y Sabboth, yr 20fed o Orphenhaf, cynnaliodd yr eglwys yn Tabor ei chyfarfod i gasglu at y ddyled arosedig ar ei haddoldy. Pregethwyd tair pregeth ragorol ar yr achlysur gan y Parch. J. Jones, Seion, Merthyr. Casglwyd ar ddiwedd y gwahanol odfaon at y ddyled, a chasglwyd yn dda iawn ag ystyried iselder yr amseroedd. Y mae y cyfeillion yma yn ymdrechu yn fawr at glirio eu haddoldy.

NEWYDDIADURON CYMREIG.—Mae "Seren Cymru, dan olygiaeth Mr. Saml. Evans, Caerfrddin, wedi derbyn y gefnogaeth a ddysgwylid. Yr oedd y rhifyn cyntaf i gael ei gyhoeddi ar y 10fed o Awst. Felly, tebygol fod Seren newydd wedi codi eto yn awyrgylch lenyddol Cymru.

Mae J. T. Jones, Caerfyrddin, hefyd, wedi cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i ddwyn allan bapyr newydd pythefnosol, o'r enw "Gwron Cymreig," dechreu y flwyddyn nesaf, pris tair ceiniog a dimai y rhifyn.

## CYMANFAOEDD, &c.

MORGANWG.—Cynnaliwyd y Gymanfa hon yn Tongwynlais. Yn y gynhadledd cafwyd ar ddeall fod cariad brawdol yn ffynu yn yr eglwysi, er fod llawer yn tynu yn ol, wedi y llwyddiant mawr a gafwyd y llynedd. Y cyfnewidiadau fel y canlyn:

| | |
|---|---|
| Bedyddiwyd, adferwyd a derbyniwyd trwy lythyrau, | 1224 |
| Diarddelwyd, bu farw, a gollyngwyd trwy lythyrau, | 1459 |
| Lleihad, | 232 |

Gweinyddwyd gan George, Jabez, Dyfed; Jenkins, Caerodor; Williams, Trefforest; Jenkins, Hengoed; Thomas, Maesaleg; Williams, Salem, Llangyfelach; W. a D. Jones, ac A. G. Fuller, Caerdydd; R. Davies, Penyfai; Hopkins, Tondu; R. Owen, Twynyrodyn; T. Price, Aberdar; S. Edwards, Rhymni; T. Lewis, Llanddewi; B. Evans, Hirwaun; T. Jones, Castellnedd; D. Thomas, Cwmafon; J. Evans, Bontfaen; J. Jones, Seion, Merthyr; E. Thomas, Machen; W. Williams, Llysfaen; J. Roberts, a T. Davies, Merthyr; D. Davies, Abertawy; J. Jones, Dowlais; T. Williams, Llangloffan.

YR HEN GYMANFA.—Cynnaliwyd y Gymanfa hon eleni yn Mheuffordddlas neu Staylittle, swydd Drefaldwyn, Mercher a Iau, y 4ydd a'r 5ed o Fehefin. Agorwyd y gynhadledd am ddeuddeg o'r gloch, pan y cafwyd ar ddeall fod heddwch drwy yr eglwysi. Yna ymdriniwyd a phenderfynwyd amryw bethau pwysig. Gweinyddwyd gan Brunt, Bwlchsarnau, Richards, Penyrheol; Evans, Pen-y-bryn; Jarman a Probert, Bontnewydd; Williams, Llanfihangel-nantbren; Morris, Bethabara; Price, Maesyberllan; Jones, Seion, Merthyr; Evans, Llangynidr; Pugh, Llanfairmuallt; T. Evans, Penycae; Jones, Llanfair-caereinion; D. Davies, Doleu; J. Davies, Brynmawr; Roberts, Machynlleth; Roberts, Llangors; Thomas, Talywern; Davies, Nantgwyn; Jones, Crughywel; Evans, Mochdre, &c. Cafwyd cymanfa ragorol.

CAERNARFON.—Cynnaliwyd y gymanfa hon yn nhref Caernarfon, Mawrth a Mercher, y 1af a'r 2il o Orphenhaf. Y pregethwyr—T. Hughes, Nefin; Jones, Llanfaircaereinion; J. Prichard, Caergybi; James, Brynmawr; W. Jones, Caergybi; T. Hughes, Nefin; Jones, Llanberis; H. W. Hughes, Llynlleifiad; D. Roberts, Llangefni; R. Jones, Llanllyfni; D. Jones, Felinfoel; W. Morgan, Caergybi; H. C. Howells, Pwllheli; R. Roberts, Llanfachreth; T. Evans, Pontripont; a T. R. Davies, Glanwydden. Cafwyd Cymanfa dda iawn, pregethau campus, a thorf luosog i'w gwrando.

MON.—Cynnaliwyd y Gymanfa uchod eleni yn Llanfachreth. Gweinyddwyd gan J. Michael, Soar; J. Morris, Ebenezer; T. R. Davies, Glanwydden; D. Hughes, Caergybl; T. Hughes, Nefin; J. Jones, Llanberis; H. Williams, Amlwch; H. W. Hughes, Llynlleifiad; J. Prichard, Llangollen; W. Morgan, Caergybi; R. A. Jones, Llanfaircaereinion; D. Jones, Felinfoel; D. Roberts, Llangefni; M. Penybryn, Dyfed; W. Richards, Caernarfon; D. Price, Lerpwl.

## Y LLONG TAFF.

Llong oddeutu 800 o dunelli, a adeiladwyd yn mhorthladd Caerdydd, gan y Meis. Batchellor Brothers, ac a hwyliodd oddi yno ar y 28ain o Fai, 1851, am Gaerefrog Newydd, yn llwythog o haiarn *rails*, a thua hanner cant o ymfudwyr, yn mhlith y rhai yr oedd Mr. T. Fuller, mab y Parch. A. G. Fuller, Caerdydd, ac wyr i'r enwog Andrew Fuller, gynt. Wedi hwylio yn dda dros 16 o ddiwrnodau, yr hyn a'i dygodd allan i'r Werydd, cododd ystorm chwerw iawn, ac ymgynddeiriogodd y môr, fel yr oedd ei donau mynyddol yn taflu y llong i'r uchelder, a rhyngddynt yn gostwng megys i gymydd dyfnion. Yr oedd y gwynt a'r môr megys wedi ymgynghreirio i'w dinystrio—wedi ei phlygu a'i nyddu gan y rhyferthwy, ymollyngodd, fel y dylifai y dyfroedd i mewn, nes ydoedd y bobl hyd eu lwynau o dan y *decks*, a bu agos i un o'r morwyr foddi yn ei wely. Gosodwyd y sygneddyddion (*pumps*) mewn llawn waith, a phob dyn yn y llong i weithio am ei fywyd dros tua thri diwrnod, nes oedd eu nerth wedi ei lwyr orchfygu; yr hwyliau wedi eu tynu mewn, a'r llong yn myned yn drymach bob awr, nes oedd pob gobaith y byddent gadwedig wedi ei gymeryd oddiarnynt. Pan oeddent bron a rhoddi eu hunain i fynu i'w tynged, gwelent long Amerigaidd yn myned heibio, a gellir meddwl am lawenydd y llongwyr wyr wrth ei gweled. Cododd y "Taff" ei faner i faner i fynu, ond ni wnaeth yr Americaniaid un sylw o honi; ac os oedd eu llawenydd yn fawr wrth ei gweled yn dynesu yr oedd eu siomedigaeth yn fwy wrth ei gweled yn myned heibio yn ddisylw o honynt. Teimlai Mr. Fuller, drwy y cyfan, yn hynod o debyg i'r apostol Paul, gynt, ar ei fordaith i Rufain,—nid am iddo gael gweledigaeth, na chyfrinach ag angel, ond ymddengys fod rhyw argraff wedi ei gwneud ar ei feddwl gan "yr Hwn sydd yn dal y gwynt yn ei ddyrnau, a'r môr ar gledr ei law," na fuasai colled am un enaid, ond yn unig am y llong a'r llwyth. A phan oedd y bobl ar lewygu gan ofn a lludded, gwelsant faner Frytanaidd yn chwifio yn y terfyngylch, yr hon oedd long Ysgotaidd yn dynesu. Gwelodd hono eu hing-faner hwythau i fynu, ac anturiodd tuag ati. Ond yr oedd y rhyferthwy mor greulon, fel nas gellid myned yn agos ati i wneud un cynorthwy

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library

# Y SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] HYDREF, 1851. [RHIF. 88.

CYNNWYSIAD.

Holwyddoreg ar Enedigaeth Crist, . . . 231
Y rheswm Paham y mae Dyn yn teimlo cyn lleied o barch i Dduw, . . . . 232
Y Meddwyn, . . . . . . 234
Talwch gludiad eich llythyrau, . . 235
Hanes yr Eglwys Gristionogol, . . 236
Cân ar ol Croesi'r Atlantic, . . . 243
Y Bardd i'w Ardd ei hun ganol Mai, . 243
"Sit y'ch ch'i ?" . . . . . 244
Y Tân-ddiffoddydd—dyfais newydd, . 244
Meddwdod ac anghymmedroldeb yn swydd Schuylkill, . . . . 244
Cael Gwraig trwy gyfrwysder, . . . 245
Dihenyddiad y Cad. Lopez a thynged ei ganlyniad, 245
Eglwysi yn Pottsville, . . . . 245
Ffynon Halen ffrwythlawn yn Swydd Meigs, O., 246
John B. Trevor, . . . . . 246
Rheilffordd Caerefrog Newydd ac Erie, . 246
Cardinal i Philadelphia, . . . 246
Merch Ieuangc a ddysgodd argraffu, . . 246
Damweiniau, &c. . . . . . 246
Golygydd anghareddig, . . . . 247
Golygiadau M. Evans, Dodgeville, Wis., . 247
*Gofyniadau,* . . . . . . . 247
*Priodasau,* . . . . . . 248
*Marwolaethau,* . . . . . . 248
Dygwyddiad galarus, . . . . 249
Terfysg a Llofruddiaeth yn Christiana, Pa., 249
Ymfudiad, . . . . . . . 250
Awgrym i dyddynwyr talaeth Caerefrog Newydd, 250

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, Iwerddon, &c. . . 250
Kossuth—Mwnau Aur yn Neheubarth Cymru Newydd—Carcharorion yn Paris—Y Pab a Sig Alexandrini—Daeargryn yn Naples, 250
Yr Arddangosiad Mawr, . . . . . . 250
Y Prwywyr Cyffredinol yn Ffraingc, . 250
Gorchest Richard Manks, . . . 251
Ffraingc, . . . . . . . . 261
Rhufain, . . . . . . : 251
Awstria, . . . . . . . . 251
Camgymeriad Rhyfedd, . . . . 252
Peiriant Medi, . . . . . . . . 252
*Tywysogaeth Cymru.*—Llanymddyfri, . 252
" " Bethesda, Abertawy, 252
" " Llanhiddel, . 252
" " Symudiadau, . 252
" " Siloam, Machen, . 252
" " Capel Gwyn, Mon, 252
" " Cwmgarw, . . 252
" " Cyflafan anwaraidd, 253
" " Tynerwch Teuluaidd y Saint, . . . 253
" " Cymanfa Ddirwestol, 253
" " Cynydd y Boblogaeth, 254
" " *Priodasau.* . . 254
" " *Marwolaethau,* . . 254

HYSBYSIADAU, . . . . . 254

POTTSVILLE:

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞ Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Gohebiaethau y Parch. D. Cadwaladr, W. W., R. M. T., &c.

☞ Derbyniasom yn daliad, oddiwrth Mr. Thos. Bowen, Carbondale, $13; Edw. Farr, Summit Hill, $4 75; hefyd, am lyfrau, $2 25; Parch. Thos. Ll. Davies, New-York, (hysbysiad), $8; Mr. Thos. Parry, Youngstown, O, (1850,) $3 50; a $1 50 am 1851; Parch. R. Davies, Palmyra, O., $5.

☞ ESBONIAD J. JENKINS, HENGOED, AR YR HEN DESTAMENT, yn ddwy gyfrol, wedi ei rwymo yn dda, ac heb ei niweidio mewn un modd. Ar werth am bris isel, trwy ymholi â golygydd y Seren, neu Mr. J. D. Jones, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

☞ Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

---

### *CYMANFA Y BEDYDDWYR CYMREIG YN SWYDD LUZERNE, PA.*

Bydd y Gymanfa hon i ddechreu yn Carbondale y trydydd Sabboth yn Hydref. I ymweled â Dunmore a Scranton yn ystod yr wythnos ganlynol; ac i ddiweddu yn Pittston y Sabboth olaf yn Hydref.
E. Edwards.

☞ *At yr Eglwysi Cymreig perthynol i'r Bedyddwyr yn Swydd Oneida, C. N.*—Anwyl frodyr, Chwi a welwch wrth yr hysbysiad uchod fod y Gymanfa y perthynwch iddi idd ei chynnal yleni yn y dosbarth hwn; a charem yn fawr fod yr holl weinidogion a berthyna i'r Gymanfa yn wyddfodol ar yr achlysur; ond y mae amgylchiadau yr eglwysi yma y fath fel nas gallant ddwyn y draul gydfynedol â'r anturiaeth. Ond taer ddymunir am lythyrau yn cynnwys hanes manol o gyflwr yr achos yn yr holl eglwysi perthynol, modd y gallwn gyhoeddi i'r byd ansawdd yr achos mawr yn ein plith. Y gweinidogion dyeithriol a ddysgwyliwn i weinyddu ar yr amgylchiad ynt, y Parch. W. Morgan, Pottsville; y Parch. J. P. Harris, Minersville; y Parch. Dd. Evans, Summit Hill; y Parch. Thos. Roberts, Danville; y Parch. Isaac Bevan, Reading. A golygwn fod hyn yn hysbysiad digonol i'r brodyr uchod. Ydwyf, dros yr eglwysi, D. E. Bowen.

---

HYSBYSRWYDD YN EISIAU—am Mr. HUMPHREY HUGHES. Ymadawodd o Nant-y-glo dwy flynedd i mis Mai diweddaf i'r wlad hon Yr oedd yn cadw ceffylau i Mr. Bailis, Nant-y-glo. Nis gwyddom pa le y mae; ond os daw y llinellau hyn i'w law ef, neu un o ddarllenwyr caredig y Seren sydd yn gwybod am dano, hyderwn y bydd mor garedig ag anfon trwy lythyr at ei ferch sydd wedi dyfod i'r wlad hon yn ddiweddar. Rhydd hyny foddlonrwydd mawr iddi hi a'i phriod, Zephania Williams. Cyfarwydder Mr. Zepheniah Williams, Columbus, Ohio.

*Hefyd—*

Am THOMAS GRIFFITH, genedigol o blwyf Trewern, swydd Faesyfed, mab i James Griffiths, yn awr o Nantyglo. Ymadawodd T. G. oddiyno tair blynedd i'r haf diweddaf i'r wlad hon. Nid ydym yn gwybod dim am dano; ond dymuna ei anwyl frawd John Griffiths yn daer arno ef, neu ryw un arall gwybodus o hono, anfon hysbysiad o hono wedi ei gyfarwyddo at John Griffiths, care of Zephania Williams, Columbus, Ohio.

*Hefyd—*

Am DAVID PRICE, mab Thomas a Margaret Price, Cerywi, D. C.; mwnwr neu lowr ydoedd. Ymadawodd o Gymry er ys ugain mlynedd yn ol i'r wlad hon. Clywsom ei fod yn Brownsville, ger Pittsburg, Pa. Dymuna ei anwyl chwaer ieuangaf, Harriet Price, arno ef, neu ryw un caredig arall ag sydd yn gwybod am dano anfon ati trwy lythyr, a chyfarwyddyd iddi i anfon ato ef. Cyfarwydder at Miss Harriet Price, Columbus, O.

*Hefyd—*

Am JOHN GRIFFITHS, gynt o Flaenafon, (ond genedigol o Sir Aberteifi, D. C.), mab i David Griffiths, Hatwr, Sirowy. Mudodd i America tua chwech mlynedd yn ol; y lle yr ydoedd pan glywyd oddiwrtho ddiweddaf oedd Turtle Creek, Northumberland Co., Pa. Os gwyr neb o'n darllenwyr rhywbeth am dano, dymunir arnynt yn barchus i gyfeirio at ei gefnder, Evan Griffiths, Carpenter, Minersville, Schuylkill Co., Pa.

---

ESBONIAD Y DR. GILL YN NGHYMRAEG.—Y mae y gwaith ragorol hwn yn awr yn cael ei gyhoeddi yn rhanau gan Mr. Wm. Owen, Caerdydd. Deallwn ei fod allan o'r wasg yn barod hyd yr Epistolau. Mae y Cyhoeddwr wedi cael awgrymiadau oddiwrth rai o Gymry America eu bod am ei gael, ac addawa anfon blychaid yma os bydd galwad, gan fod llongau yn dyfod oddiyno bob mis i America. Dymuna i ryw un cyfrifol gael ei bennodi yn oruchwyliwr.

Er mwyn hwylusu ychydig ar hyn, gall y rhai a chwenychant ei gael anfon atom ni (yn ddidraul) ac yna, os ceir ryw nifer o dderbynwyr, gellir pennodi ryw un addas i dderbyn y tansgrifiadau, a derbyn y llyfrau hefyd.

GEIRIADUR D. SYLVAN EVANS.—Pwy bynag a ewyllysio dderbyn y llyfr hwn hefyd, gallant ei gael cyn hir trwy anfon eu henwau i mewn i olygydd y Seren.

---

CYFARCHIAD Y PARCH. J. F. BERG, D. D.—Yr ydys wedi argraffu yr atebiad campus hwn i ddarlith yr Archesgob Hughes yn llyfryn bychan ar ei ben ei hun. Cyfieithwyd ef i'r 'Seren' gan y Parch. W. Morgan; a chan fod y pwngc o bwys neillduol, ac yn galw am sylw cyffredinol pawb Protestaniaid, yr ydym am osod y llyfr bychan hwn yn llaw crefyddwyr o wahanol enwadau, teuluoedd, ac yn neillduol ieuengctyd yr Ysgolion Sabbothol.

---


## O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

YN Rhif. 45, ac nid 25, Union Street, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog Mr. ELEAZER JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn gysurus, mewn bwrdd a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont.

Mae y ganmoliaeth a roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiolaeth miloedd yn y wlad hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] HYDREF, 1851. [RHIF. 88.

## HOLWYDDOREG AR ENEDIGAETH CRIST.

GAN J. M. THOMAS, ABERTEIFI.

GOF. 1.—A fyddwch chwi cystal a roddi i ni ychydig o hanes genedigaeth ein Harglwydd Iesu Grist?

AT.—Esgorodd Mair ddiwair yn fwynaidd a diddig,
Ar ei mab anwylaidd—ei chyntaf-anedig;
Cadachau cyfaddas a rwymwyd o'i ddeutu,
Mewn preseb fe'i dododd, heb le yn y lletty;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.*

Esay vii. 14, "Wele morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Immanuel."

Luc ii. 4—7, "A Joseph hefyd a aeth i fynu o Galilea, o ddinas Nazareth, i Judea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem, (am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd) i'w drethu gyda Mair, yr hon a ddyweddiasid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog. A bu, tra yr oeddynt hwy yno, cyflawnwyd y dyddiau i esgor o honi. A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd ef yn y preseb, am nad oedd iddynt le yn y lletty."

GOF. 2.—Pwy oedd yn gwasanaethu iddo ar ei enedigaeth?

AT.—Fe anwyd yn Methl'em y Ceidwad hyfrydlon,
O amgylch ei breseb 'roedd llu o angylion;
Cyhoeddent, Nac ofnwch, dwyn 'rydym newyddion,
Ewyllys da'r Arglwydd i'r byd a'i drigolion;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Luc ii. 8—11, 13, 14, "Ac yr oedd yn y wlad hono fugeiliaid yn aros yn y maes, ac yn gwylied eu praidd liw nos; ac wele angel yr Arglwydd a safodd gerllaw iddynt, a gogoniant yr Arglwydd a ddysgleiriodd o'u hamgylch, ac ofni yn ddirfawr a wnaethant. A'r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch; canys yr wyf yn mynegu i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl, canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd. Ac yn ddisymwth yr oedd gyda'r angel luaws o nefol, yn moliannu Duw, ac yn dywedyd, Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da."

Esay lvii. 19, "Heddwch, heddwch, i bell ac i agos, medd yr Arglwydd."

GOF. 3.—A oedd rhyw rai heblaw angylion yn gweini iddo?

AT.—O'r dwyrain daeth doethion, ac a'i addolasant,
Anrhegion o aur, thus a myr offrymasant;
Cyfarfu yn Methle'm y nefoedd a'r ddaear
I roddi addoliad i'r Baban mwyn hygar;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Math. ii. 1, 7, 10, 11, "Ac wedi geni'r Iesu yn Methlehem Judea, yn nyddiau Herod frenin, wele doethion a ddaethant o'r dwyrain i Jerusalem. Yna Herod, wedi galw y doethion yn ddirgel, a'u holodd hwynt yn fanwl am yr amser yr ymddangosasai y seren. A phan welsant y seren, llawenychasant â llawenydd mawr dros ben. A phan ddaethant i'r tŷ, hwy a welsant y Mab bychan gyda Mair ei fam, a hwy a syrthiasant i lawr, ac a'i addolasant ef; ac wedi agoryd eu trysorau, a offrymasant iddo anrhegion, aur, a thus, a myr."

Salm lxxii. 10, "Breninoedd Tarsus a'r ynysoedd a dalant anrheg; breninoedd Sheba a Seba a ddygant rodd."

1 Tim. iii. 16, "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd."

Ioan i. 14, "A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, a ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd."

Salm lxxxv. 10, 11, "Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant; gwirionedd a dardda o'r ddaear, a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd."

GOF. 4.—A broffwydwyd am Grist fel goleuni i ddyfod?

AT.—Proffwydwyd yn gynar am Seren der oleu,
Yn awr gorfoleddwn, fe wawriodd y boreu;

---

* Mae y geiriau argraffedig mewn llythyrenau Italaidd i gael eu hadrodd gan y gwrywod gyda'u gilydd; y rhai mewn prif lythyrenau bychain gan y menywod, a'r rhai yn y prif lythyrenau i gael eu hadrodd gan y gwrywod a'r menywod gyda'u gilydd.

Yr haul a gyfododd yn entrych y nefoedd,
Gwasgarai belydrau dros ddacar a moroedd;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Num, xxiv. 17, "Daw Seren o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel, ac a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth."

Mal. iv. 2, "Ond haul cyfiawnder a gyfyd i chwi, y rhai ydych yn ofni fy enw, a meddyginiaeth yn ei esgyll."

Luc i. 78, "O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw, trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder."

GOF. 5.—Pa deitlau a berthynant i'r Mab?

AT.—Fe anwyd i'n Fachgen, 'nol arfaeth y Duwdod,
Y Mab mawr a roddwyd i undeb â dyndod;
A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd lydan;
Rhyfeddol, Cynghorwr, y gelwir y baban;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Esay ix. 6, "Canys Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef; a gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr."

Barn. xiii. 18, "Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrtho, paham yr ymofyni am fy enw, gan ei fod yn Rhyfeddol."

GOF. 6.—A ellwch chwi enwi rhagor o deitlau perthynol iddo?

AT.—A hefyd Duw cadarn, Creawdwr y bydoedd,
Gwir Dad trag'wyddoldeb, cyn dechreu yr oesoedd;
Tywysog Tangnefedd, fel blaenor ei fyddin,
Ac ar ei lywodraeth byth, byth ni bydd terfyn.
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Esay ix. 6, 7, "Y Duw Cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Ac ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd, ar orseddfa Dafydd, ac ar ei freniniaeth ef, i'w threfnu hi, ac i'w chadarnhau â barn ac â chyfiawnder, o'r pryd hwn, a hyd byth. Sel Arglwydd y lluoedd a wna hyn."

Heb. i. 2, "Yr hwn a wnaeth efe yn Etifedd pob peth; trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd."

Heb. ii. 10, "Canys gweddus oedd iddo ef berffeithio Tywysog eu hiechydwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau."

Luc xix. 38, "Bendigedig yw y Brenin sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd; tangnefedd yn y nef, a gogoniant yn y goruchaf."

GOF. 7.—O ba le y daeth y Tywysog, neu y Llywydd hwn allan?

AT.—O Fethl'em, tir Juda, daeth allan ddewr Lywydd,
Yr hwn a lywydda ei bobl, wych Ddafydd:
Cyhoeddwyd ei urddas gan ddoethion ac engyl,
A'r drefn o gadw trwy ddawn yr efengyl;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD TYWYSOG Y NEF, ALELIWIA.

Mica v. 2, "A thithau, Bethlehem Ephrata, er dy fod yn fechan yn mhlith miloedd Juda, eto o honot ti y daw allan i mi un i fod yn llywydd yn Israel; yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb."

Math. ii. 5, 6, "Canys felly yr ysgrifenwyd, A thithau, Bethlehem, tir Juda, nid lleiaf wyt yn mhlith tywysogion Juda, canys o honot ti y daw Tywysog, yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel."

Ioan vii. 42, "Oni ddywedodd yr ysgrythyr mai o hâd Dafydd, ac o Fethlehem, y dref lle bu Dafydd, y mae Crist yn dyfod."

GOF. 8.—Beth fu ymddygiad yr hen Simeon tuag ato?

AT.—Pan ganfu Simeon ef yn yr hardd deml,
Fe'i cymherth i'w freichiau mewn agwedd dra syml;
A d'wedodd yn uchel, 'Nawr, Arglwydd gollynga
Dy was mewn tangnefedd, er mwyn dy Fab Iesu;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Luc ii. 25—29, "Ac wele yr oedd gwr yn Jerusalem, a'i enw Simeon, a'r gwr hwn oedd gyfiawn a duwiol, yn dysgwyl am ddyddanwch yr Israel; a'r Ysbryd Glân oedd arno. Ac yr oedd wedi ei hysbysu iddo gan yr Ysbryd Glân, na welai efe angeu, cyn iddo weled Crist yr Arglwydd. Ac efe a ddaeth trwy yr Ysbryd i'r deml, a phan ddyg ei rieni y dyn bach, Iesu, i wneuthur drosto, yn ol defod y gyfraith, yna efe a'i cymherth yn ei freichiau, ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd, Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air."

[I'w barhau.]

## Y RHESWM PAHAM Y MAE DYN YN TEIMLO CYN LLEIED O BARCH I DDUW.

O WAITH THOMAS DICK, LL. D.

Y mae un achos, yn mysg pethau eraill, fod dynolryw yn teimlo cyn lleied o barch i Dduw, a hyny ydyw, am mai anfynych y maent yn myfyrio gyda dyfalwch sefydlog ar weithredoedd ei ddwylaw ef. Os ydym yd dymuno meithrin yr agwedd oruchel hon yn ein calonau, y mae yn rhaid i ni gydnabyddu ein meddyliau yn fynych ag ymdeithiau drwy olygfeydd Creadigaeth a Rhagluniaeth, yr hyn y mae cyfrol natur, a chyfrol y dwyfol ddatguddiad, yn eu dadblygu o flaen ein golwg. Y mae yn rhaid i ni ymdrechu i gyfodi ein dirnadiaethau at arwychedd y gwrthddrychau

byu, drwy bob darganfyddiadau a gafwyd, neu a geir eto, arnynt. a hyny drwy bob moddion o eglurhad ag y mae drychfeddwl goruchel a chynnwysfawr am wrthddrych neillduol y myfyriaeth yn gyrhaeddadwy. Os ydym yn dymuno syrhaedd rhyw ddynodiad o eangder anianyddol y greadigaeth (er na all fod ond dirnadiaeth anmherffaith,) gall ein meddyliau gael eu cynorthwyo drwy y fath eglurhadau a'r rhai canlynol:—y mae goleuni yn ehedeg o'r haul, gyda'r cyflymder o ddau can mil o filldiroedd mewn eiliad (sef y 60fed ran o fynud) neu 1,400,000 o weithiau yn gyflymach na cherddediad bwlet magnel. Tybier fod un o'r graddau uwchaf mewn dealldwriaeth (sef un o'r angylion) wedi ei gynysgaeddu â gallu i ehedeg yn gyflymach na'r goleuni, a grym ei ddirnadiaeth mewn gradd gyfartal i hyny; a'i fod yn ehedeg o un ran o'r greadigaeth i un arall am yspaid chwech mil o flynyddoedd, ac yn parhau i fyned yn yr un cyflymder am fil o filiynau o flynyddoedd i ddyfod; y mae yn dra thebygol, os nad ydyw yn hollol sicr, na chyrhaeddai, erbyn diwedd y daith ddirfawr, yn ei fynediad yn mlaen, yn mhellach na chyrau y greadigaeth, ac na byddai yr holl ddosbeirth gorwych o sylweddau, a'r holl fodau rhesymol a ganfyddai yn ei ehediad cyflym am ysbaid y fath oesoedd maith, yn ddim mwy mewn cyfartalrwydd i ymerodraeth yr Hollalluog nag ydyw y gronyn lleiaf o dywod mewn cymhariaeth i'r holl ronynau o'r un maintioli a gynnwysir yn sylweddau deng mil o fydoedd; ac ni raid i ni ofni, yn y radd leiaf, fod y drychfeddwl a drosglwyddir drwy y fath arddangosiad, am fawredd gallu y Creawdwr, yn cyrhaedd tu hwnt i derfynau y gwirionedd: ond ar y llaw arall, y mae yn rhaid fod y golygiad yn anfeidrol fyrach na chyrhaeddiad ei lywodraeth ef; ac fel y mae y bardd wedi sylwi yn gywir—

"A ddichon iddyn ddirnad tu hwnt i'r hyn a ddichon Duw ei wneud?"

Pe byddai seraff yn teithio y greadigaeth yn y modd y darluniwyd genym, ac yn cyrhaedd at ryw derfyn pellach nag y byddai amlygiadau o'r Duwdod i'w canfod, y meddwl am hyny a arlwythai ei alluoedd ag ing a braw annraethadwy: efe a deimlai yn awr ei fod mewn rhyw fesur wedi amgyffred holl gynllunau a gweithrediadau yr Hollalluog, ac na byddai ychwaneg o amlygiadau o'r dwyfol ogoniant i'w datguddio. Ond nyni a allwn fod yn sicr, a gorphwys ein meddyliau yn dawel, na ddygwydda hyny byth i un creadur rhesymol a dealldwriaethus. Y mae genym sail i gredu, oddiwrth natur y Bod anfeidrol, ac oddiwrth ddirfawr eangder y greadigaeth a amlygwyd eisoes, fod y sylweddau dirfawr, a'r amrywiaeth annherfynol o fodau byw dealldwriaethus y mae y bydysawd (*universe*) wedi eu cyflenwi â hwy, wedi eu bwriadu gan yr Arglwydd i ddangos i'w hiliogaeth resymol, megys *cysgod, cynllun*, neu *arddangosiad* (cyn belled ag y gall bodau terfynol fod yn arddangosiad) o *anfeidrol berffeithrwydd* ei natur Ef, yr hyn, oddieithr hyny, a fuasai yn dragywyddol annirnadwy i fodau rhesymol israddol yr adgyfodiad.

Yr ydym yn dirnad fod ganddo ef y fath ddirfawr nifer o ddosbeirth creuedig na ddichon i ddyn eu rhifo. Y mae yn ddiamheuol fod y bydoedd sydd dan ei arolygiaeth a'i gyfarwyddiadau ef yn fwy lluosog na'r holl ddynolryw a fu ar y ddaear hyd yn hyn, a'r holl rai a fydd o hyn i ddiwedd amser. A chan ei fod ef, nid yn unig yn llywodraethu agwedd gyffredinol y bydoedd hyny, a sefydlu defnyddiau priodol i'w trefnidiaeth, ond y mae efe hefyd yn llywio amrywiol amgylchiadau, ac yn cyfarwyddo ysgogiadau lleiaf y myrddiynau o fodau rhesymol sydd yn y greadigaeth; ni ddylem ameu am fynudyn nad ydyw y gronynau lleiaf o bob corff dynol, pa mor belled bynag y byddont wedi eu gwasgaru oddiwrth eu gilydd, a'u cymysgu â sylweddau eraill, yn adnabyddus iddo ef, yr hwn y mae ei bresennoldeb yn llanw pob lle, ac y bydd holl ronynau cyrff dynolryw yn cael eu casglu eilwaith i'r dyben i ailadeiladu y pebyll dynol yn yr adgyfodiad, trwy y nerthol weithrediad ag y gall efe ddarostwng pob peth iddo ei hun. Pe baem yn tybied y bydd y nifer o ddynolryw yn gymmaint a thri chan mil o filiynau yn dychlamu o'u beddau i fywyd newydd yn yr adgyfodiad, a bod gronynau pob un o'r cyrff hyny o dan arolygiad neillduol yr Hollalluog yn bresennol, a bod nifer cydradd, o'r hyn lleiaf, o fydoedd dan ei ofal neillduol a'i gyfarwyddyd ef, ni ellir tybied fod y nerth, y gallu, a'r doethineb angenrheidiol at y cyntaf yn fwy nag at y diweddaf. Y mae arolygu aneirif o ronynau, ac aneirif o fydoedd, mor hawdd i'r Bod sydd yn meddiannu gallu anfeidrol yn gysylltiedig ag annherfynol wybodaeth, yr hyn ni ellir ei wrthbrofi. Canys fel y sylwa y bardd yn briodol:

"Yr oedd mor hawdd iddo wysio yr holl greadigaeth i fod, a gronyn bychan."

Os ystyriwn y *nifer aneirif* o gyrff sydd yn cael eu gyru yn y modd hyn drwy ddirfawr eangder y greadigaeth; cyflymder y mae y sêr gwib (*comets*) pan y maent yn agos i'r haul, yn cael eu gyru trwy yr ardaloedd y maent yn traws-deithio; os ystyriwn y mawr

debygolrwydd, os nad hollol sicrwydd, fod yr haul, a'r holl blanedau a'r sêr gwib sydd yn ei ganlyn, yn cael ei yru gyda gradd fyth mwy o gyflymder i ryw ardal bell o eangder, neu o amgylch rhyw sylwedd eang; a bod yr holl filoedd o ddosbeirth o gyd-gasgliad sêr (*nebula*) i'r rhai y perthyna yr haul, yn teithio yn yr un modd; a holl ser (*nebula*) y nefoedd yn ymsymud o amgylch rhyw gorff canolbarthol mawrwych; yn fyr, fod yr holl heuliau a'r bydoedd yn y greadigaeth mewn ysgogiad parhaus, yn cyflym rhedeg fel rhanau cyfansoddol o un ymerodraeth orwychla diderfyn, ar yr hon y mae y Jehofah yn benarglwydd; ac os ystyriwn yn mhellach, fod yr holl ysgogiadau dirfawr hyn yn teithio yn ddiatal er ys amryw gannoedd o flynyddoedd, a rhai o honynt efallai er ys myrddiynau o oesoedd cyn i sylfaen ein byd ni gael ei roi i lawr; y mae yn anmhosibl i'r meddwl dynol ffurfio un drychfeddwl priodol am y nerth aruthrol sydd mewn gweithrediad dibaid drwy holl ymerodraeth ddiderfyn yr Hollalluog. Y mae edrych ar y fath rym peiriannol, hyd y nod mewn un enghraifft, yn hollol siomi medrusrwydd y rhif-fesurwyr, ac yn rhoi pall hollol ar awdurdod rhif-nodau a chymbariaethau, yn yr olwg ar ryfeddodau mor oruchel; ac y mae y meddwl yn cael ei orchfygu gyda'r fath adlewyrchiad, ac yn cael ei arwain yn anwrthwynebol i chwilio am yr achos yn y Bod Hollalluog hwnw ag sydd yn cynnal colofnau y greadigaeth, ac nad oes neb a ddichon amgyffred nerth ei gadernid ef. Pa mor dra phwysig a difrifol ydyw iaith yr Oraclau Santaidd, tra y byddom yn myfyrio ar y fath wrthddrychau mawreddig? "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?" Y mae efe yn gwneuthur pethau mawrion, na allwn ni eu hamgyffred. I ti, Arglwydd, y perthyn mawredd, a gallu, a gogoniant, a goruchafiaeth, a harddwch; canys y cwbl yn y nefoedd ac ar y ddaear sydd eiddot ti.

*R——n.* *Cyfl.* O. E. J.

---

## Y MEDDWYN.

Dywed ambell un am y dyn meddw nad yw yn niwed i neb ond iddo ei hun. Ond nis gall fod felly, fel aelod o'r gymdeithas ddynol. Gwna pawb dda neu ddrwg i eraill. Wrth sylwi ar ddylanwad y meddwyn, gwelir yn eglur ei fod yn gwneud cam mawr, yn—

1. Ag ef ei hun. Gwna ei wisg dystio hyny. Hi a fu yn newydd yn ddiweddar; a gallasai fod eto yn well ei drych pe cawsai chwareu teg. Mae ei het, fel ei siol, yn gnapiau ac yn bantiau—un yml i lawr yn llipa, a'r llall i fynu; gellir meddwl iddo orwedd arni ryw dro; ac os felly, pa ryfedd? Mae ei siaced fu yn gyfan, yn awr yn rhwygedig; ei benelin a wthiwyd trwy y llawes pan yn feddw ryw dro. Ei siaced isaf sydd a'r bwtwnau wedi eu gwthio yn rhydd, pan yr oedd ef yn gorwedd fel anifail yn cicio cyn marw. Mae ei esgidiau wedi eu gwthio yn rhydd ganddo wrth gerdded o ochor i ochor. Nid i ddyben fel hyn mae Rhagluniaeth y nef wedi rhoddi gwisgoedd i neb.

Os bydd gan y meddwyn geffyl neu anifail, gwae fydd i hwnw. Efe a glymir mewn rhyw fan sicr, ac yno y caiff ef aros i gicio a choi hen bren neu rhyw beth cyffelyb, a'i fol yn wag, pan fydd ei berchenog yn yfed ac yn herwi ffolineb fel crochan gyda rhyw rai tebyg iddo ei hun. "Y cyfiawn sydd ofalus am fywyd ei anifail; ond tosturi y drygionus sydd greulon." Diar. 12. 10. Gwna y meddwyn gam mawr â'i gorff. Yn lle rhoddi ymborth iachus ac angenrheidiol yn ei gyfansoddiad, rhydd ddiod afiachus a gwenwynig. Effeithia hono idd ei lygaid hanner tywyllu ganol dydd—ei glustiau a farwinir, ei ddeall a ddyrysir, ei gluniau a'i freichiau a gollant eu nerth. Bydd ei dafod yn chwyddedig a'r gwaed a deflir yn rhy gyflym, nes gwneud annhrefn yn y peiriant corfforol. Trwy fynych ymddwyn yn y modd hyn, eiff rhai o'r olwynion tumewnol o'u lle, yna saif y peiriant, ac yntef a fydd farw wedi bod yn euog o ladd ei hun. Tebyg i hyn mae miloedd yn gwneud. Gwna y meddwon gam mawr â'u heneidiau anfarwol. Dyn, er mwyn porthi ei flys am ychydig amser yn cymhwyso ei hun i dragywyddol wae! O beth arswydus i feddwl am dano! Bydd sefyllfa y meddwon yn fuan yn wir ddyoddefus o dan lid yr Arglwydd, lle na fydd ymwared. Os gofynir, I ba le yr eiff y meddwon ar ol marw, ai i'r nefoedd? y mae yr ateb yn barod gan yr apostol, na chaiff meddwon etifeddu teyrnas Dduw. 1 Cor. 6. 10. Dylid ystyried hyn wrth yfed i feddwi.

2. Gwna y meddwyn gam â'i briod. Ei wraig, gwae fydd iddi hi:—er iddo addaw ei chadw yn glaf ac yn iach, ni wna. Rhaid iddi fyw mewn tlodi a gofid o'i achos ef. Pan enilla ef neu hi ychydig arian, yn lle eu gadael i'r wraig i gael ymborth a dillad, &c. eiff a hwy i'r tafarn, a byddant cyn hir ar ol hyny yn llogell gwraig urddasol y tafarndy. Gwyddom am feddwon wedi cario i'r tafarndai ddillad eu gwragedd, a'u gwerthu am ychydig wirod. Rhaid i wraig y meddwyn fod mewn eisiau. Yn lle ymddwyn yn siriol ati, caiff eiriau chwerwon, a'i churo yn ddidrugaredd.

Bydd gan wraig y tafarn wely esmwyth a chynes yn y gauaf; ond rhaid i wraig y meddwyn orwedd yn ddigysur ar wely oer a chaled. Mae ei thŷ yn llwm, a'i chalon ar dori. Pwy ddywed erbyn hyn na wna y meddwyn niwed i neb ond ei hunan.

3. Gwna niwed mawr idd ei blant. Rhydd o'n blaenau siamplau drwg, megys myned a'r arian i'r tafarndai, neu i dalu am ddiodydd meddwawl, a'u gadael hwy mewn eisiau—tyngu, curo eu mam—aros allan y nos—cysgu ar lawr y tŷ—eu cadw heb wisgoedd addas i fyned i'r ysgol—eu hymddifadu o gelfyddyd—eu dysgu i dori y Sabbothau, a'u harferyd i ddiystyru moddion gras, &c. Os dilynant ei gamrau ef ant i golledigaeth. Dyma dad creulawn ac annhrugarog wrth ei blant ei hun, a'r holl achos o hyn yw, oblegid ei fod yn meddwi.

Llawer o rieni meddwon sydd wedi roddi eu plant i farwolaeth. Eraill a laddasant eu cyfeillion. Os eir i'r llysoedd gwladol i glywed y treialon am lofruddiaethau, &c. y dywediad cyffredin fydd hyn, "Yr oedd y dyn neu y ddynes yn feddw pan wnawd y weithred." Mae braidd hanner y troseddau yn cael eu cyflawni dan ddylanwad diodydd meddwol, ac er y gwbl dywedir eu bod yn dda. "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Gellir gweled plant y meddwon yn wael eu gwedd, a'u gwisgoedd yn garpiog, ac oni bai fod eraill yn cymeryd trugaredd arnynt yn y wlad hon, gorfyddai i filoedd o honynt i farw o newyn. Yn China arwydd y teigr sydd ganddynt am y dyn meddw, ond mae yn waeth at ei rai bach na hwnw o lawer; nis gellir ei restru yn mysg y dosbarthiadau isaf o greaduriaid carnol y maes.

Mae yn anhawdd gwybod pa enw yw y mwyaf priodol i'w roddi ar bechod y meddwyn. Nid ydyw yn anifeiliaidd, am na feddwant hwy; nid un cythreulig ydyw, oblegyd ni fu yr ellyllon drwg yn euog o'r pechod hwn. Nid oes yr un creadur yn holl ymerodraeth y Jehofa mawr a wna feddwyn ond dyn yn unig—y creadur hwnw a ddylai fod yn arglwydd ar holl anifeiliaid a bwystfilod y maes wedi darostwng ei hun islaw iddynt oll. Priodol iawn yw dywedyd bod "trueni dyn yn fawr arno." Preg. 8. 6.

4. Gwna y meddwyn gam mawr â rhagluniaeth y nef. Ni anwyd neb er mwyn iddo fod yn feddw, ac ni ddylai dyn na dynes dreulio eu hamser, eu meddiannau, a'u nerth i ddilyn meddwdod. Mae Rhagluniaeth Ior wedi bod yn hynod haelionus; ond defnyddia y meddwon ei roddion i bechu mewn segurdod a ffieidd-dra yn erbyn Duw a dyn. Pe meddwon fyddai pawb, rhyfedd y fath annhrefn fyddai ar y byd. Dywedir bod rhyw feddyg yn Ffraingc wedi cael allan feddyginiaeth i sobru y meddwon yn ddioed; ond mae gwell trefn na hyny yn y byd yn barod, sef ymatal rhag meddwi dim, trwy lwyrymwrthod â diodydd meddwol. Gwneled pawb felly, yna gall y meddyg hwnw gadw ei foddion iddo ei hun.

Mae llawer yn yfed y diodydd gwenwynig, ac yn meddwi ychydig ar droion, naill ai gyda chyfeillion neu gartref; eithr nid ydynt yn foddlon cael eu cyfrif yn feddwon, er eu bod yn meddwi. Mae y morwyr yn cael eu galw felly am eu bod yn gwneud eu gorchwylion ac yn treulio llawer o'u hamser ar y mor; y tyddynwyr a elwir felly, am mai trin tir maent hwy: gelwir y rhai sydd yn adeiladu yn adeiladwyr; a'r un mor addas ydyw ystyried y cyfryw sydd yn meddwi yn *feddwon.* Dichon bod rhai yn meddwl ymgyfiawnhau am nad ynt cynddrwg ac eraill; ond y mater pwysig yw, a oes tuedd at feddwdod yn y galon, neu awydd parhaus am borthi blys â diodydd meddwol. Egwyddor fydd yn anghymeradwyo dynion, ynghyd a'u gweithredoedd, yn nydd y farn. Sefyllfa wael fydd bod gyda meddwol colledig i dragywyddol ruddfan.

Aml ydyw y prawfiadau a gadarnhant eiriau Solomon am y diodydd cymysgedig a meddwol, "Yn sy diwedd efe a frath fel y sarff, ac a biga fel y neidr." Diar. 23. 32.—Llawer un a welwyd yn llawen ac yn hollol gellweirus yn arfer y ddiod alcoholaidd; ond ryw ddydd fe'i brathwyd megys gan sarff wenwynig, ac naill ai fe fagodd darfodedigaeth, neu fe gollodd ei nerth, a mawr oedd ei boenau o herwydd y brathiad cyn ymadael â'r byd, nes iddo yn y diwedd farw o herwydd brathiad y diodydd y bu efe yn meddwl mor dda am danynt. Gocheled y rhai a chwareuant â'r ddiod wenwynig, mae ganddi ei cholyn; a'r Beibl a ddywed mai brathu a wna yn y diwedd, a hyny yn anfeddyginiaethol.

THETA ETA.

## TALWCH GLUDIAD EICH LLYTHYRAU.

Os na fydd i chwi dalu
  Wrth anfon ataf fi,
Nis gallaf addaw gwneuthur
  A geisiwch drosoch chwi.
Mi dalaf pan anfonaf
  Yn siwr at bawb o'r bron:
O cofiwch efelychu
  Y rheol auraidd hon.

GOHEBYDD O'R GORLLEWIN.

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### Y PUMED CANRHIF.

Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd tymor dirywiad cyffrediniol yn hanes Cristionogaeth, pan y canfyddir y byd a'r eglwys wedi eu huno â'r egwyddorion cnawdol, ac achosion crefydd yn cael eu rheoleiddio yn ol dyfais llywodraethwyr uchelfrydig, ac nid yn ol meddwl dadguddiedig yr Arglwydd Iesu. Yr oedd yr ymerodraeth Rufeinig yn awr yn ddwy ran, ac Honorius yn llywodraethu yn y gorllewin, a gorsaf ei lywodraeth yn Ravenna, ac Arcadius yn ymerawdwr y dwyrain, a Chonstantinople yn brif-ddinas iddo. Yr ydym wedi nodi mewn erthygl flaenorol fod y Gothiaid wedi rhuthro i'r Eidal, a goresgyn rhan fawr o'r talaethau Ewropaidd, a darostwng yr hen frodorion i galedi mawr.—Parhaodd y blinder i gynyddu nes yn y diwedd i Odoacer, wedi gorchfygu Augustulus, ddinystrio ymerodraeth y gorllewin, a darostwng yr holl Eidal dan ei lywodraeth ei hun. Yn mhen ychydig amser wedi hyny, Theodoric, brenin yr Ostrogothiaid, a ymosododd ar Odoacer a'r Herculiaid, ac a'u gorchfygodd mewn rhyfel, ac a sefydlodd deyrnas iddo ei hun yn yr Eidal, yr hon a barhaodd am rywbeth mwy na thri-ugain mlynedd. Yn amser y gorthrymder gwladol hyn, yr oedd yr hen gyhuddiad yn cael ei gyfodi gan weddill y Paganiaid yn erbyn y Cristionogion, a'r holl drallod yn cael ei briodoli i anfoddlonrwydd y duwiau, am fod eu gwasanaeth wedi ei roddi fyny. Dywedent yn aml fod y byd mewn cyflwr heddychol a llwyddiannus cyn dyfodiad Crist, ond wedi ymdaeniad yr achos Cristionogol, nad oedd yn awr ond plâ a blinder yn cynyddu yn feunyddiol yn mhob goror. Fe atebwyd y gwrthddadl hyn yn fedrus iawn, gan Awstin yn ei lyfr ynghylch dinas Duw, a chan Osorius, yr hwn mewn hanes bwrpasol i'r amcan hyny, a ddangosodd yn amlwg fod blinderau o'r un natur wedi gwasgu ar drigolion y ddaear cyn sefydliad Cristionogaeth yn y byd.

Er cymmaint y trallod cydfynedol â chwyldroadau y canrhif hwn, yr oedd terfynau yr eglwys esgobaethol yn helaethu, a gwahanol lwythau yn ymresu yn mhlith Cristionogion, o leiaf mewn enw, ond mae achos credu mai nid egwyddorion cywir yn unig oedd yn effeithio yn hyn, eithr fod dyfais fydol yn dylanwadu ar laweroedd, drwy eu bod yn canfod yr achos Cristionogol yn ennill tir. Yn y dwyrain yr ydym yn cael i breswylwyr mynydd Libanus a'i amgylchoedd dderbyn Cristionogaeth drwy offeryngarwch Simeon y Stylite, ac iddo lwyddo i sefydlu addoliad Crist mewn dosbarth helaeth o Arabia; ond mae hanes ei weithrediadau wedi ei chymysgu â chymmaint o chwedlau dychymmygol y monachod, fel mae rhaid ei derbyn yn gynil, heb roddi gormod coel o barth y gwyrthiau a briodolant iddo, fel i lawer eraill o seintiau yr eglwys babaidd. Mae yn wybodus hefyd i nifer fawr o'r Iuddewon yn ynys Creta ymostwng yn broffesedig i lywodraeth Crist wedi iddynt ganfod twyll Moses Cretensis, yr hwn oedd wedi honi iddo ei hun gymeriad y Messia addawedig, ac wedi darbwyllo amryw i ymddyried ynddo er dinystr eu bywydau; ond pan fethodd gyflawnu y gwyrthiau oedd wedi gymeryd mewn llaw, llawer o'r edrychwyr a droisant oddiwrtho, gan gydnabod Iesu o Nazareth fel Eneiniog Duw a Gwaredwr dynion.

Nid ar yr un amser y dygwyd y cenedloedd Almaenaidd oll i broffesu Cristionogaeth. Yr oedd rhai o honynt wedi gweithio fel felly cyn goresgyn yr ymerodraeth Rufeinig, yn enwedig y Gothiaid, ac eraill wedi sefydlu eu teyrnasoedd anymddibynol a wnaethant yr un modd, fel y byddai iddynt gael byw fel y barnent yn fwy llonydd yn mhlith eu cymmydogion. Y gwir yw fod cymmaint o debygolrwydd rhwng dull y Cristionogion o addoli yn y canrhif hwn, a'r hyn oedd arferedig yn mysg y Paganiaid, fel nad oedd y cyfnewidiad nemawr yn rhagor na newid enw gwrthddrych yr addoliad. Barn y llwythau anwaraidd hyn oedd, gan fod y Rhufeiniaid wedi estyn eu llywodraeth dros gymmaint o dalaethau, fod yn rhaid fod y Duw a addolent yn meddu ar allu mawr i wobrwyo ei addolwyr, oblegyd yn ol tystiolaeth yr hanesydd Socrates, yr oeddent yn mesur buddioldeb crefydd wrth lwyddiant y byddinoedd a'u harddelent. Fel hyn y daeth y Burgundiaid, y Vandaliaid, a'r Suefiaid i'w galw eu hunain yn Gristionogion, ac yn fuan wedi hyny hwy a unasant â'r blaid Ariaidd, ac a fuont yn ymlynu wrthi yn awyddus am ryw dymor, er nad yw yn debyg eu bod yn gwybod ond ychydig am y gwahaniaeth oedd rhwng y blaid hon a'r blaid wrthwynebol iddi.

Yr un egwyddor, mae yn debyg, a effeithiodd ar Clovis, brenin y Saliaid, llwyth o Ffraingcod, i'w ddwyn i gofleidio Cristionogaeth. Yr oedd y tywysog hwn wedi uno llawer o anweddeidd-dra a chreulonderau â'i wrolder a'i fedrusrwydd milwraidd; a chan ei fod wedi llwyddo i oresgyn rhan fawr o'r wlad, yr oedd yn amcanu darostwng Gaul oll dan ei lywodraeth ei hun. Mae ei droedigaeth yn cael ei amseru yn y flwyddyn 396, pan oedd yn ymladd â'r Almaeniaid. Yn ei gyfyngder addunedodd os byddai i'r fuddugoliaeth droi o'i du, y gwnai o hyny allan addoli Crist, am yr hwn yr oedd wedi clywed llawer o son am ei wraig, yr hon oedd Gristionoges mewn enw; ac wedi iddo orchfygu ei wrthwynebwyr gwnaeth broffes o'r grefydd Gristionogol yn Rheims, ar ol derbyn rhyw faint o addysg oddiwrth esgob y ddinas hono. Canlynwyd ei siampl gan nifer fawr o'i ddeiliaid, fel y bedyddiwyd tua thair mil o honynt yn fuan. Mae y rhan fwyaf o hanesyddion ystyrbwyll yn cydnabod mai prif amcan Clovis oedd helaethu terfynau ei lywodraeth, er cymmaint sydd wedi ei ddweyd gan Babyddion am y gwyrthiau cydfynedol â'i droedigaeth. Mae yn debyg mai Clovis oedd y cyntaf o freninoedd y cenedloedd barbaraidd ag oeddent yn awr wedi rhuthro ar y Rhuf-

eiliaid a fedyddiwyd i'r ffydd, ac mai o herwydd hyn mae brenin Ffrainge hyd heddyw, yn cael ei gyfrif yn fab henaf Eglwys Rhufain. Ond nid oedd proffes Clovis, na dychweliad ei ddeiliaid, yn elw mewn un ystyr i grefydd Crist, gan mai nid egwyddorion yr efengyl oedd yn cael y bri yn y pumed canrhif, ond dychymmygion yr offeiriadaeth, a phenderfyniadau yr esgobion uchelfrydig a choel-grefyddol.

Ar y cyfan, yr oedd eglwysi Ynys Prydain, hyd yma, yn mwynhau gradd o heddwch yn eu plith eu hunain; ac nid oes genym hanes eu bod wedi ymadael yn mhell oddiwrth yr athrawiaeth apostolaidd, nac oddiwrth y gyfundraeth ymarferol a gymeradwyir yn y Testament Newydd. Ond mae yn sicr eu bod yn cydagweddu i ryw fesur, a gweithrediadau yr eglwys gyffredinol, ac fod y drefn esgobaethol yn gwneuthur peth ffordd yn eu plith, oblegyd yr ydym yn cael mor foreu a'r flwyddyn 314, fod Ifor, esgob Caerefrog; Rhystyd, esgob Llundain; a Brawdol, esgob Caerlleon-ar-Wysg; ynghyd a Sacerdos, henuriad; ac Armin, diacon o'r lle olaf, yn nghymanfa Arles. Oddiwrth hyn yr ydym yn canfod fod gwahaniaeth yn cael ei gydnabod y pryd hwnw rhwng yr esgob a'r henuriad, yr hyn, fel y barnwn, nad yw yn cael ei ddal allan yn yr epistolau santaidd. Mae y dysgedig Stillingfleet yn nodi fod yr eglwysi Brytanaidd yn y pedwerydd can'rhif yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eglwysi y Cyfandir yn eu dull o addoli, ac nad oeddent eto wedi ymadael oddiwrth symledd yr efengyl. Ond tua dechreuad y pumed canrhif, pan oeddent yn mwynhau gradd helaeth o dawelwch ac ymgeledd allanol, a chyfoeth a dylanwad bydol, hwy a ymroisant i ddilyn siampl yr eglwysi pellenig, gan adeiladu addoldai godidog, a'u haddurno, fel eraill, â lluniau a delwau, tebyg i eiddo y Paganiaid cyntefig. Daeth yr offeiriaid hefyd i wisgo gwisgoedd tebyg i wisgoedd yr offeiriaid paganaidd gynt, a lluosogwyd yr ymprydiau, y gwyliau, a'r defodau yn raddol yma, fel mewn gwledydd eraill; ac yr ydym yn cael, yn ol tystiolaeth Jerome, ei fod yn cael ei gyfrif yn beth crefyddol gan y Brytaniaid, fel llawer eraill, i ymweled â gwlad Judea, a'u bod yn edrych ar hyn fel prawf arbenig o gariad at Dduw, a sel dros ei ogoniant.

Yr ydym wedi cael achos i nodi mewn erthygl flaenorol fod y dull monachaidd o fyw wedi dechreu yn foreu yn yr Aifft, ac iddo ymdaenu yn raddol dros ran fawr o Ewrop. Pa bryd y dechreuodd hyn yn Ynys Prydain sydd beth lled anhawdd i'w benderfynu, ac i ba helaethder yr oedd yn ffynu cyn diwedd y canrhif blaenorol sydd ansicr, yn gymmaint ag nad oes hyder fawr yn ddyledus i ysgrifonwyr yr oesoedd tywyll. Ond ymddengys ar sail ddiymwad fod y gyfundraeth mewn llawer o fri yn y canrhif hwn, ac fod sefydliadau o'r fath yn bodoli mewn amryw ranau o'r ynys hon. Un o'r rhai mwyaf enwog o'r rhai hyn oedd Bangor-is-y-coed, yn swydd Fflint, yn Nghogledd Cymru. Mae rhai yn barnu i'r athrofa hon gael ei dechreu gan Lleurwg, tua diwedd yr ail ganrhif, pan mae eraill yn ei phriodoli i Dynod Fawr a'i feibion, yn y chweched; ond amlwg yw ei bod yn bodoli cyn amser Dynod, yn gymmaint ag mai oddiyno yr aeth Pelagius allan, yr hwn yn ddiymwad oedd yn byw yn foreu yn y pummed canrhif. Yr oedd Caerworgan hefyd yn enwog am sefydliad athrofaol o'r un natur, a ddechreuwyd, fel y dywedir, gan Cystenyn Fendigaid, mab Cynfor, ond a ddinystriwyd gan y Gwyddelod, ac a adferwyd wedi hyny drwy gyfarwyddyd Garmon, dan yr enw Llanilltyd Fawr. Ond yr oedd y myfyrwyr yn y sefydliadau hyn yn wahanol iawn yn eu dull o fyw oddiwrth y rhai a'u canlynasant mewn amser wedi hyny, oblegid yr oeddent yn cynnal eu hunain yn gymmedrol drwy lafur eu dwylaw; a thra byddai rhai o honynt yn ymroddi i wasanaeth crefyddol byddai y rhai eraill yn eu cylch yn ymwneud ag achosion a gorchwylion tymhorol; ac fel hyn yr oeddent yn darparu at gyfreidiau eu gilydd.

Yr oedd cyflwr gwladol y Brytaniaid yn resynus iawn yn y canrhif hwn, drwy fod Macsen Wledig wedi cymeryd cynnifer a thriugain mil o flodau ieuengctyd Prydain gydag ef i'r Cyfandir, mewn bwriad i oresgyn ymerodraeth Rhufain, a thraws-feddiannu yr orsedd. Ni ddychwelodd un o'r rhai hyn i'w gwlad enedigol, eithr cynnifer ag na laddwyd yn y rhyfeloedd Rhufeinig a arosasant yn Llydaw, lle yr oedd Conan Meiriadog wedi ei sefydlu yn frenin gan Macsen Wledig. Pan oedd y Brytaniaid fel hyn yn amddifad o nerth milwraidd i amddiffyn eu gwlad, y Pictiaid a'r Scotiaid a ruthrasant arnynt, fel y gorfu iddynt ymbil ar y Rhufeiniaid am ymgeledd a chynorthwy. Fe gydsyniwyd â'u cais y tro cyntaf, ond yn mhen amser gorfuwyd y Rhufeiniaid i atal eu hymyraeth â'r wlad hon, drwy fod y llwythau Barbaraidd yn ymosod yn ffyrnig ar wahanol dalaethau yr ymerodraeth, ac felly y cafodd ein cyn-dadau eu gadael iddynt eu hunain, wedi bod dan nawdd y Rhufeiniaid am tua phedwar cant a phedwar ugain o flyneddoedd. Yn yr amgylchiad hwn, pan oedd eu gelynion gogleddol yn gwasgu arnynt yn ddidrugaredd, y gorfuwyd y Brytaniaid i geisio cymhorth y Saeson, un o genedloedd rhyfelgar yr Almaen, ac mae y canlyniad yn wybodus i bob Cymro.

Ond nid trallod gwladol yn unig a syrthiodd i ran y Brytaniaid yn y canrhif hwn, eithr cyfododd gofid o natur arall. Hyd yma nid oeddent wedi cael eu blino yn helaeth gan gyfeiliornadau athrawiaethol. Mae yn wir i rai o Gristionogion yr ynys hon dderbyn athrawiaeth Arius yn fuan ar ol Cymanfa Arminium, drwy offeryngarwch rai o'r esgobion, mae yn debyg, ag oedd o Frydain yn genhadon yn y cyfarfod hwnw; ond er i hyn beri peth blinder am dymor, ni fu ei barhad ond byr. Ond yn awr yr oeddent mewn trallod mwy pwysig, drwy fod un wedi cyfodi yn eu plith eu hunain oedd yn taenu athrawiaeth anghysson â'r dadguddiad ysbrydoledig. Enw awdwr y gyfundraeth gyfeiliornus oedd Morgan, ac yn athrofa Bangor-is-y-coed y dechreuodd ddynoethi ei syniadau. Brodor oedd o'r ynys hon, ac yr oedd wedi ennill enwog-

rwydd am ddysg a chrefyddoldeb. Pan oedd yn ymadael â'r wlad hon er mwyn ymweled à gwahanol wledydd pellenig, cymerodd yr enw Pelagius, ac wrth yr enw hwn y mae yn fwyaf adnabyddus i hanesyddion eglwysig. Yr oedd iddo gydymaith o'r enw Celestius, Gwyddel, yn ol rhai hanesion, o genedl. ac o'r un farn ag ef ei hun, a theithiasant drwy wahanol wledydd. gan daenu eu syniadau, er llawer o flinder i'r Cristionogion, am dymor hir. Y syniadau a briodolir iddo fu yn cyfansoddi ei gyfundraeth gyfeiliornus, ydynt y rhai canlynol; sef fod Adda wedi ei greu yn greadur marwol—nad oedd pechod Adda yn niweidio neb ond ef ei hun yn unig—fod y ddeddf yn cymhwyso dyn i deyrnas nefoedd, ac wedi ei seilio ar addewidion mor gyflawn a'r efengyl—fod rhai dynion, cyn dyfodiad Crist, yn byw yn ddibechod—fod babanod yn yr un cyflwr o berffeithrwydd moesol ag ydoedd Adda cyn ei drosedd—mai nid anufudddod Adda yw achos marwolaeth holl ddynolryw, ac nad yw yr adgyfodiad cyffredinol yn effaith adgyfodiad Crist;—y gallai dyn, pe bai yn ymdrechu, gadw holl orchymynion Duw heb un anhawsder, a chadw ei hun mewn cyflwr o ddiniweidrwydd perffaith—er i gyfoethogion gael eu derbyn, a byw yn rhinweddol drwy eu bywyd, nas gallent fod yn gadwedig heb aberthu eu holl olud;—nad yw gras a chymhorth Duw yn cael ei roddi i gyflawnu pob gweithred foesol, eithr fod ewyllys rydd, a gwybodaeth o ddyledswydd, yn ddigon i hyny—fod gras Duw yn cael ei roddi yn gyfatebol i haeddiant dyn—nad all neb gael eu galw yn blant Duw, oddieithr eu bod yn hollol ddibechod—mai drwy ryddid ei ewyllys, ac nid drwy ras Duw, y mae i ddyn gael'y fuddugoliaeth ar brofedigaethau. (*Warner's Eccles. Hist., Vol. I., p.* 23. *Mosheim's Eccles. Hist., Cent V., ch. v., sect.* 23. *Hanes Crefydd, gan D. Peter, Can. V.*)

Dyma yr athrawiaeth a ddysgai Pelagius, ac aeth i Rufain i'w chyhoeddi, a bu yn dderbyniol yno am ryw dymor, a'i athrawiaeth mewn cymeradwyaeth gan Zosimus, esgob y ddinas hono; ond ar ei ddyfodiad i Rufain, ymadawodd Pelagius a'i gyfaill, ac aethant i Affrica, gan gyhoeddi eu barn gydag amlygrwydd ychwanegol. Oddiyno aeth Pelagius i Palestina, ac fe'i derbyniwyd yn frawdol gan Ioan, esgob Jerusalem; ond arosodd Celestius yn Carthage, a chan nad oedd yn celu ei syniadau, ymroddodd Awstin, esgob Hippo, i wrthwynebu ei athrawiaeth, ac fe'i condemniwyd mewn cymanfa a gynnaliwyd yn Carthage; ac yn y canlyniad, ymadawodd Celestius, gan wynebu tua y dwyrain. Ond pan glywodd Awstin fod Pelagius a'i gyfaill yn llwyddo yn y dwyrain, ysgrifenodd yn eu herbyn, ac a anfonodd Osorius i'w cyhuddo mewn cymanfa a gynnaliwyd yn Jerusalem; ond gan fod Ioan, esgob Jerusalem, yn ffafriol i'w barn, ni wnaeth y gymanfa hono amgen na'u gollwng ymaith yn ddigerydd; ac yn mhen ychydig wedi hyny fe'u cyhoeddwyd yn nghymanfa Diospolis yn iach yn y ffydd; ond fe'u heuog-farnwyd yn nghymanfa Ephesus, ac unodd Zosimus i'w hanghymeradwyo yn y modd mwyaf penderfynol, er ei fod yn flaenorol wedi eu cefnogi, ac o'r pryd hwn yr oedd y ddadl yn cynhyrfu 'yr holl eglwys, pell ac agos.

Nid yw yn ymddangos i Pelagius ddychwelyd byth i Ynys Prydain, ond taenwyd ei athrawiaeth i raddau lled bell gan gyfeillion iddo ag oeddent o'r un farn ag ef ei hun; nid oes genym sail i feddwl i'w gyfeiliornadau gael derbyniad cyffredinol. er nad oedd digon o nerth i'w gwrthsefyll ar gael yn mhlith y gweinidogion. Yn yr amgylchiad hwn hwy a geisiasant gymhorth, eu brodyr yn Ffraingc, ac anfonwyd Garmon, esgob Auxerre, a Lupus, esgob Troyes, i'w cynorthwyo; y rhai, wedi eu dyfodiad, a ddechreuasant eu gwaith gyda llawer o ddiwydrwydd, drwy bregethu a dadleu yn erbyn y daliadau newyddion. Cynnaliwyd dadl gyhoeddus hefyd yn St. Alban, rhwng blaenoriaid y ddwy blaid, yn yr hon y barnwyd Garmon a'i gyfaill yn fuddugoliaethus, a meddyliwyd y pryd hyny fod y cyfeiliornad wedi ei gladdu am byth. Ond wedi i Garmon ymadael, plaid Pelagius a ymwrolodd eilwaith gyda diwydrwydd mawr, a gorfuwyd eu gwrthwynebwyr i geisio cymhorth drachefn o'r Cyfandir, a dychwelodd Garmon a Severus, esgob Treves, gydag ef; a chawsant, er eu llawenydd mawr, nad oedd y gwrthgiliad wedi ymdaenu mor belled ag yr oeddent wedi ofni. Dywenydd genym fyddai ychwanegu na wnaeth yr esgobion hyn ddefnyddio un mesur anghyfreithlon yn eu hymgais; ond y mae parch i'r gwirionedd yn ein rhwymo i nodi na wnaethant ymddibynu yn hollol ar nerth arfau ysbrydol, eithr iddynt ddarbwyllo y llywodraethwyr gwladol i gymeryd rhan yn y gorchwyl, ac alltudio y Morganiaid am eu cyfeiliornad, fel pe na buasent yn meddu hawl i farnu drostynt eu hunain. Fel hyn y darostyngwyd athrawiaeth Pelagius yn yr ynys, o leiaf, am ryw dymor.

Er mor isel oedd cyflwr y Brytaniaid mewn ystyr wladol a chrefyddol yn y canrhif hwn, yr oedd yma lawer o ddynion duwiol a defnyddiol yn achos Crist, ac yn eu plith y gellir cyfrif Brychan, tywysog Carthmarthryn, a enwir yn gyffredin Brychan Brycheiniog. Yr oedd ganddo deulu lluosog, ac fe'u dygodd i fynu i wasanaeth crefydd, a buont oll o ddefnyddioldeb mawr i'w cyd-amserwyr, ac amryw o honynt a seliasant eu tystiolaeth drwy ddyoddef merthyrdod. Yr oedd teulu Cynnedda Wledig hefyd mor enwog yn y canrhif hwn, fel y mae yn cael ei gyfrif gyda theuluoedd Bran a Brychan, yn cyfansoddi tri theulu santaidd Ynys Prydain. Mae ysgrifenyddion ein gwlad yn honi mai Cymro, genedigol o Aberllwchwr, oedd Padrig, apostol Iwerddon, a'i fod yn arolygwr athrafa Caerworgan tua diwedd y pedwerydd canrhif, pryd y rhuthrodd y Gwyddelod ar y rhan hyny o'r ynys, ac y cymerasant ef yn garcharor, ac a'i harweiniasant i'r Iwerddon, lle y dechreuodd bregethu gyda nerth a llwyddiant mawr. Yr oedd ymgais wedi ei wneuthur o'r blaen i daenu gwybodaeth o'r efengyl yn mhlith preswylwyr anwaraidd yr ynys hono, ond Padrig fu yn offerynol i ddwyn lluoedd o honynt i ufudd-dod ffydd, ac o herwydd hyny y mae yn cael ei ystyried hyd heddyw fel eu sant

ymgeleddol. (*Achau Saint Ynys Bryd. Camb. Biog. dan y gair Padrig; Hanes Crefydd gan D. Peter, p.* 108.)

Gan ei fod yn ymddangos nad oedd cyfeiliornadau Pelagius yn ddim amgen nag ymgais ddwyn i mewn egwyddorion Derwyddiaeth i'r gyfundraeth Gristionogol, yr ydym yn cael nad oedd neb o'r Derwyddon dychweledig, wedi ail-ymweliad Garmon â'r ynys hon, yn cael gweinidogaethu yn eglwysi Prydain. O gylch yr un amser hefyd dygwyd i mewn y ffurf o weddiau ag ydoedd mewn ymarferiad yn eglwysi Ffrainge, fel y byddai mwy o gydffurfiad rhwng eglwysi Brydain ag eglwysi y cyfandir. Gosodwyd athrofa i fyny hefyd yn Llancarfan, dan olygiaeth Dyfrig Beneurog, brodor, fel y dywedir, o Abergwaun, swydd Benfro, yr hon a fu yn enwog iawn am dymor hir; ac ynddi yr addysgwyd nifer fawr o wyr ieuainge a fu yn addurniadau dysglaer i eglwysi Crist yn eu hamser. Dywedir hefyd i athrofa gael ei sefydlu yn y canrhif hwn yn y Tŷ Gwyn ar Daf, yn swydd Gaerfyrddin; ac i hon, fel Llanilltyd a Llancarfan, fod yn enwog iawn am rai oesau wedi hyny. Er mai amser tymhestlog oedd hwn i'r genedl yn gyffredinol, nid oedd dysgeidiaeth yn ddiwerth yn ngholwg eiu cyn-dadau; ac er fod gormod tuedd i gyd-agweddu ag eglwysi dirywiedig gwledydd eraill yn bodoli yn yr ynys hon, nid oedd eu cyflwr etto can ddryged ag eiddo eu cymmydogion.

Yr oedd cyflwr yr eglwys gyffredinol, fel yr oedd yn cael ei chyfenwi mewn ffordd o wahaniaeth oddiwrth yr Ymneillduwyr, yn hynod o lygredig yn yr oes hon. Nid yr ysgrythyr oedd mwy yn faen-brawf athrawiaeth, eithr yn ol penderfyniadau y cymanfaoedd esgobaethol, yr oedd y cyfan yn cael ei gollfarnu neu ei gymeradwyo, er fod yr un gyfundraeth wedi ei chymeradwyo weithiau mewn un cymanfa, a'i chollfarnu mewn un arall. Yr oedd hyn, fel y gallesid dysgwyl, yn achos o ddadleuon ffyrnig rhwng yr esgobion yn fynych; ac yr oedd y dadleuon hyn am byngciau ffydd yn cael eu dwyn yn mlaen yn ol dull y philosophyddion o ymresymu, nes oedd y cyfan yn grugiwyth o dywyllwch, nad oedd neb yn cael eu hystyried yn addas i'w ddirnad ond yr offeiriaid eu hunain. Ond pell iawn oeddent oddiwrth effeithio unoliaeth barn, hyd y nod am y pyngciau mwyaf pwysig, megys person Crist; ac nid oedd hyny yn un rhyfeddod, gan eu bod wedi ymadael â'r gair a'r dystiolaeth, ac yn dilyn dychymmygion ofergoelus, yn lle y dadguddiad a roddwyd drwy ysbrydoliaeth Duw.

Mae yn wir fod rhyw nifer, hyd y nod yn y pummed canrhif, wedi ymgadw i ryw fesur oddiwrth y dirywiad cyffredidol, er nad oeddent yn meddu ar ddigon o wrolder i ymneillduo, ac fod rhai o honynt yn ddynion galluog, duwiol a rhinweddol. Er fod y rhan amlaf o weithiau awdurol y canrhif hwn o natur ddadleugar, eto yr ym yn cael fod rhai unigolion wedi ymroddi i esbonio yr ysgrythyrau gyda gradd o sobrwydd, ac yn eu plith y cyfrifir Theodoret a Theodore, y rhai a gydnabyddir gan y dysgedigion yn ysgrifenwyr canmoladwy, ac ystyried yr amser yr oeddent yn byw ynddo. Cyril, o Alexandria, hefyd, a ysgrifenodd esboniad ar ran o'r ysgrythyr; ac mae Isodor, o Pelusium, yn cael ei gyfrif yn ysgrifenydd cymeradwy. Ond am y rhan fwyaf o esbonwyr Groegaidd a Lladinaidd yr oes hon gellir dweyd eu bod wedi dilyn dychymmygion Origen, ac esgeuluso meddwl amlwg yr ysgrifenwyr santaidd, yn enwedig yn eu hymgais i esbonio yr Hen Destament, fel mai gwell fuasai bod heb eu gwaith na'i feddiannu, gan mai eu prif amcan oedd cael allan ryw beth amgen na'r hyn a fwriedid gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig.

Byddai darluniad o'r holl ddefodau coelgrefyddol a ddygwyd i arferiad yn y canrhif hwn, yn ddigon i lanw cyfrol anghymmedrol. Mae rhai o'r hen awduron nad oeddent wedi eu dallu gan gyfeiliornadau yr amser, yn cyfaddef fod crefydd a rhinwedd megys wedi eu mogi gan y pentwr dirfawr o wag-ddefodau, ag oedd mewn bri drwy anwybodaeth ac anonestrwydd yr offeiriadaeth, a llygredd y werinos. Yr oedd y dull o addoli yn awr yn cyfodi yn barhaus o un gradd i radd arall o rwysg a rhodres, a'r offeiriaid yn ymdrwsiadu yn y modd mwyaf chwyddedig, a phob peth yn dangos mwy o ymgais i foddhau llygaid yr addolwyr nag i santeiddio eu calonau. Cynyddwyd hefyd rifedi y gwyliau, ac ychwanegwyd addurniadau yr addoldai, a gosodwyd i fynu mewn manau addoliad parhaus, drwy fod un rhes o addolwyr yn cymeryd lle rhes arall, ac felly y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ddiatalfa ddydd a nos; ac nid oedd dim yn cael mwy o barch na'r gweddillion cyssegredig, megys esgyrn merthyron, a phethau o'r fath hyny, y rhai a gedwid yn yr eglwysi mewn blychau pwrpasol o arian pur. Dyma y pethau a gyfrifid yn grefyddoldeb yn y pumed canrhif, ac fel yr ydoedd y defodau hyn yn enill tir, yr oedd edifeirwch, ffydd, a chariad yn iselhau yn nghyfrif y werinos, a'r cyfan a berthynai i iachawdwriaeth yr enaid yn cael ei gyflwyno i ofal yr offeiriaid, yr un modd ag y gwnai gwr gyflwyno achos cyfreithiol i ofal dadleuwr dysgedig, i'w drin mewn llys gwladol.

Yr oedd buchedd y Cristionogion yn y canrhif hwn wedi dirywio mor belled fel y gorfuwyd yr esgobion i roddi atalfa ar y cariadwleddoedd, oeddent gynt mor gyfrifol yn mhlith y saint. Nid oeddent, mwyach, yn gyfarfodydd santaidd yn ngwydd yr Arglwydd, eithr yn gyfleusderau anfoesoldeb ac aflendid, ac fel y cyfryw yn annyoddefol, hyd y nod yn marn yr offeiriadaeth halogedig.—Mae yn amlwg i'r neb a chwilio hanes Cristionogaeth, fod cyssylltiad anwahanol rhwng egwyddorion y Testament Newydd â santeiddrwydd ymarferol. Tra yr ydoedd y Cristionogion yn glynu wrth egwyddorion yr efengyl, yr oedd hyd y nod gwrthgilwyr yn gorfod cyfaddef nad oedd dim anfoesoldeb yn cael ei oddef yn eu plith, ond yn awr wele ymadawiad oddiwrth yr egwyddorion efengylaidd yn ffrwythloni, ac anfoesoldeb yn ymdaenu, ac atalfa ar eu cyfarfodydd cyfrinachol yn cael ei farnu yn angenrheidiol, o herwydd y cam-ddefnydd oedd yn cael ei wneuthur o'r fath gyfleusderau. Na feddylied neb mai peth

neillduol i'r pummed canrhif oedd hyn. Mae cyfeiliornadau hyd heddyw yn tueddu at lygredigaeth, ac nid oes gwrth-feddyginiaeth effeithiol yn erbyn anfoesoldeb o bob math, ond yn unig dylanwad y gwirionedd yn ei burdeb gwreiddiol ar y galon; ac mae pob ymadawiad oddiwrth y gwirionedd yn tueddu i ddwyn allan ffrwyth i farwolaeth.

Yr oedd llygredd yr offeiriaid wedi cynyddu yn awr i raddau annyoddefol, fel y mae pob hanesydd teilwng o gredimiaeth yn ei nodi, gyda yr anghymeradwyaeth mwyaf penderfynol. Yr ydoedd yr esgobion, yn enwedig y rhai mwyaf cyfoethog, yn cynnal math o lysoedd, a swyddogion is-raddol oddi tanynt yn trin achosion yr esgobaeth, a hwythau yn byw mewn rhwysg, moethau, a balchder, yn ol dull y byd hwn. Yr henuriaid hefyd oeddent lawn o uchelgais a rhodres, ac yn edrych arnynt eu hunain yn radd freiniol, fel gwnai Martin, o Tours, unwaith honi yn gyhoeddus, fod dyn yn swydd henuriad yn meddu mwy o urddas na'r ymerawdwr ei hun. Ac am y diaconiaid, yr oedd eu balchder a'u penrhyddid yn anfesurol, fel mae yn amlwg oddiwrth y penderfyniadau a ffurfiwyd mewn gwahanol gymanfaoedd yn eu hachos. Yr oedd rhan fawr o'r blaenoriaid Almaenaidd yn awr yn proffesu Cristionogaeth, ac hefyd yn foddlon ddigon i ddull y gyfundraeth offeiriadol, gan ei bod yn hollol debyg i'r hyn oeddent wedi arfer weled yn mhlith y paganiaid; a chan nad oeddent yn ystyried crefydd ond llawforwyn i ymgeisiadau uchelfrydig, yr oeddent yn barod i gefnogi dylanwad yr esgobion, gan ddysgwyl, mewn ffordd o ad-daliad, i'r dylanwad hyny gael ei wneuthur yn wasanaethyddol i'w hamcanion eu hunain.—Yr oedd y wlad a'r eglwys wedi ymbriodi, a'r naill yn barod i gynorthwyo y llall, ond nid ar egwyddorion efengyl Crist, eithr yn ol dyfais tywysogion y ddaear, ac oddiar y cyssylltiad hyn y cyfododd nerth yr offeiriadaeth i dywys rhan fawr o drigolion y ddaear i gaethiwed llawer mwy erchyll na chaethiwed Israel yn ngwlad yr Aifft; a sicr yw, na bydd i'r caethiwed hwn gael ei ddifodi nes byddo i'r cyssylltiad hyn gael ei ddiddymu drwy y byd, a chrefydd gael ei gosod i orphwys ar ei seiliau cyntefig.

Yn ngwyneb y dirywiad mawr a ganfyddir yn yr canrhif hwn yn yr eglwys gyffredinol, mae yn ddymunol troi at ymneillduwyr, ac edrych ar eu gweithrediadau, oblegyd yn eu plith hwy y canfyddir cymmaint yn agos ag sydd ar gael bellach o grefydd y Testament Newydd yn ei hegwyddorion a'i harferiadau cyntefig. Yr ydym wedi son yn barod am y Novatiaid, fel plaid o ymneillduwyr oeddent yn dal y ffydd yn ei phurdeb, ac yn glynu wrth reolau y Testament Newydd gyda sêl a diwydrwydd. Er cael llawer o wrthwynebiad oddiwrth y blaid lywodraethol yr oeddent yn gorff lluosog yn y pumed canrhif! ac yr oedd Duw, yn ei drugaredd, wedi codi yn eu plith ddynion ragorol o bryd i bryd i'w porthi â gwybodaeth; ac yn mhlith y rhai hyn yr ydym yn cael Acesius, Agelius, Sisinnius, a Chrysanthus, y rhai a fuont yn oleuadau dysglaer yn ffurfafen eglwys y Novatiaid yn eu hamser, a thrwy eu llafur diwyd a diflin cynyddodd y blaid, a dychwelwyd nifer fawr i'r ffydd. Yn nechreuad y canrhif hwn yr oedd llawer o eglwysi o'r cyfenwad yma yn ninas Alexandria, pan y gosodwyd Cyril yn esgob gan y blaid lywodraethol. Yr oedd esgobion y ddinas hono er ys tro yn honi awdurdod mawr mewn gwlad ac eglwys; ac nid oedd Cyril yn debyg o ollwng o'i law yr hawl a honai ei ragflaenoriaid. Un o'i weithredoedd blaenaf, gan hyny, oedd cau i fyny addoldai y Novatiaid, a'u hysbeilio o bob addurn, yngbyd ag ymddifadu Theopomptus, eu hesgob, o'i holl feddiant. Ac mae'r hanesydd Socrates yn ein hysbysu i Innocent, esgob Rhufain, ddilyn siampl Cyril, drwy gymeryd meddiant o amryw o'u heglwysi yn Rhufain; ond Celestins, yr hwn a ganlynodd Innocent, a'u triniodd greulonaf, drwy eu hysbeilio o'u holl addoldai yn y ddinas ymerodrol, a'u gorfodi i gynnal eu cyfarfodydd mewn tai annedd, a hyny yn y lleoedd mwyaf dirgel.

Nid oeddent yn gallu eu cyhuddo o un cyfeiliornad nac anfoesoldeb, ac er hyny yr oeddent yn eu trallodi, am eu bod yn anghymeradwyo y gyfundraeth anysgrythyrol a llygredig ag ydoedd mewn gweithrediad dan nawdd yr esgobion; ac yn penderfynu ymwrthod â'r dull coel-grefyddol yn ol yr hwn yr oeddent yn ymlwybro ac yn arwain y cyffredin. Ond yn Nghonstantinopl yr oeddent yn cael triniaeth mwy tyner, ac yr oedd nifer fawr o honynt yno; ac efallai mai eu lluosogrwydd a'u dylanwad oedd yr achos o'r tynerwch, gan mai dyfais ddynol, ac nid cyfraith Crist, oedd yn awr yn rheoleiddio mesurau yr esgobion. Mae yn anhawdd edrych ar hanes y blaid hon heb ei chymharu â'r Puritaniaid gynt; ac nid oes nemawr o wahaniaeth rhwng y driniaeth a gawsant gan yr esgobion a'r hyn a ddyoddefwyd gan ein tadau am wrthod awdurdod ddynol mewn achosion cydwybod, a phenderfynu addoli Duw yn ol ei Air, yn hytrach nag ymostwng i benderfyniadau esgobion, &c. *Sacrates, lvii. Lardner, Vol. iii, c.* 47.

Yr oedd plaid y Donatiaid hefyd yn y canrhif hwn yn nerthol ac yn llwyddiannus, ac o ran eu hegwyddorion yn debyg iawn i'r Novatiaid. Nid ydynt yn cael eu cyhuddo o ddal un athrawiaeth gyfeiliornus; ac mae yn wybodus fod eu dysgyblaeth yn llym, a'u hymarweddiad yn ddiargyhoedd; ond y mae yn sicr eu bod yn ail-fedyddwyr yn synwyr priodol yr ymadrodd, oblegyd yr oeddent yn ystyried nad ydoedd yr eglwys gyffredinol mwyach yn gorff efengylaidd, eithr yn fath o sefydliad bydol, ac o ganlyniad nad oedd gweinyddiad bedydd gan ei gweinidogion i'w gyfrif o un effaith; ac o herwydd hyn yr oeddent yn bedyddio y neb a dderbynient i'w cymdeithas, er ei fod wedi ei fedyddio yn flaenorol gan y blaid oddiwrth yr hon yr oeddent wedi ymneillduo. Fe ddywedir eu bod mor lluosog yn Affrica, fel nad oedd braidd ddinas heb gynnulleidfa o honynt; ac mor gyfrifol hefyd, fel yr oeddent wedi enill sylw rhai o'r ymerawdwyr Rhufeinig, ac ymgeisiadau aflwyddiannus wedi eu gwneuthur gan yr awdurdodau gwladol i'w huno drachefn

â'r eglwys gyffredinol. Ond yn foreu yn y pumed canrhif ymroddodd Awstin, esgob Hippo, â'i holl egni i'w gwasgu i ddistawrwydd; a phan fethodd wneuthur hyny drwy ysgrifenu yn erbyn eu daliadau, fe lwyddodd, ynghyd a'i gymdeithion, i gael cenadwriaeth oddiwrth gynghor Carthage at Honorius, Ymerawdwr Rhufain, i ddymuno am i'r cyfreithiau oeddent mewn bodoliaeth yn erbyn hereticiaid gael eu gosod mewn gweithrediad yn erbyn y Donatiaid.

Y cam cyntaf a gymerodd yr ymerawdwr, wedi derbyn y cais, oedd gosod dirwy ar bob un o'r Donatiaid a wrthodai ddychwelyd yn ol i fynwes yr eglwys gyffredinol, ac alltudio eu holl esgobion ac athrawon; ond yn ystod y flwyddyn ganlynol gwnaeth ddarpariad llawer mwy llym yn eu herbyn, dan yr enw *cyfraith yr unffurfiad.* Ond gan nad oedd swyddogion Affrica yn awyddus i ymaflyd yn y mesurau hyn, anfonwyd cenhadau drachefn i Rufain i ymbil ar yr ymerawdwr i ddarparu swyddogion i ddwyn y cyfreithiau hyn i weithrediad llym ac anmhleidgar, a chaniatawyd yr hyn a geisiwyd. Ond bu hyn yn debyg o achosi canlyniadau gresynus i'r wlad yn gyffredinol, drwy i lu gyfodi i amddiffyn y Donatiaid, a chyfansoddi byddin i'r amcan hyny. Fel y gellesid dysgwyl, mae y trallod hwn yn cael ei briodoli gan bleidwyr yr esgobaeth yn gyffredinol i'r Donatiaid, ond hawdd i'r darllenydd diduedd ganfod mai uchelgais yr esgobion ydoedd gwreiddyn yr holl flinder, ac nid oes modd i esgusodi Awstin fel un o'r rhai mwyaf ffyrnig yn yr ymrafael, er mor uchel yw ei enw yn marn amddiffynwyr y crefyddau gwladol. Yr oedd y Donatiaid yn awr, ar gais yr esgobion, yn cael eu trin yn agos yr un modd ag oeddent y Cristionogion gynt yn cael eu trin gan y paganiaid, er nad oedd un bai neillduol yn cael ei brofi yn eu herbyn, ond eu bod yn anturio i farnu drostynt eu hunain, ac i ddwyn yn mlaen eu gweithrediadau crefyddol yn ol cyfraith eu Harglwydd. Am hyn yr oeddent yn cael eu dirwyo, eu hysbeilio, eu halltudio, eu carcharu, a'u llofruddio, a hyn oll yn cael cymeradwyaeth dynion a enwent enw Crist. Dyma ffrwyth cyssylltiad crefydd â'r llywodraeth wladol, yn ymddangos yn foreu yn ei liw a'i ddull ei hun.

Er i'r mesurau anghyfreithlon hyn wanychu plaid y Donatiaid, nid oeddent yn ddigonol i'w difodi, a thua y flwyddyn 408 hwy a enillasant ran o'u dylanwad blaenorol wedi i Stilicho gael ei roddi i farwolaeth ar orchymyn Honorius, a'r flwyddyn ganlynol cyhoeddwyd ysgrifen ymerodrol oedd yn dyogelu rhyddid cydwybod i bawb, ac yn atal pob gormes mewn achosion crefyddol. Ond nid hir y bu hon mewn gweithrediad, oblegyd yr oedd yn cael ei hanghymeradwyo gan yr esgobion, a chynnaliwyd cymanfa ganddynt yn Ngharthage yn y flwyddyn 410, a llwyddasant drwy daer gais y cyfarfod hwnw i ddarbwyllo yr ymerawdwr i alw y gyfraith haelfrydig hon yn ol. Yn y canlyniad, anfonwyd seneddwr o'r enw Marcellinus, o Rufain i Affrica, i geisio cymmodi y pleidiau, neu yn hytrach i ddwyn y Donatiaid i ymostwng i'r esgobion llywodraethol, a chynnaliwyd cynghor cyffredinol i'r amcan hyny yn Ngharthage, yn y fl. 411. Yn y cynghor hwn, fel y gallesid dysgwyl, collfarnwyd y Donatiaid, ond yr oedd eu pleidwyr mor lluosog, fel yn mhlith 565 nad oedd y mwyafrif yn eu herbyn ond saith o bersonau. Wedi eu gorchfygu hwy a appeliasant at yr ymerawdwr, ond yr oedd dylanwad yr esgobion yn rhy nerthol, ac felly bu eu cais yn aflwyddiannus.

Yn ganlynol i'r oruchafiaeth hyn cafodd y Donatiaid eu herlid yn ddidrugaredd gan y blaid fuddugol, a darostyngwyd eu hachos i iselder galarus, fel y gorfuwyd nifer fawr i ymostwng i lywodraeth yr esgobion. Yr oeddent yn cael eu dirwyo, eu hysbeilio, eu carcharu, a'u halltudio, ac hyd y nod eu llofruddio am ddim amgen na'u hymneillduad oddiwrth y blaid lywodraethol, a'r creulonderau hyn yn cael eu gwisgo ag enw sel dros ogoniant Duw, a gofal am eneidiau dynion! Llawer o honynt a ymguddient rhag llid eu gelynion yn ogofeydd y ddaear, ac eraill a ffoent i blith dyeithriaid; a rhaid ychwanegu, i nifer fawr o honynt ymresu yn myddinoedd y *Circumcelliones*, ac amddiffyn eu hachos ar faes y gwaed gyda yr holl ffyrnigrwydd sydd yn cyfodi yn gyffredin oddiar anobaith. Ond wedi y cyfan, ni ddiddymwyd y blaid hon drwy yr holl erledigaeth a gyfododd yn eu herbyn, eithr cawsant adgyfnerthiad adnewyddol pan oresgynwyd Affrica gan Genseric a'i fyddinoedd Vandalaidd, yn y flwyddyn 427; ac yn y canlyniad cafodd yr esgobion yr un driniaeth oddiwrth y barbariaid ag oedd y Donatiaid wedi gael oddiwrthynt hwythau; ac er gwneuthur y cwpan yn fwy chwerw, gwnai Genseric, a'i fab Huneric, gyfiawnhau eu creulonderau tuag atynt, drwy ddangos nad oeddent yn gwneuthur dim amgen iddynt hwy na'r hyn a wnaethant hwythau, pan mewn awdurdod, i'r Ariaid a'r Donatiaid.

Cyfododd plaid arall o ymneillduwyr yn y canrhif hwn, a elwid yn Nestoriaid, oddiwrth eu blaenor Nestorius, yr hwn oedd esgob Syriaidd yn Nghonstantinopl, ac yn ddyn o ddysg ac hyawdledd mawr; ond fel pob ymneillduwr arall mae yn cael ei gyfrif yn ddyn byrbwyll, cyndyn, ac uchelfrydig. Hyd yma nid oedd un peth wedi ei benderfynu mewn cymanfaoedd cyffredinol o berthynas i undeb y ddwy natur yn mherson Crist, ond yn unig ei fod yn wir Dduw a phriodol ddyn. O ganlyniad, yr oedd yr athrawon yn arfer ymadroddion gwahanol wrth ymdrin â'r pwngc, fel y gwnai rai bellhau y gwahaniaeth rhwng y ddwy natur nes ei ddal allan megys dau berson, ac eraill ei gyfyngu yn y fath fodd nes cymysgu y natur ddwyfol â'r un ddynol ynddo. Yn mhlith eraill, yr oedd Apollinaris yn dysgu nad oedd Crist yn meddu enaid dynol, eithr mai y natur ddwyfol oedd ynddo ef yn llanw yr un berthynas ag y mae enaid dynol yn ei wneuthur i'r corff. Dyma y dull a ffynai yn Alexandria a'r Aifft, ond y golygiad arall oedd yn ffynu yn mysg y Syriaid. Yr oedd Nestorius yn dra gwrthwynebol i farn Apollinaris, ac fel y cyfryw yn dysgu ei ddysgyblion i wahaniaethu yn graffus

wrth son am berson Crist, rhwng Mab Duw a Mab y dyn. Pan oedd y ddadl yn ei phoethder, un o gyfeillion Nestorius, o'r enw Anastasius, a areithiodd yn wresog yn erbyn yr arferiad o alw y forwyn Fair yn fam Duw, gan ddangos nad oedd modd i berson dwyfol gael ei eni, na bod yn ddarostyngedig i farwolaeth, ac o ganlyniad mai fel dyn yn unig yr oedd wedi derbyn bodolaeth oddiwrth fam ddaearol. Cafodd ei athrawiaeth amddiffyniad oddiwrth Nestorius, a gwrthwynebiad ffyrnig oddiwrth fynachod Constantinopl, a chymeradwyaeth mawr gan fynachod yr Aifft.

Mor fuan ag y deallodd Cyril, esgob Alexandria, fod y ddadl hon yn boduli, cyflwynodd y newydd i Celestiue, esgob Rhufain, ac unodd y ddau i wrthwynebu Nestorius. Ond gan nad oedd yr olaf yn dangos tuedd i ymostwng, galwyd cymanfa ynghyd yn Alexandria yn y flwyddyn 430, lle y pentyrwyd cymmaint a deuddeg o felldithion ar ben Nestorius, ond ni bu hyn yn foddion i'w lwfrhau, nac i atal ei lwyddiant; ac er cynnal cyfarfodydd lawer gwaith wedi hyny i'r un amcan, taenu wnaeth y blaid dros amryw wledydd, ac ni thyciodd un moddion hyd heddyw i ddwyn y Nestoraid dan iau eglwys Rhufain. Am farn Nestorius am berson Crist nid yw yn ymddangos fod fawr gwahaniaeth rhyngddo â'r hyn a dderbynir yn gyffredinol, oddieithr yn y geiriau a ddefnyddir gan y pleidiau i gyflwyno yn agos yr un drych-feddwl; ac am yr ymgais a wnaethwyd i'w ddistewi gan yr esgobion ni bu ond ofer, fel llawer eraill o'u gwaith, pan yr amcanent lywodraethu barn a chaethiwo cydwybodau dynion. Ond am gyflwr crefydd yn mhlith y Nestoriaid yn awr, y mae yn rhaid cyfaddef ei fod yn isel ac yn llygredig. Y maent eto yn lluosog, a dywedir eu bod wedi ymgadw oddiwrth lawer o'r arferion hygoelus sydd wedi enill tir yn yr eglwysi Groegaidd a Rhufeinaidd, ond y maent yn ymddifad iawn o wybodaeth iachus ac ysgrythyrol am drefn gras yn iachawdwriaeth dyn, ac y mae eu crefyddoldeb yn gynnwysedig mewn ffurf, yn hytrach nag mewn rhinweddau moesol ac ysbrydol. Y mae llawer o honynt yn anneddu mewn rhan o'r India, ac ar gyffiniau Persia, ac yn Abysinia, ac y maent oll yn dal enw eu blaenor mewn parch, a rhan fawr o honynt yn cydnabod esgob Mosul fel eu harolygydd penaf. Maent mewn rhai gwledydd wedi cael llawer o'u blino gan y Jesuitiaid, ond fe'u hymgeleddwyd yn dyner gan y *Dutch*, pan yn llywodraeth *Cochin*, yn y ddwyfed ganrhif ar bumtheg; ac nid ydym yn deall eu bod wedi eu trallodi wedi hyny am eu crefydd.

Pan oedd crefydd wedi dirywio fel hyn, nes oedd llawer yn ymneillduo, yr oedd rhai yn yr eglwys lywodraethol am effeithio diwygiad heb dori eu cyssylltiad â'i chymundeb. Mae genym enghraifft o hyn yn hanes Vigilantius, gwr genedigol o Ffraingc. Yr oedd hwn yn ddyn hynod ddeallus a dysgedig, ac wedi dal swydd henuriad am ryw dymor yn Spain. Wedi dychwelyd o'i daith i Balestina, dechreuodd bregethu yn wresog yn erbyn y syniadau a'r arferiadau oeddent yn cael cymeradwyaeth yr esgobion. Yn mhlith pethau eraill yr oedd yn dysgu nad oedd anrhydedd ac addoliad i feddau ac esgyrn merthyron yn gyfreithion, ac yr oedd yn beio pererindod i'r lleoedd a gyfrifid yn santaidd. Yr oedd yn gwawdio y rhyfeddodau a briodolid i'r temlau a gyssegrasid i'r seintiau, ac yn collfarnu gwylnosau a gedwid ynddynt. Yr oedd yn haeru nad oedd cadw canwyllau i losgi ar y beddau yn nghanol yr haul ond arferiad wedi ei fenthyca oddiwrth y paganiaid, ac nad oedd y gweddiau a gyfeirid at ysbrydoedd y saint ymadawedig o unrhyw effaith fuddiol; a diystyrai yr ympryddiau a'r poenydiau a gymeradwyai yr offeiriadaeth, a chollfarnai y bywyd monachaidd, a newyddiaeth y gweinidogion, a holl lymder bywyd yr hermitiaid, fel arferiadau anysgrythyrol a diwerth; a thystiai hefyd nad oedd ymddygiad y rhai a ranent eu meddiannau rhwng y monachod, a ddyoddefent dlodi gwirfoddol, ac a anfonent ran o'u cynyrch i Jerusalem at wasanaeth crefyddol, yn gwneuthur dim ag oedd yn dderbyniol yn ngholwg Duw.

Yr oedd amryw yn mhlith gweinidogion Ffraingc a Spain o'r un farn a Vigilantius, eithr Jerome, prif fynach yr oes, a'i gwrthwynebai gyda ei holl ffyrnigrwydd arferol, a gorfu i'r henuriad gonest deimlo nad oedd dim ond distawrwydd a achubai ei fywyd rhag llid a chynddaredd ei gyd-amserwyr coel-grefyddol. Fel hyn mogwyd yr ymgais i atal y llygredd ac i ddiwygio y cyfeiliornadau, megys yn ei enedigaeth; ac y mae enw Vigilantius hyd yma yn aros yn mhlith enwau yr hereticiaid, ac yn cael ei drin felly gan ddynion nad ydynt wedi cymeryd y boen o gymharu ei egwyddorion ag ewyllys ddadguddiedig Iesu Grist. Ond yn marn y darllenydd diduedd ni chanfyddir yn ei athrawiaeth un anmharch i'r gyfundraeth Gristionogol, nac un awydd i gollfarnu dim ond yr arferiadau a'r syniadau hygoelus oeddent yn awr wedi cymeryd lle y grefydd a ddysgwyd gan Grist a'i apostolion. Peth tebyg yw i'r dyn gonest hwn yn ei ymweliad â'r dwyrain, ganfod cymmaint o arferiadau coel-grefyddol ag a'i dygodd i chwilio eu sail, nes ei barotoi ar ei ddychweliad adref i amheu eu hawdurdod, ond nid oedd yn meddu ar ddigon o ddylanwad i effeithio cyfnewidiad cyffredinol, er fod lle i feddwl na bu ei waith yn hollol ofer, gan ein bod yn cael fod plaid, hyd y nod yn mhlith yr esgobion, o'r un farn ag ef ei hun. (*Mosheim Eccles. Hist., Cent. VII, Chap iii, Sect.* 14.)

Wrth edrych yn ol ar gyflwr crefydd yn y canrhif hwn, yr ydym yn galaru o herwydd y dirywiad cyffredinol, ac yn gofyn pa beth oedd yr achos o hono? Onid yn y canrhif o'r blaen y cafodd y Cristionogion eu gwaredu oddiwrth lid eu caseion paganaidd, a'u gosod ar y tir a farnent yn ffafriol i'w llwyddiant? Mae hyn yn wir, ond yn y canrhif bresennol hefyd y daeth y llywodraethwr gwladol yn ben ar yr eglwys, ac y rhoddwyd heibio y cynllun cyntefig, gan agweddu teyrnas Crist yn unol ag egwyddorion ymerodraethau y ddaear. A phan yr ymadawyd mewn un peth, agorwyd ffordd i bethau eraill, ac nid

oedd yn awr ond ofer troi tudalenau y Testament Newydd, i edrych am reolau i gyfarwyddo mesurau yr eglwys fel llawforwyn i amcanion y byd, oblegyd nid i hyn yr oedd wedi ei ddarparu. Mae y Testament Newydd yn cynnwys pob rheol angenrheidiol i gyfarwyddo ei mudiadau fel teyrnas ysbrydol, ond wedi ei chyfnewid yn llawforwyn trais, ac yn ffordd i anrhydedd bydol, rhaid cau y llyfr ysbrydoledig, a gosod penderfyniadau esgobaethol yn ei le; ac wedi gwneuthur hyn, wele grefydd Crist wedi myned o'r golwg, a dyfais dynion uchelfrydig yn gwisgo ei henw, heb ei hegwyddorion na'i hysbryd. Dyma brif achos y dirywiad, ac y mae ei ffrwyth yn amlwg i'r byd.

Ond yn ngwyneb yr holl ddirywiad hyn nid oedd Crist heb ei dystion etholedig, ac yr oeddynt yn llawer mwy lluosog nag yr ydym weithiau yn barnu. Nid yn unig yr oedd nifer fawr o ymneillduwyr cydwybodol yn dyoddef gwawd a gwaradwydd er mwyn ei enw, ac yn cael eu trin fel hereticiaid, am eu bod yn glynu wrth egwyddorion ei deyrnas; ond yr oedd llawer hefyd fel Vigilantius a'i gyfeillion, yn collfarnu y cyfeiliornadau, er nad oeddent yn meddu ar ddigon o wrolder i wrthsefyll dylanwad yr offeiriadaeth. Yr oedd rhan fawr o'r rhai hyn yn ymborthi ar y bara bywiol, heb ymhyryd ond ychydig ag achosion cyhoeddus, ac yn mwynhau heddwch Duw, pan oedd yr esgobion uchelfrydig yn ymgystadlu am y flaenoriaeth. Er fod y rhai hyn yn llechu mewn dystawrwydd nes byddai y ffordd yn agored iddynt ymddangos yn eu cymeriad priodol, ond eto, pan gyfodai rhyw un o alluoedd i'w blaenori, deuent allan yn ddigel i wrthwynebu y cyfeiliornadau, a thyma yr achos fod plaid mor lluosog yn cwympo i mewn mor fuan ag unrhyw ymgais i effeithio diwygiad. Yr oedd y dymuniad am y fath gyfnewidiad yn bodoli yn barod, a phan ymddangosasai cyfleusdra yr oedd parodrwydd i'w gofleidio, ac fel hyn yr oedd nifer fawr yn pentyru i blaid yr Ymneillduwyr, er nad oedd gwybodaeth o'r blaen eu bod yn bodoli.

Nid cynt yr ymneillduodd Novatian nag yr unodd llu â'i achos, ac nid cynt y torodd Donatus ei gyssylltiad â'r eglwys lywodraethol nag y cafodd ddigon o ymlynwyr i ffurfio eglwysi bron yn mhob dinas drwy dalaeth Carthage. Felly hefyd y gellir dweyd am Aerius yn Pontus, ac am Nestorius yn Syria, ac ymddengys na bu Vigilantius heb gefnogwyr yn Ffrainge, er nad yw yn ymddangos iddo amcanu ffurfio cyfenwad o ymneillduwyr. Pan oedd holl lwythau Israel yn addoli Baal, yn ol barn Elias, yr oedd gan Dduw ei saith mil wedi ymgadw oddiwrth yr eilunaddoliaeth; a phan y gwelwn yr eglwys gyffredinol yn y pumed canrhif wedi ymadael ag egwyddorion teyrnas Crist, yr oedd ganddo ef nifer fawr o ffyddloniaid yn ymostwng i'w lywodraeth fel eu hunig frenin, ac yn barod i ddyoddef pob gwaradwydd yn hytrach nag ymadael â rheolau ei air. Ac felly, fel y cawn achos i sylwi yn ol llaw, y parhaodd cyflwr ei achos drwy yr oesau tywyll, fel na bu un amser heb rai a'i gwasanaethant fel eu Harglwydd, ac a'i parchant fel eu Ceidwad "O'r Arglwydd y bu hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni."

## CAN AR OL CROESI'R ATLANTIC.

MESUR—"*Cwgnfan Brydain.*"

Fy nghyfeillion gynt oedd agos
Ydych anwyl, anwyl iawn;
Er i'm gefnu treiaf ganu,
Er nad wyf o nemawr dawn;
Nid yw cariad byth yn oeri
Ar ol croesi'r môr yn brudd,
Er pob helbul ddyoddefaf
Mwy mi'ch caraf nos a dydd.

Pan hwyliasom oeddym amlwg,
Coll'som olwg ar y tir;
Nid oedd gobaith er ein galar
Gweled daear amser hir;
Ein calonau oedd mewn ofnau,
Ac fe ddaeth cysgodau'r nos;
Ac ni welsom dir i'n lloni
Mwy nes hwylio'r môr yn gro's.

Byw heb weled yr anial dir
Oedd yn waith dyeithr iawn;
Mi edrychais am y bryniau
Lawer boreu a phrydnawn;
Byw mewn llong ar fôr a'i fawredd
Oedd i mi yn rhyfedd waith;
Byw mewn gobaith cywir purwedd
Y caem gyrhaedd pen ein taith.

Wedi bod ar donau geirwon,
Yn ofidus amser hir,
Er llawnydd eigion calon
Cawsom olwg ar y tir;
Ar ol holi cawsom ateb,
"Yr Americ ydyw'r wlad;"
Pan y cafwyd golwg arni
Llawen oedd fy nghalon fad.

IORWERTH.

## Y BARDD I'W ARDD EI HUN GANOL MAI.

EIN gardd lawn sy'n gwerdd leni—eginau
Wiw gannoedd sydd drwyddi;
Cloron a moron mawr ri,
Nid gwag harddwch i'n gerddi.

Mae brasaf egin bresych—ac erfin
I'w harfer yn fynych;
Mae'n dew 'nawr wnlwn di nych
I'w hoedran yn hardd edrych.

Pys a ffa, llona' lluniaeth,—a salad,
Iselach ddarpariaeth:
Ac eirin Mair goreu' maeth,
Mae gwig i'n—at goginiaeth.

Cannoedd o egin cennin—yn addo
Aneiddil gawl cegin,
Cu hoff radau cyffredin,
Blasus, mwy gweddus na gwin.

*Dunmore.* *Cyfl.* IOAN AB IAGO.

## "SIT Y'CH CH'I."

Dengys hanesyddiaeth fod rhyw ddull neillduol o gyfarch eu gilydd gan wahanol genedlaethau y ddaear. Un peth sydd mewn arferiad genym ni, hil Gomer, yw gofyn y naill i'r llall pa fodd y byddwn o ran ein iechyd, &c. Cyflawnir y ddefod yma genym mewn gwahanol ddulliau. Gofyna un yn rhesymol, "Pa fodd ydych chwi?" Y llall yn ddioed a ddywed, "Sit i ch'ithau?" ond dim un o honynt yn ateb. Y modd mwyaf neillduol ydwyf am son am dano yn bresennol yw yr un canlynol, "Sit y'ch ch'i? a sit ma' nhw gartre'? a b'le y'ch chi'n myn'd i?" &c. Weithiau byddaf yn mron cael fy syfrdanu oblegyd cynnifer o wahanol ofyniadau, yn cael eu pentyru ar gefnau eu gilydd. Yr ydwyf ar droion yn teimlo yn glaf, a da fyddai genyf gael adrodd fy ngwyn wrth gyfaill pan gyfarfyddwyf ag ef, ond daw ambell un yn mlaen gan ofyn fy helynt; a chyn y caffwyf gyfleusdra i'w ateb, bydd ef wedi gofyn dau neu dri o ofyniadau eraill, a minnau yn gorfod tewi, wedi meddwl hysbysu nad oeddwn yn iach. Mae pethau mor annhrefnus a hyn wedi dwyn fy meddwl i benderfynu dilyn y rheol ganlynol; hyny yw, os bydd i mi ofyn pa fodd y bydd un o ran ei iechyd, y gwnaf dewi ar ol gofyn nes cael atebiad; yna os ymholaf pa fodd y bydd y teulu, mi arosaf heb lefaru nes clywed pa beth a ddywed yr hwn a holir. Dichon mai y modd goreu i ymddwyn at y rhai sydd yn holi tri neu bedwar o ofyniadau ar yr un anadl fyddai mynu gwybod pa un o'r holiadau garent gael ateb iddo yn flaenaf. Dymunwn o'm calon fod diwygiad yn cymeryd lle yn yr arferiad hyn; o herwydd pa ddyben yw gofyn i ddyn pa fodd y bydd ef, os na chaiff y cyfryw amser i roddi atebiad? Dim, tebygaf fi.

Theta Eta.

## Y TAN DDIFFODDYDD.—DYFAIS NEWYDD.

Mae y papyrau yn cynnwys llawer o ganmoliaethau i beiriant sydd newydd ei ddyfeisio i osod tân allan, yr hwn sydd yn rhagori yn mhell ar wahanol ystyriaethau ar y dull arferol o osod tân allan â dwfr. Mae y peiriant o gylch maintioliaeth casgen bum' galwyn, wedi ei wneud o haiarn, ac yn cynnwys tri o wahanol ranau neu flychau, yn mha rai y gosodir gwahanol gymysgiadau, wedi eu gwneud o *sulphur*, *saltpetre*, a phethau eraill. Mae prawf o'r ddyfais wedi ei wneud gan ddynion deallus a dysgedig, y rhai a'i cymeranwyant i'r man uwchaf. Wedi gosod pob peth mewn trefn, cauwyd y cwbl i fynu, cyneuwyd tân, a gwasgwyd *screw* yr hyn a dorai botel yn nghanol y peiriant yn llawn o *sulphuric acid*, trwy yr hyn y daeth y gwahanol ddarpariaethau i effeithio ar eu gilydd; a daeth math o nwy neu darth (*vapor*) tew allan trwy agoriad a ddarparesid i'r dyben hyny, gyda nerth tebyg i agerdd, a chyfeiriwyd ef at y fflamiau, y rhai a ddiffoddwyd ganddo agos yn ddioed! Nid yw y nwy hyn yn niweidiol nac annymunol mewn un modd; ond o'r tu arall mae yn iachus a dymunol, ac nid yw yn niweidio sidanau na dim arall a ddichon fod o'i flaen. Y mae yn ymddangos ei fod yn diffodd y fflamiau trwy dynu yr *oxygen* allan o'r awyr, fel na all tân fodoli yno yn fwy nag ar waelod ffynon gauedig ddwfn.

Ni fwriedir i'r Diffoddydd hwn daflu y peiriannau dwfr yn ddiddefnydd. Bydd dwfr eto yn angenrheidiol, ond nid i'r un graddau ag o'r blaen. Bydd y Diffoddydd yn gosod y tân mwyaf dan ein rheolaeth mewn ychydig amser, yna dygir y dwfr i'w lwyr ddiffoddi (*extinguish*) ar ol atal ei rhediad. Dywedir y bydd i'r ddyfais effeithio er lleihau perygl-on trwy dân, ac y bydd tyleran swyddfeydd dyogeliad i gael eu darostwng o angenrheidrwydd i hanner y treulion presennol.

## MEDDWDOD AC ANGHYMMEDROLDEB YN SWYDD SCHUYLKILL.

Yn ol y cyfrif diweddaf telir yn y swydd hon o leiaf $300,000 yn flynyddol am wirodydd a diodydd meddwol, yr hyn a wna $7 50 ar gyfer pob person, neu $35 50 ar gyfer pob teulu o bump. Ond nid yw yr arian a delir am wirodydd ond ychydig mewn cymhariaeth i'r treulion cyhoeddus a'r niweidiau moesol a achosir gan y fasnach.

Yn y fl. 1850, trwyddedwyd yn y swydd i werthu gwirodydd 174 o dafarndai, 161 o ystordai, a 121 o siopau diod, heblaw nifer anferth o dyllau annrwyddedig, y rhai a werthant wirodydd yn anghyfreithlon. Derbyniwyd am drwyddedau yn ystod y flwyddyn y swm o $4,000, pan na ellir cyfrif y draul ychwanegol a achosir gan anghymmedroldeb yn y swydd yn ddim llai na $50,000. Edrychir i'r Elusendy swyddol, allan o'r 236 o bersonau a dderbyniwyd i mewn yno yn y fl. 1850, yr oedd 154 yn feddwon, a mwy na hanner y 132 gweddill wedi eu darostwng i dlodi ac eisiau mewn canlyniad i feddwdod. Mae cynnaliaeth y rhai hyn wedi costio i'r swydd $8,700 y flwyddyn ddiweddaf, heblaw cynhyrch y tyddyn a berthyna i'r Elusendy.

Yr ydym yn meddwl y gellir cymeryd hyn

fel enghraifft o sefyllfa anghymmedroldeb yn ngwahanol barthau gweithfaol y dalaeth. Y mae yn bryd i'r wlad edrych i mewn i'r pethau hyn, a gwneud pob brys i atal y pechod cynyddfawr hwn.

---

## CAEL GWRAIG TRWY GYFRWYSDER.

Yn nesaf at Henry Clay, nid oes unrhyw enw yn fwy adnabyddus yn nhalaeth Kentucky na Ben Hardin,—"Yr Hen Ben," fel y gelwir ef yn gyffredin. Yr ydym yn cael iddo ddyfod i feddiant o'i wraig yn y modd rhyfeddol a ganlyn:

Pan yn ieuangc yr oedd yn gweithio yn galed ar dyddyn un o'r boneddwyr cyfoethocaf yn y dalaeth, a rhywfodd yn anwybodus i'r hen wr, syrthiodd y gweithiwr ieuangc a merch ei feistr mewn cariad â'u gilydd. Er fod Ben yn gryn gyfaill i'r hen foneddwr, eto ni chaniatasai hyn iddo, o herwydd anghyfartalrwydd eu sefyllfa; a phe gwybuasai rhywbeth am eu carwriaeth, sicr yw y buasai yn ei yru ymaith o'i wasanath yn ddioed, yr hyn a wyddai ei ferch a Ben yn dda. Un diwrnod yr oedd yr hen wr mewn tymher lled garedig, aeth Ben ato, a dywedodd wrtho ei fod mewn cariad â merch i wr cyfoethog yn yr ardal—ei fod ef yn ei charu hi, a hithau yn ei garu yntau; ond fod yn anmhosibl iddo gael cydsyniad ei thad i'w phriodi, a dymunai wybod pa lwybr y gallai weithredu dan y fath amgylchiadau?

"A wna hi gilio ymaith gyda thi?" ebe yr hen wr.

"Dichon y gwnelai," ebe yntau, "pe byddem yn cyduno felly. Ond a fyddai yn anrhydeddus ynwyf i gymeryd y fantais, a gwneud hyny?"

"Byddai," ebe yr hen foneddwr, "ni byddai dim yn anmhriodol yn y fath ymddygiad."

Addawodd cynllunydd y ddyfais roddi benthyg ei geffyl a'i gerbyd yn iddo, er cyflawni y bwriad. Y boreu canlynol cafodd yr hen wr fod ei ferch a Ben yn absennol, pan y deallodd y pwngc er ei siomedigaeth dirfawr. Yn fuan, pa fodd bynag, anghofiodd yr hen foneddwr eu hymddygiad; a bu yr amgylchiad yn achlysur i ddwyn Ben i'w sefyllfa anrhydeddus ac adnabyddus bresennol.

---

## DIHENYDDIAD LOPEZ A THYNGED EI GANLYNWYR.

Y mae dinas Havanna wedi bod yn llawn gorfoledd a llawenydd, yn gymysgedig â chynhwrf a therfysg, o herwydd fod Lopez a'i fyddin wedi eu dal a'u cymeryd yn garcharorion ar y 30ain o Awst.

Y dydd canlynol (Sabboth), yr oedd yr holl ddinas yn dadseinio gan fonllefau a magnelau o anrhydedd i fuddugoliaeth y fyddin Spaenaidd, a dangosid pob gwawd ac anmharch i enw Lopez.

Mae gwahanol chwedlau ar gael o barth y dull y cafodd Lopez ei gymeryd. Dywed rai iddo gael ei ddal gan gwn. Eraill a hysbysant iddo fyned i dyddyndy, a gofyn am fwyd a lle i orwedd; ac i wr y tŷ geisio cymhorth pedwar o ddynion, wedi iddo fyned i gysgu, y rhai a'i rhwymasant draed a dwylo, a gyrwyd ef i Havanna dan ofal milwraidd dyogel.

Mae ei fyddin hefyd wedi ei dinystrio. Yr oedd cant o honynt yn y carchar yn Havanna, wedi eu dedfrydu i gael eu gyru i Spaen i'w caethiwo am ddeng mlynedd. Dywedant fod eu dyoddefiadau yn erwin neilltuol cyn iddynt gael eu dal. Am amryw ddyddiau buont byw ar ddail y coed. Y cig diweddaf a fwytasent oedd ceffyl y Cad. Lopez. Nid oedd arfau ganddynt pan gymerwyd hwynt.

Y gweddill o'i filwyr ydynt naill ai wedi eu saethu neu farw o newyn.

Dydd Llun, Medi 1, cymerodd dihenyddiad Lopez le, yn ymyl y porthladd, pan yr oedd naw mil o filwyr ac wyth mil o ddinasyddion yn bresennol. Ychydig fynudau cyn saith o'r gloch dygwyd Lopez yn mlaen, yr hwn a esgynodd fwrdd pwrpasol tua 15 troedfedd o uchder. Cyfarchodd y gwyddfodolion mewn araeth fer ac effeithiol, yn niwedd pa un y dywedai, "Yr wyf yn marw dros fy anwyl Cuba." Dyma ei eiriau diweddaf. Eisteddodd i lawr, ac mewn ychydig fynudau y cwbl a arosai o'r hwn a fu am gymmaint o amser yn ddychryn Cuba oedd gorff oer a difywyd.

Mae colled y fyddin Spaenaidd, o gwbl, yn fwy na dwy fil. Bernir y bydd darostyngiad Lopez a'i blaid i osod terfyn ar y gwrthryfel, a dysgwylir y bydd i heddwch gael ei adferu yn fuan yn Cuba.

---

## EGLWYSI YN POTTSVILLE.

Mae yr *Utica Gazette* (C. N.) yn hawlio y cymeriad i'r lle hwnw (Utica) o "Ddinas yr Eglwysi;" gan ei bod yn meddu 22 o gapeli, ar gyfer poblogaeth o 17,556 o drigolion.

Ond y mae sefyllfa Utica yn ymddangos yn baganaidd yn ymyl Pottsville. Yma y mae genym 20 o leoedd o addoliad ar gyfer poblogaeth o 7,500. Yn amser y ddeilliadeb ddiweddaf cafwyd allan fod y capeli hyn yn abl i gynnwys 7,300 o bobl. Felly gallant gynnwys pob dyn, benyw a phlentyn ag ydynt yn byw yn y lle, a 300 o eisteddleoedd yn wag, ar gyfer dyeithriaid a allant ymweled â ni o Utica neu rhyw fan arall.

Ffynon Halen Ffrwythlawn yn Swydd Meigs, Ohio.—Rhydd y *Meigs County Telegraph* hanes fod y ffynon halen ryfeddaf yn yr Undol Dalaethau wedi ei darganfod yn ddiweddar yn Pomeroy, yn y swydd hono. Mae yn arllwys hanner cant o alwyni o ddwfr bob mynud, mewn un ffrwd gyson, yr hyn a gynhyrcha 240 bwysiel o halen mewn un dydd. Y mae digon o ddwfr, a thynu allan yr hyn a wastreffir, i gynhyrchu dau cant o alwyni bob dydd. Mae yn debyg o fod o les mawr i'r ardal.

John B. Trevor.—Mae cryn son wedi bod yn ystod y mis diweddaf am enw y gwr uchod, a gwahanol farnau yn ei gylch. Efe oedd *Cashier* y *Philadelphia Bank* a phrif berchenog gweithfeydd glo Shamokin a Trevorton, swydd Northumberland, Pa. Rhoddodd fenthyg tri chan mil o ddoleri o arian y banc i ryw ddyben neu gilydd heb ymgynghori â'r cyfarwyddwyr, ac ymddengys fod y person a'u derbyniodd wedi methu, ac na ellir cael dros $110,000 o'r ariau yn ol. Mae hyn yn gwneud Trevor yn ddyledus i'r banc o'r swm o $190,000; ac yr oedd efe wedi roddi sicrwydd neu feichnafon yn flaenorol i'r cyfarwyddwyr am dri chan' mil o ddoleri, fel y mae yn debygol na bydd y banc mewn colled o honynt. Rhoddodd ei swydd fel *Cashier* i fynu; ac ofnid y buasai i gwmni glo Trevorton a Shamokin fethu o herwydd yr amgylchiad, ond da genym hysbysu nad felly y mae, a bod y Cwmni yn awr yn fwy cadarn nag o'r blaen, gan fod hawl Trevor wedi ei drosglwyddo drosodd i'r banc. Mae y cwmni wedi myned i lawer o draul i agor y gweithfeydd a nodwyd, a dichon fod llawer o arian y banc wedi eu defnyddio i ddwyn y gwaith yn mlaen.

Rheilffordd Caerefrog Newydd ac Erie.—Mae cryn awydd yn bodoli mewn amryw fanau trwy y dalaeth hon am weled y rheilffordd newydd sydd wedi ei chynllunio a'i nodi allan rhwng y lleoedd uchod trwy Tamaqua a Sunbury, yn cael ei dwyn yn mlaen. Diau fod gwrthwynebiad i'r rheilffordd hon gan rai ag y mae eu helw yn ymddibynu ar ei haflwydd, a digon tebyg mai dyma yr achos na byddai agos wedi ei gorphen cyn yma; ond myned a hi rhagddi sydd rhaid ei wneud, o herwydd dyma yw llais y wlad yn gyffredinol, Y pellder o Gaerefrog Newydd i Buffalo trwy Albany yw 473. Ond gellir cwblhau y rheilffordd newydd yr holl ffordd o Gaerefrog Newydd i Erie mewn 520 o filldiroedd, yr hyn sydd yn profi y ffaith bwysig ei bod ddeng milldir yn fyrach nag unrhyw ffordd arall o Gaerefrog Newydd i'r llynoedd, a'i bod drugain milldir yn fyrach nag unrhyw ffordd arall o'r lle blaenaf i dref Erie. Bydd cyssylltiad hefyd rhwng y ffordd hon â gwahanol rheilffyrdd Ohio. Cyfryfir y pellder ar hyd-ddi o Gaerefrog-Newydd i Cleaveland yn 516 o filldiroedd—168 mill. yn llai na thros y ffordd bresennol trwy Albany ac Erie, a gellir ei deithio yn llawer cynt na thros yr un bresennol. Mae hyn yn fantais bwysig i fasnachwyr a theithwyr Bydd y rheilffordd newydd hefyd yn gyfleusdra anmhrisiadwy i bob lle y byddo yn dyfod trwyddynt neu yn agos atynt. Rhydd adfywiad ar unwaith i fasnach haiarn a glo y dalaeth hon, a bydd pob masnach yn gystal ag amaethyddiaeth yn cael eu gwellhau gan y fath gyfleusdra.

Cardinal i Philadelphia.—Hysbysir yn y newyddion tramor diweddaf fod ei Santeiddrwydd y Pab o gylch gwneud rai Cardinaliaid newydd, ac yn mhlith eraill "Arch-esgob Philadelphia;" yn golygu yn ddiau Dr. Kendrick, esgob Pabaidd dysgedig ac enwog Philadelphia, yr hwn fel y dywedir sydd mor deilwng o'r anrhydedd a neb o'i frodyr esgobaidd yn y wlad hon. Fel hyn y mae yr Archesgob Hughes yn debyg o golli ei amcan, er mor ddiwyd y mae wedi llafurio am anrhydedd a dyrchafiad.

Merch Ieuangc a Ddysgodd Argraffu.—Rhydd un o baparau Cincinnati yr hanes a ganlyn. Tua thair blynedd yn ol gwnaeth merch ieuangc dlawd ymholiad am waith yn y swyddfa hono, a derbyniwyd hi i mewn, i gyssodi llythyrenau. Gweithiodd yno dros ddwy flynedd, yn ystod pa amser yr enillodd $200 heblaw ei bwrdd, a defnyddiodd y cyfleusderau a rydd swyddfeydd argraffyddol i gynyddu mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth. Y mae yn awr yn olygyddes gynorthwyol, ac wedi addunedu i ymbriodi ag un o'r cyfreithwyr goreu yn Ohio.

Damweiniau.—Mae amryw ddamweiniau pwysig (rai o honynt wedi terfynu yn farwol) wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn yr ardal hon, ac fel y mae yn fwyaf-galarus dywedyd, y prif achos o honynt gan mwyaf ydoedd dibrisdod ac esgeulusdod eraill. Mae y rhai sydd yn agor ffyrdd, ac yn eu gadael mewn sefyllfa beryglus, yn ol y gyfraith yn gyfrifol am y niweidiau a allant gymeryd lle trwy y fath esgeulusdod. Er enghraifft, torwyd yr heol rai llytheidiau o ddyfnder ar gyfer addoldai y Bedyddwyr Cymreig, a gadawyd y dibyn heb ddim i atal yr anghyfarwydd rhag syrthio; y canlyniad yw fod un bywyd wedi ei golli yno, ac y mae un arall yr gorwedd mewn sefyllfa beryglus mewn canlyniad i'r briw a dderbyniodd trwy syrthio

yn yr un lle. Mae yr eglwys hefyd wedi ei gosod mewn traul o dros $200 drwy yr un cyfnewidiad wrth dori y droedffordd yn ymyl yr heol, adeiladu sylfaen newydd i'r addoldy, a gosod grisiau a mynedfa addas i fyned i mewn iddo.

Golygydd Angharedig. — Newyddiadur Gorllewinol a rydd yr hysbysiad golygyddawl a ganlyn:—"O herwydd diffyg lle yr ydym yn rhwym o wrthod cyhoeddi canmoliaethau i'r meirwon, ond bydd yn dda genym bob amser roddi hysbysiad am farwolaeth ein cyfeillion."

## GOLYGIADAU M. EVANS, DODGEVILLE.

Barchedig Olygydd.—Gan fod yma rai ag sydd yn enwi eu hunain yn Fedyddwyr Rheolaidd (*Regular Baptists*) a minnau yn perthyn i'r undeb hwnw, ac wedi dechreu llafurio yn gyhoeddus yn eu plith er ys amryw fisoedd bellach, ac hefyd fod yma un arall yn sefyll yn gyhoeddus, yr hwn a farna nad yw fy ngholygiadau ar bethau crefyddol yn deilwng o le yn mhlith y frawdoliaeth a enwyd, am hyny erfyniaf arnoch adael i mi roddi ychydig o'm barn, fel yr wyf yn credu y pethau y'm cyhuddir o'u plegyd, yn y Seren; ac erfyniaf ar y Parch. W. Morgan, Pottsville; a'r Parch. W. Owen, Pittsburg, neu rhyw weinidogion eraill perthynol i'r frawdoliaeth o gymeriad Cristionogol, gymeradwyo neu anghymeradwyo fy marn gyda geiriau byr, megys Ie, neu Nage.

1. Credwyf mai cylch pregethu yr efengyl yw yr holl fyd. "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch," &c.

2. Credaf mai cylch cyfreithlon yr ordinhadau yw credinwyr. "Yr hwn a gredo ac a fedyddier," &c.

3. Credaf fod bedydd yn seiliedig ar orchymyn pendant ag sydd yn gofyn ufudd-dod personol yn gystal a swper yr Arglwydd. "Bedyddier pob un o honoch," &c.

4. Nid wyf yn credu fod bedydd yn ailenedigaeth, neu yn borth yr esgoreddfa, fel y dywed rhai ef.

5. Nid wyf yn credu mai trwy fedydd mae Duw yn derbyn dynion i'w ffafr a'i gymeradwyaeth; ond dynion yn ffafr a chymeradwyaeth Duw ydwyf fi yn credu sydd ddeiliaid addas i fedydd. Nid wyf yn gosod bedydd yn iachawdwriaeth, na chwaeth fod iachawdwriaeth i'w chael trwyddo; ond dynion wedi cael gras ac undeb a Christ yw iawn ddeiliaid bedydd. Nid yw bedydd ond un o ddyledswyddau'r saint, i'w chyflawni o gariad at Grist.

6. Credwyf mai y dull ysgrythyrol o fedyddio yw suddo. "Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd," &c.

7. Credwyf mai y rhai sydd yn rhoddi ufudd-dod personol i'r ordinhad o fedydd sydd yn dyfod yn gyfreithlon at y bwrdd.

8. Mai gweinidogion wedi eu hordeinio yn rheolaidd a ddylent weinyddu yr ordinhadau, ac nad oes gan bob aelod hawl i fedyddio a thori bara. "Gwneler pob peth yn weddus ac mewn trefn" &c.

9. Dylai y gweinidog fod yn ddyn sobr ac addfwyn, geirwir a da ei gymeriad, heb fod yn cefnogi bai mewn un aelod yn fwy na'u gilydd; ond yn ddidderbyn wyneb—yn darparu pethau gonest yn ngholwg pob dyn,—heb fod yn ddau-eiriog nac yn defnyddio iaith nac ymadrodd anwendaidd yn y tŷ nac allan o'r tŷ, "eithr yn dirion, yn anymladdgar, yn ddiariangar," &c.

10. Dylai y diaconiaid fod yn eirwir ac yn dirion, heb fod yn gecrus, ond yn gwylied ar eu ty eu hunain yn dda; yn blaenori yn mhob gweithredoedd da. "yn iachus yn y ffydd, yn nghariad mewn amynedd," &c. "Bod o'r hynaf-wragedd yr un ffynud mewn ymddygiad, fel y gweddai i santeiddrwydd," &c.

Yn olaf. Y dylai dysgyblaeth gael ei gweinyddu yn ol y dwyfol wirionedd; a barnwyf fod pob troseddwr na chymer ei gynghori a'i geryddu yn ol rheol y gair yn diaelodi ei hun o'r frawdoliaeth, ac yn ei ymddygiad yn hysbysu hyny ar g'oedd, pa un bynag fyddo ai pregethwr, diacon, ai aelod cyffredin.

Yn awr, frodyr, byddwch yn ddidderbynwyneb: os nad yw yr egwyddorion rhai'n yn deilwng o le yn y frawdoliaeth hysbyswch ar frys, yna nis caf ormesu'r frawdoliaeth. Os ydynt deilwng, dysgwyliaf gael chwareu têg yn mhlith y teulu.

Ydwyf, eich didwyll ewyllysiwr da,

Meredith Evans.

*Dodgeville, Medi* 4, 1851.

☞ Gan fod gofyniadau J. Roberts, o ran sylwedd, yn gynnwysedig yn y pethau uchod, barnwn nad yw o bwys eu cyhoeddi. Yn mhlith pethau eraill, gofyna J. R. a oes gan y diaconiaid neu rhyw aelod arall hawl i fedyddio a thori bara? Y mae genym ysgrif ragorol ar law, yn dangos nad oes neb ond gweinidogion ordeiniedig i weinyddu yr ordinhadau. Bwriadwn ei chyhoeddi yn fuan. —Gol.

## GOFYNIADAU.

Mr. Gol.—Crefaf am eich caniatad i osod y gofyniad canlynol yn eich Seren glodwiw; sef pa un ai cyn marwolaeth Crist ar y groes y sefydlodd Crist ei ordinhadau, sef bedydd a swper yr Arglwydd, neu yntau ar ol ei adgyfodiad oddiwrth y meirw? Rhag i'r gofyniad uchod syrthio islaw sylw eich gohebwyr, cyfeiriaf ef yn neillduol at y Parch. S. James, Palmyra, Ohio.

Atebiad buan i'r gofyniad uchod gan Mr. James a foddlona lawer helaw

Nicholas Bennett.

*Saw Mill Run, ger Pittsburg.*

Mr. Golygydd,—Wele fi yn defnyddio yr adeg hon i'ch anerch â dau neu dri o ofyniadau, gan obeithio y byddwch chwi, neu rhyw rai o'ch gohebwyr deallus, mor garedig a gwneud sylw o honynt, a rhoddi atebiad buan iddynt trwy gyfrwng y Seren:

1. A yw yn addas i un a fyddo yn aelod yn eglwys Dduw i ymrafaelio â gwŷr y byd hyd at godi dwrn, a bygwth taro gwaed; a myned ddeg milldir o ffordd y Sabboth cyntaf ar ol hyny i gyfranogi o'r ordinhad o Swper yr Arglwydd, heb roddi edifeirwch am ei drosedd?

2. A yw tystiolaethau gwŷr y byd trwy lw yn ddigon o foddlonrwydd i'r eglwys yn erbyn y cyfryw rai ag a fyddont yn arfer â throseddau o'r fath?

3. A yw yn rheol eglwysig, yn ol gair y gwirionedd, i alw cyfarfod eglwysig ar gyfer un a fyddo wedi gadael yr achos o'i rau ei hunan; eto wedi cael cymhelliadau, ond yn eu gwrthod, ac yn diraddio y frawdoliaeth?

Atebiad buan a foddlona amryw yn yr ardal hon, heblaw B. L. D.

SYLWADAU.—Y mae yn dda genym roddi lle i ofyniadau buddiol bob amser, pan fyddont yn cael eu gofyn er mwyn goleuo y meddwl; ond yn aml danfonir i'r gwahanol Gyhoeddiadau Cymreig ofyniadau nad ydynt yn werth eu hateb, y rhai nad ynt o unrhyw les na dyddordeb cyffredinol, gan eu bod wedi eu hachosi gan, neu yn cyfeirio at bersonau neu amgychiadau neillduol. Dyma yn ddiau yw nodweddiad gofyniadau B. L. D.

O barth gofyniad cyntaf B. L. D., barnwn nad yw mor anwybodus o barth dysgyblaeth eglwsig fel na wyr na ddylai y fath ymddygiadau gael eu goddef: ond os yw yn gofyn o herwydd rhywbeth a glywodd am rhyw aelod, barnwn y gallasai gymeryd llwybr mwy caredig, effeithiol ac union-gyrchol na'r un a gymerodd i adgyweirio y camwri.

2. O barth derbyn tystiolaethau "gwŷr y byd," ein barn yw na ddylai tystiolaethau dynion parchus a geirwir a fyddont yn ddigrefydd gael eu gwrthod, os na bydd gan yr eglwys le i ameu eu dybenion, ond byddai yn dra gwrthun ac anysgrythyrol i eglwys Dduw dderbyn llw neb pwy bynag.

3. Mae y fath "reol eglwysig" ag a noda B. L. D. yn ei drydydd gofyniad yn hollol ddyeithr i air y gwirionedd; ond ar yr un pryd, pe byddai unrhyw eglwys yn cael ar ddeall ei bod wedi gweithredu mewn byrbwylldra, neu wedi ei cham-arwain i unrhyw fesur, ni byddai dim yn anmhriodol iddi i alw cyfarfod i ail-ystyried y mater, ac ymdrechu adenill y tramgwyddedig.

Ar y cyfan, nis gallwn gydymdeimlo â'r grwgnachwyr crefyddol; os bydd achwyniadau cyfreithlon yn bodoli, dylid "taro yr hoel ar ei phen," ac nid danfon awgrymiadau a chyfeiriadau personol i'r cyhoeddiadau, ar ddull gofyniadau, damegion, a breuddeudion disail, fel y gwneir yn rhy aml yn mhlith y gwahanol enwadau yn y dyddiau hyn.—GOL.

## PRIODWYD—

Yn Nghaerefrog-Newydd, Awst 30, gan y Parch. Thomas Lloyd Davies, Mr. John Williams, gynt o Langyfelach, a Miss Ann Hughes, gynt o Liverpool.

Yn Scranton, Pa., Medi 1, gan y Parch. E. Edwards, Mr. Thos. J. Armstrong, a Miss Sarah Davies, Pittston.

Awst 30, gan y Parch. Rees Davies, Palmyra, Thomas Lewis a Mary George, y ddau o ardal Ravena, swydd Portage, Ohio.

Eto, yn Palmyra, gan yr un, Medi 6, Mr. S. Price, mab Edward Price, gynt o Nantyglo, ac Ann Williams, o Hudson.

## MARWOLAETHAU.

Yn Blakeley, swydd Luzerne, Pa., Gorph. 21, 1851, yn 25 oed, Mrs. Mary Owen, priod Edward Owen. Nid oedd gyrfa ddaearol y chwaer hon ond byr, ond gwnaeth yn y tymhor hwn broffes gyhoeddus o'i chrediniaeth yn Nghrist yn ngwydd tystion lawer, a pharhaodd yn ei phroffes hyd derfyn ei hoes. Cafodd gystudd llym a phwysig, er hyny meddiannodd amynedd Cristion, gan ddysgwyl diwedd ei ffydd, sef iachawdwriaeth yr enaid. Trwy ei marwolaeth cafodd ei phriod ei ymddifadu o'i chymdeithas, pedwar o blant o'i gofal; tad a mam, o un oedd yn anwyl a hoff ganddynt, a'r frawdoliaeth grefyddol i ba un y perthynai o un o'r aelodau. Yr ydym yn hyderu fod eu colled hwy yn elw iddi hi. Daearwyd ei rhan farwol yn nghladdfa y Methodistiaid Cymreig yn y lle uchod. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y brawd Wm. Richmond. W. R.

Awst 16, yn 84 oed, Mr. John Jones, York Mills, (gynt o Marcy), swydd Oneida, C. N. Gadawodd weddw agos yr un oed ag ef ei hun i alaru ar ei ol. Bu Mr. Jones yn aelod gyda y Bedyddwyr yn Utica am lawer o flynyddoedd, ac hyderwn ei fod yn awr yn mhlith gwell cynnulleidfa. Claddwyd ef yn Marcy. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan A. Harris yn Saesnaeg, a chan yr ysgrifenydd yn Gymraeg. Ei ddiwedd oedd dangnefedd.

*Utica.* D. JENKINS.

Yn Youngstown, Ohio, o gylch 20 oed, Ann Harris, merch i Mr. Evan Harris, ar yr 11eg o Awst. Cymerwyd hi yn glaf nos Lun, tuag un-ar-ddeg o'r gloch, o'r Cholera yn ol barn y meddygon, yr hyn a fu yn foddion i gymeryd ei bywyd. Yr oedd yn eneth hardd a iachus, ac yn fwy tebyg o fyw yn hir na llawer; ond nid yw nerth na chryfder yn peri un trafferth i angeu i ddwyn ei waith i ben. Bydded hyn yn rhybudd i bawb, yn neillduol pobl ieuaingc, y rhai oedd yn cydgyfeillachu â hi. Dichon fod llawer o honynt yn byw yn anystyriol, gan wneud cyfammod megys ag angeu, a meddwl fod ganddynt lawer o flynyddoedd i'w treulio yn y byd; o herwydd fe allai mai mewn awr annysgwyliadwy y daw angeu, i'w symud i fyd o sylwedd. Llefwn am adnabod Iesu yn rhan i ni cyn delo yr alwad. Da genyf feddwl fod Ann wedi cael ar ei meddwl i ymofyn am grefydd cyn iddi gael ei tharo yn sal. Yr oedd wedi bod yn y gyfeillach rai gweithiau, a hyny o dan deimladau am ei chyflwr; ac yr oedd yn gweddio yn daer ar yr Arglwydd yn ei chystudd, am iddo gymeryd trugaredd arni. Mae genym le i gredu ei bod wedi cael ei dymuniad; a chredwn ei bod mewn gwell lle heddyw na bod ar y llawr. Bydded i'w hanwyl rieni

ymgysuro ar ei hol, a phawb o'i pherthynasau yr un modd a gelo adnabod ymgeledd yr iachawdwriaeth. Claddwyd hi wrth gapel y Bedyddwyr, lle y gweinyddwyd gan yr ysgrifenydd ar yr achlysur, pan y dywedodd ychydig oddiar Marc 2. 10; ac yna daearwyd ei chorff hyd y dydd y byddo y bedd yn dadgloi. O am barodrwydd i fyned ar ei hol.

D. PROBERT.

Yn South Pittsburg, Awst 14, 1851, Jane Pugh, merch i'r Parch. T. Pugh, a Mary ei briod, yn agos i ddwy flwydd oed. Mae y rhieni uchod wedi colli dau o'r tri phlentyn a feddynt yn ddiweddar.

Yn Wethersfield, swydd Trumbull, Ohio, nos Lun, Awst 11, yn 4 blwydd a 4 mis oed, Sinthy Elizabeth Blunt, merch Edward ac Ann Blunt, o'r clefyd rydd, neu gtefyd y gwaed; ac yn mhen dwy awr a hanner ar ei hol, Mary Jane Bailey, merch i'r cymmydogion nesaf atynt, o'r un clefyd. Ymgasglodd tyrfa luosog i dalu y gymwynas olaf i'w rhan farwol. Claddwyd y ddwy yn nghladdfa y Dysgyblion Awstuntown, swydd Mahoning, O. Pregethwyd ar yr achlysur oddiwrth obaith y Cristion, oddiwrth 1 Cor. 15.

"Boed i blant bychain ataf ddod,
(Medd Crist,) heb ddannod iddynt,
Darluniad trud o'm nefol dras,
Mae teyrnas addas iddynt.

"Bendithiodd ef hwynt yn eu gwydd
Mewn dull yn arwyddedig,
O'r fendith ddwyfol bur heb os
Fydd i'r rhai gostyngedig."

Nid wyf ddim am feio angeu,
Cenad ufudd ydyw ef;
Fe ollyngodd o'u carcharau
Fyrdd o ddeiliaid Brenin nef;
Nid wyf ddim am ffug ymddiddan
A dyn na baban yn y bedd,
Ein dyledswydd gyda'n gilydd
Yw gogoneddu Brenin hedd.

EHEDYDD AMERICA.

Y mae y clefyd uchod yn symud ugeiniau o dir y byw i dŷ y bedd. Bernir gan amryw mai math o Golera ydyw. Y mae yn drwm iawn yn eu cymmydogaethau. Mae y Dr. H. Gilmore, Girard, wedi meddyginiaethu 55 o hono, a 15 wedi marw o dan ei law, yn yr wythnosau diweddaf.

JOHN MORRIS.

*Wethersfield, Trumbull Co., O.*

I CINTHA FACH.

O hawddgar gynar eginyn—ffraeth-liw,
A ffrwythlawn flodeuyn,
Gwywodd syrthiodd yn syn,
Profaf, i letty'r pryfyn.

Ei henaid canaid, ceinwedd—hoywdeg
A 'hedodd yn llonwedd
Yn iach o'i boen uwch y bedd,
I ganu mewn gogonedd.

## DYGWYDDIAD GALARUS.

Awst 14, un o'r enw Martha Griffiths, 42 oed, yr hon oedd yn byw gyda ei brodyr a'i chwiorydd-yn-nghyfraith, yn York Mills, C. N., a gyfarfyddodd â'i diwedd yn y modd annysgwyliadwy a ganlyn. Hi a gododd o'r gwely oddiwrth eneth arall, ryw amser ar ol un o'r gloch y boreu, a gwelwyd ei heisiau tua phump y boreu hwnw. Gwnawd ymchwiliad am dani i fynu ac i waered, &c., ac yn mhen ychydig (er eu galar) gwelwyd hi yn y *cistern* wedi boddi. Nis gwyddus beth fu yn achos o hyn, na pha un ai yn wirfoddol neu yn ddamweiniol y syrthiodd i mewn. Gadawodd dad a brodyr a pherthynasau lawer i alaru ar ei hol. Dranoeth, ymgynnullodd lluaws o'i chydgenedl ac eraill i'w hebrwng i'r beddrod. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y brawd Alfred Harris, yn Saesnaeg, a chan yr ysgrifenydd, yn Gymraeg, yn y capel ac yn y fynwent. "Na fydd rhy annuwiol; paham y'th ddyfethi dy hun."—Solomon.

*Utica.* D. JENKINS.

## TERFYSG A LLOFRUDDIAETH YN CHRISTIANA, PA.

Cymerodd terfysg gwaedlyd le dydd Iau, yr 11eg o Fedi, mewn lle o'r enw Christiana, ar Gledrffordd Columbia, Swydd Lancaster, Pa., drwy ba un y collwyd un bywyd, ac y clwyfwyd amryw eraill. Daeth Mr. Gorsuch o Maryland, ei fab, a'i nai yno, gydag amryw o swyddogion *police* o Baltimore, i chwilio am ddau gaethwas ffoedig o eiddo Mr. Gorsuch, a'u cymeryd yn ol i Maryland. Clywodd y bobl dduon ddau neu dri diwrnod yn flaenorol am eu bwriad, a gofynasant farn rai o'r gwrthgaethiwyr blaenaf yn yr ardal o barth y llwybr y dylent weithredu. Dywedir mai yr atebiad oedd am iddynt oll sefyll eu tir yn ddiofn a gwrol i amddiffyn y caethion ffoedig, a darparu ar gyfer yr ymosodiad. Ac felly, ar y boreu a nodwyd ymgasglodd oddeutu 80 o bobl dduon yr ardal ynghyd, wedi eu harfogi â gynau, clybiau, a phethau eraill, ac ymguddiasant yn y coed mewn lle cyfleus. Yr arwydd a roddid iddynt o'r ymosodiad oedd chwythu mewn udgorn. Felly, pan ddaeth y swyddogion yn mlaen at y caethion ffoedig, amgylchynwyd hwynt ar unwaith gan y negroaid, a thaniwyd arnynt rai gweithiau.

Saethwyd Mr. Gorsuch yn farw gan un o'i gaethion ei hun. Pan welodd y mab ei dad yn syrthio, efe a dynodd ei lawddryll troellog allan, a thaniodd ar y negro, gan ei glwyfo yn ddrwg yn ei fraich; pryd hyn daeth y negroaid eraill yn mlaen, ac ymosodasant ar y dyn ieuangc, gan ei guro â ffyn a chlybiau, a gadawsant ef ar lawr mewn sefyllfa anhheimladwy. Deallwn ei fod gwellhau.

Dywedir iddynt ysbeilio yr hen wr o $400 wedi iddynt ei lofruddio. Gwasgarwyd y negroaid oll, a llwyddodd y caethion hefyd i ddiangc, heb i neb o honynt gael eu dal, ond y maent wedi eu cymeryd agos oll mewn gwahanol fanau wedi hyny, ac amryw o honynt wedi eu traddodi i garchar.

Cymerwyd un o'r caethweision mewn heiyrn gan y swyddgion yn ol i Maryland.

Beiir pobl wynion yr ardal gan amryw am eu hymddygiad yn gwrthod cynorthwyo y swyddogion; gomeddasant hefyd roddi benthyg eu ceffylau a'u pedrolfeni er dilyn ar ol y negroaid. Ond o'n rhan ein hunain yr ydym yn edrych ar y cwbl fel canlyniadau naturiol a thruenus cyfraith anghyfiawn y caethion ffoedig.

---

Ymfudiad.—Y mae dyn ieuangc o'r enw D. Thomas, pregethwr cynorthwyol gobeithiol o'r Tabernacl, Merthyr, newydd ddyfod drosodd i'r wlad hon, ac yn gwneud ei arosiad yn bresennol yn Minersville.

Awgrym i Ddyddynwyr Talaeth Caerefrog-Newydd.—Yn bresennol pan mae ein cyd-wladwyr yn swydd Oneida a lleoedd eraill, yn parotoi i werthu eu hymenyn, cyfeiriwn eu sylw at farchnad nad ydym yn gwybod fod nemawr o honynt wedi gwneud prawf o honi hyd yma, sef Philadelphia. Pris cyffredin yr ymenyn yn y ddinas hono yw 31 cts. y pwys, a digon anhawdd cael ymenyn da am hyny, yr hyn lawer uwch na marchnad Caerefrog Newydd.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Cawsom y newyddion diweddaraf gyda yr Europa, yr hon a adawodd Liverpool Medi 6.

Y newyddion o Loegr ydynt dra dibwys. Mae masnach yn gyffredinol mewn sefyllfa farwaidd a digalon.

Hysbysid yn benderfynol fod Kossuth a'i gymdeithion i hwylio i'r wlad hon yn yr agerfad Mississippi, o gylch y 15fed o Fedi.

Mae cryn gynhyrfiad yn bodoli trwy Ewrop, o herwydd y newydd fod mwnau aur wedi eu darganfod ger Bathurst, tua 50 milldir o Sydney, yn Neheubarth Cymru Newydd. Y bobl a ymdyrant yno yn lluoedd, a dywedir fod yno drysorau cyfoethog a diysbydd.

Cymerwyd 125 o bersonau i fynu yn Paris, ar y 31ain o Awst, dan y cyhuddiad o fod yn euog o gynghor dichellgar yn erbyn y llywodraeth. Yn eu plith y mae y diweddar Ysgrifenydd Millard, a'r enwog Ledru Rollin.

Mae palas Signor Alexandrini, swyddog uchel dan yr Ysgrifenydd Talaethol yn Rhufain, wedi ei dori yn agored a'i chwilio gan yr hedd-geidwaid. Bernir na buasent yn beiddio gwneud hyny heb fod ganddynt orchymyn oddiwrth y Pab.

Bu daeargryn arswydus yn Naples. Mae tua hanner cant o drefydd a phentrefydd yn cael eu nodi wedi eu niweidio i raddau mwy neu lai. Y mae y drydydd ran o Melfi, tref o 7,000 o drigolion, yn garnedd adfeiliedig. Dywedir fod dros 700 wedi eu lladd, ac amryw eraill wedi eu clwyfo.

### YR ARDDANGOSIAD MAWR.

Yr oedd yr Arddangosiad yn dal ei ffordd fel yn y dechreu, neu yn wir yn well, gan lyngcu yr holl arian gweddill iddo ei hun; ac yn synu y miloedd ymwelwyr sydd yn dylifo i'r Palas Gwydr bob dydd â'i ryfeddodau. Yr oedd nifer yr ymwelwyr yno un dydd dros 74,000 y nifer fwyaf a fu tu fewn i'r adeilad ar un dydd er ei agoriad cyntaf. Mae y cynnygiad i droi y Tŷ Gwydr yn auafardd wedi derbyn cefnogiad gan bob dosbarth, ac wedi ei benderfynu yn y Senedd. Y mae y palas yn rhy boblogaidd er hyny wrth fodd boneddigion cymmydogaeth Belgravia.

### Y PRWYWYR CYFFREDINOL YN FFRAINGC.

Gwahoddodd Louis Napoleon Faer Llundain a'r Prwywyr Brenhinol cyssylltiedig â'r Arddangosiad mawr, yn gystal â'r Prwywyr Tramor, a lluaws o foneddigion eraill, enwog am y naill beth neu y llall, i ymweled â dinas Paris yn mis Awst. Yr oedd nifer y gwahoddedigion agos yn fil mewn rhifedi, a chychwynasant o Folkestone mewn agerddlestri tua Boulogne, lle y derbyniwyd hwy yn dra chroesawgar gan yr awdurdodau Ffrengig, y rhai a hyrwyddasant yn mlaen tua'r brif ddinas, heb ofyn am dollh-drwyddedau, na chwilio eu "paciau" dillad am nwyfau tolladwy neu waharddedig.

Cawsant ddigonedd i'w fwyta, a phob croesaw ar hyd y ffordd i Paris, lle y derbyniwyd hwy gan y Llywydd, a gwleddwyd 500 o'r rhai enwocaf o honynt yn yr Hotel de Ville yn y prydnawn. Yn yr hwyr cynnaliwyd cyngherdd, i ba un y gwahoddwyd yr holl ddyeithriaid, ac o ddeutu 4,000 o bobl eraill, gan hyny nid oedd dim llai na 5,000 o bersonau ynghyd ar yr achlysur. Cafodd pawb eu boddloni yn fawr.

Y mae yn dra hoff gweled Paris a Llundain fel dwy chwaer yn croesawi eu gilydd; a dywenydd ydyw meddwl mai ffrwyth llafur y marsiandwr a'r llaw-weithydd ydyw y wledd hon. Nid rhwysg milwrol, na gogoniant tywysogol sydd yn gwneuthur hyn. Y mae yn amser, bellach, i barchu diwydrwydd—ac i ddangos cymmaint, beth bynag, o anrhydedd i'r crefftwr gonest a llafurus ag i'r segur-ddyn arglwyddaidd mewn lliain main.

## GORCHEST RICHARD MANKS.

Mae y dyn hynod hwn wedi cymeryd arno orchwyl yn ddiweddar ag sydd yn anghydmarol yn y ffordd o gerdded; a chan na chynnygwyd dim cyffelyb erioed o'r blaen, y farn gyffredin oedd fod y rhan flaenaf o'i waith yn analluadwy. Y rhan gyntaf o'i orchwyl oedd cerdded mil o gwarteri milltiroedd mewn mil o gwarteri oriau; a'r ail ran oedd cerdded mil o hanner milldiroedd mewn mil o hanneri oriau olynol, ac i ddechreu ar bob chwarter a hanner awr ar drawiad yr awrlais; ac nid oedd dim amser yn cael ei ganiatau rhwng y ddau orchwyl hwn; ac er mor anhawdd yr ymddangosai y ddau beth hyn, gorphenodd hwynt ar yr amser pennodedig, ychydig cyn tri o'r gloch boreu dydd Gwener, y 25ain o Gorphenhaf. Yna efe a ddechreuodd ar y mil o filldiroedd mewn mil o oriau, a dechreu pob milldir ar drawiad yr awrlais; yr hyn a orphenodd ar y 4ydd o Fedi. Y rhan gyntaf o'i orchest a gyfrifid gan Manks y fwyaf anhawdd, a dywedir fod ei gyfeillion agos a rhoddi i fynu cyn iddo orphen hono; ond wedi dechreu ar y rhan olaf yr oedd wedi adnewyddu cryn lawer, ac mor hyderus y byddai yn alluog i orphen y cwbl, fel y cynnygai gymeryd dwy fil o filldiroedd mewn mil o oriau, sef cerdded dwy filldir yn lle un bob awr, yr hyn a wnelai y cwbl yn 2750 o filldiroedd yn lle 1750, os cynyddid y cyngwystl yn gyfatebol. Nid oedd ganddo ond 200p. ei hunan yn ymddibynu ar y gorchwyl, eithr y mae llawer o filoedd gan ei gefnogwyr, a diau y caiff ei wobrwyo yn dda.—Dywedodd ar y cyntaf y byddai yn sicr o enill neu golli ei fywyd yn yr ymdrech; a'r rhai a adwaenent ei benderfyniad a'i nerth corfforol a'i credent.

Y mae gorchestion fel hyn yn lled enwog yn Lloegr, ac yn dwyn llawer iawn o sylw y bobl; yn y wlad hon rhyw ddyfeisiau a darganfyddiadau buddiol a newyddion sydd yn enwogi dynion. Barned y darllenydd pa un o'r ddau ddull hyn a gyrhaedd anrhydedd a chlod sydd fwyaf teilwng o ddyn, a nodweddiadol o feddwl ymchwilgar.

## FFRAINGC.

Dechreu Medi, agos yr un dydd a Senedd Prydain, gohiriwyd Cymanfa Wladwriaethol Ffraingc hyd ddechreu mis Tachwedd nesaf. Rhag i Louis Napoleon gymeryd mantais o'r gohiriad er dwyn ei amcanion hunanol i ben, pennodwyd pwyllgor sefydlog gan y Gymanfa i wylio dros amgylchiadau y weriniaeth, hyd nes y dychwela aelodau y Gymanfa at eu dyledswyddau seneddol. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 25 o bersonau, o ba rai mae 14 wedi cyduno yn y bleidlais geryddol ar Weinyddiaeth M. Baroche, ac o ganlyniad ystyrir hwy yn elynion personol i'r Llywydd; ond ar y cyfan edrychir ar ddewisiad y Gymanfa o'r personau a ffurfiant y Pwyllgor sefydlog, fel yn datgan lleihad yn ngelyniaeth y "mwyafrif" tuagat y Llywydd. Yr unig un nodedig am ei elyniaeth i Louis Napoleon yw y Cadfridog Charnagarnier, a gallwn fod yn lled benderfynol na cheir mo hono ef yn hepian uwchben ei waith.

Mae yn annhenderfynol eto pa un a fydd y Prince de Joinville yn gystadleuydd am y Llywyddiaeth ai peidio.

## RHUFAIN.

Llythyron o Rhufain, dyddiedig Gorphenhaf 31, a hysbysant fod yr anfoddlonrwydd mwyaf yn y ddinas hono, a thrwy y talaethau Pabaidd, yn herwydd y trethion newydd a arosodwyd gan y llywodraeth; ac hefyd o herwydd parhad y mesurau o erledigaeth wladyddol yn erbyn y sawl a ddrwg-dybir gan y llywodraeth glerigawl. Y mae llanw y cydymdeimlad cyhoedd yn troi o blaid y milwyr Ffrengig, yr hyn a edrychid arno gydag eiddigedd gan yr offeiriaid. Mae y teimlad cyfeillgar a hanfodai rhwng yr awdurdodau Pabaidd a'r fyddin Ffrengig wedi darfod yn llwyr, er yr ymdrechir celu hyny gan y ddwyblaid. Ychwanegir dygasedd yr offeiriaid at Ffrangcod yn fawr drwy eu bod wedi cymeryd meddiant o balas y Chwilys Santaidd. Y maent hefyd wedi cymeryd meddiant o'r holl bylor yn ystordai y gwneuthurwyr, a'i ddwyn i gastell Angelo, lle hefyd y symudodd y Ffrangcod yr holl fagnelau perthynol i'r fyddin Rufeinaidd. Ymddengys gan hyny eu bod yn benderfynol ar ddal gafael yn eu meddiant o Rufain.

## AWSTRIA.

Newyddion o Vienna, Awst 6, a ddywedant fod y mesurau a fabwysiadwyd gan y Cadfridog Gemeau yn Rhufain, wedi tueddu newyddiaduron y llywodraeth yn Vienna i gondemnio y Ffrangcod yn ddiarbed, am eu diffyg o barch i'r gadair Babaidd, &c. Ond awgrymir fod dyfais ar droed i roddi milwyr Neopolitaidd ac Awstriaidd yn y cyfryw sefyllfaoedd ag a dueddai y Ffrangcod i gilio o Rufain. Gan fod Awstria eisoes bron yn feistres hollol ar ogleddbarth a chanolbarth Itali, ped enciliai y Ffrangcod o Rufain byddai yn gwbl felly, gan y gyrai ei byddinoedd yn mlaen yn fuan i Civita Vecchia, ac yn mlaen drachefn i'r brif-ddinas. Coronai hyn ddymuniadau yr awdurdodau yn Rhufain, fel y gallent yn rhwydd orthrechu y bobl modd y mynent.

CAMGYMERIAD RHYFEDD.—Yr oedd Gwyddeles, gan yr hon yr oedd plentyn un-mis-ar-bumtheg oed, yn llettya yn ddiweddar mewn tŷ yn Regent Street, Liverpool, yn aros i long gychwyn i Gaerefrog-Newydd, yn mha un yr oedd wedi cymeryd lle. Un prydnawn dygwyd gair iddi fod y llong am gychwyn yn ddioed. Hithau mewn brys mawr a heliodd yr ychydig ddillad oedd ganddi, a chan gipio ei phlentyn, tebygasai hi, o'r cryd oedd yn y gegin, rhedodd at y llong, a llwyddodd i fyned iddi pan oedd yn myned allan o'r *dock*. Ond pan oedd yr agerddlestr wedi llusgo y llong yn mhell allan i'r afon, canfu yr ymfudes, druan, mai plentyn y wraig gyda pha un y bu yn llettya oedd ganddi yn ei breichiau. Hysbysai i bobl yr agerlestr ei chamgymeriad, a dymunai arnynt fyned a'r plentyn yn ol i'w rieni, ond gomeddasant wneuthur hyny, gan eu bod yn meddwl mai dyfais oedd y cwbl i gael gwared o'r plentyn. Ni chlywsom ddim am y pleidiau wedi hyny.

PEIRIANT MEDI.—Cynnaliwyd ymgynnulliad blynyddol amaethyddol ar ffarm Mechi, yn Essex, yn mis Awst diweddaf. Gwnaed prawf ar beiriannau medi ar gae o wenith. Yr oedd y peiriant cyntaf a brofwyd o darddiad Americaidd, ond wedi ei wneuthur gan Mr. Garrett, peirianydd Seisnig, oddiwrth gynllun neu ddesgrifiad. Yr oedd yn gyfansoddedig o lawr isel o goed, tua phum' troedfedd o led; ac yn cael ei dynu gan ddau o geffylau. Ar du de y llawr yr oedd cist, yr hon oedd yn gorchuddio yr olwynion, a lle i ddyn eistedd arni, yr hwn gyda chribau yn ei law, oedd yn taflu y gwenith o'r naill du mor fuan ag yr oedd yn cael ei fedi. Yr oedd y toryddion, neu y cillill, rhywbeth yn debyg i ben pigffon, a phob dwy fodfedd yr oedd twcwyr bychain i ddal yr ŷd, a'i ddwyn o fewn cylch y torwyr. Y prawf a wnaed yn gyntaf ar draws y cefnau, ac wedi hyny hyny ar hyd y cefnau, ond pa un ai y gwlaw a barodd hyny ai peidio, yr oedd yn fethiant hollol. Yn y ddau amgylchiad am ychydig latheni, torwyd yr ŷd i lawr yn bur lân; ond wedi hyny yr oedd y torwyr yn ddieffaith. Ond pan osodwyd peiriant Mr. M'Cormick, o America, mewn gwaith, aeth rhagddo, gan dori y gwenith uchel gyda deheurwydd a rhwyddineb, nes synu y gwyddfodolion, a phan ddaeth i ben y grwn, croesawyd ef â bonllefau calonog.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

LLANYMDDYFRI.—Cynnaliwyd cyfarfod pregethu blynyddol yn y lle hwn, Mawrth a Mercher, Gorph. 22 a'r 23. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y brodyr J. Williams, Smyrna, Porthyrhyd; N. Thomas, Caerfyrddin; D. Jones, Caerdydd; W. Thomas, Pisga; E. Williams, Aberystwyth; a' D. Howells, (A.) Cafwyd cyfarfod da, a phregethau wedi eu myfyrio yn ddwys.

BETHESDA, ABERTAWY.—Cynhaliwyd Cyfarfod Trimisol yn y lle hwn ar y 6fed a'r 7fed o Awst. Cyfarfuwyd mewn cynhadledd am dri o'r gloch y dydd cyntaf, a chynnaliwyd y cyfarfodydd cyhoeddus ar yr amserau arferol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan D. Thomas, Cwmtwrch; B. Williams, Trefforest; J. R. Morgan, Aberafon; E. Thomas, Ystradgynlais; J. Pugh, Goitre; W. Lewis, Dinas; T. Price, Aberdar; J. Jenkins, Hengaed; C. Williams, Pontardawy; T. Jones, Castellnedd; D. Jones, Caerdydd; J. Jones, Caersalem Newydd; R. Evans, Castellnedd; J. Jones, Sion, Merthyr.

LLANHIDDEL.—Cynnaliwyd Cyfarfod Trimisol swydd Fynwy yn y lle hwn, Gorph. y 29fed a'r 30ain. Yn y gynhadledd penderfynwyd fod y Cwrdd Trimisol nesaf i fod yn Mhontaberbargoed, y Mawrth a'r Mercher olaf yn Hydref: hefyd, penderfynwyd fod y cwrdd hwn yn anghymeradwyo ymddygiad yr eglwysi a anogant bersonau nad ydynt yn weinidogion i weinyddu ordinhadau y Testament Newydd yn eu plith. Cymerwyd gwahanol ranau yn y gwaith cyhoeddus gan y brodyr Jarman, Argoed; Roberts, Tredegar; Evans, Nebo; Jones, Bedwas; Evans, Llaneurwg; Isaac, Trosnant; Thomas, Pisgah; James, Salem, Blaenau; Williams, Cwmbran; Stephen, Abergwyddon; Roberts, Noddfa; Williams, Brynmawr; Rowe, Risca; Ellis, Syrhowi.

SYMUDIADAU.—Mae y brawd D. W. Morris, gynt o Beula, Dyfed, wedi cymeryd gofal eglwys y Berthlwyd, Llanfabon, ac y mae wedi dechreu ar ei weinidogaeth yno oddiar y 22ain o Orphenhaf. Hefyd, mae y Parch. T. Hopkins, Tondu, wedi cymeryd gofal eglwys Bryntroedgam, lle y mae ganddynt ystafell helaeth a chyfleus, at gario y gwasanaeth yn y blaen.

SILOAM, MACHEN.—Cynnaliwyd cyfarfod er ail-agoryd yr addoldy hardd ac helaeth yn y lle hwn, ar y 10fed a'r 11eg o Awst. Y brodyr a bregethasant ar yr achlysur oeddent J. Rowe; T. Jenkins; Tim. Thomas; D. Edwards; D. Jones, Caerdydd; E. Thomas, Ystradgynlais; D. Evans, Llaneurwg; J. Jarman, Argoed; a'r Cymro Bach. Casglwyd ar yr agoriad 21p. 2s. 6c.

CAPEL GWYN, MON.—Cynnaliwyd cwrdd misol yn y lle hwn ar yr 11eg a'r 12fed o Awst. Pregethwyd a gweddiwyd gan Williams, Traethcoch; Griffiths, Llanerchymedd; Hopkins, Brynsiencyn; Rowlands, Bodlorgan; Roberts, Pensarn; Williams, Amlwch; Williams, Traethcoch; Jones, Llangefni; Roberts a Morgan, Caergybi; Nicholas, Bangor; a Roberts, Llanfachreth.

CWMGARW.—Cynnaliwyd cwrdd misol Bro Morganwg yn y lle hwn ar y 13eg a'r 14eg o Awst. Cafwyd amryw bregethwyr, a chyfarfodydd dymunol.

Cyflafan Anwaraidd.—Fel yr oedd teulu o *gypsies*, yn cyfanneddu am noswaith yn ymyl yr heol yn y Goitre, gerllaw Pontypwl, nid bychan oedd eu harswyd a'u gofid, pan welsant boreu dranoeth fod clustiau eu holl asynod wedi cael eu tori wrth eu penau!!—Dywedir fod cyflafan gyffelyb wedi ei chyflawni yn agos yn yr un gymmydogaeth er ys tua deugain mlynedd yn ol, sef tori tafodau ceffylau marsiandwr a elwir *Cheap John.*—Dywedir hefyd fod barn a difodiad wedi goddiweddyd y teulu a dybid yn euog, fel nad oes neb o honynt yn fyw yn bresennol; ac ni ryfeddem weled Rhagluniaeth yn nodi allan y rhai sydd yn euog o'r gyflafan ddiweddar hon. Fe dystiolaetha Duw o blaid y rhai nas gallant dystiolaethu drostynt eu hunain.—*Bedyddiwr.*

Tynerwch Teuluaidd "y Saint."—Daeth awr gwraig un o'r Seintiau yn ddiweddar, yr hon oedd wedi bod mor gyndyn a pheidio credu ffwlbri ei gwr, er cymmaint ei sel a'i ddyfalwch yn cymhell y ffordd newydd hon arni. Pan ddaeth ei gofid, anfonwyd am ei gwr o'r gwaith, mewn trefn iddo anfon am y meddyg; ond er iddo gael ei hysbysu fod ei wraig yn ddrwg iawn dywedodd na ddelsai, o herwydd fod ei wraig wedi gwrthod *credu*. Gan fod y wraig druan yn gwaethygu, ac yn ymddangos mewn sefyllfa beryglus iawn, anfonwyd am y gwr drachefn, ond gwrthododd ddod eilwaith, gan ddywedyd pe buasai hi wedi credu na buasai eisiau meddyg. Ond wrth weled y wraig yn ymyl rhoddi fyny yr ysbryd, rhedodd un o'r cymmydogion i alw y meddyg, yr hwn a ddaeth ar unwaith, a thystiai pe buasai y wraig yn cael bod am ddeng mynud yn hwy heb gymhorth y buasai wedi marw. Ymddengys oddiwrth y ffaith uchod, fod rhywbeth yn nghrefydd Joe Smith ag sydd yn sychu i fynu deimladau cynes y natur ddynol, ac yn tueddu i ddyrysu ac anneddwyddu teuluoedd. Gwareder holl langcesau Cymru rhag y fath fleiddiaid dieflig.

Dygwyddiad Galarus.—Dydd Sadwrn, y 9fed o Awst, cymerodd dygwyddiad galarus le yn Llanelli, swydd Gaerfyrddin, yr hwn a daflodd yr holl dref a'r gymmydogaeth i'r cyffroad mwyaf adfydus. Ymddengys i ddau fab i'r Parch. D. Rees, gweinidog Capel Als, fyned allan i ymdrochi ar y prydnawn crybwylledig, a rhyw fodd neu gilydd boddodd y ddau. Nid ydym hyd yn hyn wedi cael hysbysiaeth o'r amgylchiadau, ond dywedwyd wrthym fod Mr. Rees oddicartref, a bod y ddau blentyn gyda'u mam yn yfed *tea* am 5 o'r gloch, ac iddynt hwy a rhai plant eraill fyned i ymdrochi yn y dwfr rhwng y gledrffordd a'r tir, a chan fod y llanw yn myned allan ar y pryd, yr oedd y dwfr yn rhedeg yn gyflym iawn drwy un o'r *culverts* sydd dan y gledrffordd, a bu un o'r cymdeithion ieuaingc yn debyg o gael ei dynu i mewn yno gyda'r ffrwd, ac un o blant Mr. Rees a neidiodd i'r dwfr i'w achub, a phan welodd y llall ei frawd mewn perygl, yntau hefyd a neidiodd i'r dwfr i'w gynorthwyo, ond yn anffodus boddodd y ddau, er i'r plentyn a aeth gyntaf i berygl gael ei achub drwy ryw foddion neu gilydd. Cafwyd gafael yn un o'r cyrff bychain yn fuan iawn, a gwnawd pob ymdrech i'w adfywio, ond bu y cwbl yn hollol ofer; cafwyd y llall hefyd yn mhen ychydig amser, eithr yr oedd yn rhy ddiweddar i gynnyg adferu ei fywyd. Mae yn hawdd dirnad teimladau y fam pan ddygwyd y cyrff meirwon yn ol i'r tŷ. Dywedir ei bod mewn cyflwr o wallgofrwydd perffaith, ac yn ddiseibiant yn cael ei chymeryd gan y llewygon mwyaf dirdyniadol.—*Seren Cymru.*

## CYMANFA DDIRWESTOL GWENT A MORGANWG.

Cynnaliwyd y gymanfa hon eleni yn Mhen-y-cae, sir Fynwy, dyddiau Llun a Mawrth, Gorphenhaf y 7fed a'r 8fed, pan y cymerodd y boneddigion canlynol ran yn ngweithrediadau y cyfarfodydd: y Parchn. Daniel Davies, Abertawy: William Rowlands, Brynmawr; William Jones, Pontsaeson; William Williams, Hirwaun; John Thomas, Glynnedd; David Phillips, Maesteg; Evan Evans, Nantyglo; Geo. Phillips, diweddar o Drefeca, a'r Meistri W. Watkins, a Rees Lewis, Merthyr. Cynnaliwyd dau gyfeisteddfod mewn cyssylltiad â'r Gymanfa, yn y rhai yr adroddodd amryw o gynrychiolwyr y cymdeithasau ansawdd yr achos yn eu plith, ac er nad ymddangosai mor llwyddiannus ag y byddai yn dda iddo fod, wrth ystyried ansawdd ofer a meddwol llawer o'r ardaloedd; eto, cafwyd ar ddeall fod Dirwest yn cael ei dwyn yn mlaen gyda chryn egni a threfn mewn amryw fanau, a bod dylanwad nerthol yn cael ei gynhyrchu ganddi ar ymarweddiad moesol y trigolion.

Trefnwyd fod y cylch-lythyr yr anogwyd y tri brawd enwedig yn nghymanfa Aberdar y llynedd i'w gyfansoddi, i gael ei argraffu a'i anfon i bob gweinidog a phregethwr yn Neheudir Cymru, yn eu hannog i fabwysiadu, neu i weithgarwch ychwanegol gydag achos sobrwydd. Fod yn angenrheidiol i gefnogwyr Dirwest fyned i'r awyr agored i areithio, fel y caffo y rhai na ddelo i wrando i ystafelloedd a chapeli, glywed am foddion effeithiol i sobri y byd.

Y gymanfa am y flwyddyn 1852 i fod yn Merthyr. Cymdeithas y lle i nodi yr amser.

Ymofynwyd am y moddion goreu i gadarnhau dynion a'u cadw gyda Dirwest ar ol eu cael i arwyddo yr ardystiad.

Nodwyd ei fod yn angenrheidiol i Ddirwestwyr ymgydnabod â meddwon diwygiedig y tu allan i furiau yr ystafel; drwy ddangos pryder am eu llwyddiant, a dymuniad am eu daioni. Awgrymwyd am y priodoldeb o gyhoeddi adroddiad o ansawdd yr achos yn mhob lle.

Mynegwyd mai llwybr a gafwyd yn effeithiol iawn mewn rhai manau yw cynnal cyfarfodydd dirwestol yn nhai meddwon diwygiedig, ac eraill, fel y caffo y cyrau pell o drefi a phentrefi, gael cyfle i glywed am, a mabwysiadu eu hegwyddorion.

Bwriedir cyhoeddi adroddiad blynyddol o sefyllfa yr achos yn gyffredinol o hyn allan yn draethodyn ar ei ben ei hun.

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harv... C... Library ... D. Evans Danesville, N. Y.

# Y SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

### CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] TACHWEDD, 1851. [RHIF. 89.

CYNNWYSIAD.


| | |
|---|---|
| Holwyddoreg ar Enedigaeth Crist. | 255 |
| Yr Efengyl y Trysor Goreu, | 257 |
| Edifeirwch pan yn rhy Ddiweddar, | 258 |
| Eistedd wrth Weddio, | 259 |
| Dameg y Wadd a'r Hedydd, | 259 |
| Cylchrediad y Gwaed, | 260 |
| Hanes yr Eglwys Gristionogol, | 260 |
| Galar Gwraig y Meddwyn, | 266 |
| Dwyn y Weddw, | 266 |
| Ar farwolaeth J. H. Jones, (Ioan Celer.) | 266 |
| Y Fasnach Lô | 267 |
| Beirniadaeth Philalethes, | 267 |
| Amddiffyniad Dic Shon Dafydd, yn y Cyfaill, | 268 |
| Hanesiaeth am Patrick Henry. | 268 |
| Cynghor Argl. Chatham, i'w Fab, | 268 |
| Y Presbiteriaid yn Pennsylvania, | 268 |
| Y Tad Mathew, | 269 |
| Meddyginiaeth.—Homœopathy, | 269 |
| Darganfyddiad yn yr Aifft, | 269 |
| Tân Arswydus yn Buffalo, | 270 |
| Meddyginiaeth rhag Gwenwyn, | 270 |
| Dirwest yn Swydd Luzerne. Pa., | 270 |
| Dirwest yn Nghaerefrog-Newydd, | 270 |
| Mwn Arian yn Kentucky, | 270 |
| Amgylchiad Galarus, | 270 |
| Geiriau diweddaf dynion Enwog. | 270 |
| Cydnabyddiaeth y Casglwr, | 271 |
| Cyfieithad newydd o'r Hen Feibl, | 271 |
| *Gofyniadau,* | 272 |
| *Adolygiad y Wasg*—Y Meddyg Teuluaidd, | 273 |
| *Genedigaethau,* | 273 |
| *Priodasau,* | 273 |
| *Marwolaethau,* | 273 |
| **HANESIAETH DRAMOR.** | |
| Prydain Fawr, &c.—Yr Arddangosiad Mawr, Nifer Meddwon Lloegr a Chymru, | 274 |
| Ffrainge, | 275 |
| Twrci, | 275 |
| Penrhyn Gobaith da. | 275 |
| Australia. | 275 |
| Syr John Franklin, | 275 |
| *Tywysogaeth Cymru.*—Darlith a'r Llydaw, | 276 |
| " " Rhybudd i Deithwyr Rheilffyrdd, | 276 |
| " " Eisteddfod Lerpwl, | 376 |
| " " Y Gymdeithas Henafiaethol Gymreaidd, | 277 |
| " " Eisteddfod Iforaidd Caerfyrddin, | 277 |
| " " Poblogaeth Cymru, | 277 |
| " " Damwain Erchyll yn Aberdare. | 278 |
| " " *Marwolaethau,* | 278 |
| HYSBYSIADAU, | 278 |


POTTSVILLE.

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] TACHWEDD, 1851. [RHIF. 89.

## HOLWYDDOREG AR ENEDIGAETH CRIST.

GAN J. M. THOMAS, ABERTEIFI.

(Parhad o dud. 232.)

GOF. 9.—Ai dyna i gyd a ddywedodd Simeon ac eraill am dano?

AT.—Fy llygaid a wel'sant dy rad iachawdwriaeth,
Ddarperaist gerbron yr holl bobloedd yn helaeth;
Goleuni dy gleiriol i 'leuo'r cenedloedd,
Gogoniant dy bobl, hen Israel ar gyhoedd,
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.*

Luc ii. 30, 32; "Canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth, yr hon a baratoaist gerbron wyneb yr holl bobloedd; goleuni i oleuo y cenedloedd, a gogoniant dy bobl Israel."

Luc iii. 6; "A phob cnawd a wel iachawdwriaeth Duw."

Esay xlix. 3; "Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Jacob, ac i adferu rhai cadwedig Israel; mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r cenedloedd, fel y byddych yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear."

GOF. 10.—Pa fodd yr ymddygodd Herod tuag ato, wedi clywed am ei enedigaeth?

AT.—Pan glywodd falch Herod am eni'r mab bychan,
Cyffrowyd e'n ddigllon, nid bach oedd ei dychan,
"Ewch 'nawr ymofynwch pa le ca'dd ei eni,
Fel gallwyf fi ddyfod ar frys i'w addoli:"
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Math. ii. 3, 7, 8; "Ond pan glybu Herod frenin, efe a gyffrowyd, a holl Jerusalem gydag ef. Yna Herod, wedi galw y doethion yn ddirgel, a'u holodd hwynt yn fanol am yr amser yr ymddangosasai y seren. Ac wedi eu danfon hwy i Fethlehem, efe a ddywedodd, Ewch, ac ymofynwch yn fanol am y Mab bychan, a phan gaffoch ef mynegwch i mi, fel y gallwyf finnau ddyfod a'i addoli ef."

GOF. 11.—A oedd Herod yn ddidwyll yn ei gais?

AT.—Ac yna y brenin, pan welodd ei siomi,
A ffromodd yn ddirfawr o lid at yr Iesu,
Fe laddodd yn Methlo'm, ac yn ei chyffiniau
Y bechgyn o ddwy flwydd a than, o bob graddau;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Math. ii. 16, 18; "Yna Herod, pan welodd ei siomi gan y doethion, a ffromodd yn arathr, ac a ddanfonodd ac a laddodd yr holl fechgyn oedd yn Methlehem, ac yn ei holl gyffiniau, o ddwy flwydd oed a than hyny, wrth yr amser yr ymofynasai efe yn fanwl â'r doethion. Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedasid gan Jeremias y proffwyd, gan ddywedyd, Llef a glybuwyd yn Rama, galar, ac wylofain, ac ochain mawr, Rahel yn wylo am ei phlant, ac ni fynai ei chysuro am nad oeddent."

GOF. 12.—A lwyddodd Herod yn ei amcan maleisddrwg?

AT.—Gorch'mynodd yr angel i Joseph, mewn breuddwyd,
I ffoi a'r Mab bychan i'r Aifft yn ddiarswyd;
Ond marw wnaeth Herod yn nhwrf ei amrafael,
A'r fam a ddychwelodd a'i Mab i dir Israel;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD ETIFEDD Y NEF, ALELIWIA.

Math. ii. 13, 14, 19—21; "Wele angel yr Arglwydd yn ymddangos i Joseph mewn breuddwyd, gan ddywedyd, Cyfod, cymer y Mab bychan a'i fam, a ffo i'r Aifft, a bydd yno hyd oni ddywedwyf i ti; canys ceisio a wna Herod y Mab bychan i'w ddyfetha ef. Ac yntau, pan gyfododd a gymherth y Mab bychan a'i fam o hyd nos, ac a giliodd i'r Aifft. Ond wedi marw Herod, wele angel yr Arglwydd mewn breuddwyd yn ymddangos i Joseph yn yr Aifft, gan ddywedyd, Cyfod, a chymer y Mab bychan a'i fam, a dos i dir Israel, canys y rhai oeddent yn ceisio einioes y Mab bychan a fuont feirw. Ac wedi ei gyfodi, efe a gymherth y Mab bychan, a'i fam, ac a ddaeth i dir Israel."

GOF. 13.—A gynyddodd y bachgen mewn doethineb a chorffolaeth?

AT.—A'r bachgen gynyddodd yn gryf mewn corffolaeth,
Yn gyflawn o enaid a phob rhyw wybodaeth;
Mewn ffafr â Duwdod, mewn ffafr â dynion,
A gras Duw oedd arno yn fwy na'r angylion;
*'Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna,*
FE ANWYD TYWYSOG Y NEF, ALELIWIA.

* Mae y geiriau argraffedig mewn llythyrenau Italaidd i gael eu hadrodd gan y gwrywod gyda'u gilydd; y rhai mewn prif lythyrenau bychain gan y menywod, a'r rhai yn y prif lythyrenau i gael eu hadrodd gan y gwrywod a'r menywod gyda'u gilydd.

Luc i. 80; "A'r bachgen a gynyddodd, ac a gryfhawyd yn yr Ysbryd, ac a fu yn y diffeithwch hyd y dydd yr ymddangosodd efe i'r Israel."

Luc i. 40. 52; "A'r bachgen a gynyddodd, ac a gryfhaodd yn yr Ysbryd, yn gyflawn o ddoethineb, a gras Duw oedd arno ef. A'r Iesu a gynyddodd mewn doethineb a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw a dynion."

Heb. i. 4; "Wedi ei wneuthur o hyny yn well na'r angylion, o gymmaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt-hwy."

Gof. 14.—A ddangosodd efe ei ddoethineb yn y deml pan nad oedd ond ieuangc?

At.—Fe'i gwelwyd un diwrnod yn nghanol doctoriaid,
Yn nheml Caersalem, yn ddigon diniwaid,
Yn gwrandaw, yn holi, nes synu'r holl ddynion,
O herwydd ei ddeall a'i ddoethfawr atebion;
'*Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna*,
Fy anwyd Etifedd y Nef, Aleliwia.

Luc ii. 41—47; "A'i rieni ef a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar wyl y pasg. A phan oedd efe yn ddeuddeg mlwydd oed, hwynthwy a aethant i fynu i Jerusalem yn ol defod yr wyl. Ac wedi gorphen y dyddiau, a hwy yn dychwelyd, arosodd y bachgen Iesu yn Jerusalem, ac ni wyddai Joseph a'i fam ef. Eithr gan dybied ei fod yn y fintai, hwy a aethant daith diwrnod, ac a'i ceisiasant ef yn mhlith eu cenedl a'u cydnabod. A phryd na chawsant ef, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, gan ei geisio ef. A bu, ar ol tridiau, gael o honynt hwy ef yn y deml, yn eistedd yn nghanol y doctoriaid, yn gwrandaw arnynt, ac yn eu holi hwynt. A synu a wnaeth ar bawb ar a'i clywsant ef, o herwydd ei ddeall a'i atebion."

Gof. 15.—A drefnwyd i'r baban i lenwi swyddau mawrion?

At.—Fe drefnwyd i'r baban i fod yn Gyfryngwr,
Rhwng Duwdod a dynion, da, hynaws fwyn Ddyddiwr;
Yn Frenin, Offeiriad, a Phroffwyd anfeidrol,
I lywio, aberthu, a dysgu'r holl bobl;
'*Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna*,
Fy anwyd Etifedd y Nef, Aleliwia.

1 Tim. ii. 15; "Canys un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu."

Salm ii. 6; "Minnau a osodais fy Mrenin ar Seion, fy mynydd santaidd."

Luc i. 33; "Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd; ac ar ei freniniaeth ni bydd diwedd."

Dan. vii. 14; "Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a breniniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, ac ieithoedd ei wasanaethu ef; ei lywodraeth sy lywodraeth dragywyddol, yr hon nid a ymaith; a'i freniniaeth ni ddyfethir."

Heb. v. 6; "Megys y mae yn dywedyd mewn lle arall, Offeiriad wyt ti yn dragywydd, yn ol urdd Melchisedec."

Heb. vii. 27; "Yr hwn nid yw raid iddo beunydd, megys i'r offeiriaid hyny, offrymu aberthau yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna dros yr eiddo ei bobl; canys hyny a wnaeth efe unwaith, pan offrymodd efe ei hun."

Act. ii. 22; "Canys Moses a ddywedodd wrth y tadau, Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi Broffwyd o'ch brodyr megys myfi; arno ef y gwrandewch yn mhob peth a ddywedo wrthych."

Salm xxv. 8; "Da ac uniawn yw yr Arglwydd, o herwydd hyny y dysg efe bechaduriaid yn y ffordd."

Gof. 16.—Onid yw caredigrwydd y Mab yn galw am ein clodforedd?

At.—*Hosanna*, Hosanna, i'r Mab fu mewn preseb,
Sy 'nawr ar orseddfaingc yn deyrn tragwyddoldeb;
*Boed moliant*, boed moliant i Fab y Goruch a
*Gogoniant*, gogoniant. *Amen*. Aleliwia;
'*Nawr boed i'n ganu yn seinfawr Hosanna*,
Fy anwyd Etifedd y Nef, Aleliwia.

Math. xxi. 9; "A'r torfeydd, y rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ol, a lefasant gan ddywedyd, Hosanna i Fab Dafydd: bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd: Hosanna yn y goruchafion."

Luc i. 32, 33; "Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf, ac iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd; ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei freniniaeth ni bydd diwedd."

Salm clxxxv. 2; "Molwch yr Arglwydd: canys da yw yr Arglwydd; canwch i'w enw, canys hyfryd yw."

Dat. xix. 1; "Ac ar ol y pethau hyn mi a glywais megys llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef, yn dywedyd, Aleliwia; Iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni."

Salm xli. 12; "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. Amen, ac Amen."

Gof. 17.—Beth yw eich dymuniad ar ran eich cyd-greaduriaid, gyda golwg ar roddiad y Mab?

At.—*O bydded*, o bydded, i holl deulu Adda,
*I gredu*, i gredu, yn Mab mawr Jehofa;
*I'w garu*, i'w garu, *yn awr*, a heb derfyn,
*A'i barchu*, a'i barchu, efe fyddo'u brenin
byth. *Amen*. Iddo ef byddo'r fendith.
*Anrhydedd*, gogoniant, *a'r gallu'n dragyfyth*.

GRAS EIN HARGLWYDD NI IESU GRIST FYDDO GYDA CHWI OLL. AMEN.

## YR EFENGYL Y TRYSOR GOREU.

Ein Hiachawdwr Iesu Grist a'n dysgodd fod yr efengyl, neu newyddion da iachawdwriaeth, yn debyg i drysor, yr hwn a bwrcasodd efe i ni trwy ei ufudd-dod a'i farwolaeth. Yn awr y mae trysor yn arwyddo rhyw beth sydd o fawr werth; ac onid yw yr efengyl yn berl gwerthfawr i bob gwir Gristion? Dafydd a'i barnodd yn "well na miloedd o aur ac arian." St. Paul "a gyfrifodd bob peth arall yn dom ac yn golled" mewn cymhariaeth iddi, a gwybodaeth o honi. Gofyned y darllenydd iddo ei hun, A ydwyf fi o'r un farn a Dafydd a Paul, ac yn priso newyddion da yr efengyl fel hwynt-hwy? Os wyf fi yn dewis unrhyw beth o flaen yr efengyl, diameu fy mod yn dibrisio y trysor gwerthfawrocaf. Pob gorchymyn, pob addewid, a phob gwirionedd yn yr efengyl, sydd megys perl, yr hwn y mae i ni, yn anad dim, ei brynu, ac er dim ochelyd ei werthu; canys "Gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian, a'i chynhyrch hi sydd well nag aur coeth. Gwerthfawrocach yw hi na gemau; a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi."

Trysor sydd rywbeth prin ac anghyffredin. O leied o wledydd sydd yn mwynhau ben dithion yr efengyl! O gymmaint nifer y mae y trysor hwn yn guddiedig rhagddynt! Pa ham yr ydym ni yn berchen Beiblau, ac yn clywed pregethu, mwy na gwledydd tywyll yr India ac Affrica? Paham y gadewir hwynt mewn tywyllwch i aberthu eu hunain a'u plant i eilunod mudion; ond i ni y danfonwyd gair yr iachawdwriaeth hon." Yr unig ateb a ellir roddi ydyw, "Ie, O Dad, canys felly y rhyngodd bodd i ti" "Lle y rhoddwyd llawer, llawer a ofynir." Ymdrechiadau mawrion yn ddiau a wneir yn y dyddiau hyn i'w rhoddi yn fwy ar led, fel na byddo "iaith nac ymadrodd lle ni chlyw ... lleferydd." Boed iddi, fel yr haul, gerdded rhagddi yn ei grym, "nid fel gair dyn, ond fel y mae yn wir yn air Duw." Y fath odidawgrwydd rhagorol sydd yn perthyn i'r trysor hwn, na leiha ddim pe byddai yr holl fyd yn cyfranogi o hono. Golud Crist sydd anchwiliadwy. Ac eto y mae lle. Pa ddyfnaf y cloddiwch iddo, mwyafoll fydd y cyfoeth.

Trysor a roddir mewn lle cuddiedig o olwg y byd. Y rhai a fynent gael trysor yr efengyl, rhaid chilio am dano, nid ar hyd llwybrau sathredig y byd, nac hyd ffordd lydan plant yr anufudd-dod. Mae allan o olwg y diog a'r anystyriol. Nid oes dim rhwng dynion a' gael ond eu bod heb weled ei werth. Swydd gwyliedyddion Sion ydyw dal allan ei werth. fawrawgrwydd, a dangos y perygl o'i esgeuluso, a chymhell eu gwrandawyr i gloddio yn ddwfn am dano, a'i "brynu iddynt eu hunain." Gair Duw yw y maes y cuddiwyd ef ynddo, ac yma rhaid ei "geisio fel am arian, a chwilio am dano fel am drysorau cuddiedig," Diar. 2. 4. "Chwiliwch yr ysgrythyrau," medd Crist, "canys hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi." Er ei fod yn guddiedig mae efe yno i'w gael. Ffydd yn y gair a ddarllenir, ynghyd a gweddi am ddysgeidiaeth yr Ysbryd, a ddwg i'r amlwg y trysor cuddiedig.

Trysor sydd yn arwyddo amlder o bethau dymunol. Yr efengyl sydd gloddfa o drysorau. "I mi," medd St. Paul, "y rhoddwyd y gras hwn, i efengylu yn mysg y cenedloedd anchwiliadwy olud Crist;" Eph. 3. 8. Elw anfeidrol a enillir oddi wrtho; maddeuant pechod—tangnefedd gan gredu—cyfiawnhad gerbron Duw—santeiddrwydd calon a buchedd—dyfodfa at Dduw mewn gweddi megys at Dad caredig—goruchafiaeth ar y byd, y cnawd, a'r diafol; ynghyd a llawer o freintiau gwerthfawr eraill a ddylifant ato trwy efengyl Crist.

Y mae trysor drachefn yn arwyddo rhyw beth sylweddol a pharhaus. Nid ydym yn gwneud fawr o sylw o "drysorau yr eira," yr hwn a dawdd ac a ddiflana. Pob trysorau daearol sydd yn darfod wrth eu harferyd.—"Golud yn ddiau a gymer adenydd, ac a eheda ymaith" oddiwrth ei berchenog, neu ei berchenog a'i gad ef i eraill. Dywedodd y gwr goludog wrth ei enaid, "Fy enaid, y mae genyt dda lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd; gorphwys, bwyta, yf, bydd lawen." Eithr pa lesad oedd ei holl olud iddo pan y dywedodd Duw, "O ynfyd, y nos hon y gofynir dy enaid oddi wrthyt" Ynfyd yw pob un a ddilyn ei siampl. Eithr nid felly efengyl Crist; y trysor hwn a erys gyd a'i berchenog dros holl yspaid ei bererindod ar y ddaear; ac er iddo ymadael â'r byd, nid ymedy byth â'i drysor. "Canys y mae yn ddyogel genyf, na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd;" Rhuf. 8. 38, 39.

Ond er mwynhau pob peth sydd odidog a gwerthfawr trwy efengyl gras Duw, eto llawer sydd yn ei hesgeuluso; ei thrysor sydd o werth bychan yn eu golwg. "Llawer sydd yn dywedyd, Pwy a ddengys i ni ddaioni?" Mwyniant daearol ydyw y gwrthddrych

mawr a geisiant trwy amryw ffyrdd. Yngais y cybydd am ddedwyddwch yw gasglu cyfoeth. Y glwth a'r meddw a'i ceisiant yn eu bwydydd a'u diodydd. Y dyn bydol yn ei feddiannau, a'r ieuangc yn ei felus-chwantau; ac er i bob un o honynt gael dymuniad ei galon y mae'y dedwyddwch heb ei gael—mae rhyw wagle yn y meddwl heb ei lenwi. Maent yn ceisio y byw yn mysg y meirw. Maent yn beio y byd, ac eto yn ei garu: yn canmol Crist, ac eto yn byw yn ddiystyr o hono.

Ond pa gyfrif ydych chwi yn ei wneuthur o'r trysor gwerthfawrocaf? A ydych am werthu cymmaint oll ag a feddoch, ac am ymwadu â chwi eich hunain er mwyn ei brynu? neu, A ydyw eich hiraeth yn fwy am gyfoeth daearol nag am Grist? Mae yr Arglwydd yn nhrefn ei ragluniaeth wedi priuâu arlawer yn y dyddiau hyn mewn rai manau, i ddysgu iddynt na "obeithion mewn golud anwadal; ond yn y Duw byw." Ac er cymmaint sydd o brinder arian, mae mwy o brinder gras.—Berawch pa un oreu ei gael yn awr angeu. Pe byddai eich claf-wely wedi ei orchuddio ag aur ni thorai ddim ar boenau y corff, nid esmwythai gydwybod euog. O mor werthfawr fydd y trysor hwn y pryd hyny. Cesglwch gan hyny y gwir olud erbyn dydd prinder: "prynwch ef i chwi eich hunain." Prin a thlawd yn wir yw cyflwr pob un sydd yn ymddifad o drysor yr efengyl. Y mae angenrheidiau y bywyd presennol yn nghlyn â'r trysor hwn. "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a phob peth arall a roddir i chwi yn ychwaneg." Trwy feddiannu hwn, geill y tlotaf, "heb ddim ganddo, feddiannu pob peth;" ac hebddo ef nid yw y cyfoethocaf ond "truan, gresynol, tlawd, dall, a noeth." Heddyw gwrandewch ar lais Crist, "Yr wyf yn dy gynghori i brynu genyf fi aur wedi ei buro trwy dân, fel y'th gyfoethoger; a dillad gwynion, fel y'th wisger, ac fel nad ymddangoso gwarth dy noethder di; ira hefyd dy lygaid ag eli llygaid, fel y gwelech;" Dat. 3. 18.

Yr hwn sydd yn proffesu perchenogi y trysor hwn, edryched am fyw yn addas iddo. Mae cyfoethogion yn arfer ymddilladu yn ol y cyfoeth sy ganddynt; "ymddygwch chwithau yn addas i efengyl Crist." Anweddus fyddai gweled dyn goludog a'i ddillad yn fudron a charpiog. Mil mwy gwrthun ydyw gweled proffeswyr yr efengyl yn feddwon, yn odinebus, yn dwyllodrus a chelwyddog. "Y neb a enwo enw Crist, ymadawed oddiwrth anghyfiawnder." Dangoswch fod y trysor genych, trwy "wisgo am danoch yr Arglwydd Iesu Grist; ac na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef."—Bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn hefyd oedd yn Nghrist Iesu.

Mae anchiliadwy olud gras
Yn addas iawn i ni;
Ni gawsom drysor mawr ei werth
Yn aberth Calfari.

Am hyny yr y's yn galw ar ol
Colledig ddynolryw,
Trwy rinwedd aberth Calfari
"Cymmoder chwi â Duw."

Gorphenwyd iachawdwriaeth lawn,
Brydnawn ar Galfari;
Trwy boenau Crist a'i angeu ef
Daeth trysor nef i ni.

Mwy gwerth nag aur, a pherlau drud,
Mwy gwerth na'r byd o'r bron,
Yw hen efengyl fawr ein Ior,
O ceisiwch drysor hon.

*Pittsburg.* *Cyfl.* IORWERTH.

---

## EDIFEIRWCH PAN YN RHY DDIWEDDAR.

Yr wyf ar derfynu â'r ddaear—mynud yn chwaneg a derfydd am danaf! I ba ddyben yr wyf wedi byw? Pa gyfraith neu ddyledswydd a gedwais? Fy neall sydd wedi ei dywyllu trwy ragfarn—fy nghydwybod sydd wedi ei serio trwy ddiffodd yr Ysbryd Glân—fy nghalon wedi ei chaledu drwy bechod—fy neimladau effro wedi sychu fynu drwy droi y clust fyddar at ocheneidiau y weddw a'r ymddifad yn eu hadfyd. Gwnaethum lawer o addunedau i wella fy mywyd, ond mi a'u torais i gyd, yr hyn sydd ffiaidd genyf feddwl am dano.

Y mae fy nghalon o fy mewn yn gwywo ac yn marw! O! i ba bwrpas yr wyf wedi byw? Dymunwn fod diwedd ar fy modoliaeth am byth, fel y gallwn orphwys yn y bedd am dragywyddoldeb; ond yr wyf yn arswydo wrth feddwl am y bywyd dyfodol! Pa beth ydyw yr anesmwythdra sydd yn fy nghydwybod mewn perthynas i'r bywyd dyfodol? af ofni marw a'r bedd yr wyf, na bydd terfyn am fy nychrynfeydd am byth? neu a ydyw y mynydd o euogrwydd yr wyf yn ei ddyoddef yn awr i lethu a dirdynu fy enaid i dragywyddoldeb! Ai byth y bydd i'r sarff hyn fy mrathu, a rhwygo fy ngholuddion i dragywyddoldeb! O! mae uffern yn barod wedi dechreu llosgi o fy mewn! Yr wyf yn ei theimlo yn suddo fy ysbryd! Gallais gynt aflonyddu fy nghydwybod trwy ddywedyd i'r lleidr ar y groes gael trugaredd ar yr awr ddiweddaf; ond dyma yr archoll ddyfnaf wyf yn ddyoddef yn awr, o herwydd i mi gellwair â gwahoddiadau y Nef. O na fedrwn wylo y

bywyd truenus yma ymaith, a'm calon ddideimlad rwygo yn fil o ddarnau. Ond nis gallaf wylo—nis gall fy nghalon adamentaidd hollti! Dymunwn fod fy nyoddefiadau yn ganmil mwy poenus, pe byddai hyny yn rhoi iawn am yr hyn a basiodd; ond ni wnaiff! Yr wyf yn teimlo holl ddialeddau uffern yn fy mynwes; ond nid oes yr un pechod yn cael ei faddeu! Yr wyf yn teimlo brathiadau y pryf nad yw yn marw, a'r tân nad yw yn diffodd byth; eto nid oes iawn yn cael ei roddi am y bai lleiaf! O! yr arteithiau dirdyniadol wyf yn deimlo yn fy enaid diffrwyth!!

Yr oedd yn gorwedd am fynud yn dawel; wedi hyny fe droai oddiamgylch yn ei wely, ac a lefai allan fel taran! Yr oedd y chwys yn rhedeg i lawr dros ei dalcen adamentaidd! Yr oedd yr olwg arno yn ddychrynllyd! O! fel yr oedd yn ffieiddio y rhai a'i hadwaenai yn ei sefyllfa druenus! Yr oedd yn rhoi ei fysedd ysgyrnog ar ei fynwes ddychrynedig, gan ddywedyd, mai yno yr oedd uffern o boenedigaeth tragywyddol wedi dechreu! a'r gair tor-calonus Tragywyddoldeb yn swnio yn ddwys yn ei glustiau! Yn union-gyrchol fe grynodd ei holl gyfansoddiad; ac yn mhen eiliad, ei enaid a ehedodd at y Duw yr hwn a'i rhoes ef.

Gwir yw yr hen ddywediad, "Y drygionus a yrir ymaith yn ei ddrygioni; ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo marw."—*O'r Practical Preacher.* *Cyf.* D. CADWALADER.

## EISTEDD WRTH WEDDIO.

GAN fod yr arferiad o eistedd wrth weddio yn ffynu yn mhlith y Cymry yn eu cyfarfodydd mewn rai manau, wele fi yn cynyg y sylw hwn yn fyr arno, sef ei fod yn anweddaidd. Pa fodd y daeth y fath arferiad i'r byd nid wyf yn gwybod, ond amlwg ydyw na ddaeth trwy iawn-ddeall unrhyw ran o'r ysgrythyr. Yn yr Actau 21. 5, ceir hanes Paul, ynghyd a saith eraill y rhai y ceir eu henwau yn yr 20fed ben. a'r 4ydd adn., yn ymadael o Tyrus, ac fel hyn y crybwyllir am eu hymddygiad mewn cyssylltiad â'r ddyledswydd o weddio: "A phawb, ynghyd a'r gwragedd a'r plant a'n hebryngasant ni hyd allan o'r ddinas, wedi i ni ostwng ar ein gliniau ar y traeth, ni a weddiasom." Paham y gostyngent ar eu gliniau i weddio? Barnwyf nad oes rheswm arall heblaw mai dyma yr agwedd fwyaf addas. Mae y rheswm hwn yn derbyn mwy o gadernid pan ystyriom mai ar y traeth (glan y môr) yr oeddent yn plygu eu gliniau. Mae esiampl yn dwyn yr un awdurdod a chyfarwyddyd neu orchymyn. Y mae rheswm hefyd yn dangos afresymoldeb yr arferiad o eistedd wrth weddio. Agweddiad er esmwythder i'r corff yw eistedd; ond y mae sefyll ar draed yn agwedd ag sydd yn dangos bod un yn ceisio rhywbeth heblaw boddloni teimlad y corff yn unig; ac ymostwng neu blygu gliniau yn arwydd o geisio rhyw ffafr gyda thaerineb a difrifoldeb.

Arferiad arall ag sydd yn cyd-fyned ag eistedd wrth weddio yw sefyll ar eu traed wrth ganu. Mae yr un mor briodol i bawb i sefyll ar eu traed pan fyddont yn gwrando pregeth, neu ddarlleniad rhan o Air Duw, ag ydyw iddynt sefyll pan fyddys yn canu. Mae bod pawb yn sefyll ar eu traed yn amser y canu yn tueddu i ddyrysu yr addoliad, ac felly yn rheswm yn ei erbyn. PELICAN.

*Swydd Oneida, C. N.*

## DAMEG Y WADD A'R HEDYDD.

Y Wadd, ar un boreu teg o Fai tesog, ysblenydd, a ganfu yr Hedydd yn entrych awyr yn canu goslef gorfoledd. "Gwae fy nhynged," ebe hi, "na bawn Hedydd, ac nid Gwadd fel yr wyf: cawn esgyn eangder dirwystr yr wybren, lle ni chyfarfyddwn a'm lladdiai yn fy nhaith, ac yn ngoleuni rhyddle y nwyfre cawn ganu fy ngwala gan lawenydd bodd calon; lle yr wyf yn awr yn gorfod ymdrafferthu, yn cloddio y ffordd yr af, drwy y ddaear galed, garegog, heb fymryn yn rhydd o'r ffordd y cerddwyf; lle nid oes na goleu na gweled, na dim ond llwyrdeb tywyllwch im' ymbalfalu yn gelëdgamp drwyddo." A chyda bod y gair o'i phen, gwelai Walch yn gafaelu ar yr Hedydd, ac yn ei ladd a'i bwyta; yna gan feddwl gwell y dywedai y Wadd, "Clod i Dduw fy mod yn Wadd, ac mewn dyogelwch er maint fy nhrafferth a'm helbul, a'm bod yn nghudd dan ddaear, lle nid oes Walch rheibus a'm gwel." "Nid gwynfyd heb ddyogelwch; nid dyogelwch heb drafferth."

Boddloned pawb i'r cyflwr a'i rhodded ynddo gan Dduw a wyddai yn well na dyn beth oedd oreu, ac a wnaeth o wir gariad a weles yn oreu i bob byw a bod.—*Cabwg Ddoeth.*

## CYLCHREDIAD Y GWAED.

Os bydd y corff yn pwyso ar ryw sylwedd caled, neu unrhyw ran o hono yn cael ei wasgu, effeithia hyny i atal cylchrediad rhwydd y gwaed, yn ol graddau y pwysiad neu y gwasgiad. Pe rhwymid llinyn yn dyn oddiamgylch y bys, duai y gwaed fyddai yn y pen blaen iddo, ac elai yn ddideimlad yn

bur fuan; a byddai ol y llinyn ar y bys yn wyn, yn brawf nad oedd y gwaed yn rhedeg dano. Dengys hyn y niweid o wisgo dilledyn rhy dyn, yn enwedig am y wasg, yr hyn a wneir gan ambell fenyw benffol.—*Bedyddiwr.*

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### Y CHWECHED CANRHIF.

MAE yn deilwng o sylw y darllenydd fod llyfr y Datguddiad yn cynnwys rhagfynegiad cywir am helynt achos Crist o ddechreuad yr oes apostolaidd hyd ddiwedd amser, ac nad oes modd i ddeall ei gynnwysiad heb fesur o wybodaeth am hanes yr eglwys Gristionogol. Mae yn rhaid dal mewn cof hefyd, fod yr eglwys Gristionogol yn bodoli yn yr oesoedd boreuaf, o fewn terfyngylch yr ymerodraeth Rufeinig o ganlyniad fod amgylchiadau yr ymerodraeth hono yn effeithio cyflwr y Cristionogion i raddau helaeth iawn. Dyma yr achos fod gwahanol chwyldroadau yr ymerodraeth yn cael eu trin mor faniol yn y brofiwydoliaeth, a dichon y bydd yr hyn y sym wedi nodi yn yr erthyglau blaenorol o ryw gynorthwy i'r darllenydd i ddeall y cyfeiriadau tra fingvraidd sydd ar gael, yn enwedig yn y chweched bennod o'r llyfr rhyfeddol hwnw. Yr ydym wedi canfod y march gwyn, sef y weinidogaeth efengylaidd, yn myned allan gyda nerth buddugol, nes oedd twyll yr offeiriadaeth, a balchder y philosophyddion yn colli tir, a lluoedd o eneidiau yn cael eu darostwng i ufudd-dod ffydd; yr ydym wedi gweled y march coch yn ymlwybro drwy y talaethau, ac yn enwedig trwy Balestina, nes troi y tir a fu yn llifo o laeth a mêl yn ddiffaethwch, a dinystrio y ddinas fu yn brydferthwch i'r gwledydd, a'r deml fu gynt yn addurn i'r byd, a gwasgaru y genedl a ddewisodd Duw i fod am oesoedd yn etifeddiaeth iddo ei hun; yr ydym wedi cofnodi y newyn a arwyddir yn ymddangosiad y march du, yr hwn a gymerodd le yn nheyrnasiad Severus, a rhai o'i ganlynyddion; yr ydym hefyd wedi cyffwrdd a'r pla marwol, a ddarlunir drwy y march gwelwlas, a ddechreuodd tua y fl. 250, ac a barhaodd am bumtheg mlynedd, nes yn ol barn rhai, i haner trigolion y byd gael eu dinystro gan y cleddyf, y newyn, a'r haint yn olynol; yr ydym hefyd megis wedi clywed llef y merthyron ar agoriad y bumed sel yn galw am ddial, fel pe buasent wedi blino dyoddef, pan oedd dinystr y gyfundraeth baganaidd yn nesâu; ac yr ydym, ar agoriad y chweched, yn canfod y chwyldroadau mawrion, a derfynasant holl nerth paganiaeth ar esgyniad Cystenyn i'r orsedd, ac a osodasant y cyfan ar dir newydd, drwy uno crefydd y Cristionogion â'r llywodraeth wladol. Ac ar agoriad y seithfed sel, wele ddistawrwydd cyffredinol, a llonyddwch yn ffynu nes byddai i'r saith angel udganu, a dwyn allan chwyldroadau newyddion dan nawdd y llywodraeth gymysgedig ac anysgrythyrol oedd yn awr mewn gweithrediad.

Yn fuan wedi y cyfnewidiad hwn yn ffurf a mesurau y llywodraeth Rufeinig, darostyngwyd ei nerth drwy ymosodiad y barbariaid ar ei gwahanol dalaethau, ac efallai na fu amser mwy gresynus yn hanes y teulu dynol, nag o ddechreuad y pedwerydd canrif hyd tua diwedd y pumed. Yn ystod y pumed canrif yr oedd y blinder yn ei nerth a'i gyflawnder mwyaf, a'r chwyldroadau a ddynodir ar udganiad y pedwar angel blaenaf, yn canlyn eu gilydd gyda chyflymder, difeth, nes yn y diwedd i'r hen ymerodraeth gael ei dymchwelyd, a deg teyrnas, yn ol proffwydoliaeth Daniel, gyfodi yn eu lle, ac yn eu plith corn bychan, a llygaid fel llygaid dyn, a genau yn traethu mawrhydi. Cyfodiad, cynydd, a holl weithrediadau yr olaf o'r rhai hyn fydd yn awr yn dyfod dan ein sylw yn fynych, oblegyd megys ag yr oedd mesurau yr ymerodraeth Rufeinig yn ei chyflwr paganaidd yn effeithio amgylchiadau canlynwyr Crist yn y canrhi oedd blaenaf o oes Cristionogaeth, felly yr oedd gweithrediadau Anghrist yn ganlynol i'r gwrthgiliad cyffredinol yn effeithio cyflwr gwir Gristionogion yn yr oesoedd tywyll; ac maent yn parhau i wneuthur felly i raddau helaeth yn ein hamser ni, ac felly y gwnant hyd ddinystr y Dyn pechod trwy nerth Ysbryd Crist, a'i ddilead drwy ddysgleirdeb ei ogoniant.

Gwir yw i broffes o Gristionogaeth gynyddu yn y canrhif hwn yn y dwyrain, drwy i amryw lwythau gael eu dwyn i enwi eu hunain yn ganlynwyr Crist, ond nid ymddengys fod eu troedigaeth yn llawer mwy nag mewn enw, gan nad oedd gwahaniaeth mawr rhwng Cristionogaeth y Groegiaid y pryd hwn ac eulun-addoliaeth y Paganiaid. Y cyfan oedd yn cael ei ofyn oddiwrthynt, oedd iddynt gydnabod Crist fel Ceidwad, a pheidio aberthu i neb eulunod, a dysgu allan ffurf athrawiaethol ar dafod; ond nid oedd nemawr o ymgais am gyfoethogi eu meddyliau â rhinweddau ysbrydol, na rheoleiddio eu hymddygiad yn ol cyfraith Crist, oblegid wedi eu dychweliad yr oeddent yn dangos yr un ffyrnigrwydd ag o'r blaen, ac yn hynodi eu hunain drwy anianwareidd-dra a drygioni. Gellir dywedyd fod pethau agos yr un fath yn y Gorllewin hefyd, oblegyd er i luoedd o'r Ffrangcod, yr Almaeniaid, a'r Gwyddelod gael eu rhesu yn mhlith Cristionogion mewn enw, yr oeddent yn parhau, yn ol tystiolaeth eu cyd-amserwyr, i arferyd rhan fawr o'u hannuwioldeb, eu coel-grefydd, a'u penrhyddid cyntefig; a thrwy eu camweddau, yn profi nad oedd ganddynt un parch i athrawiaeth Crist.

Yn ynys Prydain, er fod llawer o arferiadau yr eglwys gyffredinol wedi eu dwyn i mewn, eto nid oedd y dirywiad yma wedi ffynu i'r un helaethrwydd ag mewn llawer o wledydd eraill. Yr oedd yn mhlith y Brytaniaid yn y canrhif hwn lawer o ddynion duwiol a dysgedig, ac yn eu plith yr ydym yn cael enwau Dewi Fawr, Dyfrig, a Dewi Sant, ac mae rhan fawr o eglwysi plwyfol Cymru yn dwyn enwau y gwroniaid crefyddol oeddent yn ser dysglaer yn ffurfafen yr eglwys yn y tymor

dan sylw. Yr oedd hefyd awydd fawr am ddysgeidiaeth yn ffynu, fel mae yn amlwg oddiwrth nifer yr ysgolion a sefydlwyd yn ngwahanol barthau Cymru yn y canrhif hwn. Nodasom mewn erthygl flaenorol, fod athrofaoedd yn Bangor-is-Coed, (yn ol barn rhai oddiar amser Lleurwg.) ac yn Llanilltyd Fawr, a Llancarfan, a'r Ty-gwyn-ar-Daf oddiar amser ymweliad diweddaf Garmon â'r ynys, ac yn y canrhif hwn sefydlodd Einion, tywysog Lleyn, athrofa yn Mhenmon, a fu yn enwog iawn am dymor hir: a gwnaeth Llewelyn, mab Tregonwy, yr un peth yn Trallwng, a Dathan, mab Amwn Ddu, yn Ngaerwent, yn swydd Fynwy. Cyndeyrn Garthwys hefyd, mab Owain ab Urien, a sefydlodd athrofa yn Llanelwy, a bu hono yn dra enwog yn Ngwynedd, ac addysgwyd ynddi nifer fawr yn yr amseroedd trallodus hyny. Rhy faith fyddai nodi yr holl enwogion a gofodir yn Achau Saint Ynys Brydain, fel dynion duwiol a defnyddiol yn y canrhif hwn, ond mae yn amlwg fod crefydd wedi llwyddo yn helaeth yn Mhrydain, ac fod dysg yn gymeradwy yn marn ein cyndadau. Yr oedd yr oes hon hefyd yn gyfrifol am farddoniaeth; yn gymmaint ag mai ynddi yr oedd Llywarch Hen, Myrddin Wyllt, a Thaliesin yn byw.—*Cam. Biog.. Gorchestion Beirdd Cymru, ac Achau'r Saint.*

Yn y canrhif hwn yr ysgrifenodd Gildas ei haens Ladin, yn yr hon y mae yn rhoddi darluniad byr o eilunaddoliaeth y Cymru cyn i'r efengyl ddyfod i'r ynys, a chyflwr crefydd yn y wlad o ddechreuad eu troedigaeth hyd ei amser ei hun, ac yn eu rhybuddio o barth y peryglon oedd yn eu bygwth, o herwydd eu gwrthyfelgarwch yn erbyn Duw. Mae ei waith eto ar gael, ac yn cael ei gyfrif yn gymeradwy gan y dysgedigion. Mae yn wir fod Gildas yn cwyno o herwydd anfoesoldeb y trigolion, ac annghrefyddoldeb y gweinidogion, ac yn eu cyhuddo o lawer iawn o ddiffygiadau crefyddol; ond ar y cyfan ymddengys ei fod ei hun yn ddyn llym ac yn barod i edrych ar yr olygfa waethaf, ac wrth gymharu y naill beth a'r llall gwel y darllenydd ystyrbwyll achos i gredu nad oedd cyflwr crefyddol y Brytaniaid mor ddrwg ag y mae rhai wedi meddwl, nac mor rhydd oddiwrth lygredd ag y mae ereill wedi ei osod allan. Yr oedd ganddynt ychydig nerth, ac mae yn dda genym wybod eu bod yn ymdrechol i gynyddu cyfryngau gwybodaeth, ond rhaid cyfaddef fod llawer o goel-grefydd y cyfandir yn gymysgedig â'u mesurau, ac fod y dirywiad yn cynyddu fel yr oedd eu rhif yn lluosogi, fel nad ydym yn gallu meddwl fod Gildas yn eu beio mor llym, heb lawer o achos yn sail i hyny.

Yr oedd amryw o'r athrofaoedd, am y rhai ydym wedi crybwyll, yn grefydd-dai hefyd, ond nid oedd y myfyrwyr hyd yma o'r un cymeriad segur a diddefnydd â'u canlynyddion monachol. Fel engraifft o hyn yr oedd cynnulleidfa Dewi yn byw yn yr un lle yn Menyw, a elwid wedi hyny Ty Ddewi, ac yn treulio eu hamser yn y dull canlynol:—Codent yn y boreu ar ganiad y ceiliog, a pharhaent mewn gweddiau a myfyrdodau hyd oleu dydd. Yna wedi cyfarfod i addoli Duw yn gyhoeddus, pob un a âi allan at ei orchwyl. Wedi treulio yr amser gosodedig wrth eu gorchwylion, dychwelent i'r athrofa, a threulient weddill y dydd i weddio, darllen, myfyrio ac ysgrifenu. Yn yr hwyr cyfarfyddent i addoli Duw, a pharhaent yn yr addoliad hyd dywyll nos, ac yna swperent ynghyd ar fara a llysiau. Wedi swperu treulient dair awr mewn myfyrdod a gweddi, ac wedi hyny aent i orphwys hyd y boreu. Yr un drefn o ran sylwedd oedd yn ffynu yn athrofa Llanelwy, yn swydd Fflint, a pheth tebyg yw mai ar yr un egwyddor yr oedd y rhai ereill yn gweithredu. Ond fel yr oedd y dirywiad yn cynyddu, yr oedd y sefydliadau yn ymbellhau oddiwrth eu hamcan cyntefig, nes mewn amser iddynt fyned yn aneddau segurdod, llygredd, ac aflendid annyoddefol.—*Gwel Crossy's Ch. Hist. B. X., chap. 11. Hanes Crefydd yn Nghymru, gan D. Peter, Cant vi.*

Yr oedd cyflwr gwladol y Cymry yn awr yn drallodus iawn. Yr ydym wedi nodi yn hanes y canrhif blaenorol, fod y Brytaniaid yn eu cyfyngder wedi ceisio cymorth y Sacsoniaid, i wrthwynebu ymosodiadau y Pictiaid a'r Scotiaid, ac i'r estroniaid hyn gydsynio yn ewyllysgar â'u cais, ond wedi gwrthsefyll y gelynion gogleddol yn ddewr ac yn fuddugol, nid oedd tuedd ynddynt i ymadael o'r wlad, eithr hwy a anfonasant am ragor o'u cyd-wladwyr gwrol ac anwaraidd, mewn bwriad i draws-feddiannu yr holl ynys. Cawsant gefnogaeth yn eu hamcanion, drwy ffolineb ac anwybodaeth Gwrtheyrn Gwrthenau, brenin Prydain, yr hwn oedd wedi cwympo mewn cariad â Rhonwen, merch Hengist, a'i phriodi, a chyflwyno i'w thad swyddi Kent, Middlesex, Suffolk, ac Essex, yn etifeddiaeth. Er i'r Brytaniaid ddihuno, a diorseddu Gwrtheyrn am ei fradwriaeth, a gosod Gwrthefyr yn frenin yn ei le ef, ni bu y mesur ond peth tymhorol, oblegyd Rhonwen a gyflogodd ddyn i wenwyno Gwrthefyr, a'r Cymry yn eu penwendid a gyfodasant Gwrtheyrn drachefn i'r orsedd. Yr oedd y Saeson yn awr yn lluosogi yn y wlad, drwy fod heidiau newyddion o honynt yn dyfod drosodd o'r Almaen yn barhaus, ac yn lled fuan, drwy yr hyn a elwir yn Frad y Cyllill Hirion, dyfethwyd rhan fawr o flaenoriaid y Cymry, nes oedd eu hachos yn resynus ac anobeithiol. Ond yn nechreuad y chweched canrhif cyfododd Arthur, Tywysog Siluria, i amddiffyn hawl ei genedl gyda gwrolder diymwad, a phe buasai gwrolder un dyn yn ddigon i gyfarfod cyflwr y wlad, gallesid dysgwyl y buasai yn effeithio ei amcan yn fuddugol; ond yr oedd y naill beth ar ol y llall wedi difa nerth y genedl, a thrwy fradwriaeth Medrod aeth buddugoliaethau Arthur yn ofer gyda golwg ar ryddid a hawl y Brytaniaid. *Warrington's Hist. of Wales, Vol. I. p 79—90, a 114, 115.*

Paganiaid anwaraidd oedd y Sacsoniaid ar eu dyfodiad cyntaf i'r ynys hon, a'r fath oedd eu gelyniaeth yn erbyn y Cristionogion fel y tynasant i lawr lawer o'r addoldai, ac y llofruddiasant nifer fawr o'r gweinidogion Cristionogol, a gorfuwyd ereill i ymadael o'r wlad. Mae nifer fawr o eglwysi Cymru yn cael eu

henwi yn ol enwau y Cristionogion a laddwyd gan y Saeson yn yr amser blinderus hwn, ond mae yn anhawdd penderfynu pa nifer o honynt a ferthyrwyd am eu crefydd yn unig, a pha nifer a syrthiasant yn y brwydrau milwraidd oeddent yn dygwydd mor aml rhwng yr hen frodorion a'r estroniaid, ag oedd yn ymosod i draws-feddiannu eu gwlad. Cynyddu wnaeth y Saeson drwy eu bod yn derbyn adgyfnerthiad parhaus o'r Almaen, a gwanhau wnaeth yr hen Frytaniaid, nes o'r diwedd iddynt gael eu gwasgu i Gymru, a Chernyw, a gadael y rhan oreu o'r ynys yn meddiant eu gelynion eilun-addolgar, ac fel hyn y darostyngwyd ein cyn-dadau i gyflwr o ddiraddiaeth, gan ddynion ag oedd wedi dyfod ar eu cais i'w cynorthwyo yn erbyn eu caseion.

Yn yr amser tymhestlog hwn yr oedd rhai o'r Morganiaid yn parhau i daenu eu hegwyddorion drwy y wlad, er eu bod wedi cyfarfod â chymmaint o wrthwynebiad nerthol oddiwrth Garmon a'i gyd-lafurwyr. Ond yr oedd y rhan fwyaf o lawer o'r Cristionogion yn anghymeradwyo yr athrawiaeth gyfeiliornus, ac yn cael eu blino yn fawr gan y dadleuon oedd yn bodoli. Dyfrig Beneurog, yr hwn oedd yn arch-esgob Caerlleon-ar-Wysg, gan hyny, a anfonodd at holl esgobion a gweinidogion Cymru, i ddymuno arnynt gyfarfod mewn cymanfa yn Llanddewi-brefi, yn sir Aberteifi, i ystyried y mesurau goreu tuagat ddychwelyd y Morganiaid i'r ffydd, ac atal y cyfeiliornadau ag oeddent yn awr yn adfywio drwy y wlad. Cynnaliwyd y cyfarfod hwn yn y fl. 519, a nodir ei fod yn lluosog iawn o bob gradd, ac i lawer bregethu yno ar y pyngciau mewn dadl, ond yn y diwedd i Dewi draddodi darlith mor nerthol ac ysgrythyrol fel nad oedd gan y Morganiaid ddim i'w ateb, ac o'r pryd hwn i athrawiaeth Pelagius golli tir yn Nghymru, fel nad adfywiodd mwy am lawer o oesoedd. Yn mhen deng mlynedd wedi hyny cynnaliwyd cymanfa yn yr un lle, yr hon a elwid cymanfa y fuddugoliaeth, am fod undeb wedi ei effeithio, a'r cyfeiliornadau wedi syrthio o flaen athrawiaeth iachus.

Er fod y Saeson yn awr mewn meddiant o'r rhan oreu o'r ynys, yr ydym yn cael eu bod mor greulon ac anwaraidd, fel y gwnaent werthu eu plant weithiau i fod yn gaeth-weision i genedloedd eraill; ac fe ddywedir eu bod yn eu hanfon i Rufain i'r amcan hyny. Pan oedd rhyw nifer o'r rhai hyn yn cael eu cynnyg ar werth yn Rhufain, dygwyddodd i Gregory, yr hwn wedi hyny a gyfodwyd i'r gadair babaidd, fyned heibio, ac wrth edrych ar brydferthwch gwedd y ieuaint oeddent ar werth teimlodd yn eu hachos, fel yr ymholodd o ba wlad yr oeddent yn enedigol. Yr oedd hyn, medd yr hanesyddion, tua y flwyddyn 586, neu rywfaint yn foreuach. Pan gafodd hysbysrwydd mai Saeson oeddent o Ynys Prydain, fe gwynodd yn fawr, gan ddywedyd, mai peth galarus oedd, fod dynion mor angylaidd yn eu hymddangosiad allanol, yn byw dan lywodraeth tywysog y tywyllwch. Dan yr argraff hyn fe osododd eu hachos dan sylw Pelagius II., yr hwn oedd esgob Rhufain y pryd hyny, ac a ddeisyfodd arno ddanfon cenhadau i Frydain, i bregethu yr efengyl i'r Saeson. Yr oedd Pelagius yn foddlon i gyflwyno y gorchwyl i Gregory, ac yntau yn foddlon i ymroddi i'r gwaith, ond nid oedd aneddwyr Rhufain yn foddlon i ollwng dyn a farnent mor ddefnyddiol o'u plith, ac felly ataliwyd yr amcan am ryw gymmaint o amser.

Yn fuan wedi hyn bu Pelagius farw, a chyfodwyd Gregory i'r gadair esgobaethol yn ei le ef, ac yn mhen ychydig amser trefnodd fesurau tuagat anfon cenadiaeth i Ynys Prydain, yn cynnwys cymmaint a deugain o wŷr a gyfrifid yn enwog, dan gyfarwyddiad monach o'r enw Awstin. Ond wedi dechreu eu taith, cawsant hanes mor ddychrynllyd am greulonder ac anwareiddiwch y Saeson, fel eu digalonwyd, nes yr anfonasant eu blaenor yn ol at esgob Rhufain, i ddymuno arno eu rhyddhau oddiwrth y gorchwyl, a pheidio a'u rhwymo i anturio i blith dynion mor greulon, a hwythau yn hollol anwybodus o'u hiaith. Ond yr oedd yr amcan wedi gafaelu yn ddwfn yn meddwl Gregory, ac yn lle cydsynio â'u cais, fe'u hannogodd i fyned yn mlaen, ac a ysgrifenodd at arch-esgob Aries, i ddymuno arno i'w cynorthwyo ar eu taith, a'u cynysgaeddu â phob peth angenrheidiol tuagat eu cynnaliaeth.— Yn ganlynol i hyn hwy a ymwrolasant at eu gwaith, ac wedi teithio trwy Ffraingc, hwy a diriasant yn ynys Thanet, ac anfonasant un o'u cyfieithwyr i hysbysu Ethelbert, brenin y rhan hyny o'r ynys, o barth eu dyfodiad a'u hamcan.

Yr oedd Ethelbert, brenin Kent, er ys cymmaint a phumtheg mlynedd cyn i hyn gymeryd lle, wedi priodi Birtha, merch Cherebert, brenin Ffraingc. Yr oedd hon yn proffesu y grefydd Gristionogol cyn ei phriodas, ac un o ammodau ei hundeb priodasol oedd, ei bod i gael arfer holl ddefodau ei chrefydd yn ddiomeddiad, a chaniatawyd iddi le addoliad o'r tu allan i ddinas Caergraint, lle y gwnai Luidhart, gweinidog Ffrengig, oedd wedi dyfod drosodd yn nghosgordd y frenines, ddwyn yn mlaen y gwasanaeth yn ddiatalfa. Nid oedd Ethelbert yn hollol anwybodus o gymeriad y grefydd Gristionogol, ac yr oedd dylanwad y frenines wedi cynyddu rhagfarn y Saeson yn y rhan hyny o'r ynys i fesur mawr, er nad oedd y brenin hyd yma wedi ymadael ag eilun-addoliaeth ei genedl. Nid oedd yn rhyfedd, gan hyny, iddo eu derbyn yn foneddigaidd, a rhoddi iddynt ymgeledd llettygar, a chaniatau iddynt arferyd defodau eu proffes, ac addysgu y neb a dderbyniai eu cyfundraeth; ac mewn amser byr bedyddiwyd ef, a chanlynwyd ef yn hyn gan nifer o'i ddeiliaid; ond rhaid cydnabod nad oedd y grefydd a daenid gan Awstin a'i gyfeillion ond peth annhebyg iawn i grefydd Crist, fel y mae yn gynnwysedig yn y Testament Newydd.

Pan glywodd Gregory am lwyddiant Awstin a'i gyfeillion yn Mhrydain, efe a anfonodd ychwaneg o genhadau i'w cynorthwyo, ac a ysgrifenodd at y brenin a'r frenines i'w cefnogi i fyned rhagddynt, ac ar yr un pryd, efe a gyflwynodd gyfarwyddiadau i Awstin, pa rai a ddengys mor bell yr oedd y Cristionogion wedi ymadael oddiwrth symlrwydd yr efengyl; un cynghor a roddodd oedd hwn, iddo beidio dinystrio temlau yr eilunod, ond yn

unig symud y delwau a golchi yr adeilad â dwfr santaidd, adeiladu allorau, a rhoddi gweddillion cyssegredig yn nghadw ynddynt, ac felly eu troi yn eglwysi Cristionogol, a hyny nid yn unig er mwyn arbed traul, ond hefyd er mwyn hwylusu yr amcan o ddwyn y bobl i'r addoliad, drwy ei gyflawni yn y lleoedd yr arferent ymgynnull. Yn nesaf at hyn, gorchymynai debygoli y defodau crefyddol, mor belled ag y byddai ddichonadwy, i'r dull arferol yn mhlith y paganiaid, fel na byddai dim i'w hanfoddloni yn y cyfnewidiad; ac yna i ganiatau er dim i'r dychweledigion gynnal eu gwleddoedd arferol, a lladd pasgedigion, a bwyta er anrhydedd i Dduw, yr un fath ag oeddent yn arfer gwneuthur er anrhydedd i'r eilunod. Dilynwyd y cyfarwyddiadau hyn gyda manylrwydd, a'r canlyniad oedd i bob math o benrhyddid ffynu, fel nad oedd nemawr iawn o wahaniaeth rhwng y paganiaid a'r Cristionogion, ond yn unig yn enw gwrthddrych yr addoliad. Yr oedd pob ffieidd-dra yn bodoli fel o'r blaen, a llawer o'r pethau hyny yn cael eu gwisgo ag enw addoliad y Duw byw. Nid peth rhyfedd oedd fod llwyddiant Awstin a'i gyfeillion mor fawr, pan yr oedd dylanwad y tywysog o'u plaid, a'r gyfundraeth Gristionogol wedi ei diosg o'i holl santeiddrwydd, a'i gwisgo â'r rhwysg a'r rhodres sydd yn mhob oes mor gymeradwy yn marn dynion balch ac anghrediniol. Dyma y fath fesurau crefyddol a ddygwyd i weithrediad gan Awstin yn mhlith y Saeson yn y chweched canrhif, er eu parotoi i'r holl gyfeiliornadau coel-grefyddol, a fuant yn dyrysu meddyliau ein cyn-deidau yn yr oesoedd tywyll.

Yn y canrhif hwn yr oedd yr ymrafael rhwng esgob Rhufain ac esgob Caercystenyn wedi cyrhaedd aeddfedrwydd, a phob peth yn dangos fod y Dyn pechod yn nesau at ei lawn oed; ond pa un ai y blaenor dwyreiniol neu yr un gorllewinol a gydnabyddid yn ben cyffredinol oedd hyd yma yn bwngc dadleugar. Yr oedd esgob Caercystenyn yn honi llywodraeth gyffredinol ar yr holl ddosbarth dwyreiniol, ac esgob Rhufain yn gwrthwynebu hyny, ac yn hawlio y flaenoriaeth fel canlyniedydd Pedr, tywysog yr apostolion, fel yr oedd yn awr yn cael ei gyfrif, ac yn cynhyrfu yr holl wledydd i gymeryd ei blaid. Gregory fu fwyaf ymdrechol yn yr ymryson hyn o blaid Rhufain, a Ioan o blaid Caercystenyn, ac yr oedd eu pleidwyr o bob tu yn lluosog, a phob dyfais gnawdol yn cael ei defnyddio gan y naill ochr yn gystal a'r llall, i ddarbwyllo y swyddwyr eglwysig o bob gradd i ymresu o'u hochr. Ac fel hyn yr oeddent yn llawer mwy tebyg i fyddinoedd yn parotoi i ymgystadlu ac ymladd am fuddugoliaeth nag i weision Tywysog heddwch, a gymerant arnynt gyhoeddi iachawdwriaeth i breswylwyr y byd. Y gwirionedd yw, eu bod wedi ymadael yn raddol oddiwrth egwyddorion Crist, ac wedi gosod i fynu deyrnas o'u heiddo eu hunain, a'i gwisgo ag enw nad oedd yn perthyn iddi, ac o ganlyniad yr oedd eu hamcanion a'u mesurau yn ol egwyddorion y byd hwn, a'u hyder yn nerth tywysogion y ddaear, y rhai oeddent barod i gwympo mewn â'u dymuniad, pan farnent y byddai hyny yn wasanaethyddol i'w hamcanion uchelfrydig a thraws-arglwyddiaethol eu hunain

Mewn tymhor o'r fath hwn ni ellir dysgwyl fod llawer o ymdrech i esbonio yr ysgrythyr yn gywir ac yn ystyriol yn bodoli. Ond er fod gwir ddysgeidiaeth yn iselhau, yr oedd rhif yr awduron yn cynyddu; ond rhaid cyfaddef nad oedd nemawr o honynt yn ymestyn at gael allan feddwl yr ysgrifenwyr santaidd, oddieithr rhyw nifer yn mhlith y Nestoriaid a ymgeisient gadw at synwyr llythyrenol y gyfrol ddwyfol. Nid oedd amryw o'r awduron Groegaidd a Lladinaidd yn y canrhif hwn yn amcanu dim amgen na chrynhoi yr esboniadau oeddent wedi eu cyhoeddi a'u cymeradwyo gan y tadau; a gelwid y casgliadau hyn yn *gadwyni*, megys *cadwyn* Olympiodorus ar lyfr Job; *cadwyn* Victor o Capua ar y pedair efengyl; a *chadwyn* neu esboniad Primasus ar yr epistol at y Rhufeiniaid; ac fel y gallesid dysgwyl yr oedd y rhai hyn mewn cymeradwyaeth mawr yn yr oesoedd tywyll, a llawer mwy o awydd i gyfeirio atynt nag at efengyl Crist a llythyrau yr apostolion. Yr oedd rhai eraill o honynt yn dilyn cynllun Origen, ac yn troi oddiwrth y meddwl llythyrenol mwyaf amlwg, gan osod yn ei le y dychymygion mwyaf gwyllt ac ofergoelus; ac yn mhlith y rhai hyn y cyfrifir Anastatius, Gregory, Isodore, a Primasius. Ofer iawn, gan hyny, fyddai i neb edrych i weithiau awdurol y chweched canrhif er deall beth yw ewyllys Duw, dyledswydd dyn, cyfraith teyrnas Crist, a sail gobaith pechadur am fywyd tragywyddol; oblegyd yr oedd mwg y pydew diwaelod wedi ymdaenu, nes oedd trigolion y byd yn eistedd mewn tywyllwch, a'u blaenoriaid yn ymbalfalu fel deillion ar bared.

Ond os oedd gwybodaeth grefyddol yn lleihau, yr oedd awdurdod yr offeiriadaeth yn cynyddu, cyfoeth yr eglwys yn ychwanegu, a rhodres y mynachod yn ennill tir. Yr oedd holl ddyfais yr offeiriaid yn awr mewn llawn waith i effeithio ar goel-grefyddoldeb y werinos, er cyfoethogi y sefydliadau eglwysig yn mhob ardal, a mantais yn cael ei gymeryd ar ddychryn y rhai drygionus yn aml i'w darbwyllo i drosglwyddo eu meddiannau at wasanaeth eglwysig, fel iawn am y camweddau fyddai yn gwasgu ar eu cydwybodau. Yr oeddent yn dysgu yn awr, fel rhan hanffodol o'u hathrawiaeth, ei fod yn ddichonadwy i ddynion brynu maddeuant drwy eu haelioni i'r eglwysi a'r mynachod; ac fod gweddiau y seintiau ymadawedig yn sicr o lwyddo ar ran y rhai a waddolent y temlau oeddent wedi eu cyssegru er anrhydedd iddynt. Dyma yr egwyddorion a effeithiodd y fath haelioni, os yw yn deilwng o'r enw, ag a alluogodd y Pabyddion i adeiladu a gwaddoli y nifer fawr o eglwysi a welir yn mhob gwlad lle mae eu hawdurdod wedi ffynu. Peth cyffredin iawn oedd i ddynion fyddent wedi byw mewn pechod, trais, ac aflendid, drwy eu bywyd, roddi rhan fawr o'u meddiant yn ngwyneb marw at ryw wasanaeth crefyddol, gan feddwl eu bod drwy hyny yn gwneuthur cymmod am eu holl bechodau. Felly yr oeddent yn

cael eu dysgu, ac felly yr oeddent yn credu; ac fel hyn yr oedd etifeddiaeth yr eglwys yn cynyddu, a'r offeiriadaeth yn ennill cymmaint o ddylanwad, nes oedd eu coel-grefydd a'u trais yn farn i'r holl wledydd. (*Mosheim's Eccles. Hist., Cent. VI. Chap. II.*)

Am fuchedd y Cristionogion yn y canrhif hwn, y mae yn sicr nad oes genym le, ar dir cyfiawn, i ddweyd ond ychydig gyda chymeradwyaeth. Mae yn wir fod rhai yn byw yn hunan-ymwadol a difwynhad, ac yn cyfrif hyny yn radd fawr o grefyddoldeb; ond ymddengys fod yr offeiriaid yn gyffredin wedi ymroddi i anfoesoldeb a thrythyllwch, nes oedd ysgrifau ymerodrol, a phenderfyniadau y cymanfaoedd, yn angenrheidiol yn yr achos; ac am eu trachwant a'u balchder yr oedd yn rhy amlwg i'w esgusodi. Ac fel yr oedd yr offeiriaid yn byw yn benrhydd, felly hefyd yr oedd y werinos yn eu hefelychu, nes oedd y cyssylltiad rhwng crefydd a santeiddrwydd wedi myned o'r golwg, a chruglwyth o ddefodau treulfawr a diddefnydd yn cyfansoddi y gyfundraeth oedd yn awr wedi cymeryd lle ffydd, edifeirwch, a rhinwedd. Mewn gair, yn y chweched canrhif yr oedd yr hyn a elwid yn Gristionogaeth, gan yr eglwys gyffredinol, mor bell oddiwrth egwyddorion y Testament Newydd, fel nad oedd nag athrawiaeth nag ymarferiad yn cael ei reoleiddio gan gyfraith Crist, eithr yr oedd y cyfan wedi ei agweddu yn ol cynllun mesurau y byd, er cynyddu awdurdod yr offeiriadaeth, a dwyn yr holl genedloedd i gaethiwed tywyll a choel-grefyddol.

Pan ydoedd yr eglwys gyffredinol fel hyn wedi ymbriodi â'r byd, ac wedi ymadael ag egwyddorion yr efengyl, yr oedd gan Dduw ei ffyddloniaid a ymlynent wrth y gwirionedd yn ngwyneb pob dirmyg, hyd y nod yn yr ardaloedd lle yr oedd y dyn pechod wedi cyrhaeddyd y nerth mwyaf, ac yn honi hawl i weithredu yn ol ei ewyllys ei hun yn ddiatal-iad. Er nad ym yn clywed cymmaint am y Novatiaid yn y canrhif hwn ag yn y canrhifoedd blaenorol, eto mae lle i feddwl eu bod yn lluosog, ac iddynt barhau felly am dymor hir, ond eu bod mewn gwahanol barthau yn cael eu galw ar enw blaenoriaid a fyddent wedi hynodi eu hunain drwy eu llafur yn eu plith; ac o herwydd hyny yn cael eu nodi mewn hanesion fel pleidiau newyddion, er mai yr un egwyddorion a fyddent yn goleddu. Nid ydym yn deall fod nemawr o wahaniaeth rhwng y Novatiaid yn Ewrop a'r Donatiaid yn Affrica, neu y blaid a elwir Luciferiaid yn yr Eidal, oddiwrth Lucifer, esgob Cagliari yn Sardinia, yr hwn a ymneillduodd tua'r fl. 363, a'r un daliadau a goleddid i raddau helaeth gan y Paulistiaid yn y canrhif nesaf, a chan y Paterniaid wedi hyny, am y rhai y bydd achos son yn ol llaw. Y gwirionedd yw fod nifer fawr o Ymneillduwyr yn ymwrthod â chyfeiliornadau yr eglwys esgobaethol o ddechreuad y dirywiad, a'u bod dan wahanol enwau yn arddel yn agos yr un syniadau ag a goleddwyd wedi hyny gan y Waldensiaid a'r Albigensiaid, yn nyffrynoedd Piedmont a deheubarth Ffraingc; a pheth tebyg yw nad oedd y rhai hyny amgen na pharhad o'r blaid a enwyd yn y dechreuad ar enw Novatian.—(*Isaac Hinton's History of Baptism, Chap. VII.*)

Mae yn wir fod rhai o'r ymneillduwyr boreuol, megys yr Ariaid, yn llettya barn gyfeiliornus am berson Crist; ond nid ydyw y Novatiaid, y Donatiaid, na'r Luciferiaid, yn cael eu cyhuddo o hyny: eithr yr oeddent oll yn cyduno i gydnabod yr ysgrythyrau fel unig reol ffydd ac ymarweddiad, yn collfarnu y defodau anefengylaidd oedd mewn cymmaint bri yn mhlith yr esgobion a'r monachod, ac am gael y ddysgyblaeth apostolaidd i weithrediad yn yr eglwysi, a chan nad allent ddwyn hyn i gymeradwyaeth gyffredinol yr oeddent yn ei ystyried yn ddyledswydd arnynt i ymwrthod â chymundeb yr eglwys esgobaethol, a gwasanaethu Duw yn eu plith eu hunain yn ol cyfarwyddiadau ei air. Mae y rhan fwyaf o'u hanes sydd wedi cyrhaeddyd ein hamser ni wedi ei drosglwyddo gan eu caseion; ond er hyny yn dangos fod eu syniadau yn ysgrythyrol, a'u hymarweddiad yn ddiargyhoedd, er eu bod yn cael eu drwg-liwio fel rhwygwyr a therfysgwyr, yr hyn yw rhan ymneillduwyr yn mhob oes, gan nad faint o achosion fyddo yn cyfiawnhau eu hymneillduaeth.

Mae Crispin, yr hanesydd Ffrengig, yn nodi nad oedd nemawr o wahaniaeth rhwng y Novatiaid a'r Donatiaid, ac fod y ddwy blaid yn uno i amddiffyn purdeb yr eglwys, gan ddysgu na ddylesid derbyn neb i mewn iddi, ond y cyfryw a fyddent yn gredinwyr, ac i ddal anymddibyniaeth yr eglwysi yn erbyn traws-arglwyddiaeth yr esgobion. Yr ydym yn cael llawer mwy o son am y Donatiaid yn y canrhif hwn nag un blaid arall o ymneillduwyr. Yr achos o hyn oedd eu bod mewn cyflwr mwy manteisiol i daenu ac amddiffyn eu hegwyddorion. Yr oedd nerth yr offeiriadaeth wedi cynyddu yn Ewrop, fel nad oedd modd i wrthwynebu mesurau yr esgobion, a'r ymneillduwyr yn cael eu gorfodi i ddwyn yn mlaen eu gweithrediadau yn ddirgel er mwyn dyogelwch; ac yr oeddent yn agos yn yr un cyflwr yn yr holl dalaethau Groegaidd. Ond yn Affrica yr oeddent oll yn mwynhau rhyddid ac ymgeledd tra y parhaodd y Vandaliaid i lywodraethu yno; ond fe newidiodd eu cyflwr hwythau pan ddymchwelwyd llywodraeth y Vandaliaid tua y fl. 534. Yr oeddent, er hyny, yn yr amser llonydd wedi ennill cymmaint nerth a dylanwad, fel nad oedd eu gelynion yn alluog i'w darostwng, a hwy a barhausant yn gorff nerthol hyd ddiwedd y chweched canrhif; ond yn fuan wedi hyny cawsant eu dwyn i'r un cyflwr a'u brodyr; ac nid ydym yn clywed ond ychydig am danynt fel cyfenwad mwy, er fod lle i gredu na chawsant eu difodi ar unwaith, eithr eu bod yn cael eu gorfodi i ddystawrwydd, drwy greulonder y blaid lywodraethol. Gregory, esgob Rhufain, a ymroddodd â'i holl nerth i'w dystewi, fel yr ymddengys oddiwrth ei epistolau; ond nid nerth rhesymau yn unig a'u gorchfygodd, eithr cleddyf y swyddogion gwladol, dan gyfarwyddyd yr offeiriadaeth babaidd.

Yr oedd yr Ariaid yn lluosog iawn yn y canrhif hwn yn Asia, Affrica, ac Ewrop; ac yr

oedd nifer fawr o esgobion Asia yn ffafriol i'w cyfundraeth, er eu bod yn dirgelu hyny; ond yn Affrica yr oeddent yn ei harddel yn gyhoeddus, gan fod y Gothiaid a'r Vandaliaid yn eu cefnogi ac yn eu hamddiffyn; eithr nid hir y buont yn mwynhau eu rhyddid, oblegyd pan yrwyd y Vandaliaid o Affrica, a'r Gothiaid o'r Eidal drwy arfau Justinian, fe derfynodd llonyddwch yr Ariaid, a chawsant eu trin gyda llawer o greulonder; ac o'r pryd hyny fe'u darostyngwyd fel nad enillasant eu dylanwad arferol mwy, ond gorfuwyd hwy fel eraill, naill ai i gwympo mewn â mesurau y blaid lywodraethol, neu ynte i gelu eu syniadau dan len, er mwyn diango rhag llid yr offeiriadaeth, a dedfryd yr eglwys babaidd, ag oedd yn awr wedi enill cleddyf y swyddog gwladol i ddirgymhell pawb i dderbyn ei phenderfyniadau fel rheolau cywir ac anffaeledig.

Yr oedd y Nestoriaid hefyd yn amlhau yn y dwyrain, ac wedi mwynhau llwyddiant cydraddol â'u sêl. Yr oedd eu hathrawiaeth wedi cyfarfod â llawer o dderbyniad yn Persia, Syria, ac India, ac amryw wledydd eraill, ac awdurdodau Persia, yn enwedig, wedi dangos mwy o ffafr iddynt nag i un blaid arall o Gristionogion. Nid oedd y Nestoriaid wedi syrthio i'r holl ddirywiad Pabaidd, nac wedi ymbellhau i'r un graddau oddiwrth egwyddorion y Testament Newydd ag Eglwys Rhufain, ac yr oedd awduron y blaid hon, yn y chweched canrhif, yn esbonio yr ysgrythyrau yn llawer mwy cywir na'r rhan fwyaf o ysgrifenwyr yr eglwys gyffredinol Yr oedd y Monophysiaid hefyd, a gymysgent y ddwy natur yn mherson Crist, yn cynyddu mewn rhifedi, ac yn ymdaenu drwy yr Aifft, Syria, ac Ethiopia, fel, wedi holl ymgais yr esgobion i rwystro pawb i gredu penderfyniadau y cymanfaoedd, fel gwirioneddau anffaeledig, yr oedd lluoedd yn anturio i farnu drostynt eu hunain, a llawer mwy o wahaniaeth mewn barn yn ffynu, hyd y nod am berson y Gwaredwr, nag oedd wedi ymddangos erioed cyn i'r esgobion gymeryd y gwaith mewn llaw i rwymo pawb i reoleiddio eu cred ynol rheolau dynol.

Yr oedd bywyd monachol wedi cyrhaeddyd enwogrwydd hynod yn y canrhif hwn, a rhif y rhai a'i dilynai wedi cynyddu yn y dwyrain, nes mai peth hawdd fuasai cyfansoddi byddinoedd lluosog o'r cymeriad hwn, heb leihad ymddangosiadol yn y rhesi. Yn y gorllewin hefyd yr oedd y dull hwn o fyw mewn llawer o barch, a chan y mynachod nifer fawr o ymgeleddwyr haelionus. Ond wedi y cyfan, dynion anfoesol oedd rhan fawr o'r rhai hyn, a phenboethiaid hygoelus oedd y rhan amlaf o'r gweddill. Rhaid, gan hyny, fod tywysog y byd hwn wedi dallu meddyliau, a dyrysu synwyrau y cenedloedd a elwid yn Gristionogol, cyn y gallant ddychymmygu fod dynion o'r cymeriad hwn yn deilwng o gael eu henwi ar enw Crist, chwaithach eu cyfrif yn hynod am santeiddrwydd a duwioldeb. Ond yr oedd y gyfundraeth fonachol yn ateb yn hynod i amcanion yr esgobion, ac fel y cyfryw yn cael eu cymeradwyaeth gyflawn; ac yn y canrhif hwn gwnawd peth ymdrech i ddiwygio yr anweddeidd-dra oedd yn enill tir yn eu plith, drwy i Nursia, yr hwn oedd yn ddyn cyfrifol, ag ystyried yr oes yn yr hon yr oedd yn byw, sylfaenu y gradd newydd o honynt sydd adnabyddus yn mhlith hanesyddion dan yr enw Benedictiaid.

Oddiwrth reolau ei ddysgyblaeth ag sydd eto ar gael, mae yn ymddangos nad ei amcan oedd dwyn y monachod oll dan yr un rhwymau, ond yn hytrach i ffurfio gradd o honynt dan reolau mwy haelfrydig, ar sail mwy sefydlog, ac i ddybenion mwy buddiol na dim oedd yn bodoli yn barod. Yr ydoedd y rhai hyn yn cymeryd arnynt arwain bywyd santaidd a thangnefeddus, a deinyddio eu hamser i ddarllen, gweddio, ac i addysgu yr ieuengctyd, ac fel y gallasid dysgwyl, cawsant gymmaint o gefnogrwydd fel yr ymresodd y rhan fwyaf o'r monachod am ryw dymor yn y gradd hwn, nes y bu yn agos llyngcu i fynu bob gradd arall ar un adeg. Rhan o ddyfais yr eglwys babaidd yn mhob oes o'i llywodraeth anysgrythyrol oedd, caniatau i arweinyddion pleidiau a fyddent yn dewis rhyw fesurau newyddion i ffurfio graddau sylfaenedig ar eu rheolau eu hunain, os na fernid fod dim yn y rheolau hyny yn ergydio yn erbyn awdurdod yr eglwys a dylanwad yr esgobion. Fel hyn yr ydym yn cael nifer fawr o honynt a chymmaint gwahaniaeth, os nid rhagor, rhyngddynt, ag sydd rhwng cyfenwadau Protestanaidd, ond eu bod oll yn uno i gydnabod y Pab yn ben, ac Eglwys Rhufain yn anffaeledig; ac nid anfynych y byddent yn ymgystadlu bron hyd at waed am flaenoriaeth eu graddau, er cymmaint sydd yn cael ei ddywedyd gan Babyddion am undeb eu graddau, er cymmaint sydd yn cael ei ddywedyd gan babyddion am eu hundeb eu hunain, a'r gwahaniaeth sydd yn ffynu yn mhlith y rhai sydd yn ymwrthod â'u cymundeb.

Er i'r Benedictiaid dario allan mor debyg i ddiwygwyr, yr oedd yr egwyddor lygredig eto yn ei nerth. Rheolau Benedict, ac nid eiddo Crist, oedd yn llywodraethu eu mesurau, ac o ganlyniad fel y cynyddasant mewn cyfoeth a dylanwad hwy a syrthiasant i bob math o anghymmedroldeb, segurdod, a drygioni, nes yn y diwedd fod eu holl ymdrech am anrhydedd bydol, a'u holl awydd am helaethu awdurdod y Pab; ac feallai nad oedd neb yn yr oesoedd tywyll yn ymhyryd mwy ag achosion gwladol, ac yn fwy awyddus i ddwyn y cenedloedd i gaethiwed moesol na'r monachod Benedictaidd. Cynyddu wnaeth eu nerth, ac amlhau wnaeth eu rhif, nes yn y diwedd iddynt gyrhaeddyd y llywodraeth ar bob gradd arall, a rhoddi heibio bob rheol haelfrydig o eiddo ei sylfaenydd, a deinyddio eu dylanwad i wrthwynebu rhedegfa y gwirionedd gyda chyfrwysdra diymwad a pharhad diysgog.

Wrth adolygu cyflwr Cristionogaeth yn y canrhif hwn, nid ydym yn canfod yn ei ddiwedd yn yr eglwys gyffredinol ond ychydig neu ddim o ymlyniad wrth egwyddorion yr efengyl, er nad oedd y dirywiad eto wedi cyrhaeddyd ei holl eithafion yn mhob gwlad. Yr oedd yr adeg yn agoshau pan y cyhoeddid esgob Rhufain yn ben cyffredinol ar yr eglwys

Gristionogol, a dylanwad yr offeiriadaeth yn ymestyn dros awdurdod pendefigion y ddaenes eu parotoi i roddi eu holl nerth o du yr eglwys babaidd. Ond er hyn, yr oedd gan Dduw eglwys o wir dduwiolion yn wasgaredig yn yr anialwch yn byw yn ei ofn, ac yn ymhyfrydu yn ei wasanaeth; ac nid bychan oedd rhif ei haelodau, er nad oeddynt yn gallu ymddangos yn gyhoeddus mewn llawer ardal. Byddent weithiau yn nghudd am dymor, o herwydd gormes, ac yna, pan gaent gyfleusdra, ymddangosent dan dywysiad rhyw flaenor anadnabyddus o'r blaen, a chaent eu galw ar ei enw, fel pe buasai blaid newydd, er nad oeddent amgen nâ'r un cyfenwad o Gristionogion ag oedd, yn marn eu gelynion, wedi eu darostwng i ddystawrwydd am byth. Fel hyn y parhaodd y gwir Ymneilldawyr i addoli Duw a dyoddef trallod, nes iddynt ymddangos yn gorff mwy cryno yn nyffrynoedd Piedmont, lle buont yn dal goleuni yr efengyl, pan oedd llwythau Ewrop yn ymbalfalu yn holl dywyllwch coel-grefydd ac anwybodaeth.

---

## GALAR GWRAIG Y MEDDWYN.

*O'r "Bedyddiwr."*

[Y Gerdd Fuddugol yn Eisteddfod Ddirwestol Merthyr Tydfil, 1850.

O d'wedwch, p'le mae dagrau fel
Hallt ddagrau gwraig y meddwyn?
Mae'r ddiod gaiff ei gwr yn fêl
Oll iddi hi yn wenwyn;
O d'weded rhywun wrtho air
Fy mod ar hyd yr hirnos,
A'm hanwyl faban yn fy nghol
Ar aelwyd oer i'w aros.

'Rwy'n denau'm gwisg, a'r nos sydd oer,
A'm tŷ sydd wag o damaid;
Can's aeth ein dillad, aeth ein bwyd,
A'n dodrefn oll am lymaid.
Pan rhoes, y fodrwy ar fy mys,
Wrth dyngu dal yn ffyddlon;
O! pwy debyg'sai mai efe
Ei hun dorasai'm calon?

Ac er na chefais ganddo ond
Rhyw damaid cynil, caled,
Ac, er dan daro na fu im'
Yn nemawr iawn o nodded:
Ac er y gwyr pa fyd sydd ar
Ei faban bach a'i briod;
Ac, er pe newyn fynai'r ddau,
Y mynai ef ei ddiod;

Ac, er mai gwraig y dafarn gaiff
Ei arian glân a'i wenau;
Ac, er fod misoedd er pan wyf
Heb fod o dan ei gleisiau;
Er hyn i gyd, O teimlwch dros
Y meddwyn dwl ei hunan;
Mae'n lladd ei gorff wrth enill, ac
Yn fwy wrth wario'i arian.

Mi wn ei fod yn gas ei air,
Ond O! dyoddefwch iddo;
Ac er ei fod yn haeddu dig,
O peidied neb a'i daro;
Carawn roi fy llaw i ddal
Ei ben pan fyddo'n trengu,
Ond cwympa'r unig ffrynd a fedd
I waelod bedd cyn hyny.

Dos, fodrwy, dos oddiar fy mys,
Gwna'th adgof fy llesmeirio;
Ond ar ol glynu wrthyf cy'd
O paid! ni chei fy nghado;
'Nawr henffych arch ac amdo glân,
A henffych olaf elor,
Caf wely diddig genych chwi,
A'm plentyn wrth fy ochor. SARAH,

*Sef Miss S. Jones, Llangollen.*

---

## CWYN Y WEDDW.

O! mor glwyfus ydyw'm calon,
Collais briod hoffus ffyddlon;
Wylo'r ydwyf a galaru
Am un oedd i m hymgeleddu,
Pa fodd tawaf? pwy fydd eto
Fel fy mhriod
Anwyl hynod sydd yn huno?
O! na welwn fy anwylaf
Un a gerais,
Mwyn adewais mewn man duaf.

Fy mhlant hoff sydd yn fy mlino
Wrth eu llefau'n galw am dano;
Gan adgofio i mi'r cyfaill
Gerais i yn fwy nag eraill;
Cymhar gwresog i gyd oesi,
Tirion, esmwyth,
Dan gul adwyth, du galedi;
Gyda mi 'does ond ei enw;
Mawr yw'm trallod.
Mae fy mhriod wedi marw.

Dyma anedd oerwedd hiraeth,
Egwan olwg am gynnaliaeth;
Cri fy mhlant sy'n rhwygo'm calon,
Am eu tad a'i dwym ofalon,
Unig, unig fe'm gadawodd,
Dan y gofal,
Yn yr anial, pan yr hunodd,
Y mae'r galon falch yn gwelwi
O'i farwolaeth,
Hynod, hiraeth ar ymdori.

Ond er colli ei gyfeillach,
Eto gwell yw peidio grwgnach,
Ataf mwy ni ddychwel eto,
Ond af fi yn fuan ato;
Gwell gan hyny yw i'r weddw
Roi ei gobaith
Ar gydymaith na fydd marw:
Arnat Iesu f'enaid gorphwys,
Dwg e'n llawen
Ar bur aden i baradwys.

*Dinas.* GOMER GLAN RHONDDA.

---

## AR FARWOLAETH J. H. JONES, (IOAN CELER.)

I fedd oer cafodd Celer--ei ddeol,
Fardd ieuangc awenber;
Ceisio enill penill per
O'i ben ef fydd boen ofer. DEWI EMLYN

## Y FASNACH LO.

Mae y fasnach uchod yn parhau yn fywiog, ac yn llawer helaethach yn y swydd hon na dysgwyliad llawer. Tua dwy flynedd yn ol yr oedd amryw yn darogan dinystr buan ar fasnach y Schuylkill; ond ymddengys fod amgylchiadau wedi troi allan yn wahanol iawn i ddysgwyliad y cyfryw, oblegyd tra mae y Lehigh ac ardaloedd eraill wedi lleihau yn eu masnach, y mae mwy o lô wedi ei gludo yn ystod yr wyth mis cyntaf o'r flwyddyn hon drwy ddyffryn y Schuylkill, na'r cwbl a gymerwyd drosti y flwyddyn ddiweddaf.

Nid ydym yn dywedyd hyn o herwydd fod ynom unrhyw duedd i ymffrostio yn yr ardal lle yr aroswn, ond o herwydd yr amcanwn at ddiwygio camsyniad neu fyrbwylldra sydd yn bodoli yn rhy aml yn mhlith ein cenedl yn y wlad hon, sef tuedd ansefydlog ac anfoddlongar. Ar ol clywed fod rhyw arwyddion y gallant enill mwy o arian mewn rhyw fan arall, gadawant sefyllfaoedd cysurus ac ânt i draul fawr i symud eu hunain a'u teuluoedd i'r ardal ddedwydd a chwenychent; ond fel y mae yn aml yn dygwydd, ar ol iddynt ymsefydlu yn y lle newydd teimlant anghyfleusderau na feddyliasant am danynt, bydd eu treulion ond odid yn fwy na'u dysgwyliad, ac fe allai mai y newydd nesaf a glywir yw fod "y gwaith wedi stopio," gorfydd arnynt ddychwelyd i'w hen gartrefleoedd yn llwm a siomedig.

Barnwn mai prif fantais mwnwyr y swydd hon yw fod y gweithfeydd yn fwy cyson a sefydlog yma nâg y maent mewn lleoedd eraill. Gallwn yru y glo i'r farchnad trwy y flwyddyn, haf a gauaf, heb ofni llif-ddyfroedd na sychdwr, &c. Mae y pethau hyn yn effeithio ar weithfeydd eraill. Ac mae cyfleusderau digonol genym i anfon dau cymmaint o lô oddiyma ag a anfonir yn bresennol.

Yr hyn sydd yn tynu fwyaf o sylw yn bresennol yn nghysswllt â'r fasnach hon, yw y cyfnewidiad a wneir yn ager-beiriannau y rheilffordd. Y mae un Mr. Millhollard, prifbeirianydd y rheilffordd, wedi dyfeisio cynllun i losgi careg-lo yn y peirianau hyn, yn lle coed, yr hyn sydd yn ddiwygiad pwysig, yn enwedig gan fod y coed mor brin ag y maent. Mae yr un peiriannau ar ol eu cyfnewid, yn gwneud y daith i Philadelphia ac yn ol â chwech tynell o lo, gwerth tua $12; pan yr arferent losgi o gylch 14 *cords* o goed, gwerth $56. Mae yn costio tua $1000 i wneud y cyfnewidiad yn mhob peiriant. Dywedir na bydd i beiriant wedi ei wneud yn bwrpasol i losgi glo, ddifa dros bum tunell ar y daith.—Mae y cynllun wedi ei brofi yn ateb y dyben, a chyfarwyddyd wedi ei roddi i gyfnewid holl beiriannau y rheilffordd. Diau y bydd i sylw cyffredinol gael ei dalu i'r symudiad hwn, a dysgwyliwn glywed fod rheilffyrdd eraill yn ei fabwysiadu.



## BEIRNIADAETH PHILALETHES.

*Seren Medi, tudal.* 211.

Mr. Gol.—Y mae yn ymddangos i mi fod eich gohebydd o Pittston, er mor hyddysg y mae yn cymeryd arno fod yn rheolau rhesymeg, wedi camsynied am sail rhesymeg "Ab Gomer." Pe buasai ei lygaid yn syml, a'i feddwl yn ddiragfarn, gallasai weled fod y rhesymeg wedi ei sefydlu ar feddwl yr awdwr y cyfeiriais ato, ar y gair "*lleiaf*," neu "*lai*;" sef lleiaf neu lai na Ioan o ran amser yn ngweinyddiad ei swydd fel proffwyd. Cofied Philalethes mai nid at weinyddiad y swydd broffwydoliaethol ynddi ei hun y cyfeiria ein Iachawdwr pan yn dywedyd am Ioan, fod "y lleiaf yn nheyrnas nefoedd yn fwy nag ef." Ond cyfeiria at amser gweinyddiad ei swydd yn y deyrnas, neu, mewn geiriau eraill, yn nghoruchwyliaeth yr efengyl. Pan yn dywedyd am Ioan ei fod yn fwy na phroffwyd, yr oedd yn golygu y swydd yn y gweinyddiad o hono. Yr oedd Ioan yn fwy na'r proffwydi a fu o'i flaen ef yn ngweinyddiad ei swydd. Yr oedd amgylchiadau yr amser yn ei wneud yn fwy. Yr oedd wedi gweled Crist mewn modd personol, cyfeillachu ag ef, ei fedyddio, &c., dysgu y bobl mewn egwyddorion ac ymarferiadau newyddion, mwy goleu a phenderfynol na neb a fu o'i flaen; pregethu edifeirwch, a gweinyddu bedydd i'r edifeiriol, yr hwn fedydd nad oedd mewn arferiad o'r blaen. Yr oedd yn broffwyd mawr. Ond er hyny oll, yr oedd ein Harglwydd Iesu Grist, er ei fod wedi bod yn llai o ran amser nag ef yn ngweinyddiad y swydd, yn fwy proffwyd nag ef yn ngweinyddiad y swydd ynddi ei hun. Dyma y proffwyd mawr y dywedodd Moses am dano. "Yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd (nid a fydd) fwy nag ef."

Y mae yn debygol fod y meddwl uchod yn newydd ac yn ddyeithr i Philalethes, ac felly y mae yn ymddyrysu ac yn camsynied, gan ei fod yn rhy hunanol i dderbyn meddyliau eraill. A pheth yw ei feddwl ef yn y diwedd ond yr hen feddwl cyffredin ag yr wyf wedi ei glywed a'i weled er yn ieuangc. Y mae yn wir ei fod wedi amcanu at gywreinrwydd yn ei ddull o'i osod allan; ond yr hen feddwl a glywodd gan eraill, neu a welodd yn ysgrifeniadau yr hen awduron ydyw o ran

sylwedd, wedi y cwbl o'i ymffrost am wreiddioldeb. Y mae yn ddymunol genyf fi gael golygiadau newyddion ar hen wirioneddau yr efengyl, ac yr wyf yn barod i'w mabwysiadu yn rhagor i'r hen feddyliau, os byddaf yn eu barnu yn fwy cysson â meddyliau yr ysgrifenwyr ysbrydoledig na hwynt; ond ni ymddibyna eich gohebydd o Pittston ar feddwl neb ond ei feddwl ei hun—y mae yn ddyn mawr; ond na theimled yn siomedig os bydd i ryw un llai fyned yn fwy nag ef.

AB GOMER.

## AMDDIFFYNIAD DIC SHON DAFYDD,

*Yn y Cyfaill diweddaf.*

Y mae dros ddwy dudalen o'r Cyfaill wedi ei lanw eto gan Dic Shon Dafydd o barth y bedydd yn Coalport, heb daflu cymmaint a llygedyn o oleuni ychwanegol ar y mater.

Gan fod rai cyfeiriadau at Olygydd y Seren yn ysgrif ddiweddaf Dic barnwn yn angenrheidiol i wneud rai sylwadau byrion arni.

Y mae yn methu deall pa beth a ystyriwn yn gorglaidd ac anfoneddigaidd yn ei ysgrif gyntaf. Digon hawdd ateb. Pe buasai pob gair ynddi yn wirionedd, ni buasai ymddygiad Dic ond anheilwng, gwrachaidd, ac fel un yn ymyraeth â materion rhai eraill. Y mae ymosodiad dieuw ar weinidog yr efengyl pan yn gweinyddu ordinhadau y Testament Newydd yn anfoneddigeiddrwydd o'r mwyaf. Ond gan fod cywirdeb ei ysgrif wedi ei hameu gan rai ag oeddent yn bresennol, a bod ei dystiolaeth wedi ei chasglu oddiwrth stori rhyw un arall, barnwn na ddylai Dic ein beio am wrthod roddi coel i'w chwedl. Yr oedd yr hyn a wyddem yn flaenorol am ymddygiad Dic, yn enllibo y Parch. Peter Lloyd pan yn mhell oddiwrtho yn ein tueddu hefyd i gredu fod yr hen frawd teilwng hwnw rhywfodd yn wrthddrych ei lid a'i gynddaredd. Gofyna yn nesaf, A ydym yn "adnabod y *gwr?*" gan olygu ei hunan, feddyliwn. Gan fod Dic yn ymddibynu yn hollol ar yr hyn a glywodd yn yr achos hwn, dichon yr esgusoda ninau am adrodd yr hyn a glywsom, sef ei fod ef (Dic) yn ymffrostio cyn ymddangosiad ei ysgrif gyntaf yn y Cyfaill, fod ryw orchestwaith o'r fath ar ddyfod i'r golwg, yr hyn sydd i raddau yn dynoethi yr awdwr. Mae Dic yn awgrymu ei fod yn llafurio i roddi rhywbeth yn ymenyddiau gwrthddrychau ei ofal heblaw gwynt a dwfr. Digon tebyg ei fod. Gwyddom nad oes a fyno â dwfr; ac am wynt, ma wedi treulio hwnw allan wrth ysgrifenu ei ddifriaeth i'r Cyfaill. Buasai yn garedig ynddo i roddi ar ddeall i'r darllenydd yn mha beth y mae ef yn masnachu. Mae yn naturiol i rai farnu mai math o *wholesale gas merchant* yw. Os felly, cymered ofal rhag i'r nwyf hwnw *explodo*, a'i chwythu yn ddigon pell o gyssylltiadau y corff.

Mae Dic yn gwingo am i ni gyplysu ei ysgrif â hanes eglwys "Aberdar" yngbyd; ond y mae amser ac amgylchiadau wedi profi ein bod yn gywir yn ein barn erbyn hyn. Yr oeddem yn canfod nodau chwedlau gwrachaidd yn y ddwy hanes; nid oes un dyn synwyrol nad yw yn ffieiddio y fath gableddau; a rhaid i Dic foddloni i'r unig wobr a all ei dysgwyl am ei drafferth, sef *dysglaid o dê* neu *binchaid o snuff* gan Shani'r Glap ei hunan.

> "A gesgli di atgas-glap—yn ddewrllym,
> Gan ddarllaw newydd-glap?
> Diweddglo'th annedwydd-glap
> Fo carchar rhag clochder clap."

## HANESYN AM PATRICK HENRY.

Pan oedd yr enwog Patrick Henry, o Virginia, yn agos a therfynu ei fywyd, ac yn wael ei iechyd, gosodai ei law ar y Beibl, a chyfararchai ei hen gyfaill, yr hwn oedd gydag ef, fel y canlyn: "Dyma lyfr," meddai ef, "sydd yn werth mwy na'r holl lyfrau eraill a argraffwyd; ond eto yr wyf wedi bod mor annoeth a pheidio ei ddarllen a roddi iddo y sylw a deilynga hyd yn ddiweddar."

Tua yr un amser efe a ysgrifenai at ei ferch fel yma: "Yr wyf yn deall fod y Deistiaid wedi fy hawlio; y mae y meddwl hwn yn llawer mwy poenus i mi na'r enw *Tory;* o herwydd ystyriwyf grefydd yn annraethol fwy o bwys na pholitics; ac yr wyf yn cydnabod fy hun yn feius iawn am na buaswn cyn hyn yn fy mywyd wedi roddi prawf amlwg i'r byd fy mod yn Gristion.

## CYNGHOR ARGL. CHATHAM I'W FAB.

Yr wyf am am ysgrifenu ar ymyl dy wely, "Os na bydd i ti godi yn foreu, ni elli wneud cynydd mewn dim. Os na bydd i ti neillduo oriau neillduol i ddarllen a myfyrio, a pheidio gadael dim na neb i'th aflonyddu ar y cyfryw amserau, â dy fywyd heibio yn ddiddefnydd a dielw.

## Y PRESBITERIAID YN PENNSYLVANIA.

Mae y Presbiteriaid yn lluosog iawn yn y dalaeth hon. Yma y mae nerth penaf yr Hen Ysgol yn aros. Y mae nifer y cymunwyr perthynol i'r blaid hono yn unig yn fwy na 50,000. Mae yma hefyd nifer lluosog o aelodau yr Ysgol Newydd.

## Y TAD MATHEW.

Pe byddai rhywbeth yn tueddu ein meddwl i goleddu barn dyner am eglwys Rhufain a'i hegwyddorion, nid ydym yn gwybod am ddim a wnelai hyny yn gynt na gweled y fath ddyngarwyr rhinweddol a haelionus â'r Tad Mathew yn perthyn i'w chymundeb. Ond byddai hyn yn hollol gyfeiliornus; oherwydd gall dyn ragori mewn un rinwedd, pan yn hollol ymddifad o rinweddau eraill. Dylem efelychu dynion da yn eu rhinweddau—nid yn yr hyn oll a berthyna iddynt.

O barth y dyn mawr a rhyfeddol hwn, nid gormod yw dywedyd fod ei galon yn llosgi mewn cariad at, a chydymdeimlad â dynolryw yn eu hadfyd. Mae wedi colledu, ïe, wedi tlodi ei hun wrth gynorthwyo eraill, ac y mae yn awr mewn dyled, yn wael ei iechyd. Yn amser y newyn yn Iwerddon cyfranodd filoedd o bunnau mewn haelioni, a dywedir iddo achub cannoedd rhag marw o newyn. Yn y wlad hon hefyd y mae yr un nodwedd wedi ymddysgleirio yn ei gymeriad, gan ei fod wedi roddi y cwbl a dderbyniodd. Gweinyddodd yr ardystiad i fwy na hanner miliwn o bersonau, ac yn awr dychwela yn ol gyda dymuniadau goreu llu afrifed am ei adferiad a'i lwyddiant. Cefodd *bassage* rhad yn un o'r llongau goreu; ond barnwn y dylasai gael rhyw wobr deilwng ar ei ymadawiad, fel arwydd fod y wlad yn gyffredinol yn gwerthfawrogi ei lafur a'i ymdrechiadau.

---

## MEDDYGINIAETH.—HOMŒOPATHY.

Nid oes ond o gylch 60 mlynedd er pan ddarganfyddwyd y gyfundraeth feddygol uchod gyntaf gan Ellmynwr o'r enw Hahnemann, gwr o feddwl a galluoedd treiddlym, a saif ei enw mewn parch a bri tra bo byd yn fyd. Yr oedd amryw o rwystrau mawrion ar ei ffordd yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf, ond y fath oedd llwyddiant Hahnemann fel yr enillodd amryw feddygon dyfeisgar a dysgedig i fabwysiadu ei gyfundraeth yn ngwahanol wledydd Ewrop; er fod rhagfarn ac anwybodaeth yn dallu meddyliau y werin yn gyffredinol am lawer o flynyddoedd. Yr oedd gwaelder ymddangosiadol y cyffeiriau, a llais y rhif luosocaf o'r meddygon yn dylanwadu yn ei herbyn; fel na bu fawr llwyddiant ar y gyfundraeth am ddeugain mlynedd. Ond fel yr oedd y meddwl dynol yn ymagor, a dyfeisiau a darganfyddiadau newyddion yn dyfod i oleuni, talwyd sylw manylach i Homœopathy, a chan y canfyddai pob meddwl ymresymgar a diragfarn ei rhagoriaeth ar yr hen gyfundraeth, enillodd filoedd o bleidwyr newyddion, ac felly y daeth i gymeradwyaeth ac ymarferiad mwy cyffredinol. Daeth amryw o feddygon penaf Ffraingc a Lloegr, yn gystal a gwledydd eraill, i'w phleidio, fel y mae yn bresennol mewn ymarferiad mwy neu lai yn mhob gwlad wareiddiedig.

Er fod rwystrau mawrion ar ffordd y gyfundraeth hon yn yr Unol Dalaethau, fel mewn gwledydd eraill, y mae wedi llwyddo tu draw i ddysgwyliad amryw, fel y mae yma yn bresennol dros ddwy fil o feddygon yn ei harferyd, ac arwyddion y bydd i'w nifer gynyddu eto yn llawer mwy yn ystod y blynyddau dyfodol. Mewn rai manau yn y talaethau dwyreiniol nid oes neb meddygon eraill i'w cael. Mae ganddynt golegau mawrion yn y prif-ddinasoedd, yn y rhai y graddolir amryw fyfyrwyr ieuaingc bob blwyddyn.

Nid yw yr ysgrifenydd yn proffesu ei fod yn deall nac wedi myfyrio meddyginiaeth; ond y mae wedi sylwi ar natur ac effeithiau y ddwy gyfundraeth; ac yn rhwym o gymeradwyo Homœopathy ar amryw ystyriaethau. Er fod y cyffeiriau yn araf a thawel yn eu gweithrediad, eto y maent yn effeithiol a sicr. Y maent hefyd yn ddiniwed, gan nad ydynt fel cyffeiriau eraill yn cynnwys gwenwyn, yn achosi clefydau, ac yn dinystrio y cyfansoddiad. Nid wyf yn ameu nas gall yr hen driniaeth rhagori ar y gyfundraeth hon mewn rai achosion neu amgylchiadau, ond nid nid wyf yn barnu hyny pan fyddo y meddyg yn deall ei alwedigaeth a natur yr afiechyd.—Y mae yn anghymeradwyo gwaedu yn mhob amgylchiad, gan fod hyny yn gwanhau ac yn niweidio ffynhonell y bywyd dynol. Gwelais ei heffeithiau dedwydd pan oedd meddygon eraill wedi methu, yn enwedig yn mhlith plant a phersonau o gyfansoddiad gwanaidd; ac y mae yn hysbys ei bod yn effeithiol er atal y clefydau mwyaf poenus â pheryglus.

Yr eiddoch, &c. M.

---

## DARGANFYDDIAD YN YR AIFFT.

Y mae yn hysbys fod gynt yn Mynydd Zabarah, yr hwn a saif mewn ynys ar y Mor Coch, fwn o berlau neu feini gwerthfawr, y rhai a gloddid gan y Pachas o'r Aifft, er ysoesau yn ol, ond a roddwyd i fynu yn ddiweddar gan Mehemet Ali. Cafodd cwmni o Saeson ganiatad i weithio y mwn hwn, y rhai a farnent fod yno amryw feini gwerthfawr.—Pan oedd Mr. Allen, peirianydd y Cwmni, yn adolygu y gwaith tu fewn, canfyddodd arwyddion o ffordd danddaearol, yr hon a ddilynwyd i ddyfnder mawr, lle yr oedd yn amlwg fod oriel helaeth gan yr henafiaid. Wedi symud y *rubbish* o'r ffordd, cafwyd amryw

bethau hynod a gwerthfawr, megys trysorau. arfau, ac arwyddluniau ar gerig, y rhai ydynt anamlwg ac wedi eu niweidio i raddau. Mae y darganfyddiad yn brawf o wirionedd dywediad Belzoni ac eraill, fod y mwn hwn yn cael ei gloddio gan yr henafiaid. Bernir oddiwrth yr arfau a'r cerig hyn i'r oriel gael ei gwneud yn amser Sesostris Fawr, neu Ramsea Sosostris, yr hwn oedd yn teyrnasu o gylch 1656 o flynyddoedd cyn Crist, yr hwn oedd yn enwog am ei fuddugoliaethau, ac am y cof-adeiladau ardderchog a gyfodwyd ganddo yn yr Aifft.

---

## TAN ARSWYDUS YN BUFFALO.

Tua phedwar o'r gloch y boreu, Medi 26, torodd tân allan yn nghanol lle a elwir "Five Points," Buffalo, yr hwn a daenodd mor fuan o herwydd y sychdwr, fel yr oedd yr holl bedryal yn un olosgfa mewn llai na phymtheg mynud. Croesodd y tân heolydd y Gamlas ac Erie, gan ysgubo y cwbl o'i flaen hyd heol y Masnachwyr, a'r tu arall hyd Cherry-st. Dinystriodd dros 500 o adeiladaethau. Mae nifer mawr o deuluoedd tlodion wedi colli y cwbl a feddent—heb dai na dodrefn; ac ofnir fod rai bywydau wedi myned yn aberth i'r fflamiau. Cyfrifir y golled yn $500,000.

Yr ydym yn aml yn gweled newyddion truenus o wahanol fanau. Barnwn fod Pittsburg yn dyoddef colledion pwysig. Mae y tanau mawrion yno mor aml fel nad allwn eu cofnodi.

---

Meddyginiaeth rhag Gwenwyn.—Ar ol i berson gael ei wenwyno neu ei frathu gan wenynen, neu rhyw beth o'r fath, gellir atal y poen mewn mynud trwy iro *spirits of terpentine* ar y fan. Dywedir y gellir atal y poen a achosir trwy wenwyniad neidr yn yr un modd. Effeithia gwenwyn i dynhau neu fyrhau y gwythi, nes achosi chwydd a phoen, ond y mae yr hylif a nodwyd yn eu hestyn, yr hyn a dyn y chwydd i lawr, ac o ganlyniad atelir y poen.

Dirwest yn Swydd Luzerne, Pa.—Yn niwedd mis Medi cynnaliwyd Cynhadledd gan Ddirwestwyr Luzerne, pan y penderfynwyd peidio pleidleisio dros neb ond Dirwestwyr, a chymeradwywyd yr ymgeiswyr hyny ag ydynt yn ateb y nodweddiad hwn ar y ddau docyn.

Dirwest yn Nghaerefrog-Newydd.—Y mae Dirwestwyr y dalaeth hon yn ymysgwyd i weithio o ddifrif. Bu cynhadledd ganddynt yn ddiweddar, pan y dygwyd mesurau effeithiol dan sylw er darostwng y fasnach feddwol, a phenderfynwyd ffurfio math o Undeb Talaethol, mewn trefn i gydweithredu i ddwyn i ben yr amcan clodwiw mewn golwg

Mwn Arian yn Kentucky.—Mae traddodiad ar gael fod mwn arian yn y dalaeth hon er ys dros ddeugain mlynedd, ond yn ddiweddar, wedi cael gafael yn nhrysorau euraidd California, y gwnawd prawf teg o fwnau Kentucky, a dywedir eu bod yn cynhyrchu mwy o ariau nag a geir mewn nemawr o fwnau o'r fath. Dywedir fod arwyddion y bydd llawer yn ymdyru i'r ardal.

Amgylchiad Galarus.—Pan oedd yr agerfad James Jackson yn gadael ei phorthladd yn Shawnestown, Illinois, ar dydd Sabboth yn ddiweddar, hollodd y berwedydd gyda rhythr mor nerthol fel y drylliodd yr holl fad yn chilfriw, fel y lladdwyd neu y clwyfwyd o gylch deugain neu banner cant o fywydau.—Yr oedd yn olygfa druenus iawn.

---

## GEIRIAU DIWEDDAF DYNION ENWOG.

"Pen y fyddin."—*Napoleon.*

"Nid yw o fawr pwys pa fodd mae y rhai sydd yn marw yn gorwedd."—*Sir Walter Raleigh.*

"Cusana fi, Hardy."—*Nelson.*

"Na roddwch y llong i fynu."—*Lawrence.*

"Ai hyn yw eich ymlyniad."—*Nero.*

"Gafaela yn fy llaw fy nghyfaill, yr wyf yn marw."—*Alfieri.*

"Rhoddwch gadair i Dayroles."—*Argl. Chesterfield.*

"Duw gadwo'r Ymerawdwr."—*Hayden.*

"Mae'r gwythienau yn darfod curo."—*Haller.*

"Gadewch i'r goleuni ddyfod i mewn."—*Goethe.*

"Y cwbl a feddaf am eiliad o amser."—*Y Frenines Elizabeth.*

"Cerais Dduw, fy nhad, a rhyddid."—*Madam Stael.*

"Yr wyf yn cyflwyno fy enaid i'm Duw, a fy merch i'm gwlad."—*Jefferson.*

"Y mae yn dda."—*Washington.*

"Annibyniaeth dros byth."—*John Adams.*

"Dyma ddiwedd y ddaear."—*J. Q. Adams.*

"Dymunwn i chwi ddeall gwir egwyddorion y llywodraeth, a'u cario allan. Nid wyf yn gofyn mwy."—*Harrison.*

"Ymdrechais wneud fy nyledswydd."—*Taylor.*

"Nid oes diferyn o waed ar fy nwylaw."—*Franklin.*

"Byddwch sobr."—*Grotius.*

"I'th ddwylaw di, O Arglwydd."—*Tasso.*

## CYDNABYDDIAETH Y CASGLWR.

MR. GOL.—Yn ol fy ymrwymiad, wele fi yn trosi, drwy gyfrwng y Seren Orllewinol, rhyw gyfran o'm helyntion tra yn talu ymweliad ag amryw o eglwysi Crist ar fy nhaith gasglyddol yn ddiweddar. Cefais bob croesaw yn mhob man, a derbyniad parchus yn yr efengyl. Cydymdeimlid â'm hachos yn gyffredinol, a dangoswyd haelioni mawr gan amrai o gyfeillion ein Harglwydd Iesu Grist.

Gwyr pob casglwr mai nid gwaith pleserus yw hel arian at dŷ addoliad, gan nad pa mor deilwng bynag fyddont yr hawliau a ddadleua; o ganlyniad, nid mwyniant i gyd oedd taith o'r natur hyn, er cyfarfod â chyfeillion caredig yn Pittsburg, Carr's Run, Cincinnati a Sugar Creek; ie, rhai yn arfer gweini i'r saint, a meddu ymwybodolrwydd fod y frawdoliaeth yn Minersville yn anfon gweddiau droswyf at Dduw a Thad ein trugareddau. Eto, oddiwrth natur y gwaith, ac amgylchiadau pethau, cyfodai llawer iawn o wrthwynebiadau a digalondid meddwl yn aml; fel nad oedd dim yn gallu dygymod y casglydd a'i orchestwaith ond y cydwybodolrwydd o'i ffyddlondeb.

Mae enwau personau lawer wedi eu cerfio ar fy nghof gan law haelfrydedd, ac nis gallaf lai na theimlo yn ddiolchgar iddynt; ond er mwyn gwyleidd-dra yn unig, ni chaf eu henwi, canys gwn am lawer o honynt eu bod yn gyfryw na charent i'r llaw aswy wybod yr hyn a wnaeth y llaw ddeheu. Derbyniais garedigrwydd mawr gan amryw gyfeillion o wahanol enwadau crefyddol; a byddai yn anniolchgarwch ynof i beidio crybwyll parodrwydd y Trefnyddion Calfinaidd yn Cincinnati i gyfranu tuagat ein haddoldy. Yno y cyfarfyddais â'r gwir deilwng Barch. H. Powell, gynt o Sugar Creek, ond yn awr wedi cymeryd bugeiliaeth eglwys y T. C. yn y ddinas uchod. Ymddygodd yn deilwng o frawd yn yr efengyl. Llwydded Duw ei lafur a'i ymdrech dibaid gyda phob sefydliad daionus yn mhlith Cymry Cincinnati. Croesais yr afon Ohio i dalaeth "gaeth" Kentucky; cyfeiriais fy nghamrau tua Choleg Duwinyddol y Bedyddwyr yn Covington; yno y cyfarfyddais â'r brawd Enoch Thomas, myfyriwr yn y sefydliad; yr hwn sydd yn gwneud ymdrech deilwng ac aberth mawr tuagat gyrhaeddyd dysgeidiaeth a chymhwysder i waith y weinidogaeth. Llawenychwn ei fod mewn parch mawr gan ei athrawon, ac fel Cristion yn ymddwyn yn addas i efengyl Crist. Frodyr a darllenwyr y Seren, na ddiystyrwch ddysgeidiaeth yn nghenhadon hedd, eithr yn hytrach calonogwch y cyfryw sydd yn ychedu am wybodaeth, drwy gydymdeimlad a haelioni; a'n gweddi fo ar i Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr newyddion i'w gynhauaf. Yn awr, dychwelaf ddiolchgarwch eglwys y Bedyddwyr yn y lle hwn i bawb a'n cynorthwyodd yn nydd ein cyfyngder. Cyfanswm y casgliad sydd fel y canlyn:

| | |
|---|---|
| Pittsburg, . . | $103 11 |
| Carr's Run, . . | 41 91 |
| Cincinnati, . . . | 170 81 |
| Sugar Creek, . . | 24 10 |
| | $339 93* |

Dymunaf lwyddiant mawr i'r eglwysi yn nheyrnas ac amynedd ein Harglwydd Iesu Grist, gan gofio nad yw Duw yn anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tuagat ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini.

Ydwyf, Mr. Golygydd,
Gwasanaethwr fy nghenedl, &c.,
*Minersville, Medi*, 1851. J. P. HARRIS.

## CYFIEITHAD NEWYDD O'R HEN FEIBL.

CYNNALIWYD yn ddiweddar gyfarfod tra dyddorawl ar y pwngc yma yn ninas Caerefrog Newydd. Traddodwyd amryw o areithiau doniol gan wahanol enwogion. Fy nymuniad ydyw galw sylw y Cymry trwy gyfrwng y "Seren" at araeth eu cydwladwr enwog a galluog y Parch. D. E. Thomas, Ohio. Y mae Mr. T. wedi ac yn derbyn clod teilwng y sawl a gawsant y fraint o'i wrandaw. Ar y cychwyniad gofynai, *A yw y cyfieithad cyffredin o'r Beibl yn gopi cywir o'r gwreiddiol?* Atebai, *Nac ydyw!* Dygodd amryw rhesymau cedyrn i brofi ei osodiad.—Yn mhlith pa rai y saif a ganlyn yn 6fed—*Y prawf deilliedig oddiwrth y ffaith fod lluaws o gyfieithadau newyddion wedi ac yn cael eu gosod gerbron y cyhoedd.* Anfonir y cyfryw allan ar gyfrifoldeb y sawl a'u cyhoeddant.—Y mae braidd pob enwad wedi dwyn eu rhan yn yr anturiaeth yma, ac yn hawlio anrhydedd nid bychan am eu hymdrech *i oleuo y werin.* Pe golygid y cyfieithad cyffredin fel copi cywir a ffyddlawn o'r gwreiddiol, paham y cyhoeddir yn barhaus, a hyny gan ddynion duwiol yn gystal a dysgedig, *gyfieithiadau gwelliadol* (improved translations)? Onid twyllo y bobl fyddai hyn?

* Yr ydym ni, ac y mae ein henwau isod, Cyfrifolygwyr (*Auditors*) appwyntiedig gan yr Ymddyriedolwyr (*Trustees*), wedi edrych dros lyfr casglu y Parch. J. P. Harris, a chael y cyfrifon yn gywir, fel uchod.
JOHN P. POWELL.
BENJAMIN JONES.

Gofynir, Pa enwad o Grist'onogion a allant gyda chyssondeb gyfodi llef yn erbyn cyfieithad gwell a chywirach o'r *holl ysgrythyrau?*

*Ai priodol i* GARLYNWYR EGLWYS LOEGR *wneuthur felly?*

Gwybyddant ddarfod i Dr. Robert Lowth anrhegu y byd yn y fl. 1778 â chyfieithad gwell a chywirach o broffwydoliaethau Esaia. Gwybyddant ddarfod i Michael Dodson, cyfreithiwr enwog a fu farw yn 1799, argraffu cyfieithad newydd o'r unrhyw lyfr. Dygir ar gof iddynt Dr. Benjamin Blayney, fu farw yn y fl. 1801, yr hwn a roddes gyfieithad newydd o'r holl broffwydi bychain. Crybwyliant am Richard Stock, cyfieithydd Llyfr Job, a Gilbert Wakefield, a anwyd yn y fl. 1755, cyfieithydd yr holl Destament Newydd. Darfu i Dr. Wm. Newcome, arch-esgob Armagh, a anwyd yn 1729, gyhoeddi i'r byd gyfieithad rhagorach o Ezeciel a'r proffwydi bychain na neb o'i flaen. Ac o fewn ychydig flynyddau yn ol cyhoeddwyd *prospectus* o gyfieithad gwell o lyfr y Salmau, gan y Parch. Mr. Neuncher, gynt athraw coleg Gambier, O. Gofynir, A gondemniwyd gan unrhyw enwad yn y byd, ymdrechiadau yr Eglwyswyr hyn?

*Ai priodol i'r* PRESBITERIAID *neu yr* ANNIBYNWYR *gwyno?*

Yn y fl. 1747 argraffwyd gan Dr. Doddridge gyfieithad newydd o'r Testament Newydd, ynghyd a rhwydd-ddeongliad (*paraphrase*) a nodiadau eglurhaol. Yn ganlynol i hyn parotodd waith a gyfenwai, "Cyfieithad *newydd* a *phriodol* o'r Proffwydi bychain." Yn y fl. 1788 dygwyd allan "Gyfieithad Newydd o'r Pedwar Efengylwr," gan Dr. G. Campbell, Llywydd Coleg Aberdeen. Yn y 1795 cyhoeddwyd gan Dr. MacKnight "Gyfieithad newydd o'r Epistolau, ynghyd a Nodiadau." Yn y wlad hon y mae cyfieithadau gwelliadol o wahanol ranau o'r Ysgrythyrau Santaidd yn gyhoeddedig gan Dr. Moses Stewart, Albert Barnes, ac Alexander Barnes.

*A ddylai y* WESLEYAID *rwgnach?*

Yn 1754 cyhoeddwyd gan y Parch. John Wesley "Gyfieithad Gwelliadol o'r Testament Newydd?" Yn y rhagymadrodd y ceir a ganlyn: "Nid wyf yn gwybod ddarfod i mi *mewn cyumaint ag un enghraifft* arallu er mwyn arallu; eithr yn unig yn y manau hyny lle, yn *gyntaf*, y gwnaed y synwyr yn well, neu yn eglurach, neu yn gryfach, neu yn fwy cysson â'r testynau cylchynol. Neu ynte, yn *ail*, lle, tra byddo y synwyr yn gyfartal dda, y byddai y geiriau yn well, neu yn agosach i'r gwreiddiol.

Gofyniad. Onid gormodol, onid diwerth a gwaeth na hyny yr holl ymdrechion (a rhwydd fyddai chwyddo eu rhifedi) os yw y cyfieithad cyffredin yn gywir? Diau fod pob cyfieithad newydd o'r ysgrythyrau i'r Saesnaeg yn gyfaddefiad ac yn brawf o anghywirdeb y cyfieithad cyffredin.

O. Y. Buasai yn dda genyf allu anfon hanes gyflawnach o'r cyfarfod uchod, yn gystal a rhoddi (goreu y medrwn) gyfieithad *o holl* araeth ragorol fy mrawd (fel Cristion ac fel Cymro) Mr. T.; yn ngwyneb *gorfod dethol* ymaflais yn yr *argument* uchod, am ei bod mor hawdd ei hamgyffred, ac ar yr un pryd yn gleddyf mor fywiog a phwrpasol er amddiffyn ymdrechiadau teilwng a wneir gan lawer o'r Bedyddwyr yn bresennol i gael cyfieithad têg a chywir o'r "Oraclau Dwyfol."

Llwydd iddynt, a bendith Duw arnynt ac ar eu llafur, yw gweddi

*Pittston.* PHILALETHES.

---

## GOFYNIADAU.

*At Olygydd y Seren Orllewinol.*

MR. EDWARDS.—Nid yw Shan na minnau wedi anfon dim i chwi er ys talm, a'r achos yw, ein bod wedi ymroddi i ddiwydrwydd efo y cynhauaf. Yn awr mae y gwair a'r ŷd genym dan dô erbyn y gauaf. Mae yr hen wraig a minnau wedi dadleu llawer yn ddiweddar. "Peidiwch, da chwithau, a dweyd wrth neb, rhag iddi glywed." Yr achos o'r taeru yw mewn perthynas i dynu y plu oddiar y gwyddau, a hwythau yn fyw. Mae Shan wedi *stripio* yr hen geiliogwydd, &c., nes maent yn edrych fel yr ysbryd drwg! Dymunaf wybod genych chwi, Mr. Edwards, a ydyw ymddygiad felly yn ei le. Yn siwr i ch'i, yr ydwyf yn ofni am gyflwr Shan, oblegyd nis gallaf gredu y gwnelai un a chalon dda fod mor ddidrugaredd at y creaduriaid diniweid. Rhoddwch atebiad yn ol yn y Seren, fel y gallom wybod a yw y fath waith yn Gristionogol ai nid yw. SHON.

ATEB.—Rhaid i ni gymeryd plaid "Shon" y waith hon, er ein bod yn coleddu meddwl tyner am gyflwr yr hen wraig. "Y cyfiawn a fydd drugarog wrth ei anifail." Pe buasai y Crewr doeth wedi bwriadu i ni bluo adar yn fyw, gallesid gwneud hyny heb eu poeni a'u niweidio, fel cneifio defaid. Y mae y gwyddau yn ymfalchio yn eu plu, sef yr unig wisg a feddant, a diau eu bod yn gofidio o herwydd ei cholli, (fel y gwnelai Shan pe byddai yn yr un sefyllfa.) Os na bydd hyn yn ddigon i argyhoeddi yr hen fam, a'i dwyn i adael yr arferiad barbaraidd a nodwyd, nid ydym yn gwybod am un llwybr mwy effeithiol i'w dwyn i weled ei chyfeiliornad nag i Shon ei chymeryd mewn llaw, a *phlicklo* yr holl wallt sydd ar ei phen. Nid oes dim ond gwybodaeth brofiadol yn ateb y dybeu gyda rhai dynion. Ond hyderwn na bydd rhaid arferyd y fath oruchwyliaeth lem a dirboenus yn yr amgylchiad yma.—GOL.

## ADOLYGIAD Y WASG.

*Y Meddyg Teuluaidd; yn cynnwys Fferylliaeth perthynol i'r Corff Dynol. Dynsoddiaeth; neu Ddefau cynwynol Bywyd. Beth yw afiechyd yn ei natur, &c. Arwyddion Clefydau ac Anhwylderau, eu hachosion, a'r modd idd eu sleddfu a'u trin yn llwyddiannus. Gan H. Ll. Williams, M. D.*

Trwy garedigrwydd ein cyfaill ieuangc, Mr. Gomer E. Roberts, derbyniasom gopi o'r "Meddyg Teuluaidd,"—cyfrol hardd a destlus o wasg Mr. E. E. Roberts, Utica. Mae yr awdwr yn Gymro gwalgarol, yn feddyg cymeradwy a pharchus yn ardal Utica, C. N., ac yn Drwyddedog o Goleg Meddygol Syracuse, a Chymdeithas Feddygol Swydd Oneida; Cofnodydd Cymdeithas Feddygol Talaeth C. N., &c. Mae y gwaith yn anrhydedd i'r awdwr, a derbynia gymeradwyaeth fawr gan bawb a'i darllenasant. Mae yn lyfr nad oes nemawr o'i fath yn ein iaith—yn egluro ei bwngc i'r gwraidd, yn amlygu y rhanau elfenol a gyfansoddant ddefnyddiau, a natur pob mater neu sylwedd, &c. Mae hyn yn galw am lawer o eiriau anghyfarwydd i'r Cymry, ond y mae yr awdwr wedi gosod y geiriau Seisnig am danynt i mewn, a'r un modd hefyd yn ei gyfarwyddiadau i drin clefydau, &c., fel y mae y cwbl yn amlwg a rhwydd i'w arferyd i'r goddefydd yn mhob amgylchiad. Cymera yr awdwr yr enwog Caerfallwch yn safon; a barnwn y byddai yn anhawdd defnyddio iaith neu gelfydd-eiriau mwy priodol a chynnwysfawr nag a wneir trwy gorff y gwaith, er y gallant ymddangos yn afrwydd ar y dechreu. Hyderwn y bydd i'n cenedl gefnogi yr anturiaeth trwy bwrcasu y llyfr.

---

## GENEDIGAETHAU.

Gorph. 24, yn Brady's Bend, Mary Lewis, priod John Lewis, gynt o Dredegar, D. C., ar ferch. Gelwir hi Margaret Jennett.

Yn Pittsburg, Medi 13, merch i David a Margaret Harries. Gelwir ei henw hi Margaret Ann.

---

## PRIODWYD—

Yn Bloomsburg, Columbia Co., Pa., Hyd. 2, gan y Parch. Thomas Roberts, Danville, Mr. John Phillips, a Miss Hannah Lewis, y ddau o Bloamsburg.

I John a Hannah boed gwir hedd
I rodio 'nghyd hyd at y bedd
Boed cariad yn daenedig wledd
  Yn wastad ar eu bwrdd;
Ac wedi cyrhaedd pen eu taith,
'Nol gorphen gyrfa hoenus faith.
A gwneud yr hyn sy i'w rhan o'r gwaith,
  Caut eto'n Sion gwrdd.   T. ROBERTS.

Yn Birmingham, Pa., Hydref 3, 1851, gan y Parch. T. Edwards, Mr. Evan Lloyd, o East Birmingham, a Miss Mary Evans, o Pittsburg.

Peth da ar ol priodi yw peidio tynu'n groes,
Gwna undeb ar yr yrfa i arbed llawer loes;
Os d os eir i gyndynu a dechreu bod yn gas
Fe gilia pob cysuron ar wyneb daear las.
IORWERTH.

---

## MARWOLAETHAU.

Medi 12, yn Summit Hill, Pa., yn y 24ain flwyddyn o'i oedran, Wm. E. Powell, mab i John ac Alice E. Powell, gynt o Nant-y-glo, swydd Fynwy. Yr oedd yn brysur wrth ei alwedigaeth yn un o'r cloddfeydd glo tua 5 o'r gloch yn y prydnawn, pan y syrthiodd crynswth o'r ddaear, glo, &c. arno, yr hyn a brofodd yn angeuol iddo. Bu farw, debygid, mewn eiliad—hyny ellid farnu oddiwrth y swm anferth a syrthiodd arno. Yr oedd yn hynod weithgar, diwyd a sobr, ac yn ragori ar eraill mewn ufudd-dod i'w rieni. Bwriadai wisgo y iau briodasol yn fuan. Och! fyd siomedig.

Yn Baiardstown, ger Pittsburg, Medi 19, 1851, Mary Elizabeth, merch William a Mary Hopkins, yn agos i dair blwydd oed.

Yn Pipetown, Medi 20, Mr. John Evans, yn ddiweddar o Nantyglo, yn agos i 27ain ml. oed. Ei glefyd oedd y Darfodedigaeth. Yr ydoedd yn fachgen c.efyddol, a bu farw yn ddedwydd.

Yn agos i Birmingham, Medi 24, John, mab i Mr. Samuel Davies, diweddar o Gymru, yn 6 ml. a 7 mis oed. Claddodd Mr. Davies fab arall yn ddiweddar yma o'r enw Lewis, tua deg oed. Gall y rhieni gyd-alaru fel hyn:

Gadawsom do hoff wlad ein tadau gynt,
Dros donau'r môr ni ddaethom ar ein hynt,
Er mwyn ein plant tiriasom i'r wlad hon,
Ond erbyn hyn mae dau dan farwol don;
Trwy'r cwmwl du, O Dduw rho 'ni o wedd
Dy wyneb cu wrth dynu tua'r bedd;
Er pob rhyw loes a chroes geir yn y glyn
Mae gobaith cwrdd ryw ddydd ar Seion fryn.
IORWERTH.

Medi 20fed, yn Minersville, Pa., Elizabeth, merch David a Ruth Jones, yn flwydd a haner oed. Daearwyd wrth gapel y Bedyddwyr yn y lle uchod, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. P. Harris.

Y blodeuyn ymagorodd,
  Ac a wiwodd yr un wedd;
Hardd ei ddrych a'r olwg arno,
  Gwyro wnaeth i wlad yr hedd.
Mae ei rhiaint mewn mawr dristwch,
  Ond mawr elwch yw ei rhan;
Fry yn canu mewn dedwyddwch,—
  Hwy ânt ati yn y man.   BRAWD.

Awst 7, 1851, William Price, mab i George a Margaret Price, ger Minersville, Pa., wedi chwech niwrnod o gystudd o'r *Scarlet Fever*, yn bum' mlwydd, tri mis ac wyth niwrnod oed. Daearwyd ef wrth addoldy y Bedyddwyr Cymreig, a gweinyddwyd ar yr achlysur (yn absennoldeb y gweinidog) gan y Parch. Robert Williams, (T. C.)   J. P. H.

Yn Steuben, Mawrth 10, 1851, Mrs. Griffith, priod Mr. G. J. Griffith, o'r lle uchod.—Yr oedd Mrs. Griffith yn ferch i William a Mary Parry, Cae-y-Mun, plwyf Llanengan

swydd Gaernarfon, G. C. Ymfudodd i'r wlad hon efo ei thad a'i mam er ys 33 o flynyddoedd yn ol. Bhai blynyddau wedi dyfod i'r America ymunodd mewn priodas â Mr. G. J. Griffith, a pharhaodd yr undeb rhyngddynt dros 29 o flynyddoedd. Ganwyd iddynt wyth o blant, pa rai ydynt oll yn fyw, ynghyd a'i hanwyl briod, ac mewn galar dwys ar ei hol. Tua saith mlynedd yn ol ymunodd ag eglwys y Bedyddwyr yn Steuben, a pharhaodd yn addurn i'w phroffes hyd ddydd ei marwolaeth. Perchid hi yn fawr gan bawb yn ei hardal, a cherid hi yn fawr gan ei brodyr a'i chwiorydd yn yr eglwys i ba un y perthynai. Yr oedd Mrs. G. o dymer ddystaw, addfwyn, a llonydd; a gallesid dywedyd am dani, "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Yr oedd ei hiechyd wedi adfeilio er ys rhai blynyddoedd, ond eto parhaodd yn ffyddlon gyda chrefydd nes cael ei symud o'r eglwys filwriaethus i'r eglwys orfoleddus fry. Ei hafiechyd oedd y darfodedigaeth. Cafodd bob cynorthwy meddygol, ond bu y cwbl yn ofer.—Ychydig amser cyn ei marwolaeth, pan oedd yr ysgrifenydd wedi myned i ymweled â hi, dywedai y buasai yn dda ganddi gael byw ychydig yn rhagor er mwyn ei theulu, am fod rai o honynt heb orphen eu magu; ond o'i rhan ei hun ei bod yn ddigon boddlon i ymddatod. Dydd ei chladdedigaeth ymgasglodd tyrfa luosog o berthynasau a chyfeillion i hebrwng ei chorff i fynwent y Capel Isaf, Steuben. Yn y capel gweddiodd y Parch. H. Humphreys, South Trenton; a phregethodd y brodyr Owen Parry, Remsen; a D. J. Williams, Steuben; ac yna rhowd ei chorff i orwedd yn ei gwely pridd hyd y boreu y codir hi yn gyflawn ar ddelw yr Iesu.

Bendithied yr Arglwydd y perthynasau galarus ydyw dymuniad fy nghalon.

*Steuben.* D. J. Williams.

Gorph. 6, 1850, yn Covington, Ky., Martha Jane, merch Mr. Ambrose Ambrose, a Mary ei briod, yn 17 oed. Croesodd afon angeu yn nydd dwyreinwynt, a'r storom a fu yn chwerw i'w llestr brau. Nid ydynt ei rhieni hiraethlawn yn galaru fel rhai heb obaith, gan ei bod wedi rhoddi ei hun i'r Arglwydd, ac yna i'w bobl, yn mhlodau ei dyddiau.

"Cyssegrodd flaenffrwyth dyddiau i hoes
I garu'r Gwr fu ar y groes."

Daearwyd ei gweddillion marwol yn Covington, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Peirch. D. J. Phillips a Dr. Lind.

E ddychwel tymhorau y flwyddyn,
Yr adar a ganant eu cerdd,
Y lili addurnant y dolydd
A'r goedwig a wisgir yn werdd;
Aroglant y blodau amryliw,
Ymledant, agorant eu dail;
A'r rhosyn yn lliwus flodeua
Yn ngwyneb pelydron yr haul:

Ond Martha a 'hedodd odd'yma,
Byth eto ni ddychwel yn ol;
Y rhosyn a wiwodd yn foreu,
A'r lili gymerwyd o'r ddôl;
Gwynt angeu a chwythodd mor gynar
A ddeiliodd flodeuyn gwir hardd;
Am dani mae hiraeth o'i cholli,
Gwag hebddi yw'r annedd a'r ardd.

Traws-symud a gafodd i hinsawdd
Mwy hyhaws nag ardal y llawr,
Cydrywiol â'i hanian a'i thegwch,
Blodeua yn Ngwynfa yn awr,
Ger gorsedd yr Iesu cu, grasol.
Mewn ieuengctyd trag'wyddol byth mwy,
Teyrnasa yn ninas Caersalem,
Uwch gofid, pob loesion a chlwy'.

Pererin neu Ymdeithydd yn y Tir.

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Cawsom y newyddion diweddaraf gyda y ... America, yr hon a adawodd Liverpool Hydref 4. Y newyddion masnachol ydynt o ychydig ddyddordeb i'n darllenwyr.

Sonid yn rai o bapyrau Llundain, fod llywodraeth Spain yn ymdrechu enill galluoedd unedig Ffraingc a Lloegr i ddangos ryw sarhad cyhoeddus ar ymddygiad yr Unol Dalaethau yn achos gwrthryfel Cuba; ond dichon nad oes sail i'r fath chwedl.

### YR ARDDANGOSIAD MAWR.

Yr oedd "ffair y byd" i ddiweddu ar y 14eg o Hydref. Da genym hysbysu er anrhydedd y Cymry, fod nifer luosog o honynt wedi defnyddio yr adeg i weled y "palas gwydr" a'i ryfeddodau. Dywedir fod rai o honynt wedi gwerthu dodrefn neu ddillad a allent eu hebgor er cael modd i fyned yno.

Sylwyd nad oes ond ychydig o'r llafurwyr yn Llundain wedi bod y tu mewn i'r Palas Gwydr. Mae'r heddgeidwaid, y rhai sydd yn yr adeilad yn barhaus, i gyd yn dwyn tystiolaeth i'r ffaith hon. Efallai eu bod yn rhy ddiofal, neu yn rhy brysur, ond y dyb debycaf i'r gwirionedd yw, eu bod yn dysgwyl y byddai dymuniad Mr. Paxton yn cael ei gario allan eto, sef yr agorid y drysau am ychydig o ddyddiau o leiaf yn "rhydd, yn rhwydd, ac yn rhad." Yn mis Medi ymwelodd wyth o weithwyr o deyrnas Sardinia, â'r Arddangosiad, y rhai a ddanfonwyd drosodd i wneud sylwadau ar y darganfyddiadau a'r dyfeisiau newyddion. Wedi hyny ymwelodd 45 ereill o weithwyr Sardinia i'r un dyben.

### NIFER MEDDWON LLOEGR A CHYMRU.

Yn y gymdeithas ystadegol rhoddai Mr. Felson amcan gyfrif o nifer meddwon cyffredin Lloegr a Chymru; a dangosai fod rhifedi y gwrywaid yn 53,583, a'r benywaid yn 11,223, yn gwneud ynghyd 64,806; yr hyn a rydd un meddw i bob 74 o'r boblogaeth wrywaidd, ac un i bob 434 o'r merched—un i bob 145 o'r holl boblogaeth. Ond y mae y rhai a feddwant yn achlysurol neu yn ddirgel heb eu cynnwys yn y cyfrif uchod.

Ymddengys oddiwrth hyn fod meddwon yr Unol Dalaethau yn llawer lluosocach yn ol nifer y trigolion na'r meddwon yn Lloegr a Chymry.

## FFRAINGC.

Darfu i M. Guizot, a dynion cyhoeddus enwog eraill, y rhai a ddaethant i Lundain i'r dyben o fod yn bresenol yn y gwasanaeth coffaol o barch i'r brenin diweddar, Louis Phillippe, ymweled â'r teulu Orleanaidd yn Claremont, pan, yn ol gohebydd y *Times*, y cymerodd ymddiddon le ar hawlhoniad y Prince de Joinville, i Lywodraeth Gweiriniaeth Ffraingc. Dymunodd M. Guizot gael gwybod gan y Duc de Nemours os oedd ganddo unrhyw gyfarwyddiadau i'w rhoddi gyda golwg ar ddygwyddiadau dyfodol yn Ffraingc. Dywedodd y Duc nad oedd ganddo ddim cyfarwyddiadau i'w rhoddi; bod ei deulu wedi mabwysiadu rheol arbenig o ymddygiad ymattaliol hollol; a'u bod yn dueddol i aros yn rhwydd, a dal eu hunain yn barod i drefniad Ffraingc. Dywedodd hefyd nad oedd gan ei frawd (y Tywysog de Joinville) yr un penderfyniad sefydlog ar destyn y Llywodraeth. Er pan gyhoeddwyd hanes yr ymddyddan uchod, mae y *Journal des Debats*, papyr ag y mae a wnelo a'r teulu Orleanaidd, wedi awgrymu y bydd i'r Tywysog de Joinville, gyda chaniatad ei deulu, ateb i deimlad tybiedig y wlad o'i blaid.

## TWRCI.

Y mae Kossuth enwog wedi ei ryddhau o'r diwedd. Ei fwriad oedd myned yn gyntaf i Loegr, ac yno gadael ei blant, a darparu ar gyfer eu dysg, ac ar ol aros yno am bumthegnos i forio i'r Unol Dalaethau, er mewn cyflwyno ei ddiolchgarwch i'r Gyngborfa a'r Llywydd. Ond gwrthwynebai Cadben y Mississippi, yr hon sydd wedi dysgwyl wrth Kossuth er mis Mehefin, y trefniad yma, gan ei fod ef yn dymuno cario Kossuth yn ddioed i Gaerefrog-Newydd. Cydsyniodd y gwladgarwr enwog a'i gais, a dysgwylir iddo ef a'i wraig a'i dri mab dirio yn Nghaerefrog Newydd bob dydd. Y mae yno ddarpariadau gorwych i'w derbyn.

## PENRHYN GOBAITH DA.

Mae y newyddion o'r Penrhyn yn bur anghysurus. Tra mae Syr Henry Smith wedi bod yn cadw y gwrthwynebwyr draw ar y cyffiniau, y mae y Caffrariaid a'r Hotentotiaid wedi bod yn ysbeilio y perfeddion. Yr oedd yr ymosodiad unedig ar yr Amatolas, er yn llwyddiannus, wedi gyru y gwrthryfelwyr i'r perfeddion, lle y cyflawnasant y difrodiadau mwyaf arswydus, ac y gwnaethant gymmydogaethau cyfain yn ddiffaethwch. Ymosodwyd ar y cadlen sefydlog rhwng Fort Brown a Leuwee Farteim, a thaniwyd arnynt gan blaid fawr o Hotentotiaid, y rhai oeddent yn cyullwyn ar ochr y ffordd. Saethwyd chwech o'r blaid cyn iddynt gael cyfleusdra i saethu yn ol. Y mae hanesion yn dywedyd fod agweddi pethau yn bur gyfyng, a bod y drefedigaeth yn dyoddef yn dost mewn canlyniad i'r rhyfel. Nid oes ond ychydig o ddyogelwch i nag eiddo na bywyd. Y mae masnach wedi dyoddef yn drwm, ac y mae yr amaethwyr Seisnig ac Is-Ellmynaidd wedi cael colledion marion mewn anifeiliaid a defaid, &c., llawer o honynt wedi colli miloedd o'r rhai olaf.

## AUSTRALIA.

Y mae y wlad hon wedi myned yn ail California, a dywedir fod llawer o aur i'w gael yno. Ysgrifena tir-feddiannwyr yn nhiriogaeth Bathurst fel y canlyn. "Yr ydym oll mewn berw brwd yma—rhai o lawenydd eraill o ofn, gan ddysgwyl newyn, haint a marwolaeth. Aethum i'r cloddfeydd, ac mewn tair awr celais dair wns o aur mewn un darn dysglaer. Mae y cludiad mor uchel, fel y mae arnaf ofn na chawn ein hymborth i fynu yma."

Mae yr holl hanesion o'r cloddfeydd mor ffafriol o'r bron ag a dderbyniwyd erioed o California. Rhedodd tri o brentisiaid ymaith o Bathurst, a dychwelasant mewn ychydig o ddyddiau gyda dwy wns ar bumtheg o aur, yr hwn a werthasant am 51p. Yr oedd gan y llong a ddaeth a'r newydd hwn i Penambucco ddarn o aur ar y bwrdd yn pwyso 4½ pwys, a danfonwyd rhai o ddwylaw agerlong ei mawrhydi adref i'r dyben o gludo y newyddion i'r Llywodraeth Brydeinig am yr aur. Yr oedd gwerth mil o bunnau o aur wedi cyrhaedd Sydney o'r mwngloddiau, mewn deuddydd neu dri. Yr oedd pris ymborth yn y cloddfeydd wedi codi yn anferthol: a'r mwnwyr ag oedd yn cloddio aur yn cyfrif 1500, ac yr oedd rhai o honynt yn cael o 20p. i 40p. yr wythnos.

---

## SYR JOHN FRANKLIN.

Mae tynged y morwr hanffodus hwn yn parhau i greu dyddordeb mawr; ac nid yw yr hanesion sydd yn dyfod, dro ar ol tro, oddiwrth y llongau sydd wedi myned i chwilio am dano, yn tawelu dim ar y teimladau gofidus sydd wedi eu cynhyrchu mewn perthynas iddo. Cafwyd allan yn ddiweddar fod y llongau Prydeinig a'r llongau Americanaidd wedi bod o fewn deuddeg milldir i'w gilydd yn chwilio am dano, er na wyddent hyny ar y pryd. Mae eu newyddion yn cadarnhau yr hysbysiadau a wnaed gan Cad. Omancy ac eraill. Mae olion yr Erebus a'r Terror, y rhai a gafwyd i'r gogledd o borthladd Innis, cyfyngfor Wellington, yn gynnwysedig o ddarnau

o ddillad, ychydig o lestri cogino, a darnau o bapyr, un o honynt yn dwyn enw McDonald, meddyg cynorthwyol yr ymchwil-longau.—Cafwyd hefyd dri o feddau, yn mha rai yr oedd cyrff dau o ddwylaw oddiar yr Erebus, ac un oddiar y Terror. Dyddiad y farwolaeth olaf oedd y 3ydd o Ebrill, 1850.

Bwriedir yn nesaf fyned allan i'r un man, ac esgyn mewn *baloon*, fel y gellir edrych am danynt trwy ddrychau i bellder mawr.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

### DARLITH AR LYDAW.

Yn ddiweddar traddodwyd Darlith yn nghapel Rose Place, Lerpwl, gan y Parch. J. Jenkins, cenadwr gyda'r Bedyddwyr yn Llydaw. Olrheiniodd boblogiad cyntaf Llydaw; dangosodd mai yr un oedd y Llydawaid a'r Cymry; dangosodd y tebygolrwydd rhwng y ddwy iaeth; dysgrifiodd eu cyflwr gwladwriaethol, moesol, a chrefyddol, a'r darpariaethau cenadol ar gyfer hyny. Yr oedd y Ddarlith drwyddi, er yn fyr, yn ddyddorol ac addysgiadol dros ben. Yn niwedd y cyfarfod, gwnaethwyd casgliad tuag at gyfran y Cymry, yn Nghofadail Le Gonidec, yn Llydaw. Llydawiad dysgedig oedd Le Gonidec, fel y gŵyr y rhan fwyaf o'u darllenwyr, yr hwn, heblaw ysgrifenu Gramadeg a Geirlyfr rhagorol o'r iaeth, oedd y cyntaf a gyfieithodd y Testament Newydd i'r Llydawaeg. O herwydd hyn, y mae y Llydawiaid yn bwriadu adeiladu cofadail ardderchog iddo, a thybiwyd gan rai o'r cenadau Cymreig sydd yn Llydaw, y buasai yn dda gan y Cymru gael cyfleusdra i dalu tuag at adeiladu cyfran o'r gofadail; ac o dan yr argyhoeddiad hwnw, ymrwymasant i gasglu 60p. i'r perwyl. Mae Englyn Cymreig i fod ar ddarn i Cymru o'r gofadail, a chyfieithad Llydawaeg o hono, a hysbysiad yn yr iaith Ffrengig mai y Cymru a adeiladodd y darn hwnw o'r gofadail, o barch i'r enwog Le Gonidec, am ei waith yn cyfieithu y Testament Newydd i'r Llydawaeg. Nid oes eto ond 30p. wedi eu casglu at yr amcan clodwiw hwn. Os bydd neb o'n darllenwyr yn teimlo awydd cyfranu ychydig at yr amcan, fe dderbynia Mr. T. Phillips, Goruchwyliwr y Feibl Gymdeithas, eu cyfraniadau yn ddiolchgar.—*Bedyddiwr.*

Rhybudd i Deithwyr Rheilffyrdd.—Gwraig o'r enw Mary Sullivan a gafodd ei niweidio yn druenus yn Mhenybont-ar-ogwr, Morganwg, ar ddydd Sadwrn, Medi 30, drwy ei hannoethineb yn myned allan o'r ager-gerbyd cyn i'r gerbydres aros Ymddengys i'r ddynes hanffodus ddyfod o'r Iwerddon i weled ei dau fab, y rhai oeddent yn byw yn nhref Penybont; ac ar ddyfodiad y gerbydres, hi a neidiodd allan o'r cerbyd tra yr oedd y gerbydres eto heb aros. Hi a syrthiodd, a'i thraed a ddyrysasant yn yr olwynion; a phan godwyd hi i fynu cafwyd fod un goes wedi ei rhwygo yn arswydus, tra yr oedd asgwrn y llall wedi ei ddryllio yn ddarnau. Y meddygon Pritchard, Leaha, a Verity, a alwyd i weini iddi yn ddioed, eithr wedi cydymgynghori â'u gilydd, daethant i'r penderfyniad fod yn rhaid tori ymaith ddwy goes y wraig anffodus.

Eisteddfod Lerpwl, a gynaliwyd y 9fed a'r 10fed o Fedi. Y dydd cyntaf yr oedd amryw bersonau yn addurno yr ystafell gyfleus â baneriau, cangau gwyrddion, a blodau peraroglus, ac amryw o hen arwyddluniau Cymreig, ynghyd a'r helaethu yr esgynlawr. Am hanner awr wedi chwech agorwyd drysau y Concert Hall, a chyn pen ychydig fynudau gorlanwyd yr adeilad mawr hwnw.

Traddododd y llywydd, sef y Parch. D. James, M.A. (Dewi o Ddyfed) araeth birfaith, ar hynafiaeth yr iaith Gymreig, ynghyd ag offer cerdd y Gymry, yn Seisneg. Traddodwyd amryw englynion cyfarchiadol i'r eisteddfod gan wahanol feirdd. Chwareuwyd tonau ar y delyn, &c. ac yna aed i ddarllen y feirniadaeth, yr hyn a wnaed yn eglur gan Mr. Hughes, (Tegai,) bardd yr eisteddfod.

Y testyn cyntaf a ddaeth dan sylw oedd "Traethawd ar Ddefnyddioldeb Gwybodaeth Wyddianol;" y buddugwr oedd John Morgan, argraffydd, Wrecsam, 7p. a thlws. Yr ail oreu, Mr. John Jones, (Mathetes), Caersalem Newydd. Y trydydd goreu, Mr. Thos. Richards, argraffydd, Merthyr. 3p. 10s. yr un. Rhoddodd Mrs. Pritchard, (Bronfraith Mon) ei gwasanaeth i wisgo yr enillwyr â'r tlysau. Cyfarchodd yr Is-gadeirydd, sef Dr. Games, y gynulleidfa mewn araeth gampus yn Saesnaeg. Wedi hyny awd at gael gwybod pwy oedd wedi pryddestu oreu ar Olygfa Moses o ben Pisga. Pan y codwyd y sel, a deall mai Evan Jones (Ieuan Gwynedd), oedd yr enillwr, meddyliodd rhai na chawsid hamdden i ddim y noswaith hono, gan foniefau a churiadau traed a dwylaw—gwobr, 6p. Yr ail oreu, Mr. T P. Morris, gweinidog yr Annibynwyr yn Rhyl, 3p. Y trydydd oreu, Mr. Wm. Williams, ysgolfeistr yn sir Gaernarfon, 1p. 10. Am yr wyth penill goreu "er Coffadwriaeth am Mr. John Jones, Ysgrifenydd y Cambrian Society, Liverpool.—gwobr o 3p. enillwyd gan Mr. Wm Williams Yr ail oreu 1p. a enillwyd gan Mr Abm. Williams. Canwyd tonau ar y telynau, a therfynwyd y cyfarfod hwn drwy i'r cor ganu can ag oedd wedi ei darparu i'r perwyl hwnw.

Yr ail ddydd, sef y 10fed, agorwyd y cyfarfod gan y Llywydd, yn fyr ac yn gynnwysfawr. Chwareuwyd amryw donau destlus ar y telynau; a gwobrwywyd y goreu a'r ail oreu. Y blaenaf 3p. a'r ail 1p. Canwyd amrywiol o donau gan Gymdeithas gorawl Lerpwl. Darllenwyd y feirniadaeth ar gyfansoddiadau y merched, pryd y chyhoeddwyd M. Genlis, sef Mrs. Manuel, o Lanofer, yn teilyngu y wobr benaf, 4p., rhyw Mair Gwynedd yn teilyngu yr ail, 2p; a Miss Jane Jones, Llanelli, y trydydd, 1p.

Traddododd y Parch. William Jones, Nefin, (*Moesolydd*), araeth benigamp, ar Ddyledswydd y Cymry i ymestyn am wybodaeth o'r Gymraeg a pheidio esgeuluso ymgyrhaedd am wybodaeth o'r un Seisneg ar yr un pryd, &c. Cafwyd amryw o areithiau sylweddol gan amryw o foneddion ereill.

Darllenwyd y feirniadaeth ar yr Awdlau ar "Forwriaeth," gan William Williams, (*Caledfryn*); ac mae yn ddiamen fod yr ymgeiswyr yn ei theimlo yn galed hefyd; ond pa waeth oedd ganddo ef am hyny. Dyfarwyd y wobr o 7p. a thlws i Gwilym Canoldref, sef Mr. Richard Parry (*Gwalchmai*), Ffestiniog Yr ail: i Hu Gadarn, sef Mr. Thomas Davies, (*Dewi Wyn o Esyllt*), masnachydd, Dinaspowis, ger Caerdydd, gwobr o 3p. 10s. Ni chyrhaeddodd un teilyngdod i gael y trydedd wobr.

Enillwyd 10s. am yr englyn bedd-argraff goreu i J. Jones, Cofiadur y *Cambrian Society* (testyn am y nos), gan T. Williams, Mostyn. Cafodd pawb eu boddio yn fawr.

Y GYMDEITHAS HENAFIAETHOL GYMROAIDD.—Cylarfod blynyddol y Gymdeithas hon a gynaliwyd eleni yn Ninbych, swydd Benfro, dan lywyddiaeth Iarll Cawdor. Agorwyd y gweithrediadau ar ddydd Mercher, yr 30fed o'r mis diweddaf, a dygwyd hwynt yn mlaen drwy ystod yr wythnos ganlynol; ac ymweledodd yr aelodau a'r holl hen Eglwysi, Cromlechau, a lleoedd ereill o bwys, yn cynnwys hen Eglwys Gadeiriol Ty-Ddewi, a chawsant gryn lawer o foddhad, er na ddygwyd llawer o bethau newyddion i'r golwg. Yr oedd y cyfarfodydd hwyrol hefyd yn ddyddorawl yn neillduol areithiau hyawdl Arglwydd esgob Ty-Ddewi, ar ddyfodiad y Fflandrysiaid i swydd Benfro, a phynciau ereill. Ar y cylan. nid ydym yn meddwl fod y cyfarfod hwn mor lluosog, nac ychwaith wedi bod mor ddefnyddiol i egluro Henafiaethau, ŷ rhai a gynaliwyd y blynyddoedd a aethant heibio; ond hyderwn nad yw aidd y boneddigion yn llaesu o blaid Sefydliad mor werthfawr.

EISTEDDFOD IFORAIDD CAERFYRDDIN.—Canfydda ein darllenyddion fod y Cyffrawd Eisteddfodol mor gryf yn Ngog'edd Cymru, fel y mae rhyw ychydig o'i effaith wedi cyrhaedd i lawr i drefydd y Deheudir. Cawsom ein hysbysu fod Iforiaid Caerfyrddin wedi dyfod i'r penderfyniad i gynal Eisteddfod yn y dref hon yr haf nesaf, er mwyn cefnogi a chynorthwyo i gadw yn fyw a choethi yr hen Omraeg.—yr Iaith a arfera y gwladgarwyr hyn yn eu holl gyfarfodydd, ac i ddwyn yn mlaen holl aelodau a gweithrediadau eu Cymdeithasau clodfawr. Mae eisioes amryw gyfarfodydd rhag-barotoawl wedi cael eu cynal ganddynt, i drefnu y mesurau angenrheidiol, ac y mae rhai testunau rhagorol wedi cael peunodi i ymgystadlu arnynt; ond dysgwylir cael ychwaneg yn ychwaneg yn fuan, ac yna cyhoeddir y cwbl gyda'u gilydd. Deallwn fod y gystadleuaeth i fod yn rhydd i bawb, pa un a fyddant yn Iforiaid ai peidio, ac nis gallwn lai na rhoddi canmoliaeth ddau-ddyblig iddynt am yr haelfrydigrwydd hwn. Eisieu y sydd i gael y cyfansoddiadau goreu ar y testunau a gynygir, gan hyny dylent hob amser fod yn rhydd i bawb: ac yn ol yr hyn a wyddom ni am dalentau llawer o'r Iforiaid, fel Beirdd a Rhyddieithwyr, nid oes achos iddynt ofni llawer yr a y gwobrau allan o'u Corff, er eu bod hwy wedi eu taflu yn agored i bawb. Diau y cawn yr anrhydedd yn fuan i osod eu testunau ger gwydd ein cydwladwyr, ac hyderwn y gwneir hwynt mor gyhoeddus fel y caiff pawb drwy y Dywysogaeth gyfleusdra i'w gweled, a hyny mewn pryd addas i gael digon o amser i gyfansoddi arnynt.—*Seren Cymru.*

POPLOGAETH CYMRU.—Dethol wyd y cyfrifon a gaulyn allan o'r Ddeiliadeb sy newydd ei chyhoeddi, yr hon sydd yn rhoddi cyfrif o boblogaeth y deyrnas ar y 31ain o fis Mawrth diweddaf.

| UNDEBAU. | POBLOGAETH. | |
|---|---|---|
| | *Yn* 1841. | *Yn* 1851. |
| *Sir Fynwy.* | | |
| Caerwent | 16.776 | 19 157 |
| Mynwy | 25.305 | 27.365 |
| Fenni | 50.845 | 59 225 |
| Pontypwl | 25 038 | 27.963 |
| Trefilraeth | 33.057 | 43,455 |
| *Sir Forganwg.* | | |
| Caerdydd | 32.557 | 46,484 |
| Merthyr Tydfil | 52,863 | 76,813 |
| Penybont | 21.355 | 23,416 |
| Castellnedd | 32.626 | 46,468 |
| Abertawy | 38,649 | 46,951 |
| *Sir Gaerfyrddin.* | | |
| Llanelli | 20.182 | 23,504 |
| Llanymddyfri | 14,726 | 15,055 |
| Llandeilofawr | 17,128 | 17.967 |
| Caerfyrddin | 38,137 | 37,523 |
| C. N. Emlyn | 20,863 | 20 273 |
| *Sir Benfro.* | | |
| Narberth | 21.748 | 22,120 |
| Penfro | 19.670 | 22,954 |
| Hwlffordd | 37,139 | 39,382 |
| *Sir Aberteifi.* | | |
| Aberteifi | 19.903 | 20,179 |
| Llanbedr | 9 865 | 9 883 |
| Aberayron | 12.875 | 13.220 |
| Aberystwyth | 22,242 | 23 743 |
| Tregaron | 10.254 | 10,369 |
| *Sir Frycheiniog.* | | |
| Llanfairymuallt | 8,714 | 8.346 |
| Aberhonddu | 17.701 | 18,182 |
| Crughywel | 17.676 | 21,674 |
| Gelli | 11 329 | 10,960 |
| *Sir Faesyfed.* | | |
| Presteigne | 15.739 | 15,140 |
| Knighton | 9 315 | 9.480 |
| Rhaiadr | 6,722 | 6.796 |
| *Sir Drefaldwyn.* | | |
| Machynlleth | 12,306 | 12,167 |
| Drefnewydd | 26.016 | 25 037 |
| Trefaldwyn | 50.983 | 20,372 |
| Llanfyllin | 20.450 | 19,506 |
| *Fflint.* | | |
| Treffynon | 40,798 | 41,053 |
| *Dinbych.* | | |
| Gwrecsam | 39,558 | 42,295 |
| Rhuthyn | 16,600 | 16,758 |
| Llanelwy | 23,547 | 25,289 |
| Llanrwst | 12,322 | 12,478 |
| *Meirionydd.* | | |
| Corwen | 15.089 | 15,409 |
| Bala | 6,953 | 6,786 |
| Dolgellau | 11.321 | 12,915 |
| Ffestiniog | 15,460 | 16,182 |
| *Caernarfon.* | | |
| Bwllheli | 21.637 | 21,792 |
| Caernarfon | 28.509 | 30,444 |
| Bangor | 25.901 | 30.805 |
| Conwy | 10,706 | 11,627 |
| *Môn,* | 38.106 | 43 243 |

"NI WYR NI DDYSG—NI DDYSG NI WRENDY."

Harvard College Library
1915.
D. Evans
Dansville, N. Y.

Y

# SEREN ORLLEWINOL:

NEU

## GYFRWNG GWYBODAETH I HIL GOMER YN AMERICA.

### CYHOEDDEDIG GAN R. EDWARDS.

CYF. VIII.] RHAGFYR, 1851. [RHIF. 90.

CYNNWYSIAD.

Sefyllfa y byd yn amser ym idangosiad y Gwaredwr, . . . . . . 279
Noddfa y Cristion, . . . . . 282
Bedd-argraff Dafydd Ionawr, . . . 282
Pregeth anfuddiol, . . . . . 282
Y Byd, . . . . . . . 282
Hanes yr Eglwys Gristionogol, . . . 283
Cân y Cymro wrth ymadael â'i wlad, . 290
Adfywiadau crefyddol yn California, . . 290
Cenhadiaeth Dramor y Bedyddwyr Prydeinig—Dyfyniadau o'r Mynegiad am 1851, . 292
Shan at Olygydd y Seren, . . . 292
Ateb i'r un, . . . . . 292
*Gofyniadau*, . . . . . . 293
Cofiant y brawd Evan Peters, . . . 294
Sefydlfa Lyfrau y Trefnyddion Wesleyaidd yn yr Unol Dalaethau, . . . . 294
Pennill i'r Seren. . . . . . 29
Ysgol Sabbothol y Bedyddwyr Cymreig yn Utica, C. N., . . . . . . 295
Cymanfa Dwyreinbarth Pennsylvania, a Swydd Oneida, C. N., a gynnaliwyd gydag Eglwysi y Bedyddwyr Cymreig yn swydd Luzerne, 295
*Genedigaeth*, . . . . . . 297
*Priodasau*, . . . . . . . . 297
*Marwolaethau*, . . . . . . . 297
Symudiad Gweinidog, . . . . 299
Damwain alaethus yn Nghaerefrog Newydd, 299
Y Golofn Genedlaethol—Cyfarfod yn Philadelphia, . . . . . . 299

HANESIAETH DRAMOR.

Prydain Fawr, &c.,—Dyfodiad Kossuth—Y Cynhauaf, . . . . . . 300
Ffrainge, . . . . . . . . 300
Awstria, . . . . . . . . 301
Twrci, . . . . . . . . 300
Itali, . . . . . . . . 300
Australia. . . . . . . . 300
Penrhyn Gobaith da. . . . . . 300

*Tywysogaeth Cymru.*—Sefydliad Cymroaidd y Mud a'r Byddar, 301
" " Agoriad Cledrffordd Dyffryn Nedd. . 301
" " Yr Eisteddfodau. . 301
" " Eisteddfod Madog, 301
" " Y Banciau, . . 301
" " *Priodasau*. . . 301
" " *Marwolaethau*, . . 301

Anerchiad y Golygydd ar ddiwedd blwyddyn, 302

Dalen enwawl, . . . . . . . i
Cynnwysiad, . . . . . . . . iii

POTTSVILLE.

Argraffwyd yn Swyddfa y 'Mining Register.'

# AT EIN DOSBARTHWYR A'N DERBYNWYR.

☞ Derbyniwyd y gohebiaethau canlynol, heblaw a gyhoeddwyd yn y rhifyn hwn—Dewis Gweinidog, cyfl. Wylog; Ysgrif "Ab Gomer," yn Seren Tachwedd, gan Philalethes; "Paham y dirmyga yr Annuwiol Dduw?" cyfl. David D. Phillips, Coalport, O.; Cân yn dangos fod Crist yn Dduw yn gystal ag yn ddyn, cyfl. D. Lewis, Blakeley; Pregeth a Gofyniadau, gan Christopher, Minersville; Penillion—"Unig wyf," gan George Morgan, Summit Hill; Hen Lythyr rhyfedd, cyfl. T. Ll. D., Golygiadau M. Evans, gan R. Owen; eto, gan E. Platt; Dic Shon Dafydd yr Ail, gan Llygad-dyst arall; Gohebiaeth, gan y Parch. E. D. Thomas, &c.

☞ Derbyniasom yn daliad, oddiwrth Mr. R. Roberts, Minersville, $7; Parch. D. Evans, Summit Hill, 56cts.; Parch. D. Prichard, Radnor, am y Seren a Christmasia, $5.

☞ Y mae yn ddrwg genym orfod adgofio ein derbynwyr a'n goruchwylwyr o fis i fis o barth y taliadau. Gwelir oddiwrth yr anerchiad yn y rhifyn hwn, (tu dal. 302,) fod llwyddiant, ac hyd y nod parhad ein cyhoeddiad yn ymddibynu ar eu gweithrediad buan.

☞ Gorfu i ni adael allan amryw ysgrifau y mis diweddaf a fwriadem eu cyhoeddi, o herwydd diffyg lle. Mae hanes y Gymanfa a gohebiaethau hanesyddol eraill wedi chwyddo allan yn niwedd y rhifyn hwn, fel y gorfu arnom gwtogi yr hanesion cartrefol a thramor, am yr hyn y crefwn hynawsedd y darllenydd.

☞ Buasai yn dda genym gyhoeddi ysgrif "Llygad-dyst arall" pe buasai genym mewn pryd i rhifyn Tachwedd. Dichon mai gwell yw gadael llonydd i Dic, bellach.

☞ Cyfeirir llythyrau, yn cynnwys taliadau neu ohebiaethau, at *R. Edwards, Editor of the Seren, Pottsville, Schuylkill Co., Pa.* Y gohebiaethau i fod yn ddidraul.

HYSBYSRWYDD YN EISIAU—am Mr. JOHN POWELL, *Pdler*, yr hwn sydd adnabyddus i amryw o'r Cymry yn ngweithfeydd Dwyreiniol Pennsylvania. Cychwynodd er ys misoedd yn ol oddiwrth ei deulu yn Danville i ymofyn gwaith, ac ni chlywyd son am dano drachefn. Os gwyr neb o ddarllenwyr y Seren rhywbeth am dano, dymunir arnynt dosturio wrth ei deulu drwy anfon atynt, gan gyfeirio at Mrs. Mary Powell, Danville, Montour Co., Pa.

## AT YMFUDWYR I CALIFORNIA.

Y mae y Tanysgrifiwr yn ewyllysio hysbysu i'w gydwladwyr a fwriadant ymfudo o'r cylchoedd hyn i California yn ystod y misoedd dyfodol, ei fod ef wedi ei bennodi gan Moseley a Ball, No. 87 S. Front St., Philadelphia, Goruchwylwyr y "Pacific United States Mail Steamship Company," i werthu tocynau drostynt i ymfudo i California. Pris *Steerage passage* o Philadelphia i San Francisco gyda yr agerlongau ardderchog hyn (Gwddfdir Panama yn eithredig) yw $150, yn cynnwys cludiad o Philadelphia i New York, ac ymborth a gwely ar y fordaith. Bydd yn fanteisiol iddynt gyduno yma er arbed pris eu cludiad o Philadelphia i New-York; ac hefyd i ochelyd unrhyw oediad (*delay*) yn New-York, gan y bydd dyddiad eu tocynau o'r dydd y pwrcasir hwy yn Pottsville.

Potts[illegible] Tach. 26, 1851. R. EDWARDS, Swyddfa y Seren.

## O BWYS I YMFUDWYR A'U CYFEILLION.

[illegible] 25, UNION STREET, Liverpool, o hyn allan, y gellir cael y Goruchwyliwr Ymfudawl enwog [illegible] JONES; ac yno y mae ganddo Dŷ gyda y manteision mwyaf dewisol i wneud Ymfudwyr yn [illegible] a lletty, am bris rhesymol, am yr amser a fynont. [illegible] roddir i Mr. Jones gan weinidogion y gwahanol enwadau yn Liverpool, ynghyd a thystiol[illegible] hon, yn gwneuthur pob cymeradwyaeth o'n heiddo ni yn afreidiol.

[illegible] JOHNSON,
[illegible] at ei Grynhofa Newydd [illegible] diau, yn ei Ystordy, [illegible] *uwchlaw Centre Street.*
[illegible] ichod, yr hwn sydd newydd [illegible] sau ac Esgydiau, Slippers [illegible] ygir ar werth ganddo am y [illegible]. Bydd yn dda ganddo wel [illegible] aili yn galw. Tyleriau yn [illegible]

[illegible] ULUAIDD."

[illegible] allan o'r Wasg. Cyn[illegible] li ei rwymo yn hardd [illegible] ein cenedl yn yr Amerig.— [illegible] feddu copi o hono. Caiff dderbyniad [illegible] us i'm hanfedd, a lle yn ty llyfrgell er mwyn yr awdwr hyfedr a dysgedig, y dull goleubwyll y trinia ei faterion, a'r iaith seinber yn yr hon yr ymddiddana, &c. hydd fel gem yn dysgleiriaw yn mhlith awdwyr meddygol hen a diweddar. J. P. HARRIS.

## GORUCHWYLIAETH YMFUDAWL;

Y MAE y tanysgrifwyr, ystordy y rhai sydd yn Centre-st. Pottsville, wedi eu neillduo yn Oruchwylwyr dros un o'r llinellau ymfudawl goreu. Pwy bynag sydd am anfon arian i'r hen wlad, gallant wneud hyny trwyddynt yn gyflym a rhad. Hefyd, gellir talu am gludiad drosodd iddo ef.

WM. FOX A'I FRAWD,
Goruchwylwyr Ymfudawl.

Pottsville, Mawth 1, '51.

## PHILADELPHIA AND LIVERPOOL LINE OF PACKETS.

SAILING from Philadelphia on the 15th, and from Liverpool on the 1st of every month.

| | From Philadelphia. | From Liverpool. |
|---|---|---|
| Ship SHENANDOAH, Capt. | April 15th. | June 1st. |
| | Aug. 15th. | Oct. 1st. |
| | Dec. 15th. | Feb. 1st. |
| Ship EUROPE, Capt. Nathaniel C. Harris, | May 15th. | July 1st. |
| | Sept. 15th. | Nov. 1st. |
| | Jan. 15th. | Mar. 1st. |
| New Ship SHACKAMAXON, Capt. Wm. H. West. | June 15th. | Aug. 1st. |
| | Oct. 15th. | Dec. 1st. |
| | Feb. 15th. | April 1st. |
| Chip MARY PLEASANTS, Capt. Robert R. Decan. | July 15th. | Sept. 1st. |
| | Nov. 15th. | Jan. 1st. |
| | Mar. 15th | May 1st. |

The above first class Ships are built of the best materials, and commanded by experienced Navigators.

Due regard has been paid to select models for speed, with comfort for passengers. They will sail punctually on the day advertized. Taking advantage of the Steam Tow Boats on the Deleware.

Persons wishing to engage passage for their friends, can obtain certificates, which will be good for 8 months.

Those who wish to remit money, can be accommodated with drafts for £1 sterling and upwards, at sight, without discount. Apply to

Goods for the continent can be forwarded free of expense of commission, if addressed to James McHenry, No. 5, Temple Place, Liverpool.

GEORGE McHENRY & CO.,
No. 37, Walnut-st., Philad'a.

Ap 1—1y

# Y SEREN ORLLEWINOL.

CYF. VIII.] RHAGFYR, 1851. [RHIF. 90.

## SEFYLLFA Y BYD YN AMSER YMDDANGOSIAD Y GWAREDWR.

MAE hanes eglwys Dduw yn cyfansoddi rhan fawr o'r gyfrol santaidd, ac y mae hyny wedi bod o fudd nid bychan i ddeiliaid ffydd, ac yn parhau felly i'r rhai oll ynt yn credu i gadwedigaeth yr enaid. Drwy y cyfrwng hwn y maent yn canfod y modd mae y Penllywydd bendigedig wedi amddiffyn ei achos yn mhob tymor, ac wedi ymgeleddu ei bobl yn mhob cyfyngder; wedi goruwch-lywodraethu pob ymosodiad gwrthwynebol er gogoniant iddo ei hun, ac wedi gwneuthur cynddaredd dynion yn offerynol i gyflawnu amcanion ei ddoethineb anffaeledig. Mae yr un gofal ganddo am ei achos yn mhob oes, ac y mae yn ddyledswydd arnom i gofnodi ei weithrediadau mor belled ag y gallom, er gweled mai ar ei allu ef y mae yn ymddibynol, ac mai iddo ef y mae y clod yn ddyledus am ei gynnal a'i lwyddo. Heblaw hyn mae gwybodaeth o hanes eglwys Dduw yn tueddu i'n cadarnhau yn y gwirionedd, ac i'n parotoi i gyfarfod a gwrthsefyll y cyfeiliornadau sydd yn ymdaenu drwy y byd, [ac yn cylcharwain lluoedd er dinystr eu hunain, yn gystal ag i'n cefnogi i lynu yn ein proffes gyda difrifoldeb a gweithgarwch, fel rhai sydd yn gwybod nad yw eu llafur yn ofer yn yr Arglwydd.

Yn fuan iawn wedi cwymp ein rhieni cyntaf yn Eden rhoddwyd iddynt addewid o Had y wraig i sigo pen y sarff; ond cyn ei chyflawniad yn ymddangosiad Crist, aeth tymor heibio nad oedd yn ddim llai na phedair mil o flynyddoedd. Yn ystod y tymhor hwn rhoddwyd cyfleusdra teg i'r holl ddyfais ddynol chwilio am y ffordd i ddedwyddwch, a chael allan, os oedd yn ddichonadwy, y feddyginiaeth angenrheidiol er iachau anhwylderau moesol y teulu syrthiedig. Eithr yn noethineb Duw, y byd drwy ddoethineb nid adnabu mo Dduw; canys dynion, pan dybient eu hunain yn ddoethion, a aethant yn ffyliaid, ac a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid ac anifeiliaid pedwar carnol, ac ymlusgiaid. Yn oesoedd y cyn-ddiluwiaid fe amlhaodd anwiredd a thrais nes llanwyd yr holl ddaear â gwaed, fel y barnodd cyfiawnder yn angenrheidiol i agor ffenestri y nefoedd a ffynonau y dyfnder, a dwyn diluw barnol dros y byd, er dinystrio holl drigolion y ddaear, oddigerth wyth enaid a achubwyd mewn arch o drefniad dwyfol. Ond wedi i'r farn hon fyned heibio, cynyddodd preswylwyr y ddaear drachefn, ac a ymdaenasant i wahanol barthau y byd; a chyn marw un, o leiaf, o'r rhai a achubwyd yn yr arch, yr oedd eulun-addoliaeth yn ffynu drwy y gwledydd trigiannol; oblegyd yr oedd Shem yn fyw dymhor hir wedi galwad Abraham, ac yr oedd delw-addoliaeth wedi ymdaenu yn helaeth iawn cyn i hyny gymeryd lle.]

Yn foreu iawn yn hanes yr ol-ddiluwiaid yr ydym yn cael i'r Aifftiaid ddechreu eu hymgeisiadau celfyddydol, ac y mae engrhaifftiau o'u gorchestion yn aros hyd yn awr, er mor isel yw eu cyflwr presennol mewn cymhariaeth i lawer o wledydd ag oeddent y pryd hyny mewn sefyllfa anwaraidd ac annysgedig. Yn agos mor foreu a hyny y cododd gwroniaid uchelfrydig i sylfaenu ymerodraethau, ac i dreisio eu cyd-ddynion a'u dwyn i gaethiwed gwladol, er enill iddynt eu hunain gyfrogrwydd a blaenoriaeth. Y blaenaf o'r rhai hyn oedd Nimrod, yr hwn a sylfaenodd ymerodraeth Assyria, yn mhen cymmaint a thri chan mlynedd wedi y diluw; ac i hon y perthyn y flaenoriaeth nid yn unig o ran amseriad, ond hefyd am ei bod wedi rhoddi meithriniaeth i holl brydferthwch, moethau, a chelfyddydau y dwyrain. Wedi symud gorsaf y llywodraeth i Babilon, gelwid hi wrth enw ei phrif-ddinas, ac yn amser Nebuchodonosor [yr oedd wedi cyrhaeddyd ei gorwychder mwyaf, fel yr oedd pawb yn ei chydnabod yn ben y byd. Ond yn ei thro gorfu i'r ymerodraeth hon roddi lle i lywodraeth y Mediaid a'r Persiaid ar farwolaeth Belchazar, ac felly bu yn nghafael y Persiaid yn benaf nes i Alexander orchfygu Darius Cadomannus. Mewn canlyniad i hyn, daeth y Groegiaid yn benaf ar bawb, a buant hwythau felly nes iddynt gael eu darostwng gan y Rhufeiniaid; ond cyn dyfodiad Crist i'r byd yr oedd y Rhufeiniaid wedi cyfodi i'r cyflwr ag oedd yn peri i bawb ymostwng dan eu traed. Er ei fod yn beth cyffredin iawn i ddywed-

yd fod llywodraeth Rhufain yn ymestyn dros y byd, eto nid yw yn ymddangos fod y peth felly mewn gwirionedd. Yr oedd rhan fawr o'r byd trigiannol yn anadnabyddus i breswylwyr Ewrop, yn yr amseroedd hyny. Nid ym yn deall fod na Phersia na China, na Burma, nac India, dan eu llywodraeth, na'r rhan dumewnol na deheuol o Affrica, na'r rhan fwyaf gogleddol o Ewrop; ac am yr oll o America, yr oedd yn hollol anwybodus. Terfyn ei llywodraeth o du y dwyrain oedd yr afon Euphrates, a'r Mor Werydd o du y gorllewin; ynys Prydain tua y gogledd, a'r Aifft a rhanau eraill o Affrica ar gyffiniau Mor y Canoldir tua y deheu; ac felly yr oedd ei hymerodraeth tua thair mil o filldiroedd o hyd, a dwy fil o led.

Bernir fod deiliaid yr ymerodraeth Rufeinig yn y cyfamser at yr hwn yr ym yn cyfeirio tua chwech ugain o filiwnau, ac yn cael eu rhesu yn dri o raddau, sef dinasyddion, talaethwyr a chaethweision. Yr oedd y dinasyddion yn mwynhau helaethrwydd o ryddid, a chanddynt hawl i lawer o ragorfreintiau, fel y canfyddir yn hanes yr apostol Paul; ond ni pherthynai i'r ail radd ond rhyddid enwadol, heb nemawr o hono yn wirioneddol; ac am y caeth-ddynion, yr oeddent yn hollol ymddibynol ar ewyllys eu meistriaid, y rhai, fel y barnent yn addas, a allent eu breintio, neu eu gormesu a'u cospi, ac hyd y nod eu dinystrio. Er fod y Rhufeiniaid yn awyddus i helaethu terfynau eu llywodraeth, eto yr oeddent yn dangos y ddyfais ddoethaf a fedrent yn mhob talaeth i wneuthur eu iau yn esmwyth i'w deiliaid, ac yn amcanu gwareiddio y cenedloedd fyddent wedi eu darostwng, fel ar y cyfan y buant yn foddion i gyfodi yn hytrach nac i ddarostwng moesau y byd, ac i daenu gwybodaeth gelfyddydol, a threfniadau gwladol gwell na'i rhagflaenoriaid, drwy holl barthau Ewrop yn enwedig.

Yr oedd cyflwr gwladol yr Iuddewon oddiar eu rhyddhad o Babilon wedi bod yn ddarostyngedig i chwyldroadau lawer. Buant am dymor yn ddeiliaid i lywodraeth Persia, ac wedi hyny i Syria, ac ar y cyfan yn mwynhau mesur o ryddid a thawelwch dan gyfarwyddyd eu hoffeiriaid eu hunain, nes i Antiochus Epiphanus gyfodi erledigaeth echryslon yn eu herbyn, oddeutu wyth ugain a deg o flyneddau cyn genedigaeth Crist, pryd y lladdwyd ynghylch deugain mil o'r Iuddewon yn Jerusalem, ac y gwerthwyd llawer mwy i gaethwasanaeth. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, anfonodd y treisiwr hwn ugain mil o ryfelwyr dan dywysiad Apollonius, mewn bwriad i ddinystrio Jerusalem, a lladd y gwrywaid â'r cleddyf, a gwerthu y gwragedd a'r plant i gaethwasanaeth. Gosodwyd hyn mewn gweithrediad gyda y llymder mwyaf ar ddydd Sabboth, pan oeddent y preswylwyr wedi ymgyfarfod mewn addoliad cyhoeddus, fel na ddiangodd neb ond y rhai a ymguddiasant mewn ogofeydd, neu a ffoisant i'r mynyddoedd. Ac megys pe na buasai hyn yn ddigon o greulonder, rhoddodd Antiochus ar ei ddychweliad i Antiochia, orchymyn i bawb o fewn terfynau ei lywodraeth i gyduno â chrefydd eilun-addolgar y Groegiaid, ac anfonodd un o'r enw Athenæus i addysgu yr Iuddewon mewn arferiadau coelgrefyddol, ac i gospi y rhai a wrthwynebant hyny â'r marwolaethau mwyaf creulon. Ar ei ddyfodiad i Jerusalem, gwnaeth y dyn hwn atalfa ar aberthau Duw Israel, a holl arferiadau y grefydd Iuddewig drwy gynorthwy Iuddewon gwrthgiliedig, gan halogi y deml, gwahardd enwaedu y plant, llosgi pob adysgrif a ddaeth i'w afael, a chyssegru y deml i Jupiter Olympus, a gosod ei ddelw i fynu ar allor y poeth-offrwm, ynghyd a gosod pob un a allai i farwolaeth a wrthwynebai ei fesurau.

Yn yr adeg helbulus hyn fe ymadawodd Mattathias yr archoffeiriad, orwyr Asmonæus o Jerusalem, i'w dref enedigol, a elwid Madin, yn nhref Dan, a'i bum mab gydag ef; eithr un o swyddogion y brenin o'r enw Apelles a'i cafodd allan, ac wedi casglu y bobl ynghyd a'u hanerchodd yn gyhoeddus yn eu gwydd, gan ei anog i dderbyn eilun-addoliaeth drwy addaw iddo ragorfreintiau a chyfoeth mawr. Ond yr offeiriad a wrthododd hyn, gyda y dirmyg dyladwy, ac a laddodd yr Iuddew blaenaf a anturiodd agoshau at yr allor eilun-addolgar, ac yna fe ymruthrodd ar ddirprwywr y brenin ynghyd a'i gymdeithion, a thrwy gynorthwy ei feibion fe'i rhoddwyd i farwolaeth yn y fan, ac yna hwy a ffoisant i'r mynyddoedd. Yn fuan wedi hyn fe gasglodd ynghyd ei deulu ei hun, ac Iuddewon eraill oeddent awyddus dros ogoniant eu Duw, ac a ddrylliasant yr eilunod a'r alloran paganaidd gyda diwydrwydd diymwad, ac erbyn hyn yr oedd eu nifer wedi cynyddu nes oeddent yn fyddin fechan.

Yn mhen ychydig amser wedi hyn bu farw yr hen archoffeiriad Mattathias, ac yn ol ei ddymuniad disgynodd gofal y fyddin i law ei fab Judas Maccabeus. Ni bu marwolaeth Mattathias yn gymmaint colled, gan fod Judas yn meddu ar gymwysder a sel; a thrwy ei ymdrech gwrol, lladdodd ei wrthwynebwyr ar bob llaw, er eu bod yn llawer; ac fe enillodd y deml, a'i hadgyweiriodd, ac a'i purodd; ac fe adsefydlodd wasanaeth y gwir Dduw yn Jerusalem, gan gyweirio y ddinas trwy lafur mawr. Pan glywodd Antiochus, yr hwn

oedd yn awr yn rhyfela yn erbyn y Persiaid, am lwyddiant yr Iuddewon yn erbyn ei swyddogion fe addunedodd ddinystrio yr holl genedl, a gwneuthur Jerusalem yn gladdfa iddynt oll; eithr pan oedd y penderfyniad rhyfygus yn deillio o'i enau, tarawyd ef â dolur anfeddyginiaethol, a bu farw mewn gresyndod mawr yn y fl. wyth ugain a phedwar cyn geni Crist. Fe'i canlynwyd yn y llywodraeth gan ei fab Antiochus Eupator, yr hwn oedd naw mlwydd oed, dan addysg ac ymgeledd Lysias, gelyn ffyrnig i'r Iuddewon, a'r hwn a ymgynghreiriodd â'r Idumeaid a llwythau cymmydogaethol eraill, i ddinystrio Israel o'r byd. Judas wedi clywed am hyn a benderfynodd wasgu y rhyfel yn mlaen i dirlogaeth ei elynion, ac o ganlyniad fe fu am rai blynyddau yn ffrewyll drwm i'r Idumeaid a'r Syriaid, a rhai cenedloedd paganaidd eraill, nes iddo yntau orphen ei holl waith, a syrthio yn aberth i greulonder ei elynion tua y fl. 161 cyn geni Crist.

Wedi marw Judas Maccabeus, Jonathan a Simon ei frodyr a ymdrechasant yn egniol i unioni amgylchiadau crefyddol a thymhorol eu gwlad, a buant yn llywodraethu fel swyddwyr gwladol yn gystal ag offeiriaid crefyddol yn Judea, drwy deyrnasiad Alexander Balas a Demetrius Balas a Demetrius Nicator. Ond pan laddwyd Jonathan mewn modd dichellgar gan y traws-feddianwr Tryphoa, a Simon ynghyd a'i feibion Judas a Mattathias drwy frad Ptolemy, ei fab-y'nghyfraith, John Hyrcanus, mab Simon, a gymerodd arno lywodraethu Judea. Yr oedd Simon yn barod wedi ymgynghreirio â'r Rhufeiniaid, ac fe adnewyddwyd yr ammodau yn amser Hyrcanus, tua chant a deng mlynedd ar ugain cyn geni Crist. Bu Hyrcanus yn llwyddiannus iawn yn ei amcanion, nes oedd alluog o'r diwedd i daflu ymaith iau y Syriaid, a sefydlu anymddibyniaeth ei wlad ei hun. Gwnaeth hefyd helaethu terfynu ei lywodraeth drwy oresgyn amrywiol barthau o Syria, Phenicia, ac Arabia; cymerodd Shechem hefyd, a dinystriodd y deml ar fynydd Gerasim, a darostyngodd yr Idumeaid, gan eu rhwymo i dderbyn y grefydd Iuddewig; ac ar adnewyddiad ei ammodau â'r Rhufeiniaid fe ddyogelodd freintiau helaethach i'w genedl nag oedd ganddynt yn flaenorol, at yr hyn y gellir ychwanegu iddo ddinystrio Samaria drwy offeryngarwch ei feibion, Aristobulus ac Antigonus. Wedi hyn efe a lywodraethodd dros Judea, Samaria, a Galilee am ddwy flynedd, ac a fu farw yn y drydydd flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad, gan adael yr archoffeiriadaeth a'r llywodraeth i Aristobulus ei fab hynaf. Y tywysog hwn oedd y cyntaf o'r Iuddewon a hawliodd yr enw brenin, ac a wisgodd goron wedi caethiwed Babilon; nid hir y mwynhaodd yr anrhydedd, oblegyd ni bu ei deyrnasiad ond un flwyddyn; a chanlynwyd ef gan ei frawd, Alexander Janæus, yr hwn a ddarostyngodd y Philistiaid, ac a'u rhwymodd i dderbyn y grefydd Iuddewig; ac ar ol ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le wedi iddo deyrnasu tua saith mlynedd ar ugain, bu ei weddw yn llywodraethu am naw mlynedd gyda llawer o ddoethineb ac arafwch.

Yn mhen tymor o amser, ac wedi llawer o chwyldroadau yn mysg yr Iuddewon, gosododd Julius Cæsar Antipater yn rhaglaw ar Judea. Un o'r Idumeaid oedd hwn, ac fel eraill o'i gydwladwyr yr oedd yn proffesu y grefydd Iuddewig, oblegyd yr oedd John Hyrcanus wedi eu rhwymo i hyny oddiar eu darostyngiad. Dyn cyfrwys oedd Antipater, wedi ei ddwyn i fyny yn llys Alexander Janæsus a'i wraig Alexandra. Yr oedd wedi bod yn offerynol i amddiffyn hawl Hyrcanus i'r llywodraeth, ond nid oedd ganddo yn y cyfan un egwyddor ond hunan-gais; ac yn awr, gan ei fod wedi gweithio ei ffordd i ffafr Cesar, fe ymaflodd yn y llywodraeth wladol, gan adael yr archoffeiriadaeth eto yn meddiant Hyrcanus. Gwedi marw Antipater daeth ei fab Herod, drwy gymhorth Antony y Rhufeinwr, yn frenin ar holl Judea, ac yn ei deyrnasiad ef y ganwyd ein Harglwydd Iesu Grist. Dyn cyfrwys oedd Herod fel ei dad, ac yn fwy creulon na'r rhan fwyaf o ormeswyr y byd.—Mae yn wir ei fod yn meddu ar alluoedd a allasent wneuthur ei enw yn gymeradwy yn nghyfrif y doethion, ond ei fawredd hynotaf oedd mewn drygioni; a chynyddu a wnaeth mewn anwiredd nes llanw mesur ei euogrwydd a marw, er llawenydd i'r lluoedd oeddent wedi ocheneidio dan bwys ei draha.

Yr oeddent yr Iuddewon yn teimlo y gormes hyn, ac yn dysgwyl am waredigaeth drwy ddyfodiad y Messia; ond nid oedd ganddynt ddim golwg bellach ar amcan ei ddyfodiad na'u gwaredu o'u caethiwed gwladol; a thyma yr achos iddynt ei wrthod pan ymddangosodd yn eu plith. Y gwaredwr a geisient oedd tywysog cyfoethog, medrus a galluog, i eistedd ar orsedd eu gwlad, ac arwain ei luoedd i'r maes, a'u dwyn yn ol yn fuddugol, gan beri i genedloedd y ddaear grynu wrth swn ei enw, a gosod eu cenedl yn mhell uwchlaw gormes holl dywysogion eraill y byd. Pan welsant gan hyny, wr gofidus a chynnefin â dolur, heb le i roddi ei ben i lawr, ac heb neb ond dynion o radd isel yn ei amgylchynu, yn dysgu athrawiaeth o natur ysbrydol, ac yn galw ar ei ganlynwyr i ddyoddef croes a gwaradwydd, hwy a ddram-

gwyddasant yn anfrydol, nid am nad oedd wedi ymddangos fel yr oeddent 'y proffwydi wedi rhagfynegu, ond am nad oedd wedi ymddangos fel yr oeddent hwy wedi dychymmygu, ac yn atebol i'r amcan cnawdol ar ba un yr oedd eu gobaith camsyniol yn ymddibynu. Augustus Cæsar oedd yn ymerawdwr Rhufain, ac er bod Herod yn frenin nid oedd ond brenin dan dreth, fel llawer eraill y pryd hyny.

Am gyflwr crefyddol y byd yn amser genedigaeth Crist, nid yw ein gwybodaeth ond cyfyng gyda golwg ar y rhanau hyny nad oeddent o fewn cylch llywodraeth y Rhufeiniaid, drwy anamlder eu haneswyr, a diffyg hysbysiadau ysgrifenedig. Ond amlwg yw, fod eilun-addoliaeth yn ffynu oddiar yn foreu yn holl barthau dwyreiniol Asia. Er fod y Caldeaid unwaith yn ddysgedig mewn celfyddydau, gwnaent iddynt eu hunain ddelwau aur yn eu cyflwr goreu, a rhwyment bawb i ymostwng o'u blaen, fel y gwelir yn hanes Nebuchodonosor yn ngwastadedd Dura; a phriodolent eu heilunaddoliaethau i eilunod o aur ac arian, pres a haiarn, pren a maen, fel mae yn amlwg oddiwrth araeth y proffwyd Daniel gerbron Belshazzar. Y Persiaid a honent eu bod wedi derbyn eu holl gyfundraeth oddiwrth Zoroaster, ac ymddengys mai dwy egwyddor sylfaenol oedd i'r cyfan, sef bod dau achos cyntefig yn bodoli, un yn hollol dda a'r llall yn hollol ddrwg; a bod gwrthryfel parhaus rhwng yr egwyddorion hyny; ond ni wnaent y rhai a arddelent y syniadau hyn ddysgu yr un pethau oddiwrthynt, ac o ganlyniad yr oeddent yn rhanedig i wahanol bleidiau. Y rhai mwyaf dysgedig a gydnabyddent un bod uwchlaw pawb, yr hwn a alwent *Mythra*, a dywedent fod oddidano ddau o is-dduwiau, sef *Oromasdes*, awdwr pob daioni, ac *Ariman*, awdwr pob drwg; ond wedi y cyfan, yr oeddent wedi cymysgu yr haul a'r drychfeddyliau a goleddent am y bod goruchel, fel mai i hwn y cyfeirient eu haddoliad, a gwnaent yr elfen dân yn breswylfod eu duw dychymmygol.

Yn India yr oedd yr un gyfundraeth o eilunaddoliaeth yn bodoli y pryd hyny ag yn awr, ac felly hefyd yn ngwledydd pellenig Asia, fel y gellir dywedyd fod yr holl gyfandir dwyreiniol o'r bron wedi croesi yr afon Euphrates yn hollol ymddifad o wybodaeth am y gwir Dduw, ac wedi suddo i ddyfnder o ddiraddiaeth moesol ac anwybodaeth. Yr un modd y gellir dywedyd am yr Aifftiaid, a thrigolion parthau eraill Affrica, ar gyffiniau Mor y Canoldir.

Yr oedd eilun-addoliaeth y Groegiaid wedi ymdaenu dros yr oll o Arabia a'r Asia Leiaf, ynghyd a Syria a'r gwledydd amgylchynol; ond yn gymysgedig yn aml ag addoliad eu heilunod cyntefig, ac nid oes gwahaniaeth mawr rhwng hen gyfundraeth y Groegiaid ag eiddo y Rhufeiniaid boreuol. Barn llawer yw, mai yr haul a'r planedau oeddent wrthddrychau cyntaf eu haddoliaeth, ac mae yn amlwg iawn oddiwrth rai ymadroddion yn llyfr Job, fod y fath barch anghyfreithlon yn cael ei roddi i'r haul a'r lloer yn foreu iawn: Job 31. 26—28. Fel yr oedd tywyllwch yn cynyddu, daeth afonydd, o herwydd eu defnyddioldeb i gyfranogi o'r un parch; ac yn y diwedd coedydd a mynyddau, bwystfilod ac ehediaid, ac hyd y nod yr ymlusgiaid mwyaf anmhrydferth a niweidiol; a bron pob peth da a phob peth drwg a wnaethwyd yn dduwiau dychymmygol—fel, yn ol tystiolaeth y prydydd Hesiod, yr oeddent oll yn ei oes ef yn ddeng miliwn ar ugain.

[I'w barhau.]

## NODDFA Y CRISTION.

Ar air fy Nuw yn awr mi af,
Ymgrymaf wrth y groes;
Fy nyth a wnaf yn mynwes Naf,
Mi lechaf yn ei loes.

Caf win o'i waed i'm enaid tlawd,
Y'nghroes fy Mrawd mae'm mryd;
Yn Salem lân cawn weled hon
Yn goron aur i gyd.

Môr o waed, mawr iawn ei werth,
Sy'n aberth Calfari;
Pob gras a dawn drwy hwn y daeth
Fy iachawdwriaeth i. A. G. Maelor.

## BEDD-ARGRAFF DAFYDD IONAWR.

Ow! ow! cwympodd y pen-campwr—Ionawr,
Anianol farddonwr;
Unig yw, aweniog wr
Ddwysgododd Duw'n ddysgawdwr.
Gwyllt-Fardd Teilo.

## PREGETH ANFUDDIOL.

Araeth rhy hclaeth o hyd—yn agos
Iawn ogylch dau wryd;
Gwael odfa'n hir galed-fyd,
Heb amen ben yn y byd.
Arlhaiarn.

## Y BYD.

Y byd sy mal dinas lawn ceimion heolydd,
Marchnaty yw marwolaeth lle cyrdda'r holl wledydd.
Pe gellid troi angeu i fford â budr-elw,
Byw fyth wnai'r cyfoethog, a'r tlawd fyddai farw.
*Cyf.* Cuhelyn.

## HANES YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*O'r "Bedyddiwr."*

### Y SEITHFED CANRHIF.

Yr ydym wedi cael achos nodi yn ein erthyglau blaenorol, fod ymadawiad oddiwrth egwyddorion y Testament Newydd wedi ymddangos yn mhlith y Cristionogion cyn diwedd yr ail ganrhif, ac fod egwyddor sylfaenol Pabyddiaeth wedi cael cymeraewyaeth yn y pedwerydd canrhif, pan unwyd yr eglwys â'r llywodraeth wladol yn amser Cystenyn. Ond nid ar unwaith y cyrhaeddodd y Dyn Pechod ei holl nerth, eithr cynyddu a wnaeth yn raddol, ac ymlwybro o gam i gam, nes yn y diwedd iddo esgyn i'r orsedd, ac eistedd yn nheml Dduw, gan honi awdurdod i drin holl achosion teyrnas Crist, yn ol ei ddyfais a'i ewyllys ei hun. Mae graddoldeb cyfodiad Pabyddiaeth yn achosi llawer o anhawsdra i ddeall arwyddion yr amserau, ac yn enwedig i benderfynu yn gywir pa bryd y bydd i lywodraeth Anghrist derfynu. Mae yn wybodus ddigon fod ystod ei lywodraeth, yn ol llyfr y Dadguddiad yn ddeuddeg cant a thri ugain o flyneddau proffwydoliaethol, yr hyn a farnir yn gydradd â deuddeg cant a dwy a deugain, yn ol ein dull ni o gyfrif amser. Mae yn beth o bwys gan hyny er deall y proffwydoliaethau, i graffu yn fanol ar y dull y cyfododd ac y cynyddodd y dirywiad nes cyrhaeddodd Pabyddiaeth yr holl ddylanwad a'i galluogodd i ddal y cenedloedd mewn caethiwed moesol, a'u cau mewn tywyllwch ac anwybodaeth.

Y cam cyntaf tuagat y gyfundraeth babaidd oedd gwaith yr esgobion yn cymeryd arnynt drin achosion eglwysig mewn cyfarfodydd cymanfaol, yn anymddibynol ar bleidlais yr aelodau cyffredin. Dechreuwyd hyn tua chanol yr ail ganrhif, ac fe'i cymeradwywyd yn fawr heb ganfod ei ganlyniadau, hyd nes i weithrediadau yr eglwysi gael eu sylfaenu ar dir hollol newydd. Y cam nesaf oedd gwisgo rhyw esgob ag awdurdod i arolygu achosion yr holl eglwysi yn y dosbarth lle y byddai yn gweinyddu, ac i alw yr esgobion ynghyd pan fyddai achosion amheus yn gofyn am gyd-ystyriaeth, ac efe fyddai yn cymmedroli yn y cynghor. Yr oedd y drefn hon mewn arferiad yn y trydydd canrhif; ac mewn amser daeth y cyfryw i gael eu galw yn arch-esgobion; ond nid oedd hyn yn arferol nes tua y flwyddyn 430. Yn ganlynol i hyn gwnawd gradd arall yn y gyfundraeth offeiriadol mwy urddasol na dim oedd yn bodoli o'r blaen, sef y Patrieirch, a chyfyngid yr anrhydedd hyn i esgobion y dinasoedd mwyaf cyfrifol, megys i esgob Rhufain, esgob Alexandria, esgob Caercystenyn, esgob Antiochia, ac esgob Jerusalem, ac yn mhlith y rhai hyn yr oedd esgob Rhufain yn blaenori, o herwydd cyfoeth ei eglwys, mawredd ei feddiannau, rhif ei weision, a rhwysg ei ymddangosiad; ond nid oedd iddo un awdurdod sefydlog uwchlaw yr hyn a berthynai i'r rhai eraill. Nid hir iawn y buont heb ganfod fod un cam eto yn ddymunol er cyrhaeddyd yr hyn a gyfrifent yn berffeithrwydd, sef cael un yn ben ar bawb eraill, ond pwy a wisgid â'r anrhydedd hyn oedd beth anhawdd iawn i'w benderfynu.

Er fod esgobion Rhufain yn cael y flaenoriaeth oddiar amser Cystenyn, eto nid oedd eu hawl i hyny yn cael ei sylfaenu ar un egwyddor amgen nag amgylchiadau eu hesgobaeth; ond tua'r flwyddyn 494 fe hawliodd Gelasius hyny fel gosodiad o ddwyfol drefniad, ac fe ddywedir fod eu ragflaenor Lee wedi gwneuthur yr un peth ychydig cyn hyny. Fodd bynag, fe fu yr achos dan sylw mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Rhufain yn y flwyddyn a nodwyd, ac yno fe ymroddodd esgob Rhufain a'i blaid i ddangos nad oedd ei flaeriaeth yn ymddibynu ar benderfyniadau cymanfaol, eithr ar eiriau Crist, yr hwn a ddywedodd, "Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys," &c; Ond nid oedd y ffordd yn rhydd eto i'r amcan uchelfrydig gael ei gyrhaeddyd yn ddiwrthwynebiad, oblegyd yr oedd esgobion Caercystenyn yn llawn mor drachwantus ag esgobion Rhufain, ac yn gwrthod cwympo mewn â'r cynyg o arddel esgob Rhufain yn ben arnynt. Bu cynhwrf nid bychan yn yr achos am ynghylch can' mlynedd, nes i Ioan yr Ymprydiwr, esgob Caercystenyn, anturio, mewn cynghor a gynnaliwyd yn y ddinas hono yn y flwyddyn 288, ymaflyd yn y cymeriad o esgob cyffredinol, ac fe gadarnhawyd hyny gan y Cynghor. Ond nid cynt y cyrhaeddodd y newydd glustiau Pelagius, esgob Rhufain, nag yr ymgynhyrfodd yn erbyn y mesur yn aruthrol, gan ei alw yn benderfyniad melldigedig, halogedig, ac uffernol; ond ni chafodd ei ddedfryd nemawr o sylw, ac efe a fu farw yn fuan wedi hyny.

Fe'i cenlynwyd ef gan Gregory yn y gadair esgobaethol, yr hwn a ysgrifenodd lythyr llawn o ddyfais at yr ymerawdwr Mauricius, yn yr hwn y mae yn collfarnu rhyfyg Ioan, am ei fod wedi honi uchafiaeth gyffredinol, a than rith gostyngeiddrwydd yn cwyno yn fawr am fod y fath uchelgais wedi ymddangos; ond heb anghofio ar yr un pryd i honi y flaenoriaeth i eglwys Rhufain, am fod gofal yr eglwys efengylaidd wedi ei chyflwyno i Pedr fel blaenor yr apostolion. Mae llythyr Gregory yn gampus o ran cyfrwysdra, ac yn rhoddi golwg gywir ar yr ysbryd oedd yn llywodraethu yn mhlith yr esgobion, ond y mae yn rhy faith i gael lle yn ein hanes dalfyredig. Nid yw yn ymddangos i'r llythyr hwn gael llawer o effaith, oblegyd er i Ioan farw yn fuan wedi hyny, fe hawliodd Cynacus, ei ganlynydd, yr un flaenoriaeth fel esgob cyffredinol. Ond pan driniwyd cenhadau Caercystenyn yn lled ddiystyrllyd yn Rhufain, fe anfonodd yr ymerawdwr lythyr at Gregory, yn yr hwn y mae yn ei gynghori i beidio gwneuthur felly yn mhellach, ac i ymatal rhag cweryla ynghylch enw, nac i ymgystadlu am sillafau; i'r hyn yr atebai Gregory, nad oedd y cyfeiliornad yn ymddibynu ar sillafau, ond fod pwys y drygioni yn ddigon i suddo pawb, a'i fod yn hyf i dystiolaethu fod y neb a ymgeisiai am esgobaeth gyffredinol yn meddu balchder a chymeriad Anghrist.

Ond er fod Gregory yn collfarnu pob ymgais am esgobaeth gyffredinol, yr oedd ar yr

un pryd yn arfer awdurdod nad oedd yn perthyn i un cymeriad arall; ac mae yn fwy na thebyg mai achos yr holl gwyn oedd, fod un heblaw esgob Rhufain yn anturio honi y flaenoriaeth. Wedi marwolaeth Gregory, yn y flwyddyn 604, esgynodd Boniface III. i'r gadair babaidd. Nid oedd hwn yn petruso o barth y priodoldeb o wisgo enw esgob cyffredinol, oblegyd yr oedd y drws yn agor iddo i gyrhaeddyd yr aurhydedd hyny ei hun. Yr oedd yr ymerawdwr Phocas yn awr yn teyrnasu, ac yn ddyn ofer a drygionus, ac fel y cyfryw yn hawdd i'w ddarbwyllo i gwympo i mewn ag amcanion gweuieithwyr. Llwyddodd Boniface gyda yr ymerawdwr yn ei gais, a difreiniwyd Esgob Caercystenyn, a gwisgwyd esgob Rhufain â chymeriad Pen Cyffredinol yr eglwys Gristionogol yn y flwyddyn 606. Fel hyn y daeth y Dyn Pechod i'w nerth, i eistedd fel Duw yn ei deml, ac i reoleiddio mesurau eglwysig a gwladol holl Ewrop yn ol ei ddyfais ei hun, ac o hyn allan cawn achos yn fynych i son am weithrediadau rhyfygus a thra-arglwyddiaethol y Pab, drwy y rhai y darostyngwyd gwir ddysgyblion Crist i drallod a dyoddefiadau anuhraethadwy.

Yn y tymhor hwn yr oedd proffes o Gristionogaeth yn helaethu drwy nerth yr awdurdodau gwladol, ac amryw lwythau yn ymresu mewn enw yn mhlith canlynwyr Crist, er mwyn ennill manteision bydol, heb wybod dim am egwyddorion yr efengyl, a'r amcan mawr mewn golwg gan y rhan fwyaf o'r cenhadon oedd dwyn yr holl fyd i gydnabod esgob Rhufain fel prif-swyddog Duw, a phen yr holl eglwys. Yr oedd y tywysogion oll yn barod i gwympo i mewn â'r gyfundraeth, am eu bod yn cael cynorthwyon oddiwrth y Pab i gyrhaeddyd eu hamcanion eu hunain; a'r Pab o'r tu arall yn barod i gefnogi eu hymgeisiadau hwythau, pan fyddai hyny yn tueddu i wasanaethu ei amcanion uchelfrydig ei hun; ac fel hyn yr oeddent yn cynorthwyo eu gilydd ar egwyddorion llygredig, nes oedd esgob Rhufain yn meddu ar gymmaint dylanwad, fel nad oedd braidd un mesur gwladol yn Ewrop yn cael ei ystyried mewn grym nes byddai wedi cael cymeradwyaeth y Pab. Dan y fath amgylchiad nid ydyw yn un rhyfeddod ein bod yn clywed am genedloedd yn derbyn yr efengyl, oblegyd nid oedd y cyfnewidiad ddim amgen na chydnabod y Pab yn ben, na'r egwyddorion ddim gwell na dyfais ddynol; ac fel y gallesid dysgwyl, nid oedd ffrwyth y cyfnewidiad ond coel-grefydd a thraws-arglwyddiaeth.

Yr ydym wedi nodi yn hanes y canrhif blaenorol, fod Gregory, esgob Rhufain, wedi anfon Awstin a'i gyfeillion i bregethu i'r Saeson, ac i nifer o honynt gael eu bedyddio i'r ffydd. Hyd yma, er fod y Brytaniaid wedi ymdebygoli i eglwysi y Cyfandir mewn llawer o'u defodau crefyddol, nid oeddent wedi syrthio i holl ddirywiad eglwys Rhufain, nac yn cydnabod y Pab yn ben cyffredinol ar yr eglwys. Ni ddiangodd hyn o olwg Awstin, a chan ei fod wedi llwyddo i ennill brenin Cent, a rhan fawr o'i ddeiliaid o'i du, penderfynodd i ddwyn esgobion Cymru i gydsynio â'r gyfundraeth babaidd, ac i ymostwng i esgob Rhufain fel eu pen. I'r dyben hyn, anfonodd atynt, i ddymuno arnynt gyfarfod ag ef mewn cymanfa ar gyffiniau swydd Gaerwrangon, mewn man anadnabyddus wedi hyny, dan yr enw Derwen Awstin. Gwedi cyfarfod yn y lle, ac ar yr amser gosodedig, Awstin a ddechreuodd ymresu â'r Cymry, gan eu cynghori i roddi ufudd-dod i'r Pab, a derbyn y ffurf o athrawiaeth oedd mewn ymarferiad yn eglwys Rhufain. Ond nid oedd dim a ddywedai yn ddigonol i ddenu y Brytaniaid i gwympo i mewn â'i ddymuniad; a chan nad oedd ond nifer fechan o'r esgobion yn bresennol, hwy a gytunasant i gynnal ail gyfarfod ar yr un achos, ac yn yr un lle. Pan ddaeth amser y cyfarfod hwnw, yr oedd saith o esgobion y Cymry yn wyddfodol, sef esgob Caerwrangon, esgob Henffordd, esgob Llandaf, esgob Llanbadarn-fawr, esgob Bangor, esgob Llanelwy, ac esgob Caergybi; ynghyd a Dynod Fawr, a lluaws o athrawon o'r Deheudir a Gwynedd.

Pan ddaethant ynghyd, Awstin a'u derbyniodd yn ei wisg archesgobaethol gyda llawer o rwysg a rhodres, ac a'u cymhellodd fel o'r blaen i ymostwng i awdurdod y Pab; pryd y safodd Dynod Fawr i fynu, ac a'i hatebodd fel hyn: "Bydded hysbys i chwi ein bod ni oll yn ufudd ac yn ostyngedig i eglwys Dduw ac i eglwys Rhufain, a phob gwir Gristion, a'n bod yn cofleidio pawb yn ol eu gradd mewn cariad perffaith, ac yn barod i'w cynorthwyo mewn gair a gweithred i fod yn blant i Dduw; ac ni wn i fod un ufudd-dod amgenach na hwn yn ddyledus i'r hwn ydych chwi yn ei alw yn Bab, neu Dad y tadau, a'r ufudd-dod hwn yr ydym ni bob amser yn barod i'w roddi iddo ef a phob Cristion arall: heblaw hyn, yr ydym ni dan lywodraeth esgob Caerlleon-ar-Wysg, yr hwn sydd olygwr dan Dduw arnom ni, i wneuthur i ni gadw y ffordd ysbrydol." Pan glywodd Awstin hyn efe a ddywedodd wrthynt fel y canlyn: "Er eich bod yn gwneuthur llawer o bethau yn anghysson â'r defodau a dderbynir genym ni, a chydsyniad yr eglwys gyffredinol; eto os bydd i chwi gadw y Pasg yr un amser a ninau, a rhoddi Cristionogaeth idd eich plant yn ol defod eglwys santaidd ac apostolaidd Rhufain, ac uno â ni i bregethu yr efengyl i'r Saeson, chwi a gewch adgyweirio y gweddill yn eich plith eich hunain." Ond ni fynent hwy wneuthur dim o'r pethau hyn, na chydnabod fod iddo unrhyw awdurdod arnynt, ac yntau a atebodd iddynt, "Gan nad ydych foddlon i fyw mewn heddwch â'ch brodyr, yr ydych yn debyg o gael rhyfel â'ch gelynion; a chan na phregethwch chwi ddim o ffordd y bywyd i'r Saeson, chwi gewch ddyoddef cosb marwolaeth drwy eu dwylaw hwynt." *Fabian's Chron., Part V., p.* 115—146. *Bede L II., chap.* 2. *Ivimy's Hist. Eng. Bapt., Vol. I., Cent. VI., p.* 42.

Mae lluaws o sylw wedi ei wneuthur ar yr ail erthygl yn nghynnygiad Awstin, a gwahanol gasgliadau wedi eu tynu oddiwrtho, ac nid yw pawb yn ei gyfieithu yn yr un ffordd; ond ar y cyfan mae pawb yn gorfod cydnabod fod rhyw wahaniaeth amlwg rhwng y Brytan-

iaid ag eglwys Rhufain yn benaf o barth yr ordinhad o fedydd. Yr oedd yn hawdd canfod ar ddiwedd y cyfarfod fod Awstin yn bwriadu dial ar y Brytaniaid am eu hanufudd-dod i ewyllys y Pab, ac i'w drefniant ei hun, ac yn fuan wedi hyny fe gynhyrfodd Ethelred, brenin Northumberland, i ymosod ar y Cymry, yr hwn a gasglodd fyddin luosog, ac a wersyllodd yn nghymmydogaeth Caerlleon-ar-Ddyfrdwy. Er i Brochwel, tywysog Powis, ddeisyf ammodau heddwch, ni thyciodd dim i atal ei fwriad nes iddo ddinystrio Bangor-Is-Coed, a lladd yr holl fonachod anarfog, oddieithr cymmaint a hanner cant a ffoisant am eu heinioes gyda Brochwel. Tro anffodus oedd hwn i ddysgedigion yn mysg y Cymry, yn gymmaint ag i'r holl lyfrau perthynol i'r Fonachlog, yn gystal a'r adeilad, fyned yn anrhaith. Ond nid hir y bu yr anrheithwyr yn ddigosp, oblegyd ymgasglodd tywysogion Deheu a Gwynedd yn eu herbyn, ac a laddasant ddeng mil o honynt, ac a ymlidiasant y gweddill nes iddynt groesi afon Humber.—Ond yr oedd Bangor wedi ei dymchwelyd, y fonachlog wedi ei dinystrio, y llyfrau wedi eu llosgi, a'r gwyr dysgedig oeddent wedi sefyll mor wrol yn erbyn egwyddorion eglwys Rhufain, wedi eu llofruddio yn ddidrugaredd. Mae yn wir fod y Papistiaid, er am ddiffyn cymeriad Awstin, yn dweyd mai yn y flwyddyn 613 y cymerodd yr ymladdfa hon le, ac fod Awstin wedi marw cyn hyny; ond y mae esgob Godwin ac awduron cymeradwy eraill yn eu hamseru yn y flwyddyn 603, ac yn tystio ei fod yno ei hunan yn anog y galanastra; ac ar y cyfan, mae yn ymddangos yn lled sicr mai ymosodiad dialeddol oedd hwn ar y Brytaniaid, am eu gwaith yn gwrthod y gyfundraeth Babaidd, ac nid dim arall. *Godwin's English Bishops*, p. 45, 46.

Wedi i'r Saeson dderbyn y gyfundraeth Babaidd oddiwrth Awstin a'i gyfeillion, nid oedd neb yn fwy selog na hwy am ei thaenu drwy bob goror, nac yn fwy parod i gymeradwyo yr holl ddefodau llygredig oedd yn ei chyfansoddi; ac yr oeddent yn barnu fod y Cymry mewn cyfeiliornad mawr, am eu bod yn ymwrthod ag awdurdod y Pab, ac yn anghymeradwyo defodau Eglwys Rhufain, ac o herwydd hyny hwy a benderfynasant yn unfrydol i ymdrechu eu dwyn i'r un feddwl â hwy eu hunain. I'r dyben hyn hwy a ddymunasant ar Aldelm, yr hwn oedd Abad enwog yn eu plith, i ysgrifenu at Gerentius, tywysog Cerniw, i ddeisyf arno wneuthur ei oreu i ddwyn esgobion Cymry i gyd-ffurfio â defodau Eglwys Rhufain, ac yn neillduol i'r gweinidogion eillio eu penau yn ol eilliad St. Pedr, a chadw y Pasg ar yr amser gosodedig, ac uno mewn brawdgarwch â'r Saeson. Heb hyn yr oeddent yn hysbysu y tywysog, nad oedd eu gobaith am iachawdwriaeth ond ofer, er eu bod yn dal yr athrawiaeth yn ei phurdeb, gan mai Pedr oedd Ceidwad yr allweddau, ac nad oedd mynediad i baradwys Dduw i neb a anghydffurfient â mesurau yr eglwys oedd sylfaenedig ar ei awdurdod ef a'i ganlynyddion. Fe wnaeth Gerentius yn ol eu cais, gan ei fod yn ymddibynol i ryw fesur ar Inas, brenin y Saxoniaid gorllewinol, a dywedir i rai o'r Brytaniaid ar gyffiniau y Saeson gymeryd eu darbwyllo i gwympo i mewn â'r cynnygiad; ond am y Cymry yn gyffredinol, ymwrthod a wnaethant ag eglwys Rhufain am rai blynyddau wedi hyn, ac ymlynu yn ddiysgog wrth egwyddorion anymddibyniaeth.

Yr un mesurau oedd yn cael eu defnyddio yn awr drwy holl dalaethau gorllewinol Ewrop i daenu yr hyn a elwid yn grefydd Gristionogol, ond yr hyn, mewn gwirionedd, nid oedd amgen nag awdurdod y Pab, a defodau coel-grefyddol eglwys Rhufain. Er ein bod yn clywed am ddychweliad y Saeson, a llawer o lwythau eraill i'r ffydd, drwy offeryngarwch y monachod, eto nid drwy nerth arfau ysbrydol yr oedd y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen, eithr trwy ddylanwadau tywysogion y ddaear, heb ddim amgen mewn golwg ganddynt na sicrhau eu gorseddau a rhwyddhau eu hamcanion gormesol ac uchelfrydig. Ac nid oedd cyflwr moesol y dychweledigion nemawr yn well nag o'r blaen, ond yn unig eu bod wedi newid enw gwrthddrych eu haddoliad; ac fel y cyfryw, mewn cyflwr i wneud mwy o niweid i achos Crist, drwy ei ddwyn yn mlaen ar egwyddorion anysgrythyrol, a'i agweddu yn hollol anghydweddol â'i amcanion cyntefig. Gellir dywedyd fod Pabyddiaeth mewn gweithrediad lled gyffredinol drwy holl Ewrop, cyn diwedd y canrhif hwn, a'r trigolion yn eistedd mewn tywyllwch, ac ar yr un pryd yn cael eu dysgu i gredu eu bod, wrth gydnabod awdurdod y Pab, ac ymddyried yn yr offeiriadaeth, yn dyogelu iddynt eu hunain yr hyn a'u gwnai yn ddedwydd am byth; er eu bod yn hollol amddifad o bob rhinwedd ysbrydol, yn byw mewn anwybodaeth am ffydd yn Nghrist a santeiddrwydd buchedd.

Yr oedd cyflwr Cristionogaeth yn y dosbarth dwyreiniol o'r byd yn hynod am raniadau yn y canrhif hwn. Er fod yr esgobion wedi barnu fod cydnabod esgob Rhufain fel pen cyffredinol, yn tueddu i uno yr holl gorff, cawsant ganfod yn fuan eu bod yn gamsyniol, o leiaf, yn y dwyrain. Yr ydym wedi cael achos i nodi yn flaenorol fod y Groegiaid wedi ymranu lawer gwaith, ond yn y canrhif hwn y cymerodd rhwygiad le nad oedd dim mor anffodus wedi bodoli o'r blaen. Tua'r fl. 630, cymerodd yr ymerawdwr Heraclius y gwaith mewn llaw i uno'r pleidiau. Yr achos a'i cymhellodd i hyn ydoedd y golled nag oedd wedi dygwydd i'r ymerodraeth drwy symudiad y Nestoriaid i Persia; ac yr oedd yn ofni y gwnai y Monophysiaid, am y rhai yr ydym wedi son o'r blaen, yr un peth. I atal hyn, ymgynghorodd â'r esgobion ynghylch y pwngc dadleugar, sef undeb y ddwy natur yn mherson Crist, ac fe'u cafodd, fel y meddyliodd, yn foddlon i gyduno, ond i'r naill blaid fel y llall gydnabod nad oedd ynddo ond un ewyllys ac un gweithrediad. Yn y canlyniad, cyhoeddodd ysgrifen ymerodrol, i rwymo pawb i gydnabod hyny, a barnodd ei fod wedi llwyddo. Ond yn fuan canfyddodd ei fod yn gamsyniol, oblegyd cyfododd Sophronius blaid luosog yn erbyn y penderfyniad ymerodrol; ac er cyhoeddi cyfraith ar ol

cyfraith, a chynnal cynghor ar ol cynghor yn yr achos, parhau wnaeth y terfysg, nes oedd y Cristionogion Groegaidd yn y cyflwr mwyaf anghysurus a rhanedig a ellir ei ddarlunio.

Pan oedd yr eglwys gyffredinol wedi ymadael fel hyn oddiwrth yr efengyl, a'r Cristionogion yn ymgystadlu am byngciau anorphen, ac yn ymddyrysu mewn cyfeiliornadau ymarferol, cyfododd y twyllwr Mohammed i sefydlu crefydd newydd, wahanol oddiwrth bob peth ag oedd yn bodoli o'r blaen. Mae yn wir nad oes un berthynas hanfodol rhwng y Cristionogion â Mohammetaniaeth; ond, er hyny, effeithiodd sefydliad y gau-grefydd hon amgylchiadau y Cristionogion i raddau helaeth iawn, fel mae yn lled anhawdd cofnodi hanes Cristionogaeth heb roddi golwg ar gymeriad y cyfeiliornad sydd wedi ymdaenu mor belled, hyd y nod dros wledydd lle bu crefydd Crist yn flodeuog ac yn llwyddiannus yn yr oesoedd boreuol. Ond ni ddylai y darllenydd gyfrif Mohammetaniaeth yn llygriad o'r grefydd Gristionogol, eithr yn gyfundraeth wrthwynebol iddi, ac yn hollol wahanol oddiwrthi yn ei hegwyddorion sylfaenol; a'r unig reswm am fod cyfodiad y cyfeiliornad hwn yn cael ei ragfynegu ar udganiad y chweched angel, yn llyfr y Datguddiad, yw, ei fod yn effeithio mesurau yr eglwys, ac yn gwrthsefyll ei llwyddiant.

Dyn genedigol oedd Mohammed o ddinas Mecca, yn Arabia, lle y ganwyd ef tua y fl. 571. Nid yw yr hyn a ddywedir am dano yn ei febyd a'i ieuengctyd, gan ysgrifenwyr Arabaidd, yn haeddu llawer o hyder. Bu ei dad, Abdalla, farw pan nad oedd ei fab ond maban, ac fe'i hamddifadwyd o'i fam Amena, hefyd, pan yn chwech mlwydd oed. Ac fel hyn syrthiodd i ddwylaw ei ewythr, yr hwn a'i dygodd i fynu yn dyner ac yn garedig. Pan yn llangc tair ar ddeg oed, aeth gyda ei ewythr i Syria, i amcanion masnachol, ac ymddengys fod iddo alluoedd da at yr alwad hyny; oblegyd yn mhen tymhor aeth i'r un wlad fel goruchwylydd i weddw gyfoethog, o'r enw Kadijah, yn ninas Mecca, a gwerthodd lawer o'r nwyddau yn llwyddiannus iawn yn marchnadoedd Bozra a Damascus. Yr oedd ei ymddygiad mor foddhaol i'w feistres, fel y cydsyniodd â'i ddymuniad, ac a ymbriododd ag ef, pan oedd Mohammed yn bum' mlwydd ar ugain oed; er fod y wraig y pryd hyny yn ddeugain. Dywedir iddynt fyw yn gariadus nes bu Kadijah farw, yn ei thri ugain a phedair oed.

Trwy ei briodas cyfododd i gydraddoldeb â'r rhai mwyaf cyfrifol o ddinasyddion Mecca, a bernir i hyn roddi pwys i'w syniadau, a'i gynorthwyo i dynu sylw at ei grefydd newydd. Nid ydym yn cael hanes am un peth hynod yn ei ddull o fucheddu nes oedd tua deugain oed, pryd yr ymroddodd ar unwaith i ryw fath o fyfyrdodau crefyddol. Dywedir ei fod yn ymneillduo i ogof yn mynydd Hara, gerllaw Mecca, ac yn treulio rhan fawr o'i amser yno; lle y tystiai wrth ei wraig a'i ddysgyblion, ei fod yn derbyn ymweliadau yr angel Gabriel. Ond wedi y cyfan, nid oedd yr ymweliadau hyn yn ateb un dyben mawr, yn gymmaint ag nad oedd yr hysbysiadau a dderbyniodd yn ol ei dystiolaeth ei hun, yn fwy pwysig, o ran buddioldeb, na'r hyn a allasid gael drwy offeryngarwch cenad llai ei urddas, ond ar nos y drydedd ar ugain o fis *Ramadan*, y disgynodd y Koran, fel y dywedir, o'r seithfed nefoedd i'r un iselaf, pryd y canfyddodd genad Duw mewn dysgleirdeb mawr, sef yr angel Gabriel, yr hwn oedd yn ymddangos i gyhoeddi newyddion gorfoleddus iddo. Yr oedd cymmaint o oleuni dysglaer yn ei amgylchynu, fel nad oedd Mohammed yn alluog i syllu yn graffus arno, nes iddo wisgo agwedd ddynol, pryd y dywedodd wrtho, "O Mohammed, tydi yw apostol Duw, a myfi yw yr angel Gabriel. Darllen," ebe yr angel. "Nid wyf yn alluog i hyny," ebe y proffwyd annysgedig. "Darllen," ebe yr angel drachefn, "yn enw yr Arglwydd, yr hwn a greodd bob peth; yr hwn a greodd ddyn o waed ceuladwy; yr hwn hefyd a ddysgodd ddyn i ddefnyddio pin ysgrifenu, a'r hwn hefyd a ddysg i ddyn beth nid yw yn ei ddeall." Yna darllenodd y newyddion cuddiedig a gorfoleddus, o barth ei weinidogaeth ar y ddaear, a'r awdurdod oedd wedi ei dderbyn; ac yna dyrchafodd yr angel yn raddol i'r nefoedd, gyda mawredd a gogoniant rhyfeddol.

Dyma yr hanes a roddai Mohammed am ei awdurdod i sefydlu crefydd newydd; ac yn mhlith ei deulu ei hun y dechreuodd ar ei waith. Y cyntaf o'i ddysgyblion oedd ei wraig ei hun, y nesaf oedd ei was, o'r enw Zeid, a'r trydydd oedd ei gefnder Ali, mab Abu Taleb; ond nid hir y bu heb adgyfnerthiad mwy pwysig, drwy i Abubeker, dinasydd dylanwadol o Mecca, gofleidio ei athrawiaeth, ac ymroddi yn egn'ol i sefydlu ei gymeriad fel proffwyd Duw. Er iddo gyfarfod â pheth gwrthwynebiad oddiwrth ei gyfeillion a'i gymmydogion, yn mlaen yr aeth yn ei amcan, gan haeru yn ddiysgog ei fod wedi ei awdurdodi gan Dduw i sefydlu bodoliaeth y Bod dwyfol, i ddinystrio eilun-addoliaeth o'r byd, ac i alw y teulu dynol yn ol at y Duw byw, gan gyhoeddi paradwys ddedwydd i bawb credinwyr, a dial a gresyndod i bob angbredadyn.

Egwyddorion sylfaenol crefydd Mohammed yw, fod un Duw teilwng o addoliad, ac nad oes neb arall yn haeddu yr un anrhydedd;—ei fod yn angenrheidiol i ymprydio trwy ystod y nawfed mis, yr hwn a elwir gan y Mohammetaniaid *Ramadan;* ond fod yr ympyrdiad yn cael ei gyfyngu i'r dydd, a bwyta yn y nos yn ganiataol;—fod yn rhaid gweddio ar amserau gosodedig bum gwaith yn y dydd, gan droi y wyneb tua dinas Mecca, ac hefyd fod ymolchi yn ofynol cyn gweddio;—fod yn rhaid roddi elusenau i'r tlodion, yn ol y cyfarwyddiadau a roddwyd gan y proffwyd ei hun; ac fod yn ofynol i bob credadyn gymeryd taith i ddinas Mecca un waith yn ystod ei fywyd. Dyma y fath grefydd mewn sylwedd a gymeradwyir y dydd heddyw, gan gymmaint a chwech ugain miliwn o'r teulu dynol; ond ei bod yn cymeryd i mewn nifer fawr o ddefodau; megys enwaedu y plant gwrywaidd; golchiadau coel-grefyddol; ymwrthod â chig moch, a gwaed, a'r pethau a dagwyd;

ac uwchlaw pob peth arall, i gydnabod Mohammed fel proffwyd ac apostol anffaeledig Duw.

Un pwngc yn nghrefydd Mohammed o'r dechreuad oedd, ei fod yn gyfreithlon ac yn rhwymedigaethol i bob gwir gredadyn ddefnyddio ei nerth er rwymo pawb i dderbyn y grefydd oedd yn cael ei dysgu gan yr hwn a gydnabyddent yn awr fel cenad y Duw byw. Ond yr oedd Mohammed yn rhy gyfrwys i arfer un mesur gormesol i'r amcan hwnw, nes oedd mewn cyflwr i wneuthur hyny yn fuddugol; ac felly aeth yn mlaen am dymor, heb son am gleddyf y swyddog o'i du; ond tar yr un pryd yn effeithio dychryn ar galonau ei gydamserwyr hygoelus, drwy fygwth poenau arteithiol yn y byd dyfodol i'r neb na chredai ei dystiolaeth yn ddiysgog. Er i drigolion Mecca gyfodi unwaith yn ei erbyn, fel y gorfu iddo ffoi o'r ddinas, yr oedd ei ddysgyblion mor selog yn eu hymlyniad wrtho, fel yr oeddent yn barod i aberthu eu bywydau o'i du. Pan ganfyddodd hyn, daeth allan yn ei wir gymeriad, fel apostol milwraidd, gan ddysgu mai ewyllys Duw oedd i bawb ffyddloniaid ymladd yn wrol o blaid eu crefydd, gan fod yn hyderus, os aberthent eu bywydau yn y fath ymgais, y caent dderbyniad groesawus i baradwys, a mwynhau pob dedwyddwch yno a ddymunai dyn anianol ei gael.

Trwy nerth y cleddyf a thwyll ei athrawiaeth, llwyddodd mewn ugain mlynedd i ddwyn Arabia oll dan ei lywodraeth dymhorol a chrefyddol; ac wedi ei farwolaeth, bu ei ganlynyddion yn llawn mor llwyddiannus i ddarostwng llwyth ar ol llwyth, a chenedl ar ol cenedl, fel, cyn diwedd y seithfed canrhif, yr oeddent wedi sefydlu ymerodraeth oedd yn ymdaenu dros ran fawr o'r dwyrain, ac yn bygwth Ewrop hefyd â chaethiwed a gresyndod. A chan mai sefydlu crefydd Mohammed oedd prif amcan yr holl ymosodiadau gwaedlyd a gymerasant le yn y tymhor dychrynllyd hwn, mae yn hawdd meddwl i'r Cristionogion a ymlynent wrth eu proffes ddyoddef hyd farwolaeth, ac i nifer fawr syrthio i gyfeiliornadau y gau-broffwyd, er mwyn dyogelu eu heinioes; ac mewn amser, ymdaenodd y gau-grefydd Fohammetanaidd dros holl Arabia, yr Aifft, ac Asia Leiaf, yngnghyd a Syria, a Phersia, a llawer o wledydd eraill, nes i Gristionogaeth ddarfod yn hollol mewn amser o honynt, a chael ei darostwng i gyflwr mor isel yn y rhai eraill, fel nad oedd yn eu plith ond rhith duwioldeb, wedi gwadu ei grym, ac enw o fod yn fyw pan mai meirw oeddent.

Dirywiad y Cristionogion, a'u hymadawiad oddiwrth egwyddorion yr efengyl, a agorodd ffordd i dwyll Mohammed i ymdaenu mor gyflym; a gellir edrych ar gyfodiad y gau-grefydd hon fel barn ar y byd am wrthod y gwirionedd oedd addas i'w fuddioli. Mae hyd yma yn ansicr pa fesur o wybodaeth oedd gan Mohammed am ysgrifeniadau y Testament Newydd; ond mae pawb yn cydnabod ei fod yn hyddysg yn y gweithiau ffugiol oedd wedi eu taenu, a'u priodoli naill ai i'r apostolion eu hunain, neu i'w cyd-lafurwyr, am y rhai yr oeddent wedi son yn gymeradwyol. Yr oedd yr arferiad tywyllodrus o ysgyfenu pethau o'r fath, i amcanion llygredig, wedi ffynu oddiar ymadawiad y Cristionogion â'r gyfundraeth gyntefig; ac nid rhyfedd, os hyn a dueddodd Mohammed ar y cyntaf i feddwl am gyfansoddi ei gyfundraeth ryfygus. Modd bynag, mae yn amlwg, nad oedd Mohammed yn deall egwyddorion crefydd Crist, neu ynte ei fod yn penderfynu ei cham-ddarlunio, er ei fod mor amlwg a hyny nad oedd yn hollol anhysbys o'i chynnwysiad, oblegid cymysgfa yw y Koran o Iuddewiaeth, a syniadau y Saracenaid paganaidd, a chyfeiliornadau hereticiaid yn mhlith y Cristionogion, a'r cyfan wedi ei gymwys i ateb archwaeth dyn llygredig ac anianol. Yr oedd y Cristionogion wedi bod yn ymgyssylltu â'u gilydd, ac yn ysgryfenu epistolau ffugiol, yn enw gweision difrifol Crist, er cymeradwyo eu dychymmygion ofergoelus eu hunain; ond yn awr, wele archdwyllwr yn dyfod allan, ac yn rhyfygu i roddi sêl Duw wrth ei amcanion uchelfrydig ei hun. Yr oedd y Cristionogion wedi tywallt gwaed eu gilydd yn eu gwaith yn amddiffyn defodau yr offeiriadaeth; ac yn awr, wele luoedd aneirif yn ymfyddino i ladd a llosgi y neb a wrthodai gyfrol o gyfeiliornadau, wedi eu gwisgo ag enw dadguddiad oddiwrth Dduw; ac yr oedd y byd wedi gwrthod y newyddion da am iechawdwriaeth rasol i'r rhai euog ac annheilwng, ac wedi troi at ofersain a defodau coel-grefyddol; ac yn awr, wele y tymor i'r byd gael ei felldithio â'r cyfeiliornad creulonaf yn holl hanes cenedloedd y ddaear.

Ond er mai tymor tywyll oedd y canrhif hwn, nid ydym i fanou nad oedd gan Dduw eglwys o ffyddloniaid eto ar y ddaear. Mae yn wir nad ydym yn clywed nemawr am weithrediadau y Novatiaid a'r Donatiaid, mewn cymhariaeth i'r canrhifoedd blaenerol; ac nid yw hyn yn un rhyfeddod, oblegid yr oeddent yn gorfod ymguddio oddiwrth lid eu caseion; ond er eu bod yn cael eu dystewi drwy ormes, yr oeddent eto yn bodoli, ac mae lle i feddwl fod yn mhlith y Nestoriaid dduwiolion lawer; ac er cymmaint gelyniaeth y Mohammetaniaid yn erbyn y Cristionogion yn gyffredinol, yr oedd y Nestoriaid yn sefyll mor uchel o ran cymeriad, fel y barnodd Mohammed, ei hun, yn addas i gyhoeddi ysgrifen goddefiad, er diogelu eu llonyddwch. Canlynwyd ei siampl gan Omar hefyd, ac yn y canlyniad, bu y Nestoriaid yn mwynhau mwy o freintiau nag un blaid arall o Gristionogion mewn gwledydd Mohametanaidd am dymor hir. Yr oedd hefyd bleidiau eraill wedi cyfodi yn mhlith y Groegiaid nad oeddent wedi darfod, er ei fod yn anhawdd ffurfio barn gywir am eu cymeriad crefyddol, o herwydd fod cymmaint o'u hanes ag sydd wedi disgyn i'n dwylaw ni wedi deillio drwy offeryngarwch eu gelynion. Yr ydym wedi son am rai o honynt yn barod, megys, Aerius, a'i gyd-ddysgyblion; ac mae yn lled amlwg fod yr ymneillduwyr yn lluosogi fel yr oedd y dirywiad yn cynyddu, ond eu bod yn aml yn gorfod ymdawelu mewn dirgelwch, am nad oeddent allnog i wrthsefyll dylanwad y blaid lywodraethol.

Yn y canrhif tywyll hwn y cyfododd y ...

adnabyddus dan yr enw Paulisiaid, ac mae eu hanes yn deilwng o sylw y darllenydd, er eu bod fel y pleutiau eraill, wedi eu rhesu gan hanesyddwyr eglwysig, yn mhlith hereticiaid, am eu bod yn gwrthod penderfyniadau dynol, ac yn collfarnu trais yr eglwys esgobaethol, yn hytrach nag am ddim arall. Ond y mae eu hanes o angenrheidrwydd, yn anmherffaith, o herwydd tywyllwch yr oes, a chan ddarluniad y rhai a'u gwrthwynebent gyda ffyrnigrwydd a chyfrwysdra digymwad.

Tua y flwyddyn 653, yr oedd dyn o'r enw Constantine, yn anedd yn ninas Mananalis, yn Armenia. Er nad oedd ond isel o ran ei amgylchiadau, mewn cymhariaeth i lawer o'i gymydogion, yr oedd yn arfer lletygarwch. Ar ryw ddiwrnod, galwodd gŵr dyeithr arno, yr hwn oedd wedi bod yn garcharor, yn nwylaw y Saraceniaid, yn Syria; ond yr awr wedi cael rhyddhad drwy ryw foddion, yr oedd ar ei daith yn dychwelyd adref. Cafodd dderbyniad croesawus, ac ymgeledd am ychydig ddyddiau, yn nhŷ Constantine, ac fe'n bysbysir ei fod yn Gristion diffifol, ac wedi bod yn dal swydd diacon mewn eglwys Gristionogol. Mae yn hawdd meddwl ei fod yn ystod ei arosiad wedi ymddyddan â'i ymgeleddwr am achos crefydd, pan oedd y fath gyfeiliornad ysgeler, ag eiddo Mohammed yn ymdaenu drwy y wlad. Fodd bynag, ar ei ymadawiad, anrhegodd y teulu â dwylaw-ysgrif, yn cynnwys y pedair efengyl, ac epistolau yr apostol Paul. Fe'n darllenwyd gan Constantine gyda diwydrwydd a chymeradwyaeth; ac o'r pryd hwn, taflodd ymaith ei holl lyfrau Manichæaidd, ac a ddechreuodd bregethu athrawiaeth Crist a'i apostol.

Mae y rhan fwyaf o'r hanes sy genym am ddechreuad y blaid hon, wedi ei chael oddiwrth Petrus Siculus, yr hwn a anfonwyd gan yr ymerawdwr Groegaidd, Basil, i Armenia, yn y flwyddyn 870, i drefnu mesurau tuag at newid y carcharorion. Nid rhyfedd, gan hyny, fod llawer o egwyddorion amheus yn cael eu priodoli iddynt; ond wedi y cyfan, mae hyd y nod y dystiolaeth a gyflwynir gan eu gelynion, yn rhoddi sail i gredu fod yn eu plith nifer fawr o ddynion duwiol a difrifol, y rhai a ymestynent i reoleiddio eu ffydd a'u hymarweddiad, yn ol egwyddorion efengyl Crist. Maent yn cael eu cyhuddo o wrthod yr Hen Destament, ond nid oes genym un prawf fod un gyfrol o hono yn eu meddiant, yn eu hamser boreuol, neu eu bod wedi cael cyfleusdra i'w wrthod neu ei gymeradwyo. Dywedir hefyd eu bod yn dal dwy egwyddor sylfaenol y Magiaid, a'r Manichæiaid; ond y mae Mr. Gibbon, yr hwn a ymddengys ei fod wedi chwilio eu hachos yn dra manwl, yn tystio eu bod yn collfarnu coffadwriaeth ac athrawiaeth y Manichæiaid, ac yn ei chyfrif yn anghyfiawnder mawr eu bod yn cael eu gwaradwyddo â'r enw hwnw. Mae y dyfyniad canlynol o waith Gibbon, yn dangos y farn a goleddent am y llygredigaethau oedd yn ffynu ac yn cynyddu yn yr eglwys Babaidd. "Yn erbyn y cyfnewidiadau oedd wedi cymeryd lle yn raddol mewn athrawiaeth a dysgyblaeth, yr oeddent yn ochelgar, o herwydd arferiad ac anghymeradwyaeth, yn gystal ag o herwydd dystawrwydd yr apostol Paul a'r efengylwyr am y fath bethau. Yr oedd y gwrthddrychau ag oedd nerth coelgrefydd wedi newid, yn ymddangos iddynt hwy eto yn eu lliw priodol eu hunain. Yr oeddent yn dirnad nad oedd delw ond gwaith dwylaw celfyddydwr, i ddyfais yr hwn yr oedd y gwarchlen a'r astell yn ddyledus am eu holl harddwch a'u gwerth; nad oedd y gweddillion gwyrthiol ond cruglyn o esgyrn a llwch dirinwedd, difywyd, a diberthynas efallai â'r person i'r hwn yr oeddent yn cael eu priodoli; na'r groes wirioneddol a bywhaol ddim amgen na darn o bren cadarn neu bwdr; na'r hyn a gyfrifid yn gorff a gwaed sylweddol Crist, ond teisen o fara, a chwpanaid o win: rhoddion natur ac arwyddion gras. Yr oedd Mam Duw, yn ol credo y Paulisiaid, yn cael ei darostwng o'i holl fawredd dwyfol, a'i morwyndod difrycheulyd; a'r saint a'r angelion yn cael gorphwys mewn llonyddwch, heb un cais am iddynt ymdraffertha, drwy gyfryngu yn y nefoedd, na gwasanaethu ar y ddaear." (*Decline & Fall, Ch. LIV.*)

Dyma y fath olwg, yn ol Gibbon, oedd gan y Paulisiaid ar sorod yr eglwys Roegaidd a Rhufeinaidd; a phwy all beidio a chymeradwyo eu barn? Yr oeddent yn dal bedydd a swper yr Arglwydd, fel ordinhadau priodol i gymdeithas y ffyddloniaid; ac nid oedd un gwahaniaith yn cael ei gydnabod rhwng eu hathrawon a'r aelodau cyffredin, angen na'u bod yn gwisgo rhyw enw ysgrythyrol, ond yn mhob peth arall yr oeddent yn eu cydnabod eu hunain yn gyd-bererinion; ond fod rhai o honynt yn blaenori mewn zêl, sêl, a rhinweddau ysbrydol, ac fel y cyfryw, yn cael cymeradwyaeth gyfatebol; ond yr oeddent yn ymwrthod yn benderfynol â chyfoeth ac anrhydedd yr offeiriadaeth Babaidd. Yr oeddent yn edrych ar rodres yr esgobion fel balchder Anghrist ac yn beio y gradd o Henuriadaeth fel gosodiad o eiddo y synagog Iuddewig. Trwy lafur Constantine, yr hwn a wisgai yr enw Sylvanus yn awr, casglwyd dysgyblion lawer, ac fe'n hunwyd yn gymdeithasau eglwysig mor agos ag y gallent, yn ol cynllun y Testament Newydd: ac fe'n hysbysir fod chwech o'r rhai hyn yn cael eu henwi yn ol enwau yr eglwysi at ba rai yr oedd yr apostol Paul wedi cyfeirio ei epistolau, sef Rhufain, Corinth, Ephesus, Colossa, Philipi, a'r Thessalonica; a'u bugeiliaid yn cael eu galw Titus, Timothy, Justus, Tichicus, a Sylvanus, yn ol enwau y gweinidogion oeddent wedi llafurio yn yr eglwysi hyny. Ac fel hyn, yn ol barn Gibbon, yr oeddent am gynnal coffadwriaeth am y llafurwyr cyntefig, a chyffroi yr un sêl yn eu plith eu hunain ag oedd yn nodweddu gweinidogion yr oes apostolaidd.

Pan oeddent wedi ymdaenu yn mhell ac yn agos drwy dalaethau Asia Leiaf, a thrwy yr holl ardaloedd o du y gorllewin i afon Euphrates, brawychodd yr offeiriaid, ac fel arfer, hwy a alwasant am gymhorth yr awdurdodau gwladol i ddystewi pa'id oedd yn dynoethi eu twyll, ac yn debyg o iselhau eu cymeriad yn marn y cyffredin. Yn y canlyniad, fe'n herlidiwyd gan yr ymerawdwyr Groegaidd, gyda ffyrnigrwydd creulon; a chanfyddwyd yr un fath ddyoddefiadau ag oedd yn ffynu yn amser Galarius a Maximin yn syrthio

i ran y Paulisiaid, dan gyfarwyddyd treiswyr a'u henwent eu hunain ar enw Crist. Wrth son am yngais yr ymerawdwyr i'w difodi, mae Petreus Siculus yn nodi fod yr ymerawdwyr defosiynol ac uniawn-gred, wedi ychwanegu y rhinwedd hon, sef iddynt orchymyn dihenyddio y Montaniaid a'r Manichæaid (gan feddwl y Paulisiaid), fel troseddwyr cyhoeddus, a llosgi eu llyfrau oll; ac os caent allan fod neb yn anturio i'w celu, fod i'r cyfryw gael ei ddihenyddio, a'i feddiant i fyned yn yspail. Beth yn rhagor, ebe Giddon, a allasai penboethder ddymuno.

Anfonwyd swyddwr Groegaidd, o'r enw Simon, wedi ei wisgo ag awdurdod milwraidd, i Coronia, i'r dyben i ddal a chosbi Constantine Sylvanus, a dwyn yn ol ei ddysgyblion i fynwes yr eglwys Babaidd Gyda math o greulonder annaturiol, wedi iddo gael gafael yn y bugail; gorchymynodd ei osod ar gyfer rhes o'i ddysgyblion, ac yr oedd pob un o honynt yn cael ei rwymo i'w daro â maen, er ei labyddio, fel yr unig ffordd i ddiogelu ei fywyd ei hun, a'r unig brawf derbyniol o edifeirwch; ond yn eu plith, ni chafwyd ond un a wnai hyny. Enw hwn oedd Justus, ac wedi iddo lofruddio y bugail, bradychodd nifer fawr o'r praidd diniweid; ac wedi eu casglu ynghyd, cawsant eu llosgi yn ol gorchymyn yr ymerawdwr Justinian; ond ni fu hyn yn hollol ddieffaith, oblegid Simon (canys dyna enw y swyddwr,) wrth weled fel yr oedd y Paulisiaid yn dyoddef am eu crefydd, a gofleidiodd eu hachos yn y diwedd, ac a roddodd i fynu ei holl anrhydedd, er mwyn cydwybod; ac yn mhen cymmaint a thair blynedd wedi hyn, yr ydym yn ei gael yn bregethwr llafurus yn mhlith y Paulisiaid, ac yna yn llanw lle Constantine Sylvanus, y'merthyr oedd wedi dyoddef ei ddedfryd greulon, ac yn y diwedd yn selio ei dystiolaeth â'i waed ei hun, drwy dyoddef merthyrdod. *(Jone's Lect. on Eccles. Hist., Lect. XXXVII.)*

Fel yr oedd lluoedd o honynt yn cael eu merthyru, yr oedd eraill yn cyfodi yn eu lle, fel yr ymdaenasant drwy yr Asia Leiaf, a Thracia, a Bulgaria, ac yn ol tystiolaeth rhai, drwy yr Eidal a Ffraingc, ac nid peth anhebyg yw pad oedd yr Albigensiaid, am y rhai y cawn son yn ol llaw, amgen na pharhad o honynt. Ymdrechwyd llawer i'w difodi, a bu byddinoedd ar waith i'r amcan hyny nes gorfiwyd hwy yn y nawfed canrif i gyfodi yn arfog i'w hamddiffyn eu hunain yn Armenia, pryd y cafodd eu gelynion brofi eu bod wedi yr holl ormes yn meddu nerth i ddial eu camweddau. Ond er iddynt gael peth tawelwch yn y canlyniad, a mwynhau ychydig o yngeledd dan nawdd y Saraceniaid, nid oedd dim a foddlonai yr offeiriadaeth ond eu difodiad, a chawsant offeryn addas i'w hamcan yn yr Ymerodres Theodros, yr hon a gyhoeddodd gyfraith i rwymo y Paulisiaid yn ddychwelyd i fynwes yr eglwys gyffredinol, neu ddyoddef marwolaeth am eu hanufudd-dod, Yr oedd y gyfraith yn llym, a'i gweinyddiad yn greulon, oblegid wedi i'r swyddogion gymeryd gafael yn meddiant cymmaint a chan mil o ddyoddefwyr diniweid, cawsant eu merthyru yn y modd mwyaf arteithiol a allasai creulonder ei ddyfeisio. Ond wedi y cyfan ofer fu yr holl yngais, oblegid parhau wnaeth y Paulisiaid drwy yr oesoedd tywyll, ac mae yn debyg fod rhyw nifer o honynt ar gael hyd heddyw yn Thracia a Bulgaria, o'r hyn leiaf yr oeddynt yn bodoli yno yn y canrif a aeth heibio. *(Mosheim Eccles. Hist. Cent. IX, Cap. Note by Dr. Macclaine to the same.)*

Mae yn wir fod amryw o syniadau cyfeiliornus wedi eu priodoli i'r Paulisiaid; ac nid yw ryfedd os oedd amrywiaeth barn yn bodoli yn mhlith corff mor lluosog; ond ar y cyfan, nid ydym yn canfod un rheswm i edrych arnynt yn amgen na thystion dros y gwirionedd, pan oedd tywyllwch moesol yn ymdaenu dros y byd. Nid oedd y Novatiaid, na'r Donatiaid, na'r Paulisiaid yn berffaith rydd oddiwrth gamsyniad, megys ag nad oes un corff o Gristionogion Protestanaidd yn awr yn rhydd oddiwrth ryw annherffeithrwydd mewn barn a bywyd; ond eu hymgais oedd ymwrthod â llygredigaethau yr oes, a throi yn ol at egwyddorion yr efengyl yn eu purdeb; ac am hyn y cawsant eu hysbeilio o'u meddiannau, o'u rhyddid, ac o'u bywydau. Pe byddai genym yn awr ond cyffes eu ffydd, wedi ei chyhoeddi ganddynt eu hunain, nid gormod meddwl y byddai eu barn yn ymddangos yn wahanol iawn i'r hyn a briodolir iddynt gan Petrus Siculus ac eraill oeddent yn sychedu am eu gwaed, ac yn dymuno eu halltudiaeth o holl ororau y ddaear; ond mae hyd yn nod tystiolaeth eu caseion yn ein rhwymo i gredu mai yn mhlith y pleidiau hyn y mae yn rhaid edrych am yr eglwys wirioneddol yn y tymor tywyll sy dan ein sylw.

Wrth adolygu cyflwr Cristionogaeth yn y canrif hwn, yr y'm yn canfod yr eglwys esgobaethol dan lywodraeth y Dyn Pechod yn ei llawn oed, a barn Duw wedi disgyn ar ei gwledydd lle bu apostolion Crist yn llafurio yn bersonol yn ngwaith eu Harglwydd. Wele Rhufain yn nyth pob aderyn aflan, ac yn fam puteiniaid y ddaear. Wele Corinth ac Athen yn ymddyrysu mewn afierion a defodau hygoelus ac eulun-addolgar; ac wele Arabia, maes-lafur boreuol apostol penaf y Cenedloedd, yn ymartogi o'r bron i rwymo pawb i dderbyn cyfundraeth dwyllodrus y gau-broffwyd Mohammed. Ac yn hyn yr ydym yn canfod prawf teg a chyflawn o wirionedd yr hyn a ysgrifenwyd drwy ysbrydoliaeth Duw, o barth y rhai na ddderbyniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig. *Am hyny y deufyn Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd: fel y barner yr holl rai nid oeddent yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawnder;* ac wrth edry h ar y pethau hyn, dysgwn wyliad rhag gwrthod y gwirionedd, na throi oddiwrth y dystiolaeth, canys peth ofnadwy yw syrthio dan farn y Duw byw.

Ond er mor dywyll oedd cyflwr y byd yn y canrif hwn, mae'n hyfryd canfod cymmaint o ymlyniad wrth y gwirionedd yn mhlith y rhai a ddrwg liwir fel terfysgwyr, rhwygwyr, ac hereticiaid, am eu bod yn gwrthsefyll cyfeiliornadau yr oes, ac yn dewis adfyd yn ffordd cyfiawnder, yn hytrach na chymeradwyaeth dynion mewn anufudd-dod i gyfraith Crist.

Er nad oeddynt alluog i atal rhwysg yr offeiriadaeth, na siglo gorsedd y Dyn Pechod, eto yr oeddent yn dal allau oleuni yr efengyl yn ngwydd eu cydoeswyr. ac nid oedd eu llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Yn ngwyneb pob dyoddefiadau, yr oedd eu rhif yn cynyddu: ac fel yr oedd rhai o'u blaenoriaid yn cael eu llofruddio, yr oedd llaw yr Arglwydd yn cyfodi ereill i lanw eu lle; a phan dybiai eu gelynion eu bod wedi eu hollol ddifodi mewn un ardal, byddent yn adfywio mewn ardal arall, efallai dan ryw enw newydd, ond yn dal yr un egwyddorion ag o'r blaen. Ac fel hyn y cawn weled wrth fyned yn mlaen, fod gan Dduw eglwys yn yr anialwch, o ddechreuad y dirywiad hyd amser y diwygiad Almaenaidd, wedi ei sylfaenu ar y graig, a'i hegwyddorion yn wahanol, a'u hamcanion yn annhebyg iawn i'r hyn oedd mewn bri gan yr offeiriadaeth lygredig, ac yn dderbyniol gan y rhai a garent aurhydedd dynion yn hytrach na chymeradwyaeth Duw. Y rhai hyn oeddent blant Duw, yn nghanol cenedlaethau trahaus, yn dilyn yr Oen yn ol cyfarwyddiad yr efengyl; ac er cael eu cystuddio a'u gormesu hyd farwolaeth, Duw oedd yn noddfa ac yn nerth iddynt, ac yn gymhorth hawdd i'w gael mewn cyfyngder.

## GAN Y CYMRO WRTH YMADAEL A'I WLAD.

Wrth wasgu deheulaw'm cyfeillion anwylgu;
Ddydd arall wrth adael y wlad ces fy magu,
A'm bwriad ar bell wlad drwy hwylio'r môr heli,
 Mewn gobaith am wynfyd tu arall i'r dòn;
Fy hoffaf gyfeillion yn lluaws alarent,
A'u dagrau'n dra gloew i'r llawr a ymdreiglent
A'r meddwl na chawswn mo'u gwel'd fel yr oeddent.
 A frathai fel cleddyf yn ymyl fy mron.

Adgofion o'r oriau cysurlawn dreuliasom,
A'r chwedlau difyrgar a diddrwg adroddsom,
'Nghyd â'r ffraeth eiriau chwerthingar fu rhyngom,
 O'ent gynt yn felusach na diliau o fêl;
Ond 'nawr drwy fod pobpeth yn dra chyfnewidiol,
Rhaid i'm iach ganu i'r oriau dymunol,
Mewn gobaith cawn eto weld ie'nctyd tragwyddol,
 Nas d'wedir o'r filrhan o'i fwyniant nes dêl.

Yn fuan y dymestl orwyllt a chwythai
Ar wendon alluog yn o drwsgl a'u taflai,
Nes cuddio ein hwylbren y'mol y cymylau,
 Bryd arall ni suddem i eigion môr llaith;
Pryd hyn 'roedd hen Walia a'i bronydd gwyrddleision,
A'i bryniau gwych gorlawn yn llif o gysuron,
A'i diall enethod mwyneiddlwys, a'i meibion,
 Mewn ffurf yn fy meddwl hob llatht o'm taith.

'Nol hwylio dros amser i'r môr berw a'i donau,
Chwylfriwiwyd ein hésgyll defnyddiol yn ddardau,
Gan rhuthriad y gwibfellt ynghyd a'r taranau,
 Nes siglwyd ein safle gan gryniad oedd gre';
Pryd hyn 'roedd pob enaid a'i Dduw yn ymddiddad,
Mewn ymbil a gweddi yn achos ei hunan,
Gan gredu mai deiliaid byd arall yn fuan
 Fuasai pob enaid ag oedd yn y lle.

'Nol cyrhaedd America—fangfaith wlad enwog,
Canfyddem enethig yn rhann'i gwallt rhywiog,
Gan araf ddynesu at fin y mor tonog,
 A thywallt ei deigryn yn ddirgel i'r llawr;
Hi daflai'n awyddus ei golwg fwyneiddlon,
Mewn dyfnddwys fyfyrdod dros gartref y wendon;
A'i chwyn a anfonai drwy gyfrwng awelon,
 I'r gain wlad hyfrydlon a garai mor fawr.

Mor dlws oedd modrwyog wallt euraidd y rhian,
Nas gall'sid rhoi golwg ar ail idd ei hunan,
Yr hon oedd yn destun diareb a mawlgan,
 Ond heb fod y filrhan o glodau'r un fwyn;
Hi droai'n awyddus ei golwg fwyneiddlon,
Dros bob annedwyddwch i wlad ei chymdeithion,
Mewn dagrau 'r adroddai ddymuniad ei chalon,
 Heb wybod mai Cymro wrandawai ei chwyn.

Gwedi llwyr brofi rhinweddau estron-wlad,
Heb gael ond 'chydig o'r gwynfyd mewn bwriad,
Fel hyn yr adroddem ein dau ein hymdeimlad—
 "O am gael golwg ar Walia a'i gwlith;
Pe yma caem lywio y wlad am hir dymor,
A meddu trysorau heb awydd am ragor,
A thrigo mewn palas gwir orwych o fynor,
 Gwlad ein cyn-dadau fydd hoff genym byth."

*Treforris.* PHILIP MORGAN.

## ADFYWIADAU CREFYDDOL YN CALIFORNIA.

Y mae yn hyfryd canfod y gwahanol gymdeithasau cenhadol yn troi eu sylw at y wlad gynyddfawr hon, lle y mae pob llwyth, iaith a chenedl yn ymarllwys gyda chyflymder nad yw dalenau hanesyddiaeth yn cyfeirio at ei bath. Mae amryw o ddynion enwog mewn dysg a duwioldeb wedi eu danfon allan yno i gyhoeddi y "newyddion da," ac y mae eu llafur eisoes yn llwyddo yn yr Arglwydd. Y maent wedi casglu cynnulleidfaoedd neu eglwysi bychain mewn amryw fanau. Meddant gyfleusderau ragorol i fod yn ddefnyddiol yn eu cylchoedd. Mewn llythyr o San Francisco, dyddiedig Awst 23, rhoddir hanes adfywiad gwerthfawr yn eglwys y Bedyddwyr yn y ddinas hono, pa un a ddengys fod y gwaith da yn llwyddo yno i raddau helaeth.

Bu cyfarfodydd gohiriedig yn Santa Clara a San Jose, ac nid oedd adeiladau digon helaath yn un o'r lleoedd hyn i gynnwys y gwrandawyr; cynyddodd y gynnulleidfa yn y lle blaenaf o ddau cant i ddwy fil mewn ystod dwy o wythnosau, a chafwyd profion neillduol o dywalltiadau helaeth o'r Ysbryd Glân. Yr oedd amryw ddychweledigion gobeithiol, rai o honynt o'r cymeriadau gwaethaf wedi arwyddo eu penderfyniad i ganlyn Iesu yn y bedydd; ac yn mhlith eraill ddyn ieuangc tra chyfrifol a goleddai y farn o gadwedigaeth gyffredinol. Yr oedd nerth dwyfol yn cydfyned â'r athrawiaeth, fel yr oedd pob rhwystrau yn ymollwng o'i blaen.

## CENHADIAETH DRAMOR Y BEDYDDWYR PRYDEINIG.

O'R MYNEGIAD AM 1851.

YN hanes y Genhadiaeth Dramor am y flwyddyn hon mae pethau yn tebygoli llawer i amgylchiadau ein heglwysi cartrefol. O rai gwledydd daw newyddion a'n llonant, o wledydd ereill y newyddion a barant dristwch ac iselder ysbryd. Mewn un man bydd anhawsderau yn codi fel mynyddau mawrion, ond mewn manau eraill bydd y mynyddau yn myned yn gyd-wastad â'r llawr. Wrth edrych dros hanes gwahanol orsafon ein brodyr yn mhlith y Paganiaid, mae ofnau yn cymysgu â gobaith, ac ambell i gwmwl tywyll yn myned blith draphlith â pheledrau yr haul.

Un o'r pethau a ofidia fwyaf ar bob un o gynorthwywyr ffyddlon ac aiddgar y Gymdeithas, yw y golled a deimlant ar ol y brodyr anwyl a syrthiasant ar y maes y flwyddyn ddiweddaf trwy weinidogaeth angeu. Collodd Affric Mr. Newbegin, yr hwn oedd yr olaf o genhadon yGymdeithas yn Fernando Po, ac ar fynyddau Bimbia. Meddyliodd rai mai gwell oedd rhoddi yr ymgyrch yn Nghorllewin Affric i fynu, am fod yr hinsawdd mor afiach, a'r olaf o'r cenhadon Ewropaidd yno wedi marw. Ond nid felly y meddyliai y Gymdeithas, ac nid felly y meddyliodd y Bod mawr trugarog, oblegyd cafwyd Mr. a Mrs. Saker yn brysio dychwelyd i'r wlad annedwydd hono, er iddynt golli eu hiechyd yno o'r blaen; ac y mae brawd arall, Mr. John Wheeler, wedi myned yno ar eu hol. Hyderir y gwelir yn fuan fod yno bobl lawer gan yr Arglwydd. Yn Jamaica hefyd mae y Gymdeithas wedi colli y brawd Joshua Tinson, Athraw yr Athrofa yn y dref a elwir Calabar. Bu ef yn Genadwr yn yr Ynys uchod dros ddeg-ar-ugain o flynyddau, ac mae ei symudiad o'r byd hwn yn golled mawr i eglwysi Jamaica! Nid yw y Gymdeithas eto wedi cael un i lanw ei le yn yr Athrofa.

Mae y Genhadaeth yn Ceylon wedi colli Mr. Dawson, wedi cael ei hymddifadu ychydig cyn hyny o wasanaeth ein brawd Jacob Davies, o'r Drefnewydd, sir Drefaldwyn. Pan oedd Mr. Dawson yn glaf, gofynai un o'r rhai bychain, "Mam, pa beth a ddaw o honom os bydd fy nhad farw? A fyddai ddim gwell i ni weddio, mam, am i ni gael marw bob un yn yr un amser?" Ychydig oedd y fam yn ei feddwl y pryd hyny mai felly y buasai yn y diwedd. Collwyd y llong ar ei mordaith adref, ac aeth Mr. Dawson a'i deulu i dragywyddoldeb yr un amser. Mae y Gymdeithas wedi cael y brawd J. Davies, o Winchester, i fyned allan i Ceylon i lanw y bwlch uchod.

Amddifadwyd y gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf o wasanaeth y milwr dewr hwnw dros Iesu Grist, y Parch. J. T. Thompson, yr hwn a lafuriodd yn ddiflino gyda ei waith cenhadol yn yr India Ddwyreiniol am ddeunaw-ar-ugain o flyneddau. Yr oedd yr hen wron uchod yn cael ei ystyried gan y cenhadon yn debyg iawn i'r enwog Chamberlain yn ei ymdrechiadau diflino dros daeniad yr efengyl; aeth i'r bedd mewn oedran teg. Er fod y Gymdeithas yn colli cenhadon drwy weinidogaeth angeu, eto teimla yn wir ddiolchgar mai angeu, ac nid satan, sydd wedi ei hymddifadu o honynt. Ac er fod bylchau yn cael eu gwneuthur yn y gatrawd genhadol, brodyr yn cael eu cymeryd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr,—mae

"Eu henwau da, eu parch a'u bri
Yn nghadw yn y nefoedd fry."

Rhai o'n cenhadon a fuont fyw i lawer o ddybenion mewn ychydig o amser. Yr ydym wedi dysgu mesur bywyd dyn, nid wrth gyfrif y miloedd o bunnau a adawodd ar ei ol, ond wrth y gweithredoedd a wnaeth. Pwy na ddymunai gwympo fel William Knibb ar uchel-fanau y maes, a'r cleddyf heb rydu yn ei law, yn hytrach na byw oes hir mewn diogi ac eiddilwch? O am weled dau-parth ysbryd y brodyr sydd wedi myned o'r blaen yn disgyn ar aelodau a gweinidogion ein heglwysi, a phawb o honom yn cael ein cynhyrfu gan yr aidd nefolaidd a losgai mor danbaid yn mynwesau Pierce, Fuller, Carey, Marshman, Knibb, &c. Mae arogl eu henwau yn llanw ein gwlad, mae eu gweithredoedd yn dylanwadu ar ein heglwysi, mae eu henwau yn goron yn ein henwad, ac yn ogoniant i'n Ceidwad. Y Nefoedd a ddygo lawer o'u bathau i'r maes eto! Yn lle cwyno ein bod wedi eu colli diolchwn am eu cael dros dymor. Cyflawnasant hwy y gwaith oedd o'u blaen. Gweddiwn hefyd ar i Arglwydd y cynhauaf anfon llawer o'r fath weithwyr allan eto.

Yr India Ddwyreiniol oedd y maes a ddewiswyd gyntaf gan Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr, ac er fod y wlad resynol hono dan lywodraeth Prydain, methodd y cenhadon gael llong Brydeinig i fyned ynddi i bregethu yr efengyl i'r Indiaid; ac aethant allan mewn llong estronol. Dechreuasant ar eu gwaith yn Serampore; man dan lywodraeth y Dutch y pryd hyny, eithr yn bresennol dan lywodraeth Lloegr. Ond mae cyfnewidiadau lawer wedi cymeryd lle wedi yr amser

hyny. Yn bresennol mae pob cefnogaeth i'w gael oddiwrth y Llywodraeth, mae ein heglwysi yn gyffredinol yn foddlon cynorthwyo, mae y llongwyr yn foddlon derbyn y cenhadon, ac ni ryfeddom weled yr amser y bydd i bob perchen llong ymofyn (nid un yn unig, a hwnw yn Gymro), am gael y fraint o drosglwyddo cenhadau i holl baganiaid y byd. Nid oes un dyn wedi cael achos i feddwl fod y Gymdeithas wedi camsynied wrth ddewis yr India yn faes ei llafur. Mae yn wlad eang, yn agos i ddwy fil o filldiroedd o Galcutta i Peshawur, ac yn cynwys, fel y tybir yn agos i ddau cant o fyrddiynau o bobl—un ran o chwech o drigolion y byd, a'r rhai hyny o dan lywodraeth Prydain. Er fod ein brodyr llafurus wedi gorfod ymdrechu yno am flynyddau dan bob anfantais, ac yn ngwyneb pob math o anhawsder, eto maent wedi llwyddo i sylfaenu teyrnas y Messia yn nghanol gwlad yr eilunod. Gallant edrych yn awr dros hanes yr ymdrech yn India, a gofyn, Pa le y mae y tân a losgai y gweddwon? Pa le y mae gwaed y mabanod a dywalltwyd i foddloni yr eilun-dduwiau? A pha le mae llawer o greulonderau eraill a welwyd yn India pan aeth y cenhadon gyntaf yno?

Cyn gadael yr adroddiad byr hwn am yr India Ddwyreiniol, rhoddwn yma dalfyriad, neu yn hytrach enwau y gwahanol ddeddfau a gafwyd yn ddiweddar er cefnogi y cenhadon:—

1. Rhyddid i sefydlu yn mhob talaeth yn India.

2. Rhyddid i brynu tir i adeiladu capeli.

3. Diddymiad graddol o'r gynnaliaeth a roddai y llywodraeth i eilun-addoliaeth yn India.

4. Atal holl weision y llywodraeth i weithio ar y Sabboth, er mwyn galw sylw y paganiaid at ddydd yr Arglwydd.

5. Rhyddid i Gristionogion brodorol i gael swyddi dan y lywodraeth.

6. Deddf yn erbyn llosgi gweddwon.

7. Deddf yn erbyn aberthu plant i eilunod.

8. Rhyddid i Gristionogion ieuaingc oddiwrth drawsder rhieni paganaidd. Ni all y tad gospi ei blentyn yn awr am fyned yn Gristion; ond erlidia ef er hyny yn greulon iawn.

9. Deddf i ddyogelu meddiannau y rhai a droant yn Gristionogion. Ni ellir eu difeddiannu mwyach.

10. Deddf i ddyogelu plant Cristionogion yn eu sefyllfaoedd fel egwyddor-weision, &c.

Nid bychan yw y cyfnewidiad a welir yn India, er pan aeth y cenhadon cyntaf yno.—I'r Arglwydd y byddo yr holl ogoniant.

## SHAN AT OLYGYDD Y SEREN.

Mr. Edwards,—Canfyddais yn eich Seren am fis Tachwedd bod Shon wedi anfon atoch o barth tynu y plu oddiar y gwyddau. Mae yn hynod bod yr hen wr wedi myned mor ffol. Yn siwr i chwi, mae o yn myned yn ffolach, ac nid dyfod yn gallach. Wedi i mi weled ei ysgrif o, mi brynais inau gryn ddwsyn o leni papyr, ac inc hefyd, gael ysgrifenu i'r Seren o dro i dro. Mi fynaf amddiffyn fy hun. Gyda golwg ar dynu y plu oddiar y gwyddau ni wnaf felly mwy; pan fydd eisiau plu arnaf mi gymeraf y gwellaif i'w cneifio, neu cant lonydd nes terfyno eu bywyd. Mi fedraf gymeryd cynghor, Mr. Edwards, os bydd yn rhesymol; ac yn siwr i chwi, yr wyf yn well na llawer yn hyny.

Gan i Shon ddechreu minau ddiweddaf.—Gofynaf i chwi, Mr. Edwards, ai peth addas yw i Shon siarad am y gwartheg, y ceffylau, y moch, pris y caws, y 'menyn, a'r farchnad ar y Sabboth? Mi dd'eda i ch'i rwan, mae o yn myned i'r cyfarfod y boreu er mwyn talu arian a gofyn am arian. Hefyd, mae o yn aros gartref ar ol oedfa boreu'r Sul, a dyma lle bydd ef a Ned y gof, Dic y crydd, a Sami'r teilwr, ac eraill, yn siarad am y byd! Yn awr, Mr. Edwards, mewn difrif a ydyw peth fel hyn yn iawn? D'edwch eich barn heb ochru dim i fi na Shon. Dymunaf le yn y Seren i'r eiddof fi yn gystal a Shon. Atebiad buan, da ch'i. Shan.

Ateb.—Rhyfedd mor dueddol ydym i weled beiau ein gilydd, pan y mae pethau eraill ynom ein hunain sydd yn llawer gwaeth; yn dra thebyg i'r hwn a amcanai i fwrw brycheuyn o lygad ei frawd pan yr oedd trawst anferth yn ei lygad ei hun. Felly Shon, gallesid meddwl ei fod yn teimlo yn ddwys yn achos cyflwr yr hen wraig, o herwydd ei hymddygiad yn pluo'r gwyddau yn fyw, pan yr ymddengys ei fod ef ei hun yn byw yn dawel yn yr arferiad cyson o un o'r pechodau mwyaf a gondemnir yn llyfr Duw. Mae gofyniad Shan yn rhy amlwg ac hysbys i bawb i ni dreulio amser i'w ateb; ond dywedwn hyn, fod pechod Shon yn llawer rhy gyffredin yn y dyddiau hyn, ac yn cael ei oddef i raddau gormodol gan eglwys Dduw. Hyderwn y gwelir diwygiad buan yn mhlith Cristionogion ar y pen hwn, ac yn neillduol byddai yn ddymunol gweled hen bobl, fel Shon, yn roddi gwell siampl i'r ieuengctyd.

Wrth adael yr hen bâr y waith yma y mae genym air eto i'w ddywedyd yn ddistaw, yn enwedig wrth Shan. Ymddengys bod ysbryd ymddial wedi ei meddiannu i raddau helaeth,

yr hyn a gondemnir gan Awdwr y grefydd Gristionogol. Nid ydym yn beio Shan am geryddu yr hen ŵr am bechod mor warthus a'r un a nodwyd, ond os yw hi yn bwriadu treulio yr hanner *quire* papyr i ddynoethi ei ffolineb a'i hynodrwydd, a hyny er mwyn dial ei llid arno am ei ysgrif ddiweddaf, rhaid i ni ddywedyd na allwn gymeradwyo y fath ymddygiad. Yr ydym bellach wedi gweled yr ynfydrwydd o ymyraeth â dadleuon gwŷr a gwragedd. Dichon mai ni gelai y gwaethaf rhyngddynt yn y diwedd. Credwn fod llawer o bethau da, a rhinweddau teilwng o efelychiad yn Shon, a byddai yn ddymunol i Shan ddefnyddio hanner y papyr o leiaf i ysgrifenu am danynt. Byddai hyn yn foddion i feithrin cariad rhyngddynt, trwy yr hyn y cuddid lluaws o bechodau.—Gol.

---

## GOFYNIADAU.

*At Olygydd y Seren Orllewinol.*

Mr. Gol.—Byddai yn dda genyf fi, a llawer eraill yn yr ardal hon, i weled y bregeth a draddodwyd yn ddiweddar ar foreu Sabboth, yn addoldy yr Annibynwyr yn Minersville, gan y Parch. D. E. Bowen, Carbondale, yn argraffedig. Y pwngc oedd "y crochenydd a'r pridd-lestr." Dymunaf arno (er lleshad eraill) ei danfon i'r Seren. Yr eiddoch, &c.

T. Morris.

---

Mr. Golygydd,—Dygwyddodd i mi fod ar ryw Sabboth yn ddiweddar mewn addoldy, lle yr oedd nifer fawr o bobl wedi ymgasglu ynghyd, i gyflawni yr hyn a ystyrient yn wasanaeth neu addoliad crefyddol. Wedi i un ddarllen, ac i un arall weddio, yna codasant amryw o honynt i ganu; ac ar derfyniad y rhan hyn o'r gwaith canfyddwn gryn hanner dwsyn neu ychwaneg yn ymaflyd mewn llyfrau gan droi eu dalenau yn ol ac yn mlaen, a minnau yn llygad-rythu arnynt, ac yn methu deall beth oedd i fyned yn y blaen; yr oeddwn yn dysgwyl clywed pregeth, ond nis gallaswn ddeall gan bwy, o herwydd canfod cymmaint o lyfrau agored, ac nad oedd yno areithfa; ond yn fuan gwelwn un yn codi ar ei draed tu ol i fwrdd, ac yn enwi pennod ac adnod, gan ragymadroddi, tynu penau, a dechreu dweyd oddiwrthynt yn dra hwylus; a'r lleill oll a'u llyfrau yn agored yn barhaus, fel pe buasent oll ar fedr pregethu ar ei ol, ac yr oeddwn o ddifrif yn dysgwyl y buasai i un neu ddau o honynt godi i ddywedyd tipyn ar ol y cyn ıf, ond ni ddywedasant yr un gair. Deallais erbyn hyn mai gwrandawyr a ddylasent fod fel fy hunan. Yn awr, syr, yr wyf yn gofyn ar gyhoedd, trwy gyfrwng y Seren, a ydyw y fath arferiad yn weddus ar amser addoliad y Duw byw. Gan nad wyf yn sicr yn fy meddwl fy hun. Crefai arnoch chwi neu ryw rai o'ch gohebwyr treiddlym i roddi goleuni ar y mater uchod. Rhydd hyn foddlonrwydd i amryw heblaw fy hunan.

Rhag i'r gofyniad fyned yn ddisylw, cyfeiriaf ef at y Parch. J. P. Harris. Minersville.

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

. :::: :   : . . : : . .  . :
7922123978.   286411 59339191.

---

Mr. Gol.—Mae yn hysbys i bawb a ddarllenant yr wythfed bennod o efengyl Luc, a'r 7fed adnod, am y dyn yn ngwlad Gadarenia, a'r lleng cythreuliaid ynddo, a'u bod wedi eu bwrw allan o hono, ynghyd a bod caniatad wedi ei roddi iddynt i fyned i'r genfaint foch, gan ein Iechawdwr bendigedig. A chan fod yma un yn haeru mai heintiau neu glefydau ag oedd yn nghlyn â'r natur ddynol ar yr amser, neu yn yr oesoedd hyny, ydoedd yr ysbrydion aflan, neu y cythreuliaid hyny, fel y'u galwant, carwn i ac ugeiniau eraill yn y cylchoedd hyn, gael ychydig sylwadau pwyllog ac astud ar yr adnodau uchod, genych chwi neu ryw un o'ch gohebwyr synwyr-gall, a dichon y gwna hyny i'r haerwr droi dalen, i gyhoeddi pethau mwy teilwng o sylw.

Yr Un.

---

## COFIANT Y BRAWD EVAN PETERS.

Anwyl a Pharchus Olygydd,—Wrth anfon i chwi ychydig o hanes ein hanwyl frawd Peters, nid wyf yn ystyried fy hun yn addas i ysgrifenu cofiant teilwng o hono i'w osod o flaen y cyhoedd; ond yr wyf yn anfon yr hyn a allais gasglu am dano i'r Seren a'r Cyfaill, gan obeithio y cymerwch chwi eich cynllun eich hun i gyfnewid, cwtogi neu helaethu fy ysgrif, fel y barnoch yn oreu, o herwydd nid ydych heb wybod am lawer o bethau teilwng yn y gwrthddrych, fel y cymmydog agosaf ato am rai blynyddau.

Ganwyd Mr. Evan Peters mewn lle a elwir Pant Coch, plwyf Llansawrin, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 1820. Collodd ei dad pan yn ieuangc, a symudodd ei fam i Lundain yn fuan ar ol hyny. Cafodd ef a'i dri brawd eu gadael i ofal Rhagluniaeth yn gynar, ond gwiriodd Duw ei addewid ar ran yr ymddifaid—y byddai yn Dad iddynt. Symudodd Evan o'r parthau hyny yn ieuangc, a daeth i Dredegar, lle yr arosodd hyd ei ymfudiad i'r wlad yma, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1842, a gwnaeth ei arosiad

yn Pottsville. Yma y cyfarfyddodd â chydmares ei fywyd, yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd wedi symud er ys rhai m'soedd i Beaver's Meadow; ond ni chaniataodd ei iechyd iddo nemawr o fwyniant wedi iddo ymadael o Pottsville. Arol bod yn sâl am lawer o amser, daeth i'w feddwl i ymdrechu myned i lawr at feddyg yn Port Carbon, a chychwynodd i'r daith er yn wan; ond methodd fyned yn mhellach na Tamaqua. Arosodd yn nhŷ Mr. Richard Jenkins, lle y cafodd lawer o dynerwch. Meddyliasom ei fod yn gwellhau yma unwaith, ond ofer fu ein dysgwyliad. Collasom ein gafael arno oll; ac er iddo gael meddyg ffyddlon a thyner, diangc a wnaeth er pob gofal i'r byd tragywyddol, a hyny yn mhen ychydig wythnosau wedi ei ddyfodiad i Tamaqua.

Yr oedd Mr. Evan Peters yn ddyn a gerid yn fawr gan bawb, ac nid rhyfedd hyny, o herwydd dywedai yntau yn dda am bawb, bob amser. Yr oedd yn naturiol yn tynu serch pawb a'i hadwaenai. Gallwn ddywedyd mewn gair am dano, heb wneud cam â dim na neb, fod iddo air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Ymunodd â chrefydd yn ieuangc, a chafodd y fraint o ddal yn ddigwymp hyd y diwedd. Yr oedd o ran ei dymer yn llwfr ac isel, yn dueddol i ystyried ei hun yn llawer llai nag oedd mewn gwirionedd, fel nad oedd yn gallu dangos ei hun yr hyn oedd yn aml.

Dyoddefodd gystudd trwm a hirfaith, a hyny yn ddyoddefgar iawn. Er nad oedd o ran ei brofiad mor uchel a llawer yn ei gystudd, eto yr oedd ei obaith er yn wan yn gafaelu yn nghraig yr oesoedd. Bu yn dywyll arno yn ei gystudd hyd o fewn tri diwrnod i'w ollyngdod, pryd y torodd y wawr ychydig arno. Dywedai ei fod yn cael llawer o gysur mewn pethau crefyddol, ond yr oedd yn ffaelu a gollwng ei afael ar y pethau a welir hyd yr amser a nodwyd. Dywedai wrth ei anwyl briod am iddi beidio wylo; ac fod yn rhaid datod y cwlwm oedd rhyngddynt er tyned oedd. Dywedai ei fod yn cael llawer o gysur yn y pennill hwnw—

"Wrth bwyso arno ddydd a nos
'Rwy'n dysgwyl dod i'r lan."

Fe allai ei fod yn derbyn mwy o orfoledd a dyddanwch nag a wyddom o lawer, o herwydd gwyddoch chwi, Mr. Golygydd, am dano, nad oedd ei oleuni yn llewyrchu gerbron dynion fel llawer un oedd yn llai ei alluoedd nag ef. Nid wyf yn dywedyd hyn fel canmoliaeth iddo, ond fel ffaeledd ynddo ag y dylem ochelyd oddiwrtho. Ond eto, pan oedd yn gyfyng arno dangosodd ei Dad nefol fod perthynas gyfammodol rhyngddo ag ef. Gofynais iddo y diwrnod cyn ei ymddattodiad, pa fodd yr oedd yn ymdaro? Dywedodd ei fod wedi cael y fraint o ddarfod â phob peth a welir dan haul. Yna gofynais iddo a oedd ganddo ryw addewid i bwyso arni yn ei gyfyngder, pan y dywedodd nad oedd ganddo ef ddim ond haeddiant Calfaria. "Mae Calfaria genyf." Yr oedd erbyn hyn yn floesg, eto dywedai "Calfaria" yn ddigon amlwg amryw weithiau. Dyma braidd oedd yr ymddiddan olaf. Gobeithiaf y bydd i hyn eto, at ein aml rhybuddion, ein gwasgu yn nes i'r un man ag yntau, sef i Galfaria, lle y mae bywyd i'w gael trwy farwolaeth Iesu; a'r Arglwydd a dueddo lawer o'r newydd i ymddyried ynddo ef. Fel hyn y bu farw ein hanwyl frawd Peters, ar yr 21ain o Hydref, 1851, yn y 31ain flwyddyn o'i oed. Ei glefyd oedd enyniad (*inflamation*) yr afu.

Nos y 22ain, pregethodd y brawd John Adams, yn y lle y gorweddai, sef tŷ Mr. R. Jenkins, oddiar Salm 90. 12; "Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, &c." Dranoeth, cychwynasom â'r corff tua Pottsville. Claddwyd ef wrth gapel y Bedyddwyr, lle yr oedd dau o'i blant yn gorwedd o'r blaen. Ar lan y bedd, cyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y brawd R. Edwards, Pottsville.

Hyn yn anmherffaith oddiwrth yr eiddoch,
*Tamaqua.* H. JONES.

## Y TREFNYDDION WESLEYAIDD YN YR UNOL DALAETHAU.

Y mae yn hysbys i'n darllenwyr fod y cyfenwad hwn wedi ymranu yn ddiweddar yn ddau gorff—y Gogledd a'r Deau. Cyn eu hymraniad yr oedd ganddynt sefydliad llyfrau mawr yn Nghaerefrog Newydd, yr hwn a ystyrient yn feddiant cyffredin rhyngddynt; ar ol yr ymraniad hawliai y Gogledd y sefydliad yn gwbl, yr hyn a wrthodai y Deau ei ganiatau, a chodwyd yr achos i'r llys gwladol, lle y penderfynwyd fod gan yr eglwys yn y Deau hâwl gyfreithlon i ran gyfartal i'w chyfraniadau o'r meddiant a nodwyd.

## PENNILL I'R SEREN.

LLWYDDIANT mwy i'r SEREN siriol,
Ar hyd y nos;
Y mae'n dwyn i'n nwyfau nefol,
Ar hyd y nos;
Bydded iddi fod yn eglur,
Er ein tywys ar ein llwybr,
Fel b'o i ni rodio'n gywir,
Ar hyd y nos. WYLOG.

## YSGOL SABBOTHOL Y BEDYDDWYR CYMREIG YN UTICA.

Mr Gol.,—Gan fod amryw o ddarllenwyr y Seren fel fy hun yn hoff ganddynt weled hanes y Bedyddwyr yn eu gwahanol fanau trwy y wlad, ac i wybod ychydig o'u hanes fel goruchwylwyr ar waith yr Arglwydd yn ei wahanol ddosbarthiadau; a chan fod yr Ysgol Sabbothol yn un dosbarth o waith y tŷ, chwenychem yn fawr weled mwy o ysgrifenu o'i phlaid, gan ddangos ei lleshad a'i buddioldeb; ond heb fyned i ymhelaethu y tro presennol, rhoddwn ychydig bach o hanes yr ysgol yn Utica, er mwyn y rhai sydd yn debyg eu chwaeth i mi fy hun.

Er ein galar a'n cywilydd, buom dalm o amser heb un ysgol Sul yn yr addoldy; ond mae hi wedi ei chodi ar ei thraed eto, ac er fod rai yn ddigon gostyngedig ac ymdrechol i ail-ymaflyd ynddi, yr oedd yma eraill nad [illegible]t yn ei barnu yn ddigon hardd i ddy-[illegible]leu y dydd braidd; ond erbyn hyn y [illegible] wedi dyfod yn mlaen hyd ganol dydd, [illegible] yn ddrwg genyf fod yma rai eto heb [illegible]d nemawr o'i hawddgarwch. Ychydig [illegible]nes sydd fel y canlyn: Arolygydd, 1; Ys[illegible]fenydd, 1; Athrawon, 6, Ysgolheigion, [illegible] rhif,) 30; Llafur y tri mis diweddaf:—[illegible]odau, 33, yn cynnwys 613 o adnodau; [illegible]lau gwasgaredig, 482.

Yr eiddoch, dros yr Ysgol,

[illegible]ca, *Tach.* 10, 1851. J.

## CYMANFA DWYREINBARTH PENNSYLVANIA, A SWYDD ONEIDA, C. N.,

*A gynnaliwyd gydag eglwysi y Bedyddwyr Cymreig yn swydd Luzerne, Pa., y drydydd wythnos yn Hydref,* 1851.

Hyd. 18fed, (dydd Sadwrn,) am ddeg o'r gloch, cyfarfyddodd y gweinidogion a'r cenhadon mewn cynhadledd yn addoldy y Bedyddwyr Cymreig yn Carbondale, Pa. Wedi agor y cyfarfod drwy ddarllen yr ysgrythyr a gweddi gan y Parch. Wm. Richmond, Blakeley, neillduwyd y

Parch. Wm. Morgan, Pottsville, yn Gymedrolwr, a'r Parch. J. P. Harris, Minersville, yn Ysgrifenydd.

Darllenwyd amryw lythyrau oddiwrth yr eglwysi perthynol, a chafwyd fod yr achos mewn sefyllfa tra chysurus, cryn lwyddiant wedi bod ar y weinidogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac undeb a heddwch yn ffynu yn yr eglwysi yn gyffredinol.

Yr eglwys yn Pottsville, Bellmont, a St. Clair, dan ofal y Parch. Wm Morgan, Richd. Edwards, cynorthwywr, ydynt yn dra ymdrechol yn ffydd yr efengyl, ond y maent mewn galar as ol hen frodyr teilwng a gollasant yn ystod y flwyddyn, ys ef, B. Evans, J. Rowe, &c.

Yr eglwys yn Minersville, dan ofal yr Ysgrifenydd, a wisgir a phrudd-der dwys, o herwydd colli hen frodyr teilwng drwy weinidogaeth angeu yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, yn enwedig un o'i diaconiaid, ys ef, y brawd Thomas Elias. Cynorthwywyr yn yr eglwys hon ydynt Jonn Evans a Benjamin Jones. Hefyd mae Arglwydd y cynhauaf yn cofio ei winllan drwy ddanfon gweithwyr iddi dros y Morwerydd. Mae yma bregethwr hyawdl a derbyniol o'r enw David Thomas, diweddar o Dabernacl, Merthyr Tydfil.

Mae'r brawd David Evans, gynt o Danville, wedi ymsefydlu gyda'r eglwys yn Summit Hill. Mae'r achos yno yn gwisgo agwedd gobeithiol, ac wedi sefydlu cangen yn Tamaqua. Eled y fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref..

Yn Danville y mae y Parch. Thomas Roberts, diweddar o Cadoxton, D. C. Mae'r achos yno yn dra llewyrchus. Y gangen yn Bloomsburg yn ymofyn ei chorffoli yn eglwys annibynol.

Mae'r achos ar gynydd yn Pittston. Ymdrech ac aberth mawr yn cael ei wneud yno gan y frawdoliaeth i adeiladu tŷ addoliad newydd yn awr. Bu y brawd Ebenezer Edwards, diweddar o Benfro, D. C., am amryw fisoedd yn llafurio yn eu plith. Y maent yn awr yn ymddifad o fugail, drwy fod y brawd Edwards wedi ymadael oddi yno, ac ymsefydlu gydag eglwys y Bedyddwyr Cymreig yn Cincinnati, Ohio. Mae ganddynt bregethwr cynorthwyol o'r enw David Hughes, diweddar o Dowlais, D. C.

Mae eglwys ieuangc yn Scranton, ond hyd yn bresennol heb un tŷ addoliad iddynt eu hunain. Mae'r brawd Wm. Richmond yn llafurio yn eu plith, ac arno ef yn fwyaf neillduol y mae eu gofal gweinidogaethol.

Hefyd, mae i ni chwaer ieuangc yn Dunmore, lle y llafuria y brodyr Wm. R. Jones, a Thomas Cheshire, pregethwyr cynorthwyol. Mae'r eglwys dan fugeiliaeth y Parch. D. E. Bowen, Carbondale.

Mae'r eglwys Gymreig yn Carbondale wedi tynu deheulaw gymdeithas oddiwrth ein cymanfa, ac wedi uno â chymanfa Americanaidd Abington, a hyny o herwydd rhesymau nad gwiw eu henwi.

Cawsom ddesgrifiad gan y Parch. Morris J. Williams, South Trenton, o ansawdd yr achos yn swydd Oneida, C. N.

Fod y Parch. David Jenkins wedi ymadael o'r eglwys yn Utica, a'u bod yno heb un bugail yn bresennol. Cynorthwywyr, y brawd John Hughes a'r Parch. H. F. Williams.

Fod y Parch. James Harris yn gweinidogaethu yn Marcy; ac fod gofal yr eglwys Seisnig yno ar Alfred Harris.

Fod gofal yr eglwys yn South Trenton ar y Parch. Morris J. Williams, hyd y gwanwyn nesaf.

Cawsom ar ddeall fod yr achos yn dra llewyrchus yn Steuben. Amryw wedi eu hychwanegu drwy fedydd, &c., at yr eglwys yno yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Mae y Parch. D. J. Williams, diweddar o Carbondale, yn dderbyniol a thra llwyddiannus yn y cylch yma.

Mae amryw wedi eu hychwanegu hefyd at yr eglwys yn Nghapel Seion, Remsen, lle y gweinidogaetha y Parch. Wm. Jones. Mae y brawd H. Humphreys, diweddar o Ogledd Cymru, a'r brawd Parry yn gynorthwywyr

yn yr eglwys hon. Y mae arwyddion yma a thrwy yr ardal fod yr Arglwydd yn llwyddo yr athrawiaeth.

GWEITHREDIADAU Y GYNHADLEDD.

1. Ein bod gyda llawenydd yn derbyn y Parch. Thomas Roberts, diweddar o Cadoxton, Cymru, i'n hundeb cymanfaol; ac ystyriwn ef fel brawd teilwng yn y weinidogaeth.

2. Fod yr eglwys yn Scranton i gael aelodiaeth yn y gymanfa. Rhif yr aelodau, 46.

3. Fod yr eglwys yn Dunmore i gael aelodiaeth yn y gymanfa. Rhif yr aelodau, 18.

4. Fod yr eglwys yn Pittston i gael aelodiaeth yn y gymanfa. Rhif yr aelodau, 62.

5. Ein bod yn cymeradwyo ymdrech y frawdoliaeth yn Pittston, yn eu gwaith yn adeiladu tŷ addoliad, ac yn anog yr eglwysi i gydymdeimlo â hwynt.

6. Ein bod yn cefnogi cynllun* ein brodyr yn swydd Oneida tuagat godi $750 er hwylusu a dwyn yn mlaen gyhoeddiad misol at wasanaeth y cyfundeb; ac yn anog ein brodyr drwy y talaethau i gydweithredu â hwynt.

7. Ein bod yn cymeradwyo ymdrech y brawd Richard Edwards, fel cyhoeddwr y "*Seren Orllewinol,*" ac yn anog yr eglwysi i'w derbyn a'i chefnogi.

8. Ein bod yn anog yr eglwysi i fod yn fwy ymdrechol ac aiddgar yn mhlaid yr Ysgol Sabbothol.

9. Ein bod i gydweithredu â'n brodyr Amerigaidd yn mhlaid y Genhadiaeth a'r Feibl Gymdeithas Americanaidd a Thramor; ac yn cymeradwyo y *Macedonian* i'r eglwysi, newyddiadur misol yn cynnwys hanes a gweithrediadau y cenhadon, cyhoeddedig dan nawdd y gymdeithas yn Boston. Ei bris yn 12½ cents y flwyddyn.

10. Ein bod yn anog yr eglwysi i bleidio egwyddorion dirwest a sobrwydd, drwy ymwrthod â diodydd meddwol fel diodydd cyffredin, a defnyddio eu dylanwad yn mhlaid y Gymdeithas Ddirwestol.

11. Ein bod yn galw sylw yr eglwysi at *grefydd deuluaidd*, ac yn eu hannog i wasgu y rheidrwydd o hyn at feddwl yr aelodau, fel bo allor i'r uchel Dduw yn mhob teulu.

12. Fod y Parch. J. P. Harris, Minersville, i ysgrifenu traethawd ar y pwngc o "grefydd deuluaidd," a'i gyhoeddi yn y "Seren Orllewinol."

13. Oddiar yr ystyriaeth fod caethwasanaeth yn y talaethau deheuol yn niweidiol i ledaeniad yr efengyl, Penderfynwyd,—Ein bod yn anog y frawdoliaeth fedyddiedig i ddefnyddio eu dylanwad er dileu y sefydliad gormesol hwn.

14. Oddiar yr ystyriaeth nad yw yr eglwysi Cymreig yn gwneud nemawr (os dim) yn mhlaid achos dysgeidiaeth pregethwyr ieuaingc gobeithiol a gyfyd yn eu plith o bryd i'w gilydd, Penderfynwyd,—Fod gweinidogion Dwyreinbarth Pennsylvania i ddwyn achos dysgeidiaeth gerbron yr eglwysi perthynol, ac i gydymgynghori parth y priodoldeb o sicrhau ysgol-fraint (*scholarship*) yn Urdd-Ysgol Lewisburg, neu arall o'n hathrofeydd.

15. Fod y gymanfa nesaf i'w chynnal yn swydd Oneida, C. N.—y lle, yr amser, a'r dull idd ei benderfynu gan y Cyfarfod Chwarterol yno.

☞ Dysgwylir i'r Parch. Thomas Roberts, Danville, gyhoeddi yn y Seren Orllewinol y bregeth a draddododd yn Pittston, oddiar Gal. 6. 7, 8.

Y CYFARFODYDD CYHOEDDUS.

*Carbondale.*

Hyd. 17, nos Wener, am chwech o'r gloch, darllenodd a gweddiodd y brawd Wm. Morgan, Pottsville; a phregethodd y brodyr Thomas Roberts, Danville, a J. P. Harris, Minersville; oddiar 1 Pedr 4. 22; ac 2 Pedr 1. 4.

Am 2, dydd Sadwrn, gweddiodd y brawd Wm. R. Jones, Dunmore; a phregethodd y brodyr Thos. Roberts, a Wm. Morgan; oddiar Col. 1. 27; Heb. 9. 16.

Am 6, dechreuwyd yr addoliad gan y brawd David Evans, Summit Hill; pregethodd y brodyr J. P. Harris, a Morris J. Williams, South Trenton; oddiar Esay 63. 1—6; Heb. 11. 7.

Sabboth, am 10 o'r gloch, darllenodd a gweddiodd y brawd Thos. Cheshire, Dunmore; a phregethodd y brodyr David Evans a Wm. Morgan, oddiar Math. 6. 6; a 1 Thes. 5. 10.

Am 2, gweddiodd y brawd Wm. Richmond, Blakeley; pregethodd y brodyr J. P. Harris, (Seisnig), a T. Roberts, oddiar Phil. 3. 20, 21; Rhuf. 6. 22.

Am 6, gweddiodd y brawd John Jones, diweddar o Lanwrtyd, Cymru; pregethodd y brodyr D. Evans, ac M. J. Williams, oddiar Rhuf. 5. 6—8; 1 Cor. 2. 9.

Nos Lun, am chwech, cynnaliwyd cyfarfod i areithio ar wahanol byngciau; a chymerwyd rhan yn y cyfarfod gan y gwahanol frodyr yn y drefn ganlynol: anerchodd y brawd Morgan "y rhai esmwyth yn Seion;" y brawd Roberts "y gwrthgilwyr;" y brawd Harris "ar gymhellion yr efengyl;" a'r brawd Williams "y rhai sy'n cloffi rhwng dau feddwl." Cafwyd cyfarfod lluosog a dyddorol iawn. Terfynwyd drwy weddi gan y brawd D. E. Bowen, gweinidog y lle.

*Dunmore.*

Hyd. 20, dechreuwyd y cyfarfod yn y lle hwn. Pregethodd y brawd D. Evans, Summit Hill, oddiar Act. 16. 25, 26.

Dydd Mawrth, am 2, gweddiodd y brawd Wm. Richmond, Blakeley; a phregethodd y brodyr T. Roberts a W. Morgan; Act. 8. 19; Rhuf. 10. 13.

Am 6, gweddiodd D. Evans; pregethodd y brodyr M. J. Williams a J. P. Harris, oddiar 1 Ioan 1. 3; Ioan 14. 6.

*Scranton.*

Hyd. 22, nos Fercher, am 6, dechreuwyd yr addoliad drwy ddarllen a gweddio gan T. Roberts; pregethodd y brodyr D. Evans a W. Morgan; Math. 25. 10; 1 Thes. 5. 6.

* Hwyrach y gwna y Parch. M. J. Williams, neu y Parch. R. Littler roddi braslun o'r cynllun i'r cyhoedd drwy y Seren Orllewinol.—Ysg.

Dydd Iau, am ddeg, gweddiodd y brawd J. P. Harris; pregethodd y brodyr T. Roberts a M. J. Williams, oddiar Sec. 13. 1. a Heb. 12. 22—24.

Am ddau, gweddiodd y brawd John Jones, Carbondale; a phregethodd y brodyr D. E. Bowen a J. P. Harris, oddiar 1 Ioan 1. 7; a Heb. 12. 2.

Am chwech, gweddiodd y brawd Thomas Cheshire, Dunmore; pregethodd D. Evans a W. Morgan; Dat. 22. 1: Ioan 11. 35, 36.

*Pittston.*

Hyd. 24, nos Wener, am saith o'r gloch, gweddiodd y brawd T. Roberts; pregethodd y brodyr John Jones, Carbondale, a M. J. Williams; oddiwrth Rhuf. 1. 16; Esay 53. 10, 11.

Dydd Sadwrn, am ddau, gweddiodd Wm. R[illegible]nd; pregethodd T. Roberts, a J. P. Harris; Ioan 16 28; 2 Cor. 5. 4.

Am chwech, gweddiodd Thos. Cheshire; pregethodd D. Evans a W. Morgan; 2 Cor. 9. 15; Eph. 3. 8.

[illegible]th, am ddeg o'r gloch, gweddiodd y [illegible] Wm. R. Jones, Dunmore; pregethodd [illegible] J. P. Harris a M. J. Williams; Ioan [illegible] Rhuf. 6. 23.

A[illegible] Iau, gweddiodd y brawd Ebenezer Edwards, Cincinnati; pregethodd y brodyr D. Evans, Summit Hill, a D. E. Bowen, Carbondale, oddiar Luc 15. 3—7; a Math. 8. 11, 12.

Am chwech, dechreuwyd drwy ddarllen a gweddio gan y brawd Benjamin Bowen; a phregethodd T. Roberts a W. Morgan; Gal. 6. 7, 8; Eph. 2. 8.

Dysgwyliwn glywed fod cynyrch mawr yn canlyn yr hâd da a hauwyd yn y cylchoedd a nodwyd. Gan fod y ddaear yn dymherus, pelydron haul y cyfiawnder yn gwresogi, a'r gwlith yn disgyn ar yr etifeddiaeth, o ganlyniad ein llawenydd yn y misoedd dyfodol fydd cael ar ddeall fod yr Iesu yn gweled o'i hâd, llafurwaith ei weision yn cynhyrchu ffrwyth, ac ewyllys yr Arglwydd yn llwyddo yn ei law ef. Poed felly. Amen.

J. P. Harris, *Ysgr.*

---

**GENEDIGAETHAU.**

Yn Minersville, ger Pittsburg, Hydref 9, 1851, ganwyd Robert, mab Henry a Catherine Morris.

Boed iddynt ei fagu yn fwynaidd,
  Yn llunaidd, 'nol trefn eu tad,
Yr hwn sydd trwy drefn Rhagluniaeth
  A'i gleddyf yn gloywi pob gwlad;
Gwnant ddysgu eu mab idd ei ofni,
  A'i barchu tra byddo ef byw,
Trwy ganlyn ei gamrau'n ddifline,
  A chofio mai doniol yw Duw.

*Pittsburg.* Ei Dad-cu.

---

**PRIODWYD—**

Hydref 28, gan y Parch. Thos. Ll. Davies, Caerefrog Newydd, Mr. — Thomas, Brooklyn, a Miss Jane Richards, Utica.

Yn Pottsville, Tach. 8, gan y Parch. Wm. Morgan, Mr. Evan Price, a Mrs. Mary Green, y ddau o Tremont.

Tachwedd 3, yn nhŷ Mr. Thos. A. Jones, Scot, Luzerne Co, Pa., gan yr Ynad Sumling, y Parch. Wm. Richmond, Blakeley, a Miss Sarah Parry, Scot.

---

**MARWOLAETHAU.**

Hyd. 4, yn St. Clair, ger Pottsville, Pa., Isaac, mab Joshua a Mary Williams, yn 5 mlwydd, 4 mis a 3 diwrnod oed, o'r dwymyn dyphoid.

Hyd. 28, ger Minersville, Pa., Anne, merch i George a Margaret Price, yn ddwy flwydd a 7 mis o'i hoedran. Graddol ddihoenodd yr enethig fechan, a daearwyd hi ar y 30ain, yn nghladdle y Bedyddwyr Cymreig yn Minersville. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. P. Harris.

Dweyd trwch a duwch y tro—nis gallwyf,
  Nes colli fy eiddo,
  Byw ydyw y galaeth, heb dô,
  Tristwch a daenodd drosto.

Haelfryd Fardd.

Yn Birmingham, ger Pittsburg, Gorph. —' Evan Williams, yn 56 mlwydd oed. Cafodd y trengedig ei gystuddio dros ysbaid tair blynedd, a gadawodd weddw a phedwar o blant i alaru ar ei ol. Yn ei gystudd bu y cyfundeb Odyddol yn gymwynasgar a charedig iawn iddo ef a'i deulu. Profasant eu hunain yn deilwng o'u proffes, amgeleddasant y cystuddiedig, cysurasant y weddw, ac a noddant yr amddifaid. Yr oedd yr ymadawedig mewn dyled, ac mewn perygl o golli yr ychydig feddiannau a gasglodd ynghyd drwy ymdrech a diwydrwydd hir flynyddau. Y ddyled ar *broperty* Mr. Williams ydoedd $240. Aeth y frawdoliaeth Odyddol at eu gwaith, ac erbyn dydd claddedigaeth gwrthddrych y byr-gofiant hwn yr oeddent wedi llwyddo i gasglu yn eu plith eu hunain y swm o $252 12½; ac felly yn alluog i sicrhau y meddiant i'r weddw a'r amddifaid, a'i drosi iddynt yn rhydd oddiwrth bob gofynion. Onid yw hyn yn deilwng o efelychiad cymdeithasau a broffesant eu bod yn elusengar a haelfrydig? onid "crefydd bur a dihalogedig gerbron Duw a'r Tad yw hyn: ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd?" Yr oedd Mr. Williams yn grefyddwr diwyd a selog—gwisgodd am dano yr Arglwydd Iesu Grist yn y bedydd—eto ni ddiangodd heb stormydd a chroeswyntoedd yn nhaith yr anialwch. Hyderwn fod palmwydd buddugoliaeth yn ei law heddyw ar heuldir anfarwoldeb.

Boed llwyddiant i'r undeb Odyddol,
  Yn rasol i wneuthur ei rhan,
I wella archollion hen angeu,
  Hyll friwiau y gweddwon a'r gwan.
Dail gwyrdd-las cyd-deimlad Odyddiaeth,
  Ynt addurn ei choron heb gêl;
A chariad yn rhwymun yr undeb,
  Elusen yn argraff ei sêl.

Cyfrinwr,
*Wrth fyned heibio.*

Medi 13, yn Brooklyn, C. N., Joseph Ingram Jones, Ysw., gynt o Albany, ond genedigol o swydd Frycheiniog, D. C.

Yn Birmingham, ger Pittsburg, Hydref 20, Mrs. Mary Jones, priod David Jones, saer, yn 44 mlwydd oad. Ei chlefyd oedd y darfodedigaeth. Hi a'n gadawodd mewn gobaith am fywyd gwell. IORWERTH.

Yn Freedom, Cataraugus, ar y 7fed o Fedi. Mrs. Ann Williams, yn 48 mlwydd oed. Ganwyd yr ymadawedig yn Melin-y-cwm, plwyf Troed-yr-aur, Ceredigion, yn mis Awst, 1803, Ei rhiaint Mr. James James, a Mary ei wraig, oeddent aelodau parchus o eglwys y Trefnyddion Calfinaidd yn yr ardal hono, a dygasant eu merch i fynu yn ieuangc i ymuno â'r un cyfundeb. Yn 1823, ymunodd mwn priodas â Mr. Wm. H. Williams. Treuliasant amryw flynyddau yn Feliudre, swydd Benfro. Oddiyno yr ymfudasant i America yn y fl. 1837. Ymsefydlasant yn Farmersville, Cataraugus, lle y mwynasant lawer o wenau Rhagluniaeth, pan yn byw ar dyddyn eang o'r eiddo eu hunain, a thyma y lle yr ymunodd ein hanwyl chwaer â'r Bedyddwyr, yn y gwanwyn diweddaf. Symudasant i Freedom er mwynhau breintiau crefyddol yn yr iaith Gymraeg. Yn mis Mawrth diweddaf dechreuodd ei iechyd waethygu, a pharhaodd a chynyddodd ei hanwyldeb hyd ddydd ei hymddattodiad, pan y gorphenodd ei gyrfa ar y llawr, ac yr huuodd ar fynwes yr Iesu. Gadawodd briod tyner a naw o blant hoff mewn galar dwys. Y dydd canlynol ymgynnullodd tyrfa luosog iawn i hebrwng y corff i dŷ ei hir artref, pan y pregethodd yr ysgrifenydd oddiwrth Salm 16. 11. Bydded i'r hwn a roddodd ac a gymerodd gynnal a chysuro y teulu galarus.

WM F. PHILLIPS.

Ar y 1af o Hydref, yn yr un lle, yn 47 ml. oed, Miss Sophia Morgan, yr hon a ddaeth i'r wlad hon yn Mehefin diweddaf mewn iechyd ragorol, a pharhaodd felly hyd o fewn dwy neu dair wythnos i'w marwolaeth. Mwynhaodd grefydd mewn bywyd, a gobeithiwn yn angeu hefyd. Ar y 3ydd, cynnullodd llawer o'n cyd-genedl ynghyd, er claddu y marw, y rhai a anerchwyd gan y brawd Wm. F. Phillips, oddiwrth Luc 12. 40.

Sabboth, Hydref y 5ed, yn 31ain oed, yn nhŷ Mr. Thomas Davies, Cambrian Hall, No. 10 Pine Street. Philadelphia, un o'r enw Thomas Haddock, Cymro. *Pudler* oedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn enedigol o Pentrebach, ger Merthyr Tydfil, swddd Forganwg. Ni pharhaodd ei ymdrech olaf dros saith mynud, oblegyd torodd ei waed allan, a bu farw yn mhrechiau gwr y tŷ. Yr oedd ar ei fynediad i'r hen wlad, i ymweled â'i anwyl wraig a'i ddau blentyn, pa rai sydd erbyn hyn yn galaru o herwydd ei golli. Am hyny byddwn ninau barod, &c. T. DAVIES.

Ar y 9fed o fis Ebrill diweddaf, yn Sugar Creek, Pa., Mr. John Vintin, yr hwn a fu yn weinidog gyda y Bedyddwyr am flynyddau. Genedigol oedd o Ferthyr Tydfil. Bedyddiwyd ef yn y Capel Isaf, gan y diweddar Barch. Morris Jones. Nid wyf yn gwybod nemawr am dano am dymor blaenaf ei fywyd. Pan adnabyddais ef, yr oedd yn oruchwyliwr ffwrnesiau haiarn Syrowy, swydd Fynwy. Yr amser hwnw neillduwyd ef yn fugail ar eglwys Bethlehem, Llanelli, swydd Frycheiniog, a bu yn dra defnyddiol yno am amryw flynyddoedd; a gellir dywedyd ei fod yn sefyll yn un o rai uchaf a mwyaf cymeradwy o weinidogion cymanfa Mynwy ar ei ymadawodd o'r hen wlad. Yr oedd yn bregethwr doniol, ac mewn cyfarfodydd diwygiadol yr oedd yn hynod lafurus, a llwyddodd yr Arglwydd ei ymdrechiadau i ddwyn lluoedd ato ei hun. Dangosai fod achos yr Arglwydd yn agos at ei galon. Fel cyfaill yr ydoedd yn hollol gywir a diragrith; ac nid oedd un amser yn caru dywedyd yn ddrwg am neb. Fel dyn yr oedd o dymer dyner a charedig, yn well ganddo roddi na derbyn fynychaf. Ond heddyw gorwedda ei gorff yn y gwely oer mewn gwlad estronol. Ei soniarus lais a ddistawodd, a'i degwch a ddarfu yn y bedd. Da oedd genyf gael ar ddeall gan y rhai oedd gerllaw iddo pan yn wynebu y glyn fod arwyddion fod ei draed ar y graig, a'i enaid yn nghafael y Ceidwad a gyhoeddodd i eraill. Gadawodd weddw ac amddifaid i alaru am dano, fel y deallwyf yn hollol dlawd, wedi eu darostwng o sefyllfa gysurus ac uchel i sefyllfa o dlodi, heb neb yn y byd hwn i ofalu am danynt. Gobeithiaf na chaiff fod eisiau arnynt, ac y bydd llaw a chalon eu cydgenedl yn agored i'w cynorthwyo. THOS. LL. DAVIES.

*New York.*

O. Y. Dymunir ar y Parch. H. Powell, gweinidog y T C. yn Cincinnati, gyhoeddi y bregeth a draddododd yn ei gladdedigaeth yn un o'r cyhoeddiadau Cymreig.—T. LL. D.

Hydref 1, 1851, yn Cendleton. Perry Co., Ind., John Protheroe, yn ei 25ain mlwydd oed. Mab ydoedd i Dafydd ac Anne Protheroe. Ganwyd ef yn Nghwmcelyn, ger Nantyglo, yn y flwyddyn 1826. Treuliodd y rhan fwyaf o'i dair blynedd diweddaf yn y lle hwn, (Coalport, O.,) ac ymadawodd oddiyma oddeutu y 13eg o Awst, ac aeth ef a chyfaill iddo i St. Louis, lle y cymerwyd hwy eill dau yn glaf. Dychwelasant yn ol i Cendleton, lle y bu farw John heb un berthynas yn agos ato, a'i unig gyfaill yn gorwedd yn ei ymyl, heb allu roddi un cymhorth iddo. Gadawodd dad tyner a dau o frodyr yn y lle hwn, ac un yn Minersville, i alaru ar ei ol. Hefyd, y mae llawer o'i berthynasau eto yn Nghymru, y rhai a deimlant o herwydd ei farwolaeth. Ei glefyd oedd y dwymyn geriaidd (*billious fever*), ond trodd yn dwymyn enynawl (*inflamation.*)

*Coalport, O.* DAVID D. PHILLIPS.

Hyd. 14, yn Tamaqua, swydd Schuylkill, Pa., yn 30ain mlwydd oed, Catherine, priod Joseph Protheroe, y rhai oeddent newydd ymfudo i'r lle hwnw o Gymru. Yr oedd y drengedig yn enedigol o'r Maesteg, ac yn ferch i Mr. John Powell, Blaengwrelych. o'r lle hwnw. Yr oedd yn aelod gyda y Bedyddwyr, ac fel y clywsom yn addurn i'w phroffes. Gadawodd briod a dau o blant. Yr oedd yntau hefyd yn gorwedd yn glaf yn amser ei marwolaeth, wedi ei gymeryd ar y dechreu gan glefyd y môr.

Ar y 18fed o'r cynfis, yn ninas Pittsburg, Mrs. Elizabeth Sanders, priod Mr. Thomas Sanders, o'r ddinas uchod. Aeth yr ymadawedig trwy gystudd blin ac hirfaith, dyoddefodd yn amyneddgar, gan ymorphwys ar addewid yr hwn a ddywedodd, "Ni'th roddaf di i fynu ac ni'th lwyr adawaf chwaith."

Mewn cyfarfod rheolaidd o Gyfrinfa Gomer, Rhif. 64, I. O. of O. F., dangosodd y Frawdoliaeth Odyddol y cydymdeimlad dwysaf â'r brawd Sanders yn ei alar a'i ymddifadrwydd o gydmares bywyd; a phasiwyd penderfyniadau teilwng o Odyddiaeth, yn amlygu cydymdeimlad cyffredinol y gyfrinfa yn ngwyneb y tro. ALLTUD.

Tach. 11, yn Utica, yn 30 mlwydd oed, y Parch. Enoch Samuel, gweinidog gyda y T. C. yn y ddinas hono.

SYMUDIAD GWEINIDOG.—Mae y Parch. Ebenezer Edwards wedi roddi gofal yr eglwys yn Pittston, Pa., i fynu, ac wedi derbyn galwad y Bedyddwyr Cymreig yn Cincinnati. Symudodd ef a'i briod yno o'r Gymanfa ddiweddaf.

## DAWAIN ALAETHUS.

Un o'r amgylchiadau mwyaf truenus a glywsom erioed am dano a gymerodd le yn Nghaerefrog-Newydd prydnawn dydd Iau, yr 20fed o'r cynfis, trwy yr hyn y collodd tua 48 o blant eu bywydau, ac y clwyfwyd 70 eraill, rai o honynt yn farwol. Yr oeddent yn yr ysgoldy newydd yn Greenwich Avenue, pan y codwyd y cri fod yr adeilad ar dân. Gyda hyn rhuthrai pawb tua'r drysau. Rhoddodd *bannister* y grisiau ffordd, a syrthiodd y plant yn garnedd i lawr tua 40 troedfedd o ddyfnder, yr hyn a achosodd y difrod tor-calonus a nodwyd!! Yr oedd yn olygfa alaethus, tu draw i ddarluniad! Llefau y dyoddefedigion bychain (y rhan fwyaf o chwech i wyth mlwydd oed), yn gymysgedig â lleisiau truenus mamau calon-dyner a ddysgwylient am eu plant, a rwygent bob teimlad.

## Y GOLOFN GENEDLAETHOL.

Nos Fercher, Hyd. 29, ymgasglodd nifer o'n cydgenedl ynghyd yn yr addoldy Cymreig, ar gongl Heol y 12fed a Filbert, Philadelphia, i'r dyben o gael gwybodaeth helaethach o syniadau Cymry y ddinas hono ynghylch gosod *maen* i gynrhychioli ein cenedl yn y *Golofn Wladwriaethol yn mhrif ddinas y weriniaeth;* ac i fod yn goffadwriaeth oesawl o'n parch fel cenedl i rhinweddau godidawg a rhinweddau mawreddawg yr anfarwol GEO. WASHINGTON.

Ar gynnygiad Mr. David Jones, dewiswyd Mr. Walter W. Walters yn Gadeirydd; ac ar gynnygiad Mr. Walters penodwyd Mr. Elias Edwards yn Ysgrifenydd. Darllenwyd a phasiwyd y Blaendraeth a'r Penderfyniad canlynol:—

*Yn gymmaint* a'n bod ni, dinasyddion Cymreig yr Unol Dalaethau yn preswylio yn Philadelphia, wedi cael ar ddeall fod amryw o'n cydwladwyr yn Utica, yn nhalaeth Caerefrog-Newydd, wedi ffurfio eu hunain yn Bwyllgor Canolbarthol, i'r perwyl o dderbyn cyfraniadau tuagat brynu maen, a chael yn gerfiedig arno argraff briodawl er coffadwriaeth o'r Cymry fel cenedl, idd ei gosod yn y Golofn Wladwriaethol, yn mhrif ddinas y weriniaeth, —ac yn gymmaint a'n bod ni, y Cymry yn Philadelphia a'r gymmydogaeth, yn teimlo serch neilldnawl yn y symudiad gwiwglodus hwn,—am hyny

*Penderfynwyd*—Fod y personau canlynol i dderbyn cyfraniadau—Mr. Elias Edwards, Mr. Richard Griffiths, Mr. David Moses; Mr. Jones; Mr. John Griffith; Mr. Jas. Williams, a Mr. David Williams. A bod i'r holl arian a dderbynir i'r perwyl hwn gael ei roddi yn nwylaw Mr. David Williams, gyda chyfarwyddyd idd eu danfon i'r Pwyllgor Canolbarthol yn Utica.

Yna galwodd y Cadeirydd ar Mr. Richard Griffiths i anerch y cyfarfod yn yr iaith Saesnaeg. Daeth Mr. Griffiths yn mlaen, a thraddododd araeth oleu a medrus. Rhoddodd hanes sefyllfa y Cymry yn amser Edward I., ac o dan deyrnasiad gormesawl tywysog cyntaf Cymry. Yna galwodd y Cadeirydd ar Mr. David Griffiths i anerch y cyfarfod yn Gymraeg, yr hyn a wnaeth yn fedrus ac yn fywiog. Dangosodd Mr. Griffiths yn oleu, ac mewn faith rymus y creulonderau a arferid, a'r deddfau gorthrymawl â pha rai y llethid y Cymry, druain, er amser Edward y Cyntaf hyd yn bresennol. Dangosodd y gwahaniaeth dirfawr rhwng sefyllfa y Cymry yn America a'r hyn ydoedd arnynt yn yr hen wlad; a chan ein bod yn mwynhau rhagorfreintiau crefyddol a gwladwriaethol mwy godidawg yn y wlad hon na'r hyn oeddem yn fwynhau pan yn ngwlad ein genedigaeth, ei fod yn ddyledswydd arbenig ar Gymry America i ddyfod allan fel un gwr o blaid y symudiad gwiwglodus hyn, sef roddi maen yn y Golofn Wladwriaethol er parch oesawl i goffadwriaeth yr anfarwol George Washington, tad ei wlad,—y gwr a neilldnodd Duw i fod yn offeryn yn ei law i ddyogelu i ni y rhyddid anrhydeddus ydym yn awr yn ei fwynhau.

Er fod yr hin yn anffafriol iawn i amryw ddyfod allan, eto cawsom gyfarfod hyfryd a dyddorawl iawn; ac er nad ydym yn lluosog o ran nifer, nac yn gyfoethog o ran pethau y

byd hwn, er hyny cyfrauodd y rhan fwyafyn ol eu gallu, a hyny yn llawen. Casglwyd o gylch deugain doler ($40.)

*Philadelphia.* ELIAS EDWARDS, *Ysgr.*

## HANESIAETH DRAMOR.

### PRYDAIN FAWR, &c.

Cawsom y newyddion diweddaraf gyda yr Affrica, yr hon a adawodd Liverpool Tach. 8.

Yr hyn sydd yn dwyn fwyaf o sylw papyrau Lloegr yw dyfodiad yr arwr enwog Louis Kossuth, diweddar lywydd Hungary, i'r wlad hono, ar ei daith i America, ar ol ei gaethiwed yn Nhwrci. Groesawyd ef gyda llawer o orwychder yn Southampton, Liperpool, Llundain, a manau eraill. Bwriadai adael Southampton ar y 14eg, yn y Washington ar ei fordaith i America.

Y CYNHAUAF.—Y mae y tywydd wedi bod yn hynod o ffafriol eleni i gasglu y llafuriau i ddiogelwch. Y mae golwg lled dda ar y cyfan ar y cnydau. Cwyna rhai nad yw y gwenithau mor llawned eu pen ag ar flynyddau blaenorol, tra y maent gydag ereill yn llawn cystal. Ond gwelwyd blynyddau cynarch.

### FFRAINGC.

Yn ddiweddar roddodd y weinyddiaeth Ffrengig eu swyddau i fynu ar unwaith, yr hyn a gymeradwywyd gan y Llywydd; a chafodd beth trafferth i ffurfio gweinyddiaeth newydd. Dywedir mai yr achos o'r anghydfod oedd, fod y Llywydd yn penderfynu cynnyg diddymiad cyfraith yr 31ain o Fai, yr hon a gyfyngai yr hawlfraint etholiadol, ac adnewyddu drachefn bleidleisiaeth gyffredinol, yn unol â chyfansoddiad y weriniaeth. Dylis mai amcan Louis Napoleon yn hyn, ydyw enill cefnogaeth y gwerinwyr i'w adethol ef i'w swydd yn Mai nesaf; ond tybir gan rai ei fod wedi aros yn rhy ddiweddar i fedru llwyddo yn ei amcan, gan fod diddymiad yr hawl-fraint hono, drwy ei annogaeth ef, wedi rhoddi tramgwydd mor fawr i'r wlad, fel nas gall ei ddyfais bresenol lwyddo i'w symud; tra yr haera erell y gwnai diddymiad y gyfraith hono ddyogelu ei ad-etholiad.

### AWSTRIA.

Yn ol llythyr cyhoeddedig yn un o newyddiaduron Ffrankfort, y mae llywodraeth Awstria, er amlygu ei hanfoddlonrwydd at Twrci am ryddhau Kossuth, yn mynu iawn gan ymerawdwr Twrci, am yr erledigaeth a fu ar Gristionogion yn nhaleithau Bosnia a Herzegovine; ac er gosod y penderfyniad mewn gweithrediad, cynullir byddinoedd ar gyffiniau Twrci yn Crotia a Herzegovine. Gan ddarfod i'r Twrc wneud hyny drwy anogiad Lloegr a'r Unol Daleithiau, odid na safant yn gefn iddo yn ngwyneb bygythiadau Awstria. Gan nas gallai y gweinidog Awstraidd brofi ddarfod i'r Twrc dori ei amodau âg Awstria, yn ei waith yn gollwng y carcharion Hungaraidd o'i wlad, y mae yn awr yn cymeryd achlysur arall i dynu cweryl ag ef.

### TWRCI.

O dan weinyddiaeth llywodraeth yr Aipht gan y diweddar Mehemet Ali Pacha, Ibrahim Pacha, ac yn enwedig gan Abbas, Parthlywydd presenol yr Aipht, y mae y trawsfudiad drwy yr Aipht wedi cael ei gadw a'i wella yn fawr, ac y maent wedi myned i lawer [illegible] mwy o gost nag sydd eisioes wedi ei [illegible] oddiwrtho. Penderfynodd y Parth[illegible] presenol i wneud reilffordd drwy yr A[illegible] yr oedd wedi gwneud cytundeb â Mr [illegible] Stephenson, ac wedi ceisio gwerth 2[illegible] o ddefnyddiau at yr amcan. Ond yn [illegible] mae y llywodraeth Dyrcaidd yn hon[illegible] roi terfyn ar yr holl amcan. Hona [illegible] llywodraeth Twrc, nad oedd gan Bart[illegible] yr Aipht yn ol telerau 1841, hawl i wneud y reilffordd heb ofyn caniatâd y Sultan. Modd bynag, y mae yn bur debyg y ceir y caniatad ond ei geisio, ac y gorphenir y reilffordd.

### ITALI.

Gohebydd o gyffiniau Itali, mewn llythyr i un o'r newyddiaduron Ffrengig, a ddywed nad oes bellach un amheuaeth mewn perthynas i ymadawiad y fyddin Ffrengig o Rufain. Ac ychwanega, "Ni raid i chwi ryfeddu os clywch yn bur fuan, fod y Pab wedi rhoddi ei hunan o dan darian amddiffynol yr Awstriaid yn Bologna."

Yr oedd ymerawdwr Awstria, Hydref diweddaf, ar daith ymweliadal âg amrywiol o'i daleithiau yn Itali. Yn Milan, cafodd aelodau y gorffolaeth ddinasol osod ger ei fron eu cwynion a'u deisyfiadau. Yn mysg pethau ereill, gofynent am adferiad y Gymanfa, fel yr oedd yn Mawrth, 1848. Rhoddai yr ymerawdwr wrandawiad astud iddynt, a lled addawai ganiatâu eu cais.

### AWSTRALIA.

Y mae yr hanesion o'r mwngloddiau aur yn bur ffafriol, er fod llawer wedi gorfod atal gweithio o herwydd gerwindeb yr hin. Y mae llawer o fanau newydd wedi eu darganfod lle mae aur i'w gael, ac y mae cochemau (*rubies*) wedi eu cael hefyd yn yr un gymydogaeth. Y mae aur wedi ei gael mewn lle a elwir Story Creek, O'Connell, Plains, deng

milltir ar ugain i'r de o Bathurst. Nid oes dim amheuaeth, yn wir, nad ydyw yr holl gymydogaeth yn faes euraidd helaeth. Dywedir hefyd fod pob lle i feddwl fod Port Philip yn llawn mor gyfoethog o aur ag unman. Y mae dynion yn dylifo o bob man i'r mwngloddiau auraidd, ac ofnir y bydd yn anhawdd cael bugeiliaid i wylio y defaid, gan fod y cyfryw yn cael fod cloddio am aur yn orchwyl mwy enillgar.

### PENRHYN GOBAITH DA.

Y mae hysbysiadau o'r Penrhyn yn ein hysbysu am ddifrodiadau ac ysbeiliadau y Caffrariaid ar drigianwyr y cyffiniau. Ysgubir ymaith ddefaid, gwartheg, a cheffylau, neu ynte fe'u lleddir,ac y mae bron yr holl ffermdai ar y cyffiniau wedi eu llosgi i'r llawr. Dywedir fod y fyddin Brydeinig yn bur anniddig yn eu cyflwr presenol, ac y maent yn cyfyngu eu hunain at hunan-amddiffyniad yn unig.

Yn ol y newyddion diweddaraf, dywedir fod byddin o dau lywyddiaeth y Rhaglaw Burne wedi cael ymosod arni gan y Caffariaid, ac mewn rhan wedi ei gorchfygu: lladdwyd pedwar, a chlwyfwyd saith ar ugain. Dywedir hefyd fod y byddinoedd Prydeinig wedi cael eu gorchfygu yn y Fish River Bush, ac yr oedd yr anniddigrwydd yn debyg o ymledu, oblegid ofnid y byddai yr holl lwythau yn debyg o ymuno "i ymlid y dynion gwynion i'r môr." Dywedir hefyd fod Syr Harry Smith yn gofyn ar fod i'r llywodraeth ddanfon allan 10,000 o wŷr yn ddioed er ei alluogi i gyfarfod â'r gwrthryfelwyr, a rhoi terfyn ar y rhyfel.

## TYWYSOGAETH CYMRU.

Sefydliad Cymroaidd y Mud a'r Byddar.—Dydd Iau, Hyd. 18, y cyfarfod blynyddol o dansgrifwyr a chyfeillion y sefydliad rhagorol hwn a gynnaliwyd yn Abertawy. J. H. Vivian, Ysw., A. S., yn y gadair. Yr oedd nifer fawr o foneddigesau yn bresennol. Dengys y mynegiad fod y drysorfa mewn sefyllfa ddymunol, a bod y flwyddyn ddiweddaf wedi bod yn un o lwyddiant mawr.

Agoriad Cledrffordd Dyffryn Nedd.—Y mae yr agoriad uchod o'r diwedd wedi cymeryd lle, er cymmaint o oedi a fu arno.—Dydd Mawrth, y 23ain o Fedi y bu hyn. Yr oedd yn ddydd o lawenydd mawr. Am 10 yn y boreu, yn nghanol rhu cyflegrau, daeth cerbydres yn addurnedig â blodau, llumanau, &c., yn barod i gludo y rhai oedd wedi bod mor hapus a chael tocynau i fyned am y tro cyntaf o Gastellnedd i Aberdar. Yr oedd 4000 o blant o wahanol ysgolion o dan arweinyddiad y Parch. H. H. Knight, yn bresennol ar gychwyniad y gerbydres i Aberdar.

Yr Eisteddfodau.—Dyddiau yr eisteddfodau yw yw y rhai yma Y mae dwy wedi eu cynnal yn ddiweddar, un yn Nowlais, o dan nawdd yr Arglwyddes Guest: a'r llall yn Nhremadog, o dan nawdd Arglwydd John Russell, ac enwogion eraill. Buasai yn hoff genym osod hanes gweithrediadau y cyfarfodydd hyn gerbron ein darllenwyr pe byddai ein dalenau yn caniatau, ond nid ydynt. Y maent wedi eu cyhoeddi yn llawn yn y rhifynau diweddaf o'r Drych.

Eisteddfod Madog.—Deallwn y cyhoeddir cyfansoddiadau buddugol Eisteddfod Madog yn ddioed. Ymddangosant mewn rhifynau chwe cheiniog, ac addewir y byddant yn rhad ac yn brydferth.

Y Banciau.—Mae methiant ariandai Morganwg a Mynwy, a hen ariandy Caesnewydd ar Wysg wedi achosi cyfyngder masnachol ac arianol mawr yn swydd Fynwy. Y mae hyn yn dra anffodus ar ddynesiad y gauaf, ac ar adeg pan yr oedd masnach yr haiarn mor farwaidd. Bernir yr andwyir lluaws o randalwyr yr ariandy cyntaf. Yn mysg y rhandalwyr, cyfarfyddir âg enw Cardinal Wiseman, yr Esgob Ulathorne, Dr. Walsh, ac offeiriaid Pabaidd ereill. Bernir fod y dyledion dros £400,000 yn fwy na'r eiddo. Meddiant personol Mr. Williams a'i feibion oedd yr hen ariandy.

### PRIODASAU.

Hyd. 7, yn Methlem, Llanelli, gan D. Davies, gweinidog, Benjamin Williams, Darenfelen, â Jane Hughes, Llanelli.

Hefyd, yn yr un lle, ac ar yr un amser, Thomas Bodinham, â Maria Jones, y ddau o'r Darenfelen.

Yr un dydd, yn Blaenconin, Dyfed, gan y Parch. O. Griffiths, gweinidog y lle, a cherbron Mr. Griffiths, y Cofrestrydd, Thomas Evans, Crugyderi, â Catharine Llewelyn, Dyffrynconyn.

### MARWOLAETHAU.

Ar y 12fed o Hydref, bu farw y Parch. Enoch Williams, A. C., diweddar weinidog y Bedyddwyr yn Mount Pleasant, Abertawy, yn y 43 flwyddyn o'i oedran, gan adael gweddw alarus a dau o blant ar ei ol.

Boreu dydd Mawrth, Gor. yr 8fed, bu farw Mrs. Mary Taylor, o arwydd y Red Cow, Dowlais, anwyl wraig y brawd William Taylor, un o ddiaconiaid hynaf eglwys Crist yn Nghaersalem. Oedran ein diweddar chwaer, pan fu farw oedd 67, treiliodd 47 o'r blynyddoedd hyn yn wasanaethgar gyda chrefydd.

Hydref 16, Mrs. Eliza Lewis, gwraig Chas. Lewis, Pontymoel, ger Pontypool, un o ddiaconiaid, Sion, Trosnant. Yr oedd yr hen chwaer yn fwy hwylus nag arferol o ran ei hiechyd pan yn myned i'w gwely; ac mae yn ymddangos na fu ond ychydig fynudau wedi iddi orwedd, cyn iddo huno yn yr Arglwydd, yn ymyl ei gwr, ac heb yn wybod iddo.

Eto, yn yr un mis, bu farw W. Morgan, Pontymoel, un o hen wrandawyr yr efengyl, ond arosodd er ei fawr alar yn anufudd.

# ANERCHIAD Y GOLYGYDD

## AR DDIWEDD BLWYDDYN.

Fel y mae olwynion amser wedi dirwyn un flwyddyn eto o'n heinioes yn agos i derfyniad, teimlwn ein rhwymau i gydnabod Cyfranwr pob daioni am ei ofal a'i dynerwch tuag atom, yn arbed ein bywyd, a'n cynorthwyo i barhau yn ein hymweliadau misol â'n derbynwyr caredig hyd yn bresennol. Iddo Ef yn benaf y mae ein diolchgarwch yn ddyledus bob amser; ac hyderwn na bydd ein darllenwyr hoff yn anmharod i gyduno â ni pan yn talu teyrnged o fawl i'w enw gogoneddus ef am ei drugareddau a'i ryfeddodau i ni feibion a merched dynion.

Yr ydym hefyd, mewn modd parchus, yn cydnabod caredigrwydd ein cyfeillion ffyddlawn mewn gwahanol fanau, y rhai ydynt wedi dangos pob parodrwydd i gydymdeimlo a chydweithredu â ni yn ein llafur pan yn ymdrechu gwasanaethu ein cenedl, ac yn neillduol yr enwad crefyddol hwnw â pha un y meddwn yr anrhydedd o ddal cyssylltiad. Teimlwn ein hannigonolrwydd yn fawr i lanw y cylch ag ydym yn troi ynddo, ond y mae yn bleser genym wneud ein goreu i daenu gwybodaeth ac ymdrechu gyda phob gwaith ac achos da, hyd y nod pan fyddo anhawsderau a rwystrau lawer ar y ffordd.

Y mae y profiad a gawsom hyd yma gyda y Seren wedi dysgu i ni rai gwersi o barth y natur ddynol, nad ydynt hyfryd na dymunol i'r teimlad; ond gallwn ddywedyd nad ydym yn blino ar ein swydd a'n sefyllfa. Barnwn na allwn roddi ein Cyhoeddiad i fynu heb daflu cyfenwad y Bedyddwyr Cymreig yn yr Unol Dalaethau i raddau dan ddyryswch, o ganlyniad yr ydym wedi ymdrechu er ys blynyddau i wneud y Seren yn deilwng o gefnogaeth ein cenedl, er yr addefwn yn rhwydd y gallai fod yn llawer mwy dysglaer pe byddai cydweithrediad a ffyddlondeb cyffredinol o'i phlaid. Gwir fod nifer ein derbynwyr wedi ychwanegu peth ar ddechreu pob blwyddyn yn ddiweddar, ond y mae yr hen ddyled yn aros heb ei ddilëu, ac mewn rai manau y mae y taliadau yn mhell yn ol o'r dechreu hyd yn bresennol.

Deallwn fod y Cymanfaoedd a'r Cyfarfodydd Chwarterol diweddar wedi penderfynu cymeradwyo a chefnogi y Seren, a'n hannog ninau i barhau i'w chyhoeddi y flwyddyn nesaf. Ein gobaith a'n dysgwyliad oedd y gallem ryddhau ein dwylaw oddiwrth yr *anturiaeth* o'i chyhoeddi gydag ymddangosiad y rhifyn hwn (er y bwriadem gynnyg ein gwasanaeth i'w dwyn allan dros y perchenogion mewn amser dyfodol); ond gan fod y cynnygiad a wnawd yn ddiweddar gan ein brodyr yn swydd Oneida hyd yma heb ddyfod i weithrediad, yr ydym yn addaw ymdrechu ein goreu unwaith eto i leshau a boddio ein derbynwyr, gan obeithio na byddant hwythau yn ol o estyn i ni y gefnogaeth a farnont yn deilwng; ac yn neillduol dymunwn ffyddlondeb ein dosbarthwyr caredig. Gwyr cyhoeddwyr Cymreig America fod cael un dosbarthwr gweithgar a ffyddlawn yn fwy o werth na mil o benderfyniadau Cymanfaoedd neu gynhadleddau, pan na byddo unrhyw ymdrech pellach i gael ei gwneud i'w gosod mewn gweithrediad.

Er pan y mae gofal y Seren wedi syrthio i'n dwylaw yr ydym wedi ymdrechu hyd ag y medrem i gadw allan bob dadleuaeth [illegible] a diles, a chyfeiriadau personol allan o'i dalenau. Ystyriwn fod gormod o hyn wedi britho llenyddiaeth Gymreig, a'r canlyniad naturiol o hyny yw chwerwi teimladau, [illegible]ffodd cariad, a lladd cyfeillgarwch a chydweithrediad rhwng pleidiau a ddylent fod yn gyfeillion a chyd-weithwyr. Nid ydym yn gwybod fod neb wedi eu hennill odd[illegible] draddodiadau neu gyfeiliornadau trwy y fath fesurau. Er fod genym ein golygiadau a'n hegwyddorion neillduol, ni ddylem ormesu ar derfynau, na dolurio teimladau ein gilydd. Y mae y cyhoeddiadau a'r enwadau crefyddol eraill yn barchus ac anrhydeddus yn ein golwg, a chredwn mai hollol anweddaidd ac anfoneddigaidd yw i'r rhai aerddelant grefydd yr addfwyn a'r gystyngedig Iesu enllibio a gwawdio eu brodyr a ddichon fod yn methu cydweled â hwy yn eu golygiadau neillduol.

Dymunwn ar ein dosbarthwyr anfon atom mor fuan ag y medront pa nifer o dderbynwyr, &c., sydd ganddynt, fel y gallom ffurfio rhyw ddrychfeddwl pa fodd y byddwn yn sefyll erbyn dechreu y flwyddyn nesaf.—Nid ydym yn bresennol yn ymrwymo nac yn bwriadu parhau i gyhoeddi y Seren os na farnwn y gefnogaeth yn ddigon i'w gwneud i dalu ei ffordd. Daw rhifyn Ionawr allan yn yr amser arferol, a bydd ein derbynwyr yn debyg o wybod pryd hyny pa gynllun a fwriadwn ei fabwysiadu. Carem glywed oddiwrth ein dosbarthwyr a'n derbynwyr o wahanol o hyn i'r 25ain o'r mis. Gwyddom fod amryw fel ni ein hunain yn anfoddlon i roddi y Seren i fynu er dim.

Gan ddymuno pob llwyddiant i bawb a ddygant sêl dros y gwirionedd,

Y gorphwys yr eiddoch hyd drangc,

R. EDWARDS.

3 2044 072 025 364

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.